



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>


LEY  
ARY  
ITY OF  
RANIA




THE LIBRARY  
OF  
THE UNIVERSITY  
OF CALIFORNIA

BEQUEST  
OF  
MR. OWEN PRICE JONES











# CYMRU'R PLANT.

\*

CYFROL XII.

\*

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A.,  
RHYDYCHEN.

Y GERDDORIAETH DAN OLYGIAETH

L. J. ROBERTS, M.A., RHYL.



GWRECSAM :

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

1903.

X139

78A

~~v. 12~~

Small

**GIFT**



PB2101  
C8  
v. 12  
MAIN

## Rhagymadrodd i'r Ddeuddegfed Gyfrol.

**Y** MAE bywyd plant yn mynd yn fwy gwerthfawr bod dydd. Y mae dynol ryw yn gweld yn fwy-fwy eglur mai prif ddyledswydd dyn yw edrych ymlaen, yn wylaidd ond yn ddewr, i'r dyfodol. Y genedl rydd addysg i'w phlant, y genedl fedr roddi ffrwyth ei phrosiad i'w phlant yn ei hysgolion,—y genedl honno fydd byw. Y genedl ddydg ei phlant i wneyd gwaith da yn eu dydd, y genedl enfyn ei phlant yn gymwynaswyr i'r byd, nid yn oferwyr a segurwyr,—y genedl honno a saif.

Y mae'r cenedloedd yn dechreu deffro. Nid i ryfel y deffroant mwyach. Eu hawydd yw anfon eu plant i'r byd wedi cael gwell addysg na phlant eu cymydogion. Deallant erbyn hyn mai nid mlwr a magnel, ond gwybodaeth, sy'n allu. Ac ymysg y cenedloedd, y mae cenedl y Cymry yn dechreu aberthu er mwyn rhoddi addysg iawn i'w phlant.

Amcan y gyfrol hon yw cynorthwyo yn y gwaith mawr. Ceisiais roddi erthyglau tebyg o ddeffro meddwl yr ienanc. Rhoddais ambell erthygl a thipyn o waith meddwl i'w deall. Rhoddais aml ystori hawdd ei deall hefyd. Y

mae'r penhillion geir yma ac acw wedi eu dysgu ar dafod leferydd gannoedd o blant,—y mae'r bardd eto'n allu yng Nghymru, ac yn athraw galon.

Y mae'r llafur yn fawr, ond y mae cynhorthwy parod gan lu o ysgrifenywyr fedr ddenu plant i lwybrau hyfryd gwybodaeth. Ac y mae'r wobr yn dod gyda bod y gwaith o'n llaw,—sef gweled plant yn tynnu nerth at y dyfodol, gyda brwdfrydedd a mwynhad, o'r erthyglau, yr hanesion, y tonau, a'r penhillion a baratown iddynt.

Yr ydym yn edrych ymlaen gyda hyfrydwch at flwyddyn arall o wasanaeth. Bydd Miss Winnie Parry, yr ydym yn gobeithio, yn dal i ddadlennu tlyni a digrifwoh bywyd plentyndod; ac y mae rhai ereill, erbyn hyn, yn cerdded yn fedrus hyd yr un llwybrau a hi. Bydd Mr. H. Brython Hughes yn dal i ddweyd hanesion, wedi eu cael o bob rhan o'r byd, er dangos hynodion greddf a meddwl. Bydd Sigma yn gwneyd i'r creigiau, y môr, a'r cymylau adrodd eu hanes i blant. Daw Carneddog a chymdeithion difyr o'n cwmpas,—mae'r ddyllhuan a robin yn ymryson am gael ymddangos yn gyntaf i'r plant yn rhifyn Ionawr. Cawn fynd eto am wibdaith gydag Ifor a'i dad i Ynysoedd Mor y De. Bydd yr un beirdd yn canu hefyd. Rhoddir cyfres arall o ddarluniau i esbonio diwydiannau Cymru,—i ddangos sut y maent yn aredig yn Nyffryn Olwyd, yn pysgota yn nyffryn Teifi, yn gwylïo'r defaid ar y Berwyn, neu'n codi glo ym Morgannwg.

Onid bydd pethau newyddion hefyd. Ymysg cynnwys y gyfrol newydd bydd cyfres o erthyglau ar y testynau hyn,—

- I. Rhai o Gymry'r dydd,—Cymry y mae eu bywyd a'u gwaith yn gadael ol ar eu gwlad. Bydd darluniau ohonynt.
- II. Rhyfeddodau'r môr,—darluniau a darluniadau o'r llysiâu a'r pysgod rhyfedd sydd yn nyfnderoedd y môr.
- III. Braaluniau o hanes cenhedloedd y ddaear, fel y gwelo'r plant pa genhedloedd sy'n debyg i'w cenedl hwy.
- IV. Cyfres o hanesion bychain a wna'r tro i ddyysgu Cymraeg ar yr aelwyd gartref neu yn yr ysgol.
- V. Ysgrifau gan athrawon profedig, i' ddweyd sut i wneyd addysg yn ddyddorol i blant Cymru.
- VI. Ystori,—“Fe ddaw Llywelyn eto'n ol.”

Trwy gael ehangu cylchrediad CYMRU'R PLANT y medrwn wneyd mwyafr o waith newydd. Nid oes gennym neb, na sefydliad, y medrwn ddisgwyl eu cymorth ond y rhai sy'n derbyn CYMRU'R PLANT yn barod. Gyfeillion ffyddlon, a wnewch chwï helpu trwy gael rhai ereill i'w dderbyn? Mae'r croeseaw'n cynhesu o hyd. Ond y mae ardaloedd eto nad yw wedi cael mynediad iddynt.

Bydded y flwyddyn newydd yn llawn o ddaloni i chwï i gyd.

OWEN M. EDWARDS.



## GYNHWYSIAD.

	TUDAL.		TUDAL.
<b>DIWYDIANNAU CYMBU,—</b>			
[Darluniau o wahanol ddiwydiannau, pwysig a dibwys, gan J. Thomas. Parheir y gyfres yn y gyfrol nesaf.]			
i. Pysgota (Traeth y Lafan) ...	2	clxvii. Bechgyn Llanbrynmair ...	48
ii. Porthmons (Llanfair Talhaiarn) ...	34	clxviii. Genethod Llanbrynmair ...	49
iii. Dysgu Plant (Drefnewydd) ...	66	clxix. Y Drefnewydd. "Ymlaen" ...	66
iv. Cludo (Cenarth: hen ddull) ...	98	clxx. Corris ...	120
v. Cludo (Aberdyfi: dull newydd) ...	112	clxxi. Carno ...	145
vi. Malu'r Graig (Llithfaen) ...	130	clxxii. Corris ...	152
vii. Cneffio (Trefaldwyn) ...	162	clxxiii. Llanarmon yn Ial ...	155
viii. Gweithwyr Clai (Towyn) ...	194	clxxiv. Sychtyn ...	223
ix. Dysgu Gweithio (Ysgol Llan-rwst) ...	258	clxxv. Caernarfon ...	249
x. Magu Gwartheg (Llanfair Caereinion) ...	290	clxxvi. Lerpwl ...	265
xi. Nyddu a'r droell fawr (Caerfyrddin) ...	321	clxxvii. Llundain ...	286
xii. Gwrteithio (Llanbrynmair) ...	354	clxxviii. Bro Hydref, yr Andes ...	386
		<b>CYMBU,—</b>	
		Cân y Fedwen Las ...	195
		Ein ty ni ...	227
		Pr Mynyddoedd ...	309
		Llanbrynmair ...	305
		Mynachlog Castell Nedd ...	388
		Tro Pr gors ...	202
		<b>CYMEU,—</b>	
		Ben Bowen ...	291
		Cantores o Fon ...	278
<b>PLANT CYMBU,—</b>			
clxv. Brynegwys yn Ial... ..	16		
clxvi. Nant, Llsyn... ..	28		

	TUDAL.		TUDAL.
		<b>GWTBODAU,—</b>	
D. Silvan Evans	... .. 208, 230	[Cyfres eto gan Sigma ar bethau o'n cwmpas. Darluniau gan yr awdwr.]	
Gwilym Pennant	... .. 27	i. Beth yw halen	... .. 14
Heth Jones	... .. 247	ii. Cerni'r gauaf	... .. 61
Llawdden, ei fedd	... .. 280	iii. Gwaith yr afonydd	... .. 104
J. Powell y Rhosdir	... .. 307	iv. Diffyg ar y lleuad	... .. 126
Joseph Parry	... .. 68, 158, 164	v. Gwaith rhew	... .. 135
Owen Garry-Jones	... .. 269	vi. Gwaith gwres	... .. 154
<b>HWIANGREDDI,—</b>		vii. Rhyfeddodau amser	... .. 214
Dydd Calan	... .. 82	viii. Rhyfeddodau gwyddoniaeth	... .. 239
Plant beirdd	... .. 252	ix. Beth ddywed y cymylau	... .. 299
<b>DADLEUON,—</b>		x. xi. Gwers ddirwestol	... .. 349, 372
i. Dadl y Ddarllenfa	... .. 52	xii. Beth ddywed y ddaear	... .. 365
ii. Dadl y Mor a'r Mynydd	... .. 189	<b>EIN CYFRILLION CYFFERDIN,—</b>	
<b>BYWYD PLANT,—</b>		[Erthyglau gan Carneddog, gyda darluniau o waith y beirdd Cymreig.]	
Can pen blwydd	... .. 235	i. Y Dryw	... .. 106
Can y cryd	... .. 119	ii. Y Fronfraith	... .. 169
Cydynddelmad	... .. 301	iii. Yr Aderyn Du	... .. 211
Dysgu gweithio	... .. 259	iv. Yr Ehedydd	... .. 227
Efn ty ni	... .. 227	v. Y Ceiliog	... .. 315
Excelsior	... .. 228	<b>BLODAU,—</b>	
Gofal mam	... .. 250	Blodau	... .. 128
Gwahoddiad i Lerpwl	... .. 253	Blodeuyn Ohwefrol	... .. 64
Gweddï plentyn	... .. 125, 186	Llygad y dydd	... .. 160
Gwobr y fam	... .. 357	Y rhosyn	... .. 178
Han fran y plant	... .. 182	<b>ADAR,—</b>	
Meg a Wil ty nesa	... .. 288	Bywyd colomenod	... .. 262
Mi hoffwn weled Mary	... .. 62	Croesaw'r wenod	... .. 181
Plant Bethania, Aberdar	... .. 213	Dyfodiad y gog	... .. 151
Profedigaeth Gwan Owen	... .. 370	Gwers yr ehedydd	... .. 180
Talu drwg am ddrwg	... .. 262	Iair	... .. 222
Tro yn fy hanes	... .. 276	Iair China a Japan	... .. 68
Win	... .. 326	Robin goch	... .. 226, 228
Y breuddwydwr bach	... .. 113	Robin goch a'r blodyn cyntaf	... .. 45
Y ddau bach smala	... .. 365	Y dryw bach	... .. 136, 311
Y ddau fachgen losgwyd	... .. 197	Y fran	... .. 378
Y gwaith yn troi yn gân	... .. 346	Ymadawid y gog	... .. 201
Y morwr bach	... .. 308	Ymadawid yr adar	... .. 345
Yr iawn ffordd i geryddu plentyn	... .. 363	Yr aderyn du	... .. 9, 211
Yr eneth fach amddifad	... .. 344	Yr ehedydd bach	... .. 204, 237
Y tair boneaig	... .. 275	Yr elyrah	... .. 295
Y tair chwaser	... .. 342	Yr wydd a'i phoenydwyr	... .. 224
<b>MR COF,—</b>		<b>BYWYD YR ANIFAIL,—</b>	
[Cofiantau bychain byrion, ar gân neu mewn rhyddiaith, am rai lenaoc a rhyw modwedd neillduol ynddynt.]		All anifail ymresymu	... .. 322, 371
Bedd Owen	... .. 125	Bedd mam oen bach	... .. 367
Dewi	... .. 96	Dihangia'r llygoden	... .. 251
Eddie bach	... .. 261	Doi'r llwynog	... .. 352
Ivor Davies	... .. 313	Gwersi y cadnaw	... .. 231
R. W. Jones, Bryncir	... .. 164	Lief un dros ei llwyth	... .. 9
Sarah Morris	... .. 227	Morfil yn ymyl	... .. 9
Tom a Glynn	... .. 45	Tiysni ysgaden	... .. 132
<b>CARTREF,—</b>		Y fôr-forwyn	... .. 89, 159
(Gan Edward Evans, Coleg Trefeca).		Y llwynog	... .. 269, 321, 362
i. Pwysigrwydd Cartref	... .. 11	<b>CANEUON CREFFYD A MOES,—</b>	
ii. Peryglon y Cartref	... .. 43	Ar y ffordd i'r ysgol	... .. 324
iii. Gelyn perygl	... .. 102	Blaen yr ysturm	... .. 122
iv. Sut i ladd blys	... .. 187	Blwyddyn Newydd Dda	... .. 32

	TUDAL.
Gobaith y Cristion ... ..	814
Gwobr disgwyl... ..	82
Heddyw ac yfory ... ..	182
Ioan yn ymyl y groes... ..	330
Lleisla'r plant... ..	372
Peidiwch chwarae â'r drwg	231
Rho dy hunan yn ei le ... ..	318
Rhoi a chymeryd a mynd ... ..	307
Trigain a deg ... ..	151
Y ddau air ... ..	310
Y ddwy afon ... ..	376
Y plentyn a'r gwlithyn ... ..	111
<b>CANEUON GWLADGABOL,—</b>	
Cymru, gardd y byd ... ..	178
<b>CANEUON NATUR,—</b>	
Hwyrnos yn yr haf ... ..	186
Syrth y dall ... ..	232
Y gwanwyn ... ..	117
<b>ADGOFION MEBYD,—</b>	
Bore Bywyd ... ..	142
Gweddiau mam... ..	79
Heibio'r bwthyn ... ..	51
Hen ffynnon loew'r nant ... ..	308
Hen lwybrau Pen y Waen ... ..	328
Paradwys ieuencyd ... ..	88
<b>CANEUON J. R. TRYFANWY,—</b>	
i. Cân y plentyn ... ..	54
ii. Hiraeth ... ..	92
iii. Hollad ... ..	122
iv., v. Caneuon plant Rhostryfan 143, 230	
vi. Ieuan ap Rhobert ... ..	149
<b>CANEUON RICHARD AB HUGH,—</b>	
i. Disgwyl am yr haf ... ..	8
ii. Hen Gymru dlos... ..	42
iii. Paid torri y blasgurn ... ..	68
iv. Telynau'r gwanwyn ... ..	100
v. Cyngerdd yr adar ... ..	132
vi. Y blodau gwylltion ... ..	165
vii. Yn llys yr haf ... ..	196
viii. Gwledd y pur a'r prydferth ... ..	238
ix. Yr hen, hen fynyddoedd ... ..	260
x. Dan ei goron ... ..	292
xi. Yr hen delynau ... ..	324
xii. Y seren unig ... ..	357
<b>CYMBU'R BARD,—</b>	
(Gan y Parch. R. Eurog Jones, Utica.)	
A ... ..	73
B ... ..	121
C, Oh ... ..	142
D, Dd ... ..	180
E ... ..	235
Ff ... ..	275
<b>ENGLYNION ... ..</b>	<b>26, 122, 374</b>
<b>DAERNAU I'W HADRODD,—</b>	
Camgymeriad ... ..	308
Y pysgotwr ... ..	122

**BYWYD Y BYD,—**

	TUDAL
Bablon ... ..	254, 273
Brenddwyd Nathanael ... ..	3
(Anfonwyd i blant Cymru gan Syr Henry Howorth.)	
Daeargryn Bryniau Casia ... ..	284
Dychymyg a ffaith ... ..	89
Ffasiwn newydd eto ... ..	329
Meddwl China ... ..	137
Rha'n dioddef ... ..	45
Saboth ar y Cyfandir... ..	280
Y bicell ... ..	188
Y Croeshoeliad ... ..	78
Y diwygwyr ... ..	88

**Ger y Tân,—**

i. Rhagymadrodd ... ..	39
ii. Hela Llewod ... ..	39
iii. Adar rhaib a chelain ... ..	87

**Mordaith Capten Cook,—**

(Parhad gan W. James, Dinas.)

i. Y lladron a'r badau ... ..	12
ii. Colli dau forwr ... ..	59
iii. Codi angor... ..	123
iv. Newid enwau ... ..	156
vi. Hen frenin methedig ... ..	219
viii. Darganfod New Zealand ... ..	245
vii. Ynyswyr New Zealand ... ..	265
ix. Gwibio ymysg ynysoedd y de ... ..	331

Afon y culfor ... ..	283
Ystorn ar y Mynyddoedd Gleision ... ..	244

**HANESION,—**

Camgymeriad y fam ... ..	205
Cyngor gwerthfawr ... ..	230
Cysur i'r meddw ... ..	237
Drylliad y Mexican ... ..	271
Gofal y Bugail am yr wyn ... ..	177
Gwneyd raft ... ..	30
Gwrhydri genethig ... ..	81
Mae cyfraith yn ddrud ... ..	233
Margiad ach Ihan ... ..	94
Mary, gofala am y siop ... ..	236
Meddylliau fy modryb ... ..	218
Nefoedd heb Grist ... ..	324
Perygl plant Persia ... ..	23
Santa Claus ... ..	359
Tlysau Prydain... ..	295
Y pysgodyn a'r llythyr ... ..	82

**Plentyn ac Anifall,—**

(Gan H. Brython Hughes.)

i. Mab ei fam ... ..	83, 145
ii. Epaod,—dihangfa gyfyng ... ..	167
iii. Dihangfa Dic ... ..	199
iv. Pysgotwr rhyfeidd ... ..	237
v. Ci yn cospi ... ..	263
vi. Ci yn dyhuddo ... ..	311
vii. Bachgen fynnai roi cynnyg ... ..	343
viii., ix. All anifall ymresymu ... ..	323, 343

	TUDAL.
<i>Ychwaneg am y Ddau Hogyn Rheiny,—</i>	
[Gan Winnie Parry. Gwyr y plant pwy ydynt; y maent yn eu cofio er rhifynnau y llynedd.]	
i. Dau arall ... ..	5
ii. Newid dillad ... ..	37
iii. Beth oedd ganddynt ... ..	69
iv. Y "surprise" gyntaf ... ..	101
v. Yr "all surprise" ... ..	133
vi. Yr ymadawiad ... ..	163
<i>Y Ddîmau Newydd,—</i>	
i. I ble'r aeth y ddîmau ... ..	277
ii. A wyddoch pwy ydwyf ... ..	293
iii. Dymuniad y tri... ..	339
<i>Hen Ofergoelion,—</i>	
i. Rheibo ... ..	10
ii, iii. Rheibo eto... ..	91, 141
iv. Canwyll y corff ... ..	243
v. Yspryd Twm y milwr ... ..	285
vi. Coel hynod... ..	302
<i>Ysgol Proftad,—</i>	
i. Fy nghartref ... ..	19
ii. Cymdeithion fy mebyd ... ..	55
iii. Yr ysgol gyntaf ... ..	74
iv. Yr athraw uniawn ... ..	118
v. Wedi marw yn llefaru eto ... ..	179
<i>Digrifon fy Nhaid,—</i>	
i. Fy Nhaid ... ..	99
ii. Yr hen bethau ... ..	138

	TUDAL.
iii. Bedd fy Nhaid ... ..	181
iv. Cyfoedion fy Nhaid ... ..	326
<i>COFADAIL T. E. ELLIS,—</i>	
71, 166, 181, 198, 248, 260, 319, 346	
<i>TONAU,—</i>	
Alawon Cryd ... ..	18
Arglwydd Iesu, Brenin Nef ... ..	24
Bugail Israel ... ..	335
Cân a blodau ... ..	46
Carol Nadolig ... ..	363
Cân yr hogyn diog ... ..	34
Cyngherdd yr adar ... ..	206
Hen Gymry dlos ... ..	160
"Ivor" ... ..	312
Mae rennyf lais i ganu ... ..	224
Pwy sydd ar du'r Arglwydd ... ..	174
Rwy'n caru dweyd yr hanes ... ..	110
Telynnau'r plant... ..	78
Yn llys yr haf ... ..	282
<i>AT Y PLANT,—</i>	
1, 33, 65, 97, 129, 161, 173, 225, 257, 299, 321, 353	
<i>URDD Y DELYN</i> ... ..	26, 85, 93, 158, 173, 200
<i>OWESTIYNAU</i> ... ..	298, 306
<i>TŴ DARLLEN YN DDIFYFYR,—</i>	
44, 95, 109, 134, 192, 370, 381	
<i>LLYFRAU...</i> ... ..	204, 250, 361, 376
<i>TIPYNNAU</i> ... ..	172, 238, 256, 318, 330, 326
<i>DYORMYGION</i> ... ..	109, 172, 302





U.P.S.

# AT Y PLANT.

R. Lewis

Rhosgellian



ED. Nid oes ar yr Esquimaux fwy o anwyd na chwithau. Gwisgant eu hunain mewn crwyn. Daw miloedd o grwyn morloi i Lundain bob blwyddyn o'u gwlad. Gwerthir hwy wrth y cant i'r uchaf ei gelniog. Yna eir a hwy i ddau wr,—nid oes ond dau fedr wneyd y gwaith,—i'w gorffen, i dynnu'r blew gwynion ohonynt, ac i ddyfnhau eu lliw. Y mae un got o grwyn fel hyn yn costio o ugain i gan punt. Nid yw "electric seal" yn groen morlo o gwbl; peth wedi ei wneyd o grwyn cwn- ingod yw.

GWELL gennyf roi yr enw priodol a'r trigle na ffug enwau dan bob erthygl a chân. Bydd yn ddyddorol iawn gwybod yn y dyfodol beth a ddaw o'r rha! sy'n ysgrifennu; bydd yn dda gan rywun droi i hen gyfrolau CYMRU'R PLANT a gweled cân gyntaf rhyw fardd enwog, neu draethawd cyntaf rhyw bregethwr, nofelydd, cyfreithiwr, meddyg neu farslandwr o fri. Ond ni w'yr neb pwy yw "Cymro," "Ieuanec," "Mab y Mynydd," &c.

BOB. Bydd lluniau llawer o gregin yn y rhifynnau nesaf.

C. OWEN. Daeth hanes yr ieir yn rhy ddiweddar i'r rhifyn hwn.

PLANT LLANBRYNMAIR. Bydd darluniau ohonoch yn y rhifyn nesaf. Bydd darluniau o leoedd a gwŷr enwog eich ardal yn rhifynnau CYMRU y fwyddyn hon hefyd.

S. A. Ni chyhoeddir unrhyw gyfarwyddiadau ynglŷn â rheolau Urdd y Delyn, ond y rheolau. Gadewir i bob ardal ddilyn ei chynllun ei hun, a phob aelwyd o ran hynny. Dull Ysgol Sul, i astudio rhyw fabinogi fel "Breuddwyd Rhon- abwy" neu'r diarhebion, neu i ddyngu canu alawon Cymreig, yw un dull da.

PLANT CYMRU. Faint ohonoch sydd yn casglu at gofgolofn T. E. Ellis, i ennill y medal? Y mae'r cerffunydd yn prysur orffen ei waith.

ORDDORION. Am ganiatad i argraffu tonau, anfoner at eu cyfansoddwyr. Cymerer fy nghaniatad i heb ei ofyn; ond dyweder o ba gylchgrawn y codwyd y tonau.

"J. P. Jones, Tynyffridd, Upper Corris. As the writer of an article which appeared in CYMRU'R PLANT for August, 1901, under title "Gwrhydri Mam," I beg to state that in writing such article I did not refer to you in any way, never having had cause or justification for making any insinuation against you in your business or otherwise, and I am willing that this shall be published at my expense in the next issues of the CYMRU'R PLANT, *Cambrian News*, and the *Negeydd*, and to pay Mr. W. P. Owen, of Aberystwyth, your solicitor, his costs in the matter. Yours faithfully, EDWARD EVANS."



**DIWYDIANNAU CYMRU.**

**I. PYSGOTIA AR DBAETH Y LAFAN.**



# CYMRU'R PLANT.

Cyf. XII.

IONAWR, 1903.

RHIF 133.

## DISGWYL AM YR HAF.

**D**YCHRYNNED aer y fwyddyn  
wlad  
A'i luwch hyd gwm a dól;  
Carolau Mai a'i wên ddi frâd,  
Ddaw a'r briallu'n ol;  
Troir bloedd y storm syn'n crynnu'r  
drws,  
Yn delyn tywydd braf;  
A swyno'r byd wna'r adar tlws,  
Sy'n disgwyl am yr haf.

Gauafol deyrn anghydfod ffy,  
Ia 'i orsedd dawdd i gyd;  
Awelon serch anadla'n gry,  
Daw'n feiriol ar y byd;  
Cyflawnder dry â blodau'r nef  
Ein daear yn lle braf;  
Tyrd ddedwydd ddydd, mae gwlad a  
thref  
Yn disgwyl am yr haf.

Storm olaf ein gauafau dyrr  
Yn hindda cyn bo hir;  
Niwl bywyd ffy, a'i ddiwrnod byr,  
Dry'n fythol hafddydd clir;  
O doed am dro un melus dant,—  
Un drem o'i heulwen braf,—  
Un rhosyn tlws i lonni'r plant,  
Sy'n disgwyl am yr haf.

*Y Bala.*

RICHARD AB HUGH.

## BREUDDWYD NATHANAEL.

“**O**S na bydd gryf, bydd gyfrwys,” ebe hen ddiareb. Y mae dysgeidiaeth y ddihareb yn ddigon defnyddiol; ond nid yw'n arwrol. Rhaid i'r gwir arwr feiddio, a dioddef.

Y mae Cristionogion y dwyrain wedi dioddef llawer ar law y Mahometaniaid. Gwŷr chwyrn, dibris yw dilynwy'r Mahomet, plant y rhai a roent ddewis i'r gorchfygedig rhwng marw trwy'r cleddyf

a byw i gredu yn eu proffwyd. Y maent hyd heddyw yn ymosod ar epil lwfr, gyfrwys yr hen Gristionogion.

Un diwrnod daeth dau Fahometan, Ali ac Abdul, at y Cristion Nathanael.

"Gi o Gristion," ebe Ali, "a wnei di ateb y cwestiwn a roddaf iti? Os na atebi ef, byddi farw."

"Ie, O gi dirmygus," ychwanegai Abdul, "byddi farw oni atebi ef wrth ein bodd."

"Rhynged bodd i'ch anrhydedd," ebe Nathanael, dan grynnu a gostwng ei ben, "mi a'ch atebaf wrth eich bodd hyd eithaf fy ngallu."

"O gi, a yw Mahomed yn y nefoedd?"

Syrthiodd gwedd Nathanael wrth weled y ddau erlidiwr yn dynoethi eu cledd i ddisgwyl am ei ateb. Os dywedai "Ydyw," bradychai ei ffydd; os dywedai "Nac ydyw," byddai farw.

"Rhynged bodd i chwi," ebe ef yn grynedig, "mi a freuddwydiais freuddwyd. Yn fy mreuddwyd gwelwn y nefoedd. Safai amryw angylion a phroffwydi a seintiau ger bron Duw. Yn eu mysg gwelwn Mahomed."

Gollyngodd Ali ac Abdul eu cleddyfau i lawr at eu hanner i'r wain, a dywedasant yn ddefosiynol,—“Nid oes ond un Duw, a Mahomed yw ei broffwyd.”

"Gyda hynny," ebe'r Cristion, "gwelwn esgid un o'r angylion yn cwympo drwy'r llawr grisial. Gwelwn hi'n mynd i lawr, i lawr, i lawr i'r aphwys obry, nes y gwelwn safn uffern yn ei llyncu. Yna clywais Dduw'n gofyn pwy ai i lawr i uffern i gyrchu esgid yr angel. Ni chlywn neb yn ateb. Ebe Duw,—‘A ei di, Gabriel’ ‘O Dduw,’ ebe'r archangel, ‘yr wyf ger dy fron beunydd mewn purdeb, ac a lychwinaf fi fy ngwynder drwy fyned i'r ffau huddyglyd erchyll honno?’ Tebyg hefyd oedd atebion yr archangylion ereill. O'r diwedd clywn Dduw yn gofyn,—‘A ei di, Mahomed?’ ‘O Dduw,’ myfi yw dy broffwyd. Pe dywedet wrthyf am aros yno, mi a arhoswn yn ol dy air.’”

Gollyngodd Ali ac Abdul eu cleddyfau i waelod y wain, ac ail adroddasant eu credo,—“Nid oes ond un Duw, a Mahomed yw ei broffwyd.”

"Yna," ebai Nathanael, gan anadlu'n rhyddach wedi gweled y cleddyfau wedi eu gweinio, "gwelwn Mahomed yn disgyn i lawr ar ol yr esgid. I lawr, i lawr, i lawr yr ai, nes o'r diwedd gwelwn ef yn ymgolli yn safn uffern. Yr oedd yno, mi welwn, ddôr haiarn fawr yn eirias boeth. Pan aeth Mahomed trwyddi clywn grechwen yn uffern; a chyda thwrf mawr, fe gauodd y ddôr. A chan y sw'n hwnnw deffrowd fi."

Chwarddodd y ddau erlidiwr wedi deall y dull gymerodd Nathanael i osgoi eu cwestiwn, ac aethant ymaith heb ei niweidio.

## YCHWANEG ETO AM Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

## I. DAT ARALL.

**T**RA y buont acw, cymerai y ddau twy o ddyddordeb yn y *messenger boys* o Swyddfa'r Pellebyr nag yn neb arall o drigolion Tregors. Dau oedd ohonynt hwythau, ac yr oedd John wedi eu darganfod cyn i Bobbie a Willie ddod i aros gyda ni, fel yr oeddynt yn wrthrychau o ddyddordeb i ninnau hefyd, er nad i'r fath raddau ag yr oeddynt i'r ddau. Yr wyf yn cofio y tro cyntaf i John dynnu fy sylw atynt (John fydd yn gweled popeth dyddorol gyntaf bob amser) un diwrnod, yn fuan wedi i ni ddod i fyw i Dregors. Galwodd arnaf i edrych drwy y ffenestr,—“Edrychwch,” meddai. A gwelwn y ddau yn myned heibio. Yr oedd cap y talaf, a'r hynaf gallaswn dybio, a'i big bron ar ei drwyn, fel nad oedd ond y rhan isaf o'i wyneb i'w weled yn eglur. Am y llall, yr oedd ef yn ei wisgo mor eithafol y ffordd arall, ac wedi ei wthio gymaint ar ei wegil nes yr oedd yn rhyfedd ei fod yn dal am ei ben o gwbl. A chyda llaw, nid wyf yn cofio i mi eu gweled ond fel hyn gyda golwg ar y rhan yma o'u gwisg. Yr oedd y mwyaf yn siarad yn egniol, ac un fraich wedi ei thafu am wddf y llall, tra y defnyddiai y bychan arall i bwysleisio'r hyn oedd yn ddweyd. Edrychai y bychan i fyny i'w wyneb yn llawn dyddordeb, a cheisiwn ddyfalu beth oedd y pwnc dan sylw. Yr oedd y ddau yn hynod o eiddil eu cyrff, a'r haul a'r gwlaw wedi lliwio croen eu gwynebau a'u dwylaw nes oedd yn frown clir. Efallai mai hyn, ynghyda rhyw edrychiad direidus oedd ar eu gwynebau, barodd i mi, y munud disgynnodd fy llygaid arnynt, feddwl am yr ystraeon am *elves* ac *imps* a *pixies* fyddwn yn hoffi pan yn blentyn. Fodd bynnag, o'r diwrnod hwnnw byddai John a fi yn arfer gwylio eu symudiadau pan gaem gyfleustra, a chawsom lawer o ddifyrrwch o'u plegid. Mynnai John eu bod yn frodyr; gwelwn innau debygolrwydd yn ffurf eu gwynebau, ac yr oedd ganddynt yr un llygaid gloew, buan; ond eto, yn ol fy marn i, yr oeddynt yn rhy hoff o gwmni eu gilydd i fod yn frodyr. Atebai John y gwrthwynebiad yma drwy fy adgoffa am Bobbie a Willie, fel y byddent hwy ill dau gyda'u gilydd ymhob man. “Ia,” meddwn innau, “ond mae Bobbie a Willie yn eithriad.” Gwenai John tra y dywedai,—“O ydynt, wrth gwrs.” Buasai yn hawdd i ni gael gwybod a oedd perthynas rhyngddynt ai peidio. Fe buaswn yn gofyn i Sarah cawswn eu hanes o'r dechreuad, ond ni fynnai John i mi wneyd hyn. “Bydd yn un peth yn llai i ddyfalu o'i blegid,” meddai. Nid oeddwn yn cytrif hyn yn rheswm yn y byd, ond gadewais iddo.

Byddent yn gwneyd i mi feddwl am y ddau hefyd. Yr oedd

ganddynt yr un edrychiad parod, *interested*, ar eu gwynebau a fyddai gan Bobbie a Willie, fel yr oeddwn yn eu cofio ym Mhen y Bryn.

Cefais dipyn o ddfyrrwch i mi ty hun hefo'r lleiaf un diwrnod. Yr oeddwn wedi myned i'r Llythyrdy i bostio cylchgrawn i gyffail, a chan nad oeddwn yn gwybod ei bwysau, rhoddais ef iddo i'w roddi ar y clorian; a meddwn, wrth weled y pwysau oedd wedi osod yn yr ochr arall,—“Tair ceiniog ydi o.” Ond yr oedd yntau yn brysur yn cyfrif, a meddai yn geryddol,—“Tewch am funud.” Ac yna gorffennodd ei *mental arithmetic*, a chafodd y swm yr un faint.

Fel y gwddoch, braidd yn anfodus oedd eu cyfarfyddiad cyntaf â Bobbie a Willie. Nis gwn beth oedd yr amodau heddwch, na pha ochr a'u cynygiodd, ond gwn iddynt cyn pen ychydig ddod yn wrthrychau o'r edmygedd mwyaf pur i'r ddau o Ben y Bryn. A chawsom bob manylion yn eu cylch, o beth oedd eu henwau i rif y botymau oedd ar eu gwisg. Nis gwn faint o'r edmygedd yma oedd yr olaf yn dderbyn. Rhyfedd y swyn sydd mewn *uniform* o ryw fath. Yr wyf yn cofio y ddau wedi fy hysbysu pan oeddynt ym Mhen y Bryn mai plismon a phostman oeddynt am fod pan elent yn ddyinion. Y blaenaf oedd dewisiad Bobbie, am, meddai ef, fod gan plismon ffon. Mor greulon y gallasech dybied ei fod! Ond pan y daethant i Dregors rhoddasant heibio yr uchelgais yma, gan eu bod yn tybio fod modd iddynt gael gwisgo *uniform* heb aros y blynyddau maith oedd yn ymestyn rhyngddynt a bod yn ddyinion. Yr oeddynt braidd yn dywyll ar y pwnc yn y dechreu, oherwydd daethant ataf ar ol eu cyfarfyddiad heddychlon cyntaf â'r ddau o'r Llythyrdy, a gofynasant yn ddirifol i mi wneyd (*gwneyd* cofiwch) gwisg yr un fath ag un Dic a Jim (Richard a James yn swyddogol, yn ol pob tebyg), a chyn y gallwn sylweddoli'n iawn beth oeddynt yn feddwl dechreuodd Bobbie fy nghyfarwyddo pa fodd y gwnawn y wisg ddymunol yma, drwy roddi desgrifiad o'r manylaf o honi, a dweyd wrthyf nad oedd dim hawddach i mi, gan fod gennyf beiriant gwnio “a phopeth.” Tra yr oedd yn egluro ei ddymun-iadau yn frysiog yn y modd yma syrthiodd ei lygaid ar y *cord* oedd yn ymylu y glustog oedd ar y sofa, a meddai, gan ei thynnu ato,—“A mi neith hwn yn iawn i roi ar fan 'ma, Elin,” gan gyfeirio at y *cord* coch a du ag un llaw a rhoddi'r llall ar ei ysgwydd. Yr oedd Willie yn ddistaw tra yr oedd ei frawd yn gosod ei orchymynion arnaf, ond pan ballodd anadl hwnnw dechreuodd yntau.

“Beth 'di G.P.O., Elin?”

“G.P.O.?” meddwn am funud, yn anghofio'r pwnc dan sylw.

“Ia, mae o ar gapia Jim a Dic.”

“O,” meddwn, yn deall, “pam na fasa chi'n gofyn i Dic a Jim?”

“Mi ddaru ni, a mi ddaru nhw deyd wrtha ni mai ‘Good 'ickled Onions’ oedd o'n feddwl. A wyddoch, 'dw i'n siwr mai

smalio 'roedda nhw. Achos toes dim isio nhw fynd a nionod i neb."

Ceisiais egluro'r pwnc yma iddynt, a cheisiais hefyd d dangos iddynt, hyd yn oed pe buaswn yn ddigon galluog i wneyd gwisg fel y dymument, na fuasent yn cael ei gwisgo, gan nad oeddynt yn *messenger boys* fel Dic a Jim. Nid wyf yn meddwl eu bod ar y pryd yn fy nghredu'n llwyr; ond wedi ychwaneg o gysylltiad â'u harwyr, daethant, yr wyf yn coelio, i lawn ddealltwriaeth o'r pwnc, ac ni chlywais mwy son am i mi fyned at y gwaith gorchestol o geisio gwneyd siwt bob un iddynt ar y dull oeddynt yn edmygu gymaint. Hysbysasant fi, fodd bynhag, eu bod; cyn gynted ag yr aent adref i Leyn, am ofyn i'r *postmaster* yn eu pentref oedd arno ddim angen eu gwasanaeth. Wrth ystyried eu brwdfrydedd yn y cyfeiriad yma, nid oedd yn syndod eu bod, cyn ymadael o Dregors, wedi llwyddo i dreulio rhai munudau dedwydd yn y dillad oedd wedi myned a'u bryd mcr llwyr.

Digwyddodd hyn ar fore Sul, y Sul diweddaf dreuliasant gyda ni. Wrth i mi fyned i lawr y grisiau y bore hwnnw clywn lais Bobbie yn gwaeddi,—


"Elin, Elin, 'dw i wedi cael anwyd, clywch." A daeth y pesychu rhyfeddaf o gyfeiriad eu hystafell.

"Tyda ni ddim am fynd i'r capal bora 'ma." Ac ail ddechreuodd besychu yn fwy egniol eto. Troais yn fy ol, ac agorais y drws. Yr oedd arwydd ar Bobbie ei fod wedi cael ychydig anwyd, a meddyliais efallai y byddai yn well iddo aros yn y ty y bore hwnnw na dod i'r capel, gan ei bod yn fore oer, a'r barrug yn wyn ar y ddaear. Penderfynais, fodd bynnag, yr awn a Willie gyda mi, a gadael Sarah gartref hefo'r llall. Nid oedd John gartref y Sul hwnnw.

Ond pan ddaeth y ddau i lawr at eu boreufwyd, ac y dywedais wrth Willie ei fod i ddod i'r capel, aeth yn wrthryfel. Yr oedd yn amlwg nad oedd yr un o'r ddau eisieu mynd i'r capel y bore hwnnw, ac ofnwn fod rhyw ddrygioni ar droed. Dywedai Bobbie, tra y ceisiais besychu nes oedd yn gwrido yn yr ymdrech, yr elai i'r capel os ai Willie; a dywedai yr olaf yr arhosai gartref os arhosai Bobbie gartref. Yr oeddynt wedi cysgu'n hwyrach nag arferol y bore hwnnw, a gwelais y byddai y gwasanaeth wedi dechreu cyn y gallwn gyrraedd y capel os awn i ymdaeru ychwaneg â hwynt. Ac felly bu orfod i mi adael iddynt gael eu ffordd eu hunain unwaith yn rhagor. Teimlwn yn dosturiol tuag at Sarah pan yn gadael y ty, gan fy mod yn gwybod y byddai ganddi lond ei dwylaw hefo'r ddau tra y byddwn o'r ty. Fy ngeiriau diweddaf wrthynt hwy oeddynt,—

"Cofiwch na dyda chwi ddim â fynd allan o gwbl, ddim cimin a drwy ddrws y cefn."

"Na ni ddim wir, Elin, achos mae'r anwyd arna i. 'Na ni edrach y llyfr pictiwrws mawr wrth y tân," oedd ateb ufudd Bobbie, ac ychwanegodd Willie eiriau i'r un perwyl.



“BREINHINES YDWYF AR FY LLWYTH.”



## LLEF UN DROS EI LLWYTH.

**C**HWI, blant y Cymry, caniatewch  
 Un ddalen o'ch misolyn,  
 Un gofod bychan i mi rhowch,  
 'Rwyf dros fy nheulu'n erfyn,  
 I ostyngedig draethu'm barn,  
 Heb ragfarn yn eich erbyn.

Brenhines ydwyf ar fy llwyth,  
 Sydd bennydd 'n esmwyth arnaf,  
 Yn bwyta'r cynnyrch goreu 'i faeth,  
 A glanwaith wely danaf;  
 Gwir garedigrwydd i mi'n ffawd,  
 A gofal pawb am danaf.

Paham mae'n rhaid i'm teulu llwyd,  
 O eisiau bwyd newynu?  
 Derbyniant amharch gan y plant,  
 A fyinant ein dirmygu;  
 Oes unrhyw dylwyth is y rhôd  
 Mwy parod i'ch gwasnaethu?

*Pen y Gongl, Abersoch.*

Pwy, ond y ni, a'n cefnau'n friw,  
 Fel cyfryw gaiff eich cario?  
 Ni all eich rhiant, er eu parch  
 I'r march, ymddiried ynddo,  
 Rbag digwydd iddo, dyna'r ffaith,  
 Gampwaith, a chwithau gwympto.

I ni, o'r holl greaduriaid byw,  
 Mae'r llwyraf barch yn gweddu, <sup>GEBR</sup>  
 Daeth i ni'r fraint, drwy arfaeth Duw,  
 I gario'r brenin Iesu;  
 Pa le y mae arall yn y byd  
 Greadur mûd gadd hynny?

Os byth y'ch temtir ar ryw dro,  
 I'n curo'n anrugarog,  
 Doed pedwar gair fel hyn i'ch côf,—  
 "Pwy gariodd ben coronog?"  
 Bydd son tra'r elo'r Gair ar led,  
 Am weithred mor oddidog.

GWILYM ENION.

## YR ADRYN DU.

**A**DERYN du, a'i cennad Naf  
 Wyt ti, yn rhagfynegu haf?  
 Mae'th gathlau'n ber y borau;  
 Fy llonni wnei ar bruddaidd awr,—  
 Wrth byncio'n fwyn ar doriad gwawr,  
 Goleui ddu feddrodau.

Ac oni welais "Ifor bach"  
 Mor nwyfus, llon,—mor bert ac iach,  
 Ac ysgain fron a thithau?  
 Do, gwelais ef ar gwr y glyn,  
 Yn gofyn gyda thremiad syn,—  
 "A gaf fi ganu, tada?"

Er hynny byth dy ganig sydd  
 I mi yn swyn fel torlad dydd,  
 Mae gwefr-dân yn dy fwsig;  
 Gan hynny cân, aderyn du,  
 Ysgefni lethol fronnau lu,  
 Sydd dan arteithiau ysig.

*Dyffryn.*

GWILYM ARDUDWY.

## MORFIL, YN YMYL.

Az yr wythfed dydd o'r mis diweddf, diwrnod oer clir, cafodd y rhai oedd ar fwrdd y llong Nord, wrth groesi'r Sianel o Calais i Dover, olygfa nas ceir yn aml yn ymyl ein hynnysoedd ni. Gwelsant forfil. Ni wyddent beth oedd i ddechreu,—rhywbeth mawr, du, nofiadwy, fel llong wedi troi a'i gwyneb i waered.

Yr oedd y creadur anferth yn nofio, dan lychio dŵr i'r awyr, tua'r gorllewin, i'r môr agored.

## HEN OFERGOELION.

## I. RHEIBO

UN noson, pan yn eistedd o flaen y tân gartref, meddyliais fod rhai ohonoch chwi, fy mrodyr bychain, heb glywed am yr ofergoeledd oedd ymhlith ein tadau a'n mamau. Gelwid un peth yn "rheibo." Feallai y carech wybod beth oedd.

Yr oedd ein tadau a'n mamau yn credu yn gryf iawn yn yr ofergoelion o ran hynny. Credent mor gryf mewn ofergoeledd ag yn yr efengyl ei hun; ac os byddai rhywrai heb fod yn credu ynddynt, ystyrient hwy yn ddim gwell nag *atheists*. Hwyrach fod rhai ohonoch yn chwerthin am eu pen am hyn; ond rhoddwch chwi eich hunain yn eu lle hwynt, heb gael dim o'r manteision ydych yn gael yn awr. A fuasech yn well na hwynt?

Credai ein tadau a'n mamau fod dynion yn byw yn eu plith oedd yn feddiannol ar y gallu i reibio. Galwent y dynion hynny yn rheibwyr. Yr oeddynt yn ofni y rheibwyr yn fawr, ac nid yw yn ddim rhyfedd yn y byd pan feddylw'n fod y dynion hynny, sef y rheibwyr, yn feddiannol ar y gallu i wneyd beth a fynnent i ddyn neu greadur heb yn wybod i'r dyn na'r creadur ei hun. Rhoddaf i chwi hanesyn neu ddau er mwyn dangos i chwi beth allasent hwy wneyd.

Yr oedd dynes yn byw yn y gymydogaeith hon oedd yn medru rheibo. Y mae yn debyg ei bod yn mynychu yr Ysgol Sul bob Saboth. Arferai ddweyd yr un adnodau bob Sul; ond un tro, wedi iddi ddweyd ei hadnodau, dywedai yr athrawes, yr hon oedd yn hen wraig, wrthi,—

"Rhaid i ti ddysgu adnodau newydd erbyn y Sul nesaf."

"O'r gore," meddai hithau. Dyna y siarad i gyd fu rhyngddynt, ac aeth popeth ymlaen fel arfer y prydawn hwnnw. Daeth amser myned adref, ac ymadawodd pawb ar y telerau goreu. Cyn gynted ag y cyrhaeddodd yr hen wraig y ty, tarawyd hi yn ei choesau gan ryw beth nas gwyddai beth, fel nas gallai symud. Cariwyd hi i'w gwely a dyna lle y gorwedda, a'i choesau yn chwyddo ac yn boenus iawn, ac yn ochain llefain nes yr oedd yn boenus bod yn ei golwg. Ymhen dau neu dri diwrnod daeth y ddynes oedd yn medru rheibo i ymweled â hi. Wedi bod yn siarad â'u gilydd am beth amser, gofynnodd y ddynes am weled ei choesau. Dangosodd yr hen wraig hwynt iddi, a thynnodd y ddynes ei dwylaw dros ei choesau dair gwaith, gan ddweyd rhyw eiriau, a gwellhaodd y coesau mor iach ag erioed. Yn awr, credai yr hen wraig yn bendant mai y ddynes honno a'i rheibodd yn ei choesau.

Cefais yr hanesyn uchod gan un wedi bod yn gwrando ar yr hen wraig yn ei ddweyd lawer gwaith. Yr oeddwn yn meddwl rhoddi hanesyn arall eto, ond y mae yn rhy faith. Cewch hwnnw a rhai ereill y tro nesaf.

E. J. E.

---

**CARTREF.**

“A thi a ymweli â'th drigfa ac ni phechi.”

**N**ID oes dim byd wedi mynd a mwy o fy mryd, y blynyddoedd diweddfaf yma, na'r syniad fod cannoedd o blant bach Cymru'n ddigysur ar eu haelwydydd. Llecyn cysegredig yw'r aelwyd. Yno y chwery'r plant, ac yno yr addola'r teulu'n gyfan. Ac yno, ar fin nos yn nhrymder gauaf, y clywa'r plant syniadau pur neu amhur y tad a'r fam. Os nad yw'r ysgolheigion bach yn deall popeth a siaredir, mi wrantaf eu bod yn fuan iawn yn penderfynu tynged y rhai sy'n gofalu am danynt. Peth dyddorol dros ben yw gwrando arnynt yn trin achos hwn a'r llall ar eu pennau eu hunain. A buan iawn y gwelir eu bod drwy reddf ddirgel yn anadlu gwybodaeth. Gwelant drwy dro sal neu'r gymwynas bur, ac ant heibio'r gweledig i'r galon. Y maent yn gwybod pam y cosbir ac am beth y gwobrwyir. Ac os y curir mewn natur ddrwg, rhydd hynny fwyd i'r elfen honno bâr boen ar ol hynny i'r rhieni. Y mae plant weithiau'n ddialgar iawn, a phryd arall yn garedig tuhwnt i ddychymyg neb. Ceir hwy ar adegau yn llawn ystwythder a hwyl dysgu; dro arall gwelir nhw'n ystyfnig ac anhydrin ryfeddol. Beth sy'n cytrif am hyn?

Y tebyg yw, na thriniwyd hwy yn ol y graen. Nid oes yr un crefftwr da'n meddwl gweithio maen neu bren yn groes i'r graen. Ond ysywaeth, deuir ar draws ugeiniau'n treio'u llaw ar blant bach golygus heb ystyried fawr ddim fod ffordd ar eu trin.

Peth tyner iawn yw calon plentyn. “Mae'r swm yn ddieithr, mae'r lliw'n rhyfeddol,” yw iaith yr arlunydd. Ond dylai rhieni ddweyd,—“Ond y mae'r galon ddynol yn fwy rhyfedd na'r ddau; ac â defnydd y galon yr wyf yn gweithio pan yn ceisio gwneyd ereill yn ddedwydd.”

Clywais Alafon yn disgrifio dwy fam yn ddoniol iawn unwaith. Yr oedd un yn wyllt ei thymor, a thrwy hynny'n gwneyd y byd o'i chwmpas yr un mor hagr a'i nwyd diddal hi; a'r llall yn ddynes bwylllog, feddylgar; ymdrwsiai hon yn gynnar gan gymeryd ei rhai bach gerfydd eu llaw drwy'r rhodfeydd mwyaf manteisiol iddynt weled anian yn ei gwisg haf. Dyma'r rhai addfwyn yn

llythrennol etifeddu'r ddaear. Canodd Coventry Patmore yn hynod darawiadol i ddawn gref dynes yn llanw ei lle yn y byd yma,—

“ Which, if spent with due respective thrift,  
Had made brutes men and men divine.”

Y mae yna bosibilrwydd gwych ymhob plentyn bach braidd. A dyma gyfle gwerthfawr i rieni ddwyn yr angel i'r golwg, fel y bydd llawenydd ar y ddaear o'i blegid. Na feddylid neb mai bwyd a dillad yn unig ddylai plant gael. Clywais hen gyfaill yn dweyd y rhoi o lyfrau ddigon i'r plant. A dyma ei reswm,—“Gallaf gael llyfrau newydd iddynt, ond nid peth hawdd yw creu chwaeth dda wedi dibrisio'r cyfnod i hyfforddio plentyn ymhen ei ffordd.”

Ac ers ychydig yn ol, gwelais dad dysgedig yn chware'n nwyfus gyda'r plant, ac ar ddiwedd y dydd yn crybwyll y chwareuon ar weddi wrth gadw dyledswydd. Pe rhoid lle i bopeth caem aelwydydd hapusach, a llai o asbri mynd dros y trothwy i benrhyddid y byd.

Cawn y tro nesaf son am y perygl y mae cartrefi ynddo oddiwrth rai agweddau ar fywyd prysur,—gwanc am ennill cyfoeth ar un llaw, a gormod blys at bopeth ond bywyd syml dyrchafol yr aelwyd bur, ar y llall.

*Llys Meirion, Penrhiwceibr.*

EDWARD EVANS.

---

### MORDAITH CAPTEN COOK.

(YMDDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

#### I. Y LLADRON A'R BADAU.

**I**FOR. A oedd y brodorion welodd Capten Cook yn Otaheite yn gwybod fod lladrad yn ddrwg, fy nhad?

TAD. Gwyddent yn burion. Oherwydd yr oeddynt yn cosbi eu gilydd am gyflawni hynny. Hefyd yr oeddynt yn masnachu â'u gilydd yn eu marchnadoedd, ac yn mynnu gwerth am werth yn ol eu gallu i farnu. Meddyliodd y capten, pe gallai lwyddo i ennill y brodorion i ymrwymo ohonynt eu hunain i roddi atalfa ar yr arferiad gwrthun, a hynny er mwyn eu budd cyffredinol eu hunain, y buasai hynny yn sicrhau diwygiad buan yn y cyfeiriad hwn. Rhoddodd orchymyn pendant i'w wŷr na wnelent ddefnyddio y gwn at y brodorion ar un cyfrif, hyd yn oed pe delid hwy yn troseddu. Yr oedd ganddo amryw resymau dros y rhybudd hwn. Yn un peth, ystyriai ei wylwyr yn hollol anghymwys i ymddiried iddynt awdur-

dod ar fywyd a marwolaeth. Hefyd, nid oedd wedi meddwl o gwbl fod lladrad yn drosedd haeddiannol o gosb mor ofnadwy a marwolaeth. Nid oedd yr Otaheitiiaid wedi eu dwyn i fyny o dan gyfreithiau Prydain. Ac nid oeddynt wedi derbyn dim o fanteision cenhedloedd gwaraidd y byd. Felly, yr oedd yn afresymol a chreulawn i ymddwyn atynt fel at rai oedd wedi cael eu haddysgu i wybod gwell. Nid yn unig ni chaniateid gan y capten i'r brodorion fod yn agored i arfau tân wedi eu llwytho â *shots*, ond nid oeddynt i ddefnyddio y pylor wrtho ei hun, rhag i'r brodorion, wrth weled nad oedd perygl iddynt dderbyn niwed, fynd i edrych ar y gwn fel peth wedi colli yr hyn oedd ynddo gynt yn medru ladd. Buasai hynny yn peri iddynt ymhyfau yn ormodol. Ar un adeg, pan gyflawnwyd ysbeiliadau o gryn bwys, cymerodd digwyddiad le ag y gobeithiai y capten gael mantais oddiwrtho i dynnu cynllun er rhagflaenu troseddiadau cyffredin yr ynyswyr. Daeth dros ugain o fadau (*canoes*) y brodorion i mewn wedi eu llwytho â physgod. Cymerodd y capten feddiant ohonynt ar unwaith, gan eu cymeryd i'r afon, tucefn i'r gaerfa. A chyhoeddodd rybudd, os na ddychwelid y pethau a ysbeiliwyd yn ol yn fuan y llosgid y badau. Yr oedd yn sicr yn ei feddwl y buasai yr holl ladrad yn cael ei ddychwelyd yn ddioedi mewn canlyniad i'r fath rybudd llym. Ond gwelodd cyn hir fod ei gynllun yn gamsyniol hollol. Ni ddychwelwyd ond un offeryn bychan, sef cribyn dân, ac ar gyfrif yn un peth bychan hwnnw taer ddymunai y perchenogion am ryddâd eu badau. Ond daliai y capten yn dynn at ei amodau cyntaf. Y bore canlynol, pan welodd nad oedd dim ychwaneg o'r eiddo wedi ei ddychwelyd, synnodd yn ddirfawr. Ac wrth weled y brodorion yn y fath drallod am eu pysgod, y rhai a fasant mewn byr amser wedi myned yn ddiwerth iddynt, yng ngwyneb hyn cafodd y capten ei hun wedi ei ddarostwng i orfod cyflawni un o ddau beth ag oedd yn dra anymunol ganddo. Yr oedd yn rhaid iddo naill ai tynnu yn ol ei benderfyniad cyhoeddus, drwy ollwng y badau yn rhydd; neu eu llosgi, ac wrth hynny beri colled a theimlad dwys, yn enwedig i'r dieuog o'r brodorion. Tynnodd ei benderfyniad yn ol yn rhannol am y tro hwn. A chaniataodd iddynt gael y pysg. Ond dywedodd na ddychwelai iddynt y badau, nes y dychwelid yr eiddo. Cafodd y capten eto brawf fod ei gynllun yn fethiant amlwg. Oblegid cynhyrchodd y fath anhrefn, a dyrswch, nes peri ymrafaelion arswydus rhwng y perchenogion a'u gilydd. Gorchwyl tra anhawdd oedd penderfynu pwy oedd gwir berchenogion y pysgod. Ac hyd yn oed ar y pryd hwnnw, pan oedd y perchenogion yn ymddadlu â'u gilydd ac yn dyrnodio yn ddirugaredd, yr oedd nifer o ysbeiliwyr wrthi ar eu heithaf, heb ymddadlau â neb, nac yn gwastraffu

munud o'u hamser, ond yn casglu y cynhauaf i mewn iddynt eu hunain, am eu bywyd.

IFOR. Fy nhad, onid oedd y capten, i raddau, yn galed, yn ol eich barn chwi, am na fuasai yn gollwng y badau iddynt, gan mai wrth bysgota yr enillent eu cynhaliaeth?

TAD. Na nis gallaf farnu hynny am dano o gwbl. Credaf na thalodd neb ymweliad âg Otaheite o flaen Capten Cook, nac ar ei ol, yn meddu calon dynerach na chalon y gwron hwn. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y tynerwch a reoleiddir gan ddoethineb a'r un a nodweddir gan lwfrdra, a theimlad y funud. Mae lliaws o brofion am y diweddfaf iddo achosi llawer o golled a blinder. Bydd gonestrwydd, doethineb, a thynerwch Capten Cook yn perarogli ar faes hanesiaeth hyd ddiwedd amser.

*Dinas.*

WILLIAM JAMES.

—————  
 BETH YW HALEN?

GOBEITHIO nad ydych yn blino ar hanes y pethau o'n cwmpas. Gwrando ar y creigiau yn dweyd eu hanes y buom yn ddiweddar. Nid ydym wedi darfod â hwy eto; mae ganddynt gymaint i'w ddywedyd, cawn hamdden gyda hwy eto y tro nesaf.

Onid yw halen yn beth adnabyddus? Gwelir ef bob dydd; yn wir, buasai'n amhosibl byw hebdo. Pa faint ohonoch sy'n gwybod beth yw, neu o ba le y daeth? Os ydych yn cofio, dywedais fod afonydd y byd yn toddi y creigiau calch pan y deuant i gyffyrddiad â hwy, ac yn ei gludo i'r môr. Er cymaint o hono sy'n mynd i'r lle hwnnw, nid yw byth yn llenwi. Sugnir ef gan y miliynau creaduriaid bychain sy'n byw yno. Nid yn unig defnyddiau calch a gludir yno, ond defnyddiau creigiau ereill hefyd. Y graig halen yw un o'r rhai hynny. Cludir ef i'r môr ynghyd â'r lleill. Ond, nid yw y creaduriaid yno am ei sugno, felly cynhydda o hyd. Dyma paham y mae y môr yn hallt, ond nid yn galchaid.

Pwy sydd heb glywed am y Môr Marw? Gŵyr pawb pa mor hallt yw hwnnw. Dyma i chwi lyn rhyfedd. Rhed afon yr Ior-ddonen iddo ers miloedd o flynyddoedd, nid oes yr un yn rhedeg allan yn un man, ac eto nid yw byth yn llenwi. I ba le yr aiff y dwfr? Ymgytyd tua'r nef fel ager dwfr (*water vapour*) yn araf a distaw, dan ddylanwad gwres tanbaid yr haul. Cymerwch sowser, a dodwch ynddi ychydig o ddwfr hallt; yna, os rhoed hi mewn lle poeth, diflanna yr oil o'r dwfr, ond gadewir bob iot o'r halen ar ol. Hyn a gymer le yn y Môr Marw. Aiff y dwfr i fyny yn ddwfr pur, megis ager, i ffurfio y cymylau uwchben, ond gadewir yr halen ar ol yn y llyn.

Fe welir fod yr halen yn cynhyddu o hyd. Dywedais unwaith am yr awyr, os byddai yno fwy o ddwfr nag a allasai yr awyr ei ddal, disgywnnai y gweddill i lawr. Os rhoddwch unwaith eto lawer o halen mewn ychydig o ddwfr poeth, cewch weled, pan oera y dwfr, nad all ddal yr oll o'r halen, am hynny disgywnna i lawr yn risialau gwyn. Halen yw o hyd. Nid all dwfr y Môr Marw ddal yr oll o'r halen sydd yn doddedig ynddo; am hynny disgywnna i lawr i waelod y llyn. Wrth gwrs, fe ddylai dwfr hallt fod yn drymach na dwfr pur, am fod halen ynddo. Felly, mae'n haws nofio yn y môr nag yn yr afon, oherwydd fod y dwfr hallt yn gallu dal mwy, neu bydd mwy o'r corff allan.

Dylai dwfr pur nofio uwchben dwfr hallt, felly. Hyn gymer le pan aiff afon a'i dyfroedd i'r môr. Cymerwn hanner poteliad o ddwfr hallt, yna llenwer y gweddill yn araf â dwfr pur; saif un uwchben y llall. Sudda ŵy mewn dwfr pur, ond nofia ar wyneb dwfr hallt. Cymerwn, ynte, ŵy, a gollyngwn ef i'r botel; gwelwn ei fod yn suddo at hanner y botel, ac yna saif ar wyneb y dwfr hallt.

Pan y rhewa dwfr, mae y gronynau mân anweledig (*molecules*) yn ymgydio y naill wrth y llall i ffurfio grisialau mân, a'r oll o'r grisialau yn ffurfio rhew. Os bydd halen yn y dwfr rhwystrir y gronynau i ymgydio hyd nes y ceir ychwaneg o oerni. Dyma paham nad yw y môr yn rhewi mor gyflym a'r afonydd.

Ond nid ydym wedi ateb y cwestiwn eto,—Beth yw halen? Gwneir ef i lyny o ddwy elfen, sef sodium a chlorine. Pe gwelech y ddwy elfen yma, tarewid chwi â syndod wrth weled anfeidrol allu y Crewr yn gwneyd peth mor syml a defnyddiol o ddau beth mor anhebyg a pheryglus. Pe rhoddid darn o sodium mewn dwfr, rhuthrai ar hyd y wyneb yn gyflym o'r naill ochr i'r llall. Una yr elfen â'r elfennau sydd yn y dwfr i wneyd rhywbeth arall; a phan una elfennau â'u gilydd, cynhyrchir gwres a goleuni yn wastad. Aiff y sodium ar dân mewn dwfr.

Mwy peryglus yw chlorine. Efe yw y prif elfen mewn powdwr llifo, er mai nid efe sy'n gwneyd y gwaith.

Ceir gweithiau halen yn ein gwlad ni. I fewn dan grystyn y ddaear ceir y creigiau. Gwaelodion hen feroedd ydynt, neu llynoedd mawrion oedd yn bod filiynau o flynyddoedd yn ol, ymhell cyn i'r garreg dreigl ddod i Gymru. Ymhen miliynau o flynyddoedd eto, gwaelod y Môr Marw fydd gwaith halen y dyddiau hynny.

Onid oes llawer i'w ddysgu oddiwrth ychydig o halen? Gadawyd llawer mwy heb ei ddweyd.

CYMRU'R PLANT.



PLANT CYMRU. CLXY. PLANT GOBREITHLU BRYN EGLWYS, YN IAL.  
*(Dedicated to the Rev. James P. Jones, D.D.)*



## PLANT GOBEITHLU BRYN EGLWYS, YN IAL.\*

**G**ORWEDD yr ardal brydferth a thawel hon wrth droed Moel Forfudd, un o foelydd uchaf sir Ddinbych. Dywed hen draddodiad i'r foel hon dderbyn yr enw hwn oddiwrth frenhines o'r enw Morfudd, yr hon a drigai yn yr ardal; yr hon hefyd ai ar ei march bob dydd i ben y foel i wylled gelynion. Diameu i frwydrau poethlyd gymeryd lle o'i deutu, oblegid ceir olion gwerysllfa yno.

Gwlad amaethyddol yw Bryn Eglwys, wasgarog, ac anaml ei thrigolion. Nid oes yma ond dau le y cynhelir addoliad ynddynt,— eglwys y plwy, yr hon sydd henafol a dyddorol; a chapel y Methodistiaid Calfinaidd. Gwnaeth y Wesleyaid aml ymgais i sefydlu achos yn y lle, codwyd addoldy bychan ganddynt, ond er yr holl ymdrech, am ryw reswm nas gellir ei esbonio, methasant a chael achos sefydlog; ac er ys amryw flynyddau bellach y mae y capel yn gauedig.

Prif addurn y pentref yw addoldy y Methodistiaid, ac mewn ysgoldy perthynol i'r addoldy hwn y cynhelir cytarfodydd y Gobeithlu; sefydliad ag sydd yn bwysig yn yr ardal ers amryw flynyddau bellach. Gwneir gwaith rhagorol ganddynt, ac er fod y wlad yn wasgarog, a chartrefi y plant, lawer ohonynt, ddwy filltir o'r pentref, mynychir y cyfarfodydd wythnosol gyda chysondeb; a gwobrwyr y plant am eu ffyddlondeb ar ddiwedd y tymor mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn gyfangwbl gan y plant eu hunain, ac ni fethaf trwy ddweyd mai hwn yw y cyfarfod mwyaf dyddorol a gynhelir yn yr ardal. Edrycha y plant ymlaen gydag awch angerddol; oblegid y mae yn golygu iddynt hwy "y *stage* a dillad gwynion."

Y maent hefyd i'w canmol am amryw bethau ereill. Gwneir un gwaith da iawn ganddynt, sef casglu arian at anfon hanes Iesu Grist i blant bach duon India. Cesglir rhai punnoedd ganddynt yn eu blychau cenhadol bob blwyddyn.

Siaredir Cymraeg o'r fath oreu hefyd gan y plant bach hyn; a'r bachgen bychan a welir yn eistedd yn ffrynt y darlun (yr hwn sydd yn dal y llech), sef John Salisbury Davies, yw enillydd y wobr flaenaf am y Cymraeg goreu yn yr arholiad sirol y flynyddyn hon.

Y mae plant yr ardal hon yn cael gofâl neilltuol ohonynt er cyn cof i neb sydd yn fyw, ac y mae yn hyfrydwch meddwl nad yw y llafur wedi bod yn ddiffwrwyth. Mynych y clywir sylw yn cael ei wneyd fod y mwyafrif o'r rhai a fagwyd yn yr ardal hon yn parhau

\* Addewais hanes plant Bryn Eglwys. Dyma fi'n cyflawni. GOL.

## CYMRU'R PLANT.

Yddiol yn y gwahanol gylchoedd y mae rhagluniaeth wedi  
 ynddynt ar ol gadael eu cartrefi mwynion ym mryniau  
 122. . . . .ndithied yr Arglwydd y plant anwyl hyn hefyd, bob un, a  
 gallu i fod o wasanaeth i ereill, ac i grefydd, pa le bynnag yr elont.

Blant bychain Bryn Eglwys, mor hardd ydych chwi,  
 Nid oes trwy y ddaear eich tebyg i mi;  
 Mor ufudd, mor serchog, mor beraidd eich cân,  
 Wrth yfed dysgeidiaeth yr Iesu mwyn glân.

O cedweh yn bur i'r Gwaredwr trwy'ch oes,  
 Heb ddwyn un gwaradwydd i grefydd y groes;  
 Boed crefydd a dirwest yn llanw eich bryd,  
 Ac yna, chwi ewch yn ddilychwin trwy'r byd.

Yr ym yn ymddiried yn llawn ynoch chi  
 Am gadw dyfodol ein hardal mewn bri;  
 Ei chrefydd, ei moesau, a'i phopeth pryd hyn,  
 Am hynny, O cedweh eich gwisgoedd yn wyn.

UN HOFF O'R PLANT.

---

### ALAWON CRYD.\*

{ s <sub>1</sub> .d :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> .d :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> .f :m .r	s <sub>1</sub> .m :r .d }
Lol i gyd,	lol i gyd,	lol 'di'r cwbl,	dyna'r cebyst,

{ s <sub>1</sub> .d :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> .d :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> .f :m .r	l <sub>1</sub> .t <sub>1</sub> :d
Ddaw o ddim,	ddaw o ddim,	lol 'di'r cwbl,	ddaw o ddim.

Lol i gyd, lol i gyd  
 Lol 'di'r cwbl, dyna'r cebyst  
 Ddaw o ddim, ddaw o ddim  
 Nid mor wirion, ddaw o ddim.

{ m :s	m :s	m .m :m .m   r :—	r :f   r :f   m .m :d .d   d :— }
Dima',	dima',	dima' hen blant bach,	Dima', dima', dima' hen blant bach,

{ m :s	m :s	m .m :m .m   r :—	r .m :f .f   r .m :f .f   m .m :d .d   d :—
Dima',	dima',	dima' hen blant bach,	Dima' dima' dima' dima', dima' hen blant bach.

Dima, 'dima, 'dima' hen blant bach,  
 Dima, 'dima, 'dima' hen blant bach, &c.

---

\* Clywais fy nhad a'm nain ac ereill yn eu canu i ni wrth ein magu.  
J. M. ROBERTS.

## YSGOL PROFIAD.

## I. FY NGHARTREP.

"Câsai Dafydd ab Gwilym y mynachod & chas cyflawn, trwy eu bod mor anaturiol yn eu crefydd, ac, o bosibl, yn ymosod ar ei ganu ef. Iddynt hwy ymddangosai yn benrydd a digrefydd, a chredaf yn hawdd iddo fyned yn rhy bell yn aml. Ond yr oedd ganddo syniad lled ddiwylledig am Dduw a lle crefydd, tra ar yr un pryd y dewtsai ymddangos yn waeth nag oedd. Dyna us o nodweddion y Celt, sef dangos ei hun ar ei waethaf i barb."

**C**REDAF yn hawdd fod yr awgrym am y Celt yn wir. Dwg fy mywyd dinod i dystiolaeth i'w wirionedd. Y mae'r bachgen fentra'r hen fyd yma, dan ymddangos ar ei waethaf, yn siwr o gyfarfod â phethau dieithr iawn. Tynn hynny brofedigaethau i'w ran na ddoent yn agos ato'r un ffordd arall. Ac os gwir y sylw am Ddafydd ab Gwilym,—y mae'n naturiol ddigon,—esbonia'n dlws bwyntiau tarawiadol ym mywyd y bardd hwnnw, garai naturioldeb a phrydferthwch ym mhob dim o'i gwmpas. Ond mae un peth yn siwr o fod yn wir. Ceir pob Celt braidd ar ei oreu, pan y bydd cydymdeimlad â'i neges ac â'i ddawn, i ddweyd yn ei ffordd ei hun, neu, i gyflawni ei swydd yn ei rych a than ei iau ei hun. Dyna'r pryd y temtir aml i feddwl craff i droi ei gôt y tu chwith allan,—pan y gwelo duedd i'w feirniadu'n arw, a phan y teimla yr awyr yn llawn rhagrith ac yn drwm gan hunan atgas. Gwelir peth fel hyn yn y Sais hefyd. Cawn Charles Lamb yn ben-campwr yn y ddawn ddigri hon. Chai neb oreu athrylith Lamb heb fod mewn cydymdeimlad ag ef.

Ond at hyn y cyrchwn,—beth bynnag welir amlycaf yng nghym-eriad y bachgen sy'n foddlon mentro'r garw a'r cain ar ei yrfa, daw'r elfen yma i'r wyneb cyn amled a dim, os nad yn amlach. Ac felly tybiaf mai doeth yw paratoi'r darlennydd ymlaen llaw. A dywedaf fy nghyfrinach wrtho yn y fan yma,—tipyn o fy hanes fy hun sydd gen i yn yr ysgrifau ddaw ar ol hon. Ac yn hon, rhyw baratoi'r ffordd wneir,—troi a throsi dipyn wrth gychwyn. Yr wyf bron meddwl mai "Cymro Bach" y galwaf fy hun yn y stori hon ar ei hyd. Y mae'n wir i gyd; ond, hwyrach y bydd yn haws i mi ddweyd llawer o bethau heb wisgo fy enw priodol. A chydag hynyna o esboniad neu gyfrinach, af ymlaen i ddweyd tipyn bach o hanes y bwthyn ym ganed ynddo.

Agorodd y Cymro Bach ei lygaid yng nghanol gauaf oer, ar fore o rewynt gipiai wres dyn os na thendiai, yn Chwefrol. Y mae'r bwthyn bach a'i croesawodd ar ei draed eto. Trwsiwyd yr hen dŷ unllawr yn ddiweddar gan ei berchennog newydd, a bu gŵr o urddas yn treulio'i wyliau haf ynddo. Ac hwyrach y daw llawer i ddieithr-ddyn i fwynhau darn o haf hyfryd i'r bwthyn y blynyddoedd nesaf. Ond eto, prin y coelias y teimla'r un o'r rhain yr un

cysegredigrwydd yn y ty bach hwnnw a'r Cymro Bach gafodd ei eni yno. Haws tewi mewn syndod pruddaidd wrth edrych ar y llecyn lle y saif, na desgrifio'r teimladau a wisga dros y Cymro Bach pan yng ngolwg y cartre cyntaf y gwyr ef am dano.

Y mae rhyw gysegredigrwydd neilltuol ynglŷn â'r "cariad cyntaf" ymhob cysylltiad. Ac os clustfeinir, clywir tinc wreiddiol yn llais y cariad cyntaf. Y mae yna fywyd nwyfus, naturiol, heb haenen o ddim byd gwneyd, wedi hel o'i gwmpas.

A dyna sy'n difetha popeth,—y teimladau gwneyd yma. Diolch am ambell i adgof am funudau pur, heb yr haen dwyllodrus, ragrithiol yna sy'n cyniwair drwy holl fân lwybrau cymdeithas,—cariad cyntaf,—pur, ystwyth, a naturiol fel ffrydlif y mynydd, yn arllwys peroriaeth ei mynwes bob cam o'i thaith. "O na bawn i fel y nant."

O iel y teimladau grymus sy'n cyffwrdd pob edefyn euraidd ym mywyd dyn. Cwyd hiraeth dros feddwl y Cymro Bach wrth ddilyn desgrifiad Mr. Bradley\* o'r ardal brydferth y cafodd agor ei lygad am y tro cyntaf ynddi. Gwylia'n astud, dan atal ei wynt, a ddywed yr hanesydd dyddorol hwnnw air caredig am y bwthyn syml, sy'n brydferthwch i gyd iddo ef, wrth fyned heibio. Ah! Welwch chwi'r gwrid coch acw'n cerdded gwyneb y Cymro Bach? Pam? 'Does neb yn dweyd dim wrtho, ai oes? Nag oes siwr. Wel, beth sy'n bod, ynte? O, Mr. Bradley, y teithiwr difyrus a'r hanesydd gwych, aeth heibio'r ty bychan dinod heb weld dim byd i'w gofnodi am dano. Desgrifia'r golygfeydd yn swynol ryfeddol, a sonia'n ddoniol am chwedlau yng nghylch llyn llwyd llonydd gerllaw. Ymdry hefyd hefo rhywbeth dynnodd ei sylw mewn ystafell fechan, mewn gwesty, sydd yng ngolwg y bwthyn a basiodd mor ddiseremoni. Ac y mae'r llyn hir brydfertha'r dyffryn yn cael gwisg eiriol a lle amlwg yn y pictiwr, a'r mynydd cribog o'r tu ol wedyn yn mynnu lle yn serch y teithiwr dieithr. Ond am gartre cyntaf y Cymro Bach, nid oes lle y rhoddo ei ben i lawr. Druan o hono, gallasai'n hawdd y tro hwnnw ddweyd beth oedd siomiant. Ond er hynny, wnaeth dallineb y teithiwr (oblegid dyna oedd o iddo ef) ddim gwahaniaeth i'w frwdfrydedd a'i ymlyniad ef wrth y bwthyn bach cysegredig.

Yr oedd yna un arall ar yr aelwyd gynnes honno; ond nid yno y ganed hwnnw. 'Dwn i ddim a oedd rhywbeth fynno hynny a'r ffaith na charodd y Cymro Bach mo hwnnw fel y dylasai. Ei frawd hynaf oedd; ond yr oedd y Cymro fel pe'n ymwybodol mai efe oedd meist'r yr aelwyd honno, a defnyddiai nerth ei fraich fach, a

---

\* *Highways and Byeways in North Wales.*

hynny o gyflymder meddwl a feddai, er cadw'r brawd arall, er yn hŷn, dan ei awdurdod,—dyma fymryn o ol y Celt yn yr amser a fu. Ac felly y parodd hi am dymor go lew. Ond ryw dro, pan yr oedd modryb y gwron bach yn aros hefo nhw, gwelodd ysgarmes rhyngddynt. A sylwodd wrth ei chwaer mewn iaith braidd yn arw,—

“Dian, dydi o ddim yn deg i'r ianga guro'r hyna, wel di.”

A fwrdd a hi, ar hynny, atynt. Cydiodd yn y Cymro Bach, a chymhellodd y llall i sythu ato, a'i goncro'n iawn am unwaith. Felly fu hi hefyd. Cadwodd yr hynaf y blaen hefo'r dwrn am hir byd wedyn. Ond nid anghofiodd y Cymro Bach y tro hwnnw byth. Erys eiddigedd yn ei waed hyd heddyw wrth feddwl am y goncwest anheg honno. Clywodd adrodd helynt y curo a'r colli hwnnw lawer gwaith ar ol hynny; ond 'doedd hynny ddim ond yn berwi'r gynddaredd oedd yn rhy gryf yn barod yng ngwaed yr hogyn bychan dialgar.

Yn gwneyd trydydd ar aelwyd y bwthyn yr oedd cath fawr felen. Canlynai hon a'r bachgen gurodd drwy help ei fodryb, eu gilydd yn ddidor. Lle bynnag y byddai un, gwelid y ddau. A phe gadawsai'r fam y gegin am ychydig, feiddiai'r un ci gwecian yn agos i'r aelwyd. Gwarchodai'r gath felen yn deilwng o'r ymddiedaeth a gawsai neu a gymersai arni ei hun. Yng nghanol ffarm fawr braf yr oedd y ty gwledig hwn, a chae helaeth ffrwythlon o'i flaen. Ac weithiau byddai'r gwartheg o gwmpas, ac yn eu mysg y tarw,—bwystfil brwnt, peryglus.

Ond rhoddid mwgwd am ei lygaid, rhag beth, nis gallaf alw i gof. Sut bynnag, dychrynwyd y fam unwaith wrth weled yr hogyn hynaf, oedd heb ddigon o galon i guro ei frawd iau yn ei nerth ei hun, yn troi'n ddidaro o gwmpas y tarw peryglus. A llawer tro y rheddodd y fam ar flaenau ei thraed, a chipio'r plentyn yn gyflym i ddiogelwch cyn i'r bwystfil dall ddilyn ei throed wrth arogl. A phryd arall, ar fin cynhauf gwair, ai'r gath a'i ffrind drwy'r gwair tew dan gasglu blodau, a gorweddent yn braf yng nghanol yr hir-wair oedd yn barod i'w dorri. A chyn i lygaid eryraidd y fam ffeindio'r cwmni bach, clywid swn llais, os nad lleisiau,—twrw cras bygythiol,—y gŵr oedd bia'r gwair oedd hwn.

Fflachiai llygaid cyflym y fam, ac er craffu'n fanwl nis gallai weled ei bachgen. Ond toc, gwelai gynffon braf y gath felen yn chware tua brig y gwair. Bu'r creadur dof teuluaidd yma'n cymwynasu llawer i'w meistres ac yn amddiffyn y bachgen hynaf, rhag cwn rai prydiau, a rhag mynd ar goll adegau ereill. Pe bai gennyf gof digon da rhown hanes y gath felen yn llawn. Ond rhaid boddioni ar droion ysmala bywyd y Cymro Bach.



(E. R. Williams.)

PLANT CYMRU. CLXVI. PLANT YSGOL SUL NANT, LLEYN.

## NANT, LLEYN.

**W**ELE ddarlun o blant ieuengaf Ysgol Sabothol y Nant, Lleyn, wedi ei dynnu yn ffrynt y capel. Ar y de saif Mr. Hugh Jones, Ty Capel, ac ar y chwith Miss Jones, dau sydd wedi gweithio gyda fyddlondeb mawr gyda'r plant yn y festri ers tros ugain mlynedd.

Cawsom yr ychydig hanes sydd yn dilyn gan yr hen ddiagon enwog ei fydd a'i weithgarwch, Mr. William Jones, y Pandy, tad y Parch. W. Jones, M.A., Fourcrosses. Dywed i'r Ysgol Sul gael ei sefydlu yn hen gapel y Nant yn niwedd 1794. Yn nechreu y flwyddyn 1795 daeth yno athraw ysgol ddyddiol, sef John Thomas, Ty Fair, Bryn croes. Erbyn diwedd y flwyddyn yr oedd llawer wedi dysgu darllen yn weddol dda, ac yna dechreuwyd Ysgol Sabothol. Ar ol y bregeth, yr hon gynhelid ddau o'r gloch, y ceid yr ysgol i ddechreu. Gwneid hi i fyny o un dosbarth o'r holl ysgol. Wedi hynny symudwyd amser yr ysgol i chwech o'r gloch nos Saboth. Nis gellid ei chael yn y bore, am y pregethai y Parch. Benjamin Jones, Pwllheli, yn y Capel Newydd yn ymyl. Yr oedd y gŵr da hwnnw yn dra chymeradwy gan y Methodistiaid. Ceis-iwyd ei chael am hanner awr wedi wyth yn y bore, ond cafwyd fod hynny yn anymarferol. Ar ol ei symud i nos Saboth daeth yr Ysgol yn llond y capel. Hi oedd, y pryd hynny, yr unig Ysgol Sabothol yn y cymdogaethau. Deuent iddi o Lanbedrog, Rhyd Bach, a'r Garnfadryn. Golygfa ddyddorol a dieithriol i ni, yn oes y goleuni trydanol, fuasai gweled capelaid o bobl yn darllen ac esbonio y Beibl ar nos Sabothau yng ngoleuni canwyllau brwyn. Dyna'r dyddiau, er hynny, y gosodwyd i lawr sylfaeni ein cenedl ni fel un ragorol mewn moes a chrefydd. Ar ol marwolaeth y Parch. Benjamin Jones, symudwyd amser yr Ysgol i ddeg yn y bore, yn y flwyddyn 1824. Felly y bu hyd y flwyddyn 1879. Hyd heddyw ceidw Ysgol y Nant safle anrhydeddus yn yr arholiadau.

H. W.

---

 PERYGL PLANT PERSIA.

**B**ENDITH nad ydym yn diolch digon am dani yw heddwch. Yng Nghymru gall plant fynd a dod heb ofni neb. Ond ym Mhersia rhuthrai'r Tyrcomaniaid, ar eu cefylau chwim, a chipiant blentyn ymaith. Ant ag ef i'r mynyddoedd, a hawliant swm mawr o arian am ei ryddhau. Os na ddaw'r arian, anfonant ei tys neu ei glust gydag ail rybydd. Os na chânt yr arian, rhoddant y plentyn, druan, i farwolaeth. Mae llawer plentyn ym Mhersia wedi bod drwy'r helynt enbyd hwn.

“Arglwydd Iesu, Brenin Nef.”

J. REES JONES, Llanon.  
DOH G. *Con grazioso.*

D. LLOYD EVANS, Penrhyn Deudraeth,  
1902.

}	<u>d</u> :m:r	r:-:-	<u>d</u> :-:-	<u>m</u> :s:f	f:-:-	<u>m</u> :-:-	<u>m</u> :r:m	f:-:-	:-:-	m
	<u>s</u> :d:t	t <sub>1</sub> :-:-	<u>d</u> :-:-	<u>d</u> :m:r	r:-:-	<u>d</u> :-:-	<u>d</u> :t <sub>1</sub> :d	r:-:-	:-:-	d
	Arglwydd	Ies - u,	Bren - in	nef,	Gwir	Et - if	- edd			
	<u>m</u> :s:f	f:-:-	<u>m</u> :-:-	<u>s</u> :-:s	s:-:-	:-:-	<u>s</u> :-:s	s:-:-	:-:-	s
<u>d</u> :-:d	<u>d</u> :-:-	<u>d</u> :-:-	<u>d</u> :-:t <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :-:-	<u>d</u> :-:-	<u>d</u> :-:d	<u>d</u> :-:-	t <sub>1</sub> :-:-	d	

}	<u>m</u> :r:d	<u>m</u> :-:-	<u>r</u> :-:-	<u>s</u> :l:s	s:-:-	<u>f</u> e:-:-	<u>f</u> :s:f	f:-:-	<u>m</u> :-:-
	<u>d</u> :-:d	<u>d</u> :-:-	t <sub>1</sub> :-:-	<u>m</u> :f:m	<u>m</u> :-:-	<u>r</u> :-:-	t <sub>1</sub> :-:t <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :d:r	<u>d</u> :-:-
	dae - ar	gref,	Ceid-wad	an - wyl	plant	y llawr,			
	<u>s</u> :f:m	s:-:-	:-:-	<u>s</u> :-:ta	l:-:-	:-:-	<u>s</u> :-:s	s:-:-	:-:-
<u>f</u> :-:l	s <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>d</u> :-:de	r:-:-	:-:-	<u>r</u> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :l <sub>1</sub> :t <sub>1</sub>	<u>d</u> :-:-	

*cres.*

}	<u>m</u> :r:d	<u>m</u> :-:-	:-:-	<u>r</u> :s	<u>f</u> e:m:f	s:-:-	:-:-	<u>s</u> :d:r	<u>m</u> :-:f	<u>m</u> :-:-
	<u>d</u> :t:d	l <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>r</u> :r	<u>r</u> :-:d	t <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>s</u> :l <sub>1</sub> :t <sub>1</sub>	<u>d</u> :-:r	<u>d</u> :-:-
	Efrind holl	deu -	lu'r	cys-tudd	mawr,	Der- byn	ddi - olch,			
	<u>s</u> :-:s	<u>f</u> e:-:-	:-:-	<u>s</u> :l:-:l	s:r:m	<u>f</u> :-:-	<u>m</u> :-:f	s:-:l	<u>s</u> :-:-	
<u>d</u> :r:m	r:-:-	:-:-	<u>d</u> :t <sub>1</sub> l <sub>1</sub> :-:r	s <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>d</u> :-:d	<u>d</u> :-:-	<u>d</u> :-:-		

}	<u>d</u> :m:f	s:-:-	:-:-	<u>s</u> :f:m	r:-:-	:-:-	<u>m</u> :r:m	<u>m</u> :-:-	:-:-	s
	<u>d</u> :-:d	r:-:-	:-:-	<u>r</u> :-:d	t <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>d</u> :r:d <sub>1</sub>	d:-:-	:-:-	s
	der - byn	gan,	Gen - nym	ni,	rai	gweinïaid	mân.			
	<u>s</u> :-:f	f:-:-	:-:-	<u>s</u> :l:s	s:-:-	:-:-	<u>s</u> :s:s	s:-:-	:-:-	
<u>m</u> :d:l	t <sub>1</sub> :-:-	:-:-	t <sub>1</sub> :-:d	r:-:-	:-:-	<u>s</u> :d	t <sub>1</sub> :-:s <sub>1</sub>	d:-:-	:-:-	

s.d.f.Bb. *mp*

*rall.*

}	<sup>d</sup> l <sub>1</sub> :-:l <sub>1</sub>	<u>d</u> :-:-	:-:-	<u>d</u> l <sub>1</sub> :d:l <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :-:-	:-:-	t <sub>1</sub> :-:t <sub>1</sub>	<u>d</u> :-:-	:-:-	l <sub>1</sub>
	<sup>d</sup> l <sub>1</sub> :-:l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>m</u> l <sub>1</sub> f <sub>1</sub> :-:l <sub>1</sub>	se <sub>1</sub> :-:-	:-:-	se <sub>1</sub> :-:se <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-:-	:-:-	l <sub>1</sub>
	Am ddi-	odd -	ef	dros-om	ni	Ing	yr	Ardd	a	
	<sup>a</sup> <u>m</u> :-:m	<u>m</u> :-:-	:-:-	<u>d</u> :d <sub>1</sub> l <sub>1</sub> :r	t <sub>1</sub> :-:-	<u>m</u> :-:-	<u>r</u> :-:r	d:-:-	:-:-	d
<sup>a</sup> <u>m</u> :d:-:d	l <sub>1</sub> :-:-	:-:-	l <sub>1</sub> f <sub>1</sub> :-:f <sub>1</sub>	<u>m</u> <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>m</u> <sub>1</sub> :-:m <sub>1</sub>	<u>m</u> <sub>1</sub> :-:-	:-:-	<u>m</u> <sub>1</sub>	



## G.t.m.l. a tempo.

{	<u>l</u> <sub>1</sub> :t <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	<u>l</u> <sub>1</sub> :--  <u>se</u> <sub>1</sub> :--  <u>m</u> <sub>1</sub> <u>s</u> <sub>1</sub> : <u>d</u> :r	<u>m</u> :--  <u>d</u> :--  <u>s</u> <sub>1</sub> : <u>d</u> : <u>m</u>	<u>s</u> :-- --:--
	<u>f</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>f</u> <sub>1</sub>	<u>m</u> <sub>1</sub> :-- --:--  <u>m</u> <sub>1</sub> <u>s</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>s</u> <sub>1</sub>	<u>s</u> <sub>1</sub> :--  <u>s</u> <sub>1</sub> :--  <u>s</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>s</u> <sub>1</sub>	<u>s</u> <sub>1</sub> :-- --:--
	Chal-fa-ri:	Der-byn	ddi-olch, der-byn	gân;
	<u>d</u> :--:~ <u>d</u>	<u>d</u> :--  <u>t</u> <sub>1</sub> :--:~  <u>d</u> :--:~ <u>t</u> <sub>1</sub>	<u>d</u> :--:~ <u>m</u>   <u>s</u> :--:~  <u>m</u> :--:~ <u>s</u>	<u>f</u> :-- --:--
<u>re</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>re</u> <sub>1</sub>	<u>m</u> <sub>1</sub> :-- --:--  <u>de</u> <sub>1</sub> <u>m</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>r</u> <sub>1</sub>	<u>d</u> <sub>1</sub> :--:~  <u>m</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>s</u> <sub>1</sub>   <u>d</u> :--:~ <u>d</u>	<u>t</u> <sub>1</sub> :-- --:--	

{	<u>s</u> : <u>f</u> : <u>m</u>	<u>r</u> :-- --:~ <u>r</u>	<u>f</u> : <u>m</u> : <u>r</u>	<u>m</u> :-- --:~ <u>m</u>	<u>m</u> :-- --:~ <u>m</u>	<u>m</u> :-- --:~ <u>m</u>	
	<u>s</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>l</u> <sub>1</sub>	<u>t</u> <sub>1</sub> :-- --:~ <u>t</u> <sub>1</sub>	<u>r</u> : <u>d</u> : <u>t</u> <sub>1</sub>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	
	Gen-nym	ni	rai gweiniaid	mân,	Am ddi-	odd -	ef
	<u>f</u> : <u>r</u> : <u>m</u>	<u>f</u> :-- --:~ <u>f</u>	<u>r</u> : <u>m</u> : <u>f</u>	<u>m</u> :--  <u>s</u> :--  <u>s</u> :--:~ <u>s</u>	<u>s</u> :-- --:~ <u>s</u>	<u>s</u> :-- --:~ <u>s</u>	<u>s</u> :-- --:~ <u>s</u>
<u>t</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>d</u>	<u>r</u> :-- --:~ <u>r</u>	<u>s</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>s</u> <sub>1</sub>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	

## rall.

{	<u>m</u> : <u>l</u> : <u>s</u>	<u>f</u> :-- --:~ <u>re</u> :--:~ <u>re</u>	<u>m</u> :-- --:~ <u>d</u>   <u>d</u> : <u>r</u> : <u>t</u> <sub>1</sub>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>
	<u>d</u> :--:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	<u>d</u> :-- --:~ <u>s</u> <sub>1</sub>   <u>s</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>s</u> <sub>1</sub>	<u>s</u> <sub>1</sub> :-- --:~ <u>s</u> <sub>1</sub>
	dros-om	ni,	Ing yr	Ardd a Chal-fa-ri.
	<u>s</u> : <u>l</u> : <u>ta</u>	<u>l</u> :-- --:~ <u>l</u> :--:~ <u>l</u>	<u>s</u> :-- --:~ <u>m</u>   <u>m</u> : <u>f</u> : <u>r</u>	<u>f</u> :--  <u>m</u> :--  <u>m</u> :--
<u>d</u> :--:~ <u>m</u>	<u>f</u> :-- --:~ <u>fe</u> :--:~ <u>fe</u>	<u>s</u> :-- --:~ <u>s</u> <sub>1</sub>   <u>s</u> <sub>1</sub> :--:~ <u>s</u> <sub>1</sub>	<u>d</u> :-- --:~ <u>d</u>	

## 2.

Ger Dy orsedd ddwyfol wen—  
 Sanctaidd gylch tuhwnt i'r llen,  
 Tyrfa sydd o honom ni  
 Fyth ger bron Dy orsedd Di ;  
 Derbyn ninnau blaut y llawr,  
 Wrth Dy orsedd Iesu mawr ;  
 Golch ni yn Dy ddwyfol waed,  
 Gad in aros wrth Dy draed.

## 3.

Diolch i Ti, Fugall mwyn,  
 Am dosturio wrth Dy ŵyn ;  
 Aethant ar ddisperod pell,  
 Gan anghoffo'r tiroedd gwell ;  
 Crwydro eto wnant yn ffôl  
 Oni ddeui ar eu hol ;  
 Arglwydd Iesu'r Bugall cu,  
 Yn Dy fynwes cadw ni.



## URDD Y DELYN.

## Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

## AELODAU NEWYDDION.

1722. Cadwaladr Gryffydd Jones, 2, Rhodfa Wnion, Dolgellau.  
 1723. Thomas Gruffydd Jones, 2, Rhodfa Wnion, Dolgellau.  
 (Yr oedd enw eu chwaer fach, Meirionwen, i ddod hefyd. Ond diangodd hi, yn gynnar gynnar, i fynwes yr anwel fydd).

## Y BABAN.

ANGEL ei fam mewn ingol fyd,—anwyl  
 Un, yn Ionawr bywyd;  
 Siriolaf gysur aelwyd,  
 Heb un groes, yn byw'n ei gryd.



**GWILYM GWYNANT.**

“ Deallwn mai'r awr dywyllaf,—welai  
William yn oleuaf;  
Nos angau du,—y duaf,  
Droes yn wawrddydd hirddydd haf.”

DEWI ARFON.

**A** NFYNYCH y gwelwyd galar mwy cyffredinol a didwyll ar ol colli unrhyw lanc nac a ddangoswyd gan drigolion nentydd y Wyddfa adeg marw a chladdu William Roberts, Ty Clwb, Bedd-gelert. Yr oedd yn gymeriad eithriadol o hardd.

Pan fu farw ei dad,—y gwladwr syml, tawel, a rhinweddol, Harri

Roberts,—aeth Gwilym ar neges i Borth Madog, a tharawyd ef yn wael; ac wedi ychydig ddyddiau o ddioddef o dan ei glefyd blin, ehedodd ei ysbyrd i'r gwynfyd sydd tu draw i'r llen. Ciliodd o olwg ei hoffus gydnabod gyda sydynrwydd oedd mor lawn o arddunedd a diflaniad y niwl harddwyn oddiar ael Moel Hebog wedi gwlaw. Gwywodd yr “hygaraf flaguryn” hwn ar Mai 23, 1902, tra'n 21 mlwydd oed, a hynny pan oedd bywyd yn gogoneddu gwynneb y caeau ceimion ar mynyddoedd uchelgrib o gwmpas ei gartref. Pan ddaeth y deifwynt ymosodol heibio iddo ar ei rawd, yr oedd yntau,—yn ol ei fynegiad ei hun am un arall,—

“ Megis blodyn tyner, egwan,  
Yn blaguro yn yr ardd;  
Dan y gwllith yn araf agor  
I gusanu'r heulwen hardd.”

Ie, tystia pawb ei fod “yn araf agor” i gusanu duwies clod, ac i anrhydeddu gobeithion ei edmygwyr. Ond y mae dirgelion ffyrdd ein Ior yn dywyll iawn i welediad meddwl cymysgld y daearol teithwyr yr anialwch. Nis gallwn ond plygu pen yn wylaidd mewn gostyngeiddrwydd, a distaw ocheneidio mewn ymson a braw y byrdwn rhyfedd,—“Mor anlrheinadwy ydynt.”

Chwarelwr ydoedd William Roberts, a bachgen siriol, diymhongar, a nodedig o uniawn ei rodiad o'i gam cyntaf ymlaen. Ni welwyd ef erioed yn croesi trothwy tafarndy, oblegid yr oedd yn Nazaread trwyadl. Credai yn ddisyfl mai bendith ac iachawdwr-iaeth i ieuanc, canol oed, a hen, yw llwyrwmwrthodiad rhag y diodydd hudoliaethus a dinistriol. Gweithiai ei egni o blaid cymdeithas y Temlwr Da a sefydlwyd ym mhentref ei enedigaeth, a theimlai yn ddwys fel dyn a Christion dros lawer o'i gyd-ieuencid oedd yn aros yn esgeuluswyr. Gobeithiai, fel llawer, am weled rhyw ruthrgyrch cyffredinol yn erbyn caerau Bacchus.

Astudiai yn galed ym maesydd eang duwinyddiaeth, cerddoriaeth, barddoniaeth, a llenyddiaeth, ac nid oedd ball ar ei awydd i ddarllen, a diwyllio ei feddwl. Safai yn uchel yn arholiadau sirol Arfon, ac y mae ei dystysgrifau yn ddigon i orchuddio pared ystafell. Onid ydynt yn addurniadau mynegiadol i'r byw o ymroddiad a gwybodaeth ysgrythyrol bachgen mor ieuanc?

Yn ystod y misoedd olaf y bu fyw, cyd-ddysgai y gantata ddirwestol “Rosina” (Alaw Manod), gyda Chôr Plant Nanmor, ac yr oedd gyda hwynt yn ei pherfformio ychydig amser cyn ei ffarwelriad.

Chwareuai yn fynych gyda'i awen, ac wrth weld ei gynnydd amlwg mewn arddull a cheinder, awgrymais wrtho mewn ysmaldod, am iddo ddefnyddio yr enw “Gwilym Gwynant,” yn ol defod yr holl

brydyddion. Yn ystod yr ymgom ddiweddaf a gawsom, dotiai at gywreinerwydd naturiol cynganeddion Dafydd ab Gwilym, y rhai a welodd am y tro cyntaf yn y gyfrol newydd rad a hylaw a roddwyd i ni yn ddiweddar. Yr oedd ei awyddfryd yn gryf am weled ychwaneg o emau'r hen feirdd, y rhai sydd mor lawn o dlysinieb mewn gwisg ac addysg diarhebol.

Y mae'r penhillion olaf a luniodd ar destyn pur darawiadol. Clywodd fod nai iddo, blwydd a hanner oed, wedi mynnu cael y Beibl yn ei fynwes i'w wely un noswaith, ar ol i'w dad orffen cadw y ddyledswydd deuluaid. Dyma'i gyfarchiad pert i'r bychan,—

Os mynnaist i'th orweddle  
Gael y Gyfrol fwya'i bri,  
Gwnest dy fynwes wen yn allor  
I offrymu gwers i ni.

Yn dy ffafr trodd diniweidrwydd,—  
Fe goffeidiaist Lyfr y Groes,  
Cyn i ddiafol gyda'i barddu  
Ddechreu hagra rhin dy foes.

Megis angel boddlon, siriol,  
Hunaist, ar ol seinio cân,  
Gyda thrysor y Jehofah  
Ar dy ddwyfron fechan, lân.

Yn dy galon, Owen anwyl,  
Cadw 'i genadwri mwy,—  
Fe rydd nerth i drechu 'stormydd,  
Dyry falm i leddfau clwy.

Os oes "dyfroedd mawr a thonnau,"  
Draw, mewn caddug ar dy ran,  
Yn y Llyfr fu ar dy fynwes  
Ti gei rwyf a'th ddwg i'r lan.

Cymerai ran arbennig gyda chylchwylliau llenyddol ei fro. Yr oedd yn ysgrifennydd ariannol yr un ddiweddaf a gynhaliwyd ym Meddgelert, ac yr oedd yn ysgrifennydd cyffredinol yr un flaenorol. Cyn i flodeudyrch ei gyfeillion wywo ar ei briddell, daeth dydd mawr yr wyl. Yr oedd wedi cyfansoddi traethawd ar y testyn cynhwysfawr,—“Y pwysigrwydd o ddatblygu y gallu i sylwi.” Er nad oedd wedi cael egwyl yn ei glefyd i hysbysu beth oedd ei ffugenw, deuwyd i wybod ar ol y cwrdd mai ei waith ef a farnwyd gan ficer y plwyf fel y goreu. Yng Nghymanfa Ysgolion Dosbarth Beddgelert, yr wythnos wedi ei gladdu, canwyd y dôn swynol, “Côr Caersalem,” gyda theimlad dwys, er parchu ei goffadwriaeth.

“Yma, mae 'i lais a'i emyn,  
Tan glo yn tewi'n y glyn.”

Ond y mae ei ysbryd pur heddyw yn ei elfen, gyda hen dduwionolion tanbaidd Beddgelert. “A chanu y maent gân Moses a chân yr Oen.

## GWNEYD RAFFT.

**D**IAU nad oes lawer ohonoch chwi, blant Cymru, yn gwybod nemawr ddim am rafftiau. Ar frydiau bychain y wlad yma, ni fyddent o fawr ddefnydd. Ond ar afonydd mawr America, gwneid defnydd helaeth ohonynt flynyddoedd yn ol cyn dyfodiad yr agerbeiriant, a defnyddir llawer ohonynt eto mewn manau anghysbell, i gludo coedydd trymion o un man i'r llall. Ond nid am y rafftiau mawr, celfydd hynny y mae fy stori, ond am rafft wedi ei gwneyd o dan anfanteision mawr, ac o ddefnyddiau rhyfedd; er dangos i chwi sut mae dyn yn gallu dyfeisio fiordd allan o bob anhawster yn y gwledydd pell yna, lle nad oes ganddo fawr ddim i'w gynorthwyo ond ei synwyr cyffredin.

Byddaf yn myned a chwi yn bell iawn o Gymru, i wlad fawr wastad, ddifynydd, a digoed. Dyna i chwi wlad anhebyg i Gymru fynyddig, goedlog, onide? 'Rwy'n siwr na hoffech fyw yno; ond mae plant bach Patagonia bell yn meddwl mai ganddynt hwy y mae'r wlad dlysaf, hyfrytaf dan haul. Os nad oes ganddynt fynyddoedd a choedwigoedd fel chwi, mae ganddynt heulwen na welsoch chwi erioed ei fath, awyr las ddisglaer fel y môr ar ddiwrnod tawel, am chwe mis neu ragor bob blwyddyn, dim cwmwl ar yr awyr, a llond y wlad o haul. Dyna i chwi le iawn i dyfu,—digon o awyr, digon o haul, a digon o le.

Ond, mae yna rywbeth arall yn dod i'r dyffryn tawel weithiau nad yw'n hyfryd, ac sy'n gorfodi'r mamau a'r plant i ffoi o'u cartrefi clyd ganol nos yn nynder gauaf.

Mae afon fawr, lydan, yn rhedeg drwy ganol y dyffryn, yr hon sydd werthfawr iawn i'r trigolion, gan mai hi yw'r unig un. Ond ar adegau, yn ystod misoedd y gauaf, bydd yn gwlawio am wythnosau yn ddibaid, nes chwydda'r afon yn gyflym, ac ni fydd digon o le i'r dŵr rhwng y torlannau, ac yna, yn sydyn, rhyw noson pan fydd pawb yn cysgu'n dawel, fe ruthra'r afon dros ei cheulannau, gan ledu dros y dyffryn i gyd, a gwneyd un llyn mawr, gwastad, o'r wlad oedd ychydig oriau'n ol yn llawn o gartrefi diddos, a chaeau a gerddi firwythlon. Rhaid ffoi o flaen y dŵr, gadael popeth, a ffoi am fywyd, i ben y bryniau moelion, digysgod.

Ond mewn un rhan o'r dyffryn yr oedd bryn bychan, ac ar hwnnw yr oedd Cymro wedi adeiladu ty, gan obeithio na chodai'r dŵr dros y bryn; a phan ddaeth y llifeiriant diweddaf dros y dyffryn, penderfynodd fentro aros yn ei gartref, yn lle ffoi tua'r bryniau digysur. A dyna lle'r oedd y teulu dewr, yn saith mewn nifer, ar yr ynys fechan yma yng nghanol y dŵr. Nid oedd yr Ynys Wen ond prin acar o dir i gyd, a dalia'r dŵr i godi o ddydd i ddydd, yn

nesu yn nes, yn nes o hyd i'r bwthyn bychan gwyn, gan lanw pob calon â dychryn. Penderfynwyd rhoi baner goch fawr ar ben y tŷ, er ceisio tynnu sylw y bobl oedd ar y bryniau, gan obeithio y deuai cwch dros y dŵr i edrych eu hynt. Bu'r faner i fyny am wythnos, ond 'doedd neb yn gweld, na neb yn dod, a'r dŵr yn codi yn araf ond sicr. Ac yn yr amser pryderus yma penderfynwyd gwneyd rafft i fynd drosodd i'r bryniau i nol cwch, fel, os delai y dŵr dros yr ynys, y gellid ffoi i ddiogelwch.

Ond, beth sydd eisieu i wneyd rafft? Wel, llawer iawn o goed, a rhaffau, a hoelion, ac offerynau saer i lunio'r coed, a'u doddi yn glyd wrth eu gilydd. Ond yr holl goed yn yr Ynys Wen oedd dau "scantling" meinion iawn. Ond yr oedd yn rhaid gwneyd rafft. O'r goreu, fe wnawn un ynte, a chofiwch chwithau'r stori i gyd, rhag ofn y bydd rhai ohonoch yn mynd dros y môr i wledydd pell y ddaear, lle mae'n rhaid dyfeisio pethau newydd spon ar fyr rybudd yn aml.

Gresyn na fuasai modd i chwi gael darlun o'r tad a'r tri bachgen siriol yn gwneyd y rafft. Yr oedd y ddau *scantling* ganddynt i ddechreu. Wedyn tynwyd dau o'r drysau o'r ty, i'w rhoddi ar y *scantlings*, gan eu hoelio crystal ag y medrent â hoelion ceimion, rhydyd, a gasglwyd o bob man. Dyna waelod go lew, ond nid oedd yn ddigon. Cariwyd y ddau fwrdd o'r gegin a dodwyd hwy ar y drysau, a'u traed i fyny, fel y byddent yn ffurfio rhyw fath o ochrau, ac yn ddiogelwch i'r rhai safent arni. Ond yr oedd yn rhaid cael rhywbeth i'w chadw yn *steady*, neu buasai'r symudiad lleiaf yn ei throï a'i gwyneb i lawr. Wedi dyfal chwilio cafwyd o hyd i ddau focs gweddol debyg i'w gilydd mewn maint a phwysau, a hoeliwyd hwy un bob ochr i'r rafft. Rhyw long go ryfedd oedd hi ynte? Beth pe buasai rhai ohonoch yn ceisio tynnu ei llun i'w ddanton i'r CYMRU'R PLANT nesaf? Ond er cymaint gorchest oedd gwneyd y rafft, mwy o lawer oedd mynd arni, a chroesi'r llyn aflonydd. Ond mentro wnaed, ac erbyn i'r tad ac un o'r bechgyn fynd ar y bwrdd, neu fyrddau yn hytrach, yr oedd y rafft fel rhyw lestr tan-forawl, heb ddim yn y golwg ond y ddau forwr. Credaf fod y ddau yn mwynhau eu hunain yn ardderchog, canys ni wyddent beth yw ofn. Ond pryder mawr oedd ar yr Ynys fel y gwylient y llestr bregus yn myned yn gyflym gyda'r lli, ac ymhen ennyd yn diflannu yn gyfangwbl o'r golwg. Ac ym min yr hwyr, pan oedd llygaid y fam a'r plant wedi blino syllu dros y dyfroedd am ryw arwydd bychan o'r teithwyr, draw yn y pellter, rhyngddynt a machlud haul, gwelent rywbeth yn symud yn araf ar y dŵr. Ond yr oedd y nos yn prysur ddyfod, ac aeth yn fuan yn rhy dywyll i weld dim. Ond yr oedd swm yn dod tros y dŵr a lanwai bob

calon â llawenydd, swm cyson y rhwyfau ar y dŵr, yn dweyd fod cwch gerllaw,—miwsig melus i'r gwylwyr pryderus. Ie, dyma nhw yn ddiogel adre'n ol mewn cwch braf, ac yn tywys o'u hol mewn buddugoliaeth y rafft a luniwyd mor gywrain ac a wnaeth waith mor ardderchog.

Pa un ai'r morwyr ynte'r llong sydd oreu gennych?

ELUNED.

### BLWYDDYN NEWYDD DDA.

(LLINELLAU YSGRIFENNWYD Mewn ALBUM.)

**B**LWYDDYN newydd dda o galon,  
A ddymunaf i chwi'n llon;  
Blwyddyn ddedwydd, ddi-ofalon,  
I chwi fyddo'r fiwyddyn hon.

Ar eich llwybrau byth na ddeued  
Du gysgodau poen a chur;  
Llwybrau fyddont fythol wynion,—  
Gwynion gan hapusrwydd pur.  
*Nant Gwynant.*

Blwyddyn newydd i chwi, ddiwyd  
Mewn gweithredoedd pur a da;  
Pethau dwyfol fydd i'ch bywyd  
Fel prydfferthwch blodau'r ha.

Pethau bery byth yn wyrddion,  
Yn eich bywyd fydd rhai hyn;  
Hwy ni ywwant gyda'r fiwyddyn,  
Fel gwŷa blodau'r haf-ddydd gwyn.  
M. A. JONES.

### DYDD CALAN.

(HEN RIGYMAU GENID GAN BLANT YR AMSER GYNT.)

**C**ALENNIG yn gyfan,  
Bore dydd Calan;  
Unwaith, dwywaith, tair.

Calennig wyf yn 'mofyn.  
Ddydd Calan, ddechreu'r fiwyddyn;  
A bendith byth fo yn eich ty,  
Os tycia i mi gael tocyn.

Rhowch galennig yn galonnog  
I ddyn gwan sydd heb un gelnog,  
Cymaint roddwch, rhowch yn ddlddig;  
Peidiwch grwgnach am ryw 'chydig.

Calennig i mi, calennig i'r ffon,  
Calennig i fwyta'r noson hon;

Calennig i'm tad am glytio'm 'sgidiau,  
Calennig i mam am glytio'm 'sanau.

Plant bach sydd yn dyfod â'u dillad  
yn dyllau.  
A'u hewinedd bron codi wrth gydio'n  
y cydau;  
O byddwch yn serchog, na fyddwch  
yn syn,  
Mae hen ddatad Seisnig yn byw yn y  
glyn.

Mi godais heddyw maes o'm ty,  
A'm cŵd a'm pastwn gyda mi;  
A dyma'm neges ar eich traws,—  
Sef llanw'm cŵd â bara a chaws.

---

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

ARGRAFFWYD A CHYTHOEDDwyd GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET GWYBECAM.



## AT Y PLANT.

**B**OB. Plant amddifaid neu llant tlodion Llundain yw ysgubwyr yr ystrydd-  
oedd. Bu aml un ohonynt yn taro ei fys ar ei gap, ac yn dechre ysgwrs â



ml. Nid oes arnynt gy-  
wilydd o'u dillad carpiog,  
y mae y rheiny yn help i  
dynnu sylw y trugarog  
atynt. Maent yn onest,  
lawer ohonynt beth bynnag,  
yn garedig, ac yn striol.  
Feallai eu bod yn tosturio  
wrth ryw fynyddwr bach o  
Gymro sy'n gorfod treulio  
ei amser i gadw defaid neu  
wyllo gwyddau yn y myn-  
yddoedd.

**S**IGMA. Ni ddaeth y dar-  
lun mewn pryd i gael ei  
gerfio. Daw yn wasanaeth-  
gar eto mae'n ddiameu. Y  
mae'n ddarlun tiws iawn.  
Dyffryn Conwy dan eira yw,  
onide?


**W**.J. Bydd ambell ddadl  
yn dderbyniol iawn.

**R**. O. Nis gallaf ddweyd  
wrthych sut y gallwch ddod  
yn llenor Cymreig yn well  
na gofyn i chwi ddarllen  
gwaith y prif lenorion. Yn  
araf iawn, wrth reswm, yr  
enillwch chwaeth lenyddol  
dda.

**E**. E. Fel llawer beirniad  
arall, nis gallai Charles  
Lamb ddeall yr un awdwr  
os na fyddai yn ei garu.

**S**. Mae Eisteddfod Plant  
yn un o'r pethau difyrraf.  
Cynhelir un ym Methel,  
Arfon, y mis hwn. "Yr  
Haf" (R. Williams), o  
GYMRU'R PLANT am Mai,  
1902, yw testyn y brif gys-

tadleuaeth. Bydd y côr oll dan ddeunaw oed. Bydd yno gadair a choron i  
blant hefyd. Hen blant y fro fydd yn llywyddu ac yn beirniadu.



**DIWYDIANNAU CYMRU.**

**II. PORTHONA YM Mynydd Iurathog.**



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XII.

CHWEFROL, 1903.

RHIF 134.

## CAN YR HOGYN DIOG.

**H**EN wr tawel, tirion, oedd fy ewrth oedd yn medru'r gân; ac am ei fod yn wael gan afiechyd blin, byddai yn brudd a distaw yn ei gongl bron bob amser, tra bum i (yn fachgen pur ieuanc) yn aros yn ei dŷ. Fe fyddai yn gwrando yn ddi-gwyn ar fy nghefnder a minnau yn siarad, a darllen, a chanu, ond prin y dywedai ddwsin o eiriau mewn dechreunos. Ryw noson, fodd bynnag, tua'r Nadolig, fe ddywedodd yn sydyn, a golwg hanner cellweirus arno,—“Mi gana'i i chwi gân, os mynnwch, na chlywsoch chi 'rioed moni.” Ac fe wnaeth, er dirfawr syndod a mwynhad i bawb ar yr aelwyd. Ni a aethom i chwerthin gormod i'w dal a'i deall ar y tro cyntaf, a bu raid iddo ei hail ganu, er mor anodd oedd cael ganddo wneyd. Mi a'i dysgais yn y fan, ac yr wyf yn ei chofio o hyd. (Hawdd oedd dysgu pethau y pryd hwnnw, yn enwedig hen gerddi difyr.) Gwir a ddywedodd fewrth, na chlywsem ni erioed mo honi. Ac ni welais i neb ar ol hynny wedi ei chlywed erioed, na dim tebyg iddi (o ran y geiriau). Dyma yr unig gân i mi ei chanu yn effeithiol. 'Rwy'n cofio fy nghyfaill Palestineon, ryw noson wlawog bell yn ol, yn disgyn oddiar y gadair yn yr ystafell yma, ac yn ymestyn ar y llawr bron mewn llewyg, wrth ei gwrando. Ac nid efe yn unig a orchfygwyd ganddi. Fe fu mwy nag un mab a merch pur enwog mewn ymdrech awyddus yn ceisio ei dysgu. Wn i ddim a ydyw Mrs Ellis Jones-Griffith yn ei chofio hyd yn awr. Hi fu unwaith. Mi goeliaf fod Miss L. M. Lloyd, B.A., yr Ysgol Sir, Llandrindod, hefyd yn ei chofio.

O'r plant, y mae Meredydd Foulkes, Llanberis, wedi ei dysgu'n dda, ac yn medru ei chanu'n ddoniol. Yn awr yr wyf yn ei rhoi yn anrheg i ddarllenwyr llon CYMRU'R PLANT. Fe ddodir yr alaw i lawr mewn dwy ffordd, er mwyn awgrymu pa fodd y mae ffittio'r gwahanol benhillion iddi.

ALAFON.

DOH G.

{ | d : d : d | t<sub>1</sub> : t<sub>1</sub> : t<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : l<sub>1</sub> | d : - : d | t<sub>1</sub> : - : t<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : l<sub>1</sub> }  
Neithiwr yr euthum i dŷ fy nhad, I geis - io'n rhad, i

{ | m<sub>1</sub> : - : m<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : - | l<sub>1</sub> : l<sub>1</sub> : l<sub>1</sub> | t<sub>1</sub> : t<sub>1</sub> : t<sub>1</sub> | d : - : r' | m : - : r }  
dŷ fy nhad, Neithiwr yr euthum i dŷ fy nhad, I

{ | d : - : l<sub>1</sub> | t<sub>1</sub> : - : s<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : - | l<sub>1</sub> : - : - ||  
geis - io'n rhad fy nghin - io.

{ | d : d : - : d | t<sub>1</sub> : - : t<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : l<sub>1</sub> : l<sub>1</sub> | d : - : d | t<sub>1</sub> : - : t<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : l<sub>1</sub> }  
A dim o'r bwyd ac yn-o ni chawn, Ac am na bawn ac

{ | m<sub>1</sub> : m<sub>1</sub> : m<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : l<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : l<sub>1</sub> | t<sub>1</sub> : - : t<sub>1</sub> | d : d : r | m : - : r }  
yn-o ni chawn, A dim o'r bwyd ac yn-o ni chawn, Ac

{ | d : - : l<sub>1</sub> | t<sub>1</sub> : - : s<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> : - : - | l<sub>1</sub> : - : - ||  
am na bawn i'n gweith - io.

Mi gododd 'y mam i roi 'mi fwyd,  
"Fy machgen llwyd," i roi 'mi fwyd,  
Mi gododd 'y mam i roi 'mi fwyd,  
"Fy machgen llwyd, ty'd heibio."

Mi gododd 'y nhad ac atom i'r llawr,  
A phastwm mawr ac atom i'r llawr,  
Mi gododd 'y nhad ac atom i'r llawr,  
A phastwm mawr 'n 'i ddwylo.

Yr ysgub i mam, a dyna hi'n wald—  
O hald i hald a dyna hi'n wald,  
Yr ysgub i mam, a dyna hi'n wald—  
O hald i hald yn waldio.

'Y nhad a ro'i ffat, a mam a ro'i ffat,  
On 'toeddan nhw'n ddigri o ffat i ffat?  
'Y nhad a ro'i ffat, a mam a ro'i ffat,  
On 'toeddan nhw'n ddigri'n ffatio?

'Roedd well gin i gael gwelad hyn  
Na siwgwr gwyn gael gwelad hyn,  
'Roedd well gin i gael gwelad hyn  
Na siwgwr gwyn i'm cinio.

## YCHWANEG ETO AM Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

II. NEWID DILLAD.

**P**REGETH fer gawsom yn Bethel y bore hwnnw, ac yr oeddwn ar y ffordd adref ychydig wedi un ar ddeg. Ceisiwn ddyfalu wrth fyned pa helynt fyddai gan Sarah i adrodd wrthyf pan gyrhaeddwn y ty, Oherwydd gwyddwn drwy brofiad y byddai'r ddau yn sicr o fod wedi hynodi eu hunain rywffodd neu gilydd yn fy absenoldeb; ffordd waharddedig hetyd, mae yn ddiddadl.

Pan oeddwn bron wedi cyrraedd gartref, y ty yn y golwg, gwelwn un o'r *telegraph messenger boys* yn dod allan o lidiart yr ardd i'r ffordd. Cychwynnodd yn gyflym i'r cyfeiriad arall, a chyflymais innau fy ngherddediad, a ty nghalon yn ty ngwddf, gan dybied fod rhyw niwed wedi digwydd i John, a bod pellebyr wedi dod i fy hysbysu o hynny. Ond yn fuan cofiais nad oedd y Swyddfa yn agored yr adeg honno ar fore Sul, a chymerais ty anadl drachefn, ac edrychais y *messenger* yn fwy gofalus nag oeddwn wedi wneyd ar y cyntaf yn fy nychryn. Ac wrth graffu arno yn y pellter, meddyliais ei fod yn ymddangos yn llai hyd yn oed na Jim, y lleiaf o arwyr y ddau, a bod rhywbeth yn wahanol yn ei ystum a'i gerddediad hefyd. Fodd bynnag, ni chafodd fyned ymhell, gan i fachgen arall rhedeg allan i'r ffordd a'i ddilyn nes dod i'w ymyl. Yna gafaelodd ynddo, a dechreuodd ei lusgo, yn amlwg yn erbyn ei ewyllys, yn ol at y ty. Meddyliais am funud mai Willie oedd yr ail fachgen. Tra yr oeddwn yn ceisio cysoni pethau, daeth un arall drwy y lliidiart, ac yr oeddwn erbyn hyn yn ddigon agos i weled mai y diweddar ddaeth allan oedd Willie. Ar ei ol ef deuai Sarah, yn llefain,—

“Dowch i'r ty, blant drwg. Mi fydd mistras o'i cho. A'r anwyd arnoch chi! Bobbie, Bobbie, Jim! O'r cnafon! Dowch i'r ty mewn munud. Mae hi'n amser i bobol ddwad o'r capal.”

Trodd ei phen i edrych i lawr y ffordd, a gwelodd fi yn nesu, ac ychwanegodd,—“Bobbie, Bobbie, mae meistras yn dwad.”

Erbyn i mi gyrraedd y lliidiart, yr oedd y ddau arall wedi ei chyrraedd, a dyna lle safai'r pump ohonom,—Jim wedi ei wisgo, er fy syndod, yn nillad goreu Willie,—nid oedd rhyw lawer mwy nag ef,—a Bobbie wedi ei wisgo yn nillad swyddogol Jim. Nis gwyddwn pa fodd i ddechreu ceryddu, gan fel yr oedd arnaf eisieu chwerrthin. Yr oedd golwg mor ddigrifol ar Bobbie, gan fod y wisg gryn gwrs yn rhy fawr iddo. Ymddangosai Jim yn hanner dig, a mwy na hanner dychrynedig, ac edrychai i fyny ac i lawr y ffordd fel pe yn ofni gweled rhywun yn dod i'r golwg.

Danfonaſ y tri i'r ty, ac i'r llofft i wisgo eu hunain yn y dillad priodol i bob un. Ychydig o amser gymerodd iddynt wneyd hyn, ac ymadawodd Jim yn frysiog anghyffredin.

Wrth gwrs, yr oedd y ddau yn barod i egluro popeth yn y modd mwyaf agored. Ni fynnent o gwbl eu bod wedi bwriadu gwneyd fel y darfu iddynt. Ymddengys eu bod yn sefyll wrth y ffenestr, yn ufudd edrych y "llyfr mawr pictiwrſ," ac ar yr un pryd yn cadw llygaid ar bwy elai heibio'r ty. Toc, gwelent Jim yn dod, ar ei ffordd gartref o'r Swyddfa. Curodd Bobbie y ffenestr arno, a rheddodd Willie i agor drws y ffyrnt, a phan welodd Bobbie ei fod wedi cael sylw Jim, dilynodd ei frawd i'r drws. Rhoddodd y ddau wahoddiad taer i Jim i'r ty, ac wedi ei gael i'r parlwr daeth i feddwl bywiog Bobbie y buasai y peth mwyaf dymunol yn y byd cael *uniform* Jim am dano am bum munud; ac yr oedd ei frawd o'r un farn. Deallais fod Jim braidd yn gyndyn o gydsynio â'u dymuniadau ar y dechreu; ond ymddengys i'r ddau daenu eu holl drysorau o'i flaen, gan ddweyd y caffai unrhyw beth ohonynt ddymunai os y gwnai fel y dymunent. Yr oedd cyllell bedair llafn ymhlith y trysorau hyn, a hon orchfygodd Jim. Ei amodau oeddynt na chaent eu gwisgo am fwy na phŵm munud bob un, ac nad oedd-ynt, wrth gwrs, i fyned allan o'r ty. Aethant i'r llofft er gwaethaf rhybuddion Sarah, a rhoddodd Willie ei siwt ddydd Sul i Jim tra yr ymwisogodd yntau yn y dillad oeddynt wedi hoffi gymaint. Bu ef yn hollol ufudd i orchymynion Jim, ac mae yn eithaf sicr na chafodd aros ynddynt yn hwy na phum munud, os cafodd cyhyd, oherwydd brys ei frawd i gael yr un ffrant. Ond ymddengys nad oedd Bobbie wedi ymddwyn mor foddhaol, a chynted y cafodd y dillad am dano rheddodd i ddangos ei hun i Sarah, a chan nad oedd honno yn rhoddi'r edmygedd feddyliai ef oedd yn ddyledus iddo, ond yn hytrach ei "datodi" yn hyawdl, diangodd allan i'r ffordd i edrych oedd neb arall y cawsai ddangos ei hun iddo yng ngogoniant yr *uniform*. Ond dywedai ef mai rhedeg allan i "gogio mynd a thelegram" oedd wedi wneyd.

Er i mi eu ceryddu mor llym ag yr cedd yn fy ngallu, ni lwyddais i'w hargyhoeddi o gwbl eu bod wedi gwneyd unrhyw ddrwg,—nid oeddynt wedi torri dim, na cholli dim, na brifo neb. Dywedais eu bod wedi torri eu gair, gan eu bod wedi addaw wrthyf beidio myned allan o'r ty. Ond dywedai Bobbie fod ei anwyd wedi gwella llawer ar ol i mi fyned i'r capel, a'i fod felly wedi ei ryddhau oddiwrth yr adewid, gan mai o achos yr anwyd yr oedd i gadw yn y ty. Ac ofer oedd i mi geisio eu darbwyllo ar y pwnc.

Y peth cyntaf wnaethant pan ddaeth John adref fore ddydd Llun oedd adrodd yn fuddugoliaethus yr holl hanes wrtho. Wrth gwrs, ni wnaeth John ddim ond chwerthin, ac felly aeth fy holl geryddu yn ofer, gan nad oedd gennyf neb i fy nghefnogi.

## GER Y TAN.



## I. RHAGYMDRODD.

WN am hen ŵr yn byw yn fy ymyl i, sydd wedi treulio llawer iawn o flynyddoedd yng ngwasanaeth ein diweddar frenhines Victoria. Bu yn y fyddin, ac wedi hynny yn wladweinydd. Mewn gwledydd poethion y bu fwyaf,—yn yr India, a China, ac Affrica. Am hynny bydd tanllwyth o dân mawr yn ei ystafell bob amser yn y gauaf; a da iawn fydd gennyf gael rhoi tro i edrych am dano, oherwydd bydd y tân mor groesawus ac ysgwrs yr hen ŵr mor ddifyr. Ymysg yr ymwelwyr cyson y mae


cymydog bychan o'r enw Bob, ac nid oes neb ohonom yn gwrando yn fwy astud na Bob pan aiff yr hen ŵr ar draws neidr neu ar ol llew. Dyma ran o'i ysgwrs ddoe.

## II. HELA LLEWOD.

Mae tri dull o hela llewod. Chwi wyddoch am wlad y Somali, lle mae byddin i ni yn awr, yn disgwyl gorchymyn i fynd ar draws yr anialwch i ymladd â'r proffwyd gwyllt. Gwlad y llewod ydyw honno. Yr oeddwn i unwaith yn mynd o Aden ar neges i Berbera; perthyn i ni, fel y gwyddoch, y mae'r ddau borthladd hynny, y naill yn Arabia a'r llall yn Affrica, a Chulfor Aden rhyngddynt.

Yr oedd yn rhaid y mi aros yn Berbera yn hir. Nid oedd yno fawr i dynnu fy sylw ond pan ddeuai ambell fasnachwr Somali ar draws y gwastadedd anial i'r môr. Dywedid wrthyf fod bryniau gwyrddion a gwastadeddau glaswelltog a fynhonnau dyfroedd.





GER Y TAN.



ymhellach i mewn yn y wlad. Dywedid hefyd fod yno adfeilion temlau Cristionogion fu yno'n byw o flaen y Mahometaniaid sydd yno'n awr. A dywedid fod yno ddigon o fwystfilodd gwylltion,— y llew, yr eliffant, y trwyngorn, y baedd gwyllt, y zebra, a phob math o hydd.

Bum yno am wythnosau yn hela llewod; ac y mae ystol Bob, yn y fan acw, yn sefyll ar gwrr croen llew a saethais; ond fe fu agos iawn i'r llew hwnnw fy lladd.

Fel y dywedais, y mae tri dull o hela llew. Y dull cyntaf ydyw gorwedd a gwylio. Rhaid i chwi wneyd rhyw fath o gaban o ddrain garw, a gadael drws i ymwithio i mewn iddo. Yna rhwym-wch afr neu asyn y tu allan. Wedi hynny ymwithwch i'r caban, a gwithwch ddrain i gau'r drws. Y gwaith nesaf yw rhoddi eich gwn a'i firoen trwy'r drain, fel y gallwch anelu mewn amrantiad at unrhyw beth ddaw at yr afr sydd yn cysgu'n dawel, heb feddwl am lew na dim, y tu allan. Os cysgwch, a deffro yn y bore, feallai y bydd yr afr wedi diflannu, a dim ond ol troed y llew i'w weled. Os byddwch yn effro, cewch weled y bwystfil mawreddog yn dod yn llechwraidd o'r goedwig, a'r afr yn crynnu gan arswyd oherwydd presenoldeb ofnadwy y llew. Taniwch! Os lladdasoch ef, bydd yr afr a chwithau'n ddiberygl. Ond os methasoch, chwi, ac nid yr afr, fydd mewn perygl. Ymhyrddia y bwystfil clwyfedig, digllon, ei hun yn erbyn eich castell drain; ac oni fedrchw fod yn ddigon cyflym i roi bwled arall yn ei ben neu ei galon, gwae chwi.

Dull arall yw dilyn ar ol y llew ar droed i'r prysgwydd lle y cysga y dydd. Clywir fod llew wedi mynd a myn neu blentyn o un o bentrefi'r brodorion. Dilynant ol ei draed i'r llwyni trwchus. Wedi cyrraedd yno ni wyddoch ar ba amrantiad y dowch wyneb yn wyneb â'r llew. Gwelwch y canghennau yn symud, clywch ru ofnadwy, a rhuthra'r bwystfil digofus heibio i chwi neu atoch. Rhaid cael anelwr iawn, a dyn diofn ac effro, i hela'r llew fel hyn. Ond y mae'n ddull mwy dyddorol na'r llall, oherwydd ei fod yn fwy cyffrous.

Y trydydd dull yw hela llew ar geffyl. Mewn gwlad agored, lle ceir glaswellt hir yn lle prysgwydd, y gellir hela fel hyn. Dilyna'r cwmni ol ei droed nes cael rhyw syniad ym mha ran o'r gwastadedd mae'n cysgu. Yna deuant at ei wâl o wahanol gyfeiriadau, pawb a'i wn yn berffaith barod, oherwydd ni wŷr neb trwy ba ochr i'r twmpath gwellt y daw allan. Os na saethir ef yn farw, peth perygl iawn fydd dilyn ar ei ol wedi ei glwyfo. Lladd y dyn cryfaf ag un ergyd â'i balf nerthol, ac ni fydd ond ychydig eiliadau yn lladd march a'i farchog yn ei gynddaredd.

Yr oeddwn yn adnabod Kruger pan oeddwn yn Ne Affrig. Cyn

iddo ddod yn llywydd y Transvaal oedd hynny, ac ymhell cyn y rhyfel wrth gwrs. Dywedodd lawer hanesyn wrthyf am dano ei hun. Aeth allan unwaith gyda'i dad, a dau arall, arol llew oedd wedi ymosod ar eu praidd. Huw oedd enw un o'r helwyr, a dywedai o hyd,—“Ni gawn weld Paul yn dychrynnu wrth weled ei lew cyntaf,” gan boenydio y bachgen. Yr oeddynt oll ar eu ceffylau.

O'r diwedd daethant at y twmpath gwellt sych lle'r oedd y llew'n cysgu. Dechreuasant ei amgylchynu. Rhoddwyd y bachgen Paul Kruger mewn cyfeiriad y tybient nad oedd berygl i'r llew neidio allan. Toc clywodd y llew hwy'n dod. Rhuodd yn arswydus, a gwelai'r bachgen ei ben yn dod drwy'r glaswellt yn union i'w gyfeiriad ef. Anelodd at y pen, a thaniodd. Neidiodd y llew yn syth i fyny i'r awyr, a disgynnodd i lawr yn berffaith lonydd. Wedi clywed y glec carlamodd y tri ereill at Paul Kruger, a gwelodd Huw fod y llew yn farw gorn.

Yr oedd Kruger wedi clywed y medrai llew ruo un waith wedi marw. Pe neidiai rhywun ar ochr y gelain,—felly y clywsai,—gwthid y gwynt i wddw y llew, gan wneyd rhuad olaf y bwystfil. Yn sydyn, pan oedd yr hen Huw yn edrych dannedd y llew, neidiodd Paul Kruger ar ochr y gelain. Agorodd y llew mawr ei enau, a rhuodd fel pe buasai'n fyw. Neidiodd Huw oddiwrtho, ac ar gefn ei geffyl, gan roddi ei holl feddwl ar ddianc. Gallwch feddwl gymaint o ddifyrwch roddodd hyn i'r bachgen; a chlywais ei fod yn adrodd yr ystori yn ddiweddar, gan chwerthin yn iach.

### HEN GYMRU DLOS.

**H**EN Gymru dlos, mor swynol yw  
 Dy fryniau hawddgar di;  
 Melusder dy alawon byw,  
 Sy'n denu'n calon ni;  
 Dan chwifo'r ddraig dring lethrau clod,  
 Hyd lwybrau rhin a moes;  
 Mae heulwen dysg a'i dwyfol nod,  
 Yn harddu blodau'r oes

O chwyth yn flam, wladgarol wynt,  
 Hen farwor Cymru fu;  
 Deffroa hwyl y delyn gynt,  
 A dwyn hi i bob ty;  
 Hiraethu mae am ddod yn ol,—  
 O agor, Gymru, 'r drws;  
 Ei hysbryd sydd hyd gwm a dól,  
 Yn flodyn adgof tlws.

Os gauaf brád a gormes fu  
 Dy ran, ein hauwyl wlad;  
 Os brathodd cledd gelymol lu,  
 Hen iaith ein mam a'n tad;  
 Mae hafddydd llwydd yn gwenu draw,—  
 O cadw'th enw'n wyn;  
 Ein hiaith a dyf er dryghin braw,  
 Yn fythwyrdde ar bob bryn.

## CARTREF.

## II. PERYGLON Y CARTREF.

"A thi a gei wybod y bydd heddwch yn dy luest."

**D**YMA lais cryf yn siarad yn hyglyw wrth bobl brysur yr oes yma, o'r hen tyd. Y mae'r awdwr fel pe'n chwerthin yn wawdlyd am ben holl anhunedd teuluoedd Cymru, a gwledydd ereill, heddyw. Ac yng ngwydd pob gelyn, pob rhwystr i'r teulu gael ei gefn ato, seinia'r llais acw'n beraidd drwy'r canrifoedd. A pharha i ddweyd yr un peth o hyd,—“A thi a gei wybod y bydd heddwch yn dy luest.” Tybed, mewn difri, ei fod yn wir? Ydyw, y mae'n wir i gyd. Ond rhaid aros i dyfiant araf y canrifoedd a holl gynnydd y gwahanol genhedloedd ddechreu dwyn ffrwyth. Wedyn ceir gweled ystyr ymdrechion gwahanol gyfnodau, ac eir i mewn i lafur hynafiaid pob gwlad. Onid ydym ni'n ddyledus i bawb fu yma o'n blaenau?

Chwardda'r llais unig yma yn nannedd holl brysurdeb bywyd yr ugeinted ganrif. Er gwaethaf rhyfeloedd, a brwydro dygn, distaw, masnach a llafur, para i waeddi'r un peth wna'r darn addewid—daw heddwch.

Anghofir yr aelwyd bron yng nghanol rhyferthwy bywyd ein dyddiau ni. Ond fel y mae brwydrau yn tynnu i ben daw gwawr bywyd heddychol yn fwy i'r golwg. Dywed rhai arweinwyr fod ysbryd cydymgais yn gweithio ei hun allan, a bod ysbryd newydd harddach yn cymeryd ei le—awydd cryfach am ymuno er budd ac er daioni cyffredinol. Ac fel y tyfa ac y cryfha'r ysbryd llednais yma, braidd nad oes perygl i'r cartref foddi. Llynca LLWYDDIANT TREFNIADOL y cwbl iddo ei hun. A thu ol i hwnnw llecha ARIANGARWCH.

Nid wyf yn breuddwydio awgrymu fod y rhain yn ddibwys. Y mae iddynt eu lle, ac y mae eu heisiau yn tawr mewn llawer cylch. Ond sylwer fel y mae popeth yn ad-drefnu ei hun—masnach yn closio'n dyn, llafur yn ymfurfio'n un tyddin gref, cyfalaf eto'n gorff cryf,—cymdeithas i ymladd dros bron bob dim. Ond y CARTREF mewn perygl sydd gen i. A'r hyn sydd llygedyn gloew yw fod yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr wedi dechreu agor ei llygaid i'r perygl y mae cartrefi ynddo. Galwyd cynhadledd yn unswydd i drin y pwnc,—sut i ddiogelu'r cartref. Pregethodd Canon Scott Holland bregeth rymus ar y pwysigrwydd o “Waredu'r Cartref.” Dyma'r sefydliad pwysicaf o holl sefydliadau cenedl. Ac os a hwn i lawr, beth ddaw o'r amser a ddaw?

Pan y cesglir ynghyd ganlyniadau ymchwil wyddonol, ceir hwylusdod mawr i droi mwy o bethau yn arian. Ac y mae ysbryd

meddu cyfoeth yn corddi llaweroedd. Ond yr hyn sydd beryglus yw i'r elfen yma oruwch-lywodraethu, a thrwy hynny osod ei delw ei hun ar holl adrannau bywyd. A phan y daw'r ysbryd hwn i drigo ar yr aelwyd—yn brif destyn oriau hamddenol ac yn nod uchaf pob ymdrech,—bygythir difetha pethau melusaf a rheitiaf bywyd wedyn.

Nid y dosbarth canol yn unig sydd yng ngafael y perygl hwn, ond y mae'r werin weithgar yn symud yn gyflym yng nghyfeiriad yr un trobwll. Onid yw'r cyffredin yn rhedeg ar ol difyrion difudd iawn pan y gweno Rhagluniaeth yn awr ac eilwaith? Beth yw tystiolaeth Morgannwg a Mynwy ar hyn? Beth hefyd ddywed y chwarelwr meddylgar a darbodus yw gwendid llawer o'r un dosbarth ag yntau?

Gwn am un ardal yng Nghymru y bu arian yn gwlawio ar deuluoedd cyfain am hir bryd. Ond yr adeg honno aeth llawer o honynt dan y dwr yn eu hamgylchiadau. A phan y derbynid llawer iawn llai o gyflog, ar ol hynny, yr oeddnt yn gwasgu er talu dyledion cyfnod y pen llanw. Peth pur ddyddorol fuasai ystadegau manwl am yr ardaloedd gweithfaol ar gwestiwn tel hyn. Gwerrir y rhan drymaf o'r enillion am well diwyg, harddach dodrefn, a mwy o addurniadau. Eir mwy o gwmpas, ond nid i ddim pwrpas. Hwyrach hefyd y caiff achosion cyhoeddus twy o sylw—gwna Cymru yn dda, hynny yw, y werin, yn y cyfeiriad yma.

Ond, oni ddylid gofyn y cwestiwn bellach, pryd y mae pobl dda Cymru yn meddwl deffro i'r pwysigrwydd fod eisiau talu mwy o sylw i addysg y teulu, moesau teuluaidd, addoli ar yr aelwyd, efrydu a mwynhau gartref yn anad unlle. "A thi a gei wybod y bydd heddwch yn dy luest," os gwneir hyn. Y mae gormod o bwysio wedi bod ar deuluoedd anllythrennog i gyfrannu at gynnal crefydd gyhoeddus tra'n cwbl esgeuluso diwyllio'r cylch teuluaidd. A phe gwneid yr olaf, doir' cyntaf yn naturiol i'w le ei hun.

*Llys Meirion, Penrhiwceibr.*

EDWARD EVANS.

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFFR.

GWELAIS ddyn heb dim traed y mae neidr pinc yw llygaid cath wen du yw triagl gwelais Mary yn gwyngalchu y ty efo *coal tar* y bydd gwraig y siop yn glanhau y simdde oer yw yr eira coch yw lliw ffrog Mary *India rock* sydd yn beth da i fochyn rhowch *Indian meal* i'w wneyd yn dew teneu yw mul Twm Cati tatws llaeth sydd twyd mwnci sydd yn leicio cnau sibols sydd lysiau elifant sydd yn greadur mawr eirin Mair sydd yn iawn i wneyd tarten braf yn yr haf.

*Llanfaethlu.*

ELLEN JANE WILLIAMS.

## ROBIN GOCH A'R BLODEUYN CYNTAF.

**A**ETH Deryn Du un diwrnod  
 Ar hynt i ardd y Fron,  
 A chlywai ymgom hynod,  
 Cyffelyb oedd i hon,  
 " Ah! fiodyn bach anwylaf,"  
 Medd Robin Goch mor gu,  
 " Sut 'rwyf ar ol y gauaf  
 A'i stormydd enbyd cry?"

Y blodyn bach, gan wenu  
 Yng wyneb haul y nen,  
 Ac yna yn croesawu  
 Y deryn ar y pren,  
 Atebai, O mor dyner,  
 Ei fod yn ddiagon iach,  
 Gan ofyn, 'n ol ei arfer,—  
 " Sut mae'r holl adar bach?"

Caernarfon

Ar hyn mae'r deryn bychan  
 Yn taro tant ei nôd,  
 Gan ddechreu canu mawlgan  
 I'r dyddiau braf sy'n dod;  
 A'i nodau pâr yn disgyn  
 Yn su yr awel fwyn  
 Ar ruddiau cain y blodyn,  
 Fel cusan yn ei swyn.

Yn awr mae'r ddau yn uno,  
 Mewn moliant pur i Dduw,  
 Y blodyn wrth fiodeuo  
 Yn harddwch glân ei liw;  
 Y deryn, yntau hefyd,  
 Wrth ganu ar y pren,  
 Yn molli Awdwr Bywyd,  
 Sef Duw y ddæ'r a'r nen.

T. H. LEWIS.

## TOM A GLYN.

(DAU BLENTYN FY MRAWD.)

**A**NWYLIAD, mae'ch calonnau'n  
 brudd,  
 A ffrwd yw'r dagrau ar y rudd;  
 Claddasoch eich dau angel gwyn,  
 A rhowd mewn bedd eich Tom a'ch  
 Glyn.

Aeth hanner nef eich aelwyd glyd  
 I'r fynwent lom, a duodd byd;  
 I chwi nid oedd ond diffaith syn,  
 Pan rowd mewn bedd eich Tom a Glyn.

Bu i chwi ruddiau llaith, hir dro,  
 Pan rowd eich bychan bach i'r gro;  
 Ac ni ddilewyd, hyd yn hyn,  
 Mo hanner geiriau pert eich Glyn.

Ond rhoddwyd i chwi ergyd drom  
 Dirlethol, pan fu farw Tom, [gwyn  
 A phan y rhowd eich seithmlwydd  
 O fewn y bedd lle claddwyd Glyn.

Adgofion o'u hymaldod tiws  
 Sydd eto'n fyw o gylch eich drws,  
 Ac ar yr aelwyd drowd yn syn,  
 Pan rowd mewn bedd eich Tom a'ch  
 Glyn.

A'ch hiraeth fyn fynychu'r fan  
 Lle huna mwy eu marwol ran,—  
 Hen fynwent gysegredig Ner  
 Gartrefa ger tair afon bêr.

Ond cwyd eich gobaith, ambell awr,  
 I fyd sydd fel y fore wawr;  
 A gwelwch ar y meusydd gwyn  
 Law Tom fel cynt yn llaw eich Glyn.

Er rhedeg ffrwd eich dagrau'n lli,  
 Neshaed y nef, a gweler chwi  
 Yn deulu cyfan, wedi hyn,  
 Heb alar byth am Tom a Glyn.

GWILLI.

## RHAI'N DIODDEF.

**M**AN trigolion dwy ardal yn Ewrob yn dioddef newyn. Norwegiaid dewr a  
 chelyd y gogledd yw y rhai cyntaf, yn enwedig y rhai sy'n byw o fewn cylch yr  
 eira a'r rhew tragwyddol. Y lleill yw pysgotwyr Llydaw, gweithwyr caled a  
 darbodus, ond anffodus.

## Can a Blodau.

RICHARD AB HUGH.

S. S. A.

T. R. JONES, Llundain.

DOH C. *Do'ee.*

$\left\{ \begin{array}{l} s : - : s \   l : - : s \\ \text{Can - u, can - u} \\ : m : m \   f : - : f \\ \text{Can-u, can - u} \\ : d : d \   d : - : t, \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s : d' : l \   s : - : m \\ y \ \text{mae'r ad - ar,} \\ m : - : m \   r : t, : d \\ y \ \text{mae'r ad - ar,} \\ d : - : d \   t, : s, : d \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} m : - : m \   s : d : r \\ \text{Nes ad - sein - ia'u} \\ d : - : d \   d : - : d \\ \text{Nes ad - sein - ia'u} \\ s, : - : s, \   t, : l, : l, \end{array} \right.$
---	--	---

$\left\{ \begin{array}{l} m : - : l \   s : - : - \\ \text{peb - yll drain,} \\ d : - : d \   t, : d : r \\ \text{peb - yll drain, Denu,} \\ s, : - : fe,   s, : l, : t, \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s : s \   l : - : s \\ \text{Den u, den - u} \\ m : - : - \   f : - : - \\ \text{den - u} \\ d : - : - \   - : - : t, \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s : d' : l \   s : - : m \\ \text{nef a dae - ar} \\ m : - : f \   r : - : d \\ \text{nef a dae - ar} \\ d : - : d \   d : t, : d \end{array} \right.$
---	--	--

G.t.

$\left\{ \begin{array}{l} s d : t, : l, \   s, : - : r \\ \text{Wnant i wran - do'r} \\ r s, : - : fe,   s, : - : t, \\ \text{Wnant i wran - do'r} \\ t, m, : r, : d, \   t, : s, \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} f : m : r \   s : - : - \\ \text{fwyn' aidd sain,} \\ r : d : t, \   t, : - : - \\ \text{fwyn' - aidd sain,} \\ s, : - : f, \   m, : - : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} d : t, : l, \   s, : - : r \\ \text{Wnant i wran - do'r} \\ l, : s, : f, \   m, : - : l, \\ \text{Wnant i wran - do'r} \\ f, : r, : t, \   d, : - : f, \end{array} \right.$
--	---	---

f.C.

$\left\{ \begin{array}{l} f : m : r \   d s : - : - \\ \text{fwyn - aidd sain;} \\ d : - : t, \   d s : - : - \\ \text{fwyn - aidd sain;} \\ l, : s, : f, \   m, t, : - : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} : : \   : : \\ s : r : m \   f : - : s \\ O \ \text{na fed - rem} \\ : : \   : : \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} : : \   : : \\ m : - : r \   r : - : d \\ \text{nin - nau gan - u,} \\ : : \   : : \end{array} \right.$
--	---	---

f.F.

$\left\{ \begin{array}{l} d s : r : m \   f : - : s \\ \text{Er holl ddrain y} \\ : : \   : : \\ \text{Er holl ddrain y} \\ m, t, : - : d \   l, : - : t, \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} m : - : r \   m : - : - \\ \text{byd a'i sen, -} \\ : : \   : : \\ \text{byd a'i sen, -} \\ d : s, : t, \   d : - : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} f e t : l : s \   f : m : r \\ \text{Can - u'n fel - us} \\ r s : f : r \   r : d : t, \\ \text{Can - u'n fel - us} \\ l r : d : t, \   d : - : s, \end{array} \right.$
--	--	---

}	d :- :d'   d <sup>e</sup> :- :r'	r' :l :d'   t :- :l	s :- :f   m :- :-
	nes ar - af - u	Ang - el ar ei	ad - en wen,
	d :- :s   l :- :l	f :- :fe   s :- :f	m :t <sub>1</sub> :r   d :- :-
	nes ar - af - u	Ang - el ar ei	ad - en wen,
}	l <sub>1</sub> :- :m   s :- :f	r :- :r   r :- :t <sub>1</sub>	d :- :s <sub>1</sub>   s <sub>e</sub> <sub>1</sub>   l <sub>1</sub> :- :-

rall.

}	d' :t :l   s :f :m	r :- :r'   r <sup>e</sup> :- :m'	m' :- :-   - :r' :d'
	Can - u'n fel - us	nes ar - af - u	Ang - - el
	m :- :m   r :- :d	t <sub>1</sub> :- :t   d' :- :d'	l :- :-   l :- :-
	Can - u'n fel - us	nes ar - af - u	Ang - el
}	l <sub>1</sub> :t <sub>1</sub> :d   t <sub>1</sub> :l :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :- :s   fe :- :s	f :- :-   f :- :-

}	d' :l	:d'	d' :l	:t	d' :- :-	- :- :-	
	ar	ei	ad -	en	wen.		
	s :-	:s	fe :-	:f	m :- :-	- :- :-	
	ar	ei	ad -	en	wen.		
}	m :-	:m	r :-	:r	d :- :-	- :- :-	

2.

Gwenu, gwenu y mae'r blodau,  
 A'u pereidd-dra gluda'r gwynt;  
 Tlysmi, tlysmi gwrid eu gruddiau  
 Ydoedd gemau Eden gynt;  
 O blodeued yn garuaidd,  
 Rin a moes yn dlws i gyd;  
 Dweyd mae cwmni'r blodau peraidd  
 Wrthym am brydferthu'r byd.

3.

Hedfan, hedfan mae'r awelon,  
 Fel angylion yn ein gwlad;  
 Cludant, cludant inni'n dirion,  
 Fwynder yn gawodydd rhad;  
 O anadled dwyfol awel,  
 Yn ein mynwes byth yn fwyn,—  
 Awel esmwyth gluda'n dawel  
 Gariad yn gawodydd swyn.

4.

Murmur, murmur y mae'r aber,  
 Yn barabulus ar ei thaith;  
 Swynol, swynol yw ei cheinder,—  
 Son am burdeb yw ei hiaith;  
 O na fedrem ddysgu'r gwersi  
 Geir yng ngholeg aber lân;  
 Puro'r ddaear, a'i sirioli  
 Gyda blodau fyddo'n cân.



PLANT CYMRU. CLXVII. BECHGYN LLANBRYNMAIR.





PLANT CYMRU. CLXVIII. GENETHOD LLANBRYNMAIR.

**PLANT LLANBRYNMAIR.**

**W**ELE ddarluniau o fechgyn a genethod Ysgol Frytaid Llanbryn-mair, wedi eu tynnu gan Mr. George H. Peate, Glan Llyn. Yr oeddwn wedi meddwl i ddarlun y merched fod cymaint a darlun y bechgyn; ond, trwy gam ddealltwriaeth rhyngof a'r cerfiwr, gwnawd ef yn llai. Ond daw darluniau ereill eto, a chaiff y merched fwy o chwareu teg.

Gwelir y prifathraw, Mr. John Rees, yn y ddau ddarlun; gwelir darlun mwy o hono ef a'i gynorthwywyr ar y tudalen nesaf.

Bydd yn dda gennyf am blant Llanbryn-mair, a bydd yn dda gennyf weled eu hwynebau, ond bydd y cymwynaswyr a ddodd eu hardal brydferth i Gymru. "Hogyn Llanbryn-mair" y gelwid y "Cronicl Bach," ac ysgrifau y tri brawd o Lanbryn-mair sydd yn ei wneyd mor ddyddorol ac mor fyw yn awr ag oedd hanner can mlynedd yn ol. Dysgodd y brodyr hyn Gymru i weled prydfarthwch caruaidd bywyd gwladwr gonest a duwiol; nis gwn am ddim yn



Miss Jones. Miss Rowlands. Mr. Rees. Miss Davies.

PRIFATHRAW AC ATHRAWESAU LLANBRYNMAIR.

llynyddiaeth Cymru mor hoffus a phobl Llanbrynmair fel y disgrifir hwy gan y tri brawd,—S. R., J. R., a Gruffydd Risiart. Gwnaeth y Cronicl lawer i ennyn brwdfrydedd dros amcanion uchel, i ddangos fod heddwch yn well na rhyfel, i ddangos mai dyfeisio gwelliantau oedd gogoniant meddwl dyn, ac mai dyngarwch oedd hanfod efengyl Iesu Grist. Efe wnaeth i Lord John Russell, Kossuth. a John Bright siarad wrth Gymru. Efe, yn anad dim, wnaeth i Gymru gredu mewn addysg. Y mae y geiriau "Ysgol Frytanaidd" yn dwyn i'm cof lawer ymdrech gan blant athrylithgar Llanbrynmair ar ran addysg Cymru.

Lewis Rees, Dr. Abraham Rees, Richard Tibbot, John Roberts yr hynaf, y tri brawd, William Williams, Mynyddog, Dr. Owen Evans,—ond waeth i mi heb ddechreu enwi, nis gallaf ond pigo un yma ac acw. Faint o'r plant yn y darluniau hyn sydd yn amcanu dilyn ol eu troed?

O.M.E.

Cychwynnyd yr ysgol hon ar y cyntaf mewn cysylltiad âg eglwys yr Anibynwyr, yn yr Hen Gapel, tua chanol y ddeunawfed ganrif. Ond yn amser y Parch John Roberts (tad S. R. a J. R.), yr hwn oedd yn cadw yr ysgol yn ogystal a bod yn weinidog i'r eglwys, y daeth yr ysgol hon i fri. Yr oedd plant o blwyfi cylchynol, ac ereill o fwy pellter, yn dod iddi. Cadwyd yr ysgol hon ymlaen mewn cysylltiad â'r Hen Gapel gyda llwyddiant mawr yn yr ysgoldy sydd uwchben y ty cysylltiedig â'r Hen Gapel hyd nes yr adeiladwyd yr Ysgoldy Brutanaidd yn 1874, trwy draul o dros £500. Ac y mae wedi parhau yn ysgol dda hyd heddyw.

Rhif y plant ar hyn o bryd ydyw tua chwech ugain, ac y maent yn y darluniau cysylltiedig agos i gyd. Y mae lliaws o ysgolorion galluog wedi codi o'r ysgol hon, yn neilltuol pan oedd yn gysylltiedig â'r Hen Gapel, ac y maent wedi, ac yn llanw cylchoedd pwysig mewn gwahanol rannau o'r byd.

Y mae yr ysgol yn llwyddiannus iawn ar hyn o bryd dan ofal yr athraw presennol, Mr. John Rees. Yn ystod y fiwyddyn ddiweddat enillodd un o'r plant un ysgoloriaeth allan o dair oedd yn cael eu cynnyg yn ysgol Dr. Williams, Dolgellau. Enillodd dau eraill yr unig ddwy ysgoloriaeth David Davies oedd yn agored i sir Drefaldwyn, heblaw ennill yr ysgoloriaethau oedd yn cael eu cynnyg gan Reolwyr Ysgol Ganolraddol Machynlleth. Yr oedd un arall wedi ennill ysgoloriaeth Stable y fiwyddyn cynt, ac adnewyddwyd hi iddo y fiwyddyn hon ar sail y gwaith da oedd wedi ei wneyd y llynedd Felly, y mae gan Mr. Rees a'i gynorthwywyr achos i fod yn falch o safle eu hysgol.

G. H. P.

## HEIBIO'R BWTHYN.

**B**UM hebio'r bwthyn, fu'n loqwyn, Lle clywyd salmau'r nef cyn hyn.

Breuddwydio am haulforenau tlws Gwanwyn, wnai'r llwyni wrth y drws.

"A'r gauaf oedd hi," pan heibio awn, A'i anadl oer yn lleithio'r nawn.

Meddyliais am Mam, cofiais fy Nhad, Crynodd fy nghalon gan dristhad.

Gwelais baradwys y dyddiau mwyn, A gwyfyn gwywdra yn ei swyn.

Ar y trothwy disgwylliais yn fud— Glywed miwsig rhyw adlais drud.

Cofiais ei gweled heb ddellen grin, Dan wybrennau ddiferai'r gwin.

Edrychodd hiraeth gwelw ei rudd, Trwy y ffenestri llychlyd, prudd.

Do, wylais wrth syllu ar y ddôr,  
Ddagrau siomien,— dyfnach na'r môr.

GWILYM DYPL.

## DADL Y DDARLLENFA.

(MERCH RHINWEDDOL A BACHGEN PENRYDD.)

JANE. Sut yr ydych chi heno, Huw ?

Huw. O, mi 'rydw i yn *rêl boi*, wel di.

JANE. Y mae yn dda gennyf ddeall eich bod yn *rêl boi*, Huw ; ond, atolwg, *rêl boi* ym mha beth ?

Huw. Mi 'rydw i yn *rêl boi* mewn llawer o betha, 'ngenath i. Paid ti a meddwl y ceith dy *sort* ti fy *insultio* fel yna, chwaith.

JANE. Huw bach, da chi, peidiwch cymeryd pethau yn angharedig fel yna. Pell oeddwn o feddwl eich "*insultio*." Gwyddoch ein bod yn gyfeillion bob amser, wedi ein magu gyda'n gilydd, ac wedi bod yn cydchwareu llawer gyda'n gilydd o dro i dro.

Huw. Gwn, mi wn i hynny wrth gwrs, ond —

JANE. O'r gore. Hyderaf felly y credwch fy mod yn eich parchu, ac hefyd fy mod yn gyfeilles i chi, fel y caf siarad gyda chi fel cyfeilles.

Huw. O, mi wn i gess at. be yr wyt ti yn 'nelu. Eisio i mi ddwad i'r *Lodge* sydd arnat ti, ynte ? Ond ddo i ddim. Waeth i ti hynna na mwy. Rhaid i mi fynd 'rwan, dacw Wil, gwas yr Hafod, yn chwibianu.

JANE. Na 'rhoswch ? Arhoswch, Huw bach. Nid eisiau i chi ddod i'r *Lodge* sydd arnaf ; ond y mae arnaf eisiau i chi beidio canlyn y bachgen acw beth bynnag, oblegid y mae ei iaith a'i hyfdra yn gywilyddus mewn ardal, ac y mae son ar led ei fod yn myned i leoedd pur wahanol i'r *Lodge* rai prydiau.

Huw. Ie, ie, dyna 'chdi, yn mynd ar ol straeon hen ferched ; ond waeth be ddeudo nhw, *rêl boi* ydi 'r hen Wil.

JANE. Ie, ie, dyna'r drwg, ac ar bwnc y *rêl boi* yr ydym yn gwahaniaethu, onide ? Ond rhag ofn iddi fynd yn ddrwg cydrhyngom eto, gadawn y mater yna heno, oblegid yr oedd arnaf eisiau eich gweled ar fater arall.

Huw. O ! Be ydi hwnnw ?

JANE. Nid wyf wedi eich gweled o gwbl yn y Ddarllenfa, Huw ; ac y mae arnaf eisiau eich gweled yn dod i'r fan honno weithiau, oblegid dyna un o'r pethau goreu sefydlwyd yn ein hardal erioed.

Huw. Hy ! Pwy sy'n deyd hynny ? Mi glywis i 'r hen John Puw yn deyd yn y chwarel ddoe mai lol wirion ydi hi, ac na fasa 'na neb wedi meddwl dim am dani, onibai fod yna griw o lufna hunanol eisio dangos eu hunain. Ddoi i ddim yno i blesio rhai felly, peth siwr ydi o.

JANE. Huw anwyl, peidiwch a synied mor isel am y dynion sy'n ymdrechu i geisio dyrchafu ein hardal. Pa le sydd yn y Ddarllenfa i neb i ddangos ei hun? Y mae pawb yno ar yr yn tir,—pawb yn darllen yn hamddenol. Y mae'n ddrwg gennyf glywed am opiniynau ffol dyn mor felanolaidd a John Paw. Beth, tybed, ddeuai o'n hardal pe bae pawb fel efe?

HUW. O, rēl boi ydi 'r hen John, waeth be ddeudo neb. Mae o yn siwt o fod ar i chefn hi, hefo chi tua'r capal yna o hyd.

JANE. Ydyw, y mae yn rēl boi os caiff ef fod ar y blaen, ond nid wyf am drafod cwestiwn y rēl boi gyda chwi. Y cwbl sydd arnaf eisiau ydyw gofyn yn garedig i chwi addaw dod i'r Ddarllenfa, fel y cewch weld pethau drosoc eich hun.

HUW. Na, ddo i ddiim yno, wir; ddo i ddim yno i lolian.

JANE. Byddai yn llawer harddach i chwi ddod yno, Huw bach, na myned bob nos at ddorau ty blawd y siop isaf fel yr ydych. Y mae y Ddarllenfa wedi ei gwneyd yn bwrpasol ar gyfer rhai o'ch bath, fel y gallech dreulio eich oriau hamddenol yn hapus, yn lle bod ar bennau'r ffyrdd.

HUW. Wel, y mae hi wedi ei gwneyd, felly, ar gyfar rhai na ddo nhw byth yno. Ia, ia, mi 'rydw i wedi clywad eich bod chi yn o ysgafn o honon ni am fynd at dŷ blawd siop isa.

JANE. Y mae yn anhawdd peidio bod, wir, Huw, ond gadawn hynny heno. Os na ddewch chwi i'r Ddarllenfa, Huw, a gaf i ddod a benthg llyfr i chwi oddiyno?

HUW. I be, 'nen tad?

JANE. Er mwyn i chwi ei ddarllen, wrth gwrs.

HUW. Yr achlod fawr! Ddarllennis i ddim pennod 'rioed ar 'i hyd, heb son am ddarllen llyfr cyfa. Na, dim iws dwad a llyfr i mi, reit siwr.

JANE. Y mae yn ddrwg gennyf eich clywed yn siarad fel yna, Huw. 'Does dim yn fwy o boen i mi na deall eich bod yn tyfu i fyny heb ronyn o duedd at lyfr o fath yn y byd, oblegid llyfr ydyw y cyfaill a'r cyfoeth daearol goreu fedd dyn. A gaf i ddod ag un o lyfrau dyddorol Daniel Owen i chwi?

HUW. Pw lyfra oedd gin hwnnw, ys gwn i?

JANE. Clywsoch son am "Rhys Lewis," mae'n debyg.

HUW. Do. Mi adwyn i hwnnw'n iawn, 'does dim llawer ers pan oedd o yma yn pregethu,—un clēn ydi o hefyd.

JANE. Ha, Ha! gwelaf nad ydych yn gwybod be ydi be, ys dywedir, yn y byd llenyddol, Huw. Nid Daniel Owen fu'n byw yn y Rhos yma, ac nid Rhys Lewis adwaenoch chwi ydyw y "Daniel Owen" a'r "Rhys Lewis" yr ydwyf yn son am danynt. Enw ar nofel, neu lyfr difyr ydyw "Rhys Lewis," a dyn o'r enw Daniel Owen, y Wyddgrug, yw ei awdwr.

Huw. Tydi ó ddim llawer o ods gin i prun, wir, Jane. Achos fydda i yn malio dim llawer ynghylch yr hen lyfra 'ma. Diân i, mae'n rhaid i mi fynd. Dacw Wil yn y fan acw, yn gweitiad o hyd.

JANE. Na wir, 'rhoswch Huw. Deydwch, a gaf i ddod a "Rhys Lewis" i chwi?

Huw. Na, waeth i chi beidio ddim, thanciw.

JANE. Na wir, y mae yn rhaid i mi gael dod a rhyw lyfr i chwi oddiyno, Huw,—chewch chwi ddim llonydd. Gymerwch chwi "Straeon y Pentan"? Dyna i chwi lyfr bach difyr.

Huw. Ffasiwn lyfr ydi hwnnw, deydwch?

JANE. Llyfr yn cynwys straeon bychain digrifol am yr hen amser. 'Rwy'n siwr y buasech wrth eich bodd yn darllen hwn.

Huw (*yn fyfyrïol*). Diân i, dowch a hwnnw i mi ynta, Jane. Mi wela i na cha i ddim heddwch heb gymud un.

JANE. O'r goreu, Huw. "Aml i gnoc a dyr y garreg," onide? Deuaf ag o acw heno, a hyderaf y bydd i chwi ei ddarllen, fel y ceuf bleser a bendith oddiwrtho.

Huw. O, mi fydda i yn siwr o'i ddarllen o. Mi sefa i at fy ngair gystal a'r un dyn yn y wlad, siwr iawn ydi o. Fy nghael i addo ydi y gamp, fel y gwyddost ti. Wel, wir, mae'n rhaid i mi fynd rwan. Nos dawch, Jane.

JANE. Nos dawch. Diolch i chwi, Huw.

(*Wrthi ei hun*) Wel, etallai, ar ol hyn, y daw Huw i ddechreu cael blas ar lyfr. Pwy a wŷr? Rhaid i mi ddweyd am y cynllun hwn wrth chwiorydd fy ardal, oblegid nid yw Huw, druan, ond un o lawer o ddyls ein hardal. Y mae gennym ni ryw ddylanwad rhyfedd ar ddynion rywsut.

*Rhostryfan.*

HENRY OWEN JONES

### CAN Y PLENTYN.

**M**AE'R cloc yn taro, taro,—  
Mor ryfedd yw ei si,—  
"1902 sydd wedi mynd,  
Fe ddaeth 1903!"

Paham nas gwelwn llynedd  
Yn gwywo ganol nos?  
Neu weld eleni'n llanw'r nen  
Fel seren loew dlos?

Mor dawel fu'r cyfnewid,—  
Ni chlywais gŵyn na chri,—  
At bwy yr aeth 1902?  
Pwy roes 1903?

Yr un yw swm y Gartog,  
A'r un yw chwa y nos;  
Ond gyda'r wawr bydd miri llon  
Ger Capel Mawr y Rhos.

J. R. TRYFANWY.

## YSGOL PROFIAD.

## II. CYMDEITHION FY MEBYD.

"Pan fo dyn wedi ei olchi yn nhon profiad, daw argraffladau bore oes yn ol yn amlwg."

**R**HAIID gadael y bwthyn unig a natur wyllt, ac hefyd y dyffryn tlws a ffrwythlon. Erys cariad at brydferthwch dyffryn a mynydd byth yng nghalon y Cymro Bach. Ac nis gall syllu ar geinion natur heb gofio am amrywiaeth swynol bro ei eni.

Galwyd Charles Lamb gan Wordsworth yn "scorner of the fields." Ond gwir a ddywed Alfred Ainger am dano, ei fod yn meddu cariad bardd at dlysnï'r caeau. Er na chafodd y bachgennyn hwn neb i'w hyfforddi yn ffyrdd prydferthwch ym more ei fywyd, yr oedd greddf yn ddigon cref i sugno peth o'r cyfoeth cyn i ddeall a chywreinrwydd ddeftro i wneyd gwaith mwy deddfol.

Ym mhen isa'r ffordd saif hen eglwys. Dywed Mr. Bradley ei bod dros dri chant oed. Yn hon y bedyddiwyd y Cymro Bach. Cafodd y bedyddiedig "Lyfr Gweddï Cyffredin" gan berson y plwyf ar yr amgylchiad, a chadwyd ef yn barchus nes iddo ddod i wybod mai ei eiddo ef oedd.

Nid oes adgof gan y Cymro Bach am ddiwrnod y mudo,—mynd o ganol unigedd diddig i swm a dwndwr cyrchfa pobl. Teimlad rhyfedd fuasai hwn pe cofiasai'r amgylchiad,—gadael glendïd glesni'r ddaear, a gwyneb llonydd llyn hirgul ar ddyddiau hafaid,— anghofio bresiad y fuwch a'r ddafad a gwehyriad y meirch, ac hefyd llais arafaidd yr amaethwr. Ac un o'r adgofion cyntaf y gwyr y bachgen bach o'r wlad am dano yw fod ei frawd wedi mynd allan un diwrnod, a dyma fo'n ol a'i anadl yn ei ddwrn, gan ddweyd wrth ei fam,—“O! welwch chi mam? Y mae'r ceffyl acw'n egych (edrych) arna i. Rhaid fod o'n licio i,—rhaid mam?”

Wel, dyma fi'n ddiarwybod wedi llithro i ddweyd am fywyd congl arall o'r byd heb ddesgrifio dim arni. Clwstwr bychan o dai rhwng dau bentref geir yma. Nid oedd tafarn o fewn milltir, o leiaf, i'r llecyn. Ac y mae casineb at ddiodydd meddwol yn un o nodweddion y teulu i gyd hyd heddyw. Gwyn fyd na welai plant bach Cymru lai o dafarn dai. Ond yr oedd yno siop saer a gefail of yn ymyl y ty. Yr oedd yr efail y drws nesaf, a'r gof yn ddyn caredig. Ond byddai'r saer yn bwya'i ginio dan yr un to a'r Cymro Bach. A thalodd y bachgen fwy o sylw dipyn i'r saer nag i'r gof du.

Cymeriad gwreiddiol oedd y saer coed. Dysgasai ei grefft o'i ben ei hun. A mynych y dywedai yn hanner ymfrestgar fod saer



TAL Y LLYN.  
(Oddiwrth ddarlun H. Gashtneaw.)



ddysgodd Duw yn well na saer ddysgodd dyn. Yn reddfol, ryw-fodd, aethai ei ddylanwad yn fawr ar y plant. Credai Cymro Bach nad oedd ei fath mewn bod. Tybiai y gallasai'r hen saer wneyd gwrthiau. Pe torrai dyn ei goes, nid oedd dim ond mynd at y saer am un newydd yn ei lle. Ac wrth chware, un diwrnod, dyma un o'r cwmni bychan yn taro ei ewin i fwrdd. A'r cyntaf i'w gysuro oedd edmygydd y saer. A'i obaith i gyd oedd,—“Na feindia, ffrind bach, cei winadd prenia gen y saer.” Y crefftwr diddan oedd duw y bachgennyn y pryd hynny. Ac y mae'r hen argraffiadau yma mor fyw ag erioed heddyw. Erys adgofion difyr am gyfnod mabod a'r troion trwstan i gyd. Y mae rhyw gysegredigrwydd yn yr adgofion am gyfaredd hen weithdy'r saer.

O flaen y gweithdy gorweddai pisyn braf o ruddyn derw. Ac ar hwn arferai'r plant falu cerrig a churo hoelion a phob math o bethau tra y caent lonydd gan y sawl oedd yn gwarchod drosto. Yr oedd y Cymro Bach yn arw iawn am ei ffordd ei hun, ac os na chai ef hi gwnai i rywun ddioddef. Yr oedd iddo chwaer a'i llond o natur ddrwg, a gwaer pwy bynnag a dynnai'n groes â hi. Ac un diwrnod chwareuai'r ddau wrth y pren derw. Torri cerrig wneid. Ac un selog, heb fawr ddim smaldod o'i gwmpas, oedd brawd bach yr eneth nwydwyll,—distaw, penderfynol, a braidd yn ddialgar. Er fod ei lond o dynherwch, ni oddefai i hynny fynd rhyngddo a rhoi ei fygythion mewn grym. Nid oedd dim yn fwy o boen iddo na chario bygythiad i'w fan eithaf. Ond yr oedd mor benderfynol, ac yn credu'n gryf mewn taro ar ol bygwth. A gŵyr bron bawb y fantais a gymer genethod ar fechgyn oherwydd fod rhieni'n rhy barod i goelio'r genethod am bob dim. A thebyg fod chwaer y Cymro Bach, y tro yma, yn meddwl chware'r un cast. Ceisiai rwystro'i brawd falu cerrig ar y pren derw drwy wthio'i bys yn ol a blaen ar y llecyn y tarawai. Ni ddywedai yr hogyn brawd ddim. Ond fflachiai ei lygaid, a thybiai ef fod hynny'n ddigon o rybudd ynddo ei hun. Gwelai yn eglur fod yr hogen yn credu na tharewid hi. A chan ei bod yn ddigon ffol i gellwair felly, ac ymhyfhau'n fwy fwy wrth weld ei brawd yn sud, penderfynodd ollwng y morthwyl caled ar ei bys. Er yr edrychbai hynny'n greu-lawm, eto yr oedd yn wers effeithiol iddi hi, ac yn gwbl gydwedd â pholisi'r bachgen feddai rym ewyllys i weithredu yn erbyn teimlad. Ac i lawr y daeth y morthwyl dur ar fys main, tyner yr eneth fypwyo. Nid oes eisieu disgrifio'r olygfa wedyn. Daeth yn wlaw mawr, ac yr oedd yn rhaid ffoi! Ond braidd na thybiwn fod ing mewnol y Cymro Bach yn fwy llethol na loes yr ergyd i'w chwaer. Cospai ef lawer i gelu'r boen. Gofidiai dros yr hogen yn ei phoen, ond methai weld, serch hynny, fod ei chosb yn rhy drom. Gwelid yr un cast wedyn pe gadewid i'w rhyfyg hi guro'r tro yma.

Ceir cymysgedd anodd ei esbonio mewn plant, a theimlir cryn anhawster, weithiau, i fod yn eirwir, yn dyner, a phenderfynol yr un pryd. Llenwir plentyn â chariad, ofn, cydymdeimlad, tosturi, casineb, a charedigrwydd,—weithiau deuant yn genlli arno nes gwneyd gweithredu y naill ffordd na'r llall yn anodd, os nad yn amhosibl i ryw fath o gymeriadau.

Er fod y ddeuddyn bach hyn yn bur dynn am eu ffordd eu hunain, eto gwelid hwy, ar brydiau, yn cydymgael i drwch y blewyn ar rai pwyntiau. Hoffai'r ddau droion a'u llond o antur. Caed hwy, un tro, mewn ystafell, yn torri gwalltiau eu gilydd. A phan y daethpwyd ar eu traws, gwelai'r fam, er ei gofid, fod troelliadau tlws gwallt yr hogen wedi mynd. Cytunai'r ddau am oriau'n aml ar ryw orchwyl dirgelaidd o'r fath yna. Ceid atebion doniol gan hon hefyd. Nid oedd un o'r gofaint fu'r drws nesaf yn rhyw ofalus iawn o'i ymddangosiad, yn enwedig wrth ei waith. Hen ŵr hynaws oedd, a chanddo farf hirllaes yn dechreu britho, a rhyw tymryn o wawr felen hyd-ddi. A phan wedi torchi, a chwys yn byrlymu ar ei wyneb, ac yntau yn ddyn mawr, esgyrnog, 'doedd dim rhyfedd i'r enethig feiddgar hon ddweyd pethau rhyfedd wrtho. Gofynnai'r gof caredig iddi fynd ato un tro,—“Na, tramp wyt ti,” ebe hithau yn union. “Wel, wir,” meddai yntau, “fethaist ti ddim llawer.” A thro arall galwodd plismon arni i fynd a basged o'i law i'r ty,—yr oedd teulu ty nesaf allan,—“Tyd yma, 'ngeneth i, i fynd a hon i dy fam,” ebe'r swyddog, gŵr ddaeth yn llenor enwog wedyn. “Na,” atebai hithau, “ond ei di a fi i'r *gaol*.” A chryn waith gafodd i'w pherswadio nad ai a hi i ffwrdd. “Ti” ddywedai hi wrth bron bawb dieithr yn yr oedran hwnnw. A chydag un sylw eto am y Cymro, tawaf tan y tro nesaf.

Yn y clwstwr adeiladau o gwmpas gweithdy'r saer yr oedd hen dwll rhod peryglus, ac ar ei waelod ddarnau llechi miniog. Ac nid oedd cymaint gofal am bethau felly'r pryd hynny ag yn awr,—nid oedd Cyngor Plwy i ofalu am ddiogelwch plant a phobl. Sut bynnag, drwy ryw ryfyg neu ddamwain, cwmpodd y gŵr bach i'r twll hyll, a bu am hir yn diodde oddiwrth y codwm. Galwyd meddyg wrth gwrs. Yr oedd ar y rhain ofn doctor fel gŵr â chleddyf. Ac un amheus iawn o ddieithriaid oedd y claf bach erioed. Ychydig faliai am ychwanegu at rif ei gydnabod. Daeth y doctor, ac ymhen hir a hwyr, gofynnodd iddo ddangos ei dafod; ond dim perygl yn y byd iddo lwyddo. Ni fynnai'r meddyg mwyn ei guro mor ddiseremoni a hyn yna. “Dangos di dy dafod,” meddai wrth y bachgen hynaf. “Na,” ebe hwnnw, cyn gynted a'r gwynt, “dydi — bach ddim yn sâl.” Siaradai hwnnw am dano ei hun yn y trydydd person yn aml. Ac felly, bu raid i'r meddyg chwareus droi ei gefn heb weld tafod y Cymro Bach.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(YMDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

## II. COLLI DAU FORWR.

**I**FOR. Fy nhad, parodd eich ymddiddan y tro diweddfaf am y captan i mi ei hoffi yn fawr fel cymeriad rhagorol, nes creu ynnof syched am ychwaneg o'i hanes.

**TAD.** Da iawn, fy machgen i. Felly, y mae gennyf obaith cryf y gwnei dithau dyfu yn gymeriad tebyg iddo. Daeth y Llywydd i'r penderfyniad nad oedd y pethau a ysbeiliwyd i'w cael ar yr ynys; neu bod perchenogion y badau yn methu cael gan yr ysbeilwyr eu rhoddi i fyny. Yna rhoddodd y Llywydd y badau i'w perchenogion, heb ymofyn dim pellach yn eu cylch. Siomwyd ef yn fawr, oblegid aflwyddiant rhai o'i gynlluniau. Yr oedd o ran ei helyntion yr adeg yma yn debyg ryfeddol i'r patriarch Job. Cyn distewi o un tralod, "wele ail un o'i ol ef." Anfonodd fad i dir i gyrchu balast i'r llong. Methodd y swyddog a chael cerrig ar unwaith oedd yn ateb y diben; dechreuodd dynnu i lawr ran o fur oedd, yn ddiarwybod iddo ef ar y pryd, yn cau i fewn fath o gladdfa, lle yr oedd gweddillion lliaws o berthynasau y brodorion yn gorwedd. Danghosodd y brodorion wrthwynebiad angerddol i'r weithred hon o eiddo ein llongwyr. Ac anfonasant gennad at y Llywydd i'w hysbysu nas goddefent dynnu y mur i lawr ar un cyfrif. Yn union aeth Mr. Banks i'r lle; ac mewn cydymdeimlad dwys a'r ynyswyr, rhoddodd derfyn ar yr ymrafael mewn byr amser drwy anfon y morwyr i geisio yr hyn oedd yn angen i fan ag y gwyddai na fuasai wrth hynny yn anfoddloni y trigolion. Teimlai yr ynyswyr yma fwy o anfoddlonrwydd pan yr ymyrrid a'u meirw nag a wnaent mewn cysylltiad âg unrhyw ymyriad arall croes i'w teimladau. Hwn oedd yr achos cyntaf i'w cynhyrfu i fod yn ddigon gwrol i anturio gwrthsefyll ein dynion mewn modd penderfynol. Diameu y dylai mordeithwyr wyllo yn fanol, yn enwedig rhag ymyrryd â phethau cysegredig y bobl y deuant i'w plith. Felly yn unig y cânt heddwch i ychwanegu at wybodaeth forwriaethol yn y parth pell hwn o'r byd, ac hefyd ddarganfod pethau na welsant eu bath o'r blaen; yn y deyrnas lysieuawli, y fwnawl, ac ymhlith y pysg, yr ymlusgiaid, yr adar, a'r pedwar troedogion.

**I**FOR. Fy nhad, fel yr ydych yn myned ymlaen gyda'r hanes yma, yr ydych yn creu mwy o syched ynnof o hyd am gael taith o amgylch y byd ardderchog hwn.

**TAD.** Os byth y cei dy ddymuniaid, Ifor, cofia am wneyd cymaint ag a fedri o waith cenhadol; fe dâl hynny i ti'n dda. Tua diwedd Mehefin, aeth Capten Cook a Mr. Banks allan yn eu cwch i wneyd

cylchdaith o amgylch yr ynys. Rhyw adeg ar y daith, dychrynnwyd hwy yn fawr gan y dybiaeth eu bod wedi colli y bád; ond cawsant ef heb fod ymhell o'r man y gadawyd ef. Ar yr hyn hon enillodd y boneddwr gyfeillgarwch y preswylwyr mewn amryw o ranbarthau o'r ynys, yn benaethiaid a deiliaid. Trwy hynny cawsant fantais i wybod eu hamgylchiadau, gweled eu moesau, a'u harferion. Erbyn dydd cyntaf Gorffennaf yr oeddynt wedi cyrraedd yn ol i borthladd Matavia, wedi cylchynu yr ynys yn llwyr; a chawsant ei bod hi a'i dwy orynys yn bedwar ugain a deg milltir o amgylchedd. Cyn ymadael â Otaheite, gwnaeth Mr. Banks hynnt ddyddorol i un o afonydd y wlad, gyda'r amcan o wybod pa mor bell oedd ei glannau wedi eu poblogi. Yn ystod y daith hon, sylwodd y boneddwr bod y meini ar y glannau yn dwyn arwyddion iddynt fod mewn tân eiriasol ar ryw cyfnod. Hefyd, yr oedd y clai ar y brynau yn cyd-dystiolaethu â'r cerrig. Cydmarai Mr. Banks yr ynys i Madeira o ran ei hansawdd ddaeaeregawl. Gwasanaeth gwerthfawr arall a gyflawnodd y boneddwr rhagorol hwn oedd hau lliaws mawr o hadau melonau, aur-afalau, lemonau, a phlanigion gwahanol fathau o goed, a gasglodd yn Rio de Janeiro. Hefyd rhoddodd yn rhad swm mawr o wahanol fathau o hadau a phlanigion i'r brodorion. Ac heblaw y rhai a osododd i dyfu bob ochr i'r gaerta, plannodd lawer ei hun yn y coedwigoedd cylchynol. Yr awr dechreuodd Capten Cook ddarpar ar gyfer eu hymadawiad â'r ynys. Ar y seithfed o Fehefin, gosodwyd y seiri ar waith i ddadgaeru yr amddiffynfa, yr hyn a gymerodd iddynt dri diwrnod i'w gyflawni. Yr oedd ein dynion yn gobeithio yn gryf yn awr y buasant yn cael ymadawiad heddychol. Ond yn hyn cawsant eu siomi. Cododd rhyw gweryl dibwys rhwng ychydig o forwyr tramoraidd perthynol i'r llong a rhai o'r brodorion, yr hyn ni welodd y capten yn ddoeth gwneyd sylw o hono. Ond yn union, maglwyd ef mewn dryswch nas gallai ef ei ochelyd. Yng nghanol y nos, rhwng yr wythfed a'r nawfed, aeth dau forwr, Clement Webb a Samuel Gibson, ar ffô yn ddirgelaidd o'r gaerta. A chan nad oeddynt ar gael yn y bore, ofnodd y capten eu bod yn bwriadu aros ar ol. Ac yn ochelgar rhag peryglu yr heddwch dymunol oedd rhyngddynt a'r brodorion ar y pryd, penderfynodd i aros diwrnod arall, er rhoddi cyfleustra iddynt i ddychwelyd ohonynt eu hunain. Bore trannoeth, am nad oedd yr un arwlyd am eu dychweliad, gwnaeth y capten ymholiad ymhlith rhai o'r ynyswyr yn eu cylch, y rhai a gyfaddefasant y gwyddent eu bod wedi cymeryd gwragedd, ac yn penderfynu cartrefu ar yr ynys o hyn allan. Ar ol ychydig o ystyriaeth, ymgymerodd dau o'r brodorion ag arwain y rhai a ddewisai y capten i ddirgelfan yr encilwyr.

## OERNI'R GAUAF.

**U**N o'r pethau mwyaf dyddorol ynglŷn âg astudio gwyddoniaeth ydyw sylwi fel y mae rhai syniadau am weithredoedd Natur yn hollol groes i'w dysg. Un tro clywais hen flaenor duwiol yn canmol gwaith gras mewn seiat. Dyma'r modd y gwnaeth,—



NAWN GAUAF.

“Po nesaf yn y byd yr awn ni at bethau crefydd, cynhesaf yn y byd fydd y pethau hynny at ein calonnau ninnau. Paham y mae'n oerach yn y gauaf nag yn yr haf? O, am fod y ddaear yn bellach oddiwrth yr haul mawr, felly yn union y mae gyda chrefydd.”

Wrth gwrs, fe ddywedodd y gwir am y berthynas â'r byd mawr ysbrydol; ond nid am fod y ddaear yn bellach oddiwrth yr haul yn y gauaf y mae'n oerach; nid yw yn bellach, ond yn agosach o lawer. Gall y seryddwr fesur gwyneb yr haul yn Ionawr ac ym Mehefin; dywed wrthym fod ei wyneb yn llai ym Mehefin, rhaid felly ei fod yn bellach. Yr un faint o wres dderbynia coff y ddaear yn y gauaf ag yn yr haf. Ond, oherwydd fod ei phegwn

yn ogwyddedig ychydig, bydd y rhan yma o'r wlad a'i gwyneb tua'r haul am hanner blwyddyn, tro arall ei gwysb oddiwrtho am yr un cyfnod. Er fod y ddaear yn bellach un tro na thro arall oddiwrth y ffynhonnell fawr, nid yw hynny yn creu dim gwahaniaeth ym maintioli y gwres oddiwrth y fath gorff aruthrol a'r haul. Os yr un faint o wres dderbynia y ddaear yn yr haf a'r gauaf, mae'n amlwg nad oes gan faintioli y gwres ddim i'w wneyd â'r tymhorau.

Y mis hwn ceisiwn ddysgu pa fodd y ceidw y ddaear ei gwres ar ol ei dderbyn.

Ni fuasai ein byd ni yn gymwys i fyw ynddo oni bai am yr awyr anweledig uwchben. Fel y gwyddoch, mae yr awyr bob adeg yn cynnwys mwy neu lai o ager dwfr (*water vapour*). Cofiwch mai yr ager dwfr sydd yn cadw y ddaear yn gynnes. Tybia rhai mai y dillad sydd am danynt sydd yn eu cadw'n gynnes; ond nid felly. Yn ein cyrff y mae y gwres; cadw y gwres rhag dianc wnaiff y

dillad. Ager dwtr ydyw dillad y ddaear. O'r haul daeth y gwres, mae gan y ddaear beth ei hun hefyd. Rhaid i'r gwres o'r haul dreiddio trwy yr ager dwfr sydd yn yr awyr cyn cyrraedd y ddaear. Ar ei daith cynhesa yr awyr a'r ager. Wedi cyrraedd i ben ei daith cynhesa wyneb y ddaear drachefn.

Heblaw y gwres dderbynia yr ager o'r haul, derbynia lawer hefyd trwy fod yn gorwedd ar wyneb y ddaear, sydd eisioes yn gynnes. Trachefn, gollynga y ddaear lawer o'i gwres i fyny tua'r awyr, derbynir ef gan yr ager, nid yw yn gadael y ddaear yn hollol felly. Fe welwch gymaint o wres a dderbynia yr awyr a'r ager sydd yn agos i'r ddaear, a pha fodd y ceidw yr ager y ddaear yn gynnes, dylai fod yn oer pryd nad oes ager. Neu pan adewir y ddaear heb ei dillad, buan iawn yr oera. Hyn gymer le ar noson glir, serenog, yn y gauaf. Mae y wybren fry yn glir; nid oes yno nemawr o'r ager dwfr. Yn union wedi i'r haul fachlud, dechreua y ddaear ollwng ymaith ei gwres i'r gwagle. Gan fod y nosweithiau yn felthion, cyn y bore bydd y ddaear wedi ymadael & llawer iawn o'i gwres. Cyfyd yr haul, a gwel y wlad wedi ei dal yn nwyllaw rhew a barrug.

Ni chymer hyn le yn yr haf am fod y nosweithiau mor fyr; a chyn i'r ddaear ddechreu ymadael a'i gwres, cyfyd yr haul gyda'i wres tanbeidiol i'w hail gynhesu. Dylaswn ddweyd mai byd fel y lleuad fuasai'n daear ni oni bai am yr ager dwfr yn yr awyr. Nid oes yno awyr. Er fod un gwyneb i'r lleuad wedi ei droi am bythefnos tua'r haul, eto i gyd mae'n oerach yno yr adeg honno nag yn ymyl pegynau'n byd ni. Tro arall, pan fo'r wyneb wedi ei droi oddiwrth yr haul am yr un adeg, oerni y gwagle sydd arni yr adeg honno. Mae hwnnw yn gan waith oerach na dim y gwyddom ni am dano. Dianc wna gwres y lleuad am nad oes ganddi awyr; heblaw hynny, nid oes ganddi yr un iod o wres ei hun. Gauaf tragwyddol ydyw ar y lleuad.

SIGMA.

---

“MI HOFFWN WELED MARY FACH.”

(SEF GEIRIAU EDITH MYFANWY SMITH)

**M**I hoffwn weled Mary fach  
I siarad gyda hi,  
Am bwysig eiriau olaf mam,  
Cyn mynd i'r nefoedd fry.

Rhybuddiodd ni i fod yn dda,  
Tra pery'n heinioes frau,  
Ein gofal rodd i Iesu Grist,  
Sy'n maddeu a glanhau.

Cusanodd ni ein dwy 'r un fath,  
Gan gydio yn ein llaw;  
Dywedodd, — “Fe gawn eto gwrdd  
Ryw ddydd yng ngwynfa draw.”

Trefeglwys.

SEARL TRANNON.

## IEIR.

YR IEIR A UDARTH O CHINA A JAPAN.

**G**AN mai ychydig o fathau o ieir ydym wedi gael o China, yr wyf yn meddwl y byddai yn well rhoi China a Japan gyda'u gilydd. Dechreuaf gyda y Cochin China, gan mai hwn ddaeth yn gyntaf ohonynt. Ein diweddar frenhines Victoria gafodd y rhai cyntaf fel anrheg tua'r flwyddyn 1843; ond dywed rhai nad oedd y rhain yn debyg i'r Cochin a welir yn y dyddiau yma. Ond cafwyd rhai drachefn tua'r flwyddyn 1846. Ni wnaeth bridwyr ieir ddim llawer gyda nhw hyd y flwyddyn 1847. Ond daeth y Cochin o'r diwedd fel cawr i'r maes, a gorchfygodd. Ychydig o bobl oedd yn cadw ieir yn y dyddiau hynny; ond pan welsant y Cochin, yr oedd-ynt wedi hanner colli arnynt eu hunain yn eu hawydd i gadw ieir.

Ni raid i mi fanylu trwy roddi ei nodau i chwi, yr ydych yn ei adnabod yn dda oddiwrth ei liw melyngoch, a'i draed pluog. Adnabyddir ef heddyw wrth yr enw Buff Cochin. Mae Partridge Cochin hefyd, un cochddu yw ef; mae y iar wedi ei mharcio yr un fath a phetrisen; dyna paham y cânt eu henw. Mae hefyd rai duon, gwynion, a brithion.

O China y daeth y Langshan hefyd. Aderyn du hardd iawn, onide? Yr oedd rhai yn tybied mai Cochin Du oedd hwn pan wnaeth ei ymddangosiad yn Lloegr.

Pan chwallowyd plasdy haf yr Ymherawdwr Chineaid yn Peking, yn adeg ymgyrch y Prydeiniaid a'r Ffrancod yn 1860, yng nghanol yr ysbail fe ddowd o hyd i rai o'r corachod bach rhyfedd hynny,— y Peking Bantams. Y mae y Chineaid yn hynod yn eu gallu i fedru coreiddio anifeiliaid a llyisiau, ac mae yn debyg mai dyma sut y daeth y dandi bach yma i fôd. Mae pedwar neu bump math o honynt, sef rhai melyn (*buff*) rhai cochddu (*partridge*), rhai duon a gwynion, a brith (*cuckoo*). Ond wedi eu croesi gyda ieir Cochins mawr y maent i gael y lliwiau yma; ac maent yn dilyn eu brodyr mawr trwy fod plu ar eu traed. Mae llawer o fathau eraill yn China yn myned o dan yr enwau Grey Shangais a Chittagongs, ac ereill nad wyf yn gwybod eu hanes.

Er pan gododd masnach eang Ewrob a Japan, yr ydym wedi cael aml fathau o ieir oddiyno. Cawsom un dandi bach tlws iawn. Un gwyn cynffon-ddu ydyw, ac mae hynodedd ynddo trwy ei fod mor fyrgoes. Nid ydyw ei draed ond prin â'ir modfedd o hyd, a gallech ei gadw yn eich gardd heb iddo wneyd dim niwed ynddi, am y rheswm na fedr grafu a gwneyd llanast, fel y gall ieir ereill.

O Japan y cawsom y ceiliog sidan (*silky fowl*). A paham y mae

wedi cael yr enw yma? Wel, trwy ei fod wedi ei wisgo yn hardd â phlu blewog sidanaidd. Yr ydym yn cael fod y naturiaethwr Aldrovandus wedi dod ar draws ieir flynyddoedd lawer yn ol, ac ychydig a'i credai pan ddywedai eu bod wedi eu gwisgo â gwlan yn lle plu. Rhai gwynion welir y rhan amlaf, ond cewch weled rhai duon weithiau. Gwelais rai o honynt mewn arddangosfa ieir a gynhaliwyd yn y Palas Gwydyr yn Llundain y mis diweddaf. Yr oeddwn yn eu gweled yn diws ryfeddol. Nid oeddwn wedi gweled rhai o'r blaen; a phe buaswn yn rhoi disgrifiad o honynt i chwi, dywedwn eu bod wedi eu gwisgo yn debycach i gath wen nac i ddim arall. Gelwir hwy yn ieir negroaidd (*negro fowl*) weithiau, am fod eu croen yn ddulas, ac nid yn wyn fel ieir ereill. Mae iddynt gopa ar eu pennau hefyd, ac nid oes gan yr un iar arall grib yr un fath, —crib fechan ddu, yr un ffurf a botwm.

O India y daeth y Malay. Aderyn tal hir-goes ydyw, tebyg i'r *game fowl*. Y mae yn dilyn ei frodyr yn eu lliwiau, sef cochddu, dugoch, llwydcoch, &c. Mae ambell i un o'r adar yma mor dal fel, pe rhoddech fwyd iddo ar fwrdd lathen oddiar y llawr, gall ei estyn yn hawdd. Maent yn ffyrnig iawn hefyd, fel nad ellir eu cadw gyda ieir ereill. Mae yr Indian Game yn perthyn yn agos iddo. Ymladdwyr di-ildio ydyw y rhain, a byddant yn eu croesi gyda'r Malay yn India tuag at gael adar i ymladd, achos mae ymladd ceiliogod yn chwareu cyffredin yn India yn y dyddiau yma. Ond gobeithio nad ydyw yn cael ei wneyd mor greulawn ag y byddent yn arfer yn Lloegr, flynyddoedd yn ol, neu mae yn bryd rhoi terfyn arno.

Caf ddweyd wrthych eto, o dro i dro, am ieir Rwsia a'r Almaen a gwledydd ereill, a phan ddaw yn adeg cewch wybod y ffordd oreu i roi iar i eistedd ar ei hwyau, a sut i fwydo y cywion bach pan enir hwy, ac amryw bethau ereill yn eu cylch.

*Traws Afon, Bettws y Cobb.*

CYSTENYN OWEN.

### BLODEUYN CHWFFROL.

TREID pob plentyn weled y blodeuyn sy'n blodeuo yn Chwffrol, sef blodeuyn yr eira (*snowdrop*). Sylwch mor gain yw ei wyn a'i wyRDD. Mae fel gem. Dywed hen draddodiad mai angel drodd bluen eira yn flodeuyn, i gysuro Efa pan yn hiraethu am flodau Paradwys. Dywed y blodeuyn fod yr haf yn dod eto, gyda'i adar a'i flodau.

---

Cyfeiriad y golygydd yw, —OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---





## AT Y PLANT.

**D**RWG gennyf fod y bennod ar fordeithiau Capten Cook, a phennod newydd Sigma ar wyddoniaeth, wedi cyrraedd yn rhy ddiweddar i gael lle yn y rhifyn hwn.

Mae amryw i'w enwau newyddion Urdd y Delyn yn cael eu gadael tan y rhifyn nesaf. Y mae cyfarfodydd blodeuog yr Urdd wedi eu hail gychwyn yn Llanafan, Ceredigion; bydd eu hanes yn y rhifyn nesaf.

L. E. W. Diolch yn fawr am hanes y "Forget me Not." Mae hanesion bychain tlysiion a tharawiadol fel hyn yn dderbyniol iawn.

Y mae amryw lyfrau dyddorol wedi eu cyhoeddi yn ystod y mis diweddf. Un o'r llyfrau mwyaf byw ddarlennais er ys tro yw bywgraffiad y cenhadwr William Lewis gan y Parch. Griffith Ellis.\* Rhydd aml gipdrem darawiadol ar egni hunan-aberthol y cenhadwr llwyddiannus, ac ar yr ymdrech rhwng hen dduwiau'r tywyllwch a Duw'r goleuni ar Fryniau Casia. Tarawiadol iawn hefyd yw llawer o'r darnau yn llyfr bychan newydd Ceridwen Peris,—"Adroddiadau a Dadleuon i blant"† Byth er pan ddarlennais "Llygaid Dydd wrth ddrws y nef" (mae y gân yn y casgliad hwn, mor newydd ag erioed), yr wyf yn craffu ar bopeth wela! o waith yr awdures dalentog hon. Wela llyfr dadleuon ac adroddiadau o waith golygydd "Trysorfa'r Plant" hefyd, sef "Y Dirwestwr Bach."‡ Pa raid sydd i awdwr hwn am ganmoliaeth neb?


AF BETHEL. Nid oes gennyf hawl i gyhoeddi darlun o gyhoeddiad arall. Nis gallid ei gerfio ychwaith.

ARTHUR. Diolch; ond y mae'r ystori yn rhy adnabyddus. Gwelais hi yn Gymraeg, hefyd, o'r blaen. Y mae eich cyfieithiad yn gywir ac yn dda iawn.

\* WILLIAM LEWIS, KHASIA. Gan y Parch. G. Ellis, M.A. Llan, darluniau, 176 tud. 1/- Gwreccsam, Hughes a'i Fab.

† ADRODDIADAU A DADLEUON I BLANT. Gan Ceridwen Peris. Amlen, 84 tud., 6c. Caernarfon, D. O'Brien Owen.

‡ Y DIRWESTWR BACH. Gan y Parch. T. Levi. Amlen, 84 tud. 6c. Caernarfon, D. O'Brien Owen.



PLANT CYMRU.

CLXIX. PLANT Y DREFNEWYDD, SIR DREFALDWYN.

"YMLAEN."

(O Adiantum gan G. W. Houldenworth).



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XII.

MAWRTH, 1903.

RHIF 135

---

## *BECHGYN Y DREFNEWYDD.*

**G**WELIR yn y darlun gant a deg a thrigain o fechgyn Ysgol y Bwrdd, Heol Newydd, Drefnewydd. Mae tua phum cant a hanner o blant yn yr ysgol hon, a hi yw y twyaf yng ngwlad Powys.

Mae yn y Drefnewydd dair o ysgolion elfennol ereill, ac hefyd ysgol ganolraddol.

Cymry yw y mwyafrif mawr o'r bechgyn hyn, ond ni fedr ond ychydig bach ohonynt air o Gymraeg. Maent yn galw eu hunain yn "Welsh," ac maent yn cael pleser wrth ddarllen "The Story of Wales," a chanant yn beraidd "The Bells of Aberdovey," &c., ond mewn estron aeg y gwnant yr oll.

Sefydlwyd yr ysgol ar ol pasio'r Ddeddf Addysg, 1870, pan ffurfiwyd Bwrdd Ysgol yn y dref hon. Trosglwyddwyd yr hen ysgol Frytanaidd i ddwyllaw y Bwrdd, ac felly mae yn bresennol ddwy Ysgol y Bwrdd, a dwy ysgol yn perthyn i'r Eglwys Wladol yma.

Daeth Mr. W. Cooke i ysgol yr Heol Newydd ar ei chychwyniad,

fel ysgolfeistr; yr oedd wedi bod am flynyddoedd yn athraw da i'r ysgol Frytanaidd. Bu yma am ugain mlynedd, ac yna, ar ol bod yn athraw am hanner can mlynedd, rhoddodd i fyny'r gwaith, er ei fod hyd heddyw yn cymeryd dyddordeb mawr yn yr ysgolion a'r plant.

Rhwng 1890 a 1895 bu yma ddau brifathraw; un ohonynt oedd Mr. Saer, Cymro da, ac athraw llwyddiannus Ysgol y Bwrdd yn Aberystwyth yn awr. Ymsefydlodd Mr. J. E. Roberts yma yn 1895. Brodor yw ef o Ddyffryn Llangollen. Ac y mae Cymro arall, Mr. E. Thomas, o Lanbedr, Meirionnydd, yn ail athraw.

Mae llawer o fechgyn yr ysgol wedi cyrraedd safleoedd uchel yn ein gwlad, megis yr athraw Mr. A. E. Trow, D.Sc., Coleg Prifysgol Caerdydd; a llawerodd ereill. Ers blyneddodd pasia pob un o'r *pupil teachers* i'r colegau ar ddiwedd eu prentisiaeth; ac er sefydliad yr ysgol ganolraddol, mae un ar hugain o'r bechgyn wedi ennill ysgoloriaethau, ac felly yn cael eu haddysgu yn rhad yn ysgol y sir.

Yn y darlun gwelir y bechgyn yn y weithred o rododi cam ymlaen. "Ymlaen!" dyna arwyddair rhagorol i bawb o fechgyn ysgolion Cymru.

---

### PAID TORRI Y BLAGURYN.

**P**AID torri y blaguryn,  
Gogoniant Gwanwyn yw;  
Mae'n addaw Haf pentfelyn,  
A thala am gael byw;  
Serchiadau 'i galon gynnes,  
Ymliwia'n flodyn per;  
A melus ffrwyth ei fynwes  
Addurna 'i dalaith der.

Paid torri y blaguryn  
Ddatblyga yn dy ardd;  
Ynguddio 'm mywyd plentyn,  
Mae perlau 'i goron hardd;  
Breuddwydion lonna 'i galon,  
Gall Gobaith dyfu'n ffaith;  
Paid gwywo rhagolygon  
Un bach yn dechreu 'i daith.

Paid torri y blaguryn,  
Mae 'i waed yn dawnsio 'n iach;  
Brenhinbren tala 'r dyffryn,  
Fu 'n fesen felen fach;  
Y dalent a ddihoedlir  
Yn ieuanc dloeda'r byd;  
A'r arwyr anfarwolir,  
Fu 'n chwarae 'n blant i gyd.

*Y Bald.*

RICHARD AB HUGH.

---

### ER COF.

Dydd Gwyl Dewi eleni bydd cofio am arwyr Cymru. Ymysg y rhai sydd newydd ein gadael y mae'r hyawdl Llawdden, yr hoffus Dr. Joseph Parry, a'r diymhongar Bledodyn. Yr efenglydd aur-anau, y cerddor mwyn, yr hanesydd lleol llednais,—onid yw bywyd Cymru'n gyfothocach byth o'u herwydd hwy?

## YCHWANEG ETO AM Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

## III. BETH OEDD GANDDYNT?

YNGLYN a dydd pen blwydd John y bu yr helynt fwyaf acw, yn ol fy nhyb i. Wrth gwrs y ddau oedd yn gyfrifol am y cwbl. Y dydd diweddfaf ond un o'u harosiad gyda ni y cymerodd hyn le. Am beth amser yn flaenorol yr oeddwn wedi bod yn gweu *tie* fel arnheg i John ar ddydd pen ei flwydd. Wrth gwrs, nid oedd arnaf eisieu iddo ei weled nes deuai y diwrnod priodol i'w gyflwyno iddo; ac felly byddwn yn ei wthio o'r golwg pan glywn ef yn neshau at yr ystafell lle y digwyddwn fod yn eistedd wrth y gwaith o'i weu. Tynnodd fy ymddygiad sylw y ddau, a deffrodd eu cywreinrwydd; a chroesholwyd fi'n fanwl ar y pwnc. Ceisiais egluro iddynt fod arnaf eisio rhoddi *surprise* i John fore ei ben blwydd, ac am hynny nid oeddwn yn caru iudo wybod dim am y *tie* nes deuai y bore hwnnw. Wedi clywed yr eglurhad yma, yr oeddynt yn foddlon; a gwnaethant eu goreu i fy nghynorthwyo i gadw y gyfrinach, gan ofalu fy hysbysu os gwelent John yn dod i'r golwg, a finnau â'r gwaith yn fy nwyllaw

Tua'r adeg yma yr oedd Jim a Dic wedi ychwanegu dyddordeb y ddau ynddynt drwy ddod i feddiannu *bicycle*, yn swyddogol wrth gwrs. Yr oedd yr hynaf, Dic, yn gallu ei farchogaeth o'r dechreu; ond nid oedd Jim wedi dysgu, a difyrrwch John a fi am ychydig o amser yn ddilynol oedd gwyllo'r mwyaf yn rhoddi gwersi i'w gydmar ieuengach ar y *bicycle* fflamgoch yn y ffordd wastad oedd o flaen ein ty ni. Yn aml iawn byddai'r ddau yn ei gynorthwyo hefyd.

Un diwrnod, tuag adeg cinio, yr oeddyn yn edrych arnynt drwy y fenestr, a Bobbie a Willie y tro hwn gyda ni, wedi gadael y ddau arall i ddod i gael eu cinio. Yr oedd John yn edmygu'r *bicycle* coch yn angyffredin, ac wedi ei glywed, gofynnodd Bobbie iddo yn sydyn,—“Fasa chi'n licio cael *bicycle* coch fel 'na ych hun, Johnnie?”

Chwarddodd John, a meddai Bobbie wedyn,—“Dudwch, Johnnie.” A “dudodd” “Johnnie,”—“Baswn, reit siwr.” “Yn well na un du fel sy ginnoch chi?” “Baswn, o lawer iawn” oedd ateb parod John, tra yn chwerthin. Gwelwn y ddau yn edrych yn llygaid eu gilydd, ac yna yn arwyddo â'u pennau fod dealltwriaeth rhyngddynt ar ryw bwnc.

Gyda llaw, yr oedd gan John *bicycle* hardd, oedd wedi gael yn arnheg gan aelodau y Gymdeithas Lenyddol pan yn ymadael o

Nantgwyn. Yr oedd hefyd, ar yr un achlysur, wedi derbyn nifer o gyfrolau o waith Ruskin, ac, wrth gwrs, yr oedd yr anrhegion hyn yn werthfawr iawn yn ein golwg.

Ar ddydd Gwener yr oedd pen bliwydd John yn disgyn, ac yr oedd yr wythnos honno hyd y bore Gwener yn un wlyb a drycinllyd, fel nad oedd modd i'r ddau fod allan gymaint ag y buasent hwy a minnau yn ei ddymuno. Fodd bynnag, ni chafodd Sarah a fi ein blino rhyw lawer ganddynt, gan eu bod yn dewis treulio y rhan fwyaf o'u hamser yn y *shed* oedd yng ngwaelod yr ardd. Yr oedd cynhwysiad yr adeilad yma yn amrywiol iawn. Yno y byddai popeth oedd wedi myned yn ddiwerth yn y ty yn cael ei gludo oddiar y ffordd. Yr oedd nifer o botiau blodau gweigion yn un gongl. Yr oedd darnau o hen goed i'w torri yn briciau tân wedi eu pentyrru yn erbyn un o'r muriau; bwyell a llif ac arfau ereill o'r fath mewn cwr arall. Yno hefyd y byddai John yn cadw ei *bicycle* pan na fyddai yn ei farchogaeth; a chan fod y tywydd mor anffafriol yr wythnos honno, nid oedd wedi cael ei ddwyn allan o'r *shed* o gwbl.

Yr oedd fy nghyweirinwydd dipyn yn fywiog i wybod beth allai y ddau gael i ddifyrru eu hunain yn y fan honno, ac es at y drws unwaith i geisio cael eglurhad. Fodd bynnag, yr oedd clo ar y drws; a phan es i edrych drwy y ffenestr, cefais fod hen bapur newydd wedi ei osod yn orchudd drosti, fel nad oedd modd cael golwg ar beth oedd yn myned ymlaen tu mewn. Ofnais fod rhywbeth anymunol yn cael ei baratoi, ac es yn ol at y drws.

Gelwais ar y ddau i agor, a chlywn un ohonynt yn dod at y drws, ond ni agorwyd i mi.

"Be 'dach chwi'n 'neyd?" gofynnais.

Ac atebodd Bobbie fi,—“O Elin, chi sydd 'na? Chewch chi ddim dwad i mewn 'rwan, 'dan ni'n gneyd *surprise* i Johnnie erbyn 'i birthdê fo. Fory mae o wyddoch.”

"Be 'di o?" gofynnais drachefn.

"Tyda ni ddim am 'i ddangos o tan fory, nag ydan Wil? Mae Johnnie yn siwr o'i licio fo.”

Gwelais nad oedd diben i mi holi ymhellach, ac es i'r ty, yn ofni na fyddai y *surprise* wrth fodd neb ond y ddau.

Cafodd fy oinau fwy na'u sylweddoli fel y ceuwch weled.

Yr oeddwn wedi penderfynu y buaswn yn talu ymweliad â'r *shed* wedi i'r ddau fyned i'w gwelyau; ond daeth rhywrai i alw acw, ac anghofiais y cwbl. Nid yno y treuliasant yr oll o oriau dyddiau gwlyb yr wythnos honno chwaith. Yr oedd yr adeg dywyllaf o'r flwyddyn; a byddem yn cael ein tē bob dydd wrth oleuni'r lamp. Wedi gorffen y pryd hwnnw byddai'r ddau yn ymneilltuo i *study*

John; ac er y byddet, yno yn aml wrthynt eu hunain, ni ddychmygais y buasent yn gallu gwneyd dim niwed yno. Yr oeddwn wedi agor y drws un noswaith, wrth fyned heibio'r ystafell, a chael y ddau yn eistedd yn ddigon diniwed wrth y bwrdd,—Bobbie yn troi dalenau llyfr darluniau, a Willie yn brysus gyda'r *paint box* oedd y ddwy Miss Jones wedi anfon iddo y Nadolig. Gadewais hwynt yn eithaf boddlon fy meddwl i fyned at ryw orchwyl; ond, druan ohonof, mor dywyllodrus yn aml ydyw ymddangosiadau.

Daeth diwrnod cyflwyno'r *tie* i John, ac yr oedd y ddau wedi codi o flaen neb yn y ty. Cefais eu cynorthwy i roddi'r anrheg mewn papur a'i osod ar y bwrdd wrth ochr plat John, a phan ddaeth yr olaf i lawr, a chyn iddo bron gael agor y pecyn, llefasant gyda'u gilydd,—“Mae ginon ninnau *surprise* i chi, Johnnie.” A buasent yn ei lusgo allan i'r *shed* yn y fan heb adael iddo gael damaid o frecwast, na chymeryd tamaid eu hunain, onibai i mi fygwth cadw'r *marmalade* os na fyddai iddynt eistedd wrth y bwrdd ar unwaith. Yr oedd hwnnw yn un o'u hoff ddanteithion, ac yr oedd son am ei golli oddiar eu bara ymenyn yn ddigon i beri iddynt utuddhau. Ond yr oeddynt wedi gorffen ymhell o flaen John a fi, ac yn gweu yn anesmwyth o'n hamgylch. O'r diwedd, pallodd amynedd Bobbie gymaint fel y llefodd,—“Oh, Johnnie, mi 'dw i'n siwr bod chi wedi cael digon; dowch i weled y *surprise* sy ginon ni i chi ar ych birthé.” Gwenodd John, a meddai,—“Pam na ddowch chi a fo yma?” Edrychodd y ddau ar eu gilydd dan chwerthin, tra y dywedodd Willie,—“Mae o'n rhy fawr, yn tydi o Bob?” “Wel ydi wir,” oedd ateb Bobbie.


---

### COFGOLOFN TOM ELLIS.

Y MAE'R haf a dydd dadorchuddio'r golofn yn dod yn nes. Da gennyf ddeall fod y plant yn deffro i gasglu.

“Yr wyf yn amgau triswllt,” ebe J. Roger Owen, Felog, Clynog, “casgl Urdd y Delyn, Bwlchderwydd, (ardal Owen Owens Cors y Wlad), at gofgolofn Tom Ellis. Cymerir dyddordeb mawr yn y symudiad gan y plant; ni fu i'r un ohonynt anghofio am rodd i'r casgl, ac ni chefais gymaint pleser ers talm ag wrth edrych ar y naill ar ol y llall ohonynt yn dod ymlaen fel y gelwid eu henw, yn llawn brwdfrydedd, i dafu eu hatling i'r drysorfa. Mae gan ein Cymdeithas Lenyddol gasgl i'r un amcan hefyd.”

Yr wyf yn anfon arian plant Arfon i'r drysorfa i'r Bala. Lle mae plant ardaloedd ereill arni? Yr wyf yn dysgwyl clywed oddiwrthynt o hyd. Cofiwch, blant anwyl.

**Y CROESHOELIAD.**

(*Oddiwrth ddarlun Plockhorst.*)



## Y CROESHOELIAD.

**E**FE a waredodd ereill, ei hunan nis gall efe ei waredu,"—dyna fel y gwawdid y Croeshoeliedig gan yr offeiriaid. Erbyn hyn, oherwydd dylanwad ei efengyl, y mae miloedd yn meddwl mwy am waredu ereill nag am eu gwaredu eu hunain.

Y mae croeshoeliad Crist wedi apelio'n ddwys at deimlad dynol ryw, ac yn dal i apelio twy fwy. Yma, hefyd, y mae

" Rhyw newydd wyrth o'i angau drud  
Yn dod o hyd i'r golwg."

Mae beirdd Cymru er y dechreu wedi canu llawer am ddiodefaint yr Iesu; parotoent eu meddwl at wythnos y Pasg, a chanent aml gywydd ac englyn llawn o deimlad duwiol a dwys. Ac nid yw emynwyr y dyddiau diweddfaf hyn wedi canu'n felusach am ddim nag am angau'r groes. Eu meddwl am y byd hwn ydyw,—

" Mae munud o edrych ar aberth y groes  
Yn tawel ddistewi môr tonnog fy oes."

A'u meddwl am y byd arall yw, —

" Bydd canu uwch am Galfari,  
Nas clywodd yr angylion fry,  
Pan ddelo Salem bur yn llawn."

## CYMRU'R BARDD.



FONYDD gloewon Cymru  
Sy'n lifo drwy bob dól;  
Ceir darlun nef a daear  
Mewn tlysi yn eu côl.

Mae ADAR bychain tlysiwn  
Rhwng llwyni Cymru fwyn,  
Yn llanw 'i phêr awelon  
A serch-ganiadau swyn.

ARDALOEDD dinod Cymru  
A'u tai gwyngalchog glân,  
Sy'n meddwl a gweithredu  
Dyrchafiad gwlad y gân.

ANWYLLAID goreu Cymru,  
Ei llwydd oedd nef eu bron,  
A gwaed eu calon roddwyd  
I olchi calon hon.

R. EUROG JONES.

## YSGOL PROFFAD.

. III. YR YSGOL GYNTAF. <sup>111V</sup>

**O** GWMNI'R saer a'r gof yr aeth y Cymro Bach i'r ysgol ddyddiol am y tro cyntaf erioed. Ysgol Eglwys oedd. Un o'r adgofion cynharaf sydd ganddo am adeg dechreu dysgu dan athraw yw adgof gwan am lefnyn main oedd newydd adael yr ysgol,—yr oedd brawd iddo yno pan ddechreuodd y Cymro; gresyn meddwl fod y gŵr caruaidd hwnnw yn ei fedd heddyw. Gadawodd argraffiadau dymunol ar feddyliau to iau nag ef, ac ar drigolion yr ardal i gyd o ran hynny. Chwith yw meddwl na chaiff aberthu rhagor dros ei wlad,—torrwyd y delyn yn gynnar.

Cofir yn hir am ddau neu dri o lafnau tal, bywiog, a direidus oedd y pryd hynny ar ris uchaf Ysgol yr Eglwys. Arferai'r rhai lleiaf edrych yn swil ar y rheini, a gwyllo eu symudiadau'n ofalus, yn enwedig eu hymddygiad at yr athraw,—peth dieithr iawn i deimlad hogyn newydd yn yr ysgol oedd gweld llanciau, bron, yn ufuddhau fel y rhai lleiaf i'r athraw.

Nid yw'r Cymro Bach yn cofio iddo ddysgu fawr ddim yn yr ysgol o'r pethau a ystyrriid yn anheborol y pryd hynny. Ond argraffodd yr hyn a welodd ac a deimlodd yn anileadwy arno. Ac onid yn y fan yna y gorwedd llawer iawn o addysg gyntaf a dyfnaf plentyn? Synnai y bachgen newydd yn aml at oddefgarwch yr athraw. Rhyfeddai bryd arall at hyfdra rhai o'r disgyblion. Ond y pethau mwyaf arosol yw geiriau caredig, tynerwch, ac ymdrech syml i ddeall plant a'u troseddau. "Ni fydd gair caredig farw." Aiff y dywediad yna'n fwy o brofiad i'r Cymro Bach bob dydd. Cofied rhieni ac athrawon hynny yn awr. Ond dyn orio, serch hynny, oedd yr athraw. Curai weithiau'n ddiarbed, a phryd arall edrychai cyn ddotod ag oen llywaeth. A chan fod y bechgyn mwyaf yn lafnau cryfion llawn direidi, herient yr athraw ar adegau nes ei gynhyrfu. A chymerai le wedyn olygfa nad anghofir byth mohoni,—cofier mai plentyn, yn *fresh* o'r aelwyd unig, heb weld neb ond y gof a'r saer, sydd yma.

Gwelwyd unwaith neu ddwy ysgarmes ar lawr yr ysgol. Gwelid tymer gwaed cynhyrfus ieuentid yn chware dan groen llyfn y llanciau, a'r dagrau, gan rym teimlad, yn treiglo i lawr y gruddiau tyner, a'r dyrnau bychain yn gauad a chrynedig, a'r coesau meinion yn gwegian gan ofn, ac awydd ymollwng i ymladd yn iawn, marw neu beidio. Ac o'r ochr arall, yr athraw yn ddirael ac yn gymysglyd ei feddwl,—fel pe'n petruso prun ai ymroi ati i drechu'r hogiau gwirion wnaethai, ynte treio rhyw ffordd ddoethach i sicrhau

gwell disgyblaeth o hynny allan. Feimlai'r plant ieuengaf nad oedd yr athraw yn ymladd fel dyn o'i gof, ac ymofidient am y foment, beth bynnag, nad ymdaffai iddi er cael "active service" iawn am unwaith.

Nid oedd gan y Cymro Bach ddim rhan na chyfran yn y miri anymunol yna. Eto, teimlai yn ei galon y carai fod yn rhannog yn yr helynt. Erys mymryn o awydd aflonydd byth yn ei enaid am law mewn helyntoedd a blas gwrthryfel arnynt. Faint o hyn ddylid briodoli i ddylanwad bore oes? Gorfu iddo ymladd llawer â'r asbri beryglus yna a'i blinodd ar ol hynny. Aeth mor gryf unwaith nes awyddu ymuno â'r "cotiau cochion."

Yr oedd ysgol arall yn y gymdogaeth,—un Frytanaid. Ychydig o deimlad cariadus feithrinid rhwng plant y ddwy ysgol. Pam, nis gallaf ddweyd i foddlonrwydd. Ond corddid y ddwyblaid gymaint weithiau nes eu gyrru i dorri pastynau, a dringo bryn neu lethr mynydd i ymladd y drwg deimlad ymaith, neu ei ladd. Ond pan ddoi'r adeg i ffurfio rhengoedd, ac i daro o ddifri, gwangalonnai'r ddwy ochr. Rhyw unwaith neu ddwy yr wyf yn cofio'r gwaed yn berwi'n ddigon i ddefnyddio'r pastynau. Ac yr oedd un ysgrech go dda, a mymryn bach o waed ar y croen, yn ddigon i greu heddwch go fuan. Ac ai pawb i ffwrdd, dan addo pethau tostach ryw bryd eto. "Yn yr amser a ddaw y gwneir gwrthiau."

Cytnod cythryblus fel yna oedd adeg symud y Cymro Bach o un ysgol i'r llall. A naturiol iawn oedd i'r plant ameu rhai o'r ysgol arall ar y cyntaf. Ac nid peth hawdd tuasai desgrifio teimladau plant yr Ysgol Eglwys yn yr Ysgol Frytanaid am yr wythnosau cyntaf. Ond, a gadael yr amgylchiad yna o'r neilltu, un distaw a llonydd oedd y Cymro Bach pan yn newid cwmni ac yn cyfnewid amgylchoedd. Ni cheid braidd ddim ganddo. Yng nghanol unigrwydd yr oedd, ac unigedd rhyfedd yw unigedd ymysg cwmni, ac unigrwydd plentyn yn anad dim. Sylwasai'r hogyn ar droion trwstan ac arferion chwim plant yr ysgol newydd. Ceisiasai ddygymod â geiriau chwerw angharedig rhai o blant hyfion yr Ysgol Frytanaid. A thynnid ef i ymddiried yn ewyllysgar mewn ereill, arferai fwy o naturioldeb a thymher hawddgar.

Nid yw'n naturiol i blentyn fod yn greulon; ond dan ddylanwad rhodres a bôst, gall hyd yn oed plentyn mwyn droi'n gas ac anaturiol, ac ymddwyn yn bigog wrth gwmni dieithr, swil, a diniwed. Ond yn fuan iawn daeth yr hogyn bychan swil yn fwy hapus a chartrefol, a'r plant hyfion a digwilydd ereill i gymeryd eu lle yn fwy gostyngedig. Ar ei ben ei hun, y rhan fynychaf, y ceid y Cymro Bach, yn sipian ei fys blaen, a gafael yng nghroen ei wddf a'r llaw arall,—byddai'n ddiiddig am ddiwrnod cyfan felly. Nid

ymddiriedai ei gyfrinion i fawr neb. Hoffai grwydro drwy'r wig, a cherdded hyd lennydd afonydd, a sylu ar y dŵr rhedegog a'r pysgod brithion yn nofio'n hamddenol mewn llynnau llonydd. Dringai goed ffawydd tal o bleser noeth, peltiai wiwerod â cherrig yn ddiarbed. Rhedai'n ddiflino i ddilyn wiwerod yn neidio mor naturiol o goeden i goeden, ac yn cerdded o gangen i gangen dan chware. Ond pan fyddai digon o blant hefo'u gilydd i ddallu a syfrdanu'r wiwer fach, codai'r brwdrydedd yn uchel iawn. Dyna beth o flas hwyl rhyfel, a'r hyn hefyd yr ymddigrifa'r boneddigion ynddo,—hela. Plentyn diniwed, tyner, yn ymgolli mewn difyrrwch wrth weld creadur bach gwirion ar frigyn coeden mewn penbleth am ei fywyd!

Pryd arall, ceuid ar bysgod mewn llyn hwylus i'w dal. Gollyngid y dŵr o hono,—ddim ond am y gellid gwylio'r pysgod yn hyllu o un pen i'r llyn i'r llall, ac yn y diwedd eu dal. Ceid traferth enbyd i ddal ambell i un. Braidd na thybiai dyn fod De Wet ymhlith pysgod yr afon,—ambell i un medrus i ysgoi rhwyd a dod i'r ddalfa; ond yn byw yn fras yn hir. Pwy all ddirnad llawenydd digymar hogyn yn dal brithyll graenus o'i anfodd? A phwy ŵyr am y demtasiwn i'w ollwng yn ol i ymdewhau wedi'r brithylliaid ereill gefnu? Dim ond plentyn mewn cyngrair â chreaduriaid y dŵr a'r maes.

Dyna'r ffordd yr hyfforddir aml i hogyn "true to nature," sugna'i addysg o gwmi creaduriaid gwyllt. Astudia'n fanwl droion bywyd mathau o greaduriaid. Gŵyr am nodweddion amlycaf pysgod, wiwerod, ac adar, yn dda. Ymgynefina â chyfrwystra a challineb, chwerwedd a thymor dda y byd islaw iddo. A phan y daw i fysg pobl wedyn, synnir hwy gan graffed yw.

Pa ryfedd, bu'n gwrando ar leisiau ac yn sylwi ar arferion,— yn meistroli trwy ddeall a phlygu. Aeth y plentyn dan ddisgyblaeth fanwl yn ddiarwybod iddo ei hun. Dyna ogwydd y Cymro Bach y tu allan i'r ysgol.

Nid wyf yn llunio dweyd fawr ddim am gymeriad prif athraw yr ysgol newydd yn y fan yma. Nid am nad oes mwy na mwy i'w gofnodi, ond am y daw i fewn yn nes ymlaen. Athraw cynorthwyol sydd gennyf i'w gyflwyno'n gyntaf i sylw. Ni faliai'r plant mwyaf direidus y nesaf peth i ddim am yr athraw hwnnw. Ond gorfodid hwy i gydnabod ei ddull angharedig o reoli plant. Nid oedd yn greulon yn y dull cyffredin; ond cymerai ddull llechwraidd i gosbi, dull y gwrthryfelai ysbryd plentyn yn ei erbyn wedi unwaith ddeall ei amcan. Gwelid ysbryd concro yn chware yn nghornel ei lygad glas llonydd. Yr oedd y Cymro Bach ymysg y rhai wyddai sut i

boenydio enaid athraw fel hwn. A chan ei fod yn methu yn lân loew a gwneyd i'r hogyn deimlo ei arswyd y naill ffordd na'r llall, dyfeisiai ddull newydd i gyrraedd ei amcan. Yn yr ystafell fawr,—yr ysgol fawr y gelwid hi gan y plant,—y treuliai'r is-athraw y rhan gyntaf o'r bore, a'r prif athraw yn yr ystafell fach,—y *class-room*. Deuai'r pen athraw i'r ysgol fawr tuag un ar ddeg o'r gloch. A chyn wired a fod un ar ddeg yn dod, byddai rhyw ymgais neu gilydd i ddialu ar rai o'r bechgyn direidus yn dod i'r golwg. Un diwrnod, cyn i'r "Hen School," chwedl y plant, ddod o'r *class-room*, rhodd y Cymro Bach ar ben y fainc am ryw drosedd neu gilydd. Byddai'r Cymro beunydd a byth dan gerydd. Ond y tro yma teimlai fod yna gyfrwystra ar waith yn ei roi i sefyll ar ben y fainc, fel y cawsai ei adael yno pan ddoi'r "Hen School" i'r ysgol fawr. A 'doedd dim i'w wneyd ond rhoi cyfrwystra i ymladd â chyfrwystra,—“Ateb yr yntyd yn ol ei yntydrwydd.” Tarodd y Cymro Bach ei drwyn nes oedd yn pistyllio gwaedu pan oedd drws y *class-room* yn agor. Awd wedyn a'r bachgen allan yn ei waed,—gwyddai ef ei hun yn dda nad oedd berygl i niwed ddigwydd, gan fod ei ffroenau'n gwaedu'n aml. Ond sicraodd y drafferth i olchi'r gwaed, &c., na ddigwyddai hynny ddim wedyn. Dyma'r elfen ddieithr o ddisgyblu i ddiod-le er gorchfygu, yn dechreu cryfhau. A'r elfen yma sy'n rhedeg drwy'r stori o hyn ymlaen.

Dro arall, mynnai'r is-athraw drechu'r un bachgen. Arferai'r Cymro Bach, ar ol ffeindio man gwan dyn, chware i ormodedd arno. Gomeddai ddweyd ei wers pan yn ei medru, er gweld pa foddion ddefnyddid gan yr athraw peniwnus hwn i ddiwygio'r disgybl ymddangosai'n ddifedr a diallu. O'r diwedd, heb ddeall natur y pechadur, cauodd ef i mewn yn y *class-room* dan chwech o'r gloch, gan roi tasg galed o eiriau iddo i'w dysgu ar gôf, a'u sillebu hefyd. Wedi dangos y dasg, aeth yr athraw allan o'r ystafell, gan dynnu'r drws i gau ar ei ol. Tynnodd y bar oedd yn dal y ddau nob, gan deimlo'n bur siwr na ddoi'r gwalch bach ddim oddiyno nes edifarhau am ei fai, a dysgu ei wers mor lwyr fel na fyddai angen am driniaeth o'r fath wedyn. Ond cyn gynted ag iddo droi ei gefn, dyma dynnu cylllell boced allan, a naddu pen gwialen yn sgwar i weithio yn lle'r bar ddygasid ymaith gan yr athraw. Ac allan a'r carcharor bach drwy'r ffenestr i chwarae'n rhydd y tu allan. Ac aeth a ffrind arall direidus i mewn i'w ganlyn i chwilota'r ysgol a chanu'r gloch.

Ychydig feddyliai'r ddau hogyn y clywai'r prif athraw y gloch yn canu, ac yr holid ymhellach yn ei chylch.

## Telynau'r Plant.



BRYFDIR.

S. S. A.

J. P. HUGHES, Coedpoeth.

DOH D. *Ysagfn a mycfus.*

1. Mae tel-	yn - au	yn	y	:s	l	:s	s	:-	.f	m	:m	.r	}
2. Clywsom	rai	yn	can	- u	:m	f	:m	:-	d	:t,	.t,	}	
													ym
:d	.d	d	:d	d	:d	t,	:-	d	:s,	.s,	}		

llu	ta -	hwnt	i'r	:s	.f	m	:l	}			
									ser,	Tybiwn	glyw - ed
d	:r	.d	.t,	:d	.r	:m	:t,	.t,			
an -	ial	rhwng	y	drain;	Heddyw	ar	or -	}			
l,	:t,	d	:f,	s,	:-	:-	.d	.d	d	:l,	}

A.t.

o'r	pell -	der -	oedd,	Weithiau,	rai	o'u	sein -	iau	}						
										der	-	oedd,	Weithiau,	rai	o'u
iel -	au'r	Wyn -	fa,	Mil per-	eidd -	iach	yw	eu	}						
r	s, .f,	:m,	f,	:s,	l,	:la,	.la,	s,	.m,	:f,	.s,	l,	:s,	.f,	}

f.D.

*cres.*

per;	(1) Heulwen	(2) Wrth eu	:s	.s	s	:-	.s	s	:-	.s	d'	:d'	}	
														chwer -
sain;	(1) Heul-wen	(2) Wrth eu	:r	.m	f	.:	:m	.r	:d	f	.m	:r	:m	}
m,t,	:-	.d	r	:	:d	.t,	:l,	r	.d	:t,	d	:r	.m	}

Dwysder	ys -	bryd	ffÿ	i	r'	:-		:-	:t	.t	}
Cyfyd	yn -	nom	nin -	nau	chwant,						}
grudd-iau,	Dwys-der	ys -	bryd	ffÿ	i	bant,	Am	gael	}		
										blin - der,	Cyf - yd
f	:f	.r	:d	:t,	:m	:d	:t,	:s,	.s,	}	
											chwer -

{	d' :t .l	s :l .s	f :s .f	m :m .f	s :d'	}
	cof - iwn	fod tel	yn i -	aw	Goreu'r	nef yn
	m :re	m .r :de	r .d :t,	d :d .d	t,	:d
	rhoi ein	dwy - law	tyn -	er	Ar del-	yn - au
	l, :t,	m :l,	r :s,	d :l, .l,	s,	:l,

{	f :m	r :l	s :m .m	f :s	l :l	}
	nwy - lo'r	plant;	Pan y	cof - iwn	fod tel -	
	r :d	r :re  m :m .r	d :r .m	f :l .s		
	per y	plant;	Am gael	rhoi ein	dwy - law	
	t, :d	d :—  — :d .t,	l, :s,	f, :f .m		

*cres.*

{	t :d'	r' :t .l	s :s .m	l :t	d' :—  —	
	yn - au	Goreu'r	nef yn	nwy - lo'r	plant.	
	s :— { l } fe }	:fe .fe	s :s .m	f :f	m :—  —	
	tyn - er	Ar del-	yn - au	per y	plant	
	f :m .m	r :re .re	m :s .m	f :r	d :—  —	

**GWEDDIAU MAM.**

**D**RAW i'r gorffennol ceisiaf roddi llam,  
 Pan gynt yn blentyn bach ar liniau mam;  
 Dychmygaf yno'i gweld, a'i dagrau'n lli,  
 Yn codi 'i llef i fyny at ei Rhi;  
 Ei chalon gurai'n gyflym tan ei bron,  
 'Roedd enaid mam yn siwr yng ngweddi hon;  
 A sibwr'd wnaï, a'i gwedd fel angel iach,—  
 "Yn Dduw, O Arglwydd, bydd i'm plentyn bach."

'Does dydd i'w gael heb nos i guddio'i wedd,  
 Na chalon yn rhy dyner i gael bedd;  
 Mae'r tafod fu'n gweddio ar fy rhan,  
 Ow! heddyw'n fud ym mhriddell oer y llan;  
 Ei henaïd hedodd fry at Dduw y Nef,  
 Yng nghwmni gweddi daer, O weddi gref  
 Oedd gweddi olaf mam, os ber ei hyd  
 I mi fe gydia'r nefoedd wrth y byd.

Rhyw fyw rybuddion ynt rhag uffern drist,  
 A chyfarwyddwyr i'm at Iesu Grist,  
 Ei dwyfol naws wna i demtasiwm ffoi,  
 A chymorth ynd-lynt gaf wna'r glorian droi;  
 Pan ar fy neulin codaf fry fy llef,  
 Y rhain agorant i mi ddrws y Nef;  
 Mae nefol rin yn llond y rhain. Paham?  
 Fe hoffa Duw ei hun weddiau mam.



“Daw'r ddoli oeddwn i wedi feddwl gael.”



## GWRHYDRI GENETHIG.

**G**ENETH dlawd oedd Pati. Gwraig weddw oedd ei mam, yn ennill tãmaid prin, wrth olchi, i Pati a thri brawd llai.

Gwelais Pati droion yn edrych ar blant bach dedwydd oedd yn cael digon o fwyd, a digon o deganau. Yr oedd yn amlwg na wyddai beth oedd eiddigedd. Edrychai arnynt gyda llygaid llawn o serch; buasai'n foddlon iawn i chware gyda hwy, ac i wneyd unrhyw dro caredig iddynt. Gwelais hi wrth ffenestr siop teganau lawer gwaith hefyd. Yr oedd yno un ddoli wedi mynd a'i serch yn lân. Yr oeddym yn lletya bron gyferbyn; a llawer gwaith y gwelais Pati yn sefyll o flaen y ffenestr, a'i chap wedi ei dafu'n ol oddiar ei gwallt goleu, ac yn syllu yn fyfyrgar ar y ddoli dlos. Ond ni fuasai waeth iddi hi feddwl am y lleuad, neu am bluen o aden angel, nag am y ddoli honno. Yr oedd yn costio chwe cheiniog.

Ryw nawn yn yr haf yr oeddwn i fynd a cherbyd at lan y môr i gyrchu fy mam adre. Yr oedd hi wedi bod yn eistedd yno drwy'r bore, yn mwynhau awel y môr. Pan ddynesais ati, gwelwn fod Pati yn ei hymyl. Ac ebai wrthyf,—

“Y mae'r eneth bach yma, weli di, wedi bod yn ffeind iawn wrtha i. Mi gollais fy ysbectol; ac oni bai am y ffrind bach yma, ni chawswn hi eto. Hwde, fy ngeneth i, dyna i ti chwe cheiniog, i brynnu doli.”

“*I brynnu doli,*”—gwelwn wefusau Pati yn ail adrodd geiriau diweddaf fy mam, ac yr oedd llond ei llygaid gleision o lawenydd. Ni phrysurodd ymaith, ond cydiai'n dynn iawn yn y chwech.

Aeth y cerbyd a mam a finnau'n gyfym i'n llety. Ond pan edrychais at ffenestr y teganau, wele Pati yno. Safai yn llonydd a myfyrgar o flaen y ffenestr, ac o flaen y ddoli. Yr oedd nod ei bywyd bychan yn y golwg. Penderfynais fynd i lawr, ac ar draws yr heol, i weled y llawenydd ar wyneb Pati wedi iddi brynnu'r ddoli.

Erbyn i mi gyrraedd yno, yr oedd Pati wedi diflannu. “I'r siop yn sicr,” meddwn wrthyf fy hun. Arhosais ennyd, gan ddisgwyl gweled llaw y siopwraig yn tynnu'r ddoli o'r ffenestr. Ond ni welwn ddim. Eis i'r siop. Nid oedd Pati yno, nac wedi bod yno; I ble yr aethai, tybed? Cefais wybod yn union. Pan ddaethum allan o'r siop, gwelwn hi'n sefyll yn fyfyrgar fel o'r blaen o flaen y ffenestr. Ni welodd hi fi.

Yr oedd torth chwech ar un fraich iddi. Rhoddodd fys y llaw arall ar y ffenestr, ar gyfer y ddoli, ac meddai wrthi ei hun,— “Dacw'r ddoli oeddwn i wedi feddwl gael.” Yna trodd ymaith, a cherddodd yn gyflym tuag adre, tan fwmian canu.

Bu ymladd caled rhwng y ddoli a'r dorth ym mynwes y plentyn, mae'n ddiameu. Ond gwell oedd ganddi foddio ei mam a'i brodyr bach newynog na boddio ei hun. Ac os na chaf ddweyd fod Pati wedi cyflawni gwrhydri, nis gwn beth yw ystyr y gair.

---

### GWOBR DISGWYL.

**D**ISGWYL ar y bryniau—  
Pell, o dwrf y llawr,  
Clywed blaen-delynnau  
Per, yr ieuanc wawr.

Disgwyl ateb cyfrin,  
I ryw weddi daer,  
A sêl-ddelw'r brenin,  
Ar yr amlen glaer.

Mae i ddisgwyl ffyddiog,  
Dâl Duw wedi hyn,—  
Gweld y nos dymestlog,  
Yn hedd-fore gwyn.

GWILYM DYPI.

---

### F PYSGODYN A'R LLYTHYR.

**Y**CHYDIG amser yn ol, tra ar fordaith yng nghanol Môr y Werydd, aeth un o'r morwyr, sef bachgen ieuanc o gymdogaeth Llanllyfni, ati i ysgrifennu llythyr adref i'w rieni. Ar ol ei orffen a'i roddi yn yr amlen, daeth i'w gof ei fod wedi gadael amryw o bethau pwysig heb eu crybwyll. Yna y mae yn taflu y llythyr dros y bwrdd i'r môr, gan benderfynu ail-ysgrifennu.

Ymhen rhyw ddeuddydd neu dri y mae y morwyr yn myned ati i bysgota, ac y maent yn llwyddo i ddal amryw bysgod; ac aethant at y gorchwyl o'u glanhau ar gyfer eu coginio. Pan yn glanhau un pysgodyn lled fawr, er eu syndod beth welent yn ei grombil ond llythyr, wedi ei gyfeirio i Ddyffryn Nantlle, sir Gaernarfon, Gogledd Cymru. A dyma y llythyr a daflwyd dros y bwrdd rai dyddiau yn ol.

Amlwg ydyw ei fod wedi bod yng nghrombil y pysgodyn am y dyddiau hynny; a rhaid hefyd fod y fath yma o bysgod, yn ol eu hanianawd, yn dilyn y llongau am filltiroedd ac yn bwytia popeth a defir o honi.

Gwelwn oddiwrth hyn pa mor wylidwrus y dylem ni fod. Hawdd iawn y gallasai y morwr ieuanc yma fod wedi dweyd pethau na ddymunasai i neb eu clywed na'u gweled ond ei rieni. Gallasai hefyd fod wedi dweyd pethau am ei feistri, a'i gydforwyr, y rhai allasant droi yn chwerw iddo.

Pa beth bynnag a ddywedom, neu a wnelom, gwnawn hwy yn y fath fodd, fel na bo arnom ddim ofn iddynt gael eu dwyn i wyneb rhyw oleuni.

*Rhodfa Salem, Llanllyfni.*

W. R. WILLIAMS.

## MAB EI FAM.

YNGLYN â phlant, adnod godir yn aml yw honno,—“Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi.” Beth yw y profiad, beth yw y casgliad y mae'r gŵr doeth yn ei dynnu wedi hir sylwadaeth ar fywyd? Beth yw y gwirionedd y myn alw sylw rhieni ato yn yr adnod hon? Tybiaf fod yna wirionedd pwysig, ffaith nas gellir rhoddi gormod, na rhy aml, bwyslais arni; ac yn enwedig yn y dyddiau hyn, pan y mynych glywir y gŵyn fod y plant yn myned yn twy-fwy pengaled ac anhawdd eu trin, yn llai eu parch a'u hufudd-dod i'w rhieni.

Fod yna wahaniaeth yn nhymer plant yr oes hon o'i gyferbynu â thymereidd meddwl plant yr oes o'r blaen sydd, mi gredaf, wirionedd amlwg. Eto, fy marn i yw mai cyfnewidiad er gwell ydyw, datblygiad dyrchafol ac er da.

Gallaf fi, a diau y gall aml un o'm darllenwyr, ganu pill gyda blas a theimlad o'r hen gerdd wlithog honno,—“Gwialen fedw fy mam;” ond “myn einioes Pharaoh,” yr arch-wialenodwr, nid wyf am i blentyn i mi na'i dysgu, na'i chanu, na chael blas arni, byth! Do, gwelais, *gynl*, gynulleidfaoedd yn ymdoddi yn foddfa o ddagrau chwerw-felus, hiraethlawn, dan geinciau cyfaredd yr “Hen Ddarby” ar y gân yna; ac yn wir, y mae'r hen bobol yn cael rhyw hwyl a boddhad neilltuol o'i chlywed hyd heddyw. Ond,—sylwer ar hyn,—ychydig amser yn ol, mewn “Cyngerdd Mawreddog” (credaf mai dyna oedd y pennawd!), clywais gantores dda, gyda llais gwyach a disgybledig, yn ei chanu,—ond nid oedd yno na deigr yn nac ochenaid, na “chymradwyaeth.” Am foment eisteddais yn syn,—yna daeth dros wyf ryw ddigrif siomedigaeth, yna daeth llygedyn o oleuni, ac nis gallwn ymatal rhag gwenu yn foddhaus, a rhyw sibrwd ynnof fy hun.

“Ie, ie, diolch am hynny; nid yw y gantores na'r gynulleidfa yn gwybod dim, *trwy brofiad*, am chwerw oruchwyliaeth y wialen; sut, ynte, yr oedd yn bosibl canu na gwrando gyda blas a theimlad?”

Ie, ysywaeth, gormod o'r wialen, a'r ffon, y llaw, y dwrn, a'r troed, oedd yn y teulu gynt. Yr oedd mynnu ufudd-dod, gorfodi y cyndyn i roddi ufudd-dod, yn beth yn ei le; ond a'r moddion, a'r cyfrwng, y mae ein cweryl. Y mae, trwm cyfaddef, ambell i ddynes ddreng, ambell i ddyn ciaidd, i'w gael eto; ond y mae eu nifer yn myned lai-lai bob dydd. Ofni yr wyf, modd bynnag, er fod pethau yn gwella yn yr ystyr hon, fod yn y wlad eto lawer gormod o'r cega, y dwrdio, y gwawchio a'r cernodio ynglŷn a phlant; a chyda chreadur rhesymol nid yw peth telly yn iawn, ie, *ac y mae'r plan*

*eu hunain wedi dod i ddeall hynny, ac wedi troi yn wrthryfelwyr.* “Y mae'r pryf serthrir yn troi,” medd yr hen air, ac y mae'r wenynen boenir yn pigo. Gall nad yw y wenynen fach yn deall, yn amgyffred yn iawn, athroniaeth y colynu,—ond y mae yn troi yn reddfol, mewn hunanamddiffyniad, yn erbyn triniaeth ei phoenydwyr. Felly hefyd am y plant.

Ond, i bob effaith y mae achos; pa beth, tybed, achosodd y cyfnewidiad hwn yn y plant? Dywedir mai un o ddarganfyddiadau mawrion a phwysig y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydoedd “Darganfyddiad y Plentyn.” Wel, ie, onide! Edrychwch i mewn i hanes yr hen oesoedd, archwiliwch lenyddiaeth pob gwlad ac oes, faint o son am y Plant sydd yno,—er manwl chwilio holl feusydd llen, pa sawl hanesyn bach tlws a thyner gewch chwi am blentyn? Am ymddangosiadau yr angylion a chlwr daear dywedir mai “few and far between” oeddynt, ac am blant ar ganfas yr hanesydd gellir dweyd yr un peth,—peth eithriadol ydoedd.

Mor wir y sylw, mor gain y geiriad,—

“ Full many a gem of purest ray serene,  
The dark unfathomed caves of ocean bear;  
Full many a flower is born to blush unseen,  
And waste its sweetness on the desert air!”

Felly am y plant; gemau cudd, a blodau dibris ydynt wedi bod i raddau helaeth yn y byd, hyd yn ddiweddar.

Diau fod y deuddeg disgybl yn esiamplau teg o oreugwyr Canan yn nyddiau Crist, ac yn fynegai cywir o'r hyn ydoedd teimlad yr oes at blant,—a dyna ydoedd hynny, gwahardd rhoddi fawr sylw i'r plant, gwthio'r plant o'r golwg i rywle i'r tu cefn. “Gadael i'r plantos yma ddod ymlaen i'r ffrynt, yn wir! nid ydych yn meddwl fod gan yr rhain na rhan na chyfran ym mhethau mawrion pwysig bywyd; ciliwch yn ol mewn munud!” Mor dda yr ydym yn adnabod yr hen ddingo gâs yna, a'r guwch aelddu fileinig roddai rym iddi, nes crynnu o waed ein calon! Heddwch i lwch yr hen dduwionol dreng, ond gonest a chydwybodol, er na wyddent fawr am y flordd i drin plant; talent brin oedd honno yn yr eglwysi gynt. Dydd mawr a phwysig oedd hwnnw yng Nghymru, pan ddarfu i'n tatau roddi rhyddid a gwahodd i'r plant “ddweyd adnod” yn y seiat,—dydd hau yr hedym mwstard.

Ond os oedd y dynion yn gwgu, yr oedd y mamau yn gwenu, a'r Iesu yn gwahodd! Mor aml y cawn y ferch, y fam, yn elfen ddrychafol mewn cymdeithas, yn arfer caruaidd reddf ei chalon i dyneru a nawseiddio gerwinder gormodol y gŵr. Bellach, wele ni wedi cyrhaedd hyd at y cyhoeddiad rhyfeddaf a gwerthfawrocaf a

wnawd uwchben plant erioed; wele, yn wir, Freinlen Fawr y Plant wedi ei chael, ei llofnodi a'i selio gan y Duw-ddyn, brenin y saint,—

“GADEWCH I BLANT BYCHAIN DDOD ATAF FI, AC NA WAHERDDWCH IDDYNT; CANYS EIDDO Y CYFRYW RAI YW TEYRNAS NEFOEDD.”

Y mae y Cyhoeddiad Brenhinol—y *Royal Proclamation*—yna, wedi bod yn treiglo i lawr hyd rawd yr oesoedd; ond hwyrdwrwm ei glyw, a hwyrfrydig ei ysbyrd, yw dyn; eto, y mae'r glust a'r galon yn graddol ildio i'w leferydd ef. Y mae'r gwir athrawon, y rhai sydd yn ymdrin â'r plant yn ysbyrd Crist a'r Testament Newydd, yn fwy eu dylanwad gyda'r ieuencid heddyw nag erioed; ac am Gwawch ab Cwuch, efe, erbyn heddyw, sydd yn gorfod cilio i'r cefn. Mwyn ab Hud ab Cariadfron bia'r maes. Erbyn heddyw ni oddef cyfraith y wlad i chwi wneyd cam a'r plant; os na wnaiff y tad a'r fam eu dyledswydd at y plant, rhoddir gorfod cyfraith arnynt; ac os na bydd rhieni, y mae'r wladwriaeth yn barod i ymgymeryd â dyledswyddau mamaeth. Y mae calon a llogell Prydain efengylaidd wedi codi, ac yn cynnal cymdeithasau i ofalu am chwarae teg i'r plant bach, ac i gosbi creulonder dynion cas. Y mae grym cyfraith erbyn hyn yn sicrhau i bob plentyn ei ymborth, ei ddillad, ei gartref, ei addysg, a'i fagwraeth briodol.

### MAE URDD Y DELYN HEDDYW.

**M**AE Urdd y Delyn heddyw  
Yn hapus lu o blant,  
Yn gwisgo'r hen genhinen werdd,  
Er cof am Dewi Sant;  
Mae calon ddewr pob Cymro  
Yn curo mewn mawrhad,  
Wrth gosio am yr enwog sant,  
Wnaeth gymaint dros ei wlad.  
  
Bu ef yn brwydro'n galed  
Dros grefydd Cymru wen,  
Ond heddyw mae yng Ngwlad yr hedd  
A'r goron ar ei ben;  
Mor hapus ydyw yno  
Yng nghwmni engyl glân,  
Yn taro tannau'r Delyn Aur,  
Mewn hwyf o nefol dân.

Mi garem ninnau hefyd  
Fod yno gydag ef,  
Yn canu cydgan'r anthem bur  
O glod i Frenin Nef;  
Fe dybiwn weled Dewi  
Yn gwenu mewn mwynhad,  
Can's pawb sy'n parchu'r gwron cu  
O fewn y nefol wlad.

Bydd enw'r Sant a'i hanes  
Yn fyw drwy oesau'r byd,  
A boed ei glodydd haeddol glân  
Yn chwyddo'n fwy o hyd;  
Dychmygu 'rym ei glywed  
Yn gwaeddi'n fwyn ei lef,— [dewch  
“Chwi dduwiol blant, prysurwch,  
At Iesu Grist i'r nef.”

CYDGAN,—Mae Urdd y Delyn heddyw  
Yn wrol lu o blant,  
Yn ceisio codi ei gwlad i fri  
'Run fath a Dewi Sant.

## DEWI.

**Y** MAE un o'ch cyfeillion wedi ein gadael, set Dewi Morgan Jones. Wyr ydoedd i Mr. Evan Isaac Jones, Bwlch Cyfyng, Abergynolwyn, Meirionnydd. Collodd Dewi ei fam pan yn dair oed. Ar ol hynny gyda'i daid y dygwyd ef i fyny. Yr oedd yn ddysgwr gwyb, ac yn adroddwr rhagorol. Ni bu erioed fachgen bach distawach, tawelach, na ffyddionach nag ef; am hyn byddai pawb yn hoff o hono. Eglwyswr bach oedd Dewi. Byddai yn yr eglwys dair gwaith bob Sul ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd yn hynod mewn ffyddlondeb. Dengys cofrestr cyfarfodydd y plant na cholodd gymaint ag un cyfarfod am dri gauaf yn olynol. Tua mis cyn ei farwolaeth derbyniodd wobwr am ffyddlondeb yn yr ysgol ddyddiol. Yr un adeg rhoddid Beibl hardd yn wobwr i'r bachgen oedd wedi ymddwyn oreu yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd Mr. Thomas, yr ysgolfeistr, mai Dewi ydoedd hwnnw. Yn y rhityn cyntaf o *Berl y Plant* yr oedd cân i "Lyfr Newydd y Plant." Cynhwysai honno enwau amryw o fechgyn Abergynolwyn; a'r unig adeg y gwelid gwên ar wyneb Dewi fyddai pan yn adrodd y pennill lle yr oedd ei enw ef a John ei gefnder,—

" Bydd John a'i ben cyrliog  
Mor selog a sant,  
Yn gofyn i Dewi,  
' Ple mae *Berl y Plant* ? "

Bu farw yn dawel tel diffodd canwyll, ar nos Sul, Hydref 26. Claddwyd ef ym mynwent Tal y Llyn. Yr oedd ugeiniau o blant yr ysgol yn ei angladd. Yr oedd bechgyn y côr hefyd yn eu gwenwisgoedd yn ei gyfarfod gyda'r offeiriaid wrth borth y fynwent. Canasant emyn yn yr eglwys, a phedwar ohonynt hwy oedd yn ei roddi i lawr yn y bedd. Dyma fel y canodd Mr. Lewis ar ei ol,—

Gwag yn y gangell ydyw'r fan,  
Lle byddai dan yr organ;  
I hwnnw mwy, er maint ei sel,  
Ni ddychwel Dewi Morgan.

Nos Sul, tra'i hen gymdeithion cu  
Yn canu yn yr eglwys,  
Ehedai yntau uwch y ser  
I gorau per Paradwys.

Pan oedd gwywedig ddail y fro,  
Yn cwmpo oddiar y cangau;  
Fel deilen eiddil, wyw ei gwedd,  
I'r bedd fe gwmpodd yntau.

*Abergynolwyn.*

'Nol tymor byr, i lawr i'r llwch,  
Ai'r dail o'u harddwch gwiwdeg;  
I lawr aeth yntau dan y llen,  
Cyn cyrraedd pen ei ddeuddeg.

Pan oedd y gauaf du gerllaw,  
Ei rew, ei wlaw, a'i stormydd,  
Aeth ef i wlad o fythol haf,  
Heb auaf yn dragywydd.

Yn lle bod yma'n nychlyd iawn,  
Mewn byd sy'n llawn blinderoedd,  
Mae Dewi'n iach, mewn heddi di-dranc  
Yn ifanc yn y nefoedd.

GWILYM BERW.

## GER Y TAN.

## III. ADAR RHAIB A CHELAIN.



O," ebe'r hen foneddwr wrth yr ieuengaf ar yr aelwyd "mi welais lawer iawn o adar rhaib. Bum yn eu gwyllo ym mynyddoedd yr Himalaya lawer tro. Peth perygl iawn yw mentro at eryr clwyfedig. Y mae rhyw nerth rhyfedd yn ei big a'i ewinedd hyd yn oed pan fydd wedi ei hanner ladd."

Yna trodd atom ninnau, a dywedodd,—

"Wyddoch chwi beth fu'n ddieithruch i mi am ran helaeth o fy oes? Er pan oeddwn yn oed y bachgen yma," gan estyn ei law ar ben y lleiaf o honom, "yr oeddwn yn ceisio deall un dirgelwch, ac yn methu. A

dyma oedd. Sut y mae aderyn ysglyfaethgar yn gwybod am gelain lle bynnag y bydd? Saethais lew ar wastadeddau Somaliland. Yr oedd yr awyr yn glir danbaid, nid oedd gwmwl gymaint a chlethr llaw gŵr i guddio un ran o'r awyr. Ac eto, cyn pen yr hanner awr, yr oedd ugeiniau o adar ysglyfaeth yn hofran uwch ein pennau, yn disgwyl i ni orffen blingo'r llew.

"O ble y daethent? Sut y medrent ein gweled ni tra yr oeddynt hwy ymhell o gyrraedd gwelediad y llygad craffaf? Aroglï'r gelain? Na wnaethant. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng arogl llew byw ac arogl llew newydd ei ladd?

"Yr wyf yn meddwl fy mod wedi deall y dirgelwch. Ac mi ddwedaf i chwi pa fodd. Yr oeddwn yn hela yng ngwlad y Somali, ac yn chwilio am lewod. Aethom trwy wlad lle yr oedd llewod wedi bod, ond yr oeddynt newydd gilio o honi. Yr oedd pob hydd wedi dianc rhag eu hofn, ac nid oedd yno un creadur byw i dorri ar ddistawrwydd unig y fro. Ond pan oeddym bron a gadael yr ardal hon gwelwn ewig. Saethodd un o honom hi, a blingasom hi. Nid

oedd arnom eisiau y cig i gyd, a gadawsom lawer ar yr ysgerbwd.

"Tua'r nos daethom heibio'r ysgerbwd yn ol. Er syndod i ni, nid oedd dim wedi cyffwrdd ag ef. Nid oedd yr un aderyn rhaib wedi bod yn agos ato. Bob tro o'r blaen, byddai'r adar wedi bwyta popeth ond yr esgyrn.

"Gwelais yr achos. Nid gweled y gelain o bell wna'r aderyn rhaib, na'i arogl. Dilyn y llew a'r teigr a'r blaidd y mae. Gwylia uwchben y llew fo'n cysgu'r dydd, gan feddwl ei ddilyn pan gychwynno i chwilio am ysglyfaeth. Felly, pan saethem ni lew, yr oedd rhyw aderyn yn ein gwyllo. Ehedai atom. Gwelai adar ereill ef yn ehedeg. 'Mae bwyd fan acw,' meddent. Ac ehedent oll i'r un cyfeiriad, nes y llenwid yr awyr uwch ein pen â hwynt."

### PARADWYS IEUENCTID.

G WYN dymor ieuentid, Paradwys  
wyt fyth,  
A'th ffiniau ar ddôr tragwyddoldeb;  
Ei wawr yn oleuni dy fywyd dilyth,  
Dy awyr yn llawn o'i ddwyfoldeb.

Awyr iach ieuentid bywyd,—  
Gwenau glân y cyfnod gwyn;  
Ffrydiau gobaith, bryniau gwynfyd,  
Cariad gloew fel y llyn,—  
Onid dyma dir Paradwys,  
Gwynfa ddwyfol ar y llawr,  
Yn cynyrchu blodau gwiwiwys,  
A gusenir gan y wawr?

Planna'r Arglwydd ARDD i'w blentyn,  
Fel ar fore'r cread gynt;  
Daw yr engyl dros y terfyn,  
Canant fendith ar eu hynt.  
Mynwes esmwyth, wen, anwylddeb  
Yn obenydd iddo gawd;

*Dolgellau.*

Serch, fel fflam o dragwyddoldeb,  
Ddaeth i'w ganlyn ar ei rawd.

O! blentyn anwylaf, ri geidw o hyd  
Wyrddlesni Paradwys ar y byd.

O fynwes yr Anwel y dëst i lawr,  
A'th wên sydd belydr gwyn ei wawr.

Fel lili dy galon, a'th lygaid byw  
Fel gloewon ser ffurfafen Duw.

Dy fam sy'n gwyllo uwch dy gryd,  
A hoffder fel afon yn ei bryd.

Hoffder fel hoffder y Duwdod ei hun  
Pan welai ei ddelw gyntaf mewn dyn.

Blentyn anwylaf, ri geidw o hyd  
Ieuentid Paradwys ar y byd.

W. G. JONES.

### Y DIWYGWYR.

MYSG y Diwygwyr mwyaf beiddgar yr oedd Luther danlyd a Melancthon addfwyn yn yr Almaen; Lefevre ddoeth a Farel selog yn Ffrainc; Calvin dreiddgar a Zuingli adfydus yn yr Yswisdir; a John Knox yn yr Alban. Cyn hynny gwelsid Wickliff yn Lloegr, Brute yng Nghymru, John Hus yn Bohemia, a Savonarola yn yr Eidal. Yn Lloegr, llosgwyd Cranmer, Ridley, a Latimer yn Rhydychen; llosgwyd Ferrar yng Nghaerfyrddin yng Nghymru.



## DYCHMYG A FFAITH.



**D**REUDDWYD yw nodwedd y Dwyrain; ffaith yw nodwedd y Gorllewin. Eistedd y pennaeth yn y Dwyrain dan gysgodlen ddrudfawr; myfyria, dychmyga. Saif y pennaeth yn y Gorllewin o flaen y bobl; arweinia'r Senedd, arwain y fyddin; mae'n llawn egni a dyfais.

Prif ddull ystraeon y dwyrain ydyw rhoi gallu goruwchnaturiol i ddyn wneyd yr hyn a ewyllysia,—fod y meddwl yn dod yn ffaith ar unwaith. Nid ofer yw dychmygu felly. Esgorodd y dychmygu ar ddyfeisio ffordd. Onid yw gwyddoniaeth yn rhoddi cymaint o gyfleusterau inni fel, o gydmaru ein manteision â manteision y rhai

gynt, y mae ein meddwl yn dod yn ffaith gydag ychydig iawn o drafferth? Er enghraifft, rhodder stamp ceiniog ar lythyr cyfeiriedig i Uganda, yn "Affrig Dywyllaf," ac yn ddistaw a buan cludir y llythyr dros foroedd, drwy goedwigoedd, i ben ei daith hir.

## Y FOR FORWYN.

"Ond y rhai anwir sydd fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn burw allan dom a llaid."

**P**AN yn fachgen o wyth i ddeg oed (hanner can mlynedd yn ol), yr oeddwn unwaith gyda dau fachgennyn ereill ar y traeth, yn chwarae yn llon. Yr oedd y môr wedi dianc yn ol i'w wely, rhyw drigain llath o'r man lle yr oedd yn arferol o adael y sorod, sef y dom a'r llaid, ar ei ol. Cefais y pleser o wneyd cymhwynas na fydd byth yn edifar gennyf: fy mod wedi ei gwneyd.

Ein pleser ar y pryd oedd gosod nod, a lluchio cerrig ato, heb ofni torri ffenestr neb. Ac wrth fynd ymlaen ar ein taith i gyfeiriad

y dwyrain, gwelsom wrthddrych yn ymsymud draw yn y pellter. Ei ysgogiad barodd i ni synnu ei weld. Wrth neshau ato, canfyddasom fod ynddo fywyd, ac yr oedd ei ysgogiad o un ochr i'r llall i'r pen. Braidd nad oedd yn peri braw. Ond wedi dyfod yn ddigon agos ato, gwelem ei fod wrthi yn ddiwyd yn gwneyd ei gwallt o un ochr i'r llall, fel pe buasai ar gychwyn i'w thaith.

Nid oedd ganddi grib i'w wneyd, na drych i edrych iddo, ond fel yr oedd ei bysedd meinion o wasanaeth iddi. Eto, yr oedd ei gwallt mor lluniaidd a thonnau y môr ar dywydd teg, ac yn disgyn dros ei hysgwyddau o liw goleu, tonnog, a'r rhaniad yn gywir yn y canol.

Yr oedd gwên ar ei gwyneb, er ei bod yng nghanol cyfyngder i'n golwg ni ar y pryd. Y rheswm pam ei gadawyd ar y traeth sydd yn anesboniadwy i mi, os nad oedd wedi bod yn rhy drachwantus i geisio cyrraedd rhyw abwyd ar y lan, yn rhy bell o gyrraedd y don, neu wedi difateru a hepiant cysgu. Os felly, y môr a welodd hyn ac a giliodd, fel y dywed y Salmydd. Mae yma wers i ninnau fod yn effro, ac er ein gwyliadwriaeth rhag ein gadael wrth ein hunain. "Heb Dduw, heb ddim.

Mae'n ddiameu fod y plant yn barod i ofyn erbyn hyn beth a welsom. Wel, MÔRFORWYN (*Mermaid*) oedd hi, yr hon a welwyd ar draeth Abergele.

Gofynnodd i ni am fynd a hi i'r môr, am ei fod wedi ei gadael ar ol.

Beth! A oedd yn siarad Cymraeg?

Oedd, o'r iawn ryw hefyd. Pa rheswm sydd dros hynny, nis gallaf ddweyd, mwy nag fod Cymry yn byw yn y cylchoedd hynny o'r wlad, a lluoedd ohonynt yn forwyr, ac mewn masnach brysur ynglŷn â'r cerrig calch sydd yn Llanddulas,—ac felly y mae hyd y dydd heddyw,—trwy eu cludo i Lerpwl ac amryw leoedd ereill.

Dywedir yn gyffredinol mai y rheswm fod dyn yn fŷd yw, am ei fod yn fyddar. Ond yr oedd hon, a'i chlustiau mor deneu a'r ewig, yn medru clywed y morwyr yn siarad yr hen iaith wrth fynd yn araf gyda'r glannau ar hir-ddydd haf, yn methu cael digon o wynt i'w llongau hwyliau, yr hyn, dybiwn i, fu yn help i'r fôrforwyn i ddysgu yr hen iaith yn ddigon rhwydd. Ac yr wyf yn credu yn gryf mai Cymry yw ei rhywogaeth hi hefyd, yn y cylchoedd hynny lle yr oedd hi yn byw ar y pryd.

Gofynnodd i ni am fynd a hi i'r dwfr; i'r hyn yr ufuddhawyd yn union, gan ymafyd un o dan bob braich iddi, a'r llall yn canlyn. A dygwyd hi yn ddiogel i lawr i'r dwfr.

Am y gwasanaeth a roddasom iddi yr wyf yn diolch hyd y dydd heddyw; heblaw am gael ei gweld, ac ymddiddan ychydig eiriau a hi. Dywedodd yn yr ymddiddan na chawsem weld eiseu byth, ac yr wyf yn credu ei dywedriad.

Wedi ei rhoi yn y dwfr, er gwlychu ein traed, yr oedd yr olygfa yn fendigedig wedi idd' fynd i'w chynneddfan, fel yr oedd yn chware ac ymlawenhau,—

Gan dwcio a thwcio, ffwrdd a hi,  
O don i don ym merw'r lli;  
A'i llais gyrhaeddai atom ni,  
Gan ddweyd,—“ Ffarwel i chwli.”

Wedi i ni fynd adref, ac adrodd yr hyn a welsom, canmolodd fy nhad ni am fynd a hi yn ol i'r dwfr.

Cofiwch chwithau, blant bach, fod yn dirion wrth bob creadur byw. Cewch eich canmol a'ch gwobrwyo gan eich Tad Nefol. Ac os ydyw y ddau gydymaith oedd gyda mi ar y traeth ar dir y byw, ac os gwelant y llinellau hyn, carwn weld ysgrif fechan o'u profiad i'r plant, yn ogystal a'u tystiolaeth i'r hyn yn wyf wedi ei ddweyd.

*Maerdy.*

ROBERT EVANS.

---

## HEN OFERGOELION.

### II. RHEIBO ETO.

**Y**R oedd yr hen wraig y soniais am dani yn cael elusen blwyfol. Aeth at swyddog yr elusenau un diwrnod, a dywedodd wrtho nad ydoedd yn cael digon o elusen ganddynt. Nid oedd efe yn foddolawn iawn i fyned a'i hachos o flaen y Bwrdd, oherwydd yr oedd yn meddwl ei bod yn cael eithaf digon, a dywedodd hynny. Gan ei fod ef yn dweyd ei bod yn cael digon, penderfynodd aelodau y Bwrdd beidio rhoddi rhagor. Yn y prydawn hwnnw adroddodd rhywrai wrthi sut yr oedd pethau wedi digwydd ymysg y gwarcheid-waid. Dylaswn ddweyd mai amaethwr cyfrifol iawn oedd y swyddog.

Tuag amser tē aeth morwyn y gŵr hwn a bwyd i'r moch. Cedwid y creaduriaid hyn mewn twlc ychydig o ffordd o'r tŷ. Pan gyrhaeddodd yno synwyd hi yn fawr wrth weled y moch yn sefyll yn syth ar eu traed ol, ac yn rhwygo popeth ddaethent o hyd iddynt. Rhedodd i ddweyd beth oedd i'w weled yn y twlc. Aeth y meist'r yn ol gyda hi, a chafodd hwynt fel ag y dywedai y forwyn. Ceis-iwyd ym mhob modd eu tawelu, ond yn ofer. Yn ddisymwth cofiodd y gŵr ei fod wedi bod yn siarad yn erbyn y ddynes yn y Bwrdd; a chredodd, ebe'r hanes, mai hi oedd wedi rheibo y moch. Anfonodd ati ar unwaith i ddod ato. Daeth y ddynes fel pe bai dim byd yn bod. Dywedodd y gŵr wrthi fod yn edifar ganddo ei fod wedi dweyd dim yn erbyn rhoddi codiad iddi, a gofynnodd iddi

faddeu iddo, yr hyn a wnaeth ar unwaith. Gofynnodd hithau iddo am gael gweled y moch, a danghoswyd hwynt iddi. Cyn gynted ag y cyffyrddodd hi â hwynt, buont yn llonydd ar unwaith.

Dro arall aeth y ddynes i ofyn i ddyn oedd yn arfer cario mawn i bobl y dref o gors gyfagos os gwnaï fyned a llwyth iddi hi drannoeth. Atebodd y dyn hi fod yn ddrwg iawn ganddo ei fod wedi addaw myned a mawn i rai ereill y diwrnod hwnnw; ond y gwnaï fyned â'r llwyth cyntaf y diwrnod wedi hynny iddi hi. Aeth allan heb ddweyd dim ymhellach wrtho. Drannoeth aeth y dyn i'r gors fel arfer. Llanwodd lwyth o fawn, a chychwynnodd ag ef i'r dref. Pan yn croesi hen sarn fawr ar y gors dymchwelodd y ceffyl, a'r llwyth wyneb i waered. Digwyddodd hyn dair gwaith; ac nid gwaith bach oedd ei ail godi o hyd. Cofiodd yntau ei fod wedi gwrthod myned a llwyth i'r ddynes. Aeth â'r nesaf iddi hi. Wedi hynny cafodd berffaith lonydd am y rhan oedd yn ol o'r dydd.

Efallai byddai rhai o honoch yn hoffi clywed sut y cyfarfyddodd y ddynes hon â'i diwedd. Credid y bydd y rheibwyr yn medru trawsymffurfio yn wahanol fath o greaduriaid. Gwelodd ffermwr, yr hwn oedd yn byw yn ymyl y dref, ysgyfarnog yn sefyll yn un man mewn cae ar y fferm. Un diwrnod wrth ei gweled dywedodd wrtho'i hunan y gwnaï ginio yn iawn drannoeth, a phenderfynodd fyned â gwn gydag ef; ac, os gwelid hi yn yr un man y tro nesaf y byddai yn myned y ffordd honno, y buasai yn ei saethu. Drannoeth aeth i edrych am dani, a gwelodd hi yr un man ag arfer yn sefyll. Saethodd hi yn ei choes ol fel nas gallai symud. Aeth ymlaen ati, gan feddwl cael cinio braf; ond cafodd ei siomi. Cyn gynted ag yr aeth i'w hymyl diflannodd ar unwaith. Yr un amser ag y digwyddodd hyn tarawyd y ddynes hon yn ei choes fel nas medrai ei symud. Ni bu allan o'r tŷ byth wedi hyn, a bu farw ychydig amser ar ol y digwyddiad hwn.

*Tregaron.*

E. ISLWYN EVANS.

### HIRAETH.

**P**AN oedd yr haf yn sychu'r Gwyllt  
Ar ol y gauaf maith,  
Mi gerddais heibio'r Garreg Fawr,  
A'm gruddiau'n ddigon llaith.  
Wrth gofio'r amser gynt.

Sawl gwaith y bum yn blentyn bach,  
Yn ddigon ber fy ngham,  
Yn mynd i lawr lon Wernlas Ddu  
Yn llaw fy anwyl fam,  
Mor llon a neb erioed.

Mae'r Garreg Fawr ar fin y ffordd  
Yr un o hyd, fy ffrynd;  
Ond ofer chwilio Wernlas ddu,  
Mae Neina wedi mynd,  
Ac wedi mynd mae Mam.

J. R. TRYFANWY.



## URDD Y DELYN.

## Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysegeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysegeidiaeth onno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

## ARLODAU NEWYDDION.

## CANGEN UTICA, UNOL DALAETHAU AMERIG.

(ARLODAU YCHWANEGOL.)

1724—1767.

Anna G. Roberts, Mary Ann Roberts, Edna May Griffiths, Maggie E. Jones, Edith Morris, Edris Davies, Robert Evans, Willie Williams, Hughie Williams, Willie Griffiths, Lottie Mae Jones, Maggie Roberts, Margaret Jones, Mary Humphreys, Maggie Jones, Henry Jones, Walter Owens, Pierce Owens, John Williams, Arthur Williams, D. Miles Williams, Eddie Williams, David I. Williams, Gomer Roberts, Morris Jones, Richard Pritchard, Hughie Humphreys, John Williams, Florence Pierce, Nellie Williams, Jennie M. Pritchard, Johnnie Griffiths, Jennie M. Evans, Catherine Lloyd, Harriet Williams, Eunice Roberts, Anna Williams, Martha Hughes, Eta Williams, Elizabeth Lloyd, Anna Jones, Mary Griffiths, Edith Rees.

MARGIAD ACH IFAN,<sup>1</sup>BREHNINES Y LLYNNAU.<sup>2</sup>*(Cyflwynedig i Mr. H. Evans, Prif Athraw Ysgol Dinorwig.)*

**W**RTH droed y clegir<sup>3</sup> cribog, lle'r hofia'r<sup>4</sup> cidyll cry'<sup>5</sup>;  
 Ymhen Llyn Padarn orlog,<sup>6</sup> drych aml gysgod du;  
 O dan y graig ysgythrige;<sup>7</sup> yn ymyl plant y gwynt,<sup>8</sup>  
 'R oedd bwthyn bychan i'w gael y dyddiau gynt.

Yn hwn preswyliai Margiad ach Ifan, fawr ei dawn;  
 Breinesol<sup>9</sup> ei hagweddiad, pob tegwch ynddi'n llawn.  
 Heb gydradd iddi'n unman, mewn corff na meddwl chwaith,  
 Yn gawraidd ynddi ei hunan, yn gawraidd yn ei gwaith.

O Benmaen Mawr i Glynog, o'r môr i'r mynydd ban,<sup>10</sup>  
 Mewn nant, ar ddôl a mawnog;<sup>11</sup> mewn ffair a thref a llan,  
 Ei nerth oedd ddjarhebol, ei hofn ordoia'r wlad,  
 A daliodd yn ewynol<sup>12</sup> r ol cyrraedd oedran mâd.<sup>13</sup>

A hi yn ddeg a thrigain ni wyddai beth oedd cur,  
 Ei llygaid oedd yn pefrian, ei breichiau fel y dur;  
 A llawer oedd yn bendrwm—ni feiddia'r llanciau cun  
 A hi "ymaflyd codwm,"<sup>14</sup> fe'i curid hwy bob un.

Barddonai yn ddiderfyn; eoslais<sup>1</sup> daeth i'w rhan;  
 Gwaith rhwydd oedd gwneuthur telyn, a'i chanu yn y fan,  
 Gwnai iddi ei hun esgidiau, a chygod cryfion, hardd;  
 Pedolai ei cheffylau; deallai lysiau'r ardd.

A genwair tr o'r coedydd, bu ganwaith gyda blas  
 Hyd lennydd yr afonydd yn dal brithylliaid bras;  
 Yn y Galedffrwd<sup>3</sup> byllog, ac yn Nant Uchaf bell,  
 Tryferodd lawer eog,<sup>17</sup> d oedd neb a wnai yn well.

Pan ddeuai Tachwedd heibio a'i awel rewlyd lym,  
 A gwibiog sêr<sup>18</sup> yn syrthio, gan lwyr ddiifannu'n ddim,  
 Hi rwyfai gyda'i rhwyda,<sup>19</sup> i ymyl dôl Ty Du—<sup>20</sup>  
 Neu hyd at enau'r Bala,<sup>21</sup> i ddal torgochiaid lu.

'R oedd ganddi filgwn ffroenfain, daeargwn<sup>22</sup> sionc, difraw,  
 Bytheuaid gwell na'r yswain yn wastad at ei llaw;  
 Dilynai ei chwn hela ar gefn ei helfarch cry;  
 O'r Nant i Afon Menai, o foel i foel yn hy.

Rheolau'r naw helwriaeth<sup>23</sup> ddeallai yn ddiwall ;  
 Ei helgorn oedd yh bdiaeth;<sup>24</sup> ei dolef<sup>25</sup> yn ddiball.  
 Tra'r-'sweiniaid geid yn achwyn, fod Margiad arw 'i byd,  
 A'i chwn, a'i march, a'i morwyn,<sup>26</sup> yn drech na hwy i gyd.

Y dyfr-gi cryf a'r pry llwyd<sup>27</sup> a ddaliodd lawer gwaith,  
 Ysgyfarnogod flinwyd 'r ol aml chwerw daith ;  
 Ond hoff beth Margiad enwog,—yn hyn cadd eithaf radd,—  
 Oedd dilyn hynt y llwynog o'r codi hyd y lladd.

A chyfrif manwl gadwai ar fantell simdda 'i thy,  
 O'r holl lwynogod laddai, drwy dorri bylchau lu,—  
 Edrychai'r pren dau greithiau, yn arw ac anheg,  
 Cyrtrifwyd cant o nodau, ac arall gant ond deg.

Ni rifwyd eto 'i champau, 'roedd gartref ar y don ;  
 Brenhines wiw y Llynnau oedd enw arall hon.  
 Hi gludai'r mwn<sup>28</sup> uwch eigion, o droed y Wyddfa fawr,  
 Mewn cychod preifion, cryfion, ar hyd y llynnau i lawr.

A mynych, medd yr hanes, ceid teithwyr, tawr a man,  
 Dan ofal y "frenhines," yn myned ol a bla'n ;  
 Ac ambell un, mewn afaeth, amheuai 'i dirfawr rym,  
 Ond ni wnai hynny eilwaith, 'r ol cael ei cherydd llym.

Daeth Yswain mawr y Faenol,<sup>29</sup> yn ysgafn iawn ei fron,  
 Mewn ysbryd lled ddigrifol un dydd i groesi'r don ;  
 A phan ymhell o'r glannau, mewn smaldod wele'r gŵr  
 Am dani'n rhoi ei freichiau, gan fygwth iddi'r dŵr.

Ond hithau mewn amrantiad a'i tafodd ef i'r llyn ;  
 Ac yntau waeddaï,—“ Margiad ! O tyn fi'n ol ! O tyn ! ”  
 Atebodd hithau 'i oergri yn araf a di-fraw,—  
 “ Os rhoi di hanner gini, estynnaf iti 'm llaw.”

A da oedd gan yr Yswain i roi ei air, ar frys,  
 Y caffai Margiad firain yr arian yn ddilys.  
 Ac ni fu mwy mewn ysbryd i gellwair gyda hon,  
 Fe gofiaï am ei benyd<sup>30</sup> bob tro y gwelai don.

Ond er ei chadarn ffurfiad, a'i bywyd bywiog, pur,  
 Ac er na chafodd brofiad o unrhyw galed gur,  
 Daeth Margiad fwyn, ach Ifan, yn ara' i ben ei thaith,  
 Fe ddartu'r dyddiau diddan ; daeth blinder gyda gwaith.

'R ol dechreu ar ail ganfed, yr angau glas dihedd,  
Er dim ni fynnai 'i harbed—yn sydyn aeth i'r bedd ;  
Ymhell o'i gorsedd hyspys, mae'n awr mewn tywell fro,  
Ond son am dani erys i lonni to 'r ol to.

<sup>1</sup>Ach—merch ; cysylltir âg enw y tad fel y gwneir âg ap—mab. <sup>2</sup>Llynnau—Padarn a Peris. <sup>3</sup>clegir—clogwyn, clogwyndir. <sup>4</sup>hafia (haffo)—aros ar yr aden uwch yr un fan. <sup>5</sup>cidyll (cudyll), cidyll coch—math o hebog, Seis. *Kestrel*. <sup>6</sup>orlog—cyfnewidiol, weithiau'n llyfn, weithiau'n arw. <sup>7</sup>ysgythrig (ysgythrog)—craig uchel, hagr-olwg. <sup>8</sup>splant y gwynt—tonnau y llyn. <sup>9</sup>Breinesol—mawreddog. <sup>10</sup>ban—uchel. <sup>11</sup>mawnog—Yn oes Margiad ach Ifan, byddai'r mawnoegydd yn gyrchfan pobl lawer yn amser lladd neu dorri mawn, a'u cynhauafu. <sup>12</sup>ewynol—cryf, Seis. *sinewy, muscular*. <sup>13</sup>mad—teg, mawr, hardd. <sup>14</sup>ymaflyd codwm—un o brif gampau yr hen Gymry, ac mewn bri mawr yn y ddeunawfed ganrif yn Eryri. <sup>15</sup>eos lais—yr oedd i Margiad lais hynod berorol. <sup>16</sup>Y Galedffrwd—afon yn codi yn y Marchlyn Bach, gan redeg drwy Waen Gyntf ac heibio Llys Dinorwig, gan aberu i'r afon Saint, ger Bryn'r Efail. <sup>17</sup>eog—salmon. <sup>18</sup>gwibiog ser—*meteors*. <sup>19</sup>rhwyda (rhwydau)—Peth diweddar ydyw pysgota torgochiaid gyda genweiriau. <sup>20</sup>dól Ty Du—Yr oedd y rhan o lyn Padarn lle y mae tomennau chwarel y Glyn Isaf yn enwog am dorgochiaid gan mlynedd yn ol. <sup>21</sup>Bala—cychwynfan afon o lyn. Yr ydys yn y gân wedi ystyried Bala fel enw'r afon gysyllta'r ddeulyn Peris a Phadarn. <sup>22</sup>daeargwn—*terriers*. <sup>23</sup>Rheolau'r "naw helwriaeth." Cyfrifal yr hen Gymry fod naw helwriaeth, sef carw, haid weny, gleisiaid, arth, dringhedydd, ceiliog coed, llwynog, ysgyfarnog, iwrcw. Yr oedd yn ofynnol i bob heliwr i roddi ateb am danynt neu gollï ei gorn. <sup>24</sup>odiaeth—godidog, hardd-dlws. <sup>25</sup>dolef—gwaedd, gwaedd i ffino y llwynog a'r ysgyfarnog. <sup>26</sup>morwyn—bu gan Margiad forwyn gref a fyddlon, yr hon a'i gwasanaethodd am ddwy flynedd a deugain. <sup>27</sup>pryllwyd (pryllwyd)—daear-fochyn, broch ; Seis. *badger*. <sup>28</sup>mwn—mwn copr. <sup>29</sup>Ysawain mawr y Faenol—y diweddar Mr. Smith. <sup>30</sup>penyd—cosb.

GWENITH GWYN.

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

MAE John yn mynd i'r America yr aeth William Davies yw y crefftwr goreu yn yr ardal hon boddodd dyn hynod iawn yw Dafydd Edwards sydd yn parhau i redeg gyrfa ryfedd oedd eiddo Judas Iscariot oedd ddyn ynfyd iawn yw cwrw at feddwy dynion gwneir gwirod er mwyn eu gwerthu mae cloch yn y Llan yn canu yn swynol yr oedd Dafydd yn mynd i'r ffair yr oedd Gwilym Dewi sydd fachgen neilltuol rhyfedd oedd gweled llew mewn cerbyd yr oedd Rhys yn mynd i Lerpwl gyda'r tren gwelais ddau ddyn yn darllen CYMRU'R PLANT yw cyhoeddiad misol goreu Cymru.

W. L.

---

<sup>1</sup> Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

AGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd gan HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBOSAM.





## AT Y PLANT.



**AMP** i neb ohonoch adrodd englyn yr hwch goch yn y rhifyn hwn ar un gwynt.

**PLANT CORRIS.** Wele un darlun yn y rhifyn hwn; daw ereill eto.

**PLANT CARNO.** Cefais ddarluniau prydfert h onoch chwithau, dōnt yn eu tro. Y mae gennyf lawer o ddarluniau hen blant ysgol Carno flynyddoedd yn ol, a darluniau tlysiion iawn o rai o leocedd hynod yr ardal. A hoffech weled rhai o'r rhai hyn?

**L. J.** Y cyfrolau o glasuron Cymreig sydd wedi eu cyhoeddi yw gwaith Dafydd ab Gwilym (un gyfrol), Goronwy Owen (dw gyfrol), Ceiriog (un gyfrol), Huw Morus (un gyfrol), Beirdd y Berwyn (un gyfrol). Eu pris yw swllt y gyfrol i danysgrifwyr; deunaw ceiniog i ereill.


Gellir dechreu tanysgrifio unrhyw adeg. Anfoner am danynt at Ab Owen, Llanuwchllyn.

**AMRYW.** Y mae amryw gofiantau yn aros eu tro. Rhaid talfyrru llawer ar y rhan fwyaf ohonynt. Gwnaer hwy mor fyr ag sydd bosibl, na adrodder dim ond sydd yn wir darawiadol.

**I. AB. G.** Diolch. Y mae llawer o ganenau a chyfansoddiadau ar law. Y pethau mwyaf derbyniol yw hanesion, yn enwedig hanesion am fywyd Cymru,—adgofion mebyd, hen gymeriadau gwreiddiol, troion digrifol, hen chwedlau dyddorol.

**GWEN.** Y mae'n ddiameu y cewch bob cyfarwyddyd sut i gadw'ch dwylaw'n wnylon ond anfon at olygydd un o'r papurau Seisnig a ennwch. O'm rhan fy hun, nid oes arnaf awydd yn y byd am lwyddo yn y dull y llwyddant hwy. Darlennais yn rhywle fod iarlles Seisnig yn gwrthod gwrneyd dim, hyd yn oed agor drws, rhag difwyno ei llaw. I'm meddwl i, y mae llaw ag ol gweithio arni yn gan harddach.

**G. GRUE.** Peth ynyd iawn yw eich cynghori i beidio dyblu yr un cydsain. Sillebwch y cydseiniaid yn ol eu swm,—“canu” (*to sing*), ond “cannu” (*to bleach*); “torri” (*to break*), ond “Tori” (*Tory*); “tanau” (*fires*), ond “tannau” (*strings*); “tonau” (*tunes*), ond “tonnau” (*waves*). Ond ni chyinghorwn chiwl i ddyblu yr un lythyren ond *n ac r*. Ni ellir dyblu'r *i*, gan fod *ll* yn meddwl sain arall. Y mae *m* yn ddwbl bob amser, nid oes ond un sain iddi yn Gymraeg.



DIWYDIANNAU CYMRU. III. CLUDO (YR HEN DDŴLL).



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XII.

EBRILL, 1903.

RHWY 136.

## DIGRIFION FY NHAID.

GAN DAID.

### I. FY NHAID.

**H**EN ŵr corffol oedd fy nhaid, yn bedwar ugain mlwydd oed, pan wyf yn ei gofio. Yr oedd hynny dri ugain namyn pump o flynyddau yn ol. Cyd drigai ef a fy nain yn yr un annedd â fy nhad a fy mam, a ninnau eu plant,—dau fachgen a thair geneth,—mewn bwthyn uncorn gwyngalchog o'r enw Pen y Groeslon, ar fin y ffordd fawr sydd yn arwain o Gaernarfon i Bwllheli, o fewn tair milltir i Glynog Fawr o gyfeiriad Caernarfon.

O amgylch bwthyn gwyn ein mam  
Pan oeddym yn blantos iach,  
Chwarenem yn llon ac ysgafn ein bron  
Yng nghwmni yr adar bach,  
Heb feddwl fawr am bwys y byd,  
Na chwaith am wybod ei led a'i hyd,  
Tra caem ein noddi rhag pob cam,  
A lloches glyd ym mwthyn ein mam.

Yr unig orchwyl allai fy nhaid gyflawni ym mlynnyddoedd diweddaf ei oes ydoedd malu cerrig ar ochr y ffordd fawr. Araf y gallai symud o'r naill fan i'r llall, a hynny trwy gymorth y faglen a'r ffon. Yr oedd yn hen ŵr a gerid yn fawr gan bawb a'i haddwaenai, a mynych y gwelid rhywrai yn eistedd ac mewn ymgom difyrus gydag ef ar y tocin cerrig, yn enwedig ffermwy'r yr ardal. Byddent yn meddwl yn fawr o'r hyn ddwedai fy nhaid mewn perthynas i driniaeth tiroedd.

Ond yn fuan gorfu i'r hen ŵr lynu gartref; ac nid bob amser y byddai Dic a minnau yn gallu ei foddhau, gan y byddai yn hollol ofalus a manwl o amgylch y bwthyn, yr ardd, y coed tanwydd, a gwahanol bethau. A byddem ninnau wrth chwarae yn troseddu rhyw fân reolau o'i eiddo, megis chwalu y coed tanwydd i chwilio am ddefnydd clwb bandi, a thraed-fachau, a phethau ereill.

Pan y byddai yn eistedd yn y gornel yn yr hen simddai ar ddechreunos, os byddem wedi troseddu yn ei erbyn, byddai yn bur dawedog, a Dic fy mrawd, druan, os ete a fyddai y troseddwr mwyaf, yn gorfod eistedd ar ystôl fechan ar y pentan o'r tu draw i taid, a bod fel llygoden dan balf y gath heb gymaint ag ysgrwyd migwrn nac asgwrn. A byddwn innau ar y pentan arall o'r tu draw i fy nain, yn mwynhau cryn raddau o ryddid.

Ond fe ellir dweyd am taid ei fod yn meddu tymer dda, yr oedd wrth natur yn siriol a chwareus. Fe fyddai yn adrold llawer o hanesion personau a phethau ar ddechreunos i'n difyrru. Ac yr wyf ffinau am eu hadrodd i chwi o un i un.

### TELYNAU'R GWANWYN.

**M**AE'R Gwanwyn a'i delynnau  
Yn dof'r Gauaf blin;  
A gwridog ruddiau'r blodau  
Sydd yn cynhesu'r hin;  
Clust dlysau aur y dorlan  
Yw'r briall lonna'r lli;  
Daw'r wennol adre'n fuan,  
A hafddydd gyda hi.

Bu'r barrug yn gadwyni  
Am freichiau derw'r glyn;  
A'r du-rew guddiai dlysau  
Y nefoedd yn y llyn;  
Ond delw hafddydd eariad,  
Sy'n llygad Gwanwyn lion;  
Mor nefol yw'r portread,—  
Disgwyliad llawer bron.

Rhyfeloedd yr elfennau  
Anrheithiai'n gwlad a'i swyn;  
Ond llifa drosti donnau  
Gwyrddlesni'r Gwanwyn mwyn;  
Distawa twrf byddinoedd,  
Dryghinbedd drygau'r byd;  
Hydfertha blodau'r nefoedd,  
Ol traed y rhain i gyd.

## YCHWANEG ETO AM Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

## IV. Y "SURPRISE" GYNTAF.

**E**R mawr foddhad y ddau, gwrthododd John ychwaneg o goffi pan estynnais fy llaw am ei gwpan. A gafaelodd y ddau un ymhob braich iddo, tra y dywedent wrthyf fi,—“O Elin, *wir, dach* chi'n hir. 'Dan ni a Johnnie am fynd.”

Bu orfod i mi adael fy nghwpan yn hanner llawn a darn o frachtan ar fy mhlât, oherwydd gwelais nad oedd modd eu cadw yn hwy; a ni fynaswn er dim goll i'r “surprise,” er fod gennyf gryn amheuaeth parthed yr hyn oedd yn aros John a fi yn y *shed*. Dyma'r modd yr aem i lawr llwybr yr ardd,—John yn gyntaf, a'r ddau un bob tu yn hongian wrth bob braich iddo; finnau tu ol i'r tri; a Sarah ychydig o gamrau tu ol i minnau, yn llawn cywreintwydd i wybod beth oedd y ddau wedi bod yn wneyd ar hyd yr wythnos yn y *shed*.

Nid oedd John yn cerdded yn ddigon cyflym ganddynt; a chyn cyrraedd gwaelod yr ardd gollyngasant eu gafael ynddo, a chyrrhaeddasant y drws o'i flaen. Gwelwn Willie yn ei agor ac yn myned i mewn, a'i frawd yn ei ddilyn. Ac yna gwelwn y gorchudd papur newydd yn cael ei dynnu'n frysiog oddiar y ffenestr. Yr oeddwn wrth ochr John pan gyrrhaeddasant y drws, ac aethom i fewn gyda'n gilydd. Y peth cyntaf y disgynnodd ein llygaid arno oedd *bicycle* John yn gorffwys yn erbyn y mur gwyngalchog gyferbyn, ond ei harddwch wedi difannu o dan orchudd o baent coch! A dyna oedd y “surprise!” Safai Bobbie a Willie un wrth bob pen iddo fel dau *showman* yn barod i ganmol yr arddangosfa. Ar lawr, heb fod ymhell oddiwrthym, yr oedd y pot paent coch fu Sarah yn ddefnyddio mor anffodus at lawr y gegin ychydig yn flaenorol. Tra yr oeddwn yn cymeryd yr olygfa yma i mewn, fy ngeiriau wedi pallu gan y digter deimlwn yn llenwi fy mynwes, llelai y ddau yn galonnog,—

“Yn tydi o'n neis, Johnnie?”

“Ydach chi'n licio fo, yn tydach, Johnnie?”

“Mae o ry fath a un Jim a Dic yn union; a mi oeddach chi'n deyd ych bod chi'n licio hwnnw yn well na un du.”

“Ia, a *surprise* ydi o erbyn ych birthdê chi, wyddoch.”

“Mae yn wir ei fod yn goch. a dyna ei unig debygolrwydd i'r *model* oedd ganddynt. Clywn Sarah tu ol i mi yn dweyd megis o'r neilltu,—“Y cnafon!” Ac ni theimlwn awydd o gwbl i'w cheryddu. Rhoddais gam ymlaen, ac agorais fy ngenau i ddweyd fy meddwl

innau wrthynt am eu "surprise." Ond dealodd John fy mwriad, a rhoddodd ei law ar fy mraich. "Peidiwch a'u dwrdio, Ælin," sibrydai yn fy nghlust. Yr oeddwn yn ei ddeall. Yr oedd gwynebau'r ddau mor ddiniwed ac mor llawn o ddisgwyliad am ganmoliaeth i'w gwaith, ac yr oeddnt wedi gweithio mor egniol i foddhau "Johnnie," fel y tybient hwy, fel nas gallai hwnnw oddef eu siomi, a chawsant gymaint a'u disgwyliad o glod ac edmygaeth ganddo. Am danaf fi, nis gallwn fyned mor bell a hynny, gan fy mod yn brysur gyfrif faint fuasai raid dalu am ddod a'r *bicycle* i gyflwr priodol i John ei ddefnyddio heb dynnu sylw'r pentref. Ond llywyddais i gadw ty ngenau rhag datgan fy nigter. Yr unig beth wnes oedd cydiad yn y pot paent coch, a myned a'i dafu â'm holl egni i'r domen; a chefais y boddhad o'i weled yn myned yn deilchion, a gwybod na fyddai i mi gael ychwaneg o niwed oddiwrtho.

Ond nid oedd ein gofidiau am y diwrnod wedi darfod.

---

### CARTREF.

#### III. GELYN PERYGL.

**U**N o'r agweddau mwyaf digalon ar fywyd teuluaid yw difrod y ddiod feddwol. A braidd na thybiwn fod a fynno prysurdeb bywyd beth â hynny; er y gall rhai godi'r wrthddadl mai bywyd hamddenol yr amser a fu oedd beryclaf o ddiodeff oddiwrth yr arfer o ymyfed a gloddest. Ond, onid bywyd yn unol â mân reolau cymdeithas oedd yn cyfri am lawer o hyn yn yr amser a fu? Pe'r eid yn ol i ganol cymdeithas,—llenorion, pregethwyr, a gwleidyddwyr yr adeg hynny,—ceid golwg gysurus arnynt pan yn hanner meddw. Ond ni edrychid ym myw llygad y difrod wneid y pryd hynny fel y gwneir yn awr. Dysgir heddyw nad oes nemawr faeth mewn diodydd meddwol. Aiff nifer y meddygon sy'n credu yn y ddiod yn llai. Cryfheir y fyddin ddirwestol. A dyna un cam sicr er sicrhau diwygiad.

Beth pe gwnai pob teulu yng Nghymru ei gwynion yn hysbys ar fater y ddiod feddwol? Caem ddatguddiad anodd ei ddal. A byddai darllen yr adroddiad yn defiro natur oreu pob dyngarwr iach. A'r *daioni* sy'n aros yw cychwynydd pob diwygiad o hyd,—y pur sy'n gofidio dros yr amhur, y cryf dosturia wrth y gwan, y teulu dedwydd egyr lwybr i ychwaneg o deuluoedd fwynhau bywyd defnyddiol a llawen. Doi llawer wedyn i ofyn beth sy'n cyfrif am yr afael ga'r **DDIOD** ar hen ac ieuainc. A gwyn fydd na ofynnid

hynny nes cael ateb ddeffry'r wlad. Oni ddylid gwrando mwy ar lais natur? Gwnaeth rhai dynion llafurus lawer i dynnu sylw pobl Prydain Fawr at ofynion natur. Ni wrandawyd arnynt gan bawb. Gwawdiai rhai pobl grefyddol hwy. Er hynny, ni ddistawyd llais gwirionedd. Poenir dynion o hyd am ddirmygu natur. Rhaid gwrando'n hwyr neu hwyrach. A dylai dysgeidiaeth Iesu Grist, yn anad dim, yrru pobl i hwylio gwella'r byd ar linellau syml ac agos atom.

Dylem weddio 'r hen bennill hwnnw o'r newydd,—“O agor fy llygaid i weled *dirgelwch* dy arfaeth a'th air.” Y mae barddoniaeth fyw yn y ddeddf wrth syllu ym myw ei llygaid. Gwrandawer ar lais Salmau'r Dwyrair,—“Dy *ddeddfau* oedd fy *ngân*, yn nhir fy mhererindod.” *Barddoniaeth y ddeddf* ddaliodd ysbryd yr hen genedl rhag dirywio. Perthyn swyn barddonol i ddeddf natur hefyd. O brydferthed symlrwydd deddf natur,—y mae'n brydferth ac yn diogelu bywyd. Beth pe meddwid ni yng Nghymru ar ddeddfau? Doi bywyd yn bleser, a phleser yn fywyd.

Dywedir wrthym, po fwyaf a w'yr pobl, mai parotaf yn y byd ydynt i ymddiried yn natur, ac nid yn eu mympwyion eu hunain. Ac y mae natur yn erbyn gwirf tel y defnyddir ef yn awr. A phan y dyhea dyn am dano, wedi cam-drin ei natur y mae. Felly, dylem wrando ar lais natur, ac hwylio'n ol at symlrwydd deddf.

Argraffwyd ar rai ohonom yn gynnar, rywfodd, mai gwneyd rhywbeth yn erbyn eraill sy'n gwneyd pechod,—lladrata, niweidio, &c. Ac anghofid fod torri deddf ddiogelai fywyd ac iechyd, yn bechod yr un mor wir. Clywid y frawddeg honno'n aml,—“Dydi o'n gneyd niwed i neb ond iddo ei hun.”

Ond pwy all fforddio niweidio ei hun, nad yw ar yr un pryd yn ysbeillio rhywun arall o fendith dymhorol neu ysbrydol? Tlodir teulu, gwanychir cymdeithas, a pheryglir yr awyrgylch foesol. Tuedda i wneyd y teulu'n anedwydd a chyfyngu'r amgylchiadau. Tyf blys yn araf, ac a'n gryfach, gryfach, nes dod yn deyrn. Yna, gwel dyn ei fod yn gaeth, ac hiraetha am ei ryddid cyntefig. Ond rhaid datod y rhwydi weuwyd yn araf gan rym arferiad. Ac nis gellir datod arferion heb wanychu'r cyfansoddiad dynol. Gan hynny, dylid gwyllo'n ddyfal pa arferion ffurfir. Peth anodd iawn fydd tynnu hen flys o'r gwaed yn llwyr. Clywais bregethwr yn dweyd unwaith iddo ef gael corff iach, diflysiau, ar y cychwyn. Y mae yn y dywediad neges i'r oes yma.

*Llys Meirion, Penrhiwceibr.*

EDWARD EVANS.





WEDI GWLAW.

“ Mae yr afon wedi ei llenwi hyd yr ymylon.”

### GWAITH YR AFONYDD.

**Y**R un faint o fater sydd yn y ddaear heddyw a'r diwrnod y crewyd hi. Nid yw yr un iod yn fwy, nag yn llai ychwaith. Sylwch ar y modd y llosga'r ganwyll. Ymhen ennyd eto diflanna yn hollol. Ni ellir ei gweled mwyach. Dywedir ei bod wedi gorffen; ond y mae'n bod o hyd. Gwnaed hi o ddwy elfen, hydrogen a carbon. Er i'r ganwyll ddiflannu, ple'r aeth yr elfennau? Nid ydynt yn y ganwyll mwyach, diflanasant yn anweledig i'r awyr.

Feallai fod yr hydrogen wedi uno â'r oxygen sydd yn yr awyr i wneyd dwfr; feallai fod y carbon wedi uno â'r un nwy i wneyd nwy peryglus arall, sef *Carbonic Acid*. Ond hydrogen fydd yr hydrogen am byth, carbon fydd y carbon am byth. Pe baem ni yn gallu dal yr hydrogen a'r carbon pan ar fin dianc, a pheri iddynt uno â'u gilydd, cawsem y ganwyll yn ol. Rhy y fferylydd y ganwyll mewn



costrel gauedig, a phwysa yr oll. Trachefn goleua y ganwyll a gedy iddi losgi i gyd. Yn awr, pwysa y gostrel wâg; ni phwysa lai, ond mwy; rhaid felly fod y ganwyll yn bod o hyd. Nid felly gwnaiff y Crewr; trwy ddirgel ffyrdd bydd ef yn gweithio. Gorchymyn wnaiff ef, feallai, i'r hydrogen dihangol uno âg oxygen i wneyd' dwfr; gorchymyn wnaiff ef, feallai, i'r carbon fyned i'r glaswellt. Yn awr, gorchymyna i ryw anifail fwyta y glaswellt ac yfed y dwfr. O frasder yr anifail hwnnw y gwneir y canhwyllau. Uno â'u gilydd i wneyd y brasder wnaeth y carbon a'r hydrogen, yr un rhai ydynt o hyd.

Darnau mân, anweledig, o fater ydyw yr elfennau, a chyfnewidiadau bychain anweledig a berthyna iddynt. Nid son am y cyfnewidiadau bychain, anweledig, a wnaf y tro hwn, ond am y cyfnewidiadau mawrion, gweledig, rhai perthynol i grystyn pantiog y ddaear.

Tybiai yr hen bobl fod yr afonydd, y dyffrynnoedd, y llynnoedd, a'r mynyddoedd yn union heddyw megis ag yr oeddynt y diwrnod y crewyd hwynt. Gŵyr y darllenydd nad yw felly. Os yw'n cofio hanes y creigiau calch, a'r hanesion a ddywedodd y cerrig wrthym, bydd hynny'n ddigon i'w argyhoeddi fod wyneb y ddaear heddyw'n wahanol iawn i'r hyn ydoedd filiynau o oesoedd yn ol. Pa ryw ddyn oedd yn byw ar ein daear ni filiwn o flynyddoedd yn ol? Pe cawsem ni ysgwrs âg ef heddyw dywedasai wrthym fod y Wyddfa yn yr un lle yn union heddyw ag yr oedd y dyddiau hynny, oddieithr ei bod yn ychydig uwch yr adeg honno. Oesoedd yn ol bu moroedd a llynnoedd mewn lleoedd nad ydynt yno heddyw. Nid yw y Wyddfa yn bod erioed. Yn wir, dyna yw ei chopa, creigiau calch a lludw hen fynyddoedd tanlyd. Gŵyr y darllenydd mai o waelod y moroedd y daeth creigiau calch. Ni fu i'r un dyn erioed ddweyd nag ysgrifennu hanes yr anifeiliaid rhyfedd, a'r cyfnewidiadau anferth, fu ar wyneb ein daear ni. 'Dyw bywyd brau y ddynoliaeth yn ddim o'i gymharu â'r oesau meithion hynny. Er nad ysgrifenydd yr hanes, nid yw yn golledig. Ysgrifenydd ef gan y ddaear ei hun; mae'n seliedig yn y graig dros byth. Y modd i ddarllen iaith y ddaear ydyw dysgu sut y cymer y cyfnawidiadau le heddyw. Daeareg yw yr iaith honno. Gelwir y nerthoedd sy'n newid wyneb y ddaear yn nerthoedd dinistriol (*agents of denudation*). Y rhai hyn ydynt,—gwlawogydd a dyfroedd, gwyntoedd, rhew a chenllysg, tân a daeargrynfaŷu, a symudiadau yng nghrawen y ddaear.

Edrychwn am ennyd ar waith yr afonydd. Prif waith yr afonydd ydyw cludo ymaith yr hyn a faluriwyd gan rai o'r nerthoedd ereill. Cluda yr afonydd mewn dwy ffordd. Un ffordd yw symud ymaith raian a mwd, gweddillion creigiau ereill. Ffordd arall yw drwy

gludo cymysgeddau o'r gwahanol elfennau sy'n doddedig ynddo, megis y defnyddiau calch. Ni feddyliai neb fod gan afon gymaint o allu i symud cerrig a graian, hyd nes y sylwer arni'n gweithio adeg y llifogydd. Yr adeg honno rhuthra'r afonydd ymlaen yn derfysglyd; gwelwn oddiwrth eu lliw eu bod yn llawn o raian a mwd. Noson ystormus ydyw heno. Mae yr afon wedi ei llenwi hyd yr ymylon gan y gwlawogydd. Awn ar y bont draw acw i wrandaw ar y dyfroedd. Yn nistawrwydd y nos clywn y cerrig mawr a mân yn cael eu hysgubo ymaith y naill dros y llall ar hyd y gwely. Dyma'r modd y gwneir y cerrig yn grynon. Lle bynnag y canfyddir gwelyau graian, gwyddom mai hen afonydd fu yno un adeg, er fod y graian ugeiniau o lathenni'n uwch na'r afon heddyw.

Dengys hyn waith neilltuol arall perthynol i'r afon, sef y gallu i dorri i lawr trwy y creigiau, a gwneyd gwely newydd iddi ei hun yn ddyfnach, ddyfnach o hyd. Ffurfiwyd llawer o'r dyffrynnoedd pryderth sydd yng Nghymru gan yr afonydd a redant ar eu hyd.

Dan law yr afonydd a'r galluoedd ereill, y mae wyneb y ddaear yn newid, ac wedi cyfnewid i raddau anhygoel bron. Ceisiwn ddysgu ychwaneg am y gweddill o'r galluoedd yn eu tro. Byd heb alluoedd ynddi yw y lleuad. Nid oes yno afonydd na moroedd, eto gwelir hen ddyffrynnoedd rhwng y brynau a gwelyau hen afonydd yn y wlad bell honno. Byd oer, distaw, difywyd yw y lleuad. Ai hyn fydd hanes y ddaear?

SIGMA.

### EIN CYFEILLION CYFFREDIN.

#### I. Y DRYW.

**Y** MAE'N llawer haws astudio natur, ac edmygu ei phlant, yng nghanol tawelwch y wlad, nac ym mhrysurddeb y trefydd. Nid oes dim rydd fwy o fwynhad i'r iach a'r bywiog, ac yn enwedig, rydd twy o londer i ysbryd y claf, na cherddoriaeth bendigaid adar mân y wig a'r moelydd.

“ Fedd y tlws dorfeydd tlysach,—geir  
unrhyw

Gywreinarwydd perffeithiach,  
Neu folianwyr cyflawnach  
Drwy y byd na'r adar bach?”

TUDNO.

“ O'r cangau clywir cyngan  
Ddidor y myrdd adar mân;  
Mor lân yw orian rydd  
Y côr ieuanc i'r Creydd.”

GWILYM ERYRI.

Caethiwyd fi gan<sup>o</sup> afiechyd am tua phum mlynedd, i aros llawer yn yr unfan ym mynyddoedd yr Eryri; ac er nas gallaf byth ddibrisio caredigrwydd dibendraw llu o'm cydnabod hoff, eto, rhaid

imi gyfaddef fod fy nyled yn fwy i'r adar bach am fy nghysuro a'm diddanu gymaint, pan beddwn bron yn rhy egwan i ymlwybro hyd y caeau ochrog. Y fath wynfydedd a gawn, wrth wrando ar gerddorfa yr adar ym Mharc Dolfrïog,—hen gartref Gwen o'r Ddôl. Fel hunan-adloniant, wedi troi i'm bwthyn llwyd ar ol fy nghrwydriadau dyddiol, chwiltwn fy holl gronfa am ddarluniadau geiriol y beirdd o'r gwahanol adar. Yr oedd yn orchwyl pleserus iawn. Yna rhown droswelediad, i farnu pa rai ohonynt a gafodd fwyaf o sylw a chlodydd.

Gan mai amhosibl oedd tafu'r ysgrifyr hynod i'r tân, ar ol cael y fraint o fendio'n gawr, tybiais y buasai lluoedd o blant Gwlad y Bryniau yn falch o gael gweled y darluniau tarawiadol hyn am rai o'u cyfeillion mwyaf cyffredin. Cânt feirniadu prun yw'r portread mwyaf pert, byw, a chywir o bob gwrthrych; a chânt hefyd ddysgu bod yn ffryndiau a'r llu mwyneiddlon.

Cymerwn, yng nghyntaf, y lleiat o'r holl dylwyth asgellog, sef y Dryw. Y mae pob plentyn yn ei adwaen ef,—yr hen dusw tîws, gyda'i sydynrwydd ôtnus. Ceir ef o'n cwmpas bob amser, yn twtiau hyd ben y cloddiau, ac ar frigau'r drain.

O'r holl feirdd Cymreig, nid oes yr un ohonynt wedi addoli cymaint ar yr adar bach a'r diymhongar Dewi Havhesp. Y mae ef wedi cofio delweddau bron yr ôll. Wrth son mewn ysmaldod am ddyfodiad cantorion difyr y gwanwyn, dywed,—

“Daw hithau a'i phig ddigoll,  
Y Dryw bach,—eu modryb ôll!”

Y mae Catwg Ddoeth, yn y cynoesoedd, wedi rhoi gwir nodwedd amryw o'r adar yn gyflawn mewn un gair. Dyma'i fynegiad am y Dryw,—

“Nerth Dryw, ei chelfydd.”

Hysbysa hen driban syml, a ddaeth i ni o amser ein teidiau, dynged dost y plentyn creulon,—

“Y neb a dorro nyth y Dryw,  
Ni wel fwyniant yn ei fyw.”

Bellach, am y desgrifiadau barddonol goreu o hono,—

“Cyweirio'i nyth bach, cywrain,  
Y mae'r Dryw ym mru y drain.” GWILYM ERYRI.

“Yn y drain y cân y Dryw,—  
Odiaeth o brydferth ydyw;  
A cherdd ddestlus feluafwyn,  
A phennill hoff yn y llwyn.”

IOLA MÔN.

“Nid oes cân ddoniol ganddo,—na thy  
Na theg wisg am danô; [gwych,  
Ei or-fawr fychandra fo  
Wnaiff un yn hoff o hono.”

HEN FARDD.

" Y Dryw, mewn dreiniach,—rydd . . . " Dew Dryw bach hyd odreu y berth,—  
 ddawngerrdd, cana  
 Nas caed ei thirionach ; Ei acenion prydferth ;  
 Gwneyd ei sain fain yn fwynach Mae 'n ei donau mwyn, dinerth,  
 Wna bydra 'i bib i'r Dryw bach." Ryw fawredd, er na fedd nerth."  
 PEDROG. MYNYDDOG.

" Hedegog edn, llwyd ei hogan—yw'r . . . " Yn y berth, ty prydferthach—ni  
 Dryw wellr,  
 Bach, ar draed chwim, egwan ; Neu aelwyd gynhesach ;  
 Deor mae ei adar mân Gweithiwr heb un o'i goethach  
 O'n golwg yn y geulan." A'i dro byr yw y Dryw bach."  
 MANOD WYLLT. GWYNIONYDD.

A wnaed wrth ei glywed yn pyncio ei garol boreuol yn y berth,  
 pan yn teithio gyda'r cerbyd a elwir "Cenhinen," o Lundain i  
 Gymru, yn Awst, 1821,—

" Ym myeg drain miwsic y Dryw—a . . . Y Dryw bach sy draw yn y berth,—  
 fwynhaf,— rhydd gŵn  
 Yn wir mae'n ddigyfryw ; Rhwydd ogoned prydferth ;  
 Nefoledig fawl ydwr, Rhybudd i mi roi aberth  
 O fewn ei big ei yn byw. Ddifa! 'n awr i Dduw fy nerth."  
 Y BARDD CLOFF.

" Er hin oer, rhydd yr un iach—ei gerdd ddol,  
 I'r gwir Dduw'n ddi-rwgnach,—  
 Canaf finnau'n well bellach,  
 I dreio bod fel Dryw bach." NAMORYDD.

Astudied pob un ohonoch yr englynion mynegiadol uchod, ac  
 yna deuwch i edmygu y Dryw fwy-fwy o hyd.

Onid yw soned cyfarchiadol Syr Walter Scott yn orlawn o  
 dnynerwch pur ?

" Small as thou art, thou gem-like bird !  
 Yet thou hast made thy nest on high ;  
 And there thy warbling voice is heard,  
 Singing thy children's lullaby.  
 Lovely bird ! with thy golden crown,  
 A kind and tender nurse art thou,  
 Making thy nest of moss and down,  
 And hanging it on the bending bough.

There, rocked by the wave of the zephyr's wings,  
 Amid the green branches it lightly swings ;  
 And a few clustering leaves of the forest tree,  
 Will serve to shelter thy cradle and thee ;  
 Concealing thee safely from every eye,  
 Until danger and fear have passed thee by."

## DYCHMYGION.

- I. **F**EDR rhai o blant y Cymru bach ddweyd wrthyl sut y mae cyfoeth o aur ag arian yn debyg i wrtaith?  
Am nad ynt o fawr werth heb eu gwasgaru.
- II. Sut y mae drws ty tafarn i John Jones yn debyg i swllt drwg?  
Am nas gall ei basio.
- III. Beth ydyw hwnnw nad yw neb yn hoffi ei gael, ond wedi ei gael, nad yw neb yn hoffi ei golli?  
Pen moel.
- IV. Ym mha le y bydd Cymry'r America yn cael golwg arnynt eu hunain?  
Yn y "Drych."
- V. Beth welir unwaith yn y dydd, unwaith mewn wythnos, a dwywaith mewn blwyddyn?  
Y llythyren "Y."
- VI. Sut y mae bardd Cymreig yn debyg i ŵr blinedig?  
Am nad oes dim a'i boddlonia yn well na Chadair.
- VII. Paham y mae chwarelwyr yn debyg i blant ysgol?  
Am eu bod yn "cyfrif" ar lechi.
- VIII. Paham y mae Ceiriog fel yr eos?  
Am ei fod yn canu yn "Oriau'r Hwyr."
- IX. Pa goed hynod sy'n agos i Lanrwst?  
Coed Gwydr.
- X. Pa gwrr o'r dref sy'n hoffaf gan feddwyn?  
Cwr-w.
- XI. Pan darawodd Dafydd Dafis ei fraich yn erbyn y cwpwrdd cornel, wyddoch chi beth ddeudodd o wrth ei wraig?  
O! 'mhen-Elin.

Casglwyd gan ERYR GWYNEDD.

## I'W DDARLLEN YN DDIFYFFR.

GANWYD fi yn y flwyddyn 1872 pan oedd rhyfel yn Neheudir Africa lladdwyd miloedd o wyr gan wenynd mae colyn marwol yw pigiad ambell neidr yng Nghymru mae llawer o ddefaid i'w gweled ar y mynyddoedd mae eira gwyn sydd liw hardd yw gweled cynulliad o blant nwyfus yn y capel cynhelir cyfarfodydd defnyddiol ydyw sebon i olchi tatws rhaid cael dŵr poeth yw yr haul yn y gauaf bydd rhew a cheir pleser wrth lithro arno cicio pel sydd enw ar chwareu pur ddifyffrus yng Nghymru mae colegau mawr i ddsygu rhaid cael amynedd fel Job Owen sydd enw ar ferch yr oedd dannodd.

*Bryn 'r Efail.*

JOSEPH JONES.

## 'Rwy'n caru dweyd yr hanes.

J. REES JONES, Llanon.

DOR E. M. 100.

*mf*

} 1 'Rwy'n	:s	m	:s	d	:r	m	f	:-	m	:r	d	:r	m	:r	.d
	car	-	u	dweyd	yr	han	-	es,	Hen	han-es	Dwy-fol				
	:s	m	:s	d	:t <sub>1</sub> .d	r	:-	d	:t <sub>1</sub>	d	:t <sub>1</sub>	d	:t <sub>1</sub> .d		
} 2 'Rwy'n	car	-	u	dweyd	yr	han	-	es,	Am	le-su,	Mab	y			
	:s	m	:s	d	:s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:-	s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub> .f	m	:s <sub>1</sub>	f <sub>1</sub>	:f <sub>1</sub>		

*cres.*

} Air,	m	:-	r	:s	m	:s	d	:r	m	f	:s	l	:t	.d
	Am	en	-	r	ben	-	di	-	ged	-	ig	Yn		
	d	:-	t <sub>1</sub>	:r	m	:t <sub>1</sub>	d	:t <sub>1</sub>	d	:r	m	:s		
} Tad,	Yn	gwas-gar	drwy	Ei	fyw	-	yd	Ei						
	s <sub>1</sub>	:-	-	:t <sub>1</sub>	d	:s <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub>	d	:r	.m	

s.d.f.G. *Ychydig yn arafach.*

} fab - an	t	:s	l	:l	.t	l	:-	s	:*m	d	:m	l <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub> .d
	bych	-	an	Mair;	Am	ol	Ei	sanct-aidd					
	s	:r	m	:s	fe	:-	s	:*m	d	:m	l <sub>1</sub>	:se <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	
} rodd-ion	mawr	-	ion	rhad;	Ac	yn	-	a'n	rhoi	Ei			
	r	:t <sub>1</sub>	d	:m	r	d	:-	t <sub>1</sub>	:*m	d	:m	l <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>

} gam - rau	r	:-	d	:t <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub>	d	:t <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	d	:-	t <sub>1</sub>	:m
	Ar	hyd	ein	dae	-	ar	ni,	Ac				
	t <sub>1</sub>	:-	l <sub>1</sub>	:se <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:se <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:-	se <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub>		
} Hun - an	I	dreng-u	ar	y	groes,	I						
	m <sub>1</sub>	:-	m <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub> .r <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>	re <sub>1</sub>	:re <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:-	-	:se <sub>1</sub>

*rall.*

} am Ei	d	:m	l <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub> .d	r	:m	f	:m	.r	d	:d	.r	d	:t <sub>1</sub>
	far	-	y	rhy	-	fedd	Ar	fyn	-	ydd	Cal	-	far	
	d	:se <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub> .d	t <sub>1</sub>	:-	t <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:se <sub>1</sub>		
} ar - bed	i	bech	-	ad	-	ur	Ei	haedd-ol	ing	-	ol			
	l <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>	f <sub>1</sub>	:r <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	se <sub>1</sub>	:-	se <sub>1</sub>	:se <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>		

*f* CYDGAN. *Tempo primo.*

		E.t.m.l.								
}	l <sub>1</sub> :—  —	<sup>m</sup> s	d <sup>l</sup> :— .d <sup>l</sup>  t	:l .s	l	:—  s	:s .f			
	i.	Mi	rof	fy hun	i'r	Ie	- su,	A'm		
	l <sub>1</sub> :—  —	t <sub>1</sub> r .f	m	:— .s  f	:f	f	:—  f	:m .r		
	loes,	Mi	rof	fy hun	i'r	Ie	- su,	A'm		
l <sub>1</sub> :—  —	<sup>so</sup> t <sub>1</sub> .r	d	:— .m  r	:d	t <sub>1</sub>	:d	r	:d .t <sub>1</sub>		

*dim.*

						<i>f</i>				
}	m	:f .m	r	:l	s	:—  —	:s	d <sup>l</sup> :— .d <sup>l</sup>  t	:d <sup>l</sup> .t	
	pryn-odd	ar	y	preu,	Ac	ym	- ddiried	- af		
	d	:d	r	:f	m	:d  r	:m .f	s	:— .s  f	:s
	pryn-odd	ar	y	preu,	Ac	ym	- ddiried	- af		
d	:l <sub>1</sub>	t <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub>	d	:l <sub>1</sub>	t <sub>1</sub>	:d .r	m	:— .m  r	:m

*rall.*

}	l	:t	d <sup>l</sup>	:m	s	:f	m .d	:r	d	:—  —
	yn	-	ddo	I'm	dwyn	i'r	nef	- oedd	wen.	
	l	:f	s	:d	d	:d	d .l <sub>1</sub>	:t <sub>1</sub>	d	:—  —
	yn	-	ddo	I'm	dwyn	i'r	nef	- oedd	wen.	
f	:r	m	:d	ta <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>	m	:—  —	

**Y PLENTYN BACH A'R GWLITHYN.**

**P**LENTYN tiws un bore  
 Welais yn yr haf,  
 Yn y cae yn chwarae  
 Gyda'r blodau braf.

Clywn ei fabol eiriau,  
 Clywn ei chwerthin llon,  
 Wrth gusanu'r blodau,  
 Wrth addurno 'i fron.

Llechai perlog wlithyn  
 Ar las welltyn bach,  
 Eraill fân-wlith gorwyn  
 Wedi canu'n iach.

Llygaid cariad wenai  
 Ar y defnyn crwn,  
 Y glaswelltyn blygai  
 Dan ei loew bwn

"Mam,"—yn llon ddiferodd  
 Dros y wefus ddel;  
 Perl y wawr feddyllodd  
 Gario iddi'n ffel.

Rhedeg wnaeth heb atreg  
 At ei anwyl fam;  
 Colli'r trysor gwiw-deg  
 Wnaeth wrth roddi llam.

Siomedigaeth yrrodd  
 Saethell, frathiog, lem,  
 Drwy ei fron pan welodd  
 Eisieu 'r perlog em.

Byr, di-emog welltyn  
 Ydoedd yn ei law;  
 Angel nos yw'r gwlithyn,  
 Buan heda draw.

*Buckley.*

T. MARDY REES.



DIWYDIANNAU CYMRU. IV. CLUDO (Y DULL NEWYDD).



## Y BREUDDWYDIWR BACH.

**Y**R oeddwn yn son yn rhifyn Medi am ryw hen lyfr nodedig o ddyddorol sydd yn y ty yma. Y mae ym meddiant y teulu ers cyn cof. Nid oes dim mwy swynol o'i fewn i mi na hanes y plant bach ddaeth yn eu dydd yn ddyinion enwog. Yr wyf, wrth ei ddarllen, wedi dyfod ar draws hanes un arall eto, ac y mae troion gyrfa hwn yn fwy amrywiol, rhyfedd, a chyffrous na'r llall.

Amaethwr cyfrifol oedd ei dad, yn berchen anifeiliaid lawer iawn. Yr oedd y wlad horfaog a mynyddig yr oedd yn byw ynddi, yn fanteisiol iawn i'r nifer afrifed bron o ddefaid a geifr oedd ganddo. Yr oedd wedi cychwyn ei fyd heb ddim cynysgaeth, ond trwy ddiwydrwydd a bendith rhagluniaeth, fe ddaeth i gyfoeth mawr. Gallasai y tenlu olrhain eu hachau am ganrifoedd yn ol, ond gan eu bod yn deulu crefyddol ni fyddent yn hoffi son llawer am eu hynafiaid pell. Eilunaddolwyr ofergoelus a thywyll oedd y rhai hynny. Dyna y rheswm i bennaeth y llwyth, gŵr rhagorol, ymfudo oddiyno. Cawn hanes digrifol am ferch i un o honyt yn dwyn dduwiau ei thad, diwedd y rhai hynny fu eu claddu o dan ryw dderwen fawr. Ni ddarfu i grawciau y brain yn ei brig, na swa y gwynt yn rhuo yn ei changau cryfion; hynafol, eu deffro byth o'u marwol hân. Felly bydd y plant bach lleiaf yn dweyd,—“Dyna i chwi dduwiau neis.”

Fe ddywedir ein bod ni yn disgyn o'r Iberiaid dwys, breuddwydio. Galleid meddwl fod gwaed Iberaidd yng ngwythienau y bachgen bach hwn. “Y breuddwydiwr” y gelwir ef yn aml gan ei deulu ei hun. Ond y mae y llyfr yn dweyd nad oedd. Mi fyddwn innau pan yn fachgen bach yn breuddwydio o hyd, ond mi rois i y goreu iddi wrth weled nad oedd dim coel arnynt. O ran hynny yr oedd yn dda i mi hynny. Yr oedd grisiau oriel yr hen gapel yn hir, yn serth, a thro chwyrn ynddynt. Pa sawl gwaith y bum yn gwelod fy hun yn taraw fy nhroed, neu yn llithro ar y gris uchaf, ac yn rowlio yn bendramwnwgl i lawr i'r gwaelod, heb lwyddo i afael mewn dim i attal na thorri grym fy nghwmp alaethus?

A gwaeth na hynny, a mi yn fy nghwsg, un tro gwelwn fy hun yn cael fy hudo i'r dafarn gan ryw fechgyn ffol; a phan wedi gorffen yfed y glasiad cyntaf hwnnw yr ystyriais beth oeddwn wedi wneyd. “Dyma fi,” meddwn wrthyf fy hun, “pa sawl gwaith y dywedodd fy mam wrthyf ei bod wedi rhoddi fy enw i lawr yn ddirwestwr pan oeddwn faban, a finnau erioed heb brofi dafn, yn yfed i foddio yr hen hogiau gwirion yma sydd yn ddigon o ffyliaid i feddwl eu bod yn ddyinion wrth yfed cwrw.” Yn y cyfro a'r tralod mawr deffroais; ac wele, breuddwyd oedd. Bu agos i mi gan wir lawenydd

waeddi "Diolch" dros y tŷ nes deffro pawb arall. Nid yfais ddi-feryn byth yn fy nghwsq ar ol hwnnw, ac nid yfai yn effro chwaith.

"Trwy'r Duw Dad mi ymdrechaf—rhag edrych  
Ar y gwydriad cyntaf;  
O'i wên goch gwenwyn a gaf,  
A dwys ofid, os yfaf."

Gwahanol iawn eu natur oedd breuddwydion y llanc bach yr wyf yn son am dano. Yr oeddynt yn addaw dyfodol disglaer iddo, ac fe ddaeth rhai o honynt i ben yn hollol fel yr oeddynt yn addaw iddo. Yr oedd gan ei dad liaws mawr o blant, ond yr oedd ef mor bryd-weddol, mor ufudd, ac mor serchog wrth natur, fel yr oedd serch ei dad wedi ymglymu am dano mewn modd rhyfeddol. Yr oedd rheswm arall yn cyfrif am fod ei dad yn fwy hoff o hono ef a'r plant ereill. Yr oedd ei briod hoff ac anwyl wedi ei chladdu ers blynyddoedd, ac fel yr oedd y llanc yn tyfu yr oedd yn mynd ar ddelw ei fam, a phob tro yr edrychai i'w wyneb siriol yr oedd yn gweled gwyneb teg pryd-weddol ei fam yn tywynnu yn oleu yn ei wyneb ef.

Fel y dywedais, amaethwr oedd ei dad, ac yr oedd yn dal tir porfa bellder o dros hanner can milltir oddiwrth ei gartref. Yr oedd y wlad honno yn wyllt, a'i thrigolion yn anaml, ac am hynny yr oedd yno lawer o fwystfildod gwylltion yn cyniwair ar hyd ei chymoedd a'i mynyddoedd. Yno yr oedd yr arth greulawn, a'r llew rhuadwy dewr.

Ryw fore anfonwyd y bachgen gan ei dad i edrych am y bugeiliaid, ac i holi sut yr oedd y defaid a'r geifr yn dod ymlaen. Yr oedd yn y wlad honno ddynion mwy creulawn a pheryglus nag anifeiliaid gwylltion yr anialwch. Beth wnaeth y dyhirod hynny, ond ei ddal, a'i werthu i haid o ryw fath o sipsiwn oedd yn digwydd pasio ar y pryd, ar hynt fasnachol i wlad bell gyda'u hanifeiliaid llwythog. Meddylier am y sefyllfa ofnadwy, i un mor ieuanc, fagw, d mor anwyl,—ar gychwyn yn gaethwas rhwym, alltudiedig, na wyddai i ba le nac i ba galed-fyd. Yr oedd yno lygad-dyst, ond nis gallai ei waredu. Yr oedd hwnnw yn son ymhen blynyddoedd lawer am gyfyngdra ei enaid, ac fel yr oedd y truan bychan ofnus yn wlo ac yn ymbil am ei ryddid a'i fywyd. Yr oedd, wrth basio i'r caethiwed, yn gweled y bryniau a'r hen lannerchau hoff y byddai yn eu rhodio mor rhydd, a'r awel wrth fugeillio defaid ei dad, ac yr oedd ei galon fach bron a thorri wrth roi ffarwel bythol iddynt. Hwyrach fod ei dad wedi gweled eu camelod yn pasio ar hyd y ffordd draw. Beth pe buasai yn gwybod fod ei drysor pennaf yn yspail ganddynt?

Wrth ei weled yn oedi dychwelyd, yr oedd ei dad yn dechreu anesmwytho. Nid oedd heb wybod am beryglon y daith. Rywf ddiwrnod, er ei ddychryn, dyma gennad yn galw, a chanddo hugan rwygedig ruddgoch gan waed yn ei law. Adnabu y tad hi yn y fan fel eiddo ei fab, ac nid oedd ond un casgliad yn bosibl. Yr oedd y llew neu'r arth wedi ei larpio. Bu agos iawn i'r brofedigaeth lemfod yn ormod i'w galon serchog ddal. Aeth ei alar am dano yn ddiareb trwy yr holl wlad honno, fel yr eiddo ei dad enwog am farw ei fab hoff Ieuan Ddu yn ein gwlad ninnau.

Ar ol cyrraedd pen eu taith gwerthwyd y llanc bach ganddynt fel pe buasai yn rhyw nwydd masnachol arall, i un o foneddigion uchaf y wlad honno. Y fath gyfnewidiad i fab yr amaethwr, a mab y mynydd! Yn lle rhyddid awelon bryniau prydferth ac amrywiol ei enedigol wlad, wele ef yng nghaethiwed y ddinas fawr, ar y gwastadedd llethol brwd, a'r bryniau tywodlyd anial yn gaerau iddo. Yr oedd rhai o adeiladau y wlad yn dyrchafu eu pig-dyrau hyd y nen, ac yn ymddangos iddo ef bron mor gadarn a'r bryniau oesol adawodd ar ol.

Yr oedd y cyfnewidiad yn fwy eithafol fyth yn gryfddol. Yn lle addoliad y gwir Dduw, yr oedd y rhai hyn, er eu holl-gyfoeth a'u rhwysg, yn addoli yr haul ac anifeiliaid pedwar canol. Ond nid gwr i dorri ei galon oedd y gwron bach. Penderfynodd wneyd y goreu o'r gwaethaf. Ymroddodd i wasanaethu ei feistr, ac yn fuan iawn yr oedd, oherwydd ei onestrwydd a'i ffyddlondeb, wedi llwyr ennill calon ei feistr pendeigaid, a'i holl eiddo yn gystal a'i wasanaethwyr yn gwbl o dan ei awdurdod. Pan oedd yr awyr fel hyn yn glir a digymylau, dyma ystorm ofnadwy yn torri arno. Cyhuddwyd ef o dwyll yn ei furf waethaf yn erbyn ei feistr caredig. Methodd yn lân a chlirio ei hun, yr oedd yr amgylchiadau yn ymddangos mor gryfion yn ei erbyn. Cafodd ei hunan ar unwaith mewn carchar prudd a thywyll, a'i draed mewn gefynnau haiarn. Ond mae lle i gredudi mai ar ei oreu yr oedd ei feistr yn credu ei fod yn euog, onide y mae yn sicr y buasai wedi ei ladd yn y fan. Gwelwyd yn fuan ei fod mor bur a'r goleuni. Bu yno am amser maith heb adennill ei ryddid, ond yr oedd ei ysbryd addfwyn siriol, a'i uniondeb diwyrni wedi ennill ymddiried ceidwad y carchar ato. Yr oedd y llanc bach fel pe buasai ganddo allwedd aur i agor calon pawb y deuai i gyffyrddiad â hwy. Yr oedd ffawd fel pe buasai wedi penderfynu rhoddi cwpaneidiau mel a wernod iddo bob yn ail. Dechreuodd ddringo yma eto, ac yr oedd yn wr rhydd mewn caethiwed carchar. Yr oedd yn fuan yn llywodraethu y cwbl yn y lle, a'i awdurdod bron cyfuch a'r pennaeth. Er hynny yr oedd yn dyheu am ryddid.

Cafodd rywfodd fynediad i brwsenoldeb y brenin. Yr oedd hwnnw wedi clywed fod gŵr ieuanc o alluoedd disglaer digyffelyb yn y carchar. Gwelodd mai gwir a glywodd, ac na fynegwyd ond rhan o'r gwir. Hoffodd ef yn y fan. Rhyddhawyd ef, a chafodd wriad uchel gan y llywodraeth. Ymhen ychydig amser yr oedd yn brifweinigdog y wlad,—y wlad baganaidd fwyaf gwareiddiedig y pryd hwn yn yr holl fyd. Yn lle y cadwynau yr oedd mewn gwisg o bali drud, ac yn lle gefynnau heyrn am ei draed yr oedd cadwen felyn aur am ei wddf, ac yn cael ei dynnu trwy y wlad yn y cerbyd brenhinol gwych, gan feirch porthianus, a phob gŵr yn ymostwng hyd lawr iddo wrth ei gyfarfod. A phe buasai un o hen gyfeillion ei ieuentid yn ei gyfarfod, ac yn ysgwyd llaw âg ef gwelent fodrwy ddrudfawr y brenin ar law y'bugail bach, yn arwydd i bawb pa mor uchel oedd yn ei ffatr, ac mor helaeth ei awdurdod. Mewn gwirionedd teyrnasu yn unig yr oedd y brenin, y gŵr ieuanc deg a'r hugain oed oedd yn llywodraethu y deyrnas i gyd, a'i phendefigion oll yn ymostwng iddo mewn ufudd-dod a pharch. Bu ffurfafen ei fywyd hir yn glir a digymylau o hynny i'r tertyn.

Yn uchder ei lwyddiant ni anghosfodd ei fywyd gwledig syml gynt, a thŷ ei dad. Ond ni wyddai ddim o'u helynt, mwy nag y gwddent hwythau a oedd yn fyw. Yn ddamweiniol iawn fe welodd gwmmi o fasnachwyr yn y wlad, a golwg debyg iawn i'w gydwladywyr arnynt. Ar ddeithr, ac yn gynnil, holodd hwy. Er ei ddirfawr lawenydd, cafodd fod yr hen wr ei dad eto yn fyw, ond fod amgylchiadau yr amaethwr yn nodedig o gyfyng yno ar y pryd. Gofynnodd i'r gwŵr hynny, ar ol dangos caredigrwydd mawr tuag atynt, hysbysu ei dad fod ei fab colledig eto yn fyw, ac mewn sefyllfa ac awdurdod frenhinol yn y wlad, a'i fod yn ei wahodd ef a'r teulu oll i ymfudo o wlad y prinder ato ef oedd mewn llawnder a digonolrwydd.

Bu bron i'r llawenydd hwn, fel tristwch y dyddiau gynt, brofi yn ormod i natur lesg yr hen wr ei ddal. Hawdd oedd iddo gredu y stori, er mor ryfedd oedd, gan fod y naill asyn llwythog ar ol y llall yn dod at y tŷ yn flin gan ludded y daith a phwysau anrhegion y mab ardderchog. Am y tro cyntaf erioed dyma gerbydau yn cael eu tynnu gan feirch yn dod i fyny at y tŷ. Meddylier am deimlad y tad pan yr oedd yn codi ei droed am y tro cyntaf i fyned i gerbyd, a hwnnw yn gerbyd y brenin mwyaf ar y ddaear, ac yn eiddo i'w fab ef. Cyrhaeddodd ef a'i holl deulu balas gwych y mab. Ofer ceisio darlunio y cyfarfyddiad rhyfedd hwnnw. Gwahoddwyd yr hen wr ar unwaith i'r palas brenhinol, a chafodd groesaw mawr gan y brenin ei hun. Bu fyw am flynyddoedd lawer yn fawr ei barch yn y wlad. Claddwyd ef yn ol ei ddymuniad yn yr hen wlad. Aeth y

mab a holl bendefigion y deyrnas i'w hebrwng i'w fedd yn eu cerbydau gwych, yn cael eu dilyn gan farchogion a gwŷr meirch.

Ar ol gyrfa nodedig o lwyddiannus, ac oes faith, bu farw y llywodraethwr doeth, duwiolfrydig a phur hwn. Nid oedd yntau am i'w gorff orwedd yn y wlad baganaidd, ond am dymor penodol yn unig. Ar ol i hwnnw ddod i ben, yr oedd yr arch i'w symud i'w wlad enedigol, lle y gorweddai mewn hedd gynifer o saint y Goruchaf yn ei daear gysegredig. Pan ddaeth yr amser i ben cyflawnwyd ei ddymuniad yn ffyddlawn gan y teulu.

Ond yr oedd digwyddiadau y daith honno yn fwy amrywiol a chyffrous na hyd yn nod ddigwyddiadau ei fywyd. Yr oedd ganddynt anialwch mawr ac ofnadwy i'w groesi, ac fe fuont yn hwy yn ymdroi yn hwnnw na Stanley yn y goedwig fawr honno yn Affrica. Yr oeddynt wedi meddwl na chroesent byth yn fyw. Daethant at gainc o fôr, ac nis gallent fyned gam ymhellach. Daeth rhyw drai isel a rhyfedd ar hwnnw mewn canlyniad i ryw wynt cryf a dieithr yn y nos, a thrwodd a hwy ar frys yn ddiangol. Yr oedd afon fawr tyddai ar byrdiau yn gorlifo dros ei glannau yn gorwedd ar eu llwybr. Erbyn iddynt ddod i rydiau honno yr oedd y rhan yr oeddynt hwy i'w groesi wedi sychu i fyny yn llwyr, fel yr aethant drosodd yn droedsych.

Mor wahanol yr oedd yn dod yn ol i'w wlad! Dygwyd ef oddiyno, yn gaethwas alltudiedig, ond claddwyd ef gan dyrfa na welwyd ei chyffelyb yn angladd neb o'i flaen nac ar ei ol. Ni fagodd y wlad honno wr mwy glew na chymeriad mwy pur ac ardderchog na'r "Breuddwydiwr Bach."

*Miuffordd.*

G. WILLIAMS.

## Y GWANWYN.

**D**O, daeth Gwanwyn eto'n ol,  
Mae'r gauaf wedi cilio,—  
A phan gusano fin y ddol  
Mae'r blodau oll yn ddefro.

Tery fywyd ym mhob tant  
O dannau telyn natur;  
Rhydd hudd swyn yng ngân y nant  
Tra'n llamu ar ei hantur.

Llawn gobeithion yw ei wedd,  
A thyner yw ei galon;  
Croesawu'r wna't oddiar ei sedd  
Y wneoll fach astraflon.

*Ponteryd.*

Llu o adar ar bob llwyn  
Sy'n canu carol iddo;  
A'r defaid mân yn gwyllo'r wyn  
Yn neidio ac yn prancio.

Chwiban wna yr awel iach  
Cydrhwng y dall a'r blodau;  
Cydgordio wna â chanig fach  
Y plentyn yn y borau.

"Proffwyd hedd" yw'r Gwanwyn tlws  
Cyhoedda Haf i ddyfod;  
Yn swm ei farwel wrth y trws  
Yr Haf ddaw i'w gyfarfod.

R. LLOYD-JONES (*Sieyllt*).

## YSGOL PROFIAD.

## IV.

"Ni ddigwydd ddim nad yw'r meddwl yn ei gofnodi. Gedy popeth ei argraff; a newidir ni o hyd gan yr hyn a ymwthia i'n hymwybyddiaeth. Welthiau par hyn ddychryn mawr, pan y mae'r argraffiadau drwg yn atlach na'r rhai da. Eto, gwelir mai ysbrydiaeth yr athraw yw."

"Only a man,—but it makes a great difference which man. 'Only a man,' man is a fragment of divinity, and he never can forfeit his origin. 'Only a man,—but we must take each man at his real value.'"

**B**ORE trannoeth, awd i'r ysgol heb fawr feddwl mai helynt canu'r gloch ddoi ger ein bron gyntaf. Gwelid y prifathraw yn edrych yn llym a diwên. Ac eto, pan fyddai felly, rhoi argraff arnom fod gwir achos yn galw am hynny. Gŵr dilol, gonest, a chryt oedd yr hen laic hwnnw. A pho bellach yr eir ag ef oddi-wrthym, anwyfaf yn y byd yr a'r adgofion am dano. Ni bu petrusder eribod ym meddwl y Cymro Bach nad oedd yn unplyg hollol, ac yn amcanu cynhyrchu'r effeithiau goreu. Yr oedd yn ddigon cryf i dafu ei hun ar hynawsedd a barn muntadau goreu plant a rhieni. Gwnai yr hyn ystyriai ef oreu o'i du ei hun a'r disgyblion, heb geisio gwên neb pwy bynnag, nag ofni gŵg y tostaf. Edrychai yn cael yr un mwynhad wrth gosbi ac wrth ganmol. Gwnelai bob dim gyda'r un rhwyddineb, i olwg y Cymro Bach, beth bynnag. Argraffai arnom ei fod yn caru dyledswydd; ac nis gall y Cymro Bach byth anghosio ei ddirifwch urddasol pan yn hwylio ati i geryddu. Ac un rheswm na cholodd ei ymddiried ynddo oedd nad amheudd o gwbl uniondeb ei amcanion. Pa mor lym bynnag y byddai dyn, prin y collai y Cymro Bach ei ffydd ynddo, os y gallai gadw ei ffydd heb gracio a mynd yn deilchion am uniondeb amcan y dyn. Ac o'r tu arall, pan y gwelai duedd i lapio peleni chwerw a haen o siwgr, collai ei ymddiried rhag blaen, gwell ganddo athraw syml, cryt, er iddo fod yn arw, na dyn gwan, rhodresgar, na chymer drafferth i astudio'r disgyblion dan ei ofal.

Ond y cerydd, onite, oedd gan y Cymro bach dan sylw. Teimlai'n rhy euog i feddwl chwarae a'r hen athraw pur a gonest. Onid yw hyn yn brawf fod dyn trwyadl dda yn drech na holl ddiweidi a malais plant o bob math? Dyma engraffit o swyn cymeriad nad allai plant ffeindio bai ar ei ddibenion.

Gwyddai'r plant yn eithaf da fod rhywbeth o'i le y bore hwnnw. A chyhuddai cydwybod y Cymro ef ar unwaith. Ymrithiai y pryd-nawn cynt,—dianc allan, canu'r gloch, a chwilota'r ysgol, peidio dysgu'r dasg,—o flaen meddwl yr hogyn euog. Yr oedd gŵg

urddasol ar wynepryd yr hen athraw cywir, a chwareuai'r gŵg am ysbaid yn llygaid y proffwyd cyn dechreu torri allan yn daranau. Cerddai'n ol a blaen heb ddweyd fawr ddim wrth neb; gwichiai ei esgidiau wrth iddo symud yn gyflym. Gostyngai ei olygon tua'r llawr fel pe'n myfyrio'n ddwys pa fodd i weithredu'n effeithiol. Plethid sirioldeb a llymder yn ei wedd. Gallai syllu nes gwneyd i'r diniwed bron deimlo'n euog. Gwenai wedyn hyd at ail-eni'r bachgen drwg.

Yr oedd yma rym rhyfedd yn ei ystumiau. Gŵr byr, graenus, a thacius ydoedd. A phan yn parotol i geryddu crynhoai'r ddeddf i ystum ei gorff ac i ffachiad ei lygaid. Ac yno yr arosai hyd nes yr ymbaratoisai'r plant i dderbyn y cerydd. Derbyniai y rhan fwyaf geryddon yr athraw pur hwn tel firwyth addfed ystyriaeth synwryol. Ac am hynny nis gellid, fodd yn y byd, wrthwynebu triniaethau mawr pan y doent oddiwrtho ef. Hoffwn yn fawr fedru tynnu ei lun yn cerdded, y bore hwnnw, a'i ddwylaw ar waelod ei gefn. Yr oedd ei olwg yn benderfynol, ac yn naturiol yn tueddu i gynhyrchu gostyngeidrwydd seiliedig ar weled bai o du'r pechadur. Ac wedyn, fyddai ddim siawns cynnyg un math o esgusawd, dim ond plygu'n brudd, dan addo peidio pechu mwy.

Gorchwyl pur seremonïol oedd ceryddu ger bron yr ysgol yn nyddiau yr hen athraw erys mor anwyl yn nghof y Cymro Bach. Temtir fi i ddweyd ei enw, ac i roi braslun o'i hanes y tu allan i'r ysgol. Ond rhoi hynny atalfa ar y stori cyn mynd i'r pen. Ac telly rhaid gadael yr hen lanc yn y fan yna.

Gwn o'r goreu nad oes eisieu desgrifio diwedd y cerydd y bore hwnnw. Yr ydych wedi tynnu casgliad eich hunain, onid ydych? Gorffennodd y cwbl mewn dagrau ac addewidion. A phe gallesid cadw y Cymro Bach hefo dynion fel athraw pur yr Ysgol Newydd, buasai'n llawnach bachgen heddyw. Ond dyna ffordd gyfrin Rhagluniaeth,—tafu bachgen i wyneb tonnau, fân a mawr.

---

### CAN Y CRYD.

SIGLO, siglo cryd bach fy Iolo,

O Siglo, siglo, un, dau, tri!

Rhwyfo, rhwyfo, cwch bach yn nofio,  
Mami'n llywio dros y lli.

Clyw, clyw'r adar bach yn trydar

Draw uwch ddegar lasa'n bod;

Gwel, gwel y blodau'n codi 'u pennau  
I ofya i'r cangau,—“Pwy sy'n dod?”

Ust! dros y tonnau sw'n sandalau

'N odli â sidanau sy'n d' alw di;

Hun, ferch y brenin, red i'w chynhefin,

Yno i dderbyn 'mhlentyn i.

Rhwyfo, rhwyfo'nrol heb fy Iolo;

Gofal am dano hano, Hun;

Rho iddo l chwarau geinaf deganau,—

Tlysau'th balasau teg bob un.



PLANT CYMRU.  
CLXX. PLANT CHWARELWYR CORRIS.



## PLANT YSGOL Y BWRDD, CORRIS.

*(Y ddrhuniaŵ gan Geo. Holdsworth, Hepworth, Huddersfield).*

**D**AW plant chwarelwyr Corris ger eich bron yn bedwar *group*. Wrth sefydlu yr ysgol hon ymladdwyd brwydrau addysg rydd yma, rhwng y Parchn. Evan Jones (Caernarfon yn awr), a Daniel Evans, y ficer (wedi hynny, y Canon Evans, Caernarfon), ag y ceir eu hol ar y ddwy blaidd yma hyd heddyw. Trwy y ddadl honio torwyd am byth bob dadl ym meddyliau yr ardalwyr am natur yr addysg ddylid gyfrannu i'w plant.

Bu yr ysgol hon am ddeng mlynedd ar hugain dan ofal y diweddar Mr. Humphrey Lloyd Jones, ac y mae iddo olynnydd teilwng yn un o feibion yr ardal, sef Mr. H. S. Roberts, darlun cywir o'r hwn a welir ar y llaw aswy yn y *group* uchod. Ar y dde gwelir darlun o Mr. D. Ifor Jones, yr hwn yw clerch y Bwrdd Ysgol ers dros un mlynedd ar hugain.

Yn ystod y blynyddoedd diweddat mae yr ysgol, o dan ofal Mr. Roberts a'i *staff* o is-athrawon, wedi ei chodi i'r tir uchaf o deilyngdod yng ngwynneb safonau y Llywodraeth, yn ennill y *grants* uchaf, ac wedi ei heithrio o'r arholiadau blynyddol. Ac y mae pump ar hugain o'r ysgol hon wedi ennill Ysgoloriaethau i Ysgolion Canolraddol Towyn a Machynlleth.

## CYMRU'R BARDD.

YTHYNOD gwynion Cymru  
A'u to o wair a gwellt;  
Diangodd llawer angel  
I'r gwynfyd drwy eu dellt.

Mae BRYNIAU Cymru anwyl  
Yn swynol ddydd a nos,  
Fel heirdd gadeiriau engyl  
Dan goron cread dlos.

Mae sŷmledd BLODAU Cymru  
Yn swyno'r awel iach;  
Y grug, a'r deg friallen  
A'i deilen, felen fach.

Mae Beirdd enwocaf Cymru  
Yn blant y nefoedd lân;  
A swn trugaredd Iesu  
I'w glywed ym mhob cân.

R EUROG JONES



## Y PYSGOTWR.

(DARN I'W ADRODD).

I.

A WELWCH y pysgotwr,  
 A'r wialen yn ei law,  
 Yn cychwyn oddi cartref  
 I lan yr afon draw?  
 Pwy wyr na fu'n breuddwydio  
 Y noswaith gynt am hyn,  
 Y deuai'n ol ar draws y ddol  
 A'i fasedd wellt yn dynn?  
 "Dydd da," medd wrth ei briod hoff,  
 Ac wrth ei blantos mân,—  
 "I gyrchu'r af y brithyll braf,  
 Rhowch badell ar y tân."

II.

Mae'n cerdded min yr afon,  
 Gan sibrwd wrtho'i hun,—  
 "Mi hoffwn yn fy nghalon  
 Eich dala chwi bob un,"  
 Ond dacw y pysgodyn  
 Yn gweld ei gysgod ef;  
 A rhag y gwr y mae'n ffol'n-siwf  
 Dan wraidd y goeden gref,  
 "Er hyn, ni thorra i' nghalon fach,  
 Symudaf beth i lawr,  
 'Rwyf wedi arfer gallu dal  
 Yn hwnnw liaws mawr."

Trefglwys.

III.

Nid ydyw y pysgotwr  
 Heb ofid lawer awr,  
 Mae'r *line* rhy wan i sefyll  
 Nerth y pysgodyn mawr;  
 Ond ni fyw ddigalonni,  
 Mae'n hapus wrth y gwaith,  
 Fe a'n ddibaid trwy'r gwellt a'r llaidd  
 A'i lodrau weithiau'n laith.  
 Fe a i ben y geulan draw,  
 Gan fwrw'i fach i'r llyn  
 A sisial ddweyd,— "Nis gwn pa fodd  
 I'ch dal os nad fel hyn."

IV.

Ond dacw fe'n mynd adref  
 A'i feddwl ddigon prudd,  
 A'i fasedd wellt heb bysgod  
 'Rol poeni drwy y dydd;  
 Y wraig yn dechreu holi  
 Yn awr ei phriod glân,—  
 "A gawsoch chwi y pyseg i mi  
 I'w dodi ar y tân?"  
 "Na! na! Fe fethais ddal yr un;  
 Mae yn rhy oer yn awr,—  
 Pan chwyth gwynt tyner dros y tir  
 Cewch gennyf bysgod mawr."

SIARL TRANNON.

## YR HWCH GOCH.

Hwch iach yw eich hwch o wech ach,—chwech hwch  
 Ni chaech wichial'n uwchach;  
 Ni hychiodd yn groch ei chöchach,  
 Hwch yw a chroen ni chrych â chrach.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

## HOLIAD.

Ti welaist y rhew a'r eira,  
 A chwerddaist y'ngwres y tân;  
 Cei redeg i'r caethu, bellach  
 I gasgu briallu mân,  
 Ond pwy oedd y Gwr a gerddai,  
 Dwy'r eira y'ngolen'r Lloer,  
 Dan wylu,—am fod rhai bychain  
 Heb gartref, mawn byd mor oer?

J. R. TRYPANWY.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

III. CODI ANGOR.

(YMDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

**I**FOR. A ddeuwyd o hyd i'r ddau forwr a gollasid, fy nhad?

**TAD.** Yr oedd yn bwysig neilltuol i'r dynion ddychwelyd, a hynny'n fuan. Cymerodd Capten Cook fantais ar y penaethiaid brodorol oedd yn y gaerfa ar y pryd. Pendentynodd nad oeddent i'w gollwng yn rhydd, nes dychwelyd o'r morwyr. Cafodd y llywydd foddhad mawr wrth weled nad oeddent yn dychrynu, er eu bod mewn rhyw ystyr yn garcharorion. Yr oeddent, yn ddiâu, yn cydolygu a'r llywydd mai eu cadw hwy yn wystlon oedd y ffordd sicraf i gael gatael ar y ddau forwr. Anfonodd Mr. Hicks yn y cwch i gyrchu Tootahah i fwrdd y llong. Yr oedd y capten, mewn gobaith cryf yn ffyddlondeb doeth yr arweinwyr, yn credu y buasent hwy a'r swyddogion a'r encilwyr wedi dychwelyd cyn y prydawn. Ond siomwyd ef. Ni ddaeth yr un ohonynt. Meddyliodd mai nid diogel fuasai iddo adael y brodorion, y rhai oedd wedi eu cadw yn wystlon, i aros yn y gaerfa dros y nos. Felly, gorchmynodd eu symud i fwrdd y llong. Parodd yr amgylchiad hwnnw gynhyrfiad a dychryn cyffredino yn eu plith, fel y darfu i amryw amlygu hynny, yn enwedig y benywod, drwy gollu dagrau ac ocheneidio'n wylofus. Tua naw o'r gloch, dygwyd Webb yn ol gan rai o'r brodorion, y rhai a fynegasant na chai Gibson na'r ddau swyddog ddychwelyd hyd nes y buasai Tootahah yn cael ei ryddid. Gwelodd y Rhaglaw fod y byrddau yn cael eu troi arno ef ei hun. Ond yr oedd wedi myned yn rhy bell i droi yn ol. Nid yw gwron o'r iawn ryw yn medru chware plant mewn amgylchiadau pwysig. Felly, gyda brys, anfonodd Mr. Hicks yn y bad hir gyda nifer o ddynion nerthol, i draiswaredu ei ddynion o law yr ynyswyr. Hysbyswyd hefyd i Tootahah fod yn ofynnol iddo yntau anfon rhai o'i ddynion, i roddi cynhorthwy effeithiol i ddwyn oddiamgylch ryddhad y rhai oedd yn garcharorion gan ei ddeiliaid. Cydsyniodd y pennaeth yn ddiwrthwynebiad, a rhyddhawyd y carcharorion, heb un math o anhawster. Y dydd canlynol, dychwelwyd hwynt yn ol i'r llong; ac ar yr un adeg rhyddhawyd y penaethiaid. Terfynodd hynny achos a gorchwyl barodd lawer o drallod i'r capten.

**IFOR.** Fy nhad, onid oedd mesurau y Rhaglaw yn rhai llym yn yr amgylchiad hwn?

**TAD.** Ymddengys i mi iddo ddewis yr unig gynllun a fuasai yn sicrhau dychweliad y morwyr. Cariad a ddenodd ein dau frawd Prydeinig. Yr oeddylt wedi rhoddi eu serch mor llwyr ar ddwy

o'r merched brodorol nes penderfynu cartrefu dros weddill eu' hoes ar yr ynys. Er cyrraedd yr aifcan hwnnw ymguddiasant, gan obeithio na fuasai neb yn sylwi ar eu habsenoldeb hyd nes y buasai y llong wedi myned yn ddigon pell ar ei ffordd-tua'i phorthladd Prydeinig.

IFOR. A ddaeth rhai o'r brodorion gyda'r llong?

TAD. Do. Tupia, yr hwn a soniwyd am dano o'r blaen, oedd y cyntaf a ddaeth i gysylltiad â'r Saeson ar eu glaniad ar yr ynys. Efe oedd yr unig un a ymgymerodd yn llwyr ag aros gyda hwynt er rhoddi iddynt bob cyfarwyddyd angenrheidiol dros ystod eu harosiad ar yr ynys.

IFOR. Fy nhad, pa gyfrif sydd i'w roddi mai dim ond un o'r brodorion a gymerodd y fath ddyddordeb yn ein mordeithwyr?

TAD. Nid wyf yn sicr o'r paham, fy mab. Ond yr wyf yn barnu fod Tupia yn un o'r ychydig a geir, yma a thraw, yn ddynion o flaen eu hoes ymhlith eu cenedl. Efe oedd unwaith yn brif weinidog y frenhines Oberea, pan oedd yn ei hawdurdod uchaf. Fe fu, hefyd, yn archoffeiriad y wlad. At ei wybodaeth o egwyddorion a defodau crefydd ei wlad, ychwanegodd lawer o wybodaeth forwriaethol, a gwybodaeth am drigolion a sefyllfaoedd amryw o'r ynysydd cymdogaethol. Llauer gwaith yr amlygodd ei awydd am fyned gyda ein morwyr ar eu hymadawiad pan y cymerai hynny le. Pan oeddynt yn barod i gychwyn daeth Tupia ar y bwrdd, a chydag ef fachgennyn tua thair ar ddeg oed. A deisyfodd am ganiatad i gael myned gyda hwynt i'r tordaith. Yr oedd cael y fath un ar fwrdd yr "Endeavour" yn wir angenrheidiol ar lawer cyfrif. Oblegid hynny cydsyniodd y Rhaglaw â'r cais gyda boddhad mawr. Ar y trydedd ar ddeg o Orffennaf, codwyd yr ancor. Ac mor gynted ag y gwelodd y brodorion, oedd wedi dyfod ar y llong i farwelio a'n dynion, yr hwyliau yn cael eu codi, dechreusant symud yn araf i ymadael, gan deimlo yn ddwys, ac wylu gyda gweddus a distaw dristwch, yr hyn oedd yn hynod darawiadol a thyner. Llywodraethodd Tupia ei hun yng ngwyneb yr olygfa, gydag ymdrech sefydlog, a phenderfyniad canmoladwy. Er hynny, deallwyd ei fod yn wylu, a bu ei ymdrech i geisio cuddio ei ddagrau yn foddion effeithiol i godi ei barch yn uchel yng ngolwg cwmni'r llong.

IFOR. Faint fuont ar yr ynys i gyd?

TAD. Tymor arosiad ein mordeithwyr yn Otaheite oedd tri mis. Treuliwyd y rhan fwyaf o'r amser hwnnw yn y modd mwyaf caredig a chyfeirgar gyda'r brodorion, ac mewn cyfnewidiad o wasanaeth buddiol y'r naill i'r llall. Gwnaeth yr ychydig wrth-darawiadau a gymerodd le rhyngddynt i'w blin i'r capten a'i gydfoneddwyr. Gwnaethant bob th oedd yn eu gallu er rhwystro

pethau anymunol i godi eu pennau; ac hefyd i wastadhau popeth anhyfryd a ddigwyddodd, a hynny yn y modd doethaf. Prif achosion yr ymrafaelion a gymerodd le rhyngddynt oedd y lladradau yr oedd yr ynyswyr mor dueddol iddynt. Nis gellid atal effeithiau y dueddfryd honno bob amser, na'u goddef. Yr oedd yn hapus iawn na ddigwyddodd ond un amgylchiad ag a fu yn achos o gollu bywyd. Oherwydd hynny, cyfarwyddodd y capten ei ddynion i gymeryd y mesurau mwyaf effeithiol er gochelyd damwain o'r fath yn y dyfodol. Nid oedd dim yn agosach at galon Capten Cook na'r dymuniad am i'w ddynion arfer y gofal mwyaf rhag trochi eu dwylaw yng ngwaed y brodorion. Yr oedd y fasnach a'r ynyswyr, mewn angenrheidiau a nwyddau, yn bennaf o dan lywodraethiad Mr. Banks, a chariwyd y drafodaeth ymlaen mor reolaidd ag y gwneir mewn unrhyw farchnadfa yn Ewrob. Bwyellau, hoelion o wahanol fathau, gwydr-ddrychau, cyllill, a gleiniau oedd dewisol bethau yrynyswyr. Gallesid pwrcau popeth angenrheidiol a feddent er diwallu ein morwyr. Yr oeddynt yn hoff o lieiniau teg. Ond gallai y Sais gael yn gyfnewid am fwyell o bris hanner coron fwy o werth nag am gyfartal bris ugain swllt o lian. Gwyro oddiar y cynllun bwriadedig, wrth gychwyn yr hanes, fyddai manylu ar bopeth a ddenodd sylw prif ddynion cwmni y llong atynt. Digon yw dweyd iddynt gasglu ystorfa fawr o wybodaeth fuddiol; ac yn neilltuoel mewn cysylltiad â morwriaeth, cyn ymadael â moroedd mawr y deheu.

*Dinas.*

WILLIAM JAMES.

### BEDD OWEN.

OWEN ROBERTS, anwyl blentyn John a Jane Alice Roberts, Penybryn, Carmel, yr hwn a fu farw Ionawr 14, 1903, ac a gladdwyd ym Mynwent Llwyn Du, Pen y Groes, Ionawr 17.

I'r Llwyn Du, er lloned y wedd,—gwelwch,  
Fe'm galwyd i'r dyfn-fedd,  
Un garech yma'n gorwedd,  
Eich Owen bach yn y bedd.

*Nantlle.*

G. W. F.


### GWEDDI PLENTYN.

Iesu anwyl, gwrando'm cri  
Am gael gweld dy wyneb eu;  
Gwrando arnaf, Iesu mawr,  
Tra yn gweddio yma 'n awr.

Dyro imi bethau gwell  
Nag sydd yn yr India bell;  
Dyro imi, Iesu mawr,  
Y wjr grefydd ar y llawr.

*Ystrad Meurig.*

AP BETHM.



### DIFFYG AR Y LLEUAD.

**A** WNEWCH chwi godi eich golygon tua gwlad y ser y mis hwn? Os mynnwch, cewch weled tri o ymddangosiadau dyddorol iawn. Byddai'n werth i ni ddysgu rhywbeth am danynt.

Hoffa pawb edrych ar y lleuad, a chredai rhai fod yno ddyd; ond nid felly. Feallai yr arhoswch ar eich traed hyd hanner nos noson llawn lloer, yr 11eg. Y nos yw dydd y seryddwr. Rhaid i ninnau, os am weled rhai o ryfeddodau y wlad bell honno, aberthu ychydig er mwyn hynny. Os bydd y wybren fry yn glir, ymddengys y lleuad fel pe wedi colli darn anferth ar un ochr. Dywedir fod diffyg arni, am yr ymddengys yn ddiffygiol.

Ond nid yw felly. Yr un yw y lleuad heno a mil o flynyddoedd yn ol. Nid oes diffyg ynddi byth yn bod ond i'n golwg ni. A gawn ni chwilio beth yw yr achos o hyn?

Cofier fod diffyg ar y lleuad yn ymddibynnu ar y ffaith syml hon,— sef fod pob corff tywyll, pan ei rhoir mewn goleuni, yn tafu cysgod o'r tu ol. Gan fod ein daear ni yn gorff tywyll, rhaid iddi hithau dafu cysgod mawr ar yr ochr na byddo yr haul. Teithia y lleuad mewn cylch o amgylch y ddaear, yn union megis ag y gwna y ddaear o gylch yr haul. Nid yw diffyg ar y lleuad yn ddim llai nag ym-suddiad y lleuad megys o'r golwg yng nghysgod anferth y ddaear. Os tefir cysgod gan y ddaear, ac os try y lleuad o amgylch y

ddaear, ac os try hi ar yr un *level* a'r ddaear, yna dylai yr haul, a'r ddaear, a'r lleuad fod ar yr un llinell. Pryd hyn bydd diffyg ar y lleuad; diflanna yng nghysgod y ddaear.

Wrth gwrs, nid oes modd cael diffyg ar y lleuad onibai iddi fod yn llawn lloer. Ni cheir ddiffyg byth ar y lleuad newydd. Paham? O herwydd ei bod y pryd hynny cydrhwng yr haul a'r ddaear, ac nid yn y cysgod sydd yr ochr arall i'r ddaear. Dyma paham nad yw y lleuad newydd yn weledig yn y nos. Machluda gyda'r haul yn wastad. Rhaid i ddiffyg ar y lleuad ddigwydd pan fydd y ddaear yn myned rhwng yr haul a'r lleuad; canys tefir cysgod y ddaear y pryd hynny ar y lleuad.

Gan fod y lleuad yn troi o gylch y ddaear mewn mis, a chan fod i'r ddaear gysgod, oni ddylasem gael diffyg ar y lleuad bob mis? Dylasem, a chaniatau fod y lleuad yn troi ar yr un *level* a'r ddaear. Dywedais ei bod, ond nid yw felly mewn gwirionedd. Dyma paham na cheir un bob mis. Beth yw y rheswm na cheir un bob mis? Oherwydd nad yw chwilygylch (*orbit*) y lleuad yn cyd-daro â gwastad chwilygylch y ddaear; ond saif un hanner o hono ynghylch pum gradd uwchlaw iddo, ac y mae yr hanner arall gymaint a hynny islaw iddo, wrth gwrs, oddigerth digwydd i'r llawn lloer, yn neu ger un o'r trawsglymau (*nodes*),—hynny yw, yn neu ger un o'r manau lle mae y ddau chwilygylch yn croesi eu gilydd,—oherwydd hyn aiff y lleuad heibio uwchlaw cysgod y ddaear, neu islaw iddo. Ac ar hynny o bryd ni bydd diffyg arni. Ni cheir yr un diffyg os bydd y lleuad, yr amser y bo hi'n llawn, fwy na deuddeg gradd oddi-wrth y trawsglwm. Pan y bo hi o fewn y pellter hwnnw, fe fydd y diffyg yn "rhannol" neu yn "gyflawn," yn ol tel y byddo rhan neu yr oll o wyneb y lleuad yn guddiedig yng nghysgod y ddaear.

Diffyg rhannol a welir y mis hwn, am nad yw y lleuad yn ym-guddio yn gwbl oll yng nghysgod y ddaear. Ymddengys y lleuad y pryd hyn megis ag y gwna yn y darlun.

Yn awr, ceir fod cysgod y ddaear, ym mhob diffyg, yn bigfain neu yn grwn, yr hyn a ddengys i ni fod y corff a'i teifi yn grwn ei ffurf. Gwelir hyn yn y darlun, sef darn o gysgod conaid y ddaear ar wyneb y lleuad. Dyma un o'r prawfion a grybwyllir er profi ffurf gron y ddaear.

Os ewch allan drachefn ymhen dwy neu dair noson ar ol y diffyg, neu cyn hynny, ac os edrychwch i'r dwyrain (yn fwy i'r deheu os rhywbeth), a hynny tua deg o'r gloch, tynnir ein sylw yn arbennig at un seren a ymddengys yn goch ei lliw. Ni welwyd hi yna o'r blaen. Nid seren yw; planed yw, sef Mawrth (*Mars*). Lliw coch sy'n nodedig o berthynol iddi hi; oddiwrth hyn gellir ei hadnabod ar unwaith. Soniwyd am dani dro yn ol.

Yn is i lawr ychydig gwelwch y seren brydferth yn llaw y Forwyn a elwir *Spica Virginis* (Twysen y Forwyn). Haul yw hon, sy'n llawer mwy na'n haul ni.

Ymhen dwy awr wedi machludiad haul, ac yn union yn y lle y machludodd yn y gorllewin draw, er ein syndod gwelwn seren dlos yn fflachio. "Seren y gweithiwr" y gelwir hi, neu y "seren hwyr-ol." Ymddengys yn hwyrol am ei bod ar yr ochr ddwyreiniol i'r haul, ac yn machludo ar ei ol. Pan fo hi ar yr ochr orllewinol, cyfyd o flaen yr haul, ac, wrth gwrs, machluda o'i flaen. Gelwir hi y pryd hynny y "seren fore." Planed yw, sef Gwener (*Venus*). Cofiwch, wrth syllu arni, ei bod yn gymaint a'n daear ni, ond yn agosach i'r haul. Nid yw symudiadau y bydoedd uwchben yn an-hawdd i'w deall, fel y tybia rhai; ond eu gwyllo yn fanwl a di-ildio deuant yn hawdd. Beth yw gwerth darllen heb feddwl?

SIGMA.

### BLODAU.

**P**WY erioed na charodd flodau? Mae rhyw fyd o swyn yn perthyn i'r gair. Onid hyfryd yw gweled gwynder y dolydd wedi eu gwisgo â "llygaid y dydd." Edrychant fel plu eira wedi disgyn ar y ddaear.

A ddarfu i chwi erioed sylwi ar lesni "bwtsias y gog?" Neu a glywsoch chwi ryw si ynddynt pan a'r awel drostynt? Swn clychau arian yn dweyd fod yr haf yn dyfod ydyw. Mae rhai traddodiadau am y blodau yn hynod diws, wele un Germanaidd am y blodyn cof (*forget me not*).

Wedi i Dduw orffen creu yr holl flodau, galwodd hwynt ato, a rhoddodd iddynt eu henwau. Gorrffennodd, a throdd ymaith, pan glywodd lais bychan yn galw,—“O cofia fi,” “O cofia fi.” Yna edrychodd Duw i lawr ar y ffrwd fechan oedd wrth ei draed, a gwelodd yno flodeuyn bychan yn galw yn dosturiol arno,—“O cofia fi.” Yr oedd ei liw yn berffaith wyn. Gwenodd Duw, a chymerodd liw o'r awyr las ddigwmwl. Grymmodd i lawr, a phaentiodd y blodeuyn bychan gydag ef, a galwodd ef yn “Cofia fi.”

Mor llwm fuasai ein daear heb flodau. Ond cofiodd Duw am danom yn ei gariad trwy addurno llwybrau y daith yn y byd hwn â gemau natur.

*Rhosgadfan.*

L. E. WILLIAMS.

---

☞ Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLLEYN, Y BALA.

---

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBORGAN.



## AT Y PLANT.



**M**ISS GWLADYS MARY MORRIS, merch y Parch. R. R Morris, Blaenau Ffestiniog, enillodd gadair Eisteddfod Gadeiriol Myfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru. Dyma'r ail dro, mi a gredaf, yn hanes llenyddiaeth Cymru, i ferch ennill cadair mewn eisteddfod. Cofia rhai o'm darllenwyr mai Miss Morris oedd seled cyntaf Urdd y Delyn. Pwy wŷr faint o enwogrwydd enillir gan blant yr Urdd hon? Y maent yn awr yn tynnu at ddwy fil o nifer.

Yn y rhifyn diweddar y mae dau ddarlun i egluro diwydiannau Cymru, sef cludo. Yr hen ddull oedd cerbyd a cheffylau,—ceir darlun i egluro y dull gwlad hwn o gyffiniau Ceredigion a Phentfro. Y dull newydd yw ffordd halarn a llong ager; rhoddir darlun o gwrr o orsaf Aberdyfi i egluro hwn. Yr oedd mastiau agerlong i fod yn y golwg dros wŷr y ffordd halarn a'r morwyr, ond yr oeddynt yn rhy wan i ymddangos yn y darlun.

E. E. Nid oes un o fedalau Urdd y Delyn yn aros. Ni wneir rhai ereill yr un fath a'r mil cyntaf. Yr oeddynt o gynlluniad cerflunydd enwog iawn, a chwyd eu gwerth bob blwyddyn; felly cadwed eu perchenogion hwy. Meddyliaf am eich awgrym i gael rheolau Urdd y Delyn ar gerdyn i'w rhoddi ar fur ystafell.

Yn y rhifyn nesaf ceir y gyntaf o ysgrifau swynol ar olygfeydd gwlad y Beibl, gan y Parch. W. O. Powel, Cysgod y Mynydd, Aberaman.

Wele ddarlun o rai o blant ereill Corris yn yr un rhifyn a phlant Carno. Owyna'r lleill, mi glywais, na ddaeth eu llun allan llawn cystled ag y disgwylent. Yn fy nghopi i, nid oes bosibl iddynt fod yn well.

SAM. Gwelwch fy marn am y for-forwyn yn y rhifyn hwn. Yr wyf yn sicr nad wyf yn camgymeryd.

Y mae adeg dadorchuddio cofgolofn T. E. Ellis yn prysur neshau. Da gennyf gael cydnabod un swm eto, sef

POBL ARDAL LLANRUG, ARFON .. £1:2:0

Casglwyd y swm hwn gan ddwy chwaer garedig, Miss S. a Miss L. G. Roberts, Fron Helyg, Llanrug. Pwy ddilyna eu hesiampl? A gawn ni help ardaloedd ereill i ddadorchuddio'r gofgolofn brydfferth hon heb ddyled arni? Pan welir hi ar Stryd Fawr y Bala, a gaf fi le i ddweyd fod plant Cymru, y rhaf y gwnaeth T. E. Ellis gymaint er mwyn eu haddysg, wedi gwneyd eu goreu i dalu am dani?



DIWYDIANNAU CYMRU. Y. MALU'E GRAIG.



## CYMRU'R PLANT.

Cyf. XII.

MAI, 1903.

RHIF 137.

### CROESAW'R WENNOL.

**G**YDA mis Mai daw'r wennol yn ol i'w hen nyth yng Nghymru. Gadawodd ni ddiwedd mis Medi, a bu'n bwrw'r gauaf ymhell iawn, mewn rhyw wlad gynnes, yn India hwyrach, neu Ceylon. Cafodd daith hir yn ol, dros toroedd ac anialdiroedd. Yr ydym yn falch iawn o'i gweled yn ol, a chlywed ei thrydar egniol dan y bondo. Adgofia ni fod yr haf euraidd ar ddechreu gwenu arnom. "Beth welaist ti, wennol fach, yn y gauaf? Ai myrtwydd ac olewydd yr Eidal? Ai palmwydd Affrig? Ai blodau Asia bell?" Ond ni chawn yn ateb ond "Twi-twi-twi," llawn o lawenydd a serch.

Aden y wennol yw ei hynodrwydd; ar ei haden y mae dlysaf. A welwch chwi mor gain yw ei symudiad wrth ryw lithro drwy'r awyr? Ar ei haden y bwyty. Ar ei haden y cymer lymaid o ddŵr. A dacw hi'n ymdrochi yn y llyn wrth ehedeg; planna dan y dwfr fel

pe na buasai'r llyn ond rhan o'r awyr. Ar ei haden y mae'r wennol bron o hyd, gellir dweyd ei bod yn saethu drwy'r awyr am ddeng awr bob dydd o'i bywyd, yn ol cyflymder o filltir y funud. Rhyw ddeng mlynedd yw ei hoes. Felly, teithia yn ystod ei bywyd dros ddwy filiwn o filltiroedd. Gallasai deithio oddiamgylch y byd dros bedwar ugain o weithiau.

Mân drychfilod yr awyr yw ei bwyd, a gwna wasanaeth amhrisiadwy i ddyn drwy eu difa. Dodwa ym Mai. Clai yw y nyth, a *lining* o fanblu. Rhyw bedwar neu chwech fydd o wyau; a chyn hir ceir gweld y cywion yn edrych dros y nyth.

"Y neb a ddinistrio wennol, mae'n ddigon creulon i ladd ei fam ei hun," ebe dihareb Yspaenaidd. Pob croeso iti i'n mysg, wennol fach. Ni wnei ond daioni. Cei lonydd yn dy hen nyth dan y bondo. Mâg dy gywion heb ofni dim.

---

### CYNGHERDD YR ADAR.

**D**AETH amser i'r adar i ganu,  
Bwrllyma melodedd drwy'r llwyn;  
Mae lifrai y masarn yn glasu,  
Wrth glywed y fronfraith mor fwyn;  
Yn hwylllog a'r hedydd o'r ddaear  
I'r nefoedd dan ganu ta ta;  
Wrth wledda yng nghyngerdd yr adar,  
Cawn felus lawenydd, ha ha.

Daeth amser i'r adar i ganu,  
Gorfoledd ym mhobman y sydd;  
A gwrando'n eu drysau dan wenu,  
Mae briall a llygaid y dydd;  
Swyn tenor aur-bibell addolgar  
Y fwyalch bereiddia y chwa;  
Wrth wledda yng nghyngerdd yr adar  
Cawn felus lawenydd, ha ha.

Daeth amser i'r adar i ganu,  
Addola'r dryw wisgoedd y drain;  
Mae'r wennol dan dwtian yn denu  
Yr hafddydd i'r bryniau yn gain;  
Yng nghwmni'r telynau mwyn, hawddgar,  
Mae'r gwcow a'i swynol do la;  
Wrth wledda yng nghyngerdd yr adar,  
Cawn felus lawenydd, ha ha.

*Y Baia.*

RICHARD AB HUGH.

---

### TLYSNI YSGADAN.

DYWED un naturiaethwr enwog nad oes bosibl cael pysgodyn prydfferthach na'r penhwygyn neu'r ysgadenyn (*herring*), pan fydd yn noŷo yn ei elfen. "Mae'n ambeus gennyf a allai yr un o lodesi Brighton roi prydfferthach peth ar ei het nag ysgadenyn byw. Y mae yr ysgadan sydd yn y Brighton Aquarium yn berffaith dlws. Wrth iddynt noŷo yn ol a blaen, gloewa a disgleiria eu cen tlws, yn yllwiau cymysgedig o aur, arian, a rhuddem. Yr wyf yn oredu y buasai yn anodd hyd yn oed i Rolfe,—er mai efe yw Landseer y pysgod,—baentio dariun ysgadenyn byw."

## YCHWANEG ETO AM Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

V. YR AIL "SURPRISE."

**A**R ol i John edmygu'r *bicycle* fel yr oeddynt yn dymuno, cydiodd y ddau ynddo drachefn, a meddai Willie,—

"Mae ginon ni syrpreis arall i chi, Johnnie. Un bob un, wyddoch, erbyn ych birthde (yr oeddynt yn dra gofalus o'r eglurhad yma), yn toes Bob?"

"Oes, dowch mewn munud. Yn y ty mae o."

Rhoddodd ty nghalon lam, a dilynais hwynt yn llawn dychmygion ofnus. Cyn cyrraedd y ty gadawodd Willie ni, a charlamodd o'n blaenau. Arweinwyd ni gan Bobbie i fyny'r grisiau, at ddrws *study* John. Yr oedd yn amlwg oddiwrth y swn ddeuai o'r lle hwnnw fod Willie yno yn barod. Ac felly yr oedd. Safai wrth y bwrdd crwn ar ganol y llawr, ar yr hwn yr oedd wedi gosod pum cyfrol yn gylch taclus, ac wedi eu hagog bob un ar y ddalen gyntaf. Yr oedd edrychiad boddhaus ar ei wyneb, a meddai,—

"Welwch, Johnnie, be 'dw i wedi 'neyd i'ch llyfra chi." Gyda llaw, "Modern Painters" oedd y cyfrolau, yr anrheg oedd John wedi dderbyn wrth ymadael o Nantgwyn. Yr oedd y ffaith wedi ei harwyddo ar y wyneb ddalen; ac oddimewn i glawr pob un, yn gwynebu'r ddalen, yr oedd Willie wedi printio gyda paent o'i *paint box* yr hen rigwm hwnnw,— "John Jones (neu beth bynnag fyddo'r enw, John Hughes oedd o flaen fy llygaid yn y fan hon) is my name, Wales is my nation," ac felly ymlaen. Yr oedd y llythrennod yn freision, ac wrth gwrs yn anghelyfydd i'r eithaf; yn aml liwiog, hefyd, yn goch a glâs, yn wyrdd a melyn, a phob lliw arall yn y bocs, wedi eu cymysgu heb reol yn y byd. Edrychais ar John, ac edrychodd yntau arnaf finnu, a meddyliais y buaswn yn cael fy nymuniad o geryddu'r ddau fel yr oeddynt yn haeddu. Cyn i mi gael dweyd gair, dechreuodd Willie egluro ei amheuaeth pa un ai Mr. Hughes, ai John, ai Johnnie Hughes oedd mwyaf priodol i'w osod i lawr, a'u bod wedi dod o'r dyryswech drwy roddi'r enw mewn tri yn Johnnie, a gwneyd y gwahaniaeth crybwyllledig yn y ddau arall. Goffennodd gyda'r geiriau,—

"A mi fasa ni wedi gneyd ych llyfra chi i gyd ry fath, Johnnie; ond fedra ni ddim estyn y llyfra mawr, a mae'r lleill rhy fychan. Ond os 'newch chi estyn rhai acw inni, mi 'na ni eto."

Troais ato gyda'r bwriad o wneyd iddo sylweddoli'r niwed oedd wedi wneyd, pan y synnwyd fi gan John yn torri allan i chwerthin yn eithafol. Gofynnais iddo braidd yn chwerw beth oedd yn peri'r

fath ddigrifwch iddo; ac ychwanegais fy mod i'n gweled y peth ymhell iawn o fod yn destyn chwerthin. A'i ateb oedd,—

"Meddwl yr oeddwn am yr hen rigwm yna yn cael ei ysgrifennu yn y fath lyfrau." Ac ail ddechreuodd chwerthin. Ond yr oeddwn yn rhy ddig i weled dim digrifwch o gwbl yn y syniad. Edrychai'r ddau arnom braidd yn syn, ac yr oedd cwmwl ar eu gwynebaw. Gofynnodd Willie, mewn llais a swm dagrau ynddo,—

"Tyda chi ddim yn 'i licio nhw, Johnnie? Fi gwnaeth nhw, a Bob y *bicycle*. A mi oddach chi'n licio hwnnw."

Meddiannodd John ei hun, a thynnodd y ddau ato, a meddai, fel y gallesid disgwyl,—

"Ydw yn 'i licio nhw'n iawn. Mae nhw'n *grand*."

Gloewodd eu gwynebaw wrth glywed hyn, a gotynnodd Bobbie,—

"A 'rwan, Johnnie, 'newch chi estyn 'chwaneg o'r llyfra mawr 'na, gael i ni 'neyd nhw i gyd ry fath?"

Yr oeddwn yn disgwyl gweled John yn ufuddhau hyd 'nod i hyn, ond ei ateb oedd,—

"Na, mi 'dach chi wedi gweithio digon yr wythnos yma, ac welwch, mae hi am fod yn ddiwrnod braf. Mi awn i roi tro."

Tra yr oedd John yn gwneyd ei hun yn barod, ceisiais eu hargyhoeddi o'u beiau. Ond edrychasant arnaf yn y dull mwyaf anghredadwy. Yr oedd "Johnnie" wedi edmygu eu gwaith, ac wedi amlygu ei foddhad; a chan mai eu hamcan oedd plesio "Johnnie," nid oedd wnelo fi ddim â'r peth.

### I'W DDARLEN YN DDIFYFFR.

Ty Coch sydd ffarm yng ngwlad Canan y mae yr afon Iorrdonen yn rhedeg trwy gauau yr Hendre yr oedd bachgen a het silc am ei ben yr oedd pregethwr yn dyfod i'r capel yr oedd Jane mewn ffræ gyda'r bugail yr oedd ci yn rhedeg ar ol defaid yr oedd cwn gwelais i gamel yn ei lawm faintioli yn cael ei ferwi mewn crochan yr oedd darn cig hallt fydd popeth wedi rhoddi halen ynddo yn sefyll ar ei ben yr oedd post lamp sydd yn goleuo yn y nos y mae y lleuad yn crio yr oedd y baban yn y cwprdd yr oedd y gath yn torri llestri yr oedd Mary Jane sydd yn hoff o gysgu yn y nos y mae yn dywyll iawn yw dweyd y gwir mewn siop yr oedd dynes yn prynnu ceffyl yr oedd y ffarmwr coch ydyw y tân glas sydd liw ar y llo du y mae ysmotyn gwyn yw yr eira CYMRU'R PLANT sydd lyfr da a ffol yw y rhai nad ydynt yn ei ddarllen.

*Gwyndy, Ffestiniog.*

JOHNNY LLOYD.

## GWAITH RHEW.

**G**ALL pob dim yn y byd naturiol lefaru. Y cwestiwn mawr yw,—  
 A ydym ni yn deall eu hiaith? Ni fuasai y seryddwr gallu-  
 ocaf yn y byd heddyw yn gwybod nemawr o hanes y wlad uwchben,  
 onibae fod rhyw Kepler, Copernicus, neu Galileo wedi byw o'i  
 flaen. Oddiwrth hyn gallwn ymresymu a dywedyd fod pob ffrwyth  
 ymchwiliadau gwyddonol heddyw yn dibynnu ar y ffaith fod ym-  
 chwiliadau cyffelyb wedi cymeryd lle flynyddoedd lawer yn ol gan  
 ereill. Nid yw gwyddonwyr heddyw, er cymaint eu darganfydd-  
 iadau, ond megis yn gwastadhau llwybrau i ereill ddeuant yn y  
 dyfodol. Edrychant hwy yn ol yr adeg honno, a tharewir hwynt â  
 syndod wrth weled symlrywydd y dyfeisiadau. Pa sawl un sydd  
 heddyw, mewn unrhyw wlad ddysgedig, na chred fod y ddaear yn  
 troi o gylch yr haul? Eto, ni feiddiai neb gredu na dysgu hyn  
 ychydig ganrifoedd yn ol, y gwrthwyneb yn hollol ydoedd y syniad  
 y pryd hynny. Copernicus ydoedd y cyntaf i ddarganfod y gwir-  
 ionedd. Er hynny, ni wyddai ef sut na pham yr elai y ddaear o  
 gylch yr haul. Yr oedd eisiau rhyw Kepler i ddweyd mai mewn  
 cylch hirgrwn y teithiai y ddaear, ac nid hollol grwn. Ni wyddai  
 yntau, ychwaith, paham yr elai felly. Ymhell wedi hynny daeth  
 Newton. Efe ddywedodd paham yr a felly; efe ddatododd  
 rwymau y dirgelion, ac a roes i lawr y ddeddf fawr honno sy'n  
 cyrraedd o un pen i'r bydysawd i'r pen arall. Da y dywedodd y  
 bardd Pope am dano,—

“ Nature and Nature's laws lay hid in night;  
 God said, ' Let Newton be ; ' and all was light.” \*

'Roedd y doethion o'r dwyrain yn gwybod rhywbeth am y ser  
 uwchben; ond ni wyddent ddim o hanes y creigiau dan eu traed.  
 Dyma ddwy iaith ryfedd a dyddorol, gwerth ymdechu eu dysgu, —  
 iaith y ser, a iaith y ddaear. Mae seryddiaeth mor hen fel nas  
 gŵyr neb pwy a'i hastudiodd gyntaf. Naturiol i unrhyw un yn  
 gwyllo y praidd yng ngwledydd dwyreiniol, fyddai codi ei olygon  
 uwchben a dyalu beth, tybed, allent fod.

Seryddiaeth yw yr hynaf; Daeareg, neu iaith y creigiau, yw yr  
 ieuangaf. Sylwid ar y creigiau o amser Adda hyd ddechreu y  
 ganrif ddiweddaf, ond ni welwyd ynddynt ond creigiau. 'Roedd

\* “ Anian a deddfau anian oent  
 Gan lenni'r nos dan gudd;  
 ' Boed Newton, ' ebe Duw, a daeth  
 Yr oll yn oleu dydd.”



GALANAS Y BHRW.

gan y creigiau hanes rhyfedd i'w ddweyd wrthynt,—hanes y ddaear o dan eu traed, ond ni ddeallid yr iaith gan neb. Ni wyddent ddim am y cyfnewidiadau a'r bywydau rhyfedd fu ar ei gwyneb. Ni ddywedodd neb hanes y ddaear wrthynt, mae yr hanes yn seiliedig yn y graig dros byth. Y cwestiwn mawr yw, a ydym ni yn deall yr iaith. Tybiai yr hen bobl, a thybia llawer heddyw, fod y ddaear yn union heddyw fel yr oedd y dydd y crewyd hi. Gwyddoch chwi nad yw felly ar un cyfrif. Os ydych yn cofio hanes y garreg galch, gwyddoch am leoedd sydd heddyw uwchlaw y môr, eu bod un adeg ar ei waelod. Wrth y miliynau y cyfrifir y blynyddoedd aethant heibio er yr adeg honno. Ceisiwn ddysgu y tro hwn rywbeth am yr elfennau sy'n achosi'r cyfnewidiadau mawrion hyn. Gwelsom pa elfennau fu'n gweithio ar wyneb y ddaear yn yr amser fu, a'r gwaith a wnaed ganddynt, trwy edrych arnynt yn gweithio heddyw, ac ar y gwaith a wneir ganddynt. Yr un rhai yw'r elfennau o hyd; gelwir hwynt yr elfennau dinistr (*agents of denudation*). Hwynt hwy



fu'n torri y dyffrynnoedd yma, yn pantio crystyn y ddaear acw, ac yn chwythu creigiau toddedig o grombil y ddaear mewn lle arall.

Yr elfen fydd dan ein sylw y tro hwn fydd **RHEW**, a'r gwaith a wneir ganddo. Nid gwaith afonydd rhew a olygir, ond gwaith rhew yn yr un ystyr ag a olygir pan ddywedir fod pibellau dwfr wedi eu malurio gan rew y gauaf. Chwyddo pethau wnaiff gwres, ac wrth gwrs lleihau wnant dan oerni. Saif dwfr ymhlith y rhestr fawr sy'n lleihau dan oerni, gydag eithriad bychan. Ar yr eithriad bychan hwn y dibynna yr oll o'r gwaith a wneir gan rew. Pan ar fin rhewi, yn lle dal i leihau, chwydda y ddegded ran o'r oll yn fwy nag yr oedd o'r blaen. Felly, pe cymerwn ddeg peint o ddwfr a phe rhewid ef, cawsem un peint ar ddeg o rew. Felly, mae rhew yn ysgafnach na dwfr? Ydyw, a dyna paham y nofia ar ei wyneb. Yn awr, dyweder ein bod yn cau y dwfr mewn costrel ac yn ei rew, rhaid iddo chwyddo pan ar fin rhewi, ond nid oes le iddo os bydd y gostrel yn llawn. Rhaid iddi ildio, a thorrir hi'n chwillriw. Hyn gymer le mewn pibellau dwfr pan ddywedir fod y pibellau wedi eu torri pan yn meirioli. Torwyd hwynt pan yn rhewi, ni welwyd mo hynny hyd nes y dechreua feirioli.

Cymer hyn le ymysg creigiau y ddaear. Ar ol gwlawogydd llenwir y mân holltau sy'n rhedeg trwy yr oll o'r creigiau. Ar noson oer rewlyd chwydda y dwfr wrth rew, a theifl y graig o'i amgylch yn ddarnau dros y dibyn. A hyn ymlaen o oes i oes. Os oes arnoch eisiau amgyffred gwaith rhew, edrychwch ar y darlun. Gwelwch glogwyn ac olion gwaith rhew o'i gylch. Wrth edrych ar y darlun, rhaid cymeryd y safle o ba un y tynnwyd ef i ystyriaeth. Rhaid i chwi ddychmygu eich bod yn sefyll ar y cerrig, yna ymgyfyd y clogwyn draw yn unionsyth uwch eich pen. Wrth edrych ar y darlun, nid ymddengys cerdded ar hyd y cerrig yn waith anhawdd, tra mewn gwirionedd y mae bron yn amhosibl ar le mor serth. Ond yr hyn sydd yn bwysig i ni ei gofio yw, mai o'r graig draw y daeth y cerrig oll; darnau o honi ydynt. Yma gwelir gwaith mil o oesau, canys cyfrifir y cerrig anferth wrth y miloedd, a safant y naill ar y llall yn ansefydlog. Fe welir oddiwrth hyn gymaint yw gwaith elfen mor ddistadl a rhew, fel y dryllir mynyddau uchel y byd ganddo. Gwelir olion ei waith yn amlycach yn y gwledydd pell.

SIGMA.

---

 MEDDWL CHINA.

Pa le y ceisi i nefoedd? Nid yw yn uchel nac ymhell, ond yng nghalonnau dynion. SHAO KANG CHIEH.

Mae dilyn da fel dringo bryn; mae dilyn drwg fel cwmpo dros glogwyn.

DIAREB SHANSI.

## DIGRIFION FY NHAID.

GAN DAID.

## II. YR HEN BETHAU.

**P**AN y byddai un o'm chwirydd, oedd yn faban, yn ddrwg ei hwyl, cymerai fy nhaid hi ar ei lin, a chanai, gan ysgwyd ei ben,—

“ Reiar ro, reiar ro,  
Lladd y fuwch a gwerthu'r llo;  
Mynd i Lundain i roi tro,  
Dyna ddiwedd y reiar ro.”

Unwaith, mewn ymddiddan, adroddai hanes y dull oedd ganddynt yn yr hen hen amser i fyned a gwartheg ac anifeiliaid ereill dros Afon Menai, o Arfon i Fôn, ac o Fôn i Arfon, pryd nad oedd yr un bād wedi ei gyfaddasu i'r pwrpas. Gorfodid yr anifeiliaid dru in, trwy eu curo yn greulawn, i nosio tros y cultor neu fodd, a'u hym-lidwyr mewn cwch bychan ar eu holau. Ond mewn adeg ymhellach ymlaen adeiladwyd ysgraff i'r perwyl. Fe ddywed un awdwr o'r enw Dafydd Tomos\* mewn cân, sydd i'w gwled mewn hen lyfr o'r enw “Corff y Gainc,” fel hyn,—

“ Y pumed dydd o Ragfyr  
Rhyw farwol gŵr a fu,  
Chwe deg ond chwech o ddyinion,  
Fel hyn mae'r son, ond dwys yw'r dôn,  
A foddodd, rhaid cyfadde,  
Wrth fynd tros y Fenai i Fôn.”

Hynny oedd Rhagfyr 5, 1785; ymddengys oddiwrth hynyna y bu i'r ysgraff suddo yn nyfroedd y Fenai. Ond ymlaen yn yr ymddiddan, dywedai fy nhad, tra'n prysur naddu gwadn clocsen,—

“ Mae pethau wedi newid llawer erbyn hyn. Mae llongau wedi eu hadeiladu i bob pwrpas, a llawer ohonynt yn haiarn.”

“ Haiarn i ti'n wir,” meddai taid, “ beth sydd ar y dyn, deudwch?”

“ Ie, O ie,” meddai fy nhad eilwaith.

“ Taw'r penbwl flôl a gwirioni; pe tynnet ti y fwyall yna o'i throed a'i thafu i lyn y Sarnau, wyt ti'n meddwl y nosia hi? Ni chlywais i y fath ffwlbr i o ben neb erioed, gwneyd llongau o haiarn yn wir.”

\* Dafydd Ddu Eryri. Bu canu mawr ar y gerdd trwy Ogledd Cymru ar y pryd, ac ymhell wedyn.

Fel yr awgrymais, fe fyddai fy nhaid yn ofalus iawn ynghylch y tanwydd, yn eithriadol felly am y celfi ddefnyddid gan fy mam i oleuo y tân yn y bore, sef y garreg dân, y ddurell, a'r blwch tendar, a'r dylwyfau, y rhai hyn a gedwid ganddo ar astell yn y simddai. Pan y byddai fy nhaid yn myned i wneyd dylwyfau, fe fyddai Dic a minnau yn nesu am yr agosaf ato i weini rhyw gynorthwy iddo, er mwyn cael benthig ei gyllell wedi iddo orffen. Yr unig orchwyl otynnid i ni ei wneyd oedd symud y ganwyll. Nid oedd y pryd hynny ond canwyllau brwyn, a buan y bwytai y fflam y rhai hynny. fel yr oedd yn ofynnol symud a symud yn barhaus. Un tro, wrth syllu ar y gyllell mewn llawn awydd cael gafael ynndi, anghofiais y symud; ac yna aeth yr hen ŵr yn holics, a dywedai,—

“ Os oes dyhirach un na Harri,  
Ffowc Llanllyfni ydi'r llall.”

I wneyd dylwyfau, byddai ganddo ddernyn o bren ffawydd wedi ei sychu yn dda oddeutu chwe modfedd o hyd; yna fe fyddai yn hollti hwnnw yn asglod teneuon; wedi hynny fe fyddai yn toddi ychydig frwmstan ar fath o lwy haiarn, ac yn y brwmstan toddedig fe wlychai flaen pob dylwyfyn yn ofalus hyd y diweddaf. Yna dodai hwy yn swp parod i'w defnyddio, wesyl un, yn y modd mwyaſ cynnil. Estyn y pethau hyn oddiar yr astell a fyddai y peth cyntaf i'w wneyd yn y bore, ynghyd â'r celfi ereill, sef y ddurell (*steel*) a'r garreg dân, a'r blwch tendar. Fe fyddai y ddurell o ffurf a maintioli pedol asyn, a'r garreg dân o faintioli pytaten gymhedrol, a'r blwch tendar o faintioli picyn ffarmwr. Ei gynhwysiad, sef y tendar, a geid trwy losgi hen gadachau cotwm, nes y byddent yn lludw, a diangai ymaith o flaen yr anadliad leiaf o wynt os na ddo did y cauad arno yn ddiatreg.

Er mwyn cael fflam, tarewid y ddurell yn y garreg dân uwch ben y blwch tendar wedi ei agor, nes yr elai gwreichionen i lynu yn y sylwedd du. Yna dodid y dylwyfyn, a'r brwmstan ar ei flaen, i gyffwrdd â'r wreichionen, nes yr enynnai fflam ar unwaith.

'Rwy'n cofio'n dda y diwrnod y daeth y blwch *matches* cyntaf erioed i'm hen gartref. A mawr syllu oedd arno,—blwch crwn wedi ei durnio o un pren, a thua dau ddwsin o'r *matches* ynndo, ac ychydig dyfod wedi ei lynu wrth ei waelod o'r tu allan i danio y fatsen. Costiai ddwy geiniog. Prin iawn yr oedd fy nhaid yn credu ei fod yn rhagori ar yr eiddo ef, ac edrychai arno i raddau yn gilwgus. Ond, fodd bynnag, rhoddi yr hen gelfi cyntefig o'r neilltu a wnaed. Y maent i'w gweled eto, yn delmau coffadwr-iaethol am yr hen hen amser gynt.

**CYMRU'R BARDD.**

**ROMLECHAU** Cymru hynod  
Adroddant hanes cu,  
Fel hen allorau hygloed  
I grefydd Cymru fu.

Bu **CEWRI** Cymru enwog  
A'u gwaed yn gwriddo'u cledd,  
Wrth geisio cadw rhyddid  
O fin angeuol fedd.

**CASTELLI** cedyrn Cymru  
Sydd olion dwylaw brâd,  
Gelynicion fu'n gorchfygu  
Y Cymry yn eu gwlad.

**CARTREPI** dedwydd Cymru,  
Gorseddau mawl a chân;  
Allorau Cymry heddyw  
Hanfodion Cymru lân.

R. EUROG JONES.

**BORE BYWYD.**

**I** HUDOL fore bywyd nid oes un gofid câs,  
Na phryder swrth i'w fino, ond pleser per ei flas;  
Mae deigr yn ddiweidrwydd—yn cario'r cur i gyd,  
Llawenydd fel brenhines wen sy'n llanw 'i oriau hud.

Mae llonder a dedwyddwch yng nghol y bore prîd,  
Mae gobaith fel enfysau'r nef, yn tafu siriol wrîd;  
Mae brwydrau celyd bywyd—i lygaid bore oes—  
Y dlws ddarluniau cysur gwiw, heb rith un awel groes.

Boddlonrwydd ar ei gorsedd, chwareuon ar eu rhawd,  
Sydd yng nghyffiniau bore oes—heb un trigiannydd tlawd;  
Rhyw wanwyn gwyrddlas ydyw yn llawn o gysur gwiw,  
A'r meddwl fel aderyn cain yn hedeg uwch y llyw.

*Blaenau Ffestiniog.*

PERORFRYN.

## HEN OFERGOELION.

## III. RHEIBO ETO.\*

**N**ID yn unig y ddynes y soniais am dani y tro diweddaf oedd yn feddiannol ar y gallu i reibo yn y dref hon. Yr oedd un arall yn byw y tu allan i'r dref, mewn bwthyn bychan to gwellt ar ochr mynydd.

Heb fod ymhell o'r bwthyn yr oedd ffermdŷ, yn yr hon yr oedd fy mam-gu yn forwyn. Digwyddodd y pethau yr wyf yn myned i son am danynt yn y fferm pan oedd hi yno.

Yr oedd ar y ddynes eisiau mochyn bach i'w fagu, fel y mae yn arteriad gan y rhan fwyaf o bobl y ffordd hon, ac yr oedd wedi clywed fod hwch newydd ddod a moch bach yn y fferm. Aeth yno i ofyn am un; ond ni chafodd ef, oherwydd yr oedd y ffermwr eisiau eu magu ei hun, ond addawodd un iddi o'r dorraid nesaf.

Ni ddywedodd y ddynes ddim yn y byd. Aeth i'r ty, a bu yno am y bore, fel y byddai yn arfer pan elai yno. Wedi cael cinio aeth oddi yno tua chartref.

Yn y prydawn, cymerodd y forwyn fwyd i'r moch fel arfer. Pan ddaeth at y twlc, gwelai y moch yn dawnsio, yn sefyll ar eu pennau, ac yn gwneyd pob math o drician bron. Ni wnaent edrych ar y bwyd, er holl ymdrechion y forwyn. Rhedodd y forwyn yn ei hol i'r ty, a dywedodd wrth ei meist'r a'i meistres fod rhywbeth allan o le ar y moch. Aeth y ffermwr a'r wraig allan i'w gweled, a dyna lle'r oeddynt, fel y dywedodd y forwyn. Penderfynwyd ar unwaith fod y ddynes wedi rheibo y moch. Chwillwyd am yr un goreu oedd yno, a dygwyd ef i'r ddynes. Aeth y meist'r âg ef ei hun i mewn i dŷ y ddynes, rhoddodd ef ar y llawr a dyna y mochyn yn dechreu dawnsio drachefn.

Dywedodd y dyn wrth y ddynes, wrth ei weled yn prancio fel o'r blaen,—

“Weli di? Y mae arnaf ofn fod rhywbeth allan o le ar y mochyn.”

“Nag oes, nag oes,” meddai hithau, “y mae y mochyn bach yn iawn.” A rhoddodd fwyd o'i flaen. Rhedodd y mochyn at y bwyd ar unwaith, a bwytaodd ef yn awchus. Aeth y dyn gartre, ac adroddodd pa fodd yr oedd pethau wedi digwydd yn nhŷ y ddynes. Wedi bod yn siarad am ychydig amser, aeth i edrych am

---

\* Wele eto dwysged o hen goelion fu'n destyn pob siarad mewn plwyf, am wythnos o lefaf, genhedlaeth neu ddwy yn ol. Gwel y meddylgar fod a fynno dychymyg lawer iawn â'r dirgelwch.

y moch ereill. Er ei syndod, yr oeddynt oll yn dawel ac yn bwyta bwyd fel o'r blaen.

Dro arall, nid oedd gan y ddynes ddim ymenyn yn y ty. Aeth i geisio peth i'r un ffermdŷ eto. Fel yr oedd yn digwydd bod, nid oedd ganddynt hwythau beth, a dywedasant hynny wrth y ddynes, ond y byddent yn corddi drannoeth. Ni wnai hi eu credu hwy. Yr oedd yn meddwl eu bod yn ceisio ei thwylo. Wedi iddi weled na chawsai beth, aeth tuag yn ol, gartre. Ymadawodd â hwy ar y telerau mwyaf heddychol. Drannoeth, aeth pobl y ffermdy i gorddi. Ond wedi troi a throi y fuddai, nid oedd yr ymenyn yn dod o gwbl. Yr oedd ychydig o friwsion mân o ymenyn i'w weled ar hyd wyneb y llaeth. Bu raid tafu y cwbl i'r domen y tro hwnnw, oherwydd yr oeddynt yn credu yn bendant fod y ddynes wedi ei reibo; ac os y byddai i rai o'r anifeiliaid ei yfed, buasai rhywbeth yn sicr o ddigwydd iddynt. Ymhen dau neu dri diwrnod wedi hyn daeth sipiones heibio i ddrws ty y fferm, a gofynnodd am rywbeth i fwyta. Rhoddwyd iddi fywd,—bara a llaeth,—a dywedodd y wraig wrthi fod yn ddrwg iawn ganddi nad oedd yno ymenyn i'w roddi iddi gyda'r bara, ac adroddodd wrthi sut yr oedd pethau wedi digwydd, a'i bod yn meddwl fod dynes oedd yn byw yn ymyl wedi rheibo yr hufen. Dywedodd y sipiones wrthi am grynhoi nifer o bigau drain yn barod erbyn y tro nesaf y byddent yn corddi, ac os byddai i'r un peth ddigwydd y tro hwn, am iddynt roddi cymaint o'r briwsion ymenyn a fyddai ar wyneb y llaeth mewn padell ffrio ar y tân, a phan y byddai yn ffrio yr oeddynt i'w bigo â'r drain.

Ymhen wythnos yr oeddynt yn corddi drachefn, a digwyddodd yr un peth eto. Casglwyd gymaint o'r ymenyn ag oedd ar wyneb y llaeth, a rhoddwyd ef yn y badell ffrio yn barod i'w roddi ar y tân. Dywedodd y wraig wrth ei gŵr am fyned a rhyw neges i'r ddynes. Nid oedd ef yn gwybod pa beth oedd yn mynd i ddigwydd. Cyn gynted ag yr aeth ef allan o'r ty, dyma y feistres a'r gweision yn dechreu ar eu gwaith o bigo yr ymenyn ar y tân.

Pan agorodd y gŵr ddrws bwthyn y ddynes, clywodd hi yn gwaeddi ac yn wban nes yr oedd yn drueni ei chlywed. Aeth i mewn, a dyna lle yr oedd yn neidio ar hyd y llawr. Gotynnodd y dyn iddi pa beth oedd y mater; ond y cwbl fedrai ddweyd wrtho oedd ei bod mewn poenau mawr. Ceisiodd y gŵr ei thawelu, ond nid oedd dim gwell. Yr oedd yn parhau i neidio yr un peth, os nad gwaeth nag o'r blaen.

O'r diwedd, rheddodd y gŵr gartref i ddweyd wrth y wraig am fyned yno, tra y byddai ef yn myned i 'mofyn am y meddyg.

Chwarddodd y feistres ar ei ben, a dywedodd wrtho beth oedd wedi cymeryd lle. Gorchmynnodd y gŵr iddi beidio gwneyd hynny byth wedi hynny. Ond ni bu achos iddynt i wneyd, oherwydd ni chawsont eu blino gan y ddynes byth wedyn. Wedi iddynt siarad am ychydig o amser, aethant eu dau gyda'u gilydd i edrych am y ddynes. Pan aethant i mewn i'r ty, cafwyd hi yn gorwedd yn dawel yn y gwely. Yr oedd yn hollol lonydd, a'r poenau wedi ei gadael yn llwyr.

E. ISLWYN EVANS.

## CANEUON PLANT RHOSTREFFAN.

I.

“**H**YLO, William Parry, mae'ch locsyn chwi'n wyn—  
Yw'r iechyd yn dal yn go lew?”  
“Mae f'iechyd i'n eitha; wyt titha yn iawn?—  
Yr eira fu'n dal ar fy mlew.”

II.

“Pwy sy'n byw yn Nhyddyn Canol,  
Yng Nhae Coch a Phen y Bryn?”  
“Hitia befo pwy 'di'r bobol,—  
Dos i gyfri Coed y Glyn.”

III.

“Mae dysgu ar sbondio,  
Ond arfer o hyd;  
Mi 'nillais i sbondar  
Am ddeud 'last i gyd.”

IV.

“I be ti'n crio, Ellis, a hitha'n ddechra ha?”  
“Mi syrthlais ar y 'ngwyneb wrth chwara sdidol da.”


V.

“Mae nadroedd Pendalar  
Fel barn, medda nhad;”  
“Ond barn ydyw nadroedd  
Ym mhob man drwy'r wlad.”  
“Dos adra, i gyboli,  
Wyt ti'n well na nhad?”

VI.

“A ddoi di i chwara cylchyn  
Ar hyd y lôn i lawr?”  
“Os rhoi di 'ledar codi'  
Wneiff godi'r Garreg Fawr?”

[A wnaiff plant Rhostryfan esbonio'r chwareuon a enwir yn y llinellau uchod?]



PLANT CYMRU. CLXXI. PLANT YSGOL Y BWRDD, CARNO.

*(Darlun gan G. Holdsworth, Hepworth.)*



## PLANT YSGOL Y BWRDD, CARNO.

**D**YMA ddarlun cywir iawn o adran o'r ysgol uchod. Gwelir Mr. Williams, yr Ysgolfeistr, ar y chwith, tua dwy lath o daldra. Y mae wedi bod yn ysgolfeistr ar yr ysgol hon am ddeng mlynedd ar hugain. Ymddengys felly na raid iddo wrth lythyllau canmoliaeth o gwbl. Nifer y plant sydd dan ei ofal yw o 130 i 140. Fe welir ei fod wedi rhoddi cychwyn i lawer to o blant Carno, ac y mae rhai ohonynt bron ym mhob gwlad dan haul.

Y mae Carno yn ardal fach ddymunol iawn yng nghesol y mynyddoedd yma, a'r ffordd haiarn o'r Drefnewydd i Fachynlleth yn rhedeg drwy ei chanol.

Y mae i'r ardal hon adgofion melus am liaws o hen bererinion fyddlawn, ag y mae eu henwau yn perarogli i lawr trwy ddegau o flynyddau, a da fuasai croniclo eu henwau i'r oes a ddel. Ac yma y treuliodd yr hyawdl Joseph Thomas bron yr oll o'i oes bregeth-wrol; yma hefyd y treuliodd y diwinydd galluog Griffith Parry, D.D., y deng mlynedd olaf o'i fywyd llafurus yntau. Y mae capel coffadwriaethol i'r ddau ar gael ei adeiladu. Y mae yr Anibynwyr wedi ail-adeiladu eu capel hwy yn adeilad prydferth iawn. Bu capel y Wesleyaid hefyd o dan yr un oruchwyliaeth ychydig o flynyddau yn ol.

W. E.

---

 MAB EI FAM.

II.

**Y**M mha lle, pa bryd, a pha fodd, y mae'r ysbryd newydd Cristaidd hwn yn dod i gyffyrddiad â'r plentyn? Wel, ym mhob lle, bob pryd, ac ym mhob rhyw fodd, i raddau mwy neu lai. Bydded i'r henatgwyr, a'r rhai sydd wedi cyrraedd a phasio canol oed, dafu eu golygon yn ol i ddyddiau mebyd, a theimlant ar unwaith y dwfn wahaniaeth. Hwyrach nad yw y cyfnewidiad hwn i'w ganfod yn fwy amlwg yn unman nag yn awyrgylch yr Ysgol Ddyddiol; nid awn, ar hyn o bryd, i geisio tynnu darlun o bethau tel yr oeddynt y pryd hwnnw,—nid a y dyddiau hynny fyth yn anghof gan lawer un ohonom, gan mor boenus oeddynt. Diau fod cyflwr cyffredin y plentyn lawn cywaethed, lawn mor galed, mewn manau ereill, ond nad oedd mor amlwg. Heddyw y mae ysgolion elfennol ein gwlad yn nefoedd fach mewn cydmariaeth, a'r plant yn aml yn llawn mwy dedwydd yno nac yn y cartref. Y mae'r un peth yn wir, hefyd, am Ysgolion Canolraddol, Sirol, neu Ramadegol ein

gwlad, yn ogystal ag am y Colegau a'r Prif Athrotâu. Ac mor ddistaw oedd y gweithrediad,—heb fflach cledd na rhuad magnel, ond fel twf dŵl, neu lefeiniad toes!

Ydyw, y mae tymer ac anianawd plant yr oes hon yn dra gwahanol i rai plant yr oes, a'r oesoedd, o'r blaen. Y mae'r driniaeth a gânt yn un hollol wahanol; ac y mae'r driniaeth a *ddisgwyliant*, a *hawliant*, oddiar law y rhai mewn oed, felly hefyd. Gwyddant beth yw ymddygiad llednais a boneddigaid, y mae ganddynt brofiad o hono yn weithredol a goddefol. Y maent yn adnabod y dyn cäs, anymunol, o bell, ac yn ymarfogi yn ei erbyn yn y fan. Oes, y mae mwy o raslonrwydd a dynoliaeth dda yn y byd nac erioed; ac y mae dyn, o'r cryd hyd sedd gaeth y gadair-freichiau, wedi cael tiwnio ei ysbryd ar eu cyfer.

Nid dweyd yr ydym nad oes lle o gwbl i'r wialen gyda'r plentyn, ond ceisio dangos nad oes iddi ond lle bach iawn iawn, ac mai eithriadol a chynnil ddylai yr arferiad o honi fod. "For love hath readier will than fear," neu, yng ngeiriau John Bright,—“Force is no remedy;” ac meddai Goldsmith yn rhywle am y gweinidog duwiol,—

“He lured to brighter worlds, and led the way.”

Fel pob oes fywus, egniol, oes drosiannol yw hon,—nodedig felly ymhlith y canrifoedd. Y mae lledaeniad gwybodaeth yn achosi fod llawer mwy o ryddid yn cael ei ganiatau i bawb yn mhob cyfeiriad,—hyd yn oed i blant; ac un o ddyledsryddau yr oes yw bod ar wyladwriaeth nad aiff y rhyddid yn ben-rhyddid,—hyd yn oed gyda phlant. Dyna'r perygl; beth yw'r feddyginiaeth? Amlwg nas gellir *GYRRU* creadur rhydd, am mai rhydd ydyw; rhaid ei dywys, ei hudo, ei ddenu, o fodd, trwy deg. Gall pen clir a chalon dyner wneyd a fynnonn hyd yn oed gyda'r cildynnus a'r gwrthnysig. Nis gall dim hir wrthsefyll cariad a doethineb yn gweithredu trwy ledneisrwydd ac amynedd.

Y mae dyn yn parhau yn blentyn, hynny yw, yn yr ystad o ddibyniaeth ar arall, yn hwy nac unrhyw greadur ar wyneb daear,—a hynny o ddoeth fwriad Duw. Dyna'r pryd y mae dylanwad y fam yn suddo mor ddwfn i gymeriad y plentyn; y mae yn cordeddu am dano gadwynau mor adamantaidd, fel nas gall byth lwyr ymryddhau oddiwrthynt; y mae yn ei drwytho mor drylwyr â'i nhodweddion ei hun, fel y mae yr arlliw arno hyd derfyn eithaf oes; ie, “mab ei fam” fydd, i raddau mwy neu lai, tra y byddo byw. Gosodir ei droed mor gadarn ar ryw ffordd neilltuol, tel pan heneiddio nid ymedy â hi; gall wibio a chrwydro gryn lawer, hwnt ac yma, ganol oes; ond, o'i bedd, gwelaf law wen “ei fam” yn dal y tennyn yn ei ben. Yr wyf yn teimlo dylanwad fy nhad yn drymach ac yn fwy

gorfodol arnaf o ddydd i ddydd fel yr wyf yn tynnu ymlaen ar y daith, ac yn diolch yn gynhesach beunydd am dano.

"Mab dy wasanaeth-wraig" meddai'r Salmtydd; "yn dyner ac yn anwyl yng ngolwg fy mam," meddai'r gŵr doeth. Ie, dyna'r gallu hyfforddiadol a chyfarwyddol cryfaf yn y byd,—os nad eithriadwn ddylanwad uniongyrchol a digyfrwng yr Ysbryd Glân.

"Mab ei fam!"—ai mel ai bustl yw cynnwys y gair yna i ti, fam, sydd yn darllen y llinellau hyn? Gwyddom hefyd am gefnder y gair yna,—“Drwg ei nain!” Ond ni chymerwn ein llithio i ddweyd dim am hwnyna heddyw.

Welwch chwi'r fam ieuanc, dyner, yna gyda'i maban bach, ei hunig blentyn? Y mae yn ei ddeffro yn esmwyth â chusan bob bore; yn gwisgo am dano yn glud, del, a glân; yn ei faethu â phureiddiaf laeth ei bron; ac yn castellu o'i amgylch â holl rym ei chariad llygadog a diflin. Cyn bo hir y mae yn melus son wrtho am y Dada Mawr yn y nefoedd,—am yr anwyl Fab, yr hwn fu yn bendithio y plant bach, ac yna yn ei ddysgu i fyned ar ei liniau wrth ei glin; plyg yntau ei ddeulin bach ar lawr, a chyda dwylaw pleth, llygaid cau, ac acen tabanaidd, edrydd yr "Ein Tad." Yna, gyda'i llaw ar ei ben modrwyog, a chalon yn orlawn o gynnes gariad mam, y mae yn anadlu gweddi daer am fendith Duw ar ei bachgen bach. Mor bur yw awyrgylch yr ystafell yna; llawn yw mynwes y fam o ffyrion santaidd; ac yn eigion calon y bachgen bach y mae ufudd-dod, a chariad, a llawenydd yn bwrlwm i fyny pan rydd gusan i'w fam ar ddiwedd y weddi foreuol. Cenfydd yr hwyr, pan ddaw, yr un nefol ddedwydd olygfa; ac felly, ddydd ar ol dydd, ymdrecha'r fam drwytho ei hanwyl yd â'r dylanwadau dwyfol, ei ddisgyblu yn fore ar gyfer brwydr bywyd, a'i ddwyn yn fore dan yr iau.

Pan nad yw'r bachgennyn ond seithmlwydd oed, gwysir ei fam oddiwrtho i'w nefol gartref ("ffyrdd Duw sydd yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd dynion"); y mae ei gwaith ar y ddaear wedi darfod, ei gofal a'i phryder daearol ar ben; â'i hanadl olaf y mae yn cyflwyno ei phlentyn bach amddifad i Dduw. Wedi tyfu i fyny tipyn, y mae yntau yn myned i'r môr; ac yno tefir ef i gwmni tyngwyr a Sabbath-dorwyr, a dynion drwg o bob math. Y mae dylanwadau bore oes yn cael eu tagu ac yn myned dan gudd, yntau yn ymgaledu waeth-waeth, nes dod yn ben-campwr mewn pob drygioni. Y mae yn gwneyd cyff gwawd o bob daioni a rhinwedd, ac y mae ei regfeydd yn ddychryn hyd yn oed i'r dyhirod gwaethaf ar y llong. O'r fath wrthgyferbyniad hyll i'r plentyn bach anwyl a charuaid. Tybed fod pob gronyn o ddylanwad bendithiol ei fam

wedi ei golli? Ai yn ofer y bu ei holl weddïau? Gadewch inni wrth amynedd i edrych ymlaen ychydig.

Pan oedd newydd droi ei ugain oed, y mae'r llong yr oedd yn *mate* ynddi yn cyfarfod ag ystormydd erchyll ar ei mordaith adref tua Lloegr. Am bedair wythnos bu yn cael ei hyrddio a'i lluchio ol a blaen, mewn cyfiwr candryll, gan gynddaredd y gwyntoedd a'r tonnau, ac yr oedd pawb wedi ymládd a dihoeni yn deg gan y pypmpio dibaid er rhwystro iddi suddo. Yr oedd y bwyd wedi myned yn brin; nid oedd ganddynt friwsionyn o fara, dim ond carpïau o ddillad, a'r tywydd yn greulawn o oer. Bryd hyn ymollyngodd ac ymdoddodd calon galed y llanc o'i fewn dan fawr bwys yr arswyd cyfarfod â'r Duw digllawn yr oedd wedi ei wrthod a'i felldithio. "O Dduw, arbed fi, yr wyf ar drengu," oedd ei ddolef ddibaid. "Maddeu im, O Dduw'r Beibl, er mwyn dy Fab," oedd gwaedd ei ing, a chyfyngder ei enaid. "O Dduw fy mam, O Dduw'r cariad, trugarha wrthyf!" oedd chwerwaf a difrifolaf waedd ei fynwes. Ie, o'r dyfnder y galwodd, a'r Arglwydd a'i clybu; a chyrhaeddodd y llong hafan a diogelwch yn yr Iwerddon.

Er fod ei gorff wedi dianc o beryglon y môr, nid oedd braw ei enaid heibio hyd nes y cadd gymorth i ymdafu tel yr oedd i freichïau ei Waredwr. Bellach, daeth cyfnewidiad trwyadl drosto; yr oedd ei ymgysegriad i Dduw ei fam yn llwyr a hollol; a chyn bo hir, daeth yn weinidog llafurus a hyawdl, yn awdwr, a bardd da. Trwyddo ei y trowyd Scott, yr esboniwr ardderchog, at Grist, yr hwn a gysegrodd ei fywyd i ysgrifennu y gwaith gwerthfawr hwnnw. Un arall argyhoeddwyd dan ei weinidogaeth oedd Wilbertorce, campwr rhyddid y caethion, ac awdwr y gyfrol, "A Practical View of Christianity," yr hon, o'i darllen, a ddygodd Leigh Richmond, awdwr "The Dairyman's Daughter," i weinidogaeth Crist. A thrwy ei lafur ef hefyd, y cafodd Claudias Buchanan droedigaeth, un o'r cenhadon cyntaf i'r India; ysgifeniadau yr hwn, drachefn, ddefrodd sylw yr enwog Judson at anghenion yr India. A pha faint pellach y cyrhaeddodd ei ddylanwadau daionus, Duw yn unig a ŷyr.

Y bachgen bach, y morwr, y gweinidog,—pwy ydoedd? Pwy hefyd, ond y Parch. John Newton. Aeth dylanwadau y fam ar goll? "Gan wybod nad a eich llafur chwi yn yr Arglwydd yn ofer." Os daeth y "pechod gwreiddiol" a marw a phob rhyw wae i'n byd, y mae bendigaid ddylanwad y fam dduwiol wedi arwain myrddiynau i droedio dedwydd lwybrau'r bywyd. "Mab ei fam" oedd y Parch. John Newton.

H. BRYTHON HUGHES.



### IEUAN AP RHOBET.

**A** M wenau byw, mae Ieuan bach  
Yn mynd a'r gwobrau i gyd;  
A thanio hwyl wna'i chwerrhin iach  
Ym mronau pawb o hyd.

Mor ferr ei gam, mor fawr ei gur  
Weld gwagle wrth y bwrdd,  
A holi'n bert wna'r galon bur,—  
“ Wel, pam mae tada i ffwrdd ? ”

Daw ar fy nglia, a gwin a gwawr  
Yn llanw 'i lygald glân;  
A daw i mi ryw wynfyd mawr  
Ym miri 'i eiriau mân.

Ei law a rydd fel lili'r haf  
Drwy 'marf, dan lamu'n fyw;  
A'i gyrls yn gnwd o aur a gaf  
Ar lwydni 'ngruddiau gwyw.

Fel mae gogleisiol, swynol si  
Ei ganu'n lleddfu 'nghwyn,—  
“ Mae Iesu Grist o'n hochor ni ”  
Yw emyn Ieuan fwyn.

O, Ieuan gu, ni dderbyn gam,  
Er gwaetha'r anial briw,  
Yn Noddfa wen ei weddw fam,  
Yn Nuw ei “dada” gwiw.

J. R. TRIFANWY.

## “ Hen Gymru Dlos.”

RICHARD AB HUGH, Y Bala.

ARTHUR WILLIAMS, Garth,  
Llangollen.DOH Aŷ. *Yn fywiog.*

{	.s <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-	.d : t <sub>1</sub> .d	r :-	:m	f :-	r :m .f	m :-	.
	.m <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .d	t <sub>1</sub> :-	:d	t <sub>1</sub> :-	.t <sub>1</sub> : d .t <sub>1</sub>	d :-	.
	.m : r .r	m :-	.m : f .m	s :-	:s	s :-	.s : s .s	s :-	.
	.d : t <sub>1</sub> .t <sub>1</sub>	d :-	.m : r .d	s <sub>1</sub> :-	:d	r :-	.f : m .r	d :-	.

Hen Gymru dlos, mor swynol yw,      Dy      fryn-iau hawddgar di;

{	.d : r .d	d :-	.m : s .f	f :-	:m	r :-	.r : m .r	d :-	.
	.l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	.ta <sub>1</sub> : ta <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	:s <sub>1</sub>	fe <sub>1</sub> :-	.fe <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :-	.
	.d : f .m	m :-	.d : d .d	d :-	:d	d :-	.d : d .t <sub>1</sub>	d :-	.
	.l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : m <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :-	:s <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	.r <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	d :-	.

Melusder dy      al-aw-on byw,      Sy'n den - u'n calon ni;

{	.d : t <sub>1</sub> .d	r :-	.t <sub>1</sub> : d .r	m :-	.d : f .s	l :-	:r	r :-	.
	.s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .ta <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	:d	t <sub>1</sub> :-	.
	.m : r .m	f :-	.f : m .r	d :-	.m : d .d	d :-	:l	s :-	.
	.d : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .t <sub>1</sub>	d :-	.ta <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :-	:fe <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-	.

Dan chwifo'r ddraig, dring lethrau clod, Hyd lwybrau rhin      a      moes;

{	.f : m .r	d :-	.m : l .s	f :-	:r	s :-	.m : f .r	d :-	.
	.s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .t <sub>1</sub>	d :-	.ta <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	:l <sub>1</sub>	d :-	.d : t <sub>1</sub> .t <sub>1</sub>	d :-	.
	.r : m .f	m :-	.d : d .de	r :-	:r	m :-	.s : r .f	m :-	.
	.t <sub>1</sub> : d .s <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	r :-	:f <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-	.s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :-	.

Mae heulwen dysg      a'i dwyfol nod,      Yn      hardd - u blodau'r oes.

- 2 O chwyth yn fflam, wladgarol wynt,      3 Os gauaf brád a gormes fu  
 Hen farwor Cymru fu ;      Dy ran, ein hanwyl wlad ;  
 Deffroa hwyl y delyn gynt,      Os brathodd cledd gelymol lu,  
 A dwyn hi i bob tŷ ;      Hen iaith ein mam a'n tad ;  
 Hiraethu mae am ddod yn ol,—      Mae hafddydd llwydd yn gwenu draw,  
 O agor, Gymru, 'r drws ;      O cadw'th enw'n wyn ;  
 Ei hysbryd sydd hyd gwm a dôl,      Ein hiaith a dyf er dryghin braw,  
 Yn flodyn adgof tlws.      Yn fythwyRDD ar bob bryn.

## DYFODIAD Y GOG.

UN bore braf a thynet,  
Wrth rodio drwy y fro,  
Gan wibio 'nol fy arfer,  
Drwy feusydd Bryn y Gro ;  
Ariannaidd wlith y wawr-ddydd,  
Fel cudd-len deneu, fain,  
Orchuddiai wyneb anian,  
Tra hunai'r blodau cain.

Ac yn y pellder acw,  
Pelydryn llachar, gwyn,  
A redai mor ddi-dwrw,  
Gan chwareu ar y bryn ;  
Mae'r haul yn raddol godi,  
Diflanna'r gwllith yn awr,  
Gan golli yng ngoleuni  
Disgleiriaf haul y wawr.

Y blodau per ddeffroant,  
O'u hamrant-hun mor fyw,  
A'u gruddiau tlws yn foliant,  
I'r Arglwydd Mawr eu Duw ;  
Yr adar oll yn canu,  
Gan brancio ar frigau'r coed,  
Ar haul mewn hwyl yn gwenu,  
Fel pe'r tro cynta 'rïoed.

A thra'n mwynhau'r olygfa,  
Daeth adlais bêr o'r llwyn,  
"Cwco ! cwco !" ddisgynna,  
Yn nodau melus mwyn ;  
Ac wedi aros ennyd,  
Fe glywais uwch fy mhen,  
Ddeniadol nodau hyfryd,  
Y Gwco ar y pren.

O ! Gwco brydferth, anwyl,  
Cei groesaw eto'n ol,  
I Gymru Gwlad y Bryniau,  
Ac hefyd i'r hen Ddôl ;  
Lle bu dy nodau swynol,  
O frig y dderwen fawr,  
I'w clywed mor ddymunol,  
Yn adlais gyda'r wawr.

Caernarfon.

T. H. LEWIS.

## TRIGAIN A DEG.

(EPRYCHIAD.)

TYRD yma, 'ngeneth fwyn,  
I gysgod oer y llwyn,  
A gad i m brofi swyn  
Dy gusan teg ;  
Dring yma ar fy nglin,  
A garet fod, fy mun,  
Fel yr wyf fi fy hun,  
Yn drigain a deg ?


Olwynion amser ffy  
Ymlaen er dim wnawn ni,  
Yn brudd ac oer y try  
Ein dyddiau chweg ;  
Bum innau'n blentyn, Gwen,  
Heb gwmwl yn fy nen ;  
Yn awr mae 'nydd ar ben,  
Yn drigain a deg.

Birmingham.

Breuddwydia'r hen, fy mun,  
Am Fai a gwenu cun  
Cyfeillion anwyl fu'n  
Gwmpeini chweg ;  
Ond mwynder llawen hynt,  
Hyd wyrddion lwybrau gynt,  
I mi breuddwydion ynt  
Yn drigain a deg.

Mae glesni'th lygaid, Gwen,  
Fel gwybr haf uwchben,  
A chwaddant yn ddi-len  
Dan emrynt teg ;  
Y nefoedd ynddynt sy,  
Barhao nes doi di,  
I gyfrif, fel myfi,  
Drigain a deg.

GWYNONWY.



PLANT CYMRU. CLXXII. PLANT CORRIS.  
(Darius gan G. Holford, Farnworth.)



## URDD Y DELYN.

## Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth i onno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

## AELODAU NEWYDDION.

## CANGEN LLANAFAN, CEREDIGION.

1768—1773.

Mary Lizzie Parry, Glynbwch; Blodwen Parry, Troedrhiwhaidd; Gwladys Jones, Wenallt; Llewelyn C. Evans, New Shop; Hughie Jones, Ty Nant; Miriam Evans, Ffynnon Afan, Llanafan.

1774. Laura Bathgate, Graianfa, Elwy Street, Rhyl.

## CANGEN CLYNOG FAWR.

1775—1806.

Mr. Richard Williams, Glan Beuno; Mr. John H. Jones, 'Rallt; Mr. John Pritchard, 'Rallt; Evan Jones a Richard Jones, Cilcoed Isaf; Hughie Jones, Bodgybi; Gordon Jones, Yr Ysgol; Robert H. Jones, Cefn; Hugh Hughes, 'Rallt; Evan R. Williams, 'Rallt; William Rowlands, Newbrough Terrace; Lizzie Jones, Llythyrdy; Ellen Hughes, Tan'rallt; Mattie Prichard, Cilfach; Barbara Ellen Jones a Mary E. Jones, 'Rallt; Gwen Owen, Tyrpeg; Lizzie Jones, Bodgybi; Annie Jones, Ty Cerrig; Sydney Jones, Cilcoed Uchaf; Lilly Jones, Plas Beuno; Mary E. Jones, Cefn; Annie Prichard, 'Rallt; Annie Williams, 'Rallt; Lizzie Jane Hughes, Newbrough Terrace; Jennie Hughes, 'Rallt; Lizzie Jane Williams, Pen'rallt Uchaf; Barbara J. Jones, 'Rallt; Richard Jones, 'Rallt; Richard Williams, 'Rallt; Mattie Pritchard, 'Rallt; Hughie Jones, 'Rallt.

## AT AELODAU URDD Y DELYN.

(AT CANGEN CLYNOG YN BENNAF.)

**M**EDDYLIWN yn aml am yrru gair at blant Clynog. Ond dyma gyfie i ddweyd peth o'n hanes ym Morgannwg. Nid oes gennyf ni ganger o Urdd y Delyn ym Mhenrhiwceibr eto; ond derbynu'r CYMRU'R PLANT gan amryw eleni yma. A gobèithiwn ein bod wedi creu awydd newydd am gadw'r Gymraeg ac arferion Cymreig yn fyw wrth ddathlu dygwyl Dewi. Pwyllgor bychan oedd yn gwneyd y gwaith; ond yr oedd dau o hwnnw wedi bod yn

hen ysgol Eben Fardd yng Nghlynog; ac yr oedd llywydd gwledd Gwyl Dewi yn un ohonoch chwi,—yr Henadur R. W. Jones, M.D., Y.H. Dyna un rheswm pam y cyfeiriaf y llythyr bychan yma at gangen Clynog. A'r rheswm arall yw fod gennyf law yng nghychwyniad Urdd y Delyn yn eich mysg. Hoffwn innau yn fawr i chwithau yrru sut y gyrrwch ymlaen.

Cymerodd y pwyllgor draferth i geisio darluniau o ddyinion mawr Cymru, a'u hongian ar barwydydd y Neuadd Gyhoeddus. Yr oedd lluniau Lewis Edwards, Williams Pant y Celyn, Henry Richard, Tom Ellis, Herber Evans, John Evans Eglwysbach, John Elias, a llawer ereill, yn crogi ar welydd y neuadd. At y tro nesaf disgwyl-iwn fedru dyfeisio ffyrdd ereill i dynnu sylw'r to ieuanc at gymwynaswyr Cymru.

Daeth dros 120 o bobl i'r wledd. Ac ni siaredid dim ond Cymraeg, a hynny yn ol penderfyniad y pwyllgor.

Dymunwyd hir oes i Dywysog a Thywysoges Cymru ar y dechreu. Penodwyd pedwar llwnc-destyn,—

(1) Y PULPUD CYMREIG. Rhowd y flaenoriaeth i'r pulpud o barch i Ddewi Sant a llu ereill o bregethwyr mawr Cymru.

(2) ADDYSG CYMRU. Penwyd i siarad ar Addysg, Gadeirydd y Bwrdd Ysgol a Phrifathraw yr Ysgol Elfennol. Cynhygiwyd "Addysg Cymru" o gariad at athrawon,—o'r eiddilaf yn yr Ysgol Sul hyd at y dysgedicaf yng Ngholegau y Brif Ysgol.

(3) Y CYMDEITHASAU LLENYDDOL. Teyrngarwch i gymdeithasau wnaeth waith rhagorol yn yr amser a fu, ac sy'n para i lanw lle pwysig yn y presennol, barodd i'r pwyllgor roi lle anrhydeddus i'r testyn hwn.

(4) GWERIN CYMRU. Ffydd fawr yn athrylith y werin barodd enwi'r testyn yma. Dywedir fod mwy o'r Iber breuddwydiol yn y werin nag yn yr uchelwyr yng Nghymru. A dyna'r pam y mae'r naill yn hoffach o hela a'r llall o bregethu.

Dowd a'r DELYN i'w lle ei hun. A chyn hir cawn gangen flodeuog o Urdd y Delyn ym Mhenrhwiuceibr. Bu Miss Kendry mor garedig a chanu "Gwlad y Delyn," a'r "Deryn Pur." Ond i bl. nt Clynog a lleoedd ereill, y peth a'u swyna hwy fydd clywed mai dau hogyn bach orchfygodd y cwmni'n lân. "Hob y Deri Dando" genid ganddynt. Gwneid y stumiau mor naturiol, ac yr oedd y lleisiau mor bêr, ac ymdoddid mor dda i swn y delyn fel y swynwyd pawb ar unwaith. Canwyd hefyd am "Eryri" gan Gymro twymgalon o Aber Pennar. Gwilym Brynccerdin ganai'r penhillion. Nid wyf yn cofio clywed "Hen wlad fy Nhadau" yn cael ei chanu gyda mwy o ynni fawr erioed ar y diwedd.

Gyda chofion pur,

*Llys Meirion, Penrhwiuceibr.*

EDWARD EVANS.



PLANT CYMRU. CLXXIII. DOSBARTH YSGOL SUL.

**DOSBARTH YSGOL, SUL.**

**P**ERTHYNA capel y Bwlch i ddosbarth Llanarmon yn Ial. Saif oddeutu dwy filltir a hanner o Landegla, ffordd yr eir i Langollen, dros fynydd y Foel Faen. Y mae yma chwarel fu unwaith yn flodeuog, a rhai ugeiniau yn gweithio dan arolygiaeth Mr. Robert Parry. Ond fe arafodd olwyn masnach, ac aeth llawer o'r ardal i fyw; ond mae yma lawer wedi aros trwy y blynyddau, a chadwant yr achos yn fyw mewn amgylchiadau cyfyng. Credwn fod yma un o'r eglwysi mwyaf heddychlawn a brawdol o fewn y Cyfarfod Misol, a phawb yn gweithio yn egniol yn ei gylch gyda'r gwahanol ganghennau o waith yr Arglwydd. Bydd y pregethwyr yn mwynhau y canu yn fawr. Mae yr arweinydd, sef William Evans, wedi dysgu llawer to o blant erioed, ac yn dal yn fywiog o hyd. Mae dirwest yn lled flodeuog yma; cynhelir cyfarfodydd yn ystod y gauaf.

Derbyniodd y pedair sydd yn y dosbarth hwn dystysgrifau yr arholiad, ac y maent wedi ennill llawer o wobrwyon mewn cyfarfodydd llenyddol.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(YMDDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

## IV.

**I**FOR. Nid Otaheite yw yr unig ynys welodd Capten Cook, fy nhad?

**TAD.** O nage. Ar gychwyniad yr *Endeavour* i'w thaith o Matavia, hysbysodd Tapia y rhaglaw fod moch i'w cael ar bob un o'r ynnysoedd oedd ar ddyfod i'r golwg, sef Huaheine, Ulietea, Otaha, a Bolabola, a digonedd o amrywiol fwydydd. Ond yr oedd y rhaglaw yn awyddus i archwilio ynys arall yn gyntaf, enw yr hon yw Tethuroa. Wedi dyfod yn agos ati, gwelodd nad oedd ond ynys fechan, isel, heb ei phoblogi. Yna rhoddodd i fyny wneyd unrhyw archwiliad pellach arni. Ac aethant rhag eu blaen i edrych ansawdd yr ynnysoedd a ennwyd. Cyfeiriasant yn gyntaf tua Huaheine, yr hon oedd wedi ei phoblogi yn dda; ac yn gyfartal o ran maint i Otaheite. Ar y pymthegfed o Fehefin, yr oedd yr hin yn esmwyth, a'r awelon yn ddymunol o falmaidd, y naill ar ol y llall yn gwasgar eu peraroglau, nes oedd y llongwyr yn sychedig am gael golwg ar y blodau a'r coedwigoedd oedd yn cynhyrchu y fath arogl paradwysaidd. Drannoeth yr oeddynt wedi cyrraedd yn agos i dir, ar gyfer gogledd orllewin Huaheine. Yn fuan daeth ychydig o gafn-gychod (*canoes*) atynt, yn cynnwys nifer o'r brodorion; ac ar un ohonynt yr oedd brenin yr ynys a'i wraig. Ar y cyntaf edrychai yr ynnyswyr yma yn ofnus. Ond pan welsant Tupia, lleddfodd eu dychryn yn rhyfeddol. Ac wedi mynych brofion o gyfeillgarwch enillwyd eu perffaith ymddiriedaeth yn ein dynion; ac anturiodd llawer ereill i'r bwrdd. Yr oedd popeth a welent ar y llong yn peri syndod mawr iddynt. Ac er hynny, ymddangosai nad oedd eu cywreinrwydd hwy eu hunain yn ymestyn at ddim ond fel y tynnid eu sylw at bethau gan y morwyr. Wedi dyfod ohonynt yn weddol gyfeillgar, rhoddasant ar ddeall i'r capten mai Oree oedd enw eu brenin; a gwnaeth ef gynnyg, fel nod o gyfeillgarwch, bod y llywydd ac yntau i newid enwau a'u gilydd. A gwnaeth y llywydd ganiatau hynny gyda boddhad neilltuol.\*

**IFOR.** Yn wir i, fy nhad, hen fachgen iawn oedd y capten, onide?

**TAD.** Ie, fy mab. Profodd y llywydd rhagorol, tuhwnt i amheuaeth, ei fod yn caru a pharchu dyn, beth bynnag fyddai ei amgylchiadau. Yn ystod y tymor byr y buont ar yr ynys, galwyd y

\* Cofier fel y newidiodd Pwyll ac Arawn enwau ym mabinogi Pwyll, pen-deg Dyfed.

llywydd yn Oree, a'r brenin yn Cookee. Yn y prydawn angorodd y llong mewn porthladd bychan, ond tra chyfleus, ar ochr orllewinol yr ynys, enw yr hwn oedd Owthree. Aeth y capten, Banks, Dr. Solander, a Monkhouse, a'r brodorion oeddynt wedi bod ar y llong er y bore, i dir; a theithiodd y boneddwy'r Seisnig yn eu blaen ar draws y wlad y ddau ddiwrnod canlynol. Yn y cyfamser cawsant fod pobl yr ynys hon yn dwyn tebygolrwydd neilltuol i frodorion Otaheite o ran eu personau, eu gwisgoedd, eu hiaith, ac hefyd o ran eu hamgylchiadau. Hefyd, yr oedd cynhyrchion y ddwy ynys yn hollol yr un fath. Fel masnachwyr, yr oeddynt yn rhy betrusgar a gochelgar, nes gwneyd y gorchwyl o fasnachu â hwynt yn waith poenus iawn.

**IROR.** A oedd hynny yn profi eu bod i fesur yn israddol i'r Otaheitaid?

**TAD.** O na; ond profodd yn hytrach eu bod ar uwch tir na'r ynyswyr cymdogaethol. Nid oedd gleiniau a phethau plentynaidd cyffelyb, yn eu golwg hwy, yn cynnwys gwerth sylweddol fel nwyddau masnachol. Wedi i'n dynion ddwyn i'r golwg eu nwyddau defnyddiol, sef defnyddiau gwisgoedd, ac yn enwedig y bwyellau, parodd hyn gyfnewidiad trwydd yn y farchnad am yr amser byr y bu cwmni y llong ar yr ynys. Cawsant bob angenrheidiau a gynwysai y marchnadoedd gyda rhwyddineb. Pwrcasid ag un fwyall dri o foch mawrion. Gan fod y cwmni yn bwriadu hwylio prydawn y 19eg, daeth Oree ac amryw ereill ar y bwrdd i ffarwelio â'n dynion am byth; fel y tybient. Ar yr ymadawiad cyflwynodd y capten i Oree larn, ac yn argraffedig arno y cofiant canlynol,—“His Britannic Majesty's ship Endeavour, Lieutenant James Cook, commander. 16th July, 1769, Huaheine.” Ymhlith rhoddion ereill a gyflwynwyd i'r brenin yr oedd meteloedd ar gynllun arian bathol Prydain, ac yn argraffedig arnynt yr amseriad,—1761. Addawodd y brenin y byddai yn sicr o gymeryd y gofal mwyaf ohonynt oll. Meddyliodd y rhaglawn y buasai hyn yn dystiolaeth mor barhaol ag unrhyw ddyfais a ellid feddwl am dani, er prawf i ymwelwyr â'r ynys yn y dyfodol mai mordeithwyr Prydeinig oedd darganfyddwyr cyntaf yr ynysoedd crybwyllledig a'u trigolion. Oddi yma hwyliasant tua Ulietea, a'r dydd canlynol angorasant mewn porthladd cyfleus. Ond cyn i neb ohonynt droedio tir yr ynys, amlygodd Tupia ei ofn i'r llywydd, rhag iddynt, os buasant yn glanio, gael gwrthwynebiad chwerw gan frodorion Bolabola, y rhai oeddynt newydd orchfygu yr Ulieteaid mewn brwydr, y rhai oeddynt, yn ol ei farn, yn bobl rhyfelgar a pheryglus. Beth bynnag, ni ddarfu i awgrym rhybuddiol Tupia effeithio dim ar y boneddwy'r i'w rhwystro i ddwyn ymlaen eu cynllun. Aethant

i dir yn ddioedi. Arweiniodd Tupia y boneddwyr i sylw y brodorion gyda gwasanaeth rhyw ddefod neilltuol a arterid mewn amgylchiadau o'r fath. Wedi hynny, cododd y capten y faner Brydeinig yn enw ei frenin, yr hon oedd yn golygu darganyddiad yr ynsoedd crybwylledig gan ei swyddogion ef. Yr oedd y pedair ynys yn y golwg ar y pryd, ac amryw ereill heb fod yn nebpell. Heb ymyraeth â'u henwau gwahaniaethol, enwodd y pentwr yn Society Islands. Ar yr 21ain, anfonodd y rhaglaw y meistr allan yn y prif gwch i archwilio dyfnder y dŵr o gylch glannau deheuol yr ynys. Anfonodd swyddog arall i brofi dyfnder y porthladd lle yr oeddynt ar y pryd. Ar yr un amser aeth yntau ei hun i'r porth gogleddol i blymio y dŵr.

IFOR. Fy nhad, a ydych chiwi wedi sylwi fod Mr. Lewis yr amaethwr yn debyg i lun Capten Cook, a anfonodd Owen M. Edwards i chiwi dro yn ol?

TAD. Yn sicr, fachgen, y mae tebygolrwydd yn y ddau i'w gilydd.

IFOR. A pheth arall, y maent yn debyg yn eu nodweddion fel dau feistr. Nid yn unig bod Mr. Lewis yn gofalu bod ei weithwyr yn ddiwyd ac yn gwneyd eu gwaith yn iawn; y mae yn weithiwr ardderchog ei hun, fel y gwyddoch. Ai nid un felly oedd y capten, dywedwch?

TAD. Ie, yn hollol; a gobeithio mai un felly fydd Ifor James hefyd.

#### DECHREU DR. JOSEPH PARRY.

**A**ETH Joseph Parry yn fachgen o Ferthyr Tydfil i Amerig. Adrodda hen gydymaith iddo, sef D. M. Stephens o Wilbur, yn y *Drych Americanaidd*, sut y daeth i sylw cyntaf Cymru.

"Yr oedd fy nhad, John Price, John Abel Jones, a Joseph Parry yn gweithio ar yr un *turn* ym melin haiarn Rough and Ready, Danville, Pennsylvania,—fy nhad a Jones yn twymo, Price yn *roller*, a Parry yn dala i Price. Yr oedd gan y *rollers* gwpwrdd at gadw pethau at eu gwaith, sef *tongs*, &c., ac yn hwnnw y cafodd Parry lawer iawn o'i addysg gerddorol. Gallasech weled y tri yn dodi *notes* ar hyd ochr y cwpwrdd, bob spel ag allasant gael. Yr oedd fy nhad yn y wlad hon ddwy flynedd o flaen fy mam. Aethym i yn ol i mofyn fy mam. Cyn cychwyn gofynnodd Parry i mi os buaswn mor garedig a chario llythyr iddo i Ferthyr Tydfil, a'i ddodi yn y *Post Office* yno. Yr oedd wedi ei gyfarwyddo i Abertawe. Yr oedd hyn yn 1864. 'Ar don o flaen gwyntoedd' oedd yn y llythyr, a deallais wedyn mai 'Bachgen Bach o Ferthyr Erioed ac Erioed' oedd ei ffugenw. Cefais llythyr cyn yr Eisteddfod yn dweyd mai dyna y cyfansoddiad goreu oedd wedi dyfod i law."

## Y FÔR-FORWYN.

**Y** MAE yr ysgrif ar y fôr-forwyn ar draeth Abergele wedi peri llawer o ddychmygu a dyfalu. Wele ychydig o'r hyn a ddaeth imi o wahanol barthau.

"Dywedir fod môr-ddynion a'r môr-forwyn yn cyfaneddu ym môr y Norwigiad. Canys yn y flwyddyn 1719 fe gafwyd fôr-ddyn yn farw ar drwyn o dir yn Norland. Yr oedd y creadur hwn o liw gwinneu tywyll, a chanddo wyneb mewn rhyw ystyr yn debyg i ddyn. Yr oedd ei enau yn fawr, trwyn llydan, talcen uchel, llygaid bach; ond nid oedd ganddo na gên na chlustiau. Yr oedd iddo freichiau byrion, ond diblyg, a'i ddwylaw yn lled debyg i ddyn, ond bod ei fysedd yn cael eu huno â'u gilydd gan fath o groen tenau. Yr oedd y rhan arall o'i gorff yn feinach tua'i gynffon, fel pysgodyn arall, a'i hyd o ddeutu chwe llath. Mae'r fôr-forwyn o'r un fath, ond bod y rhai hyn yn gwahaniaethu yn eu rhywogaeth ac yn debyg i fenyw,—mae ganddynt fronnau, ac y mae y rhai bach yn eu sugno fel plentyn. Mae y creaduriaid hyn mewn llawer o fannau yn y Gogledd, ac o amryw faintioli, sef o ddwy droedfedd i dri gwrhyd o hyd."

"Y mae yn amheus gennyf a ydynt yn gallu siarad o gwbl. Os ydynt, ai nid yw'n bosibl iddynt allu siarad Cymraeg fel rhyw iaith arall? Dywed traddodiad fod môr-forwyn wedi dod i dir sych ar draeth Pembre, yn sir Gaerfyrddin, a'i bod wedi gofyn i un am ei chario yn ol i'r dwtr, ac iddo ballu. Fe ddarfu iddi ei felldithio, gan ddweyd y buasai rhyw nôd neu nam arno ac ar ei hâd hyd y nawfed âch. Ac fe ddywedir fod yr olaf o'r nawfed âch yn fyw yn awr. Felly, chwi welwch fod yn rhaid eu bod yn gallu siarad Cymraeg, oherwydd 'doedd dim Saeson i gael yn Pembre yr amser hwnnw. Cofion fyrrd, DEWI IAGO."

O'm rhan fy hun, nid oes gennyf un amheuaeth am y môr-forwynion. Mor-loi (*seals*) oeddynt. Hawdd oedd camgymeryd mor-lo yn y tonnau, gyda'i lygaid deallgar, am ryw fath o fod dynol. Y mae llais y mor-lo, yng nghlust dychmyg, yn debyg iawn i'r llais dynol. Ysgrifennodd Frank Buckland, y naturiaethwr, fel hyn,—

"Medr môr-loi wneyd swm heb fod yn anhebyg i'r llais dynol. Clywais lawer o 'bysgod siarad,—fel y gelwir hwy gan y *showman* ceiniog,—yn dweyd 'papa' a 'mama' yn eglur iawn. Yr oedd y môr-lo ieuanc gefais oddiwrth Capten Gray, fu farw'n fuan fel mae'r gwaethaf, yn crio'n rhyfeddol o debyg i faban dynol."

Hawdd y gall cydwybod y byd fod yn glwysedig wrth gofio am y creulondeb wneir i'r creadur roddodd fod i fôr-forwyn dychymyg. Lleddir hwy wrth y miloedd bob blwyddyn, yn y dull mwyaf barbaraid, er mwyn cael eu crwyn i weini i falchder merched cyfoethog. Moroedd y gogledd yw eu prif gartref. Yno, i ymylon y talpiau ia, yr a yr helwyr môr-loi bob blwyddyn. Gwyddant am hoffder y fam o'i hun bychan. Ant at y môr-loi bychain, i'r lleoedd y maent yn chwareu ynddynt, gan wybod y meiddia'r mamau dewrion ond diniwed atynt. Yna dechreua'r lladdfa. Pan gaiff yr helwyr lond eu llongau o grwyn, gadawant ddegau o filoedd o fôr-loi bychain amddifad i farw o newyn. "Peth torcalonnu," ebe llygad-dyst, "yw gweled y rhai bach yn ceisio sugno bronau eu mamau meirwon. Ymlusgant drostynt drachefn a thrachefn, nes y byddant yn gochion gan waed; gwthiant yn eu herbyn â'u trwynau, gan ddisgwyl eu cynhaliaeth arferol, gan godi cri boenus. Y mae'r swm a wnant yn beth ofnadwy i feddwl am dano. Pe medrid dychmygu fod miloedd o fabanod o'n cwmpas, pob un yn gwaeddi ar uchaf ei lais, ceid rhyw syniad am y swm. Y mae eu cri yn debyg iawn i gri plentyn."

Dywed capten llong hela môr-loi nad oes yn y byd greulonderau cymaint a'r creulonderau ar dueddau Greenland, adeg llofruddio'r "môr-forwynion." Y mae un peth bron a bod yn gysur inni,—byddant wedi gorffen lladd yr anifail diniwed a hoffus hwn; ac ni fydd un, cyn bo hir, i ddyn dywallt ei gynddaredd arno, lle bu miliynau ar filiynau gynt.

### LLYGAD Y DYDD.

**H**OFF Lygad y Dydd  
 Dy swynol wên sydd,  
 Yn denu fy nghalon i'th garu;  
 Mae'th liwgar rudd lân  
 Dan wlith-berlau mân  
 Yn swyno pob bardd i'th edmygu.

Os isel dy gryd  
 A chaled dy fyd,  
 A hyn mae'th wyleidd-dra yn gweddu;  
 Er na feddi ardd  
 I'th flodyn tég hardd,  
 Mae'th olwg o hyd ar i fyny.

Hoff Lygad y Dydd,  
 Fy mywyd brau sydd  
 Fel tithau yn nôd i ddryghinoedd;  
 A gwers gennyf gaf,  
 Mewn gaeaf a haf  
 Edrychaf o hyd tua'r nesoedd.

GWYNEDDAWG.



# AT Y PLANT.



**WAITH** da oedd cyfieithu "Dinas heb ynddi Deml" Henry Drummond.\* Y mae'r meddwl yn iach, yn adfywiol, ac yn darwiadol. Y mae'r cyfieithiad yn darllen mor naturiol a hyfryd a'r gwreiddiol.

G. W. F. Diolch am y darluniad byw o robin goch. Rhoddir ef yn rhifyn Tachwedd, i ennyn cydymdeimlad a'r canwr bach ffyddlon yn y gauaf nesaf.

L. R. Yr wyf yn casglu'r hwiangerddi Cymreig. Cefais gasgliad da oddiwrth Mr. E. Ogwen Williams o Aberdâr. Casglwyd hwy iddo gan blant ei ddosbarth Cymraeg yn yr Ysgol Sir. Cefais lawer o rai gwaelod Ceredigion, hefyd, oddiwrth Mr. E. B. Morris, Llanbedr. Y mae y rhain ac ereill wedi eu hanfon i Miss Winifred Hartley i wneyd darluniau i'w gosod allan yn y dull mwyaf

swynol i blant. Ni raid dweyd wrth y cyfarwydd fod Miss Hartley wedi ennill enwogrwydd yn y gangen hon o arluniaseth. Y mae digon o wir ddychymyg yn ei hamlinellau syml tarwiadol.

**TAD HARRI BENGGOCH.** Y mae gennyf finnau blant sy'n credu mai Llangollen yw'r lle hynotaf yn y byd. Yno y mae yr "hen wraig yn gyrru gwyddau" yn byw. Yno hefyd y gwelwyd golygfa ddyddorol ryw dro, sef,—

"Mi welais ddwy lygoden  
Yn cario pont Llangollen.  
Yn ol ac ymlaen ar hyd y ddôl,  
Ac yn ei hol drachefen."

**CORGOLOFN T. E. ELLIS.** Derbyniais £2 10s. 8c. oddiwrth blant Bethel, Arfon; yr wyf yn diolch i'r athraw, G. R. Hughes, am ei gynorthwy caredig. Derbyniais hefyd 7/7 oddiwrth blant Pontrhythallt, Arfon; yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r ysgrifennydd a'r Trysorydd, Mri. W. R. Hughes a W. T. Williams.


Pwy eto rydd blant ardaloedd ereill ar waith? Bydd yn rhywbeth i blantyn gael dweyd ei fod wedi helpu i godi y goggolofn hon. Rhaid ymddydd yn y fraint ar unwaith yn awr, neu bydd yn rhy hwyr. Ceir yr enwau ymhellach ymlaen.

**LLYFRAU NEWYDDION.** Bydd nodyn ar y llyfrau hyn cyn hir,—

Llyfr newydd ar Awstralia. Gan y Parch. J. Ceredig Davies, cenhadwr. Ystori ryfedd Agnes a'r Golomen Wen. Parch. Z. Mather.  
Pur Bleserau Bywyd. Cyfieithiad o waith Arglwydd Avebury.  
Yng Ngwlad y Gwyddel. Hanes teithiau, gan J. M. Edwards, M.A.

---

\*"Y Ddinas heb ynddi Deml." Cyf. gan Arthur Hughes, Coleg Dewi Sant. Amlen, 56 tud., 6ch. Hughes, Gwroscam.



DIWYDIANNAU CYMRU. VI. CNEIFIO.



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XII.

MEHEFIN, 1903.

RHIF 138.

---

## YCHWANEG ETO AM Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

VI. YR YMADAWIAD.

**H**ONNO oedd yr helynt ddiweddaf fuodd acw. Aeth John a hwy i Ben y Bryn bore drannoeth, gan fod llythyr wedi dod oddiwrth y ddwy Miss Jones yn dweyd eu bod yn disgwyl mam y ddau yno y diwrnod hwnnw. Y newydd yna barodd iddynt tyned gyda John yn lled rwydd.

Wedi dod yn ei ol o Nant Gwyn y prydawn hwnnw, sylwais fod John yn crwydro yn ol a blaen hyd y ty fel pe yn chwilio am rywbeth, ac felly y bu am ddiwrnod neu ddau. Treuliais i y prydawn cyntaf hwnnw ar ol eu hymadawiad yn y *study*, yn gosod dalen o bapur gwyn oddi fewn i glawr pob un o'r pum cyfrol oedd Willie wedi addurno. Cefais gryn drafferth hefyd i wneyd y gwaith yn daclus; ac ar ol gosod un plyg bu orfod i mi osod un wedyn ar ei gefn, gan fod y llythrennau lliwiedig yn dangos drwy y papur

gwyn. Efallai fod y gorchwyl afreidiol yma oeddwn yn orfod wneyd, a'r meddwl am gyflwr *bicycle* John, yn peri i mi beidio hiraethu cymaint a fuaswn ar eu holau. Ond yr oedd yn rhaid i minnau gyfaddef fod y distawrwydd oedd o fy amgylch braidd yn anymunol, serch y "brawiau," chwedl Miss Jones, Pen y Bryn, fyddwn yn gael beunydd o'u plegid. Yr wyf yn meddwl mai Sarah oedd yr un oedd yn *wir* ddiolchgar am ymadawiad y ddau.

---

**ROBERT WILLIAM JONES, LLYSTYN CANOL,  
BRYNCIR.**

**B**U y cyfaill anwyl hwn farw ar yr unfed ar ddeg o Orffennaf, yn 23 oed, ar ol cystudd trwm a phoenus. Mewn gwirionedd, oes o gystudd fu ei hanes; ond dioddefodd yr oll yn dawel, gar lawn hyderu dod yn feddiannol ar fywyd mewn gwlad nad oes na phoen na chystudd o'i mewn. Dyma fel y canodd Mr. O. J. Williams iddo.

Diffannu wna y blodau tlws  
A welir yn yr ardd;  
'Run modd edwinodd Robert gu,  
Mae'n awr a'i wedd yn hardd.

'Nol anian bur,—mae'r adar mân  
Yn canu yn y nen;  
A Robert sydd a'i delyn aur  
O fewn i'r Wynfa wen.

Odd ofid, do,—wrth deithio'r llawr,  
Er gofal tyner mam;  
Ond aeth i wlad ddiloes, lawn hedd,  
I fynwes Abraham.

Nid oedd un meddyg yn y byd,  
Allasai gadw'n hwy;  
Ond aeth i gol y Meddyg mawr,  
I ganu am ei glwy.

CYFAILL.

---

**MAM DR. JOSEPH PARRY.**

**D**YWED hen gyfaill i Dr. Joseph Parry ychydig o hanes ei fam yn y *Drych Americanaidd*.

"Yr oedd mam y diweddar Dr. Joseph Parry yn aelod yn Bethesda, Merthyr, pan oedd ef yn blentyn. Y Parch. Jones y naill fraich oedd yn weinidog yno y pryd hwnnw. Meddai hi gof nodedig o dda, gyda bod yn gantores Adroddai bennod o'r Beibl bob Saboth, ac adroddodd y Salm Fawr heb golli gair."

Byddaf yn syllu ar bob peth ddywedir am famau dynion enwog. Rhydd esboniad ar eu bywyd yn aml.



## Y BLODAU GWYLLTION.

**A**WN i weld y blodau gwylltion,  
 Dyf ar lan yr afon las,  
 Lle mae'r brielll aur-felynyon,  
 A'r rhaladrau'n canu bas;  
 Hudol ydyw gwên gwahoddiad,  
 Olychau'r gôg a'r llygad dydd,  
 Gan y gwyddfid cawn groesawiad,  
 Berarogla'r awel rydd.

Awn i weld y blodau gwylltion,  
 Tlyson lifrai'r eithin cain;  
 Llanw mwynder gyda'i swynion  
 Sy'n cwynnu'm mlodau'r drain;  
 Y *Bala*.

O mor esmwyth ydyw melfed  
 Y floed fechan lon;  
 Troi'n addolwyr wnawn wrth weled  
 Lli'i'n gwrando cerddi'r don.

Awn i weld y blodau gwylltion,—  
 Blodau'r grug borffora'r allt,  
 Heibio cartre'r affros brithion,  
 Wisga'r weirglawdd yn ei gwallt;  
 Canwn am y blodau swynol,  
 Dysgwn wers eu hygol hwy,  
 Unwn gyda'u tlysi dwyfol,  
 I brydferthu'r ddaear mwy.

RICHARD AB HUGH.

## COF-GOLOFN T. E. ELLIS.

**Y** MAE cronfeydd y plant yn dechreu llenwi. Llonnwyd fi'n fawr gan gasgliad plant Bethel, Arfon. Gwnawd ef ynglŷn â chyfarfod blynyddol y plant. Pwy fydd y nesaf i ddilyn eu hol? Wele'r enwau'n dilyn.

Parch. Rhys J. Huws, 2/6; G. R. Hughes, Ty'r Ysgol, 2/6; Mrs. Hughes, eto, 2/6; W. J. Gruffydd, Rhydychen, 2/6; T. T. Jones, Glan'rafon, 2/6; O. Trevor Jones, Carneddi 2/-; W. J. Griffith, Glanllyn, 2/-; Parch. E. R. Thomas, 2/-; Miss Williams, yr Ysgol, 1/-; Miss Owen, eto, 1/-; D. Griffith (ieu.), Bryntirion, 1/-; O. Jones, Corra Linn, 1/-; T. C. Roberts, Brynhyfryd, 1/-; H. W. Hughes, Greuor, 1/-; D. Humphreys, Grocer, 1/-; W. Humphreys, eto, 1/-; Mrs. Williams, Shop, 1/-; R. Owen, Tregof, 1/-; rhoddion llai, £1 : 2 : 2. Cyfanswm, £2 : 10 : 8.

Thomas Owen, 22, Harriet St., Cathays, Caerdydd, 5/-.

## HWYRNOS YN YR HAF.

**D**RAW yn y gorwel pell, mae niwl y glyn  
Yn gordol'r mynydd ban, ym mrig yr hwyr;  
Ac anian sydd yn llawn distawrwydd syn,  
A'r haul a gillodd gyda'i wres yn llwyr.

Olwynion masnach wedi tewi sydd,  
Gan roddi lle i natur swyno dyn;  
I'r hwn, ar ol blinedig waith y dydd,  
Mor hyfryd yw cael anian iddo'i hun.

Ar frigyn coeden îr gerllaw y ffrwd,  
Mwyalchen byncia'n llon ei hwyrol gân;  
A'r gwenyn fu yn gweithio'r dydd mor frwd,  
A suol gysgant rhwng y dilliau glân.

Murmuro! redeg wna yr afon fwyn,  
Gan droelli 'i chwrs rhwng meusydd prydfarth-wyrdd,  
A'r awel bêr adfywiol daena 'i swyn,  
Gan wasgar hyfryd beraroglau fyrdd.

Yr awyr las,—mor dlws a phalmant nef,—  
Sydd fel rhyw amdo dros ffinedig fyd,  
A siffrw'd per y tonnau sydd fel llef  
Babanol fôr, ga wylo yn ei gryd.

## EPAOD,—DIHANGFA GYFYNG.

**O** HOLL anifeiliaid y maes, yr Epa yw y tebycaf i ddyn,—y tebycaf iddo o ran ffurf ac agwedd corff, yn ogystal ag o ran teithi meddwl. Llauer hanesyn adroddir am dano gan deithwyr, sy'n dangos mor gall a synhwyrol ydyw.

Yng nhgoedwigoedd enfawr Deheudir America ceir epaod yn heidiau afrifed. Yno y mae yr hinsawdd yn dyner a hafaidd trwy'r flwyddyn, ac felly pob planhigin a choeden yn dirf, iraidd, a ffrwythlawn trwy gydol y pedwar tymor, "bob mis yn rhoddi eu ffrwyth." Nid rhyfedd, gan hynny, fod pob anifail, pob creadur byw, yn heigio yn rhyfeddol yn y fath le.

Yn ddiweddar, yr oedd yno ddau ddyn, boneddwr Ewropeaidd a'i arweinydd, yn teithio trwy ganol un o'r gwigoedd tewdrwch hyn. Yn sydyn, pan wedi cyrraedd glan un o'r afonydd, clywent aflafar glebar byddin anferth o epaod ar eu taith yn dynesu tuagatynt. Safasant yn ddistaw guddiedig i wyllo eu symudiadau, ac i weled pa fodd y croesent yr afon; oblegid casach gan yr epa y dwfr na'r tân ei hun.

Cyrhaeddodd blaen y fyddin yr afon lle yr oedd gulaf,—sef rhyw ugain troedfedd o led, a choed mawrion canghenog ar ei dwy lan. Ym mlaenaf oll deuai hen epa mawr penllwyd,—eu cadfridog, yr oedd yn eithaf amlwg,—tra yr oedd rhai cryfion ereill yma a thraw yn gwasanaethu fel is-swyddogion.

Yn y man dacw un o'r swyddogion hyn yn rhedeg allan ar hyd cangen hir oedd yn ymestyn ychydig dros ac uwchben yr afon; ac wedi edrych ennyd ar ei thraws, megis i fesur ei lled, cyflyma yn ol i gyflwyno ei adroddiad i'r hen gadflaenor. Mewn ufudd-dod chwim a pharod i ryw amnaid a roddodd efe, tawodd yr epaod a'u clebar, a bu dwfn ddistawrwydd. Mewn tŷn a goslef awdurdod rhoes yntau yn awr ryw orchymyn byr a chwyrn, a dacw un o'r epaod cryfaf yn rhedeg allan hyd flaen eithaf y gangen grog; am ennyd ferr y mae megis yn casglu ei ymadferthoedd ynghyd, ac yna, fel saeth o fwa, dyry lam a'i cluda'n ehedog, dros yr ugain troedfedd, i'r gangen gref ar yr ochr draw.

Yn rheolaidd, distaw, a dibetrus, dilynwyd ef yn ei naid wych gan bob un o'r lleill, nes yr oedd y cyfan o'r tyddin fawr, y cyfan oddigerth un, wedi croesi yn ddiogel i'r lan draw. Mam oedd yr epa diweddaf hwn, gydag un bach, rhyw wythnos oed, ar ei chefn; ond er mor fychan ac eiddil ydoedd, y bychan, gafaelai yn dynn a'i fysedd feinion yng nghefnfw ei fam, tra yr oedd wedi plethu ei gyffon hirfain yn ddolenau tynion am fon cynffon yr hen fam.



Am ryw reswm na'i gilydd, ofnai y fam a'i baban gymeryd y naid; wedi i'r olaf un groesi, parhai hi i sefyll yn betrusgar ofnog ar flaen y gangen grog uchel. Yn y fan, dacw ryw ŵr-epa yn ymddeol o ganol yr haid gyrhaeddasai y lan draw, ac yn rhedeg yn ol i flaenion uchaf y gangen y neidiasai arni pan yn croesi, a chan osod ei hun yn union gyferbyn a'r fam druan, y mae yn dechreu ei chyfarch mewn iaith ag agwedd galonogol ac hyfforddiadol i fentro'r llam,—ond, yn hollol ofer.

"Ni byddai o les yn y byd i mi wneyd y cynnyg," oedd ei hamlwg atebiad hithau, "oblegid syrthio i'r dwr a boddi, mae'n fwy na thebyg, fyddai ein tynged; onid oes gennych ryw gynllun i'w gynnyg i'm helpu?" Megis mewn atebiad i'w hymbil dacw'r epa gwrryw,—ei phriod mae'n ddiarheu, yn neidio yn ol dros yr afon, ac at ei hochor. Ni fu eiliad yn trosglwyddo y baban epa ar ei ysgwyddau ei hun, gan roddi ehedlam wych i'r lan draw yn ol.

Wedi ei rhyddhau oddiwrth bwysau ei baich, a than gynhyrfaid cymbellion ei phriod a'i chymdeithion ar yr ochr draw, mentrodd y llam. Ond, profodd y naid yn ormod i'w nherth, ni allodd ond prin gael iawn afael ar flaenion brigau y gangen gyferbyniol; a chyn iddi gael amser i blethu ei chynffon am y golsen, torrodd y brigau, a chwympodd hithau i'r afon. Mawr a gwyllt oedd dolef a chri yr epaod fuasai yn gwylio ei nhaid ac yn canfod ei chodwm. Am ennyd ferr fynnai y cyffro a'r anhrefn mwyaf, ond yn sydyn, dyna lais yr hen gadfridog yn ymgodi yn uchel, glochaidd, a gorchymynol. Ar amrantiad dyna ddwsin o'r epaod cryfaf yn neidio ar y gangen, dan yr hwn yr oedd y fam druan yn ymdau yn y dwfr, ac ar fin cael ei hysgubo ymaith; ac mewn llai o amser nag y buasai bwced yn disgyn i bydew, disgynnodd cadwen o epaod o'r gangen honno hyd at wyneb yr afon. Gan afael yn gadarn a'i ddau droed ol a chylymu ei gynffon gref hydwyth am y gangen, disgynasai y cyntaf grog a'i ben i waered; gan lithro i lawr ar hyd-ddo, a phlethu ei gynffon am wddf y cyntaf, disgynasai yr ail a'i ben i waered,—ac felly y gweddill o'r deuddeg. Y deuddegfed, a'r olaf, oedd priod y fam hanner-boddedig, oblegid yr oedd wedi chwim dafu yr un bach i ddiogelwch yn un o hafnau y goeden. Gan afael yn ei gydmars, cyfododd hi yn dyner o'r dwfr, a gwelid hi yn rhed-ddringo i fyny y gadwen fyw i ddiogelwch y gangen, a'i phriod wrth ei sawdl. O un i un, gan ddechreu gyda'r isaf o hyd, esgynnodd pob dolen o'r gadwen yn ol; ac ymhen ychydig funudau yr oedd yr holl fyddin wedi ail-gychwyn i'w taith, y fam yn cludo yr un bach fel pe na buasai ddim wedi digwydd.

H. BRYTHON HUGHES.





### EIN CYFEILLION CYFFREDIN.

#### II. Y FRONFRAITH.

**T**YSTIA y mwyafrif o wir edmygwyr yr adar fod tôn y fronraith yn fwy soniarus, cwafrïol, a dramayddol nac hyd yn oed cân y fwyalchen. Bydd llais y fronraith yn glir fel cloch arian ar ddiwrnod tyner, yn enwedig pan dywynna'r haul ar ol gwlaw. Bum yn gwrando ar geiliog troi fraith gyda'r hwyr neithiwr yn rhoi perfformiad o'i gantata am tua dwy awr gron, a hynny ar frigyn coeden ffawydd o flaen fy mwthyn henafol. Mor fedrus a chywrain oedd ei fynegiant bendigedig o "Twi, twi-i, Twi-i-i, Twi-i-i-i," gan gordeddu y nodau o radd i radd.

Dywed naturiaethwyr fod gryn gant a deg ar hugain o wahanol fathau, tramor a chartrefol, o'r cantor dihafal hwn. Dosrennir hwynt fynychaf yn ddau fath yn ein mysg ni, sef y fronfraith a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw, a bronfraith yr uchelwydd (*Missel Thrush*).

Hyd y fronfraith yw naw modfedd. Y mae'r marciau tlyision sydd ar ei frest yn tebygu i saethau a'u blaenau i fyny, ac y mae'r mwyafrif o'i blu yn felyn. Ei hoffusaf tannau i wneyd ei nyth yw pren mwsoglyd cymharol isel, gwrych gwelltog, neu astell marion cysgodol. Llunia ef â brigwydd crin, gan eu dwbio â chlai wedi ei gyfaddasu yn ystwyth â'i boer. Y mae ei wyau yn leision, gydag ysmotiau mân, du-goch ar hyd-ddynt.

Y mae bronfraith yr uchelwydd yn dipyn mwy nag ef, sef, yn un modfedd ar ddeg o hyd, ac yn pwyso tua phum owns. Gwahan-iaetha yr ysmotiau sydd ar ei fron hefyd, ac y mae ei blu yn oleuach. Gelwir ef mewn rhai parthau mynyddig yn "aderyn yr eira."

Adeilada ei nyth mewn fforch pren pur uchel, neu mewn llwyni gwern anial a chudd. Bydd y tu fewn i'r nyth wedi ei leinio â migwyn tyner, tra'r ochr allan wedi ei gaboli â mwsogl, gwlan, mân briciau, ac ychydig o glai. Llwydion yw ei wyau ef, ac ysmotiau rhuddgoch ar hyd-ddynt. Dodwya rhyw bedwar neu bump ohonynt mewn tymor. Dyma'r aderyn mwyaf sydd a pherioriaeth yn ei lais, ond pan ddychrynnir yntau fe ddyn-wareda ei uwchafiaid trwy ysgrechian yn grâs a gwyllt. Un o wirebau doethineb yr hen Gymry am dano yw,—“Nid rhyfygia ond Bronfraith,” Tebygol mai at ddullwedd ei ganiad y cyfeiria.

Cymdeithasai Dafydd ap Gwilym lawer â'r adar. Wele ei geiliog bronfraith,—

“ Y celliog, serchog ei son,  
Bronfraith, dileidiaith loewdôn,  
Ba ryw ddim a fu berach  
Blethiad ei chwibaniad iach?

Pell y clywir uwch tiroedd  
Ei lef o'i lwyn a'i loew floedd;  
Pob llais diwael yn ael nant  
A gân ef o gu nwyfiant.”

Mae holl dylwyth natur yn galaru am y ferch o Is Conwy gan Ddafydd Nanmor,—

“ Gweddw am hon yw'r bronydd,—  
Ydyw'r gôg, a'r bedw, a'r gwydd;  
A cherdd bronfraith orchuddiwyd

Is y lan, ag eos lwyd,—  
Os marw o hon Is Conwy,  
Ni ddylai Mai ddeillio mwy!”

Dyma ddesgrifiadau mwyaf tarawiadol y beirdd diweddar o'r fronfraith,—

“ Iaith addfwyn y fronfraith ddiddig,—  
ddyry  
Gerddoriaeth fawreddig;  
Yn adlais ei mwyn odlig  
Urddir holl gyngherddau'r wlg.”

CLYNOG.

“ Clyweh gennad cloch y gwanwyn—  
foreuddydd,  
Yn gwefreiddio'r dyffryn;  
Ei bregeth ar y brigyn  
Yw,—“ Mola Dduw yn aml, ddyn.”

OWAIN PERIS.

- " Iaith anwyl bronfraith inni—dery  
O'r nef hyd ein gerddi ; [nôd  
Lle hawdd i'w ennill iddi  
Wnai'i mwyn dôn o'm henaid i."  
PEDROG.
- " Ar lân frig i'r lwyn, a'i fraith—wisg  
gwanwyn,  
Esgynna'r bêr fronfraith ;  
I lor y nef fry, 'n ei hiaith—mawl  
a ddyd,—  
O y mae'n hyfryd gwrando'i mwyn  
wefriaith." GWILYM ERYI.
- " Chwibanogl wyd, uwch ben gwledydd  
—budol  
Odiaeth, bronfraith ddedwydd ;  
Clywch ! o binacl, chwibanydd  
Yn taro tant toriad dydd."  
DEWI HAVHESP.
- " Eon gerddor mewn gwyrd-dail,—  
a brenin  
Barwniaid yr irddail ;  
Llon ei dôn yn i'r lwyn dail—  
Urddedig i'r gerdd-adail.
- " Addfwyn bencerdd, iawn byncia,—  
ei delyn  
Mor dalog chwareua ;  
Ynad cerdd, bob ennyd ca  
Sain gu-glŵs a'n gogleisia
- " O'i 'wyllys dyry allan—arwyrain  
Hyd ororan'r huan ;  
Ei swynol blygeiniol gân  
A dŷn o nodau anian."  
G. LLEYN.
- " Y bronfraith geir ar brenfrig—yn  
Telorau y goedwig ; [arwr  
Hwn dderbiniodd arbennig  
Odlau'r nef,—awdlwr y wig."  
IOAN ARWYSTL.
- " Ar brenfrig tery Bronfraith  
Odlau hoff mewn hyawdl iaith,—  
Swynol sain ei halaw sydd  
Glysaf yn nheml y glasŵydd,—  
Yr awenog soprano  
Ddigymhar, wfreiddia'r fro ;  
Ac o adar y coedydd  
Hon yw prima-donna'r dydd."  
MACHRETH.
- " Araith y Bronfraith ar bren  
Fywha luoedd nef lawen."  
H. CENFI PARRY.
- " Clywais iaith bronfraith mewn brig  
—ffawydden,  
Yn hoff addas fwsig ;  
Ei fwyn wawd a fu'n y wig  
Yn dra seirian dros orig.
- Sain ydoedd gysonedig,—rywiog-  
Ddiragrith, blethedig ; [reddf,  
Emyn foesawl, mwyn fwsig,  
Beraidd dôn, heb arwydd dig.
- Cân ydoedd acenedig o'r heirdd-  
Yn gerddgar blethedig ; goed,  
O fawl mwyn bywiawl o'i big,  
I'r Creawdwr caredig."  
GWILYM TWROG.

A wewyd wrth eu glywed yn canu ar fore Sul, ebe Trebor Mai,—

" Bore dydd Duw, brydydd di-ail—gyda  
Gwawdiau pêr, diadfail ;  
Ti a wnei mewn tŷn wiail,  
Byw eglwys Dduw o'r glâs ddail."

Y mae Burns, Wordsworth, Coleridge, Thomson, a lluoedd o'r awenwyr Seisnig wedi clodfori cerdd swyngyfareddol y fronfraith. Ond credaf yn gwbl onest, fod y beirdd Cymreig wedi rhagori arnynt, mewn perthynas i'r aderyn diddan hwn.

## DYCHMYGION.

GASGLWYD GAN RBYR GWYNEDD.

- XII. **P**WY yw y chwibanwr penigamp hwnnw, glywir ar adegau, ond 'does neb erioed wedi ei weled, o blygain y Greadigaeth hyd heddyw? Pwy ydyw, tybed?  
Y gwynt.
- XIII. Pa bryd y bydd eidion yn debyg i dymhorau y flwyddyn?  
Pan wedi ei dorri yn bedwar chwarter ym maelfa y cigydd.
- XIV. Pryd y bydd Sebastian Handel Thomas, arweinydd côr mawr Llandribach ym mynd yn gyflymach na mellten?  
Pan yn "curo amser."
- XV. Sut y mae y beirdd adnabyddus, Dyfed, Elfed, a Brytudir, yn debyg i blant chwareus a direid-ddrwg?  
Am eu bod mor hoff o ddringo "cadeiriau."
- XVI. Yn lle dylai cryddion a chyfrwywyr fyw yn anad unman?  
Ar lan yr afon Ledr.
- XVII. Ymhle yng Nghymru y ceir y blawd hallt?  
Ym Melinheli.
- XVIII. Pa un yw y gader uchaf ym Mhrydain Fawr?  
Cader Idris.

## DEWIS CYFREILLION.

**Y**N ol doethawr Hindwaidd, yr hwn a ysgrifennai oddeutu 1000 c., dylai gwir gyteillion feddu y nodweddion canlynol.

- I. Dylent fod yn eirwir, yn ffyddlawn, ac yn ddianwadal.
- II. Dylent fod yn ffafriol i'ch amcanion, ac yn rhydd oddiwrth drachwant.
- III. Ni ddylent fod yn agored i gael eu hennill gan ereill, ac ni ddylent chwaith ddatguddio eich cyfrinach.

Oddiwrth hyn gwelwn fod gan gau-grefyddwyr a phaganïaid y byd, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, rai addysgiadau a chynghorion ag y byddai yn dda i ninnau geisio eu gwneuthur.

E. LL. W.

## URDD Y DELYN.

## Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor ball ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth onno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid diroswm, iaith ddhalog.

## URDD Y DELYN LLANAFAN Y TRAWSCOED.

**Y** MAE yn bleser mawr gennym gofnodi fod Urdd y Delyn wedi cael ei had-gychwyn yma eleni eto er ys ysbaid hir, a mawr y brwdfrydedd a'r sêl a ddangosir tuag ati gan y plant. Etholwyd yr hen swyddogion y tymor hwn eto yn unfrydol, ac y mae ein llywydd parchus, Mr. Herring, yr ysgolfeistr, eisioes wedi cyfrannu llawer iawn o wobrau i'r plant mewn llyfrau, &c., ac y mae ei garedigrwydd, ffyddlondeb, a'i nawdd i'r Urdd o'i chychwyniad cyntaf hyd yn awr wedi bod yn amlwg a pharhaol, ac uchelgais ei galon (fel y credaf am holl aelodau yr Urdd) ydyw parhau yn ffyddlon i Urdd y Delyn, Cymru, a Chymraeg hyd y diwedd. Y mae amcan ac effaith y gymdeithas ardderchog hon i'w canfod yn amlwg ym mhurdeb iaith y plant, a mawr yw y drafferth a gymerir er sicrhau geiriau Cymreig gloew, yn lle yr hen eiriau trwsigl hanner-Seisnigaidd a arferir yn rhy aml drwy ein gwlad. Edrychir ymlaen gyda dyddordeb ar gael cyfarfod neilltuol dydd Gwyl Dewi, yr hwn gyfarfod a fu yn llwyddiannus iawn y flwyddyn hon eto. Aelodau Urdd y Delyn fydd yn rheoli Cymru yn fuan, a phwy ellir gael yn well na dynion sydd a'u hysbryd a'u calon yn ei llwyddiant a'i hanrhydedd? A chredaf na fydd aelodau Urdd Llanafan ar ol yn eu hymdrech "i godi'r hen wlad yn ei hol."

Wel, boed llwyddiant ac iechyd yn dilyn holl aelodau Urdd y Delyn drwy eu bywyd. Dyna yw' dymuniad ysgritennydd cangen Llanafan.

E. T. GRIFFITHS.

## Pwy sydd ar du'r Arglwydd?

*Cyflwynedig i blant "Band of Hope" Bethlehem, Rhosllanerchrugog.*

Y Geiriau gan y  
Parch. T. LEVI, *drwy ganiatod.*  
DOH BŴ. *Allegro.*

Y Gerddorineth gan  
DAN ROBERTS, A.C., Rhosllanerchrugog.

}	d	:t <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>  s <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub> .t <sub>1</sub>	d	:- s <sub>1</sub> :-	t <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub> .s <sub>1</sub>  f <sub>1</sub> .s <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:- :-	
	m	:f <sub>1</sub>  s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:- s <sub>1</sub> :-	f <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>  f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:- :-	
	1.Pwy sydd ar du'r Ar - glwydd, Deu-ed at - o'n awr;									
	d	:d d	:f	m	:- m:-	r	:d d:d	d	:- :-	
d <sub>1</sub>	:f <sub>1</sub>  m <sub>1</sub>	:r <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:- d <sub>1</sub> :-	r <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>  l <sub>1</sub> .s <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:- :-		

F.t.

}	d	:t <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>  s <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub> .t <sub>1</sub>	d	:- t <sub>1</sub> :-	<sup>1</sup> r	:d t <sub>1</sub> .d r	m	d	:- :-
	m <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>  m <sub>1</sub>	:f <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:- s <sub>1</sub> :-	<sup>2</sup> t <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>  t <sub>1</sub>	t <sub>1</sub>	d	:- :-
	Pwy a ddaw yn eb - rwydd Dan Ei fan-er fawr?									
	d	:d d	:d	d	:- r:-	<sup>r</sup> s	:s f:f	m	:- :-	
d <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>  s <sub>1</sub>	:f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:- r <sub>1</sub> :-	<sup>r</sup> s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:- :-		

f.BŴ. *Con moto.*

}	<sup>r</sup> l	:-t <sub>1</sub>  d <sub>1</sub> .t <sub>1</sub> :d <sub>1</sub> r	m	:-f m:-	m	:-m m:fe	s	:- :-
	<sup>r</sup> l	:-t <sub>1</sub>  d <sub>1</sub> .t <sub>1</sub> :d <sub>1</sub> .l <sub>1</sub>	se <sub>1</sub>	:- se <sub>1</sub> :-	l <sub>1</sub>	:-.l <sub>1</sub>  d:d	t <sub>1</sub>	:- :-
	Pwy wyneb - a'r gel - yn Gyd - a bydd-in nef?							
	<sup>r</sup> l	:-t <sub>1</sub>  d <sub>1</sub> .t <sub>1</sub> :d <sub>1</sub> f	t <sub>1</sub>	:- t <sub>1</sub> :-	d	:-d d.m:r.d	r	:- :-
<sup>r</sup> l	:-t <sub>1</sub>  d <sub>1</sub> .t <sub>1</sub> :l <sub>1</sub> .f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:- m <sub>1</sub> :-	l <sub>1</sub>	:-.l <sub>1</sub>  l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:- :-	

}	f	:-.m r	:d	t <sub>1</sub>	:- l <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub>	:d t <sub>1</sub> :-.d	d	:- :-	
	s <sub>1</sub>	:-.s <sub>1</sub>  t <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub>	se <sub>1</sub>	:- l <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:- :-	
	Pwy sydd ar du'r Ar - glwydd, Pwy saif dros - to Ef?									
	r	:-.m f	:m	m	:r d:-	d	:d r:f	m	:- :-	
t <sub>1</sub>	:-.d s <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub>	m <sub>1</sub>	:- f <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:- :-		

CYDGAN. *Con spirito. Marciale.*

}	m	:-.m m	:re	m	:d s <sub>1</sub> :d	r	:- s <sub>1</sub> :-	m	:- :-	
	s <sub>1</sub>	:-.s <sub>1</sub>  s <sub>1</sub>	:fe <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	f <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>  s <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub>	:- :-	
	Par - od yd - ym, Arglwydd, Ar Dy al - wad Di;									
	d	:-.d d	:d	d	:d f	t <sub>1</sub>	:d r:f	m	:- :-	
d <sub>1</sub>	:-.d <sub>1</sub>  d <sub>1</sub>	:d <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>  r <sub>1</sub> :d <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:l <sub>1</sub>  t <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>	:- :-		

{	f :-f  m :t, >	r :d  l, :d	r :-  r :-	r :-  :- :-
	l, :-l,  s <sub>e</sub> :t, t, :l,  l, :m, s, :-  f <sub>e</sub> :-	Byth o dan dy fan - er, Arglwydd, bydd - wn	s, :-  :- :-	ni.
	d :-d  t, :m m :m  m :d d :t,  l, :d	t, :l,  l, :m, s, :-  r, :-	t, :-  :- :-	
	f, :-r,  m, :s <sub>e</sub> , l, :l,  d :l, s, :-  r, :-		s, :-  :- :-	

{	d :-r  m :s	s :f  d :r	m :-  m :-	f :-  :- :-
	d :-s,  s, :ta, ta, :l,  l, :d	Par - od yd - ym, Arglwydd, Ar dy	d :-  d :ta,	l, :-  :- :-
	s :-f  m :d	d :d  d :f	s :-  d :-	d :-  :- :-
	m :-r  d :m, f, :f,  l, :l, s, :ta,  l, :s,	f, :f,  l, :l, s, :ta,  l, :s,	f, :-  :- :-	


{	m :-m  r :f	f :m  r :d	d :-  t, :-	d :-  :- :-
	s, :-s,  s, :s, s, :s,  l, s, :f,	Pwy sydd ar du'r Arglwydd, Pwy saif	s, :-  s, :-	s, :-  :- :-
	d :-d  t, :d.r	d :d  f :d	r :m  f :-	m :-  :- :-
	d, :-d,  s, :l, t,	d :d  f, s, :l,	s, :-  s, :-	d, :-  :- :-

2 Nid er mwyn gogoniant  
 Nid am glod na bri,  
 Heddyw yr ymladdwn,  
 Arglwydd, drosot Ti ;  
 Ond y bywyd brynaist  
 Dan dy ddwyfol boen,  
 Byth yn Dy wasanaeth  
 Rhoddwn, addfwyn Oen.

*Cydgan.*—Parod ydym, &c.

3 Arglwydd, ar Galfaria  
 Trengaist ar y groes,  
 Bywyd ddaeth i'n henaid  
 O Dy farwol loes ;  
 Rhedwn yn fyrddiynau  
 Dan Dy faner wen ;  
 Fyny elo D'enw<sub>r</sub>,  
 Iesu mawr, Amen.

*Cydgan.*—Parod ydym, &c.



Y, BUGAIL DA.



## GOFAL Y BUGAIL DA AM YR WYN.

GAN Y PARCH. W. O. POWEL, CYSGOD Y MYNYDD, ABERAMAN.

**C**AREM i blant Cymru gofio mai gwlad amaethyddol ydyw gwlad y Beibl. Ac am y rheswm hwn, mae Llyr Duw yn llawn o gyleiriadau tyner a tharawiadol at y bugail a'r praidd.

Ond cyn y gellir deall eu hystyr, teimlo y tynerwch sydd ynddynt, a chanfod y prydfferthwch a berthyn iddynt, y mae yn rhaid i ni gofio fod perthynas agosach o lawer yn bod rhwng y bugail a'r praid yn y Dwyrain nag sydd yn ein gwlad ni.

Yno y mae y bugail yn bopeth i'r praidd. Arno ef y disgyn y gorchwyl o chwilio am ymborth iddynt yn y gauaf, pan y bydd y borta wedi mynd yn brin ar y meusydd. Peth cyffredin iawn tua diwedd Hydref, ac yn y gauaf, ar lechweddau hen fynydd Libanus, ydyw gweled a chlywed swm y bugail yn torri cangau y coed er mwyn rhoddi eu dail yn ymborth i'r praidd. Ond heblaw eu porthi, y mae diogelwch y praidd yn y Dwyrain yn ymddibynnu yn gwbl ar ddewrder a gofal y bugail am danynt. Yn amser Dafydd yr oedd yn y wlad lawer o bwystfilod rheibus, sef y llew a'r arth; ac yn adeg Iesu Grist yr ydym yn deall, er fod y llewod wedi diflannu o'r wlad, eto yr oedd yno ladron a bwystfilod rheibus yn ei amser ef, fel yr oedd yn rhaid yr adeg honno wrth y dewrder a'r gofal mwyaf o du'r bugail os oedd y praidd i fod yn ddiogel.

Ond os oedd gofal y bugail yng ngwlad y Beibl am y defaid yn fawr, yr oedd ei ofal, fel y gellid disgwyl, am yr wyn bach yn fwy fyth, am mai yr wyn oedd y gwannaaf a mwyaf agored i syrthio i berygl, ac i fyned yn ysglyfaeth i ladron ac i'r bwystfilod rheibus.

Cofied y plant fod yr Arglwydd Iesu wedi cael ei ddwyn i fyny o'i febyd yrg nghanol golygfeydd bugeiliol. Peth cyffredin iawn, pan yn fachgerryn, oedd iddo weled y bugail yn arwain y praidd heithio i Nazareth i fyny i'r meusydd ac i'r bryniau oedd o gwmpas y ddinas. Pan yn dysgu ei wersi wedi dyfod gartref o'r ysgol ddyddiol, gallasai glywed swm y bugail yn y meusydd ac ar y bryniau cyfagos yn galw ar y praidd wrth eu henwau, a gallasai ei weled yn barod â'i ffon i'w hamddiffyn os y byddai perygl, a'i ofal i'w harwain yn ddiogel i'r gorlan cyn bod cysgodau y nos yn ymdaenu a'r bwystfilod yn dyfod allan o'u llochesau. Wedi i Iesu Grist ddyfod yn ddyn i'w uanc, cychwyn pregethu, a datguddio ei hun fel Gwardwr y byd, nis gallasai lai na meddwl am, ac edmygu, y bugeiliaid o gwmpas Nazareth, "y lle magesid ef," ar gyfrif eu tynerwch tuag at y praidd, a'u gofal am yr wyn. Ond eto, gwyddai nad oeddent ond cysgod amherffaith o hono ef ei hun. "Myfi," meddai,

"yw y bugail da." Pa faint bynnag ydoedd gofal y bugail dwyreiniol am yr wyn, a'i anwylddeb tuag atynt, gall plant Cymru fod yn sicr fod gofal ac anwylddeb y Bugail Da yn llawer mwy tuag atynt hwy. "Er crystal," meddai Iesu Grist, "ydy llawer o fugeiliaid Palestina, peidied plant Cymru a fy nghymaru am toment a'r goreu ohonynt, am fod fy ngariad tuag at y praidd, fy ngofal am danynt, a'm haberth drostynt yn anrhaethol fwy." "Y bugail da." meddai, "sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid." Ac am y rheswm hwn y mae yn awyddus iawn am i'r wyn gael eu corlanu yn fore. "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi," meddai.

Dywedwn, ynte, wrth y plant am wrando ar ei lais, a glynu mor agos ato fel nas gall un bwystfil rheibus eu niweidio byth. Os y byddant dan amddiffyn a gofal y Bugail Da, ni bydd rhaid iddynt ofni dim niwed.

---

### Y RHOSYN.

**R**HOSYN swynol, gemog, purlan,  
Gad im weld dy rudd;  
Tegwch dillyn, coron anian,  
Yw dy dlysnï cudd.

O! 'rwy'n dotio ar dy bersawr,  
Caraf weld dy wedd;  
Pêr i mi yw'r pur a phridfawr,  
Pêr i bawb a'i medd.

Er mor swynol sawr y lili,  
Er mor hardd yw hi;  
Nid oes bersawr i'w gymharu  
A dy bersawr di.

*Caste'inedd.*

Os yw'r lili lân yn enwog,  
Os yw'n fawr ei bri,  
Nid yw tlysnï'r lili'n wridog,  
Fel dy dlysnï di.

Tlws i mi yw'r gwllithog berlan,  
Ylch dy wyneb glân;  
Pert yng ngwenau haul y borau,  
Coch dy foch fel tân.

O! fel carwn efelychu,  
Dy ddelfrydedd glân;  
Byw yn bur i berarogli;  
Bod yn destyn cân.

T. H. JONES.

---

### CYMRU, GARD D Y BYD.

**O** WALLIA werdd, fy ngenedigol  
wlad,  
Ti fuost flwyddi maith yn nythle brad;  
Ond heddyw tawel ydyw'th ysbryd  
pur;  
Nid oes un gwyllywr ar dy ddrylliog  
fur,  
Mae sw'n y cledd o'th fewn yn farw-fud,  
Dy enw mwy yw,—“Cymru, gardd y  
y byd.”

*Ca rfyrdin.*

Nid oes, yn awr, o'th fewn un maes y  
gwaed;  
Pob maes y gad yn faes y blodau wnaed;  
Hardd-eman Natur welir ar dy fron,  
Yn prydfertth orwedd ar dy frynian  
llon,—  
O! Gymru fach, wrth weld dy dlysnï  
hud,  
'Rwyn sisial d'enw,—“Cymru, gardd  
y byd.”

R. G. NICHOLSON.

## YSGOL PROFIAD.

## V. WEDI MARW YN LLIFARU ETO.

"Ynglŷn â Gwyddoniaeth Feddygol clywir am air mawr a elwir yn UNCONSCIOUS CEREBRATION. Dywedaf i chwi beth yw mewn geiriau plaen,— dylanwad pethau arnom nad ydym yn eu cofio."

**L**LUNIWN yrru 'mlaen heb son dim mwy am yr ysgol newydd a'r hen athraw da sydd yn ei fedd. Ond erys ei ddylanwad yn gryfach nag erioed heddyw. Aeth ei ôl i lawr yn ddwfn i ymwybyddiaeth y Cymro Bach, a gweithredodd lawer tro fel rhywbeth eilw'r meddygon yn "ddylanwad pethau arnom nad ydym yn eu cofio." Rhwystrodd ei ddylanwad cudd y Cymro wneyd drygau laweroedd o weithiau. Daw prydferthwch manwl ofal Rhagluniaeth i'r golwg yn aml iawn fel hyn. "Ei ffyrdd sydd yn y môr." Ie, ond dont yn amlwg ambell i funud, ac aiff gwreiddiau y bywyd newydd yn is ac yn dynnach yr adegau hynny. Dylid bod yn wyl-iadwrus rhag colli y munudau tryloew yma. Colli rhain barodd llefaru,— "Nid oes weledigaeth eglur." Dal y munudau gwerthfawr yna wnaeth weledydd clir o Samuel bach. Sylwi ar y "pwyntiau troi" ddarfuo Joseph i ddeall troion Rhagluniaeth cystal. Munudau aur y nefoedd ydyw y rhain.

Dyna un wers fawr bythgofiadwy argraffwyd ar y Cymro Bach drwy gyffyrddiad yr hen athraw hynod. A ydych chwi, blant Cymru yn synnu ei fod yn meddwl mor fawr o hono! Nid yw ei ddylanwad wedi peidio eto. Aiff yn gryfach o hyd. A chyfrifir ef heddyw y peth nesaf i ddylanwad Iesu Grist.

Gallesid meddwl fod ymdrechion diymhongar hen athraw gonest a phiwritanaidd yn mynd heibio heb adael ôl anileadwy. Ond nid felly y bu hi. Aeth yr argraffiadau i'r ddaear megis. Ac yn ara deg deffrodd y bywyd oedd yn yr had a hauwyd, a dechreuodd newid dull plentyn o feddwl. Ond cofier mai araf iawn y cymerai hyn le. Eto, sicraf yn y byd o fod yn arhosol oed. Tyfodd DAIONI yn enaid y Cymro sydd yn mynnu llefaru drwy lawer o gymysg bethau yn ddiidaw. Ac hwyrach, rhyw-ddydd y gwelir yr hen wisgoedd carpiog y bu'n tyfu trwyddynt, ac yn eu rhywgo wrth ymddihatrú o honynt, ymhlith y pethau a fu. O ddedwydd ddydd, pa bryd y daw? Rhoddodd yr hen athraw sylfaeni'r ffydd i lawr. A chred y Cymro'n ddiysog y daw.

Prin y cofia sut y dysgwyd yr "A, B, C," iddo, ac ychydig iawn o adgof a fedd am waith y Safonau I. a'r II. Ond erys y triniaethau garw a charedig braidd i gyd.

Yr oedd milltir o ffordd i'r ysgol bob bore drwy bob tywydd. A

phryn y collai y Cymro Bach ddarn o ddiwrnod heb ryw wir reswm am hynny. Ac os yr un, chwenychai ef a'i frindiau bach fynd i'r ygol ar dywydd mawr; caent fwy o groesaw ac o ryddid yr aelwyd. Yn yr ysgol y bwyteid cinio bob dydd. A byddai'r hen adeilad yn dipyn o gartre yn ogystal a lle i ddysgu. Disgryblid y plant i fyw'n gytun, ac i ymostwng y naill i'r llall heb neb i ymyrryd yn eu cwestiynau ar adegau felly. Arferent eu hunain i ofalu am y rhai oedd, drwy anffawd, wedi anghofio eu bywd hefyd. A gwneid llawer cymwynas i'r naill a'r llall fel petaent ar yr aelwyd.

Y tro nesaf daw hanes tro blin eto.

### GWERS YR EHEDYDD BACH.

UN bore cyfeirials  
Fy nghamrau min dydd,  
I'r meusydd gwyrrd, llednais,  
A'm calon yn brudd.

Canfyddwn yn esgyn—  
Ehedydd bach llon,  
A nodau ei emyn  
Yn ehwyddo ei fron.

Daeth hogyn direidus  
I'r fan ar ei rawd;  
Meddylodd mai hapus  
F'ai "taro y brawd."

Ymdrechodd a gwneuthur  
Ei feddwl yn ffaith;  
Ond methodd 'n ei antur,  
Er cynnyg aml waith.

*Hafoty Gerrig, Corrig y Drudion.*

I fyny ai'r bychan,  
Er gwaethaf ei sen;  
A dringodd yn fuan  
I entrych y nen

A! beraidd ganiedydd,  
Os bychan wyt ti,  
Fe gyrohaist lawenydd  
I'nghalon brudd i.

Mae heddyw i'w gweled—  
Enwogion y llaid,  
Yn taffu—er dued,  
E'u sennau'n ddfibaid.

Ac O, llanwer ninnau  
O wers yr un bach;  
I dreiddio trwy rwystrau  
Tan ganu yn iach.

T. ROBERTS.

### CYMRU'R BARD.

DERWYDDON gynt fu'n Nghymru,  
Pregethwyr rhin a moes,  
Adolent hwy drwy'r dderwen,  
A ninnau drwy y groes.

Bu DEWRION brynian Cymru  
Yn chwerthin ar y cledd,  
A'u gwaed yn berwi'u calon  
Gan wrido'u gwrol wedd.

Mae DIARHEBION Cymru  
Yn berlau doeth i'n dysg,  
A dylal mwy eu dysgu  
A'u harfer yn ein mysg.

Bu heirdd DDIWYGWYR Cymru,  
Fel engyl yn ein gwlad,  
Yn dangos croes ein Hiesu,  
Yn dangos Duw yn Dad.

R. EUROG JONES.

## DIGRIFION FY NHAID.

GAN DAID.

III.

UN tro oddeutu diwedd mis Chwefrol, daeth awydd ar Dic a minnau am gael *top* wedi gweled un ym meddiant rhyw fachgen arall. Fe addawodd fy nhaid wneyd un i ni i'w chwipio bob yn ail. Ac felly fu. Aethum innau ar redeg ac ymwithais i lwyn o helyg a dyfent gerllaw, i dorri coes chwip. Yr oedd y canghennau yn impio'n brydferth ar y pryd, a phob brigyn yn dryfrith; ac am nad oeddwn yn eu gweled yn ddail nac yn flodau, gotynnais i'r hen wr beth allent fod. Meddai yntau gan wenu,—

“Cywion gwyddau,  
Ebolion bach,  
‘Fe ddaw Calanmael bellach.”

Dyma yr eglurhad a'r esboniad a roes i mi ar yr impio.

Tarawiadol iawn ar lawer dechreuos a fyddai yr olygfa ar lawr fy hen gartref,—

“Fy nhad yn diwid naddu,  
A mam a nain yn nyddu,  
Y naill a'r droell fawr, a'r llall a'r droell fach,  
A nhaid yn y gornel yn canu.”

Er yr holl ddiityrrwch diniwed oedd ynglyn a fy nhaid, yr oedd yn ddarlennwr cyson hefyd ar ei Feibl, ac yn mynychu moddion gras, trwy fyned i gapel y Bont Lyfni bob Saboth, er yn gloff, fel y cymerai iddo awr a hanner i fyned yno.

Ond ei hanes ef, a fy nain, fy nhad, a fy mam, yw, eu bod yn huno yn yr un bedd wrth fon hen goeden onnen enfawr, ym mynwent Clynog Fawr, ers tymor maith.

“Dyna'r annedd dan yr onnen—sylvch,  
Dan sel y dywarchen,  
Ior a egyr yr agen  
Y munud daw byd i ben.”

*Tan'r Allt, Pen y Groes.*

HENRY HUGHES.

CASGLIAD PLANT PONTRHYTHALLT AT GORGOLOFN  
T. E. ELLIS.

	s.	c.
Casglwyd gan Miss A. C. Williams, Bryn Pistyll .. ..	6	5
„ J. E. Owen, Rhodfa Brynhyfryd .. ..	0	6
„ Gwladus Owen, Rhodfa Bryn Hyfryd .. ..	0	6
Master W. R. Hughes, Waen Rhyddallt .. ..	0	2

## HEN FRAN Y PLANT.

**M**AE Hen Frân yn achwyn o hyd ar y plant,  
 Hi aiff ar eu holau i fryn ac i bant ;  
 Nid yw ddim gwahaniaeth ple bynnag yr ant,  
 Mae'n gweled—yn gwylio—beth bynnag a wnant.

Aeth plant bach y Felin i chwarae yn llon,  
 Ond syrthio i'r eisin a'r brawd a wnaeth John ;  
 A Nellie yn crio wrth weled ei brawd  
 Mor wyn a'r melinydd, mewn eisin a brawd ;  
 A'u mham ddaeth i wybod wrth weld yr Hen Frân  
 Yn hedeg a chrawcian yn ol ac ymlaen.

Ymhell oddicartref yr ydoedd y tad,  
 'R Hen Frân aeth i achwyn ar hyd-draws y wlad.

Ffordd oreu o lawer i'r plant bach i gyd,  
 Yw gwylio wrth chwarae a chofio pob pryd  
 Am gadw eu dillad a'u hunain yn lân,  
 Fel na byddo achos rhoi achwyn i'r Frân.

CENIN.

## HEDDYW AC YFORY.

**M**I ddoef yfory at fy Nuw,—  
 Mi ddoef yfory'n wir."  
 Beth os na fyddi fory'n fyw ?  
 Mae angau yn y tir.

" Mae plaser ientid gennyf fi  
 Am heddyw, doed a ddel."  
 Ond beth a wnel yfory, pan  
 Yn boenau henaint êl ?

" Rhaid meddwl heddyw am y byd,  
 A'i gofraid gynnes, gu."  
 Ond beth feddyli fory, pan  
 Yng nghofiaid angau du ?

" Mae'm tuedd heddyw'n wan i ddod ;  
 Hi fydd yfory'n well."  
 Ond, hyd y nod yr agos aeth,  
 Drwy'r gobaith yna, 'n mhell.

" Ond gwan yw'r curo wrth fy nrws,  
 Gan Iesu heddyw sydd."  
 O ! agor heddyw, onide,  
 Yfory'n wannach bydd.

Penlan, Penruguiau.

" Mae llais y galon dan fy mron,  
 Mai fory deunaf fi."  
 'Rwy'n ofni'th dwyllir gan yr hon  
 A'th ganwaith dwyllodd di.

" At ddrws trugaredd fory'n wir ;  
 Mi ddoef i ufuddhau."  
 O dere heddyw, rhag y bydd  
 Yfory wedi cau.

" 'Rwy'n dweyd mai fory, fory dof ;  
 Mae'r rhwystrau heddyw'n fawr."  
 Mae Iesu'n galw gyda gwên—  
 " Bechadur, dere 'nawr !"

" Os gwelir fi fyth, fyth yn dod,  
 'Rwy'n dweyd mai fory fydd."  
 Ond bloeddia Nef fel taran groch,  
 Mai Heddyw ydyw'r dydd.

" 'Rwy'n gweld fod 'Fory' drwy fy oes,  
 Yn rhoi i'm gobaith frath."  
 O dere, ynte, diolch byth,  
 Fod croeso i dy fath.

W. N. LLOYD.



DARLUN I.

“Cythaeddasom y fan. Lle ofnadwy yw.”

### GWAITH GWRES.

**C**RYBWYLLAIS y tro diweddat fod creigiau crawn y ddaear, creigiau tân a chreigiau dwfr, yn cynwys nifer liosog o fân holltau. Gelwir hwynt yn *joints*. Trwy gynorthwy y rhain y llwyddodd y rhew i falurio cymaint ar y clogwyn. Ni allesid cael dim yn fwy manteisiol i'r mwnwr na'r holltau hyn. Canfyddir yn lled gyffredin eu bod yn rhedeg trwy y creigiau y naill yn groes i'r llall. Trwy weithio ar hyd yr holltau hyn, gall y creigiwr symud ymaith ddarnau ysgwar o graig, anferth eu maint, gyda llai o amser a llatur nag a fuasai'n ofynnol gan un dull arall. Bu llawer o ymchwiliadau o berthynas i achos yr holltau hyn, hynny yw, ceisio darganfod trwy ba flurf y dygwyd hwynt i fod. Gellir dweyd na chafwyd atebiad cywir a boddhaol eto. Priodolir hwynt gan raî i symudiadau yng nghrystyn y ddaear.

Yr hyn geisiwn gymeryd i ystyriaeth y tro hwn, megis o'r blaen, yw y ffaith fod y galluoedd dinistriol yn manteisio ar yr holltau hyn,



DARLUN II.

“Yn yr ail ddarlun gwelir y garreg.”

a thrwy hynny yn gwneŷd gwaith arbennig. Cymerwyd, er engraifft, ol y rhew. Cymerwn yn awr yr elfen hollol wrthwynebol, sef gwres.

Ni ddryllia yr elfen hon gymaint ar wyneb y ddaear ag a wna yr elfen arall a nodwyd. Nid ymhelaethaf ar y gwaith anweledig a wneir gan wres. Ond dof ag un engraifft nodedig i'ch sylw.

Ym mis Mehefin diweddaf, ar ddiwrnod coroniad y brenin, pan dywynnai'r haul uwchben yn ei danbeidrwydd, rhuthrodd carreg anferth o ben un o'r clogwyni serth draw acw. Rhuthrai trwy y coed prydfferth nodedig sydd yno, gan eu hysgubo o'i blaen, torrodd yma ac acw goeden dderw lathen o drwch. Paham y daeth y garreg i lawr? Awn i fyny acw, i'r man o'r lle y daeth. Cymer i ni chwarter awr lled dda a gwaith caled; yn wir, mae y dringo, bron na ddywedasem, mor anhawdd a phe cheisid dringo ochr to ty. Mewn gwirionedd, mae bron yn amhosibl, oddigerth, fod coeden fechan yma ac acw i ymaflyd ynddi. O'r diwedd, cyrhaedd- asom y fan.





## DARLUN III.

Carreg wedi ei gwahanu oddiwrth y graig gan row a gwres.

Lle ofnadwy yw; gwelir ef yn y darlun cyntaf. Gyda godre y clogwyn gwelwn olion gwaith rhew; ac os sylwir yn ofalus, gwelwn fod un rhan o wyneb y graig fawr yn lefel fel ochr ty. O'r fan acw daeth y garreg sydd yn y gwaelod *Joint* yw, torrwyd y garreg ar hyd y *joint*. Gan fod hyn wedi cymeryd lle ar ddiwrnod gwresog, a chan fod y clogwyn yn hollol yng ngwyneb yr haul trwy'r dydd, deurn i'r casgliad mai trwy ymchwyddiad o dan ddylanwad gwres y daeth y garreg i lawr. Dichon ei bod yn rhydd cyn hynny; llaciodd ei gfael, a thynwyd hi i lawr gan atyniad y ddaear. 'Roedd y ddaear yn tynnu y garreg, a'r garreg yn tynnu y ddaear. 'Roedd y garreg yn disgyn i lawr i'r ddaear, ond 'roedd y ddaear yn esgyn at y garreg hefyd. Ond gan fod y ddaear mor fawr a'r garreg mor fechan, ni welwyd y ddaear yn symud, ond gwelwyd symudiad y garreg.

Cymerodd hyn le mewn pentref bychan a saif ar yr afon Gonwy, a elwir yn Betws y Coed.

Yn yr ail ddarlun gwelir y garreg. Sylwn arni, a gwelwn fod un

ochr iddi hithau yn lefel; mae hyn eto yn profi mai ar hyd y *joint* y torrwyd hi. Ac i gadarnhau hynny, sylwer ar y trydydd darlun. Yma gwelwn garreg wedi ei gwthio o'r graig gan yr elfennau a nodwyd. Nid yw wedi disgyn; felly, pe codid hi buasai yn ffitio i'r graig.

Cyn troi tua chartref sylwn ar y garreg ddisgynnodd eto. Onid yw hi'n anferth? Hi yw'r fwyaf a welsom yn un darn, ni gredwn. Beth yw ei phwysau? Nid gwaith hawdd fuasai ei chodi i'r glorian. Ond nid ydym am tyned adref heb wybod ei phwysau, er na ellid cael hynny fel pwysu aur. Mae gan un o'r cwmni linyr mesur yn ei logell. Cymerwn ef, a mesurwn y garreg. Cawn ei bod yn mesur saith troedfedd un ffordd, wyth ffordd arall, ac ychydig dros chwech ffordd arall. Gan nad yw y garreg yn hollol ysgwar, ni fyddwn yn camgymeryd llawer pe dywedwn ei bod yn saith troedfedd ysgwar. Gan ei bod yn saith troedfedd ysgwar, rhaid fod ynddi  $7 \times 7 \times 7$ , sef 343 o droedfeddi ysgwar; a chan fod troedfedd ysgwar o graig o'r fath yma yn pwysu 170, pwysa y garreg felly  $170 \times 343$ , sef 58,310 o bwysau. Pwysau y garreg felly yw chwe tunell ar hugain.

Nid oes eisiau teithio ymhell oddi cartref i drefydd Lloegr i fwynhau diwrnod gwyl. Mae gan greigiau, afonydd, dyffrynnoedd, a llynnoedd Cymru ddigon o hanesion dyddorol i'w dweyd wrthym, ond i ni ofalu am ddysgu ychydig ar yr iaith. Mynnwn gael dysgu ychwaneg o hien hanes y ddaear.

SIGMA.

---

### GWEDDI PLENTYN.

**G**WEDDI ferr yw gweddi plentyn,  
Ond un lawn o swyn;  
Angel bach sydd ar ei ddeulin,  
Gwrendy'r Nef ei gwyn.

Gweddi ddwys yw gweddi plentyn,  
Calon ynddi sy;  
Rhed yr Iesu hoff i'w derbyn  
Tua'r Nefoedd fry.

Gweddi bur yw gweddi plentyn  
Fel y papur gwyn;  
Rhan o weddi'r Gŵr fu'n erfyn  
Drosom ar y bryn.

Gweddi plentyn, r'hosyn cariad  
Heb ymagor yw;  
Agor wna o dan dywyniad  
Haul Cyflawnder Duw.

O am feddu calon plentyn,  
Darn o Dduw yw hi;  
Dinw'r wydd dry yn delyn  
Yn y Nefoedd fry.

Trefris.

THOMAS JOHN.

## CARTREF.

## IV. SUT I LADD BLYS.

"YR ydym ni'n dueddol i ddirmygu ein cyfleusterau bob dydd, ac i aros am ddydd y PETHAU MAWRION i wawrio arnom. Ond nid trwy weithredoedd mawrion y gwneir ereill yn hapus; ac nid trwy garedigrwydd ac hunan-aberth amheuthyn; ond trwy y pethau cyffredin, syml a chyffredinol, sydd yn ein cyrraedd o wythnos i wythnos."

Y peth diweddaf a ddywedais y tro o'r blaen oedd,—neges gwaed iach diflysiau i'r oes hon. Awn ar ol BLYS y tro yma. Un ffordd i ladd blys ydyw creu blys cryfach yn ei le. Dyna ffordd Paul, apostol mawr y cenhedloedd, onite? "Na feddwer chwi gan win, . . . . eithr llanwer chwi & r ysbryd." Dyna ddull natur o'n cwmpas hefyd. Cedwir nerthoedd yn llonydd gan bwerau ereill cyfartal. Ond pan gyhoeddir fod trechach ynni ar y maes dechreu pethau newid. Beth ddoi o honom yn ein cartrefi llwydaidd oni bai am ddeddf atyniad? Yn awr, yr wyf am ofyn i chwi gymhwyso'r un egwyddor ym myd y blysiâu. Ymhlith blysiâu difrod, cyhoedder blys uwch a rhagorach i frenhiniaethu yn lle'r hen. Cyst hyn beth, mae'n wir. Ond tâl yn ddeuddyblyg am bob ymdrech i gryfhau ac ymgyfoethogi mewn daioni. Nid yw astudio blys ar ei ben ei hun nemawr les. Y mae perygl i gyfaredd y drwg barlysu pob hedyn da. Ond gellir yn ddiberygl sylu ar ac astudio gallu cryfach a rhagorach; a dyna'r unig ffordd ddiogel i orchfygu.

Nid ymgodymu & themtasiwn heb nerth newydd a threchach ddylid; ond galw ar flys o uch uwch i'r maes. Wedyn bydd dyn yn byw mewn awyr newydd, dan raddol adael o'i ôl wendid a chryfder blys afiach.

Dylid dysgu dygymod & dioddef pan mae'r DA'n gweithio i dorri sylfaen cymeriad. Sonrir yn aml am swyn llygredd. Coffeir o hyd i blant fod "moesau drwg yn llygru moesau da." Ac ymresyma plentyn ynddo 'i hun fod drwg yn gryfach na'r da.

Cyhoedder nerth daioni yn drech na swyn drwg, a gwnaer ef yn ffaith ddiymwad ym mywyd bob dydd pob tad a mam. Yna ca'r plant fwy o help nag erioed i dynnu allan yr hedyn daioni sy'n weddill yn eu natur. Daioni yw y firwd wreiddiol; a pharha i lifo'n ddidor o fynwes y Tad ar hyd y canrifoedd. A welwyd rhywun heb beth da ynddo? Dylid sylu'n ddyfal ond yn siriol ar dyfiant bywyd. Peidier a goglais y drwg o hyd, neu bydd yn siwr o dyfu'n rhy gryf i'w dagu'n hawdd.

Dywed dynion dysgedig heddyw nad oes deddf a llai o eithriadau

iddi na'r adnod gynhefin honno,—“Hyfforddia plentyn ym mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy a hi.” Ac os felly, dylai pawb fod yn ofalus am y manion; oblegid manion sy'n gwneyd perffeithrwydd.

Gellid yn bur hawdd ddifa blys trwy ddefro blysiâu meddyliol ac ysbrydol.

Yr wyf yn meddwl fy mod wedi agor y ffordd i ymdrin y tro nesaf ar bwnc tyner eto.—“Y ddawn brydferthaf o'r holl gelfau cain,— y gelfyddyd o gynyrchu hapusrwydd.”

*Llys Meirion, Penrhiwceibr.*

EDWARD EVANS.

### Y BICELL.



E ddywedir fod dydd y bicell bron a darfod yn y fyddin Brydeinig. Y mae arfau tân mor ddifaol yn awr fel mai peth amhosibl yw i'r march-filwr gyrraedd ei èlyn. Yn lle picell, rhoddir gwn i'r march-filwr. Y mae'n debyg mai brwydrau'r Soudan a brwydrau cyn-taf y Transvaal fydd y brwydrau olaf i lu o bicellwyr hyrddio eu meirch yn erbyn y gelyn.

Hen ddull y canol oesoedd yw ymladd a'r bicell. Rhuthrai meirchfilwyr, wedi eu gwisgo meŵn dur o'u coryn i'w sawdl, yn lluoedd yn erbyn eu gilydd; ac weithiau chwilfriwid y picellau'n gandryll gan rym y tarawiad. Ond daeth bwa y Cymry, a phowdwr gwn wedi hynny, i wneyd y wisg ddu yn ddi-ddefnydd.

Y mae dau beth o leiaf yn mynd fwy-fwy yn erbyn rhyfel. Un yw y gynnau newyddion. Medr y gwerinwr saethu cystal a'r uchelwr, ac y mae dydd y bicell a'r cledd yn darfod. Felly y mae y rhai fyddai'n caru rhyfel gynt yn colli eu dyddordeb ynddi.

Peth arall sy'n rhwystro rhyfel yw masnach rhwng gwledydd. Cawn ein bara o Ffrainc, Rwsia, a'r Unol Dalaethau; deuai rhyfel a drudaniaeth gyda hi.

## DADL Y MOR A'R MYNYDD.

**A**R derfyn dwyreiniol Cymru mae mynydd cadarn a môr terfysgylid yn cyd-breswyllo. Ac fel pob peth y greadigaeth, er yn amddifad o fywyd o un math, maent yn medru siarad yn eu ffordd eu hunain. Ond ni fedr yr un o'r cewri hyn fynegu ei oed; ond yn unig amlygu ei fod yn hen iawn. Bum yn gwrandaw arnynt yn ddiweddar yn ymddadleu â'u gilydd ynghylch eu rhagoriaethau. Ac yr wyf wedi cyfieithu eu hymadroddion oreu ag y medrwn. Er bod y môr yn ymddangos yn fwy byw na'i wrthwynebydd, y mynydd oedd y parotaf i ddadl. Dechreuodd fel y canlyn.

**MYNYDD.** O For, paham yr wyt mor aflonydd, ystwrilyd, a bygythiol? Fel rheol, nid yw y rhai mwyaf trystfawr yn meddu llawer o ragoriaethau, hyd y gwelais i.

**MÔR.** Syndod, syndod! A ninnau wedi preswyllo yn ymyl ein gilydd dros oesau dirifedi, ac nid wyt yn fy neall eto. Gŵyr pawb ond dy hunan mai diben fy nghrochwaeddi yw rhybuddio y rhai sydd ar fy ffordd gadw draw rhag i mi fod yn achos dinistr i ddyn.

**MYNYDD** Felly yn wir. Digon hawdd profi dy fod wedi gofalu yn llwyr iawn am danat dy hun; ond yr wyf yn dra amheus ynghylch dy ofal dros ereill. Os wyt yn cymeryd arnat nad wyt yn cofio y gweithredoedd wyt wedi ac yn eu cyflawni yn barhaus, er boddio dy drachwant, galwaf dy sylw atynt cyn gorffen y ddadl; nid yn bennaf er dy twyn di, ond er mwyn ereill nad ydynt yn dy adnabod. Obl-gid, ar ol gwybod dy hanes, nis gallant fod yn rhy ochelgar o honot. A chofia hefyd na bydd i mi byth gilio yn ol rhag dy ofn.

**MÔR** Yr wyt yn siarad yn hyf iawn; ond yr wyt yn hollol yn y tywyllwch. Yr wyf fi wedi symud o'u lle lawer o dy frodyr oedd cuwch eu pennau ac mor ystyfnig a thithau. Cludais hwynt, ddarn ar ol darn, gan eu gosod i lawr mewn gwahanol fannau yn ol fy ewyllys, ac wrth fy mhleser. Hefyd, yr wyf wedi cymeryd dy fraich ddeheu dithau i ffwrdd er ys dros ganrif bellach. Fuasai waeth gennyf hefyd gymeryd dy draed di ymaith onibai dy fod yn gymydog agos.

**MYNYDD** Os nad wyt yn camsynied yn fawr, mae dy ymffrost yn anghysondeb gwrthun. Onid oeddwn yn gymydog yr un mor agos i ti pan gymeraist fy mraich ymaith ag ydwyf yn awr? Ac onid diffyg gallu yw y rheswm na symudaist fy sylfaen odditanaf, ac nid trugaredd ataf? Oblegid yr wyt yn gwneuthur ymdrech i fy niwreiddio ddwywaith bob pedair awr a'r hugain, a hynny gyda chysondeb. Ond gwybydd hyn, mi a safaf yn ddirgryn yng ngwyneb

dy ymosodiadau anheg a beiddgar i gyflawni y gwasanaeth pwysig ac anrhydeddus a ymddiriedwyd i mi a'm byddin ffyddlawn

**MÔR.** Nid wyf yn synnu rhyw lawer dy fod yn siarad mor blentynaidd, oblegid y mae dy ben di yn y gwynt bob amser. Pwy yw dy fyddin, tybed? A pha beth yw y gwasanaeth mawr, a rhagorol, y cyfeiri ato, mi garwn wybod?

**MYNYDD.** Dylet fod yn gwybod, a hynny ar dy brofiad dy hun. Agor dy lygad, edrych ar fy ochr ddeheu, ac ar fy llaw chwith; ar y creigiau, a'r bryniau, a'r banciau tywod, sydd yn ymestyn ar bobtu i mi am filltiroedd lawer. Dyna fy myddin. Ac er i ti ein fflangellu yn ddirugaredd, gwnawn dy yrru yn ol gan chwerthin am dy ben. Yna diengi yn siomedig, gan rwgnachu yn gwardaidd, hyd at erchwyn dy wely y tu arall, sef ar fordir Cernyw, lle'th orfodir gan adran arall o'm byddin i gilio'n ol ar ffrwst.

**MÔR.** Nid wyf ar un cytrif am honni fy mod yn frenin. O na, gwas wyf fi ar y goreu. Ond ni phetrusaf ddweyd mai myfi yw un o'r gweision ffyddlonaf a berthyn i'r rhan yma o'r cread. Er cymaint fu awdurdod ein grasusaf frenhines Buddug, y mae i mi frenhines gryfach ei dylanwad na holl benaethiaid y byd gyda'u gilydd, sef y "Lloer a'i mantell arian a'i gemwisg ddisgleirwisg lân." Gorseddwyd hon yn y dechreuad gan Frenin y brenhinoedd. Nid wyf yn symud lled llaw ond yn ol ei chyfarwyddyd hi. Gan hynny, gweli nas gelli fy meio heb dy fod ar yr un pryd yn cablu yr Hwn nad oes yr un bai yn perthyn iddo o gwbl.

**MYNYDD.** Yr wyf yn hollol argyhoeddedig dy fod yn gywir yn dy lith diweddaf. Credaf hefyd yn sicr bod fy ngwaith innau mor angenrheidiol a dy orchwyl dithau. O'r hyn leiaf, mae fy ngwasanaeth yn beth nas gellir ei hebgor. Nid oes rhaid i ti na minnau gywilyddio am nad ydym yn cyflawni diben ein bodolaeth, a hynny i drwch y blewyn. Dyddorol fyddai gennyf wrandaw arnat yn rhoddi desgrifiad o wahanol oruchwylion cylch dy wasanaeth eang, a dy ddull anffaeledig o weithio.

**MÔR.** Daethym i'r maes gwaith yma wrth orchymyn yr Hwn y mae pob awdurdod yn ei law. Yr wyf wedi ac yn gweithio yn ddiordfwys yn ol rheolau sydd i mi yn anghyfnewidiol, sef ufudd-dod, prydlondeb, cysondeb, ac egni. Ac nid wyf byth yn bliuo. Mae fy ngoruchwylion yn amrywiol a lliosog. Y mae gennyf o dan fy nghronglwyd deulu mor liosog nas gŵyr yr un bod meidrol mwyaf treiddgar y filfed ran o'u rhifedi, a'r cwbl wedi eu gosod o dan fy rheolaeth. Yr wyf yn derbyn holl afonydd y byd i'm cronfa anfesuroi, ac yn derbyn drôs fy Mrenin deyrnged gan bob un ohonynt yn ol mesur eu cytoeth, yr hyn sydd yn fy ngalluogi i radddi i'r miliynau eu bwyd yn ei bryd, o'r lleiaf hyd y mwyaf ohonynt,

heb un methiant wedi digwydd o'r dechreu hyd yn awr. Teg i minnau, gallaf feddwl, gael y pleser o wrandaw arnat tithau yn awr yn egluro gwerth dy wasanaeth i ddyn, sef rhaglaw mawr y blaned ddaearol, oblegid dyna yw diben ein goruchwylion, onide?

**MYNYDD.** Y tucefn i mi, "yn siglo'n dawel dan yr awel dyner rywiog, mae meusydd maith toreithiog, gwair ac ŷd, heblaw y diwyd goedydd blodeuog." Yr wyt yn codi mor uchel weithiau ar y glannau, fel y mae yn rhaid wrth fy ngwasanaeth i, er dy rwystro i ruthro ar draws y gwastadeddau a dinistrio y cwbl o'th flaen. Ac wrth hynny, gallet beri i ddyn ac anifail oddef yn ddirfawr. Byddai i tithau golli dy enw da, yr hwn sydd yn uchel yng ngolwg pawb a'th adwaenant. Ac onid gwerthfawr yw fy nghilfach i, yn ogystal a dy waith dithau, i gludo llongau llwythog o drugareddau i mewn iddi am gysgod rhag yr ystorm beryglus?

**MÔR.** Clywch, clywch! Yr wyf yn cydsynio yn hollol â thi. Dos ymlaen, dos ymlaen. Yr wyt yn siarad wrth fy modd.

**MYNDD.** Ti fuost yn gorchuddio y ddaear am dymor maith, onid do? Ond gorchymynwyd i ti frysio tua dy le penodol hwn. Gosodwyd terfyn, fel na ddychwelai dy ddyfroedd mwy i orchuddio y ddaear. Ac wele, yr wyf fi yn flurfio rhan o'r terfyngyrch eangfawr, yr hwn sydd yn cynnwys amrywiaeth o olygfeydd diderfyn ymron,—o'r ofnadwy, y rhamantus, y rhyfeddol, y tlws, a'r defnyddiol.

**MÔR.** I lawr, i lawr, yn fy mharthau iselaf, y mae meusydd tyfawr eang, toreithiog o lysiau, a blodau. Ac y mae eu prydferthwch yn taflu y rhan liosocaf o gynhyrchion prydferthaf yr arwynebedd i'r cysgod o ran eu tlyzni.

**MYNYDD.** Clywais fod dyn anturiaethus a beiddgar wedi talu ymweliad â'r meusydd rhyfedd y cyfeiri atynt. Yn ol ei dystiolaeth ef, teimlodd fod yr unigrywdd distaw yno yn arswydus o lethol. Er hynny, fel arfer, mynnodd ddwyn gydag ef ryw gymaint o gynnyrch tlws y rhanbarth anghysbell crybwylledig. Ond yr ydwyf yn tueddu i wyro ychydig oddiwrth y testyn yn y fan yma. Yr ydym wedi siarad agos ddigon am ein mawredd y tro hwn beth bynnag. Ond O, dyna greadur mawr yw dyn, onide? Gofynnodd ei Grewr gwestiynau fel hyn i Job,— "A dynni di y lefiathan allan â bach? A rwymi di ei dafod ef â rhaff? A osodi fach yn ei drwyn ef? Neu a dylly di ei en â mynawyd?" Medr y dyn heddyw ddweyd "gwnaf" yn ddiffoesgni, ac ateb yn gadarnhaol lawer o gwestiynau ereill na wyddai yr hen batriarch ddim yn eu cylch. A theimla yn ddiolchgar i'w Wneuthurwr am ei gynysgaeddu â'r fath rodd anrhydeddus.

**MÔR.** Er y meddianna dyn fawredd neu allu sydd yn uwchraddol

I'r eiddom ni o ran ei natur, sef gallu meddwl, mae yn perthyn i ni orchwyllon anhebgorol, na fedr meddyliau holl drigolion y byd gyda'u gilydd eu cyflawni.

**MŶNYDD.** Ust! Draw o'r pellter y mae corn y drychin yn swnio ar fy nghlust, yn dweyd bod y corwynt yn brysio yn wyllt tuag atom. Byddwn barod i'r trwydr. Daliwn ein safleoedd, hyd nes y cawn gyfle i ymgomio eto.

*Dinas, Morgannwg.*

WILLIAM JAMES.

### DERNYN HEB ATALNODAU.

NANTLLE sydd bentref ar y llyn mae dau alarch du yw brân Cwmsulyn sydd graig ar ei chopa mae y defaid yn pori mewn pant mae yr afon yn codi gwelais farcud papur sydd ddefnyddiol iawn i wneyd oriawr rhaid cael crefftwr yn y cae mae yr wyn yn chwareu marbles mae y plant fel Iolo Glantwrog nid oes ei well am englyn yn chwarel Pen yr Orsedd mae llechi copr sydd yn Nhrws y Coed CYMRU'R PLANT geir gan Robert W. Jones.

*Nantlle.*

ROBERT W. WILLIAMS.

### BLAEN YR YSTORM.

**D**AN "y dyfroedd mawr a'r tonnau,"  
Dyna'm hanes, Iesu mawr,  
Gwyddost ti feddyliau f'enaid,  
Dagrau f'ysbryd, Dad y wawr;  
Os yw blaen y storm yn curo  
Dêr fy mwithyn ambell awr,  
Wnei di oleu seren imi  
Pan ddaw'r nos a'r tywydd mawr?

Sw'n "y dyfroedd mawr a'r tonnau"  
Wna i'm calon guro'n wan;  
Murmur lleddf yr hen Iorddonen,  
Cygod ofnus yw y Llan;  
Mae y dyfroedd fel drychiolaeth  
Angau gwelw dros fy myd,  
Ac mae'r tonnau fel gobelthion  
Anwyl iawn, yn niwl i gyd.

*Abergynolwyn.*

Yn nistawrwydd glyn marwolaeth  
Lle mae ofn yn frenin mud,  
"Golwg arno wna imi ganu  
Yn yr afon." gwyn fy myd;  
Draw yng nghynwrf dwfa y dyfroedd,  
Cofia, Dad, fy llwybr i'r farn,  
Tro y niwl yn oleu benthvg,  
Gwna i'r don orffwyso'n sarn.

"Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,"  
Oes y mae gynhafia 'mhen;  
Pan ddol egwyl brudd ffarwelio  
Rhwyng dau oleu'r awr i'r pen.  
Sych, O Dad, fy nagrau ymaith  
Ddeiffa wrld fy ngrudd yn lân,  
Gad i'm glywed dros y tonnau  
Ganu bywiol Gwlad y Gân.

E. GWERNOL ROBERTS.

---

— Cystodwr a golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, 2, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---



# AT Y PLANT.



BLANT, un o'r pethau mwyaf dyddorol yw gweled wynebaw eu gilydd. Mae amryw ddarluniau yn llaw y cerfiwr, ond y mae arnaf ofn fod rhai o honynt ychydig yn aneglur. Rhaid cael y dull amrantol (ai dyna'r Cymraeg am *instantaneous process*?) at blant bach, gwyddoch bethau mor winglyd ydynt. Gofaler am y *focus* hefyd; os na fydd y darlun yn berffaith glir, mae bron yn amhosibl cerfio'r darlun yn foddhaol. Gofaler am y *developing* wedyn. Ni raid trafferthu cymaint gyda'r *toning*, ac nid oes eisiau gosod y *silver-print* neu'r *platinotype* ar gerdyn. Madddeuer gymaint o eiriau dieithr a roddais; ni wyddai'r hen Gymry ddim am y gelfyddyd hon.

IRFON. Beth ydyw "lladd dafad ddall" o chwith?

W. D. J. Diolch. Y mae mawr angen am ganuon digon syml i'r plant ieuengaf. Maent yn dderbyniol bob amser.

R. Cyhoeddir Requiem fechan darawiadol,— "Cain Beroriaeth gwyna'n brudd,"—gan J. H. Roberts, Mus. Bac., er cof am y diweddar Dr. Joseph Parry. Cewch hi oddiwrth yr awdwr, 159, Grove St.,

Liverpool; 4c. yn yr Hen Nodiant, 2g. yn y Sol-ffa.

† M. Rich. Yr wyf yn disgwyl yn fawr y medraf roddi darlun a hanes plant Sychtyn, sir Fflint, yn y rhifyn nesaf.

O. Y llyfr nesaf yng nghyfres y Fil yw Ap Vychan. Y mae hunan-gofiant yr hen bregethwr melus hwn, a'i farwnadau am ei chwaer a'i ferch, gyda'r pethau mwyaf toddedig yn yr iaith. Y mae saith o gyfrolau yn barod yn awr yn y gyfres hon,—Dafydd ab Gwilym, Huw Morus, Beirdd y Berwyn, Goronwy Owen (dwy gyfrol), Ceiriod, Ap Vychan. Pris 1/1½ i danysgrifwyr, 1/6 trwy lyfrwerthwyr. I'w cael oddiwrth Ab Owen, Llanuwchllyn, y Bala.

LL. Y mae'n bur debyg fod llawer o ddarllenwyr yn awyddus i gael llyfr newydd Iolo Carnarvon, sef "Breuddwydion y Dydd." Cyhoeddir ef am 3/6, yn llyfr darluniadol prydfferth, pan geir digon o enwau. Ni raid dweyd y bydd yn drysor o werth arhosol, ac y mae'n ddiau y mynn y llengarol ei ychwanegu at ei lyfrgell. Anfoner enwau i O. M. Edwards, Llanuwchllyn, y Bala.



DIWYDIANNAU CYMRU. VII. GWEITHWYR CLAI.



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XII.

GORFFENNAF, 1903.

RHIF 139.

---

## CAN Y FEDWEN LAS.

**D**YDD tawel yw'r Saboth yn ein gwlad yn awr. Arafu popeth,— paid trwr masnach, saif olwynion y gweithiau, mae'r afon fel pe'n llifo'n fwy distaw, a'r môr yn gwneyd ei su'n fwy esmwyth. A gwelir y bobl, yn eu gwisg lân, yn cyrchu'n llu i addoli. ¶ Ond nid felly y mae mewn gwledydd ereill; ac nid felly yr oedd yn ein gwlad ni ddau cant a hanner o flynyddoedd yn ol. Dydd i ymblesera oedd y Sul,—dydd i chwareu, dydd i ddawnsio, dydd i feddwi. Mewn llawer dull y daeth y newid dros wyneb ein gwlad.

Yn Llangyfelach, "Cân y Fedwen Las" fu achos y newid. O flaen ty'r Fagwyr y byddai'r dawnsio a'r torri Saboth, ar lecyn glas gwastad. Torrai'r bobl bren bedwen y nos o'r blaen, a rhoddent ef i sefyll mewn twmpath. Yna gosodent linyrnau o

gangen i gangen, ac ar y rhain rhoddent faneri o bob lliw. Pan ddeuai'r Saboth, deuai tyrfa fawr o bob oed o amgylch y pren bedw. Dawnsiai cylch o fewn cylch o rai ieuainc o'i amgylch. Edrychai yr hen arnynt, gan ymgomio am y dyddiau y gallasant hwythau ddawnsio mor chwim. Rhwng 1660 a 1670 oedd hyn.

Yn y Fagwyr, yr oedd ychydig Fedyddwyr yn cyfarfod ar fore Saboth i addoli. Yr oeddynt dan erledigaeth dost, a deuent o bell. Yr oedd eu gweinidog wedi gorfod ymludo i'r gorllewin pell, ac yr oeddynt hwythau megis defaid heb fugail. Poenid gŵr y Fagwyr, David Jenkins, yn fawr gan y swm a'r rhialtwch ar ddydd tawel Duw. Daeth i'w feddwl wneyd cân. Rhoddodd ei holl enaid ynddi, a gweddiodd am fendith arni. Aeth allan yn y nos, a rhwymodd hi mewn lle amlwg ar y fedwen lās. Bore drannoeth daeth cannoedd o amgylch y Fedwen fel arfer. A gwelent y gân. Mynnent glywed ei darllen. Dwys bigwyd eu calon. Ni fynnent chwarae y dydd hwnnw, ac ni chwareusant ar y Saboth mwy.\*

Y mae beirdd yng Nghymru eto. Mae eisiau ambell gân, a'i neges yn dod yn syth o'r galon. Gallai dywynnu ar lwybr cenedl, a'i harwain at bethau gwell.

---

\* Y mae'r ystori yn llyfr bychan newydd y Parch. T. V. Evans,—“Clydach a'r Cylch.” Dywed iddo ei chodi o un o'r llyfrau mwyaf dyddorol yn yr iaith Gymraeg, sef “Hanes y Bedyddwyr,” gan y Parch. Joshua Thomas.

---

### YN LLYS YR HAF.


**H**OFFI'r ydwyf neges  
Llawer deilen syw,  
Synnu'r wyf at hanes  
Bywyd gloyn byw;  
Canu wnaif am wenau  
Cynnes tywydd braf;  
Melus yw emynnau  
Adar Llys yr Haf.

Gwledda ar gyfriniaeth  
Heulwen gaf yn rhydd;  
Darllen wnaif farddoniaeth  
Tlysni Llygad Dydd;  
Yfed bywiol neithdar  
Meusydd ffrwythlon gaf;  
Gwenau'r nef a'r ddaear  
Loewant Lys yr Haf.

Crwydro'r hen fynyddoedd  
Tawel gaf yn awr,  
Gwrando gwynt y nefoedd  
Gyda'i organ fawr;  
Canu'ng nghartre'r defaid  
Alaw rhyddid wnaif;  
Canu'r ydwyf ddelliaid  
Dedwydd Lys yr Haf.

Gwrando ar gerddoriaeth  
Oratorio'r môr,  
Teimlo swyn peroriaeth  
Telyn fwyn ei gôr;  
Clywed tonnau'n canmol  
Gwledydd pell a gaf;  
Adlais gwledydd nefol  
Lonna Lys yr Haf.

## Y DDAU FACHGEN LOSGWYD.



ODDEFER i mi dŵ sylw rhieni ac athrawon at un o'r pethau mwyaf torcalonnus yn hanes ysgolion Prydain, sef y tân yn ysgol enwog Eton yn nechreu y mis diweddaf. Dydd mawr Eton yw'r pedwerydd o Fehefin; ond eleni yr oedd pawb mor brudd fel yr aeth y dydd hwnnw heibio heb gân nac adroddiad na llawenydd.

Y mae Eton, magwrfa cymaint o wŷr mawr Lloegr, yn hen hen. Mae'r bechgyn yn byw yn nhai gwahanol athrawon. Mae'r tai hyn yn hen ffasiwn,—yr lorwg yn cuddio eu muriau y tu allan; a'r tu mewn, gyda'i ystafelloedd trymaidd a'i risiau culion, o hen goed sych iawn i'r fflam. Y mae barrau heiyrn ar bob ffenestr, er yr hen amser, i rwystro'r bechgyn direidus ddod trwodd. Yr oedd is wedi tynnu y rhain o bob ty ond un drwy'r ysgol.

Un nos yn nechreu Mehefin torrodd tân allan yn y ty hwnnw yn oriau'r nos. Ni wŷr neb sut. Deffrowyd un o'r bechgyn gan y mŵg oedd bron a'i fygu. Gwaeddodd ar y lleill. Yr oedd y mŵg yn llenwi'r grisiau erbyn hyn, a'r fflamau creulon yn dilyn ar ei ol. Trwy ymdrechion anhygoel bron, medrasant dynnu'r barrau oddiar rai o'r ffenestri, a llithro i lawr hyd y planhigyn dringol oedd yn tyfu hyd y mur.

Ond yr oedd dau yn cysgu mewn dwy ystafell uwchben. Dywedir i rai weled gwyneb gwelw un o'r bechgyn yn tynnu ym marrau ei ffenestr, ond gorchfygodd y mŵg ef, a dihangodd yn ol. Ymlusgodd dan ei wely, i ddianc rhag y mŵg marwol, nes y deuai ymwarded. Ac yno y cafwyd ei gorff, wedi llosgi'n golsyn. Y mae'n debyg i'r bachgen arall ddianc i dragwyddoldeb yn ddi-boen. Tybir na ddeffrôdd, ond fod y mŵg wedi ei wneyd yn ddiideimlad cyn iddo wybod fod perygl.

Gwnaeth pawb ei oreu, yn enwedig yr athraw, i achub y ddau fachgen. Dringodd yr athraw at y ffenestr, llosgodd ei ddwyllaw a'i wyneb wrth geisio tynnu'r barrau. Ac erbyn hynny ni welai ond mŵg yn yr ystafell, ac nid oedd llais yn ateb.

Nid oedd fawr er pan oedd rhieni hoff yn anfon y ddau fachgen,—ei fam yn dod ag un o Lundain, a'i dad a'r llall o'r Alban. Prudd iawn oedd mynd a'u gweddillion yn ol.

Yr wyf yn galw sylw at y trychineb ingol er mwyn gofyn cwestiwn. A oes ysgol neu dŷ yng Nghymru, lle mae plant, nas gellir dianc ohonynt ond ar hyd y grisiau? Y grisiau yw'r lle mwyaf anodd dianc hyd-dynt; yao y bydd y mŵg dewaf a'r tân ffyrnicaf. Y ffenestr yw'r unig obaith. Nid oes ofn lladron fel y bu; pe mynnai lleidr, gallai fynd i unrhyw dŷ'n hawdd. Ni ddylid rhoi barrau ar ffenestr nas gellir eu tynnu o'r tu mewn. Dylai pob ffenestr fod gymaint ag sydd bosibl,—goleu a heulwen yw'r galluoedd sy'n sicrhau iechyd. Dylai fod dihangfa o bob ffenestr hefyd. Dylai fod ysgol, mewn man cyfleus, ddigon hir i gyrraedd y ffenestr uchaf yn yr adeilad.

—◆◆◆—

**COF-GOLOFN T. E. ELLIS.**

**DERBYNIWYD y symiau isod, a rhoddwyd hwy yn y gronfa yn yr Ariandy. Pwy anfona nesaf?**

	s.	c.
Casglwyd gan Owain Trevor Roberts, Caer. . . . .	15	0
(Sef Dr. J. T. Roberts, Dorchester House, 10/6; T. Williams, Forgate St., 2/6.)		
J. P. Jones, Bodryn, Llandwrog, Arfon . . . . .	1	0
Megan, Porthmadog . . . . .	2	0
Tom ac Eirene, Glasgow . . . . .	5	0
Casglwyd gan Edward Williams, Penparc, Llanfrothen . . . . .	6	7
Cyfeillion Pontypridd, trwy Mr. H. T. Richards, Gellidawel . . . . .	100	6
Mri. W. R. Davies, C.S., 10/6; Hopkin Morgan, C.D., 10/6; Daniel Arnott, C.D., 5/-; David Rees, 5/-; William Jones, 2/6; Jno. W. John, 2/6; Dewi Llewelyn, 2/6; Percy S. Phillips, 2/6; Evan John, 2/6; Alaw Cynon, 2/6; Thomas Mayberry, M.E., 2/6; Wm. Phillips, 2/6; E. Parry-Thomas, 2/-; T. M. Llewelyn, 2/-; Sidney Davies, 2/-; Gwilym Williams, 2/-; W. R. David, 2/-; Herbert R. Evans, 2/-; Thos. Evans, 1/6; J. Rees Thomas, 1/-; Evan Llewelyn, 1/-; Lot Talbot, 1/-; John Thomas, 1/-; Walter Davies, 1/-; John Harries, 1/-; William Davies, 1/-; Evan Howells, 1/-; David Jenkins, 1/-; Jno. H. Owen, 1/-; Rees Canfield, 1/-; H. C. Arnott, 1/-; Tom Farr, 1/-; Arthur Morgan, 1/-; Wm. Morgan, 1/-; R. B., 1/-; Wm. Thomas, 1/-; T. Hughes, 1/-; Jno. L. Thomas, 1/-; Wm. Hoard, 1/-; John Hoard, 1/-; R. Doxey, 1/-; Jno. McGregor, 1/-; John Grant, 1/-; David Williams, 1/-; T. Handel Maddocks, 1/-; Dd. E. Phillips, 1/-; Leysdon R. Williams, 1/-; Harry John, 1/-; R. E. Arnott, 1/-; A. D., 1/-; Huw T. Richards, 1/-; Mary Richards, 1/-; Mr. James T. Richards, 1/-; Ceridwen Richards, 1/-; Mr. Glyndwr Richards, 1/-.		

## DIHANGFA DIC.

CYMERODD i'r Sais oesoedd lawer o ymladd caled a chreulawn i wthio yr hen Gymry dewrion gynt o wastadeddau breision Lloegr i gilfachau a glynnoedd anghysbell Cymru wyllt fynyddig. Cyffelyb ymladd gwydn a gwaedlyd sydd wedi bod rhyngddo, hefyd, ers oesoedd, a'r Indiaid Cochion yng Ngogledd yr Amerig; a hynny gyda'r un amcan,—eu cilgwthio i wylltoedd y Mynyddoedd Creigiog, er mwyn cael meddiannu eu tiroedd breision, hudolus. Yno, hefyd, y mae wedi llwyddo i ddifeddiannu y cyn-drigolion o'u trefdadaeth, a hynny am resymau cyffelyb,—ei fod yn gryfach o ran rhif, ac yn meddu ar well arfau.

Ond at ein hanesyn. Flynyddau lawer yn ol yr oedd heliwr, neu drapiwr, o'r enw Dic yr Afancwr (am mai dal yr afanc (*beaver*), ydoedd un o'i brif oruchwylion) yn eistedd yn lluddedig ar lan un o afonydd mawrion rhewedig y Gorllewin Pell, oblegid yr oedd wedi teithio pellter mawr ar ei *skates* ar hyd wyneb yr afon, gan gludo llwyth o grwyn ar ei gefn.

Yn ddistaw ddisymwth, amgylchynwyd ef gan haid ddolefog o Indiaid digllawn. Ar un cipolwg canfu mai ar ryw hynt ryfelgar yr oeddynt, a'u bod yn perthyn i ryw lwyth anadnabyddus iddo ef. Gwyddai hefyd, o'r goreu, fod ei fywyd yn crogi ar edafedyn; oblegid gwelai fod llawer saeth eisoes ar y llinyn, a llawer bwyall yn ddyrchafedig.

Heb ddangos yr arwydd leiaf o ofn, nac o gynnwrf, gotynnodd yn dawel, mewn rhyw gymysgfa ryfedd o lawer tafodiaith Indiaidd, paham yr oeddynt yn hela ar ei diriogaeth ef. Gallodd un o'r llwyth ei ddeall, ac ebai eu blaenor trwy hwnnw,—

“Rhoddwyd yr helfaes hwn, gan yr Ysbryd Mawr, i ni, ei blant; pa hawl sydd gan y dyn gwyn i ddo yma?”

I hyn atebodd Dic yr Afancwr,—“Y mae yr Ysbryd Mawr yn gofalu am ei holl blant, ac wedi rhoddi yr helfeusydd i'r dynion gwynion yn ogystal ac i'r dynion cochion. Brodyr ydyw'r dyn gwyn a'r dyn coch.”

Yn y fan hon dyna un o'r Indiaid yn gweled y *skates*, ac yn gofyn beth oeddynt. Saethodd pelydr o obaith trwy galon Dic, tra yr atebai,—

“Y mae'r Ysbryd Mawr wedi dangos i'r dyn gwyn sut i wneyd adenydd, adenydd a'i cludant dros y rhew gyflymed a'r aderyn trwy yr awyr.”

“Hm!” ebai'r Indiaid, gan ofyn a gai ef roi cynnyg arnynt. ddiymdroi, rhwymodd Dic hwy am bedion cochyn, gan roi her

gref iddo i'w gychwyn. Ond clencan galed hyd gyhyd gadd y gŵr dibrofiad. Wedi llawer ymgais galed, llwyddodd i gael ei wadnau danodd ennyd ferr, i syrthio drachefn. Cododd drachefn, ond i gwympto'n ysmala o swta; i fyny ac i lawr, i lawr ac i fyny, yn ffroch, yn chwim, ac yn ffyrnig.

Erbyn hyn yr oedd y gwŷr cochion difrit-ddwys, sarrug-wedd, wedi ymdoddi i'w dau-ddyblyg gan chwerthin afreolus. Daeth y gŵr coch, yn gloff ei glun ac yn sur ei wep, i'r lan. Yna rhaid oedd ganddynt gael gorfodi Dic i wneyd cynnyg, a dangos iddynt sut i'w defnyddio.

Chwareuai Dic lawer ystranc ysmala afrosgo â hwynt ar y dechreu, gan gymeryd arno fethu sefyll a pheidio syrthio; a chan mor simsan a lledchwith yr ymddanghosai, dywedai fod yn rhaid iddo gael ei ddryll i'w gynnal a'i gadw rhag cwympo. Wedi ei gael dechreuodd gymeryd gwibdaith bellach, bellach bob tro oddi-wrth y lan, nes o'r diwedd, gyda bloedd a herwaedd, ffwrdd ag ef gyda gwib y wennol.

Cyn bod yr Indiaid wedi sylweddoli ei ddihangfa yn iawn, na chodi braich na bwa, yr oedd Dic ymhell tuhwnt i gyrraedd eu saethau chwyrnaf.

H. BRYTHON HUGHES.

---

## URDD Y DELYN.

### Y RHEOLAU.


1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

---

### AELODAU NEWYDDION.

1807. David Idwal Glyn Roberts, 19, Blaen Terrace, Caer.





## YMADEWIAD Y GOG.

"Cuckoo in April, cuckoo in May,  
Cuckoo in June, then flies away."

## I. HOLI.

A'I lanwsg melfedaidd, Mehefin a  
ddaeth;  
Distewi wna cynwrf y don ar y traeth.  
Mwyn ei gerddediad, hafaidd ei iaith,  
Dwed wrth y Gwew am gychwyn ei  
thaith.

Paham ymadewi aderyn mwyn ffel?  
Ni flinodd neb wrando dy ddau nodyn  
del.

Mae'r ednod ar gangen yn cwyno'n  
ddidaw, [braw.  
O goll i ddwy-sain fu'n dranc i bob  
Dwed, lwyslan, paham ymadewi yn  
awr? [o'r llawr.  
Tra blodau a meillion wnant wynfyd  
Sawr ffrwythau melusion sy'n llanw  
pob gardd, [bardd.  
Wiw edn, paid cefnu; dyna gyngor y

## II. ATEH.

"Ta-Ta," meddai'n dyner, "gadawaf  
y côr, [môr,—  
Wyf fel Madam Patti yn croesi pob  
Gwew, Gwew."

"Mi genais yn Ebrill, Mehefin, a Mai,  
A dyna yr amod, dim mwy a dim llai,—  
Gwew, Gwew."

"Er tlysed cymbhellion mwyn awen y  
bardd, [hardd,—  
Ufudd-dod i'm Crewr sy'n llawer mwy  
Gwew, Gwew."

"Bu llu yn fy ngwrando, ar fryn ac ar  
ddôl, [pan ddof nol,—  
Bydd torf o'r rhai hynny yn y bedd  
Gwew, Gwew."

"Hynawsed yw canu aderyn a dyn, <sup>am</sup>  
Oered yw meddwl y bydd bedd i bob  
un,—  
Gwew, Gwew."

"Fab dyn; ymbwylle, fy nghyngor  
bach clyw: [i Dduw,—  
Fel finnau bob amser bydd ffyddlawn  
Gwew, Gwew."

"Chwareu dy delyn iddo Ef gyda  
pharch, [arch,—  
A'th gan ni bydd farw, er d'osod mewn  
Gwew, Gwew."

"Yn ysgafn ehedaf, ffarwel, gyfaill  
mad, [pob gwlad,—  
Mae Tad Tragwyddoldeb yn gwylio  
Gwew, Gwew."

## TRO I'R GORS.

**D**YDD Sadwrn, meddyliais rhyngof a mi fy hun, gan fod yr hin yn deg, ac fod y diwrnod yn rhydd gennyf oddiwrth fy ngorchwyl, yr awn am dro. A phan yr oeddwn yn petruso i ba le i fyned, daeth cymydog i fy ngwahôdd i fyny i'r gors gydag ef, i weled y bobl yn lladd mawn. A chan nad oeddwn wedi gweled lladd mawn erioed o'r blaen, derbyniais y gwahoddiad.

Hwyrach nad yw pawb yn deall pa beth a feddyliaf wrth "lladd mawn." Ceisiaf roddi eglurhad iddynt.

Nid ydym yng nghanolbarth Ceredigion yn delnyddio llawer o lo at wneyd tân, ond yn hytrach mawn, y rhai a geir mewn cors oddeutu milltir i'r gogledd o'r dref, sef Tregaron. Y mae gan bob un bron ei bwll mawn ef ei hun. Nid wyf yn meddwl wrth ddweyd pwll mawn fod yna bwll dwfn fel pwll glo, ond yn hytrach doriad (tir wedi ei dorri), oddeutu deg troedfedd o ddyfnder. Y mae llawer o edrych ymlaen at dymor o ladd mawn. Erbyn yr hwyr parotoir gwledd fawr gan berchenogion y pyllau.

Torrir y mawn, neu fel y dywedir, "lleddir" hwynt, â chylllell finioq ddwy ochrog o'r un furt bron a dwy ochr ysgwar.

Cyn myned i lawr at y fawnen rhaid digroeni gwyneb y gors hyd nes y daw tir du i'r golwg. A hwn ydyw y fawnen, neu y dywarchen, fel ei gelwir gan rai. Gwreiddiau y coed, a'r gwair gwyllt sydd wedi bod yno, yn y lle dyfrllyd, am gannoedd o flyndoedd, a'r rhai hynny wedi pydru ac wedi gwasgu i'w gilydd nes y maent yn edrych bron fel glo o liw tywyll-goch ydyw y fawnen.

Cychwynnais wedi cinio allan o'r dref. Ar un ochr i mi, ddau led cae o'r flordd, cwyd bryn gweddol uchel, yr hwn yn ddiddadl sydd wedi bod o wasanaeth pwysig iawn i'n hen deidiau, dan arweiniad rhyw Garadog ac arwyr ereill, fu yn ymladd mor ddewr yn erbyn y gelynyon oedd yn ceisio goresgyn ein gwlad. Gelwir ef yn Castell Sunny Hill.

Ar fron y castell hwn y mae tomen fawr gron o bridd a cherrig yn cael ei hamgylchynu â mur, ac mewn ambell fan â mur dwbl o bridd a cherrig, yr hwn sydd erbyn hyn wedi ei orchuddio â phorfa. Y mae yn edrych fel pe wedi bod yn amddiffynfa gref. Nid yw yn edrych yn un naturiol o gwbl, ond yn hytrach fel un wedi ei wneyd gan ddynion. Y mae yma amryw ereill o'r un natur oddiamgylch Tregaron, sef Tomen Lanio, Castell Rhyfel, Castell Fflemish, a Chastell Llwyngwynau.

Y mae ochrau y castell yn orchuddedig â choed erbyn hyn. Ac O, mor brydferth yr edrychent yn eu gwisgoedd gwyrdd newydd.

Y maent hwy, fel llawer o bobl y dyddiau hyn, yn cael dillad newydd erbyn pob haf:

Yn y caeau, dan y coed, yr oedd cannoedd o wningod yn chwareu, ac wrth edrych arnynt daethum gyferbyn â thy mawr wedi ei adeiladu yn y coed, enw yr hwn ydyw Sunny Hill.

Gallasem feddwl fod y côr asgellog yn mwynhau ei hun yn ardderchog y diwrnod hwnnw, oherwydd yr oedd yr adar yn canu a'u holl egni; y 'Deryn Du yn canu, a'r holl rai ereill fel pe yn ymuno âg ef yn y cydgan. Arhosais am ychydig amser i'w gwranddo; pe buasai yno rywun yn eu harwain ni fuasent tymryn gwel nag oeddnynt. A phwy w'yr nad oedd yno un?

Yn eu swn melodaidd cyrhaeddais ben y lôn sydd yn arwain o'r ffordd fawr i'r gors. Gelwir y lôn hon yn Lôn Groes, am ei bod yn croesi caeau o un ffordd fawr i un arall. Y mae y lôn hon yn nodedig fel cartref Sipsiwn, lle yr arferant godi eu pebyll pan fyddant yn y gymydogeath hon rywle. Yr oedd yno rai y Sadwrn hwn, ac O, mor hapus yr edrychent,—y gŵr a'r wraig yn eistedd o flaen tân wedi ei wneyd o frigau ychydig y tu allan i'r babell. Ar y tân yr oedd tegell mawr, gallasem feddwl eu bod yn parotoi i gael tê. Heb fod ymhell oddiwrthynt yr oedd y ferlen fach yn pori, a'r plant bach,—oddeutu deg ohonynt,—yn chwareu yn y modd mwyaf cariadus a'u gilydd,—yn canu, dawnsio, a rhedeg ar ol eu gilydd. O mor llawen yr oeddnynt. Onid yw dull y rhai hyn o fyw yn debyg i'r hen Frythoniaid?

Dyma fi o'r diwedd yn lliidiart y gors, yn awr nid oes o'm blaen ond

Daeaf fawnog heb dir fwynion—ei gwodd

Sydd fel gwg ellyllon;  
Garw erch grug hagr yw hon,  
Owrs yw cyrrau Cors Caron.

Y mae oddeutu chwe milltir o hyd, yn cael ei hamgylchynu â bryniau uchel o bob tu. Trwy y gors hon yr ymddolena yr afon Teifi fel neidr, ac ymagora yma a thraw yn llynnoedd bychain.

Wedi myned i mewn arhosais er mwyn gweled ym mha gyfeiriad yr oedd fy nghyfaill yn gweithio; ac yn lled fuan gwelais ef yn chwifio ei gadach coch, a ffwrdd a fi tuag ato. Yn awr, yr oeddwn yn myned ar hyd ffordd fawnog, a ffos llawn o ddwfr o liw coch-ddu o bob tu i mi, y rhai sydd yn dwyn y dwfr allan o'r pyllau mawn i'r Teifi. Wedi cerdded am oddeutu chwarter milltir cyrhaeddais fy nghyfaill. Yr oedd yno weithio, rhai yn digroeni, rhai yn lladd, a'm cyfaill yn codi dwfr allan o'r pwll i'r ffos.

Y mae yn olygfa brydfêrth,—gweled rhai yn lladd mawn. Dechreuaf yn gyntaf trwy dorri i lawr dywarchen oddeutu pym-

theg modfedd o hyd, a'i lled a'i thrwch oddeutu yr un faint. Wedi i hwn fynd yn ddigon pell dechreua un arall dorri step yn is; ac un arall; nes y bydd oddeutu chwech ohonynt yn gweithio, un ohonynt step yn is na'r llall o hyd.

Nid torri ydyw y gamp i gyd ychwaith. Y mae yn rhaid iddynt eu codi hefyd, a dyma waith ydyw hwn. Dodant y rhes gyntaf i sefyll ar eu pennau, yna tafiant y rhai ereill i sefyll yr un modd, pob un i'w lle. Nid ydynt yn cael amser i'w gosod â'u dwylaw, ac yn wir nid oes eisiau, oherwydd medrant daflu pob mawnen yn gywir i'w lle.

Nid yw'r mawn yn barod i'w llosgi eto; y mae yn rhaid eu gadael yno i sychu am oddeutu dau fis.

Amser doniol iawn yng nghwmni y lladdwyr mawn ydyw amser bwyd, pryd yr adroddant ystoriau wrth eu gilydd. Y maent yn ddoniol dros ben.

Oddeutu saith o'r gloch ymadawsom yn gwmai mawr oddiyno. Nid ydynt wedi gorffen eto, oherwydd y mae y gwaith goreu ar ol, sef bwyta o'r wledd, yr hon y parotoir ac ei chyfer trwy y dydd gan y rhai fydd gartref yn y ty.

*Tregaron.*

E. ISLWYN EVANS.

### YR EHEDYDD BACH.

I.

**E**HEDYDD bach mwyn,  
Mor felus yw swyn  
Dy gân;  
Dy alaw fach lon  
Bydd gariad fy mron  
Ar dân.

II.

O na fedrwn i  
Ehedeg fel ti,  
Uwchlaw  
Treialon y byd,  
A chanu o hyd  
Heb fraw.

*Morfa Bychan.*

III.

Rhwng daear a nen,  
Mor uchel uwch ben  
'Rwyd ti;  
Pwy ddwed i ba le  
Uwch daear a ne  
'R af fi?

IV.

Dy odlau o fawl  
Enynnant y sawl  
A'u clyw  
I ganu'n ddi boen—  
"Trwy rinwedd yr Oen,  
At Dduw."

W. D. JONES.

LLYFRAU DERBYNIOL. Y mae Ceridwen Peris wedi ysgrifennu llyfrau bychain pwrpasol iawn at wasanaeth yr Ysgollon Sabothol i Safonau I., II., III. (pris ceiniog, ceiniog a dimau, dwy geiniog). Bydd yn dda wrthynt mewn teuluoedd hefyd, lle mae anhawster i ddysgu Cymraeg i'r plant. Cyhoeddir hwy o Lyfrfa'r Methodistiaid, Caernarfon.

## CAMGYMERIAD Y FAM.

**Y** MAE serch mam at ei phlant, fel rheol, yn gwneyd ei meddwl yn ddoeth a'i bywyd yn arwrol. Y mae ambell eithriad; a'r eithriadau hyn yw pethau pruddaf hanes y byd. Adroddir eto, ar aelwydydd Finland, hanes prudd mam gollodd ei serch am ennyd at ei phlant.

Yr adeg honno, yr oedd Finland newydd ei gorchfygu gan Rwsia greulon, ac yr oedd sawdl y gorthrymwr ar wddf y gwladgarwr. Yn ystod y rhyfel yr oedd heidiau afrifed o fleiddiaid wedi dod o'r gogledd oer a'r dwyrain caled, ac ni feiddiai dynion dewr fynd i'r caeau a'r coedydd, hyd yn oed liw dydd. Daeth gauat gerwin,—eira gwyn dros bob man,—a daeth newyn at yr heidiau bleiddiaid.

Yr oedd mam yn mynd a'i thri phlentyn i dŷ ei thad, i chwilio am nodded yn y dyddiau duon hynny. Yr oedd y dioddef, mae'n sicr, wedi gwanhau ei meddwl. Bachgen afiach, croes, chwech oed, oedd yr hynaf; nid oedd dim wrth ei fodd, ac yr oedd ei lais gwenwynllyd i'w glywed yn cwyno ar hyd y dydd. Bachgen hardd, serchog, pedair oed, oedd yr ail; yr oedd pawb yn hoff iawn o hono. Baban ar y fron oedd y llall.

Cerbyd un ceffyl oedd ganddynt, y fam yn dal y ffrwyn. Carlamai'r ceffyl ymlaen, rhag ofn y nos—a'r bleiddiaid. Cyn mynd ymhell, clywent udiadau'r bleiddiaid o'u hol. Fflangellai'r fam y ceffyl; ond, er iddo fynd ei oreu, yr oedd y bleiddiaid yn ennill arnynt. Rhuthrodd dau flaidd enfawr at y ceffyl. Heb betruso dim, cydiodd y fam yn y bachgen hynaf a thafodd ef i'r bleiddiaid. Arosodd yr holl haid am ennyd i ymladd am dano ac i'w fwyta.

Cyn pen hir, clywid swm ofnadwy'r bleiddiaid yn nesu drachefn. Edrychodd yr ail fachgen ym myw llygaid ei fam. "Mami, ydw i'n dda; yn tydw i, mami? Chaiff y bo-bos mo'na i, a gan nhw, mami?" Cyn pen ychydig funudau, yr oedd y bleiddiaid ar eu gwarthaf; a thafodd y fam y bychan hoffus iddynt.

Yn fuan fuan, daeth swm y bleiddiaid ar yr awel eto. Tafodd y fam ei baban iddynt oddiar y fron. Cyn i'r bywstfilod ddod ar warthaf y fam wedyn, yr oedd hi a'r ceffyl lluddedig wedi cyrraedd cyfannedd. Cafodd amser i adrodd hanes colli'r plant; ac yna bu farw o ddychryn a thorr calon. Y mae gwers i'r hanes ofnadwy hwn. Nid oes dim, hyd yn oed cadw bywyd, yn rhoddi hawl i ni wneyd drwg. Mil gwell i'r fam, druan, fuasai marw gyda'i rhai bychain na marw o dorr calon wedi eu colli.

## Cyngherdd yr Adar.



RICHARD AB HUGH, Y Bala.  
Allan o *Gymru'r Plant*, Mai 1903.

W. PHILLIPS, Aberteifi.

DOH AŴ.

Daeth	:s <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>  l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	:d	s <sub>1</sub> :- :fe <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :- :s <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :t <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>
	:m <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>  f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	:f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :- :re <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :- :m <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>
	d	d :d	d  d :d	:l <sub>1</sub>	gan - u,	Bwr-	lym-a mel-
	:d <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub>	d <sub>1</sub>  d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub>	:d <sub>1</sub>	d :- :-  d :- :d	r :r	:t <sub>1</sub>

od-edd drwy'r llwyn ; Mae lifr-ai y mas-arn yn	t <sub>1</sub> :t <sub>1</sub> :r	t <sub>1</sub> :- :le <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :- :s <sub>1</sub>	d :d :s <sub>1</sub>	d :d :m
	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :- :-	:- :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>
	r :r :f	r :- :de	r :- :s <sub>1</sub>	m :m :m	m :m :m
	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :- :-	:- :s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub>

glas - u, Wrth glyw-ed y fronfraith mor fwyn ;	r :- :de	r :- :de	r :r :d	r :r :f	m :- :re
	l <sub>1</sub> :- :-  l <sub>1</sub> :- :l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	d :- :-	
	f :- :m	f :- :m	f :f :m	f :f :l	s :- :fe
	f <sub>1</sub> :- :-  f <sub>1</sub> :- :f <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	d :- :-	

Yn hwyliog a'r hed-ydd o'r ddae - ar I'r	m :- :m	f :f :r	f :f :r	f :- :m	r :- :re
	r :- :d	r :r :t	r :r :t	r :- :d	t <sub>1</sub> :- :t <sub>1</sub>
	s :- :s	s :s :s	s :s :s	s :- :-	s :- :s
	r :- :d	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :- :-	s <sub>1</sub> :- :s <sub>1</sub>

nefoedd dan ganu ta ta ; With wledd-a yn nghyngerdd yr	m :m :re	m :m :d	l :- :-	:- :l	s :m :d	s :m :d
	d :d :d	d :d :d	d :- :-	:- :d	d :d :s	d :d :d
	s :s :fe	s :s :m	f :- :-	:- :f	m :m :m	m :m :m
	d :d :d	ta :l <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :- :-	:- :f <sub>1</sub>	d :d :d	d :d :d

s :- f	m :- m	m : r	d : d	l : l	s : s	d :- :-	l :- :-
r :- :-	l d :- :ta	l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :- :-	l :- :-	l :- :-
ad -	ar, Cawn	fel - us	la - wen-ydd,	ha	ha.		
r :- :s	s :- :s	s : f	m   r	d : t	d :- :-	l :- :-	l :- :-
t <sub>1</sub> :- :s <sub>1</sub>	l d :- :d <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>	f <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :- :-	l :- :-	l :- :-

2 Daeth amser i'r adar i ganu,  
 Gorfoledd ym mhobman y sydd ;  
 A gwrando'n eu drysau dan wenu,  
 Mae briall a llygaid y dydd ;  
 Swyn tenor aur-bibell addolgar  
 Y fwyalch bereiddia y chwa ;  
 Wrth wledda yng nghyngherdd yr adar  
 Cawn felus lawenydd, ha ha.


3 Daeth amser i'r adar i ganu,  
 Addola'r dryw wisgoedd y drain ;  
 Mae'r wennol dan dwtiau yn denu  
 Yr hafddydd i'r bryniau yn gain ;  
 Yng nghwmni'r telynau mwyn, hawddgar,  
 Mae'r gwcow a'i swynol do la ;  
 Wrth wledda yng nghyngherdd yr adar,  
 Cawn felus lawenydd, ha ha.

### RHOI A CHYMERYD A MYND.

**B**ETH yw dy neges di, Loyn yr Haf,  
 Ymysg y blodau'r boreuau braf ?  
 Wyt ti'n rhoi rhywbeth ar wefus y blodyn ?  
 Wyt ti'n cymeryd rhywbeth wedyn ?  
 "Rhoi a chymeryd," medd Gloyn yr Haf,  
 "Rhoi a allaf, a chymeryd a gaf."

Pam ar un blodyn, Loyn yr Haf,  
 Yr oedi mor hir fel pe'n gariad glâf ?  
 A pham drachefn, yr ei mor chwim  
 Oddiar un arall heb oedi dim ?  
 "Oedi yr ydwyf," medd Gloyn yr Haf  
 "Cyd a'm croeso ble bynnag yr af."

Diolch iti, Loyn yr Haf,  
 Cofio dy wersi yn hir a wnafl—  
 "Rhoddi cusan a derbyn gwên,  
 A mynd cyn i'r croeso fynd yn hen."



DANIEL SILVAN EVANS.

*Y darlun olaf dynwyd o hono. Gan F. E. Hamer, Manchester.*

### DANIEL, SILVAN EVANS.

**F**ORE Sul y Pasg diweddat, sef Ebrill 12fed, bu farw Daniel Silvan Evans, yn bump a phedwar ugain oed.

Ganwyd ef ym Mron Wilym Uchaf, Llanarth, Ceredigion, Ion. 11, 1818. Yr oedd o fewn cyrraedd yr addysg oreu roddid yng Nghymru yn y dyddiau hynny,—bu yn ysgol enwog y Neuadd Lwyd, dan Dr. Phillips; ac wedi hynny yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Stephan.



Ond yng ngogledd Cymru y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes faith. Daeth yn gurad, yn 1852, i Langian, rhyw chwe milltir i'r de orllewin o Bwlheli, yn Lleyn. Yma cryfhaodd ei awydd i astudio'r iaith Gymraeg, ac yr oedd y gwahaniaeth rhwng geiriau Lleyn a geiriau Ceredigion yn ddyddorol iawn iddo. Yma hetyd y dechreuodd feddwl am gyhoeddi cylchgrawn cenedlaethol, gydag Alltud Eifion, i ennyn dyddordeb yn llên gwerin a llenyddiaeth Cymru. Y mae Alltud Eifion eto'n sionc a siriol, mewn oedran



RHEITHORDY LLANWRIN.

(Trwy ganiatad caredig F. E. Hamer.)

teg. Y "Brython" oedd y cylchgrawn, a bu'n foddion i fagu to lenorion da.

Yn 1862, symudodd i Lan ym Mawddwy, yn sir Feirionnydd, yn rheithor y lle prydferth a hanesiol hwnnw. Yma y buasai Ab Ithel, yr hanesydd Cymreig gwladgarol; ac yma y cyrchai y bardd Glasynys i gyfranogi o'i wladgarwch, er nad o'i ddysg. Dyma hen ardal ramantus y Gwylliaid Cochion, a llawer traddodiad cyffrous am danynt adroddid wrth y rheithior newydd. Yr oedd llawer o

lyfrau Cymraeg, a llawysgrifau, yn hen gartrefi'r ardal; ac nid oedd llyfrgell ardderchog Peniarth ymhell. Treuliodd bedair blynedd ar ddeg dedwydd yma. Yn aml deuai dros Fwlich y Groes, hyd y ffordd hir brydferth, i Lanuwchllyn. "Ni welais i mo'r ffordd honno'n hir erioed," meddai, "cawn gwmi rhywun fedrai adrodd rhyw hen draddodiad wrthyf, neu gynnyg esbonio enw rhyw le, neu ddweyd gair Cymraeg nas clywswn o'r blaen."

Yn 1875 etholwyd ef yn athraw Cymraeg Coleg Prifysgol Cymru. Y flwyddyn wedyn symudodd o Lan ym Mawddwy yn is i lawr Dyffryn Dyfi, i Lanwrin. Yr oedd felly yn agosach at Aberystwyth, ac yr oedd yn haws iddo gyfuno gwasanaethu ei blwy a gwasanaethu'r coleg.

Tra y bum yn Aberystwyth yr oeddwn yn aelod o'i ddosbarth. Yr oedd hwnnw'n ddosbarth difyr iawn. Darlennem "Ddrych y Prif Oesoedd" Adroddem draddodiadau o wahanol fannau o Gymru. Mwynhaem gwmi'n hathraw, gyda'i lygad llon, ei feddwl llawn, ei eiriau caredig,—gwmai gyfeillion ohonom, a gwmai ni'n hoff iawn o lenyddiaeth Cymru.

Ond mynych y dywedai rhai o'n cydefrydwyr,—“Pam yr ydych yn colli eich amser gyda'r hen iaith ddiwerth yna? Nid ydyw hi'n werth dim mewn un arholiad. Hi fydd ar eich ffordd chwi byth.” Yr wyf wedi dal sylw ar fywyd y rhai ddywedent fel hyn; safent, fel rheol, ar waelod rhestrau'r arholiadau; ac os dylid barnu pobl oddiwrth y da wnant i'w gwlad, rhyw ymlusgo hyd y gwaelodion y maent o hyd. Ein teimlad ni yr adeg honno oedd fod astudio Cymraeg yn orffwys, ac yn hyfrydwch, ac yn ein gwneyd yn fwy parod i astudio pethau ereill. Ni fuasai ein serch at ein coleg y peth ydyw oni bai am yr athraw Cymraeg. Tybiodd llawer, wedi i Silvan Evans ymddiswyddo yn 1883, nad oedd eisiau athraw Cymraeg. Teimlwn fod dysgu Cymraeg yn rhan mor ddifyr ac mor bwysig fel na orffwysais hyd nes llwyddo i berswadio Cyngor y Coleg i apwyntio olynnydd iddo.

Pwy ysgrifennodd gymaint o lyfrau a Silvan Evans? Efe yw geiriadurwr Cymru. Golygodd rai o'n llyfrau gwerthfawrocaf,—Llyfryddiaeth y Cymry, Gwaith Ieuan Brydydd Hir, Gwaith Gwallter Mechain. Dengys y “Blodau Ieuainc” y gallasai wneyd bardd da. Gwnaeth llawer i helpu efrydwyr hanes Cymru, megis Mr. Skene a Lady Charlotte Guest.

Caf adrodd ryw dro pwy oedd ei athraw goreu yntau, a pha beth a wnaeth iddo ymdafu i wir waith ei fywyd. Gwell gennyf hynny na rhoi rhestr hirfaith y graddau a'r anrhydeddau bentyrrwyd arno.

## YR ADERYN DU, NEU'R FWYALCHEN.

**C**AWN gwmni dityr y 'Deryn Du, neu y Fwyalchen (*Blackbird*), cyn amled o gwmpas ein cartrefi gwledig a'r cymrodyr bychain, cerddgar, del, a ffyddlon, y Robin Goch, y Dryw Bach, y Binc, Titw Thomas Lâs, Brech y Fuches, ac amryw byd o'r teulu.

Gall pob plentyn ei adnabod ar unwaith, oherwydd y mae ei wisg yn llyfn-ddu, a'i big yn felyn.

Ni chlywais neb yng nghwmpasoedd yr Eryri fawr yn ei alw wrth yr hen enw tlws, y Fwyalchen, sef ar lafar. Dyddorol iawn fuasai olrhain wrth prun o'r ddau enw yma y gelwir ef yng ngwahanol ardaloedd Cymru.

Rhestrir ef gyda dosbarth y piod, ac nid gyda'r mân gantorion gwigawl. Mesura tua deg modfedd. Y mae plu y fenyw yn llawer mwy llywd-ddu na phlu'r gwrryw, ac y mae yn sobrach ac yn llynyddach ei asbri na'i "rollicking friend," chwedl Kingsley. Adeilada ei nyth fynyachaf ym mon draenen wen, a chan ei fod yn un o'r rhai cyntaf i lunio nyth yn nhymor y gwanwyn, y mae, fel y Fronfraith, yn gofalu am ei saernio yn ddigon cynhesol, fel noddfa glyd i'w rai bach pan yn egwan. Dwbia y tufewn iddo yn gywrain gyda phridd cleiog, fel nas medr chwa o oerwyn lwyddo i fynd drwy'r caerau. Ie, "Yn glau fel nyth y Fwyalch," medd hen ddiaarheb Gymreig. Nid oes yr un aderyn yn gorffen ei nyth yn hollol yr un fath, yn cymeryd yr un defnyddiau arbennig, ac yn cyfieu y cartref yn yr un lle a'u gilydd.

Y mae Mwyalchen y Graig (*Ring Ouzel*) dipyn yn fwy na'n hen frynd cyffredin. Y mae duwch ei phlu yn dywyllach, a medd fath o goler wen. Cwyd ei nyth o dan dorlennydd frydlifoedd mynyddig. Y maent yn adar ymfudol yn holl rannau deheuol Ewrop.

Y mae amryw fathau ereill o'r adar hyn, nid amgen Mwyalchen y Dŵr (*Water Ouzel*), a Mwyalchen Lliw'r Rhosyn (*Rose-coloured Ouzel*).

Nid yw trigiant y rhai hyn mor hysbys yn ein tiriogaethau ni a'r lleill.

Y mae ambell i 'Dderyn Du iachus a boddlon yn byw dros ugain mlynedd. Rhaid iddo, ym mrwydr bywyd, gael mwynhau rhyddid a heddwch perffaith i gyrraedd y marc yma. Dyma groniciad o amser terfynedig rhyw hanner dwsin o'i brif gyfeillion.—y Robin Goch, 12 mlynedd; y Fronfraith, 15; y Llinos, neu Aderyn Cowarch, 16; y Bwllffin, neu Goch y Berllan, 20; Jac Nico, neu Deiliwr Llundain, 22; yr ehedydd, 24.

Dywed Mr. Gurney y bydd lliw plu yr adar iach yr un mor loew pan yn marw mewn oedran teg a phan oeddynt yn bump oed.

Tystia nad yw yr adar cewyll yn byw i hanner eu hamser naturiol, er eu digoni â bwyd; allan y mae eu nefoedd.

Mynege Gŵan Alun ychydig o hanes tynged y 'deryn du, fel hyn,—

"Yr Aderyn Du sydd yn yr ardd  
Yn gwylied yn nyfnder gaua,  
Tra y wlad i gyd tan gwrlid hardd,  
Grisialaidd o rew ac eira.

"O berth i berth, tra parhau'r hin  
Oer erwin, fe geir ei weled [flin,  
Yn ehedeg yn ddistaw mewn helynt  
A phryder yn hel ei damed."

Bydd tywydd ansefydlog ein gwlad yn peri i lu o'n hadar mwyaf cartrefol symud weithiau i dueddau tynerach, neu i leoedd y cant fwy o ymborth. Trefnodd Mr. Eagle Clarke adroddiadau ceidwaid goleudai amgylchoedd yr Ynysoedd Prydeinig ar ymfudiaeth y gwahanol adar a welsant. Ymysg eu cofnodion hynod, yr oedd ffeithiau fel hyn,— "Cannoedd o Fwyeilch yn hedeg tua'r dwyrain;" "Minteioedd o Robin Goch yn pasio;" "Am gryn hanner awr pasiodd llinell ddidor o Fronfreith," &c. Dywed Mr. Dixon yn ei gyfrol ddyddorol ar "Ymfudiaeth Adar," fod y llu asgellog gyda'u greddf gyfriniol yn deall arwyddion stormydd yn llawer gwell na'r un profwyd dynol, a diangant i leoedd tawel yn ddiagon pell a chllir o gyrraedd swn eu dialedd.

Ar fore tyner o wanwyn y bydd yr adar diddan wrth eu bodd,—

"Bore tawelgain, ac adar cydsain;  
A gwawr Hedydd, a Mwyalch ar wydd,  
Crechwengerdd Eos, o gi coed agos;  
Lleferydd adar,—hin heulaidd glaiar."

Codant yn or-foreuol i byncio eu harawd. Cwyd y Gôg (ganol Mai) tuag un o'r gloch y bore; y Llinos-werdd, tua 1-30; y Penddu, 2-30; Rhegen yr Yd, 3; y Fwyalchen, 4; y Robin Goch a'r Dryw, 4-30; y Fronraith, 4-50; yna cwyd y Titw Tomos Lâs, neu'r Tom-tit, a'r Ehedydd tua 5.

"Nid cantor ond Mwyalch." Oes, y mae rhyw deimladau cariadus ym mhawb at ei seiniau gwylltion, cytoethog. Ow! gresyn eu bod mor anaml. Y mae rhyw swyn cartrefol yn ei nodau uchel, sydyn, clir, nes y cwyd galon y trymaf ei bwn yn nhaith yr anialwch.

Pan fydd tabwrdd blin y dymhestl auafol yn curo ar ein ffenestr cawn glywed erddygan eglur y Fwyalch yr adeg honno, nes ymlid pob tristwch. Cana mewn hwyl ar frigyn y goeden afalau yn yr ardd, er gwaethaf y gwlaw a min y gwynt. Pwy ddywedodd mai "anhawdd canu yn y gwlaw?" Ond druan o'n cantwr, trydd ei raib angerddol am gael profi nodd mefus, ceirios, a phob sudd-ffrwythau, ef yn lleidr hyf, a thyn bob garddwr yn ei ben. Arweinia ei chwant naturiol ef, yn amlach na'r un aderyn arall, i ataelion

rhywd sicr, neu, i wyneb ffroen farwol llaw-ddryll y garddwr creulon, byrr ei amynedd, Y fath ddiwedd i gymwynaswr mor haelfrydig a brwdfrydig i ddynolryw. A ellir rhoi rhyw fai ar yr aderyn diniwed ?

Y mae llu o'r beirdd Cymreig wedi molianu y 'Deryn Du, neu y Fwyalch,—

“ Aderyn Du eirian deg  
Ei naturiol watwareg,  
O hawddfyd ei orseddfainc—  
Heb un gwall o ben y gainc;  
Bob tymhor y cantor cu  
Ym mlaenaf sy'n molianu;  
A'i dyner don dan wawr dydd  
Yw bri addas boreuddydd.”

MACHRETH.

“ Uwchben ei nyth chwibana'n iach—  
Na eiliwyd ei choethach; [alaw  
Ffaith yw na fu perffeithiach  
Ei chan bert i'w chywion bach.”

Corwen.

RHUDDRYN.

“ Y Fwyalch lawn o fywyd,  
Hon a geir yn gân i gyd;—  
O! 'r fath hoen, a'r fath yni—  
Hwre o'i hwyl, a'r *wi wi*.”

GWYNTON.

“ Ust, clyw berseiniau, f'awen,—*wi*  
swynol  
Hosanna'r Fwyalchen,—  
Bywiog fawl y big felen,  
I Dduw ar ei orsedd wen.”

Maentwrog.

LESTYN.

“ Y Fwyalch erfai hyawdl—  
Aderyn melyn, chwim awdl.”

HYWEL CEFNI PARRY.

“ Y bigfelen sy'n bywiog foli—i Ner,  
Ar fin Nant y Perthi;  
Gan swyn ei hawdl hyawdl, hi  
Dry anian i bendroni.

“ A chlywaf Fwyalch lawen—ddu ei  
gwiog,  
Nydda gerdd ar gangen;  
Byw folawd o'i phib felen,  
I swynion haf sy'n y nen.”

PEDROG.

“ Efelychu'r falch fwyalchen—nid all  
Un edn dydd mewn acen;  
Na 'deryn nos grwydra nen  
Daraw alaw mor drylen.

“ Gwalch del ei bais, llais a llun—yrr  
Gôr y dail i gyntun; [a'i dôn  
Ha! gall o, gelliog gwiwlun,  
A'i bib aur guro bob un.

“ Cennad Duw yn canu tòn—drwy gorn aur,  
Dry gewri ne'n fudion;  
Blodeua dan blu duon,  
O'r gwyrdd ddail arwrgerdd Iôn.”

DEWI HAVHESP.

CARNEDDOG.

### PLANT YSGOL SUL BETHANIA, ABERDAR.

**H**EN arteriad Gwlad y Bryniau  
Ar y Sullau i'w haddysgu  
Yn y Gyfrol ddwyfol ddrud;  
Llnoedd o bob rhyw ac oedran  
Ddont ynghyd drwy Walla Wen,—  
Golwg hardd nad ceir bath hona  
'N un wlad arall dan y nen.  
*Rhagfyr, 1870.*

Y mae hen Athrofa Cymru,  
Wedi dysgu myrdd cyn hyn,  
Yn nysgeidiaeth anfaeledig  
'R Hwn fu farw ar y bryn,  
Dyma nerth plant tlodion Gwalia,—  
Cewri fagwyd ynddi hi,  
Mae angylion nef yn gwenu,  
Hoff athrawon, arnoch chwi.  
WILLIAM MORGAN, (*Y Bardd*.)



DEIOL NEU HAUL-FYNAG.

Ar fur hen eglwys yn Nyffryn Conwy. Tua 500 mlwydd oed.

### RHYFEDDODAU AMSER.

**O**'R haul daeth y ddaear. Felly, gellir dywedyd mai nerthoedd yr haul ydyw holl nerthoedd y ddaear. Pe deuai Stephenson i'n daear ni heddyw, tarewid ef â syndod pan sylwai ar y modd cyflym y rhuthrai y cerbydresau yma ac acw ar hyd a lled y wlad. Synasai fwy pe gwelai y cerbydresau trydanol yn ein prif ddinasoedd. Ond nid ynt yn syndod. Yr un nerth sydd heddyw yn gweithio y trydan ag a fu'n gyrru peiriant trws gl cyntaf Stephenson. Gwres yw y nerth hwnnw. O'r gwres daeth y trydan, ac nid gwres o'r trydan. Rhaid cael peiriant gwres i wneyd trydan. O'r glo du y daeth hwnnw. Gŵyr y darlennydd mai o hen grombil y ddaear y codir y glo. Dyna ydyw,—gweddillion hen goedwigoedd trwchus fu'n byw filiynau o flynyddoedd yn ol. Yn y glo du y cedwir y gwres a'r goleuni a wasgarwyd gan yr haul filiynau o flynyddoedd yn ol. Am hynny, gelwir ef ambell dro yn "heulwen wedi ei gostrelu."

Bron na ddychmygaf glywed y darlennydd yn gofyn,—Beth sydd

a wnelo hynny ag amser? Dim o gwbl mewn yr ystyr. Ond y mae a fynno mewn ystyr arall. Ni feddyliai neb heddyw am gerdded at ochr ddeheuol hen eglwys, ac edrych i fyny tua phen y muriau i edrych pa awr ydoedd o'r dydd ar yr haul-fynag (*sundial*). Na, mae ganddo ef awrlais gartref, neu oriawr yn ei logell. Mae gwerth astudio gwyddoniaeth i'w ganfod yn y ffaith fod y sawl a wnel hynny yn gweled pethau anrhaethol brydferthach mewn Natur nag a welir gan un nad yw yn werth ganddo drafferthu i wneyd hynny. Mae y daearegwr yn gweled rhywbeth yn y graig na welir gan un arall. Dywed y graig ei hanes wrtho ef am y dealla ef ei hiaith. Mae gan ser y nos uwchben ystraeon rhyfedd, ond i ni geisio deall beth a ddywedant.

Diwrnod gwyl ydyw heddyw. Eisteddwn mewn mynwent perthynol i hen eglwys, ganrifoedd lawer o oed. Tynnir ein sylw gan un o'r cwmni at ddarn o haiarn ar y mur uwchben gerllaw. Gwyneba y mur ac yntau i'r de. Awn yn nes. Ar ol sylwi yn graff gwelwn fod rhyw lun o ffigyrau yn ei amgylchynu. Dalasant ystormydd a gwlawogydd y canrifoedd, hyd nes y maent bron wedi diflannu. Haul-fynag yw. Teimlwn yn hynod o ffortunus cael gweled un am y tro cyntaf. Nid yn aml y gwelir hwynt. Dyma awrlais yr hen bobl ganrifoedd lawer yn ol. Dyma un o'r moddau cyntaf i fesur amser. Nis gŵyr neb pwy a'i cynlluniodd ac a'i defnyddiodd gyntaf. Sonnir am dano yn y Beibl gan y proffwyd a roddasai arwydd i'r brenin Heseceia (Esa. xxxviii. 8).

Pwy sy'n gwybod digon o seryddiaeth i egluro sut mae'n gweithio? A gawn ni geisio ei ddeall? Tybiai ambell un mai yr awrlais gartref, neu yr oriawr yn ei logell, sy'n cadw yr amser. Ond nid felly. Pe deuai y proffwyd a nodwyd i'n daear ni heddyw, tarewid ef a syndod pan welai bob dyn a bachgen o'r bron gyda'i haul-fynag bach yn ei logell, yn barod bob adeg i ddweyd yr amser. Rhedasai ei teddwl yn ol i'w ddyddiau ef; gorfodid ef i ymddibynnu ar belydrau trugarog yr haul i wybod yr amser. Os diwrnod gwlyb fyddai, boddlonai ar fod heb wybod o gwbl.

Ond o'r haul y daeth yr amser a nodir gan yr oriawr yn fy llogell, yn union fel gyda'r gwres. Daw o'r haul bob dydd i hanner dwsin o seryddwyr yn Arsyllfa Greenwich. Pe gadewai yr hanner dwsin seryddwyr a nodwyd eu gwaith, ynghyd ag ychydig o'u cyffelyb yn swyddfa y *Nautical Almanack*, taflesid yr holl wlad i dywyllwch. Yn wir, gwelid y wlad megis yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ol. Ni theithiai on un gerbydres yma ac acw, a hynny'n araf. Ymddibynnai yr holl wlad ar hen haul-fyneig yr oesoedd gynt i gael yr amser heddyw.

Byddai'n werth i ni geisio dysgu beth yw, a sut y cyfrifir am, y



HAUL-FYNAG.

Gwnawd gan yr awdwr pan yn yr ysgol.

gwahaniaeth cydrhwng amser megis y nodir ef gan yr haul ag a gedwir gan gloc. Gwnawn hynny'n awr. Cymeraf yn ganiataol eich bod yn gydnabyddus â dau o symudiadau y ddaear o leiaf. Try yn gyntaf ar ei hechel o'r gorllewin i'r dwyrain bob 24 awr; y troad hwn yw achos dydd a nos, ac efe hefyd yw achos ysgogiad ymddanghosol y nefoedd bob dydd o'r dwyrain i'r gorllewin. Y llall yw treigliad blynyddol y ddaear o amgylch yr haul, hefyd o'r gorllewin i'r dwyrain. Orlheiniwn yn awr bwnc cywrain arall, sef cyfartaliad amser (*equation of time*). Wrtho y golygir, y gwahaniaeth cydrhwng amser cyfartal ac amser ymddanghosol.

Ond, dylasem yn gyntaf gael gwybodaeth ar yr hyn a olygir wrth gyfartal ac ymddanghosol, pan sonnir am danynt yn eu perthynas âg amser. Golygir wrth amser cyfartal, yr amser a fesurir gan gloc neu awrlais, yr hwn y tybir ei fod yn gweithio yn hollol gywir, ac yn mesur o nawn hyd nawn 24 awr, heb na mwy na llai. Golygir wrth amser ymddanghosol, yr amser a fesurir gan ysgogiad ym-



ddanghosol yr haul yn y nef uwchben. Felly, os oes gwahaniaeth cydrhwng y ddau amser a nodwyd, gellir dywedyd fel hyn. Wrth gyfartaliad amser golygir gwastadiad neu gysoniad gwahaniaeth amser, fel ei nodir gan gloc da a heul-fynag cywir. Ymddibynna hyn ar ddau beth. Yn gyntaf, ar osgoad neu ogwyddiad echel y ddaear; ac yn ail, ar ddull hirgrwn chwylygylch (*orbit*) y ddaear. Ac y mae ei symudiad yn gynt pan fo hi yn ei heul-nesafiant (*perihelion*), neu y fan nesaf i'r haul; ac yn arafach pan yn ei heul-bellafiant (*aphelion*), neu y fan bellaf oddiwrtho. Eto, fe allai na welwch beth sydd a wnelo symudiad y ddaear â myned cloc. Symudiad neu droad y ddaear ar ei hechel yw y symudiad mwyaf cyfartal, cyson, ac unfurf mewn natur. Cwblheir ef mewn 23 awr 56 munud a 4 eiliad. Gelwir yr amser hwn yn ddydd serol, canys bydd i unrhyw nawngylch (*meridian*), neu gylch canol dydd, deithio o seren sefydlog i'r unrhyw seren drachefn yn ystod hynny o amser. Dydd heulol yw yr amser yr amcenir ein clociau i'w fesur, sef yr amser a gymer unrhyw nawngylch y ddaear wrth deithio o'r haul i'r haul drachefn, yr hyn sydd ynghylch 24 awr. Bydd yr amser yma ychydig yn fwy ambell dro, ond yn llai yn fynychach.

Am y gwahaniaeth rhwng y ddau ddydd a nodwyd yw hyn. Mae y ser sefydlog mor bell, fel nad yw tryfesur chwylygylch y ddaear, er ei fod yn ddau gan miliwn o filltiroedd, pan ei cymherir â phellter ser, ond pwynt yn unig. Oherwydd hynny, bydd i unrhyw nawngylch ar y ddaear symud o seren sefydlog i'r seren honno yn ol yn yr un faint o amser yn hollol, yn union fel pe na byddai ganddi ond troad ar ei hechel yn unig, ond yn sefydlog yn ei chwylygylch. Ond, pan gymerir yr haul, gan fod y ddaear yn symud ymlaen yn agos i radd tua'r dwyrain yn ei chwylygylch, ar yr un amser ag y try hi tua'r dwyrain ar ei hechel, rhaid iddi, wrth gwrs, wneyd mwy na thro cyflawn cyn y gall hi ddod i'r un sefyllfa neu gyflead a'r haul ag yr oedd hi y dydd o'r blaen. Hynny yw, am yr un rheswm a chyda dau bin cloc neu oriau. Dyweder ein bod yn rhoddi y ddau i gerdded gyda'u gilydd am ddeuddeg o'r gloch, rhaid i bin y munudau roddi mwy na thro cyflawn cyn y gallo oddiweddyd pin yr oriau, neu cyn y gallont fod yn yr un cyflead a'u gilydd. Yn union fel hyn y mae y dyddiau serol yn fyrrach na'r rhai heulol o gymaint a phedwar munud.

Ni chaniata gofod i ni egluro paham yr anghytuna y clociau a'r haul-fyneig. Ond cofier hyn, amser heulol ydyw amser yr haul-fyneig; amser serol yw amser y clociau. Ond er fod y clociau yn cadw amser serol, yr hwn sydd yn anghyfnawidiadol, eto, nid yw y clociau yn berffaith fel y gallont gadw yr un amser o hyd. Hynny

yw, ni wnaed cloc perffeithiach na'r ddaear eto; a chan fod y clociau yn newid, rhaid eu hadgyweirio. Gydag amser yr haul y gwneir hynny. Dyma waith y seryddwyr a nodwyd ar y dechreu.

Cyn terfynu dylaswn ddweyd fod y pwnc dyryslyd hwn wedi cael sylw manylaf prif ysgolion ganrifoedd lawer yn ol. Rhaid cofio, wrth gwrs, fod y dyddiau hynny yn ddyddiau tywyll o berthynas i bob math o wybodaeth. Yn wir, ni allasai neb heddyw, pe buasai'n byw yr adeg honno, wneyd dim dyfais fwy ardderchog a chywrain i fesur amser na'r haul-fynag. O'r un lle yn union y cawn ninnau yr amser heddyw a hwythau, ond trwy ffurf wahanol.

Un fu o'r gwasanaeth mwyaf yn y cyfeiriad yma ydoedd Iwl Caesar. Nid llai clodfawr ef mewn gwyddoniaeth yr oes honno nag fel pen tywysog ar faes y gâd. Da y canodd y bardd am dano,—

" Amidst the hurry of tumultuous war,  
The stars, the gods, the heavens, were still his care."

" Yng nghanol cymhelri a chynnwrf rhyfeloedd,  
Olrheinia'r ser afrif, y duwiau, a'r nefoedd;  
I rifo mynyddau y flwydd, nid llai medrus  
Cadfridog dewr Rhufain na'r clodfawr Eudocusus."

SIGMA.

### MEDDYLIAU FY MODRYB.

(O ddyddlyfr, ysgrifenydd lawer blwyddyn yn ol.)

I. Mae pobl segur yn boen iddynt eu hunain, ac i bawb o'u cwmpas. Ni wyddant pa fodd i fwynhau eu hunain.

II. Mae cyfoeth yn ehangu meddwl mawr, ond yn crebychu meddwl bychan. Gwyn ei fyd yr hwn fedr ddefnyddio ei gyfoeth er daioni iddo ei hun ac i ereill.

III. Mae'r meddwl bychan, gwael, yn ostyngedig wasaidd mewn tlodi, yn sarhaus a gorthrymus mewn cyfoeth.

IV. Gallem feddwl fod Ffawd yn rhoi cyfoeth i rai er mwyn eu poenydio. Troai pob peth gyffyrddai Tantalus yn aur; ac telly bu farw o newyn.

V. Y mae rhai cyfeillion fel blodau; maent yn amlwg iawn pan fo'r heulwen yn tywynnu arnom, ond gwywant yng nghysgodion trallod ac adfyd.

VI. Mae pleser ar ei aden bob amser. Dianc rhag y neb a'i cais. Pan ddaw'n ddiarwybod y mae felusaf.

## MORDEITHIAU CAPTEN COOK.

VI. HEN FRENIN METHEDIG.

(YMDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

**I**FOR. Dechreuwch hanes Capten Cook, fy nhad, lle gadawsoch I ef y tro diweddaf.

**TAD.** Ar yr adeg yma, aeth Mr. Banks a rhai o'r boneddwyr ereill drachefn i'r lan i fasnachu a'r brodorion mewn nwyddau angenrheidiol. Meddylent hefyd gael gwybodaeth fanol am gynhyrchion yr ynys, a manylion ereill perthynol i'r wlad. Ond ni welsant ddim newydd gwerth eu sylw, ond esgyrn geneuau dynion, y rhai oeddynt wedi eu gosod i fyny mewn lleoedd amlwg gan ryfelwyr Balabola, er côf am eu buddugoliaethau gwaedlyd ar yr ynys hon. Oblegid ei bod yn niwlog ar yr 22 a'r 23, a'r awelon yn gryf, gwelodd y Capten mai gwell oedd aros nes cael cyfnewidiad ar yr hîa. Ar y 24, a'r gwynt wedi lleddfu ychydig, codwyd yr hwyliau a mordwyasant o'r porthladd hwn, yn Ulietea, i'r cyfeiriad gogleddol, gyda'r bwriad o fyned allan o'r porthladd mewn agoriad mwy manteisiol na'r lle y daethant i mewn. Yr oedd morio i mewn ac o gylch y mân ynsoedd yn y parth yma o'r Môr Tawel yn orchwyl peryglus ryfeddol, oblegid y nifer liosog o greigiau coral oedd o'r golwg, ac yn agos i'r wyneb.

**I**FOR. Pa beth yw creigiau coral, fy nhad?

**TAD.** Nis gallaf roddi i ti sicrwydd ynghylch natur eu defnydd. Maent yn cael eu hadeiladu gan brytaid bychain sydd yn byw yn y môr, ger llaw y Cylch Llosg. Y maent yn llai eu maint na gwibed cyffredin o lawer. Dechreuir adeiladu gan un neu ddau, eithr cyn pen ond ychydig amser byddant wedi ymfurfio yn gwmni yn cynnwys llawer o filiynau mewn rhifedi. Mae pob un yn adeiladu ty iddo ei hun, heb wybod ei fod yn adeiladu craig a fydd, wedi y gorffennir hi, yn un anferthol o fawr. Ac wedi y gwisgir hi gan natur a gwyneb cymwys i dyfiant, bydd yn breswyl i frenin y greadigaeth, sef dyn. Glaniodd y bad oedd yn rhagflaenu yn Otaha. Yn union dychwelodd y Capten i Ulietea, i ranbarth na fu ynddo o'r blaen. Angorodd yno Awst 6, i'r amcan o gau i fyny ddwfr-hollt yn y pylor-gell.

**I**FOR. A aethant i'r lan?

**TAD.** Do, i gael balast. Darfu i'r boneddwyr a aethant i dir yr adeg yma dreulio yr amser y buont yno yn berffaith hapus. Rhoddodd y brodorion iddynt dderbyniad gwir barchus. Yr oedd eu hymddygiad at y dieithriaid gwynion yn rhagorol, ac hefyd yn

arwyddo teimlad cymysglyd o ofn ac ymddiriedaeth nad oedd y dynion gwynion yn bwriadu gwneyd unrhyw niwed iddynt. Yn y drafodaeth a ddygwyd ymlaen rhwng ein dynion a'r ynyswyr yma dros rai ddyddiau, cawyd ar ddeall nad oedd yr un sail i'r pethau dychrynlyd a ddywedodd Tupia am y Bolaboliaid o gwbl. Y mae yn anhawdd iawn coleddu syniad isel am Tupia, onid yw, Ifor?

IFOR. Ydyw, fy nhad, yn rhy anhawdd. Mae yn ymddangos mai gwrandaw a chredu rhyw hen chwedlau a wnaeth pan yn ieuanc.

TAD. Ie, mae'n debyg. Darfu hyd yn oed Opoony, brenin ofnadwy y Bolaboliaid, ymddwyn at ein mordeithwyr gyda pharch arbennig. Pan yn Ulietea, ar y pumed o Awst, anfonodd i'r Capten dri o foch, a nifer o adar dof, ac amryw o ddarnau brethyn o hydiau anghyffredin, ynghyd a swm mawr o lysieufwyd, cnau, a lluniaethau adfywiol ereill, ynghyd a chenadwri yn hysbysu ei fod yn bwriadu talu ymweliad â'r Capten y dydd canlynol. Felly penderfynodd ein boneddwyr oll aros gartref ar y chweched, er rhoddi derbynriad croesawus i'r ymwelydd pwysig, yr hwn na welodd yn dda sefyll at ei air. Yn lle hynny, anfonodd dair o enethod ieuainc prydferth fel negesyddion, i geisio rhywbeth gan y Capten yn at-daliad am y rhoddion a dderbyniodd ganddo. Yn y prydawn, gan na ddaeth y brenin mawr i'r llong, penderfynodd ein boneddwyr fyned ato ef. Oddiwyth yr hanes a roddwyd am dano fel arglwydd brodorion Bolabola, yr hwn oedd orchfygwr Ulietea a dychryn yr holl ynysoedd ereill, disgwyliai y Capten a'i gyteillion weled dyn ieuanc yn ei lawn nerth, yn ŵr bywiol ac egniol, yn ddigon golygus i beri dyddordeb iddynt wrth edrych arno. Ond cawsant eu siomi yn fawr. Yr oedd yr olwg arno yn hollol anhebyg i'r drychfeddwl oeddynt wedi ei ffurfio am dano. Yn lle hynny, cawsant ŵr truan, llesg, gwywlyd, ac hanner dall gan henaint, hurt. Prin y galleisid meddwl ei fod yn feddiannol ar radd gyffredin o ddealltwriaeth. Otaha oedd prif gartref Opoony. Aeth gyda ein mordeithwyr y dydd canlynol i'r ynys honno. Ac yr oeddynt yn gobeithio y buasai ei ddylanwad ef yn fantais bwysig er pwr casu iddynt y nwyddau oedd yn angenrheidiol ar y pryd. Ond yn hynny eto cawsant eu siomi. Er hynny, darfu iddynt ei wobrwyo â bwyall er anogaeth iddo i gymell ei ddeiliaid i fasnachu â hwynt. Ond gorfu i'n boneddwyr fyned ymaith heb allu pwr casu y peth lleiaf oddiwrthynt. Cyn ymadael â'r ynys oedd, enwodd y Capten y twrr ynys oedd yn y pyrth yma, oherwydd eu hagosrwydd at eu gilydd, yn "Ynys oedd Cyfeillgar," heb gyfnewid dim ar yr enwau gwahaniaethol oedd arnynt yn barod gan y brodorion.

IFOR. Onid yw hynny yn llawer mwy dyddorol i'r rhai a dalent ymweliad â'r ynys oedd ar ol hynny?

TAD. Ydyw, yn ddiameu. Rhydd hynny fantais i'r rhai cyfarwydd a hanes y fordaith i roddi eu traed ar y manau y digwyddodd yr helyntion rhyfedd y sonnir am danynt.

IFOR. I ble yr aeth y mordeithwyr o'r Ynysoedd Cyfeillgar?

TAD. Ar y nawfed o Awst gorffennwyd yr adgyfeiriad ar y llong, a dygwyd y cyflenwad angenrheidiol i'r bwrdd. Cymerodd y Capten fantais ar yr awelon ffafriol, a hwyliodd allan o'r porthladd. A phan yn hwylio ymlaen, gan adael yr ynysoedd y tu ol, darfu i Tupia roddi cymhelliad taer i'r llywydd i danio pelen i gyfeiriad Bolabola, er fod y pellter rhyngddynt yn 21 o filltiroedd ar y pryd. Darfu i'r llywydd, er mwyn ei foddhau, gyduno â'i gais. Amcan Tupia, mae yn debyg, oedd gwneyd arddangosiad amlwg o nerth ei gwmni newydd. Mordwyasant yn ddiwyd a llwyddiannus rhag eu blaen, heb weled dim o bwys i dynnu eu sylw hyd y 13eg, pan y darganfyddwyd tir ymhell i gyfeiriad y deheu ddwyrain. Hysbysodd Tupia hwynt mai ynys oedd o'r enw Oheteroa. Y dydd canlynol anfonodd y Capten Mr. Gore, un o'i is-lywyddion, yn y *pinnace* gyda Mr. Banks, Dr. Solander, a Tupia, gan orchymyn iddynt wneyd eu goreu i lanio ar yr ynys, a chael gwybod gan y brodorion os oedd angorfa yn y gilfach oedd ar eu cyfer ar y pryd, a pha dir oedd y tu arall, i gyfeiriad y deheu. Gwnaeth Tupia bopeth a allai er ennill eu sylw a'u cyfeillgarwch; ond aeth y cwbl yn ofer. Wedi cylchynu yr ynys, ni chwasant yr un lle cyfleus i angori. Hefyd, yr oedd tueddfryd yr ynyswyr mor wrthun a rhyfelgar, fel na buasai glanio yno yn ddoeth o gwbl, ond yn hytrach yn achlysur i dywallt gwaed. Oherwydd ei ddynoliaeth dda, a'i ddoethineb rhagorol, penderfynodd y Capten tyned heibio; nid rhag ofn y brodorion, ond o dosturi atynt, ac am nad oedd ganddo un rheswm digon mawr i orbwysu y perygl o golli bywyd. Rhoddodd Tupia iddynt ardeall bod amryw o ynysoedd yn gorwedd mewn gwahanol gyfeiriadau, heb fod ymhell o Oheteroa, rhwng y deheu a'r gogledd-orllewin. Dywedai fod i'r gogledd-ddwyrain ynys a elwid Manua (Ynys yr Aderyn), yr hon a gymerai fordaith o dri diwrnod i'w chyrraedd. Ond ymddanghosai yn fwy dewisol gan Tupia i'r Capten i gyfeirio tua'r gorllewin, gan ddesgrifio iddo amryw ynysoedd yr oedd ef wedi talu ymweliad a hwynt yn y cyfeiriad hwnnw. Tybid, yn ol ei ddesgrifiad ohonynt, mai Boscawen a Koppel's Islands, a ddarganfyddwyd gan Capten Wallis, oeddylnt. Yr ynys bellaf ag y gwyddai Tupia am dani yng nghyfeiriad y deheu oedd Moutou, yr hon oedd tua mordaith o ddau ddiwrnod o Oheteroa. Dywedodd y darfu i'w dad ei hysbysu fod ynysoedd pellach nag a welodd ef yng nghyfeiriad y deheu.

*Dinas y Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

## IEIR.

**Y**R oeddwn wedi addaw y tro diweddaf y caech wybod y ffordd oreu i roi iar i eistedd ar ei hwyau, ac aml i beth arall



[Darlun gan Thomas, Lerpel.]

ynghylch bwydo y cywion bach. A wyddoch chwi pa amser ar y flwyddyn ydyw yr adeg oreu i fagu cywion? Yn y gwanwyn, ym mis Mawrth neu Ebrill, pan y bydd yr oen bach yn prancio ar y ddôl, a phan y bydd yr adar bach yn gwneyd eu nythod,—dyna yr adeg oreu.

Rhaid i mi ddweyd wrthych pa fathau o ieir sydd yn gwneyd mamau goreu. Mae iar *Game* yn un o'r rhai goreu, gwna hon amddiffyn ei chywion yn well na'r un math, ac maent yn bur ofalus am eistedd ar eu hwyau. Ni raid i chwi gael iar drom, mae iar o chwech i saith bwys o bwysau yn llawn digon, a gallwch gymeryd eich dewis o'r mathau canlynol,—*Cochin*, *Brahma*, *Dorking*, *Game*. Mae *Silkies* ac ieir bach ereill yn gwneyd mamau rhagorol i'r *Dandi* a'r *Pheasant*.

Wel, yn awr, pan fydd arnoch eisiau rhoi iar i eistedd, sut mae gwneyd y nyth? Gwell ydyw iddo fod ar y llawr, llawr pridd. Nid yw yn dda fod ei waelod ar goed neu gerrig. Peth da iawn ydyw codi tywarchen a'i rhoddi yn waelod i'r nyth, ac ar wyneb hon chwalu ychydig o galch wedi slacio. Mae hyn yn cadw prytoid i ffordd. Ac yn ddiweddaf, rhoi gwair neu wellt; gwair yw y cynhesaf. Ac yna rhoi y wyau.

Dylid gwneyd y nyth mewn man cyfleus i'r iar fyried iddo a dod o hono fel y mynno, a hynny heb dorri y wyau. "Pa nifer o wyau

sydd yn ddigon i roi o dan iar?" meddych. Mae naw neu un ar ddeg yn llawn digon pan fydd y tywydd yn oer; ond gallwch roi ychwaneg pan ddaw yr hin yn gynhesach. Nid ydyw pymtheg yn ormod i ambell i iar. Dylaswn ddweyd yn y fan yma bod eisiau codi yr iar oddiar y nyth bob dydd i'w bwydo, os na fydd yn codi o honi ei hun, a rhoi bwyd a dwfr glân iddi, ond nid ydyw yn dda iddi fod oddiar y nyth am ychwaneg nag ugain munud, yn enwedig os bydd y tywydd yn oer.

Mae rhai yn tybied fod modd dweyd ar ffurf yr wy pa un ai ceiliog ynte iar ddaw o hono. Dywedir mai o wy hir y daw y ceiliog, ac mai o wy hirgrwn y daw iar. Mae y dywediad mor hen a Horas, a dywed yr hen awdwr Columella yr un fath. Felly, gadawaf i chwi ei goelio neu beidio.

Ar ol i chwi roi y wyau o dan yr iar, ymhen un diwrnod ar hugain, os bydd popeth yn llwyddiannus, gallwch ddisgwyl y cywion bach. Ond ychydig o ddyddiau cyn hyn gallwch fedru dweyd a fydd cywion yn y wyau ai pheidio. Y ffordd oreu i wneyd hyn ydyw dal y wyau rhyngoch â goleuni lamp, a gwell fyth fyddai cael adlewyrchydd (*reflector*) tu ol iddi i wneyd y goleu yn fwy tanbaid. Os bydd yr wy yn glir, nid oes cyw ynddo; ond os bydd cyw ynddo gallwch ei weled yn hawdd. Ond y mae ffordd arall i weled hyn. Y ffordd honno ydyw doddi yr wy mewn dwfr wedi ei dwymo i 106°. Cewch weled y gwna y wyau nad oes cywion ynddynt syrthio i waelod y llestr; ond bydd y rhai a chywion ynddynt yn sefyll ar wyneb y dwfr, ac yn ymdreiglo fel pethau byw.

Mae yn debyg fod y rhan fwyaf o honoch yn gwybod fod peiriant (*incubator*) yn cael ei ddefnyddio i ddeor wyau, ac maent wedi dyfod yn bethau cyffredin iawn y dyddiau yma. Ychydig o bobl oedd yn medru eu gweithio flynyddoedd yn ol, ond y maent mor hawdd i'w gweithio yrwan fel y gall bachgen neu eneth ddeg oed eu trin, ond dangos iddynt unwaith. Ac mae miloedd o gywion ieir a hwyaid yn cael eu codi gyda nhw bob blwyddyn.

Pan y bydd y cywion bach wedi eu geni, nid oes arnynt eisiau bwyd am bedair awr ar hugain. Ond mae llawer o bobl yn pwnio bwyd a' diod i'r creaduriaid bach yn rhy tuan. Peth ffôl iawn yw hyn, achos mae y ciw yn siwr o ofalu am lenwi ei grombil wag yn union pan y bydd yn teimlo angen. Dyna reddf elfennol pob creadur byw pan y bydd wedi dyfod i'r byd, ac hefyd mae y Creawdwr Mawr wedi gofalu rhoi lluniaeth i'r ciw bach tra'r oedd yn yr wy, ac mae hynny yn ei gadw yn fyw hyd nes y medr bigo ei fwyd.

Y peth goreu i roddi yn fwyd iddynt y dyddiau cyntaf ydyw briwsion bara a wyau wedi eu berwi a'u mhalu yn fân, a'u cymhyssgu

âg ychydig o lefrith. Mae blawd ceirch yn beth da iawn hefyd, a rhynton, ac yna gallwch roi haidd a gwenith iddynt pan fyddant weddi dyfod i fedru pigo. Nid ydyw yn beth da rhoi reis, na bara wedi ei fwydo mewn dwfr, rhoddwch y bara yn sych. Mae eisiau bod yn ofalus o'r cywion tra maent yn pluenu, achos mae ambell i fathau yn dioddef llawer pan yn y cyflwr yma, yn enwedig y rhai sydd yn pluenu yn o gyflym. Mae y Leghorn a'r Minorca a'r Andalusian a'r Spanish, a'r mathau yna, yn pluenu yn gyflym iawn. Ond y mae y mathau mawr afrosgo, fel y Cochín a'r Brahma ac ereill, yn hwy o lawer.

Un peth arall, rhaid gofalu fod i'r iar a'r cywion gael cut clyd a chynnes i glwydo y nos, dwfr glân i yfed, ac os na fydd bwyd glaswelltog yn eu cyrraedd dylid gofalu am beth iddynt, achos gwyddoch eu bod yn hoff iawn o ryw ddeiliach, fel dail bresych. Dylent gael llwch a lludw i ymdreiglo ynddo, achos dyna ffordd y maent yn medru cadw eu hunain yn lân.


*Traws Afon, Betws y Coed.*

CYSTENYN OWEN.

## YR WYDD

A'I

PHOEN-  
WDWYR.




I. Beth ddy-  
wedodd y  
plant wrth  
yr wydd?

Bo-o-o-o-o!

II. Beth ddy-  
wedodd yr  
wydd wrth  
y plant?

Sh-sh-sh-i-i-i!



Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLILLYN, Y BALA.



# AT Y PLANT.



YW y llythren fwyaf anadnabyddus i blant Cymru. Ond y mae ambell blentyn yn medru ei thorri yn dda, fel y dengys y llythren gwahoddiad sydd yn y rhifyn hwn,—

“Pob un sydd mor lunlaidd, 'n enwedig y Q,  
Nes bron y meddyllwn ei fod ef yn fyw.”

Y MAE y plant hynaf a mwyaf meddylgar, yr wyf yn sicr, yn myfyrio uwchben erthyglau Sigma. Os mynent wybod ychwaneg am destyn dyddorol erthygl y mis hwn, sef Cyfnod y Rhew Mawr, cânt erthygl lawn yn rhifynnau CYMRU am Gorfennaf ac Awst, gyda darluniau, gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam. Gŵyr llawer am fedr Mr. Jones i draethu gwirioneddau mawr Gwyddoniaeth; mae ei erthyglau yn ein hadgoffo am ddarnau

o farddoniaeth Islwyn,—ac eto gwirionedd ditrif, nid dychymyg beiddgar, sydd yn eu llenwi.

**BOB.** Y mae magnel yn Southsea all dafu pelen agos i bymtheg milltir o bellder. Un o'r gynnau sy'n amddiffyn porthladd pwysig Portsmouth ydwy.

**PLANT LLEPFWL.** Bydd darlun da a chlir o dyrfa ohonoch yn y rhifyn nesaf.

**COP-GOLOFN T. E. ELLIS.** Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r plant am gasglu, ac i bawb sy'n anfon eu symiau i mi. Ceir rhestr arall yn y rhifyn hwn. Deallaf fod y gerfddelw wedi ei gorffen ac yn barod i'w gosod yn ei lle. Y mae pobl y Bala a'r ardaloedd cylchynol yn symud ymlaen yn brysur gyda rhoi marmor yn ei le i ddal y golofn. Byddaf yn gofyn i'r plant gasglu hyd nes y byddis wedi gorffen talu am y golofn.

**GLYN.** Gwelwch fy mod yn rhoi cwmni ehedydd i chwi y mis hwn.



**YR EHEDYDD BACH.**

(*Skylark. Alauda Arvensis.*)

# CYMRU'R PLANT.

Cyf. XII.

AWST, 1903.

RHIF 140.

## YR EHEDYDD.

**M**YNEGA Buffon fod cymaint ag wyth ar hugain o wahanol fathau o ehedyddion. Ond y mwyaf hysbys i bawb yw yr Uchedydd, neu'r "Ehedydd Bach."

Ei hyd yw tua saith modfedd. Ei big sydd lwyd-dywyll, a phlu ei ben yn hir, ac yn ffurfio math o grib. Gorchudd-blu uchaf ei gynffon, ei warr, a'i adenydd ôl, sydd o dri lliw *brown*. Corn ei wddf, a rhan uchaf ei fynwes, sydd winau gwanaidd, ac yn addurnedig âg ysmotiau llwyd-ddu. Ei rannau isaf sydd felyn-wyn, gydag ystaenau o liw *brown* ar ei forddwyd a'i dinewyn.

Cypla ehedyddion yn Ebrill, a deorant ddwy lin tynychaf yn ystod hirddydd haf. Lluniant eu nyth o tân-wair sych, glaswellt meddal, a gwreiddiau ystwyth, tyner; a hynny ar wyneb y ddaear. Noddir ef gan godiad sydyn yn y tir, tywyrch, neu duswau tew o laswellt a gwair gwndwn. Ceir ef, ran amlaf, ar ganol gweirglodd ffrwythlawn yn yr yd neu'r gwenith; a cheir ef hefyd, rai gweithiau, yn y ffriddoedd uchel ymysg y grug.

Dodwya'r fenyw, fel rheol, bump o wyau, y rhai fydd yn llwyd-wyn, gydag ystaen o wyrddni arnynt, ac yn orchuddedig â mân ysmotiau o lwydni tywyllach. Ond nid yw wyau pob ehedydd yr un fath.

Wrth ddynesu at ei nyth cwyd yr aderyn yn sydyn-chwim i'r awyr o ychydig bellder neilltuol, yna diflanna yn chwep i mewn iddo. Dywed yr adar-garwyr craffaf fod yr ehedydd yn un o'r mamau mwyaf gor-ofalus a ffyddlon tuag at ei rhai bychain, ac yn dangos pryder dibaid am eu diogelwch.

Mae'r ehedydd yn frodor o holl wledydd Ewrop, ac eithrio broydd uchaf y Gogledd oer. Ceir ef hefyd yng ngogledd Affrig, a rhannau o Asia. Ceir miloedd ar filoedd ohonynt ym mhob cwrw o'r Ynysoedd Prydeinig. Yn ystod y gauaf ymdyrrant yn heidiau gor-liosog i'r caeau sofr, yn enwedig lle y bu clofer. Yn y gwanwyn byddant yn gyfeillion ffyddlonaf i'r aradrwr, gan bigo cynrhon a mân-wreiddiau o'r pridd newydd ei droi.

Er fod rhai yn ymfudo, erys y mwyafrif ohonynt gyda ni trwy gydol ystormydd y gauaf.

Y maent yn adar bychain cryfion odiaeth o ran ansawdd corff, a chadwant eu hunain mewn cyfiwr atebol, ond yn unig pan fydd yr eira oerwyn, a'r rhew caled, yn gorchuddio eu holl gypyrddau bwyd.

Pan na fydd yn uch-hedeg treulia'r ehedydd ei holl amser i redeg yn wisgi ar hyd y dolydd deiliog i chwilio am ei gynhaliaeth, neu i rwbio ei hunan hyd y glaswellt meddal. Y mae yr arferiad yma yn un o'i hynodion.

Gresyn yw mynegu y lleddir miloedd o'r adar hyn i borthi chwant cyfoethogion ein gwlad. Gwneir marchnad helaeth o'u cig, yr hwn, meddir, sy'n hynod o fiasus. I ddangos fod barbareddwch yn parhau ym Mhrydain, dodwn yma y nodiadau pruddaidd hyn a godwyd o'r *Daily News*, tua chanol Mehefin diweddar,—

“Y mae un peth ynglŷn â'r Ddawnafa Ysbyty fawr a gymerodd le yn Llundain nos Fawrth ag y teimlir gwrthwynebiad mawr iddo gan bob un sydd yn hoffi'r caniedydd bychan ag sydd yn dyrchafu at rinlog y nef i arllwys ei gân.

“Ymysg pethau ereill, yr oedd y darpariadau ar gyfer y swper yn cynnwys tair mil o ehedyddion a soffieir. Y mae gan y rhai hyn yn awr gywion bychain yn eu nythod, neu yn y meusydd, yn dibynnu arnynt yn gyfangwbl am eu hymborth a'u diogelwch mewn perygl. Y mae cymeryd un o'r adar hyn yn golygu marwolaeth araf, erchyll, i'r rhai bychain. Y mae cyfraith y wlad hon yn gwahardd y cyfryw anfadaith, a chosbir y rhai a'u dalant. Ond pan y geilw'r giwth am ehedyddion allan o'u tymor, lleddir hwy er gwaethaf y cyfreithiau dwyfol a dynol. Er mwyn ischau dyn cynhelir dawnafa, ac yna bwyteir miloedd o ganiedyddion yr haf, pan y mae eu rhai bychain mewn canlyniad wedi cael eu gadael i newynu.”

Wftied pob plentyn at y fath greulondeb.

Mae “Codiad yr 'Hedydd” a'i gân yn destyn molawd pob tŷ o'r hil ddynol. Esgynna yng ngwyneb y gwynt, ar y cyntaf, braidd yn afrosgo. Ymhen tipyn, ymdroella ychydig, a daw yn ol i wyneb y gwynt eilwaith. Felly o hyd nes y cyrhaedda ei uchafbwynt. Cana o hyd wrth esgyn, a “Balch 'Hedydd ar y Tês,” medd y Bardd Glâs o'r Gadair ystalwm. Mae'r disgyniad yr un mor raddol ei chwrs, ond fod y troelliadau yn anamlach. Pan bron a chyrraedd y ddaear caua ei adenydd yn sydyn, a disgynna fel mater caled ar y ddaear. Pery y perfformiadau hynod hyn yn aml am dros hanner awr.

Hysbysa naturiaethwr enwog, y Parch. J. G. Wood, yr esgynna'r ehedydd nes yr edrycha i'r llygad noeth fel gwibedyn, eto, gellir clywed ei nodau yn glir o tua hanner milltir o bellder. Deil i ganu bob eiliad, ac y mae cyfoeth ei lais yn rhyfeddol. Gall barhau i ollwng ei seiniau am ugain munud neu fwy, a thrwy'r holl amser

cynhalia ei hunan ar ei adenydd. Pa gawr o ddynd all ei ddyndwared tybed? Campus, ehedydd!

Mae mwy o'r beirdd Cymreig wedi ei glodfori na nemawr i gantwr,—

Dyrch, dyrch, i'r entrych yr aeth—  
yr 'Hedydd

Ar aden peroriaeth;  
I fyw adroddi 'i fydryddiaeth  
Ar rinlog nef, i'r Hwn a'i gwnaeth.

TALIESIN O ERFION.

Ehedydd, foreu-fardd hudawl, chwifla  
I'r uchafon nefawl;

I annerch Duw'n blygeiniawl—  
Abertha gerdd wrth borth gwawl.

ERYR GLYN COCHI.

Gŵr hoew-deg yw'r Ehedydd,—ef  
edwyn

Ddyfodiad y wawrddydd;  
Gwas pwysig a hysbysydd  
Hwylus dôn ym mhalas dydd.

LEUAN IONAWR.

Wedi'r nos druenusol—daw'r 'Hedydd

Hyd rodau wybrenol;  
A bywiol gân blygeiniol,—  
Mola Nêr am haul yn ol.

TUDNO.

Yr 'Hedydd a rydd i'r Ion—ei felus

Folawd o'r uchelion—  
Ddifyr odlydd hyfrydlon,  
Ddefnyr y dydd a phêr dôn.

MEIGANT.

Yng nghôl yr asur, yng nghlyw yr  
oesau,

Mae'r fwyn Ehedydd,—mor fyw ei  
nodau!

A'n syth i wiwnef, a thrwsia'i thannau  
Ar iach wawl-dyrroedd yr uchelderau;  
Y gân glyw'r nef o'i genau—deifl,  
mewn hwy!,

Aderyn anwy!—i'n daear ninnau.

PEDROG.

O mor wfreiddiol im' ar foreuddydd  
Yw nodau hudol caniad Ehedydd;  
Dyhdlo'n hyawdl frwd odlau newydd  
Ar grib yr Aran wna'r gwâr berorydd;  
Am weld haul, am oleu dydd—pyncia'n  
llon.

Emynau mwynion ym mhen y mynydd.

MACHRETH.

Yr Uchedydd a'i lefnfrech aden,  
Ffraw fyw ofwy, gyffry ffurfafen;  
O oriellau gloew yr haulwen,  
Odlau newydd i delyn awen  
Wna'i fad chwibaniad uwchben,—  
dadseinia

A dadebra dudau y wybren.

HYWEL CERFNI PARRY.

Yr Uchedydd ar iach aden—edy

Holl adar daearen  
I'w lwybrau yn nheml wybren,—  
A phyncia wrth Wynfa wen.

AP CRINWEN.

Ehedydd chwareus aden,  
Ddring yn uwch, yn uwch i'r nen,  
Fel cydymaith gobaith gwyn—  
Osgo tragwyddol esgyn!—  
Ar ei aden mae'r 'Hedydd  
Yn taro tant "Torlad Dydd."

GWYNTON.

Eiliwr hudol yw'r 'Hedydd,  
Gwna seinio nes deffro dydd;  
Yna'n swynol uwch dolydd  
Am y gwawl ei fawl a fydd;  
Un llawen yn y nen yw,—  
Têr odiaeth gantwr ydyw;  
Ymhell ar ei asgell a,  
Ar hoewdaith yr eheda—  
Uwch y cwmwl dwl, dulas,  
I oriel yr awyr lās;—  
'E goda hyd Gaergwydion,  
A'n uwch, uwch,—fe a uwch hon,  
O 'ngolwg at angyllion  
I eilio'i fawl i fy Iôn.

IOLLO MON.

Gŵyr pawb am feloddedd desgrifiadol yr Alaw, "Codiad yr 'Hedydd." Y mae Llystyn wedi curo Ceiriog, Talhaiarn, Osian Gwent, a'r holl delynegwyr am eiriau yn portreadu yr aderyn awengar hwn,—

Fry, fry, i'r nefoedd fawr,  
Y cwyd yr 'Hedydd gyda'r wawr,  
Gan ganu hyfryd gerdd;  
Uwch, uwch, ehed yn hy,  
Ac uwch y cân wrth esgyn fry  
Uwchlaw y ddaear werdd;  
Fel'r esgynna, uwch y cana,  
Uwch y cana, uwch o hyd,—  
Y mae'n esgyn ac yn canu,  
Nes ymguddio uwchlaw'r byd  
Yn nheml y pur oleuni glân  
Mewn gwlad sy'n gân i gyd.

Fry, fry, yn uwch, uwch, uwch,  
Mae'n esgyn, ac yn canu, clywch  
Ei lais soniarus ef;  
Yn y pur oleuni glân,  
Fry'n mhell o'n gwydd, i bwy y can?  
I'r ddaear, ai i'r nef?  
O! na byddwn innau felly,  
'N ymddyrchafu'n foliant byw;  
Mawl i Dduw i'r nef yn esgyn,  
Ac yn disgyn byth a glyw  
Y ddaear, er fy mod a'm sedd  
Yn ymyl gorsedd Duw.

CARNEDDOG.

## CANEUON PLANT RHOSTRYFAN.

I.

"DDOI di i lawr at Gapel Wesa  
I roi cweir i blant Rhos Isa?"  
"Paid a gofyn peth mor wirion—  
Cofa'r bwgan sy'n Mryntirion."

II.

"Beth yw ystyr Penrhos gwta,  
Cefn Paderau a Choed Anna?"  
"Be ti'n holl beunydd beunos—  
Dos i'r Foryd i hel cocos."

III.

Dacw'r gwecw ar ei haden  
Unwaith eto'n Mharc Bodaden;  
Ple bu'n cysgu dymor gaeaf?  
Pwy sy'n casglu ei chynhauf?

IV.

Ffridd y Foty—porth y Nefoedd!  
Blodau aur ar eithin filoedd!  
Hwyrach, wir, mai'r tân goddeithio  
Ar yr eithin sy'n blodeuo.

V.

Dyna ergyd yn y Gaerwen—  
Beidiwyd clwyfo rhyw wningen?  
Dyna ergyd arall eto!  
Llawer gwâl fydd unig heno.

VI.

"Hwda, Morrus, be ti'n curo  
John fy nghefnder amser cinio?  
Mi adalaf iti'r cacwn" \* \* \*  
"Dyna gloch yr ysgol—Rhedwn!"

VII.

Awyr Lleyn sy'n duo, duo!  
Dyna daran fawr yn rhuo—  
Dyna fellten heibio'r adwy  
Drwy y pentre'n fflam ofnadwy.

VIII.

Ni bydd neb yn cadw seiat  
Hyd y Rhos ar noson seiat,—  
Iesu Grist ddaw yma'n dawel  
Pan agorir drysau'r Capel.

J. R. TRYFANWY.

## GWERSI Y CADNAW.

**O**S nad ydyw llawer o blant Cymru wedi gweled y cadnaw, ac yn gwybod ei hanes, gallwn ddweyd wrthynt ei fod yn greadur buan, ac yn greadur prydfferth iawn. Helyd, cymer ofal neilltuol am ei rai bychain, a gwna bob ymdrech i gasglu digon o ymborth iddynt. Ar ddiwrnod teg gellir gweled y fam yn chwareu â hwy yng ngwres yr haul.

Ond prif nodweddion y cadnaw ydyw ei gallineb, a'i gyfrwysdra, ac y maent yn dyfod i'r golwg mewn llawer ffordd,—sef yn ei fedrusrwydd i osgoi perygl, ac yn ei allu i fanteisio ar ei brofiad. Os digwydd iddo gael ei arwain yn ddamweiniol i ymyl perygl, ceidw byth wedyn yn ddigon pell oddiwrtho, fel nad peth hawdd yw dal cadnaw fydd wedi bod unwaith yn agos i'r fagl.

Ac y mae ei gallineb yn dyfod i'r golwg mewn modd neilltuol yn y wybodaeth fanwl sydd ganddo o bob lloches o fewn cylch deg neu bymtheg milltir i'w ffau ag y gall ffoi iddynt pan fydd ei fywyd mewn enbydrwydd.

Dyma, ynte, rai o wersi'r cadnaw i'r ieuanc,—sef y dylent fod ar eu gwyliadwriaeth bob amser rhag syrthio i'r peryglon sydd ar lwybr bywyd. Eto,—y dylai gweled eraill yn syrthio iddynt fod yn help iddynt hwy gadw yn ddigon pell oddiwrthynt. Ac fel plant crefyddol y dylent, fel y cadnaw, fod yn gwybod am le i ffoi pan fydd pechaduriaid yn denu a'r diafol yn temtio. “Tŵr cadarn,” meddai'r Beibl, “ydyw enw'r Arglwydd, ac ato rhed y cyfiawn, ac y mae'n ddiogel.”

Cofied y plant, ynte, am wersi y cadnaw.

*Aberdar.*

W. O. POWELL.

## PEIDIWCH CHWAREU A'R DRWG.

**M**YNYCH iawn mae'r peth melusa  
Yn troi yn chwerwder yn y cylla,  
Mynych hefyd y mae trallod  
A gwyllofain gyda'r ddiod.

Ienctyd anwyl, ymwrthodwch  
A phob pechod hyd y gellwch;  
Ychwanegu anhawsterau  
Ar ffordd rhinwedd y mae'r blyslau.


Fel gwna'r pryf wrth chwareu â'r golau  
Yn y diwedd gwrdd a'i angau,  
Felly'r hwn sy'n chware â phechod,  
Bob yn 'chydig ddaw i drallod.

Ceisiwch godi uwch pob rhwystrau,  
Ceisiwch feithrin pob rhinweddau,  
Ceisiwch ochel drwg, a gellwch  
Ddisgwyl mwyniant a dedwyddwch.

Gochel drwg a gwneyd daioni  
Ddwg yn etifeddiaeth inni  
Fwyniant a dedwyddwch bythoedd  
Ar y ddaear—yn y nefoedd.

*Aberdar.*

R. J. J.



PLANT CYMRU. CLXXIII. PLANT SYCHTVN SIR FFLINT.



## GOBEITHLU SYCHTYN, GER YR WYGDDGRUG.

**A**R y ddalen gyferbyn ceir darlun o aelodau y Gobeithlu a gynhelir mewn cysylltiad âg eglwys y Methodistiaid Calfaidd, ond heb fod yn gyfyngedig i gylch enwad. Sefydlwyd y gymdeithas oddeutu pedair blynedd yn ol, ac y mae gwedd flodeuog wedi bod arni o'i dechreuad. Arweinir y cyfarfodydd gan Miss Rich a Mr. Thomas Jones, Ty Newydd, yn fedrus ac effeithiol. Catodd Miss Rich brofiad helaeth ynglŷn â chyfarfodydd o'r fath yn Lerpwl a lleoedd eraill, ac y mae yn eglur fod ei holl galon yn y gwaith. Medda ddylanwad neilltuol ar y plant er eu cael i wneyd popeth a geisia ganddynt. Bydd yr ysgoldy bob nos Fawrth yn ystod misoedd y gauaf bron yn orlawn, hyd yn oed ar y tywydd garwaf. Cyhoeddir rhaglen pob cyfarfod yr wythnos flaenorol, fel y byddo pob aelod yn gwybod ei waith, ac eithriad ydyw fod neb yn anffyddlawn i'r hyn a ymddiriedwyd iddo. Bydd y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth mawr, megis canu, darllen, adrodd, sillebu, areithio, ac anerchiadau; a cheir yn gyffredin gryn lawer o hwyl yn y cyfarfodydd. Byddwn yn synnu clywed ambell i blentyn pump neu chwech oed yn adrodd darnau meithion ac anhawdd mor fedrus a synhwyrol a phe yn bobl mewn oed, yr hyn sydd yn brawf o'r llafur a gymerir gyda hwy.

Ofnwn fod rhai yn yr ardal hon, fel ardaloedd eraill, mewn canlyniad i flynyddoedd o ymarferiad â'r diodydd meddwol, nad oes nemawr o'baith eu hargyhoeddi o'u drygedd, a'u hennill yn llwyr-ymwrthodwyr. Ond hyderwn y llwyddwn, trwy gymeryd gotal o'r plant, i fagu cenhedlaeth o ddirwestwyr egwyddorol a thrwyadl.

Dirwynir cyfres pob tymor i fyny gyda the i'r aelodau yn y prydnewn, a chyfarfod cyhoeddus amrywiaethol yn yr hwyr. Teimlir dyddordeb neilltuol yn y cyfarfod gan rieni y plant ac ereill, fel y bydd y capel yn orlawn, er codi tâl am fyned i mewn.

Hau yr ydym yn awr, ond credwn fod yr hâd yn dda, ac yn cael dyfnder daear; ac mor sicr a hynny, disgwyliwn gael medi yn y man.

Os oes ardaloedd heb Obeithluoedd eisoes wedi eu sefydlu ynddynt, anogem hwy i symud ymlaen i gychwyn rhai yn fuan, i'r diben o gadw'r plant a'r oes sydd yn codi rhag syrthio i grafanc y ddiod feddwol. "Hyfforddia blentyn ym mhen ei ffordd, a phan heneiddio, nid ymedy a hi."

## "Mae gennyf lais i ganu."

CERIDWEN PERIS.

EVAN J. ROWLANDS,  
Abergynolwyn.

DOH F.

{	d	m	:-	m	m	re	m	s	:-	:-	m	:-	d	m	:-	m	m	r	d	m	:-	:-	r	:-	
}	s,	d	:-	d	d	r	d	d	:-	:-	d	:-	d	d	:-	d	t,	l,	d	:-	:-	t,	:-	:-	
}	m	s	:-	s	s	fe	s	m	:-	:-	s	:-	m	l	:-	:-	s	fe	:-	fe	s	:-	:-	:-	
}	d	d	:-	d	d	:-	d	d	:-	:-	d	:-	d	l,	:-	:-	l,	l,	:-	:-	l,	s,	:-	:-	:-

Mae gen-nyf lais i gan - u, A thel - yn dan fy mron;

{	d	m	:-	m	m	f	m	l	:-	:-	s	:-	m	r	:-	:-	r	m	fe	s	:-	:-	:-
}	d	d	:-	d	d	r	d	d	:-	:-	d	:-	d	t,	:-	t,	l,	t,	d	t,	:-	:-	:-
}	m	s	:-	s	s	:-	s	f	:-	:-	m	:-	s	s	:-	s	fe	s	l	s	:-	:-	:-
}	d	d	:-	d	d	t,	d	f,	:-	:-	d	:-	d	r	:-	:-	r	:-	:-	s,	:-	:-	:-

A sein - io cân i'r Ie - su Wna tann - au per - aidd hon;

{	s	s	:-	s	s	l	ta	ta	:-	:-	l	:-	l	l	:-	l	t	d'	d'	:-	:-	t	:-	
}	d	d	:-	d	d	:-	d	d	:-	:-	d	:-	d	r	:-	:-	r	:-	:-	r	:-	:-	:-	
}	m	m	:-	m	m	f	s	s	:-	:-	f	:-	l	fe	:-	fe	fe	s	l	l	:-	:-	s	:-
}	d	d	:-	d	d	:-	d	m	:-	:-	f	:-	f	r	:-	:-	r	:-	:-	fe	:-	:-	s	:-

Os eng - yl nef chwareu - ant Eu tŷn - au'n llawn ac iach,

{	t	d'	t	l	s	:-	m	f	:-	s	l	:-	l	s	f	m	r	:-	m	r	d	:-	:-	:-
}	r	d	:-	d	d	:-	d	d	:-	:-	d	:-	d	d	:-	d	t,	:-	t,	d	:-	:-	:-	
}	s	s	:-	f	m	:-	s	f	:-	m	f	:-	f	m	l	s	f	:-	s	m	:-	:-	:-	
}	f	m	:-	f	d	:-	ta,	l,	:-	s,	f,	:-	f,	s,	:-	s,	s,	:-	s,	d	:-	:-	:-	

Y sein - iau pur - af dardd - ant O fyn - wes plentyn bach.

2 Mae gennyf lais i ganu,  
I Iesu Grist o hyd,  
Am iddo Ef fy ngharu,  
A dod o'r nef i'r byd;  
'Fydd Iesu hoff byth eto  
Heb le i roi 'i ben i lawr;  
Bydd mynwes plentyn ganddo  
I dragwyddoldeb mawr.

## CAN PEN BLWYDD.

**CYFLWYNEDIG** i Mary Lilian Parry Thomas, geneth fach Mr. a Mrs. Thomas, Cheddleton House, Birmingham, ar ben ei blwydd.

CATHLU cân i'r gwanwyn tllws  
Mae aderyn ger fy nrws,  
Odlafinnauheddyw'n rhwydd  
Gân i hon ar ben ei blwydd.

Tllws yw glesni'r wybr a'r don,  
Tllwsach glesni llygaid hon ;  
Tllws yw'r ser sy'n euro'r nen,  
Tllwsach aur fodrwyau'i phen.

Tllws yw lliw y rhosyn coch,  
Tllwsach lliw ei gwrdog foch ;  
Tllws yw gwenau'r wawrddydd  
iach,  
Tllwsach gwenau Lilian fach.

Caffed flwyddi hafaidd, maith,  
Gwened llwyddiantar eithaith,  
Fel bo hi yn tyfu'n fawr,  
Tyfed blodau, per eu sawr,  
Rhin, yn ol ei throed o hyd,  
Tllwsach felly ddaw ein byd.

Dalied hi o hyd yn dyn,  
Megis baner wen ar fryn,  
Enw da ei theulu'n fyw,  
Drwy ffyddlondeb pur i'w  
Duw.

Llanbedr.

ISDULYN.



## CYMRU.

EMYNWYR nefol Cymru,  
Gwych feirdd yr Ysbryd Glân,  
Gwrelichionant y gwirionedd,  
Fel cariad Duw ar dân.

ENWOGION Cymru fechan,  
Hyfforddwyr moes a bri ;  
Enwogion Duw ac anian  
Yw ein henwogion ni.

Mae ELUSENWYR Cymru  
Yn aml, er yn dlawd ;  
Y teithiwr blin, luaddedig,  
Gaiff groesaw megys brawd.

Pur EFENGYLWYR Cymru  
Ddug gannoedd at y Groes ;  
Trwy efengylwyr Iesu  
Daw Cymru'n well i'r oes.

R. EUROG JONES.

## MARY, GOFALA AM Y SIOP.

**Y**R oedd gan wraig weddw yn un o drefydd Cymru siop fechan, yn yr hon yr oedd yn gwneyd busnes rhagorol. Ac yr oedd ganddi ferch o'r enw Mary. A phan ddaeth Mary yn ddigon o faint, gosodai ei mam hi i ofalu am y siop yn y prydawniau. Gofalai ddweyd wrth y ferch wrth ymadael,—“Mary, gofala am y siop.”

Ond ymhen tipyn o amser ar ol i Mary fyned i ofalu am y siop, sylwai y fam fod y derbyniadau yn grynnu lawer yn llai. Ceisiai ddyfalu pa fodd y gallai hynny fod, oherwydd nid oedd lle i amheu gonestrwydd Mary. Ond rhyw brydnawn, penderfynodd gael y rheswm am hynny, ac aeth yn sydyn i olwg y siop. Gwelodd ar unwaith beth oedd yr achos o'r lleihad yn y derbyniadau. Yr oedd Mary, yn ddifeddwl, wedi syrthio i'r arferiad o sefyll wrth ddrws y siop i siarad â hwn a'r llall. Felly, nid oedd yna yr un cymhelliad i neb i droi i mewn i'r siop, gan fod Mary yn llenwi y fynedfa, ac mewn ystyr yn cau y cwsmer allan.

Wel, gyfeillion ieuainc, y mae gennych chwithau siop a nwyddau gwerthfawr ynddi, y rhai hynny yw y gwahanol rinweddau sydd yn eich cymeriad,—y maent yn werth i chwi gymeryd cryn lawer o boen a thrafferth i ofalu na chaiff neb y mymryn lleiaf o le i ddweyd eich bod yn ddiffygiol yn yr un ohonynt. Mor werthfawr yw merch o gymeriad glân a phur, yn gwylio yn wastad ar ei cherddediad, yn hytrach na'r un fydd a'i phen yn y gwynt ac yn hollol ddifeddwl yng nghylch pa beth a ddywed ac a wna. Am hynny, ferched glân Cymru, peidiwch a sefyll yn nrws eich siop, i guddio eich rhinweddau, ac i roi argraff ddrwg. Y mae cymeriad y siop yn gorffwys yn hollol ar ymddygiad y ferch sydd yn gofalu am dani,—oddifewn ac wrth y drws. “Mary, gofala am y siop.”

*Llanfairfechan.*

GWILYM AP IORWERTH.

---

 ROBIN GOCH.

**M**AE Robin yn canu ar frigyn uwch ben,  
 Ei gywion sy'n llechu dan foncnyff y pren;  
 Mor swynol yw edrych ar natur mor gain,  
 A Bob yn eu bwydo a'i big bach mor fain.

Mae natur a'i thlysmi yn Robin yn bod,  
 Cyflawna yn gywir ddibenion ei fod;  
 Fe heda, fe gana, fe faga ei rai bach,  
 Gofala am danynt yn glaf ac yn iach.

Bydd Robin yn canu heb ddieter na sen,  
 A'r eira yn disgyn yn drwch ar ei ben;  
 Er gwanned ei big, ac er meined ei goes,  
 Bydd Robin yn canu drwy gydol ei oes.

## PYSGOTWE RHYFEDD.

YN yr India bell, yr oedd brawd a chwaer bach o Saeson, a'u cartref ar lan un o'r afrifed afonydd grisialog sydd yn rhedeg i lawr lethrau coedig yr Hymalaya eiraog; ac yr oedd y ddau yn hoff iawn o bysgota gyda gwialen yn yr afon honno. Gan mai gwlad a llawer iawn o twystfilod gwylltion peryglus yw honno, yr oedd tad y plant wedi eu rhoddi dan otal gwarcheidwad mawr a chryf ardderchog, sef cawfril (*elephant*).

Pryd bynnag yr elai'r plant allan, ai Trusty gyda hwynt; a byddai yn barod ac awyddus i gymeryd rhan yn eu holl chwareuon a'u goruchwyllion; a than ei otal ef yr oeddynt mor ddiogel a phe buasai byddin o filwyr yn eu gwarchod.

Carai Trusty bysgota cystal a'r un ohonynt. Yr oedd gan bob un o'r plant enwair; ac yr oedd gan Trusty enwair hefyd, a llinyn a bach. Plethai flaen ei dduryn (*trunk*) yn ddeheuig am ei bon; tafai y bach abwydog i'r afon, a daliai hi mor ddeheuig a'r un ohonynt wrth ben yr afon. Ni byddai byth yn blino, ond daliai ati i bysgota yn dawel ddiwyd trwy'r dydd gyda'r plant.

Daliai, hefyd, lawn cyn amlled a'r un ohonynt, ond ni fedrai roddi'r abwyd ar y bach, na dadfachu'r pysgodyn; y plant fyddai'n gwneyd hynny drosto. Er mwyn herian arno, byddent weithiau yn ei gadw yn hir i ddisgwyl am abwyd newydd, neu am gael rhyddhau y pysgodyn oddiar y bach.

Rhyw ddiwrnod, darfu iddynt ei boeni, ei "brofocio," dros bob rheswm; bob tro yr oedd arno eisiau abwyd newydd ar ei fach, cymerent arnynt beidio ei weled; bob tro y daliai bysgodyn arhosent yn hir enbyd cyn ei dynnu oddiar y bach. Ac wedi ei dynnu, anghofient yn fwriadol rhoddi pry ar y bach, &c.

Bellach, yr oedd Trusty yn dechreu digio ac anesmwytho; ond, parhau yn ddiereidus ddisylw o hono ef a'i gamwri yr oedd y bachgen a'r eneth. Felly, rhoddodd Trusty flaen ei dduryn yn yr afon, gan sugno ei lonnaid o ddŵr; ar ddyddiau braf, gwresog, gwnai hynny yn aml er mwyn chwistrellu y dwfr drosto ei hun i ymoeri dan y gawod. Heddyw chwistrellodd dipyn am bennau'r plant! gan estyn ei enwair iddynt am abwyd. Rhoisant hwythau iddo ar frys, ac aeth Trusty ymlaen gyda'i bysgota.

Na, ni bu ychwaneg o chwareu pranciau gydag ef y diwrnod hwnnw rhag ofn cael chwaneg o ddŵr am eu pennau. Gymaint yw dylanwad esiamp'l, er drwg, neu er da.

## GWLEDD Y PUR A'R PRYDFERTH.

GWLEDD y pur a'r prydferth  
 Ydyw anian lon;  
 Axlwy fawr ei haberth  
 Sydd yn falm i'r fron;  
 Peraidd ros a lili  
 Wisga'i bwrdd â bri;  
 Una cân a thlysnl  
 I'w dwyfoli hi.

Gwledd y pur a'r prydferth  
 Sy'n melusu'r oes;  
 Ni ddaw'r perlau'n bridwerth  
 Byth i rin a moes;  
 Mwynder sydd yn taenu  
 Drosti santalidd len;  
 Angel hedd sy'n canu  
 Yn y fynwes wen.

Gwledd y pur a'r prydferth,  
 Dyma ydyw'r nef;  
 Cariad yn ei anterth  
 Yw ei groesaw Ef;  
 Rhodiwn feusydd Beulah  
 Tua'r hyfryd wlad;  
 Neithdar bywyd wrida  
 Gwpan gwledd ein Tad.

Y Bala.

RICHARD AP HUGH.

## EXCELSIOR.

I.

D DYN ieuanc! Mae'r wawr yn loew,  
 A'r dydd yn dy alw i daith;  
 A gall fod y ffordd yn arw,  
 A'r siwrnai, feallai'n faith;  
 Mae mynydd Duw fel Basan—  
 Mynydd o gribau yw,  
 Cei gerdded caled, coelia,  
 I gyrraedd ei gopa gwiw.

Cydgan—

Ond cadw dy nod yn uchel,  
 Anela at y nef;  
 A chadw dy fron yn dawel  
 Os nad yw dy fraich yn gref;  
 Methu? Beth er it fethu  
 Sangu yr uchaf ris?  
 Ti saethi'n uwch er methu'r nod  
 Nac wrth anelu'n is.

Llys Maclor, Harlech.

II.

Ddyn ieuanc! Dring i fyny  
 Heibio'i binaclau'r byd;  
 Mae digon o le i fyny  
 A mwy fel 'rei'mlaen o hyd;  
 Mae rhywrai o hyd yn diffygio—  
 Yn sefyll neu'n syrthio'n wyw;  
 Ddyn ieuanc! Ymwrola,  
 A dos i unigrwydd Duw.

III.

Ddyn ieuanc! Beth bynnag wyt ti,  
 Nid dyna fedri fod;  
 Dilyn y gwell sy'n dy alw  
 A gloew a fydd dy glod.  
 Paid a chynilo'th ymenydd,  
 Nac arbed dy chwys ychwaith,  
 Rho synwyr yn dy wasanaeth,  
 A chalon yn dy waith.

J. D. DAVIES.

BYWYD HADAU. Mae bywyd rhyfedd mewn hadau. Cafwyd hadau mafon cochion mewn beddrod hen dywysog Prydeinig. Hauwyd hwy, deffrôdd y bywyd ynddynt, a dygasant ffrwyth.



ALLT DINAS.  
"Creigiau Diluw" Buckland.

### RHYFEDDODAU GWYDDONIAETH.

**U**ST! Ust! Bron nad wy'n dychmygu clywed swm dyfroedd y diluw yn rhuthro dros y fan yr eisteddaf arno. Drachefn, bron na thybiaf glywed y darllennydd yn gofyn,—“Beth mewn difrif a olygir wrth swm dyfroedd y diluw?”

Dywedais frawddeg dro yn ol o barthed i gynnydd gwyddoniaeth yn ddiweddar. Hon yw'r frawddeg. Gallwn ymresymu a dywedyd fod pob ffrwyth ymchwiliadau gwyddonol heddyw yn dibynnu ar y ffaith fod ymchwiliadau cyffelyb wedi cymeryd lle flynyddoedd lawer yn ol gan eraill. Deuaf ag engraifft i egluro hynny'n awr.

Ni chynyddodd yr un gyfran o wybodaeth yn fwy nag a wnaeth daeareg (*géology*) yn ystod y ganrif ddiweddaf. Soniwyd dro yn ol am gerrig treigl (*boulders*) a defaid cerrig (*roches moutonnees*) mynyddoedd Cymru; gwrandawsom arnynt yn dweyd eu hanes,—rhyfedd hanes oedd iddynt hwy. Un o brif gewri dyddiau mebyd



CERRIG DEFAID, ARFON.

daeareg ydoedd y clodtawr Deon Buckland.\* Efe esboniai ddirgelion dyrus crawen y ddaear. Un adeg ceisiai egluro diluw Noah. Tybiai, a hynny'n gadarn a dibetrus, y galleid gweled olion y diluw. Treuliodd lawer o flynyddoedd ei oes i astudio hynny, sef olion y diluw yn y gwahanol wledydd. Dywedwyd yr hanes i gyd mewn llyfr costfawr. Galwyd ef yn "Reliquiae Diluvianae," neu, yn yr iaith Gymraeg, "Olion y Diluw." 'Dyw y llyfr hwnnw'n werth iod o ddim heddyw. Paham? Oherwydd cyteiliornad noeth ydoedd syniadau yr awdwr i gyd o barthed i'r diluw a'i olion. Mynnai ef mai dyfroedd tymhestlog y diluw aeth a'r garreg dreigl i ben mynyddoedd Cymru. Mynnai ef mai gweddillion aniteiliaid foddwyd gan y diluw ydoedd hen esgyrn ganfyddwyd mewn ogofâu cuddiedig yng ngheseiliau y mynyddoedd. Mynnai ef mai olion rhuthriadau dyfroedd y diluw ydoedd cerfiadau arwynebol y defaid cerrig; ac mai trwy ei ymchwyddiad y trosglwyddwyd y gwelyau

---

\* William Buckland, daearegwr, 1784—1856.





GWELYAU GRAIAN AR BENNAU Y Mynyddoedd.

graiian i gopâu y brynïau. Tybiai ei fod yn gweled olion y diluw yn arbennig o amlwg yng Ngogledd Cymru.

Tybiai Buckland, a holl ddaeaeregwr y byd, mai ei synïadau ef oeddynt gywir. Ond nid felly. 'Roedd eisïau gwyddonwr arall i ganfod y gwirionedd perffaith, Louis Agassiz\* oedd hwnnw. Yng nghanol gwlad yr afonydd ia (*glaciers*) y ganwyd ef, sef yr Alpau. Manteisiodd ar hynny i astudio y gwahanol gyfnewidiadau a ddygwyd i fod trwy weithredïad yr afonydd hynny. O'r diwedd daeth ar ei dro i'n gwlad ni, i astudio mynyddoedd Cymru. Tarawyd ef â syndod, canys sylwai fod rhannau o fynyddoedd ein gwlad yn arddangos yn gyffelyb i greigïau ei wlad ef. Gwyddai mai yr afonydd rhew wnaeth y rhai hynny felly. Ond pa le y mae afonydd rhew Cymru? Oddiwrth hyn, daeth i'r casgliad fod ein gwlad ni un adeg yn orchuddedig gan grystyn o rew a ia. Gwnaed y cyfnewidiadau ar y creigïau yr adeg honno. Nid yw y rhew a'r eira yma heddyw, cillasant oll. Gwelir yr olion o hyd. Yr afonydd

---

\* Louis Agassiz, naturiaethwr, 1807—1873.

rhew gludodd y garreg dreigl ymhell o'i genedigol wlad i ben mynyddoedd Cymru. O Ysgotland a Llychlyn (Scandinavia) y daethant. Hwynthwy gludodd y gwelyau graian i ben Moel Tryfan. Hwy fu yn cerfio rhychau ar wynebau y defaid cerrig, a gwynebau creigiau Allt Dinas. Sylwer ar y dariun cyntaf. Yno gwelir creigiau diluw Buckland. Gerllaw Allt Dinas, yn ymyl Penmachno, y satant. Serth ac ysgythrog ynt, yn ymgodi tua'r nef. Sylwer ar gerrig defaid Arfon yn yr ail ddarlun. Soniwyd am danynt flwyddyn yn ol.

Y wers i ni ydyw sylwedd y frawddeg ar y dechreu. Pan glybu Buckland am ddamcaniaeth Agassiz, nid ei gwawdio ddarfau. Na, derbyniodd hi'n groesawus. Daeth Agassiz o hyd i'r gwirionedd, rhaid oedd felly i ddyfais anwir Buckland ddiplannu. Ond nid ofer ei lafur.

Un o hen broblemau dyrus y Beibl ydyw hanes y diluw. 'Does esbonio arno, dim mwy nag ar seren Bethlehem. Nid boddi y byd i gyd yn grwn ar un llaw, na rhyw anrhefn yn y cysawd heulog ar y llaw arall mohonynt. Iaith syml ydyw iaith y Beibl. Gadawyd yr achosion yn guddiedig, i ddyn eu hamgyffred os mynn ef. Dywed seryddiaeth na fu seren Bethlehem, dywed daeareg na foddwyd y byd i gyd. Gwyrthiau y Creawdwr ydynt. Trwy ymchwiliadau amyneddgar i ddeddfau Natur, a thrwy ufudd-dod i ddeddfau Duw, gall dyn gyflawni gwyrthiau. Ar y llaw arall, gall yr Anfeidrol Fod, trwy ei wybodaeth gyflawn a pherffaith o'i ddeddfau, ddwyn deddfau Natur trwy ryw groes-weithrediad er creu gwyrth yn ein golwg ni. Nid ataliad o ddeddfau anian yw gwyrth. Gwyrth yw yr hyn a weithredir yn amyneddgar gan ddyn trwy astudiaeth o ddeddfau Natur. Gwyrth yw yr hyn a weithredir yn uniongyrchol gan yr Hollalluog Greawdwr trwy ei wybodaeth gyflawn a pherffaith o ddeddfau Natur.

Er na welir yr afonydd rhew yn ein gwlad ni heddyw, deuant eto'n ol. Ymhen miloedd o flynyddoedd eto bydd y cysawd heulog wedi myned trwy y cyfnewidiad hwnnw sy'n angenrheidiol i greu cyfnod oerllyd. Tua'r flwyddyn 111733 bydd ein gwlad ni yn gorwedd yn ddistaw dan grystyn o rew. Pa le bydd plant Cymru yr adeg honno?

Moliennwch Iôr—gwaith hyfryd yw  
Dyrehafu'r llais i foli Duw;  
Ei natur a'i weithredoedd maith  
Sydd yn ein galw at y gwaith.

Efe a wnaeth holl sêr y nef,  
Mae'u rhif a'u henwau ganddo Ef;  
Doethineb Duw sy' ddyfnder mawr,  
Lle sodda'n holl feddyllau' lawr.

Nid ymhyfryda'r Arglwydd Dduw  
Yng ngallu'r un creadur byw—  
Ym mawredd rhagorolion byd,  
Na gwychder anian fawr i gyd.

(DR. ISAAC WATTS.)

SIGMA.

## HEN OFERGOELION.

## IV. GOLEU NEU GANWYLL Y CORFF.

**M**ATH o oleu ydyw yr un a elwir yn Oleu neu Ganwyll y Corff sydd i'w weled uwchben cors afiach neu fynwent laith yn symud yn ol a blaen. Paham y mae i'w weled uwchben y lleoedd hyn nid wyf yn gwybod, os nad y tarth sydd yn codi o'r gors yn dod i gyffyrddiad â'r nwy sydd yn yr awyr sydd yn ei gynhyrchu.

Cafodd yr enw hwn am ei fod bob amser, medd rhai, yn ymddangos o flaen marwolaeth rhywun. Pan welir ef, oherwydd y mae i'w weled y dyddiau hyn, dyna lle y maent yn ceisio cael pwy fyddai debycaf o farw yn y cyfeiriad y gwelwyd y goleu.

Y mae rhai yn gyfrwys iawn, medrant ddweyd pa un ai gwrryw a'i benyw, dyn mewn oed, ynte plentyn, fyddai farw. Gotynnais i un oedd yn credu ynddo sut yr oeddynt yn ei adnabod.

Atebodd, "O, y mae yn ddigon hawdd. Os digwydd i chwi weled un, talwch sylw manwl iddo. Os goleu coch welwch, gwrryw sydd i farw; os un gwyn, benyw. Goleu bychan ymddangosa o flaen angeu plentyn, tra y mae goleu dyn mewn oed yn cynneu yn fflam."

Trigolion hen esgobaeth Tyddewi sydd yn cael eu blino ganddo. Y mae yn peri cymaint o ddychryn i rai nes bron bod yn angau iddynt, yn enwedig pan welant y goleu yn y cyfeiriad y byddant hwy eu hunain yn byw.

Un tro aeth dynes i ben drws ei thŷ ac edrychodd tuag at y dref, a gwelai oleu yn pellhau oddiwrthi yn araf tuag at y dref. Pan welodd ef bu bron llewygu. Aeth yn ei hol i'r tŷ, a dywedodd wrth ei gŵr ei bod wedi gweled ei goleu corff ei hun. Dyna lle y bu yn pryderu ynghylch hyn am ddyddiau lawer. Methai fwyta bwyd wrth feddwl fod ei diwedd mor agos. Ond un diwrnod daeth claddedigaeth heibio i'r drws, ac O, mor llawen y derbynai ei gŵr gartref o'i waith yr hwyr hwnnw; credai yn awr mai goleu y corff hwnnw ydoedd, ac nid ei goleu hi.

Un arall glywais yn dweyd ei fod yn setyll yng ngolwg mynwent un noson, ac iddo weled goleu bychan yno yn troi o amgylch ysmotyng neillduol yn y fynwent, ac yn ddisymwth diflannodd i'r ddaear. Ymhen wythnos yr oedd plentyn yn cael ei gladdu ar yr ysmotyng hwnnw.

Un arall ddywedai ei fod yn dyfod i'r dref un noson, a phan yn dod ymlaen at lôn oedd yn arwain o'r ffordd fawr i'r fferm, gwelai oleu. Arhosodd yno gan feddwl mai gŵr y ffermdy oedd yno

Daeth y goleu ymlaen ac heibio iddo, ond nid oedd neb yno. Aeth fel hyn o'i flaen bob cam i'r dref, a throdd i mewn i'r eglwys. Ymhen ychydig amser wedi hyn yr oedd angladd yn myned o'r fferm i'r eglwys.

Pan oeddwn yn dychwelyd i'r dref un noson o ffermdy yn ymyl, gwelais oleu yn dod i'm cytarfod. Credais ar y cyntaf mai lamp cerbyd ydoedd. Ond er ei fod yn agoshau, nid oedd dim swm i'w glywed. Arhosais i wrando. Pan oedd o fewn oddeutu deg llath ar hugain i mi diffoddodd. Yn ymyl y lle y diffoddodd yr oedd lôn yn arwain o'r ffordd fawr i dŷ oedd wedi ei adeiladu mewn cae ychydig i mewn i'r ffordd. Rhedais ymlaen er mwyn gwled a oedd neb wedi myned i mewn i'r lôn. Nid oedd neb i'w glywed. Es adref, a bum bron a chredu y tro hwn fod goleu corff i'w gael; ond drannoeth, pan yn adrodd yr ystori, cefais mai y gweision oedd yn myned adref o'r dref â lantern ganddynt, yr hon a ddiffoddodd yn ymyl pen y lôn.

Ai nid rhywbeth tebyg i hynyna ydyw y goleu corff a welir gan bobl y dyddiau hyn, tybed ?

E. J. EVANS.

### YSTORM AR Y MPNYDDOEDD GLEISION.

(O'r *Drych* am Gor. 9, 1903.)

**G**WLAWIAI drwy'r dydd y Sul, ac oddeutu pump o'r gloch prydawn ymrwygodd y cymylau mewn storm echrysalawn o fellt a tharanau; disgynnodd y gwlaw yn genllif, nes llenwi'r ceunentydd â diluw dwfr dros ugain troedfedd o uchder, yr hwn a ruthrai yn wallgof, gan ysgubo popeth a safai yn ei ffordd,—coed, cerrig, pridd, tai, anifelliaid, a bodau dynol. Eisteddai pobl Heppner yn dawel yn eu tai, llawer ohonynt yn paratoi swper, heb feddwl fod awr eu gofwy yn ymyl. Ni chwasant ddim rhybudd; daeth y cenllif ar eu gwarthaf yn hollol sydyn, a'r syndod yw i gynifer o honynt ddianc o safn angau.

Mae desgrifiadau y rhai a arbedwyd o'r rhyferthwy aruthrol yn gynyrfus a chalonrwygol i'r eithaf,—gŵyr a gwragedd, rhieni, a phlant, yn trengu yng ngolwg eu gilydd, ac yn aml ym mreichiau eu gilydd. Adroddir am un wraig yn ceisio dianc i dir uwch a phlentyn bychan dan bob cesail, ei phlentyn ei hun a phlentyn cymydoges iddi; ond pan bron at ei gwddf yn y dwfr, bu raid iddi ollwng un phlentyn er arbed ei bywyd ei hun; a phan ddaeth allan o berygl yr oedd ei gofid yn angerddol pan welodd mai ei phlentyn ei hun a ollyngasai i'r llif. Ysgubwyd rhai teuluoedd cyfain; ysgarwyd am byth deuluoedd eraill, a cholodd cannoedd y cwbl a feddant.

Yn gwled y rhyferthwy yn dyfod o'r brynau, cafodd dau ddyn ieuanc ddigon o bresenoldeb meddwl i ruthro i'r ystafell agosaf, a chan gymeryd dau geffyl, carlamasant i lawr y dyffryn o flaen y llif am ugain milltir, gan waeddi wrth bob ty ffarm,—“Ffowch i'r brynau, mab'r diluw yn dod!” a thrwy hynny arbedasant ugeiniau o fywydau.

## MORDEITHIAU CAPTEN COOK.

VII. DARGANFOD NEW ZEALAND.

(YMDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

**I**FOR. Fy nhad, onid oedd Tupia yn awgrymu llawer gormod o fwaith i'r Capten? Gallwn feddwl fod Tupia yn peri anhawstraddo i ddewis beth a wnelai gyntaf.

**TAD.** Oedd yn ddiameu. Ond am y tro hwn yr oedd cynllun y Capten yn barod. Y gorchwyl pwysicaf yn ei olwg yn awr oedd darganfod cyfandir mawr. Credai yn sicr fod cyfandir yn gorwedd yn y pellter o fil neu ddwy o filltiroedd yng nghyfeiriad y de. Penderfynodd nad oeddent i dreulio dim amser i chwilio am fân ynys-oedd, ond y rhai a ddigwyddai fod ar linell y fordaith. Ar y pymthegfed o Awst, mordwyasant o borthladd Oheteroa. Ar y pumed ar hugain o'r mis yr oedd pen blwydd yr anturiaeth yn digwydd. Cynhaliasant wledd gyda llawenydd mawr, er cof am gychwyniad pryderus eu hanturiaeth pwysig.

**I**FOR. Dywedasoeh, fy nhad, eu bod i wyllo rhyw seren, onid do?

**TAD.** Do. Bore Awst 30, am un o'r gloch, ymddangosodd y wib seren ddisgwyledig iddynt. Yr oedd ar y pryd ychydig uwchlaw y terfyngylch, yng nghyfeiriad y dwyrain. Tua hanner awr wedi pedwar yr oedd yn hardd ryfeddol wedi croesi llinell y nawn. Yr oedd ei chynffon, meddai y seryddwyr, yn 2,460 o filltiroedd o hyd. Pan yn sylwi arni, gwaeddodd Tupia, gan ddweyd, "Pan welo trigolion Bolabola yr olygfa hon, byddant yn sicr o ymosod ar drueiniaid Uletea, a lladd pob un ond y rhai a lwyddant i ddianc i'r mynyddau."

**I**FOR. Ond yn eu blaenau yr aethant?

**TAD.** Ie. Ar y chweched o Hydref darganfyddwyd tir, y mwyaf a welsant ers yn agos i fiwyddyn. Y dydd canlynol canfyddent yn eglur eu bod yn gwynebu ar wlad eang, ardderchog. Canfyddent bedair neu bum rhes o fryniau, yn codi y naill uwchlaw y llall.

**I**FOR. Yr oeddynt yn hoffi gweled tir mor ddymunol.

**TAD.** Oeddynt. Rhyfeddent, yn enwedig, at y gadwyn o fynyddau uchel anghyffredin oedd yn codi o'u blaenau o'r môr yn naturiol. Parodd y darganfyddiad hwn ymddiddan dyddorol rhwng ein boneddwyr a'u gilydd. Tybiai rhai o honynt mai Terra Australis Incognita oedd. Ti weli, Ifor, bod yr enw hwn agos cyhyd a darlun ein gwlad ni ar ddarlunlen yr ysgol ddyddiol. Yr oedd gan ein morwyr ryw ychydig o wybodaeth am le o'r enw uchod, a ddarganfyddasid gan fordeithiwr o'r Ysbaen a fu yn flaenorol yn y parth

yma o'r byd. Ond cafwyd i sicrwydd fod y tir oedd newydd ddyfod i olwg ein morwyr y pryd hwn yn gorwedd tua mil o filltiroedd i'r de-ddwyrain o gyfandir mawr Awstralia. Ei enw yn awr yw New Zealand.

IFOR. A dyna ddarganfod New Zealand?

TAD. Ie. Faint bynnag o ddyddordeb a deimlodd ein mordeithwyr wrth ddarganfod yr ynysydd rhagorol hyn, cawsant fwy o wrthwynebiad gan y brodorion yma nag a gawsant yn y lleoedd ereill gyda'u gilydd; a hynny, yn bennaf, oherwydd tuedd ryfelgar yr ynyswyr. Ar yr wythfed o Hydref angorasant yng ngenau afon fechan gyfleus. Yn y prydawn aethant i'r lan i dir, sef y capten a dau o'r teithwyr, Tupia, a nifer o'r dwylaw. Yr oedd eu dymuniad yn gryf am gael siarad a masnachu â'r brodorion, y rhai oedd ar y pryd y tu arall i'r afon. Galwodd y capten am y bad, ac aethant drosodd. Ond cyn iddynt osod eu traed ar dir, rhedodd y brodorion ymaith tua chyfeiriad eu haneddau. Gadawodd y capten y bad yng ngofal pedwar o'r bechgyn perthynol i'r llong, ac aeth ef a'r lleill i fyny at nifer o fwthynod oedd gerllaw. Ymhen ychydig funudau, canfu y rhai oedd yn y *pinnace*, sef y bad arall, bedwar o'r brodorion wedi ymarfogi â gwaywffyn, yn rhuthro allan o goedwig gerllaw, ac yn rhedeg i ymosod ar y bechgyn; ac yn ddiameu y buasant wedi cyrraedd eu amcan oni buasai i wŷr y *pinnace* waeddi arnynt am ymollwng i lawr gyda'r afon. Ond canlynai yr anwariaid ar eu hol. Yna taniodd y swyddog oedd yn y *pinnace* ergyd dros eu pennau. Safasant dros ychydig i edrych o'u hamgylch; ond ail gychwynasant gyda'u hysgrechfeydd anaearol. Taniwyd ergyd arall dros eu pennau; ond ni wnaethant yr un sylw o hynny y tro hwn. O'r diwedd cododd un o honynt ei waywffon i'w thafu at y bechgyn; ar darawiad, taniodd y swyddog at hwnnw, a chwypwyd ef yn farw yn y fan. Dros ychydig safodd y lleill yn ddigyffro, fel wedi delfu gan fraw. Wedi dyfod atynt eu hūhain, prysurasant ymaith, gan lusgo y marw gyda hwynt. Ond rhag methu dianc yn ddigon buan, gadawsant ef ar ol.

IFOR. Ymhle yr oedd Capten Cook?

TAD. Yr oedd y Capten a'i gymdeithion wedi ymwasgaru oddi-wrth eu gilydd i ryw ddiben. Ond wedi clywed trwst yr ergyd gyntaf, daethant at eu gilydd, gan dychwelyd gyda brys at y badau. Canfyddasant un o'r brodorion yn gorwedd yn farw gerllaw glan yr afon, yr hyn a roddodd eglurhad iddynt ar achos yr ergydion a glywsant. Wedi dychwelyd i'r llong, clywent y brodorion ar y lan yn siarad mewn tŷn uchel, chwerw, a difrifol. Er y diflasdod hwn, dymunai y Capten yn fawr am allu sefydlu cydgyfeillgarwch gyda'r brodorion. Y dydd canlynol gorchmynnodd ar fod i dri bad gael

eu darparu, gyda nifer penodol o forfilwyr a llongwyr, i gychwyn tua'r lan, yng nghwmni Mr. Banks, Dr. Solander, Tupia, ac ef ei hun. Yr oedd tua hanner cant o'r brodorion yn eistedd ar y llawr y tu arall i'r afon, fel pe yn aros i roddi derbynriad iddynt. Anturiodd y Capten, y ddau foneddwr, a Tupia tuag atynt; ond nid aethant ond ychydig gamrau cyn i'r Indiaid gychwyn fel un gŵr i'w cyfarfod, a phob un o honynt â rhyw fath o arf rhyfel ganddo. Galwodd Tupia arnynt yn iaith Otaheite. Er eu bod yn deall yr iaith honno, yr unig atebiad a roddent oedd chwifio eu harfau a gwneyd rhyw arwyddion eu bod am i'r dieithriaid ymadael o'u gwlad. Ar daniad dryll i gyfeiriad pell oddiwrthynt, peidiasant â'u hystranciau bygythiol. Symudodd y Capten ychydig yn ol, ac anfonodd orchymyn i'r milwyr lanio, yr hyn a gymerodd le ymhen ychydig amser. Yna, wedi ychwanegu atynt Mri. Green a Monkhouse, anturiodd yr un rhai eto at y brodorion er ceisio ffurfio cyfeillgarwch â hwynt. Cyfarwyddwyd Tupia i wneyd cynnyg eto fel cyfieithydd. Dywedodd wrthynt nad oedd y morwyr yn ceisio dim ganddynt ond angenrheidiau yn gyfnewid am bethau defnyddiol, ac a fuasai o wir werth iddynt hwythau. Ond gwrthodasant fasnachu â'n dynion ar unrhyw amodau. Cynhygiwyd amod o'r eiddynt eu hunain ganddynt, sef eu bod yn barod i gyfnewid arfau yn rhwydd gyda'r dynion gwynion. Nid oedd y fath amod yn ddim i'r Sais ond tipyn o gymorth i chwerrthin.

IFOR. Gorfod eu gadael heb fasnachu, mae'n debyg?

TAD. Felly yr edrychaf. Cafodd Tupia ar ddeall fod y brodorion yma yn elynion chwerrw i'n dynion, a bod eu drwgdybiaeth o'r dyn gwyn yn fawr. Felly yr oeddynt yn rhai tra pheryglus i nesu atynt. Ond llwyddwyd, trwy gynnyg rhoddion, i ddenu tua deg ar hugain o honynt i ddyfod yn groes i'r afon. Cynhygiwyd iddynt haiarn a gleiniau. Ond nid ystyrient y rhai hyn ond bychan eu gwerth, yn enwedig yr haiarn; nid oedd ganddynt un math o syniad am ei ddefnyddioldeb. Gwnaethant amryw gynhygion i gipio arfau o ddwyllaw y morwyr. Gorchmynwyd i Tupia eu hysbysu y byddai ein boneddwyr yn rhwym o'u lladd os gwnaent yr un camwedd drachefn. Er eu rhybuddio mor llym, pan ddigwyddodd Mr. Green droi ychydig, ac heb fod yn sylwi arnynt, cipiodd un o honynt ei gleddyf a ffodd i ychydig bellter oddiwrtho, gyda gwaedd ymfrostgar. Dechreuodd y lleill aflonyddu, a myned yn haerllug, a daeth atynt lawer ereill o'r brodorion i ymuno â hwynt yn y terfysg. Erbyn hyn yr oedd yn bryd rhoddi atalfa arnynt.

IFOR. Yr oedd y lleidr yn ddiagon pell erbyn hyn?

TAD. Nid oedd y troseddwr hwnnw wedi dianc ond rhyw bedair llath ar ddeg oddiwrth Mr. Green, pan y taniodd Mr. Banks ato

gyda mân-belenau. Er iddo gael ei glwyfo, ni wnaeth ond chwifio yr arf o gylch ei ben a pharhau i herio. Pan oedd yn araf symud ymhellach yn ol, taniodd Monkhouse belen ato, a chwypodd ef ar y tarawiad. Er hyn, pell oedd yr ynyswyr o gael eu dychrynu yn ddigonol. Er i'r mwyafrif o honynt redeg i fwrdd pan dan- iwyd y tro cyntaf, nid aethant ond i graig ynghanol yr afon gerllaw; a dechreasant ddychwelyd yn ol yn tuan.

IVOR. Lle'r oedd y cleddyf erbyn hyn?

TAD. Gyda llawer o anhawsder y llwyddodd Monkhouse i gael ei gleddyf yn ol. Yn awr yr oedd yr holl anwariaid yn parhau i symud at ein morwyr, mewn agwedd fygythiol. Eto taniodd ein dynion atynt dair ergyd o mân-belenau; parodd hynny iddynt ddianc ar frys, a nofio i'r tu arall i'r afon; a gwelwyd i dri o honynt gael eu harcholli. Pan welodd y capten nad oedd yn llwyddo i'w hennill yn gyfeillion, rhoddodd brawf ar gynllun arall, sef eu denu i fwrdd yr *Endeavour*, gan eu gwobrwyo, a dangos iddynt luaws o bethau celfydd, cywrain, addurnol, a defnyddiol, i ddefro eu cywreingarwch a'u cyfeillgarwch; a thrwy hynny ennill ymddiried a chyfeillgarwch yr holl ynyswyr. Ceisiodd ein dynion tyned yn y badau i dir, i'r amcan hwn. Ond methasant, oblegid fod y tonnau ar y pryd yn curo yn erbyn y glannau mor ofnadwy, nes y buasai cynnyg ar lanio yn rhytyg o'r mwyafrif. Yr adeg yma canfyddodd y capten ddau gatfnad, megis pe yn ymwneyd am y lan; a daeth un o honynt i agosrwydd cyfleus i'n morwyr i allu siarad â'r brodorion. Meddyliodd y capten fod hyn yn fantais iddo i ddechreu gweithio ar ei gynllun, ond cafodd ei siomi. Er i Tupia eu hysbysu nad oedd y dynion gwynion yn bwriadu gwneyd yr un niwed iddynt o gwbl, ond yn hollol i'r gwrthwyneb—sef yn bwriadu gwneyd daioni iddynt,—ni wrandawent.

*Dinas y Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

### COFADAIL T. E. ELLIS.

DYMNUNWN gydnabod yn ddiolchgar y cyfraniadau isod. Rhoddwyd hwy yng nghronfa'r gofadail yn yr ariandy,—

	s.	c.
Casglwyd gan Laura Williams, Danw Deg, Llanfrothen .. .. .	1	9
O Lanrwst,—Edward Mills, 2/-; Sigma, 2/- .. .. .	4	0
D. Jenkins, Mus. Bac., Aberystwyth .. .. .	21	0
Teulu Arvon House, Machynlleth .. .. .	5	0
Miss Thomas, Caernarfon .. .. .	1	0
Casgl Cymdeithas Lenyddol Bwlchderwyn (trwy Mr. J. R. Owen, Gyfelog, Clynog) .. .. .	6	0

Lle mae plant y Bala sydd ar wasgar? A wyf wedi clywed oddiwrthynt i gyd? Os mynnant, gall eu tanysgrifiadau fynd i'r \$150 y mae tref y Bala yn eu codi at ymarmor y mae y cerfddarlun i orffwys arno. Rhof ffinau lun Stryd Fawr y cyn hir.





SISSEI WILLIAMS.

MARY WILLIAMS.

ALMA CORTICUS.

BUDDUG WILLIAMS.

OLWEN WILLIAMS.

ANNIE EVANS.

SISSEI MAY EDWARDS.

### RHAI O BLANT CAERNARFON.

**D**OES neb yn cael ymddangos yn oriel enwog CYMRU'R PLANT os na fydd rhywbeth da i'w ddweyd am danynt. Dyma i chwi ddarlun o saith o lodesi serchog, deallus, o Ysgol y Bwrdd, Caernarfon. Pwy ydynt? Beth yw eu henwau? ebe chwi. Wel, sylwch arnynt eto. Dechreuwn gyda'r enethig acw sydd yn sefyll gyferbyn a ni (ar y llaw chwith). Dyna Sissie Williams, Bridge Street. Yna daw Mary Williams, New Street. Ac wedyn, daw lodes o genedl arall—Alma Corticus, Church Street. A fuasech chwi yn meddwl oddiwrth ei gwyneb mai Ellmyniad yw? Ond y mae'r wyneb nesaf—gwyneb llydan llawn, yn hollol Gymreig. Dyna Buddug Williams, y Banc. O dani, gyda'i gwallt laes, a'i thalcen uchel, y mae Sissie May Edwards, Anwylfa, St. David's Road. Wedyn, fel lodes am ei bod yn cael tynnu ei llun, daw Annie Evans, North Penrallt. Ac yn olaf, gyda'i llygad perlog, byw, daw Olwen Williams, New Street.

Pam y gwnaed y darlun hwn? Beth a wnaeth y lodesi glân i gael tynnu eu llun efo'u gilydd? Gallech dybied oddiwrth eu golwg, eu bod wedi gwneyd rhywbeth eisoes; ac yn barod i wneyd llawer mwy. Onid yw goleuni gobaith a fydd yn tywynnu yn eu llygaid?

Yr hyn y maent wedi ei wneyd ydyw, bod yn bresennol yn yr ysgol ddyddiol ar hyd y flwyddyn ddiweddar, heb gollu yr un diwrnod. Ni chafodd yr athrawes achlysur i ysgrifennu *Absent* ar gyfer enw yr un o honynt am flwyddyn gron! *Well done*, yn wir. Dyma'r plant sy'n llonder i'w rhieni, yn gysur i'w hathrawon, ac yn anrhydedd i'w gwlad. Gobeithio y cant hwy ac eraill iechyd a nerth i gadw eu llawryfon, ac y byddant yn esgyn tir uwch o hyd mewn gwybodaeth, rhinwedd, a daioni.

Bob dydd yn yr ysgol fel haul ar y fron,  
Dyna yw hanes y lodesi llon;  
Taener eu clodydd dros fynydd a phant,  
Gwyn fo eu bywyd—ardderchog blant!

*Caernarfon.*

ANTHROPOS.

### GOFAL MAM.

**G**OFAL MAM, O dyna ofal  
A'm cysgoda rhag pob cur;  
Gofal drocha ei adenydd,  
Fyth ar lannau cariad pur;  
Erys fel gwarcheidol angel,  
I'm hamddiffyn rhag pob cam;  
Dim ond beddrod du yn unig,  
Leibia ymaith ofal mam.

Pan fydd galar fel cymylau,  
Yn breuddwydio yn ei nhen;  
Pan fydd pryder megis mellen,  
Yn eu hollti uwch ei phen;  
Pan fydd ochensidiau trymion,  
Dros ei gwefus yn rhoi llam;  
Deil ei gofal byth yn loew,—  
Gofal pur yw gofal mam.

*Blaenau Ffestiniog.*

Deil yn loew pan fydd nefoedd  
Wen fy mywyd yn pruddhau,  
Pan fydd lleng o felt-feddylliau,  
Trwy fy enaid yn ymwau;  
Deil fel angel ym mhob tywydd,  
Deil yn bur yng ngwres y ffiam;  
A phan losga fy ngobeithion,  
Gofal pur fydd gofal mam.

Boed i Dyinged wgu arnaf,  
Mathred fi o dan ei thraed,  
Bydd gofalon mam yn aros,  
Fel ysbrydion yn fy ngwaed;  
Ymhyrydaf ynddi bythol,  
Ac os gofyn rhywun pam,  
Mae'r atebiad yn fy nghalon,—  
Gofal pur oedd GOFAL MAM.

D. R. JONES.

### HUGH PRICE HUGHES.

Y MAE'R Parch. J. Price Roberts, Gwrecsam, wedi ysgrifennu cofiant Cymraeg i'r pregethwr enwog a dylanwadol. Cynghorwn ein pobl ieuainc i'w gael (hanner coron yw ei bris). Cant wledd i'r meddwl, ac adnewyddiad i'w bywyd ysprydol.

## EDDIE BACH.

"**E**R Cof" anwyl am y bychan dwy-flwydd oed: Bu farw ddydd Sul, Ionawr 12, 1902; a chladdwyd ef ar yr 16. Gadawodd ei dad a'i fam, Mr. a Mrs. Edwin Jones, i alaru ar ei ol.

Byrr ei fywyd, byrr ei fedd;  
Hir ei wynfyd, hir ei hedd.

Gormod hiraeth! saf fan draw,—  
Paid a dod yn agos;  
Awel dynyr adgof ddaw  
Bob diwrnod  
Heibio'r gawod,—  
Dwed fod Eddie bach yn aros.

Glesni'r wybren wenai'n llon  
Yn ei lygaid siriol;  
Ellun aelwyd,—pur ei fron,  
Ydoedd Eddie,  
Wisgai dlysmi  
Rhyw ymwelydd bychan nefol.

Swyn ei fywyd dwy-flwydd oed  
Hawliodd iddo nef a choron;  
Tybiwn glywed swn ei droed  
Eto'n chwaraui  
Febyd-gampau,  
Ac yn gwneuthur ei orchestion.

Melyn haul a ddawnsiai'n rhydd  
Yn ei wallt modrwyog,—  
Tlysmi'r wawr uwch cryd y dydd  
Ddengys harddwch  
A hawddgarwch  
Blodau swyn ei ruddiau gwridog.

Aeth y bychan, byrr ei gam,  
Ar hyd llwybrau hawddfyd;  
Er mor fyrr, fe roddodd lam  
Yn rhy uchel  
I'r un angel  
Wybod faint ei hedd a'i wynfyd.

O mor hawdd i'r tad a'r fam  
Ydyw portreadu,—  
Mae acenion swn ei gam  
Bychan eto  
Fel yn deffro  
Telyn serch i alarnadu.

Aeth i'w daith, tra telyn fwyn  
Natur eto'n arw,—  
Mynd pan oedd acenion swyn  
Geiriau cariad  
Dechreu-siarad,  
Megis deunod cynta'r gwcw.

Swyn ei enw anwyl fydd  
Iddynt hwy'n anwylach,  
Mae y llinyn euraidd sydd  
Yn cysylltu  
'R nef a'r teulu,  
Erbyn hyn yn llawer tynnach.

Wanwyn ieuanc, ysgafn-droed,  
Sanga fedd y dwy-flwydd oed  
Yn dy aur sandalau;  
Cofia mai y beddrod byrraf  
Sydd yn cario'r ystyr mwyaf.  
Hefin anwyl, gyrra dithau  
Law garedig—  
Anweledig  
Awel fwyn i drwsio'i flodau.

**HWIAN-GERDDI PLANT BEIRDD.**

I'w canu yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Llanelli. Hefyd, os mynnir, wrth gyhoeddi Eisteddfod y Rhyl.

**I. YN Y FFAIR.**

Mi welais gastell Cricieth  
Yn cysgu ar y graig,  
A gwelais gychod arian  
Ym merw tonnau'r aig ;  
Pan welais Gwenno'n gwenu  
Yng ngwenu'r Tylwyth Teg,  
Mi brynnais ebol melyn  
Am bedair punt ar ddeg.

**II. YN Y STEDDFOD.**

Mi glywais gorau'r Saeson  
Yn curo'n corau ni,  
A gwelais Gymru dirion  
Yn wylo dagrau'n lli ;  
Ond gwelais fardd cadeiriol  
Yng nghanol gwynfyd mawr,  
A cherddais efo Siriol  
I wyneb gloew'r wawr.

**I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.**

**Y**N Llundain gwelais frenhines yn dawnsio bydd y rhan fwy a o'r Eidaliaid yn dodwy wyau gwynion bydd yr iar ddu yn gosod pabell ger yr afon bydd y sipsw'n a het silc am ei ben gwelais bregethwr yn y dafarn ceir diodydd meddwol yn yr eglwys cewch weled person yn pregethu i ddynion clai sydd i'w ddefnyddio i wyntu llestri yng Ngymru mae llawer o foch yn adeiladu tai bydd y saer maen yn gweithio yn y pwll glo bydd y glwyr yn aredig yn y cae tatws bydd y fiarmwr a'r feisdras a'r forwyn yn godro oriawr sydd yn llogell y gwas sydd yn llwytho tyfod i'r wagen ar ben mynydd bydd y bugail yn bugeilio defaid yn y mor bydd y morfil yn tafu llongau bydd yr aderyn yn canu ar frigau y coed bydd hen wraig yn gwau hosanau glas fydd yr awyr ar dywydd braf bydd yn bwrw eira ac yn rhewi yn y gaeaf bydd y merched ieuanc yn codi parasôl mae yn beth mawr gweled meddwyn mewn pulpud gwelais bregethwr yn dal cwingod bydd y *keeper* Wil Cadi Sion sydd yn enwog am wneyd basgedi mewn wy mae melyn a gwyn yw gwallt hen ŵr unlliw yw y llo du a gwyn yw yr eira yn y cae bedw mae y fuwch yn rhyfela mae y milwyr yn Ladysmith daliwyd Kruger mewn tepot mae te a dŵr poeth sydd yn llesol at ladd mochyn Mari Llwyd sydd yn enwog am wneyd bara ceis wobr am ysgritennu salm a Cathrine Jones sydd yn wraig alluog am hel ystraeon cefais gerydd yn y capel gwelais ddynes yn hel mwyar duon a choch yw trwyn y meddwyn a hyll iawn i ddynes gael gŵr.

*Bryn Saethon.*

JANE HUGHES.

**GWAHODDIAD I LERPWL.**

(I FACHGEN PUM MLWYDD.)

ANWYL GHERAINT,

Derbynials eich llythyr, 'rwyn diolch yn fawr  
 I chwi am ei anfon. Atebaf yn awr  
 Drwy anfon ychydig linellau i chwi,  
 Am eich caredigrwydd yn anfon i mi.  
 Darlennais eich llythyr yn fanwl a llwyr,  
 Fe ddewch yn bregethwr—un mawr!—pwy a wyr?  
 Y mae eich llythrennau yn fawr ac yn fan,  
 Oll wedi fy synnu, a'm swyno yn lân.  
 Canfyddwn eich darlun yn syth ym mhob un,  
 Pob figr yn dangos yn eglur eich llun ;  
 Ac ym mhob llythyren rhyw aelod i chwi  
 Yn dyfod i'r golwg yn amlwg i mi,—  
 Pob un sydd mor lusiaidd, 'nenwedig y Q,  
 Nes bron y meddylw'n ei fod ef yn fyw,—  
 Yn myned i redeg yn union fel chwi,  
 Ond sefyll yn llonydd drachefn wnaeth hi.  
 Gobeithio bod Nesta yn iach erbyn hyn,  
 Yn myned i'r ysgol, a'i dillad yn wyn ;  
 A Lillian a William, a chwithau'r un modd,  
 Yn llamu tuag yno i gyd wrth eich bodd.  
 Yn awr 'rwy'n terfynu, gan erfyn yn daer  
 Am i chwi ddod yma yn fuan—a'ch chwaer,  
 I weld y *Campania* yn hwylio i ffwrdd,  
 A miloedd o bobl yn gwau ar ei bwrdd ;  
 Y cadben yn brydlawn, mewn gemwaith o aur,  
 Pob llaw yn ymostwng i wneuthur ei air—  
 Y biwgl yn canu,—a'r awrlais i dri,  
 A dyna hi'n nofio ar wyneb y lli.  
 Ein cofion at Nesta—ond mwy atoch chwi,  
 Eich Mama, a'ch Dada, ac at eich Mamgu—  
 Disgwyliaf am lythyr bach eto cyn hir,  
 Mae hiraeth am danoch, 'rwyn d'wedyd y gwir.

## BABILON.

## I.

"PHIOL aur yn meddwi pob gwlad," "ffon yr anwiriaid," "teyrnwialen y llywiawdwy," a "gordd yr holl ddaear;" "y dref aur," yr hon oedd yn "aros ar ddyfroedd lawer, yn aml ei thrysorau," ac a elwid yn "arglwyddes teyrnasoedd;" "prydfertwch y teyrnasoedd," "gogoniant godidowgrwydd y Caldeaid," a "gogoniant yr holl ddaear,"—dyna Babilon, un o ddinasoedd cadarnaf a godidocaf y byd, a phrif ddinas ymherodraeth Caldea.

Safai ar wastadedd Sinar. Sylfaenwyd hi, yn ol rhai, gan Semiramis; yn ol eraill, gan Belus; eraill drachefn a ddywedant fod ei sylfaeniad i'w briodoli, nid i'r frenines Semiramis, nac i Nimrod, yr hwn oedd yr un a Belus neu Baal; ond yn hytrach i wegi ynyd y rhai hynny grybwylla'r Ysgrythyr iddynt ddymuno adeiladu dinas a thŵr, a gwneyd iddynt eu hunain enw. Diameu i'r ddinas gael ei helaethu gan Semiramis, a'i pherffeithio gan Nebuchodonosor.

Un o brif ryfeddodau Babilon ydoedd ei caerau. Yr oeddynt yn 87 troedfedd o drwch, yn 350 o droedfeddi o uchder, ac yn 60 milltir o amgylchedd. Ffurfient betryal berffaith,—pob ystlys yn 15 milltir o hyd, wedi eu hadeiladu o briddfeini mawrion, a'u gweithio trwy losgbyg (*bitumen*). Amgylchid y caerau hyn oddi-allan gan ffos ddofn, lawn o ôdwfr, wedi ei gwynebu bob ochr â phriddfeini. Gan mai o'r clai godwyd o'r ffos hon y gwnaed holl briddfeini y caerau, rhaid fod lled a dyfnder y ffos yn aruthrol. Ym mhob ystlys o'r caerau yr oedd 25 o byrth, oll wedi eu gwneyd o bres caled, am y rhai dywedodd yr Arglwydd wrth Cyrus,—“Y dorau pres a dorraf.” Rhwng pob dau o'r pyrth hyn yr oedd tri thŵr, a phedwar yn ychwaneg ym mhedair congr y caerau, a thri cydrhwng pob congr o'r porth agosaf ar bob ochr; pob un o'r tyrau hyn ydoedd ddeg troedfedd yn uwch na'r caerau. Wrth hyn, nid ydym i olygu fod tri thŵr rhwng pob dau borth yn gyson oddi-amgylch; ond yn unig yn y rhannau hynny o'r caerau lle yr oedd tyrau yn angenrheidiol; eu nifer oll ydoedd 250.

O'r 25 pyrth ym mhob ystlys i'r caerau, elai 25 o heolydd, pob un yn 150 o droedfeddi o led, yn llinellau unionsyth i'r pyrth yn yr ystlys ar eu cyfer; fel mai holl nifer yr heolydd ydoedd 50, pob un yn 15 milltir o hyd, 25 ohonynt yn rhedeg un ffordd, a 25 yn rhedeg ffordd arall, yn croesi eu gilydd yn gywir onglog. Heblaw y rhai hyn, yr oedd pedair hanner heol, tai un ochr a'r mur yr ochr arall; elent o amgylch pedair ochr y ddinas yn agosaf i'r caerau, pob un ohonynt yn 200 troedfedd o led. Gan fod yr heolydd yn croesi eu

gilydd fel hyn, dosperthid y ddinas yn 676 o ysgwaerau (*squares*), pob ysgwâr yn bedair ystâd (*furlong*) a hanner bob ochr, sef dwy filltir a phedran o amgylchedd. O amgylch yr ysgwaerau hyn, ar bob ochr yn gwynebu yr heolydd, safai y tai, oll yn ddau neu dri uchdwr llofft, ac wedi eu harddu yn ddihafal. Yng nghanol pob ysgwâr yr oedd gwagle, ac yng nghanol y gwagle yr oedd gardd.

Trwy gannol y ddinas, o'r gogledd i'r de, rhedai cangen o'r afon Euphrates. Ar bob ochr i'r afon yr oedd porthfa, a mur uchel o'r un defnyddiau a thrwch a chaerau y ddinas. Ymestynnai y muriau  $2\frac{1}{2}$  filltir o du uchaf y ddinas, a'r un pellter drachefn o'r tu isaf i'r ddinas; a chan fod lled y ddinas yn 15 milltir, rhaid fod hyd y muriau yn 20 milltir.

Yn y muriau hyn, gyferbyn a phob heol arweinai i'r afon, yr oedd pyrth pres, a grisiau yn myned i lawr i'r dwfr er cyfleustra i'r preswylwyr groesi mewn cychod o'r naill ochr i'r llall. Yr oedd y pyrth hyn yn agored y dydd, ac ynghauad y nos.

Ar draws yr afon, yng nghanol y ddinas, yr oedd pont ysblenydd, ystâd (*furlong*) o hyd, a deg troedfedd ar hugain o led. Gwnaed ei bwâu o gerrig enfyrrth, wedi eu cydgysylltu â chadwynau heiyrn a phlwm toddedig.

Gan y gorlifai yr Euphrates yn yr haf oblegid toddiad yr eira ar fynyddau Armenia, gwnaed dwy gamlas, y rhai droent gwrs y dyfroedd i'r afon Tigris, cyn cyrraedd ohonynt Babilon. Yr oedd un o'r camlasau hyn yn ddigon llydan a dofn i longau. Tybir mai hon yw afon Cebâr, lle y cafodd Ezeziel rai o'i weledigaethau. Os cywir y dybiaeth, digon tebyg fod a wnelo caethglud Judah â'u gwneyd.

I sylfaenu y bont a chodi yr argloddiau, rhaid ydoedd sychu gwely yr afon; i'r pwrpas hwnnw, gwnaed llyn o du uchaf y ddinas, 40 milltir ysgwâr, 160 milltir o amgylchedd, a 35 troedfedd o ddyfnder.\* I'r llyn hwn y trowyd yr afon, nes y gorffennwyd yr holl waith; wedi gorffen, gollyngwyd hi yn ol i'w gwely drachefn. Atebai y llyn hwn ddiben arall hefyd; cedwid y dwfr lifai iddo ar amser gorlifiaid, a gollyngid ef drwy lif-ddorau ar amserau sychder i ddyfrhau yr holl wlad.

Wrth dau ben y bont safai ddau balas. Rhyngddynt yr oedd cymundeb trwy gromnen (*vault*) tan wely yr afon. Yr oedd un o'r palasau hyn yn dair milltir a thri chwarter o amgylchedd; a'r llall yn saith milltir a hanner. Yr oedd y mwyaf o'r ddau wedi ei amgylchu â thri o furiau, y naill o fewn i'r llall. Yr oedd y muriau hyn wedi eu gwychu ag amrywiaeth diderfyn o gerffuniau dynion ac

\* Dywed Mezasthenes ei fod yn 75 trcefedd o ddyfnder.

anifeiliaid; ymhlith eraill yr oedd hel-ddarn cywrain o Semiramis ar farch yn tafu ei gwaewffon at lewpard, a'i gŵr, Ninus, yn trywanu llew. Yn arwain i'r palas yr oedd tri phorth pres. Ynddo yr oedd llestri aur ac arian, a phob math o dodrefn gwych a gwerthfawr,—ysbail yr Aifft, Palestina, a Thyrus. Ynddo hefyd yr oedd y gerddi crogedig, y rhai ystyriai y Groegiaid yn un o saith rhyfeddod y byd. Yr oedd y gerddi hyn yn cynnwys mynydd celfyddydol pedwar cant o droedfeddi ysgwâr, yn ymgodi yn y ffurf o sarnau (*terraces*) mawrion, y naill goruwch y llall, i uchder caerau y ddinas. Ategid y cruglwyth cywrain a gorchestol hwn gan fwâu meini (*arches*) enfawr, wedi eu codi ar fwâu eraill, y naill uwch y llall; a chadarnheid ef bob ochr yn y gwaelod gan fur 22 troedfedd o drwch. Ar y bwâu meini yr oedd llechfeini mawrion, un ar bymtheg o droedfeddi o hyd, a phedair o led; ar y rhai hynny yr oedd haen o losgbyg; ac ar hynny ddwy res o briddfeini; yna, dalennau tewion o blwm; wedi hynny, cymaint dyfnder o bridd, fel y gallai pob math o goed wreiddio a thyfu i'w cyflawn faintioli. Yn arwain o'r naill rodfa i'r llall yr oedd rhes o risiau deg troedfedd o led; ac ar yr uchaf o'r rhodfeydd yr oedd safn beiriant, gyda'r hwn y codid dwfr o'r afon i ddyfrhau yr holl ardd. Yn y gerddi hyn, y rhai ymddanghosent o bell yn debyg i ellydd o goed ar tynyddau, y rhodiai Nebuchodonosor, ac yr edrychai ar y ddinas yn ei holl ogoniant, pan lefodd,—“Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenhindy yng nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?” Am ymfalchio o hono fel hyn, aeth y frenhiniaeth oddiwrtho; gyrrwyd ef oddiwrth ddyinion, porodd wellt fel eidionau, gwlychwyd ei gorff gan wllth y nefoedd, hyd oni thytodd ei flew fel plu eryrod, a'i ewinedd fel ewinedd adar.

---

### CYNGOR A FFAITH.

GAN AMNON, BARDD ENWOG O GEREDIGION.

#### I. MEDDWL OYN LLEFARU.

CYMER bwyll, a meddwl ddwywaith  
Am y peth, cyn dwedyd unwaith;  
Dwedi'r peth, os gwnei di felly,  
Yn ddau gwell oherwydd hynny.

#### II. ADDYSG RHIENI.

MAB'N un ddysgwyd fyw ar 'chydig  
I'w rieni'n fwy rhwymedig  
Na'r sawl gasglwyd ar ei gyfer,  
Trwy fawr ofal, olud lawer.


---

Cyfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLILYN, Y BALA.

---



# AT Y PLANT.



**T**ED. Peth difyr iawn yw darllen hanes teithiau yng ngwlad y Beibl. Ond, fel y dywedwch, y mae teithwyr yn aml yn gorfod dioddef sarhad a cholled oddiwrth y Mahometaniaid sydd yn y fro gysegredig yn awr. Ond eto, beth feddyliech chwi? Yr oedd Twrc yn gwerthu carpedi ym Mangor y mis diweddaf. Poenid ef, sarheid ef, gwasgerid ei garpedi. Gan bwy? Gan fechgyn ieuainc a phlant gwlad efengyl. Gwylltiodd, yn ddigon naturiol; tynnodd ei gyllell, a thrywanodd un o'i boenydwyr. Pan ddaeth yr achos i lys cyfraith, profwyd fod un, o leiaf, o'r llanciau yn feddw. Beth bynnag ellir ddweyd am y digred sydd yn awr yng Nghaersalem a Nazareth a Hebron, nis gellir dweyd am yr un o honynt y peth ddywedwyd am lauc ym Mangor,—ei fod wedi sarhau dieithr-ddyn pan dan effaith diod feddwol.

Llyfr darllenadwy a swynol yw llyfr newydd *Anthropos*,—*Oriau gydag Enuogion*.

Dywedir mai'r Saeson yw'r unig bobl sy'n mynnu cadw eu hiaith i ba le bynnag yr ant, a pha le bynnag y sefydiant.


**CERDDORION.** Cyhoeddir amryw ddarnau cerddorol i blant, megis oratorio "Mebyd Joseph," cantata "Gwardwr y Plant," a llawer ereill, gyda geiriau Cymraeg gan feirdd o fri, gan y Mri. Bayley a Ferguson, 54, Queen Street, Glasgow.

Gwelwch ddernyn yn y rhifyn hwn o ddarlunias y Parch. Robert Evans o'r *ddaeargryn ym Mrýniau Casia*. Y mae'r llyfr drwyddo yn ddyddorol iawn.

**IVOR.** Cewch hanes dinasoedd ereill cyn hir.

Y mae rhai o b'ant Urdd y Delyn wedi cymeryd eu graddau ym Mhrifysgol Cymru.

**HAWLFRANT TONAU.** Dealler nad yw'r golygydd yn meddu hawlfrant ar y tonau sy'n ymddangos bob mis. Felly, nid yw ond gwastraff ar amser anfon ato am ganiatad i'w hargraffu mewn llyfrau neu raglenni cyfarfodydd: anfoner at gyfansoddwr y dôn, efe a'i pia. Yr wyf yn deall fod y cyfeiriad roddir ynglŷn â'r dôn yn ddigon.



DYSGU GWETHIO.



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XII.

MEDI, 1903.

RHIF 141.

---

## DYSGU GWEITHIO.

**D**YLAI pawb ddysgu gwyddoniaeth. Dylai pob un ddysgu gwyddoniaeth ei waith. Gadael y siop a'r gwaith, a mynd i'r coleg i ddysgu ysmygu, chwareu pèl droed, a gwneyd dim byd wnaed amserau'n ol. Ond nid felly heddyw. Saif pob gwaith a chelfyddyd ar egwyddorion gwyddonol.

Draw ymhell acw gwelwn saer maen yn cymysgu calch a graian. Awn yno. Gwyddoch pan ddefnyddir calch gyda'r cerrig yr aiff yn galed megis craig, a chydia'r naill garreg wrth y llall. O'r graig galch daeth y calch, gwnaed ef trwy losgi y garreg, a thrwy hynny ymadael a'r nwy *carbonic acid*. Pan ddefnyddir y calch ar y muriau una drachefn gyda'r un nwy a'i gadawodd, yr hwn sydd eisioes yn yr awyr, ac aiff yn garreg galch yn ol.

Engraifft syml nodwyd, eto, dengys fod y gwaith distadlaf yn llawn o wyddoniaeth. Pa faint mwy y dylid astudio gwyddoniaeth gweithiau mwy? Dylai pob gweithiwr efrynu y gangen honno o wyddoniaeth sydd yn dal perthynas uniongyrchol â'i alwedigaeth. Nid llafurio gyda bys a bawd yn unig yw llafur yr ugeinfed ganrif.

Dylai y chwarelwr wybod enw y gwely, ac ym mha gyfundrefn o grawen y ddaear y saif y creigiau a holltir ganddo. Dylai wybod sut y daethant i fod; ynghyd ag hanes y bywydau, mil a mwy, a orweddant yn guddiedig ynddynt. Dylai y gof wybod pahan y mae haiarn cochedig yn feddalach na haiarn diwres.

Gedy y bachgen yr ysgol yn awr gyda'i feddwl yn gyfoethog o egwyddorion gwyddoniaeth. Try y manteision a dderbyniodd yno at ei wasanaeth yn yr alwedigaeth fwriada ddilyn. Heblaw hyn, pe na byddai cysylltiad rhwng egwyddorion gwyddonol a gwahanol alwedigaethau bywyd yn fanteisiol, eto, byddai y ffaith syml fod cymaint o ddifyrwrch yn deilliaw o astudio deddfau y Crewr, yn galw'n uchel ar i bob un ymdrechu eu deall. Trwy wneyd hyn rhagora Cymru fydd ar Gymru fu.

Yn y darlun gwelir ysgolorion yn dysgu gweithio gyda'r athraw. Bechgyn Cymru dynt.

SIGMA.

---

**YR HEN, HEN FNYDDOEDD.**

**M**OR brydferth yw'r hen, hen fynyddoedd,  
 A'u gwisgoedd amrywliw a glân;  
 Mae dedwydd chwareule y gwyntoedd,  
 Yn nefoedd i Awen a chân;  
 Yswllia gogoniant palasau  
 Yng ngwydd temlau Anian a'u bri;  
 Gweld porffor y grug a phinaclau  
 Yr hen, hen fynyddoedd i ni.

Mor dawel yw'r hen, hen fynyddoedd,  
 A'u llysoedd o hawddfyd a hoen,  
 O gyrraedd swm bwrlwm dinasoedd,—  
 Gwersylloedd prysurdeb a phoen;  
 Pererin rhwng tonnau anhunedd  
 Yw hedd dinasyddiou di-ri;  
 Cyd rodio'm mharadwys tangnefedd  
 Yr hen, hen fynyddoedd i ni.

Mor nefol yw'r hen, hen fynyddoedd,  
 A'u gwleddoedd o buideb a swyn;  
 Mor ddwyfol yw mawl cymanfaoedd  
 Gysegrodd leir mynydd ac wyn;  
 Eu mawredd eneinia cawodydd  
 Llawenydd o'r nefoedd yn lli;  
 Llais moliant clogwyni a nentydd  
 Yr hen, hen fynyddoedd i ni.

Y Bala.

RICHARD AP HUGH.

---

**COF-GOLOFN T. E. ELLIS.**

	s.	d.
Ilywel Gwyn Owen, Bodhywel, Bowstryd, Ceredigion .. ..	10	6
J. Rowlands, 29, Castle St., Llangollen .. ..	5	0
Casgliwyd gan D. R. Thomas, Fron Goch, Blaenau Ffestiniog ..	4	0
Mrs. Maria Owen, Bodowen, Glasgoed, Llanelwy .. ..	3	0
Ifor Evans, 1, Charlotte Street, Llanberis .. ..	1	0

## DIHANGFAU.

## I. TON YN ACHUB BYWID.

**Y** MAE ynys fechan o graig, a elwir Craig yr Esgob, ger ynys-oedd Scilly. Rai blynyddoedd yn ol adeiladwyd goleudy arni, yn gyfarwyddyd ac yn rhybudd i'r llongau aml sy'n hwylio gyda glannau deheuol ein hynys. Pan godid y goleudy, yr oedd mab yr arch-adeiladydd yn edmygu gwaith ei dad. Un diwrnod tawel, clir, collodd ei draed a syrthiodd. "Nis gall dim ei achub," ebe'r gweithwyr, dan ddal eu hanadl. Yr oedd y goleudy yn uchel iawn, a dim ond craig odditanodd.

Ond, pan oedd y bachgen yn disgyn, daeth ton anferth o rywle o'r Werydd, a chyrrhaeddodd waelod y tŵr. Syrthiodd y bachgen yn ddianaf ar ei bron meddal, cludwyd ef ychydig i'r môr, a nofiodd yn ol heb fod ddim gwaeth.

Dywedai'r gweithwyr mai dyna'r unig don orchuddiodd y graig y diwrnod hwnnw.

Y mis diweddar syrthiodd un o wŷr y goleudy, ond nid oedd ton garedig rhyngddo ef a'r graig, a drylliwyd ef.

## II. YMDRECH AR YMYL DIBYN.

Yn y mis diweddar yr oedd teithiwr o Wyddel yn disgyn i lawr hyd lethrau peryglus Monte Rosa, un o bigynau yr Alpau. Yr oedd ganddo ddau arweinydd, Swisiaid, tad a mab. Yr oedd y tri wedi eu rhwymo wrth eu gilydd,—y mab wrth un pen i'r rhaff, y teithiwr yn y canol, a'r tad wrth y pen arall. Tra'n dringo dros yr ochrau, syrthiodd y ddau flaenaf, y teithydd a mab yr arweinydd, dros ymyl y clogwyn. Ond medrodd y tad gael gafael mewn carreg lawr.

Felly yr oedd dau o'r tri dyn yn crogi gerfydd y rhaff uwchben dibyn erchyll, dros ddeng mil o droedfeddi o uchder. Yr oedd y llall yn eu dal. Ond am faint y medrai gewynau ei freichiau adael iddo eu cadw?

Gwyddai y mab gymaint oedd y pwysau ar freichiau ei dad. Medrodd rywsut, tra'n crogi'n ol ag ymlaen wrth y rhaff, gydio yng ngwyneb y graig. Dringodd i lawr ar hyd-ddi, o glogwyn i glogwyn; a phrysuodd, yn archolledig, a'i fywyd mewn enbydrwydd bob eiliad, i chwilio am gymorth. Gwyddai beth oedd yn adael ar ol.

Yr oedd y teithiwr eto'n grogedig wrth y rhaff. Yr oedd ei goes ddchau wedi ei thorri, ac ni fedrai wneyd dim i'w achub ei hun. Daliai'r arweinydd fry ei afael yn y rhaff, a'i draed wedi eu gosod

yn erbyn carreg ar fin y dibyn ofnadwy. Daliodd felly am saith awr. Yna teimlodd fod breichiau cryfion yn cymeryd lle ei freichiau lluddedig ef. Tynnwyd y teithiwr i tyny i ddiogelwch. Daeth pawb yn Alagna i gyfarfod y tad a'r mab dewr i'w croesawu.

---

BYWYD COLOMENOD.\*

**D**ICHON nad anyddorol gennych fyddai ychydig o hanes colomennod. Megir ugeiniau o filoedd ohonynt bob blwyddyn ym Mhrydain Fawr. Mae gan gyfaill i fy nhad nifer liosog o'r dosbarth hwnnw a elwir yn golomenod anwes, a difyr ydwy gwrandaw arno yn adrodd am eu harferion rhyfedd a chywrair.

Nid ydynt byth yn cael eu gollwng allan i'r awyr agored, am y byddant wrth hynny yn difwyno eu hunain, a'r haul yn pylu ac amharu lliwiau eu plu prydferth. Cedwir hwynt mewn ystafell neu dŷ wedi ei baratoi iddynt. Rhennir y pen pellaf oddiwrth y drws yn fan ystafelloedd, tua dwy droedfedd o hyd wrth bymtheg moddedd o led a phymtheg o uchder. Gwedi i ddwy golomenod fyned i gyfamod priodasol a'u gilydd, dewisa yr aderyn gwrryw un o'r ystafelloedd uchod. A buan gwelir ef yn cludo darnau bychain o wellt a brigau meinion, gan eu gosod i lawr yn ymyl ei briod. Bydd hithau yu eu trefnu, gan adeiladu'r nyth. Ym mhen tuag wythnos dodwir yr wy cyntaf yn hwyr y prydawn, a saf y iar drosto heb symud o'r fan ond i gael ei bwyd hyd prydawn y trydydd dydd, pryd y dodwir yr ail wy. Ac eistedda hithau arnynt tan naw neu ddeg o'r gloch bore trannoeth, pryd y daw ei chymar i'w hymyl; ac wedi iddo gyfarch gwell iddi yn iaith colomenod, daw hithau allan, a chymer yntau ei lle hyd tua phedwar y prydawn; ac felly ant ymlaen hyd y deunawfed dydd, pryd y daw dau o gywion bychain, hyll yr olwg arnynt, o'r wyau. Pethau bychain digrif ydynt. Ymddengys eu pennau yn llawer rhyfawr i'w gyddfau meinion ac egwan. Ymhen tua phedair awr, rhydd y fam ei phen i lawr wrth ei hochr, a gesyd y rhai bychain eu pigau yn ei phig hi, a phorthir hwy yn hollol am y saith niwrnod cyntaf o'u bywyd â sylwedd tebyg i laeth wedi cawsio, yr hwn a dyfa yng nghrombilau yr hen adar yn ystod y deoriad.

*Port Talbot.*

ANNIE E. JONES.

---

\* Ysgrifennwyd y traethawd bach cain hwn pan oedd yr awdures yn bedair ar ddeg oed. GOL.

## CI YN CŴSPI.

**I**AWN a theg yw i bawb gael llonydd i wneyd ei waith; y mae hyd yn oed y ci yn deall hynny. Ci Newfoundland mawr oedd Nero, ac yn byw mewn ffermdy cyfagos i bentref. Ci da iawn, ac felly ci gwerthfawr iawn, oedd Nero; ac yr oedd ei feistr, a'r teulu un ac oll, yn hoff iawn o hono.

Plant bach da oedd plant Ty'n Llan, nodedig felly ymhlith plant y pentre; ac yr oedd Nero llawn cystal a'r goreu ohonynt am eu dannedd, fel ci, fel un yn meddu pob rhinwedd ddylai fod mewn ci da. Cadwai ei wisg yn lân a gloew; canfyddai ei lygaid effro bob ysmic, ond cadwai ei dafod yn foneddigaidd o ddistaw, ni chlywid ef yn cyfarth braidd un amser; ni byddai byth yn sorri, digio, neu yn ystelcian; gwrandawai yn astud ar bob gair a ddywedid wrtho a'i ddwy glust, a gwên ar ei gynffon; ni byddai byth mor ddedwydd a phan yn cael gwneyd rhywbeth dros ei feistr, neu yn cael myned i neges dros ei feistres, a byddai yn dawnsio gan barodrydd i ufuddhau i'r gorchymyn roddid iddo; nid oedd na saf na saib i'w droed pan ar ryw neges.

Aml y byddai yn rhedeg i siop y pentre dros ei feistres, a'r neges wedi ei hysgrifennu ar ddarn o bapur, a'i dodi tu fewn i'w goler. Dygai yntau y nwyddau yn ol yn y faged a gariai yn ei geg.

Ond ar un adeg yr oedd gan Nero, fel y mae gan bob creadur da arall, ei elyn,—hen fastiff cas a ffyrnig, oedd yn byw mewn ty ar ochr y ffordd, rhwng Ty'n Llan a siop y cigydd.

Nid oedd yr hen walch cyfrwys-ddrwg atgas mor gryted ci a Nero, ac felly gofalai am ymgadw o'i olwg bob amser, ond pan welai y faged yn ei geg. Pan welai ef yn llwythog felly, rhuthrai arno, a byddai raid i Nero, druan, ddianc nerth traed, a dioddef llawer brathiad creulawn; oblegid ni fynnai y ci ffyddlawn ollwng y faged am foment er dim.

Un diwrnod, modd bynnag, yr oedd Nero wedi dyfeisio cynllun a'i galluogai i weinyddu y gosp yr oedd y gwalch wedi ei hen haeddu. Wedi gwyllo ei feistres yn gwagu y cig o'r faged, ffwrdd ag ef fel saeth o fwa tua'r pentref yn ei ol, a'r faged wag yn ei geg. Dyna'r mastiff yn rhuthro'n chwyrnlyd ato. I lawr a'r faged, ac i lawr a'r hen fastiff hefyd mewn winciad llygad, a dyna lle y bu gweinyddu arno y fath gurfa dost nad anghofiodd hi hyd ei fedd,—curfa sobrodd holl gorgwn y pentre am genhedlaeth gyfan.

Iawn a theg yw i bawb mewn thre a phentre gael llonydd i wneyd ei waith; ac y mae hyd yn oed cwn Llan— yn gwybod hynny yn dda.

H. BRYTHON HUGHES.



PLANT CYMRU. CLXXIV. RHAI O BLANT CYMRU LLEPWL.



## PLANT LERPWL.

**R**HAI o blant Cymry Lerpwl sydd yn y darlun hwn. Perthynant i Gylchdaith Wesleyaidd Shaw Street, a thynwyd y llun ar yr ail o Fai, 1902,—y diwrnod olaf o'r Nodachfa a gynhaliwyd am bedwar diwrnod yr adeg honno, er budd y gylchdaith a nodwyd.

Yn ol yr arteriad, agorwyd y Nodachfa bob dydd gan ŵr o bwys, ond y dydd olaf gwnaed y seremoni hon yn iwy dyddorol trwy ymddiried y gwaith i'r plant sydd yn y darlun,—gwnaed elw anarferol trwy eu rhoddion hwy a chytraniadau y cynulliad lliosog a ddaeth ynghyd i edrych ar y rhai bach yn cyflawni y gwaith, ac i wrando ar eu caneuon melus. Y ferch ieuanc ar y dde i'r edrychydd,—yr unig un mewn oed yn y dorf,—yw Miss Owen, Belmont Road, yr hon fu'n ddiwyd dros ben yn dysgu'r plant ar gyfer yr amgylchiad.

Cymry sal o ran iaith yw rhai ohonynt; ond mae'r lleill yn gallu parhau yr hen iaith gystal a phe buasent wedi eu geni a'u magu wrth droed y Wyddfa. Nis gellir disgwyl i'r plant ddysgu Cymraeg os bydd y rhieni yn siarad Saesneg ar yr aelwyd.

---

**MORDEITHIAU CAPTEN COOK.**

VIII. YNYSWYR NEW ZEALAND.

(YMODDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

**I**FOR. Yr oeddych yn dweyd fod Capten Cook am ddenu y cychwyr hynny i'r llong. A ddaethant?

**TAD.** Na. Gwell oedd ganddynt ymddiried i'w gallu i ddianc am ddiogelwch nac i addewidion Tupia. Ac ymaith yr aethant, fel rhai yn ffoi am eu bywyd. Oblegid ei ffyddlondeb a'i furiad i gyflawni holl amcanion y fordaith, nis gallasai dim atal y Capten ond rhwystrau anorfod. Gorchmynnodd danio ergyd dros bennau y ffoedigion, fel arwydd nad oedd yn ewyllysio eu niweidio, er bod ganddo allu i hynny, gan obeithio y buasai hynny yn foddion i ennill eu hymddiried, a'u dychwelyd at y cwch yn ddifraw, neu beri iddynt ddeall mai ofer fusasai iddynt wrthryfela. Ond effeithiodd yr ergyd yn hollol wahanol. Gwnaeth yr anwariaid, er nad oeddych ond saith mewn nifer, bendertyniad ar unwaith i beidio ffoi, ond i ymiadd â'r morwyr. Ac wedi dyfod yn agos i'r cwch, dechreuasant ymosod gyda'u rhwyfau, a lluchio cerrig gyda'r fath egni a chyn-ddaredd nes y bu raid i'n dynion, mewn hunan amddiffyniad, danio

arnynt. Y canlyniad fu i bedwar o'r trueiniaid gael eu lladd yn y fan. Y tri ereill oeddynt lanciau, yr hynat yn bedair ar bymtheg, a'r ieuangaf yn un ar ddeg. Neidiasant i'r dwfr, gan amcanu dianc drwy nofio i dir; ond daliwyd hwy gan ein morwyr, a dygwyd hwynt i'r båd.

IFOR (a deigr yn ei lygad). Fy nhad, onid yw y darn hwn o'r hanes yn un difrifol iawn?

TAD. Ydyw, fy mab. Gweithred ddianghenraid alarus oedd yr hon y cyfeirir ati yma. Y mae yn anhawdd, os nad yn anichonadwy tafu un math o oleuni ar yr ymddygiad hwn o eiddo y Capten, i beri neb allu credu nad oedd wedi torri un o ddeddfau cysegredig moesoldeb, o dan y cyfryw amgylchiad. Wedi ystyriaeth bwyllog, anghymeradwyodd ei hun yn fawr yng ngwyneb y weithred honno, gan deimlo y buasai yn cael ei feio gan bob darllenwr o ddynoliaeth dda a ddarllenai yr hanes. O dan yr amgylchiad eithriadol hwn, dylasai y brodorion gael llonydd i ddianc, yn ol eu dewisiad. Llwyddodd ein morwyr i ennill y lanciau i ymddried yn llwyr yn eu diniweidrwydd, ac i greu yr hyn a ddywedodd Tupia wrthynt, y gwnelai y dynion gwynion ddaioni iddynt. Profodd eu bywiogrwydd, a'u serchogrwydd, eu bod wedi colli eu drwgdybiaeth a'u hofnau yn llwyr. Canasant rai caniadau, gyda gradd o chwaeth, mor dda nes synnu ein boneddwy'r yn fawr. Yr oedd eu tonau, o ran eu nodwedion, yn debyg i'n salm-donau ni; yn araf a mawreddog, yn cynnwys llawer o nodau hanner tonawl. Gwnaethpwyd cynhygiad i sefydlu heddwch a chwsmeriaeth gyda'r brodorion yr ail waith. Ar y degfed o Orffennaf, aeth y Capten a rhai o'r boneddwy'r i dir, er ceisio llwyddo yn yr amcan hwn; ond trodd eu hymgais yn hollol aflwyddiannus. A rhag i'w harosiad yno beri gwrthdarawiad arall, ac i dywallt gwaed gymeryd lle, dychwelasant. Ar y dydd canlynol codasant angor a mordwyasant o'r lle yn aflwyddiannus ac yn ddigroesaw, oblegid ni chawsant y gronyn lleiaf o ddim ar gyfer eu hangen o ddwylaw yr anwariaid ar yr fynys honno ond ychydig o goed tân. Ar eu hymadawiad â'r unig forgillfach y buont ynddo yn New Zealand, y tro hwn galwodd y capten y lle yn Fau Tlodi. Bu Capten Cook agos i chwe mis yn cylchynu y darn tir mawr hwn, gan wneyd ymchwiliadau manwl a dyddorol. Cafodd fod New Zealand yn ddwy ran, a fod yr agosaf dros fil o filltiroedd i'r de-ddwyrain o Awstralia. Bu'r archwiliad hwn yn foddion i ychwanegu llawer at wybodaeth ddaearyddol a morwriaethol am y parth hwn o'r byd. Enillwyd hefyd ar y gylch-daith honno wybodaeth helaeth am nodwedion a dull y gwahanol drigolion o fyw. Cafwyd fod llawer ohonynt yn fwytawyr dynion.

IFOR. Beth ddaeth o'r ddau lanc gymerwyd i'r llong?

TAD. Bu y driniaeth ragorol a gafodd y llanciau yn yr Endeavour, yr amser y buont yn rhyw fath o garcharorion ar y llong, a'u gollyngiad tyner a boneddigaidd i'w cartrefi, yn foddion i arafu cryn lawer ar deimladau gwrthwynebus y brodorion a ddaethant i gyffyrddiad a'r bechgyn. Wedi hynny cafwyd arwyddion amlwg, oddiwrth lawer ohonynt, eu bod yn hollol ddi-ofn a chyfeillgar. Pan oedd y llong yn hwylio yn araf o gylch darn bychan o dir islaw cwrr deheuol yr ynys fawr, galwodd Capten Cook yr un fechan yn Portland, oherwydd ei thebygolrwydd i un o'r enw yn y cyfyngfor Prydeinig. Er cymaint eu gofal i blymio, aeth y llong yn sydyn i ddwfr bäs,—lle yr oedd y tir hefyd yn chwilfriw. Ond llwyddwyd mewn byrr amser i'w chael o'r perygl. Yr adeg yma arferai lliaws o'r brodorion eistedd ar y creigiau yma a thraw i wyllo yr Endeavour. A deallent yn union pan y byddai rhywbeth allan o le yn bod mewn cysylltiad a'r llong, yn ei rhwystro i fyned rhag ei blaen. Cymerasant fantais ar yr amgylchiad hwn,—gan dybio yn ddiambheu, nid yn unig y cawsent ysglyfaeth gwerth gwneyd anturiaeth i'w chyrraedd, ond y buasai yn ddigon hawdd iddynt hefyd gymeryd y dynion gwynion yn garcharorion. Aeth pump o'u cafnfadau allan i gyfeiriad y llong, a phob un yn llawn o'r brodorion, ac yn eu llawn arfogaeth. Yr oeddynt mor ffol, dyn a'u helpo, a chredu y buasai ein morwyr, wrth weled y fath Armada, yn rhoddi eu hunain i fyny ar ryw amodau, ond iddynt gael cadw eu bywydau. Wedi iddynt ddyfod yn weddol o agos dechreusant chwifio eu gwaewffyn, ac ymuno mewn ysgrechfeydd anaearol. Taniwyd llaw-wn dros eu pennau. Ni wnaeth hynny ond eu cynhyrfu yn hytrach na'u dychrynnu. Yna gollyngwyd cynhwysiad gwn mawr ar wyneb y dŵr ar y naill du iddynt. Ar ol ychydig o ymgynghori aethant ymaith yn dawel. Ar y pedwerydd ar ddeg o Hydref, gorchmynnodd y Capten anfon dau fad i chwilio am ddwfr; a phan oeddynt ar gychwyn, canfyddwyd amryw o gafn fadau, yn llawn o'r ynyswyr, yn cychwyn oddiwrth y lan ar eu cyfer. Ac ymhén ychydig amser gwelwyd bod pump o honynt, yn cynnwys tua 90 o'r brodorion, yn dyfod i gyfeiriad y llong, a phedwar bad arall heb fod ymhell yn canlyn. Pan oedd y llynges gyntaf o fewn cant o lathenni i'r Endeavour, dechreusant ganu eu cân rhyfel, a chwifio eu gwaewffyn, yn barod i ymosod. Er gochelyd colli bywydau, gorchmynnodd y Capten i Tupia eu rhybuddio. Dywedodd Tupia wrthynt bod gan y morwyr arfau fel taranfyllt, a fuasai yn eu lladd bob un mewn eiliad os na fuasant yn tafu eu harfau i lawr mewn byrr amser; ac ond iddynt fod yn llongydd am funud neu ddwy, y cawsent glywed llais un ohonynt, fel y buasai hynny yn gynnorthwy iddynt i benderfynu yr hyn oedd oreu er eu

llës. Wedi iddynt glywed y bygythiad, a gweled tân-ffachiad y *four-pounder*, a'i gynhwysiad yn disgyn yn gawod ddychrynllyd gerllaw iddynt, dychrynnwyd hwy yn ddirfawr. Yna dechreuasant rwyfo ymaith â'u holl nerth. Llwyddodd *Tupia* i gael gan y brodorion yn un o'r badau dafu eu harfau i lawr, a neshau at y llong. Rhoddwyd iddynt amryw roddion oedd wrth eu bodd. Y dydd canlynol, mewn cafn-fâd mawr, daeth nifer o'r brodorion, wedi ymarfogi, yn eon at ochr y llong; ac yr oedd un ohonynt wedi ymwisgo mewn croen du go fawr, tebyg i groen arth. Yr oedd y *Capten* yn awyddus iawn am wybod pa fath anifail a wisgodd y gôb honno gyntaf; ac er ei phwrcasu, cynhygiodd ddarn o frethyn yn gyfnewid am dani. Wedi gwneyd y cytundeb, ni ollyngai yr ynyswr y darn o'i law nes cael y brethyn i'w feddiant. Trosglwyddodd y *Capten* y brethyn iddo yn rhwydd. Ar hynny, yn lle cyflwyno croen, dechreuodd sypynu y ddau, a'u gosod yn ei gawell lladrad, ac ymaith ag ef tua'r lan. Gadawodd y *Capten* rhyngddo ef a'i gydwybod y tro hwn,—a thebyg iawn iddo ef a'i gydwybod gydgysgu yn dawel y noson gyntaf, a phob nos o ran hynny, os na chafodd waredigaeth o'i dywyllwch. Pan yn brysyr mewn masnach gyda'r brodorion, yr oedd amryw o'r dwylaw wedi eu gosod mewn trefn gyfleus, ar ochr y llestr, i estyn drosodd y nwyddau masnachol. Yn eu plith yr oedd y llanc *Tayeto*, sef mab *Tupia*. Darfu i un o'r brodorion wyllo am gyfla, ac yn sydyn ymaflodd yn y llanc a thynnodd ef i lawr i'r bâd; yna, cymerodd dau ereill at ei ddal ar lawr ym mharth blaen y bâd; yna, a'u holl egni, rhwyfasant tua'r lan.

*Dinas Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

### YR ELYRCH.

AR YMWELIAD A LLYN NANTLLE.

**D**AW alarch un hafnos,  
 Ar ol cael eu cwynos,  
 Ar Nantlle lyn;  
 Eu traed o liw'r dduuos,  
 A'u pigau lliw'r eiros,  
 A'u plu fel eirunos,  
 Yn gannaidd wyn.

On the lake awake on their wing,—so sweet,  
 Two nice swans are sailing;  
 A new fashion of fishing,  
 Very sad, they never sing.

19

*Nantlle.*

G. W. F.



OWEN GOUGH-JONES.

**O.** GOUGH-JONES oedd unig fab John Jones (*Myrddin Fardd*); ei fam, Gwen Jones, Britania Cottage, Llanystumdwy. Yr oedd wedi etifeddu yn helaeth o dalent ac athrylith ei dad, yr hwn sydd wedi cyflawni gwasanaeth amhrisiadwy i hynafiaethau ei wlad; ac y mae Llywodraeth Prydain Fawr erbyn hyn wedi ei gydnabod.

Ganwyd ei hoff Owen yn Pensingrig, Llanystumdwy,—yn agos i'r fan y canodd Eifion Wyn "Yn yr allt ar lannau Dwyfor,"—Mehefin 25, 1866. Derbyniodd ei addysg foreuol yn Ysgol Gen-

ed tda-  
wod die  
Yna deir  
ia i ge  
rr, a nei  
rth eu  
brodes  
y obow  
rth F.  
wsgat  
rn o fe  
ai olle  
Tras  
lle ois  
a well a  
ngab  
i gic  
tymn.  
an na  
osod  
masu  
rhu i  
y lla  
al ei  
sant

lac

hedlaethol Llanystumdwy, dan yr athraw rhagorol David Evans. Tueddai ei feddwl at gerddoriaeth, yn neilltuoel canu yr organ; ac wrth ei weled felly, ymgymerodd Mr. J. Hopkinson, o *firm* J. & J. Hopkins, Llundain, â'i addysgu. Bu yn canu yr organ yn Eglwys y Plwy yn Llanystumdwy am chwe blynedd; yna aeth i Fairford i gyflawni yr un swydd am dymor; wedi hynny bu yn athraw cerddorol yn y London College of Music; yna symudodd i Ongar i'r unrhyw wasanaeth i'r Ysgol Ramadegol yno; cadd ei ddyrchafu yma i'r swydd o brif-athraw. Mehefin 12, 1893, graddiodd yn A.L.C.M.; a Tachwedd 14, yr un flwyddyn, yn L.L.C.M.

Yn Hydref, 1901, tra yn Ongar, torrodd ei iechyd i lawr bum wythnos cyn diwedd y term, a bu gorfod arno ddychwelyd i awelon balmaidd Eifionnydd, er ceisio adferiad; ond hawdd canfod fod yr hen elyn, y darfodedigaeth, wedi gafael ynddo'n dynn, ac er ceisio ymhob modd ddianc o'i afael, methodd yn ei ymdrech. Aeth i Sanatorium i Ynys Wyth, ond i ddim pwrpas, a daliai i wywo yn raddol.

Ymwelwn ag ef yn gyson, a phob adeg dywedai ei fod "yn iawn," "yn well o lawer;" ac felly ychydig oriau cyn ymadael. Ffarwel, Gough ffyddlon, ddiymhongar, garuaidd, a hoff.

Bu farw nos Wener, Tachwedd 21, 1902, yn 36 mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion yn y

" Tecaf man o Gaer i Gonwy  
Ydyw mynwent Llanystumdwy,"

yn ymyl Owen Gruffydd y bardd, Tachwedd 26. Nodded Duw fo tros ei dad a'i fam yn eu galar dwfn.

*Canton House, Llanystumdwy.*

EVAN R. ELIAS.

### P'W DDARLLEN YN DDIFFYFR.

GARDDW'R iawn yw William Adwy'r Clawdd sydd enw ar dyddyn yng Nghaernarfon mae castell lle ganwyd tywysog Cymru sydd enw ar genedl yn byw yn Lloegr yr oedd y pregethwr yr hwn a ladratodd y perlau o'f palas acw a gospwyd gan y brenin mae gweision yn canu roedd dyn dall sydd air hoff gennyf glywed canu yr eos sydd aderyn bychan yw gallu ambell un mewn rhifyddiaeth y llwyddodd y bachgen hwnnw sydd ragenw ar Dafydd yr oedd clefyd poenus yw y ddannodd ar ben Jane 'roedd bonet tlws yw gwyneb Gwenfron Jones sydd weinidog galluog yw Lloyd George aeth i fwrdd i Ddeheudir Affrica yr ymtuda llawer y dyddiau yma mae crefydd yn isel yng Nghymru mae mynyddau mawr yw cylch-  
rediad CYMRU'R PLANT.

*Bryn'r Efail.*

JOSEPH R. JONES.

## DRYLLIAD Y "MEXICAN."\*

(Y LLONG YR ODDDWN YN DOD ADRÉ YNDDI O DBREUDIR AFFRICA.)

Alaw,—“Ar hyd y nos.”

TUAG adref yr hwyliasom,  
Yn yr hen long;  
O Cape Town y cychwynasom,  
Yn yr hen long;  
Llawer un o'm hen gyfeillion  
Ddaeth i'n hebrwng yno'n ffyddlon,  
Gan ddymuno mordaith hylon,  
Yn yr hen long.

Yn y "Mexican" yr oeddym,  
Dan wenau iach;  
Chwifd atom, chwifd gennym,  
Oll fawr a bach;  
Cyfarchiadau oedd yn seinio,  
Dymuniadau oedd yn heidio,  
I'n sirioli tra'n mordeithio  
Yn yr hen long.

Wyth o'r gloch yr angor godwyd,  
Ac yn llawn hwy!,  
Pedwar ugain milltir foriwyd,  
Mewn llawen hwy!  
Daeth y nos a'i mantell niwliog,  
I arafu'r teithio bywiog,  
A distewi'r llonder hwyliog,  
Yn yr hen long.

Ym mhen ennyd dyna lefain,  
Draw yn y niwl;  
Treiddiai braw a dychryn damwain,  
Trwy y tew niwl;  
Dyna sydyn wrthdarawiad,—  
Hir y cofiwn am y teimlad,—  
“Plant i'r dec,” medd uchel alwad,  
Yn y tew niwl.

Heb gael amser i ymwisgo,  
Fry tua'r bwrdd,  
Dyna bawb yn gwyllt ymruthro,  
Fry tua'r bwrdd;  
Medd y Capten,—“Badau i waere  
Iddynt aed y plant a'r merched;  
Nes eu safio hwynt na syfled  
Neb un o'r bwrdd!”


'Roedd yn noson oer a thywyll,  
Ow yr hen long;  
Swm y tonnau oedd yn erchyll  
Gylch yr hen long;  
Coflwn ddisgyn hyd y rhaffau,  
Rywsut, rywsut, lawr i'r badau,  
Coflwn achub y bywydau  
O'r suddol long.

Yn y badau oriau lawer,  
Ar y gwyllt fôr,  
Rhwyg y tonnau'n fawr ein pryder,  
Ar y gwyllt fôr;  
Rhwyfo maith a chaled gawsom,  
Ond o'r diwedd diangasom,—  
I'r "Winkfield" y cyrhaeddasom,  
Ar y gwyllt fôr.

Brigau'r "Mexican" a guddiwyd  
Gan y dig fôr,  
Gyda hi ein heiddo lyncwyd  
Gan y dig fôr;  
Aur ac arian a chywreinion,  
Gwisgoedd gwerthfawr ac anrhegion,  
Aeth yr oll i lawr i eigion  
Dwfn y dig fôr.

Hynod oedd yr olwg arnom,  
Dorf wleab a syn,  
Pan i'r "Winkfield" cyrhaeddasom,  
Dorf wleab a syn;  
Ond ni gawsom waredigaeth,  
A chroesawus dyner driniaeth,—  
I Lywllawdwr Creadigaeth,  
Mawl fo am hyn.

\* Ysgrifennwyd y gân hon gan un o fechgyn crwydredig Cymru,—Thomas E. Roberts, Pŵarhyn Bach, Llannrug. Y mae Mr. Roberts wedi crwydro Hlawer yn Awstralia ac Affrica, ond yn dal i garu awen a llen Cymru. Yr oedd yn y llongdrylliad a ddarlunias mor fyw; a cholodd bopeth ond y dillad oedd am dano yn y llong. Dychwelyd o'r rhyfel yr oedd; bu yn y rhyfel am bedwar mis, nes rhyddhau Ladysmith. Un o brif achosion balchder Prydain yw hunanfeddiant ei chapteniaid a gwrhydi'r uffudd morwyr ar adegaw fel hyn.



BABILON.



## BABILON.

## II.

**Y**N ymyl yr hen balas safai teml Bel, Belus, neu Baal. Yng nghanol y deml yr oedd tŵr, petryal o ran ffurf, yn hanner milltir o amgylchedd ar lawr, ac yn chwe chant a thri ugain o droedfeddi o uchder; felly, yr oedd yn uwch na'r uchat o byramidiau yr Aifft.\* Ar hyd grisiau llydain, a'i hamgylchai o'r tu allan, yr esgynnid i'w ben. Cynhwysai wyth o dyrau, y naill uwchben y llall, yn meinhaul yn raddol tuag i fyny; oddifeun i bob tŵr yr oedd amryw ystafelloedd, a nennau bwaog iddynt, gynhelid â cholofnau. Ar ben yr oll yr oedd arsyllfa seryddol, yr hon roddodd i'r Caldeaid y gogoniant o fod yn fwy hyddysg mewn seryddiaeth na'r holl genhedloedd. Y tŵr hwn ydoedd yr un a Thŵr Babel.

Yr oedd delw Iau, yn ddeugain troedfedd o uchder, i gyd yn aur pur, ac yn werth £21,000,000. Yn y deml yr oedd cerflun Rhea, yn eistedd ar orsedd o aur, gyda llew wrth bob glin iddi, a dwy sarff arian. Ynddi hefyd yr oedd delw Juno yn setyll yn unionsyth, gan ddal sarff gerfydd ei phen yn ei llaw ddeheu, a theyrnwialen emog, eurog, yn ei haswy. Gerllaw y delwau hyn yr oedd bwrdd o aur coeth yn bum can talent ei bwys. Ar y bwrdd yr oedd dwy phiol aur, yn ddeg talent ar hugain bob un; dwy thuser aur, yn pywso pum can talent bob un; a thri o gawgiau aur anferth. Yr oedd yr holl bethau gwerthfawr hyn yn werth swm cyfartal, debygid, i chwe ugain miliwn o bunnoedd o'n harian ni,—£120,000,000. I'r deml hon, arweiniai amryw o byrth pres, wedi eu gwneyd, efallai, gan Nebuchodonosor o'r pres a gafodd yn y deml yn Jerusalem.† Dywed Josephus mai ynddi hi y cedwid llestri gwasanaeth Duw. Os cywir hyn, rhaid mai oddiyno y cyrchwyd hwy ar archiad Belsasar i'r wledd a wnaeth i'w fil tywysog.

Nid hir y parhaodd Babilon yn ei gogoniant. Canys ymddiriedodd yn ei drygioni. Dywedodd, "Ni'm gwel neb." Ei doethineb a'i gwybodaeth a'i hurtiodd; dywedodd yn ei chalon,—“Myfi sydd, ac nid neb arall ond myfi.” Am hyn oll, ac am iddi ddywedyd,—“Byth y byddaf arglwyddes,” a chystuddio o honi etholedigion Duw, daeth arni ddrygyd, yr hwn nas gwyddai ei gyfodiad. Syrthiodd arni ddinystyr nas gallodd ei ochel; daeth arni ddistryw yn ddisymwth, heb wybod iddi; ie, er iddi ddyrchafu

\* Uchder Pyramid Cheops ydyw 474 troedfedd; felly, yr oedd tŵr teml Belus yn uwch nag ef o 186 troedfedd.

† 2 Bren. xxv. 13-17; Jer. iii. 17-20.

i'r nefoedd, a chadarnhau ei hamddiffynfa yn uchel, anrheithwyr a ddaeth ati.

Gwedi gorchfygu o hono holl drefedigaethau yr ymherodraeth, wlede Cyrus a'i fyddinoedd o'r diwedd o flaen Babilon ei hun. Rhyngddo a'r ddinas mae'r caerâu cedyrn, cawraidd; rhyngddo a'r caerâu mae'r ffos ledfawr, ddofn. Nis gall gyrraedd y ddinas oherwydd y caerâu; nis gall gyrraedd y caerâu oherwydd y ffos. Pa beth a wna? Ei gwarchae? Na; gŵyr fod yn y ddinas ystordai yn cynnwys moddion diwallu anghenion yr holl ddinaswyr am ugain o flwyddi meithion. Pa beth a wna? Trol yn ol,— digalonni? Dim o'r fath; mae Cyrus yn ddeur, yn ddoeth, ac yn ŵr di-droi-yn-ol; mae'n was i'r Arglwydd, ac mae'r nefoedd o'i du. Pa beth a wna? Heb fod ymhell mae palmwydd tal, rhai ohonynt yn tyfu i'r uchder o gan troedfedd. Ohonynt gwna Cyrus dyrau uwch na'r caerâu. Meddylia y gall efe drwy hyn gymeryd y ddinas trwy ruthr. Ceisia. Metha. Gwawdia'r dinaswyr ef oddiar y caerâu; hwitant, dirmygant ef. Yn nesaf, gwna Cyrus warchglawdd o amgylch y ddinas, a ffos lydan a dofn; rhanna ei fyddin yn ddeuddeng adran, a rhydd i bob adran ei fis i wyllo y ffos. Gwedi bod fel hyn yn gweithio yn galed am yn agos i ddwy flynedd o amser, o'r diwedd gorfennwyd y ffos.

Hyd yma, nid yw Cyrus wedi amlygu ei fwrriad i neb. Weithian, mae popeth yn barod ganddo, ac yntau yn dyfal wyllo am gyfle i roddi ei gynllun mewn gweithrediad. Hysbysir ef fod gwyl flynyddol y ddinas yn ymyl, a fod y Babiloniaid yn arferol o dreulio noson yr wyl i loddesta a meddwi. Gwel Cyrus ei gyfle. Gesyd adran o'i fyddin yn agos i'r fan y mae yr afon yn myned i'r ddinas, ac adran arall yn ymyl y fan y mae yr afon yn ymadael â hi. Gorchymyn i bob adran ddisgyn i wely yr afon pan fydd yn rhydiol; yna, esgyn i fyny y grisiau o'r afon i'r pyrth, a rhuthro trwy y pyrth i'r ddinas. Felly, yn yr hwyr, y mae yn gwneyd iddynt ollwng dyfroedd yr afon i'r ffos, o bob ochr yr afon ar du uchaf y ddinas, ac o bob ochr i'r afon ar du isaf y ddinas. Erbyn hyn, mae'r Euphrates yn wag, a'i gwely yn sych.

Bellach, mae'r ddwy fyddin yng ngwely sych yr afon. Ymdeithiant yn lladrataidd tan lenni y nos i gyfarfod eu gilydd. Prin y clywch drwst eu traed. Yn sydyn, safant. Beth sy'n bod? Wedi cyfarfod a'u gilydd y maent. Parhant i sefyll. Pam? Cymeryd eu hanadl y maent. Cydesgynnant y grisiau sy'n esgyn o'r afon i'r pyrth; rhuthrant drwy y pyrth, y rhai yr anghofiodd y gwylwyr eu cau; a bellach, mae'r holl fyddin o fewn i'r ddinas. Clywch drwst y rhyfel. Clywch dinciadau yr arfau dur. Gwelwch y fflachiadau oddiwrth ddyrnodiau y cleddyfau ar y llurugau. Clywch swm y

gwaed yn disgyn ar y pelmynt. Clywch drwst yr afon ruddgoch, waeddyd, yn taro conglau'r heolydd. Clywch waedd y plant, wylofain y gwragedd, a llwon yr anwiriad. Yng nghanol y dwndwr a'r terfysg, clywch lais clir y pencadlyw, i'r hwn nid oedd Cyrus ond gwas, yn rhoddi allan ei orchymynion,—“Gelwch y saethyddion ynghyd yn erbyn Babilon; y perchen bwâu oll, gwersyllwch i'w herbyn hi o amgylch; na chaffed neb ddianc o honi; agorwch ei hysguboriau hi; dyrnwch hi fel pentwr ŷd, a llwyr dministriwch hi. Na fydded gweddill o honi.”

Mae ewyllys yr Arglwydd wedi ei chyflawni, mae'r broffwydol-iaeth wedi ei gwirio. Syrthiodd, syrthiodd Babilon.

*Dolwyddelen.*

WILLIAM OWEN.

### Y TAIR BONESIG.

Llongyfarchiad i'r tair bonesig, Gwladys Mary Morris, Blaenau Ffestiniog; Mary Blodwen Roberts, Betws y Coed; Lowri Thomas, Criccieth, ar eu llwydd yn ennill y radd o B.A.

Henffych llon i'r tair gwrones !  
Bydd eu clod yn hir yn gynnes;  
Calon gwlad sy'n falch o honynt—  
Pwysl blodau daflwn iddynt.

Doe y tair fwynhaent y chwarau  
Ar aelwydydd llawn teganau;  
Heddyw dyma hwy'n Wryfyon  
Yn y Celyddyddau dyfnion.

Cyn i wrid a nwyf ieuencid  
Ddechreu colli dim o'u rhyddid,  
Wele Ddysg yn rhoi ei llawryf  
Am arleisiau'r tair llon wryf.

Tair genethig syml o Gymru  
Oddynt hwy cyn dechreu'r dyagu;  
Tair Cymraes a fyddant eto,  
Nas gall bri eu ffol Seisnigo.

Hoff yw'r tair o Urdd y Delyn,  
Hoff o'r grug a'r eithin melyn,  
Hoff o sw'n y droell yn nyddu—  
Hoff o iaith a phopeth Cymru.

Sir Gaernarfon bia Gwladys—  
O! Feirionydd, hyn sydd hysbys;  
Mary Blodwen, sir Gaernarfon  
Pia hi, a Lowri dirion.

Boed y tair yn iaeh a llawen,  
I fawrhau pob oelf ac awen;  
Rhoed y tair bob goreu feddant  
I'w diguro wlad a garant.

ALAFON.

### CYMRU.

FFYNHONNAU enwog Cymru  
Rhinweddol oll ynt hwy;  
Fel cynt, maent eto heddyw  
Yn gwella llawer ciwy.

Mae FFFYDIAU nentydd Cymru  
Wrth ddod o groth y graig,  
Yn ddiastaw furmur-ganu  
Cerdoriaeth ddofn yr aig.

Mae hen FFAELEDDAU Cymru  
Yn cilio'n awr o'n tir;  
Mae goleu pur yr Iesu  
Yn dangos gwerth y gwir.

Mae holl FFFYDDLONIAID Cymru,  
Rhai fu, rhai eto sydd,  
A'u hymadrech i brydferthu  
Cymeriad Cymru fydd.

R. EUROG JONES.

## TRO YN FY HANES.\*



YMA i chwi hanes un tro yn fy mywyd.

Yr wyf yn byw mewn tyddyn bychan ar fin y ffordd. Mewn ty bychan yn ymyl yr oedd hen wraig dduwiol yn byw, yr hon a enillai ei bywioliaeth wrth nyddu a gwau hosanau lliwiedig i bobl o'i chwmpas. Bob dydd, deuai yr hen wraig i'n ty ni i ymofyn llaeth neu lefrith. Ond un diwrnod, digwyddodd fod yn ormod o dywydd ganddi ddod allan o'i thy, a phenderfynodd fy mam fod i mi ddanfôn llefrith iddi

y diwrnod hwnnw. Felly fu. Ond ar hanner y ffordd yno, fe chwythodd y gwynt fi i lawr, a chollais yr holl lefrith, a da oedd gallu troi yn ol rywsut. Ond wedi i'r storm dawelu ailgychwynnais, a llwyddais i gyrraedd at dŷ yr hen wraig, a phan agorais y drws, er fy syndod, gwelwn yr hen wraig yn gyrru rhywbeth ar hyd y llawr. Tarewais y llefrith ar y bwrdd, ac heb ddywedyd gair, rhedais adref at fy mam, a gwaeddais, — "O, mam, mae gan Betsan Dafydd geffyl haiarn pren."

Chwarddodd fy mam yn hir am fy mhen, oblegid gwyddai mai nyddu yr oedd gyda'r droell. Drannoeth, daeth yr hen wraig ei hun i'n ty ni, a mawr oedd y difyrwch wrth wrando fy mam yn dweyd yr hanes.

Mae yr hen wraig erbyn hyn wedi marw, ac wedi mynd i'r nefoedd; ac mae'r droell hefyd wedi mynd nas gwn i ba le. Gresyn fod hen gelfyddyd mor henafol Gymreig wedi ei hesgeuluso gan ferched ieuainc Cymru.

\* Yr uchod yw'r "Tro" buddugol yn Eisteddfod y Plant, Bethel, Arfon. Cafodd y wobwr, mae'n ddiameu, am ei symledd a'i naturioldeb. Y mae Eisteddfod y Plant yn un o'r sefydliadau mwyaf tarawiadol y gwn am dani; a dywedir ei fod yn syndod gweled y plant,—yn gadeirwyr, arweinyddiaid, arweinwyr corau, cystadlenwyr,—mor ddeheuig ac mor frwdfrydig. Y mae'r Parch. Rhys. J. Huws wedi addaw ysgrifennu yr hanes.

## Y DDIMAU NEWYDD.

## I. I BLE'R AETH Y DDIMAU.

**A**R ddiwrnod braf yn nhymor yr haf, aeth tri bachgen,—yr hynaf yn ddeg oed, un arall yn wyth oed, a'r ieuangaf yn chwech,—am brydnawn i gasglu afalau surion. Eu henwau oedd Tim, John, a Wili. Nid oeddynt yn dri brawd, ond yr oeddynt yn byw yn yr un heol ac yn mynychu yr un ysgol; ac yn chwareule yr ysgol yn y bore, wedi clywed eu bod i gael hanner dydd gwyl y prydawn, y gwnawd y cytundeb yn gyfrinachol rhwng y tri. Tim feddyliodd gyntaf am y peth; a chyda ond ychydig o anhawster perswadiodd John i ymuno âg ef. Nid oedd Wili mor barod. Dyma y tro cyntaf iddo ef gychwyn oddicartret ar y busnes yma, ac yr oedd llais ei fam yn swnio yn ei glustiau, tra yn gwrando ar ei gyfeillion yn ei wahodd,—

“Paid ti a dringo, Wili, i rwygo dy ddillad.”

Ond profodd lleisiau Tim a John yn gryfach.

“Mi wn i am goeden,” ebai Tim, “yng nghæ Huw Pyrs, y cae hwnnw sy'n mynd i fyny at y clogwyn; a 'does neb yn gwybod am dani ond y fi; coeden fawr a'i llond hi o 'fale.”

“Mae fan honno yn bell,” meddai Wili.

“Nag ydi, ebai John,” “fyddwn ni ddim gwerth yn mynd dros y gors, ac i fyny drwy y coed rheini.”

“Be tasa Huw Pyrs yn ein gweld ni?” gofynnai Wili.

“Wneith o ddim, y gwirion,” ebai John.

“Be tasa fo yn gyrru y ci ar ein hol ni?” ebai Wili drachefn.

“O, clyw'r babi,” ebai John mewn gwawd, gan droi at Tim.

“Ie,” ebai Tim, “wyt ti am ddwad? Os wyt ti, tara fy llaw i.”

Rhag ymddangos yn llwfr a babiaidd, tarawodd Wili ei law, a gofynnodd,—

“Pryd yr ydach chi am gychwyn?”

“Gynta cawn ni ginio,” meddai Tim.

Felly, mor gynted ag oedd bosibl, cychwynnodd y tri bachgen, gyda chydwybodau tawel eu bod yn mynd ar brydnawn rhydd, ac nad oeddynt yn chware “truant.” Cytunwyd ar y ffordd nad oedd Wili i ddringo i ben y goeden, ond ei fod i gasglu'r afalau defiid gan y lleill i lawr. Tra wrth y gorchwyl yma, canfu Wili yn disgleirio yn y glaswellt, yn ol ei dyb ef, ddimau newydd. Cododd hi i fyny, rhwbiodd hi â'i law, a galwodd ar ei gyfeillion oedd rhwng y cangau,—

“Tim! John! 'Rydw i wedi cael dimau newydd spon ar lawr.”

“Ym mhle?” gofynnai y ddau, bron gyda'u gilydd.

“Yn y fan hyn, meddai Wili, “yn union o dan y goeden.”

“Cadw hi,” ebai John, “nes down ni i lawr.”

"Mi rho hi yn y fan acw," meddai Wili, gan fyned ychydig gamrau ymlaen, a rhoddi y ddimau ar garreg lās lydan oedd ar ben y clawdd. Yna daeth yn ol i gasglu yr afalau. Wedi llenwi eu pocedau, ac wedi i Wili lenwi bag ysgol Tim, daeth y ddau fachgen i lawr. Y cwestiwn cyntaf oedd,—

"Ple mae y ddimau? Dangos hi."

"Mae hi ar y garreg fawr acw," ebai Wili, "dowch i nhol hi." Aeth y tri tuag ati. Ond, rhyfedd iawn, 'doedd yno ddim hanes o honi.

"Yn fan hyn y rhois i hi," meddai Wili, gan roddi ei law ar ganol y garreg, ac wedi ei gwbl feddiannu gan syndod.

"Drycha ddaru hi rowlio yr ochr allan, John," ebai Tim, gan chwilio y glaswellt yr ochr i mewn ei hunan. Ond, er chwilio a chwalu, nid oedd yr un ddimau newydd na hen i'w gweled yn unman.

"Wyt ti'n siwr," gofynnai Tim, na fuost ti ddim yma yn i nhol hi?"

"Naddo," ebai John, ddaru o ddim symud o dan y goeden wedyn, 'ro'n i yn 'i weld o yn hel o hyd."

"Naddo wir," meddai Willie.

"Wel, roist ti hi yna o gwbl ynte?" gofynnai Tim, "ella mai yn dy boced y rhoist ti hi, er mwyn i ti gael i gwario hi dy hun."

"Chwilia fi os leici," ebai Wili, gan ddechreu teimlo yn ddig at Tim am ei ameu, a thynnodd yr afalau i gyd o bocedau ei drowsus a phoced ei gôt. Ond er gwneyd ymchwiliad manwl, yr oedd pocedau Wili mor amddifad o'r ddimau a'u pocedau hwythau.

Wel, yr oedd hyn yn fwy nag allasant esbonio, a daethpwyd i'r penderfyniad, er gofid i Wili, fod yn rhaid mai breuddwydio ddaru y bychan. Ond wrth fwyta yr afalau ar hyd y ffordd gartref, ac edrych ar y bag llawn, a chynllunio pa le a pha bryd i'w rhannu, anghofiodd y tri bachgen y cwbl ynghylch y dimau, a phenderfynasant gasglu y gweddill o'r afalau y dydd Sadwrn canlynol. Yr oedd drannoeth yn ddydd Gwener, ac aeth Tim a John a Wili i'r ysgol fel arfer. Ac yn y chwareule eto, aeth Tim a'i ddau bartner fel y diwrnod cynt o'r neilltu, a dywedodd wrthynt,—

"Wyddoch chi beth? Mae Bob Rees a Tom Cae Coch yn gwybod am goeden Huw Pyrs, ac am fynd yno i hel nhw i gyd ddydd Sadwrn."

Syrthiodd gwynebau John a Wili wrth glywed y fath newydd; ond cyn iddynt gael hamdden i ddweyd gair, ychwanegodd Tim,—

"Ond dyma be nawn ni, mynd yno pnawn, a'u hel nhw i gyd."

"Yn lle mynd i'r ysgol?" gofynnai John.

"Ie siwr," ebai Tim, "prun well gin ti, colli yr ysgol am un pnawn, ynte colli dy fale i gyd?"

Wedi ystyried ychydig, daeth John i'r un penderfyniad a Tim, "Yn well colli yr ysgol am un pnawn na cholli yr afalau i gyd."

"Sŵr iawn," ebai Tim, yn foddhaus.

Wedi ennill un cyfaill, trodd at y llall, a gofynnodd,—

"Be wyt ti am wneyd, Wil?"

"Mae arna i ofn cael drwg gin mam," meddai Wili.

"Does dim eisio i ti ddeud wrth dy fam," meddai Tim.

"Rhywun arall wneith," ebai Wili.

"Pwy?" gofynnai Tim, gan gymeryd arno edrych yn ddig ac yn ffyrnig.

"Mary ty nesa," ebai Willie, "mae hi yn cega popeth wrth mam."

"Cer i nhol hi yma, Jac," ebai Tim, "a phaid a dwad a hen 'nethod erill hefo hi"

Rhedodd John i chwilio am Mary, a daeth a hi yn fuan at Tim a Wili.

"Be s'an ti isio, Tim?" gofynnai Mary, yn edrych fel pe buasai wedi dyfod ato yn fwy o'i hanfodd nac o'i bodd.

"Wyt ti yn leicio 'fala, Mary?" gofynnai Tim, gan edrych yn siriol arni, ac estyn dau iddi.

Newidiodd gwyneb Mary, a chipiodd yr afalau o law Tim, rhag ofn mai cellwair yr oedd. Ond pan ddeallodd ei fod yn eu rhoddi o'i fodd, gwenodd yn siriol, a dechreuodd eu cnoi.

"Wyt ti yn i licio nhw?" gofynnai Tim eilwaith.

"Ydw yn iawn," atebai hithau.

"Wel," ebai Tim, "mae John a Wili a fi yn mynd-i hel llawer, llawer, y pawns, ac os gnei di beidio deyd wrth fam Wili, mi gei chwech gin i os doi di at ty ni heno."

"Chwech?" gofynnai Mary, fel pe buasai yn methu credu y cawsai gymaint.

"Ie," ebai Tim.

"Chei di yr un os deudi di," ebai Wili.

"Na i ddim," ebai hithau.

"Dywed ar dy wir," meddai Wili.

Addawodd Mary ar ei gwir, ac aeth yn ol at ei chyfeillion. Yn fuan wedi i'r gloch orffen canu y prydawn, cychwynnodd y tri bachgen ar hyd yr un llwybrau a'r diwrnod cynt. Ond yr oedd golwg pur wahanol arnynt. Edrychent yn euog ac ofnus, yn enwedig Wili, yr hwn a daflai ei olwg yn ol yn fynych rhag ofn fod rhywun yn eu dilyn. Ond cyrhaeddasant ben eu siwrnai yn eithaf diogel oddiwrth hynny. Pan yn neshau at y goeden afalau surion, daeth y ddimau i gôf Wili fel saeth, ac meddai wrth Tim a John,—

"Dowch at y garreg i edrych ydi y ddimau yno."

Aeth y ddau, dim ond er mwyn boddhau Wili, ac O! pan o fewn ychydig gamrau i'r garreg, gwelent ddynes fechan, yn eistedd ar ei chanol, yn union yn y fan y rhoisai Wili y ddimau, ac yn gweu m<sup>o</sup> gyflym fel na ellid gweled pa un ai hosan ai rhywbeth arall oe ganddi.

## CYNGOR GWERTHFAWR.

YR oedd brenin, un tro, yn ymdaith trwy ei deyrnas yng nghwmni ei bendefigion. Cyfarfu â mynach, yr hwn a lefai,—“Caiff yr hwn a roddâ i mi dalent o aur gyngor gennyf.” Talodd y brenin yr swm iddo, a chafodd y cyngor hwn,—“Na ddechreu ddim heb yn gyntaf ystyried y diwedd.” Pan glywodd ei ganlynwyr hyn, dywedasant yn wawdlyd fod y mynach wedi cael pris da am ei gyngor. Ond boddlonwyd y brenin gymaint gan yr ateb fel y gorchmynnodd ei ysgrifennu mewn ar ar turiau ei balas, a'i gerfio ar ei lestri.

Ymhen ychydig amser ar ol hyn, llwgrwobrwyd meddyg i ladd y brenin, trwy ddefnyddio pin gwenwynig i weinyddu arno. Un diwrnod yr oedd braich y brenin wedi ei rhwymo, a'r pin marwol yn llaw y meddyg. Yn sydyn, canfyddodd ar ymyl y ddysgl y geiriau,—“NA DDECHREU DDIM HEB YN GYNTAF YSTYRIED Y DIWEDD.” Yr oedd hyn yn ormod i'r meddyg fedru ei ddal. Gollyngodd y pin o'i law, a syrthiodd i lawr, a chyffesodd y cwbl.

Yna trodd y brenin at uchelwyr ei lys, a dywedodd,—“Nis gellir gwerthfawrogi gormod ar y cyngor tu yn foddion i achub bywyd eich brenin.”

Gall hyd yn oed y cynghorion lleiaf fyddwn ninnau yn gael ddoed rywbryd yn werthfawr, ond i ni eu cofio a'u cadw.

*Llanllechid.*

E. LL. W.

## SABOTH AR Y CYFANDIR.

Y MAE y Saboth yn rhai o wledydd y Cyfandir yn wahanol iawn i Saboth yn ein gwlad ni. Yno maent yn edrych ar y Sul fel dydd gwyl, ac fel dydd i gynnal rhedegfeydd, &c. Yr oeddwn yn ddiweddar yn un o drefydd Ffrainc, ac yn cael fy nharo â syndod wrth weled y bobl, ar ol bod yn addoli yn y bore, yn ymollwng i bleserau o bob math yn y prydawn. Yr oedd masnach yn cael ei chario ymlaen wrth ochr eglwys, ac ar ol y gwasanaeth aeth rhai o'r addolwyr yno i brynnu. Yn yr Hispaen eto, maent yn cyflwyno y rhan fwyaf o'r Sul at ddawnsio, ac i gynnal ymladdfeydd teirw.


Gobeithio na ddaw Cymru byth i sefyllfa mor isel a hyn.

*Caerdydd.*

J. ELLIS.

BEDD LLAWDDEN. Y mae bedd Llawdden, y clerigwr hyawdl a gwladgarol, dan lawr Capel Nicolas Sant, yn Eglwys Gadeirtol Tyddewi. Y mae'r capel yn adfeiledig, yn ddi-do ac yn ddi-addurn. Anfoner pob rhoddion at brydferthu bedd Llawdden i'r Parch. G. P. Gabriel, Tyddewi.





## DIHANGFA.

**N**ERTH gwan ei droed buan." "Os na bydd gryf, bydd gyfrwys." "Gall un bach ddianc trwy dwll bach."

Dyna dair dihareb, o dair gwlad, i esbonio teimladau y pedwar sydd yn y darlun,—y llygodyn a'r tri ci. Bu rŷs galed ar draws cae,—y cwn yn rhedeg i foddio'u natur, y llygodyn yn rhedeg am ei bywyd. Medrodd y fechan ddianc trwy dwll, a chafodd noddfa tra yr oedd y tri chi'n ceisio dod ar draws eu gilydd ar ei hol.

Mae rhyw reddf mewn bwystfil wna iddo ddyheu am ladd peth llai nag ef ei hun. Mae peth o natur y bwystfil mewn plentyn,—gwelais fachgennyn yn lladd gloyn byw. Yn New Guinea ni ystyrir neb yn ddyn os na fydd wedi lladd rhywun; ni waeth pa mor wan fydd ei ysglyfaeth,—hen wr, gwraig, neu blentyn. Bydd merched ieuainc y wlad honno yn gwatwar y neb na fydd wedi dinistrio bywyd dynol.

## Yn Llys yr Haf.

RICHARD AB HUGH, Y Bala.  
Allan o *Gymru'r Plant*, Gor. 1903.

ARTHUR WILLIAMS, Garth,  
Llangollen.

DOH C. *Yn fyiwiog.*

m :f	s :d'	d' :—	t :—	r' :t	s :f	m :—	— :—
d :r	m :m	f :—	f :—	f :f	m :r	d :—	— :—
1.Hoffl 'r yd-wyf	neg - es			Llawer	deil-en	syw,	
s :s	s :s	s :—	s :—	s :s	s :s	s :—	— :—
d :d	d :d	r :—	r :—	t, :s,	l, :t,	d :—	— :—

f :s	l :s	fe :l	r' :d'	t :—	l :—	s :—	— :—
d :m	f :d	r :r	r :m	r :s	s :fe	s :—	— :—
Synnu'r wyf at	han-es	Bywyd		glo - yn		byw;	
d' :d'	d' :s	l :fe	s :s	s :t	r' :d'	t :—	— :—
l :s	f :m	r :d	t, :d	r :—	r :—	s :—	— :—

m :s	d' :t	r' :—	l :—	s :t	r' :s	m' :—	— :—
d :r	m :s	l :—	fe :—	s :s	s :f	m :—	— :—
Can-u wnafl am	wen - au			Cynnes	tywydd	braf;	
d' :t	d' :r'	r' :—	d' :—	t :r'	t :t	d' :—	— :—
d' :t	l :s	fe :—	r :—	s :s	s :s	d' :—	— :—

m' :r'	d' :l	r' :m'	f' :r'	d' :—	r' :—	d' :—	— :—
l :l	l :l	l :s	f :l	s :—	l :t	d' :—	— :—
Melus yw em -	ynnau Ad - ar			Llys yr		Haf.	
d' :r'	m' :r'	r' :d'	r' :r'	m' :—	f' :—	m' :—	— :—
s :f	m :f	f :m	r :f	s :—	s, :—	d :—	— :—

- 2 Gwledda ar gyfriniaeth  
Heulwen gaf yn rhydd;  
Darllen wnafl farddoniaeth  
Tlysmi Llygad Dydd;  
Yfed bywiol neithdar  
Meusyddd ffurwthlon gaf;  
Gwenau'r nef a'r ddaear  
Loewant Lys yr Haf.
- 3 Crwydro'r hen fynyddoedd  
Tawel gaf yn awr,  
Gwrando gwynt y nefoedd  
Gyda'i organ fawr;

Canu 'ng nghartre 'r defaid  
Alaw rhyddid wnafl;  
Caru 'r ydwyf ddeiliaid  
Dedwydd Lys yr Haf.

- 4 Gwrando ar gerddoriaeth  
Oratorio'r môr,  
Teimlo swyn peroriaeth  
Telyn fwyn ei gôr;  
Clywed tonnau'n canmol  
Gwledydd pell a gaf;  
Adlais gwledydd nefol  
Lonna Lys yr Haf.

## AFON Y CULFOR.

**N**ID y Rhein na'r Volga, nid y Ganges na'r Hoang Ho, nid y Neil na'r Congo, nid yr Amazon na'r Mississippi, yw afon fwyaf a rhyfeddaf y byd.

Afon fwyaf a rhyfeddaf y byd yw Afon y Culfor (*Gulf Stream*). Y mae mwy o ddwr yn hon nag yn y Mississippi, afon hwyaf y byd, dri chant o weithiau. Yn y môr y rhed. Afon o ddwr cynnes ydyw, yn rhedeg trwy fôr o ddwr oer. Dechreu a reddeg o Gulfor Mexico, tan y cyhydedd, lle poethaf y byd. Yno tery pelydrau tanbaid yr haul ar ddyfroedd y môr gyda digon o wres bron i wneyd iddo ferwi. Yna, trwy ryw ddeddf nad ydys yn ei deall yn hollol eto, cychwynna y dwr poeth hwn i'r môr agored; a rhed, yn afon fawr o ddwfr cynnes, tua'r gogledd ddwyrain.

Mae'n hawdd iawn ei hadnabod. Gŵyr llongwyr am dani'n dda. Hyfryd i long hwyliau yw cael mynd yr un ffordd a hi. Weithiau bydd llong a'i hanner ar ddwfr yr afon, a'r hanner arall ar ddwfr y môr.

Mae ei lliw yn hawdd ei adnabod. Y mae'n las iawn, yn llawer glasach na dwr gwyrdd y môr. Mae ei dwr yn haltach hefyd. Gŵyr y rhai sy'n cael halen o ddwfr y môr hyn. Y maent yn cymeryd dwfr hallt yn rhywfan lle tery'r afon hon ar y tir.

Mae yn gynhesach lawer na'r môr hefyd. Ni welir yr un morfil ynddi byth. Gwell ganddo ef y dwr oer sydd o bobtu iddi. Yn wir, nid yw pysgod bwytafwy yn hoff o'i dyfroedd cynnes.

Pam y mae yr Ynysoedd Prydeinig yn dymherus, tra mae Labrador ar eu cyfer, dan gwrlid o eira oesol? Dyfroedd Afon y Culfor sy'n torri ar eu glannau. Pe troai yr afon hon i ryw gyfeiriad arall, gorchuddid ein gwlad â chaenen o rew, a byddai distawrwydd gauaf di-wanwyn dros ein cymoedd blodeuog a'n dyffrynnoedd ffrwythlawn.

O ba le y daw'r awel dyner laith sy'n suo dros ein mynyddoedd, ac yn arllwys gwlad i ffrwythlonni'n dolydd? Y tawch cynnes sy'n codi o Afon y Culfor yw, yn troi'n wlaw wrth gyffwrdd â gwynt oerach y gogledd.

O ble daw ystormydd y gorllewin? Oherwydd fod tymheredd yr awyr uwchben Afon y Culfor yn wahanol i'r hyn ydyw uwchben y moroedd y rhed trwyddynt. Rhuthra'r gwynt oer i le'r awyr gynnes, fel y cwyd honno i fyny. Dyna ddechreu tro-wynt, sy'n gwneyd hafoc mor ofnadwy ar y môr.

O bob afon sy'n rhedeg i ffrwythloni ac i fendithio, nid oes yr un yn gwneyd cymaint o ddaioni ag Afon y Culfor, wrth dywallt ei dyfroedd cynnes, bob dydd yn ddiffaél, i foroedd oerion y gogledd

## DAEARGRYN BRYNIAU CASIA.

[Mae y Parch. Robert Evans, y cenhadwr, wedi ysgrifennu llyfr bychan o hanes y ddaeargryn ddiweddar yn Casia. Ynddo adroddir am lawer dihangfa wyrthiol bron. Wele hanes cenhadwr, ei wraig, a'i blant pan oedd eu tŷ wedi syrthio. Cyhoeddir y llyfr bychan dyddorol hwn gan D. O'Brien Owen, Caernarfon; pris tair ceiniog.]

**M**OR gynted ag yr oeddym ychydig o lathenni o'r tu allan i'r drws, syrthiodd y tŷ. Pan ddaeth yr ysgydwad i'w lawn nerth, teflid y cerrig, fel â llaw dyn, amryw droedfeddi oddiwrth y mur. Creai y cynhyrfiad donnau mawrion yn y ddaear. Bwrid ni i'r llawr, a thefid ni o'r naill ochr i'r llall, fel nad allem fod o un help y naill i'r llall nac i ni ein hunain. Agorai y ddaear yn agenau o bob maintioli o'n cwmpas, a chaut bob yn ail. Yr oedd y dir-dyniad a'r dirwasgiad yn anhygoel. Disgwyllem i'r ddaear ymollwng o dan y fath bwysau. Gwelwn ddaioni Duw yn amlwg eto na buasai y ddaear yn agor o danom yn lle o'n cwmpas pan oeddym mor ddiymadferth ar y ddaear. Ceisem symud i helpu y rhai nesaf atom, ond yr oedd hynny yn amhosibl, gan fod tonnau mawrion rhyngom â hwy. Lle yr oedd y ddaear un eiliad yn gefn, yr oedd yr eiliad arall yn bant, nes yr oedd yn amhosibl sefyll. Wedi ymdrech galed, llwyddais i fyned i'r lle yr oedd fy ngwraig yn cael ei churo gan y tonnau, a dywedais wrthi am atael ynnof fel ag i symud o gymydogoeth yr holltau; a rhwng cerdded a chropian llwyddasom i fyned i le a ystyriem yn fwy diogel. Hyd yn hyn nid oeddym wedi gweled ein plant, na gwybod beth oedd wedi dyfod ohonynt. Ond er ein llawenydd anrhaethol, clywem y lleiaf, oedd tua phedair oed, yn llefain am danom, ac yn gofyn paham yr oedd y ddaear yn crynu felly. Yr oedd ein llawenydd yn fawr pan ddeallasom ein bod oll yn fyw. Teimlwn y pryd hwnnw, a theimlaf yn awr, awydd gofyn,—“Beth a dalwn i'r Arglwydd am Ei ddaioni i ni,” a dweyd,—“Phiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwat.”

Noson ryfedd oedd y nos Sadwrn honno. Ni wyddem nad allai fod yn nos Sadwrn yr oesoedd. Yr oeddem yn wlyb, ac oer, a llwm, a newynog, a'r dirgryniadau parhaus yn peri i ni ofni i'r ddaear ymollwng, ac i ninnau gael ein claddu yn fyw yn y ddymchwelfa. Diolch am y bore Saboth a wawriodd arnom, a phawb yn fyw, er fod ein sefyllfa yn un dra thruenus.

## YSBRYD TWM Y MILWR.

"Y chwedlau am ryfedd ystrancau ysbrydion,  
A'r gwyrthiau a wna'r tylwyth teg ar y twyn,  
A wnant i flew oernau rhaith sefyll yn sythion,  
A phlant y fro synnu a chrynnu'n eu croen."

—LLAWDDER.

**Y** MAE, neu yr oedd, gan bob plwyf yng Nghymru ei fwanod. ei ysbrydion, ei ganwyllau cyrff, a'i Dylwyth Teg ei hun. I mi y mae rhyw ddyddordeb neilltuol yn yr hen ystraeon hyn; ac yn wir onid oes rhyw ddyddordeb a swyn ynddynt i bob un sydd yn caru hanes meddwl ei gwlad? Dyma yr hen ystraeon sydd yn cysylltu Cymru Fu ddyddorol wrth Gymru Sydd. Hen ystraeon ydynt sydd wedi mynnu llechu yng nghilfachau unig y creigiau, ac yng nghysgod dwfn a thawel y mynyddoedd a'r bryniau, er gwaethaf gwareddiad, addysg, a phob peth tebyg. Ond erbyn hyn, bron na allem ddweyd fod dydd eu claddedigaeth wedi gwawrio, a gresyn onide fuasai i'r hen chwedlau diirif-ddigrif hyn syrthio i dir anghof, pan na wnant ddrwg mwy.

Credaf fi fod a fynno yr ystraeon ofergoelus hyn â hanes Cymru yn wladol a chrefyddol yn yr amser fu. Onid ambell i hen chwedl gynhyrfus am weledigaeth o fyd yr ysbrydoedd fu'n gwneyd arwr o aml i hen Gymro gwladgarol a thwymgalon ym mddinoedd Owen Glyndwr a Llywelyn? A fuasai Cymru heddyw yn Gymru mor grefyddol ag ydyw onibai am ysbryd yr hen ystraeon yma? Credaf yn sicr na fuasai. Onid yr hen ystraeon hyn fu yn foddion i gadw llygad y Cymro ar fyd arall—byd yr ysbrydoedd—ar adegau tywyll iawn ar grefydd? Y mae eu llond o un o athrawiaethau mwyaf y grefydd Gristionogol, sef anfarwoldeb yr enaid; ac onid yw yn ddigon tebyg mai yn hanes crefydd yng Nghymru y ceir yr achos o'u bod? Ai nid un o athrawiaethau Eglwys Rhufain—bodolaeth y Purdan—yw enaid yr hen ystraeon? Bu amser yn ddiâu pan oedd crefyddwyr goreu Cymru yn credu cyn sicred ynddynt a neb. Yn ddiameu, bu ganddynt ddylanwad mawr ar fywyd y Cymro a Chymru yn yr amser fu.

Y mae plwyf Ceitho yn un o blwyfydd mwyaf gwledig a mwyaf Cymreigaidd Cymru yn ddilys; ac felly, yn lle enwog iawn am ei fwanod. Creda llawer mor gryfed ynddynt heddyw ag erioed yn y parthau yma. Clywais hen frawd doniol ers ychydig amser yn ol yn athronyddu tipyn (wrth ei fodd) ar fwanod y plwyf. Gofynna's iddo a oedd efe yn credu ym modolaeth ysbrydion.

"Credu yn wir, Twm bach," atebai, "ydyf yn siwr iti, os wyf yn credu tystiolaeth fy llygaid fy hun. Nid un na dau welais yn

ystod fy mywyd. Pan fydd dyn anuwiol farw, bydd ei ysbryd yn sicr o fod yn rhodianna o gylch rhyw annedd unig, pa un a'i gwelir ef gan rywun ai peidio. Ond pan ffarwelia dyn duwiol â'r hen ddæar yma, ni welir ef un adeg, am na feddylia un o honynt hwy ddychwel hyd yn oed ar dro i gyfandir gofid byth mwy."

Ie dyna athroniaeth baganod ym marn hen ŵr pedwar ugain a phedair mlwydd oed ym mhlwyf Ceitho beth bynnag. Credir yn y cylchoedd hyn hefyd na wna y bodau dieithr hyn ymddangos ym mhob man ychwaith. Na, mannau neilltuol yn unig ffafria ysbrydion a drychiolaethau â'u presenoldeb, yn neheu Ceredigion o leiaf. Mewn lleoedd hynod yr ymlwybrant,—y mannau hynny ag y bydd trysorau anghyfiawn wedi eu cuddio, y mannau y bydd creulonderau erchyll neu ladratau beiddgar wedi eu cyflawni ynddynt, mynwentydd, a mannau eraill o nodwedd gyffelyb. A pha ryfedd fod dyddordeb yn y chwedlau i ni? Ond rhaid brysio.

Enw bedyddiedig yr ystori fwyaf adnabyddus yn y cylchoedd yma am ymddangosiad drychiolaeth ydyw "Ysbryd Twm y Milwr." Cofiaf yn dda am danaf ar lawer hirnos gauaf yn ofni edrych tua chyfeiriad y ffenestr fechan yn "yr hen fwthyn bach tŷ gwellt" ym Mhenuwch ar ol clywed yr ystori hon,—a llu o rai tebyg iddi o ran hynny,—yn cael ei hadrodd gyda difrifwch ar yr aelwyd. Dyma'r ystori.

Preswyliai porthmon mewn amaethdy enwog ym mhlwyf Ceitho, ymbell bell cyn bod tren na cherbyd trydan nag un o gerbydau y brys gwyllt yma, a'i arfer bob blwyddyn oedd gyrru da a cheftylau ar draed i ganol Lloegr drosto ei hun a'i gymydogion; ac ar ol eu gwerthu yno, dychwelai adref ar gefn ceffyl. Cymerai y daith yma ddau fis neu dri yn aml iddo i'w gwneyd.

Yn yr un gymdogaeth, ac heb fod nepell oddiwrth gartref y porthman, preswyliai gŵr ieuanc gwyllt o'r enw Tom, oedd wedi ymrestru yn y fyddin. A phan oedd y porthmon yng nghanol gwlad y Sais un tro, dychwelodd y milwr adref a'i iechyd wedi gwaelu, ac ni fu yn hir cyn cael ei gladdu

"Is yr ywen ddu ganghennog"

ym mynwent anwyl hen eglwys enwog Ceitho. Toc, daeth yr amser i'r porthmon ddod adref; a'r tro hwn, fel llawer tro cyn hyn yn ddiau, methodd gyrraedd cyn i'r nos dywell wasgar ei chysgodion dros y glennydd, ac yr oedd yn oriau mân y bore arno yn dod heibio mynwent Llangeitho ar gefn ei farch gwyllt. Pan yn ymyl y fynwent, neidiodd y march a thrwy ymdrech ganed, y medrodd y gyrrwr aros ar ei gefn. Ar ol iddo lonyddu yr aifail, drychodd y marchog oddiamgylch er gweled beth oedd wedi

dychrynnu ei geffyl; a phwy welai yn eistedd yn daclus ar ben clawdd; a fynwent ond Tom y Milwr. Aeth y porthmon i dymer ofnadwy, a gofynnodd iddo yn arw beth oedd ei amcan allan yn y man hwnnw yr adeg honno o'r nos. Ond ni chafodd ateb. Dychrynnodd gymaint fel y carlamodd ei farch nes cyrraedd ei gartref; a phan aeth i'r ty, yr oedd gwedd angeuol arno, ac yn chwys diferu. Adroddodd yr helynt wrth ei wraig, ond rhag codi rhagor o otu arno, ymataliodd hi rhag crybwyll am farw a chladdu y milwr; a bore tranoeth rhoddodd siars ar bawb yn y teulu iddynt ofalu peidiadweyd y gwir hanes wrtho. Fodd bynnag, adroddodd ef hanes ei weledigaeth wrth ryw gyfaill, a dywedodd hwnnw, yn ddiweddl, yr holl hanes wrtho. Dychwelodd adref gynted y clywodd, ac aeth ar ei union i'w wely; ac ni chododd mwy nes ei farw ymhen rhyw chwech wythnos wedyn.

Dyma hanes un o ysbrydion plwyf Ceitho. Nis gallaf ddweyd beth oedd ei neges y tro hwn. Efallai y cawn ddweyd gair am Dylwyth Teg Banc y Dolau a bodau rhyfedd eraill rywdro eto, os cawn hamdden.

GWYRDBDFNYDD.

### CYSUR I'R WEDDW.

**Y** DYDD o'r blaen, gwelais fachgen bychan pedair oed yn eistedd ar y llawr, a'i deganau o'i gwmpas. Gan dasu cipolwg ar wyneb ei fam, yr hon oedd weddw, canfyddai ei dagrau yn treiglo yn gyflym dros ei gruddiau. Cododd i fyny a rheddodd ati, edrychodd yn graff i'w llygaid, gan roddi ei law yn ei llaw hi, a dywedodd,—“Mam, peidiwch crio, mi'rydw i hefo chi o hyd.”

Y cysurwr bach diniwed! Fam ieuanc, sych dy ddagrau. Oes, y mae gennyt rywbeth eto wedi ei adael i fyw erddo; y mae dyledswyddau y rhaid, hyd yn oed i'th galon sy'n gwaedu, ymgryfhau i'w cyflawni. Y mae gennyt yn y plentyn yna dalent nad wyt i'w chladdu, goruchwyliaeth y rhaid i ti roddi cyfrif o honi i'r Arglwydd, dalen i ti ysgrifennu arni wirionedd Duw, planhigyn tyner i'w wyllo rhag rhew a gwynt mall, oen bach i'w arwain at y Bugail Da. Ti gei, yn ddiâu, lawer awr bruddaidd; ti a deimlï wagder nas gall hyd yn oed y galon fach garuaidd yna ei llanw. Ond y mae Un arall sydd yn dwedyd wrthyt,—“Nac ofna; yr wyf fi gyda thi bob amser.”

*(Llanrug. 13.)*

RICHARD H. WILLIAMS.

## MEG A WIL TY NESA.

**Y**R oedd y naill wedi bod yn chwareu "ty bach," a'r llall yn dychwel adre gyda'r nos, wedi bod yn chwilio am nythod adar yn y ceunant drwy'r dydd. Yr oeddwn innau heb fod nepell oddi-wrth y fan, ac o ran rhyw gywreinrwydd, ymguddiais yn y coed, gan ddal fy anadl i wrando beth allai fod yr ymddiddan. Yn sydyn, torrodd Wil ar y distawrwydd, gan gyfarch Meg rhywbeth yn debyg i hyn,—

"Ai chwareu tŷ bach yr wyt ti byth—Meg,  
Actio mam ddiledlyth?  
A mi Wil, fel tad dilyth,  
Uchel yw'm nod—chwilio'm nyth."

Gwnaeth y lleuad ei hymddangosiad dros ysgwydd y bryn, ac ebai Meg wrth Wil,—

"Mae'r lleuad wedi codi,  
Awn innau 'nawr i'r gwely;  
Ac wedi cael rhyw gyntun bach  
Cawn godi'n iach yfory."

Cychwynnodd y ddau adre fraich ym mraich dan ganu,—

"Lleuad yn olau,  
Plant bach y chwaraeu,  
Lladron sy'n dwad.  
Dan wau sauau."

G.W.F.

## MAE CYFRAITH YN DDRUD.

"**P**EIDIWCH byth a mynd i gyfraith," ebe barnwr enwog unwaith tua diwedd ei oes. "Er ennill cewch golled ar amser, arian, a thawelwch meddwl."

"Ond beth wnaech, eich anrhydedd," ebe un. "pe dywedai rhywun wrthyh, na welsech erioed o'r blaen, y rhoddai gyfraith arnoch os na thalech ganpant iddo?"

"Beth wnawn?" ebe'r baruwr. "Eu rhoddi iddo, a diolch nad oedd yr anfad-ddyn wedi meddwl gofyn am ddau."

---

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLLYN, Y BALA.

---



# AT Y PLANT.



Mae'r Hydref mawr ei wywdra—yn gyfalli  
Cyn gofid y Gaeaf;  
Heddyw rhoes ar fedd yr Ma  
Ei dirion gawod eira.—J. R. TRYFANWY.



**N**O FEIRION. Bydd yn eithaf hawdd i chwi ddysgu Saesneg. Cymerwch ryw lyfr, "Robinson Crusoe" neu "The Pilgrim's Progress," a geiriadur Cymraeg a Saesneg, a cheisiwch ddeall y llyfr goreu gellwch. Daw'n hawddach hawddach fel yr ewch ymlaen. Feallai y gellwch gael lle i weithio, wedi dysgu darllen llyfr Saesneg, gyda gweithwyr sy'n siarad Saesneg da. Neu cymerwch Feibl Cymraeg a Beibl Saesneg, a darllenwch hwy gyda'u gilydd. Dysgodd Ap Vychan Saesneg pan yn of uniaith; gall pob gweithiwr wneud yr un modd, os medd egni a phenderfyniad.

**M. LL.** 1. Y mae hanes yr eneth o forwyn yn anfon ei rhodd at gofgolofn T. E. Ellis yn darawiadol iawn. Y mae'n ddiameu fod miloedd tebyg yng Nghymru yn awyddus am roi pe caent gyfleustra. 2. Ni wyddai plant Cymru Caernarfon welsoch yng nghastell y dref ddim am Lywelyn nac am Owen Glyndŵr, chwi ddywedwch. Nid ar y plant y mae'r bal, ond ar eu hathrawon. Tyf y plant i ddarganfod y cam wna eu hathrawon â hwy, ac i gashau eu cofiadwriaeth.


**BOB.**—Peth anodd iawn yw dofi llwynogod bach. Y maent mor gyndyn, ac mor ffyrnig, fel y byddant farw o newyn cyn y bywtânt ddim o law y neb a'u carcharo. Er hynny, nid yw eu hanner ddofi yn beth amhosibl. Daliodd amaethwr, sy'n byw am y mynydd a mi, bedwar o lwynogod bychain. Methai yn ei fyw a'u cael i fwyta dim; noethent eu dannedd, a cheisient frathu y llaw estynnai fwyd iddynt. O'r diwedd, daliodd wningen fyw, a thaffodd hi i'w canol. Yswatiodd y pedwar i lawr o'i chwmpas am beth amser, heb symud dim. Yna rhuthrasant ar unwaith ati, a lladdasant hi yn y fan. Creulondeb mawr oedd tafu'r wningen i'w canol, ond felly y gwnawd.

**YMYSG** y llyfrau sy'n aros cael sylw y mae "Cofiant a Llythyrau y Parch. R. Jones, Llanllyfni," gan Dr. Owen Davies (Llangollen, W. Williams); "Oes a Gwaith M. D. Jones, Bala," gan Dr. E. Pan Jones (y Bala, H. Evans); "Gwlad yr Iesu," gan Anthropos (Caernarfon, Swyddfa'r Wasg Gynreig).

**DRWG** gennyf na ddaeth y bennod ar Captan Cook yn ddigon buan i'r rhifyn hwn. Mae wedi ei chysodi, a gall y plant fod yn sicr y cânt hi yn y rhifyn nesaf.

**R. R.** Mae ambell emyn byrr, gwllithog fel hwn yn dderbyniol iawn.

**O.** Gwelais "egwan crynedig" yn air Cymraeg am *jelly*; a "llymr llwyd" am *blanc mange*.



J. Thomas.

DIWYDIANNAU CYMRU. VIII. MAGU GWARTHEG.



# CYMRU'R PLANT.

Cyf. XII.

HYDREF, 1903.

RHIF 142.

## BEN BOWEN.

**A**R y Saboth, Awst 16, eheddodd enaid ieuanc pur Ben Bowen i'w orffwysfa. Yn ofer y bu'n crwydro'r byd i chwilio am iechyd, daeth adre i Gymru, i huno yn bedair ar hugain oed. Trwy'r cwbl yr oedd ei ffydd yn Nuw'n gref. Ymysg y pethau olaf anfonodd i mi yr oedd yr englyn hwn,—



BEN BOWEN.

“Ymdawelaf, mae dwylo—Duw ei hun  
Danaf ym mhob cyffro ;  
Yn nwf n swyn ei fynwes O  
Caf lonydd ; caf le i huno.”

Dair blynedd yn ol, synnwyd Cymru pan glywsom fod un mor ieuanc yn ail yng nghystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Lerpwl. Gwelodd y beirniaid seren newydd i ddod yn ddisgleiriach. “Hyderaf,” ebe Iolo Carnarvon am y bryddest ar Williams Pant y Celyn, “y caiff ei hawdwr tywyd ac iechyd i sylweddoli y disgwyliadau y mae wedi ddeffroi.” Cyhoeddwyd y bryddest, a daeth y wlad o'r un farn a'r beirniaid. Teimlai pawb y gwelid awen y bardd ieuanc hoffus

yn cymeryd ehedfa ddisglaer o feiddgar. Ond nid yw ein byd ni i gael gweled dadblygiad meddwl Ben Bowen. Y mae rhai o eiriau'r bryddest yn broffwydol am dano ef ei hun,—

“ Pa beth yw marw, ond enaid cryf yn torri  
Drwy blisgyn teneu daearoldeb,  
I chwaraeu edyn yn anfarwol dlysi  
Awyrgylch laswen tragwyddoldeb ?

“ Rhaid colli'r plisgyn er mwyn ennill aden,  
A su yr aden ddeffry'r alaw ;  
Ar ol cael beddrod a thragwyddol wybren  
Daw'r gân—aiff honno byth yn ddistaw.”

### DAN EI GORON.

**M**AE'r flwyddyn dan ei choron  
Yn dlws gan lawer myrdd,  
A gemau ei bendithion  
Belydrant ar ein ffyrdd ;  
Gweadwaith gwyrddlas Gwanwyn,  
A gwrid yr Hydref gwyw,  
Haf melyn, Gauaf claerwyn,  
Yw perlau 'i choron fyw.

Mae'r brenin dan ei goron  
Yn cario palmwydd bri ;  
Ond tyfa drain pryderon  
O dan ei gemau hi ;  
Pan dodda aur a pherlau  
Coronau gwych y byd,  
Blodeuo wna coronau  
Y pur a'r da o hyd.

Yn fythwyrdd erys coron  
Yr arwr ar ei ben,  
A llawryf cled yw ceinion  
Ymylwe 'i orsedd wen ;  
Ai pantle swrth dinododd  
Gaiff fod ein cartref ni ?  
Ar lethrau bryn anrhydedd  
Tyf blodau coron bri.

*Y Bala.*

RICHARD AP HUGH.

### SYRTH Y DAIL.

**S**YRTH y dail o un i un,  
A'r cangau sy'n galaru ;  
Swn ffarwel yn awr a gaf  
Gan flodau'r haf wrth drengu.

Syrth y dail, a'r adar mwyn  
O lwyn i lwyn ehedant ;  
Pan aeth lliw y ddeilen werdd,  
Holl swyn eu cerdd gollasant.

Syrth y dail, ac anian rydd  
Ei phen yn brudd i orwedd ;  
Hydref drinia dlysi'r ddôl,  
Gan adael ol ei fysedd.

Syrth y dail, a'r cangau 'r  
Gan wendid hir a nychant ;  
Methant ddal y blagur iach,  
Ar ddeilen fach ollyngant.

Syrth y dail dan lwydrew'r nos,  
A heulwen dlos y borau ;  
Gyda dweyd mewn acen brudd,—  
Rhyw ddydd fe syrthiwech chwithau.

S. D. LLOYD.

## Y DDIMAU NEWYDD.

## II. A WYDDOCH FWY YDWYF?

**E**DRYCHODD y bechgyn arni gyda'u llygaid a'u genau yn llydan agored. Gwelsant, heblaw ei bod yn hynod o fach, ei bod hefyd yn hynod o hyll. Yr oedd ganddi ddau lygad hir-gul o liw gwyrdd; trwyn tenau, main, a gên hir, ond er hynny yr oedd ei cheg yn fwy na'i thrwyn a'i gên gyda'u gilydd. Nid oedd ganddi ond dau ddant, y rhai a ddeuai allan ychydig dros ei gwefus isaf. Wrth ei hochor, ar y clawdd, yr oedd ffon a bagl mawr. Ar ei phen yr oedd het, a choryn hir yn myned yn big at y top, ac ar y pig yr oedd darn bach o rywbeth gloew. Am dani yr oedd *shawl* o amrywiol liwiau yn cylymu o'r tu ol, a gŵn crwn o liw tywyll. Am ei thraed yr oedd clocs, yn cael eu cau â rubanau glas a choch.

Wedi aros am ysbaid, pan welodd na ddywedai y bechgyn ddim wrthi, gotynnodd mewn llais mor grachlyd nes peri iddynt fyned gam neu ddau ymhellach oddi wrthi,—

"Be ydach chi yn edrach mor hurt? Pam na ddechreuwch chi hel afalau?"

Ni atebodd John a Wili air, ond daeth Tim o hyd i'w dafod rywsut, a gotynnodd,—

"Sut gwyddoch chi fod ni am hel fala?"

"Wel, dyna oeddych yn wneyd y diwrnod o'r blaen," atebai hithau.

"Pwy ddeudodd wrtho chi?" gofynai Tim.

"Eich gweled fy hunan ddaru mi," ebai hithau, "ond nid oeddych chi yn gweled dim y diwrnod hwnnw ond yr afalau, ac yr oeddych yn gwneyd cymaint o dwrw fel na chlywsoch swm fy ngweill."

Erbyn hyn, yr oedd Wili yn gallu rheoli ei dafod, a gotynnodd,—

"Welsoch chi 'nima newydd i?"

"Do, dyma hi," ebai hithau, a thynnodd hi allan o'i mynwes.

Edrychodd y bechgyn yn syn ar eu gilydd, ac yr oedd rhywbeth yn ngolwg Wili fel pe buasai yn gofyn,—

"Goeliwch chi 'rwan, nad breuddwydio yr o'n i?"

"Fasech chi yn leicio'i chael hi?" gofynnai yr hen wraig.

"Mi faswn i," ebai Tim, gan fyned yn nes ati.

"Mi faswn inna hefyd," ebai John.

"A finna," ebai Wili.

"Wel," ebai hithau, "nid oes gennyf ond un. Ond os deuwch gyda mi gartref, cewch un bob un."

"Dima newydd bob un?" gofynnai John.

"Nid dima ydyw," ebai hithau, "mae hon yn sofran, ac mae ynddi bedwar cant a phedwar ugain o ddimeuau. Ydach chi am ddwad hefo mi?"

Ymddanghosai y sofren tel ffortiwn yn eu golwg, ac addawsant fyned gyda hi ar unwaith. Ar hyn, rhoddodd yr hen wraig ei gwaith gweu yn ei mynwes, gafaelodd yn ei ffon, ac eisteddodd arni yn union fel y bydd merch yn eistedd ar farch, ac aeth ymlaen mewn rhyw ddull rhyfedd, heb gyffwrdd y llawr, mor gyflym fel yr oedd yn rhaid i'r bechgyn redeg i geisio ei dilyn. Wedi rhedeg fel hyn am amser, stopiodd o flaen hen foncyff mawr, disgynnodd oddiar y ffon, a churodd y boncyff â'i bagl dair gwaith. Wedi y trydydd cnoc, agorodd y boncyff yn ei ganol, ac aeth y pedwar i mewn. Edrychodd y bechgyn yn ol i weled fwasai y boncyff yn cau arnynt. Ond nid oedd hanes am foncyff, na dim tebyg, yn un lle.

Yr oeddynt yn sefyll fel mewn lle mawr a chloddiau uchel o'i gwmpas. Yr oedd dôr fawr yn cau arnynt, ac yr oeddynt y tu fewn i'r ddôr cyn gwybod eu bod wedi sefyll y tu allan iddi. Ar hyn, aeth yn dywyll, dywyll, arnynt; a buasai Wili wedi crio oni bai fod Tim a John yn gafael yn dyn ynddo. Pan yn methu gwybod beth i wneyd, clywent lais yr hen wraig yn dweyd,—

“Dowch ar fy ol i. Mi drof big ty het atoch.”

Ymddanghosai y darn gloew oedd ar ei phig tel lamp fechan yn awr, ac aeth y bechgyn ar ei hol. Yn fuan daethant at risiau, a dringasant ar ei hol o ris i ris, nes yr oeddynt bron a cholli eu gwynt erbyn cyrraedd ystafell fechan yn y top. Wedi eu harwain i mewn, gofynnodd iddynt,—

“A ydych yn gwybod pwy ydwyf?”

“Nac ydym,” oedd yr ateb.

“Y fi,” ebai hithau, “ydyw dewines y Tylwyth Teg.”

Dychrynnodd y bechgyn yn ddirfawr wrth glywed hyn, ac wedi iddi fyned allan, ac i swm ei chlocs ddarfod yn y pellder, tafasant eu hunain i lawr dan wylo i gysgu yn yr ystafell dywyll. Am faint o amser y cysgasant, nid oeddynt yn gwybod; ond pan ddeffroisiant yr oedd goleuni yr haul yn tywynnu i'w hystafell drwy ffenestr yn y tô. Llonnodd hyn ychydig ar eu calonnau, ac wedi cwbl ddeffro gofynnodd Wili,—

“Ydi hi wedi mynd i nol y ddima newydd?”

“Ydi, reit siwr,” meddai John, ac ychwanegai,—“Agor y drws yna, Tim.”

Ceisiodd Tim agor y drws, ond yr oedd yn gloedig. Bu agos i Wili grio eto wrth weled hyn, ond parodd clywed swm clocs yr hen wraig ar y grisiau iddo sychu ei ddagrau. Clywent hi yn curo y drws â'i ffon, ac mewn eiliad yr oedd yn sefyll ger eu bron. Wedi dod i mewn ac edrych arnynt, aeth at gwpwrdd oedd yn y mur; ac wedi taro hwn eto â'i ffon, agorodd ei ddrysau. Yna dywedodd wrth y bechgyn,—

"Cymerwch rhywbeth i'w fwyta o'r fan hyn."

Aeth y tri at y cwpwrdd, a helpiasant eu hunain o'r bwyd rhyfedd oedd ynddo. Wedi iddynt gael eu diwallu, dywedodd yr hen wraig wrthynt,—

"Dowch ar fy ol i, Tim yn gyntaf, John wedyn, a Wili yn olaf."

Aeth y bechgyn, gan ddyfalu sut yr oedd yn gwybod eu henwau. Arweiniwyd hwy o ystafell i ystafell ar hyd cyntedd hir a chul, nes y daethant i ystafell fechan heb yr un ffenestr ynddi o gwbl. Cyn myned i mewn, gofynnodd yr hen wraig i Wili,—

"Wyt ti yn cofio dy ddimma newydd?"

"Ydw," ebai Wili.

"Mi gei i gweld hi rwan," ebai hithau, ac agorodd y drws.

Ar fwrdd yn yr ystafell yr oedd tri crochan. Gofynnodd yr hen wraig,—

"Beth welwch chwi ar y bwrdd?"

"Tri crochan," oedd yr ateb.

"Beth sydd ynddynt?" gofynnai eilwaith.

"Dim," atebai'r bechgyn.

"Trowch eich cefnau atynt," meddai hithai.

Gwnaeth y bechgyn hynny. Ymhen ychydig eiliadau,—

"Trowch yn ol," meddai.

Gwnaethant hynny eto.

"Beth sydd yn y crochanau yn awr," gofynnai.

"Sofrins," ebai y bechgyn, wedi eu syfrdanu wrth yr olwg ar y fath gyfoeth.

"Ie," ebai hithau, "dyma grochan Tim, dyma grochan John, a dyma grochan Wili, os gwnewch gymwynas â mi. Os na wnewch, chewch chwi yr un."

"Beth ydyw?" gofynnent.

"Cewch wybod heno, ewch yn ol yn awr i'ch ystafell."

"Allwn ni wneyd yr hyn sydd arnoch eisiau," gofynnai Tim wrth fynd allan.

"Gellwch yn hawdd," oedd yr ateb.

Ar hyn, aeth y bechgyn yn ol, gan ddyfalu beth oedd iddynt wneyd fel ag i ennill y fath wobr.

Pan gauwyd y drws ar Tim, John a Wili, yn yr ystafell a'r ffenestr dde unwaith yn rhagor, eisteddasant ar y llawr, gan nad oedd gadeiriau iddynt, a difyrasant eu gilydd drwy adrodd beth a wnaethent pan ddeuai y crochanau aur i'w meddiant. Yr oedd Tim am adeiladu tŷ mawr i'w rieni; yr oedd John am brynnu ceffyl i'w dad a merlyn iddo ei hunan; ac yr oedd Wili am brynnu cwch iddo ei hunan a bonet neis i'w fam. A llu o bethau ereill oeddynt am wneyd pan yn berchenogion y cyfoeth.



PLANT CYMRU. CLXXV. RHAI O BLANT CYMRU LLUNDAIN.



## PLANT CYMRBIG LLUNDAIN.

**N**ID yng Nghymru yn unig y mae plant bach Cymreig yn byw. Dyma i chwi ddarlun o blant Ysgol Sul y Tabernacl, yng nghanol Llundain. Er eu bod yn siarad Saesneg ar hyd yr heol ydd drwy yr wythnos, y maent bron i gyd yn medru siarad Cymraeg ar yr aelwyd gartref, ac yn yr ysgol wrth eu hathrawon ar y Sul. Fe gewch eu clywed yn dweyd eu hadnodau yn y capel bob Saboth mor Gymreigaidd ac mor glir a phe yn byw yng nghesail bryniau mwyaf anghysbell Cymru. A phan ddaw pregethwyr o'r wlad yma i wasanaethu, byddant yn synnu wrth eu clywed. Dywed rhai fod plant Cymry yn dweyd eu hadnodau yn Saesneg mewn capel Cymraeg. Mae hynny yn gam a'r plant; ac fe ddylai rhieni gywillyddio am beidio eu hyfforddi yn iawn ar y dechreu. Ar ol tyfu yn ddynion, mae plant o Gymru, sydd heb ddeall na dysgu'r Gymraeg, yn teimlo eu colled yn fawr iawn. Nid oes ganddynt gariad at bethau Saesneg, ac mae'r Gymraeg yn dywyll iddynt. Collant eu parch i'w rhieni am beidio dysgu eu hiaith iddynt, ac maent fel rheol yn llai llwyddiannus na'r bobl ieuaic hynny sy'n llawn o sel at lenyddiaeth Cymru, caneuon Cymru, a Beibl Cymru. Cofiwch ddysgu'r iaith Gymraeg os am dytu i fyny'n blant bach hapus, a daw i chwi well gwybodaeth o'r Saesneg a phob iaith arall wedyn.

Gwelwch mor awyddus yw y rhain i gael eu llun. Maent am i'r cyfan fod drosodd ymhen dwy funud, oherwydd cychwyn maent am dro i'r wlad. Rhaid i blant bach Llundain deithio ugain milldir cyn cael mwynhau glesni'r maes ac unigedd y coed. Diwrnod hapus yn eu hanes yw gwibdaith yr Ysgol Sul, a gofala'r athrawon yn dynar am danynt. Mawr yw dyled plant bach Cymru i athrawon ac athrawesau siriol yr Ysgol Sul.

## SARAH MORRIS.

GENETH FACH MR. A MRS. DANIEL MORRIS, PORTHMADOC.

**D**YSGWYD hi yn blentyn bach,  
I ddarllen hanes Iesu;  
Ymdeffroes ei henaid iach  
Yn gynnar idd ei garu.

Yn yr Ysgol Sul mwynhai  
Baradwys ar y ddaear;  
Ac wrth fyned iddi, ai  
Ei hyspryd yn fwy hawddgar.

Ufudd, prydferth oedd, a phur,  
A thylai ei serchiadau;  
Creodd, wrth ein gadael, gur  
A gwagder mewn calonau.

Llawnach yw y nefoedd lân  
Oherwydd ei symudiad;  
Yno tyf, ac yno cân,  
Hi mwyach fawl ei Cheidwad.

IOLO CARNARVON.

## TLYSAU PRYDAIN.

**Y**R oedd tri thlws ar ddeg yng Nghaerlleon ar Wysg, sef brenindylsau Ynys Prydain. Aeth Myrddin Wyllyt a'r rhain i gyd, ebe un hanes, i'r Ty Gwydr yn Ynys Enlli.

1. Dyrnwyn, cledd Rhydderch Hael; yr hwn, pan dynnid o'r wain, ai'n dân o'i ddwrn hyd ei flaen.

2. Llen Arthur, yng Nghernyw. Pwy bynnag a'i gwisgai, ef a welai bawb, ac ni welai neb fo.

3. Pais Padarn Beisrudd. I fonheddig y gwasanaethai, ond i angwr ni wnai.

4. Mantell Tegau Eurfron; yr hon ni weddai i wraig aniwair, ac nis cuddiai; ond hi guddiai wraig ddiwair hyd at y llawr.

5. Cyllell Llawfrodedd Farchog; a wasnaethai ar bedwar gŵr a'r hugain o'r bwrdd bwygilydd.

6. Dysgl Rhagen Rhydderch ysgolhaig. Dymunid y bwyd a fynnid arni, fe'i ceid yn barod.

7. Gwyddbwl Gwynddolau ap Ceidio,—y cloriannau'n arian, a'r gwyr yn aur; a hwy a chwareuent eu hunain pan deflid y disiau.

8. Ygalen Tudno Tudclyd, yr hon a lymhae arf pob dewr ac a bylhae arf pob llwfr.

9. Corn Brangaled o'r Gogledd; y ddiodyd a ddymunid a gaid ynddo.

10. Cebustr Clydno; y march a ddymunid ei fod ynddo, fe fyddai.

Dywed rhai mai'r degfed tlws oedd Modrwy Luned; pwy bynnag a'i gwisgai fe welai bawb, ond ni welid ef.

11. Pair Dyrnog Gawr, yn yr hwn ni byddai bwyd gŵr llwfr ddigon byth; ond bwyd gŵr dewr a ferwai ddigon yn y man.

12. Caer neu Gadair Morgan Mud Mwyntawr; y neb a elai ynddo, yn y lle y dymunai ei fod, fe fyddai.

13. Mwys Gwyddno Goronhir; bwyd i un gŵr a roid ynddi, a bwyd i gannwr a geid ynddi pan egorid.

## DYRYS-AIR.

**R**HOER tair rhan o groes a chylch crwn i ganlyn,  
 A dau hanner cylch a llin syth i'w dderbyn;  
 Dau coes i waered i'r triongl sydd i fyny,  
 A dau hanner cylch a chylch i ddibennu;  
 Ac yna ceir gweled yr arddangosiadol,  
 Rywbeth mae miloedd yn garu'n ormodol.

—Y gair yw TOBACCO.

## BETH DDYWED Y CYMYLAU?

**D**YWEDWYD dro yn ol y gallasai pob dim yn y byd mawr materol o'n cwmpas lefaru. Y cwestiwn mawr yw,—A dym ni yn deall eu hiaith? Awn rhagom, weithian, i wrandaw beth ddywed y cymylau.

Tybia rhai y sugnir y dwfr a orwedda ar wyneb y ddaear i fyny i'r awyrgylch gan yr haul. Ond nid felly. Aiff i fyny'n ddistaw, raddol, yn union megis y cyfyd yr ager o'r dwfr berwedig yn y tegell; ond nid am yr un rheswm. Cyfyd yr ager o'r dwfr yn y tegell am ei fod yn berwi. Os na ferwa, ni chyfyd ager. Nid felly gyda dyfroedd wyneb y ddaear. Nid yw y môr yn berwi. Cyfyd ager oddi yno trwy ddylanwad gwres yr haul yn wastadol, yn anweledig, yn ddistaw. *Ebullition* y gelwir cyfodiad ager o'r dwfr yn y tegell; *evaporation* y gelwir cyfodiad ager o ddyfroedd wyneb y ddaear. Aiff ymlaen yn wastadol. Nid oes eisiau gwres i wneyd dwfr yn ager. Wnewch chwi sylwi ar yr eira y gauaf nesaf? Os mesurwch ei drwch un adeg, a thrachefn ymhen ychydig oriau, bydd ei drwch yn llai. Aeth ei wyneb yn ager, serch oerni y dydd; ymhen ychydig eto diflanna oll. Ni ddiflannodd am byth ychwaith, mae'n bod o hyd. Yr un faint o fater yn union sydd yn y byd heddyw a'r diwrnod y crewyd ef. Mae mater yn anifethadwy. I fyny acw yr aeth yr eira; mae'n awr yn ager gwyn yn entrych nef.

Awn am ferdaith gyda'r ager dwfr i fyny acw, ymhell uwchlaw wyneb pantiog y ddaear. Bron nad wy'n dychmygu clywed y darlennydd yn dweyd ei fod wedi fy nghornelu, canys myn ofyn dau gwestiwn. Os yr un yw ager y tegell ac ager dyfroedd y ddaear, ac os yw ager dyfroedd y ddaear yn ymgodi'n anweledig, pahan nad yw ager y tegell neu ager y peiriant acw yn anweledig, canys gwelaf ef yn ymgodi'n bentyrtau tua'r nef? Nid yw ager (*vapour*) yn weledig o gwbl. Ond pan ddaw i gyffyrddiad âg oerni yr awyrgylch, yna bydd i'r gronynau (*molecules*) anweledig ymglymu y naill wrth y llall, hyd nes ffurfio gronynau bychain gweledig o ddwfr (*steam*). Crynhoad (*condensation*) y gelwir hyn. Sylwyd ar yr ager gwyn gweledig yn codi o'r peiriant, ond pe galledid myned i mewn i'r peiriant, neu pe byddai y peiriant oll o wydr, a chaniatau iddo fod yn llawn o ager, galledid gweled nad oes dim uwchben y dwfr; byddai syllu trwy yr ager yn gyffelyb i edrych trwy ffenestr, er fod pwysau yr ager yn aruthrol. Wedi cyrraedd ymhell uwchlaw wyneb y ddaear, ffurfia ei hun i'r pentyrtau prydferth hynny sydd yn nodweddiadol ohono. Gelwir hwynt yn gymylau.

Dywedasoch un tro fod y ddaear yn atdynnu pob gronyn o fater arall, a phob gronyn yn atdynnu y ddaear. Os yw felly, ac os mater

yw dwfr, ac os dwfr yw ager, paham yr aiff i fyny? Os mater yw, i lawr ddylai ddod; ond i fyny yr aiff. Nid oes yr un ddamcaniaeth wyddonol foddhaol wedi ei gosod allan eill egluro y pwnc dyryslyd hwn. Credir fod gan uchel awelon (*currents*) yr awyrgylch ddylanwad neillduol ar y gronynau dwfr, sef y cymylau, trwy eu cadw mewn symudiad gwastadol. Os bydd i'r awelon ymlonyddu, yr hyn gymer le, bydd i'r gronynau bychain ymgasglu a disgyn megis gwlaw hyd wyneb y ddaear. Disgynnant, megis gronynau ereill o fater, trwy ufudd-dod i ddeddf atdyniad.

Nid oes yr un ffurf o gwmwl yn hollol setydlog, symudant yn wastadol. Gwelir un o'r ymddangosiadau prydferthaf yn yr awyrgylch pan syllir ar gwmwl neillduol yn myned trwy ei fynych gwrs o gyfnewidiad. Un tro diflanna, dro arall a'n fwy.

Credir hefyd fod y gronynau mân o ddwfr yn gynhwysedig o awyr tu fewn. Os felly, byddant lawer ysgafnach na diferyn o ddwfr yn hollol o'r un maintoli. Fe allai hefyd fod a wnelo nerthoedd trydanol rywbeth a hyn.

Ni chaniata gofod i ni egluro y gwahanol ffurfiau i'r rhai y rhennir cymylau, nac ychwaith yr arwyddion gesglir oddiwrth eu hymddangosiadau. Clywir rhai yn grwgnach oherwydd y tywydd yn aml, ac meddant,—“Lleuad newydd, bydd cyfnewidiad yn y tywydd.” Ond nid felly. Bydded i bawb gofio hyn unwaith am byth. Nid oes yr un iod o gyd-berthynas, hyd y gwyr gwyddonwyr galluocaf yr ugeinfed ganrif, cydrhwng y lleuad a'r tywydd; nid oes gan y lleuad y mymryn lleiaf o ddylanwad ar y tywydd. Felly hollol ddiwerth a gwastraffus ydyw ymadroddi o berthynas i undeb y lleuad a'r tywydd. O berthynas i hyn, ebai Mr. W. Christie, y seryddwr brenhinol, yn arsyllfa Greenwich,—

“Nid oes y mymryn lleiaf o amheuseth o barthed i gyd-berthynas y lleuad a'r tywydd. Os oes perthynas, nid yw ond bychan iawn, canys nis canfyddwyd dim o'r fath hyd yn hyn. Mae wyneb y lleuad mewn symudiad parhaus, felly hollol ffol ac ofer ydyw y syniawd o berthynas i symudiadau y nod.”

Ebai prif swyddog Swyddfa y Tywydd, Llundain,—

“Nis gall yr un yn gyflawn yn ei synwyrâu gredu fod a wnelo y lleuad ddim a'r tywydd. Mae symudiadau ystormydd dros wyneb y ddaear yn terfynu y ddadl. Os bydd ystorm yn yr Iwerddon pan fo'r lleuad yn llawn, bydd yn dywydd teg yng Nghymru, er mai yr un lleuad sydd yno ag yng Nghymru.

Perthyn i'n daear ni mae y tywydd. Ymhell i fyny uwchlaw y cymylau, yno mae'n glir. Byd felly yw y lleuad. Nid oes tywydd yno, yno mae y wybren fyth yn glir. Hyn fydd hanes y ddaear.

**CYDYMDEIMLAD.**

**CYDYMDEIMLAD** ydyw'r allwedd  
 Aur sy'n agor calon dyn,  
 Ia oer culni, oerfelgarwch,  
 Dodda ymaith un 'r'ol un ;  
 Gydymdeimlad pur di-lyth,  
 Aros yn ein byd ni byth.

Cydymdeimlad ydyw'r angel  
 Sy'n melysu ingoedd mawr,—  
 Balm a ddyry'n nos yr anial  
 I ffinderog blant y llawr ;  
 Gydymdeimlad, angel gwyn—  
 Lleddfa'm mhryder yn y glyn.

Gydymdeimlad, ti a genaist  
 Wir farddoniaeth llawn o swyn,  
 I ddynoliaeth ysig ofnus—  
 Tannau'th delyn sydd yn fwyn ;  
 Cydymdeimlad Calfari  
 Drodd bob nos yn ddydd i ni.

## COEL HYNOD.

**G**WLAD y breuddwydion a chartref dychymyg yw Cymru. Ceir llawer coel rhyfedd, ac nid mantais i gyd yw eu diflaniad. Clywais y canlyn gan hen wr deg a phedwar ugain oed, a dywed ef ei fod yn wir bob gair.

Arferir mewn mannau o'r wlad wneyd yr hyn a elwir "rhamanta." Ystyr hyn yw ceisio trwy ryw arferion neillduol gael goleuni ar y dyfodol, ac yn arbennig ceisio dyfalu pwy fydd gŵr neu wraig yr un sy'n rhamanta. Un ffjordd o wneyd hynny ydoedd cymeryd dwy esgid a'u gosod cyn myned i gysgu ar draws eu gilydd i ffurfio y llythyren, gan ddweyd yr un pryd y rhigwm a ganlyn,—

I put my shoes in the shape of a T,  
Expecting my true love I shall see;  
The shape of her body and the colour of her hair,  
And the day clothes she doth commonly wear.

Gwnaed hyn gan lanc ieuanc un noswaith, ac aeth i orffwys. Yn ei gwsg, gwelai eneth landeg yn ei gyfarfod ar lwybr oedd yn myned ar hyd un o'r caeau a berthynai i'r ffarm. Cyfarchodd hi, a buont yn ymddiddan â'u gilydd am yspaid, canys llawer oedd gan y naill i ddweyd wrth y llall. Cymerodd hyn oll le yn ei gwsg.

Ymhen tipyn o amser ar ol hynny, aeth y llanc i ardal arall i ymofyn defaid, ac arweiniwyd ef i mewn i dy neillduol. Wedi iddo eistedd i lawr, daeth merch y ty, na welodd erioed mohoni o'r blaen, a lluniaeth; ac er syndod iddo, pwy ydoedd ond y llances a welodd ychydig gynt yn ei freuddwyd ar lwybr y cae. Dywedodd wrth gyfaill iddo mai honno fyddai ei wraig. Hynny a fu. Priodasant cyn bo hir iawn. Trodd y ferch yn wraig dda, a bu yn hynod o wasanaethgar yn y Pentre tra y bu byw. Mae'r hen wr eto yn fyw ac yn heinyf i ddweyd yr hanes.

O.

## DYCHMYGION.

**L**LAWER awr hapus dreuliwyd ar hirnos gauaf, yn hen amaethdal Cymru, i ofyn a dyfalu dychmygion. Croesawid dychymyg newydd â llawenydd mawr. Dyma ddychymyg yn mynd a'r meddwl i gyfeiriad digon prudd,—

"Y sawl a'i gwnaeth nid rhaid iddo wrtho  
A'r sawl a'i prynnodd ni fyn ef mono;  
Y sawl a'i cadd, ni wyr ef eto  
Pa'r un a wnaeth a'i gael ai peidio.

"Dychymyg yw, a'r peth yw ARCH."

## CAMGYMERIAD.

[Mae cnewyllyn y gân-ystori ganlynol yn ffaith,—yn ddigwyddiad gymerodd le mewn owr o'r wlad hon, o fewn cof yr awdwr.]

**H**EDDYW Bob, un waith yn rhagor  
Hwylia am y cefnfor mawr,  
Mae y llong i godi angor  
Bore fory gyda'r wawr ;  
Nid oes helynt *mawr* i'w weled,  
Er fod Bob yn troi ei gefn,  
Am ei fod yn arfer myned,  
Ac yn dod yn ol drachefn.

Gedy'r llong y porthladd prysur,  
Rhywga'i ffordd trwy'r tonnau  
gwrdd.  
Ac mae Bob heb un anghysur  
Wrth ei orchwyl ar ei bwrdd ;  
Drannoeth wedi'r hwylid allan  
Cafwyd ar y feisdon wleb,  
Oerllyd gorff rhyw longwr truan—  
Rhywun nas adwaenai neb.

Hysbysebu ei wedd-nodau  
Wna'r swyddogion yn ddi-fai,  
Er cael gafael mewn perth'nasau,  
Neu gyfeillion, os oedd rhai ;  
Cyfatebiad o'r cyflawna 'n  
Ngwraig a drych y marw sydd  
I un arall hwyliodd allan  
Fore y blaenorol ddydd.

Rhiaint Bob uwch y darnodiad  
Synfyfyrant. Ebai'r fam,  
Gyda deigr yn ei llygad—  
"Och, ai hwn yw'm Bob di-nam?"  
Cyn i fys yr awrlais dywys  
Dwy-awr dros ei wyneb claer,  
Uwch corff marw morwr erys  
Rhiaint Bob, ynghyda'i chwaer.

Credu, 'rol petruso rhywfaint,  
Wnaeth y tad a'r fam ynghyd  
Fod perthynas mab a rhiaint  
Rhyngddynt hwy a'r marw mud ;  
Ond i'r ferch mae'n anghedadwy—  
Dyma'r geiriau ganddi gawd,—  
"Na chamsyniwch mor ofnadwy,  
Na, nid dyna Bob fy mrawd."

Ond 'doedd dim yn tycio weithion  
I'r rhieni calon friw  
Ond cael hawlio'r gwael gweddillion  
Fel eu hanwyl blentyn gwiw ;  
Tad a mam wnaent dyner gladdu  
Hoffus fab yn ol y cnawd,  
Unai'r ferch—ond nid i dalu  
Teyrnged olaf serch i'w *brawd*.

Aeth wythnosau'n fisoedd meithion  
Er pan welwyd cau y bedd,  
A dechreuai 'stormus ddwyfron  
Tad a mam ail gasglu hedd ;  
Ond pan welent draw ar donnau,  
Longau'n nesu at y tir,  
Prudd adgofent ddychweliadau  
Bob o lawer mordaith hir.

Ond, ryw nos yn Alban Arthan,  
Yn mhen amser,—tra yn gry  
Y dolefa'i'r gwynt tu allan,  
Clywid curo drws y tŷ ;  
Gwen y ferch wrth roi atebiad,  
Dafai waedd fel hyn ar glyw,—  
"Diolch am y camgymeriad,  
Dyma Bob fy mrawd yn fyw."

Bob, o'i forawl bererindod,  
Fel arferol, ddaeth yn awr ;  
I'w rieni, dod o'r beddrod  
Wnaethai, er eu syndod mawr ;  
O ! 'r fath fendigedig noson !  
'Roedd cael Bob yn ol, yn fwy  
Na llawn dâl am gladdu'r estron—  
Iawn digonol gawsant hwy.



LLANBRYNMAIR.

J. Thomas.





EGLWYS LLANBRYNMAIR.

G. H. Peate.

**LLANBRYNMAIR.**

“Llan-bryn-mair, llun bron merch.”

**S**AIF Eglwys y Santes Fair Fagdalen ar fryncyn amlwg,—“Llun bron merch,” ebe rhigwm. Adeiladwaith cyfnod y Norman, ar ffurf croes, ydyw. Perthyna iddi amryw neillduolion henafol, megis ei muriau trwchus; ffenestr ogleddol ar y dull Seisnig union-syth, gydag un cwarel o wydr lliwiedig y Canol Oesau; colofn dderw enfawr, ar gydiad y groes; y bedyddfan; a'r clochdy coed a saer-niwyd o un brenhinbren, ynghyda thair cloch soniarus, y gloch fach, y gloch ganol, a'r gloch fawr. Wele yr argraff arnynt,—

- i. Gloria in excelsis Deo. 1665.
- ii. God save sih chvrch ovr King and Realme. 1665.
- iii. Prosperity to this Parish Church. A.R. 1759.

Adgyweiriwd hi yn odidog ragorol yn 1902 gan y rheithor, y Parch. D. O. Morgan.

Yng nghysgod y muriau mawrion yr hun a amryw o gewri  
Llanbryn-mair, megis Wmffra Dafydd ab Ifan; Gwilym Cyfeiliog;  
Ywain Meirion, "baledwr heb waelodion;" y Parchedigion  
J. Roberts, hynaf, a Richard Tibbot.

Cenwch, hoff glychau, hwian hen ffryndiau  
Gysgant o'u gloesau o dan yr yw,  
Nes adsain caniad cloch yr Adgyfodiad  
Fonwentau'r cread ar Fore Duw;  
O, cu gan fy nghalon yw nodau mwynion,  
Hen a newyddion, clych Llanbryn-mair;  
Eu ding dong dwamel ddaw ar yr awel  
Fel goslef angel ar aden glaer.

AP CEREDIGION.



CWĒSTIYNAU O'R BEIBL.

- I. **B**ETH yw y gair mwyaf sydd yn y Beibl?—Maher-shalal-  
has-baz (Esaiah viii. 1, 3).
- II. Pa faint o gantorion oedd yn y Deml?—Pedair Mil  
(1 Cron. xxiii. 5).
- III. Beth oedd nifer y diarhebion a gyfansoddodd Solomon?—  
Tair Mil (1 Bren. iv. 32).
- IV. Beth oedd nifer gwyr meirch Solomon?—Deuddeng Mil  
(1 Bren. iv. 26).
- V. Pa faint fu Adda fyw ar ol geni Seth?—Wyth can mlynedd  
(Gen. v. 4).
- VI. Beth oedd hyd gwely Og?—Naw cufydd (Deut. iii. 11).
- VII. Pa le y bu Rahel farw?—Yn nhir Canan (Gen. xlviii. 7).
- VIII. Beth olygir wrth y gair "Menybr"?—Carn neu goes  
unrhyw offeryn, megis bwyall (Deut. xix. 5).
- IX. Pa ystyr sydd i'r enw Abraham?—"Tad llawer o genhedl-  
oedd" (Gen. xvii. 5).
- X. Beth yw y ddinas hynaf yn y byd?—Damascus (Gen. xiv.  
15).
- XI. Cyffelyb i beth yw newyddion da o wlad bell?—I ddyfroedd  
oerion i enaid sychedig (Diar. xxv. 25).
- XII. Beth sydd well nag ennill dinas?—I ddyn reoli ei ysbryd  
ei hun (Diar. xvi. 32).

## JOHN POWELL Y RHOSDIR.

**G**ANWYD John Powell yn y Rhosdir, Mwnglawdd, yn y flwyddyn 1790. Sais oedd ei dad a Chymraes oedd ei fam, a John oedd yr hynaf o saith o blant. Disgydd ei fam o deulu Harris,—un o'r teuluoedd hynaf yn y plwyf. Profodd ei hun yn ddynes ddiwyd, ddarlengar, a meddylgar, ac er yn ieuanc yr oedd yn wir grefyddol. Rhoddodd fanteision addysg oreu y cyfnod hwnnw i'w phlant, a dysgwyd crefft i bob un o'r bechgyn. Saer maen oedd crefft John Powell, a gwasanaethodd hefyd fel goruchwylwr tir o dan gyngor dinesig Caerlleon. Fel saer maen, cydnabyddwyd ef gan Mr. Burton, Plas y Mwnglawdd, yn ddyn manwl ac yn grefitwr galluog, a gweithiodd iddo ef, bron er yn fachgen, hyd ddiwedd ei ddyddiau. Efe gododd y bont dros yr afon Clywedog, adnabyddir wrth yr enw Pont y Nant. Byddai, rai prydiau, yn cael ei alw i Gaerlleon, a manau ereill cysylltiol â'i swydd, ond gofalai ddod gartref heb aros noswaith yn unman. Llawenychai wrth weld ei fam yn ei aros wrth fwrdd y gegin, wedi dydd o olchi a gwasanaeth arall perthynol i amaethdy, yn darllen ei Beibl, ac arwyddion amlwg ei bod yn llawn fwyhau y gwaith, heb deimlo dim blinder na llesgedd oddiwrth bwys y dydd.

Nid oes sicrwydd pa bryd y daeth at grefydd, ond pan yn ieuanc dechreuodd wrando ar bob pregethwr ddeuai i'r ardal. Daeth o dan argyhoeddiadau dyfnion, dwys. Hoffodd ddarllen, ac astudiodd dduwinyddiaeth, ac fel athraw duwinyddol y dylanwadodd ar feddwl dosbarth Adwy'r Clawdd yn fwy na'r un dyn arall yn ei ddydd a'i dymor. Yr oedd ei awydd am wybodaeth yn crythau yn feunyddiol, ac wedi gweithio drwy y dydd ymhell ac yn agos ar hyd a lled y wlad, treuliai lawer awr o'r nos i ddarllen a myfyrio. Ac ar dywydd caled yn y gaeaf rhoddai ei amser i ysgrifennu traethodau ar bynciau crefyddol. Yr oedd ei ddylanwad yn crythau, dewiswyd ef yn warden i eglwys y plwyf, a thalai gyflog y person gyda'r degwm dderbynai oddiwrth ffermydd yn y plwyf.

Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd yn Adwy'r Clawdd, a daeth yn fuan iawn i gael ei gydnabod fel yr athraw goreu ganddynt. Daeth i feddwl Mrs. Rogers, Plas Mostyn, mai priodol fyddai dechreu achos crefyddol yn y Bwlch Gwyn. Soniodd am hynny wrth Hugh Morris y teiliwr, ag oedd ar y pryd yn gweithio yn y plas. Penderfynodd Hugh Morris, a'i gyfaill, Robert Llwyd, Pen Nant, ddechreu Ysgol Sabbothol mewn llofft fechan a berthynai i dy sydd yn ymyl y lle y saif "Peniel" yn awr, ac ymhen ychydig amser, dewiswyd John Powell gan eglwys yr Adwy i'w cynorthwyo. Aeth yno, a chasglwyd at eu gilydd bobl a phlant oedd yn ymhyrfydu mewn chwareu ar y Saboth. Enillwyd llawer i'r ysgol, i'r

cyfarfod gweddi a'r oedfa, ac mewn canlyniad i'w hymdrechion sefydlwyd yno eglwys yn y flwyddyn 1830, pryd y dewiswyd John Powell a Heth Jones yn flaenoriaid. Y mae yno heddyw achos gwir lwyddiannus.

Fel yr oedd haul ei fywyd yn dechreu machlud, aeth yn ol i'r Adwy. Cerddai i'r oedfaon yn fyddlon fore a hwyr, hyd nes y dechreuwyd yr achos yn Bethel. Wedi hynny, ymsefydlodd yno, a ffurfiodd ddosbarth darllen wythnosol. Clywais amryw yn tystio, o flaenoriaid Methodistaidd yn y dosbarth hwn, mai y blynyddau dreullasant yn nosbarth John Powell oedd y blynyddau goreu yn eu hanes. Yma y gwasanaethodd ei Arglwydd fel blaenor ac athraw, hyd nes y syrthiodd y llen i lawr ar ei fywyd ym Mehefin 1870, yn 30 mlwydd oed. Claddwyd ef ym mynwent yr Adwy, a gosodwyd cofn ar ei fedd.

### Y MORWR BACH.

**A**R lan y môr un diwrnod  
Fe safai bachgen bach,  
Chwareuol ar y tywod

Dan ganu'n lloa ac iach ;  
Edrychai ar y tonnau  
Yn dawnsio uwch y lli,  
Fel pe am ddod i chwarau,  
Ger bron eu cyfaill cu.

Fe wena'r plentyn bychan,  
A gwenai'r tonnau'n ol ;  
'Roedd grudd y weilgi lydan  
Fel perlog wiith y ddôl ;

Dan swyn y tonnog ddwndr  
Fe ddwedai'r bachgen bach,—

" Mi fynnaf fynd yn forwr,  
Os byddaf byw ac iach.

" Mae'r môr, mi wn, yn arw,  
Er nad yw felly'n awr,  
Ond hwylio wnaif hyd farw  
Ar gefn y weilgi mawr ;  
Ac os daw storon weithiau  
Heb obaith bron cael byw,  
Mi ganaf rhwng y tonnau,  
Fy Nhad sydd wrth y llyw."

AFANYDD.

### HEN FFYNNON LOEW'R NANT.

**R**HWNG dolydd maith gwyrddeis-  
Lle mae y blodau heitrd [ion,  
Yn gwasgar mil o swyaion  
Nes swyno meddwl beirdd.  
Mae llannerch neillduedig,  
Am dani, coflon gant  
Sydd gennyf, yno'n unig  
Mae ffynnon loew'r nant.

Chwareuais fil o weithiau  
O'i hamgylch mewn boddhad,  
Estroniaid oedd gofidiau  
Yn yml ty fy nhad ;

Mae hiraeth ar fy nghalon  
Am eto gwmni'r plant,  
Ac yfed o gysuron  
Hen ffynnon loew'r nant.

Mae'r ffynnon yno'n hollol  
Fel yn fy amser i,  
Ond llawer gwyneb siriol  
Byth mwy ni welaf fi ;  
Er na chaf weld y cyfnod  
Chwareuwn gyda'r plant,  
Caf dreulio ambell ddiwrnod  
Wrth ffynnon loew'r nant.

CYDGAN.—Mor hapus oedd y chwarau  
Oedd gennym ni yn blant,  
Mae mil o gyfrinachau  
Wrth ffynnon loew'r nant.

*Bettws y Coed.*

DAVID THOMAS, (*Deiri Tudur*).

## I'R MYNYDDOEDD.

[Dyma yr ysgrif olaf o waith y diweddar Gwilym H. Thomas, Cwmbwrla. Bu'r llenor ieuanc addawol hwn farw yn mlodau ei ddyddiau. Gwnaeth waith pur a dyrchafol yn ystod ei fywyd byr.]

**A**R ddiwrnod hafaidd yng nghanol mis Medi, 1897, cymerais y cwch o Langollen i Berwyn, ac oddiar fy eisteddle gwelwn olygfeydd ysblenydd y dyffryn. Tua milldir i'r dde i mi gwelais Gastell Dinas Bran, cartref Myfanwy Fechan, yn codi i fyny yn syth; a thu ol iddo mae creigiau ysgythrog a daneddog Eglwyseg, a mynydd gwaedlyd y Garth. Ar fy chwith yn yr myl 'roedd afon gyfoethog y Ddyfrdwy, uwch ei phen mae'r Geraint yn sefyll yn uchel ei ben, wrth droed yr hwn saif tref henafol Llangollen. Nid oes tlysach lle yng Nghymru na'r ffordd ar lan y gamlas yma,—prydforthwch y mynyddoedd, y coedydd, a'r afon. Wedi cyrraedd y Berwyn, gosodais fy nhraed ar baradwys fechan Cymru, lle cyn cyfoethog, amrywiol o natur. Ychydig iathenni ymlaen i enau'r gamlas mae'r "Horse Shoe Falls," yn cael ei ffurfio gan afon y Ddyfrdwy; yn nes ymlaen saif eglwys Llantysilio, lle gorwedd Syr George Osborne Morgan yn nhawelwch marwolaeth ei mynwent henafol. Ar fy ne gwelwn Bryntysilio, cartref haf Syr Theodore Martin; ac ar fy chwith mae brenin y Berwyn yn codi i fyny.

Wedi i mi groesi pont gadwyn y Ddyfrdwy, a dringo i fyny i'r heol, cerddais ychydig a throais ar y dde, a chroesais bont rheilffordd y Berwyn, a chefais fy hun ar yr heol oedd yn arwain i unigrwydd y mynyddoedd, a milldir o gysgodolion y coedydd yn cadw pelydrau'r haul oddiwrthyf. Wedi i mi ddyfod allan o unigrwydd y coed, yfais yn helaeth o awelon iachus y glyn. O'm blaen, uwchben prydforthwch y Ddyfrdwy, mae pentref bychan tawel Llandynan yn gorwedd yng nghesail mynydd Pen Ffordd Ole.

Wedi ychydig gerdded ar lethrau'r mynydd, gwelais y wiwer yn meidio yn chwim o gangen i gangen, a'r cwningod yn rhedeg o lwyn i lwyn. Gwelwn trithylliaid yn gwau drwy eu gilydd yn nyfroedd grisialaidd yr afon, ac ambell un yn codi ei ben i'r wyneb i gael eiliad o yfed awelon y dyffryn. Clywais gôr yr adar yn canu can o ddiolchgarwch i Dduw, a'r ehedydd yn dyrchafu i'r nefoedd, yn canu nodau melus yr alaw, a'r llinosen, y'ronfraith, a llais melodaidd y fwyalchen yn ymuno yn y gyngphanedd,—

"O mor ddedwydd, O mor gerddgar, ydyw côr yr adar mwyn."

Wedi colli golwg ar ddyn a dynes, ty a thwlc, cefais fy hun yng nghanol unigrwydd a thawelwch mynyddoedd glannau'r Ddyfrdwy,

wedi fy nghloi i fewn gan ganllawiau mawrion mynyddoedd cedyrn Meirion. Ar y dde, tuhwnt i'r afon yn y pellder, gwelwn Foel y Gamelin a Moel Morfydd yn codi eu pennau i fyny i'r nefoedd, a mynyddau llai enwog yn harddu'r glyn. Gwahoddwyd fi i ddringo i ben eu copâu, ac yfed yn helaeth o'u hawelon adfywiol. Dyna gar-edigrwydd gan y mynyddoedd, caredigrwydd Duw. Wrth ddechreu dringo teimlwn fy nghorff yn llesg, ond yr oedd awel falmaidd yn taenu dros y mynydd yn fy mywhau i gyd, a phob cam ddringwn yr oedd y llesgedd yn lleihau, a theimlwn fy hun yn myned i fyny mor ysgafn a barcutan. Dringais gan glywed swm treigliadau tonnau yr afon, a sain gerddorol hyfryd y ffrwd a nant fechan risialaidd y mynydd. Wedi cyrraedd copa'r bryn, 'roedd pob blodeuyn a llysieuyn fel pe am ragori y naill ar y llall, a'u perarogl yn llenwi'r awyr. O olygfa ogoneddus! Hawdd yw addoli yn nhawelwch y mynydd. Ni chlywir llais y dynol yma, mae'r Duwdod yn siarad ymhob man,—

Gollyngais saeth-weddi o'm calon i'r nefoedd,  
I ddiolch i Dduw am dawelwch mynyddoedd;  
Bu'r Iesu ei hunan yn treulio nosweithiau,  
Mewn cymun â'i Dad ar bennau mynyddau.

With gerdded ar ochrau'r mynydd, gwelwn gelynen mor lased a'r wybr, yn llwythog o rawn aeron cochion Nadolig,—golygfa hardd yng nghanol mis Medi. Wedi teithio tipyn gadewais y mynyddoedd a chefais fy hun ar y brif heol i'r Berwyn, a chymerais y trên chwech y prydawn i Langollen yn ol.  
I'r mynyddoedd, blant Cymru anwyl.

### Y DDAU AIR.

(REFLYCHIAD).

**R**HYW un lefarodd—dim ond gair,  
Yn ddryg-air brwnt aeth ymaith  
Fel saeth drydanol picell ddur,  
I galon bur cydymaith;  
A chyfeillgarwch er ei rym,  
A drodd yn llym elyniaeth.

Ac ar ol hwn, i'r galon ddiig,  
Un gair caredig yrrwyd  
A drodd yn fendith er iachau  
Y cwyfiau a agorwyd;  
Daeth gwenau silwaith dros y wedd,  
A hedd yn ol enillwyd.

*Llangower.*

Er hyn, 'roedd brath y dryg-air du  
Dan y gair cu'n ymguddio;  
Er byw mewn heddwch fel o'r blaen,  
'Roedd staen y gwaed o dano—  
Un peth yw maddeu naill i'r llall,  
Peth arall yw anghofio.

Pe baem ond cofio pa mor chwim  
Mae llafar llym yn gwanu;  
O fel y profem yn ein pair  
Bob gair cyn ei lefaru;  
A gwelem negeseuon iaith,  
Mor berffaith ag anadlu.

*Cusr.*

## CI YN DYHUDDO.

UN deallus mewn gwirionedd yw y ci, ac y mae hynny yn rhoddi gwerth mawr arno fel gwas da a chyfaill fyddlawn i ddyn. Mor llon a llawen ydyw pan yn derbyn canmoliaeth ei feistr, mor druan ac anedwydd yr ymddengys pan dan gerydd a gwg ei feistr.

Ar droion, a hynny ar gyfrit y gymdeithas agos, hir, a chynnes, sydd rhyngddo a dyn, braidd na thuethodd ni i gredu fod ynddo ryw fath o gydwybod, fechan ac eiddil, yn dechreu ymddadblygu o'i fewn. Braidd na thybiem, ar adegau felly, ei fod yn deall y gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg. Ynte dyma y dybiaeth gywiraf,—mai cofio y mae mai gweithred yn dwyn cerydd sicr yw un, ac mai gweithred yn dwyn canmoliaeth yw y llall? Cof, ac nid cydwybod, sy'n rheoli y fuchedd; pe y buasai Duw wedi ei gynysgaeddu a chydwybod—y gem amhrisiadwy hwnnw—buasai wedi ei goroni hefyd, mi gredaf, âg anfarwoldeb.

Yr oedd gan ryw foneddwr hoff gi o'r enw Fido; ond rhyw ddiwrnod yr oedd Fido wedi troseddu trwy ymosod ar gath y ty nesaf, a lladrata ei bwyd oddiarni. Pan wrthi yn llywio'r bwyd lladrad, pwy ddaeth heibio ond ei feistr; ac mewn ofnog ffrwst, ciliodd Fido mewn cywilydd euog i'w gynllwst (*kennel*) i ymguddio.

Ymhen rhyw hanner awr wedyn, yr oedd y boneddwr yn eistedd yn ei gadair freichiau wrth y tân yn darllen ei bapur newydd, a dyna gnoc ar y drws, agor, a phwy oedd yno ond Fido gyda *slippers* ei feistr yn ei geg, a rhyw olwg bryderus, yswatiog, ac hanner ofnog arno,—y cwestiwn "Ai tybed y llwydda fy nghynllun, ai tybed y caf faddeuant," yn argraffedig ar bob aelod iddo.

Torrodd gwên dros wyneb ei feistr, dealodd hi, ac mewn eiliad yr oedd wrth draed ei feistr yn ei hen le ar yr aelwyd, a'r heddwch rhyngddynt wedi ei selio mewn maddeuant.

H. BRYTHON HUGHES.

## Y DRYW BACH.

Clywch alaw lon iach  
 Drwy big y dryw bach  
 'Does tlysach, amgenach am ganu;  
 I Lywiwr ei les  
 O'r twyn ar y tes  
 Gyrr neges o'i fynwes i fyny.

O'i syw loches i lechu,—clywch y Dryw,  
 Cloch y drain yn canu  
 Alaw lon i'r cywlon cu,  
 Dan eithin wedi nythu.

❧ IVOR. ❧

Geiriau gan IEBAN GWYLLT.

Yr Alaw gan IVOR A. DAVIES.  
Y Gynghanedd gan J. G. THOMAS, G.T.S.C.  
Cwmyglo.

DOH Eŷ.

*mf*

d :- :m	s :- :d'	l :s :-	s :d :f	m :r :d	r :- :-
d :- :d	m :- :d	f :m :-	d :- :t,	d :s, :l,	s, :- :t,
"Wel - e	Fi yn	dy-fod,"	Llef - ai'r	Meich - iau	gwiw,
m :- :s	s :- :s	l :d' :-	s :- :s	s :- :m	r :m :f
d :- :d	d :- :m	f :d :-	m :- :r	d :t, :l,	t, :- :r

m :d :f	l :- :r'	d' :t :-	d' :- :d'	m.s:f :r	d :- :
d :- :d	d :- :f	m :r :-	s :f :m.r	d.m:r :t,	d :- :
Ad - sain	creig - iau	Sa-lem,	"Wel - e'n	dod mae	Duw;
m :- :f	f :- :l	s :s :-	s :- :s	s :l :s.f	m :- :
d :ta, :l,	f :- :r	s :s :-	m :r :d	s, :- :s,	d :- :

*cres*

r :- :r	s :- :f	l :s :-	d' :- :d'	t :- :l	t :- :-
t, :- :d	r :- :ma	r :r :-	s :- :m	r :- :r	r :- :-
Gad an -	feidr - ol	fawredd	Nef y	nef yn	awr;
s :- :s	s :- :l	fe :s :-	s :- :s	s :- :fe	s :- :-
s, :- :l,	t, :- :d	d :t, :-	m :r :d	r :- :r	s :- :-

d' :t :l	s :- :d'	f :l :-	m :s :l	r :f :m.r	d :- :-
m :- :d	d :- :m	d :d :-	d :- :d	d :- :t,	d :- :-
Ar a -	wel - on	car-iad	Brys - ia i	barth - au'r	llawr."
s :- :f	s :- :s	l :l :-	d' :s :f.m	r :- :s.f	m :- :-
d :- :f	m :- :d	l, :f, :-	s, :m, :f,	s, :- :s,	d :- :-

Pa ryw fwyn beroriaeth  
Dreiddia drwy y nen !  
Pa ryw waredigaeth  
Heddyw ddaeth i ben !  
Miloeedd o angyllion  
Yno'n seinio sydd,  
"Ganwyd y Messiah,  
Heddyw daeth y dydd."

Dyma'r Hollalluog  
Heddyw ini'n Frawd !  
Dyma holl drysorau  
Duwdod yn y cnawd !  
Moroedd rhad drugaredd  
Lanwodd dros y llawr ;  
Perlau gwlad gogoniant  
Yndo ddaeth i lawr.





IVOR A. DAVIES.

**IVOR A. DAVIES.**

**M**AB ydoedd Ivor A. Davies i Mr. a Mrs. Davies, Snowdon Terrace, Llanberis. Ei dad yw *Assistant Overseer* y plwy, ysgrifennydd y Cyngor Plwy, ac ysgrifennydd y Bwrdd Ysgol. Ganwyd Ivor y dydd olaf o Fai, 1880. Derbyniodd ei addysg elfennol yn Ysgol y Bwrdd, Dolbadarn. Bu yn ddisgybl-athraw yn yr ysgol hon am bedair blynedd o dan y prif athraw, Mr. D. W. Thomas. Bu'n llwyddiannus i gael Ysgoloriaeth Frenhinol, ac

aeth yn athraw cynorthwyol i ysgol yn Essex. Oherwydd fod ei iechyd yn pallu, ar gais ei feddyg gadawodd y lle hwn, a daeth gartref am yspaid. Ar ol cryfhau, cafodd ei apwyntio yn athraw cynorthwyol i ysgol yn Iwer, yng nghwrr Llundain. Bu'n hynod lwyddiannus yma, a daeth yn fuan yn boblogaidd iawn yno. Cymerai ddyddordeb mawr i gael gan y plant Seisnig seinio y geiriau Celtaidd yn briodol. Yr oedd yn hoff iawn o gerddoriaeth, yn chwareuydd medrus ar y berdoneg a'r harmoneg. Priododd â Miss Angell, boneddiges o Ashwell, Hertfordshire, yn 1901; ac yn fuan apwyntiwyd ef yn athraw cynorthwyol i ysgol Cwm y Glo, ger Llanberis, o dan ei gefnder, Mr. J. G. Thomas, ac yn fuan iawn yr oedd wedi ennill serch y rhieni a'r plant, ac yr oedd ei ddosbarthiadau yn cael canmoliaeth uchel gan yr arolygwyr. Eisteddodd yn Rhyl yn mis Gorffennaf, mewn arholiad am drwydded athraw, a llawenydd yw dweyd iddo lwyddo.

Ond ni bu ei hangen arno ef. Tra'n aros yn Llandudno gyda pherthynas iddo, aeth i ymdrochi ar fore Gwener (ar ol yr arholiad crybwyllledig). A rhyfedd iawn, ychydig funudau cyn myned, eisteddodd wrth y berdoneg a chyfansoddodd alaw ar y geiriau "Wele Fi yn dyfod," yr hon a gynghaneddwyd yn ddiweddarach gan Mr. J. G. Thomas. Tra'n ymdrochi, ymddengys iddo gael ei lwyr orchfygu gan nerth y tonnau, a boddodd yng ngolwg ei briod, a llu o bobl, y rhai oedd yn hollol analluog i estyn ymwarded, er pob ymgais o'u heiddo. Cafodd angladd hynod o barchus, ac anfonwyd llu o goronblethau heirdd gan ei berthynasau, ei ddisgyblion, a chyfeillion hoff. Y mae ei goffadwriaeth yn berarogl yn yr ardal, ac yn esiampl eglur o le mawr y mae cymeriad hynaws, caredig, yn ei ennill yng nghalonau ein cydnabod. Yr oedd yn aelod gyda'r Anibynwyr yng nghapel Nant Padarn.

DEIGRYN HIRAETH.

### GOBATH Y CRISTION.

**T**I, fy Iesu, yw fy ngobaith,  
 Ti yw noddfa f'enaid gwan;  
 Arnat ti y gallaf bwyso,  
 Ynnot ti y dof i'r lan;  
 Pwyso wnaif ar werth dy aberth,  
 Ac ar rin dy ddwyfol waed;  
 Dyma sylfaen fy ngobeithion,  
 Crist yn graig o dan fy nhraed.

Talsarnau.

Os daw stormydd oer tymhestlog  
 I fy nghuro ar fy nhaith;  
 Anghediniaeth yn fy mygwrth  
 Mai oferedd fydd fy ngwaith;  
 Ond fy ngobaith byth ni syfla,  
 Credaf addewidion Duw;  
 Fry mae Ngheidwad, fry mae Mhriod,  
 Fry mae i' Arglwydd wrth y llyw.

R. ROBERTS.

## Y CEILIOG.

**M**AE y Ceiliog yn un o'n cyfeillion pluog mwyaf cyffredin. Gwelir ef ym muarth pob ffermdy, ac yn ymyl pob bwthyn.

Mae yn gydymaith boreuol iawn i ddyn. Efe yw un o'r adar cyntaf a ddofwyd o'r fforestydd. Ni wyr neb pryd y daeth yn aderyn gwâr, ac i drigo mewn hedd a llawenydd wrth gartrefleoedd gwahanol genhedloedd Ewrop. Ond y mae sicrwydd mai o Bersia y daeth gyntaf fel aderyn dof.

Ceir y Ceiliog heddyw yn ei sefyllfa wyllt yn ynsoedd India, ac yng nghanol coedwigoedd mawrion canol y wlad. Y mae ei blu yn ddu-felyn, a'i grib yn las-goch. Pan ferwir hwynt fel ymborth, y mae ei holl esgyrn yn ddu fel eboni; tra y mae esgyrn ceiliog ein gwlad ni yn wynion a disglaer.

Hysbysir nad oes yr un aderyn gwybyddus yn meddu ar fwy o ddewrder a gwroldeb, yn enwedig pan gynhyrfir ef i ymladd ag un o'i rywogaeth. Ni chymer ei drechu, pe y bai'r ornest yn parhau am oriau, a gorfod dioddef marwolaeth yn wobrwyr am ei ystyfnigrwydd. Y mae prit bobl y gwledydd hanner gwaraidd yn manteisio ar yr anian filain, wydn yma a'i meddianna. Y mae rhoi ceiliogod i ymladd a'u gilydd yn parhau i fod yn brif ddifyrrwch trigolion China, India, ac yn wir, drwy agos i holl wledydd y dwyrain, a mwynheir y creulondeb gwaradwyddus gan eu brenhinoedd a'u tywysogion. Yn hyn o fater cywilyddus, y mae Cymru wedi symud ymlaen, trwy yr efengyl ac addysg, i diriogaeth oleuach. Ond yr oedd ymladd ceiliogod mewn bri uchel ymysg bonedd Cymru dywyll gynt. I gadarnhau hyn, dygwn dystiolaethau o hen lawysgrifau prin. Mewn hen ysgrif-lyfr cyfrifon perthynol i ystiward o'r enw Wil Jones, oedd yn gweithredu dros dŷ ac ystad yr Anrhydeddus Thomas Bwcle, o'r Dinas, gerllaw tref Caernarfon, ceir y cronicliad hwn,—

“1710, Gorffennaf y 25ain. Galwodd yr Anrhydeddus am un penadur pan oedd ymladdfa ceiliogod Syr Williams yma.”

Y boneddwr a enwir ddiweddaf oedd Syr William Williams, Barwnig, o'r Faenol. Ceir crybwylliad llawnach am hynyma mewn dyddlyfr a ysgrifenyddwyd gan hen ferch ryfedd a gyfenwid yn Mrs. Baker, a ddaeth i Gymru o Loegr yn 1770, gan ei bod yn feddiannol ar weithfeydd mwn ger Dolgellau. Cyn bo hir daeth yn “howsgipar” i Huw Vaughan, Yswain, brawd hynaf i Syr Hywel Vaughan, y Barwn cyntaf o Hengwrt a Nannau. Fel yr arferid yn fynych gyda hen foneddigion atradus y cyfnod hwnnw

daeth yr is-sirydd a beili gydag ef i gymeryd gafael o blas Hengwrt a'r eiddo. Yn y cyfamser, gorfu i'r hen Mrs. Baker symud ei llety o Ddoluwcheogryd (a ynganir ar lafar "Dolch-owgryd"). Y mae sylwadau cymysglyd yr hen foneddiges yma am y Cymry o'i hamgylch ymysg y cip-ddesgrifiadau mwyaf gwreiddiol ac ysmala a ddarllenais erioed. Ond dyma'r darluniad angenrheidiol o berthynas i'r ceiliogod,—

"Dydd Llun, Mai 17, 1779. Heddyw y mae'r ymladdfa ceiliogod blynyddol rhwng Mr. Vaughan a Mr. Corbet, o Ynys-y-Maengwyn. Yr wyf yn pryderu mwy eleni am fuddugoliaeth adar Mr. Vaughan, am nad yw ef ei hunan yn y lle. Yr oedd yn falch gennyf glywed yn y bore eu bod ddwy fatl o flaen y lleill. Bob blwyddyn cyn hyn fe barhâi y difyrroch barbaraidd yma am ddyddiau lawer; ond eherwydd fod Mr. Vaughan, druan, wedi ei alltudio, fe gytunodd Mr. Corbet i ymladd y frwydr mewn un ymdrechfa fawr. 'R wy'n tybied, hefyd, fod hyn braidd yn anghyson â rheolau anrhydedd, gan fod, hyd yn oed mewn ymladdfa ceiliogod, rywbeth uwchlaw amheuaeth i'w ystyried yn y goleuni hwnnw. Y mae fy llygaid yn brifo er's meityn wrth ddal i ysbio am ryw negesydd o Ddolgellau. Ond yn wir, dyma geidwad y parc yn dod gyda gwynepryd llon anghyffredin. 'Ydi popeth yn iawn, Ifan?' ebra ffinau ar unwaith. 'Ydi, neno'r tad, madam, oblegyd y mae meist'r wedi ennill gydag wyth fatl mewn tair-ar-ddeg.' Collodd Mr. Corbet swm enfawr o arian."

Byddai *cock pits* yn ymyl yr hen blasdai wedi eu codi ychydig yn uwch na'r ddaear i'r adar. Byddai y dynion o gylch eu hymylau yn gwylio ysgogiadau y ceiliogod, ac yn gofalu am chwareu teg i'r naill a'r llall. Gosodid yspardynau o ddu wrth draed y ceiliogod, y rhai a adnabyddid wrth yr enw "gaffioes." Rhyfedded pob plentyn at y fath anfadwaith anynol a brwnt. Y mae gennyf hen gerdd faith yn rhoi hanes rhyw "Ddau Geiliog Du," o waith yr hen John Edwards o'r Ereiniog, wedi hynny o Gaerwys, tua chant a deuddeg o flynyddau yn ol. Wedi canu eu clodydd, diwedda fel hyn,—

"Son aeth am danynt  
Trwy Gymru fwyn, gain,  
Bonddigion Sir Feirion  
A fynnent gael rhain;  
A gwas i ryw Sgweiar  
A brynnodd y ddau,—  
'Doedd gwiw i'r tenantiaid  
Mo'r cynnyg nacau."

Y mae llu o hen ofergoelion yn gysylltiedig â'r Ceiliog. Byddai ar lawer o'n henafiaid ofn ei gadw rhag ofn iddynt ddiogydd ei glywed "yn canu ar ei glwyd." Os y canai ar ei glwyd cyn hanner nos, byddai yn arwydd o farwolaeth rhywun o'r teulu yn fuan iawn.

Os y byddai pen y Ceiliog tuagat y ty annedd, byddai yn arwydd fwy diamheuol fyth. Os canai yr iar yr un fath a'r Ceiliog, byddai rhyw aflwydd yn sicr o ddilyn. Gan nas gall y Ceiliog ganu heb setyll yn berffaith syth, byddent yn rhwymo darn bychan o blanc, neu ddellten, yn union uwchben ei glwyd, fel nas gallai godi ei ben i'w lawn hyd, a thrwy y gorthrech hynod hwn llwyddent i'w ddistewi. Druan ohonynt! Tybed a yw yr hen grediniaeth ya fyw eto? Ofnwn ei bod.

Yn yr hen amser, pan y byddid yn teithio yn y nos gyda'r "goits fawr," byddai clywed llais clir y Ceiliog gyda thoriad y wawr, a chynt feallai, yn llonni pob calon; oblegid yr oedd yn syniad fod pobman yn berffaith rydd wedyn oddiwrth ellyllon a bwganod. Dyna'r ochr wen ym muchdraeth y Ceiliog diniwed, llawen.

Y mae dwsiniau o'n beirdd wedi clodfori dwsmel y bore-godwr hwn,—

Clywn lais, nid gwaglais, ond gwlw-gloch,—y bore  
Yn beraddd blygeingloch,—  
Awch o benglog chwibangloch  
Mab iar,—un claiar fel cloch.

HUW MORRIS.

Adeyrn balch yn deyrn byw—yw'r  
Ceiliog,  
Er coledd ei gydryw;  
A'i bêr lais boreuol yw,—  
Galwedydd cyn gwawl ydyw.

LLEWELYN TWROG.

Y Ceiliog adeiniog donydd.—a'i ben  
Fel rhyw deyrn balch beunydd;  
Eilia'i dôn cyn goleu dydd  
Yn wirdda ar y wawrddydd.

GLAN IARN.

Hynoted blentyn natur—yn galw'r  
Trigolion yn eglur  
I fywchau, bob borau 'n bur  
I'w holl ofal a'u llafur.

D. LLEDROD DAVIES.

A pher gloch sy'n deffro gwlad  
Yw Ceiliog, hoew'i alwad:—  
Hwn gai un adeg ei nodi—i swydd  
Sant, i argyhoeddi  
Gwawdwr enwog o'i drueni,—canodd  
Ac enaid wyrodd i'w genadwri.

PEDROG.

Balch a choeg ddofedn byw—yn rhodio  
Mewn anrhydedd tryryw;  
Syw ei rawd, clir leisiwr yw,—  
Gwyllydd y gwawl ydyw.

Ei gamrau brâs digymar—arwyddant  
Fawreddog ddull frostgar;  
Arwr bryn ydyw i'r adar,  
Effro ei dôn, a phriod iar.

GLAN TECWYN.

Borau dydd o'i bair dyddan,—y Ceiliog  
Hwylus a rydd gyngan;  
Ac i'r bywiog ieir buan,  
A chrib coch, arab y cân.

Adeiniog broffwyd anian, - a swynol  
Bêr-seinia foreugân;  
A syw deg grib fal sidan,  
A'r clôg glwys yw'r Ceiliog glân.

LLEWCH-HALARN.

Y Ceiliog fedd glôg felfed lân,—ei lais  
Sy' glir fel cloch arian;  
A'i swynol blygeiniol gân  
Geillw y wawr o'i gwâl eirian.

Gŵr y iar, edn gwâr yw o,—ab awen  
Bywiog iawn ei osgo;  
A'i adenydd am dano,  
Ei gân yw—"Goco-gô-gô!"

DAFYDD MORGANNWG.

Deyrn bywiog, gwibliwiog ei bluen,  
Ac unol weydd, plygeiniol awen;  
Bras gamwr,—ymerawdwr yr aden,  
O olwg weddus, yw'r Ceiliog addien;  
Balch ysgogydd, ei ben—hardd droia  
Fel bwa, a dyma deyrn y domen.

CENIN.

Mab iar, yn clebar i'n clyw—"Gw, Gw,  
Gw,"

Yn geg i gyd ydyw;—  
Cawr cribog, heglog, hygryw,—  
A'r un gân er yn gyw.

AP GLASLYN.

Ar ol ei gyntyn, boreuol gantwr,  
Na bu ei glysbach, yw'r bywiog leisiwr;  
Clec ei gu alwad yw cloc y gwyliwr  
A deial foran i dlawd lafurwr;  
I'n Hiesu cymwynaswr—fu'r Ceiliog,  
A dewr weinidog i drin ei wadwr.

Acw o'i glwyd yn tincio'i gloch—cân  
gerdd

Cyn gwawl—oni chlywsoch  
Arabgerdd yr edn cribgoch,—  
Geiliog hardd yn ei glog goch?

DEWI HAVESP.

CARNEDDOG

---

### RHO DY HUNAN YN EI LE.

**G**YFALL, paid bod angharedig  
Wrth dy gyd-ddyn pan ar lawr;  
Cofia nad wyt ti yn berffaith,  
Ac os heddyw'n wyn dy wawr,  
Gelli dithau, cyn yfory,  
Syrthio'n ddyfnach nag efe;  
Dangos iddo gareidigrwydd,—  
Rho dy hunan yn ei le.

Gyfall, paid bod angharedig  
Wrth y meddwyn, ger dy ddrws  
Cofia unwaith, er mor isel,  
Bu yn blentyn bychan tlws;  
Ceisia deimlo yn ddiolchgar  
Nad wyt tithau fel efe;  
Ceisia ddangos caredigrwydd,—  
Rho dy hunan yn ei le.

Os y gweli ddyn yn ddiodef  
Dros y gwir a hyn ar gam,  
Brwydra drosto, ar dy eithaf,  
Ceisia'n ddyfal wybod pam;  
Hwyrach y cei dithau, rywdro,  
Ddiode'n union fel efe;  
Cadw 'th galon fyth yn dyner,  
Rho dy hunan yn ei le.

R. G. NICHOLSON.

---

### PETRAU Y SYLWAIS ARNYNT.

**G**WARIA pobl Prydain fwy ar dybaco nac ar addysg,—mwy ar eu plaser eu  
hunain nag ar yr ymgais i wneyd y dyfodol yn well.  
Mewn llawer lle, oherwydd drudaniaeth glo, ail ddechreuir torri mawn a llosgi  
llaid. Hwyrach, ryw dro, y daw'n wasgfa ar y wlad hon. Beth bynnag gollir  
trwy hynny, enillir egni a chynhildeb. Rhy ddiog a rhy wastraffus fuom yn  
nydd llwyddiant.

## COF-GOLOFN T. E. ELLIS.

**D**ADORCHUDDIR y gofgolofn ddydd Mercher nesat, sef Hydref 7. Cauir ysgolion, bydd gweithfeydd yn sefyll, a daw miloedd ar filoedd i'r Bala i anrhydeddu cof un saif yn gynrychiolydd goreu y deffroad gwleidyddol Cymreig. Cofied y plant sydd wedi casglu pumpunt y rhoddir medalau iddynt ar goedd y miloedd. Deuent i'r Bala i'w derbyn, os oes modd. Wele dderbyniadau, diolch am danynt,—

Miss Gwen Williams, Brynmoel, Dylife .. .. .	s. c.
Parch. Hugh Edwards, Treherbert .. .. .	2 0
Casgl plant Betws y Coed, trwy Mr. Cystenyn Owen .. .. .	45 4
(Maggie Olwen Williams, Machno Villa, 21/7; Harry Jones, Pengwern, 11/2; Idwal Ll. Parry, Pen Dyffryn, 5/1; Agnes Platt, Bryn Derwen, 4/-; Louise Roberts, Dolydd Terrace, 3/6.)	
Thos. E. Jones a Hannah M. Jones, Chwilog .. .. .	2 6
Mri. T. Moss, Gorsaf Berwyn, 3/-; D. L. Jones, 23, Princess St., 2/6; Ellis Edwards, Ty Capel Rehoboth, 1/-; R. Ll. Hughes, Berwynfa, 2/6; R. H. Jones, Berwyn, 2/6; oll o Langollen .. .. .	11 6



## DYDD ANGLADD TOM ELLIS.

(Ebrill 16, 1899).

**C**ALON Cymru hawddgar  
Gurai, gurai'n gynt,  
Clywid salmau 'i galar  
Yn y gwynt.

Gwron Israel huna  
Heddyw yn ei hedd—  
Gwlad yn weddw wyla  
Uwch ei fedd.

Gwenai blodau'r gwanwyn  
Gylch y fan mewn swyn,  
Cânai 'r adar emyn  
Yn y llwyn.

Bywyd grid yn chwareu  
Gylch y fangre brudd,  
Fel i leddfu'r dagrau  
Ar y rudd.

Anian ddysgai 'n hapus  
Drwy ei bywyd rhydd,  
Nodwedd syml Ellis,  
Mab y Ffydd.

Erys ei obeithion  
Anwyl, fel y gwllith,  
Fyth a'u hirraidd swynion  
Yn ein plith.

Cymru ieuanc mwyach,  
Gofia am dano ef,—  
Cenedl ddaw'n agosach—  
At y nef.

Treherbert.

HUGH EDWARDS.



### O'R UN FEDDWI.

GALL bwlgi ac aderyn ysprychlyd fod o'r un feddwi am eu gilydd,—“Dacw'r peth hyllaf a welais erioed.”

### Y GWIR CAMARWEINIOL.

MAE llawer gwir gwaeth er ei ddweyd, ac y mae ambell wir yn waeth na chelwydd. Dro yn ol yr oedd capten a *mate* y llong “Eira” yn bur eiddgeddus o'u gilydd. Yn ystod mordaith bell, ysgrifennai pob un ohonynt nodion yn eu dyddlyfr, fel y mae'n ddyledswydd arnynt wneyd. Ryw ddydd rhoddodd y capten ar ei lyfr,—“Y *mate* yn feddw heddyw.” Erfyniai'r *mate* arno ei ddileu, ond yr ateb oedd,—“A ydych yn gwadu eich bod yn feddw ddoe?” “Nag wyf,” ebe'r *mate*, yn edifeiriol iawn. “O'r goreu, y peth ysgrifennais a ysgrifennais” oedd yr ateb penderfynol.

Drannoeth gwelai y capten fod y *mate* wedi ysgrifennu,—“Y capten yn sobr heddyw.” Erfyniodd arno ddileu gwir mor gamarweiniol. “A ydych yn gwadu eich bod yn sobr ddoe?” “Nac wyf.” “O'r goreu,” oedd yr ateb didrugaredd, “y peth a ysgrifennais a ysgrifennais.”

---

☛ Cyfeiriad y gotgydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHELYN, Y BALA.

---

ANGRAFFWYD A CHYTRONDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBORAL.



# AT Y PLANT.



A gennyf gael rhoi yn y rhifyn hwn ddarlun o blant Cymry'r Andes. Bro Hydref y galwant eu cartref newydd mynyddig. Edrychwch ar eu hwynebau, a chydmerwch hwy â wynebau plant y Chileaid sydd yn eu mysg. Onid oes prydferthwch gwareiddiad uchel ar eu pryd? Y gwynebau tlysiion meddylgar, —y mae hiraeth yn codi yn y galon wrth feddwl eu bod mor bell. Y mae diwygiadau crefyddol Cymru, a'i chariad at lenyddiaeth, wedi rhoi tlysi meddwl a cheinder yr ysbrydol ar wynepryd ei phlant erbyn hyn.

Bob. Y mae llawer dull o ddal llwynog heblaw ei saethu. Y mae ar un o ysgwyddau'r Aran "loch llwynog" lle daliwyd llawer llwynog, —gelyn y gwyddau a'r wyn, —mewn amser fu. Adellad crwn ydyw, heb ddrws ac heb do, ond fod y mur yn gwyro i mewn ar ei ben. Y tu mewn y mae cut gwyddau, a drws arno. Rhoddai y bugeiliaid wydd yn y cut, ac aent i lawr adref i gysgu'n dawel, gan wybod mai dymunol gan lwynog yw gwydd dew. Deuent yno yn y bore, a chaent lwynog, ond odid, yn methu mynd at yr wydd, a hefyd yn methu mynd allan.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r plant am gasglu at gof-golofn T. E. Ellis. Y mae John Morley wedi ei dadorchuddio erbyn hyn. Saif ar Heol Fawr y Bala, gwelir hi rhwng y coed sydd ar yr heol honno. Hi yw'r gof-golofn brydferthaf yng Nghymru. Caiff y plant ei hanes, a darluniau ohoni, yn gynnwys y fiwyddyn nesaf. Os oes arian casglu heb gyrraedd, derbyniat ef yn ddiolchgar.

Yn y rhifyn nesaf bydd rhestr o'r pethau newyddion, —erthyglau, hanesion, a darluniau, —fydd yn rhifynnau'r fiwyddyn newydd. A wnaiff y plant sy'n derbyn CYMRU'R PLANT ei ddangos i blant ereill, a gofyn iddynt ddod yn dderbynwyr? Os caf dderbynwyr newyddion, bydd yn haws i mi roddi ychwaneg o ddarluniau.

Mr. H. Lloyd Williams, Afon Rhos, Llanrug, ysgrifennodd y "Tro doniol yn hanes fy mywyd," wobrwyrwyd yn Eisteddfod y Plant, Bethel.

Y gyfrol newydd yng nghyfres y Ffl yw Islwyn. Cyfrol brydferth o ganeuon Islwyn, oll ond dwy heb eu cyhoeddi o'r blaen, yw y gyfrol hon. Y pris i danyysgrifwyr yw 1/1½; pris cyfrol unigol yw 1/6. Pan fydd amryw gyfeillion yn cael eu cyfrolau gyda'u gilydd, ni chostiant fawr dros 1/- yr un. Antoner at Ab Owen, Llanuwchllyn, y Bala.



DIWYDIANNAU CYMRU. IX. NYDDU A'R DROELL FAWR



# CYMRU'R PLANT.

Cyf. XII.

TACHWEDD, 1903.

RHIF 143.

## ALL ANIFAIL, YMRESYMU?

### I.

**O**DID nad yw pob un ohonom yn tueddu i feddwl yn rhy fach am yr anifail, i feddwl ei fod yn fwy disynwyr nag ydyw, nad oes ganddo reswm o gwbl, mai greddf yn unig sydd yn ei lywodraethu. Eto gorfydd i ni gyfaddet "fod yr asyn yn adnabod preseb ei berchenog;" ie, ysywaeth, fod y "perchenog" synwyr gall hwnnw wedi methu dod o hyd i ddrws ei dy ei hun lawer gwaith,—ar nos Sadwrn, neu ddiwrnod y ffair.

Nid gweled yn unig y mae, ond y mae yn deall, yn amgyffred cryn lawer o'r hyn a wel; ie, y mae yn ffurfio syniadau am danynt. Mwy na hynny, y mae yn cloriannu, yn cyferbynnu, yn prisio y syniadau hynny, h.y., y mae yn ymresymu. Cymerwn esiamplau o weithred-oedd tri anifail er gweled a oes sail i'r haeriadau hyn.

I. Y LLWYNOG. Unwaith,—sichheir ni am wirredd y peth,—lladdodd a lladratodd llwynog fochyn bach o'r torllwyth. Ar ei ffordd i'w ffau, gyda'r mochyn bach yn ei geg, yr oedd yn rhaid croesi ffos ddwfr weddol ddofn, ond yn rhy lydan i'w chamu; rhaid oedd ei nheidio. Gallai ei nheidio yn hawdd yn waglaw; y cwestiwn oedd, allai ef ei nheidio gyda'r mochyn bach yn ei geg? Ni wiw ei adael, yr oedd y llwynogod bach yn gwaeddi am eu swper. Dyna'r cadno yn gollwng y mochyn bach, ac yn cyflymu tua'r wig draw; yn fuan iawn dacw fe yn dod yn ol, gyda chnap o bren yn ei geg, tebyg iawn o ran maint a phwys i'r mochyn bach.

"Yn awr," meddai,—gallaf ddychmygu ei glywed yn ymson wrtho'i hun,—“os gallaf neidio trosodd gyda'r cnap yma yn fy

ngheg, gallat neidio gyda'r mochyn bach hefyd." Mewn moment yr oedd wedi rhoddi y naid yn ddiogel. Yna rhoddodd y pren i lawr, neidiodd yn ol drachefn, gafaelodd yn y mochyn, gan sefyll ennyd megis i gydmaru pwysau'r ddau. Wedi moment o betrusdod,—cato ni!—dacw fe drosodd, fe a'r mochyn bach! Cwestiwn gennyf a oedd Socrates ei hun yn ymresymwr mwy gwych.

Gair am *logia* y ci, a'r gath, y tro nesaf.

### YR HEN DELYNAU.

**M**AE'r ddryghin yn rhwygo'n y glynnoedd  
Babelli y dall yn ei dig;  
A'r corwynt, bererin y nefoedd,  
Sy'n griddfan yng ngwersyll y wig;  
Mae'r fronfraith groesawai y wawr—  
Yn wyllo am feillion y ddôl; [ddydd  
A thawodd carolau yr hedydd;  
Ddaw'r Haf a'i delynau yn ol?

Mae temlau y bryniau'n wersyllfa  
I lengoedd y cenllysg a'r gwynt;  
Mor ddedwydd oedd hirmos y Gaua  
Yng nghwmni'r telynau mwyn gynt;  
Gwresogent fwthynod ein cymoedd,  
Ond tafiwyd eu diliau yn ffol; [oedd,  
Mae'u hyspryd yn crwydro'r mynydd—  
O dowch a'r telynau yn ol.

*Y Bala.*

Er gorfod ffarwello ag Eden  
Ein mebyd, a gwanwyn ein hoed;  
Myn adgof freuddwydio am heulwen  
A thelyn y bore di-loed;  
Ni wyddem doi stormydd i'n curo,—  
Blodeuo a chanu wnai'r byd;  
Clustfeinio mae hiraeth i wrando  
A gân y telynau o hyd.

Mae llymder tymestloedd gofidian  
Yn clwyfo rhyw delyn o hyd;  
A buan y torrir hoff dannau  
Telynau melusaf y byd;  
Ond hyfryd yw cofio fod telyn  
Mewn gwlad na chwyd stormydd eu  
llef;

Ac yno bydd cariad yn ennyn  
Ein mawl ar delynau y nef.

RICHARD AP HUGH.

### AR Y FFORDD I'R YSGOL.

**A**R y ffordd i'r ysgol  
Bydd ddyfal rhag gwneyd drwg,  
Na rhoddi tramgwydd i wan hen,  
Rhag iti dynnu gwg;  
Gofala gyrraedd yno  
I'r munud erbyn naw,  
Neu fe ddisgynna'r wialen  
Yn sydyn ar dy law.

Ar y ffordd i'r ysgol  
Gwna benderfyniad cry,  
Y mynni ddysgu iaith dy fam  
Er mwyn y Cymry fu;  
Ac wedi gwneuthur hyanny  
Cei ddysgu yr Hebraeg,  
A Saemeg, gyda'r Lladin,  
Ond cofia am Gymraeg.

Ar y ffordd i'r ysgol  
Gofala am roi nod,  
Rhaid gorchfygu'r wers yn iawn  
Cyn gellir eyrraedd clod;  
As os wyt ti am ddringo  
I ben yr ysgol fawr,  
Gofala na wnei edrych  
Am funud byth i lawr.

## CYFOEDION FY NHAID.

GAN DAID.

I. MYND A DAFYDD SWAN I'R CARCHAR.

**G**AIR o hanes y gŵr hynod, Dafydd Swan. Ei enw yn gyflawn oedd Dafydd Gruffydd. Trigai mewn pentref bychan o'r enw y Swan, ar fin ffordd Clynog Fawr yn Arfon. Meddai Dafydd gorff cryf, cadarn, dros chwe troedfedd o daldra, ac agos i dair troedfedd o ysgwydd i ysgwydd. Ei wisg bob dydd fyddai côt o frethyn cartref, clôs pen glin o ffistian llwyd, bacsiâu pennau geist, a chlocsiâu o'i wneuthuriad ei hun. Er mwyn y rhai na wyddant beth ydoedd bacsiâu pennau geist, dyna oeddynt yn syml,—hosanau heb draed iddynt. Yr oedd i'r bacsiâu priodol a wisgid yn bur gyffredin gan bob rhyw yr oes honno dafodau hirgul yn ymestyn o'r meilwng hyd flaen y troed, a thwll yn y blaen i roddi y fawd trwodd, ond nid oedd tafod o gwbl i'r dosbarth arall a nodwyd. Yr oedd clocsiâu Dafydd yn nodedig o arddunol; cefnau isel oedd iddynt, a gwadnau, y fan leiaf yn fodfedd a hanner o drwch, ac wedi eu gorchuddio oddi tanynt â stympiau. Dyna ydoedd y stympiau,—darnau o hoelion pedolau ceffylau a gawsai ar hyd llawr gefail Robert y gôf, Pont y Cim.

Gan ei fod yn magu tyaid o blant, a'i gyflog yn ddim amgen na swllt a chwecheinog y dydd, a'i fwyd ei hun, er bod mor ddarbodus ag y gallai, prin yn fynych y gallai hyfforddi ceiniog i'w rhoddi am danwydd o fath yn y byd. Ac wrth hynny fe fyddai yn fynych yn cerdded glan y môr i gasglu ychydig asglodion a gurid i'r lan gan y tonnau, yr hyn a barodd i rai o lanciau direidus y gymydogeath wneyd ystori y byddai Dafydd yn canu wrtho ei hun tra'n cerdded yn ol ac yn mlaen ar hyd y feisdon,—

“Hwi wynt, chwyth;  
Hwi long, torr;  
Hwi bren, crafa'r gro.”

Un noswaith, pan yn dychwelyd gartref oddiwrth ei orchwyl o'r Ty Mawr, sef ffermdy yr Yswain Griffith, canfyddai ysgyfarnog yn myned i'w lloches, ac mewn llawn awydd i'w dala, gosododd wifren croglath ar enau y ffau, a'r canlyniad fu iddo ei dala. Ond pan wrth y gorchwyl o'i thynnu yn rhydd i'w doddi yn ei logell, pwy yn ddamweiniol oedd yn edrych arno o'i olwg ond prif geidwad helwriaeth Lord Niwbwrch. A bu raid i Dafydd druan fyned gydag ef, ac ymddangos o flaen ei lord ym mhlas y Glynllifon. Wedi cyrraedd yno, a dangos arwyddion o'r trosedd trwy roddi yr

ysgyfarnog ar y bwrdd, gorchymynnwyd hebrwng Dafydd yn ddiymaros i garchar Caernarfon, a rhoddi yn gyntaf iddo bryd o fwyd digonol. Anfonwyd am y cwnstabl i'w arwain i'r carchar,—mae'n wybyddus nad oedd heddegeidwaid y pryd hynny fel yn y drefn bresennol, ond rhyw rai yn cael gwasanaethu fel cwnstabliaid. Fe ddaeth y swyddog ar unwaith,—rhyw amaethwr bychan,—a chymerodd feddiant o'r troseddwr ac ymaith ag ef. Ond wedi iddynt gyrraedd trwy brif borth y plas, ni cherddai Dafydd gam ymhellach. Gorweddodd i lawr ar y glaswellt, ac ni chyfodai er undyn, a bu raid i'r swyddog druan redeg gartref i ymofyn ei gert i gludo'r troseddwr fel anifail tew i'r lladd-dy. Wedi cyrraedd y lle, gorchymynnodd i Dafydd ddringo i'r gert, ond ni symudai yr hen wron mwy na chorff marw oddiar y glaswellt, a bu gorfod i'r swyddog eilwaith fyned i gyrchu nifer o ddynion i'w godi i'r gert. Ac felly fu, a chychwynnwyd gyda brys, a'r swyddog yn bur hyderus weithian fod yr ystormydd heibio. Ond bu yr amryfusedd diweddfaf yn waeth na'r cyntaf; cyn eu bod chwarter milltir ymlaen ar y daith, fe droes Dafydd, ac eisteddodd ar draws y trwmbeil, gan roddi ei draed a'r clocsiâu mawrion ar y naill ochr, a'i gefn llydan ar yr ochr arall, a gwthiodd â'i holl nerth, nes lledu y cyfan oddiwrth eu gilydd yn deilchion, a chloi yr olwynion fel na symudent fodfedd yn ol nac ymlaen.

GWELLTYN.

## WINI.

**M**I welais lawer meinir  
Ar lawer dôl a chwam,  
A'r lanaf ym Meirionnydd  
Yw Wini, Bwlch y Plwm ;  
Mi wn fod calon hawddgar  
Yn curo dan ei bron,  
A gwn mai nefoedd cariad  
Ga'r llanc enilla hon.

Mae'n rhedeg fel yr ewig  
Yn ysgafn dros yr allt,  
A gwllith y bore tawel  
Yn ddisglaer yn ei gwallt ;  
Mae'n caru blodau'r mynydd,  
Yr wyn a'r adar llon,  
Ond nid oes neb yn gwybod  
Am ddyfnder serch ei bron.

## YN HARLECH.

HEDDŴ'r oedd lluoedd ar hynt—yn  
rhodio  
Ag anrhydedd arnynt,  
Lle bu rhyfel a'i helynt,  
A chri gwaen yn beichio'r gwynt.

## GER Y MOR.

Ar lais ton, ar lasiad dydd,—hawdd  
ydyw  
Troï'n freuddwydwy'r llonydd,  
A dwsmel yr awel rydd  
Ym mryziau glan Meirionnydd.

## HEN GRISTION O FEIRIONNYDD.

Yn y mynydd mewn mwyniant—yr ers,  
Ar ororau rhamant ;  
Ac ar y Sul, ceir y sant  
Yn canu yn y Ceunant.

J. R. TRYFANWY.

## EIN TY NI.

**M**AE gen i lond llyfr o ganeuon difrif a phrudd i'n tŷ ni gan y beirdd,—ond bod ambell un ohonynt yn grach fardd. Cyhoeddir dyfyniadau o waith llenorion gwych a gwael am ein tŷ ni cyn gynted ag y llwydda 'nhad i ddarbwylo cenhedlaeth wargaled fod llenyddiaeth y genedl yn brin mewn gwaith felly. Mae Nansi fy chwaer wedi cludo cyfrol yn llawn darluniau o'n tŷ ni i Lundain gyda hi, ac y mae gan Dic fy mrawd gyfrol arall mewn hen gist yn y granari, nas gwn beth sydd ynddo, ond rhywbeth a geir am ein tŷ ni. Eto, ni fynegwyf mo'r hanner. Ni cheir i mi un lle tebyg i'n tŷ ni. Gwelais dai mwy o lawer, ac nid oes neb fel y Cymro am gael digon o le. Nis gallaf fyw yn hapus iawn mewn dyffryn. Mae'r mynyddoedd fel pe yn gwasgu arnaf. Gwnant fi yn drist, a gormod o bruddglwyf sydd yn fy natur eisoes. Eto, mae'n well gen i'n tŷ ni na'r plas helaethaf a fu erioed. Yno mae'm cartref. Lle clyd, cysurus, a dedwydd yw, yn enwedig heno, pan y mae'r gwynt a'r gwlaw oddi allan. Ynddo mae cadeiriau y gall un eistedd arnynt heb ofn eu torri, a throï o gwmpas yn hapus heb ofn dryllio dim. Mewn ambell i dy mawr y byddaf yn gorfod myned iddo weithiau, arweinir fi i ystafell unig, oer, a dywedir wrthyf yn foesgar am eistedd i lawr. Fydda i byth yn gwneyd. Nid wyf fawr na thrwm, eto ofn fydd arnaf fynd yn agos at y cadeiriau. Petheuach ysgafn, eiddil ydynt, i edrych arnynt, ac nid eu defnyddio. Tybiaf, weithiau, eu bod yn fyw, ac heb gael hanner digon o fwyd, nes maent wedi teneuo. Safaf yn lle eistedd, a'm cefn at le y bu tân ryw ganrif neu ddwy yn ol, ond sydd heddyw fel ia oesol. Dychryn a'm daliodd rhag symod o'm lle. Gêr aneirif sydd o'm cwmpas, ac nid oes eisieu ond chwa o wynt i'w tafu i lawr. Credaf na fu awel erioed drwy'r ystafell er y dydd y rhoddwyd y ffenestri i mewn. Hwyr gen i orffen fy neges a mynd adref. Yno mae tân coed a mawn yn siriol yn fy nghroesawu. Tafaf fy hun mewn cadair dderw fawr, a fu yn ymgynnal o dan fy nghyndadau cawraidd, ac a ddeil ddwsin a hanner o gorachod fel myfi.

Cuddiwyd holl gelfii toradwy, a ddug Nansi fy chwaer adref gyda thrafferth mawr bob blwyddyn, gan fy mam, ar fy nghais, yng ngwaelod isaf y cwpwrdd congl. Nis gwelir hwynt ond unwaith mewn blwyddyn, am ddeng niwrnod pan ddaw Nansi adref. Cludir hwy yr adeg honno o'u cuddfan, a gosodir hwy yn fedrus gan mam a minnau ar fwrdd crwn trithroed, a chwânegir atynt gan fy chwaer chwaethus bob tro y daw adref. Ond rywsut, mi fydda i yn byw llawer yr adeg honno ar y boncyn, o dan y coed, y tu cefn i'n

tŷ ni. Wedi i'm chwaer ymadael, gorchuddir hwy yn ofalus am flwyddyn gron, ac mi fydd ein tŷ ni yn gartref i mam a minnau. Mi fynnodd Nansi gael tynnu llun y tŷ un haf. Daeth ei meistres yr Hydref dilynol i'n gwlad, ac yn ddiarwybod daeth i'n tŷ ni. Chwiliodd lawer am y bwrdd crwn a'r celfi tlyision yr oedd Nansi wedi son cymaint am danynt. Mi wyddwn beth oedd arni eisieu, ond ei bod yn ormod o foneddiges i holi. Wedi iddi fynd yn ol i Lundain, cawsom lythyr oddiwrth Nansi yn trin yn enbyd. Mi griodd mam am ddyddiau, a chrefodd arnaf finnau ateb. Mi wyddwn i well pethau. Fi gawsai'r bai tasa nhw yn ffraco. Taw bia hi *boys*.

O.

---

### HEN LWYBRAU PANT Y WAEN.

WRTH odrau'r hen Hiraethog,  
O fewn i Gymru fad,  
Mae bwthyn bach godidog,  
Hen fwthyn bach fy nhad;  
Ac yno mae fy nghalon  
Yn ennyn byth ar daen,  
Mor ddifyr oedd chwareuon  
Hen lwybrau Pen y Waen.

Mae hiraeth ar fy nghalon  
Am weld yr amser gynt,  
Yr amser heb bryderon  
Aeth heibio fel y gwynt;  
O na chawn weled eto  
Yr amser fel o'r blaen,  
A dyna wna i mi wylu,—  
Hen lwybrau Pen y Waen.

*Betws y Coed.*

Mae yno flodau tlyision  
O bob ryw swyn yn llawn,  
Uwchlaw dychymyg dynion  
I roi disgrifiad llawn;  
Mi hoffwn eto 'u gweled  
Wrth deithio gam ymlaen,  
Cawn hynny, dim ond cerdded  
Hen lwybrau Pen y Waen.

Aeth heibio ddyddiau mebyd,  
Mor chwim hedasant hwy,  
Rwy'n awr yng nghefnfor bywyd,  
Ni chaf eu gweled mwy;  
O na chawn eto ganu  
Wrth deithio yn y blaen  
Emynnau mwyn i'r Iesu  
O lwybrau Pen y Waen.

DAVID THOMAS, (*Dewi Tudur*).

---

### ROBYN GOCH.

UN diwrnod tymhestlog  
Daeth Robyn Goch tlws,  
Yn wan a newynog  
Ar riniog fy nrws,  
Rhyw leddf-nod soniaras  
Oedd yn ei twi, twi,  
Wrth ofyn am damaid  
Gwnaf'm llygaid yn lli.

Robyn goch fron-goch frein-gu,—O'r tad,  
Tyrd i'r ty rhag llwgu;  
Er gofid oer gauaf du—cei friwslon,  
Was gwan, dy gwynion os gwneid di ganu.

*Nantlle.*

G. W. FRANCIS.





## FFASIWN NEWYDD ETO.

**L**LAWER ffordd o gludo a thynnu fu,—yr ych, a'r asyn, a'r march, a'r camel, a'r cawrffil; y drol, a'r gert, a'r cerbyd; y march tân, y cefyl haiarn, a'r motor; trwy'r awyr a than y ddaear. Beth feddyliech chwi am ddal *giraffe*?

## IOAN YN FMYL Y GROES.

[Anfonwyd y penhillion hyn, o waith y diweddar Ganghellydd D. Silvan Evans, i mi' gan Miss Davies, Cilwern, Llan ym Mawddwy. Adroddwyd hwy gan yr awdwr ar bregeth yn y Groglith, a rhoddodd hwy'n ysgrifenedig i Miss Davies.]

**A** WELAIST ti, a oet ger llaw  
Yr ardal yng Nghalfaria draw  
Lle mae'r Prynwr Mawr?

A welaist ti ef ar y groes  
Yn diodde'r wasgfa fawr a'r loes,  
A'i waed yn ffrydio i lawr?

A welaist ti yr hoelion main,  
A thyllau pigau'r goron ddrain,  
A'i holl wasgfeunon ef?

A welaist ti y chwys, a'r gwaed  
Yn lliwio 'i gorff o'i ben i'w draed,  
A glywaist Ti ei lef?

A glywaist ei weddiau mad,  
Dan bwys ei loesion at ei Dad,  
Mewn dirfawr ing a phoen?  
A ydoedd Iesu mawr pryd hyn  
Pan yng ngwasgfeunon mawr y glyn,  
Yn addfwyn fel yr oen?

A welaist ti ei sanctaidd ben,  
Yn ogwyddedig ar y pren,  
Gan farw ar y groes?  
A gofi di 'r olygfa hon  
Tra fyddech ar y ddaear gron,  
Hyd derfyn eitha d' oes?

## IOAN YN ATEB.

Do, do, mi welais Iesu mawr  
Yn hongian rhwng y nef a'r llawr  
Pan oedd yn rhoddi'r iawn;  
Gwelais ei gyfyngder ef,  
A chlywais ei wylofus lef  
Pan yfai'r cwpan llawn.

O'i ludded mawr, ei ing a'i gur,  
Pan bwyid drwyddo'r hoelion dur,  
O fel dyferai 'i waed;  
Yn dyddfu'r oedd y llariaidd oen  
Gan rym ei wasgfa fawr a'i boen  
O'i goryn hwd ei draed.

Do, mi ai gwelais ef yn nghan  
Cyflawnder pur y Duwdod glan,  
Pan y dyhuddai'r lliid;  
Ei ruddgoch waed a roes yn iawn,  
A'r ddeddf a gadd anrhydedd llawn  
Trwy ei farwolaeth ddrud.

Do, do, mi sefais i ger llaw,  
Pan droes, pan gliodd ereill draw,  
O'r fath olygfa brudd;  
Y Dyn a'r Duwdod ar y groes  
Yn diodde'r fiin a'r chwerv loes,  
A'r nefoedd fawr yng nghudd.

Prydnawn oedd hwn, un rhyfedd oedd,  
Emanuel ei hun ar goedd,  
Eitfedd yr addewid wiw;  
Yr ing, y cur, y wasgfa gref  
Y chwerv a'r wylofus lef,  
Mi a'u cofiaf tra bwyf byw.

Mi gwelais ef mewn lludded blin  
Yng ngerddi y gwasg-gafnau gwin,  
Trodd ei gyfeillion 'nol;  
Sathrodd elynion dan ei draed,  
Yn ol ewyllys fawr ei Dad,—  
'Roedd heddwch yn ei gol.

Mi welais, do, y waew ffon  
Yn cael ei rhoddi dan ei fron,  
A'r gwaed yn ffrydio i lawr;  
Yr olefha fywiol in a gaed  
Yn anghu ein Prynawdwr mad  
Trwy'r iachawdwriaeth fawr.

Do, mi a'i gwelais, Twysog Hedd,  
Pan ddaeth yn ol o dir y bedd,  
Yn flaenffryth teg a gwiw;  
Mi gwelais ef yn dyrchu fry  
Yng nghanol heicdd angylion lu,  
Yn mynd i deyrnas Duw.

'R wyf yn ei garu, 'r cyfall glân,  
Af ar ei ol trwy ddŵr a than,  
Nes gorffen hyn o daith;  
A'm holl ddymuniad yw cael byw  
Yng ngwensau llon fy Arglwydd Dduw  
Trwy'r oes dragwyddol faith.

D. SILVAN EVANS.

## MORDEITHIAU CAPTEN COOK.

IX. GWIBIO YMYSG YNYSOEDD Y DE.

(YMDIDDAN ETO RHWNG IFOR A'I DAD.)

**I**FOR. Fy nhad, yr wyf yn awyddus am wybod pa fodd y trodd hi allan ar Tayeto.

**TAD.** Mewn canlyniad i'r saethu, cwmpodd un o'r brodorion yn y cafnfad. Yn y cythrwfi hwnnw, collasant eu gafael ar y llanc, a llamodd yntau mewn eiliad i'r dŵr, gan nofio fel hwyaden tua chyfeiriad y llong. Ac heb golli dim amser, erlynwyd ef gan yr arwariaid yn eu bad mawr, gyda'u holl egni, hyd nes y taniwyd atynt dair gwaith, yr hyn a roddodd atalfa arnynt. A pharodd derbyniad Tayeto i fyny i'r llong, yn ddianaf, lawenydd mawr i bawb ar y bwrdd.

**IFOR.** Yn y fan yma, wedi cymaint o amser, yr wyf yn cydlawen-hau â hwynt yn fawr, fy nhad.

**TAD.** Drwy gymorth y pell wydrau, canfyddwyd gan rai o'r boneddwyr olygfa ddfrifol, mewn canlyniad i'r helynt honno, sef tri o'r brodorion, druain, yn cael eu cario i fyny i'r traeth; naill ai wedi eu clwyfo yn drwm, neu wedi eu ladd. Ar y deunawfed, yr oedd yr Endeavour yn gorwedd gyferbyn â phenrhyn perthynol i ynys fechan, a enwodd Capten Cook yn Portland. Enw y penrhyn yw Terako. Amlygodd dau o frodorion yr ynys hon, y rhai y tybid eu bod yn benaethiaid, ymddiriedaeth neullduol yn y Capten a'i ŵyr. Parodd y derbyniad croesawus a gawsant ar eu hymwelid â'r Endeavour iddynt deimlo gradd o or-lawenydd. Dan ddylanwad y teimlad hapus hwnnw, dymunasant gael aros ar y llong hyd y bore canlynol. Ond prin boddlawn oedd y Capten i hynny; rhag feallai i hynny beri pryder i'w teuluoedd ac ereill. Ond oherwydd eu taer ddymuniad, caniatuodd iddynt eu cais, ac hefyd iddynt gael eu gweision atynt; ac hefyd gorchymynnodd i godi eu bad i'r bwrdd er ei ddiogelu dros y nos. Credai Capten Cook mai gwynepryd un o'r penaethiaid hynny oedd y mwyaf rhydd a didwyll a welodd erioed. Teimlai y gallai ymddiried yn hollol yn ei ddiiniweidrwydd.

**IFOR.** Pryd yr aethant i'r lan nesaf?

**TAD.** Ar ddydd Llun, sef y 23ain, pan oedd y llong yn mor-gilfach Tega-doo, glaniodd y Capten i chwilio am ddwfr cyfaddas, a choed. Llwyddodd i ddarganfod cyflawnder o ddwfr pur, a digonedd o danwydd, yn gyfleus i'r bad. Yr oedd y brodorion yn ymddangos yn rhai o dymwr gwir ddymunol. Yn fore y dydd canlynol, antonodd Mr. Gore i arolygu torri y coed a llenwi y dwfr-lestri; ac er diogelwch, antonodd gydag ef y morfilwyr i'w amddiffyn. Ymhen ychydig amser ar ol hynny, aeth yntau drachefn i'r ynys, ac a arhosodd yno drwy y dydd i edrych beth a welai.

**IFOR.** Beth welodd ?

**TAD.** Daeth Banks a Solander, ar eu hymchwiliadaeth drwy yr ynys, i gyffyrddiad ag amrywiol bethau, llawn gwerth eu sylw. Wrth dramwy drwy gwm serth-ochrog, yn sydyn, er eu syndod, daeth i'w golwg ddarn o gywreinrwydd naturiol eithriadol, sef craig galed, wedi ei thyllu drwyddi gan weithrediadau anianyddol, i ffurf bwa anghelyfdd, ac aruthrol o fawr. Yr oedd y bwa yn agor yn union i'r mor, yn 75 troedfedd o hyd, yn 77 o led, ac yn 45 o uchder. Wrth edrych drwy yr agoriad anferthol, yr oedd yr hyn a welent,— sef y morgillfach, a'r mynyddau y tudraw i hynny,—yn olygfa ardderchog. Ac y mae y darn rhyfedd yn aros hyd y dydd hwn yn gof-golofn o gampwaith natur, ac yn herio dyfais celfyddyd drwy yr holl fyd i gynyrchu y fath ddarlun hardd o'r rhamantus, a'r tlws, a'r swynol ynghyd.

**IFOR.** Hoffwn ei weled. Beth welsant wedyn ?

**TAD.** Ar yr 28ain, glaniodd gwyr yr Endeavour ar ynys fechan y tu chwith i Fau Telagoa. Canfyddasant yno y cafnfad mwyaf a welsant drwy eu holl daith. Yr oedd yn 68½ troedfedd o hyd, yn 5 o led, a 3½ o uchder. Yno hefyd y gwelsant y tŷ mwyaf, yn y parth deheuol o'r byd. Yr oedd yn anorffenedig, ac yn agos llawn o asglodion. Pan oedd y llong yn gorwedd mewn lle o'r enw Hicks Bay, cawsant yma eto bod preswylwyr yr arfordir nesaf atynt yn elyniaethus, yr hyn a barodd anesmwythder blin iddynt. Tachwedd iaf, ar doriad y dydd, cyfrifasant 45 o gafnadau yn prysuro tuag atynt; a gwelsant amryw yn ychwanegol o fan arall. Wedi eu dyfod at ochr y llong, masnachodd rhai ohonynt yn deg a'n morwyr, ond ymddygodd ereill yn ddichellgar ac anonest. Derbyniasant bethau gan ein morwyr, gan wrthod rhoddi dim yn ol yn gyfnewid, ond gwneyd ymgais i ddianc ymaith gan wawdio. Yr oedd trahausder un ohonynt yn neillduol o haerllug. Cymerodd feddiant o ddarn o lian oedd wedi ei osod i sychu ar ochr y llong yn hollol ddiseremoni, gan ddechreu ei blygu i'w osod yn ei sypyn. Galwyd arno yn union i'w ddychwelyd yn ol. Yn lle gwneyd hynny, rhwyfodd ymaith gan wawdio. Gollyngwyd ergyd dros ei ben â llawddryll. Ni wnaeth hynny ddiwygio dim arno. Er gollwng ergyd arall o fân belenau ato, a'i glwyfo ar ei gefn, ni wnaeth fwy o sylw o hynny na phe cawsai wialenodiad ar draws ei gefn, daliodd ymlaen gyda thawelwch hunanfeddiannol perffaith i sypynu ei ladrad. Ar hyn, gosododd yr ynyswyr eu holl fadau mewn ffurf fygythiol, a dechreasant ganu eu rhyfelgan, yr hyn a barhaodd nes dyfod ohonynt o fewn tua phedwar can llath i'r llong. Gan yr ymddanghosai nad oedd yr un arwydd o ymosodiad o'u tu, gochelodd y Capten wneyd yr un niwed iddynt. Ond meddyliodd, os gadewid iddynt tyned ymaith yn llawn o wag-ymfrost, y byddai hynny yn

debyg o wneyd i lawer ereill gredu y gellid yn hawdd orchfygu y dynion gwynion. Penderfynodd ddangos y medrai y morwyr, os mynent, eu dinistrio bob yr un, heb fod pellder yn rhwystr o gwbl. Gorchymynodd danio y *four-pounder* i gyfeiriad agos, ond heibio iddynt. Oherwydd y trwst, a'r belen yn chwibanu ac yn rhychio'r duwfr am bellder mawr y tuhwnt iddynt, dychrynwyd hwy yn ddirfawr. Heb droi i edrych yn ol, rhwyfasant tua'r lan â'u holl nerth.

IFOR. A aeth y llong ymaith wedi hyn?

TAD. Do. Pan oedd y llong heb fod ymhell ar du y gorllewin i ynys fechan o'r enw Mowtohora, aeth yn sydyn i ddwr bas. Barnai y Capten eu bod gerllaw rhyw nifer o fân ynsoedd a chreigiau peryglus, y rhai a ganyddasant cyn dyfod y nos. Er bwriadu myned heibio iddynt y prydawn, gwelwyd mai doethach fuasai cylch-hwyllo am fan i ymgysgodi dros y nos, yn ymyl Mowtohora. Y bore canlynol, wrth weled y perygl a ochelwyd, drwy ddoethineb y Capten, meddiannwyd pob un perthynol i'r llong â theimlad o ddiolchgarwch llawen am y waredigaeth a gawsant. Pan wedi hwyllo yn agos i ynys fechan a enwodd y Capten yn Mayor, amlygodd y brodorion amryw o arwyddion rhyfelgar. Ac yn eu masnach â'n dynion, ymddygasant droion yn ddichellgar a lladronaidd. Am fod y Capten yn amcanu aros yn y lle am bum neu chwe diwrnod i wyllo trawsfyndiad y blaned Mercher dros wyneb yr haul, gwelodd ei bod yn wir angenrheidiol, er eu diogelwch dros yr amser yr oedd yn rhaid iddynt fod ar yr ynys, wrth ryw gynllun er dangos i'r brodorion na oddefid eu camwri gan y dynion gwynion, heb fod cosb drom yn sicr o ganlyn. Yn unol a'r penderfyniad, taniwyd ergyd o fân-belenau at leidr neillduol o haerllug; ac anfonwyd pelen o law-ddryll drwy waelod ei fad.

IFOR. Mewn canlyniad i hynny, beth ddigwyddodd iddo, druan?

TAD. Er ei fod yn gwaedu yn druenus, dychwelodd yn ol at y llong, a dechreuodd fasnachu yn deg y tro hwn, gan edrych mor ddiotal a phe na buasai dim allan o le wedi digwydd yn flaenorol. Parodd hyn syndod mawr i'r Capten; hawdd yw credu iddo edmygu gwroldeb rhyfedd yr anwariad hwnnw.

IFOR. Tebyg erbyn hynny, fy nhad, bod yr anwariaid a fu yn llygad-dystion o'r amgylchiadau a nodasoch yn ddiweddaf, wedi eu llwyr argyhoeddi nas gallent wneyd unrhyw gamwri â'r dyn gwyn, heb gael eu dal, a'u cospi.

TAD. Er eu cospi, ti weli mai anhawdd iawn yw diwreiddio hen arferion drwg; gochel, fy anwyl fab, rhag rhoddi lle iddynt yn dy galon, bydd wyliaidwrus. Tybiodd un arall o'r brodorion y medrai ef gymeryd dau ddarn o lian oedd yn gyfleus iddo, a dianc i'r lan yn fuddugoliaethus. Anturiodd roddi prawf ar ei fedrusrwydd, ac

ymafodd yn ei yspail, a chyflymmodd oddiwrth y llong. Wedi dianc yn ddigon pell o berygl, yn ol ei dyb ef, ac yn dechreu mwynhau ei orchestwaith, daeth pelen arall ar ei hymweliad fel brys-gennad o'r llong, gan wneyd twll yn ochr ei fâd gyferbyn a gwyneb y dwir. Rhoddodd hynny y fath ddychryn i'r holl trodorion oedd yn y badau ereill, nes peri iddynt osod pob gewyn o'u heiddo ar waith, a ffoi am eu bywyd. Gorchymynnodd y Capten gyfeirio pelen arall dros eu pennau. Parodd chwibaniad honno, wrth fyned heibio, iddynt eithafol ymwylltio am gyrraedd y lan.

IFOR. A aeth pobl y llong i'r ynys wedi hyn oll?

TAD. Do. Ar ol cynar foreubwyd, ar y gfed o Dachwedd, glaniodd y Capten Cook a Mr. Green ar yr ynys, gyda'r darpariaethau angenrheidiol i wyllo y byd Mercher yn pasio dros wyneb yr haul.

*Dinas Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

---

### NEFOEDD HEB GRIST.

**Y**N Sir Gaernarfon, trigai hen wr, yr hwn oedd yn nodedig am ei fywyd duwiolfrydig a rhinweddol. Un noswaith, breuddwydiodd freuddwyd nodedig, yn yr hwn y gwelai ei hun wedi mynd i'r nefoedd. Ac O! mor ogoneddus yr olygfa, mor hapus y teimlai. Gwelai yr angylion yn esgyn ac yn disgyn, a chlywai seiniau peraidd telynuau y saint yn canu mawl i'r Oen a fu farw dros bechadur.

Bore drannoeth, pan ddeffrôdd, teimlai ei hun yn hynod ddedwydd. Yr oedd yr ysbryd blinedig a'r galon drom oedd ganddo wrth gysgu y noswaith gynt wedi llwyr ddiplannu, a chychwynnodd i'w waith y bore hwnnw yn hapusach dyn nag erioed o'r blaen. A pharhaodd felly am ddyddiau. Ond un diwrnod daeth i'w feddwl yn sydyn,—er mor odidog y breuddwyd, nid oedd wedi gweled un golwg ar Iesu Grist o gwbl, a syrthiodd i brofedigaeth ddofn ar unwaith, ac aeth hynny i bwyso fwy-fwy ar ei feddwl o hyd, a throdd cysur y dyddiau gynt yn ofid iddo yn awr.

Un bore, tra yn y cyfwng hwn, pan yn myned at ei waith, fe benderfynod ymofyn a Duw ei hun am esboniad ar y dirgelwch. A syrthiodd ar ei liniau ar y ffordd yn y fan. Wedi aberthu gweddi daer, yn rhyfedd iawn fe syrthiodd i gwsg esmwyth. A daeth yr hen freuddwyd yn ol, ac os ardderchog o'r blaen, yr oedd yn llawer ardderchocach y tro hwn; oherwydd yr oedd yr Iesu, gwrthrych mawr ei gariad a'i edmygedd, wedi ymddangos iddo y tro hwn, a chafodd yntau foddlonrwydd, a'i feddwl dawelwch.

Ac yn fuan yr oedd y breuddwyd wedi ei sylweddoli. Yr oedd efe wedi myned i aros at yr hwn a garodd mor fawr yn ei fywyd yma, ac i fyw "heb na phechod na phoen byth."

*Tylortown, Morgannwg.*

ARTHUR E. WILLIAMS.

## BUGAIL ISRAEL.

MORRIS DAVIES, Bangor.

DOH F.

TON I BLANT.

THOMAS POWELL,  
Rhoollanerchrugog.

n : f : s	l : - : s	m : re : m	f : - : m	d : r : m	s : - : f . m	r : m : r	r : - : -
m : r : m	re : - : m	d : l <sub>1</sub> : d	r : - : d	d : t <sub>1</sub> : d	r : - : d	l <sub>1</sub> : - : d	t <sub>1</sub> : - : -
s : l : s	fe' : - : s	s : fe : s	la : - : s	s : - : s	s : - : s	fe : - : fe	s : - : -
d : - : d	d : - : d	d : - : d	t <sub>1</sub> : - : d	m : r : d	t <sub>1</sub> : - : d	r : - : r	s <sub>1</sub> : - : -

s : l : t	d' : - : m	s : - : s	s : f : r	m : - : r	s : - : f	m : - : r	d : - : -
r : - : r	d : - : d	m : r : d	d : - : d	t <sub>1</sub> : - : t <sub>1</sub>	d : - : d	d : l <sub>1</sub> : t <sub>1</sub>	d : - : -
t : - : s	s : - : s	ta : - : ta	l : - : l	s : - : s	s : ta : l	s : - : f	m : - : -
f : - : f	m : - : d	d : r : m	f : - : fe	s : - : f	m : - : f	s : - : s <sub>1</sub>	d : - : -

**B**UGAIL Israel sydd ofalus  
Am Ei dyner anwyl wyn ;  
Mae'n eu galw yn groesawus,  
Ac yn eu cofeidio'n fwyn.

“Gadewch iddynt ddyfod ataf,  
Ac na rwystrwch hwynt,” medd Ef,  
“Etifeddiaeth lân hyfrydaf  
I'r fath rai yw teyrnas nef.”

Deuwn, Arglwydd, â'n rhai bychain,  
A chyfiwynwn hwynt i Ti ;  
Eiddot' mwyach ni ein hunain,  
A'n hiliogaeth gyda ni.

De'wch, blant bychain, de'wch, at Iesu  
Ceisiwch wyneb Brenin nef ;  
Hoff eich gwled yn dynesu  
I'ch bendithio ganddo Ef.

CYMRU'R PLANT.



PLANT CYMRU. CLXXVI. PLANT CYMRY'R ANDES.



## YSGOL YN YR ANDES.

**W**ELE, ar y ddalen gyferbyn, ddarlun o blant yr Andes,—Cymry, Chilenaidd, a brodorion; y Protestanaidd Cymreig, y Pabyddol Lladinaidd, a'r anwar ochr yn ochr. Hwyrach y dylwn ddechreu gyda'r *background*. Darn o'r ysgoldy a'i do gwellt, neu frwyn yn hytrach, yw'r peth cyntaf welir. Yna daw'r faner fawr Archentaidd wedi ei lledu ar y mur, yr hon a orchuddia un o'r fenestri. Ar y faner, y mae'r bwrdd du ac enw'r ysgol, fel y gwelir. O'r adeiladau cyffredin mewn lle fel hwn, mae'r ysgoldy yn un go dda. Mae wedi ei lorio yn dda a phlanciau o goed y mynyddoedd yma. Dyna hefyd yw y drysau a'u fenestri. 'Does dim yn addurnol o'i gwmpas fel adeilad, ond y mae'r Llywodraeth wedi ei ddodretnu yn dda oddi mewn. Nis gellir ymfrostio ei fod wedi costio ei fil-oedd, ond rhaid cofio nad oes yma filiwyddion; ac mai ychydig nifer o Gymry gwerinol a'i cododd.

Perthyn i'n ysgol 28 o blant,—ond cyfartaedd y presenoldeb ydyw y nifer welir yn y darlun. "Ysgol gymysg" ei gelwir, ac ysgol felly yw mewn mwy nag un ystyr. Y gŵr cadarn, cryf, welir ar yr ochr, yw Cadeirydd y Bwrdd Addysg, sef y Bonwr William R. Evans, un ymdrechgar o blaid addysg, brodor o gyffiniau Llanrug. Y bachgennyn welir yn eistedd ar y bocs yw Dafydd, mab William Coslett Thomas, o Ddeheudir Cymru. Yr agosaf ato, yn troi gwyn ei lygaid, yw Federico Cardou, Chiliad o du ei dad, a brodores yw ei fam. Brodor yw'r llall,—Domingo Catrighual. Juan Orias yw'r bachgen a'r siaced wen, Chiliad. Arthur, mab Thomas Morgan, yw'r pumed. Gruffydd Rhisiard, mab W. R. Evans, yw'r chweched. Dafydd, mab William Jones, Kansas, yw y seithfed. Gelwir ei dad fel yna am mai o Kansas yr ymfudodd i'r Camwy er's blynyddau yn ol; ond Cymro gwaed coch cyfan yw o Ddeheudir Cymru. Yn wythfed, dyna'r athraw, Owen Williams, gynt o Gapel Garmon,—gŵr sydd yn athraw mewn gwirionedd. Er cymaint yr anhawsderau mewn gwlad newydd, deneu ei phoblogaeth, gwna waith ardderchog. Mae ynddo fedr i gyfrannu addysg, astudia'n ddyfal sut i wneyd hynny, nid yn unig i blant ei ofal, ond i bawb o'i gwmpas.

Ar y dde i'r athraw, ac yn nawfed, John Tudur, mab Thomas Williams, o Ogledd Cymru. Y degfed yw Emilio Quintuman, brodor. Yr unfed ar ddeg yw Santiago Cardou, brawd i'r un enwais yn flaenorol. Y deuddegfed yw Aneurin, mab John D. Evans, paithwr rhagorol, un a deithiodd lawer drwy'r diriogaeth yn y cyfnod "when the noble savage ran" ar hyd-ddi. Bu et o fewn dim i fyned yn aberth i bicellau y brodorion yn "Nyffryn y

Merthyron," fel ei gelwir, ar ol y gyfiatan wnaed ar y tri Cymro gyd-deithient ag ef. Ceffyl da, yntau'n farchogwr medrus, a Rhaglunlaeth, a'i cadwodd i ddweyd am eu hynt chwerw. Y trydydd ar ddeg yw Gildas, mab eto i William Jones, Kansas. Y pedwerydd ar ddeg yw Owen, mab arall William R. Evans.

Yn eistedd ar y fainc, yn ochr Owen, mae Margaret Jane, merch Richard Hugh Williams, brodor o Riwbryfdir, Ffestiniog; yn nesaf ati, Buddug, merch J. D. Evans; yna Elizabeth, merch James Williams, o Ddeheudir Cymru; yna, mew'n gwyn, Maria Osias, o rieni Chilenaidd; yna Ester a'i chwaer Myfanwy, merched William Coslett Thomas; yna Margaret, merch Thomas Morgan; yna Mair, merch William Coslett Thomas, eto; ac yn olaf, Mercedes Mausilla, brodores.

Saif Bro Hydref,—neu, fel ei gelwid gan y rhai a'i darganfyddodd, Cwm Hyfryd,—wrth droed mynyddoedd yr Andes, tua 350 o filldroedd i'r gorllewin o Ddyffryn y Camwy, neu'r Wladfa. Ond, wrth gwrs, mae y Cwm Hyfryd a'r Wladfa yn yr un diriogaeth. Ceir ysgrifau dyddorol gan Miss Eluned Morgan am y lleoedd hyn o dro i dro yn rhifynnau CYMRU.

#### MYNACHLOG CASTELL NEDD.

**M**AE ardal Castell Nedd yn enwog am ei mynachlog. Dywed Leland, yr hanesydd, mai hon yw yr harddaf yng Nghymru. Saif tua milldir o'r dre. Am hanes y fynachlog hon, fel llawer un arall, nid oes sicrwydd. Bernir iddi gael ei hadeiladu yn amser y Normaniaid, tua'r flwyddyn 1111, gan Lalys, adeiladydd enwog i foneddwr o'r enw De Granville. Un o'r dwyrain oedd Lalys, daeth i Gymru gyda De Granville pan oedd y diweddaf yn dychwelyd, wedi bod am daith yn Palestina. Lalys hefyd adeiladodd Laleston (Tre'r Lalys).

Yn y fynachlog hon y daliwyd y brenin Edward II., yn y flwyddyn 1327, pan yn ffoi oddiwrth ei elynion, cyn ei roi i farwolaeth. Efe oedd tywysog Seisnig cyntaf Cymru.

Perchen presennol y fynachlog yw Lord Dynevor. Yn amser Henry VIII., cawn hanes mai ei pherchen oedd Syr Richard Williams, neu Cromwell, o deulu'r hwn y disgynnodd Oliver Cromwell.

Bob Llungwyn, y mae plant y capel Wesleyaid yn cael gwledd (*tea party*) yn yr hen eglwys sydd yn perthyn i'r fynachlog, ac yn mwynhau eu hunain yn fawr.

MYNACH.

## Y DDIMAU NEWYDD.

## III. DYMUNIAID Y TRI.

**T**RA wrthi yn adeiladu cestyll yn yr awyr fel hynny, daeth y *wiich* i mewn, ac meddai,—

“Yr ydwyf am tynnd a chwi yn awr i weled fy nghastell a fy milwyr. Rhoddwch eich capiau am eich pennau, a deuwch ar fy ôl.”

Ufuddhaodd y bechgyn iddi, a dilynasant hi i lawr y grisiau, ac ymhen ysbaid cawsant eu hunain yn yr awyr agored.

“Welwch chi yr adeilad yma?” gofynnai y ddewines.

“Gwelwn,” atebai y bechgyn.

“Edrychwch arno, dyma fy nghastell,” ebai hithau.

Edrychodd y bechgyn arno, a gwelsant adeilad du ac uchel, ac yn lle ffenestri, tyllau bychain yma ac acw. O'i amgylch yr oedd wal lydan, ac ar ei phen gwelent nifer fawr o filwyr bychain gyda chleddyfau yn edrych yn ddyfal i'r un cyfeiriad.

“Fuasech chi yn hoffi mynd at y milwyr?” gofynnai y ddewines.

Atebodd y bechgyn y buasant, ac heb yn wybod bron cawsant eu hunain yn eu canol; ac wedi cyrraedd y fan honno, daethant i wybod y rheswn dros fod y milwyr yn edrych i'r un cyfeiriad. Draw yn y pellder yr oedd tref fawr, ac yn ei chanol adeilad hardd ac eang, wedi ei oleuo i gyd nes edrych fel darn mawr o farmor gwyn wedi ei orchuddio bron yn gwbl â sêr bychain. O'i hamgylch yr oedd gardd, a choed o wahanol fathau yn tyfu ynddi. Tynnodd y fath olygfa sylw y bechgyn ar unwaith, ond ni chawsant lonydd i'w mwynhau ond am ychydig. Aeth y ddewines a hwy o'r neilldu, a gofynnodd iddynt,—

“Welwch chi y ddinas acw?”

“Gwelwn,” oedd yr ateb.

“Yn y fan acw,” ebai hithau, “y mae y brenin gwyn, a'i ferch, y dywysoges wen, yn byw. Ar derfyn gwlad y brenin yma y mae gwlad y brenin coch. Ymdrecha y brenin gwyn yn barhaus gymeryd fy nghastell, ond yr wyf wedi ei goncro hyd yn hyn. Y mae pethau yn bur dawel ar hyn o bryd, ond pan felly, byddaf yn talu ymweliad ag ef, ac yr wyf ar fedr gwneyd hynny eto yn fuan. Deallaf fod y dywysoges wen yn myned i briodi â'r tywysog coch, mab y brenin coch, as os cymer hyn le, bydd i'r ddau frenin ymuno a'u gilydd yn fy erbyn. Gyda chynorthwy y gwydr yma,” a thynodd y gwydr oddiar big ei het, “byddaf yn gweled eu holl symudiadau. Edrychwch drwyddo.”

Edrychodd y bechgyn y naill ar ol y llall drwyddo, a gwelsant yn eglur y plas; yr oedd y blodau prydferth yn yr ardd, ac yn bryd-

ferthach na'r cwbl, y dywysoges wen a'r tywysog coch yn cerdded law yn llaw ar hyd y llwybrau. Deallodd y bechgyn eu bod yn cael eu galw felly oddiwrth liw eu gwisgoedd. Wedi i bob un edrych drwy y gwydr, gofynnodd y *witch* iddynt,—

“Beth welwch chi?”

Adroddodd y bechgyn yr hyn a welsant.

“Wel,” ebai hithau, “yr ydych i gael yr hyn sydd yn y crochanau os bydd i chwi ddwyn y tywysog coch yn garcharor i fy nghastell.”

Arswydodd y bechgyn wrth glywed am y fath syniad, ond yn hytrach na dweyd hynny wrth y ddewines, gofynasant am amser i ystyried. Addawodd hithau ychydig oriau iddynt a dim yn rhagor, ac anfonodd hwy yn ol i'w hystafell. Yn ystod yr amser yma, penderfynodd y tri bachgen yn hytrach na niweidio y tywysog ieuanc welsant yn yr ardd y buasant yn gwneyd eu goreu i'w gadw o grafangau y ddewines, ac na fuasant yn cytuno â'i bwriad bradwrus er holl aur gwlad y Tylwyth Teg. Pan ddaeth yr amser i fyny, daeth y ddewines i mewn, a dywedodd wrthynt,—

“Mae fy milwyr yn barod, dowch allan atynt.”

Aethant hwythau allan a chawsant chwe milwr yn disgwyl am danynt. Synnodd y bechgyn weled can lleied o honynt, a dywedodd y ddewines, fel pe yn deall eu golwg,—

“Nid wyf am i chwi wneyd dim heno, ond yn unig dangos y ffordd i chwi at blas y brenin gwyn; a chofiwch nad oes yr un o honoch i siarad gair â'ch gilydd oddi yma yno, nac oddi yno yn ol.”

Ac felly yr aethant, heb yngan gair y naill wrth y llall, nes y daethant mor agos i blas y brenin gwyn fel ag i glywed swm y canu a'r llawenydd oedd o'r tu fewn. Heb aros ond ychydig wrth y plas aethant yn ol.

Yn gynnar bore drannoeth, adroddodd y ddewines ei chynlluniau wrthynt. Yr oedd am anfon rhai o'i milwyr i ymosod ar ddeiliaid y brenin gwyn gryn bellder oddi yno. Yn naturiol byddai i'r rhai hyn anfon am gynorthwy at eu brenin, a byddai yntau yn sicr o anfon milwyr i'w cynorthwyo. Wedi hyn, yr oedd am i'r bechgyn fyned mewn cerbyd at blas y brenin gwyn pan y byddai y tywysog coch a'r dywysoges wen yn dyfod allan i rhoi tro. Arferent a dyfod pan y byddai yn dechreu tywyllu; ac yna fod i'r bechgyn ymguddio yn y coed a chipio y tywysog a'i ddwyn yn y cerbyd i'r castell. Ni ofynnodd y ddewines a oeddynt am gyflawni hyn, ond cymerodd yn ganiataol eu bod yn barod i wneyd y cyfan. Oherwydd hynny, ni ddywedodd y bechgyn ddim yn amgenach wrthi; ond pan yn y cerbyd ar y ffordd i'r plas, penderfynasant pa fodd i weithredu. Yn lle aros yn y coed, aethant ymlaen at ddrws cartref y brenin, a dywedasant wrth ei weision fod ganddynf neges bwysig i'w meistr.

Synnodd y brenin pan glywodd fod tri cawr o flaen ei balas eisieu ei weled, anfonodd am y tywysog a'r dywysoges a llawer o'i filwyr ato i'w ystafell cyn i'r gweision gael eu gollwng i mewn. Wrth wrando ar y bechgyn yn adrodd am gynllun y ddewines, ac fel yr oeddynt wedi gwrthod cydsynio â'i chais, ac yn cymell eu gwasanaeth iddo ef, gellid canfod syndod ac amheuaeth yng ngolwg y brenin a'i deulu. Ac wedi i Tim orffen siarad, cododd y brenin a rhai o'i filwyr, ac aethant o'r neilldu, fel i ymgyngori pa fodd i weithredu. Yn fuan daethant yn ol, a dywedodd y brenin,—

“Yr ydym wedi penderfynu eich cadw yma nes cael a ydyw yr hyn a ddywedwch yn wir. Nid dyma y tro cyntaf i'r ddewines wneyd ymgais i fy lladd, a cheisio mynd a fy ngwlad oddiarnaf, ac os bydd i ni osgoi y cynllun yma o'i heiddo trwy eich cynorthwy chwi, mi a roddaf i chwi beth bynnag ddymunwch.”

Ar ol hyn, arweiniwyd hwynt i ystafell eang a chyfforddus, pur wahanol i'w hystafell yng nghastell y ddewines, a gwnaeth y brenin ymchwiliad yn ddiymdroi i'r hyn a ddywedent. Yn union fel yr oedd Tim wedi dweyd, cawsant gerbyd y ddewines yn y goedwig, ac aethant ag ef i'w ddangos i'r brenin. Cryfhaodd hyn lawer ar ymddiried y brenin yn y bechgyn, ac anfonodd am ei holl filwyr, a phenderfynasant ymosod ar y castell cyn y bore. Aeth Tim, John, a Wili gyda hwy, i ddangos y llecyn mwyaf diamddiffyn ar y castell. Ond nid oedd fawr o angen am hyn, oblegid nid oedd neb tu fewn i'w furiau yn disgwyl ymosodiad y noswaith honno. Ac i wneyd y drwg yn waeth, yr oedd yr ychydig filwyr oedd allan yn gwylio wedi syrthio i gysgu. Cyn pen ychydig oriau yr oedd y ddewines a'i milwyr yn garcharorion, a'i chastell yn goelcerth.

Pan glywodd y milwyr oedd wedi myned i ymosod ar ddeiliaid y brenin gwyn mewn rhan arall am hyn, ffoisant, ac ni welwyd yr un ohonynt byth wedi hyn. Amhosibl yw disgrifio y llawenydd yng ngwlad y Tylwyth Teg pan ddaeth y newydd yn hysbys fod yr hen elyn yn y carchar; ac yn fuan wedi hyn priododd y tywysog coch â'r dywysoges wen, ac adeiladasant gastell mawr a hardd ar y tir y safai gynt gastell y ddewines arno.

Ond beth ddaeth o Tim, John, a Wili? Wel, cadwodd y brenin ei air, a gofynnodd iddynt yng nghlyw miloedd o'r Tylwyth Teg ag oedd wedi ymgasglu i'w gweled,—

“Beth ydyw eich dymuniad?”

Atebodd y bechgyn gyda'u gilydd,—

“Cael mynd adre.”

Siomwyd y brenin pan glywodd hyn, ond gan mai dyma eu dymuniad, caniatodd iddynt gael myned, ac anfonodd rai o'i filwyr

i'w danfon. Yn tuan, diflannodd y milwyr o olwg y bechgyn, a chawsant eu hunain ar y ffordd fawr oddeutu milldir o'u cartref. Yr oedd erbyn hyn yn dywyll, a thystiai Tim ei bod yn hwyr iawn. Ymhen ychydig, er mawr gysur iddynt, maent yn cyfarfod mam Tim a mam Wili, ac mae'n debyg pe buasant wedi cyrraedd awr neu ddwy yn gynt, y buasant wedi cael curfa dda bob un. Ond yr oedd mor dda gan eu rhieni eu gweled yn fyw ac yn iach, fel y maddeuwyd iddynt am y tro.

*Penrhyn Deudraeth.*

FANNY EDWARDS.

### Y TAIR CHWAER.

GWENO, MANON, A CARYS.

**O**ES rhywbeth tlysach na phlentyn yn dweyd adnod, a honno? wedi ei dysgu yn dda, ac yn cael ei hadrodd yn syml a dirodres? Wel, un noson yr oeddwn yn y seiat, ac heblaw y plant arferol yr oedd yno dair o lodesi llygadlon, sef Gweno, Manon, a Carys. Fel y gallech dybied oddiwrth eu henwau, y maent yn dair Cymraes; ond nid yn y wlad hon y maent wedi eu magu. Ym mhale? Wel, yn Alexandria, yn yr Aifft, ac y mae iddynt gyfnitherfywiog o'r enw Olwen, yn Cairo. Wn i ddim taint o ieithoedd a fedrant. Credaf eu bod yn medru siarad gyda'r Arab yn ei iaith ei hun. Gallant ymgomio yn rhigl yn yr Eidaleg. Y mae ganddynt gyflawnder o Saesneg; ond y maent yn dysgu ac yn adrodd eu hadnodau yn yr "hen Gymraeg." Difyr yw eu gwranddo. Nid gallem lai na meddwl am y bobl fu yn ymdrechu yng ngwlad yr Aifft er's llawer dydd, ac yn dysgu iaith Canan i'w phlant, fel y mynegai yr oes a ddel ogoniant eu crefydd a'u Duw.

Wedi bod yn eu gwranddo yn seiat Beulah, Caernarfon, cynhyrwyd awen Elsbeth, a daeth allan ganiad newydd. Dylem ddweyd fod "J. D." yn yr ail bennill yn cyfeirio at y diweddar a'r anwy Mr. J. Davies-Bryan, un o sylfaenwyr yr achos yn Beulah. Noswyiodd yn gynnar mewn gwlad bell. A'r noson dan sylw, wele daith genethig,—plant ei frawd, Mr. Joseph Bryan,—yn "dweyd adnod" yn yr addoldy y bu efe yn llafurio i'w gael yn y dref. Dyma linellau tyner Elsbeth ar yr achlysur,—

"Daeth Gweno a Manon i'r seiat,  
A Carys a'u mham yr un pryd,  
Adroddwyd tair adnod yn swynol,  
Canmolodd Anthrosos nhw i gyd;  
A soniodd am danoch yn Cairo,  
Am Olwen a chwithau eich dau,  
Os ydych ymhell oddiwrthynt,  
Mae'r undeb o hyd yn parhau.

"Cyffyrddodd yn dyner ag enw  
Ein cyfaill caredig J. D.,  
A chawod o hiraeth ddaeth drosom  
Wrth gofio yr amser a fu;  
Rwy'n cofio y son a'r cynllunio  
Cael capel i'r cwrw hwn o'r dref,  
Mae Beulah yn agos i'w galon,  
Mi gredaf, yng nghanol y Nef."

## Y BACHGEN FYNNAI ROI CYNNYG.

**Y**N ddiweddar, yr oedd rhyw foneddwr yn Newcastle yn rhoddi hysbysiadau yn y newyddiaduron trefol, fod arno eisieu bachgen i gynorthwyo yn y swyddfa. Erbyn naw bore drannoeth yr oedd yno ddwsin o fechgyn wedi dod i ymgeisio am y lle.

Wedi dod i mewn i'r swyddfa, edrychodd y boneddwr yn graff arnynt, un ac oll. Ymddanghosai pob un o'r deuddeg mor ddel a glân, fel na wyddai yn y byd pa un i'w ddewis.

"Mechgyn i," ebai o'r diwedd, "y mae ar bob un ohonoch eisiau y lle; ond, wrth gwrs, nis gall ond un ei gael. Felly, yr wyf am gymeryd ffordd go ryfedd i gael allan pa un ddewisaf."

Yn ymyl desc y boneddwr yr oedd yno bolyn pren, a hoelen wedi ei phwyo iddo. Gan ymafael yn ei ffon, meddai,—“Y bachgen hwnnw fedr daro yr hoel ar ei phen, ddwy waith allan o dri chynnyg, hwnnw gaiff y lle.”

Neidiodd y bachgen cyntaf i fyny yn chwim, a chan ymafael yn y ffon, a thybio mai gwaith hawdd oedd, cododd hi yn hyf, a tharawodd yn hyderus. “Clec!”—ond disgynnodd yn rhy isel. “Clec!”—dipyn rhy uchel. “Clec!”—gormod i'r dde.

Cafodd pob un gynnyg yn ei dro, ond methu wnaeth pob un. “Wel, mechgyn i,” ebai'r boneddwr, “wnaiff yr un ohonoch mo'r tro i mi,” ac allan a hwynt.

Ymddanghosodd yr hysbysiad yn y papurau bore drannoeth drachefn, a daeth bagad o fechgyn ereill i ymotyn am y lle, ac yn eu plith un o'r bechgyn tuasai yno y dydd o'r blaen. “Hyllo! onid oeddych chi yma ddoe?” ebai'r boneddwr.

“Oeddwn, syr,” meddai'r bachgen.

“Methu ei tharo hi ddarfu i chwi ddoe, onide? Tybed y gallwch ei tharo heddyw?” ebai yntau.

“Gallaf, 'rwy'n meddwl, syr,” meddai'r bachgen, gan gymeryd gafael yn y ffon, a myned yn syth at y polyn. “Clec!”—yr oedd wedi rhoddi iddi ergyd ar lygad ei choryn!

“Oho!” ebai'r boneddwr, “digwydd medru ddarfu i chwi. Allwch chi ei tharo eto?”

“Clec!”—yn syth ar ei chop a hi drachefn!

“Unwaith eto, os medrwch, machgen i,” ebai'r boneddwr.

“Clec!”—a rhoddodd iddi glewtan gynnes ddarseiniol y drydedd waith.

“Campus, yn wir. Carwn glywed sut y darfu i chwi lwyddo i daro mor syth, machgen i,” ebai'r boneddwr.

“Wel, syr,” meddai'r bachgen, “pan yn myned oddi yma ddoe, tarawodd fi fod y peth yn bosibl, neu na buasech byth yn gofyn ini

ei wneyd, a phenderfynais fyned ati i gynnyg, ac i ymarfer, nes llwyddo. Pan gyrhaeddais adref, dywedais fy meddwl a'm bwriad wrth fy mam; estynnodd hithau forthwyl, a hoelen, a ffon imi. Yna, aethum i'r cefn, pwyais yr hoel i bolyn oedd yno, a deliais ati i daro ac i daro hefo'r ffon, nes y llwyddais i daro yr hoel bob cynnyg. Bore heddyw, wedyn, aethum yno am awr gron cyn brecwest, gan ddal ati nes medru taro yn gywir bob tro heb feth."

"Wel," ebai'r boneddwr, "tydi ydyw'r bachgen i mi," ac iddo ei y rhoddyd y swydd.

Pa waith bynnag roddid i'w wneyd i'r bachgen hwn, gwnai ef f'i holl egni; ac ymhen ychydig flynyddau, yr oedd wedi ymgodi i fod yn brif glerc y swyddfa.

H. BRYTHON HUGHES.

YR ENETH FACH AMDDIFAD.

YR haul mewn rhwysg ffarwelliodd,—  
Côr natur sydd yn fud,  
Y nos sy'n taffu mantell ddu  
Dros dlyson flodau'r byd;  
Prydferthwch sy'n ymguddio  
Dan aden ddu y nos,  
Disgynna'r gwllith fel perlau glân  
Ar wyneb anian dlos.

Distawrwydd sy'n teyrnasu  
Yn bruddaidd dros y wlad,  
Ym mrig yr hwy'r mae geneth dlawd  
Ar fedd ei mam a'i thad;  
Mae yno mewn unigedd,  
Heb neb i ddweyd ei chwyn,—  
Pwy all ddarlunio'r teimlad sydd  
Yng ngeiriau'r eneth fwyn?

"Amddifad wyf, yn crwydro  
Heolydd oer y byd, [mawr,  
Mae'r plant fu gynt yn ffryndiau  
Yn cefnu'n awr i gyd;  
'D'oes neb yn cydyndeimlo,  
O na,—amddifad wyf,  
A dyna ddywed ambell un,—  
'Dos i dylotyr plwyf.'

"Rwy'n cofio amser dedwydd,  
Mewn bwthyn bach dinam,—  
Bu gennyf unwaith gartref clyd,  
Ac hefyd dad a mam;  
Ond heddyw, maent yn huno  
Ym mhriddell oer y llan,—  
Os nad oes yma garreg fedd,  
Mae'n gysegredig fan.

*Treorci.*

"Fy mam, fy mam anwylaf,  
O na chawn eto gwrdd,  
A byw'n dragwyddol yr un man,  
O amgylch yr un bwrdd;  
'Rwy'n dlawd, yn wrthodedig,  
Heb neb i wrando'm cri;  
Mae pawb yn gwawdio, yn sarhau  
Cardotes dlawd fêl fi.

"O Iesu, anwyl Iesu,  
Nis gallaf ddal yn hir,  
O cymer fi, 'r'wyt ti'n parhau,—  
Parhau yn gyfall pur;  
O geidwad, anwyl geidwad,  
O paid a'm gadael i, [well,—  
'Rwyf am feddiannu gwlad sydd  
'Rwy'n dyfod atat ti."

Fel hyn, bu farw'r eneth  
Ar laswellt oer y bedd,  
Mae heddyw uwch tralodion byd,  
Tu fewn i ddinas hedd;  
Os gwelwyd hi'n anghenus,  
Yn dlawd,—er hyn i gyd,—  
Mae ganddi etfediaeth deg  
Sy'n well na golud byd.

Mewn mynwent dawel, unig,—  
Ymhell o gyrraedd gwawd,  
Lle nad oes dim ond glaswellt ir,  
Mae bedd yr eneth dlawd;  
Fu yno neb yn wylo,  
Na neb yn drist ei wedd,—  
Er hyn i gyd, mae engyl fyrrd  
Yn gwylio llwch ei bedd.

D. BRIALLYDD PHILLIPS.





ADAR CRWYDR WRTH FFENESTR GOLBUDY.

**Y MADAWIAD YR ADAR.**

**L**LE mae'r wennol erbyn hyn? Wedi crwydro ymhell, ar ol y gog, i ryw wlad gynhesach. Y mae miloedd, ie miliynau, o adar yn newid eu lleoedd ar ddyfodiad y gauaf. Erys rhai o adar Cymru yn Lloegr; cânt le i fwrw'r gauaf yn yr isel-diroedd coediog, cysgodol. Ond a toraeth yr adar crwydr yn llawer pellach. Treuliant hwy eu gauaf yng ngwledydd hafaidd y byd,—yn Hispaen neu yr Eidal, neu ar lannau gogleddol Affrig. Daw rhyw ysfa i symud trostynt. Weithiau, gwelir llond yr awyr ohonynt yn pasio goleudy neu yn croesi llwybr llong. Ehedant dros filoedd o filldir-oedd, drwy ystorm a heulwen; mae bron yn anhygoel y gallant fod ar eu haden mor hir.

A wnewch chwi ddal sylw pa adar sy'n aros gyda ni trwy'r gauaf? Rhowch enw pob aderyn welwch mewn llyfr. Yna cewch ddal sylw pryd y daw'r adar ereill yn ol.

## COF-GOLOFN T. E. ELLIS.

O LANYSTUMDWY, trwy Miss Mary J. Elias, Llythyrdy	.. .. .	s. c.
(Teulu'r Llythyrdy, 10/-; E. R. E., Canton House, 2/-; W. J. E., Dryll, 2/6; E. M. J., Plas Hen, 1/-; Capt. Roberts o Lerpwl, 2/6; A. E., Hen Berllan, 2/-; Mr. J., Dryll, 2/-; C. P., Tai Newyddion, 2/-; H. R., Caellwyd, 2/-; W. W. Garn, 1/-; J. E. R., Cae Llo Brith, 1/-; J. J., Ty'n y Morfa, 1/-; O. W., Tyddyn Shianol, 1/-; T. R., Tyddyn Madog Coch, 1/-; W. J., Frochas, 1/-; G. O., Gwynfryn, 1/-; T. J., Ruthin, 1/-; M. G., Cae Llwyd, 1/-; M. J., Cae Coch, 1/-; M. J., Trefan, -/6; D. R., Felin Bach, 1/-; M. E. a C. E., Hen Berllan, 2/-; E. P. a W. P., Maen y Wern, 1/-; M. R., Tir Bach, -/6; J. H., Cae Llwyd, -/6; G. W., Aberkin, -/6; W. P., Tai Newyddion, -/6; S. R., Talafon, -/6; J. R., Bron Dwyfor, -/6; J. R., Cae Llwyd, -/6; S. M., Ty'n y Ddôl, -/6; G. J., Britania, -/2; L. H., Bryn y Gro, -/2; W. J. Crown, -/2.)	.. .. .	45 0
O LANFELIDAN, trwy Miss Annie Roberts, Siambar Wen	.. .. .	26 6
(Teulu Siambar Wen, 16/-; R. E. R., Ty Newydd, Llanfair, 5/-; J. H. E., Pant yr Onn, 2/-; E. J. R., Fwll Du, -/6; Wynniaid, Rheol Felyn, 3/-.)	.. .. .	
O FOEL Y GARNEDD, casgl. Kate Watson, Ty Newydd	.. .. .	2 6
O LANUWCHLLYN, trwy Ifan ab Owen, Bryn'r Aber	.. .. .	100 6
(T. J., Glandwr, 10/-; L. J. D., Llythyrdy, 10/-; R. E. R., Bro Aran, 10/6; R. E., Glanlifton, 2/6; W. E. M., Cambrian, 2/-; T. J. E., Coed y Pry, 1/-; J. J. E., Pen y Geulan, 1/-; R. R., Pant y Ceubren, 1/-; J. E. J., Tyrpeg, 1/-; G. D. Prys, 2/6; E. D., Bryn Caled, 1/6; T. B., Ysgoldy, 1/-; T. Griffiths, Trem Aran, 1/-; E. E., Ty Mawr, 1/-; D. T., Ty Newydd, 2/6; R. P., Blaen Lliw, -/6; E. J., Gof, -/6; H. P., Tyddyn Llywarch, 2/-; D. W., Rhydsarn, 1/-; R. M., Hendre, 1/-; R. R., Maes Gwyn, -/6; R. J., Llwyn Llwydyn, 1/-; J. J., Llwyn Gwern, 1/-; E. W., Dolhendre, 1/-; C., 1/-; D. D. Prys, 2/6; O. M. E., 40/-.)	.. .. .	
Trevor Lloyd ac Elizabeth Olwen Jones, Llys Myfyr, Clwt y Bont	.. .. .	10 0
J. Evans, Heol Maengwyn, Machynlleth	.. .. .	1 0

## Y GWAITH YN TROI YN GAN.

'R OEDD Willie 'n mynd ar neges  
 Un bore dros ei fam;  
 Y ffordd oedd drom ac unig,  
 Ond ai, o gam i gam;  
 Cyn hir, bron heb yn wybod,  
 O'i fewn enynnodd tân;  
 A chana'i'n llawen wedyn,  
 Ei waith yn troi yn gân.

I'r siop yr oedd am fyned,  
 Er prynu gwlan i wau,  
 A chwillai am yr arian,  
 Wrth at y siop neshau;

O'r diwedd, cadd ei neges;  
 Dychwelai gyda'r gwlan,  
 Tan ganu wrtho'i hunan,  
 Ei waith yn troi yn gân.

Wel, gallwn ninnau ganu  
 Fel Willie wrth ein gwaith;  
 A daw pob peth yn hawddach  
 Wrth ganu ar ein taith;  
 Na foed i'n ddiagonaloni,  
 Pan ddaw blinderau mân  
 I rwystro'n llafur weithiau,  
 Ond trown ein gwaith yn gân.

R. G. NICHOLSON.

## HETH JONES.

[Mae y nodiadau a ganlyn wedi eu cymeryd o "Adgofion am hanes bywyd Mr. Heth Jones, Bryntirion, Adwy'r Clawdd," a ysgrifenuwyd ganddo ef ei hun yn agos i ddiwedd ei oes. Bu farw Mr. Heth Jones, yn Bryntirion, Adwy, Gorffennaf 1af, 1878; yn 77 mlwydd oed.]

**F**E'm ganwyd yn y Mwnglawdd, yn y flwyddyn 1801. Am y deuddeng mlynedd cyntaf o'm bywyd, arferwn ganlyn fy rhieni i gapel y Wesleyaid yn y gymydogeaeth honno. Tua'r adeg honno, dechreuodd fy hen dad yng Nghrist, Mr. Robert Llwyd (aelod a swyddog yn eglwys yr Adwy) gadw Ysgol Sul yn ei dŷ ardrethol ei hun yn y Mwnglawdd. Ymunais â'r Ysgol Sabbothol honno, a byddwn yn myned gyda Robert Llwyd i gapel yr Adwy i foddion y bore a'r hwyr. Derbyniwyd fi yn gyflawn aelod o eglwys yr Adwy pan oeddwn yn bymtheg oed.

Pan yn ugain oed, symudais i'r Bwlch Gwyn. Yr oeddwn yno ar ddechreuad yr achos crefyddol yn y lle. Buom yn cynnal Ysgol Sabbothol mewn tai am saith mlynedd; a'r pryd hwnnw ymgymerasom, fel ychydig ddisgyblion, âg adeiladu y capel cyntaf yn y gymydogeaeth. Chwe llath ysgwar oedd maintoli y capel. Bu'r ddeudell fechan yn ymgynnull i'r capel hwnnw i addoli am saith mlynedd. Mawr fu ein hymdrech a'n helbul yn ei adeiladu, er lleied oedd. Cawsom gan y ffarmwyr cyfagos gludo y defnyddiau yn rhad, a chawsom gan y gweithwyr adeiladu yn ewyllysgar ac am ddim, hyd nes cael y muriau i fyny; ond yr oedd eisieu cael tŷ arno, a ffenestri, a phulpud, a meinciau. I gyfarfod â'r gofynion hyn, caniatwyd i Robert Llwyd a minnau gael tocynau argraffedig i gasglu tuag ato yn yr Adwy a'r Bwlch Gwyn, a llwyddasom i gael y swm o £40 tuag at ddodrefnu ein haddoldy syml. Ymhen saith mlynedd wedi ei godi, yr oedd y capel yma yn fychan i'r gynull-eidfa, a bu raid meddwl am adeiladu un mwy; a'r tro hwn mentrasom adeiladu yr ail gapel yn wyth llath wrth naw. Llwyddwyd i ddyfod trwy yr ymdrech yma eto yn ddibrofedigaeth.

Yr wyf yn cofio sylw a wnaeth y Parch. Daniel Jones, Llandegai, pan yn pregethu ar un o'i deithiau yn y capel bach cyntaf. Yr oedd y lle cyfyng yn orlawn, ac yntau ei hun bron yn methu cael ei anadl yn y tyndra a'r gwres, ac ebai,—"Mi glywais ac mi ddarllenais lawer yn fy oes am anghrediniaeth, ond ni welais mohono a'm llygaid hyd heddyw," gan gyfeirio at fychander y capel. Daliasom i addoli yn y capel bach hyd nes yr oedd muriau y capel newydd i fyny, a thŷ arno; yna fe dafwyd y capel bach allan i'r mynydd trwy ddrws y capel newydd. Pan oedd yr ail gapel hwn wedi ei orffen, ac yn

barod i gael ei agoryd, digwyddodd fod Daniel Jones a'i gyfaill ar daith yn y Sir, ac efe oedd un o'r rhai a bregethent ar ei agoriad. Adgofiais iddo y sylw a wnaethai ar agoriad y capel bach, gan awgrymu iddo y buasal yn dda gennym glywed beth a feddyliai am y capel hwn, a gwnaeth hynny yn ei ddull doniol ei hun.

Yr oedd eglwys wedi ei sefydlu yn amser y capel cyntaf, a'r aelodau yn rhifo o ddeuddeg i ddeunaw. Wedi ein sefydlu yn eglwys, aethpwyd i alw a gosod swyddogion ynddi, pryd y dewiswyd Mr. John Powell, Rhosdir, a minnau yn ddiaconiaid. Bu hynny yn y flwyddyn 1830.

Pan oeddwn yn llawn deugain mlwydd oed, bendithiodd yr Arglwydd fi â gwraig, ac yr wyf byth yn ddiolchgar iddo am dani. Yr oedd fy mhriod yn aelod o'r eglwys yn Harwd, Brymbo; ac wedi ein priodi, gwnaethom ein cartref mewn annedd a elwir Gwern y Gaseg, gerllaw Brymbo. Y pryd hwnnw dibenwyd fy nghysylltiad â'r achos yn y Bwlch Gwyn, ac ymgysylltais â'r eglwys yn Harwd. Yr oedd capel Harwd wedi ei adeiladu er's dros ugain mlynedd cyn hyn, ond golwg led lwydaidd oedd arno. Tua'r flwyddyn 1841, daeth awel fywiol dros y ddeuddeg yn y lle, a deffrowyd i weled fod ar y tŷ eisieu ymgeledd. Anfonwyd ein cwyn a'n cais i'r Cyfarfod Misol, pryd y gofynwyd i Mr. Peters, Caergwle, fwrw golwg ar y lle, ac ymofyn pa adgyweiriad oedd yn angenrheidiol. Canlyniad hyn fu adeiladu capel newydd eangach a mwy golygus. Llwyddasom i gael tri o'n gweinidogion pennaf i wasanaethu ar ei agoriad, sef y Parchn. H. Rees, Humphrey Gwalchmai, ac Owen Thomas (wedyn Dr. Owen Thomas, Liverpool).

Mae Gwern y Gaseg wedi ei wneyd yn lle cysegredig i mi gan y gymdeithas a gefais yno â llu o bregethwyr y cawsom y fraint o'u lletya ar eu taith, y rhai, erbyn heddyw, sydd yn gorffwys oddiwrth eu llafur. Oddeutu y flwyddyn 1852, symudais o Brymbo i'r Adwy, ac adeiladais yno dŷ (Bryntirion) lle, fel y tybiem, y caem dreulio gwedd-ill ein blynyddoedd ar y ddaear ynddo. Er pan y symudais o Harwd yma, yr wyf wedi cael y fraint o weled dau gapel newydd yn cael eu hadeiladu yn y gymydogiaeth, sef Bethel a'r Nant; hefyd, gweld yr hen deml gysegredig yn yr Adwy yn cael ei hadgyweirio a'i helaethu. Pan yn fachgen pedair ar ddeg oed, bum yn arwain pregethwyr dieithr trwy y daith Sabboth, yr hon, y pryd hynny, oedd fel hyn,—Adwy 9, Rhos 2, Gwrecsam 6. Dyma yr holl gapelau a berthynent i'r Methodistiaid yn y rhanbarth yma o'r wlad y pryd hwnnw. Ond beth yw eu rhif erbyn hyn? "O'r Arglwydd y mae hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni."



PONT LLANRWST.

## GWERS DDIRWESTOL.

**P**A faint ohonoch, blant, sydd am fod yn ddirwestwyr? Diwrnod o ymladd yn erbyn y fasnach feddwol yw Sul dirwestol Tachwedd. Ydym ni yn y fyddin, a gawn ni wneyd ein rhan yn erbyn y gelyn melldithiol hwn? Pa faint o blant yr ysgol sydd yn gwybod digon o wyddoniaeth i wrandaw ar y baril cwrw'n dweyd ei hanes? Bron nad wy'n dychmygu ei glywed yn barod. Fel hyn y gwna,—

“Yn fy myw,” ebai, “nis gallaf ddeall y rheswm fod dyn a dynes yn fy hoffi gymaint. Hoffaswn pe byddai i bawb drafferthu ychydig i ddysgu fy iaith. Tarewsid hwy â syndod pan ganfuent y cyfeiliornad a wneir trwy fy yfed. Ni chyfeiriaf at y dinistr a ddeillia o hynny, ond yn hytrach at y syniadau gwibiog ac an-sylweddol o berthynas i mi. Tybiaf mai un dyn o bob mil a ymarfera â mi a wyr fy hanes. Clywsoch lawer gwaith mai yr hyn a elwir yn alcohol yw y drwg sydd ynnwyf. Tybiai ambell un y tywelltir yr alcohol i mewn i'r baril cwrw yn y gweithdy, megis y tywelltir llaeth i gwpaned o de. Ond nid felly. Ei hun y daeth yno, yn ddistaw, yn anweledig, trwy ymfurfiad fferyllol (*chemical actions*).”

Hoffasem pe baet, baril, yn egluro ystyr y gair alcohol, ynghyd â hanes ei darddiad. Mae rhywbeth mewn enw.

"Gwnaf hynny'n awr. Canfyddwyd ef gyntaf mewn gwin tua'r ddegfed ganrif, gan un o hen fferyllwyr yr oes honno. Tybid yr adeg honno y galesid iachau pob rhyw afiechyd, ond dod o hyd i'r hyn elwid yn ddwfr y bywyd. Tybiodd un ohonynt iddo ei ganfod mewn gwin, yfodd ef, ac wrth gwrs aeth yn feddw. Pan ddychwelodd i'w iawn synhwyrâu, canfyddodd mai nid da ydoedd. Bu iddo ei alw'n 'al ghoul,'—yr yspryd drwg. Tybiodd ef ar y dechreu iddo ganfod dwfr y bywyd (*aqua vitae*), ond dwfr marwolaeth (*aqua mortis*) ydoedd. Alcohol y gelwir ef heddyw. Egluraf y modd y daeth yr alcohol i'r ddiod. Os bydd i chwi wneyd un archwiliad bychan, ymddengys yn berffaith syml ac eglur. Cymerwch botel wydr wedi ei llanw hyd yr hanner â dwfr claiar, yn yr hwn y mae'n doddedig ychydig siwgrw. Yn awr, ond doddi ychydig o furum yn y cymysgiad, a syllu arno ymhen deng munud, gwelir fod y dwfr yn fyw trwy yr ymfurfiadau fferyllol ynddo. O'r burum (*yeast plant*) y daeth y bywyd. Gronynau mân o fywyd, anweledig i'r llygad noeth, yw y burum. Yn wir, mor fach ydynt, fel nad yw dau gant a hanner o filiynau o honynt ond megis diferyn dwfr. Ar eu cyffyrddiad â'r dwfr melus, dechreuasant ymborthi a chynyddu trwy wahaniaethu elfennau y siwgrw, y rhai ydynt,—carbon, hydrogen, ac oxygen. Dyweder fod yn y botel un gronyn (*molecule*) o siwgr, yna bydd i'r gronynau bywyd gynyrchu dau ronyn o alcohol a dau ronyn o'r nwy peryglus *Carbonic Acid gas* ( $\text{CO}_2$ ). Tybier i'r botel fod yn gauedig, yna, ond rhoddi goleuni ynddi, aiff allan ar unwaith, oherwydd y nwy amgauedig. Nid cynyrchodd bywyd a goleuni yw y nwy  $\text{CO}_2$  megis oxygen. Pa le mae yr alcohol? Yn y dwfr y llecha ef. Ac ond i chwi yted o hono, fe sylweddolir hynny. Onid oes modd cael gafael arno? Oes. Pe cymerid ychydig o'r dwfr a'i ferwi mewn llestr, yna, os arweinir yr ager trwy bibell ambgylchynedig â dwfr oer, bydd i'r alcohol ddisgyn ym mhen y bibell yn gymysgedig â dwfr. Berwn y cymysgiad hwn drachefn, yna bydd i'r alcohol losgi ar y wyneb ond ei danio, tra yr erys y dwfr yn y llestr. Gellir gwneyd hyn gyda'r holl ddiodydd meddwol. Pa gryfaf bydd y ddiod, hynny yw, pa fwyaf o alcohol a'i cytansodda, hwyaf y llysg yr alcohol ar y wyneb. Oherwydd tueddiadau alcohol at losgi, defnyddir ef at y cyfryw wasanaeth fel "methylated spirits." Trwy wasanaeth y burum y dygwyd yr alcohol i fod. Gwyddoch mai gronynau bywyd ydynt, y rhai ymborthasant ar y siwgr hyd nes ei drawsffurfio trwy rhyw foddau anesboniadwy yn alcohol a *carbonic acid gas*. Bron nad wyf yn clywed un ohonoch yn gofyn,—Pa sut, mewn difrif, y gellir cynyrchu dau beth hollol wahanol allan o siwgrw?" Atebaf yn yr ysgrif nesaf.

## GWOBR Y FAM.

**M**I a welais hedyn bychan yn cael ei roddi yn y ddaear. Gwlith a ddisgynnodd, a'r haul a dywynnodd arno; ac efe a dorrodd allan i fywyd. Ymhen amser daeth yr hedyn hwnnw yn bren, yn lledu ei ganghennau, yn gysgod rhag y gwres, ac adar y nefoedd yn nythu yn ei ganghennau.

Mi a welais ffrwd fechan yn rhedeg i lawr o'r mynydd, gan weithio ei ffordd ymlaen trwy ddyffryn a dôl; yn derbyn i mewn ffrydiau eraill ar ei thaith, nes dod yn afon gref i wasanaethu tref a gwlad, ac ymhell cyn ymarllwys i'r môr yn cario llongau mawrion ar ei mynwes.

Mi a welais fachgen bach siriol yn eistedd ar ystôl wrth droed ei fam, ac a'i clywais yn adrodd ar ei hol yr hen bennill melus,—

“ Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,  
Yn chwyddo byth i'r lan,  
Mae ynddi ddigon, digon byth,  
I'r truan ac i'r gwan.”

Mi a'i gwelais ef yn penlinio o'i blaen, ac yn gweddio,—

“ O Iesu da, achub fy enaid, cadw fi rhag y drwg, bendithia fy mam anwyl,  
ac eistedd yn Frenin ar yr holl ddaear.”

Aeth rhai blwyddi heibio, a mi a'i gwelais yn ymbleseru mewn dysgeidiaeth, ac arwydd myfyriaeth ar ei wedd. Yn fuan, drachefn, mi a'i clywais mewn cyfarfod gweddio, yn tywallt ei enaid gerbron Duw, ac yn cynhyrfu teimlad pawb oedd yn y lle a'i weddi wylaidd a gwresog. Ymhen rhai blynyddoedd wedi hynny, gwelais ef yn y pulpud, yn mynegi cyngor Duw, ac yn ymresymu am “gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd.” Edrychais, a gwelais mewn sedd o dan yr oriel y fam honno, wrth draed yr hon y bu efe yn penlinio i weddio Duw, a thrwy yr hon y dysgodd yn gyntaf adrodd enw Iesu Grist. Yr oedd gaeaf henaint wedi ei dal, ei gwallt yn wyn, ei gruddiau yn rhychiog; ond yr oedd sirioldeb tawel yn eistedd ar ei gwynepryd teneu, a'r nefoedd yn tywynnu yn ei llygaid llaith; a thybiais fy mod yn canfod yn y lleithder hwnnw dwymniad calon mam tra yr ehedai ei hadgof yn ol i'r dyddiau pan yr oedd y gŵr anwyl hwn yn blentyn ar ei glŵn, yn sugno ei bronau, yn gwrando yn astud ar ei haddysg, ac yn dechreu parablu ei weddio,—  
“Gweddiiwch yn ddibaid.”

Yna y dywedais,—Dyma gynhaeaf toreithiog llafur mam; dyma ysgubau braf yr had gwerthfawr a hauwyd, yn ddiâu, mewn dagrau. Bendigedig wyt, O fam dduwiol, dy benwynni ni ddygir mewn gofid i'r bedd; ac wedi i ti fyned i orffwys mewn tangnefedd, dy fab hwn a gyfyd, ac a'th eilw yn ddedwydd, ac o'r diwedd a'th gyfarch yn y wlad lle y llyncir i fywyd o'baith mewn mwyniant a gweddio mewn mawl.

## DOFI'R LLWYNOG.

**S**YLWAIS eich bod yn dweyd mai peth anodd ydyw dofi llwynogod bychain. Nis gwn i ond ychydig neu ddim am y gorchwyl; ond adwaenaf ddyn sy'n cartrefu yn ardal fy maboed, sef Llangenech, sydd wedi dysgu'r gyfrinach i'r dim. Glowr ydyw. Hyfrydwch mawr y gwr hwn, yn ei "hen ddyddiau," fydd treulio ei oriau hamdden i grwydro drwy goedwigoedd, i chwilio am ffauau'r llwynogod; ac nid anaml y dychwel adref heb lwyddo i ddal rhai o'r rhai ieuanc. Y mae wedi dal llawer yn ystod ei fywyd, ac wedi dofi mwy nag un.

Bum yn ei wyllo yn bwydo dau ohonynt yn Awst diweddfaf; mae y rheiny ganddo er's blwyddyn bellach, mewn *cage* eang. Danghosant eu dannedd i ddeithriaid, ond derbyniant fwyd o law eu meistrefel pe baent greaduriaid cartrefol iawn â'u carchar.

Mynych y ceir gweld y dyn a'i lwynogod yn mwynhau orig yn y wlad ar brydnawn tawel; a cheir eu gweld gyda'u gilydd mewn lleoedd y bydd llawer o bobl yn cyrchu iddynt.

Y mae gan y dyn enwau ar ei lwynogod, fel sydd ar gŵn yn gyffredin. "Mag" y geilw un. Nis gallaf gofio'r llall yn awr. Ac nid peth dieithr fydd gweld y naill yn llyfu'r llaw, a'r llall yn estyn cusan i'r gwr a'u magodd.

Hefyd, y mae ganddo ddaear-fochyn, "y creadur hyllaf welais erioed." Medr drin a thrafod hwnnw bron fel y myn; ond gwae i'r neb arall ddaw yn rhy agos iddo. Tynnwyd darlun o hono dro mawr yn ol, a'r daear-fochyn yn eistedd yn hollol hamddenol wrth ei benelin. Rhydd ambell dro i'r heolydd unig â'r creadur hwn hefyd; ond y mae ganddo gadwen gref yn ei law, wrth yr hon y diogelir yr anifail.

Er mai glowr cyffredin, a phentrefwr syml, yw fy hen gyfaill, gall eistedd ar dwmpath neu gamfa, a'ch difyrru am oriau wrth adrodd ei helyntion ar lwybr y llwynog, a chreaduriaid gwylltion ereill. Ac yn ei ddull dirodres ei hun, gall gyfrannu penodau o wybodaeth i ambell wr dysgedig yn y cyfeiriadau hynny.

Heblaw hyn, gwyr gryn lawer am adar, a choed, a blodau. Onid oes naturiaethwyr di-hanes felly yng Nghymru?

*Ton, Pentre.*

CENECH.

---

SE Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.

---



# AT Y PLANT.



**G**YDNABYDDAF gyda diolchgarwch y symiau isod anfonwyd at gof-golofn T. E. Ellis. Bydd yn dda gan y plant gael teimlo, ymhen blynnyddoedd eto, eu bod wedi taflu eu tusw o flodau, megis, ar ei fedd, i ddangos eu serch tuag ato a'u parch i'w waith.

	s. c.
PENNAL, casgliwyd gan David Davies, Cwyt .. .. .	8 4
TON Y PANDY, trwy Richard Lewis, Y.H. .. .. .	55 0
(John Howells, Llyfrwerthwr, 2/6; J. D. Jones, The Emporium, 5/-; David Thomas, 105, Primrose Street, 1/-; D. D. Davies, 145, Henry Street, 2/-; Geler Jones, Commerce House, 5/-; D. M. Williams, Bryngelli, 2/6; Ellis Jones, Arolygydd Yswiriol, 2/-; D. S. Thomas, 59, Henry Street, 2/-; M. H. Heycock, 36, Dunraven Street, 1/-; J. T. Lewis, Eirianfa, 5/-; Llewelyn Evans, Commerce House, 5/-; Hugh Jones, River View, 1/-; Tom Rhys, Cigydd, 2/6; David Evans, Rhys Street, Trealaw, 1/-; Tom Evans, Llwynypia, 5/-; David Morgan, Llwynypia, 1/-; Archie Jones, Maes y Coed, Trealaw, 2/-; Richard Lewis, 10/6.)	

PLANT PWLLHELL, Pentre Celyn, Rhyd, Abertawe, &c. Daw eich darluniau yn y rhifynnau nesaf.

**LLENORION.** Ymysg llyfrau newyddion y mis y mae'r rhai canlynol. Rhoddaf eu pris, a'r lle y ceir hwy,—

**ISLWYN.** Caneuon heb eu cyhoeddi o'r blaen, 1/6; R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy. **ADGOFION HIRARTHOG AM MICHAEL ROBERTS,** 1/6; Hugh Evans, 444, Stanley Road, Lerpwl. **ANN GRIFFITHS,** gan Elfed, 1/-; Swyddfa'r Wasg Gymreig, Caernarfon. **ANN GRIFFITHS.** Casgliad cyflawn o'i holl waith sydd ar gael, -/3; Caernarfon, Llyfrfa'r Methodistiaid.

**DYMNWYN** alw sylw hefyd at lyfrau campus Ysgol Sul yr Anibynwyr am 1904,—llyfr y Parch. G. Penar Griffiths ar yr Actau, y Parch. D. H. Williams ar y Barnwyr, a'r Parch. J. Grawys Jones ar Hanes Iesu Grist. Swllt, grot, a dwy geiniog yw y pris.

**E. DRURY.** Y mae'r gân yn rhy hir, i'r dalennau hyn; ni roddir lle i gân dros bedwar pennill os na bydd rhywbeth eithriadol iawn ynddi. Y mae awen yn y penillion,—rhyddid y mynydd, a swyn hanes. Ond nid yw y mesur a'r odl yn hollol ddifai.

**R. A. J. (Caernarfon).** Mae'r erthygl yn un dda iawn; cedwir hi tan un o rifynnau yr haf.



DIWYDIANNAU CYMRU XII. GWERTHIO

# CYMRU'R PLANT.

CYF. XII.

RHAGFYR, 1903.

RHEIF 144.

## Y DDAU BACH SMALA.

**R**HAI bychain oeddynt, ac yr oedd hynny yn peri eu bod yn destyn sylw pawb yn y pentre. Yn wir, yr oeddynt mor fychain fel yr oedd pobl yn methu deall sut y gallent wneyd cymaint o ddyrgioni. Ond beth bynnag am y "pa sut," arosai y ffaith. Enw un ohonynt oedd Dic; ac os rhaid dweyd y gwir, rhaid dweyd hefyd mai anhawdd fyddai cyfarfod a chorffyn bach rhyfeddach yr olwg arno. Yr oedd ei wallt yn goch ddiamedheuol. Pe gwelech ef yn dod o bell, nis gallech ei gamgymeryd am neb arall. Rywfodd nid oedd gan yr un plentyn yn y pentref wallt yr un lliw ag ef yn hollol, er fod llawer yn tueddu at fod yn goch. Gwyneb bach gwelw a theneu; llygaid gleision, wedi eu gosod yn ddwfn yn ei ben; ac fel y dywedasom, o ran corff nid oedd fel y cyffredin o blant. Nis gellid ei gyfarfod heb sylwi ei fod ychydig yn getn-grwn, yr hyn barai i bawb dosturio wrtho. Wel, dyna i chwi syniad go lew am Dic.

Enw ei gyfaill ydoedd Walter. Ymddangosai ef ychydig yn iau na Dic, ond o bosibl codai hynny oddiwrth yr anffawd yr ydym newydd gyfeirio ati. Gwallt du, neu o leiaf tywyll, oedd gwallt Walter, ac felly, gwelwch fod y gwahaniaeth rhwng y ddau yn fawr iawn. Gwyneb agored llawn oedd ganddo; llygaid bychain, duon, a chorff eiddil, main, rhy fach i ateb y pen oedd arno, ac un hynod anesmwyth. Yn wir, nid oedd yr un o'r ddau, Dic na Walter, yn llonydd am eiliad. Yr oedd rhywbeth tebyg iawn i arian byw yn rhedeg drwy eu gwaed nes eu cadw, fel y môr, i symud yn barhaus.

Yn y pentref, lle yr oeddynt yn byw, nid oedd yn bosibl cael dwfr gŵn heb fyned i'w gyrchu at y ffynnon. Ac yn fynych byddai mamau y ddau yn eu gyrru i nol ychydig gyda'u gilydd.

Un bore, yn gynnar ynnar, wrth fyned i gario piseraid o ddwtr bob un, fel arfer, dechreuasant feddwl am ryw ddireidi newydd, gan nad allent fyw heb wneyd rhywfath o gastiau neu gilydd o hyd. Ar ol bod yn ddistaw am funud neu ddwy, dyma Dic yn sefyll yn llonydd, a'i llygaid yn ffachio gan falchder cellweirus.

"Walter," meddai, "be ta ni'n gneyd tric i ddychryn yr hen Mari Hwmffras 'rwan wrth y ffynnon? Wt ti'n gwbod bydd hi'n dwad yma bob bora i gario dwr?"

"Ol reit," atebai Walter, "be allwn ni neud?"

"Wel, dos di i brynnu potel o inc coch i siop Lewis, a tyd a fo yma mewn munud, a mi ddeyda i wrthat ti be nawn ni wedyn. Dyma geiniog iti dalu am dano."

Felly, yn ol yr aeth Walter, tra yr aeth Dic ymlaen i gyfeiriad y ffynnon i'w aros. Ar ol ychydig amser, gwelai Dic ei gyfaill yn dod ar frys, a chan nad oedd yn ddigon amyneddgar i'w aros, rhedai i'w gyfartod.

"Gest ti o?" oedd ei ofyniad cyntaf.

"Do siwr," ebai Walter.

"Dyma chi," ebe'r llall. "'Rwan, dyma'r tric own i am neyd cyn i Mari Hwmffras ddwad. Ar ol i ni'n dau gymud dwr o'r ffynnon, mi dafla i'r inc yma i ganol y ffynnon, ac wedyn, mi fydd y dwr i gyd yn goch fel gwaed, a phan ddaw yr hen wraig, mi fydd yn meddwl fod rwbath rhyfadd ofnatsan wedi bod yma. Wt ti'n gweld? Be wt ti'n feddwl o'r tric? Dydi o ddim yn un da?"

"Wel, ydi fachgan," meddai Walter, "mi gyma i lond y mhiser i o ddwr rwan, tra byddi di yn agor y botal."

Cyn pen ychydig amser yr oedd y corcyn wedi ei dynnu, a'r ddau biser yn llawn o ddwfr glân, a'r bechgyn yn paratoi i daflu'r inc i'r ffynnon. Ond cyn gwneyd hynny, edrychodd y ddau o gwmpas yn ofalus, i weled a oedd rhywun yn ymyl yn eu gwyllo neu beidio. Gan nad oedd neb, tafasant gynnwys y botel i'r ffynnon, gan gymysgu'r dwfr i gyd, a golchi'r botel yn lân hollol, a'i thafu ymhell i'r caeau. Ar ol gwneyd hynny, ffwrdd a hwy yn eu holau, ar hyd y meusydd y tro hwn, gyda'u piseri, fel pe na byddai dim byd allan o'r cyffredin wedi digwydd.

Yn union ar ol iddynt gychwyn, dyma Mari Hwmffras yn dyfod, gan feddwl codi dwfr o'r ffynnon. Er ei mawr syndod, gwelai fod y dwfr wedi troi yn waed (i'w thyb hi). Nid oedd neb yno ond y hi, ac oherwydd hynny, ar ol syllu ar y gwaed tybiedig am beth amser, ac ar ol ceisio esbonio'r amgylchiad, penderfynodd ddychwel-yd yn ol i gydymgyngchori â'i chymdogion yn ei gylch.

"O ie, ma'n sicr gini fod rhywun wedi cael ei ladd, neu hanner ei ladd yma. A rhag i'r gwaed ddangos i ble roedda nhw'n mynd a fo, mi ddaryn i godi o, a'i gario yn ofalus o'r fan 'ma ymlaen."

Rhywbeth tebyg i hyn oedd yn rhedeg drwy feddwl Mari wrth edrych o'i chwmpas. Mawr fu y siarad, a llawer oedd y gwahanol esboniadau roddid ar y peth. Credai Mari fod bywyd rhywun wedi ei golli yn sicr, gan fod dwfr y ffynnon mor goch, a phellach, gan

fod ysmotiau o waed i'w gweled yn arwain o'r ffynnon am ychydig bellter, ac yna'n darfod yn sydyn. O'r diwedd, daeth yr holl hanes i glyw mam Dic.

"Welaist ti waed yn y ffynnon?" gofynnai iddo amser ciniaw.

"Naddo," oedd yr ateb parod, yn cael ei roi gyda gwyneb llawn syndod. Ymhen rhyw funud neu ddwy, dyma ei fam yn holi drachefn,—

"Oedd 'na rhywun yno heblaw chi y'ch dau, pan aethost ti a Walter i nol dwr bora heddyw?"

"Nag oedd," ebe Dic wedyn. "Welson ni neb."

"Diar mi," meddai ei fam, "ma Mari Hwmffras yn deyd fod y ffynnon yn llawn gwaed, a spotia o waed yn mhob man hyd y llawr; a ma hi yn deyd fod rhywun wedi cael ei ddiwedd yno'n shwr, wrth bob tebyg."

Gwrandawai Dic yn ddirifol ar ei fam yn myned dros yr hanes. Ac ar ol ciniaw, aeth allan i chwareu gyda'i gyfail, Walter, ac aethant am dro hir gyda'u gilydd, gan chwerthin, a meddwl, a siarad, am y tric a wnaethant â'r hen Mari Hwmffras druan.

"Yn doeddwn i'n deyd y basa ni'n cael sport efo'r inc," meddai Dic. "Dwi ddim wedi chwerthin cimin es amser."

"Ond be tasa nhw wedi'n dal ni wth y ffynnon Dic?" ebe Walter, "mi fasa ni'n cael hanner y'n lladd, yn basa ni?"

Dyna un tro ddigwyddodd yn hanes y ddau bach smala. Ac os ceir cyfle eto, gellir adrodd llawer hanesyn dyddorol yn eu cylch.

R. G. NICHOLSON.

### Y SEREN UNIG.

O SEREN fechan, nefol,  
Mor siriol ydwyt ti;  
Mae cwmi'n'th wên garuaidd  
Yn falmaidd heddi ni;  
Goreuro mae'th feddylliau  
Gyrolau'r brydferth nos;  
Dwyn swynion pell wnei'n agos,  
O aros, seren dlos.

O seren ddiaglaer, unig,  
Mor ddiiddig wyt o hyd;  
Ni theimlî fflingell stormydd  
Sydd beunydd yn y byd;  
O coda ninnau'n uchel,  
I dawel froydd gwell,  
O gyrraedd rhuad tonnau  
Gofidiau, seren bell.

*Y Bala.*

O seren, ddwyfol seren,  
Mor llawen yw dy wedd;  
Dy emau adlewyrchant  
Ogoniant gwlad yr heddi  
Ein denu mae mawrhydi  
Y tlysmi loewa'th fron,  
I wisgo delw swynol  
Y nefol, seren lon.

O seren anwyl, aros,  
A dangos ini'r nef;  
A glywi di 'ng Nghaersalem  
Yr anthem "Iddo Ef?"  
Dan wenu gwna dy neges,  
Angyles lân, uwchben;  
Ac arwain ni'n dyrfaoedd  
I'r nefoedd, seren wen.

RICHARD AB HUGH



TEYRNASIAD Y GAUAF.

“Yr eira yn disgyn fel plu gwynion, nes gorchuddio yr holl wlad o amgylch.”



## SANTA CLAUS.

**W**EDI blino yn edrych drwy y ffenestr ar yr eira yn disgyn fel plu gwynion yn araf ac yn dawel, nes gorchuddio yr holl wlad o amgylch ei chartref, gadawodd Doli fach ei heisteddle wrth y ffenestr a throdd i wyllo Mary y forwyn yn goleu y lamp. Yna cymerodd ei chadair freichiau ei hunan, ac eisteddodd o flaen tanllwyth o fawn, gan edrych yn fytyrgar arno, a cheisio dyfalu beth ddeuai yr ymwelydd rhyfedd a dieithr hwnnw (a elwir yn gyffredin yn Santa Claus) iddi y noswaith honno. Bob bore Nadolig, er pan oedd Doli yn cofio, yr oedd wedi derbyn rhywbeth ganddo; ac edrychai

ymlaen gyda phleser ers wythnosau at y noson pan y cawsai grogi ei hosan wrth bost ei gwely yn barod iddo roddi rhywbeth i mewn. Wedi bod yn hir yn meddwl am y peth, gofynnodd i Mary,—

“Ydi Santa Claus yn siwr o ddwad heno?”

“Ydyw,” ebai hithau, “os na wneiff yr eira rwystro y tren sydd yn i gario fo. Mae o wedi rhwystro un tren.”

“Gobeithio na wnaith yr eira ddim,” ebai Doli. “Os gwneiff o, mi rôf fy hosan bob nos nes daw o.”

“Beth gawsoch chi tro blaen?” gofynnai Mary.

“Doli, mul bach, a peth canu,” oedd yr ateb.

“Be gewch chi tro yma tybed?”

“D oes arna i ddim isio hen ful, na hen beth canu, na hen lestri bach,” meddai Doli, “mae rhaid i mi gael doli fawr, fawr, bocs o soldiers, a pêl bob lliw.”

“Chewch chi byth mo’r petha yna i gyd ar unwaith,” ebai y forwyn.

“Mae yn rhaid i mi gael, rhaid i mi gael,” meddai yr eneth fach groes, gan fwmian crio a gwneyd swm drwg. Gwelodd Mary fod yn bryd iddi fyned i gysgu, tynnodd am dani, ac aeth â hi i’r gwely.

Wedi i Mary fynd i lawr, cadwai Doli ei golwg bob yn ail ar y drws ac ar y simdde, gan ddisgwyl gweled Santa Claus yn dod i mewn, er mwyn iddi gael dweyd wrtho beth oedd arni eisieu. Bob

tro o'r blaen yr oedd Doli yn digwydd bod yn cysgu, ac felly meddyliai na wyddai Santa yn iawn beth i roddi iddi. O'r diwedd y mae drws y lloft yn agor yn araf ac yn ddistaw, a gwelai Doli hen wr yn dod i mewn, gyda gwyneb caredig ganddo, gwallt a barf ganwynned a'r eira oedd wedi disgyn y noswaith honno, ac wedi ei wisgo mewn cap a mantell flew o'r un lliw a'i wallt a'i farf. Ar ei gefn yr oedd parcel mawr yn llawn o anrhegion i blant,—*dolls*, ceffylau, drym, arch Noah, a llu o bethau ereill. Yr oedd Doli yn falch iawn o'i weled; ond yn ei byw nis gallai ddweyd yr un gair wrtho. Gwelodd ef yn tynnu rhyw bethau o'i barsel wedi eu lapio mewn papur, ac yn eu rhoddi yn ei hosan, yna yn dod at ei gwely, yn gafael yn ei llaw, ac yn peri iddi godi a mynd allan gydag ef.

Aeth Doli yn ei law i lawr y grisiau, trwy ddrws y ffrynt, ac allan i'r eira. Wedi cerdded am ysbaid yng ngoleu y lleuad, daethant at res o fwthynod. Agorodd Santa Claus ddrws y bwthyn cyntaf, ac aeth i mewn, a Doli gydag ef. Yno gwelodd yr eneth fach olygfa ryfedd iawn. Nid oedd yn y bwthyn ond un ystafell, ac mewn un gornel iddi yr oedd dynes yn gorwedd ar wely bychan, carpiog; mewn cornel arall, ar swp o wellt, yr oedd dwy eneth fach yn cysgu a golwg welw arnynt. Yn eu hymyl, ar ddarn o gadair, yr oedd dwy hosan yn hongian. Danghosodd Doli hwynt i Santa Claus; ond ni roddodd un anrheg o'i barsel ynddynt, ysgydwodd ei ben, ac amneidiodd arni i fyned allan.

Oddiyno aethant i'r bwthyn nesaf, ac yno gwelsant fachgen bach mewn gwely bler a budr, yn dal yn dynn ei hosan yn ei law dros ochr y gwely. Meddyliodd Doli yn siwr y cawsai hwn rywbeth, ond allan yr aeth Santa, gan adael yr hosan yn wag.

Yn y bwthyn nesaf cawsant olygfa wahanol eto. Mewn gwely tylawd ond glân, yr oedd pump o blant bach, tlws, yn cysgu, ac yn hongian yn rhes ar droed y gwely yr oedd pump hosan. Danghosodd Santa Claus hwynt i Doli, yna ysgydwodd eto ei ben yn dosturiol, a thynnodd hi allan.

Wrth fyned tuag adref yn ei law, ac edrych i mewn i aml i ffenestr wrth basio, gwelodd Doli lawer o hosanau yn disgwyl am Santa Claus, ac yntau yn myned heibio heb gymaint ag edrych arnynt. Wedi ffarwelio â Santa, a myned yn ol i'w gwely, dechreuodd Doli wylu yn hidl, a wylu y bu am oriau, wrth feddwl am y plant bach fyddai yn rhedeg at eu hosanau bore drannoeth, ac yn eu cael yn wag. Wylu yr oedd pan ddaeth ei mam i'w galw yn y bore. Ond tawelodd ychydig pan welodd yr anrhegion yn ei hosan. Cusanodd ei mam, a diolchodd yn gynnes am danynt, er nad oeddynt yr un o'r pethau yr oedd arni hi eisiau y noson cynt. Yr oedd Doli yn eneth fach well erbyn hyn; yr oedd yr hyn oedd wedi weled yn troi yn fendith iddi, a gofynnodd i'w mam,—



"Oes plant bach yn ymyl ni, mam, heb ddim yn eu hosan?"

"Oes," ebai ei mam, "mae llawer o blant o gwmpas nad ydynt wedi cael dim Oes gennych chwi rywbeth i roi iddyn nhw?"

"Beth gai roi?" gofynnai Doli, "gai roi be ydw i yn leicio?"

"Cewch," ebai ei mam. "Beth rowch chwi?"

Dechreuodd Doli enwi llawer o'i theganau, ac addawodd ei mam y cawsai Mary fyned a hwy gyda hi. Yr oedd hyn wrth todd yr eneth fach, ac ni threuliodd Doli erioed ddiwrnod mor hapus a'r diwrnod hwnnw y bu yn ceisio cynorthwyo ychydig a'r Santa Claus.

FANNY EDWARDS.

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

**D**DOE gwelais liw coch yw lliw gwallt Jane Williams sydd weithiwr gonest diymffrost yw Henry Brynchrug sydd amaethdy parchus yw y geirwir trwy dwyll yr enillodd y dyn y safie anrhydeddus i addysg y mae cefnogwyr lawer iawn a ofynwyd i gwmni y ffordd haiarn sydd ddefnyddiol yng Nghymru y pesgir anifeiliaid tewion yw da corniog Robert Jones sydd hyddysg yn ei Feibl bach a arferir i bysgota cwn sydd greaduriaid call bendithiol yw yr Ysgol Sabbothol i ddysgu darllen Saesneg sydd iaith estronol yn Awstralia y mae yr hinsawdd yn boeth y mae yr hinfesurydd yn gywreinwaith o eiddo dyn gwyn yw yr eira ar y coed y bydd dail naturiol i'r dyn ofni bwystfil rheibus yw yr arth yn y goedwig y bu John yn chwilio am nythod adar duon yw y brain ddaeth Mary erioed adref heb gynorthwy arian ydynt angenrheidiol i brynu synwyr sydd werthfawr i CYMRU'R PLANT bydd cylchrediad eangach eto y flwyddyn nesaf.

GWELLYN.

### BEIBLAU.

**Y** MAE'r Gymdeithas Feiblau yn gwario saith gant o bunnau bob dydd, ac yn argraffu dwy fil o gopiau bob awr waith o Ionawr hyd Rhagfyr. Nid oes yr un llyfr yr argreffir cymaint o gopiau ohono. Unwaith byddai Beibl yn werth ystad; yn awr nid oes plentyn yng Nghymru yn rhy dlawd i feddu un.

Nid oes yr un llyfr yn meddu mwy o ddylanwad ar y byd. Gorweddaid Beibl yn fud a dirmygedig unwaith ym mhlas: brenhinol Madagascar. Yr oedd y Cristionogion dan erledigaeth chwerw. Ryw ddydd, pan mewn galar, cydiodd y frenhines Ranavalona ynddo. Darlennod ef i leddfau ei hiraeth. Dysgodd weddio ar Dduw'r Beibl. Enillodd y Beibl felly galon newydd a gwlad newydd iddo ei hun.



“Daeth awydd angerddol am dalu hen ddyledion drostynt.”

### TALU DRWG AM DDRWG.

**Y**R oedd ysgubwr simneuw yn byw yn un o drefydd Cymru, ac yr oedd yn ddychryn i fechgyn direidus y fro. Weithiau mynnai ysgwyd llaw & hwy; ac er nad oedd eu dwylaw yn lân bob amser, yr oeddynt bob amser yn lanach na dwylaw *sweep*. Weithiau tarawai ei law ar eu bochau, a byddai yspotyn du, budr, o barddu lle rhoddai ei law. Ac ambell dro rhoddai huddygl i lawr eu gwarrau.

Daeth tro y bechgyn i ddial. Disgynnodd cawod o eira, yn ddistaw ddistaw, dros heolydd y dre yn y nos. Wrth fynd i'r ysgol y bore, pwy welai bechgyn pen ucha'r dre ond yr hen *sweep*. Daeth awydd angerddol am dalu hen ddyledion drostynt. Talasant wyn am ddu. Ond talu drwg am ddrwg oedd.

## YR IAWN FFORDD I GERYDDU PLENTYN.

[Cyfieithiwyd yr hanesyn isod o'r *Hospital*, er mwyn rhai sydd a gofal plant arnynt, gan un o feddygon mwyaf adnabyddus Cymru, sef Isallt, Blaenau Ffestiniog.]

## I. Y DENTASIWN.

**Y**N un o ysbytai plant Llundain, y mis diweddaf, yr oedd bachgennyn o'r enw James, a berthynai i'r dosbarth tlotaf yn y ddinas. Dysgwyd ef o'i febyd i ddweyd anwiredd, i ladrata, ac i dwyllo. Yr oedd yn ddichellgar a distaw, a beunydd chwenychai o eiddo ei gymydog yr hyn fyddai at ei bwrpas. Yr oedd yn llwyd a gwelw, ac yn dioddef dan afiechyd a fyddai cyn bo hir yn angeuol iddo. Buan ar ol ei ddyfodiad i'r ysbyty, dechreuodd y plant eraill—ei gyd-gleifion—golli eu pres, eu teganau, a'u llyfrau; a thrwy golli amryw o bethau ereill perthynol i'r sefydliad daeth yn amlwg fod lleidr yn yr ystafell.

Daeth pethau i bwynt trwy i rieni ei gyd-gleifion achwyn wrth y Chwaer Dale yr oedd y *ward* dan ei gofal. Teimlai pawb yn lled sicr mai James oedd y pechadur; a chan na oddefid iddo godi o'i wely, ni fedrai neb ddyfalu sut y gallai lwyddo i ddwyn yr holl gelfi a ddiplannai, a'u cuddio o'r golwg nas gwyddai neb ym mha le. Ond un noswaith, pan oedd y *nurse* ar ei swper, digwyddodd i'r meddyg, Dr. Sinclair, ddod i mewn i'r *ward* a'i esgidiau distaw am ei draed. A beth ganfyddai ond James yn ei goban laes, ac yn droednoeth, fel rhyw ysbryd bach, yn myned o'r naill gwpwrdd i'r llall berthynai i'r plant. Ymgiliodd y meddyg o'r golwg, er mwyn ei ddilyn a chanfod ym mha le y cuddiai y trysorau oedd yn ladrata; a gwelai James yn ymgripio i fyny i'r *sun-room*, a chanfyddai ef trwy ddrws gwydr yn cuddio ei drysor mewn twll dwfn oedd dan un o'r ffenestri. Edrychai James o'i gwmpas yn gynhyrfus, fel pe buasai yn hanner ymwybodol fod rhywun yn ei wylled, a gorchuddiodd y twll gyda'r degan oedd arferol a bod ar y lle. Ni ddanghosodd y meddyg ei hun, gan benderfynu hysbysu y Chwaer Dale, ac iddi hi geryddu y troseddwr yn ei ffordd ei hun.

## II. YR EDIFEIRWCH.

Bore drannoeth, cymerodd James yn goflaid o'i wely yn ei flanced i'w ystafell. Ni chafodd neb wybod pa beth ddywedodd wrtho. Ond sylwai y plant ereill i *gyd* ei fod yn dychwel i'w wely a golwg euog arswydus a thruenus iawn arno; ac wrth i'r Chwaer Dale fyned heibio gwely bob plentyn yn ol ei harferiad ar ei hymwelriad hwyrrol i'w tawelu ac i ddweyd "Nos dawch" garedig wrth *bob un* ohonynt, y noson hon aeth heibio gwely James heb gymaint ag

edrych arno; a bore drannoeth, cyfarchai a siaradai yn siriol a charedig fel arferol gyda'r plant oll, ond ni ynganodd air wrth James, ac ni edrychodd arno gymaint ag unwaith yn ystod y dydd. Cymerai arni ei anwybyddu yn hollol; a dywedai y *nurse* a adrodda yr hanes ei bod hi a'i chydweinyddesau yn dechreu teimlo dros y bachgen, ag y buasai curfa lem iddo yn llawer mwy caredig na'r dull creulawn dybient hwy oedd y Chwaer Dale yn gymeryd i'w gosbi. "Ac er i ni, y *nurses*," meddai, "wneud ychwaneg na'n goreu iddo trwy dwynerwch a charedigrwydd, ni fynnai ei gysuro." Eisteddai yn brudd, digalon, a thruenus trwy gydol y dydd; ond pan ddaeth yr hwyr, nis gallai ddioddef yn rhagor. Yr oedd y Chwaer Dale yn eistedd wrth y tân yn gwno ysnoden i'w rhoddi ar wasgod Jackie. Tybir fod y plant yn y *ward* i gyd yn cysgu, ac yr oedd y *nurses* yn distaw barotoi dillad glân ar gyfer y bore, pryd y darfu i lais bychan treiddgar eu cynhyrfu. "Chwaer," meddai James, gydag ochenaidd edifeiriol, "y fi ddygodd y pethau, a fi cuddiodd nhw yn y *sun-room*, ac yr oeddych yn dweyd y gwnaech fy ngharu os gwnawn ddweyd y gwir,— a dyma fi wedi gwneyd."

Trodd y *nurse* ei golwg i ganfod beth ddwedai ac a wnelai y Chwaer Dale, a gwelai ei gwyneb llednais yn gwrido, ac elai yn ebrwydd at wely James a chymerodd ef yn ei breichiau at y tân. Yr oedd yr ystafell mor ddistaw fel y gallech glywed trwst pin yn syrthio, a chlywid yr holl ysgwrs. Dywedai y Chwaer mewn llais eglur a soniarus,— "Y mae yn hynod o dda gennyf eich bod yn fachgen digon dewr i ddweyd y gwir yn ddi-ofn. Mae Iesu Grist yn falch hefyd; oherwydd ni chaniata i blant fydd yn lladrata ddyddod i'w gartref Ef. Ac y mae arno eich eisiau rhyw ddiwrnod." Yna dododd gusan ar ei foch eiddil, ac ychwanegai,— "Pan ddaw awydd lladrata atoch eto, galwch am danaf fi, ac ymdrechaf eich rhoddi ar y ffordd i wneyd yr hyn fyddo yn iawn. Wnewch chwi, machgen i?" Ar hyn, estynnai James garpiog, druan—plentyn y fiôs—ei freichiau eiddil am wddf y Chwaer, a chusanodd ei gwyneb prydferth a thirion, "Gwnaf," meddai, gan ocheneidio, "galwaf am danoch, Chwaer. Ni wyddwn erioed o'r blaen bod drwg; ac y mae arnaf eisiau myned at Iesu Grist os ydych chwi yn myned."

Dododd ef yn ol yn ei wely, a'i llygaid yn llawn dagrau, a phan gysgodd, dywedodd y *nurse* wrth y Chwaer y gwisgai ei wynepryd wedd ddedwyddach y noson honno nag a welodd hi arno erioed o'r blaen. Ocheneidiodd y Chwaer. "Y tlawd bychan, druan," meddai, "ni welsom et ond yn wael a thruenus; ond nis gwyddom pa mor dlws a phrydferth y gall dyfu os gallwn ei gael i ymddiried ynnom a bod yn ddedwydd."



PEN Y GOGARTH.

**BETH DDYWED Y DDAEAR?**

**M**EWN llyfrau y ceir hanes gwledydd a theyrnasoedd y byd. Mae gan y ddaear hanes, ond nid hanes ysgrifenedig gan ddyn yw. Ysgrifennwyd et gan y ddaear ei hun yn y graig. Yno y mae'n seiliedig dros byth.

Draw ymbell acw, ar lannau'r môr, gwelwn greigiau serth ac ysgythrog yn ymgodi hyd y nef. Creigiau Pen y Gogarth, ger Llandudno, ydynt. Awn yno.

Cyrhaeddasom y fan; lle dyddorol yw. Gan syllu arnynt o hirbell, deurn i'r casgliad terfynol mai creigiau dyfrol ydynt, hynny yw, y math hynny o greigiau lle yr ymguddia hanes y ddaear yn ddistaw; y math hynny a ffurfiwyd ar waelodion y moroedd filiynau o oesau'n ol. Buasai y ffaith eu bod yn gynhwysedig o welyau, yn gorwedd y naill ar y llall, yn profi hynny. Yma y cawn un dudalen megis o lyfr hanes y ddaear. Creigiau calch ydynt. Ffurfiwyd hwynt yn adeg cyfnod y meusydd glo. Cofiwch fod y creigiau hyn yn bod filiynau o fynyddoedd cyn bod y creigiau lle ceir y gwelyau glo;

eto, rhy daearegwyr hwy gyda'r creigiau hyn i ffurfio un cyfnod arbennig a phwysig yn hanes y ddaear. Ceir y creigiau calch mewn rhai lleoedd yn gannoedd os nad miloedd o droedfeddi o drwch; a'r hyn sydd yn rhyfedd yw, eu bod yn gynhwysedig, bron yn gyfangwbl, o weddillion creaduriaid fu ar un cyfnod yn britho gwaelodion y moroedd.

Torrwn ymaith ddarn bychan o'r graig, a syllwn arno'n fanwl. Os oes chwydd wydr gerllaw, gore oll. Yn wir, er ein syndod, cawn fod y graig yn llawn o'r creaduriaid o'r rhai y ffurfiwyd hi. Dywedais lawer o fisoedd yn ol mai rhai o'r bywydau oeddynt draenog y môr, lili'r môr, a chwrelau. Olion y creaduriaid welwn ni yn y graig. Bu farw y creaduriaid er ys miliynau o oesoedd, ond fe bery yr olion (*fossils*) o hyd.

Feallai y dymunech wybod sut y gall gwyddonwyr ddesgrifio cyrff creaduriaid fodolent oesoedd yn ol oddiwrth eu ffosylau. Nid gwaith hawdd iawn yw, mae'n wir; ond perthyna i'r wyddor a elwir yn Ddyfyniad Cymharol (*Comparative Anatomy*). Richard Owen oedd y dyn mwyaf a welodd y byd erioed yn y wyddor hon. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf dysgedig a phoblogaidd yn ei linell ef. Prin y mae digon o lythrennau yn y wyddor i enwi ei deitlau. Pe rhoddid iddo ddarn neu lun asgwrn creadur fodolai fil o oesau'n ol, yna gallasai, oddiwrth hwnnw wneyd ffurf cyflawn o holl gorff y creadur. Trwy ymchwiliadau diwyd a di-ildio lluoedd o ddaearegwyr ar hyd y ganrif ddiweddaf, o berthynas i olion creaduriaid sydd yn gloddedig yng nghrystyn y ddaear, gorfodwyd y ddaear i ddweyd ei hanes.

Nid olion y creaduriaid cyntaf fu ar wyneb y ddaear yw y rhai y ceir eu holion yn y creigiau dan sylw. 'Roedd bywyd yn ddblygu ar wyneb y ddaear filiynau o flynyddoedd cyn bod y creigiau hyn. Nid oes gan un dyn well mantais i astudio crawen y ddaear nag sydd gan y Cymro. Yng Nghymru y gwelir ymylon yr oll o'r haenau, o'r agosaf at gnewyllyn eiriasboeth y ddaear hyd yr haen feddal o glai, graian, tywod, a phridd sydd yn gorchuddio gwyneb y ddaear yn awr. Rhai o greigiau oesau bore'r byd yw creigiau Gogledd Cymru. Y mae creigiau llechi Bethesda, Llanberis, a Ffestiniog, ymhlith y math hynaf ar wyneb y ddaear. Ynddynt hwy y ceir olion creaduriaid rhyfedd. Ymddengys y creigiau hynaf yn amlycach yng Nghymru na'r un wlad arall; am hyn y gelwir hwynt y Creigiau Cambriaidd. Hwyt-hwy, megis, sydd yn ffurfio Genesis llyfr mawr hanes y ddaear. Yn yr adeg yma, nid oedd coedwigoedd prydferth yn amwisg i'r ddaear; na, moroedd mawrion, llydain, orchuddiai y rhan fwyaf o'r blaned hon y pryd hynny. Mewn gwirionedd, ffurfiwyd y pedair cyfundrefn gyntaf a hynaf bron yn gyfangwbl o waddodion gwaelodion y moroedd. A'r rhai hyn yw

y plygion agosaf at losg-greigiau oedd unwaith mewn cyflwr toddedig, yn ffurfio yr amwisg uchaf am gorff tân y ddaear. Nid oedd, gan hynny, yn bod yr adeg honno ddim ond creaduriaid cymwys i waelodion moroedd. Feallai na fodolai awyr gymwys i'r un creadur anadlu y pryd hynny, nac ychwaith i lysiau.

Rhai o'r creaduriaid rhyfeddaf fodolai y pryd hynny oedd y crawenogion, sef creaduriaid yn byw mewn artogaeth galed, yn gynhwysedig o ddarnau modrwyog o gragen. Galwyd y creaduriaid hynny yn trilabediaid, am fod eu cragenau yn gynhwysedig o dri darn. Nid oedd y creadur hwn yn anhebyg i *lobster* ein dyddiau ni, gan y perthynai y naill a'r llall i'r un teulu. Peth tarawiadol yn hanes un rywogaeth ohonynt yw eu bod yn ddall, ac yn gorfod chwilio yn lle edrych am ymborth ar hyd gwaelodion y moroedd. Rhaid nad oedd y moroedd hynny yn ddyfnion. Pe baent felly, ni allasai pelydrau'r haul dreiddio trwodd i oleuo y gwaelodion i'r rhywogaethau fendithiwyd & llygaid.

Yn ystod y misoedd aeth heibio, tafu ein dychymyg yn ol y buom am filiynau o flynyddoedd. Bron nad wyf am roi y ffrwyn ar war fy nychymyg ar ddiwedd blwyddyn, a charlamu ymlaen y tro hwn am gan miliwn o flynyddoedd, i'r flwyddyn 100,001,903. Bron nad wy'n dychmygu gweled rhyw ddaeaeregwr yn chwilio creigiau yr oes honno. Astudio creigiau sydd yn cael eu ffurfio ar waelod Môr y Werydd heddyw wnaiff ef yr adeg honno. Astudio esgyrn rhyw greadur o ddydd foddwyd ym Môr y Werydd heddyw wnaiff ef y pryd hynny. Olion dyn fydd ffosylau ei greigiau ef. Desgrifia y daeaeregwr hwnnw esgyrn dyn megis y desgrifiasai yntau y trilabediaid. Bydd mynyddoedd uchel Cymru wedi eu golchi ymaith i'r gwraidd gan alluoedd Natur erbyn yr adeg honno. Bydd Cymru yn gorwedd yn ddistaw ar waelod y mor y pryd hynny. Pa le bydd plant Cymru yr adeg honno? Da y canodd Tennyson,—

“The hills are shadows, and they flow  
From form to form, and nothing stands;  
They melt like mist, the solid lands,  
Like clouds they shape themselves and go.”

SIGMA.

### BEDD MAM OEN BACH.


Yma mewn bedd mae mam oen bach—anwyl,  
Unig fydd o bellach;  
'Boedd o'n wir a'i wedd yn iach,  
Mwy'n llwgu mae o'n llogach.

G. W. FRANCIS.

# CAROL NADOLIG

(Rhif 12.)

## Noson Fendigedig.



JOHN M. HOWELL, Aber Aeron.

L. J. ROBERTS, y Rhyl.

DOH AD. *Yn beraiidd.*

{	$s_1 : m$	$r : d$	$t_1 : l_1$	$s_1 : -$	$l_1 : f$	$m : r$	$d : -$	$t_1 : -$	}
	$m_1 : s_1$	$s_1 : s_1$	$s_1 : f_1$	$m_1 : -$	$f_1 : l_1$	$l_1 : l_1$	$s_1 : -$	$- : -$	}
	Noson fen-dig-ed - ig		Daw a-law-on		pêr,				
	$d : d$	$t_1 : d$	$d : -$	$d : -$	$d : r$	$s : f$	$m : -$	$r : -$	}
	$d_1 : d_1$	$r_1 : m_1$	$f_1 : l_1$	$d : -$	$f_1 : r_1$	$m_1 : f_1$	$s_1 : -$	$- : -$	}

{	$d : s$	$f : m$	$r : d$	$t_1 : d$	$t_1 : -$	$l_1 : -$	$s_1 : -$	$- : -$	}
	$s_1 : t_1$	$l_1 : s_1$	$f_1 : f_1$	$s_1 : s_1$	$s_1 : -$	$f_1 : -$	$- : -$	$- : -$	}
	O Gaer-sa-lem		dir-ion, Heibio i		froydd y		pêr:		
	$d : d$	$d : d$	$d : r$	$r : m$	$r : -$	$d : -$	$t_1 : -$	$- : -$	}
	$m_1 : m_1$	$f_1 : s_1$	$l_1 : l_1$	$r : d$	$r : -$	$r_1 : -$	$s_1 : -$	$- : -$	}

S.S.C.

{	$s : -s$	$s : s$	$f : -$	$n : -$	$f : -f$	$f : m$	$r : -$	$- : -$	}
	$m : -m$	$r : r$	$d : -$	$d : -$	$d : -d$	$d : d$	$l_1 : -$	$- : -$	}
	$d : -d$	$t_1 : t_1$	$l_1 : -$	$s_1 : -$	$l_1 : -l_1$	$l_1 : s_1$	$f_1 : -$	$- : -$	}
	"Ganwyd Ceidwad		hedd - yw		yn Ephrat - a		gu,		
	:	:	:	:	:	:	:	:	}
	:	:	:	:	:	:	:	:	}

*cryfhaer.*

{	$r : -r$	$m : f$	$s : m$	$d : f$	$m : -$	$r : -$	$d : -$	$- : -$	}
	$t_1 : -t_1$	$t_1 : t_1$	$d : t_1$	$d : d$	$d : -$	$t_1 : -$	$d : -$	$- : -$	}
	Yn y nef go-		goniant, 'Wyllys		da i		ohwi."		
	$s : -s$	$s : s$	$s : s$	$m : l$	$s : -$	$f : -$	$m : -$	$- : -$	}
	$f : -f$	$f : f$	$m : s_1$	$l_1 : f_1$	$s_1 : -$	$s_1 : -$	$d_1 : -$	$- : -$	}



CYDGAN. *Yn gryf.*

s :- .s   s :s	f :-   m :-	f :- .f   f :m	r :-   - :-
d :- .d   t, :d	d :t,   d :-	d :- .d   d :d	d :-   - :-
Ganwyd Ceidwad	hedd yw	Yn Ephrat - a	gu,
m :- .s   s :s	s :-   s :-	f :- .f   f :s	l :-   - :-
d :- .m   f :m	r :-   d :ta,	l, :- .l,   l, :s,	fe, :-   - :-

r :- .r   m :f	s :m   d :f	m :-   r :-	d :-   - :-
t, :- .t,   t, :t,	d :t,   d :d	d :-   t, :-	d :-   - :-
Yn y nef go	goniant, 'Wyllys	da i	chwi.
s :- .s   s :s	s :s   m :l	s :-   f :-	m :-   - :-
f, :- .f,   f :f	m :s,   l, :f,	s, :-   s, :-	d, :-   - :-

- 1 **N**OSON fendigedig  
 Daw alawon pâr,  
 O Gaersalem dirion,  
 Heibio i froydd y sêr:—  
 “Ganwyd Ceidwad heddyw  
 Yn Ephrata gu,  
 Yn y nef gogoniant,  
 'Wyllys da i chwi.”

*Cydgan*—Ganwyd Ceidwad heddyw  
 Yn Ephrata gu,  
 Yn y nef gogoniant,  
 'Wyllys da i chwi.

- 2 Teithiodd Seren newydd,  
 O'r dwyreinfyd pell;  
 Gwena i'r gorllewin,  
 Obaith amser gwel:—  
 Gwyddom beth yw 'th neges,  
 Seren ddwys dy drem,  
 Ninnau a addolwn  
 Faban Bethlehem.

*Cydgan*—Ganwyd Ceidwad heddyw, &c.



“Torrodd y piser yn deilchion.”

### PROFEDIĞAETH GWEN OWEN.

**M**ERCH i rieni Cymreig yn byw yn Llundain oedd Gwen Owen. Yr oeddynt, oherwydd colli ei thad, wedi syrthio i dlodi mawr. Un bore yr oedd mam Gwen yn wael, ac anfonodd ei merch fechan â llestr i ymofyn llaeth. “Gofala am y piser, Gwen,” meddai, “fy mam a’i rhoddodd i mi, cerdd yn araf, paid a rhedeg, rhag i ti syrthio a’i dorsi.”

Yr oedd Gwen yn llawen iawn wrth feddwl ei bod yn cael mynd ar neges dros ei mham, a’i bod yn ddigon mawr i fod yn forwyn. Yn ei llawenydd dechreuodd fwmian canu. Toc dechreuodd redeg. Tarawodd ei throed yn erbyn rhywbeth, a syrthiodd ar y palmant llyfn. Torrodd y piser yn deilchion.

Gwelodd gwraig garedig ing y plentyn. Aeth gyda hi at ei mam wael. Mae Gwen yn awr yn forwyn gyd’r wraig garedig sychodd ei dagrau.

## ALL ANIFAIL, YMRESYMU?

## II.

**I**E, dyna'r pwnc oedd genym dan sylw yn y rhifyn o'r blaen; ac yr oeddem yn addaw esiamplau i brofi y gallent. Heddyw ychwanegwn ddwy ereill.

II. Y Ci. Yr oedd yna gi unwaith yn cael ei gyhuddo o ladd defaid. Gan fod y ci a'i feistr yn gymaint cyfeillion, fuasai'r meistr yn ei tyw yn gallu credu y cyhuddiad. Ond, wedi hir a manwl wlyio, bu raid credu. Yr oedd Pero yn euog o'r trosedd mwyaf ysgeler ym myd y cwn.

Ni fedrai'r meistr gael ar ei galon saethu ei hen gydymaith; ac felly dyna fe yn myned i'r gegin lle yr oedd y ci yn gorwedd ar yr aelwyd, yn cysgu, i bob ymddanghosiad, ac meddai,—

“Gruffydd, well i ti fynd a'r ci yma allan ar ol brewest, a'i saethu o. A gofala am ei saethu o'n farw.”

Braidd yr oedd y gair o'i enau, nad aeth y ci allan trwy'r drws fel saeth o fwa. Nid oedd galw a chwibianu o un pwrpas; ymaith a'r ci nerth coes, heb gymaint a throi pen. Bu hir ddisgwyl ei weled yn dod yn ol, yn enwedig gyda'r nos. Ond byth ni ddychwelodd y ci.

Ymhen misoedd wedi hyn yr oedd y meistr allan yn marchogaeth mewn rhan dra pellenig ac anhygyrch o'r ffarm, pan ddaeth ar draws Pero yn eistedd ar ben torlan, uwchben y llwybr. Deffrodd hen deimladau cynnes am y ci yn ei fynwes, a chyfarchodd ef mewn geiriau caredig, gan ei alw ato. Ond yr oedd calon Pero wedi caledu, ni wnaeth ond rhoddi chwynrad a dangos ei ddannedd ar ei hen feistr, a'i charlamu hi ymaith nerth traed. Ni welodd ei feistr yr un cipolwg arno byth mwy. Anfaddeuol oeddit ti, Pero, gataelgar dy gof, anhyblyg dy ewyllys, a di-ddiwedd dy ddigofaint. Tybed nad clywed am ddyn o'r enw Robin Hood ddarfu dy lygru, a'th gamarwain?

III. Y GATH. Yr oedd gan fy nghymydog gath hynod o gall, ac yr oedd pawb yn hoff o Titw. Ryw dro, pan yr oedd ganddi deulu mawr o gathod bach—rhai tlyision oeddynt hefyd,—rhoddwyd un ohonynt yn anrheg i gymydog arall, gan y tybid fod gan Titw ormod ohonynt i allu gofalu am danynt yn dda.

Rhyw ddiwrnod, pan oedd drws ty y cymydog hwn yn agored, dacw Titw yn cerdded yn syth i mewn, yn codi'r gath fach i fyny yn ei cheg, ac yn ei chludo ymaith. Yr oedd mor falched o'i chael a phe buasai wedi cael llythyr i fyned i fyny i Lundain i weled y Frenhines, fel y buasai ei hen nain gynt.

Ym mhen tair wythnos wedi hyn, wele Titw yn dod yn ol gyda'r un gath fach,—yr oedd wedi tyfu a thewychu cryn lawer erbyn hyn,—ac yn ei gosod i lawr yn ddestlus ar yr aelwyd wrth draed gwraig y ty; cystal a dweyd wrthi,—“Mrs. Jones bach, yr oedd y gath fach yma yn rhy fach lawer i fynd oddiwrth ei mham y pryd hwnnw. Yr oedd arni eisiau tipyn yn ychwaneg o laeth a gofal ei mhami, cyn myned allan i'r byd mawr i ymdaro drosti ei hun fel yna. Ond, medr wneyd y tro o'r goreu bellach; mae i chwi groesaw o honi. Bore da!”

H. BRYTHON HUGHES.

### GWERS DDIRWESTOL.

“**P**A sut, mewn difrif,” gofynnech, “y gellir cynyrchu dau beth hollol wahanol allan o siwgr?” Gwelir ef yn eglur fel y canlyn, gan y plant sy'n dysgu fferylliaeth. Cynhwysa siwgr dair elfen hysbys i chwi, sef carbon, hydrogen, ac oxygen. Ymgydiant y naill yn y llall i ffurfio siwgr yn y modd canlynol,— $C_6 H_{12} O_6$ . Dywedir mai un gronyn o siwgr yw hyn; yna, pe rhoddid ychydig o'r gronynau bywyd mewn cyffyrddiad âg ef, trwy yr ymfusfiadau fferyllol anweledig, anesboniadwy, nodwyd eisoes, troir neu trawsffurfir y siwgr yn ddau ronyn o *alcohol* a dau o *carbonic acid gas*.”



### LLEISIAU'R PLANT.

**F**FRYNDIAU'r Iesu ydym,  
Blodau'r Ysgol Sul;  
Mae Ei oreu gennym  
Ar y “rhodfa gul.”  
Llonnir ein heneidiau  
Ieuainc wrth y groes;  
Ninnau drown ein breintiau  
I sancteiddio'n hoes.

Tangnef bore bywyd  
Sy'n melus'n cân;  
Gobarth difrycheulyd  
Grea galon lân.  
Hawddach trechu drygau,  
Hawddach dal pob loes,  
Wedi treulio'r borau  
Dan gysgodau'r Groes.

Tbn, Pentre.

Clywch ein can yn chwyddo,  
Mor soniarus yw;  
Mae pob peth yn llwyddo  
Lle mae bendith Duw.  
Caiff ein cenadwri  
Gyrraedd clust yr oes,  
Wedi dysgu'r oerddi  
Genir wrth y Groes.

Duw sydd yn ein galw  
Oll, o blaid y Gwir;  
Gras ein Duw sy'n cadw  
Ein gwefusan'n bur.  
“Gwneuthur Ei ewyllys”  
Fydd ein gwaith drwy'n hoes;  
Duw sydd yn ein tywys  
Yng ngoleuni'r Groes.

CENECH.



MISS MAGGIE JANE JONES, F.T.S.C., AMLWCH.

### CANTORES O FON.

**D**YMA y Gymraes gyntaf i ddod yn *Fellow* yn y T. S. College; ac nid oes ond dwy ferch ereill ar y ddaear wedi ei blaenori i'r anrhydedd, -un o Cambridge, a'r llall o Japan. Nid oes ym Mon fab na merch arall wedi ei oddiweddyd. Yr oedd y llawenydd amlygwyd gan lywydd y coleg, Principal J. Spencer Curwen, a'r profleswyr, pan yn cyflwyno y *diploma* i Miss Jones, ac yn ei harwisgo yn urddwisg y coleg, yn amheuthyn ag y buasai cenedl yn falch o gael bod yn llygad-dyst o hono.

Anhawdd dyfalu pa fodd y daeth yr elfen gerddorol mor gref i natur y ferch ieuanc hon. Ganwyd hi yn Llanelian, mewn ty o'r enw Cae Cynffonllaes, rhyw filldir a hanner o Amlwch. Cae Cynffonllaes oedd cartref ei mam, ac aeth dan forthwyl yr arwerthwr flwyddyn ei phriodas, a phrynnodd y pâr ieuanc ef yn rhy ddrud o gannoedd o bunnau. Rhoddasant yr oll oeddynt wedi arbed i ysgafnhau y tir-wystl. Ond bu farw y fam pan oedd Maggie yn bedair oed, a'i thad ymhen tair blynedd arall, gan ei gadael hi a brawd ieuangach yn amddifaid. Disgynnodd eu cartref i ddwyllaw y tir-wystlydd. Cafodd Maggie nodedd modryb iddi yn Warrington, ac yno mewn ysgol elfennol y cafodd ei holl addysg. Ryw saith neu wyth mlynedd yn ol dychwelodd i Amlwch, yn eneth ieuanc oddeutu unarbymtheg oed, ac yn meddu ar lawer o wybodaeth mewn peroriaeth. Yn yr oedran hwnnw anturiodd gychwyn ennill ei bywoliaeth drwy gyfrannu gwersi i ychydig ddisgyblion. Aeth rhagddi i ddiwyllio ei hunan, ris ar ol gris, ac aeth ei disgyblion yn lluosog. Erbyn hyn y mae wedi cynnal amryw gyngherddau llwyddiannus gyda'i disgyblion, wedi ei phenodi yn arholyddes i fyny hyd yr *Intermediate*, yn athrawes mewn cerddoriaeth. Rhydd wersi ar y berdoneg, y crwth, y *mandoline*, a'r *guitar*. Y mae amryw o'i disgyblion wedi myned drwy rai o arholiadau Trinity College yn llwyddiannus. Y mae yn organydd eglwys y Methodistiaid Calфинаidd yn Porth, Amlwch, ac wedi derbyn oriau'r aur gan yr aelodau fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o honi.

o Nid yw Miss Jones ond pedair a'r hugain oed, ac y mae yn llawn llafur, ac yn benderfynol o wneyd ei goreu i oddiweddyd y Mus. Bac. Da iawn, Megan. Bydd dymuniadau goreuon Mon a Chymru am dy lwyddiant.

---

### ALUN.

MAB OWEN A KATR JONES; BALADEULYN, NANTLLE.

Is yr haul nid oes siriolach—bachgen,  
Bochgoch, na'i anwylach,  
Fe yw'r llonaf o'r llinach,  
Dela 'n bod yw Alun bach.

*Nantlle.*

G. W. FRANCES.

---

### Y LLEUAD.

LLEUAD IAN; wyt lili dlos,—dardd fry'n  
Drwy ddwfr nant y dduos; [wen  
Blaguri 'n oerul hirnos  
Ddelw'r nef ar ddiluw'r nos.

### GWYNEBU'R GAUAF.

Nid yw'r gauaf 'n dragywydd,—daw yr  
Wedi'r holl ystormydd; [haf  
Nac ofnwn, rhodiwn yn rhydd,  
Yn llaw Duw mae'n holl dywydd.

J. R. TRYFANWY.



## Y FRAN.

MAE y fran yn dyfod yn nesaf oll i'r gigfran mewn nerth, dewrder, a chyfrwysdra. Pan fydd ganddi nythaid o gywion gwancus i'w porthi, y mae hi'n lladd yn ddiarbed; a chan fod gan rai adar bychain ereill gnawd tyner ac ir-aidd, cymwys i ystumogiau gweiniaid ei babanod bychain duon hi, y mae yn teimlo yn ddyledswydd arni ar yr adeg hon yspeilio nythod adar ereill, er mwyn cysur ei theulu ei hun. Y mae yn ddigon gwrol i ymosod ar nythfa ydfrain, ac y mae yn myned a'r ydfrain bychain ymaith, er tebyced ydynt i'w chwyion ei hun.

Aderyn milwrol ydyw yn ddi-amheu, ond y mae ei harferion a'i hymddygiadau fel aderyn gwlad wareiddiedig yn ein synnu, ac yn peri i ni ymddieithrio oddiwrthi, pan welwn hi yn tynnu llygaid oen colledig. Y mae cydwybod y fran, fel ei ystumog, i fyny a phob dim.

Y rhai hyn, pa fodd bynnag, ydyw prif feiau yr aderyn; ac y mae cyfiawnder yn galw am i ni dystio ei bod yn poenydio oherwydd

rhaid, ac nid o ddewis, Fel rheol, ychydig o amser a gymer i ladd ei hysglyfaeth, ychydig ergydion a'i harf nerthol—bywell o ddiemwnt du caboledig.

Dyma hanes bran gafodd addysg mewn teulu parchus. Hen aderyn ydoedd, newydd gael ei tharo i lawr gan ergyd o wn, a'i rhoddi i fachgen y ffermdy. Gwellhaodd ei chlwyfau. Yr oedd bob amser yn aderyn tawel a digyffro. Yr oedd ganddi ei llawn ryddid ar hyd y ty, a gwelwyd hi un diwrnod mewn ystum gwrcydol wedi gwthio ei hunan i gongl gul y mur. Yr oedd wedi darganfod fod y lle hwnnw yn cael ei boeni gan lygod, ac yr oedd yn gwyllo eu tramwyfeydd. Y funud y gwnai llygoden ei hymddangosiad, yr

oedd y fran a'i phig yn ei chnawd, a lladdai hi yn farw gelain drwy ei tharo yn y llawr ddwywaith neu dair gyda chyflymdra meltten. O'r amser hwnnw allan, dal a lladd llygod oedd holl orchwyl y fran honno, dyna hefyd oedd ei helwriaeth a'i difyrwrch; ac elai o gwmpas y ty cyn ddistawed a'r llygoden ei hun, ac yn null lladradaidd cath.

*Pen'rallt Fach, Brongest.*

DAVID O. EVANS.

### HWIAN GERDDI CYMRU.

**B**ETH yw'r swyn rhyfedd sydd mewn hwian gerdd? Pam y mae plentyn yn meddwl mai'r farddoniaeth oreu glywodd erioed yw,—

“Dau gi bach yn mynd i'r coed,  
Dau droi berrau, dau droi troed;  
Dau gi bach yn dwad adre,  
Blawd ac eisin hyd eu coese?”

Yr wyf ers blynyddoedd yn casglu hwian gerddi Cymru, i'w cyhoeddi yn llyfr. Cefais lawer ohonynt,—hen a diweddar,—o wahanol fannau, yn enwedig o Feirionnydd a Morgannwg. Nid yw'm casgliad yn llawn, byddwn yn dra diolchgar i bawb enfyn imi yr hwian gerddi glywodd.

Cyhoeddir hwy i ddechreu yn gyfrol brydferth. Yn hon bydd deugain o ddarluniau gan Miss Winifred Hartley. Mae Miss Hartley wedi ennill enwogrwydd yn barod oherwydd ei darluniau o blant. Mae'n Gymraes hefyd, o deulu Bardd Cwsg. Tri a chwech fydd pris y llyfr i danysgrifwyr. Cyn y cyhoeddir ef, rhaid cael pum cant o danysgrifwyr. Pwy enfyn eu henwau imi?

### YR AFON.

**H**EN afon gysegredig,  
Mor swynol wyt i mi,  
Ni fedr henaint, er mor llym,  
Ysbeilio'th dlysmi di;  
Mae rhyw nefolaidd swynion  
O gylch dy wely llaith,  
Ac ynnot gwelaf ddarlun byw  
O amser ar ei daith.

*Treorci.*

Fe red dy ddyfroedd gloew  
Yn gyflym tua'r môr,  
'Run fath y rhed pob gwrthrych sydd  
Yng ngreadigaeth lor;  
O'th amgylch dengys anian  
Ei swynion o bob rhyw,  
Ac yn dy ffrydiau gweled wyl  
Ryfeddol allu Duw.

BRIALLYDD.

---

— Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---



# CYMRU'R PLANT.



ꞑꞑ  
CYFROL XIII.

ꞑꞑ  
DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., Rhydychen,

Y GERDDORIAETH DAN OLYGIAETH


L. J. ROBERTS, M.A., RHYL.



WREXHAM:

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

→ 1804. ←





## RHAGYMDRODD.



**D**YMA gyfrol arall yn gyflawn,—y drydedd gyfrol ar ddeg. Bob blwyddyn, yn raddol ond yn sicr, y mae cylchrediad y rhifynnau'n ehangu. Ant i bob cwrr o Gymru erbyn hyn, a darlennir hwy gan dros hanner can mil o bobl. Mae cofio am gynnydd y miloedd derbynwyr yn creu pleser ym meddwl y golygydd, ac hefyd yn dyfnhau'r ymdeimlad o gyfrifoldeb. Tybed a gaf fi a'm cynorthwywyr ffyddlon yr ymdeimlad hwn,—ein bod wedi arwain cenhedlaeth o blant Cymru at yr hyn sydd ddyrchafol a phur? Trwy egni gochelgar, yr ydym yn amcau at hynny.

Agor drysau teml gwybodaeth i'r plant yw ein prif waith. Awn a hwy yn ein llaw i wledydd pellaf y ddaear am ambell dro, i weled sut y mae cenhedloedd ereill yn byw, a pha anifeiliaid a choed a blodau sydd yno. Awn wedyn, ar warr dychymyg, am daith hir i'r ser a'r planedau, i'r plant ddeall beth yw'r haul a'r lleuad a'r ser. Treuliwn aml nawn ar wastadeddau gogledd Ewrob, yn gwrando ar Grimm neu Andersen yn adrodd hen chwedlau eu tadau i blant llygadlas y Llychllyn; ac awn aml noson i babell yr Arab, i glywed hanesion y diffaethwch mawr. Y mae'r adar, yn enwedig, yn gyfeillion inni, a'r blodau; a thyf y Cymry ieuainc gan syllu ar y pethau prydfferth sydd wedi eu rhoddi o'u cwmpas.


Arhoswn lawer yn ein gwlad n hunain,—gyda ei hanes a'i hiaith, ei chwedlau a'i chân, ei llafur a'i haddoliad, ei dychmygion a'i hwiangerddi. Y mae swyn yn ei bywyd. Cafodd Daniel Owen ddadguddio bywyd glwr Gogledd Cymru; ni chafodd Gwilym M rles fyw i ddarlunio bugelliad sir Aberteifi,—ond darlunir y bywyd hwnnw gan Allen Raine nes swyno cylch eang darllenwyr yr iaith Saesneg. Y mae pob ardal yng Nghymru yn meddu cymeriadau gwerth eu hadnabod, a phobl yn byw bywyd werth ei astudio; yn y tudalennau hyn cawn aml gipolwg arnynt.

Yr wyf yn credu fod ein hysgrifau yn dod yn wy syml o hyd. Dyma'r gamp,—dweyd pethau pwysig wrth blant mewn dull syml, goleu, a diddan. Dylai pawb sydd a neges i'w dweyd, os am lwyddo, fynnu dweyd ei genadwri yn y dull tebycaf i hawlio a theilyngu sylw.

Yr wyf yn credu fod ein llenyddiaeth yn dod yn fwy gwreiddiol o hyd. Ychydig o gyfleithiadau ydym yn gael yn awr,—gwell gan y llenc reu na benthyca. Yr ydym wedi bod yn cymeryd benthyg o'r Saesneg am ddigon o hyd, y mae'n bryd yn awr i ni roddi rhywbeth. Ein teimpladau ein hunain, ein sylwadaeth ein hunain, a gawn yn y gyfrol hon,—ychydig o dynnu ar lyfrau Saesneg. Nid ein hamcan yw rhoddi cylchgrawn Cymraeg i'r Cymro am na fedr Saesneg; ond rhoddi iddo well a difyrnach cylchgrawn na'r un mewn ieithoedd ereill. Nid wyf yn dweyd ein bod wedi llwyddo i wneyd hynny,—ereill sydd i farnu,—ond dyna ein hamcan.

OWEN M. EDWARDS.





## CYNHWYSIAD.



	TUDAL		TUDAL
<b>DIWYDIANNAU CYMBU,—</b>		<b>YSGOLION CYMBU,—</b>	
[Darluniau o wahanol ddiwydiannau, all gyfres, gan wahanol arlunwyr.]			
i. Aredig (Dyffryn Olwyd) ...	2	i. Yegol Sul Penmount ...	49
ii. Dysgu Garddio (Pentre Celyn) ...	34	ii. Yegol Fwrdd Cwmystwyth ...	145
iii. Pysgota (Dyffryn Teifi) ...	66	iii. Yegol St. John Street, Caer ...	169
iv. Gwaith Alcan (Abertawe) ...	98	iv. Yegol Prestatyn ...	247
v. Torri ffordd haiarn (Bro Morgannwg) ...	180	v. Yegol yn yr Andes... ..	291, 330
vi. Pwysu gwlan (Llanrwst) ...	162	vi. Yegol Fwrdd Aberdaron ...	318
vii. Gweithio dur (Dowlais) ...	194	Dwy o Bonterwyd ...	89
viii. Gwaith y Creigiwr (Penmaen-mawr)... ..	226	Holwr Plant (Rees Edwards) ...	61
ix. Gweu brethyn (Pennmachno) ...	258	Mary Jones ... ..	123
<b>PLANT CYMBU,—</b>		<b>CYMBU A'I BYWID,—</b>	
clxxix. Cyffryn Olwyd ...	16	Afon Prysor ... ..	242
clxxx. Penmount, Pwllheli ...	48	Blaenau Ffestiniog ... ..	69
clxxxi. Miscin ... ..	57	Bryniau aur Trawsfynydd ...	52
clxxxii. Cwmystwyth ... ..	145	Caergybi ... ..	259
clxxxiii. Caeerleon ... ..	169	Cof-golofn T. E. Ellis... ..	27
clxxxiv. Prestatyn ... ..	246	Craig y Foelallt ... ..	239
clxxxv. Bro Hydref ... ..	290	Dau Gymro enwog ... ..	250
clxxxvi. Aberdaron ... ..	313	D. Morgan, Ysphyty ... ..	357
clxxxvii. Yr Andes ... ..	322	Dolgellau ... ..	35
<b>DAMHRIGION CYMBU,—</b>		Dyffryn Conwy... ..	216
(Nodiadau gan H. Brython Hughes).			
i. Yr adroddwr ... ..	79	Dyffryn Maentwrog ... ..	268
ii. Y fuwch laethwen lefrith ...	79	Enwogion Penmorfa... ..	263, 310
iii. Y wadd a'r hedydd... ..	115	Glaslyn wlawog... ..	315
iv. Yr ysguthan a'r bi... ..	189	Glyn Arthen ... ..	106
v. Y twrch a'r gog ... ..	173	Hynodrwydd Gwynfynydd ...	213
vi. Y ddau bysgodyn ... ..	199	Llandysul... ..	141
vii. Yr hen wraig a'i hedafedd ...	265	O ben y Bryn Mawr ... ..	151
viii. Y gof a'i air da ... ..	277	Pwll y Crochan... ..	42
ix. Y gŵr a laddodd ei filgi ...	317	Ysbyty Ystwyth ... ..	249
x. Yr adarwr a'r cychlwr ... ..	341	<b>CYMBU BYW,—</b>	
		i. Cochfart (Cynfaer Caerdydd) ...	9
		ii. Syr Lewis Morris ... ..	51

	TUDAL.
iii. W. Cadwaladr Davies ... ..	181
iv. Parch. John Williams ... ..	217
v. Parch. David Davies, Brighton	231

HWIANGERDDI ... ..	121
--------------------	-----

## DADLEUON AO YMGOMIAU,—

i. Yr Eneth a'r Gasgen ... ..	21
ii. Dadl ddirwestol ... ..	75
iii. Y ddwy forwyn ... ..	189
iv. Y Gyndeithas Lenyddol... ..	346

## CAETREF,—

Hiraeth am fy mam ... ..	172
Hwiangerdd ... ..	352
Sut i wneyd aelwyd hapus ... ..	127



## BYWYD PLANT,—

Briallu parch ... ..	86
Byddwch yn bregethwyr ... ..	92
Colli adnod ... ..	118
Deffro, fy maban ... ..	218
Dora bach... ..	145
Eurwen a Menna ... ..	117
Gwahoddiad A. S. Evans ... ..	38
Plant yr Iseldiroedd ... ..	285
Y ffordd i wlad Shon Gwsg ... ..	278
Y pysgotwr bach ... ..	275

## HANES DAU DDIREIDUS.—

(Gan R. G. Nicholson).

i. Pwy ganodd y gloch ... ..	30
------------------------------	----

## EB COF,—

Annie Mary (Aberdar) ... ..	364
Blodwen May Morris (Prenteg) ... ..	187
Eluned fach (Llanfrothen)... ..	168
Evan Robert (Porthmadog) ... ..	7
Hirell (Beaufort Hill)... ..	319
John Owen Hughes (Betws) ... ..	271
Kate Elizabeth (Aberdyfi) ... ..	103
Maggie Evans (Porth) ... ..	73

## GWYBODAÜ,—

[Cyfres eto gan Sigma ar bethau o'n cwmpas. Darluniau, gan mwyaf, gan yr awdwr.]

i. Rhyfeddodau Fferylliaeth ... ..	19
ii. Estron o wlad y ser... ..	80
iii. Mawngydd a mawn ... ..	93
iv. Gwelyau glo ... ..	111
v. Mynyddoedd y Lleuad ... ..	135
vi. Yr haf ... ..	165

	TUDAL
vii. Gwaith yr afonydd... ..	307
viii. Rhyfeddodau alcohol ... ..	338
ix. Y blaned Iau ... ..	279
x. Sadwrn a'i fodrwyau ... ..	336
xi. Brychau'r Haul ... ..	323
xii. Ymhlith y bydoedd pell ... ..	366
Cerbyd henafol ... ..	183
Gwlan a brethyn ... ..	174

## Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL,—

(Gan y Parch. R. Eurog Jones, Utica).

i. Llythyreg ( <i>Grammar</i> ) ... ..	120
ii. Rhesymeg ( <i>Logic</i> ) ... ..	150
iii. Rheitheg ( <i>Rhetoric</i> ) ... ..	169
iv. Oerddoriaeth ( <i>Music</i> ) ... ..	294
v. Rhyfydddeg ( <i>Arithmetic</i> ) ... ..	233
vi. Daeartesuriaeth ( <i>Geometry</i> ) ... ..	275
vii. Seryddiaeth ( <i>Astronomy</i> )... ..	316

## BLODAU A CHOED,—

Derwen y ddôl ... ..	339
Hen y wen... ..	173
Y blodyn eira ... ..	47
Y dderwen ... ..	323
Y pren banana ... ..	332

## ADAR,—

Adar ein hardaloedd ... ..	211, 253, 287
Cawod o adar ... ..	133
Ieir ... ..	56
Robin Goch ... ..	200, 369
Y Ddylhuan ... ..	5, 39
Yr ehedydd ... ..	24, 306
Yr hwyaden ... ..	64
Y wrenol ... ..	180, 247

## BYWYD YR ANIFAIL,—

Callineb y ddafed... ..	68
Ceffylau y rheilffordd ... ..	192
Cyfeillgarwch ei ... ..	247
Ymresymiad cath ... ..	114

## CANEUON CREFYDD A MOES,—

Am fod canu yn y nef ... ..	376
Blwyddyn newydd dda ... ..	4
Brialen ar y bedd ... ..	183
Bywyd yn gân ... ..	108
Dirwestwyr ... ..	138
Fel y teithiem ... ..	56
Galwad i'r gad ddirwestol ... ..	304
Gwedd i lluddedig ... ..	318
Hwn fydd mawr ... ..	368
Iesu anwyl, rho dy gwmi ... ..	316
Na feddwer chwi ... ..	186
Penderfyniad ... ..	325
Rwyf am gael bod yn fugall ... ..	233
Y cwpan meddwol yn ... ..	88

## CANEUON GWLADGAROL,—

Am Gymru rwy'n hiraethu ... ..	336
Cewri Cymru ... ..	73
Cymru fach wen ... ..	286
Dal i ganu, delyn Cymru ... ..	94
Dathlu Gwyl Dewi ... ..	101

	TUDAL.
Fe'm ganwyd i yng Nghymru ...	153
Gwlad fy ngenedigaeth ...	368
Gwyllt Walia i mi ...	358
Hen draddodiad ...	188
Mae gwawr i ddod ...	96
Y delyn ar y mur ...	116
Y Ddwyrdd ...	356
Y telynwyr bach ...	72

ADGOFION MEBYD,—	
Adgof a hiraeth ...	252
Bore oes ...	320
Fy nghartref adfeilliedig ...	297
Ymholiad ac Ateb ...	13
Yn un ar hugain oed ...	236

CANEUON NATUR,—	
Anian ...	199
Ar y mynydd ...	238
Mis Mehefin ...	174
Haf a gaeaf ...	804
I'r lan, i'r lan ...	948
Tlysi ...	41
Y dyfryn ...	218
Yr afonig ...	329
Yr haf ...	167

CANEUON RICHARD AB HUGH,—	
i. Tyrd, falmaidd gwsg ...	4
ii. Daw n awyr las ...	36
iii. Gyda'r Iesu ...	68
iv. Cau, fronfraith, can ...	99
v. O aros, Mai ...	189
vi. Cwsg, fy mhlentyn ...	163
vii. I'r lan, i'r lan ...	196
viii. Llwybrau bywyd ...	230
ix. Rwy'n penderfynu cau ...	260
x. Hen Gymru fynyddig ...	295
xi. Swm adfeiliad ...	325
xii. Adgof am yr haf ...	358

CANEUON PLANT RHOSTRYFAN,—	
(Gan J. B. Tryfanwy).	
i. John Maen Brith ...	52
ii. Gwyn a du ...	68
iii. Nosweithiau hynod ...	118
iv. Mary Tan y Celyn ...	168
v. Amryw ...	216
vi. Y Mynydd Grug ...	239

RHYFEDDODAU'R Môr,—	
i. Y Cwrel Coch ...	15
ii. Penweig ...	53
iii. Wystrys ...	105
iv. Gorgonia Flabellum ...	177
v. Gwregys Gwener ...	197
vi. Y morgi (shark) ...	241
vii. Y pysg hedegog ...	285
viii. Y petrel cawraidd ...	337
ix. Aurelia Aurita ...	361

DAENAU I'W HADRODD,—	
i. Y gath a'r pysgodyn ...	54
ii. Wil Gysgwr ...	63
iii. Bys yn y potes ...	85

	TUDAL.
iv. Gwers natur ...	142
v. Y gwyddau meddw ...	142
vi. Motto'r plentyn ...	168
vii. Nedi Wyn y Smociwr ...	205
viii. Ar lan v brochus li ...	256
ix. Mae'r ddau yn y nef ...	320

BYWYD Y BYD,—	
A ennill Crist India ...	331, 362
Allorau rhyfedd ...	338
Buddugoliaethau hed i'wch ...	198
Corea ...	355
Cwsg Holgar ...	375
Dafydd a Goliath ...	273
Ffarm ryfeddol ...	343
Idaho ...	87
Merthyrion China ...	175
Taith yn Afrig ...	372
Thibet ...	344
Yn hen wlad Gosen ...	223

Mordaith Capten Cook,—	
(Parhad gan W. James, Dinas).	
i. Brodorion di-groesaw ...	25
ii. Anodd eu darbwyllo ...	45
iii. Peryglon a newyddion ...	93
iv. Bwytywyr dynion ...	119
v. Archwilio New Zealand ...	148
vi. Cyrraedd Awstralia ...	178
vii. Ar dir Awstralia ...	219
viii. Glannau Awstralia ...	243
ix. Archwilio Awstralia ...	268
x. Sefyllfa enbyd ...	307
xi. Y waredigaeth ...	349
xii. Codi angor ...	373




HANESION,—	
Beth oedd y swm ...	261
Bobbie bach a'r oen ...	227
Cawr y Castell ...	154
Cwsg Holgar ...	375
Dafydd Morgan y Diwygiwr ...	357
Deilen o ros ...	314

	TUDAL.		TUDAL.
Drych y bachgen drwg	22	<i>Adgofon fy Nhaid,—</i>	
Gwledigaeth	840	i. Ifan y Wern Bach	11
Lladrata oedd hynny	302	ii. Rhobart Unfraich	84
Noson bryderus	306, 351	<i>Inger,—</i>	
Y morwr a'i fam	147	i. Rhoi troed ar dorth	251
Yr athraw a'r bachgen	49	ii. Bragdy Gwrach y Gors	284
Yr hwsyd hyll	208	iii. Seler y Wrach Ddu	301
Ysbrydion Aberglasney	183	iv. Cydymdeimlad plentyn bach	339
Y talfiwr bach dewr	333	v. Yr aderyn bach gwyn	363
Y weddi gyntaf	143		
Y wisg anweledig	359	<i>TONAU,—</i>	
<i>(Gan H. Brython Hughes).</i>		Awn, awn ymlaen at Iesu	326
i. Lliechen yn cadw ysgol	8	Dal i ganu, delyn Cymru	296
ii. Y Gnocell Goed gyntaf	37	Carol Nadolig	370
iii. Pa ben i'r pawl	77	Dilyn Iesu	14
iv. Franklin a'r segurwr	122	Gweddi'r plant	266
v. Ufudd-god parod	140	Gweithiwch, blant bychain	102
vi. Chwimder pysgod	164	Gwledd y pur a'r prydferth	206
vii. Gwinwydden enwog	195	Lleisiau'r plant	58
viii. Crwban y môr	249	Milwyr Iesu	146
ix. Priddlestr henafol	274	Pe bawn i yn aderyn bach	170
x. Pont o epaod	303	Telynau'r plant	78
<i>(Gan y Parch. W. O. Powell).</i>		Y morwr bach	248
i. Plant Bethlehem	17	<i>DYCHMYGION,—</i>	
ii. Bugal geifr yr Alpau	62	i. Ysbyty Ystwyth	192
iii. Gofal Duw am yr amddifaid	91	ii. Glandwr, Penfro	236
iv. Gwersi'r adar	99	<i>URDD Y DELYN</i>	57, 101, 222, 330
<i>"Fe ddaw Llywelyn eto'n ol."</i>		<i>I'w ddarllen yn ddiffyfe,—</i>	
<i>(Gan J. E. Jones, Caerdydd).</i>		51, 54, 116, 134, 196, 236, 262, 346	
i. Adroddwr yr hanes	23	<i>LYLFRAU NEWYDDION</i>	270, 330
ii. Robet Dafydd y Morwr	23	<i>TIPYNAU,—</i>	
iii. Dôl Feurig	43	10, 42, 74, 90, 114, 134, 152, 176, 186, 188, 199,	
iv. Ymadawlad Caden Dafydd	71	204, 215, 236, 338	
v. Gwen y Fron	109	<i>AT Y PLANT,—</i>	
vi. Newydd cyffrous	133	1, 33, 65, 97, 129, 161, 193, 225, 257, 289, 321, 353	
vii. Cyffesiad brawychnus	171	<i>CYSTADLEUAETH</i>	10, 340
viii. Difaniad Llywelyn	201		
ix. Yr hen ddoctor	237		
x. Dychweliad Llywelyn	267		





# AT Y PLANT.



**RTHUR.** Dywedaf wrthych ryw dro sut y maent yn medru proffwydo'r tywydd. Dyma fel y dywedodd Caledfryn am bob mis Ionawr,—

Eira a gwlaw—awyr glir—a niwl oer  
Bob yn ail welir;  
Ni chawn, er maint achwynir,  
Fawr o haul, neu fore hir.

**GWLADYS.** Cewch hanes dadorchuddio cof-golofn T. E. Ellis, gan un o blant ysgol Llangollen, yn y rhifyn hwn. Mae hanes llawnach, gyda dau ddarlun mawr o'r dyfira, yn Cymru Ionawr. Yr oedd y plant wedi casglu llawer, rhoddais bob swm gefais yn y banc. Mae rhai enwau i ddod yn y rhifyn nesaf.

**PLANT LLBYN AC EIFIONYDD.** Gorfod i mi adael amryw bethau at y mis nesaf, oherwydd diffyg lle. Ymysg y pethau hynny y mae darlun plant Pwllheli a chaneuon plant Rhostryfan. Y mae'n siomedigaeth fawr i mi orfod oedi ymddaughosiad caneuon plant Arfon; gŵyr J. R. Tryfanwy am galon plentyn.

**A. W.** Mae'r penhillion i Drawsfynydd yn felodaidd iawn. Cânt oll ymddangos ond un, yr hwn sydd braidd yn dywyll i grebwyll plant.

**R. E. (Mardy).** Rhoddaf eich "englyn byrfyfyr" i'r darlun o'r Gwyddel yn y cyffion a'r wydd yn y rhifyn ddiweddar yn y fan yma,—

"In the stocks without stocking—am 'i goesau;  
Mi gostiodd i'm chwerthin;  
Gweld yr wydd flwydd yno'n fin,  
Ar ei phegau agor 'i phigtn."

**O.** Cyhoeddir gwaith Ben Bowen yn gyflawn gan ei frawd, Myfyr Hefin (4, Hermon Street, Treorci). Coron yw ei bris i danysgrifwyr.

**SION Y BRYN.** Os am awr dawel, lawn o fyfyrdd melus am fywyd Cymreig ar ei oreu, darlennwch Gofiant y Parch. Evan Lewis, Brynberian (newydd ei gyhoeddi gan G. Rees, Aberystwyth, 3/6), gan yr athraw D. Morgan Lewis, M.A.

**L. AB J.** Nid yw'n werth esbonio i chwi mai talfyriad o Rugby, Association, Matriculation, a *nine o'clock lectures* yw "Rugger," "Soccer," "Matic," a "Niner." Ni ddefnyddir y talfyriadau hyn ond gan yr efrydwyr penwan yn unig, rhai rhy ddiog i feddwl yn glir ac i ddweyd geiriau'n llawn. Y mae eithriadau, ond y rheol yw na ddaw'r myfyrwyr glywch yn dweyd y geiriau hyn uwch bawd sawdl byth.



DIWYDIANNAU; CYMRU. I. ARFDIG.

J. Thomas.

“ Dydd gwasolth wraethd yn gathionni o hachn F. awyrol.”



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XIII.

IONAWR, 1904.

RHIF 145.

---

## *BLWYDDYN NEWYDD DDA.*

**B**ETH ddaw i ni, i'n gwlad, ac i'r byd yn ystod y flwyddyn newydd, tybed? Un peth wna'r flwyddyn newydd yn un hapus i ni,—credu fod popeth er daioni. “Yn llaw Duw mae'n holl dywydd.” Os yw'r eira ar y ddaear, ceidw melyn'r blodau 'n gynnes, a chymerir ei le,—ond i ni edrych ychydig ymlaen,—gan fôr o wenith tonnog eurfelyn. Hanfod dedwyddwch yw gallu edrych ymlaen o'r gauaf i'r haf sydd yn sicr o ddod ar ei ol.

Digon bygythiol oedd agwedd bywyd y byd ar ddiwedd yr hen flwyddyn. Yr oedd dwy wlad yn ymgynghennu a'u gilydd,—Rwsia gawraidd, hanner barbariaidd, a Japan fechan, chwim, newydd ymddangos ymysg hen alluoedd y byd. Ni wyddai neb pa mor fuan y byddent mewn rhyfel alaethus a'u gilydd, na pha mor tuan y tynnent wledydd ereill i'r ymdrechfa waedlyd.

Ansicr yw dyfodol Prydain hefyd. Y mae hen wirioneddau am fasnach a diwydiannau yn dechreu cael eu hameu. Hanner feddylia llawer nad yw gwneyd da i gymydog yn talu. Y mae anesmwythdy ym meddwl y wlad.

Mae'r byd yn colli ei ddieithrwrch. Canol Asia, erbyn hyn, yw y

rhan y gwyddis lleiaf am dani, oddigerth bro eira a rhow tragwyddol y pegynau. Ond wele hen ddorau Tibit ddeithr yn agor, a Chorea yn gorfod croesawu estroniaid. Ac y mae gwybodaeth yn amlhau.

Arwydd oreu yr amseroedd yw'r awydd i roi addysg i bawb. Mae cydraddoldeb yn ffynnu twyfwy. Oherwydd ei allu a'i ynni y dring dyn yn y blynyddoedd newyddion, ac nid oherwydd natur ei waed neu ddyfnder ei boced. Mae chwyldroadau eto i ddod,—ac yn nhymestloedd y dyfodol rhaid i bob un sefyll yn ol ei nerth, ei obaith, a'i gymeriad ei hun.

Tybed y tybia'r plant fod eu golygydd yn dechreu proffwydo fel gŵr almanac Caergybi. Y mae'n dymuno ac yn proffwydo hyn,—eiddo plant bach calon bur y dyddiau hyn fydd daear y dytodol.

---

### BLWYDDYN NEWYDD DDA.

Blwyddyn newydd dda i'r llesg a'r ysig fron ;  
Blwyddyn newydd dda i'r hen a'r ieuanc llon ;  
Blwyddyn newydd dda ; nid gwawl, ond goleu clir,—  
Yn y gwaith, ar dy daith o fewn i'r anial dir.

*Mardy, Morgannwg.*

R. EVANS.

---

### TYRD, FALMAIDD GWSG.

**T**YRD, falmaidd gwsg, a'th esmwyth  
law,  
I gau ein llygaid blin ;  
Gad ini gael, heb stormydd braw,  
Fwynhau'th adfywiol rin ;  
Y brydferth nos a'i mliwn ser  
Yw dy osgorddlu di ;  
A'th fynwes fwyn rhwng ffrwythydd  
per  
Yw ein gorffwysfa ni.

Tyrd, falmaidd gwsg, ffy oriau llon  
Y dydd, a'i waith, a'i frad ;  
O cymer ni o ruad ton  
Helbulon i dy wlad ;  
Mae mwynder yn dy gartre'n bod  
Dymhera wyntoedd byd ;  
Am ennyd fach gad ini ddod  
I hedd dy hafan clyd.

Tyrd, falmaidd gwsg, a'th ddwyfol ddawn  
I'n dadluddedu'n fwyn ;  
Doed engyl yn bereiddlais iawn  
I'n hwian gyda swyn ;  
Na ddeued un anghydsain dant  
I darfu hedd dy wlad ;  
A'n breuddwyd tlws fo cwmal'r plant,  
A thelyn tŷ ein Tad.

*Y Bale.*

RICHARD AP HUEN.

## Y DDYLLHUAN.



Y DDYLLHUAN GORNIOG.

ddigwyddai fod allan wedi nos.

Y mae'r "Ddyllhuan Wen" a'r "Ddyllhuan Frêch" yn hen gymdogion i blant y wlad.

Hoffant gartrefu mewn unigedd a distawrwydd perffaith,—mewn ogof ym mlaen y cwm tawel, mewn ceudwll ymysg canghennau clyd rhyw hen goeden eiddew mewn coedwig anial, yn nhafod hen ysgubor lwydaidd, yn simdde rhyw hen blâs neu fwth adfeilliedig, mewn agen gysgodol ym murddyn rhyw hen gastell neu fynachlog,

I \*

**YWED** y naturiaethwyr craffaf fod tua deg o wahanol fathau o ddyllhuanod yn byw ar eu tro yn yr ynysoedd Prydeinig Y mae y rhan fwyaf ohonynt yn rhai ymfudol.

Rhennir y ddyllhuanod i ddau ddosbarth amlwg, sef y tylwyth corniog a'r rhai digorn. Rhai digorn yw "Dyllhuan y 'Sgubor," neu'r "Ddyllhuan Wen," a'r "Ddyllhuan Frêch," neu "Ddyllhuan y Coed. Nid yw y ddyllhuanod hyn ond y rhai mwyaf niferus a chyffredin o'r ddau lu.

Cyrn y Ddyllhuan Gorniog yw nifer o blu lled hirion yn codi yn syth dros y clustiau o bobtu'r pen. Y mae coesau rhai o'r ddyllhuanod hyn yn orchuddiedig gan blu hyd eu crafanc. Eu hyd, tel rheol, yw pedair modfedd ar ddeg.

Defnyddia llawer un hen nyth piogen i ddeori, yn lle trafferthu i lunio un newydd iddynt eu hunain.

Y mae'n anhawdd i ni weled unrhyw aderyn brodorol a threm mor ddieithrol a barddonol a threm ambell i Ddyllhuan Gorniog. Y maent wedi bod yn ddychryn i doau o blant

\* Bydd hanes y ddyllhuanod ereill, a'u lluniau, a chwedlau am danynt, yn y rhifyn nesaf.



## NOSON WRTH FODD DYLLHUAN.

“Nid ydynt yn hoffi nosweithiau tywyll bygddu. Nefoedd y dyllhuanod yw nosweithiau lloerganlleuad tyner, braf.”

## CYMRU'R PLANT.

ynghlochdy neu dŵr yr hen eglwys fwyaf oedranus a phruddaidd a allant gael, neu yng nghlydwch "yr ywen ddu ganghennog," yng nghwmni'r meirwon.

Gwnant eu nythod, fynychaf, yn ymyl lle y cartrefant; a bydd hwnnw yn rhyw dair troedfedd o drytesur, wedi ei adeiladu â phriciau a mân wreiddiau, ac wedi ei leinio o'r tu fewn â gwahanol ddeiliach.

Amrywiant yn rhif yr wyau a ddodwyant, ond anaml y gwelir gan yr un fwy na chwech. Newidiant eu lliw o fod yn wyn i felyn, ar ol iddynt eistedd arnynt, a bydd wyau y rhai mwyaf yn debyg i faint wy yr iar, ond dipyn yn fwy hirgrwn.

Adar y nos yw yr holl ddyllhuanod "o hil gerdd." Y mae eu llygaid mawrion, fel llygaid teigrod a chathod, wedi eu ffurfio i weld yn well yng nghaddug yr hwyrnos nag yn nisgleirdeb gwawl y dydd. Ond y mae ffaith ryfedd arall ynglŷn â hyn, sef nad ydynt yn hoffi nosweithiau tywyll, bygddu. Nefoedd y dyllhuanod yw nosweithiau lloergan lleuad tyner, braf, gauafol. Deuant allan o'u clwydi i chwilio am eu cynhaliaeth gyda'r hwyrnos, yna dychwelant i gael nap cyn iddi hollol dywyllu. Deffroant tua thri i bedwar,—fel y bydd yr amgylchiadau, ac ant am dro o ddiffri i chwilio am ychwaneg o ysbail. Yna ciliant i'w gwelyau yn foddlon cyn i'r wawr dorri, a dyna lle y byddant yn cael cyntun difyr ar hyd y dydd.

Pe y digwyddent ymddangos yng ngoleuni'r dydd, fe godai holl deulu'r wig yn eu pennau, a chaent eu herlid a'u hysbeilio gan bob cawr a choryn,—o'r cigfran i'r dryw. Ond wedi i fentyll yr hwyr ymdaenu dros y nentydd llydain a'r llwyni tew, fe gant eithaf heddwch i tod yn ymherawdwyr y goedwig.

Pan fydd yr eira oerwyn yn gorchuddio mynydd a dôl, fe glywir eu dwnad ysmala yn fynych yr adeg honno, ie, yn ystod y dydd hefyd. Onid ydym yn medru byrdwn y ddyllhuan er pan yn blant?—

"Mae hi'n oer. mae hi'n oer, mae hi'n oer,  
Anwyd y' nhroed, anwyd y' nhroed, anwyd y' nhroed,—  
Be' na-i, be' na-i, be na-i?"

"Plant drwg, plant drwg, plant drwg,  
P' le ma' nhw, p' le ma' nhw, p' le ma' nhw?—  
Hw h\*, h\* h\*, h\* h\*!"

---

### AT YR IESU.

PLENTYN CADDEN A MRS. E. JONES, PORTMADOC.

EVAN Robert,—anwyl ydoedd  
Gan y Nef a chan y byd;  
Febyn prydfferth,—at yr Iesu  
Aeth yn angel odd ei gryd.

IOLO CARNARVON.

## LLECHEN YN CADW YSGOL.

**D**ARLENNAIS hanesyn bychan ysmala y dydd o'r blaen,— ysmala, ond a rhywbeth o werth dan yr ysmaldod.

Hanes am ferch ieuanc o athrawes yn yr Unol Dalaethau ydoedd, —athrawes yn un o'r *dame schools* oedd mor gyffredin ys talwm. Yr oedd cefnither iddi wedi marw, a hithau eisiau myned i'r angladd. Nid oedd am dorri yr ysgol, a chan na byddai ei dosbarth hi byth yn caru bod dan ofal yr un o'r is-athrawon, tarawodd ar y cynllun a ganlyn.

Gosododd lechen fawr i sefyll i fyny yn ei chadair freichiau o flaen y dosbarth, ac ar hon yr ysgrifennodd restr o enwau yr holl blant yn y dosbarth. Yna, trefnodd a pharatodd y gwaith oedd i'w wneyd y prydawn hwnnw yn ei habsenoldeb,—gwnio a darllen; oblegid byddai yn arfer ganddi gael gan y plant mwyaf ddarllen rhyw lyfr da a dyddorol i'r plant ereill ar droion.

Yna, meddai, gan sefyll i fyny a chyfarch y dosbarth,—“Yn awr, mhlant i, yr wyf dan orfod eich gadael y prydawn yma, ac yr wyf am i chwi weithio ymlaen hebof. Pan ddaw pedwar o'r gloch, codwch o'ch lleoedd yn drefnus, ac ewch o un i un at fy nghadair i, ac ar y llechen, pawb gyferbyn a'i enw ei hun, dodwch linell syth os wedi bod yn blant da, a chroes os wedi camymddwyn mewn unrhyw fodd. Pan ddychwela't, byddaf yn hyderus am gael golwg ar y llechen; a bore 'fory, wedi i ni ymgynnull fel arfer, darlennaf y rhestr a'r nodau yn eich clyw, fel y galler profi popeth. *Cofiwch! yr wyf yn ymddiried yn eich anrhydedd!*”

Ar ei ffordd o'r angladd, galwodd yn yr ysgol, a chafodd nad oedd ond un groes ar y llechen, a hynny gyferbyn ag enw na buasai fyth yn disgwyl y fath beth ynglŷn âg ef, enw un o'r genethod bach goreu yn y dosbarth, geneth fach dlos, wyneb a chalon agored, hoffus ym mhob modd.

Wel, bore drannoeth ddaeth. Darlennodd hithau y rhestr yn uchel; a chafodd hi yn gywir yn ei chofnodion,—pawb wedi cyfaddeu'r gwir. Ond pan ddaeth at y groes (X), galwodd enw y troseddwr, gan ofyn,—“Wel, merch fach i, sut mae hyn? Beth wnaethoch chwi?”

Cododd yr eneth fach ei llygaid byw hyf-onest i wyneb ei hathrawes, ac mewn tŷn gliir, llawn o'r tawelwch perswynol hwnnw sydd iddo pan yn ymgodi o waelodion calon lân, meddai,—“Chwerthais dros yr ysgol,—do, chwerthais yn uchel fwy nac unwaith; fuaswn i yn fy myw yn medru peidio,—*gweld llechen yn cadw ysgol!*”

H. BRYTHON HUGHES.



## CYMRY BYW.

## I. COCHFARF.

**Y** FLWYDDYN ddiweddaf yr oedd Cochfarf yn faer Caerdydd, tref fwyaf Cymru, ac un o borthladdoedd mwyaf y byd,—yr wyf yn credu nad oes ond dau borthladd, sef Llundain a New York, yn allforio mwy o dunelli. Nid oherwydd cyfoeth na gwaed,—er ei fod o'r gwaed goreu, —y daeth Cochfarf yn faer Caerdydd; ond oherwydd penderfyniad ac egni bywyd, dymunoldeb a gloewder cymeriad, ac awydd i wneyd daioni.

Ganwyd Edward Thomas (*Cochfarf*) yn Nant y Mwth. Maesteg, Mawrth 9 1855. Y mae felly yn awr yn anterth ei nerth, yn wr golygus a chadarn. Amaethwyr oedd ei rieni,—Bedyddwyr duwiol roddasant eu crefydd ac addysg yn etifeddiaeth i'w mab. Pan yn naw oed, collodd y bachgen ei dad. Ond ni ddigalonodd. gweithiodd yn galed i gael addysg ac i ennill profiad. Yn



COCHFARF.

1878, trodd ei wyneb tua Chaerdydd; ac wrth godi yn y}byd trwy ei westai, gwasanaethai ei gyd-ddynion hyd eithaf ei allu. Ymdaf-lodd i bob symudiad sy'n codi Caerdydd,—yn grefyddol, yn ddyngarol, ac yn genhedlaethol. Yr Ysgol Sul, Dirwest, yr Eisteddfod, y Llyfrgell Rydd, y papur newydd,—y mae ei ymroddiad i'w gwasanaethu yn amlwg i bawb yng Nghaerdydd. Fel ynad, yn garedig; fel cyngorwr yn ddoeth,—y mae wedi ennill serch a

pharch pob dosbarth yn y dref wnaeth yn gartref. Nid oes odid fudiad i lesoli cenedl y Cymry, y tuallan i Gaerdydd, nad oes a fynno Cochfarf âg ef. Yn Llys Prifysgol Cymru y gwelais ef gyntaf, yn dadleu am gyfleusterau i Gaerdydd wneyd mwy dros Brifysgol Cymru,—yn wr ddenai â'i ddawn ac a argraffai ar bawb unplygrwydd ei amcanion a grym ei awydd i wneyd daioni i'w wlad.

Cred yn neges Cymru. Cydymdeimla â bywyd Llydaw. Llawenydd digymysg i bob Cymro oedd clywed fod Cochfarf yn faer Caerdydd; danghosai hynny fod ffrwd iach bur bywyd Cymru yn liffo'n gryf i fywyd amlochrog tref fawr a chynhyddol Caerdydd.

### CYSTADLEUAETH I'R PLANT.

**YSGRIFENNA** Mr. R. Morgan.—“Buaswn yn hoffi yn anghyffredin pe buasai plant Cymru yn cymeryd mwy o ddyddordeb yn Natur. I'w tynnu allan rhoddaf chweugain o wobr (i'w rhannu yn ol yr herwydd) am y pedair rhestr oreu o enwau gwerinol, enwau syml ac ysmala'r plant ar ADAR cyffredin eu cartref, ynghyd âg enwau Saesneg yr adar, eu hyd, a desgrifiad byr o'u lliwiau. Y gystadleuaeth i fod yn agored i blant deunaw oed a than hynny. Mae llawysgrif, a threfniant, a destlusrwydd yr atebion i'w cymeryd i ystyriaeth pan yn rhoddi y marciau.

Dyma gynllun,—

ENW CYMRAEG.	ENW SAESNEG.	HYD.	LLIWIAU.
Robin Goch.	Robin Redbreast.	O 5 i 6 mod.	Cefn yn llwydlas. Bron yn goch. Rhannau isaf yn wyn.”

Y cyfansoddiadau i gyrraedd R. Morgan, yr Ysgol, Llanarmon yn Ial, sir Fflint, erbyn Mawrth 12fed.

### LLIWIAU GEMAU.

**TRYLOEWDER** ffachlog yw nodwedd y diamond. Porfforaidd yw'r *ruby*,—awgryma ddyfnder serch. Glas yw'r saffir. Gwyrdd yw'r emerald. Eur-felyn yw'r hyacinth. Gwaed-goch tryloew yw'r garnet. Am yr *agate* a'r porphyry, amrywiaeth lliwiau yw eu gogoniant hwy. Gwynder pur yw tlysnï'r perl.

Y mae hanes i bob un o'r rhain, ac y mae rhamant yn y dulliau y ceir hwy. Caf adrodd eu hanes ryw dro.

## ADGOFION FY NHAID.

(ALL GYFRS.)

GAN DAID.

## I. IFAN Y WERN BACH.

**A** MAETHDY bychan yw y Wern bach, cydrhwng y Swan, y man y trigai Dafydd ynddo, a Phen y Groeslon, lle trigai fy nhaid. Wrth gydmaru Ifan a Dafydd,\* yr oeddynt yn gymeriadau tra gwahanol i'w gilydd; nid yn unig o ran corff, ond o ran meddwl hefyd. Un bychan o gorff oedd Ifan, a llai bychan o feddwl; tra yr ydoedd Dafydd y Swan yn fawr o gorff, ac yn fwy ei feddwl i gyfeiriad y daionus. A pharhaodd ei gymeriad yr un yng ngolwg y wlad, er i un o fawrion y tir amcanu ei garcharu am yr hyn na ystyriai neb mohono yn drosedd y dyddiau hynny. Ac nid oedd ronyn llai crefyddwr yng ngolwg y lluaws er iddo arddangos ychydig ddi-reidi tra yr oeddynt yn ceisio ei hebrwng i'r carchar.

Aelod fyddlon o eglwys y Methodistiaid yn Brynaerau oedd Dafydd Gruffydd, ac eisteddai bob amser yng nghornel y sedd fawr, a llanwai ran helaeth o honi. Ond ni welid mo Ifan y Wern Bach mewn unrhyw le o addoliad ond pur anfyndch. Eithr gwyllai bawb a elai heibio i'r capel ar y Sabothau, er mwyn cael dannod balchder y naill wrth y llall os digwyddai i rywun ymdroi i ymddiddan âg ef.

"Towcas ulw," meddai un tro, (dyna air a arferai beunydd), mae'r diafol yn troi plant Adda, yn enwedig y merched yma, a phen ei fys at ei wasanaeth. Yr oedd hon a hon yn pasio y funud yma a becwn stwff a phais fetal newydd spon am dani, a rhubanau yn ei 'sgidiau, i'r capel, i ddim ond i ddangos i hun, wlv chi. Mor wired a mod i, mi fydd teulu y ffatri yna yn o hir heb 'i prés. Towcas ulw, mi fydd arna i ofn i'r Brenin Mawr foddi yr hen ddaear yma eto, achos balchder pobol."

Swm a sylwedd crefydd Ifan ydoedd i'r cyfeiriad yna. Ar rai prydiau, fe fyddai yn taraw ar ei drech, pan y byddai wrth ei hoff orchwyl yn holi dieithriaid elent heibio. Fe ddigwyddodd i un cymeriad pur ddi-reidus basio, ac Ifan fel arfer yn prysuro i'w gyfarfod, er ceisio cael gwybod ei daith a'i neges. Ond fe ragflaenodd y teithydd arno, a chyfarchodd ef,—

"Mae pob proffwydoliaeth yn sicr o ddod i ben yn hwyr neu hwyrach, onid ydynt, Ifan William?"

---

\*Yr ydych yn cofio fod hanes Dafydd y Swan yn torri'r drôl yn y rhyfyn diweddat.

"Dyn byw, bedi'r mater 'rwan?"

"Ho, chlywsoch chi ddim felly?"

"Wel, naddo wir, wlv chi."

"Wel, yr oedd Robin Ddu wedi proffwydo y byddai llanw'r môr yn dod trwodd o draeth y Foryd hyd bentref Llandwrog, ac felly y mae er neithiwr." Ac ymlaen ag ef:

"Towcas wyllt ulw, glywis ti'r fath beth, Megan," meddai wrth yr hen wraig; ac adroddodd yr hanes wrthi, ac wrth bawb a welai, hyd nes y cymerodd ei ddarbwylio gan rywun.

Yn terfynu a thir y Wern Bach, yr ochr ddwyreiniol iddo, yr oedd coedwig a elwid Gwinllan Pen y Maes, sydd erbyn hyn wedi ei difodi yn hollol. Perthynai i Lord Niwbwrch, a honnai Ifan mai efe oedd i ofalu am dani, na byddai neb yn tresbasu arni mewn modd yn y byd. Er hynny, fe fyddai'r plant, wrth chwareu, yn dringo rhai o'r coed, ac yn aml yn bur drystfawr. Ym mysg y coed yr oedd yno un goeden neillduol, a alwem ni "yr entrych." Coeden ffawydd unionsyth oedd, a'i changhennau yn agos i'w gilydd, yn peri ei bod yn hawdd ei dringo. A thybiem ni, pan ar ei phen uchaf, y byddem fwy na hanner y ffordd o'r ddaear i'r haul. Un diwrnod yr oedd nifer o gyd-chwareuwyr wedi dod ynghyd, a Dic fy mrawd ac Owain Moris y Swan yn "yr entrych," mewn hwyl mawr. Ond er ein braw, pwy welem yn cyfeirio tuag atom ond Ifan Wiliam a Gwesyn y ci, a buan iawn yr oedd y rhai ohonom oedd ar lawr yn cymeryd y coesau, cyn derbyn ffonodiau Ifan ar ein gwarrau. Ac wedi cyrraedd i ryw gornel, gwyliasom i edrych beth a ddeuai o'r rhai oedd yn "yr entrych." Nid oedd wiw meddwl dod i lawr, er fod Ifan yn gorchymyn hynny ar unwaith, a'i ffon i fyny yn barod i'w gollwng ar gwman y cyntaf ddeuai i'w gyrraedd; a Gwesyn y ci mor barod a'i feistr i ddial ar y troseddwy. Ond nid oedd yr un o'r ddau, gan henaint, yn atebol i ddringo i'r goeden; ac er rhoddi gorchymyn ar orchymyn, a bygwth yn erwin, nid oedd y ddau walch yn syfyd dim oddi rhwng y canghennau. Felly y bu raid i Ifan droi adref yn siomedig, yr hyn a barodd i'r bechgyn ymfalchio a dal ati i ymysgwyd ym mrig y pren. Ond dacw yr hen wron yn dod drachefn, wedi iddo ond prin gyrraedd y ty, a'i fwyall ar ei ysgwydd, yn benderfynol y tro hwn o'u cael i lawr o'u chwareule. Os oedd nerth tafod wedi ffaelu, credai y byddai'n llwyddiannus gyda nerth braich ac ysgwydd, o'r hyn lleiaf i ddychryn y ddau aderyn o'r tew-frig i ddod i lawr a begian ei bardwn. Ac wedi iddo gyrraedd y lle, yn hytrach na thafodi eilwaith, dechreuodd gymynu a'i holl nerth, a sudd mygllys yn ffrydio o'i enau yn fwy nag arfer. Ond gwelodd y gweilch mai gyda gwegil y fwyall yr ydoedd yn curo, i geisio eu dychrynu yn unig; a gwyddent yn eitha y cymerai Ifan Wiliam y

gofal mwyaf rhag torri yr un wialen yng ngwinllan *my lord*, chweithach torri un o'r coed harddaf a dyfai ynddi. Methasant ymatal rhag chwethin, yr hyn a barodd i'r cymynwr ymgynddeiriogi fwy fwy, a throi ymaith, i fyned, meddai ef, i'r Glyn Llifton i ymofyn un o'r ceidwaid helwriaeth i ddod yno i'w saethu. Ond bu gorfod i Ifan druan ymdawelu trwy i Megan yr hen wraig ei berswadio, a dweyd wrtho mae nid ág us y delid hen adar.

Yn dilyn i fyny ar hyd ochr ddwyreiniol y Winllan, mae y Lôn Uchaf, fel y'i gelwid, sef y ffordd sydd yn arwain tua Pont y Cim. Ar y ffordd honno, ar brydiau, wrth ochr clawdd y Winllan, fe tyddai y sipsiwn yn pabellu am noswaith neu dros Saboth; ac er na byddai y cwmniau hyn yn troseddu nac yn afonyddu ar neb na dim, fe fyddai Ifan Wiliam mewn helynt flin yn ceisio eu hymlid ymaith, cyn iddynt bron roddi eu traed i lawr, pe gallasai. Ac wedi iddo fethu gydag ymadroddion bygythiol, elai i'r tŷ yn nwydwyllt, a dychwelai yn ol drachefn, a rhol o femrwn dan ei gesail, yn yr hwn, yn ysgrifenedig, yr oedd deddfau o eiddo Lord Niwbwrch ar gyfer y neb a ganfyddid yn trespasu ar Winllan Pen y Maes, ac wedi dringo i ben y clawdd uwchben y trueiniaid, a Gwesyn wrth ei ochr yn cyfarth megis i lywyddu i'w feistr yn ei areithfa, darlennai Ifan y memrwn gydag awdurdod. Ond er darllen a bygythio'n gas, a chyfarthiad Gwesyn a phopeth, nid oedd eu dylanwad ond megis dim ar y sipsiwn, ond yn hollol i'r un graddau a'r bechgyn yn "yr entrych,"—am nad oedd y naill yn afonyddu ar ddim, ond pabellu dros y Saboth yn dawel, a'r lleill heb amcan yn y byd ond chwareu yn hollol ddiniwed.

Pe buasai Ifan Wiliam yn meddu tawelwch meddwl a sirioldeb ei hen wraig Megan, buasai ei fywyd yn llawer dedwyddach, yn hytrach nag ymdroi mewn ryw helyntoedd di-alw am danynt, Sul, gwyl, a gwaith.



## YMHOLIAD AC ATEB.

GLYWI di gri y baban bychan,  
 Fflina, lonna fron ei fam?  
 Wel di'r aniddigrwydd purlan,  
 Fynn o'i fynwes roddi llam?  
 Gwel hi eto yn ei chariad,  
 Yn ei ddodi yn ei gryd;  
 Ao yn siglo tlws ei chalon  
 I freuddwydiol gwsg y byd.

*Blaenau Ffestiniog.*

Beth yw'r cri a'r aniddigrwydd,  
 Leinw'r fron ddiniwed fach?  
 Dim ond ton o Dduw yn chwilio  
 Cyryon byd am galon fach,—  
 Chwilio am lafar-bêr eiriau,  
 A thangnefedd nefol ryw,—  
 Chwilio'r glannau am y llwybrau,  
 Aiff ág ef yn ol i Dduw.

D. R. JONES.

## "DILYN IESU."

Geiriau gan J. REES JONES,  
Llanon, Sir Aberteifi.



M. O. JONES, Treherbert.

DOH Eŷ.

m :- :r   f :- :m   r :- :m   d :- :-	d :- :-	r :- :-	m :- :re   m :- :-
d :- :d   d :- :d   t, :- :t,   l, :- :-	d :- :-	t, :- :-	d :- :-
l. Blentyn bych - an	ed - rych, gwel	Gar - iad	Ie - su,
s :- :f   l :- :s   f :- :s   m :- :-	m :- :-	s :- :-	s :- :fe   s :- :-
d :- :d   d :- :d   s, :- :s,   l, :- :-	l, :- :-	s, :- :-	d :- :-

Bŷ.t.

m :- :r   f :- :m   r :- :m   d :- :-	m, :- :-	t, :- :-	d :- :t,   l, :- :-
d :- :d   d :- :d   t, :- :t,   d :- :-	t, m, :- :-	f, :- :-	m, :- :l, se,   l, :- :-
Clyw Ei eir - iau,	fel y mel	Yn dy -	fer - u,
s :- :f   l :- :s   s :- :se   l :- :-	t m :- :-	r :- :-	l, :- :r   d :- :-
d :- :d   d :- :d   s, :- :m,   l, :- :-	s, d, :- :-	r, :- :-	m, :- :-

f.Eŷ.

l, m :- :s   d' :- :l   s :- :f   m :- :-	m :- :m   l :- :t   l :- :se   l :- :-
f, d :- :r   d :- :d   d :- :r   m :- :d   d :- :r   d :- :f   m :- :r   d :- :-	
Er ein mwyn Fe ddaeth i lawr,	I wael fyd y cys-tudd mawr,
d s :- :s   m :- :f   s :- :l, t   d' :- :-	s :- :se   l :- :m'   r :- :d' :- :t   l :- :-
f, d :- :t,   l, :- :f   m :- :r   d :- :-	:- :t,   l, :- :r   m :- :m,   l, :- :-

s :- :f   m :- :m   f :- :s   l :- :-	t :- :-	d' :- :-	t :- :l   s :- :-
r :- :r   d :- :d   f :- :m   f :- :-	f :- :-	m :- :-	r :- :-
Dae - ar go - baith yw yn awr,	Drwy yr	Ie - su,	
r :- :s   s :- :s   d' :- :ta   l :- :-	s :- :-	s :- :-	s :- :d'   t :- :-
t, :- :t,   d :- :ta,   l, :- :s,   f, :- :f   m	r :- :-	d :- :-	r :- :-

m :- :m   r :- :d   f :- :m   r :- :-	s :- :s   f :- :m   l :- :l   r :- :-
d :- :d   l, :- :d   t, :- :d   r :- :-	d :- :d   d :- :d   d :- :d   t, :- :-
Blentyn bych - an drwy dy oes,	Rho dy ys-gwydd dan y groes,
s :- :s   f :- :s   s :- :d'   t :- :-	d' :- :s   d' :- :ta   l :- :l   s :- :-
d :- :d   f :- :m   r :- :d   s :- :-	m :- :m   l :- :s   f :- :fe   s :- :-

m :- :-	s :- :-	m :- :r   d :- :-	2 Blentyn, os am grefydd bur—Dilyn Iesu;
d :- :-	t, :- :-	d :- :-	'Rhwn a ddeil dan bwysau cur—Dilyn Iesu
Gyd - a'r	r :- :s	Ie - su.	Ti cei fod dan gygegof clyd
:	r :- :s	s :- :f   m :- :-	Ei haeddiannau dwytol drud,
:	s, :- :s,	d :- :-	A byth deach fydd dy bryd—Gyda'r Iesu;
Gyd - a'r	Ie - su.	d :- :-	Blentyn bychan, oâr dy Dduw,
			Ceisia d'oran byth i fyw—Fel yr Iesu.

## RHYFEDDODAU'R MOR.

I. Y CWREL COCH.




Y CWREL COCH.

**G**WELODD llawer o'n genethod bach gadwen o gwrel coch, onid do? Tybed eu bod wedi gofyn iddynt eu hunain rywbryd, "Beth yw y darnau cochion prydfarth hyn? Ac o ble y daethant?" Darnau o anifail, o greadur byw, yw'r darnau o gwrel coch sydd yn gadwen mor dlos am wddf yr eneth fach. Tyf,—yn ei unfan y mae'n byw,—ar waelod tawel y môr. Y mae iddo wythienau a gewynau, gwelir eu hol fel llinellau ar y coch. Y mae iddo blant hefyd, fel blodau, ar hyd-ddo. Syrthiant oddiwrtho i waelod y môr, ac yno dechreuant fagu geneu a chylla, oherwydd eu prif waith yw bwyta mân drychfilod, a'u troi'n gwrel, yn rhan ohonynt eu hunain.

Ceir hwy mewn ambell lecyn ym Môr y Werydd ac yn y Môr Tawel. Ond Môr y Canoldir yw eu hoff fan. Yno yr a yr helwyr cwrel i chwilio am danynt, yn enwedig ar draeth Algeria ac ar draeth dwyreiniol Ysbaen. Gollyngir rhwyd i lawr o'r cychod, a thynnir hi ar hyd gwaelod y môr. Torrir i cwrelau ganddi, a chydiant ynddi, a deuant i'r lan gyda hi. Rhaid i chwi gofio nad oes gan y cwrel lygad na meddwl, felly ni feddylia am ddianc,—nid yw ond geneu a chylla. Gallech feddwl arno mai llysieuyn yw.

Bydd cannoedd o gychod uwchben gwelyau y cwrel yn ystod yr haf. Y mae'n waith digon caled a chostus. Ond os ceir y cwrel coch, tâl yn dda. Wedi ei lanhau, y mae'r cwrel goleugoch yn werth o gan punt i ddau gant o bunnau yr owns. Paham, tybed, y rhoddwyd lliw mor brydfarth ar greadur yng ngwaelod y môr?

Gallech feddwl fod y cwrelau yn eithaf diogel yn nyfnderoedd y môr. Yng nghulfor Messina, ym Môr y Canoldir, y maent yn byw mewn dyfnder o dri chant i chwe chant o droedfeddi islaw wyneb y dŵr. Ond daw y rhwydi ar eu traws, ac y mae eu dull canghennog yn ei wneyd yn beth hawdd i'r rhwydi fachu ynddynt, a'u tynnu i fyny i'r awyr.



YSGOL SUL YN NYFFRYN OLWYD.

Mynd i Sautwa y Plant.

L. E. Price.



## PLANT BETHLEHEM.

**N**ID anyddorol i blant Cymru yn y tymor hwn o'r flwyddyn, pan y mae y Nadolig a'i adgofion cysegredig newydd dalu ymweliad & ni unwaith yn rhagor, fyddai cael ychydig o hanes plant Bethlehem. Yno y ganwyd Gwardwr y byd. Ond er mwyn i'r hanes fod yn fwy dyddorol fyth, carem iddynt ddyfod gyda ni am dro o ran eu meddylliau i edrych ar Bethlehem; yn neillduol ar brydferthwch ei hamgylchoedd, ac hefyd i gael yfed ychydig o'r awyrgylch grefyddol y mae plant Bethlehem yn byw ac yn cael eu magu ynddi. Y mae amgylchoedd y ddinas yn brydferth ryfeddol; yn llawn o goed ffigys, gwinwydd, ac olewydd. Y mae yno erddi hefyd, a'r rhai hynny yn llawn o'r planigion harddaf. Ac o dan y coed ac ar y meusydd a berchenogid unwaith gan Boaz, ac y bu Ruth yn lloffa ynddynt, mae yno y fath gyflawnder o'r blodau tlysaf, fel nas gall y teithiwr sydd yn hofi o brydferthwch natur lai na sefyll i'w hedmygu. Felly gwelir fod natur wedi gofalu, pan ddaeth yr Iesu i'r byd, am roddi iddo un o'r lleoedd prydfert Haf i gychwyn ei fywyd fel dwyfol ddyn. Dyma ddesgrifiad tlws Islwyn o Bethlehem,—

“Ar ymyl bryn y safai'r ddinas fechan  
Yng nghanol coedydd cyfoethocaf Canan;  
Ai dyma ganol-bwynt prydfertwch Anian,  
Ei harddaf le i dderbyn Ior ei hunan?”

Ond beth am blant Bethlehem? Mae gennym ddau beth dyddorol i ddweyd am danynt. Ym mlaenaf, y mae'n debyg am blant Bethlehem, yn neillduol y genethod, mai hwy ydyw y plant harddaf yng ngwlad y dwyrain. Y maent yn enwog am eu hedrychiad boneddigaidd a lledneisrwydd eu hymddangosiad; ac y mae eu gwisgoedd hefyd yn hynod o ddestlus ac o brydferth. Yr hyn sydd yn cyfrif, meddai Dr. Thompson ac ereill, am y prydfertwch anarferol a berthyn iddynt ydyw fod llawer o gwaed y Croesgadwyr\* yn rhedeg drwy eu gwythienau oddiar “Ryfeloedd y Groes.” Bernir eu bod yn ddisgynyddion o farchogion arwrol y Croesgadau a'u dilynwyr.

Ond y mae gennym beth llawer gwell i'w ddweyd am danynt, sef eu bod bron yn ddiethriad yn cael eu dysgu o'r cychwyn i garu ac addoli Iesu Grist, oblegid Cristionogion ydyw bron holl drigolion dinas Dafydd. Dyma ffaith swynol, sef fod plant y ddinas y ganwyd Iesu Grist ynddi yn cael eu dysgu, o'u mebyd, i edrych i tyny ato ar

\* Y gwyr o bob gwlad Cristionogol fu'n caisio ennill bedd yr Iesu, tuag wyth gan mlynedd yn ol, oedd y Croesgadwyr. Yr oedd llawer o Gymry yn eu myf. Arhosodd llawer ohonynt yng Nghanan.

Ei orsedd yn y Nefoedd fel eu Gwarddwr. Y mae manteision plant Bethlehem yn fwy lluosog na manteision plant y dwyrain yn gyffredin, oddieithr plant Nazareth, am y rheswm mai crefydd Iesu Grist sydd yn cael ei dysgu a'i byw yno. Meddylier, er engraffft, am anfaenteision plant hen ddinas Hebron, sydd heb fod ymhell oddiwrthyt. Yn Hebron, hen grefydd iselwael Mahomet sydd yn ysgwyd ei theyrnwialen, ac y mae ei dylanwad andwyol i'w ganfod ar feddyliau a moesau y plant. Nid oes yno ddim cynnydd o gwbl mewn diwylliant a gwareiddiad. Pe gellid deffro yr hen batriarchiaid sydd yn cysgu ers canrifoedd lawer yno ym Macpelah, byddent yn sicr o gael eu taro â syndod, a'u meddiannu â theimlad prudd-glywfus, yn yr olwg ar yr agwedd sydd ar foesau, ac wrth weld y tywyllwch moesol sydd yn ffynnu yno. Ond ym Methlehem, crefydd Iesu Grist sydd yn gwasgar ei goleuni ac yn ledaenu ei dylanwad; a'i harwyddair hi i'r plant, ac i bawb, ydyw,—“Bod yn berffaith fel y mae ein Tad yr hwn sydd yn y Nefoedd yn berffaith.”

Dywed Dr. Thompson fod ysgol ym Methlehem i'r genethod ar eu pennau eu hunain. Un bore, pan yn myned heibio i'r ysgoldy, peidiodd a myned i mewn rhag eu hafionyddu, am eu bod yn myned drwy eu defosiwn boreuol. A chafodd bleser mawr i'w feddwl wrth wrando ar ferched Bethlehem yn canu, mor swynol a chyda'r fath frwdfrydedd, hymnau cynefin Moody a Sankey.

Y mae Nadolig yn ddydd arbennig ym Methlehem. Cynhelir gwasanaeth rhwysgfawr gan y ddwy Eglwys sydd yno, sef Eglwys Groeg ac Eglwys Rhufain, er mwyn cofio am eni Gwarddwr mawr y byd yno. Yn ol syniad a theimlad yr is-gadben Conder, yn ei “Tent Work in Palestine,” y mae y gwasanaeth ymhell o fod yn dygymod â symrlwydd yr Efengyl, ac y mae ynddo hefyd rai pethau sydd yn wrthun; ond eto, fel yr awgryma, mae y ffaith yn siarad digon ynddi ei hun, sef bod gwasanaeth o'r natur yma wedi ei gynnal ym Methlehem am yr ysбайд maith o bymtheg canrif, i alw sylw y plant sydd yno, y trigolion, a'r byd i gyd, at ryfeddod y rhyfeddodau, sef ymddangosiad y dwyfol yno mewn cnawd. Carem fod ym Methlehem ar ddydd Nadolig, yn gwrando ar y plant yn canu. Bore y Nadolig cyntaf, bu côr o angylion uwchben maes y bugeiliaid sydd yn ymyl y ddinas, yn canu anthem o glod i Dduw am ei ras yn anfon Ei fab i'r byd i fod yn dlawd, “fel ein cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef.” Ond erbyn heddyw y mae plant Bethlehem wedi dyfod i ganu gyda hwy Iesu Grist ei hunan, am ddyfod yno i'r preseb i gael ei eni, ac am farw ar Galfaria er mwyn agor y ffordd iddynt hwy, i blant Cymru, a phlant y byd, i “bur drigfannau'r Nef.” Plant Cymru, unwch gyda phlant Bethlehem i ganu,—

“Diolch iddo

Byth am gofio llwch y llawr.”



DYFFRYN CONWY DAN EIRA.

**RHYFEDDODAU FFERYLLIAETH.**

“Gall Natur droi dwfr budr yn emwaith eira. Pryd y gall y fferyllydd wneyd parddu yn ddiamond?”

**G**OBEITHIAF nad ydych yn blino ar hanes y pethau o'n cwmpas. Pa faint o'r darllenwyr sydd am ddysgu fferylliaeth?

Fferylliaeth yw y wyddor honno sydd yn chwilio i mewn i gyfansoddiad mater. Gwneir pob darn o fater o elfennau. Cynhwysa ambell ddarn o fater lawer o elfennau wedi uno a'u gilydd. Dro arall ni chynhwysa ond tair elfen, megis y garreg galch; dro arall ni tedd ond dwy elfen, megis dwfr neu awyr; a thro arall nid oes ynddo ond un elfen yn unig, megis haiarn neu aur. Yn awr, os cynhwysa ambell ddarn o fater lawer o elfennau, yna gellir, trwy foddau priodol, ddostrannu y darn hwnnw i'w wahanol elfennau, ac yna bydd gennym ddarnau newydd o fater, hollol anhebyg i'r hyn y cychwynasom gydag ef. Gwneir holl fater y greadigaeth o ryw 70 o elfennau

(*elements*). Os ydych yn cofio hanes y garreg galch, dywedais fod modd ei gwneyd yn dair elfen. Felly hefyd gyda dwfr, gellir gwneyd hwn drachefn yn ddau nwy hollol anweledig i'r llygaid. Ni chynhwysa ambell fater ond un elfen; mater felly yw haiarn neu aur. Nis gellir gwneyd haiarn yn ddim ond haiarn, nac ychwaith aur yn ddim ond aur. Hynny yw, nis gellir eu dosrannu, oherwydd mai un elfen gyfansodda y naill a'r llall. Cofiwch nad wyf yn dweyd nas gellir byth gael dim ond haiarn o haiarn. Fe all rhyw fferyllwr yn y dyfodol ddod yn ddigon galluog i ddarganfod mwy nag un elfen mewn haiarn. Gwnaed hyn gyda darnau o fater a dybiesid eu bod yn elfennau flynyddoedd yn ol, ond torrwyd hwynt i elfennau ereill, hynny yw, cymysgeddau oedd *nt* (*compounds*).

Tra y cynhwysa cymysgedd ddwy neu ragor o elfennau, ac yn amrywiol ei ansawdd, a thra y cynhwysa yr elfennau un ffurf o fater, a hwnnw o'r un ansawdd i gyd, eto gall elfen fod mewn mwy nag un dull o ran ffurf neu drefniad allanol, ond nid mewn cyfansoddiad. Cymerwn, er engraifft, yr elfen carbon. Dywedais ei fod mewn carreg galch. Gwelir ef yn natur mewn tair ffurf arbennig, sef fel *graphite*, golosg, a diamond. Aiff carbon i gyfansoddiad y rhan helaethaf o lo, ac y mae parddu yn gyfansoddedig yn gyfangwbl o hono. Mae gwerth rhyw beth yn dibynnu i raddau mwy neu lai ar brinder y peth hwnnw. Aur sydd werthfawrocach na haiarn am fod llai o hono yng nghrystyn y ddaear; hynny yw, ni chanfyddwyd cyflawnder o hono eto. Cynhwysa y môr fwy o aur yn doddedig, nag sydd yn gorwedd yng nghrystyn y ddaear. Y cwestiwn yw,—Sut y ceir ef oddi yno?

Diamondau yw y gemau gwerthfawrocaf fedd y ddaear. Eto, nid ynt ond carbon. "Oni ddywedasoch mai carbon yw parddu?" Do. "Os felly, rhaid fod y parddu diwerth o'r un elfen a'r diamond amhrisiadwy?" Felly yn hollol. Rhoddwyd 6,000 o bunnau am un o ddiamondau Debeubarth Affrig, er ei fod yn llai nag wy. Dychmygwch weled dau ddyn yn cerdded yr heol yn gyfochrog, y naill yn cario sachaid o barddu ar ei gefn, a'r llall sachaid o ddiamondau. Ni allesid cael dau ddyn tebycach i'w gilydd. "Dau ddyn, a dwy sach, a'r un peth yn y ddwy ddywedasoch chi?" Ie, diamondau yn y ddwy, a pharddu yn y ddwy. Nid yw y diamond yn ddim llai na pharddu yn ei gyfansoddiad. Fel hyn y gwneir y diamond yn barddu. Cylymer wifren gopr am dano, a rhodder ef mewn costrel yn cynnwys y nwy oxygen. Bydded y gostrel yn gaunedig oddiwth yr awyr o'i hamgylch. Yn awr, gyrrer trydan ar hyd y wifren, ac fe ddifianna y diamond yn lludw.

· "Eto, nid yw hynny yn profi mai carbon ydoedd." Gadewch weled. Pan losgir carbon mewn awyr o oxygen, ffurfir y nwy

*Carbonic Acid Gas* ( $\text{CO}_2$ ); y nwy gwenwynig soniwyd am dano yn y wers ddirwestol. Profir bodolaeth  $\text{CO}_2$  yn y gostrel trwy roddi ychydig ddwfr calch clir ynddi, yna try yn llaethog. Ni wnaiff dim hynny ond  $\text{CO}_2$ . Am na chynhwysa awyr y betel yn awr ond carbon ac oxygen, sef  $\text{CO}_2$ , ac am nad oedd dim o'r O yn y gostrel ar y dechreu, rhaid mai carbon neu barddu yw y diamond. Neu o ba le daeth y  $\text{CO}_2$ ?

Ni wnaed parddu yn ddiamondau hyd yn hyn. Fe wawria dydd pan y troir parddu yn ddiamondau feallai. Bydd rhyw fferyllwr galluog wedi gwneyd hynny cyn hir; feallai mai un o ddarllenwyr CYMRU'R PLANT fydd hwnnw. Pan wawria y diwrnod hwnnw, bydd diamondau mor rhad a pharddu, ac ni bydd sôn am *diamond mines* mwyach.

SIGMA.

---

 YR ENETH A'R GASGEN.

YR ENETH,—

Pa beth yw'th waith di, gasgen?  
Yr wyt o ddefnydd da,  
O bren a fu yn tyfu  
Yn rhywle 'Ngwlad yr Ha;  
Ai tybed fod dy fywyd  
A roed dan haul y nen,  
Yn cael ei deg gyrhaeddyd,  
A'i ddwyn yn bur i ben?

Y GASGEN,—

Na, na, yr wyf o'm hanfodd  
Yn gorfod bod fel hyn,  
Cam arfer mawr a'm gyrrodd  
I agor dorau'r glyn;  
Y'diafol fu'n cynllunio,  
Ni thyrir ef gregin gwag,  
A dyna pam yr ydwyf  
Yn cario diod frâg.

YR ENETH,—

O gasgen, druan, druan,  
Mae'n ddrwg gen i dy swydd;  
Ond beth am ddynton egwan  
Sy'n rhoi eu cyrff mor rhwydd  
Yn gasgiau wrth y mloedd,  
Trybaeddant hyd y llawr,  
Pryd dylent fod yn lluoedd  
O demlau'r Brenin Mawr.

Y GASGEN,—

O eneth bach, neu fachgen,  
Dos, dywed wrth y plant,  
Am eiriol dros y gasgen  
Sy'n aberth drud i chwant;  
'Rwyf yma'n dra anfoddog  
Yn gwneyd fy mhennyd waith,  
Rhybuddia'r plant yn wresog  
Rhag dod i'm dyrus daith.

YR ENETH,—

O gasgen ddi-anrhydedd,  
Yr wyt yn wael dy lun,  
Yn cario yn ddi-ddiwedd  
Yr hyn a ddryga ddyn;  
Mil gwell fuasai'th dynged,  
A mwy fil mil dy barch,  
Pe buaset yn ddiarbed  
Yn gwneyd i ddyn ei arch.

Pa beth a wnawn, O gasgen,  
I wella'th gyflwr tlawd?  
'Rwy'n teimlo dros dy angen  
Fel pe baet imi'n frawd;  
Gweddiad ar Greawdwr,  
A wnaeth bob pren mor gun,  
I newid trefn dy gyflwr  
Trwy newid calon dyn.

BUDDUG.



“ A yw bachgen drwg yn beth hardd ? ”

### DRYCH Y BACHGEN DRWG.

**A** YW bachgen drwg yn beth hardd ? A glywsocch chwi hanes Bili Jones yn yr Ysgol Sul ? Yr oedd yn fachgen drwg y bore, cyn cychwyn. Aeth ei dymer yn waeth yn yr ysgol, a heriodd ei athraw. Gorfod ei droi allan wedi i'r aroglwr ddoed yno.

Y munud hwnnw cafodd dynnu ei lun. Y mai Bili Jones wedi gweled ei lun, ac nid yw yn ei hoffi o gwbl. “ Pam na fasen nhw yn tyngu fy llun pan oeddwn yn fachgen da,” meddai.

## "FE DDAW LLYWELYN ETO 'N OL."

## I. ADRODDWR YR HANES

"YR oeddwn wrth erchwyn ei gwely pan dynnodd yr anadliad olaf," meddai Uwchlyn Meirion, "a dyna olygfa oedd. Yr oedd ei gŵr yn rhy feddw i weini dim cysur iddi, a'i ewyllys yn rhy fregus i wneyd hyd yn oed ymgais i droi dalen newydd. Ond er y cwbl, yr oedd rhyw swyn; pruddaidd mae'n wir, yn yr olygfa yn yr ystafell fechan honno yn yr Ardd Las. Yr hen Gaden Dafydd, druan, wedi ei holl droion, yn tynnu at derfyn ei gyrfa, ac yn gweddio ar i'r Duw oedd hi'n ymddiried ynddo gadw ei phlant rhag dilyn llwybrau pechod; a phan am y pared â'r byd tragwyddol, y mae gwên foddhaus yn ymledu dros ei gruddiau, tra yn adrodd ac yn ail adrodd y geiriau yma,—'Mae'n anhawdd iawn gan yr Arglwydd adael teulu yn llwyr wedi iddo unwaith gael derbyniad i mewn iddo. Yr wyf wedi gweddio llawer dros y bechgyn yma a William, ac yr wyf yn gobeithio yr arbedir hwynt; ond Duw a gadwo Llywelyn bach, beth bynnag.' Ac ynglŷn â'r olygfa yma yn fwyaf neillduol y cyplysyr 'Fe ddaw Llywelyn eto'n ol' yn Nol Feurig."



Ond, dyna, gadawer i'r hen frawd o Feirion ddechreu ei stori yn drefnus, gyda dweyd yn unig fy mod yn ei doddi i lawr mor agos ag y gallaf i'r modd y traddodwyd hi ganddo yn Nheml "Tŵr Cathays,"—cymdeithas ddirwestol gychwynwyd tua thair blynedd a hanner yn ol ymysg Cymry Caerdydd.

## II. ROBERT DAFYDD Y MORWR.

Heb fod ymhell o Lwyn yr Eithin, yng nghyfeiriad Cantre'r Gwaelod, y mae pentre bychan hynod dwt o'r enw Dôl Feurig. Wedi i mi enwi yr Ardd Las, y Fron, a'r Hen Dafarn, nid oes yn aros yn awr ymhen isaf y pentref ond hen furddyn a elwid "Storws" (*storehouse*), a'r afon megis yn cymeryd trugaredd arno rhag turio'n ormodol dan ei sylfaeni, a thrwy hynny symud ymaith yr olaf o olion prysurdeb masnachol y Wendon yr amser fu. Ddeugain mlynedd yn ol yr oedd yn lle prysur iawn. Dyna'r adeg y gwnaed y ffordd haiarn i Lwyn yr Eithin, ac anhawdd anghofio'r rhwyg a wnaed mewn llawer teulu ym mro fy nghenedigaeth yr adeg honno. Ond cyn hynny yr oedd Dôl Feurig yn lle pwysicach o lawer, am mai gyda chychod ar hyd y Wendon y byddai angenrheidiau bywyd a

phethau ereill yn cytraedd yno ; ac oddiyno drachefn, ar fenni Wmffre Puw, i Lwyn yr Eithin. Prif forwr y Wendon yr adeg honno ydoedd yr hen Robert Dafydd. Coffa da am dano. Duw'n unig wyr faint o ddaioni wnaeth yr hen forwr yn ei ffordd ddistaw ei hun. Pan welid pig ei lestr bychan, yr hen "Lion," fel y byddem yn ei alw, yn troi i Forfa'r Ddeulif, byddai'r pentrefwyr am y cyntaf yn gwneyd eu ffordd i'r Storws i gael ymgom â Robert Dafydd, a chael gwybod ganddo beth oedd sefyllfa pethau tua glannau Bau Aberteifi ; ac yn eu mysg yn gyntaf un, fel rheol, deuai Yswain y Fron, bob amser yn awyddus i wybod beth ydoedd prisiau'r yd, ac i gael gwybod hefyd a oedd yno longau yd ai peidio yn aros yn y Bau hyd nes i'r prisiau godi. Os felly byddai, pentyrrai yntau ei yd yn ei ysguboriau, pryd yr oedd pobl ddiwyd a gonest Dôl Feurig yn aml ar eu cythlwng, ac yn gorfod cyfrif eu bara haidd, caled ddigon hefyd, yn amheuthyn.

Yn union ar ol deuai William Morus o'r Ardd Las, yn bendrist iawn fynyachaf. Yr oedd William yn ddyd diwyd iawn, ond bob amser ar ei oreu yn cael dau pen y llinyn ynghyd. Gweithiai'n galed yn hwyr ac yn fore, ac yr oedd ganddo un o'r gwragedd goreu yn y wlad, o deulu lled ariannog, meddid, ond wedi tynnu eu gwg am briodi "y labwr yna," fel y galwedd William ei gŵr ; ac yn ol arferiad pobl yr hen fro, er wedi priodi William Morus, Caden Dafydd oedd hi o hyd ymysg yr hen bobol.

Gwella ei amgylchiadau oedd y peth mwyaf ar feddwl William hefyd, fel Yswain y Fron, ond fod cryn wahaniaeth yn y dull a gymerent i ddwyn hynny oddiamgylch. Cybydd oedd yr Yswain, a'i drachwant am arian oedd yn ei symbylu yn ei ddiwydrwydd ; ond am William,—tyddynwr bychan dinod,—awydd am lwyddo a bod yn abl i roddi addysg i'w blant a llawnder i'w wraig oedd yn ei symbylu ef, a chael dangos ei anibyniaeth ar deulu'r wraig, y "tacla hefyd," fel y dywedai'n aml pan wedi taro bargaen go dda.

"Y mae William yn eithaf bachgen," ebai Robert Dafydd, "tra bydd ar ei oreu yn cael dau ben y llinyn ynghyd ; ond y mae arnaf ofn ei weled yn llwyddo'n ormodol, rywfodd. Y mae ynddo ryw awydd anghymesur am gyfoeth ; a phan wna fargen go dda, y mae, rywsut, yn toddi'n llymaid fel pwys 'menyn yn llygad yr haul." Ac yn ei ddull doniol ei hun rhoddai ei ddedfryd ar achos gŵr yr Ardd Las gyda phennill o waith yr "hen Ficar," chwedl yntau,—

"Newyn corff sydd beth tra chreulon,  
Gwae i'r rhai lle caffo 'i ddanfôn ;  
Ond gwyn eu byd y rhai newynllyd  
Am ddwr o'r graig a bara'r bywyd."



## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## I. BRODORION DI GROESAW.

**I**FOR. Fy nhad, braidd nad oeddwn am i chwi dorri y rheol y nos o'r blaen, a dal am ychydig dros naw o'r gloch i egluro am ryw fyd y soniasoch am dano yn pasio Capten Cook.

**TAD.** Nid pasio yn agos i Capten Cook oeddwn yn feddwl. Feallai y dylaswn roddi eglurhad manylach nag a wnaethum wrth son am y blaned Gwener er ys misoedd yn ol. Byd anferthol o fawr yw yr haul; ac y mae yn troi o'i amgylch wyth o fydoedd llai, y rhai a elwir prif blanedau y gyfundrefn haulawg. Ac y maent yn gwahaniaethu yn eu pellder oddiwrtho, o 36,000 o filldroedd hyd dros 2,000 o filiwnau o filldroedd. Y mae ein daear ni yn un ohonynt, yn troi yn ei chylch penodol ei hun, sef y trydydd oddiwrth yr haul. Gwener sydd yn yr ail gylch, a Mercher yn y cylch nesaf ato. Croesa y byd Mercher linell union rhwng y ddaear a'r haul bedair gwaith ar ddeg bob can mlynedd, ac yr oedd hynny yn cymeryd lle ar y pryd yr oeddwn yn cyfeirio ato, yn New Zealand. Profodd yr hin yn hollol ffafriol dros adeg yr archwiliad.

**I**FOR. Oedd popeth yn iawn ar y llong pan oedd y Capten a'i gymdeithion i ffwrdd?

**TAD.** Nac oedd. Cyn dychwelyd ohonynt i'r llong, clywsant swm magnel o gyfeiriad yr Endeavour. Wedi eu dyfodiad i'r llong, rhoddodd Mr. Gore, yr is-gapten, adroddiad o'r helynt a gawsant gyda'r ynyswyr. "Pan yn masnachu gyda nifer o'r brodorion," meddai, "daeth dau o gafnfadau mawrion yn agos atom; ac yn un ohonynt yr oedd 47 o ynyswyr. Yr oeddynt oll wedi ymarfogi, ac yn ymddangos mewn tŷmer ryfelgar. Ond ymhen ychydig amser daethant ymlaen i fasnachu. Cynygiodd rhai ohonynt eu harfau yn gyfnewid am ryw bethau a ewyllysient eu cael. Cynhygiodd un ohonynt ddarn o ddefnydd oedd yn ei wisgo am dano ar y pryd. Gwnaethum gytundeb âg ef, a chyflwynais iddo yn dâl ddarn o frethyn Lloegr. Ond gwrthododd gyflwyno ei ddarn ef, ac ymaith ag ef ar ffo. Pan fygythiwyd ef am ei dwyll, ymunodd ef â'i gwmni i ganu eu cân amddiffynnol, gan chwifio eu rhwyfau yn fygythiol. Parhausant i'n gwawdio a cheisio ein dychrynu am hir amser. Wrth weld y troseddwr yn dal y brethyn yn ei law gan wawdio, tan-iwyd ato, a lladdwyd ef. Yna rhwyfasant oll i bellter lle y tybient eu bod yn ddiberygl, ond yn parhau i aros gyda'u gilydd yn y fath fodd tel y gallesid casglu eu bod yn cynllunio ar gyfer ymosodiad. I sicrhau ffordd rydd i'n bad i fyned i dir, taniwyd pelen dros

eu pennau, yr hyn a'u dychrynodd mor fawr nes peri iddynt ffoi mor gyflym ag y medrent." Wedi gwrandaw yr adroddiad, yr oedd y Capten yn teimlo yn dra gofidus am na buasai Mr. Gore wedi defnyddio y mân belenau hyd nes y profai hynny yn aneffeithiol; oblegid gwnawd hynny lawer gwaith yn flaenorol, yn y cyffelyb amgylchiadau, a bu yn llwyddiannus.

IFOR. Dyna ddiwedd ar chwilio New Zealand.

TAD O nage. Ar ddydd Gwener, aeth y Capten gyda Mr. Banks ac eraill, mewn dau tad i chwilio afon fawr, yr hon oedd yn ymarllwys i Mercury Bay. Rhoddwyd yr enw ar y morgilfach hwn gan y Capten, am mai yn ei ymyl y buwyd yn gwylio traws-symudiad Mercher dros wyneb yr haul. Gan fod yr afon a'i glannau yn cynnwys agos bopeth angenrheidiol i fordeithwyr yn y rhannau deheuol o'r byd, gofalodd y Capten eu cofnodi er mantais i fordeithwyr yn y dyfodol. Yr oedd y fath gyflawnder o wystrys yno fel y gallesid cael llwyth llong ohonynt ar ol pob llanw. Enwodd Capten Cook yr afon yn Oyster River. Y mae afon arall, yn nes i wddf y bau, yn fwy cyfleus a diogel i long i aros am gylnod o amser. Oblegid y cyflawnder o'r *mangroves* sydd yno, enwodd y Capten yr afon yn Mangrove River. Mewn amryw o fannau ar lannau y gilfach, darganfyddwyd symiau o hairn-dywod wedi ei daflu i fyny ar y traethau. Profai hynny yn amlwg fod mwn haiarn gerllaw.

IFOR. Fy nhad, mae New Zealand a'i mân ynsoedd yn cael lle mawr gennyh yn yr hanes, ac yr wyf yn teimlo bod y darn hwn yn un tra dyddorol. Ewch rhagoch yw'm dymuniad.

TAD. Nid wyf yn meddwl y byddai yn fuddiol manylu rhyw lawer, ac hefyd amcanaf adrodd wrthyt y pethau a ystyriaf yn fwyaf buddiol. Awgrymais o'r blaen nad oedd y brodorion hyn yn rhoddi dim gwerth ar y pethau defnyddiol a gynhygid iddynt gan y morwyr. Ond yr oedd y teganau yn dderbyniol iawn ganddynt. Cyn i'r Endeavour adael y gilfach, cerfiwyd enw y llong, ac enw y Capten, ac adeg yr ymweliad, ar bren mawr mewn lle amlwg. A chododd y Capten faner Prydain ar y fan, gan fyned drwy ryw ffurf o gymeryd meddiant o'r wlad honno yn enw'r brenin Sior. Pan yn hwylio allan o'r gilfach, daeth amryw o gafnfadau o wahanol fannau tuag at y llong. Yr oedd dau ohonynt yn cynnwys tua 60 o'r brodorion. Daethant mor agos fel y gellid yn hawdd eu clywed yn siarad; ac yn ol eu harfer, dechreuasant ganu eu rhyfelgan. Wrth weld nad oedd y dynion gwynion yn gwneyd yr un sylw ohonynt, dechreuasant chwynnello cerrig atynt; ond cyn cael unrhyw wrthwynebiad, rhwyfasant yn ol tua'r lan. Mae'r pin ar naw, Ifor, rhaid i ninnau ymwahanu. Nos da.

IFOR. Nos da, fy nhad, a diolch i chwi.



COF-GOLOFN T. E. ELLIS.

R. H. Jones.

(Ddiwrnod y dadorchuddio.)

**COF-GOLOFN T. E. ELLIS.**

PLESER-DAITH PLANT YSGOL Y BWRDD, LLANGOLLEN.

LLYTHYR ODDIWRTH WILLIE RICHARDS.

**M**AE y dosbarthiadau uchaf yn ein hysgol ni yn cael *trip* bob blwyddyn. Y flwyddyn yma yr oeddym yn edrych ymlaen at fynd i'r Bala. Paratodd Mr. Lewis, ein hysgol-feistr, le i ni gael bwyd, a phrynodd docynau y tren i ni. Y diwrnod oedd Hydref 7fed; ac yr oedd yn ddiwrnod mawr yn y Bala, achos yr oedd y Gwir Anrhydeddus John Morley yn dadorchuddio cerflun er cof am Mr. T. E. Ellis prif *Liberal Whip* i lywodraeth Mr. Gladstone.

Daethom i gyfarfod ein gilydd yn yr ysgol am hanner awr wedi saith yn y bore, ac yna aethom i'r orsaf i gyfarfod y tren chwarter wedi wyth. Cawsom gerbyd i ni ein hunain, ac aethom trwy amryw o leoedd, a gwelsom wahanol orsafoedd. Y gyntaf oedd Berwyn, lle y gwelsom ddyinion yn gweithio yn gosod cerrig sylfaen i Bont y Brenin. Y nesaf oedd Glyndyfrdwy, gyda'r chwarelydd; wedyn Carrog; wedyn Corwen, gyda'r Ysgol ar y bryn, Cynwyd gyda'r caeau o dan ddwfr, gan fod lliif mawr yn y Ddyfrdwy. Yn nesaf daethom i Landrillo, yna i Landderfel, ac yna i Bala Junction, lle yr oeddym yn gortod newid y tren. Ac wedyn, aethom ar linell Ffestiniog i'r Bala. Yr orsaf fwyaf rhwng Llan-gollen a'r Bala yw Corwen. Cyrhaeddasom y Bala erbyn hanner awr wedi naw, ac wedyn aethom o gwmpas i weled y dref. Daethom o'r orsaf i lawr yr heol at y cerflun, ac wedyn troisom ar y chwith trwy Heol Tegid at gerflun Mr. Charles. Mae hwn y tu allan i gapel y Methodistiaid. Mae y cerflun wedi ei wneyd o farmor gwyn, yr hwn sydd yn dangos Mr. Charles gyda Beibl yn ei law. Ar y tu blaen mae darn pedair onglog yn dangos Mr. Charles yn rhoddi Beibl i eneth fechan o'r enw Mary Jones, yr hon a gerddodd bum milltir ar hugain o Lanfihangel i'r Bala i brynnu Beibl. Mr. Charles oedd sylfaenydd yr Ysgol Sul yng Nghymru a Chymdeithas y Beiblau.

Aethom i lawr yr heol at Ysgol y Bwrdd, yr hon sydd yn cael ei hadeiladu, ac yna aethom i weled y llyn. Yr oedd y gwynt yn chwythu, ac yr oedd tonnau bychain dros ei wyneb. Yr oedd yn rhy ystormus i ni fynd yn agos ato. Er nad oedd y tonnau ond ar ei wyneb, nid oeddynt yn cyrraedd yn isel i lawr. Aethom at y cychod, ond yr oedd ein meist'r yn edrych ar ein hol, ac ni chawsom fynd i mewn iddynt, rhag ofn i ni gael damwain, gan fod damweiniau wedi cymeryd lle. Wedyn, aethom i fynwent Llanecil, lle mae Mr. Charles, Prifathraw T. C. Edwards, ac ereill, wedi eu claddu. O gwmpas yr eglwys mae cerfluniau wedi eu gwneyd tua 1610. Sylwasom ar y coed a'r blodau ar hyd y ffordd, ar cerrig llyfn ar lan Llyn Tegid.

Ar ol hynny daethom yn ol i'r dref, ac yr oedd y bobl yn dyfod i mewn yn lluoedd. Yr oedd yna *Excursions* o Langollen, Ffestiniog, Manceinion, Lerpwl, Aberystwyth, Pwllheli, a'r Bermo. Yr oeddym yn awr yn barod am fwyd, ac yr oedd yno tua dau ddwsin o honom, ynghyda Mr. a Mrs. Lewis, a Mr. Jones, yr athraw cynorthwyol, a Mr. T. C. Davies, aelod o'r Bwrdd Ysgol, a'i wraig. Ar ol bwyta, aethom i fyny yr heol at y Llew Gwyn, lle yr oedd yr Aelodau Seneddol a boneddigion ereill wedi ymgynnull, sef y Gwir Anrhydeddus John Morley, Mri. Ellis Griffith, Lloyd George, Herbert Roberts, S. T. Evans, Osmond Williams, Herbert Lewis,

L. J. Roberts, H.M.L., y Prifathraw T. F. Roberts, ac ereill. Wedyn, aethom i weled dadorchuddio y cerflun; yr oedd yno lawer o bobl, a darfu i ryw ddyn sathru ar y llinyn a daeth y gorchudd i lawr; ond cafodd ei rhoi i fyny mewn ychydig o funudau. Yna, dyna ni yn gwled yr Aelodau Seneddol yn dyfod, ac yna *cheers*.

Y mae y darn uchaf o'r cerflun wedi ei wneyd o bres, yn dangos y diweddar Mr. T. E. Ellis yn ei wisg athrofaol, gyda phapur yn ei law dde, a'i law chwith wedi ei chodi. O gwmpas y cerflun mae panelau yn dangos Cynlas, lle y ganwyd Mr. Ellis; Coleg Aberystwyth, lle yr oedd yn astudio; Rhydychen, lle cafodd ei addysg athrofaol; y Senedd-dy, lle yr oedd ef yn gwneyd llawer o waith dros ei wlad. Mr. Lloyd George oedd yn siarad yn gyntaf. Wedyn dadorchuddiwyd y cerflun gan y Gwir Anrhydeddus John Morley. Ar ol hyn, rhoddodd y golofn yng ngofal Cyngor Tref y Bala. Wedyn, aeth y bobl i'r Victoria Hall, achos yr oedd y *Pavilion* wedi ei chwythu i lawr gan ystorm y noson cynt. Tra yr oedd Mr. Lewis yn y cyfarfod, aethom ninnau i weled y Coleg, Green y Bala, Llyn Tegid, &c. Ar ol hynny, daethom i gyfarfod ein hathraw am hanner awr wedi pedwar, a chawsom dē. Ar ol hynny, aethom am dro o gwmpas y lle i weled y bobl yn mynd i fwrdd. Rhoisom *cheers* i Mr. Lloyd George, a dywedodd yntau,—“Well done, boys.” Dechreuodd wlawio o gwmpas wyth o'r gloch, ac aethom i ochel i'r orsaf. Cychwynasom adref am hanner awr wedi wyth, a chyraeddasom Langollen tua deg o'r gloch, wedi mwynhau ein hunain yn fawr, ac wedi blino yn iawn.

---

### YR HEDYDD.

**F**RY, fry mewn awyr glir,  
Esgynna'r Hedydd llon,  
Gan ganu uwch y tir,  
Y gân sydd yn ei fron;  
Uwch, uwch ehed o swm y byd,  
A'i beraidd gân yn dal o hyd.

Diogel yw a rhydd,  
Uwch maglau'r byd a'i frad,  
O gyrraedd saethau cudd,  
I glwyfo'i fynwes fad;  
Mor unig fry, a dedwydd yw,  
O ddwndwr byd yn moli Duw.

Wrth wrando ar ei gân  
Yn seinio hedd a hoen,  
Yn entrych awyr lân,  
Lle llwyr anghofia boen;  
Hiraetha mron am unig le,  
I ganu 'n dawel fel efe.

EINTON.

## PWY GANODD Y GLOCH?

YR oedd Dic a Walter yn falch iawn o gael *holiday* yn awr ac yn y man. Edrychent ymlaen yn y Gauaf at wyliau yr Haf, a siaradent yn fynych am yr hyn oeddynt am wneyd ar ol i'r gwyliau ddyfod. Rhoddent eu dychymyg ar waith yn aml, gan freuddwydio y pethau mwyaf gogoneddus. Yn wir, yr oeddynt yn cael llawer mwy o bleser wrth adeiladu eu cestyll yn yr awyr nac wrth fyw ynddynt wedyn. Ambell dro byddent yn cael *holiday* hollol anisgwiliadwy, pan y byddai rhywbeth neillduol yn cymeryd lle. Ar adegau fel hyn gellid meddwl fod y ddau bach smala bron mynd yn wallgof gan lawenydd. Neidient a dawnsient fel ŵyn bach, ac nid oedd modd yn y byd eu cadw yn dawel. Ond nid oedd unrhyw *holiday* yn deilwng o'r enw iddynt hwy, os na chaent wneyd rhywbeth yn y ffordd o gellweirdeb. Gofyniad cyntaf y naill i'r llall ar ol cyfarfod a'u gilydd ar fore dydd Sadwrn fynychaf ydoedd,—“Be gawn ni neyd heddyw, dwad, i gael tipyn o sport?” Ac mor wir a'u bod yn gofyn y cwestiwn ni fyddai yn hir cyn y caent atebiad cyflawn iddo. Nid ymfoddlonent ar ymddwyn fel plant bach cyffredin ar ol cael diwrnod rhydd iddynt eu hunain, ond yr oedd yn rhaid iddynt gael hyd i ryw chwareu newydd a chynhyrfus yn barhaus.

Ar derfyn yr ysgol un prydawn dydd Iau, ar ol i waith y dydd gael ei orffen, dywedodd yr ysgol-feistr wrth yr holl ysgol nad oedd am roddi *home-lessons* iddynt ar gyfer bore dydd Gwener, gan na fyddai dim gwaith yn myned ymlaen y diwrnod hwnnw, gan na fyddai ysgol drannoeth.

Ar ol i'r plant ddyfod allan o'r ysgol prydawn dydd Iau, pe buasech yn cerdded ar hyd y ffordd fawr sydd yn arwain o Ysgol y Bwrdd i gyfeiriad y pentre bychan lle yr oedd Dic a Walter yn byw, gallasech weled y ddau yn cyd-gerdded, fraich ym mraich, gan siarad yn brysur ynghylch rhaglen y dydd yfory. Dic, fel rheol, oedd y parotaf i gynnyg rhywbeth beunydd; ond ar ol iddo ef ei grybwyll, helpai Walter ef i wneyd y cynllun yn faith.

“Wst ti be, Walter,” meddai Dic, “mi wn i sud i gal lot o spri fory, os doi di hefo mi. Dyma fo'r tric nawn ni. Wyt ti'n gwbod nad oes dim ysgol i fod fory. 'Rwan, mi awn ni i fyny at yr ysgol erbyn chwarter i naw bore fory. Ac wyt ti'n gwbod am gloch yr ysgol? Ma rhaff y gloch yn hongian tu allan ar y wal fel rheol. Mi ganwn ni'r gloch fel bydd y titshar Georgie Morris yn gwneyd; ac wedyn, wyt ti'n gweld, mi fydd y plant i gyd yn meddwl fod ysgol fel arfer, ac yn crynu yn 'u sgidia wrth glywed y gloch yn canu.”

Byddai yn well ini egluro yma fod cloch yr ysgol yn un hen fasiwn, wedi ei gosod y tu allan i'r adeilad. A'r tu allan hefyd yr oedd y rhaff yn hongian, fel y gallai unrhyw un ei dynnu, os byddai

yn ddigon tal i'w gyrraedd. Arferai George Morris y *pupil-teacher* roddi cwlwm ar y rhaff a'i hongian ar hoelen bedd yn y mur.

Yn awr, tra yr oedd Dic yn esbonio y cyflun uchod, yr oedd Walter yn gwrandao yn ddistaw, ac yn edrych arno gyda llygaid llawn edmygedd, fel pe bai yn meddwl ynddo ei hun,—

"Wel, pwy fasa'n medru dychmygu y fath beth ond Dic bach?"

"Ymhle ca'i dy weld ti bore fory?" meddai yn uchel.

"Cofia di fod wrth siop William Jones y crydd," ebe Dic, "erbyn hanner awr wedi wyth bore fory, Walter, neu na i byth fadda iti."

"Mi fydda i yno o dy flaen di," atebai hwnnw, gan roi *sting* i'w fag llyfrau dros ei ysgwydd.

Ni chafodd yr un o'r ddau fyned allan i chwareu y noson honno, am ei bod yn bwrw gwlaw. A chyn deg o'r gloch yr oeddynt yn eu gwelyau. Yn ystod y nos deffrôdd Dic lawer gwaith, a phob tro y gwna'i hynny yr oedd ei feddwl yn myned yn naturiol at yr hyn oedd i gymeryd lle y bore canlynol.

Am hanner awr wedi wyth y bore wedyn, pan oedd yr hwter ar y cei yn galw'r gweithwyr yn ol at eu gwaith, yr oedd Walter yn prysuro i gyfeiriad siop William Jones y crydd, fel yr oedd wedi addaw. Erbyn iddo gyrraedd, yr oedd Dic yno yn barod. A chychwynasant tuag at yr ysgol. Cerddasant yn gyflym, er mwyn bod yn mewn pryd i ganu'r gloch ar yr adeg arferol. Cyn bo hir, cyrhaeddasant yr ysgol, ac aethant dros y wal i'r *play-ground*.

Dylasem ddweyd fod yr ysgol ychydig bellter allan o'r pentre; ac nad oedd dim tai yn ymyl, felly teimlai Dic a Walter yn berffaith ddiogel; ond er hynny, cadwent eu llygaid a'u clustiau yn agored, er mwyn gweled a chlywed unrhyw un allasai ddyfod heibio iddynt.

Y peth cyntaf oedd tynnu y rhaff i lawr oddiar yr hoelen. Yr oedd braidd yn rhy uchel iddynt heb gael rhywbeth i sefyll arno. Ar ol chwilio am ychydig funudau, dywedai Walter,—

"Dic, mi wn i lle ma rhwbath i roi o dano ni. Ma 'na hen focs yn ymyl drws yr ysgol i ddal llwch a hen ddarna o bapur, ac mi fasa'n gneud y tro yn iawn. Mi a i i nol o ar unwaith."

"Dyna chti," ebe Dic, "dos i nol o, a brysia, neu mi fydd yn rhy hwyr i ganu'r gloch am chwarter i naw."

Ftwrdd a Walter ar ei neges, ac ymhen rhyw funud neu ddwy daeth yn ol, gan lusgo y bocs gydag ef. Yr oedd yn rhy wan i'w gario. O'r diwedd rhodd y bocs o dan y lle yr oedd y rhy. Safodd Dic arno, a chydiodd yn y rhaff gan dynnu â'i holl egni.

"DING-DONG, DING-DONG," meddai'r gloch.

Tra yr oedd Dic yn canu'r gloch, edrychai Walter yn wylidwrs i bob cyfeiriad, rhag i neb ddyfod heb yn wybod iddynt. Canodd Dic y gloch am bum munud llawn, yna dywedodd wrth Walter,—

"Dyna ddigon dw i'n meddwl, mi â'n ni o ma rwan."

"Ond ma'n rhaid ini roi y rhaff yn ei hol a'r bocs yn ei le eto," ebe Walter.

"Rhaid wir," atebai Dic, "a gwell ini frysio, neu mi fydd rhywun ar y'n hola ni 'mhen ychydig, ar ol clywed y gloch yn canu fel 'na."

Aed a'r bocs yn ei ol wedi i'r rhaff gael ei gosod ar yr hoelen. Yna, aeth y ddau i ymguddio yn y cae, y tu ol i'r wal, i weled sut y buasai'r tric oeddynt newydd ei wneyd yn cymeryd, a beth fyddai'r canlyniadau.

Yn awr digwyddai yr ysgol-feistr fod yn ymdrwsio pan ddechreu-odd Dic ar ei waith fel clochydd.

"Wel, wel, mae Georgie Morris wedi anghofio nad oes dim ysgol heddyw," meddai wrtho ei hun, "ac eto, mi ddwedais i yn blaen prydawn ddoe. Rhaid imi fynd allan i weled sut y digwydd-odd y peth."

Aeth i fyny at yr ysgol. Erbyn iddo ei chyrraedd, nid oedd neb yno ond rhyw blentyn bychan o'r enw Johnny Ellis, yr hwn oedd wedi bod yn sal am wythnos ac a yrrwyd i'r ysgol i ail-ddechreu y bore hwnnw. Gofynnai y meist'r iddo a ydoedd wedi gweled Georgie Morris wrth yr ysgol. Dywedai yntau nad oedd. Yna edrychodd y meist'r ar y gloch a'r rhaff. Ar ol syllu arnynt am eiliad, dywedodd wrtho ei hun yn fwy nac wrth y plentyn oedd yn ei ymyl,—

"Pwy allasai fod yn canu'r gloch tybed? Mae y peth yn anesbon- iadwy i mi. Mae'n rhaid fod rhywun wedi bod yn chwareu tric, er mwyn cael dipyn o ddifyrrwch. Ond os do'i i wybod pwy oedd o, mi gaiff o dric yn bur sicr."

Tra yr oedd yr ysgol-feistr yn dweyd hyn, yr oedd Dic a Walter yn crynu mewn ofn yr ochr arall i'r wal, ac yn gobeithio, er mwyn popeth, na wnai eu gweled. Ond nid oedd eisiau iddynt ofni, oblegid ar ol dweyd wrth Johnny Ellis am fyned adref, trodd yn ei ol i fyned i'w lety.

Bu llawer iawn o holi a dyfalu ynghylch yr amgylchiad yn y pentre ar ol hynny. Ac nid yr ysgol-feistr a Johnny Ellis oedd yr unig ddau i gael eu twyllo gan waith Dic a Walter y bore hwnnw. Clywsant wedyn fod tad Tommy Price wedi ei ddwrddio pan glywodd gloch yr ysgol yn canu, gan ddweyd,—

"Pam roeddat ti'n deud nad oedd dim ysgol heddyw, dwad?"

Wrth fyned adref ar hyd y caeau, y bore bythgofiadwy hwnnw, cafodd Dic a Walter gryn dipyn o spri, wrth feddwl am yr hyn a wnaethant. Ond gwyddent y gofynnid y cwestiwn,—*"Pwy ganodd y gloch?"*

*Porth Madog.*

R. G. NICHOLSON.

---

— Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

— ARGRAFFWYD A OYTHORDDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBORSAM.



# AT Y PLANT.



E, peth digon rhyfedd yw fod yr asyn, un o'r anifeiliaid mwyaf brenhinol ac anrhydeddus yn y dwyrain, mor ddianrhydedd yn ein gwlad ni. A sylwasoch chwli ar beth cyn rhyfedded, sef fod y ci, prif gyfaill dyn yn y gorllewin, yr anifail mwyaf dirmygedig ac aflan yn y dwyrain? "Ai ci yw dy was?" Ei unig waith yn heolydd y dwyrain yw bwyta burgynod.

Bob. Ydyw, y mae'n wir fod darnau aruthrol o rew, cymaint a mynydd weithiau, yn torri oddiwrth gyfandir rhew enfawr Greenland, ac yn nofio'n raddol i'r môr agored. Fel y daw yn nes i'r de, todda'n raddol, ac o'r diwedd diflanna'n lân; disgyn y cerrig sydd ynddo i waelod y môr, ac ymgymysga ei ddwfr yntau â dwfr y môr.

Bydd y mynyddoedd eira yn croesi cwrs llongau weithiau ar eu ffordd o Lerpwl i New York. Y fiwyddyn ddiweddat gwelodd un long fynydd o rew, ac arno yr oedd chwech o eirh gwynion (*polar bears*) yn cerdded yn brysyr yn ol ac ymlaen, mewn penbleth fawr. Nis gwn beth fyddai eu diwedd, marw o newyn neu foddi.

T. R. Diolch yn fawr am gân Helen Maud Waithman i'r ehedydd, lle y dywed fod angel blinedig wedi eistedd mewn cae yd ac wedi canu ei gân; clywodd y tywysennau yd hi, plygasant eu pennau mewn boddhad; clywodd y popi hi, a llygad y dydd, a blodau'r menyn, a thrysorasant hi yn eu plygion; arhosodd y wiwer fel wiwer gerfedig, daeth y llygod swil at draed yr angel i wrando; ond ni fedrodd neb gofio'r gân i'w channu ond yr ehedydd. A dyna pam y mae'r ehedydd yn codi wrth ganu,—mae'r gân yn ei thynnu tuag adre.

ISTYRN (Maentwrog). Buasai'n dda gennyf gael cyhoeddi yr englyn doniol, ond ni wiiw i mi ganu udgorn fy misolyn fy hun.

L. O. FON. Nid oes gan yr un sarff amrant, y mae eu llygaid bob amser yn agored. Ond y mae gwsg dryloew dros y llygad yn amddiffyn iddo.

O. Tybed i mi anghofio cydnabod casgliad Cwm y Glo at gof-golofn T. E. Ellis? Casglodd Miss Thomas, Ysgol y Cyngor, bunt; cefais hi cyn y dad-orchuddio. Anfonodd Mr. W. D. Morgan, Gwynfryn, Ty Croes, Sir Gaerfyrddin, swllt, wedi dydd y dadorchuddio. Nid yw'r pwyllgor hamddenol wedi cyfarfod, pan wyf yn ysgrifennu, i orffen trefnu; ond deallaf y bydd yn dda cael arian, os ces rhywun heb anfon, i gael plethau haiarn o amgylch gwaelod y golofn, i fod yn ddilogelwch ac yn harddwch ychwanegol.

**BODFARIAN.** Mae'r darnau i'w hadrodd yn dderbyniol iawn.

**ATHRAW.** Cyhoeddir llyfrau ysgol dwy-icithog yn y swyddfa hon.



DIWYDIANNAU CYMRU. II. DYSGU GARDDIO. (Plant Pentecelwyn.)



# CYMRU'R PLANT.

Cyf. XIII.

CHWEFROL, 1904.

RHIF 146.

## DOLGELLAU.

**Y**R wyf am geisio traethu yn fyr ar hynodrwydd ardal Dolgellau, hen ardal enwog a chryn dipyn o'r henafol yn bod ynddi. Y mae yn ddi-ddadl yn ardal bur hynod ar lawer cyfrif.

Y mae y dref ynddi ei hunan yn hynod iawn. Dywedodd Glasyns am dani,—

“ Mae rhywbeth pur gyntefig  
A gwledig iddi'n glod,  
Hen ddull yr oesoedd astud.  
Rydd arni wedd a nod.”

Y mae yr ardal hefyd yn enwog oherwydd ei chysylltiadau hanesyddol. Rhyw ddwy filldir o'r dref saif hen Fynachlog y Faner neu'r Cymer. Sefydlwyd hi, mae yn debygol, gan Gruffydd ab Cynan ac ereill. Ty Cisterciaidd ydoedd, ac fel y rhan fwyaf o fynachlogydd heirdd y canol oesoedd, cyflwynwyd hi i'r Forwyn Fair. Yn yr ardal hon hefyd y mae hen blasdy enwog y Llwyn, lle yr oedd y Barwn Owen, a lofruddiwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy, yn preswyllo. Y mae adfeilion hen amddiffynfa Gymreig i'w gwled eto yn Caerynwch, plasdy enwog yn ymyl Dolgellau. Dywedir mai yn Nolgellau yr oedd Senedd-dy Owen Glyndwr, ond y mae'r hen adeilad wedi ei dynnu i lawr yn awr.

Cyn gorffen ein hysgrif, carwn gyfeirio at enwogion fagwyd yn yr ardal hon, neu a fu yn preswyllo ynddi am dymor maith o'u bywyd. Enw a glywir yn ddigon anaml yw enw yr hynafiaethydd medrus, Dafydd Ellis, yr hwn anwyd yn Hafod y Meirch, Dolgellau, ac a fu wedi hynny yn berson Criccieth. Efe a grynhodd lythrau Goronwy Owen o Fon. Bardd enwog, ar lawer cyfrif, oedd Rhys Jones o'r Blaenau, yr hwn a gasglodd "Orchestion Beirdd Cymru." Un o'r beirdd mwyaf enwog yng Nghymru yn ei ddydd oedd Dafydd Ionawr, yr hwn a elwir yn aml yn "Fardd Cristionogol Cymru." Gŵr arall tra nodedig oedd Dr. Henri Owen, Tan y Gader. Nis gallwn derfynu heb gyfeirio at un eto o enwogion yr ardal, sef Ieuan Gwynedd, un o gymwynaswyr goreu Cymru, a gŵr aberthodd ei fywyd ar allor gwasanaeth ei wlad. Buasai cof-golofn i'r enwogion hyn, yn nhref Dolgellau, hwyrach yn symbyliad i ryw ŵr ieuanc benderfynu gwneuthur ei ol yn y byd.

LEWIS JONES.

---

**DAW 'N AWYR LAS.**

**D**AW'n awyr las a heulwen glir,  
 A thafia'r nef ei mantell ddu;  
 Ar ddawnsfa'r lluwch tyf egin i'r,  
 A dofir llid y storm a'i rhu;  
 Cyd ddathla myrdd mewn melus sain,  
 Ddydd genedigaeth dail y coed;  
 Y Gwanwyn yn ei dlysau cain,  
 Fyn garped gwyrdilas dan ei droed.

Daw'n awyr las a heulwen glir,  
 Y gwcw gân o lwyn i lwyn;  
 Daw'r wennol lon o'i mordaith hir,  
 I ddenu'r de awelon mwyn;  
 Yr hedydd, nef foreol fardd,  
 Fwrlyma i fywiog fawl yn rhydd,  
 Wrth weled ton o fywyd hardd,  
 Yn torri'n fiodau llygaid dydd.

Daw'n awyr las a heulwen glir,  
 Anghofir cwmwl dua'r byd;  
 Ni sanga poen a'i auaf dir  
 Y wlad lle mae yn haf o hyd;  
 Cawn rodio glan ei hafon lân,  
 Ym mheraroglau 'i dail a'i rhos;  
 Pan gilia'r niwl hawdd dyblu'r gân,  
 Wrth feddwl am ei heulwen dios.

*Y Bala.*

RICHARD AB HUGH.

---

**GWAHODDIAD A. S. EVANS.**

**G**WLADYS Bessie dlysa 'rloed,  
 Heinyf ydych ar eich troed;  
 Pryd y deuwch i'n ty ni  
 I gael chwareu gyda mi?  
 Fe gwch weled fy holl toys  
 A dderbyniais yn fy oes.

*Trefeglwys.*

SIARL TRANNON.

no. 72  
 10 Y GNOCELL, GOED GYNTAF.

**G**WYR y rhan fwyaf o blant Cymru, dēbygaf, pa aderyn yw y Gnocell,— *woodpecker* yn y Saesneg. "Crocalf" ddywedir yn Arfon,— ffurf lygredig ar y gair. Enwau ereill arno yw,—Coblyn y coed, Caseg Wanwyn, Taradr y coed, Delor y derw, a Lloercen.

Ei ymbōrth yw y mân bryfed a'r cynrhon fydd yn tyllu llochesau a nythod iddynt eu hunain yn rhisgl y coed, a thano. Rhed i fyny ac amgylch o gylch bon coeden mor sicr wisgi a'r wiwer, am fod ei draed a'i grafangau wedi eu ffurfio o bwrpas i hynny. Pan yn chwim ddringo yn droellog felly, bydd yn cnocio y rhisgl a'i big megis a morthwyl, ac oddiwrth y swn hwnnw gwybydd a oes yno wagle danodd a thamaid cuddiedig. Os oes, dechreua dyllu a chnocio a'i big ar unwaith; a chan fod ei gylfin celyd, a'i dafod hirfaen, wedi eu cyfaddasu yn odidog i'r gwaith, buan y bydd wedi ennill ei damaid.

Gwelwn, felly, nad oes odid aderyn yn y byd y mae ei damaid yn fwy prid iddo na'r Gnocell,—tyllu cethin, a dim ond tameidyn bychan iawn yn wobr. Ar y ffaith hon codwyd dameg ddyddorol gan rai o'r hen dadau synwyr-graff gynt.

Ys talwm byd, pan ddeuai'r Tylwyth Teg i ddawnsio ar ddolydd daear, ymgymeroedd un ohonynt a cherdded y wlad er mwyn gwneyd daioni ymhlith y bobl. Rhag i neb ddeall pwy ydoedd, ymddieithriai ar ffurf hen wr tlawd, llwyd ei wedd a'i wisg. Ryw ddiwrnod, pan oedd yn dechreu nosi, daeth at fwthyn bychan ar fin y ffordd; a chan ei fod wedi bod yn teithio yn galed trwy'r dydd, teimlai yn rhyllid, blinedig, a newynog.

Trwy y ffenestr ddi-len, canfyddai wraig y ty yn gwneyd teisenau, ac yn eu crasu o flaen y tân. Yr oedd wedi ymwisgo yn dda a thrwsiadus, gyda chap coch, pert, ar ei phen.

"Wraig dda," ebai y Tylwyth Teg, gan guro'r drws, "a fyddwch chi garedig a gadael imi ddod i mewn i orffwys ychydig? Yr wyf wedi cael diwrnod hir a chaled iawn, ac yn teimlo yn oer, blinedig, a newynog."

Cododd y ddynes ei phen pan glywodd y llais, ond yr oedd yn rhy dywyll iddi weled yn glir. Gan dybio mai rhyw hen gardotyn ydoedd, amneidiodd arno gyda'i phen yn ddigon sychlyd y gallai ddod i mewn, a myned ymlaen gyda chrasu ei theisenau.

Ymhen ennyd, meddai yr ymwelydd drachefn,— "Wraig dda, a fyddwch chi mor garedig a rhoddi imi un o'r teisenau? Yr wyf yn newynog iawn."

Edrychodd arno drachefn. Yr oedd y teisenau yn rhai lled fawr, ac ni theimlai awydd i roddi yr un ohonynt. Tarawodd ati i wneyd

un lai, gan ei gosod i grasu. Wedi i'r deisen grasu, teimlai fod honno hefyd yn rhy fawr i'w rhoi am ddim. Yna, gwnaeth un lai fyth, gan ei dodi i lawr o flaen y tân.

Yr oedd y deisen hon yn un fach mewn gwirionedd; ond erbyn ei chrasu, barnai y ddynes ei bod yn llawer rhy fawr i'w rhoi am ddim, er ei bod braidd yn rhy fach i'w galw yn deisen o gwbl. Eto, nid ydoedd agos mor fach a chalon y ddynes ei hun. Na, ni fedrai ddiioddef meddwl rhoddi un hyd yn oed mor druenus o fechan a hon am ddim i neb.

Ar hyn, enynnodd lliid y Tylwyth Teg yn angerddol, ac meddai,—  
 “Y mae eich calon yn llawer rhy fach i fod mewn mynwes gwraig o gwbl. Ni chewch fod yn wraig ennyd yn hwy. Ni chewch grasu teisenau o flaen y tân byth mwy. Pan fyddwch newynog ac eisiau bwyd, rhaid i chi gnocio a thyllu, a thyllu a chnocio, cyn cael y tamaid lleiaf i'w fwyta byth mwy.”

Tawodd ar hynny, a diflannodd y ddynes dan ddeifiol angerdd ei ddioglonrwydd, ac ni welwyd mohoni gan neb byth mwy. Ond, yn y fan honno, ar garreg yr aelwyd, crwcdwai aderyn bychan crynedig, gyda chap coch ar ei ben. Y cap coch oedd y cyfan adewsid o honi. A dyna'r Gnocell Goed gyntaf.

H. BRYTHON HUGHES.

### Y CWPAN MEDDWOL.

Dyna'r Cwpan melldigedig,  
 Gochel rhagddo, anwyl frawd,  
 Llawn yw ef o seirff gwenwynig,  
 Rhai a'th wna yn llwm a thlawd;  
 Fe dy arwain i ddrueni,  
 Distryw, gwae, a thralod mawr,  
 Ac a'th wna heb fawr ymoedi,  
 Yn eiddilun llwch y llawr;  
 Os wyt, frawd, am fywyd hapus,—  
 Bywyd sanctaidd, — bywyd hir,  
 Gochel rhag y gwin gwatwarus,  
 Tra pheryglus yw y bir;  
 Fe rydd iti oes  
 Anedwydd, ac a'th wna  
 Yn llwyd dy wedd,  
 A DY ARWAIN  
 GWNA, YN HYRWYDD,

AR FTR AMSER I DY FEDD. 1841.

## Y DDYLLHUAN.

II.



Y DDYLLHUAN WEN.

MAE nodweddion hynod llais y ddyllhuan, ei hoffder o'r nos a lleoedd anghyfannedd, wedi magu hen atgasedd tuag ati, yr hwn a greodd bob math o ofergoelion ffol yn ei chylch, nes y cafodd ei galw yn "Dderyn Corff." Yn ol hen gredoau gwlad, os y clywir ei chân yn agos i dy, bydd hynny yn arwydd sicr o farwol-aeth buan rhywrai o'r teulu. Yr wyf wedi treulio fy holl oes yng nghanol dyllhuanod, a difyr gennyf glywed eu llais digrifol yn y coedydd preiffion sydd yng nghefn fy mwth oedrannus. Y mae llawn cymaint o rifedi o gyrff wedi eu cludo i "erw Duw" o'r cartref mynyddig hwn, yn anad i unrhyw un ym mro'r Eryri, eto, methais a chanfod fod cri'r ddyllhuan wedi rhagfynegi marwol-aeth yr un ohonynt. Nid ydynt ynfeddiannol ar yr anian, neu reddf ysglyfaethus, isel, a chyfrin, i' fod yn genhadon angau. Gallaf dystiolaethu yn bendant mai'r gwir "adar cyrff" yw y Biogen, a'r Deryn Du. Gallaf ysgrifennu yn helaeth ar eu perfformiadau hwy ar wydr y ffenestr, a'r canlyniadau sicr bob tro, a hynny i wybodaeth fy nghymydogion. Felly, rhodder y parch dyledus i'r ddyllhuan ddiniwed.

Rhydd yr holl adargarwyr diweddar air ffafriol iddi. Dywed John Watson, F.L.S., mewn erthygl gampus yn y *Daily News*, ei bod yn cael ei hamharchu ym mhob gwedd. Nid yw yn aderyn cwynfannus na melancolaidd. Camddarluniwyd hi yn echrys gan feirdd a llenorion yr oesau, a'r rhai hynny heb wir astudio munud awr ar ei neillduolion dyddorot. Rhydd Waterton y clod ucha iddi oherwydd ei defnyddioldeb i fuddiannau amaethwyr a garddwyr.

trwy ddifa pob math o lygod, a degau o fân-greaduriaid israddol ereill. Pe y gwnai ei gwasanaeth amhrisiadwy yng ngoleu dydd, cawsai bob parch gan ddynton, a'i hamddiffyn rhag brad unrhyw elyn. Buasai gyda ni wedyn fel yr oedd yr ibis gynt gyda'r Aiftiaid. Profa hanesiaeth fod dyllhuanod wedi clirio rhannau o'r wlad droion rhag plâu o lygod oedd yn dinystrio cnydau a ffrwythau, er gwaethaf pob dyfais i'w difa. Cymerodd hynny le ar ddiwedd y ganrif ddiweddfaf yn Forest of Dean, ar gyffiniau Cymru a Lloegr. Y mae y Parch. Charles Dixon wedi llunio apêl fanwl, rymus, a thaer, ar i bawb fod yn ofalus rhag saethu yr adar gwasanaethgar, nodedig hyn. Dyma y difawyr llygod goreu yn y byd. Daw'r



Y DDYLLHUAN FRECH GARTREF.

ddyllhuan a llygoden i'w nyth i'w rhai bychain bob deuddeg i bymtheg munud. Gresyn fod ciperiaid creulon, a chrachfoneddigion dioglyd, yn prysur wneyd rhiif y dyllhuanod yn llai bob bliwyddyn ym Mhrydain.

Wrth gwrs, canu hen ffasiwn sydd gan yr holl feirdd Cymreig iddi. Dyma gyfieithiad campus Dafis Castell Hywel o un o benillion Gray, o'i "Fyfyrgerdd mewn Mynwent Wledig,"—

"A'r ddyllhuan wrthi 'i huuan,  
Yn llwyn iorwg pen y tŵr,  
Wrth y lleuad gwna achwyniad,  
Wban irad, oer ei 'stwr,  
Ar rai eger ddelo 'n agos,  
At ei gwyrddlas dawel dy.  
I wneyd gormes ar un dalaeth  
O'i llywodraeth helaeth hi."

"Oid yw'r hen Ddafis wedi rhagori hyd yn oed ar Gray?"  
Dyfa ofynnai Henry Richard yn Eisteddfod Caernarfon yn 1886.

"Dyllhuan, bwgan uwchben—yn cuddio  
Mewn caddug rhag heulwen;  
Pan ddaw'r nos, pan dduar'r nen,  
Hi lygada llygoden."





DYLLHUAN YR EIRA.

“Y ddyllhuan ruddfanna  
Yn'y nos,—erchyll sw'n wna;  
Ei gôfwy trwy'r plwy', y plant  
Ddechreunos a ddychrynnant;  
Dychryna lawen fenyw  
Yn eigion nos,—bwgan yw!”  
IOLO MÔN.

“Gwyllryw froch a chroch oer wchw,—  
hell yw  
Dyllhuan,—a'i thwrw;  
Cân hy hou yw cwyn,—“Hw!  
Hw!!”  
A'i hantian yn ei henw.”

MEIRIADOG.

“Uwch i'r weunydd ar ddechreunos,—  
Eheda hyd ddunos; [eidiawl]  
O'r wern-allt dryr'r hwyrnos  
Ei hyll nâd drwy'r dywell nos.  
R. ABBEY WILLIAMS.

“Aicath yw? Ei bath ni bu,—yn y dydd  
Mewn hen dŵr mae'n cysgu,  
Neu'n ngheudod hen dderwen ddu,  
Yn ei lloches mae'n llechu.

“Y Wen a'r Lwyd ront oer lef,—a'r Ruddiog  
Yn yr eiddew grochlef,  
Yn y nos dan wyll y nef  
O'u croglofft,—wfft i'w cryglef.”

CARNEDDOG.

---

**TLYSNI.**

**T**ILWS yw nyth aderyn bychan,—  
Cartre'r cywion dan y dorlan;  
Tlysach ydyw bwthyn difrad,  
Lle mae teulu 'n byw mewn cariad.

Tlws yw cân y wylaidd Fronfraith  
Ar y brigyn ar fore-gwaith;  
Tlysach cân y lân forwynig  
I'w Gwardwr bendigedig.

Tlws a glân yw'r Wyn diniwaid  
Ar y ddôl ymhlith y defaid;  
Tlysach, glanach yw plant Cymru  
Gyda'r saint yn molli'r Iesu.

Tlws yw gwedd y blodau addien  
Pan yn derbyn lliwiau'r heulwen;  
Tlysach gwedd y plant sy'n gwenu  
Dan belydrau delw'r Iesu.

Tlws yw'r coed dan wlith yn gwenu  
Gan adfywio a chynhyddu;  
Tlysach plant yng nghanol breintiau  
Yn cynhyddu mewn rhinweddau.

Tlws yw'r afon, heb orffwyso  
Tua'r mor yn diwyd deithio;  
Tlysach sant drwy ddyrus leoedd,  
Fry yn teithio tua'r nefoedd.

Tlws yw dail y coed yn cwmpo  
Yn yr Hydref wedi eu lliwio;  
Tlysach ydyw nefol ddelw  
Cristion addfed pan yn marw.

Rhostryfan.

EINION.

## PWLL Y CROCHAN.

**S**AIFF cwm prydferth Cwmdu oddeutu milldir o dref amaethyddol Castell Newydd Emlyn, ac ar bob ochr i afon Ceri. Gelwir ef yn "Cwmdu," mae'n debyg, am ei fod mor gauedig,—gellydd sythion o bob tu iddo bron, a'r cwm i lawr yn y dyfnderoedd rhyng-ddynt. Y mae yma le hyfryd iawn yn yr haf, a channoedd o ddyinion yn dyfod i blesera yma. Ychydig amser yn ol yr oedd yma feirdd yn byw, ac yr oedd son am danynt drwy Gymru a Lloegr, wrth yr enw "Beirdd Cwmdu." Y maent wedi marw i gyd; ond y mae cwpwl o'u disgynyddion ar ol eto, megis Tydu, Ciliau Fab, ac ereill. Y mae un o'r disgynyddion yn byw yma hefyd, a ddylai fod wedi ei urddo yn fardd. Crydd ydyw wrth ei alwedigaeth, ac y mae hwn yn dilyn ol traed ei deidiau, ac yn ganwr iawn.

Drwy'r cwm yma rhed y Ceri rhwng dwy allt serth iawn, ac i groesi y Ceri o Cwmdu i Gastell Newydd Emlyn, y mae pont drosti. 'Nawr, yn ymyl y bont hon, dechreu a y Ceri chwyddo yn fawr, rhyw lathen a hanner neu ragor o ddyfnder, ac o bump i chwech llath o led. Ac wrth gerdded gyda'i glan i lawr tua Cwmcwy, lle yr aiff y Ceri i Deifi, ceir golygfa nas gellir cael ei gwell drwy'r holl fyd. Y mae yma ffactri wŷan ychydig bellter o lan yr afon, ac y mae perchen y ffactri yma wedi gwneyd trofa i dynnu dwfr i droi'r hod fawr y ffactri, ac i wneyd hynny maent wedi gorfod gwneyd wal uchel yn groes i afon Ceri; ac yn nes i lawr na'r wal yma, mae gwely'r afon yn gul iawn, rhyw droedfedd a hanner o led, ond o ddyfnder ofnadwy; ac y mae'r dŵr yn dod i lawr mor chwyn dros ben y wal hon, a disgyn i'r eigion obry, gan wneyd swm ofnadwy; ac yna rhodda ryw fath o dro yn y gwaelod, a dyweda rhai mai'r troion mawr yna sydd wedi gwneyd ei ffordd i mewn dan y graig, gan wneyd twll enfawr dan y graig, a'i enau 'run fath a genau crochan. Ac o achos hyn galwant ef yn "Bwll y Crochan." Gellir clywed ei swm o bell iawn. Byddai yn werth i'r rhai sydd heb ei weled ddod i gyd yr haf nesaf, iddynt gael gweld peth y byddant yn son am dano drwy eu hoed. Fel hyn y canodd un o feirdd Cwmdu am dano,—

"O bell y clywch Bwll y Crochan,  
A'i groch lwnc fel am lyncu'r eyfan;  
Distewi'rwyf ar ddechreu'm cân,  
Gan ofn ei grombil yn grwmblan."

*Salem, Brongest.*

D. O. EVANS.

## CADW DYDDIADUR.

Faint o'r plant sy'n cadw dyddiadur, ac yn ysgrifennu ynddo helynt pob dydd? Ryw dro, daw yn gydymaith ffyddlon a difyr

## "FE DDAW LLYWELYN ETO'N OL."

## III. DÔL FEURIG.

G YDA'r nos deuai'r holl lafurwyr amaethyddol a llawer o'r merched i weled yr hen "Lion," a chael ysgwrs â Robert Dafydd. Yn wir, byddai cynnwrf yn y gwrsyll pan welid yr hen gwch yn dod ar flaen llanw, ac os na ellid cael rhigwm newydd yn gweddu i'r amgylchiad bob tro, 'doedd dim i'w wneyd ond cael gan Eos Bach y Berwyn ganu "Mae'r afon eto'n llifo;" a phan glywa pobl Dôl Feurig hi yn cael ei chanu heddyw, y maent, megis yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn cael eu hunain yn synfyfrio am ddyddiau'r hen "Lion" a'r Capten Rhobet Dafydd, ac yn rhoddi'r pwyslais i gyd erbyn hyn, ysywaith, ar "Yn llifo fel yn y *dyddiau gyni*," ac yn llithro dros y llinellau sy'n canlyn fel pe byddent yn hollol ddiystyr.

Rhwng popeth, fe welir fod Rhobet Dafydd yn wr pwysig yn Nôl Feurig ar un adeg. Ond nid ei alwedigaeth forwrol yn unig oedd yn cyfrif am hynny. Na, yr oedd yn ddyn o synwyr cyffredin cryf, ac yn arfer ei farn bwylllog ei hun cyn derbyn unrhyw beth newydd. Ni welais neb erioed allasai adnabod dynion yn well nag ef. Ffolineb i'r un gwenieithwr geisio ei rwydo i'w fagl, a gwae i'r neb wnelai gam â'r diniwed. Bu agos i mi anghofio dweyd hefyd y byddem yn ei alw "yr hen Ficar" ambell waith, oblegid yr wyf yn credu fod holl weithiau Ficer Llanymddyfri ar flaen ei datod. A phan fyddai Yswain y Fron yn troi ei gefn arno, wedi cael hanes y llongau yd, dyna ddywedai'r hen forwr wrtho,—

"Gwraidd pob drwg yw arlangarwch,  
A ffwrth pob drwg yw poen a thristwch;  
Meddwl, ddyn, am hyn yn ddyfal,  
Ac na ro serch ar fyd anwadal."

Ond son yr oeddwn am ystyr Dôl Feurig i "Fe ddaw Llywelyn eto'n ol." A thuag at ei esbonie, rhaid i mi son cryn lawer am deulu'r Ardd Las a theulu'r Fron, ac am y cyfnewidiad mawr ddaeth dros y lle wedi gwneyd y ffordd haiarn.

Lle tawel, fel y dywedais, ydoedd Dôl Feurig cyn gwneyd y rheilffordd; ond yr oedd dyddiau cynhyrfus yn aros y fangre dawel honno. Yr oedd rhai i ymgyfoethogi, ereill i golli yr uchydig oeddynt wedi gynilo. Daeth tua thri chant o weithwyr i aros yno, a chyn pen uchydig wythnosau yr oedd rhai o lanerchau mwyaf cysegredig yr hen fro wedi mynd yn aberth i gaib a rhaw y *nawy*. Ac ni fu rhai o'r pentrefwyr yn hir cyn gweled fod cyfle i wneyd ffortiwn wedi dod i'w rhan; hwythau o'r diwedd. Cofwyd ty i oruchwyliwr y rheilffordd, Capten Silverstruck, a thafarn y naill ben-iddo ar ystad y

Fron, a chyn pen ychydig wythnosau efe oedd brenin yr ardal, a llawer pentref arall o gwmpas, o ran hynny. Bedyddiodd ei dafarn yn "Toilers' Rest," ond yr "hen dafarn yna" y gelwid hi gan lawer o'r pentrefwyr, cyn ei bod yn fis oed.

Ymhen blwyddyn neu ddwy, prin y buasech yn adnabod pobl Dôl Feurig, neu, o'r hyn lleiaf, rai ohonynt. Yr oedd William Morus yr Ardd Las yn dechreu ymgyfoethogi'n barod, a gwên toddhaus wedi cymeryd lle yr edrychiad newynog, pell hwnnw oedd yn ei lygaid. Prin yr oedd dyn dedwyddach, i bob ymddangosiad, yn yr holl wlad. Onid oedd wedi bod yn hiraethu am gael digon o arian i roddi clec ar ei fawd ar ei deulu'n nghyfraith? A pha ryfedd ei fod yn ddedwydd? Yr oedd Caden wedi ei gymeryd "er gwell er gwaeth" pan nad oedd ond "labrwr," fel y byddai'r "tacla yng nghyfraith" yn ei alw; ac yn awr gallai estyn digon o arian iddi i gystadlu âg unrhyw un o'i theulu. Ac am y plant, caent hwy bob manteision, Dafydd a Gruffydd bron yn barod i adâel yr ysgol, a Llywelyn i gael cwrs o addysg coleg. Ac yr oedd y cwbl wedi dod i'w ran am fod y Capten wedi gweled yn dda roddi amryw bethau yn ei ffordd. Yr oedd y goruchwyliwr wedi dod i ddeall ei holl amgylchiadau, ac o enau William ei hun wedi cael helyntion ei briodas, a chipolwg ar ei eiddo a'i ragolygon.

"Druan o honoch," ebai'r goruchwyliwr, "yr wyf yn methu deall yn lân pa fodd y daliasoch y cyfan mewn lle mor aflawen a hwn. Fuasai waeth gennyf fod mewn cadwynau yn y carchar nag yn eich esgidiau chwi. Pam na ddowch i gael ychydig ddiityrrwch i'r 'Toilers' Rest' ar fin nos? Yr ydych wedi cael digon o wermod, fachgen, 'gormod o ddim nid yw dda.' Yr ydych ar eich ffordd i wneyd eich fortiwn. Ceisiwch anghofio wermod y blynyddau fu, a dowch i gael tipyn o fêl cwmni ddiadan yn y 'Toilers' Rest.' *Drive dull care away, fachgen.*"

A rhag ofn digio'r "Manager," mae William yn ufuddhau, ac yn rhyw led-berswadio ei hunan ei fod yn gweled rhesymoldeb y gwahoddiad. Ac o hynny allan edrychid ar William Morus fel cwsmer newydd; ond, ysywaith, nid efe oedd yr olaf o deulu'r Ardd Las. Bu am fisoedd yn mynd a dod i'r "Toilers Rest," ac am a glywais yn cadw ei hun yn lled dda am amser rhag "cymeryd gormod," beth bynnag ydyw ystyr hynny. Ni fu ei ragolygon erioed mor ddisglac, ac nis gallai wneyd allan beth oedd yr achos o bryder Caden.

"Fy ngeneth anwyl," ebai un prydawn, "fe fyddwn yn abl i riteirio cyn hir, ac yna cawn gwmmi'n gilydd hyd ddiwedd oes wedi i'r plant yma i gyd hedeg dros y nyth. Mae'r Capten yna'n un nobyl, wel di; ac am hynny ydwyf fi'n wario ar ambell i lasiad, nid yw yma nac acw."

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## II. BRODORION ANODD EU DARBWYLLO.

**I**FOR. Y tro diweddfaf, fy nhad, dywedasach fod llond cwch o anwariad wedi mynd oddiwrth y llong yn ddiglon iawn.

**TAD. Do.** Ond cyn hir dychwelasant at y llong fel pe wedi penderfynu cynhyrfu y morwyr i ysbryd rhyfel. Dechreuodd Tupia, o hono ei hun, siarad â hwynt, gan eu hysbysu, os na wnaent ymdawelu a rhoi heibio aflonyddu y dynion dieithr, bod ar y llong fawr arfau ofnadwy; ac os byddai raid eu defnyddio, y gwnaent eu dinistrio hwy a'u badau mewn moment. A'u hateb beiddgar i Tupia oedd,—“Dewch i dir, a ni a'ch lladdwn chwi oll.” “Wel,” meddai Tupia, “paham yr aflonyddwch ni pan ar y mor? Nid ydym yn ewyllysio ymladd, nis gwnawn dderbyn eich her-gymelliad i ddyfod i dir. Ac yma nid oes gennych reswm dros godi cweryl; nid yw y mor yn fwy o eiddo i chwi nag ydyw i ninnau.”

**IFOR.** Go dda, Tupia.

**TAD. Ie.** Synnodd y Capten yn fawr at hyawdledd Tupia yn yr ymddiddan rhyngddo a'r brodorion. Ond er doethed ei gyngor iddynt, ni wnaethant ond adnewyddu eu terfysg. Wrth weled eu bod yn rhy ystyfnig i gymeryd rhybudd drwy siarad, taniwyd llaw-ddryll drwy un o'u badau, a pherodd araeth hwnnw i'w gwroldeb gymeryd ei aden, a fwrdd ag ef, ac i fwrdd y rhwyfasant hwythau tua'r lan, heb un awydd nac amser i edrych yn ol mae'n debyg.

**IFOR.** A fu'r brodorion lladronllyd yn aflonyddu wedyn?

**TAD. Do.** Wedi i un ohonynt ladrata, penderfynodd y morwyr ei gospi; ond ceisiodd ei gymdeithion ei gipio o atael y rhai oedd yn myned i'w glymu; a phan yn cael eu rwystro i hyany, galwasant aia eu harfau, y rhai a gyflwynwyd iddynt o'r cafnadau ar unwaith. Ar yr un pryd, darfu i rai o un o'r cafnadau geisio dringo i fyny i'r bwrdd. Wrth glywed y terfysg, brysiodd Mr. Banks a Tupia i fyny o'r caban. Rhedodd y brodorion at Tupia, gan ddymuno arno gyfryngu. Y cwbl a allodd ef ei wneyd oedd eu sicrhau nad oedd perygl bywyd ynglŷn â'r gosp o gwbl; ac mai peth hollol gyfiawn oedd cospi am drosedd. Gyda hynny o eglurhad, ymdawelasant. Wedi gweinyddiad y gosp, daeth hên wr ymlaen o blith yr edrychwyr, yr hwn y tybid oedd tad y troseddwr, ac a roddodd banfa ddi-drugaredd i'r llanc, ac a'i hanfonodd i lawr i'r bad. Yn fuan cafodd y morwyr far ddeall bod y brodorion ymhell o fod yn foddolawn i'r driniaeth gafodd eu cydymaith. Gwnaeth gweinyddiad cosp mor drom ar un mor ieuanc, am drosedd bychan, yn eu tyb hwy, iddynt

golli eu hymddiriedaeth yn y dynion gwynion yn llwyr. Wrth ymadaw tua'u cartrefi, addawsant ddychwelyd ar fyr, gyda digonedd o bysg ac amrywiol nwyddau ereill; ond ni welodd y Saeson eu gwynebau mwy.

IFOR. A aeth Capten Cook i'r lan wedi hynny?

TAD. Do. Tachwedd 29ain, glaniodd ef, a rhai o'r boneddwyr gydag ef, ar ynys yng nghymydogaeith Cape Bret. Cawsant eu hunain ymhen ychydig funudau wedi eu cylchynu gan tua dau gant o'r ynyswyr. Er eu lliosogrwydd, yr oeddynt yn ymddangos yn ddychrynedig; ac yr oedd eu symudiad ymlaen at ein dynion yn gymysglyd a di-drefn iawn, fel rhai yn rhyw hanner crwydro. Nis gallesid casglu ar y dechreu eu bod yn bwriadu gwneyd unrhyw niwed; ac yr oedd ein dynion yn benderfynol na wnaent ddim a fyddai yn debyg o'u tramgwyddo. Parhausant dros gryn dipyn i fod yn dawel. Ond cyn pen hir dechreusant aflonyddu, a gosodasant eu harfau mewn modd cyfleus i frwydr, fel pe buasant ar wynebu byddin luosog. Dechreuodd y boneddwyr eu drwg-dybio. A phan yn y sefyllfa anhapus honno, gwelent dwrr arall o ynyswyr yn neshau atynt. Ymhyfasant wrth ganfod eu rhif mor lluosog, gan ddechreu dawnsio a chianu eu rhyfelgan. Amcanodd nifer ohonynt gymeryd dau fad, perthynol i'n morwyr, yr hyn oedd brawf amlwg o'u bwriad i ymosod ar y dynion gwynion. Erbyn hyn, yr oedd yn bryd i'r Capten wneyd rhywbeth ar unwaith, ac yn effeithiol.

IFOR. A oedd yr anwariaid hyn yn gwybod rhywbeth am arfau tân?

TAD. Nac oeddynt, cyn y pryd hwn, yn brofiadol, beth bynnag am yr hanesyddol. Rhoddodd y Capten wers ysgafn iddynt i ddechreu ar y wybodaeth hon. Taniodd ergyd o fan-beleinau at un o'r prif derfysgwyr; ac heb oedi, taniodd Mr. Banks a dau ereill atynt. Ar hyn, cwmpodd yr anwariaid yn ol yn anhrefnus. Ond er hynny, bu un o'r penaethiaid yn ddigon gwrol i'w had-drefnu, a'u harwain i wynebu yr arfau tân ofsadwy.

IFOR. Fy nhad, pa werth oeddent i wynebu y gwn, y bidog, a'r *four-pounder*?

TAD. Yr wyf yn cydweled â thi yn hollol. Ond yr wyf yn synnu na fuas i un wers o eiddo'r gwn yn ddigon iddynt am byth. Hefyd, yr oedd y pennaeth crybwylledig yn gwaeddi i'i holl nerth ar y penaethiaid ereill am arwain ymlaen i'r ymosodiad. Taniodd Dr. Solander ato, ac a'i harchollodd yn ysgafn. Safodd yn sydyn am eiliad neu ddwy; yna, rhedodd i ffwrdd fel milwr wedi cael ei ysbeillio o'i galon. A darfu i'w holl wyr ei ganlyn yn fwy ffyddlaw'n nag y gwnaethant yn flaenorol i hynny, mae yn dra thebyg. Er iddynt oll gael eu dychrynu, a rhai eu harcholli, nid ymwasgarasant;

ond arosasant i ymgynghori ar fryn bychan, heb fod ymhell; fel pe yn disgwyl am arweinydd penderfynol a fuasai yn eu harwain i fuddugoliaeth sicr. Taniwyd pelen heibio iddynt; ond ni wnaeth hynny beri iddynt symud o'r fan honno. Canfyddodd y rhai oedd ar y llong bod y boneddwy'r mewn mwy o berygl nag y gwyddent hwy eu hunain am dano. Gwelwyd gan y morwyr dwrr arall o'r anwariaid yn cyflym symud i ymuno â'r lleill. Heb oedi, taniodd y llongwyr belen dros eu pennau, yr hyn a barodd iddynt ymwasgaru. Yn yr holl derfysg hwn, ni chollwyd yr un bywyd, ac ni archollwyd ond dau yn ysgafn gyda mân belenau. Yn yr amgylchiad tra blin hwn, tebyg y buasai yn dra gwahanol oni bai bod y Capten yn bresenol. Difrifol yw meddwl bod rhai hyd yn od ymhlith y swyddogion mor barod i saethu'r anwariaid ag yw yr adarwr i saethu y *game*. Yr oedd y fath wahaniaeth rhwng tueddfryd y morwyr a'r Capten Cook, fel yr oedd ef, o'r tu arall, yn rhwystro ei ddynion i wneyd y niwed lleiaf i'r brodorion. Nid oeddent i ddefnyddio y mân belenau hyd nes methu o bob cynllun arall.

IFOR. Beth am y morwyr? A daniasant hwy?

TAD. Yr oeddnyt hwythau yn ddigon anghyfiawn. Drannoeth, tybiodd nifer o ddwyllaw y llong y dylasai rhai o'r brodorion gael eu cosbi am ryw dwyll a gyflawnasant; ac er ymddial arnynt am eu trosedd, ac amcan arall hefyd, digon tebyg, torasant i mewn i blinigfa o gloron, a chymerasant yn ol eu dymuniad o eiddo na pherthynai iddynt. Wedi eu profi, a'u cael yn euog, gorchymynnodd y Capten ddeuddeg fflangelliad i bob un. Wedi hynny, gollyngodd ddau yn rhydd; ond dadleuodd y trydydd nad oedd yn drosedd i Sais ysbeilio anwariad. Gorchymynwyd ei garcharu, a chyn ei ollwng yn rhydd, rhoddi iddo chwe fflangelliad arall. O bedwar o'r gloch y pumed o Ragfyr, bu yr Endeavour yn y perygl mwyaf a welwyd yn ystod y daith, a hynny dros y rhan fwyaf o'r dydd. Am dymor, gyrwyd hi mor gyflym tua chyfeiriad y lan fel y tybid y buasai yn myned yn chwilfriw yn erbyn y graig cyn y gallesid newid ei chyfeiriad. Ond, yn rhagluniaethol, daeth awel oddiar y lan, ac a hebryngodd y llong o'r perygl.

*Dinas, Morganwg.*

W. JAMES.

### Y BLODYN FIRA.

Gloch arian wyf, gél chwery—awel oer,

Cwag brodyr tlws obry;

Yn fy nwyf, canaf yn hy,—

Fe 'u galwaf hwy o'u gwely.

*Penygarn.*

DREWI THELF.



**PLANT CYMRU. CLXXVII. PLANT PENMOUNT, PWLLHELI.**



## PLANT PENMOUNT PWLLHELLI.

**D**YMA ddarlun o wynebau plant bach tlysiôn Ysgol Sul Penmount, hen gapel hynod ynglŷn â Methodistiaeth Cymru, a mam bron yr holl achosion yn Lleyn ac Eifionnydd. Yn hwn y bu y bardd enwog Sion Lleyn yn flaenor, a'r diweddar Barchedigion Michael Roberts a Dr. Owen Thomas yn llafurio am flynyddoedd; ac y mae yr hâd da a hauwyd y pryd hwnnw yn parhau i roddi ei firwyth ar ei ganted. Mae'r dynion welir yn gymysgedig a'r plant yn y darlun uchod yn deilwng ganlynwyr o'r tadau gynt. Ar y dde gwelir y meddyg ieuanc poblogaidd, ac un o'r arolygwyr, Dr. R. Jones-Evans; ac ar y chwith, y blaenor llafurus, Mr. Evan Parry; ac o'r tu ol, Mr. William Jones, arolygwr, gŵr ieuanc mwyaf adnabyddus ac ymroddgar y Cyfarfod Ysgolion. Yn y canol, gwelir y Parch. Thomas Williams, Mri. R. Ivor Parry, ac E. P. Jones, arweinydd meistrolgar y gân ym Mhenmount ers maith flynyddoedd. Y mae y gwyr hyn oll wedi bod yn hynod selog a gotalus o ieuencid yr eglwys, a boddhad mawr iddynt hwy yw eu cweled yn dringo grisiau bywyd gydag anrhydedd. Nid llai eu cefnogaeth i'r plant yw'r athrawesau fyddlon ac hunan-aberthol a welir yn addurno'r darlun, y rhai, yn ddiau, a haeddant glod neillduol am eu parodrwydd i'w hyfforddi yn llwybrau moes a rhinwedd.

*Pwllheli.*

R. PRYSE ELLIS.

---

 YR ATHRAW A'R BACHGEN.

**A**RFERAI y diweddar Dr. Arthur Jones, Bangor, ddweyd yr ystori hon gyda dyddordeb neillduol. Mewn capel bychan yng nghymydogaeith Llanrwst, yr oedd gan athraw yn yr Ysgol Sul ddosbarth lluosog o fechgyn i'w dysgu. Yr oeddynt yn amrywio mewn oedran o naw i dair ar ddeg; ond y mae'n ymddangos fod un o'r bechgyn yn llai gwybodus o lawer na'r gweddill, yn gymaint telly, fel mai prin y gallai ddarllen. Un Sabboth y mae yr athraw a'r bachgen yn dod ar draws y gair "llaeth." Ni wyddai y bachgen ar y ddaear beth ydoedd. "Spelia fo," ebai yr athraw. A dyma'r bachgen yn spelio,—"ll-a-e-th." "Wel, beth neith o, machgen i?" Ni wyddai y bachgen ar y ddaear. "Wel," ebai yr athraw, "beth fydd dy fam yn ei roi yn ei the?" "O, mi wn i 'rwan," ebai y bachgen. "Wel, spelia fo 'rwan, a dwad o," ebai yr athraw. "ll-a-e-th, rum," ebai y bachgen. Felly, fe fradychodd y bachgen ei fam yn ei anwybodaeth.

DAVID THOMAS (*Dewi Tudur*).



*Lewis Morris*

## CYMRY BYW.

II. SYR LEWIS MORRIS.

**G**ANWYD Syr Lewis Morris yng Nghaerfyrddin yn 1833. Y mae'n or-wyr i Lewis Morris, Mon. Cafodd ei addysg yn ysgolion y Bont Faen a Sherborne, ac yng Nholeg yr Iesu, Rhydychen. Yr oedd yn efrfydd da, a chafodd ei wobwr, sef lle yn y dosbarth cyntaf o'r rhai geisient anrhydedd yn Ysgol yr Ieith-oedd Meirwon yn 1855. Cymerodd y gyfraith fel ei alwedigaeth, a galwyd ef i'r bar yn Lincoln's Inn yn 1861. Yr oedd ei duedd at wleidyddiaeth hetyd; a bu ar fin mynd i'r Senedd, droion, fel Rhyddfrydwr.

Nid fel cyfreithiwr nac fel gwleidyddwr yr oedd i gyrraedd enwogrwydd ffordd bynnag, ond fel bardd. Yn y deng mlynedd rhwng 1870 ac 1880 yr oedd ei dymor firwythlonaf, pryd y rhoddwyd i'r byd ei "Songs of Two Worlds," yr "Epic of Hades," "Gwen," a'i "Ode of Life." Daeth yn un o hoff feirdd y byd Seisnig, ac erys felly yn hir.

Tra yn tydenwog fel bardd, a gwawr y Celt ar ei feddyliau, nid anghofiodd ei ddyledswydd tuag at Gymru. Ychydig sydd wedi gweithio mor ddifnino i ddyrchatu ei wlad. Y mae addysg Cymru, yn enwedig, dan ddyled drom iddo. Ni fu yr un ymdrech o bwys dros addysg nad oedd Syr Lewis Morris ar y blaen ynddi. Yn 1879 yr oedd yn Ysgrifennydd Coleg Prifysgol Cymru, wedi hynny daeth yn Drysorydd, ac y mae yn y swydd honno hyd heddiw. Llywydda yn aml yng nghynhadleddau y coleg, ac y mae ei ddull doeth a charedig yn ennyn serch a pharch pawb.

Ychydig o Gymry sydd wedi medru gwneyd cymaint o waith dros Gymru o'i mewn, ac ar yr un pryd, wedi codi ei henw mor uchel ymysg pob cenedl sy'n gydnabyddus a llenyddiaeth oreu y byd.

---

**I'W DDARLLEN YN DDIFYFWR.**

**A**ETH John trwy y llyfr i'r simneu ehedodd aderyn du i dorri ei farf a'i walt aeth Robert a'r asyn yr un modd a'r ceffylau a borant ar y maes dysgant ryfela gyda rhwyd a gwialen a phlu y delir pysgod o gangen i gangen neidiai wiwer a tharw a'i dilynai hyd y cae ar aton Tywi mae coryglau i ladd gwair defnyddir pladur a mandrel at lo er golchi dillad gwynion ceir sebon mor dda ag inc edrychai Bil a'i wedd fel yr eira oedd Tom yn canu i haid o wningod saethodd Bob ag ysgrifbin ysgrifenydd hyn gan

*Dolfeinen, Llanfihangel y Croiddin.*

D. LL. DAVIES (*Cynon*).

## CANEUON PLANT RHOSTRYFAN.

I. JOHN MAEN BRITH.

**P**AN oeddwn blentyn bach di-nam,  
Yn Nhan y Manod gynt,  
Chwarewna efo John Maen Brith,  
Heb ofni gwlaw na gwynt.

Chwarenais ganwaith gydag ef  
Ym more gwyn fy nhaith;  
Ond erbyn hyn ni fedraf fi  
Ei gofio ond un waith.

Na, dim ond unwaith, dyna'r oll—  
Y medraf gofio John;  
Er hynny, melus gennyf fi  
Yw cofio'r unwaith hon,—

Eisteddwn i ar lawr y lôn,  
A safai John gerllaw;  
Wrth edrych arno,—chwith yw son,—  
Fe chwarddwn i'n ddirafw.

Nis gwn pa hwyrdydd ydoedd hi,  
Nis gwn pa fiwyddyn chwaith;  
Ond gwn fod John gerllaw i mi,  
A chwarae lond ei laith.

Un addfwyn oedd, a hyn na mi,  
A'i wyneb gloew'n lân;  
A gwenai'n fwyn wrth adrodd swyn  
Rhyw gampan difyr, mân.

Daeth llais fy mam o'r ty gerllaw,  
A llais dros bont Maen Brith;  
A rhedodd John i lawr y lôn  
Dan gawod loew'r gwlith.

A ohollais ef byth mwy, byth mwy;  
Aeth John Maen Brith i'r Nef;  
Ond wele fi, 'n mhên blwyddi maith,  
Yn cofio 'i wenau ef.

J. R. TRYPANWY.

## BRYNIAU AUR TRAWSFYNYDD.

**T**RAWSFYNYDD, bu noethder dy  
fryniau cyn hyn  
Yn watwar i'r cywraïn awenydd,  
Ac yntau'r ymdethydd edrychai yn syn  
Ar dlodi allanol dy foelydd; [werth,  
Dibrisiodd llaweroedd, fel hwythau, dy  
Ar gyfrif dy wisgoedd teneuon;  
Heb wybod, yn ddiâu, fod cyfoeth a  
nerth

Yn gorwedd yn eigion dy galon.

Bu creigiau Ffestinlog yn edliw yn hir  
I'th feibion eu bara beunyddiol,  
A Dyffryn Maentwrog ofynnai yn  
glir,—

“Pa le mae dy dlynsni arddunol?”  
Os nad oes ragoriaeth yn harddwch dy  
fro,

Na meddiant ar enwog chwarelau,  
Dy ddaear, er llymed, a erys yn do  
Cysgodol dros euraidd drysorau.

Ein tadau, hen gewri, fu'n wŷr enwog  
gynt,  
Anrhydedd a dyf ar eu beddau,  
Treuliasant eu crydder yn llawen eu  
Gan herio caledi'r amserau; [hyn,  
Mewn llafur a lludded, ar wyneb dy  
dir,

Eu trymion ardrethi gasgiasant,  
Brwydrasant â thlodi ac angen, yn wir,  
Tra'th fryniau aur enwog a saegant.


Pahan yr awyddwch chwî, ddeurion  
ein gwlad,  
Am aur ac anrhydedd yr estron?  
Hyd lwybrau eich mebyd, ymrestrwch  
yn gad,

Mae trysor yng nghoron aur Meirion;  
Gadewch i Awstralia ei chyfoeth ei hun,  
Goloonda i'w broder malynddu, [un,  
Ar fryniau Trawsfynydd llafuriwch yn  
I godi'r hen ardal i fyny.

Trawsfynydd, ymdaenodd dy enw ar led  
Ar euraidd adenydd dy fryniau,  
Dy glodydd eiddunaf, yn uwch, uwch ehed  
Enwogrwydd terfynan'th aur-gloddiau;  
Ond, tra y dyrchêfir pob clogwyn ynghyd,  
Anwylydd gan feddau ein tadau.  
Dy feibion a'th ferched feddianno mewn pryd  
Y trysor ddibrisia dy fryniau.

**RHYFEDDODAU'R MOR.**

## II. PENWEIG.

Y PENHWYGIN, NEU YSGADENYN\* (*Herring*).

“**T**IPYN o ddisgyniad,” ebe rhywun, “o’r cwrel gwerthfawr i’r ysgadenyn rhad. A pharyfeddod sydd mewn penhwgyn?”

Y mae penweig yn rhyfedd ar ddwy ystyr, — oherwydd eu tlyzni, ac oherwydd eu nifer. Yn ei elfen, pan yn chwareu’n rhydd yn y dwfr, y mae’r penhwgyn yn un o’r pysgod

harddaf; y mae’n ogoneddus yn ei wisg o borffor ac aur.

Nid oes dim fel hanes penweig i brofi cyfoeth dihybydd y môr. Delir rhwng chwech a saith miliwn ohonynt yn y wlad hon yn unig; ac nid yw hyn yn hanner yr hyn a ddfair ohonynt gan bysgod ysglyfaethus fel cwn y môr, a chan adar y môr, mewn blwyddyn.

Daw’r heidiau penweig o’r môr yn heidiau dirifedi. Ar yr ugeinfed o Fai, dechreuir pysgota yn ynysoedd allanol yr Hebrides, ar draeth gorllewinol yr Alban. Erbyn Mehefin a Gorffennaf, ceir y penweig o amgylch ynysoedd Shetland; erbyn Awst, ceir hwy yn nofio tua’r de hyd lannau dwyreiniol yr Alban. Erbyn mis Hydref y mae digonedd ohonynt wedi cyrraedd glannau deheuol a gorllewinol Lloegr a Chymru. Ambell dro byddant mor lluosog fel nas gellir cael marchnad iddynt. Unwaith daeth cymaint ohonynt i Nefyn fel y cerrid hwy mewn troliau i fod yn wrtaith i’r tir.

Yr Ysgotiaid yw y prif bysgotwyr penweig yn y wlad hon. Dilynant y pysgod i’r de, a daw’r merched hyd y lan i’w halltu a’u pacio. Wedi’r tymor, bydd ambell dren yn llawn o ferched melyn-wallt pennoeth glannau dwyreiniol yr Alban yn dychwelyd adref.

Y mae firwythlondeb penweig bron yn anghredadwy. Dodwya’r penhwgyn o ugain mil i hanner can mil o wyau bob blwyddyn. Gadewir yr wyau ar greigiau neu ar wyneb y môr. Deorir hwy gan y môr mewn rhyw bythefnos yn Nachwedd, ac ymhen y chwech

\* A fydd rhywun mor garedig a rhoddi i ni y llinell ar arfordir Cymru lle rhyfa’r gair “penhwgyn,” ac y cymerir ei le gan “ysgadenyn”?

wythnos y mae'r penweig bach yn dair modfedd o hyd. Bydd y moroedd yn heigio o'honynt, ac y maent yn fwyd wrth fodd llaweroedd. Ar y cyfandir bwyteir hwy'n oer,—cevais eu cynnyg felly llawer gwaith yn yr Almaen fel y croesaw mwyaf ellid roddi i mi.

Gogledd y Werydd yw hof gartref y penhwygyn, ond ceir et hefyd yn y Môr Du, ac ar dueddau Asia. Un o ddyrus bethau gwyddoniaeth yw,—paham y mae penweig yn newid eu llwybrau a'u porfeydd? Y mae llawer tref wedi adfeilio oherwydd ymadawriad y penweig o'i chyffiniau. Unwaith ystyrrid diflaniad y penweig fel trychineb cenhedlaethol. Ond, erbyn hyn, y mae y llongau yn medru dilyn y pysgodyn rhyfedd hwn i bob rhan o'r môr.

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

**G**WELAIS ddyd yn cael ei bedoli y mae y ceffyl yn yr efail y mae y gôf ar y goeden y mae aderyn yn canu corn yr oedd Bob yn y fasedd y mae dau o afalau yn gwau hosanau yr oedd mam mewn tepot y rhoir te yn y llofft y mae gwely yn cysgu y mae ci heb draed y mae malwod yn cerdded y mae defaid Sion Dafydd oedd fugail elefantod gwylltion sydd a thrwnc yn dodwy y mae yr iar yn y cwprdd y mae llestri yn rhedeg y mae y golomen mewn crochan y ceir pwddin mulod sydd greaduriaid anufudd yw y plant sydd yn symud y Wyddfa sydd fynydd uchel yn ysmocio y mae Wil yn y cae i'r ddafad y mae pedair coes y dyn acw sydd yn hoffi Jane Ann sydd wedi priodi gyda'r fuch y mae llo yn dal llygod y mae y gath.

*Ysgubor Fawr, Llanwnda.*

JOHN O. JONES.

### Y GATH A'R PYSGODYN.

**M**AE diarhebbion Cymru  
Fel hen fynyddan'r wlad,  
Yn aros drwy yr oesau  
Yn gedyn ar eu traed;  
A dyma un sydd heddyw  
Mor wir a dim fu 'ri'od,—  
"Rhwydd bwyty'r gath bysgodyn  
Ond ni fyn wlychu'i thro'd."

Mae hanes am fachgennyn  
Yn byw yng Nghymru wen,  
Oedd eisiau mynd yn enwog  
I'r byd drwy nerth ei ben;  
Ond druan bach, o'i wely,  
Y llanc ni fynnai ddod,—  
"Rhwydd bwyty'r gath bysgodyn,  
Ond ni fyn wlychu thro'd."  
*Y Rhyl.*

Tuhwynt i'r moroedd mawrion  
Mae perlau yn ystor,  
"Ond" ebai'r dyn digalon,  
"Rwy'n ofni croesi'r môr;"  
Mae'r perlau heb eu codi,  
A'r dyn yn wag ei gôd,—  
"Rhwydd bwyty'r gath bysgodyn  
Ond ni fyn wlychu'i thro'd."

A welsoch ohwi y mensydd  
A'u cnydan aeddfeir?  
Mae chwys y dewr aradwr  
Er's blwyddyn yn y tir;  
Ac os i wir anrhydedd  
Ryw ddydd y mwyngwn ddod,  
Cyn bwyta y pysgodyn,  
Rhaid i ni wlychu'r tro'd.

D. A. DAVIES.

## IEIR.

**G**WELSOCH i'w gwta, neu i'w bach heb yr un gynffon, yn rhedeg o amgylch nifer o ieir ereill y dydd o'r blaen; a buasech yn hoffi cael gwybod o ble y daeth i'r wlad yma. Wel, mae yn adnabyddus i rai ers canrifoedd. Yr oedd Aldrovandus wedi dod o hyd iddynt, ddwy ganrif a hanner yn ol, a dywed mai ieir Persia ydynt. Ond dywed y naturiaethwr Temminck mai brodor ydyw o goedwigoedd Ceylon, a byddai y brodorion yn ei alw wrth yr enw Walikikilli, neu geiliog y coed. Dywed un naturiaethwr yn 1693, ei fod wedi dal sylw bod llawer o ieir yn Virginia heb ddim cynffonau, ac yr oedd ef yn tybied fod ieir y wlad yma yn colli eu cynffonnau ryw adeg ar eu bywyd. Dywed Buffon yr un fath, a dywed Dr. Latham nad oedd yntau yn ameu.

Mor bell ag y medrwn gasglu, Persia ydyw cartref yr i'w gwta, er fod rhai yn dweyd ei bod yn cartrefu yn India a China. Yn Paris yn Ffrainc y gwelwyd y rhai cyntaf o'r math yma yn Eurob, tua'r flwyddyn 1851; ond mewn arddanghosfa ieir yn Birmingham y gwelwyd y rhai harddaf yn y wlad yma. Rhai bychain duon oedd-ynt, crib yr un fath a'r Crève; yr oedd iddynt bump bys, a phlu ar eu traed, a locsyn; a dywedir eu bod yn sefyll mor syth a'r penguin. Ond mae rhai gwynion a chochddu. Y du yw yr harddaf. Mae ceiliog dandi bach heb yr un gynffon, ac y maent yn edrych yn dlws ac yn ddoniol iawn; gwelais rai yn arddanghosfa Ffestiniog rai blynyddoedd yn ol.

Dywed Temminck fod i'w Ffrainc, neu yr i'w sydd a'i phlu yn tyfu o chwithig, i'w chael yn Neheudir Asia, Java, Sumatra, ac ynsoedd Philip; a'i bod i'w chael yn gyffredin yn Ceylon, lle dywedir ei bod wedi dod yno o Batavia. "Frizzled Fowls" y gelwir hwy yn Saesneg. Er mai "French hens" y gelwir hwy weithiau, nid oes dim cysylltiad rhyngddynt a Ffrainc mwy na rhyw wlad arall. Ond rhaid cael rhyw enw i'w roddi arnynt. Anghyffredin y gwelir rhai yn y wlad yma ers blynyddoedd bellach, er eu bod yn ddochwyr da, yn enwedig y rhai gwynion.

Ysgrifennodd boneddiges o'r Iwerddon yn 1872, ei bod wedi cadw rhai am lawer blwyddyn, ac fod hwn yn un o'r mathau mwyaf defnyddiol i'w cadw. Dywed fod yr ieir yma yn dechreu dodwy Galan-gauaf, o flaen yr un math arall; ac yn dechreu bwrw eu pluf yng nghanol mis Mehefin, a'u bod yn gwneyd mamau ardderchog i gywion, er fod eu pluf mor ryfeddol. Maent yn amrywiol yn eu lliwiau, sef du, gwyn, a chochddu.

Tua'r flwyddyn 1878 ymddanghosodd yn yr Almaen ieir wedi eu cyrchu o Japan. Eu hynodrwydd mwyaf oedd pluf mor hir yn eu

cynffonnau, yn enwedig felly yn y ceiliogod. Yr oeddynt yn llawer troedfedd o hyd. Dywedir fod dau geiliog o'r mathau yma wedi eu dangos yn Amgueddfa Genedlaethol Tokio, Japan; ac yr oedd rhai o bluf y gynffon yn mesur o 13½ troedfedd i 17 o hyd. Yn Japan cedwir yr teir yma mewn cawellau cul, uchel, wedi eu gwneyd yn bwrpasol iddynt, ar glwyd wedi ei hamgylchu â rhaff wellt, a chafn bwyd a dwfr yn eu cyrraedd, a byddant yn cael eu codi oddiar y glwyd am ychydig o funudau bob dydd i gael cerdded tipyn, a bydd eu cynffonnau yn cael eu rhwymo mewn papur i'w cadw rhag ysigo. Dywedir hefyd nad ydynt yn colli eu cynffonnau ond unwaith bob tair blynedd, a bydd llawer o'r pluf yma yn cael eu defnyddio i drimio hetiau boneddigesau, a phenwisg rhai o swyddogion y fyddin. Eu lliwiau yw du-goch, llwyd-goch, a gwyn. Mae eu cywion yn hawdd iawn i'w magu hefyd, ond iddynt gael eu deor o Mawrth i Mai.

Y mae iar ryfeddol arall wedi dyfod o Austria. Dywedir iddi ddod yno o Transylvania. Hynododd hon ydyw, nad oes pluf ar y gwddf. Gelwir hwy yn Saesneg yn "Naked Necks." Gwelwyd rhai ya Lloegr tua'r flwyddyn 1874, wedi plueni yn iawn ond yn unig y gwddf. Dywedir y cewch weled un yrwan ac yn y man mewn ambell i borthladd, wedi i forwyr ddyfod a rhai drosodd, ond go anaml.

*Traws Afon, Betws y Coed.*

CYSTENYN OWEN.

### FEL Y TEITHIEM GER Y BRIF-FFORDD

(Cyf. o "As we journey by the wayside.")

**F**EL y teithiem ger y brif-ffordd,  
Rhuthro mlaen, ac yna 'n ol,  
O'r fath nifer allwn achub  
O ffordd gwae a phechod ffôl;  
Prudd ac unig a thrwmgalon,  
Neb i wrandaw ar eu cwyn,  
Pwy all adael iddynt drengu,  
Beth a wnawn i er eu mwyn?

Hwy sychedant am y dyfroedd  
I'w heneidiau fyw a bod,  
Hwy hiraethant am y cysur,  
A rhyw fywyd gwell i ddod;

Olywed llais dadleuad tostru,  
Cau ei llygaid wrth ei swyn,  
Ni wna'r Iesu byth ymado  
Heb wneud rhywbeth er eu mwyn.

Unwaith teithiodd ger y brif-ffordd,  
Clod a mawl i'w enw glân;  
Golud bendith, peraidd gysur,  
Leinw bawb yn dd-wahan;  
Yr iselaf o'i greaduriaid  
Hedant ato ef o'u llwyn,  
Er i gledwch byd eu gwrthod,  
Rhoes ei hunan er eu mwyn.

CYDGAN.

Achub 'nawr, achub 'nawr,  
Gristion gweithgar, p'le 'rwyf 'nawr;  
I'n gwaredu brysi'n ebrwydd,  
Galwa'r Iesu, achub 'nawr.

*Ty'n y Fawnog, Llanrug.*

J. E. JONES.



UF



Darion gan]

[Mr. Hugh Davies, Penrhwoceibr.

### URDD Y DELYN YN Y MISCIN.

**A** ELODAU cyntaf Urdd y Delyn yn ardal boblog y Miscin yw'r uchod. Gwyr pawb sy'n talu sylw i addysg, yr anfoneision sydd gan blant Morgannwg i feistroli Cymraeg. A'r gwaethaf ydyw, mai ar y rhieni a'r athrawon y mae llawer o'r bai am hyn. Er y cwbl i gyd, dengys aml i athrawes wladgarwch mawr, a fyddlondeb distaw i'r hen iaith bery mor anwyl i gannoedd yng Nghymru.

Danghosodd Miss Owen,—yr ail o'r cwmni bychan yn y darlun,—ar y chwith, awydd ymuno âg aelodau Urdd y Delyn, a deffroes yr un awydd yn ei disgyblion,—dosbarth o'r Ysgol Sul, cofier, ydyw. Ond medd Miss Owen gymhwysder amlwg i arwain ereill. Athrawes ydyw wrth ei galwedigaeth; ond gellir dweyd yn gryfach lawer, gwna hynny pan na fo tâl na chydabyddiaeth yn y cwestiwn.

Mynai'r cwmni bach yma ymrestru dan faner Urdd y Delyn er yn ddim ond pump mewn nifer. Y mae yn Miscin a Phenrhwiweibr boblogaeth anferth, a'r rhan fwyaf lawer yn Gymry. Capeli Cymreig fritha'r lle, ond Saesneg siaredir gan y plant yn ddiethriad braidd.

Cyflwynedig i blant y Garn.

## LLEISIAU'R PLANT.



CENECH, Ton, Pentre.  
*Cymru'r Plant, Rhagfyr 1903.*

J. T. REES, Mus. Bac.

DOH E. *Yn fywiog.*

m :s	m :d	d :- .l,  t, :-	l :r .m  f :l
d :d	d :s,	l, :-  s, :-	f :t, .d  r :f
l. Pfyndiau'r Ie - su	yd - ym,		Blod-au'r Ys - gol.
s :m  s :m	f :-  f :-		t, :r  s :t
d :d  d :m	r :-  s, :-		s, :s,  t, :s,

l .s :fe.s  m :-	m :s  m :d	d :- .l,  t, :-
f .m :pe.m  d :-	d :d  d :s,	l, :-  s, :-
Sul;	Mae Ei or - eu	gen - nym,
d' :-  s :-	s :m  s :m	f :-  f :-
d . :-   :-	d :d  d :m	r :-  s, :-

f :f  r :m	d :-   :-	C.t.	s .l :t .d'
f, :t,  t, :t,	d :-   :-	t, :m :m  n :m	Llonnir ein hen -
Ar y "rhod - fa	gul."	Llon-nir  n :m	ein hen -
l :l  f :s	m :-   :-	s :s  s :s	s :s
s, :s,  s, :s,	d :-   :-	s, d :d  d :d	d :d

d' :t .l  t :-	eid iau	Ieu-ainc wrth y	Groes,
f :-  f :-	m :m  m :m	r :-  d :-	
eid iau	Ieu-ainc wrth y	Groes,	
s :-  s :-	s :s  s :s	se :-  l :-	
t :-  r :-	d :d  d :d	m :-  f :-	

:   l . t . : d' r' r' :- . t   s :-		:   t . d' : r' . m'	
Ninnau drown ein breint - iau		I sancteiddio'n	
r :r  r :r	r :-  r :-	m :m  m :m	
Nin - nau drown ein breint - iau		I sanct - eidd - io'n	
l :l  l :l	t :-  t :-	t :t  t :t	
fe :fe  fe :fe	s :-  s :-	se :se  se :se	

rall. . . . . f.F. tempo.

m' :-   - :r' . m'		f' d' : s   m : d		d :- . l   t, :-	
n . ba : se . l   ta :-		l m : m   d : s,		l, :-   s, :-	
hoes,		Llon - nir ein hen - eid - iau			
d' :-   - :-		d' s : d'   s : m		f :-   f :-	
l :-   s :-		f d : d   d : m		r :-   s, :-	

l :r . m   f :l		l . s : fe . s   m :-		m :s   m :d	
f :t, d   r :f		f . m : re . m   d :-		d :d   d :s,	
Ieu - ainc wrth y Groes;		Nin - nau drown ein			
t, :r   s :t		d' :-   s :-		s :m   s :m	
s, :s,   t, :s,		d :-   - :-		d :d   d :m	

rit.

d :- . l   t, :-		f :f   r :m		d :-   - :-	
l, :-   s, :-		t, :t,   t, :t,		d :-   - :-	
breint - iau		I sanct-eidd - io'n		hoes.	
f :-   f :-		l :l   f :s		m :-   - :-	
r :-   s, :-		s, :s,   s, :s,		d :-   - :-	

2 Tangnef bore bywyd  
 Sy'n melusu'n cân;  
 Gobaith difrycheulyd  
 Grea galon lân.  
 Hawddach trechu drygau,  
 Hawddach dal pob loes,  
 Wedi treulio'r borau  
 Dan gysgodau'r Groes.

3 Clywch ein cân yn ohwyddo,  
 Mor soniarus yw;  
 Mae pob peth yn llwyddo  
 Lle mae bendith Duw.  
 Caiff ein cenadwri  
 Gyrraedd clust yr oes,  
 Wedi dysgu'r cêrddi  
 Genir wrth y Groes.

4 Duw sydd yn ein galw  
 Oll, o blaid y Gwir;  
 Gras ein Duw sy'n cadw  
 Ein gwefusau'n bur.  
 "Gwneuthur Ei ewyllys"  
 Fydd ein gwaith drwy'n hoës;  
 Duw sydd yn ein tywys  
 Yng ngoleuni'r Groes.

## WIL GYSGWR.

**M**AE un yn cysgu'r hwyr, a'r llall yn cysgu'r bore,  
 Ac ereill,—dyn a'i gwyr,—a gygant am y gore  
 Bob tro y daw i'w rhan gyfleustra at y gorchwyl;  
 Dechreuant chwynu pan na byddo neb yn disgwyl.

Ganolddydd haf 'raiff Twm i 'mofyn am ei gyntyn,  
 Ond yn y gauaf llwm y gellwch weled Ffoweyn  
 Yn prysur hel ei draed i fyny'r llofft i gysgu,—  
 Y naill er oeri 'r gwaed, a'r llall er ei gynhesu.

Hen Sgweiar mawr Ty Fry arferai gysgu'n rholyn  
 Ar gefn 'rhen gaseg ddu wrth hela'r llwynog melyn;  
 Ond nid mor wrthun hyn, o'r hanner, a'r amgylchiad  
 Pan ddaliwyd Wil Cae Gwyn yn cysgu yn 'r addoliad!

Daw rhai,—mi glywais ddweyd,—i'r capel o ran ffasiwn,  
 A'r lleill,—mae'n cael ei wneyd,—er clywed pregeth lecsiwn,  
 Rhai ddönt, â chywir fryd, er clywed am yr Iesu;  
 Ond Wil, o hyd o hyd, ddaw yno er mwyn cysgu.

Fe gwsq y bore'n iawn am nad yw'n hoffi'r bregeth,  
 Ac eilwaith y prydnewn 'rol bwyta'n llawn rhy helaeth;  
 A phan ddel oedfa'r hwyr, ceir Wil yn cysgu'n ddiiddes  
 Am gilio o'i gwsq yn llwyr oddiwrtho ers pythefnos.

I'r Ysgol Sul fe ddaw at ddoesbarth i'w addysgu,  
 A'i Feibl yn ei law, i'w ddarllen pan yn cysgu;  
 Cyn hir fe deimlir chwant crechwenu drwy'r holl ysgol  
 Wrth weld pob un o'r plant yn prysur dreio'i spectol.

Yn ddistaw bach rhoi De'i ei fyaedd yn ei logell,  
 A thynnu allan wna'i ffwch baco mawr a phibell;  
 A dyna'r helynt fu nes darfu i Bob Tai'r Felin  
 (Y scwndrel bychan hy?) fusnesa hefo'i snisin.

A thisiau y bu'r plant i gyd o bant i bentan,  
 Ond Wil o hyd, fel sant, a gysgal 'i gyntyn allan;  
 Breuddwydio wnelai'n braf ei fod o'n athraw gwerthfawr,  
 Tra chwareuai Sami'r cnaf yn ddfyfr hefo'i oriawr.

Ei gadach poced coch sy'n eoi i Domi'r Fofy;  
 Ar hyn, fe ganwyd cloch i hwylio at derfynu,  
 A chan fod yno'n awr ddistawrwydd yn teyrnasu,  
 Clyw pawb drwy'r capel mawr, yn eglur, Wil yn chwynu.

"Wneiff William Jones Cae Gwyn fod cystal a diweddu,"  
 Medd Jones y siop. Ar hyn, fe neidiodd Wil i fyny,  
 A than ddylyfu gen, ac edrych yn gryd ddoctor,  
 Ein hen gydymaith cten ymlwybrai tua'r allor.

Diolchaf'n gynnes iawn am iddo gael dod yno,  
 Ac am bob dawn yn llawn gawd i'w ddisgyblion trwyddo.  
 Yr archrgrithiwr hy! Oes ddisgwyl iti ddyysgu  
 Y ffordd at Iesu cu mewn hun ac osgo cysgu?

Cyn hir fe gei dy hun o'th olaf hun yn deffro,  
 Ac archgythreuliaid lu'n chwaneu at dy gyffro,  
 Am iti feiddio erioed troi oedfa Duw'n bleserfan,  
 A mathru dan dy droed ei ordinhadau gwiwlan.

## HOLWR PLANT.



REES EDWARDS.

**G**ANWYD Mr. Rees Edwards yn Llandderfel, yn y flwyddyn 1851. Cafodd ei fagu ar aelwyd grefyddol, a phan yn blentyn cyfarwyddwyd ef i'r Gwionedd, a chynyddodd yntau mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyr Llan, yn yr hon y cafodd syniadau cywir am Dduw ac am ddyd. Y pryd hwn yr oedd y Seiat Plant mewn bri mawr yn Llandderfel, a dewisodd Mr. Edwards ddefnyddio ei chyfleusterau crefyddol i "gynyddu yng ngwybodaeth a gras ein Harglwydd Iesu Grist," a dywed wrthym mai y "Seiat

Plant" sydd wedi rhoi argraffiadau crefyddol ddyfnaf ar ei feddwl, ac y mae ganddo adgofion melus a hwyliog am y cyfarfodydd.

Pan yn ddeunaw oed gadawodd Llandderfel am Gwyddelwern, a thorrodd ei gysylltiad â'r Seiat am ddeg mlynedd. Symudodd o Gwyddelwern i Goed Poeth, ac ymaelododd yn Bethel. Gwelwyd ei dalent gan swyddogion Bethel, a dewiswyd ef i otalu am Gyfarfod y Plant am un o'r gloch ar y Saboth. Daeth yn holwr setydllog ar blant Bethel, a thrwy ddiwydrwydd a dyfalbarhad cymhwysodd ei hun ar gyfer cylch mwy o ddefnyddioldeb. Symudodd i'r Nant, a pharha yn llawen a diwyd gyda'r un gwaith. Yma bu yn athraw ar yr un dosbarth am dair blynedd ar ddeg,—yr athraw a'r ysgolheigion yn cyd-symud o'r Ysgoldy i'r Capel. Rhoddodd ei wasanaeth i Gyfarfod Ysgolion Dosbarth Brymbo a Chyfarfod Ysgolion Dosbarth Adwy'r Clawdd am wyth mlynedd i egwyddori y plant, ac am bum mlynedd olynol, efe oedd holwr Sassiwn y Plant yn Nosbarth Adwy'r Clawdd.

Ymhlith amryw arwyddion o'r gwerth roddir ar ei wasanaeth, a'r parch sydd iddo yn y dosbarth, y mae dwy ohonynt yn fwy gwerthfawr ganddo na'r oll, sef anrheg ei hen ddosbarth o'r Llyfr Emynnau goreu, a'r argraffiad goreu o hono, ac anrheg yr ysgolion o'r "Gwyddoniadur Cymreig."

Cyhoeddodd "Holwyddoreg i Blant," ac "Holi ac Ateb" ar gyfer pedwar o wahanol Faesydd Llafur,—un ar gyfer pob Sassiwn.

Darlennai, myfyrnai, ymbillai a gweddi, i gymhwysu ei hun yn Holwr Plant, ac enillai fygad, cŏf, meddwl, a serch y plant trwy fod yn naturiol, yn ddirifrol heb fod yn sarrug, yn llawen heb fod yn ysgafn, a thrwy holi yn gyffredin a syml, gan amcanu bob amser at fod yn fuddiol. Y mae wedi llwyr astudio y plant, a bron nad yw yn adnabod holl blant y dosbarth yn bersonol, a pheth hawdd iddo of yw cael pob plentyn i ateb.

Oherwydd fod Mr. Edwards wedi rhoddi ei oes i wasanaethu plant, gofynnwyd iddo.—Pa ryw fath athrawon ddylai y plant gael? “Y RHAI GOREU YN YR YSGOL,” meddai,—“rhai yn llawn awydd ac ynni i wneyd daioni, yn ffyddlon, yn weddigar, a'u bywyd yn esiampl o gariad Crist. Ni ddylent fod yn rhy ieuanc, fel ag i fod yn amddifad o ddylanwad arnynt; nac yn rhy hen fel ag i fod yn swrth a difraw gyda hwynt.” Dyna syniad Mr. Edwards am athrawon i'r plant. Cofier mai syniad un sydd wedi llwyddo i wneyd ei hun yn athraw plant ydyw, a thrwy lwyddo yn athraw plant, llwyddodd yn athraw i bawb. Y mae heddyw yn flaenor ar eglwys y Nant, yn athraw llwyddiannus yn yr Ysgol, ac yn ddirwestwr selog, a disgwylir eto lawer cyngor a gweithred ganddo.

### BUGAIL Y GEIFR AR YR ALPAU.

**H**YDERWN fod llawer o'n darllenwyr ieuanc sydd o'r deuddeg i'r deunaw mlwydd oed yn gwybod ychydig o hanes yr hen fynyddoedd uchel a mawreddog sydd ar gyfandir Ewrob ag sydd yn cael cymaint o sylw teithwyr a gwyddonwyr, y rhai a elwir yr Alpau. Oddigerth yr Andes a'r Himalaya, saif y rhai hyn ymlith yr uchaf a'r mwyaf arddunol a berthyn i'n byd ni. Hwyr ydyw y brenhinoedd.

Ond nid ceisio rhoddi darlun mewn geiriau o'r hen fynyddoedd ardderchog yma yw ein gwaith yn awr, ond rhoddi ychydig o hanes y bugeiliaid sydd yn bugeilio y praidd ar eu llechweddau, ac yn arbennig ceisio galw sylw at y wers bwysig y mae bugail y geifr yn neillduol yn ei ddsygu i ieuencyd Cymru ymhob cyfnod.

Ymddengys oddiwrth yr hanes am y bugeiliaid hyn, eu bod yn treulio y tymor mwyaf swynol o'r fiwyddyn,—pan y bydd Natur wedi dyfod allan yn ei phrydfertawch, a llechweddau'r hen fynyddoedd yn cael eu harddu a'r blodau tlysaf, megis rhosyn yr Alpau a fioled yr Alpau, a'r dyffrynnoedd, y coed a'r meusydd wedi eu gwiago a'r ffrwythlonder mwyaf,—ymddengys eu bod yn treulio y tymor hwn i fyw mewn pebyll ar y mynyddoedd, er mwyn bod yn agos i'r praidd,

i ofalu am danynt, ac i'w hamddiffyn os bydd angen. Gwelwch oddiwrth hyn eu bod yn byw am fisoedd, bob blwyddyn yng nghanol yr unigrwydd mwyaf. Nid oes yno ddyn i'w weled, na'i lais i'w glywed. Nid oes yno ddim i dorri ar y distawrwydd ond brefiadau y praidd, âdsain nerthol y daran yn y cymoedd dwfn rhwng pigynau uchel yr hen fynyddoedd, twrf y ddaiardor (*avalanche*) wrth ddisgyn i'r dyffrynnoedd, neu yr afonydd rhew (*glaciers*) wrth araf dreiglo i lawr i'r gwastadedd.

Ond er nad oes yno neb dynol i ddal cymdeithas â hwy, eto, gallant ddal cymunedeb â Natur ac â Duw drwyddi, oherwydd mae y golygfeydd arddunol sydd o'u cwmpas yn llefaru digon, ac yn llefaru'n uchel wrthyt am Dduw. Y mae Duw ymhell o fod wedi gadael ei hun yn ddi-dyst yn yr Alpau.

Felly, wrth edrych ar fywyd y bugeiliaid hyn o un cyfeiriad, y mae'n ddarlun hynod o brydferth a swynol. Meddyliar am danynt. Y maent yn cael yfed y dwfr ac anadlu'r awyr buraf; ac heblaw hyn, yn cael byw yn wastad yng nghanol golygfeydd dynnodd gymaint o sylw, ac a wnaethant argraff mor ddwfn ar feddyliau dynion fel Tschude, Tyrdal, a Ruskin. Ond y mae darlun arall tra gwahanol yn perthyn i'w bywyd; oblegid, wrth ddarllen eu hanes yn fanwl, gwelwn eu bod weithiau yn gorfod dioddef llawer o anghysur, a'u bod bob amser yn byw yng nghanol y peryglon mwyaf. Weithiau mae ymborth y praidd yn myned yn brin, drwy fod trwch newydd o eira yn dyfod ac yn cuddio y borfa, neu gawodydd o wlaw oer yn parhau i ddisgyn am wythnosau, yn atal y tyfiant, ac yn tynnu pob blas a rhinwedd allan o hono. Bryd arall mae llawer o anghysur yn cael ei beri, a niwed yn cael ei achosi, drwy fod darnau mawrion o greigiau yn syrthio o glogwyni yr hen fynyddoedd, a thrwy fod anifeiliaid ysglyfaethus, fel y blaidd a'r arth, yn dyfod heibio gyda'r nos ac yn difetha'r praidd. Ond i ychwanegu at y cwbl, weithiau yn y nos y mae ystormydd o felt a tharanau yn dyfod yn ddisymwth ac yn achosi llawer o ddfrod, drwy fod llawer o'r anifeiliaid, ac yn aml y bugail ei hun, mewn braw, ac yn y tywyllwch yn ddiarwybod yn syrthio dros glogwyn rhyw graig ac yn colli eu bywyd. Cymerodd amgylchiad felly le yn y fiwyddyn 1854. Syrthiodd deg o wartheg, a'r bachgen ofalai am danynt, dros ymyl craig, a chollwyd yr oll.

Ond mae'n debyg mai bugail y geifr sydd yn y perygl mwyaf o'r bugeiliaid i gyd, oblegid fel rheol y mae yn fwy hyf na'r lleill, ac yn bur aml mae ei hyfdra gormodol yn costio ei fywyd iddo. Rhai drwg ydyw, y geifr, maent am fyned i chwilio am ymborth i fannau peryglus ryfeddol, i ymylon y creigiau, ac i ddringo ochrau y clogwyni serth, lleoedd na fedr ac na faidd y fuwch, na'r ddafad ychwaith, anturio yno o gwbl. Ac y mae y bugail yn anturio ar eu hol, ac wrth

hir arfer gwneyd hyn, cynefina â'r llwybrau peryglus yma i'r fath raddau nes y mae ef o'r diwedd yn colli pob teimlad a syniad fod yno berygl yn bod o gwbl. A'r canlyniad ydyw, yn hwyr neu yn hwyrach, llithra ei droed, a chyll ei fywyd.

Digwyddodd anffawd felly i fugail y geifr o'r enw Kasper yn Alpau yr Eidal. Un noson, gyda bod cysgodau'r hwyr yn dechreu ymdaenu, daeth y geifr gartref eu hunain, a deallodd pobl y pentref oedd yng nghysgod y mynyddoedd fod rhyw ddamwain wedi digwydd i'r bugail. Aethant i chwilio am dano, ac ar ol chwilio am wythnosau, cafwyd ei weddillion marwol wrth odre craig o uchder aruthrol, ac erbyn hyn, yr oedd ei gorff bron a myned yn ymborth i adar ysglyfaethus y creigiau a'r mynyddoedd. Ychydig feddyliodd y dyn ieuanc hwn wrth arfer cerdded yn ddifraw ar hyd llwybrau peryglus mai dyma fuasai ei ddiwedd.

Tybed a oes yma wers i blant ac ieuencyd Cymru yn hanes bugail geifr yr Alpau? Oes. Dyma ydyw,—am iddynt ofalu peidio dechreu rhodio ar un o lwybrau peryglus bywyd, neu ynte am iddynt ofalu peidio cychwyn arterion ag y mae drwg ynddynt, rhag iddynt, fel Kasper, gynefino â hwy i'r fath raddau nes colli golwg ar y perygl a berthyn iddynt, ac yn y diwedd myned yn aberth i'w dylanwad niweidiol. Ar glogwyn llawer craig yng Nghymru y mae goleudy wedi ei godi i rybuddio y morwr i gadw draw, am fod yno berygl. Ac y mae llawer goleudy felly wedi ei godi yn y Beibl i rybuddio yr ieuanc, yn enwedig, i fod ar eu gwyliaidwriaeth am fod yna berygl. A dyma un ohonynt nad oes modd i neb gamsynied ei oleuni a'i neges,—“Na ddos i lwybr yr anuwiol, ac na rodia ar hyd ffordd y drygionus.” Cofied y plant, ynte, y wers bwysig hon; sef peidio dechreu chwareu a chellwair âg arferion ag y mae perygl ynddynt.

*Aberdar.*

W. O. POWELL

### YR HWYADEN.

“Gwag! gwag! gwag!” trwy hir agen,—“gwag!” oer lef,

“Gwag!” ar lyn a thonnen;

“Gwag!” o'r ffos, “gwag!” yrr o'i phen,

Hi ydyw yr hwyaden.

*Nantlle.*

G. W. F.

---

SEP Cytfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, GWYBECAM.



# AT Y PLANT.



SAM.

Nis gallaf broffwydo i chwi am yr haf nesaf. Yr wyf yn gobeithio y cewch eich dymuniad, sef haf mwy heulog nag a gawsom y llynedd. Medr gwyddonwyr ddweyd beth fydd y tywydd ychydig ddyddiau ymlaen, ond nid llawer ychwaneg. Anfonir i arsyllfa Greenwich bell-ebrau o wahanol fannau o'r ddaear i ddweyd faint yw darlenniad y barometer. Felly, medrant broffwydo beth fydd cyfeiriad y gwynt, pa un ai o'r gogledd a'r eira, ynte o'r de a'r gwlaw, y daw. Nid yw proffwyddolaethau'r hen almanaciau ond dychmygion, byddent yn dod yn wir ambell dro. Os proffwydych y cawn wlaw ym mis Chwefrol, byddych yn iawn fel rheol, oni fyddwch? "February fill dyke," ebe hen air Seisnig.

J. A. PARRY. Y mae eich awgrym yn un amserol iawn. Paham y rhoddir enwau Seisnig yn enwau tai yng Nghymru, a hynny gan Gymry? Y mae'r enwau Cymreig yn aml yn fwy persain a llawn meddwl,—“Hendre,” “Hafod,” “Cartref,” “Min y Don,” “Bodunig.” Ond pa feddwl yn y byd sydd i “Wellington House” a “Nelson Villa?” Y mae yr un Dic Sion Dafyddiaeth wedi meddiannu ein trefydd hefyd; ac eto gymaint yn well yw'r enwau Cymraeg sydd ar dafod y bobl na'r geiriau Seisnig sy'n ysgrifenedig ar gornelan'r heolydd.

E. J. Diolch yn fawr am hwiangerddi sir Frycheiniog. Bydd gennyf gasgliad dan gamp.

O. Gellwch gael “Gwaith Ialwyn” am gini o swyddfa y Mri. Hughes, Gwrecsam. Yn hon y mae “Fy Nhad.” Y mae cyfrol fechan brydferth arall wedi ei chyhoeddi yng Nghyfre y Fil; gellwch ei chael am 1/6 oddiwrth R. E. Jones, Argraffwyr, Conwy.

GWLADGAROL. Ie, yn yr ysgollion elfennol yn y trefi y gwneir brad yr iaith Gymraeg. Ond y mae gobaith cael golwg well ar bethau'n awr.

UX O'R YSGOL. Na, nis gellwch brofi na wisgai yr hen Gymry ddim am eu pennau oherydd mai geiriau Saesneg yw “hat” a “cap.” Gair Cymraeg yw crydd, gair o'r Saesneg yw talliwr; a fuasech chwi'n casglu oddiwrth hynny fod y Gymry'n gwisgo esgidiau, ond nid dillad, cyn i'r Saeson ddod? Gair Cymraeg yw gwallt, gair tebyg iawn i'r Lladin yw dant (*dans, dentem*); a fuasech chwi yn rhestru felly fod gan yr hen Gymry wallt cyn i'r Rhufeiniaid ddod, ond dim dannedd?



*J. Thomas.*

DIWYDIANNAU CYMRU. III. PYSOOTA.



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XIII.

MAWRTH, 1904.

RHIF 147.

## CALLINEB Y DDAFAD.

**Y** MAE y gwanwyn ar wawrio, a thymor difyr ar y flwyddyn yw y gwanwyn, onide? Bydd y ddaear yn glasu, a'r ŵyn bach yn prancio hyd y bryniau. Fy mhrif waith yr adeg honno yw eu bugeilio. A phan fydd y tywydd yn erwin,—rhew ac eira yn gorchuddio y ddôl,—bydd raid myned a photelaid o lefrith yn fy mrest, a'i rhoi i'r rhai gwannaf, i'w cadw yn fyw hyd nes daw haul ar fryn. A'r cwestiwn cyntaf bob amser fydd y plant yn ei ofyn pan ddof yn ol yw,—“Pa sawl oen newydd gawsoch heddyw?” A dyna *stroke* ar y ffon i gadw y cyfrif.

Ond yr hyn a'm cymhellodd i'r cyfeiriad yma oedd y ffaith a welais ym mis Mawrth diweddfaf.

Fel yn oeddwn ar fy nhro yn edrych pa lwyddiant oedd ar y defaid, clywais ddafad yn brefu. Ac wedi craffu ac edrych o gwmpas, canfyddais y ddafad gryn bellder oddiwrthyf, ar ben bryncyn, yn edrych arnaf, ac yn parhau i frefu. Sefais, a daliwn fy ngolwg arni. Pan ddeallodd y ddafad nad oeddwn yn cychwyn tu at hi, daeth i lawr yr holl ffordd ataf. Adnabum hi ar unwaith, fel un ag yr oedd oen yn ei chanlyn y diwrnod cynt, ychydig ddydd-

iau oed. Daeth bron yn ddigon agos ataf i mi roddi fy llaw arni, er fod y defaid yn yr ardaloedd hyn yn hynod o wylltton. Brefai, gan edrych yn fy wyneb; curai ei thraed yn y ddaear fel i rybuddio y cwn na wnelent hwy ddim yn yr achos. Ac wedi iddi orffen ei neges, yn ei dull tarawiadol ei hun, cychwynnodd yn brysur yn ol, gan roddi pob cymhelliad i mi i'w dilyn. Safodd yn hollol yn yr un llecyn ag y gwelais hi gyntaf.

Wedi i mi gyrraedd yno, gwelwn ei hoen bach wedi syrthio i agen yn y graig, yn union tan y lle y safai y ddafad. Yr oeddwn yn ymfrostio yn hyd fy mraich pan gefais afael yn ei gynffon, a deall fod yr oen bach pen telyn yn fyw ac iach, er ei fod wedi bod yno amryw oriau.

Yr oedd yn bleser i mi ei weled yn mwynhau ei hun wrth deth ei fam. Brefodd y ddafad amryw weithiau wedi cael ei hoen; nis gwn ai o lawenydd ai o ddiolchgarwch y gwnai.

*Oerddwr, Beddgelert.*

JOHN HUGHES.

### GYDA'R IESU.

**R**HODIO gyda'r Iesu  
Yw y fiordd i fyw;  
Treulio oes i'w garu,—  
O mor anwyl yw;  
Tlysi yw ei wisgoedd,  
Swyn eneinia 'i wedd;  
Orlau llon y nefoedd  
Gawn yn haf ei hedd.

Gweithio gyda'r Iesu  
Yw ein brait a'n cân,—  
Puro'r byd a'i fynnu  
Yn baradwys lân,—  
Tynnu'r drain sy'n atal  
Llwydd ei deyrnas Ef,—  
Plannu yn yr anial  
Ros a lili'r nef.  
*Y Bula.*

Gwledda gyda'r Iesu  
Gawn drwy 'i angau loes;  
Arlwy fawr ei deulu  
Yw grawnsypiau'r groes;  
Bywyd sydd yn heulo  
Yn ei groesaw Ef;  
Cariad pur sy'n gwrido  
Gwin cwpanau'r nef.

Canu gyda'r Iesu  
Wna bob storm yn fud;  
Huna poen wrth ganu  
Tant ei angau drud;  
Llithred tywod amser  
Oll o dan ein traed,  
Tonni byth wna mwynder  
Mawl telynau'r gwaed.

RICHARD AB HUGH.

### CANEUON PLANT RHOSTRYFAN.

#### II. GWYN A DU

**R**HYW dro, ymunodd bechgyn ffol  
I ddweyd anwiredd mall;  
Gwywasant oll, fel dall y ddôl,  
Dan ofid am eu gall;  
Ond mynodd un gael dweyd y gwir,—  
Mae'n fyw, a'i barch heb ball.

Glyn wrth y gwir, fy nghyfaill bach,  
Dy drysor pennyl yw;  
Glyn wrth y gwir, yn glaf ac iach,  
Heb ofni neb ond Duw;  
Mae'r wefus ddu i farw, frynd, y  
A'r wefus wen i fyw.

J. R. TRYFANWY.

## BLAENAU, FFESTINIOG.

**S** AIF fy ardal, Blaenau Ffestiniog, yng ngogledd orllewin sir Feirionnydd. Amgylchynir y dref â mynyddoedd tra uchel a rhamantus; a denir llygaid miloedd o ymwelwyr yn flynyddol i syllu ar natur yn ei gwisg oreu yma, ac i seinio maint ei phrydferthwch trwy amryw wledydd. Ceir yn ein tref amrywiaeth digyffelyb; ymgyfyd y mynyddoedd fel tyrau o amddiffynfeydd, gyda llynnoedd tlyision yn eu ceseiliau; craffa y llygaid ar y nentydd yn prysur ddolennu tua'u hoff gartref; mwynheir awelon iachus y môr a'r mynydd; taranu wna y rhaiadrau, a'r dyffrynnoedd wenant, ac y mae gan bob un o'r rhai hyn gyfrolau o hanes. Pwy na wyr am draddodiad Llyn y Morwynion? A phwy na chlywodd am brydferthwch Dyffryn Maentwrog? Credaf na cheir yr un gwir Gymro.

Hysbys ydyw y dibyna bron yr oll o drigolion Ffestiniog ar y mynyddoedd am eu cynhaliaeth, ac nid rhyfedd ein bod yn eu caru â chariad mor fawr. Brithir eu llethrau â llawer o ffyrdd haiarn, ac arnynt cludir llechau o'r chwarelau bydenwog i gyrraedd un o'r tair gorsaf.

Golygfa nad anghofir yn iuan ydyw gweled gweithwyr Chwarel y Graigddu yn dychwelyd oddiwrth eu gwaith yn yr hwyr gyda y "car gwyllt." Gyda'r cerbydau bychain hyn gorchuddir pellter oddeutu dwy filldir mewn ychydig funudau. Ond er mor ddéfnyddiol ydynt, profasant yn angeuol i Goronwy Griffiths yn haf 1896, ac i John Jones yn 1897. Mae y gweithwyr yn dod ar eu cyfrifoldeb eu hunain er y cyntaf o Orffennaf, 1898, pan ddaeth Deddf Iawn y Gweithiwr i rym.

Y mae trafniadaeth eang iawn gan dair o wahanol linellau, sef y Great Western, London & North Western, a Linell Gul Porthmadoc a'r Blaenau. Hon oedd y gyntaf a wnaethpwyd yn y wlad hon (1833). Ei lled yw dwy droedfedd ond hanner modfedd. Golygfa ardderchog ydyw canfod ugeiniau o wagenau llawn o lechi yn cychwyn ar eu taith o dair milldir ar ddeg i Borthmadog, heb gymorth yr un agerbeiriant. Ant i lawr yn ddyddiol yn berffaith ddiogel heb unrhyw gynhorthwy ond dyn i ofalu am y *brake*.

Hynod iawn ydyw gweled hen blasdy Dol y Moch a'i simneiau hirion, ac adeiladau henafol Pengwern ac Hafod Ysbyty yn aros yn wrthrychau dyddordeb i haneswyr er's amryw ganrifoedd.

Hynod nodedig fyddai hen drigolion y parthau hyn. Mae hanes Hugh Llwyd o Gyntal, a Mari y Fantell Wen, yn berffaith hysbys i bawb.

Y mae trigolion presennol Ffestiniog, fel eu tadau gynt, yn bobl garedig, hynaws, brwdfrydig, moesol, dyngarol, gwybodus, di-

ragrith, a gweithgar. Cynhorthwyr y gwan a'r angenog yn fisol yn y chwarelau, a chred y rhoddwyr fod yn well rhoddi na derbyn. Er yng nghanol y mynyddoedd a'r creigiau, mae dynoliaeth, dewrder, hunan-aberth ac hunan-feddiant wedi eu dadblygu yn hynod amlwg. Yn aml, aml, ceir enghreifftiau o rai dynion achubwyd megis o safn angeu gan eu cyd-ddynion.

Hynodrwydd mawr a berthyn i ni fel pobl a phlant Blaenau Ffestiniog ydyw ein cenedlgarwch. Ein hanes yn y gorffennol ydyw "Cymraeg a Chymru," yn bresennol yr un modd, ac yn gyffelyb yn y dyfodol tywyll mi a obeithiaf. Nid oes dref yng Nghymru mor Gymreig a Blaenau Ffestiniog. Bydd hir goffa am Eisteddfod Genedlaethol Ffestiniog, 1898. Pa beth bynnag gymerir mewn llaw gan wŷr pybyr Ffestiniog, bydd yn llwyddiant perffaith. Camant dros lu o anhawsderau, a throa y rhai hynny yn swmbwl iddynt. Yn ein tref ni chlywir ond yr iaith Gymraeg ar hyd ein holl heolydd.

Hynod fel mae addysg wedi ennill y fath ddylanwad ar wŷr y creigiau. Cofir gan liaws o'r ardalwyr pan nad oedd yma yr un ysgol; ond yn awr mae yma wyth o ysgolion ardderchog,—un ganol-raddol, dwy uwchraddol, a phump o rai elfennol, a mwynheir hwy gan ddwy neu dair mil o blant gweithwyr y chwarelau. Ynddynt oll dysgir yr iaith Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ac yn y safonau uchaf cymerir yr iaith Gymraeg yn bwnc neillduol. Mae plant Ffestiniog yn hynod o ddeallus a chyflym, ac y mae y rhai a fagwyd yma yn awr yn dwyn canmoliaeth ardderchog i'r hyn a addysgir yma.

D. O. JONES.

CEWRI CYMRU.

WRTH rodio maes hanesiaeth,  
I'r maith orffennol du,  
Ar lenni pob cenhedlaeth  
Ceir enwau arwyr lu,  
Dan faner cenedlgarwch  
Frwydrasant yn ddi-hedd,  
Nes syrthio i dawelwch  
Dros erchwyn oer y bedd.

O's dinod hen garneddau,  
A nodant argel fan,  
Lle gorwedd cewri'r oesau  
Ar lethrau'n bryniau ban,  
Eu henwau beraroglant  
Drwy'r oll o Gymru fad,  
Coronau parch a wisgant  
Dros byth yng nghof eu gwlad.  
*Penmachno.*

Tra y dychwel gwyrddlas wanwyn,  
I wisgo â mantell bri  
Heirdd ysgwyddau'r flwyddyn,  
A thra bydd môr a'i si,  
Ceir duwies wen edmygedd  
Yn gwasgar blodau cain  
Ag enaint ei chlodfodredd  
Ar anwyl enwau'r rhain.

Er huno o'n hen dadau,  
Mae 'u hysbryd eto 'n fyw,  
Mae iaith a gwlad y bryniau  
Dan amddiffyniad Duw;  
Ein iaith fu tŵr ein defon  
Yn y gorffennol draw,  
A sail yw i'n gobethion  
I'r maith ddyfodol ddaw.  
O. T. DAVIES, (*Owain Machno*).

## "FE DDAW LLŴWELYN ETO'N OL."

## IV. YMADAWIAD CADEN DAFYDD.

**F**ODD bynnag, nid oedd llwyddiant ei gŵr yn rhoddi llawer o foddhad i Caden, rhywfodd. Gwir nad oedd yn rhaid iddi weithio mor galed, na phryderu cymaint ynghylch arian ysgol y bechgyn; ond eto cynhyddu wnai ei phryder a'i hanesmwythyd. Dychmygai weled ei hun yn cael ei hamgylchynu â phob llawnder bydol, ac eto weled ei phriod a'i phlant yn mynd ar y goriwaered. Dychmygu ddywedais? Na, trwy ryw foddion cyfriniol, efallai, gwybyddus i'r mamau'n unig, gwelai ddyfodol ei theulu mor eglur a haul canol dydd, a'r dyfodol hwnnw'n taflu ei gysgodion pruddaidd a thywyll dros ei holl fywyd, ac yn chwerwi popeth ddylasai fod yn felusder iddi. Bob tro y clywai William yn son am y Capten, yr oedd rhyw iasau oerion yn rhedeg trwy ei holl gyfansoddiad, ac yna syrthiai i ryw bruddglwyf na welodd ei gŵr ddim olion o hono tra 'roedd hi'n gorfod byw ar ei bara haidd caled ac yn gorfod gweithio'n hwyr ac yn fore i gael digon o ddillad i guddio noethni ei thri phlentyn. Llauer tro yr oedd William, yntau, wedi dadffino ei gymalau lluddedig ym mlynnydoedd cyntaf ei fywyd priodasol tra'n gwyllo gwên serchog ei briod; ond yn awr yr oedd pob sirioldeb yn cilio o'i llygaid bywiog, a rhyw edrychiad dieithr, newynog, hanner amheugar wedi cymeryd ei eisteddle yno, a phob gwên megis yn trengu ar ei gwefus.

Fodd bynnag, yr oedd William yn dal i fynd i'r "Toilers' Rest" o hyd, ac yr oedd bron yn barod i wneyd llo aur o'r Capten. Teimlai'n ddwys ar brydiau oherwydd y cynnewidiad oedd wedi dod dros Caden, ac am y tro cyntaf sylweddolodd fod trallod i'w gael hyd yn oed ym myd cyfoeth. Ond tra 'roedd ei wraig yn gwywo gartref, yr oedd ef yn ceisio anghofio ei boen yng nghymdeithas y Capten a'i swcwr, y ddioden. Aeth pethau'n mlaen felly am fisoedd lawer, ond bob wythnos, bob dydd, ie, bob awr, yr oedd yr awydd am ddiod i foddi ei dristwch yn cryfhau, ac yntau yn anymwybodol, mae'n wir, yn mynd yn wannach, wannach i'w wrthsetyll. Trodd ei fechgyn i ddilyn yr un llwybr, ac er iddo eu dwrddio a cheisio eu cynghori i beidio, gwyddai mai dyna'r esiampl oeddynt yn gael, ac fod perygl iddynt gollu cwmni a ffafr y Capten os na chaent ymweled â'r "Toilers' Rest" yn awr ac yn y man. Ac o dan yr awdurdod llethol hwnnw oedd gan y Capten a'i ddiod arno, y mae'n anghofio am bresenoldeb ei fechgyn yn y dafarn, ac yn ceisio gobeithio'r goreu am eu dyfodol.

Un prydawn, y mae Rhobet Dafydd a Rhys William bach wedi cwrdd a'u gilydd yn yr Ardd Las i edrych am Caden, druan. Nid

oedd angen craffder neillduol i weled na byddai hi yno'n hir, a phan ddaeth ei gŵr i mewn, er nad oedd yn hollol sobr, yn y prydnewn felly, gwelodd fod cyfnewidiad er gwaeth eto wedi wedi dod dros ei wraig. Trodd i siarad â Rhobet Dafydd, ac ebai,—

“O, 'r bechgyn yna sy'n ei phoeni hi, yn enwedig Llywelyn yna. Yr wyf yn synnu ati ei bod yn gadael iddo gyfeilchachu â rhywbeth wedi ei hanner newynu fel Gwen, merch cybydd y Fron. Fe ddywedodd y Capten wrthyf heddyw iddo eu gweled yn cerdded fraich ym mraich i gyfeiriad Aber y Ddwy Afon, ac fod cybydd y Fron wedi gwneyd ei feddwl i fyny i gael ychydig o'r arian enillais i drwy chwys fy wyneb. Choelia i fawr. Priodi merch y cybydd, yn wir. Cadwed ei arian; mae gennyf fi ddigon i roi cychwyn iawn i'r plant yma heb help poced y cybydd newynodd ei wraig i farwolaeth anamserol.”

Hynny fu y prydnewn hwnnw. Ond ym mhen yr wythnos yr oedd Rhobet Dafydd a Rhys William bach yn yr Ardd Las eilwaith, y tro yma ar gais Caden ei hun. Yr oedd y meddyg newydd alw, ac wedi bod yn ddigon gonest i ddweyd wrth ei gŵr, oedd yn rhy feddw i wrando, ysywaith, fod dyddiau ei wraig ar ben. Bu'r ddau yno am oriau yn gwyllo wrth erchwyn ei gwely, a Rhobet Dafydd yn darllen ac yn gweddio bob yn ail. Yr oedd ei hanadl bron ar ddiffygio, ond yn awr ac eilwaith adroddai ac ail adroddai y geiriau yma, geiriau oedd Rhobet Dafydd wedi glywed lawer gwaith ganddi,—“Y mae'n anhawdd iawn gan yr Arglwydd adael un teulu'n hollol wedi iddo unwaith gael derbyniad i mewn iddo. Fe dry y bechgyn yma ar wella, gobeithio; ond Duw a gadwo fy Llywelyn bach, beth bynnag.” Sisialai rywbeth am Llywelyn o hyd, ond o'r diwedd yr oedd ei thafod yn rhy floesg i ynganu ei enw. Yn blygeiniol bore drannoeth yr oedd Dôl Feurig wedi colli un o gymeriadau goreu yr ardal, a haul gobethion yr Ardd Las wedi suddo yn y gorwel draw.

### Y TELYNOR BACH.

(“The Minstrel Boy” Moore.)

I'R frwydr aeth telynor bach  
Fe'i cewch yn rhengau angau;  
A chledd ei dad sydd ar ei glun,  
A thelyn wrth ei 'sgwyddau.  
“Gwlad y Gân,” medd y milwr fardd,  
“Er i'r holl fyd dy wadu,  
Un cleddyf dy amddiffyn wna,  
Un delyn wna dy foll.”

*Eugby.*

Fe gwmpodd y telynor bach,  
Ond methodd trais y gelyn  
A chael ei ysbryd dewr dan draed,  
Na miwsig 'chwaith o'i delyn;  
Distrywodd hi gan ddweyd,—“Ni ohei  
I elyn roi boddineb,  
Dy dannau wnawd i'r dewr a'r rhydd,  
Nid i seinio mewn caethiwed.”

R. P. EVANS.





**MAGGIE EVANS, PORTH, RHONDDA.**

**C**OFFADWRIAETH y cyfiawn sydd fendigedig." Merch rinweddol, dduwiol, dda, ydoedd Maggie Evans, ac un o anwyliaid Mr. a Mrs. Thomas Evans, Ty'r Capel, Calfaria, Porth. Magwyd hi yn dyner ac yn anwyl ar aelwyd grefyddol, a thyfodd yn lili wen brydferth yng ngardd yr Iesu. Yr oedd Haul y Cyfiawnder wedi gosod ei ddelw arni, a "pherarogl Crist" yn dilyn ei bywyd hardd, a'i swynion yn denu daear a nef. Cysegrodd ei bywyd byr i wasanaethu yr Hwn a'i carodd ac a'i prynodd â'i waed ei hun. Rhodiodd gyda Duw am ddeunaw mlynedd, nes oedd byw i Dduw wedi dod yn bleser calon iddi, arosodd ar hyd ei hoes yng nghariad yr Iesu. Gweithiodd â'i holl egni dros yr Ysgol Sul, y Gobeithlu, Dirwest, a Themlyddiaeth Dda,—gwnaeth ei goreu i sychu ffosydd lleidiog meddwod yn y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach. Cafodd addysg dda, a gwnaeth y defnydd goreu o'i hamser. Tystion byw

o'i llafur, ei diwylliant, a'i thalent, yw, y tystysgrifau heirdd sydd yn addurno parwydydd ei chartref ar ei hol. Yr oedd yn rhy dda, a'i bywyd yn rhy wyn, i fod yn llaid y byd hwn yn hir; felly trawsblanwyd y lili wen yn gynnar i'r Eden sydd fry. Bu yn gystuddiol am yn agos i flwyddyn a hanner, ac addfedai bob dydd ar gyfer y wlad well; a chanai yn orfoleddus,—

“Nis gwn pa ryw awr daw fy Arglwydd mawr  
I'm cyrchu i'm cartref sydd uwch y llawr.”

Myned i'r nefoedd oedd ei chân, a chafodd ei dymuniad,—bore Sadwrn, Hydref 24, 1903, anfonodd yr Iesu “gerbyd Israel a'i farchogion,” i gyrchu Maggie i'r Saboth tragwyddol at deulu y gynau gwynion, y palmwydd, y goron, a'r telynuau aur. Cafodd gladdedigaeth tywysoges, a gosodwyd yr hyn oedd farwol o honi i orwedd mewn heddwch ym mynwent Llethr Ddu, lle yr erys “yr ysbrydion gwasanaethgar” i daenu eu hedyn dros ei llwch hyd fore gwyn yr adgyfodiad mawr. “Diddanwch Israel,” fyddo yn ddiddanwch i'r teulu anwyl hwn yn eu profedigaeth lem.

Trist yw trydar y g'lomen,  
Duon yw'r cymylau uwchben;  
Sefyll yn brudd mae yr awen  
Uwch beddrod y Lili wen.

Pur oedd ei hymarweddiad,  
Fel bore o'r dwyrain pell;  
Tyfodd dan wenu ei Oheidwad,  
Yn addfed i wlad sydd well.

Olr dros y brynau gwyrdion,  
Daw seiniau engyl i'n clyw,—  
Mae Maggie yn gwisgo'i choron,  
Mae Maggie eto yn fyw.

R. R. D.

Hon fwriad chwyn oferedd,—o'i chalon,  
A chiliai rhag gwagedd;  
Mor anwyl, gem o rinwedd,  
Yn glod i ras Gwlad yr Hedd.

Dihalog “Urdd y Delyn,”—a dirwest  
Dirion, fu yn ddilyn;  
Iesu mad,—ffrynd credadyn,  
Heb baid gai ei bywyd gwyn.

Yn ddeunaw oed gadawodd ni,—hed-  
At frodyr glân iddi; [odd  
Glanicodd yng ngwlad goleuni,  
Rian deg, coronwyd hi.

L. R. D.

### HEN AGER-BEIRIANT.

**O** BOSIBL nad y ceffyl yw y gweithiwr caletaf yn y byd,—y gweithiwr *byw* caletaf; ond y mae un rhagorach nac yntau,—sef y march tân. Y mae un o *locomotives* hynaf y North Eastern Railway Company newydd gyrhaeddyd pen draw ei hirfaith yrfa. Ei enw oedd “Veteran,” ac adeiladwyd ef yng ngweithfa Robert Stephenson (tad y rheilffyrdd) yn Newcastle, yn y flwyddyn 1843, i redeg ar reilffordd Blyth a Tyne. Dywedir iddo redeg dros 1,105,326 o filldroedd; cymaint taith a phe buasai wedi rhedeg gylich ogylich y belen ddaearol hon 44 o weithiau.

## DADL DDIRWESTOL I BLANT.

RHWNG DAU FACHGEN, JOHN A WILLIAM.

JOHN. Wel, William, pa sut yr wyt ti heddyw?

WILLIAM. Reit dda, John, pa sut yr wyt ti?

J. 'Rwyf finnau yn dda iawn o ran fy iechyd.

W. Pa sut y dywedaist?

J. Dywedais fy mod yn dda o ran fy iechyd.

W. Pa beth arall sydd arnat eisiau?

J. Wel, mae arnaf eisiau llawer iawn o bethau heblaw hynny.

W. Yr wyt braidd yn cyfrif iechyd yn beth dibwys, onid wyt?

J. Nac wyf, yn siwr; ond y mae pethau ag y rhoddaf fi twy o bwys arnynt na iechyd, cofia.

W. Pa bethau yw y rhai hynny, tybed?

J. Cael mynd allan gyda'r nos i fwynhau fy hun gyda'm cyfeillion, dyna i ti un peth.

W. Wel, aros am funud.

J. Mi arhosaf am faint a fynnot.

W. Sut y buaset yn mwynhau dy hun heb iechyd?

J. 'Rwyf yn meddwl y buaswn yn iawn, pe cawn fynd i ymblesera.

W. Na, yr wyt yn camsynied yn awr.

J. Camsynied am ba beth?

W. Onid wyt yn deall fod yn angenrheidiol i ti feddu ar iechyd cyn y gelli di na neb arall ymblesera?

J. Edrych, pwy yw y dyn acw?

W. Onid dy dad ydyw?

J. Ie yn wir, paid a son dim wrtho pa beth sydd gennym dan sylw.

W. Paham? Ond, o ran hynny, cywilydd sydd arnat, onide?

J. Gad inni droi yr ymddiddan at rywbeth arall. I ba le yr ai di, gan fy mod mor hyf a gofyn?

W. Mi af at Gruffydd i ddysgu rhyw adroddiad bychan erbyn heno.

J. Pa beth sydd heno?

W. Y Band of Hope.

J. Pa beth wyt yn feddwl wrth y Band of Hope?

W. Cyfarfod i blant fel ni ydyw, i'n dysgu ac i hyrwyddo yr achos dirwestol yn ein hieuenctid.

J. Pa beth fyddwch yn wneyd yno?

W. Rhai yn canu, a'r lleill yn adrodd, ac ereill yn dadleu. A ddoi di yno gyda mi heno? Dyma i ti le iawn i ymblesera.

J. Na, nid wyf yn addaw dod.

W. Paham? Tyrd. Mi ddeuaf heibio i ti wrth fynd, os y deuij

J. Mae arnaf ofn na chaf dded gan fy nhad; achos mae nhad, fe y gwyyddost yn dda, yn feddwyn cyhoeddus. Ac hwyrach na fydd yn foddlon i mi fynd i gyfarfod dirwestol.

W. Nid yw hynna ond rhyw esgus gennyf, rwy'n credu.

J. Na, nid yw'n esgus o gwbl.

W. Mae'n sicr o fod yn amgenach i ti na gwag rodianna hyd yr heolydd yma gyda'r nos.

J. Wel, mae'n rhaid i mi gyfadddef mai ti sydd yn dy le. Mae rhywbeth yn hudolus ynnot, nis gallaf dy wrthwynebu.

W. A ddeui di felly gyda mi?

J. Dof yn siwr.

W. O'r gore.

J. Gad im wybod ym mha le y byddwch yn ei gynnal?

W. Yn y Neuadd, wyddost.

J. Bydd y lle yn orlawn, mae'n debyg?

W. Fydd yno neb ond y rhai yr wyt yn eu hadnabod yn iawn. A fyddai yn well i ni ganu yno heno neu y noson nesaf, dwad?

J. Canu beth wyt yn feddwl? Alla'i ddim canu, cofia.

W. Gelli, John, ti elli ganu. Mi a'th glywais yn canu y nos o'r blaen.

J. Beth oeddyt yn feddwl am ganu yno, William?

W. Wn i ddim yn iawn, os na fyddai yn well i ni ganu,—“Ar wely gwellt mewn bwthyn llwm.” Mae honna yn un dda iawn.

J. Wn i ddim pa un ydyw honno.

W. Oni chlywaist ti erioed am dani?

J. Naddo yn siwr. Sut y mae tipyn o honi, William?

W. Mi adroddaf i ti un pennill a'r cydgan,—

“Ar wely gwellt mewn bwthyn llwm,  
Gorweddaï geneth fach.  
Hawdd gweld oddiwrth ei gwyneb llwyd,  
'Doedd Elen ddim yn fach;  
Yn llaw ei thad gafaela'n dynn,  
A'i llygaid bach yn llaith,  
A chyda llais crynedig gwan,  
Dywedai lawer gwaith,—

CYDGAN.—O, peidiwch a meddwi,  
O, peidiwch byth mwy;  
Ni fyddaf fi yma gyda chwi  
Ond ychydig bach yn hwy.”

J. Wel, dyna un iawn, onide?

W. A wyt yn meddwl y gwnaiff y tro?

J. Onid yw yn cydtyned yn hollol a'r achos dirwestol yma?

W. Ydyw, yn ddiau.

J. Wel, mi wnawn ein goreu i geisio ei chanu.

W. Wel, John, mae'n agos i amser dechreu. Mae'n rhaid i ni brysuero ymlaen. Awn yn awr.

*Glangwyrfaï, Waenfawr.*

R. J. OWEN.

## PA BEN I'R PAWL?

**M**YNYCH y dengys profiad inni fod dwy ffordd i wneyd peth,— y ffordd iawn a'r ffordd chwith, Dirfawr a phwysig yw y gwahaniaeth sydd rhwng y ddwy. Yn aml, byddai yn well o lawer peidio gwneyd y peth o gwbl na'i wneyd yn y ffordd chwithig. Gall y bwriad, yr amcan, fod yn un da a chanmoladwy; ond y mae'r ffordd, y dull, gymerir i gyrraedd yr amcan hwnnw yn feius.

Pa gysur gawn ni o brynnu brethyn da, drudfawr, os difethir ef yn ei wneuthuriad gan ryw fwngler o deiliwr? Pa flas ar wy, os yw Mary yn mynŷu ei andwyo yn y berwad?

Ar ddiwrnod gwygil, trymllyd, yn yr haf, yr oedd boneddwr yn rhodio yn yr ardd. Yn y man, gan ei fod yn teimlo yn swrth a chysglyd, y mae yn myned i'r hatdy deiliog i orffwys tipyn; ac yno y mae yn ymestyn ar y sedd, ac yn syrthio i gysgu. Dilynid ef o gwmpas gan arth anwes, ieuanc, yr hwn oedd dra hoff o'i meistr. Pan oedd ef yn cysgu, eisteddai hithau ar ei cholyn gerllaw, i gadw gwyliadwriaeth. Yn y man, dyna ryw fân wybed yn disgyn ar ei wyneb, gan aflonyddu arno yn ei gwsg. Deallodd yr arth ei fod yn cael ei boeni gan y pryfetach cŷs, a chan ddistaw lechwraidd godi ei phall drom ewinog, rhoes sydyn ddymod i'r aflonyddwyr hyn. Do, ond, wel —?

Eto. Ryw ddiwrnod oer yn y gauaf y mae dyn yn croesi yr afon ar y rhew; ond nid yw y rhew yn ddigon cryf i'w ddal, ac y mae yntau yn gwaeddi yn groch am gymorth, wrth suddo trwyddo. Canfu rhyw ŵr ef, a rhedodd tuag ato draws y rhew gyda phawf hir yn ei law. Yr oedd y dyn druan mewn ymdrech galed i gadw ei-ben i fyny yn y twll, a bron fierru gan yr oerfel. Estynnwyd pen y pawl tuag ato, a chymerodd yntau afael ynddo; ond llithrodd ei afael, a suddodd yntau yn ol i'r dwfr.

Cododd i'r wyneb drachefn, ac ail-estynnwyd pen y pawl iddo, cymerodd yntau ail-afael. Ond, gan fod y pen hwn i'r pawl yn rhew llithrig drosto, er pob ymdrech, collodd y truan ei afael drachefn, gan suddo yn ddyfnach nag o'r blaen, a'i nerth yn prysur gollu.

Daeth i'r wyneb unwaith eto, y trydydd tro, a'r tro olaf, gan frwydro am ei fywyd; ac os na lwyddai i ddal gyfael y tro hwn, nid oedd dim ond-suddo i fodd. Yn awr, neu byth, dyma'r cynnyg olaf; ac yn y cyni hwn, y mae'r truan yn gwaeddi,—“Pen arall i'r pawl,—pen arall!” Yr oedd y pen hwnnw yn sych, a di-rew. Chwim estynnwyd iddo y pen arall; gallodd yntau ddal ei afael yn hwn, a dringodd i ddiogelwch.

H. BRYTHON HUGHES.



## DAMHEGION CYMRU.

## I. YR ADRODDWR.

**L**AWER i hen ystori ysmala oedd ar lafar gwlad yn nyddiau ein hen dadau. Cyn i addysg ddod yn beth cyffredin, a phan nad allai fawr neb ddarllen nag ysgrifennu,—dim ond un, hwyrach, mewn plwyf cyfan, sef y person,—yn yr amseroedd tywyllion hynny, dweyd a gwrando hanesion oedd un o brif ddifyrion y werin.

Am y goreuon ohonynt, ceir mai damhegion oeddynt yn cynnwys rhyw wers, neu ffaith gwerth ei chofio. Yr oedd y Groegiaid yn hynod am ystoriau addysgiadol o'r fath; ac mewn oes fore daeth hen ŵr bach call a chraff, gan deithio led-led y gwledydd, i gasglu'r damhegion,—ei enw oedd Esop.

Bu hen ŵr rhyfeddol o graff ac ymchwilgar, rhyw ail Esop, yn byw ac yn treiglo yn ein gwlad ninnau ystalwm, sef yr hen Iolo Morganwg, o barchus goffadwriaeth; ac nid oedd digon na diwedd fyth ar ei wanc a'i raib at gasglu pob briwsionyn o'r hen bethau. Diolch calon iti, yr hen Iolo anwyl; hen Gymro iawn, "o waed coch cyfa," oeddyt ti. Ond dyma'r stori edrydd yr hen Iolo.

## II. Y FUWCH LAETHWEN LEFRITH.


Y Fuwch Laethwen Lefrith a roddai laeth eu gwala<sup>1</sup> i bob un a'i ceisiai; ac er y godreid arni, ni chaid diffyg un amser, er maint y nifer a'i godrai. A gŵr a yfai o'i laeth a elai'n iach o bob dolur, ac yn ddoeth lle y buasai annoeth, ag o ddiriaid<sup>2</sup> a elai'n ddedwydd.<sup>3</sup>

Ac o amgylch y byd y cerddai; a bynnag o le ydd elai<sup>4</sup> hi a lenwai a'i laeth y maint llestri a gaed,<sup>5</sup> ac a gadewai loi ar ei hol i bob dyn doeth a dedwydd. Ac o honi y cafwyd gwartheg blithion<sup>6</sup> i'r holl fyd.

Gwedi treiglaw<sup>7</sup> holl ynys Prydain er bendith a daioni i'r wlad a'i genedl, hi a ddaeth hyd yn Ystrad Tywi; a chan deced a gwyched<sup>8</sup> ei gwedd, e fynnai wŷr y wlad ei lladd a'i bwyta. A phan oeddynt ar ergyd<sup>9</sup> ei lladd, hi a ddiflannes o rwng eu dwylaw, a mwyach nis gwelwyd fyth; a thy fyth sydd yn y lle a elwir y "Fuwch Laethwen Lefrith."

---

<sup>1</sup> Digionedd. <sup>2</sup> Drygionus. <sup>3</sup> Doeth a da. <sup>4</sup> A pha le bynnag yr elai. <sup>5</sup> Pa faint bynnag o lestri a gaed. <sup>6</sup> Llaethog. <sup>7</sup> Teithio. <sup>8</sup> Tlws a godidog. <sup>9</sup> Ar an, yn ymyl.



"Gwelwn gylchau y planedau, cylch hirgrwn comed, a'r haul yn ganol i'r gyfundrefn."

#### ESTRON O WLAD Y SER.

**E**STRON o wlad y ser ar ei dro trwy'r cysawd heulog yw comed. Feallai na fu yma erioed o'r blaen, ac ni ddaw eto. Feallai mai hen ymwelwr yw, hen gyfaill i'r haul a'r planedau, wedi crwydro draw acw, ymhell i ganol gwlad y ser; ond daeth yn ol. Pan ddaeth yma y tro cyntaf, feallai nad oedd creadur o ddyn wedi ymddangos ar lwyfan y greadigaeth; os oedd, ni freuddwydiodd erioed am astudio seryddiaeth. Feallai pan ddaw y tro nesaf, bydd y dyn olaf wedi diflannu; bydd ei esgryn yn dweyd ei hanes yn y creigiau. Bydd yr haul wedi oeri y pryd hynny, rhyw leuad oer fydd ef. Bydd y lleuad wedi mynd i rywle; ond bydd yn bod hefyd, cofiwch. Feallai mai dyrnod gaiff gan ryw fyd arall, nes y bydd yn chwillfriw mân, a'i darnau yn cychwyn ar daith bell, megis comed, i dalu ymweliad cyntaf â rhyw wlad a'i thrigolion sydd ymhell i fyny acw.

Bron nad wyf yn dychmygu clywed y darllennydd yn gofyn,—“Beth yw comed?” Clwstwr o fân gerrig metelaidd yw, y naill



Yn ymddyrau yn erbyn y llall hyd nes ant yn dân ysol; yn ymruthbro trwy'r eangder dan ddylanwad deddf atyniad yr haul neu ryw haul arall; ac mewn ymdarwiad â'u gilydd dan ddylanwad yr un ddeddf yn y cyfryw ghwstwr.


Nid mewn cylch crwn megis planed y teithia comed. Tra yr erys y planedau i gylchdroi o'r bron ar yr un gwastadedd, nid felly comed. Estron yw ef o ryw wlad arall; ni syrth ef i mewn i ddeddfau y cysawd heulog, ond aiff yn ei gylch ei hun. Cylch hirgrwn yw, yn torri ar draws a lled cylchau crynion y planedau. Sylwer ar y darlun cyntaf. Yma cawn gipolwg ddychmygol, megis, ar y cysawd heulog. Gwelwn gylchau y planedau, cylch hirgrwn comed, a'r haul yn ganol i'r gyfundrefn. Daw comed y darlun yn ei ol i gymydogaeath yr haul o dro i dro. Gwelir fod pen pellaf ei gylch hir tudraw i gylch y blaned bellaf yn ein cysawd ni; bydd y comed o'r golwg i ni y pryd hynny, ond daw yn ol cyn hir i ymweled â'r haul drachefn, cawn ei weled y pryd hynny. Gwyddom am lawer o'r comedau a ddesgrifiwyd, hynny yw, rhai berthynant i'n cysawd ni; troant mewn cylch hirgrwn, a deuant yn ol o dro i dro.

Ond y rhai gaiff ein sylw yn awr yw y comedau mawr disglæer hynny a deithiasant ymhell o wlad y ser i gymydogaeath ein haul ni, ac a ant yn ol, byth i ddychwelyd mwy; o'r rhai ni welir ond un megis mewn oes dyn, am y rhai y clywsom ein tadau yn sôn. Nid mewn cylch hirgrwn (*ellipse*) y troant hwy, ond mewn cylch parabolaidd (*parabola*). Dywedais fod yr haul yn un pen i gylch hirgrwn, a'r pen arall tuhwyt i gylch y blaned bellaf. Cylch hirgrwn yw *parabola*, ond mae ei ddau ben mor bell oddiwrth eu gilydd fel y mae y pellder rhyngddynt yn anfesurool. Yn awr, dychmygwch eich bod yn cymeryd cylch hirgrwn, sydd a dau ben iddo wrth gwrs, a gwagwch y naill ben at y llall; yna aiff y cylch hirgrwn y grwn. Yn awr, cymerwch y cylch hirgrwn eto, yna nid yw yn anhawdd credu y gellir tynnu y ddau ben y naill oddiwrth y llall yn anfesurool bell. Hynny yw, gallwch adael un pen i'w gylch yma, a chymeryd gwibdaith i ryw seren bell gyda'r pen arall. Felly, cylch yw *parabola*, sydd a'i ddau ben yn anfesurool bell oddiwrth eu gilydd. Yn awr, gan mai cylch sydd a'i ddau ben yn anfesurool bell yw *parabola*, rhaid felly fod pob comed a deithial ar y cyfryw gylch yn cymeryd anfesurool amser i gyflawni ei daith. Comedau felly yw yr estroniaid disglæer ddeuant ambell waith o'r wlad bell acw ar dro i'n cysawd ni.

Dywedais mai clwstwr o gerrig ydynt, a'r rhai hynny yn dân ysol dan ddylanwad yr ymdarwiadau mynych yn eu plith.

Tybia ambell un fod gan bob comed gynffon, ond nid felly. O ben y comed, neu y *coma* fel y gelwir ef, y daeth y gynffon. Nwy

yw, yn deilliau o'r *coma*, yr hwn sydd yn gyfansoddedig o'r cerrig, metelaidd nodwyd. Tybia ereill fod pob comed a'i gynffon o'r tu ol; ond nid felly o angenrheidrwydd. Pan wel y seryddwr gomed newydd, gwel ef megis pwynt o oleuni, fel seren fach yn disgleirio trwy niwl tenau, draw ymhellafon ein cysawd y mae; ymlaen, ymlaen, y daw o hyd, tua'r haul mae ei nod. Sylwir o nos i nos ei fod yn prysur dadblygu cynffon; hyn sydd am fod yr amdarawiadau ymhlith cerrig y *coma* yn gyflymach, ac wrth gwrs yn lluosocach pa nesaf bo'r comed i'r haul, oherwydd atyniad yr haul, ac o angenrheidrwydd cyflymdra ar y daith. Gwelir comed a'i gynffon yn pwyntio oddiwrth yr haul yn ddieithriad. Sylwer ar y darlun isod.



COMED A'I GYNFFON YN TROI O AMGYLCH YR HAUL.

Gwelir y comed a'i gynffon o'r tu ol yn dod i gyffiniau yr haul; ond o'r tu blaen wrth ymadael. Credir mai nerth ataliol yng nghyffiniau yr haul yw yr achos o hyn, nerth trydanol feallai. Cyfansoddir cynffon comed, nid o un math o nwy, ond o laweroedd; hefyd, canfyddir fod gan yr haul ddylanwad ataliol cryfach ar un nwy na nwy arall. Felly, gellir dosrannu y gynffon i dair rhan arbennig,— (1) y gynffon syth, a atelir neu wthir ymaith gan yr haul gyda nerth sydd ddeng waith cryfach na nerth atyniadol yn y comed, ac yn gyfansoddedig o hydrogen; (2) y gynffon ledgam a charbonaidd, lle y ceir y nerth atyniadol ac ataliol mewn cyfartaledd; (3) y gynffon hanner cron o'r bron, haiarnol ei chyfansoddiad, a'r nerth atyniadol yn rhagori ar eiddo yr ataliad.

Er fod maintioli comed yn aruthrol, a'i gynffon yn gan millwn o filldiroedd ei hyd, eto ni phwysa ond ychydig. Gwneir ei gynffon o nwy mor deneu, fel yr ai yr oll o hono i le troedfedd ysgwar. Profir hyn yn eglur oherwydd nad yw comed yn dylanwadu y mymryn lleiaf ar gwrs y planedau, a gwyddom i'r ddaear deithio trwy gynffon comed yn ddirwystr.

Nid mewn pen comed yn unig y ceir y cerrig metelaidd hyn; rhuthrant yma a thraw drwy'r eangder. Nid ydynt yn weledig, am nad ydynt yn cynnwys gwres a than. Ambell dro y deuant â chyflymdra rhyfeddol i gyfyrddiad a'r ddaear, rhuthrant drwy'r awyrgylch, ac mae y fath *friction* cydrhyngddynt a'r awyr yn creu digon o wres i'w troi yn llwch. "Dreigiau," neu "ser syrthio" y geilw rhai hwy, onide? Meteorau y geilw y seryddwr hwy. Bydd ambell un ohonynt yn llwyddo i gyrraedd wyneb y ddaear. Daeth

un i Blaenau Ffestiniog felly yn ddiweddar; feallai mai darn o gomed oedd ryw dro, pwy ŵyr?\*

Ni welodd y mwyatrif ohonom gomed disglær erioed. Daw un eto cyn hir, comed Halley, yn 1910; bu o'r blaen yn 1835. Bydd y seryddwr yn canfod comed ambell dro ym mhellafon yr eangder, yn teithio a'i gwrs yn hollol groes i gyfeiriad y



cysawd heulog. Myned heibio bydd ef. Ar ei dro i ryw gysawd heulog arall y mae. Y comed disgleiriaf groniciwyd gan ddyn ydoedd comed Donati yn 1859. Gwelir ef yn y darlun uchod. Tybid yn yr hen amserau fod i gomed ddylanwad dinistriol ar y ddaear, gan ei fod yn rhagfynegi rhyfeloedd a newyn; a mawr fyddai y gweddiau a'r gwaeau. Deuant a newyddion da hefyd. Ar ol comed mawr 1858, daeth y Diwygiad mawr crefyddol i Gymry yn 1859. Estron o wlad bell ar ei dro ydoedd comed Donati, ac aeth yn ei ol; feallai na ddaw byth y ffordd yma eto. Os daw, yn y flwyddyn 3158 y bydd hynny. Bron nad wyf yn dychmygu ei weled, os nad ei glywed, yn rhuthro ymlaen yn gyflymach na bwled o'r un dryll. Feallai mai gydag ef o'r wlad tu draw i'r ser y daeth y Diwygiad yn 1859. Tybed na ddaw Diwygiad eto nes y daw yn ol ymhen mwy na mil o flynyddoedd?

SIGMA.

obsin

\* Ni chaniata gofod i mi ymbelaethu ar hanes comedau, dwedwyd am danynt yng nghyfrifol X. o'r CYMRU'R PLANT, mis Medi, 1901.

## ADGOFION FY NHAID.

(ALL GYFRES.)

GAN DAID.

## II. RHOBART UNFRAICH.

**Y**R oedd Rhobart yn gwasanaethu yn Ty Mawr Clynog. Un diwrnod, yr oedd wrth y gorchwyl o lifo pladuriau. Yn anffortunus, aeth coes y bladur i gyffyrddiad ag un o olwynion y peiriant, yr hyn a achosodd i'r erfyn awchlym anafu ei fraich yn y fath fodd, fel y gorfuwyd ei thorri ymaith wrth ei ysgwydd. Gwellaodd yn gydmorol fuan, am ei fod yn ŵr o gorff cryf ac iachus; ond ar ol hynny, yr oedd yn fyr o un o'i aelodau mwyaf gwerthfawr. Er hynny, bu yn ymdrechgar iawn i ennill ei fywoliaeth, a chadw ei hun a'i deulu, yn cynnwys ei wraig, Mari Jones, a nifer o blant.

Bu yn trigo am flynyddau lawer mewn lle o'r enw Ffynnon Wen, yn y ty canol o dri oedd dan yr un to, ar ochr y ffordd sydd yn arwain o Bontlyfni tua Phont y Cim, ar fin yr afon Llynwy.

Yr unig ddull oedd ganddo i ennill ei fara am dymor hir oedd gwneyd negesau i'r ardalwyr, trwy fyned i Gaernarfon bron yn ddyddiol, gyda chawell ar ei gefn, yn yr hwn y dygai lwyth trwm yn bur fynych, wrth fyned a dyfod,—ymenyn ac wyau, i fyned i'w cyfnewid yn y dref am bethau ereill i ddod yn ol. Un nwydd neillduol fyddai ganddo yn dod yn ol, a byddai rhywrai ym mhob croesffordd ac ym mhob ty yn disgwyl am dano, oedd burum, a hwnnw yn furum Citi Moris, Stryd Llyn. Dygai ef mewn potel alcan enfawr, weithiau yn y cawell,—a hwnnw, wrth ymgorddi ar ei gefn, yn saethu y corcyn ymaith; a'r canlyniad yn aml fyddai dod blas ac arogl y burum ar y cyfan oll o'r nwyddau ereill a fyddai yn y cawell,—byddent de, siwgr, coffi, a phethau cyffelyb. Bryd arall, dygai hi yn ei unig law, ac arwest y cawell am ei dalcen, i ddwyn y baich yr holl ffordd.

Oddeutu tri ugain namyn pump o flynyddau yn ol, digwyddodd wneyd llifddwfr arswydus, fel y bu i'r afon Llynwy ymchwyddo i faintioli a grym anesgrifiadwy. Yr oedd tai y Ffynnon Wen, y naill a'i dalcen yn y ffordd, a'r llall a'i dalcen ar fin yr afon. Erbyn hyn, yr oedd yr afon yn ymrolio gyda'r fath nerth a chyflymder a thwr, nes galw holl drigolion y cwmpasoedd i edrych yn syn uwch ei phen yn ceisio ymwithio o dan fwa y "bont hirfaith, y bont a'r gwaith gwiw." Yr oedd y bont yn crynnu fel cangen, nes ofnid am ei bodolaeth bob munud.

Ond, yn sydyn, galwyd sylw pawb at y ffaith fod yr afon yn brysur dynnu dan sylfaeni tai y Ffynnon Wen, a gwelid fod yr agosaf i'r afon yn prysur chwalu i lawr yn deilchion. Yn hwn y trigai hen

ferch ddyddorol. A chyn y gallesid cludo ond ychydig o'i chelfi i fan diogel, yr oedd ei gwely yn myned yn ei grynswth ar wyneb yr afon tua'r môr, a'r iar ar ei ben, yn edrych yn dawel ac hamddenol; ac ymhen ychydig funudau, nid oedd yno ond olion anneddyr yr hen ferch, a'r un modd yr annedd-dy agosaf ato, lle y trigai ein harwr. Ond buwyd yn llwyddiannus i gludo ei holl gelfi ef dros y ffordd i gae Llynngela. Y mae un ty eto yn aros yn gog-golofn am y gweddill aethant yn aberth i'r llifddwfr. A'r Sabboth oedd y diwrnod hwnnw.

Ar ol y trychineb yn y Ffynnon Wen, symudodd Rhobart Jones i aneddu i'r Druid Inn, y mhentref y Swan, annedd-dy helaeth a arfaethwyd unwaith i fod yn "dŷ cwrw," chwedl William Griffith, Dolifan, ond methodd pob ymgais a wnaed ynddo i werthu diodydd meddwol yn llwyr a hollol. Dyddorol iawn a fyddai yr olwg ar Rhobart Jones yn palu ei ardd gyda ei un fraich, ond fe wnaï hynny, a phlannu ei gloron a gwahanol lysiau ereill, yn fwy trefnus nag y gwnaï llawer un gyda dwy fraich.

Daeth hetyd i allu pwr casu trol fechan, a merlyn bychan gwineu-goch a alwai Capten; a bu yn ofalus iawn o hono am dymor hir iawn, ac mewn canlyniad, bu Capten yn dra gwasanaethgar iddo, er ei fod cyn iddo ei gael wedi anafu ei goes flaen, yr hyn a barodd iddo fod yn gloff. Elai i Gaernarfon bron yn ddyddiol, a dygai ei lwythi gartref yn hollol ddiogel. Un diffyg a ystyrriid yn hanes Rhobart Jones oedd hwn,—byddai yn llawer iawn o'r dydd arno yn cychwyn ei daith i'r dref, ac mewn canlyniad, hi fyddai yn hwyr iawn arno yn dychwelyd, am y cymerai gryn amser i Capten drafaelu gyda llwythi. Er hynny, yr oeddynt yn dra sicr o gyrraedd gartref yn ddiogel. Ond os disgwyliid rhyw neges gyda Rhobart, yn enwedig os byddai eisiau pobi drannoeth, byddai yn ofynnol aros heb fyned i'w gwelyau am o leiaf dair awr yn hwy na'r arferiad gyffredin, i aros cael burum i roi eples dros y nos.

Ni fyddai byth yn arfer curo Capten, ond yn gweiddi "chip chip" yn ddidaw, nes y byddis yn clywed ei lais am bellder ffordd. Un tro ar y ffordd gartref, yng nghoed y Llyn, digwyddodd daraw ar fenyw hollol adnabyddus iddo yn ymlwybro o'i flaen tua'i chartref, ac yr oedd y ffordd, er lleted oedd, yn rhy gul iddi, gan ei bod wedi cael ei gwala o ddiodydd meddwol, fel yr arferai yn lled fynych. Wedi i'r hien wron ddod o hyd iddi, mynnai geisio dringo i'r drol, ac am fod ei lwyth yn digwydd bod yn llai nag arfer y tro hwn, fe dosturiodd wrthi. Ond wedi iddi prin eistedd, dechreuodd dorri ar siarad yn isel am y Methodistiaid, yr hyn oedd yn bur ddolurus i Rhobart; ac heb fyned ond ychydig rydau ymlaen,—“We, We,” meddai; a llelai,—“Dos i lawr o fy nhrol i, ddynes, neu dyma y chwip yma yn disgyn ar dy gwman di.” A bu raid ufuddhau iddo

ar unwaith. Dro arall, bron yn yr un llecyn ar y ffordd, ar noswaith dywyll wlawog, canfyddai hen ŵr yn gorwedd yn ffos y clawdd, wedi bod yn ymdroi yn y plas yr ochr arall i'r wal, a llwytho yn rhy drwm o'r diodydd a'i taflodd i'r ffos, fel llawer ereill. Wedi stopio Capten, cyfarchodd y dyn yn y ffos,—

"Beth wyt ti yn wneyd yn y fan yna?"

"Gwneyd fy fortiwn," oedd yr ateb, "dos yn dy flaen."

"Fedlyiwn yn wir," meddai Rhobart, "ti gei fynd i fyw arni yn bur fuan. Mae dy garedigion yn parotoi dy le yn Gehenna. Chip, chip," meddai, ac ymlaen ag ef. Ond o dosturi, fe anfonodd at berthynasau y meddwyn i'w hysbysu o'i gyflwr truenus yn ffos y clawdd.

Ymdroais ormod, ysywaith, cyn crybwyll am y rhinweddau pwysig oedd yn Rhobart Jones. Yr oedd yn ddiagon cywir a gweithgar yn Brynaerau, yn areithiwr hyawdl ar ddirwest, ac yn blaen a didderbyn wyneb.

Ond y mae yntau wedi ei gymeryd oddiwrth ei waith at ei wobers llawer o flynyddau.

### BRIALLU PARCH.

Ar fedd cyfeilles ieuanc, rinweddol.

**T**RIST yw ceisio canu coffa  
Geneth ieuanc deunaw oed,  
Gwymppodd fel y ddeilen wanna  
Cyn yr haf oddiar y coed;  
Ond gwasgaru peraroglau [phryd;  
Wnaeth wrth gwympo'n wael ei  
Mae'r adgofion am ei gwenau  
Heddyw'n beraroglau i gyd.

Cafodd adwaen Crist yn Geidwad  
Yn moreuddydd glân ei hoes,  
Ar ei ben yn llawn o gariad  
Llawer blwch o enaint roes;  
Rhan na ddygir oddiarni  
A ddewisodd iddi ei hun,—  
Y dewisiad sydd yn rhoddi  
Hawl i gwmi Mab y Dyn.

Bu ei sanctaidd ddymuniaidau  
Fel pelydrau lawer pryd  
Yn gwasgaru tew gymylau  
Ei gofidiau yn y byd;  
Mae'i dymuniad olaf bellach  
Wedi cael ei fythol le,  
Ni raid wylo-ganu mwysach,—  
"O! na bawn i fel Efe."

Cyfrinachau'r byd tragwyddol  
Glywai hon mewn adnod fach,  
Teimlai chwason byd ysbrydol  
Yn ei gwneyd yn eneth iach;  
Daeth yn ddigon cref yn union,  
I roi braw ar bawb o'i rhyw,  
Ac i dorri mewn rhybuddion,—  
Clywodd hon gyfrinachau Duw.

Fel yr Iesu dioddefodd  
Llawer iawn heb unrhyw gwyn,  
Megis yntau ni achwynodd  
Fod un groes yn drom i'w dwyn;  
Croes afiechyd oedd y drymaf  
Bwysodd ar ei hygydd wen,  
Erbyn hyn mae'r blodau tecaf  
Wedi tyfu drwy y pren.

Marw wnaeth pan oedd y fwyddyn  
Ryfedd hon yn dechreu byw,  
Marw wnaeth pan oedd y dyffryn  
Gulaf rhynddi hi a Duw;  
Ond pan fydd y don ddiwedda  
Ar y traeth yn marw'n wan,  
Dyma un o ferched Gwallia  
Fydd yn sefyll yn ei rhan.

## IDAHO.

Ionawr 21, 1904.

**A**R noswaith dawel, ym mis Ionawr, yng nghwmni tri o Gymry ereill, ac ambell i bluen o eira yn disgyn ar y ddaear, meddyliais yma, yn y bwthyn bychan yng ngorllewin America, mai dyddorol fuasai rhoi gair o hanes Idaho i blant bach Cymru.

Saif Idaho yng ngogledd orllewin Unol Dalaethau yr Amerig. Hi yw y dalaeth agosaf ond un i'r Môr Tawel.

Er nad oes dim rhyw debygolrwydd mawr rhwng Idaho a Chymru, eto, mae yma wlad brydferth iawn. Mae Idaho ychydig yn boethach na Chymru yn yr haf, ac yn gynhesach yn y gauaf. Nid y'm ni yn cael rhyw lawer o wlaw fel y chwi yng Nghymru. Yr wyf yn cofio, pan yng Nghymru, aml i Sul, mor anhawdd fyddai i blant a hen bobl fynd i'r capel o'r wlad, gan y byddai y gwynt a'r gwlaw yn curo. Fwy nag unwaith y torrodd fy umbrella; a'r gwlaw yn curo arnaf yn ddirugaredd.

Yma, gwahanol iawn ydyw,—dim gwlaw ond ychydig yn y gwanwyn a diwedd y flwyddyn. Ni fyddwn ni byth yn Idaho yn edrych ar y cymylau am wlaw, nag yn dal ein gwynebau i gael gweld ffordd mae'r gwynt pan yn torri gwair. Byddwch chwi, y plant yng Nghymru, yn sicr o ofyn gan hynny,—“Sut mae eich gwair yn tyfu heb wlaw?” Wel, byddwn yn dod a dwfr mewn ffosydd allan o'r ffos fawr. Bydd gennym gae clofer yn y fan hyn; wedyn, bydd y ffos fach hon yn rhedeg ar hyd y cefn uchaf yn y cae. Yna, byddwn yn gollwng y dwfr ar yr holl gae. I'r diben hwn bydd dyn a elwir yn “irrigating man,” sef y dyfrhawr, gyda'i esgidiau uchel at ei ben glin, a'r rhaw yn arwain y dwfr i bob cornel o'r cae. Ac ar ol mynd trosto, bydd yn symud i'r cae nesaf, yn yr hwn y bydd yd neu wair, a gwneir yr un peth â hwn drachefn. Byddwn yn dyfrhau fel hyn dair gwaith bob haf.

Byddwn yn torri'r clofer ddwy neu dair gwaith bob haf, a'r gwair elwir alfalfa, dair neu bedair gwaith bob haf. Felly, ni byddwn ni ddim yn cael diwrnod o fôr ar ol y cynhauaf gwair, achos bydd y gwair yn bryd i'w dorri drachefn ymhen rhyw fis, ac felly hyd y trydydd neu y pedwerydd crop. Bydd yr ail grop yn gyffredin yn fwy na'r crop cyntaf.

Byddwn ni ychydig yn wahanol hefo cario'r gwair i chwi yng Nghymru. Bydd ein gwagen gyda dau geffyl ochr yn ochr yn ei thynnu, a'r *driver* yn eistedd ar ben y llwyth bob amser, byth yn cerdded. Ar ol mynd at y das, ni bydd yn cymeryd picfforch i'w ddadlwytho, ond bydd ganddo bedair pic fawr fel bachau, a rhaff wrth honno, wedi eu sicrhau wrth bolyn uchel. Wedyn, bydd y dyn

yn plannu y fforch a'r pigau cam hirion yna mewn darn o'r llwyth. Bydd ceffyl wedi ei sicrhau wrth y pen arall i'r rhaff. Yna, byddis yn gyrru y ceffyl yn ei flaen; felly bydd darn o'r llwyth yn cael ei godi i'r awyr. Bydd y daswyr yn gafael mewn rhaff fechan sydd mewn cysylltiad â'r fforch fawr, ac yn ei thynnu yn sydyn, pan y daw i'w le priodol ar y das. Yna, bydd yn gollwng y gwair gyda brys. Os bydd dyn yn deall y fforch hon, fe ddadlwythir y llwyth ar bump neu chwe fforchiad.

Cewch hanes y mynyddoedd a'r defaid eto.

*Nampa, Idaho.*

OWEN J. DAVIES.

PAID RHOI DY FYS YN Y POTES.

(DARN I'W ADRODD.)

**G**WNEYD, cawl, un diwrnod, 'roedd  
Beti y Wig,—  
Un fedrus am hynny oedd Beti,  
A thafodd ryw ddernyn anferthol o  
gig,  
I'r crochan yr hwn oedd yn berwi;  
Ond pwy a ddaeth heibio, ond John,  
Bwlch y Gwlaw,  
A sylodd yn wancus i'r browes,  
Ac yna fe'i profodd, ond! llosgodd ei  
law,—  
Wrth roddi ei fys yn y potes.

Bu Doli, gwraig Dafydd, a Sali Tre  
Faes,  
Yn fraeo yn enbyd un diwrnod,  
Oherwydd fod Sali yn taenu ystraes  
Pur hyllion am Dafydd ei phriod;  
A phwy a ddaeth atynt ond Gwen,  
Tyddyn Du,  
I gelsio tawelu'r ddwy ddynes,  
Ond druan o Gweno! bu gwae iddi hi  
Am roddi ei bys yn eu potes.

Un tro, fe gynhaliwyd Risteddfod o  
fri,  
Mewn ardal pur enwog yng  
Nghymru,  
Ond Ow! yr helyntion a'r ffrwgwd a fu  
Oherwydd rhyw gam gyda'r canu;  
Ond wale! Llew'r Dyffryn i'r llwyfan  
a ddaeth,  
I darfu yr helynt anghynnes,  
Ond buan y teimlodd mai methu  
a wnaeth,  
Wrth roddi ei fys yn eu potes.

Dau gariad pur serchog oedd Menrig a  
Mair,  
A oharu yn selog yr oeddynt, [ffair,  
Ond pan yn dyohwelyd un noson o'r  
Bu tipyn o gweryl cydrhyngddynt;  
A phwy oedd yn gwranddo ond Dewi,  
Waen Wen, [gynnes,  
A cheisiodd wneyd heddych yn  
Ond druan o Dewi! y ddau aeth i'w ben,  
Trwy iddo roi'i fys yn eu potes.

Gwaith hynod beryglus, a ffol, ydyw mynd  
I fusnes rhai ereill yn ddiâu;  
Rhyw helbul bob amser sy'n dyfod, fy ffrynd,  
I'r bobl sy'n hoff o gwerylau;  
Gan hynny, goddefwch i un fel myfi,  
Roi cyngor bach i chwi yn gynnes,  
Sef, gwylwch y tylwyth ymgeurus, da chwi,  
Ac na rowch eich bys yn eu potes.

*Llanfairfechan.*

E. JONES.





### DWY O BONTERWYD.

**D**YMA ddarlun o ddwy chwaer a fu yn llwyddiannus y flwyddyn ddiweddaraf i ennill y medalau arian gyda gwaith yr Ysgol Sul yn eu gwahanol ddosbarthiadau yng ngogledd Aberteifi. Yr oedd Lizzie Ellen Morgan yn gyntaf yn y dosbarth dan un ar hugain, catodd 99 o farciau allan o 100. Yr oedd Mary Morgan yn gyntaf ar ryw 120 o ymgeiswyr yn y dosbarth dan dair ar ddeg, cafodd hithau 99 o farciau allan o 100. Peth eithriadol oedd gweled dwy fedal yn yr un flwyddyn yn myned i ddwy chwaer.

Dwy ferch i Mr. a Mrs. Morgan, Ty'n Ffordd, Ponterwyd, ydyw y ddwy ferch ieuanc hyn. Mae Mr. Morgan yn un o flaenoriaid ffyddlaw'n Ponterwyd, ac yr oedd ei dad o'i flaen yn flaenor yn y lle hwn. Y mae Mrs. Morgan yn ferch i flaenor ffyddlaw'n ac ymdrechgar fu yn Cwmergyr, ac y mae yn chwaer i John Howells, yr unig

flaenor sydd yng Nghwmergyr ar hyn o bryd; iddo ef yn bennaf yr ydym i ddiolch fod capel Cwmergyr wedi cael ei gadw yn agored hyd yn hyn. Felly, gwelwn fod y ddwy ferch hyn yn hannu o ddyinion gweithgar o'r ddau du. Y mae Miss Morgan yn ferch ffyddlawn, ufudd, gyda gwaith yr Arglwydd; yn athrawes ffyddlawn a gweithgar yn yr Ysgol Sul. Mae'n gysur mawr i ddyinion yn y byd yma weled eu plant yn dilyn ol eu henafiaid yn yr hyn oedd yn dda ynddynt. Athrawes yn Ysgol y Bwrdd yn Ponterwyd, o dan Mr. R. Ll. Jones, oedd Miss Morgan. Bu yn llwyddiannus y llynedd yn arholiad Ysgoloriaeth y Brenin, ac erbyn heddyw y mae yn athrawes gynorthwyol yng ngwlad y Saeson, yn Sheffield. Profa hyn fod ynddi benderfyniad cryf,—myned o Bonterwyd, lle heb fod dros chwe milldir o Blinlimon, i ganol Lloegr. 'Does gennyf ddim ond dymuno ei llwyddiant yn y dyfodol. Y mae Mary, ei chwaer ieuangaf, yn cychwyn yn rhagorol iawn; gobeithio y caiff hi iechyd a nerth i ddalfalbarhau i tyned ymlaen ar hyd y llwybr y mae wedi cychwyn arno.

Rhaid dweyd fod amryw o fechgyn a merched rhagorol wedi codi ym Mhonterwyd yn ddiweddar iawn. Dyma enwau rhai ohonynt,—David Jones, B.A., ysgolfeistr yn Essex ar hyn o bryd; y Parch. John J. Thomas, B.A., Rhaiadr, a Kate E. Lewis, athrawes gynorthwyol yn Sir Fon. Ac y mae yn dda gennyf ddweyd fod yr oll o'r rhai hyn wedi bod yn llafurus gydag arholiadau yr Ysgol Sul, ac y maent oll wedi ennill gwobrwyon yn yr arholiadau sirol.

Ac y mae yma ambell i gerddor da wedi codi o Bonterwyd hefyd. Un o fechgyn Ponterwyd ennillodd y *baritone solo* yn yr Eisteddfod Genedlaethol ers rhyw dair blynedd yn ol, David Evans ydyw enw y dyn ieuanc hwn, ac yn Llundain y mae yn preswyllo yn awr. Yma y magwyd y Prifathraw Rhys o Rydychen, a'r Parch. David Morgan, Pen Llwyn, a'r Parch W. Morgan, Garn. Ac y mae yma ragolygon am fechgyn a merched rhagorol eto i wneyd eu rhan i gael y byd yma yn eiddo Duw a Christ.

### L L Y T H Y R A U .

**Y** MAE yn y Deyrnas Gyfunol gymaint a 60,000 o lythyr-gludwyr (*postmen*). Mewn blwyddyn y mae y rhain yn cludo ac yn cyflwyno 3,600,000,000 o lythyrâu, cardiau post, sypynau, cylchlythyrâu, *boxes*, a newyddiaduron. Ar gyfartaledd, rhydd hyn tua 200 y dydd i bob cludydd, a thua 90 o lythyrâu, &c., i bob un, yn ddyd, dynes, a phlentyn, yn y deyrnas yn flynyddol. Fwy all draethu ein dyled i'r Llythyrdy?

## GOFAL, DUW AM YR AMDDIFAID.

YR oedd gweddw unwaith yn byw yn yr Iseldiroedd (Holland), ac heb ddim ymborth ganddi yn y ty i'r plant bychain. Un noson, ar ol iddi fyned ar ei gliniau i weddio Duw am iddo anfon ymborth iddynt, meddai y bachgen bach hynaf wyth mlwydd oed,—

“Mam, mae y Beibl yn dweyd wrthym fod Duw wedi anfon cigfrain â bwyd i borthi y proffwyd Elias.”

“Eithaf gwir,” meddai y fam, “ond 'roedd hynny yn yr amser gynt.”

“Ond,” meddai y bachgen bach, “y peth mae Duw wedi ei wneyd unwaith, mam, gall ei wneyd eto. Mi agoraf y drws i'r gigfran gael ehedeg i fewn â bwyd i ni.”

Ac felly y gwnaeth. Yn fuan wedi iddo agoryd y drws, daeth boneddwr crefyddol heibio, ac wrth ganfod goleu yn y ty, aeth i mewn, a gofynnodd beth oedd y rheswm fod drws y ty yn agored yr amser hwnnw o'r nos. Dywedodd y weddw mai y bachgen bach oedd wedi ei agor er mwyn i Dduw anfon cigfrain ag ymborth iddynt i dorri eu newyn.

“O,” meddai y boneddwr, “myfi ydyw y gigfran mae Duw wedi ei anfon.”

Aeth a'r bachgen bach gydag ef gartref, a danfonodd ef yn ol a chyflawnder o ymborth iddynt. Wedi swpera, aeth y bachgen bach allan i ddrws y ty i ddiolch yn gynnes i Iesu Grist, oblegid gwyddai ei fod wedi ateb gweddi ei fam, drwy anfon ymborth iddynt fel teulu pan oedd eu bwrdd yn wag.

Dywedodd ein hen gyfaill hoff, y Parch. E. Phillips, Castell Newydd Emlyn, pan yn pregethu yn ddiweddar yn Aberaman,—  
 “Os bydd torth o fara i'w chael yn rhywle tu yma i Jupiter, buasai yn cael ei hanfon gyda chyflymdra y fellten, os byddai eisiau ar un o blant Duw.” Y mae pob creadur yn wrthrych gofal Duw, ac y mae manylder ei otal am danynt yn destyn syndod. Dywed y Psalmydd ei fod yn rhoddi i bob creadur *ei fwyd*, hynny yw, y bwyd sydd yn ateb i'w archwaeth, ac yn gymwys i'w natur, *eto* gofala, meddai, am roddi ei fwyd *yn ei bryd*. Weithiau cymer dyn ambell greadur o dan ei nawdd, ond mae'r creadur hwnnw yn gorfod colli ei bryd yn aml. Ond gofala Duw, meddai y Psalmydd, fod pob creadur yn cael ei fwyd yn ei bryd, ie, mor gyson a phe byddai y creadur yn medru cadw'r amser ei hun. Cofied yr amdditad ei fod ef yn wrthrych neillduol gofal Duw. Os ydyw, fel y bachgen bach hwnnw yn yr Iseldiroedd, yn ymddiried ynddo, ac yn disgwyl wrtho, bydd yn rhaid i Dduw fyned yn dlawd ei hun cyn y bydd ef mewn eisiau, oblegid honna yr hawl iddo ei hun o fod yn Dad Fr amddifaid ac yn farnwr y weddw. “Gad,” meddai, “dy amddifaid. Myfi a'u cadwaf yn fyw, ac ymddirieded dy weddwo

yinnof fi." Dywedwn ynte wrth blaet amddifaid Cymru,—ymddiried-  
wch ynddo, a chofiwch eiriau swynol Ceiriog,—

"Mewn bwthyn di-addurn yn ymyl y nant,  
Ymddiried i'r Nafodd mae'r weddw a'i phlant;  
Ni fedd yr holl gread un plentyn a wad  
Fod byd anweledig os colodd ei dad."

*Aberdar.*

W. O. POWELL.

### BYDDWCH YN BREGETHWR.

**E**FALLAI na fuoch chwi, ddarllenwyr ieuanc, erioed yn meddwl  
fod yr Arglwydd Iesu yn disgwyl ac yn gorchymyn i chwi a  
minnau droi yn bregethwyr oll. Ond y mae yn eithaf gwir. Nid  
wrth y disgyblion yn unig y dywedodd,—“Ewch a phregethwch i'r  
holl fyd,” ond wrth bawb yn ddiwahaniaeth. Mae yn bur debyg na  
fuoch chwi erioed yn meddwl am y peth fel hyn.

Nis gwn a glywsoch chwi bobl yn dweyd weithiau, wrth feddwl  
am eu hanallu i wneyd llawer o ddaioni, megis rhywrai,—“Na, yn  
wir, 'does geni ddim talent at y fath waith. Fedra i wneyd dur  
dros Iesu Grist.” Yn awr, os digwyddwch chwi glywed rhai yn  
siarad fel yna eto, dywedwch wrthynt,—“Peidiwch a chamgymeryd  
yn wir. Y mae Iesu Grist yn dywedyd, 'Ewch a phregethwch'  
wrthyich chwithau; a gall pawb wneyd hynny.”

Mewn gwirionedd, nis gall neb o honom beidio a phregethu, pe  
ceisiem, oblegid y mae ein holl weithredoedd a'n holl eiriau yn  
bregethau. A chofiwch chwi, fy mhiant bychain, fod popeth fyddwch  
yn ei wneyd yn gadael ei ol ar y bobl fydd o'ch cwmpas. Yr ydych yn  
pregethu yn eglur iawn i'r rhai o'ch amgylch pan fyddwch yn actio  
celwydd, er na fyddwch o bosibl yn dywedyd celwydd yn blaen. A  
wyddoch chwi beth ydyw gwers eich pregeth? Wel, gwers debyg  
ydyw i wers yr adnod fach honno, yr ydych oll wedi ei dysgu yn  
drwyadl, ac wedi ei dweyd lawer gwaith yn y seiat,—“Cofiwch wraig  
Lot,” neu, mewn geiriau ereill, “Peidiwch gwneyd yr un fath a mi.”

A chofiwch, ar y llaw arall, eich bod yn pregethu yn uchel pan  
yn cyflawni rhyw weithred dda. Pan yn gwrthsefyll rhyw demtas-  
iwn fawr, neu yn dangos ysbryd caredig a maddeugar tuag at eich  
cyfeillion a'ch rhieni, yr ydych yn pregethu, heb yn wybod i chwi, y  
pryd hwnnw. Ac ystyr eich pregeth ydyw,—“Gwnawch chwithau  
yr un modd.”

Wel, gan eich bod oll yn bregethwyr, gadewch inni ymdrechu  
bod yn bregethwyr da i gyd. A chan fod ein pregeth yn rhan  
hanfodol o honom, bydded inni oll fyw fel y bydd pawb yn gweled yn  
eglwyr fod ein pregeth yn ateb yn hollol i'r hymneriad sydd y tu ol  
iddi. A'r ffordd y gall plant Cymru wneyd hynny ydyw,—trwy fod  
yn blant da a duwiol.

R. G. NICHOLSON.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DNYDEDD.)

## III. PERYGLON A NEWYDDION.

**I**FOR. Fy nhad, mae'n debyg iawn y buasai llawer o dywallt gwaed wedi cymeryd lle yn adeg yr helynt ddiweddaf y soniasoch am dani, oni buasai bod boneddwy'r y llong yn ddyinion pwylllog a thyner iawn, gallwn feddwl.

**TAD.** Bendith fawr i'r holl anwariaid yr ymwelwyd a hwy ar y fordaith hon oedd bod prif ddyinion y cwmni yn meddu'r fath ddyinion-iaeth ragorol; oblegid, yn ol yr hanes, yr oedd yn eu plith rai mor awyddus i saethu anwariad ag yw yr adarwr i gwmpo aderyn. Ar yr un diwrnod, rhoddodd y Capten wers lem i dri o'i ddyinion am gyflawni lladrad, drwy dorri i mewn i blinigfa berthynol i'r brodorion, a chymeryd, yn ol eu hewyllys, swm go fawr o eiddo yr ynyswr tlodion. Gorchymynodd eu cospi a deuddeg fflangelliad yr un. Ar ol hynny, rhyddhawyd dau; ond am y trydydd, dadleuai ef yn haerllug nad oedd yn drosedd i Sais ysbeilio planigfa anwariad. Y modd a gymerodd Capten Cook i wrthbrofi y fath resymeg oedd gwrthod ei ryddid iddo nes ei gospi & chwe fflangelliad arall. Ar y pumed o Ragfyr, bu y llong mewn perygl mawr; yn ymyl dinistr. Am bedwar o'r gloch y bore hwnnw, cododd y morwyr angor, yr oedd yr awel ar y cychwyn yn chwythu yn ysgafn; ond cododd yn fuan yn wynt ystormus, gan eu rhwystro i fyny ond y peth nesaf i ddim rhag eu blaen. Er eu holl ymdrech drwy y dydd, bu yn ormod gorchwyl iddynt hwylio allan o'r for-gilfach erbyn deg o'r gloch y nos. Yr oedd y gwynt mor gryf, a'r llanw yn dyfod i mewn mor nerthol, nes gyrru y llong yn gyflyn tua chyfeiriad y lan, fel na chawsant amser i wneyd dim er ceisio ei hatal. Yr oedd wedi cyrraedd o fewn i ychydig lathenni i'r graig pan y cawsant hamdden i ollwng y bad i'r dwfr, i'r diben o lusgo y llong i gysgod. Drwy ymdrech diflino y dwylaw, llwyddwyd i'w chael i nofio oddiwrth y lan; ond yn fuan iawn tarawodd ei gwaelod yn erbyn craig oedd o'r golwg, nes peri dychryn mawr, yn enwedig i'r hen forwyr cyfarwydd. Digwyddodd gwrthdarwiad arall o'r un fath, cyn eu bod wedi gwthio y llong yn ddigon pell i'r môr. Cafwyd ar ddeall bod y trigolion ym Mau yr Ynysydd yn fwy lliosog nac mewn un rhan arall o New Zealand y talodd Capten Cook ymweliad & hwynt ar y fordaith hon. Ymddanghosai nad oedd y brodorion yn y rhanbarth hwn mewn undeb a'u gilydd o dan un pennaeth. Yr oedd y gwahanol ddyddiadau ohonynt a'u trefi wedi eu hamgaeru; er hynny, yr oedd pob arwydd eu bod mewn perffaith heddych a'u gilydd. Ar y

nawfed o Ragfyr, gorweddai yr Endeavour yn llongydd yn Doubtless Bay. Cymerodd Capten Cook a'i gyfeillion gyfleusdra, drwy xynorthwy Tupia, i wneyd ymholiad gyda'r brodorion mewn perthynas a'u gwlad, o ran ei maint a manylion ereill. Cawsant ar ddeall ei bod, ar ben taith o dri diwrnod mewn cafn-fad, mewn lle o'r enw Moore-Wennua, yn gwneyd tro byrr tua'r dehau; ac nad oedd eu gwlad yn cyrraedd ymhellach na hynny i gyteiriad y gorllewin. Barnodd y boneddwyr mai hwnnw oedd y tir a ddarganfyddwyd gan Tasman, ar ei fordaith flynyddoedd pell yn ol; ac a'i henwodd yn Cap Maria Van Diemen.

IFOR. Ai Sais oedd hwnnw, fy nhad?

TAD. Nage, Isellmynwr oedd, brodor o Holand. Deallodd Capten Cook fod brodorion y parth hwnnw yn ddynion deallgar a gwybodus. Gotynnodd iddynt os oeddynt yn gwybod am ryw wlad heblaw eu gwlad eu hunain. I hynny atebasant nad oeddent erioed wedi bod allan o'u gwlad; ond bod eu henafiaid wedi eu hysbysu fod gwlad eangtawr yng nghyfeiriad y gogledd orllewin, a alwent yn Ulimaroa, i'r hon yr hwyliodd nifer o'u cenedl mewn cafnfad mawr, a dim ond ychydig ohonynt a ddychwelasant. Dywedai y rhai hyn iddynt, wedi mis o fordaith i'r gorllewin, lantio mewn gwlad anferthol o fawr, trigolion yr hon oeddent yn fwytawyr moch.

IFOR. A aeth Capten Cook yno?

TAD. Do. cawn ei ddilyn yno y tro nesaf.

*Dinas, Rhondda.*

W. JAMES.

### DAL I GANU, DELYN CYMRU.

**D**AL i ganu, Delyn Cymru,  
Mae melusder yn dy gân;  
Ac mae ysbryd dyn yn tynnu  
Gwynfyd o dy nodau mân;  
Mae dy ddilliau'n lleddfu gofid,  
Boddir adfyd yn dy li,  
Ac anadla pawb eu rhyddid  
O dy bêr felodedd di.

Dal i ganu, Delyn Cymru,  
Mae ysbrydion ar bob tant  
O dy eiddo, sydd yn gwenu  
Ar athrylith nwyfus blant.—  
Lledrith swynol eu hymysangau,  
Megis dawns ar arian-fwrdd,  
Lon chwareuant ar galonau,  
Nes yr el gofidiau i ffwrdd.

*Penuchel Iref, Llanflecwyn.*

Dal i ganu, Delyn Cymru,  
Bodda bob estronol sain;  
Pob offeryn syrth i gysgu  
Wrth dy ddfifyr odiau cain.  
Er dy fod yn nef-anedig,  
Cartref it yw "Gwlad y Gân,"  
Gwycha demlau cysegredig  
Cyn bo hir drwy Gymru lân.

Dal i ganu, Delyn Cymru,  
Paid a gomedd alaw fwyn;  
Ar yr helyg paid galarn,  
Paid llongyddu ar y twyn;  
Ti drwy gyfnos hir fu'n deffro,  
Ac yn llywio Cymry fu,  
Dal i fyw, llon noda eto,  
Deffro gathlau Cymry sy' <sup>10</sup>  
JOHN HUGHES.



MAWNOG.

**MAWNOGYDD A MAWN.**

**M**EWN hen bantleoedd gwlybion yng ngheseiliau y mynyddoedd, ar waelodion dyffrynnoedd, ac yng nghyffiniau mân lynnoedd, y tyf mawn yng Nghymru. Hen lynnoedd fu y mannau lle y saif y mawn, wedi eu llanw â gwaddod gludwyd gan ryw afonig fach ar hyd y canrifoedd, ond a grwydra'n awr yma ac acw hyd ei wyneb. Yna, meddiannwyd y fan gan rywogaethau o lysiau'r dwfr, y rhai a drengasant, y naill gnwd ar y llall, am ganrifoedd, hyd nes ffurfio tywarchenau o fawn trwchus. Sylwer ar ddarn o hono ddwy droedfedd is y wyneb; canfyddir y llysiu marw, hanner pydredig. Isaf yr elom, anhebycaf y ceir y lysiau marw, o ran ffurf, i'r rhai byw.

Ond yng ngwlad y Gwyddel y gwelir y mawn yn eu gogoniant. Nis gwn paham felly ychwaith. Gwyddoch fod yr ynys honno yn hollol amddifad o haenau trwchus o lo, megis ag y sydd ym Mhrydain Fawr; ffaith gyfrifa, i raddau pell, am ei thlodi. Ni amddifadwyd hi o'r fraint honno ychwaith, ond wedi hynny y collwyd yr haenau ffurfiwyd, trwy weithrediadau elfennau dinistriol natur.

Yn amser cyfnod y meusydd glo, yr oedd Prydain a'r Iwerddon yn un gwastadedd gwlyb, ar wyneb yr hwn y tyfodd coedlysiau o faintioli boncyffion coedwigoedd Cymru. Claddwyd haenau glo Prydain yn ddiogel, ond gadawyd rhai'r Iwerddon i drugaredd gwynt a gwlaw neu lŵr ystormus mil o oesau. Profir hyn, canys gwelir darnau bychain o'r haenau glo yn sefyll yn unigol ar gopâu y bryniau. Feallai mai dwyfol rodd yn lle glo yw y mawn i Iwerddon, pwy wŷr?

Nid wrth y canrifoedd y cyfrifir oed y mawndir yn y wlad honno, ond ceir fod oed ei waelodion yn gannoedd o filoedd o flynyddau. Gwelir ambell dro olion creaduriaid yr oes bell honno yn gladdedig ynddo, yn ystod oes y rhai y gwnaeth dyn ei ymddangosiad. Yr elephant gwlanog, carw mawr Iwerddon, yr arth, y llew, a blaidd y graig ydoedd rhai ohonynt. Ar y gwaelod, gwelir cregyn y llynoedd.

Ymhen pum cant o flynyddoedd eto, tybia rhai, bydd yr haen ddiweddaf o lo Prydain yn lludw. Darfod mae oes y torri mawn, ond nid y mawn ychwaith. Pan ddarfyddo oes y garreg ddu, daw oes y mawn yn ol i Gymru.

SIGMA.

---

### MAE GWAWR I DDOD AR GYMRU.

**M**AE gwawr i ddod ar Gymru,  
Yn fuan doed yr awr;  
Yn gwasanaethu'r Iesu  
Y gwelir bach a mawr;  
Waeth heb a digalonni,  
Yn dyfod mae y dydd;  
Rhyw Nefoedd ar y ddaear  
Fydd hanes Cymru fydd.

Mae gwawr i ddod ar Gymru,  
Nid ydyw'r dydd ymhell;  
Bydd gormes wedi darfod,  
Ceir dyddiau llawer gwell;  
Rhyw amser hafaidd dedwydd,  
Pawb o'u cadwynau'n rhydd;  
O gyfnod bendigedig,  
Yn hanes Cymru fydd.

Mae gwawr i ddod ar Gymru,  
Heb elyn yn ein plith;  
Mor lân ei hegwyddorion  
Ag yw'r boreuol wlith;  
O fendigedig adeg,  
Daw Cymru wen yn rhydd;  
Rhyw haul heb fachlud bythol  
Yw hanes Cymru fydd.

DAVID THOMAS, (*Dewi Tudur*.)

---

☞ Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---





## AT Y PLANT.



**C**ERDDORION. Dalier sylw nad oes gan y golygydd hawl i roddi caniatad i ail argraffu tŷn. Anfoner at y cyfansodd-ydd, y mae ei enw bob amser uwchben y dŷn.

L. Y BRYN. Anfonwch at Mri. Hughes, Gwrecsam. Os oes ol rifynnau CYMRU'r PLANT i'w cael yn rhywle, ganddynt hwy y maent.


SYLWER fod "Hwiangerddi Cymru" yn barod i'r wasg, gyda deugain o ddarluniau prydfferth gan Miss Winifred Hartley. Nis gellir cyhoeddi cyn cael pum cant o enwau. Tri a chwech fydd pris y llyfr,—anrheg swynol i blentyn. Anfoner enwau i O. M. Edwards, Lincoln College, Oxford. Gwelir un o'r darluniau lleiaf ar dudalen arall. Y mae cyfeillion o bob rhan o Gymru, ac o aml gartref Cymreig mewn gwledydd pell, wedi anfon casgliadau o hwiangerddi. Yn sicr, ni chafodd plant Cymru eu darlunio mor swynol erioed o'r blaen.

T. R. Ie, ystorïau byrion, tuag un tudalen, gyda digon o ynni a dyddordeb ynddynt, sydd fwyaf derbyniol.

**Y MAE** amryw ddarluniau ysgolion, a chofiantau bychain, mewn llaw; cant sylw yn ystod y mis hwn.

**BIERDD.** Daeth llawer o ganeuon gwyl Dewi yn rhy hwyr i'r rhifyn diweddf. Cedwir hwy hyd ddygwyl Dewi y fiwyddyn nesaf.

**MAM SIÂN.** Y mae gwaith chloroform yn un o'r pethau mwyaf bendithiol ddar-ganfyddwyd. Nid oes dim cystal ag ef at leddfu poen pan fo'r claf dan *operation* hir. Ond ni wyr neb eto paham, na pha fodd, yr effeithia arnom fel y gwna.



DIWYDIANNAU CYMRU. IV. GWEITHWYR ALCAN ABBETAWE.

Alford

Edw. H. H. H.



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XIII.

EBRILL, 1904.

RHIF 148

## CAN, FRONFRAITH, CAN.

CAN, ftonfraith, cân dy ddawnsiol  
Di-bryder fo dy fron; [gerdd,  
Mewn melus hwyl ar orsedd werdd,  
Croesawa'r Gwanwyn llon;  
Cyhoeddi i'n dyddanu ni,  
Ail-eni tlyśni'r ôdol;  
Melodedd dy chwibanlad di  
Sy'n galw'r blodau'n ol.

Cân, ftonfraith, cân dy alaw fwyn,  
Heb gwrdd â gelyn dig;  
Bwrlyma fawl o lwyn i lwyn,  
Mae'n Jiwbili drwy'r wig;  
Ai gwawrddydd rhyw ddyfodol pell,  
Sy'n llonni'th galon iach?  
Oes fythwyrd d lwyn a hafddydd gwell,  
Ar gyfer deryn bach?

Cân, ftonfraith, cân dy nodau byw,  
Mae'th lais yn fwynder ha;  
Anghofia ing y gauaf gwyw,  
Mwynha y tlws a'r da;  
Di-alar fo dy wynfa lân,  
Di-gwmwl fo dy nen;  
Mae hawddfyd yn dy gynnes gân,  
A nef yw'th fynwes wen.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

## YR ADAR YN DYSGU GWERSI.

GAN ein bod yn teimlo dyddordeb yn y plant, carem iddynt gofio un peth wrth fyned allan yn y gwanwyn a'r haf i'r meusydd i edrych ar brydferthwch y blodau, ac i'w casglu, ac i wrando ar yr adar yn canu. Carem iddynt gofio fod y cwbl a berthyn i Natur, sef y coed a'r blodau, yr adar a'r tymhorau, wedi eu bwriadu gan Dduw i fod yn gymorth iddynt fel plant i weled pethau mwy ac uwch drwyddynt, ac i ddysgu gwersi pwysig i ni. Os felly ynte, llafur dyddorol a buddiol iawn i'r plant, wrth gychwyn

eu bywyd, fyddai chwilio i mewn i hanes yr adar sydd yn talu ymweliad â ni gyda'r fath gysondeb bob blwyddyn,—sef y gog, y wennol, yr eos, a lliaws ereill, a hynny er mwyn ceisio cael y gwersi maent yn dysgu.

Hyderwn fod y plant yn gwybod ychydig o hanes yr adar yma, yn teimlo dyddordeb ynddynt, ac yn ymddwyn yn garedig tuag atynt, am eu bod yn cael eu hanfon atom i'n sirioli ni â'u cerddoriaeth swynol, ac i wneyd y gwanwyn a'r haf yn fwy paradwysaidd i ni. Y mae yn naturiaethwr enwog, sef y Parch. J. G. Hood, M.A., wedi ysgrifennu cymaint, ac wedi gwneyd hynny mor dyner am yr adar, fel na byddai yn syndod o gwbl gennym glywed fod yr adar wedi pasio pleidlais o ddiolchgarwch cynnes iddo. Cawn fod yr hen broffwyd Jeremiah wedi talu cymaint a hynny o sylw i'r adar a nodwyd, fel ag i wybod eu bod yn adwaen eu tymhorau. Meddai,—“Ie, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau, y durtur hefyd, a'r aran a'r wennol, a gadwant eu dyfodiad. Eithr fy mhobl i ni wyddant farn yr Arglwydd.”

Ond er mai llafur dyddorol a buddiol i'r plant fyddai chwilio i mewn i'r hyn a eilw naturiaethwyr yn ymfudiad yr adar o un wlad i wlad arall, ac o'r naill wregys i'r llall, ac er fod hyn yn cael sylw arbennig gan naturiaethwyr, eto, yn ol tystiolaeth y rhai pennaf, sef Prof. Newton a Dr. Sharp, y mae y mater yma yn aros o hyd, er pob ymchwiliad, mewn llawer o dywyllwch. Credai llawer yn yr amser gynt, ac oherwydd anwybodaeth, cred llawer eto, fod yr adar yma yn treulio y gauaf mewn rhyw ystad o gysgadrwydd mewn ogofeydd yn y ddaear neu o dan y dwir. Ond bellach mae gennym sicrwydd am yr adar sydd yn dyfod atom yn y gwanwyn ac yn ein gadael yn yr Hydref, ac am y lleill sydd yn dyfod atom o'r pegwn gogleddol, eu bod yn ffarwelio â ni am dymor, ac yn dychwelyd i'r gwledydd o'r rhai y daethant. Dywed Dr. Sharp fod llawer o'r adar sydd yn treulio y gwanwyn a'r haf gyda ni yng Nghymru, yn myned mor bell i fwy dros dymor ein gauaf ni a bro yr Aifft a chanolbarth Affrica. Ond pa fodd maent yn gallu myned mor bell? Pa lwybr a gymerant? A sut y maent yn gallu gwybod y ffordd i ddychwelyd yn y gwanwyn, fel y gwna y wennol a'r ciconia i'r un lle i adeiladu eu nythod? Y mae hyn, fel y dywed naturiaethwyr, yn aros hyd yma heb ei esbonio. Ond, meddai rhyw fachgenyn neu eneth feddylgar,—“Ry'm ni yn cael cwmni llawer o'r cantorion goreu yn ein hardal brydferth ni yn y gwanwyn a'r haf, ac ar ddiwedd yr Hydref yr ydym yn gweled y gwenoliaid yn crynhoi at eu gilydd i do yr ysgubor i drwsio eu hadenydd cyn dychwelyd i'r gwledydd cynnes pell o ba le y daethant. Ry'm ni yn gwybod ychydig bach o hanes yr adar yma, ac yn hoff iawn ohonynt. Ond caredm i chwi nodi y gwersi maent yn ddysgu i ni.”

Gwnawn; gan obeithio y bydd i chwi eu cofio a manteisio arnynt. Maent yn dysgu dwy wers bwysig. Yn y lle blaenaf,—pan ddaw yr amser i'r adar yma adael ein gwlad, y maent yn gwybod i ba le mae myned am gysgod, ymborth, ac hinsawdd sydd yn gymwys i'w bywyd. Yr un modd dylai y plant sydd yn darllen y Beibl, dylent wybod pwy i'w garu yn bennaf, sef Iesu Grist, ac ym mha wlad i ddechreu trysori eu trysorau, sef y Nefoedd.

Ac yn olaf, y mae yr adar yma, fel rheol, yn gofalu cychwyn mewn pryd. Y noson gyntaf y teimlant naws rhew ac awelon oer y gogledd, yn bur fuan gwelir hwy yn crynhoi at eu gilydd i drwsio eu hadenydd ac i benderlynu pa bryd i gychwyn, cyn bod ystormydd y gauaf yn eu hatal. Dyma wers bwysig, ynte, i'r plant, sef y pwys iddynt ofalu cychwyn mewn pryd i'r nefoedd. Nid wedi iddynt dyfu i fyny yn ddyinion ieuanc, ond, fel Samuel gynt, cychwyn megis o'r cryd ddylent i wasanaethu Duw. Er fod yr adar yma, fel rheol, yn gofalu cychwyn mewn pryd, cyn fod y tywydd garw yn eu rhwystro, eto, mae ambell aderyn yn oedi cychwyn gyda'r lleill, a'r canlyniad yw ei fod yn cael ei ddal gan yr ystormydd, a'i fywyd yn myned yn aberth. Ac y mae hyn yn berffaith wir am lawer o ieuencyd Cymru. Er eu hannog gan eu rhieni, a'u cymhell o'r pulpud, i gychwyn ar fywyd o wasanaeth i Iesu Grist, maent yn oedi gwneyd hyn; ac heb yn wybod megis iddynt eu hunain, y mae y drwg sydd yn y byd ac yn eu calon hwy eu hunain yn cael y fath ddylanwad arnynt nes y maent yn myned yn aberth iddo.

Cofied y plant, ynte, y gwersi pwysig y mae yr adar ymfudol yn ddysgu.

*Aberdar.*

W. O. POWELL.

### DATHLIAD DYDD GWYL DEWI.

CYFLWYNEDIG I URDD Y DELYN.

**I** DDATHLU gwyl enwog Sant Dewi,  
Y cyrchwn fel yma ynghyd,  
'Does gofwyl mor anwyl i'r Cymry,  
Hon ydyw y bennaf i gyd;  
Gwnaeth Dewi dros Dduw ryw wrhydri,  
Am hyn y mae iddo fawr glod,  
Ei waith yng Nghymanfa Llanddewi  
A gofir tra'r nefoedd yn bod.

Gwnawn bopeth sy'n nghyrraedd ein gallu  
Dros Gymru, ein Cenedl, a'n Duw;  
A chofewn oll gadw Gwyl Dewi,  
A'r werddlas geninen yn fyw.

*Llanafan.*

Cas gennym y dynion balch hynny  
Sy'n mynnu darostwng ein gwlad,  
A sarnu iaith anwyl y Cymry,  
Os gallant, bob amser dan dra'd;  
Ond ni a gydganwn yn llawen  
Alawon ein gwlad ar bêr dant,  
A gwisgwn oll werddlas geninen  
Wrth ddatlu dydd Gwyl Dewi Sant.

Gwnawn bopeth sy'n nghyrraedd ein gallu  
Dros Gymru, ein Cenedl, a'n Duw  
A chofewn oll gadw Gwyl Dewi,  
A'r werddlas geninen yn fyw.

J. A. PARRY.

## Gweithiwch blant bychain.

Geiriau gan y Parch. T. LEVI.

DOH F. *Yn llon.*JOHN REES, G.T.S.C., Cwmbwrla,  
Abertawe.

1. O	:s,	d	:d	.,r	m	:d	.,m	s	:s	.,l	s	:-	f,m
	:s,	s,	:s,	.,t,	d	:s,	.,d	m	:m	.,f	m	:-	r,d
	:m	m	:s	.,s	s	:m	.,s	d'	:d'	.,d'	d'	:-	t,s
	:d	d	:m	.,r	d	:d	.,d	d	:d	.,d	d	:-	s,

nas gall ef weithio fel s,	:r	.,m	f	.,l	:-	.,s,f	m	:s	—	:-	.,m	s,	:d	.,r	m	:r	.,d	
	:t,	:t,	.,d	r	.,f	:-	.,m,r	d	:m	—	:-	.,s	s,	:s,	.,s,	s,	:s,	.,s,
	:s	:s	.,s	s	.,s	:-	.,s	s	:d'	s	:-	.,s	m	:d	.,t,	d	:f	.,m
	:s,	:s,	.,s,	s,	.,s,	:-	.,s,	d	:-	—	:-	.,d	d	:m,	.,s,	d	:d	.,d

gwaith sydd yn fawr, O l	f	.,m	:f	.,s	l	:d'	s	.,l:s	f	m	:s	:-	.,f,m	r	:-	d	:-
	d	:d	.,d	d	:d	d	:d	.,t,	d	.,d	:-	.,t,d	t,	:-	d	:-	
	:l	.,s	:f	.,m	f	:l	s	:s	.,s	s	.,s	:-	.,s	f	:-	m	:-
	:l,	.,t,	:l,	.,s,	f,	:f	m	.,f:m	.,r	d	.,m	:-	.,r,d	s,	:-	d	:-

CYDGAN.

Gweithiwch blant bychain bob s	m	:-	:r	.,d	s	:-	:f	.,m	l	:-	:-	s	:-	:-	r	:-	:d	.,r	m	:f	:m
	d	:-	:d	.,d	d	:-	:t,	.,d	d	:-	:-	—	:-	:-	t,	:-	:l,	.,t,	d	:r	:d
	s	:-	:f	.,m	s	:-	:s	.,s	f	:-	:-	s	:-	:-	s	:-	:s	.,s	s	:s	:s
	d	:-	:d	.,d	m	:-	:r	.,d	f	:-	:-	m	:-	:-	s,	:-	:s,	.,s,	s,	:s,	:s,

cres . . . . . een . . . . . do.

un, s	r	:-	:-	—	:-	:s,	d	:-	:d	.,r	m	:-	:r	.,d	f	:-	:s	.,l	s	:-	:l
	t,	:-	:-	—	:-	:s,	s,	:-	:s,	.,t,	d	:-	:t,	.,d	t,	:-	:d	.,d	d	:-	:d
	:m	s	:-	:s	.,s	s	:-	:s	.,s	s	:-	:s	.,s	s	:-	:s	.,s	s	:-	:f	
	:d	m	:-	:m	.,r	d	:-	:f	.,m	r	:-	:m	.,f	m	:-	:f					

t	:d'	:-	-	:-	:l	s	:m	:-	-	:-	:r	d	:-	:-	-	:-
f	:m	:-	-	:-	:d	d	:d	:-	-	:-	:t,	d	:-	:-	-	:-
gweithiwch			blant			bychain			bob			un.				
s	:l	:-	-	:-	:f	s	:s	:-	-	:-	:f	m	:-	:-	-	:-
r	:l,	:-	-	:-	:d	m	:s	:-	-	:-	:s,	d	:-	:	-	:-

2 Os ydych mewn angen, yn isel eich byd,  
 Heb gennyh ond ceiniog neu ddwy,  
 Arferwch gyfrannu, neu os dewch yn gryf  
 Ni roddwch, ond odid, fawr fwy.—*Cydgan*.

3 Nid offrwm goludog, nid darnau o aur,  
 Ganmolodd yr Iesu mor fawr,  
 Ond ffyrlling y weddw, o'i phrinder a rodd  
 I Arglwydd y nefoedd a'r llawr.—*Cydgan*.

4 Dewch allan i'r winllan, blant bychain, i gyd,  
 I'r alwad o'r nef ufuddhewch;  
 Dilynwch yn ffyddlawn fyth faner y groes,  
 A bendith y nefoedd a gewch.—*Cydgan*.

### KATE ELIZABETH.

Merch fechan Mr. a Mrs. Roberts, Crychnant, Aberdyfi; a ymadawodd a'r byd hwn, i fod yn wastad gyda'r Iesu, Tachwedd 17, 1903; yn ymyl ei chwe mlwydd oed.

**Y**M mlynnyddoedd mwynber bywyd, blwyddi ei phlentyndod tlws,  
 Gwelwyd Kate yn cael ei chludo yn ei harch dros drothwy'r drws.

Cerddai Hiraeth gyda'r angladd, rhwng mynyddau duon Siom;  
 Ac 'roedd galar yno'n wlo ei doredig galon drom.

Wylai natur ar y bryniau, pallai miwsg salmau cerdd;  
 Ac yn sw'n yr elor distaw wlo'i dail wnai'r goedwig werdd.

Wedi'r angladd lithro heibio, trowyd adref trwy y geillt;  
 Yno'i chofio, ac i'w gweled trwy gawodydd dagrau heillt.

Araf, araf gan ei alaeth yr ai Serch o'r llecyn syn,  
 Nes i emyn buddugoliaeth bywyd lifo drosto'n wyn.

Ymgorffori'n dlysach, dlysach, fel meillionen ieuanc Mai;  
 Tyfu, tyfu yn anwylach o'dan wlith Paradwys wnai.


Dilyn eto hyd y caeau mae'r llygadlas, swynol lais—  
 Gamrau rhywun sydd yn welw, rhywun sydd a'i wên yn glais.

Mynych ar yr aelwyd sonnid am y nef cyn cael y clwy,  
 Ond, mil amlach a melusach fydd y son am dani mwy.

Clywodd delynegion blodau yma, ar foreuau clae'r,  
 Bellach, acw, chwery hithau alaw, Dad, a Mam, a Chwaer.

GWILYM DYFI.





WYSTRYS AR DDARN O BREN.

Gwelir yn y darlun hwn bum math o wystrys, yn gwahanlaethu oddiwrth eu gilydd o ran oed.

- E. Wystrys ugain niwrnod oed.
- D. Rhai o fis i ddeufis oed.
- C. Rhai o dri i bedwar mis oed.
- B. Rhai o bum i chwe mis oed.
- A. Rhai o ddeuddeng i bymtheng mis oed.



## RHYFEDDODAU'R MOR.

## III. WYSTRYS.

**P**E'r elech am dro hyd lan bau prydferth Abertawe, deuech ar draws coredau lawer ar y traeth, ac y mae'n amlwg y cymer y pysgotwyr ofal mawr ohonynt. Y gwelyau wystrys sydd yno.

Pysg cragen yw'r wystrys. Y mae iddynt eu tlyzni eu hun. Pan ar eu goreu, y maent o'r un lun a deilen rhosyn, mae eu cragen mor deneu ac mor dryloew a'r *china* ceinaf; rhydd y gragen swm metel-aidd clir wrth ei tharo, ac y mae gloewder yn fflachio o'r ochr fewnol. Mae cnawd y pysgodyn yn wyn, a blas tebyg i flas cneuen arno.

Y mae'r wystrys wedi bod yn hoffus fwyd yr hil ddynol er yn fore iawn. Ceir cruglwythi o'u cregyn ymhob man yn y cylchoedd tymherus a phoethion, megis ar lannau Denmark neu ar lannau Florida. Dygir hwy i Lundain wrth y miloedd o fwsieli,—tua chwarter can mil o wystrys y traeth, a thua chan mil o wystrys y moroedd mawr. Y maent yn bur ddrudion, cyst pwys ohonynt gymaint a phedwar pwys ar ddeg o gig defaid Cymru. Er hynny, y mae galw mawr am danynt, yn enwedig i hulo byrddau y cyfoethogion.

Ceir y wystrys yn heidiau afrifed bron trwy'r holl fyd, ond yn y cylchoedd oerion. Bywyd brau sydd iddynt. Os oera'r hin yn sydyn, os daw dŵr croew yn lli rhy gryf i gymysgu â dŵr y môr, os daw dŵr rhew neu eira dros eu gwelyau, trengant wrth y miloedd. Y mae iddynt elynion peryglus hefyd, pysgod bychain ysglyfaethus sydd yn dyheu am eu bwyta. Y "pum bys" (*star fish*) yw eu gelyn mwyaf marwol; medr y *dog-whelk* hefyd dorri twll i'w cragen, a'u hysglyfaethu.

A hoffech wybod hanes eu hieuenctyd? Ar ddiwrnod hataidd ym mis Mehefin, gollwng eu mam hwy o'r gragen i'r dŵr. Prin y coeliwch fi,—gallai fod tua hanner can mil ohonynt, mor fychain fel nas gall y llygad eu gweld. Ant i'r dŵr fel pwff o fŵg, neu fel haid o wenyn bychain bychain. Mae gan bob un ohonynt gorff at nofio, a chragen yn dechreu tyfu o'i gwmpas. Chwilia pob un am gryd i orffwys ac i dyfu. Os na cha un, bydd farw yn y dŵr. Os ca un, egyr ei gragen i fyw ar y mân drychfilod sydd yn y dŵr. Yna tyf, fel y gwelir yn y darlun.

Nid oes wystrys. hyd y gwn i, ar lannau gogleddol Cymru, nag ym Mau Ceredigion. Paham na fywient ar draeth eang yr Abermaw, neu ar forfa Harlech? Paham na cheir hwy yng ngenau'r Ddyfr-dwy neu'r Hafren? Nis gallant fyw lle bo tywod. A'r tywod i agen eu cragen, ac felly nis gallant ei chau, a byddant farw.

Byddai'r hen Gymry yn eu bwyta, ac yn gwneyd addurniadau o'u cregin.

## GLYN ARTHEN.

**E**NW y lle y preswyliaf ynddo ydyw Abernant Fychan, ond a elwir yn awr fynychaf wrth yr enw Plas, am resymau a egluraf yn nes ymlaen. Trigaf o fewn i'r fro hyfryd a swynol a adwaenir fel bro Glyn Arthen, yr hon a gynhwysa y rhan isaf o blwyf Penbryn, ynghyd â rhannau o blwyfi Troedyrour a Betws Ifan, yn sir Aberteifi. Rhed y Ceri, hen afon enwog am bysg, drwy ran o'r ardal, a'r Dulas, hithau, drwy ei chanol.

Mae yr ardal yn hynod ar gyfrif ei phrydferthwch. Er nad oes yr un allt o goed o fewn y fro, y mae yn hynod goediog a ffrwythlawn. Ceir yma olygfa ragorol. Hynodir hi hefyd fel ardal sobr, heb yr un dafarn o'i mhewn. Er hynny, mae yma letygarwch pur, a chrosaw i ddiethriaid yn wastadol. Nid oes heddeidwad yn aros yma, er fod un weithiau yn ymweled â'r lle. Dengys hyn fod pobl yr ardal yn rhai hynod heddychlawn. Nid oes yma achos o gyfreithio braidd un amser. Ond, rai blynyddoedd yn ol, hynodid y fro dawel gan Ryfel y Degwm a gymerai le yr adeg honno. Ac un adeg, tua deng mlynedd yn ol, bu yma wrthdarawiad rhwng y gwrth-ddegygywyr a'r gosgordd o heddeidwaid a ganlynai feill'r Degwm, a bu cryn dywallt gwaed ger Brynhoffnant, lle heb fod bellder mawr o'r ardal hon. Dywedir i un heddeidwad dderbyn niweidiau mor ddrwg yn yr ysgarmes nes profi yn angeuol iddo yn ol llaw.

Ar y fferm hon, Abernant Fychan, neu Abernant Vaughan fel ei gelwir weithiau, yr oedd plasy mawr hardd yn yr amser gynt, set tua dau a thri chan mlynedd yn ol, lle y trigai llinach gyfoethog, a adwaenid tel Lewisiaid Abernant Fychan. Dywedir mai eu heiddo hwy y pryd hwnnw ydoedd ystad eang a enwir hyd yn ddiweddar fel Ystad Gogerddan. Mae wedi ei gwerthu i gyd braidd erbyn heddyw. Dywedir mai trwy ewyllys y trosglwyddwyd yr ystad i deulu Gogerddan, yr hwn le a saif ym mhen uchaf sir Aberteifi. Adroddir llawer yn yr ardal am Lewisiaid Abernant Fychan, am y plas hardd, am gyfoeth y teulu, am wychder y meirch a'r cerbydau drudfawr, am nifer y gwasanaethyddion oedd yn eu gwasanaeth, ac am eu caredigrwydd. Y mae peth o olion yr hen blas i'w weled yn y lle hwn yn awr, ac y mae'r lle bron bob amser yn cael ei alw ar ei ol, wrth yr enw "Plas."

Helaw hwn, mae olion hen blasau ereill yn yr ardal, megis Llys Owen ar fferm Cefnmaes Mawr, a dywedir fod hen blasau wedi bod yn Gilfach Rodrig a Bedd Geraint hefyd. Mae y Gilfach wedi cael yr enw, meddir, ar ol Rodrig, un o fân dywysogion Cymru; ac am Bedd Geraint, dywed Gwynionydd mai gŵr o'r enw

Geraint gladdwyd yma, a bod ei wyddfa yn amlwg hyd yn ddiweddar. Dywedir fod Gwernant hefyd, lle sydd gerllaw y lleoedd olaf, yn drigfod hen dywysogion yn yr amser gynt, megis Goronwy Goch o Wernant, ac eraill o'i linach. Mae yma blasdai heblaw y rhai a ennwyd, megis Bronwydd, sydd rai milldiroedd oddi yma, a lle y triga y Llwydiaid enwog; Troedyraur, preswylfod y Bowenaid; a Dolgoch, yr hwn a saif gerllaw Troedyraur, lle bu yn trigiannu yr amser gynt Llywelyn Fychan, ewythr Dafydd ab Gwilym. Cynhaliwyd Eisteddfod yma yn amser y bardd, lle bu Rhys Goch, Sion Cent, a Dafydd mewn hwyl yn barddoni. Dywedir i Lywelyn Fychan gael ei ladd yma gan haid o Saeson Penfro.

Ychydig o'r naill du i Glyn Arthen, ar lan yr afon Ceri, mae lleoedd o'r enwau Capel Gwnda, a Felin Wnda, wedi eu henwi felly ar ol Gwyndaf Sant, hen fynach o'r oesau boreuol. Dywedir fod capel wedi bod yn Capel Gwnda, cyflwynedig i'r hen sant.

Am yr ochr nesaf i'r môr i ardal Glyn Arthen, sef dyffryn Penmorfa, mae lleoedd o'r enwau Maes Glas, Ffynnon Fadog, a Llech yr Ochain. Parodd yr enwau i rai dybied fod brwydr wedi ei hymladd yma. Ac mewn cae ar fferm Dyffrynbern, yr hwn a saif yn agosach i'r mor na'r lleoedd blaenorol, mae carreg fawr, a rhan helaeth o honi yn y ddaear, fel nas gellir ei symud, ac y mae y geiriau canlynol yn gerfiedig ar y garreg, ddehongli'r fel hyn,—“Yma y gorwedd Corbalengi.” Bu y Prifathraw John Rhys o Rydychen yn ymweled â hon fwy nag unwaith. Tybir mai ryw flaenor perthynol i'r tyddin Rufeinig oedd y Corbalengi a nodwyd.

Ychydig yn nes i'r môr na'r lle hwn eto (sef Dyffrynbern), y sai eglwys Penbryn, ar ben bryn bychan ar ben craig y môr. Nid yw yr eglwys i'w chanfod o'r traeth neu o'r môr cyfagos, drwy fod bryn bychan yn sefyll rhyngddi a'r môr, ac yn ei chuddio. O dan Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662, cafodd ficer Penbryn, gwr o'r enw Richard Davies, ei droi allan yn un o'r ddwy fil Bu un arall yn ficer Penbryn, a ddaeth wedi hynny yn esgob, sef Dr. William Thomas. Bu yma o gylch 1637—1640. Bu wedi hyn yn esgob Tyddewi, ac ar ol hynny yn esgob Caerwrangon.

Ym mynwent Troedyraur y gorffwys llwch yr enwogion David Morris o Dŵr Gwyn, ac Ebenezer Morris ei fab; dau tra enwog yn eu dydd fel pregethwyr nerthol.

Yn Nhŵr Gwyn bu y taranllyd Daniel Rowland, Llangeitho, yn pregethu droion, ac arferai llawer o'r cylchoedd hyn deithio i Langeitho bob Saboth Cymundeb, sef taith oddeutu deng milldir ar hugain.

Mae yr ardal hon wedi codi llawer o enwogion, megis Ifan Gruffydd o Dŵr Gwyn; Rhys Dafis, y glun bren, y pregethwr

tanllyd hwnnw gyda'r Anibynwyr; Rhys Dyfed; Gwynionydd; Ioan Cunllo, ac ereill. Hefyd, bu y bardd Dewi Emlyn yn gwasanaethu yma fel ysgolfeistr, yn Glyn Arthen am dymor, cyn ei ymadawiad i'r Amerig. Bu farw yno tua deng mlynedd yn ol. Caemolld Dewi yn fawr fel ysgolfeistr gan bawb fu dan ei ofal. Yr oedd yn fardd gwych hefyd, yn anrhydedd i'r fro.

Dywedir mai ar y creigiau, gerllaw eglwys Penbryn, ac yng ngolwg y môr, y safai y bardd Islwyn pan y cyfansoddodd yr emyn, "Gwel uwchlaw cymylau amser." Os gwir hyn, y mae yn darawiadol iawn.

Y mae capel yr Anibynwyr, Glyn Arthen, yn un o'r rhai hynaf a'r helaethaf o fewn y sir. Adeiladwyd ef yn 1797, ac ail-adeiladwyd ef yn 1842. Yn flaenorol i 1797, yr oedd gan yr Anibynwyr (yn gyd-gyfrannog a'r Bedyddwyr yr adeg honno) addoldy yn Llanddeiniol, gerllaw Glyn Arthen. 'Roedd olion y capel hwn i'w gweld hyd yn ddiweddar.

Mae ffynnon Cadwgan, ym mhentref Glyn Arthen, wedi derbyn yr enw, fe dybir, oddiwrth Cadwgan, un o feddygon Myddfai, a dywedir am ffynnon Llawddog, rhyw ychydig filldroedd oddiyma, ei bod yn un o'r ffynhonnau cryfaf yn y wlad, yn tarddu yn gryf pan fyddo sychder wedi sychu ffynhonnau yn gyffredin.

Yn y blynyddoedd 1848 a 1895, bu Cymanfa Dair Sirol yr Anibynwyr yn cael ei chynnal yn Glyn Arthen. Dywedir fod torf o chwech i saith mil yng Nghymanfa 1895, a gynhaliwyd Mehefin 11eg. Mae y lle yn hynod ymysg yr ardaloedd am dynnu torf o bobl ynghyd, i Gyfarfod Pregethu, Cymanfa Ysgolion, Cymanfa Ganu, ac Eisteddfod.

### BYWYD YN GAN.

**M**I garwn gael cerdded tan ganu,  
A chanu tan gerdded, fy ffrynd,—  
Cyfuno'r mawynhad a'r milwrio,  
A phleser a gwaith yn cyd-fynd;  
Boed llafur urddasol heb rwnnach  
Yn rhoddi fy mynwes ar dân;  
Ar lwybrau dyledswydd fy ngyrfa  
Mi garwn wneyd bywyd yn gân.

Mae'r adar, offeiriaid y wawrddydd,  
Yn offrrw eu cerdd tua'r nen;  
Lliniaru wna gofid fy nghalon,  
A ffoi wna'r cymylau uwchben.  
Mae tannau'r greadigaeth yn ymlid  
Pob drygfyd ond pechod i ffwrdd,  
Mae cân yn rhoi olew i'r dyfroedd  
Mewn man lle mae cwynfan yn cwrdd.

O Iesu, cyweirydd telynau,  
Rho fywyd ysbrydol i'm tant,  
Rho'r "ganiad" sy'n eiddo dy bobl  
I seinio yn bêr ar fy mant;  
A phan y bydd afon i'w chroesi,  
Pan dderfydd hwyf daear yn lân,  
Gad imi pryd hynny gael cychwyn  
Ar fywyd tragwyddol o gân.

TOM LLOYD.

## "FE DDAW LLYWELYN ETO'N OL."

V. GWEN Y FRON.

**W**EDI marwolaeth Caden Dafydd, yr oedd un yn llai yn Nôl Feurig a gashai'r dafarn. Yr oedd y Capten wedi gwneyd ei gartref yn un dafarn fawr, a'r adellad o benbwygilydd yn cael ei alw yn "Toilers' Rest." Yr oedd y ffordd haiarn bron a'i chwblhau, ond yr oedd y Capten yn bwriadu ymgartrefu o hyn allan yn Nôl Feurig, a chadw'r "Toilers' Rest" i fynd, "er lles y pentrefwyr," fel y dywedai.

Yr oedd yntau, Yswain y Fron, wedi cael rhan o wenau'r Capten, a sibrydd mai nid Llywelyn yr Ardd Las fyddai gŵr Gwen y Fron, ond y Capten Silverstruck. Nid dewisiad Gwen ydoedd hwn, wrth gwrs; ac yr oedd dan boen esgymundod o'r Fron os byth y gwelid hi yng nghwmni Llywelyn mwy. Fodd bynnag, cyfarfod â Llywelyn y byddai rywsut, ac yr oedd wedi ei sirioli'n fawr un noson pan ddywedodd Llywelyn wrthi fod y Capten "yn caru geneth arall," a'i fod wedi dweyd hynny wrtho y prydawn hwnnw. "Ac felly, Gwen, does un siawns i ti gael byth fod yn wraig y 'Toilers' Rest,'" ebai eilwaith. A'r un noson dywedodd Llywelyn wrthi fod Rhobet Dafydd yn ei berswadio i fynd i fwrdd gydag ef yn y "Lion," a'i fod yn addaw rhoddi cychwyn iddo yn y byd. Anhawdd oedd ganddynt gydsynio â hyn, ond anhawddach oedd gomedd Rhobet Dafydd, a phenderfynasant mai gwell fuasai i Lywelyn wneyd ei gartref ar fwrdd yr hen "Lion," o'r hyn lleiaf hyd nes y dofid llid y cybydd, beth bynnag. A thua chanol dydd drannoeth y mae'r hen gwch yn diflannu o'r golwg yng ngwaelod Morfa'r Ddeulif, a Gwen, druan, oedd yn ymguddio tu ol i hen dderwen, yn meddwl ei bod yn gweled ei Llywelyn yn chwifio'i gadach gwyn arni, pan oedd "Lion" yn cilio o'r golwg.


Modd bynnag, dal i dweyd yr oedd y bobl mai'r Capten fyddai gŵr Gwen, "er ei fod yn ddigon hen i fod yn dad iddi," fel y dywedent. Ac yr oedd llawer o bethau'n tueddu i gadarnhau'r chwedl. Yr oedd yr Yswain ac yntau yng nghwmni eu gilydd yn barhaus, naill ai yn y Fron neu yn y "Toilers' Rest," a Gwen, druan, yn gorfod cario negeseuon y naill i'r llall. Cyn hir, aethant yn bartneriaid mewn gwaith aur yng ngheunant y Bryn Du. "Gwelais gnepynau o aur yno pan yn torri'r *cutting* mawr, Squire," ebai'r Capten, "ac ond cael help poced a phrofiad dyn fel chwi, Squire, 'with an eye to business,' fe wnawn *good job* o honi." Ac o'r diwedd, dyna ddechreu gweithio, a'r Yswain, "with an eye to business," yn

rhoddi "help ei boced," beth bynnag am ei brofiad, yn llawer rhwyddach nag y dychmygodd odid neb. Ond dartyddodd yr aur yn ymyl y "*cutting mawr*" yn ebrwydd; "ac yr oedd yn rhaid," ebai'r Capten, "chwilio am y trysor mewn cyfeiriad arall." Yn ei awydd am ychwaneg, yr oedd yr Yswain yn barod i fentro'r oll o'i eiddo o'r bron, "oblegid," ebai, "fe gaed *return* lled dda o'r ceunant yna, a does dim dadl, fel y dywed y Capten, nad oes yna wythien gyfoethocach rywle yn ystlys y Bryn Du yna."

Parhai yr Yswain a'r Capten i weithio yn y Bryn Du, a Gwen, druan, yn dihoeni gartref o dan angharedigrwydd ei thad am na chydysynia i briodi'r Capten. "Y mae farian i ac yntau yn y gwaith aur yna," ebai'r Yswain, "a pha fodd y deunw allan o'r dyryswch ond trwy i ti briodi'r patner arall, a gwneyd yr *investment yn family affair*? Ac ni fedri byth gael gŵr mwy nobyl na'r Capten, yn siwr i ti."

Aeth y bartneriaeth ymlaen am gryn amser, ac o'r diwedd, dyna'r Capten yn dod i'r Fron i hysbysu'r Yswain ei fod wedi dod ar draws toraeth o aur, ac nad oedd eisiau ond mentro ychydig na byddent wedi gwneyd eu ffortiwn eu dau. Prin y rhaid dweyd fod yr Yswain wedi neidio i'r adwy, er ei fod yn gorfod crafu'n lled isel i'w bwrs wrth wneyd hynny. Ac o hynny allan, dadblygu'r gwaith aur oedd yr unig beth y siaradent am dano, ac yr oedd y Capten wedi boddhaul'r Yswain yn fawr drwy ofyn iddo am law ei ferch, â'r hyn y cydsyniodd yntau'n galonnog. Trefnwyd i gael gwledd i ddatlu darganfyddiad yr aur, ac er fod bron bob dimau o werth ystad y Fron at drugaredd y mab-ying-nghyfraith, doedd yr un dyn dedwyddach yn y plwyf nag Yswain y Fron. Eto, nid oedd y Capten wedi rhoddi "danghosiad" boddhaul iddo am yr arian, oblegid, "yr hyn sy'n fy meddiant i tydd yn eiddo Gwen," meddai'r Capten, "a rhyngom ein tri fe wnawn fargen go dda o'r busnes yma." Modd bynnag, dal yn dynn wnai'r Yswain dros gael sicrwydd mwy boddhaul o ddiogelwch ei arian, yr hyn a barai gryn ddyrswch, ac nid ychydig o boen, i'r Capten.

Bore diwrnod y wledd fe welwyd yr hen "Lion" yn ymrolio rhwng ceulannau'r Wendon yng ngwaelod Morfa'r Ddeulif, ac o hynny allan yr oedd Gwen i gael ei chadw'n gaeth, "rhag ofn Llywelyn yna," fel y dywedai'r Yswain, hyd tore ei phriodas, er nad oedd y Capten wedi penodi'r diwrnod eto. Yr oedd mor brysusur gyda'r gwaith aur, meddai ef, fel nad oedd ganddo egwyl i feddwl am hynny; ond, pe dywedai'r gwir, nid oedd ynddo un awydd am law Gwen y Fron, oblegid yr oedd wedi priodi'r rhan o'r Fron a garai ef.



PREN MEWN GWELY GLO.

**GWELYAU GLO.**

**Y**R haul yw ffynhonnell pob ynni daearol. Nis gellir dinistrio ynni mwy na mater. Er y trawsfurfir ef o'r math hwn i'r math yma, eto yr un yw o hyd. Os felly, i ba le yr aeth ynni yr haul yn ystod miliwnau oesau y mynedol y soniasoch gymaint am danynt? Yn guddiedig yng nghrawen y ddaear, yn y gwelyau glo, y cronwyd peth o hono. Am hynny, geilw ambell un y clap glo yn "oleuni wedi ei botelu," neu "ynni haul oesau gynt." Tybia rhai mai bentyrarau o ddail coedydd oesau gynt yw, wedi ymgaledu yn bentyrarau y naill ar y llall. Ond nid felly. Er y canfyddir olion dail ar wynebau y cleifeini tân, ac uwch ben y gwelyau glo, nid gweddillion y cyfryw yw y glo. Gweddillion hen goedydd a llysiâu fu'n byw mewn corsydd ac anialdiroedd gwlybion, filiwnau ar filiwnau o flynyddoedd yn ol, ydynt; wedi eu troi yn lo erbyn heddyw, dan ddirwasgiad haenau o greigiau uwchben.

Fe nodweddir pob un o gyfundrefnau daearegol crawen y ddaear gan luosogrwydd rhyw fathau neillduol o fywyd. Oddiwrth y ddamcaniaeth osodwyd allan i esbonio furfiad y maesydd glo, ni phetrusir pan ddywedir mai llysiâu a choedydd fu mewn bri y pryd hynny, ac mai o weddillion y rhai hynny y furfiwyd y glo. Tyfent mewn rhannau isel, gwlyb, o wyneb y ddaear, megis corsydd neu anialdiroedd. Gorfodir ni i gredu, hefyd, mai anialdiroedd yn gorwedd mewn pantleoedd oeddynt, i'r rhai y rhedai atonydd; neu yr oedd y tiroedd yn ymylu ar y môr, yr hwn lifai drostynt yn awr ac

eilwaith. Ymhen miloedd o oesau, yn ystod y rhai y bu y coedwig-oedd yn tyfu ac yn marw yn bentyrrau y naill ar draws y llall, suddodd yr hen anialdiroedd gwlybion, yna llifai y môr drostynt hyd nes gorchuddio eu holl arwynebedd & thywod a chlai; a chladdwyd hwynt mewn troedfeddi o waddodion. Gwelir y rhain heddyw wedi ymgaledu'n graig galed uwchben yr haen lo, ac y mae i bob haen o lo haen gyffelyb o gleifaen. Odditan bob haen o lo ceir yr isgleifaen (*underclay*); a hwn yw y pridd neu y tir ar yr hwn y tyfai y llysiau a'r coedydd, gweddillion y rhai sydd erbyn heddyw wedi ymgaledu yn haen drwchus o lo uwchben.



CORS DIROEDD.

“ Aiff yr haenau llysiau yn fawn, gydag ambell bren mawnog wedi cwmpo yn eu mysg.”

Gan fod ym Mhrydain yn agos i gant o haenau glo, y naill yn anibynnol ar y llall, wedi eu gwahanu oddiwrth eu gilydd gan haenau o glai a thywod feini, gorfodir ni i gredu i wyneb y ddaear suddo a chodi bob yn ail am yn agos i gant o weithiau yn y parthau hynny lle y ceir y glo heddyw. Gwyddom hefyd fod hanes y ddaear yn y cyfnod pell hwnnw yn hollol anhebyg i'r hyn yw heddyw, gan na symuda ei chrawen heddyw ond ychydig fodfeddi ar y mwyaf i



fyny neu i lawr mewn un ganrif. Pa sawl mil o flynyddoedd aeth heibio, felly, yn ymffurfiad pob haen o lo?

Yn y manau lle y ceir y glo heddyw y tyfodd yr hen goedwig-oedd. Profir hynny'n eglur yn y modd canlynol. Yn gyffredin, ceir boncyffion yr hen goedydd wedi ymgaedu'n garreg, ond yn sefyll yn unionsyth o'r isgleifaen trwy yr haen lo i fyny i'r gleifaen uwchben. Un o'r coedydd hynny ydoedd y *sigillaria*, a gwelir boncyff o honi yn y darlun. Canfyddwyd hefyd wreiddiau hen goedydd yn gorwedd yn yr isgleifaen, yr hyn brofa eto'n mhellach mai pridd neu y tir ar ba un y tyfasant yw. *Stigmariæ* y gelwir rhai o'r gwreiddiau, a thybiwyd flynyddoedd yn ol mai llyisiau hollol wahanol i'r *sigillariæ* oeddynt, hyd oni bu i un daearegwr ddarganfod gwreiddiau o *stigmariæ* yn ymgydio wrth foncyff *sigillaria*, yr hyn ddengys, wrth gwrs, mai yr un llysieuyn yw y naill a'r llall. Math arall o'r llyisiau oeddynt y *lepidodendron* a'r *calamites*. Math o gnwp-fwsogl ydoedd y *lepidodendron*, a gwelir ef yn ein dyddiau ni yn llechu yn isel ar wyneb y ddaear, ond yn y cyfnod dan sylw gallasai ymgystadlu â rhai o goed ein gwlad ni o ran maintioli a phrydforthwch. Nis gellir cyffelybu coedydd ein dyddiau ni â'r coedydd o'r rhai y ffurfiwyd glo. Diflannodd y coedydd hynny filiwnau o flynyddoedd cyn i ddyn wneyd ei ymddangosiad; ac oni bae am y gwelyau glo, buasai eu hanes yn guddiedig i ddyn heddyw.

Gallwn er hynny gymharu hen anialdiroedd gwlybion yr oesau gynt â'r rhannau mawr hynny o ddwfr a todolant yn awr yn y *jungle swamps* yn India, a phe byddai i grawen y ddaear naddo danynt, ac i ddyfroedd y môr eu gorchuddio, nis gellir gweled nas gallasai y cyfryw goedwigoedd gael eu troi yn lo dan ddirwasgiad haenau trwchus o greigiau ymhen miliwnau o flynyddoedd.

Ni ffurfi glo yn ein dyddiau ni megis yn yr hen oesau. Y lle tebycat y ffurfi ef yn ein gwlad ni yw y mawnogydd sydd yng nghymoedd ein gwlad, eto, nid yw yn debyg y bydd i'r rhai hynny byth gael eu trawsffurfi yn lo. Nid yw ynni anianyddol yr haul yn cael ei gronni a'i gadw mor helaeth heddyw ag y bu yng nghyfnod y maesydd glo.

Ymhen rhai canrifoedd eto bydd holl haenau glo y byd wedi eu defnyddio at wasanaeth dyn, bydd ynni oesau gynt wedi diflannu, nid wedi colli ychwaith, ond i fodoli yn rhywle arall. Bydd rhyw wyddonwr galluog wedi canfod modd arall i botelu goleuni a gwres yr haul cyn y diwrnod hwnnw.

SIGMA.

Cyn y derbyniwch y rhifyn nesaf o CYMRU'R PLANT, byddaf wedi treulio pythefnos yng ngwlad yr Ywswisaid, gwlad yr afonydd ia y sonlais gymaint am danynt. Os aiff popeth yn hwylus, deuafe a'u hanes yn ol i chwi, ynghyd a darluniau, yn y man.

## YMRËSPMIAD CATH.

**C**EF AIS bleser wrth ddarllen yr erthyglau hynny ar y penawd, "A all adfeiliaid ymresymu," a throsglwyddaf i chwi hanesyn gwirioneddol i'r un perwyl.

Ar lan cainc o un o afonydd mwyaf Cymru, saif melin at wasanaeth y wlad o'i deutu. Troir y dwfr o'r afon at y felin drwy ffos lled fawr, a cher y fan y troid y dwfr i ben olwyn y felin ymrannai y dwfr yn ddwy ran. Ai un hanner o'r dwfr ymlaen ymhellach i droi olwyn gweithfa wlan oedd gerllaw (yr hon sy'n adfeilion erbyn hyn). Yr oedd y gweithwyr wedi gwneyd y ffos hon oddeutu wyth i ddeg llath oddiwrth ddrws y felin, ac o dan ochr rhes o goed mawr; a darfu i rew y gauaf a sychder haf blynyddoedd falurio y ddaear o dan ochr y coed nes ydoedd yn geulan fawr gysgodol.

Flynnyddoedd yn ol yr oedd gan y melinydd gath ddof a gwasan-aethgar, ac ni chai y melinydd ei flino gan ei elynion, y llygod, tra parhaodd einioes pws. Un dydd, sylwodd y melinydd ar ryw ymddygiadau yn y gath; canai ei chrwth, rhwbiai yn ei goesau, a syllai yn ei wyneb, a dilynai ef i fyny ac i lawr hyd y felin. Pan gafodd y melinydd hamdden fechan oddiwrth ei waith, aeth at ddrws y felin, gan orffwysu ei freichiau ar hanner isaf y drws. Gyda iddo wneyd hyn, rhoddodd y gath naid dros ben y drws ac allan, ac yn groes i'r lawnt o flaen y felin, a thros ffos y weithfa wlan, a than y dorlan o dan y coed, a dyma ymladdfa ffyrnig rhwng y gath a rhyw greadur, y ddau yn ymrolïo i lawr y llechwedd ac i'r ffos. Rheddodd y melinydd allan, a chynorthwyodd y gath i wneyd pen ar ei gwrthwynebydd, yr hwn oedd yn fwlbert cryf.

Credaf y cenfydd y darllennydd fod y gath hon yn gallu ymresymu dau bwynt o leiaf; yn gyntaf, nas gallai fentro ymladd â'i gelyn ei hunan; yn ail, y mentrai hi ymladdfa âg ef os byddai llygaid y melinydd yn gweled yr ornest, gan gredu y cawsai ei gynorthwy os byddai angen.

*Penywern, Borth.*

W. OWEN.

## CERBYDRES HIR.

**P**AN feddylïom yn ddirifol uwchben y ffaith, onid yw yn rhyfedd mewn gwirionedd, y pwysau aruthrol y mae un agerbeiriant yn gallu ei dynnu ar y rheilffordd. Y dydd o'r blaen darlennwn am beiriant newydd yn cael ei ddodi ar y cledrau gan y North Eastern Railway Company; dyma'r cryfaf yn eu meddiant. Tynnai gerbydres o 81 o fenni llawnion o lo i'r Tyne Dock; ac yr oedd y gerbydres hon yn 569 llathen o hyd, set rhyw un rhan o dair o filltir. Honna't mai y peiriant hwn yw y cryfaf ym Mhrydain.

## DAMHEGION CYMRU.

## III. DAMEG Y WADD A'R HEDYDD.

"BANGOR" y byddai'r hen Gymry yn galw athrofa, sef Prif Ysgol unrhyw fro, neu dalaeth; ac yr oedd llawer Bangor enwog am ei dysg yng Nghymru gynt, rhyw bymtheg, pedair ar ddeg, neu gannoedd o flynyddoedd yn ol. Rhai felly oedd "Bangor Deiniol," sef Bangor yn Arfon, a "Bangor Beuno," sef Clynog, yn Arfon; ac wele! y mae y ddwy yma yn Fangorau eto o'r newydd yn yr oes hon.

Un o'r athrofaen enwocaf yn y Deheudir oedd "Bangor Gatwg," ym Morgannwg; do, cododd cewri oddiyno, ac aeth ei chlod ar hyd y gwledydd. Cofiw'n fod Cymru wedi bod yn wlad glodfawr am ei dysgeidiaeth a'i llen yn yr hen amseroedd, cyn i ni gael ein hysigo a'n tylodi gan y Saeson. Ie, diolch i'r nefoedd, y mae arwyddion amlwg ar bob llaw fod ein hanwyl wlad yn ymdeffro er mwyn dringo yn uwch nag erioed.

Yr athraw roddodd fwyaf o fri ar y Fangor ddiweddaf enwyd, oedd,—fel y dengys ei henw,—Catwg. Oherwydd ei ddysg a'i ddoethineb, galwyd ef Catwg Ddoeth; efe oedd Solomon y Cymry; ac y mae ar gael a chadw lawer o bethau gwerthfawr o'i eiddo. Efallai y cawn ganiatad i gyhoeddi rhyw gyfran ohonynt o dro i dro. Da yw yr hanesyn bychan syml, yr ystori fach bert,—ond, credaf fod bechgyn a genethod mwyaf meddylgyr CYMRU'R PLANT am fynnu deall a meistrolï "Cymraeg y Dynion!"

Wel, ynte, dyma "Ddameg y Wadd a'r Hedydd," o logell fawr yr hen Iolo.

Y Wadd,<sup>1</sup> ar un bore teg o Fai tesog<sup>2</sup> ysblenydd,<sup>3</sup> a ganu'r Hedydd<sup>4</sup> yn entrych awyr yn canu goslef gorfoledd.<sup>5</sup> "Gwae fy nh ynged,"<sup>6</sup> ebe hi, "na bawn Hedydd ac nid Gwadd, cawn yna esgyn ehangder dirwystr<sup>7</sup> yr wybren, lle ni chawn a'm luuddiai<sup>8</sup> yn fy nhaith, ac yng ngoleuni rhyddle'r nwyfre<sup>9</sup> cawn ganu fy ngwala<sup>10</sup> gan lawenydd bodd calon; lle yr wyf yn awr<sup>11</sup> yn gorfod ym-drafferthu,<sup>12</sup> yn cloddio ffordd ydd af<sup>13</sup> drwy'r ddaear galed garegog, heb fymryn yn rhydd o'r ffordd y cerddwyf; lle nid oes na goleu na gweled, na dim ond llwyrdeb tywyllwch<sup>14</sup> i'm<sup>15</sup> ymbalfalu'n<sup>16</sup> galed-gamp<sup>17</sup> drwyddo."

<sup>1</sup> Mole, twrch daear. <sup>2</sup> Cynnes, heulog, warm. <sup>3</sup> Disglaer, splendid. <sup>4</sup> Lark.

<sup>5</sup> A song of joy. <sup>6</sup> Sad is my fate. <sup>7</sup> Uchderau rhyddion, free spaces. <sup>8</sup> Rhwystrai, obstruct. <sup>9</sup> Entrych, firmament. <sup>10</sup> Hyd ddigon, to my heart's content. <sup>11</sup> Whereas, now. <sup>12</sup> Gweithio n galed, toil and trouble. <sup>13</sup> Whereby to go. <sup>14</sup> Perfect or total darkness. <sup>15</sup> For me. Crafu a'r balf, dig, scrape. <sup>17</sup> Llafurus, with might and main.

A chyda bod y gair o'i phen,<sup>18</sup> gwelai Walch<sup>19</sup> yn gafaclu ar yr Hedydd, ac yn ei lladd a'i bwyta.

Yna, gan feddwl gwell,<sup>20</sup> y dywed y Wadd,—“Clod i Dduw fy mod yn Wadd mewn diogelwch, er maint fy nhrfferth a'm helbul; a'm bod ynghudd<sup>21</sup> dan ddaear a thywyllwch, lle nid oes o walch nag i arall o reibus<sup>22</sup> a'm gwel.”

Nid gwynfyd heb ddiogelwch,  
Nid diogelwch heb drafferth.<sup>23</sup>

Boddloned pawb i'r cyflwr a'i rhodded ynddo gan Dduw a wyddai yn well na dyn beth oedd oreu; ag a wnaeth, o wir gariad, a weles yn oreu, i bob byw a bod.

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

**Y** CI sydd yn cyfarth fel Nero yn pedoli ei feirch âg aur yw treulio amser yn ofer ar bawb y mae bai ar Huw y syrthiodd y codwm o'r cymylau y daw gwlaw o'r ddaear y codir plwm a glo sydd ddu yn y nos y mae yn dywell yn amser Paul yr oedd eilunaddoliaeth mewn bod y mae pregethwyr mawr oedd John Elias fel pregethwr mawr oedd Islwyn Tan'rallt sydd fferm ar y mynydd y mae grugieir yn dodwy y mae yr iar yn y nos y mae y lleuad yn gwenu yr oedd y ferch ar orsedd y mae lliw coch sydd liw melyn yw y blodeuyn o ganol y tywyllwch y gwelir y nen yn rhuo y mae tarw mewn potel y mae dŵr wedi rhewi 'roedd y llyn yn y Bala y mae coleg mewn sach y mae blawd du a gwyn oedd y ci digrif gan bob aderyn ei lais ei hun.

*Pen Rhewl, Mostyn.*

T. EDWARDS.

### Y DELYN AR Y MUR.

(“The harp that once through Tara's Hall.”—Moore.)

**Y** DELYN fwyn a'i miwsig fu  
'N difyrru câr a ffrynd,  
Sydd ar y mur yn awr yn fud,  
A'i hysbryd wedi mynd.  
Fel hyn y cwsg hen falchder gynt,  
Gogoniant gafodd glwy,  
A ch'lonnau fu yn teimlo mawl,  
Ní theimlant mono mwy.

*Rugby.*

Ddim mwy i wladgar ddyinion pur  
Y chwery'r delyn brudd,  
Ar sain dyrr ar ddistawrwydd nos  
Sy'n dweyd ei distryw cudd.  
'N anaml defny rhyddid 'nawr,  
A'i hunig guriad gwyw,  
Yw pan y tyrr rhyw galon ddig,  
I ddweyd ei bod yn fyw.

R. P. EVANS.

<sup>18</sup> No sooner was, &c. <sup>19</sup> Hebog, cidyll coch, hawk. <sup>20</sup> With worthier thoughts, thinking better of it. <sup>21</sup> Hid. <sup>22</sup> Nor other rapacious creature. <sup>23</sup> There is no happiness where there is no safety; and no safety but hath its care.



### EURWEN A MENNA.\*

**B**URED yw'r eira sy'n disgyn,  
Wynned ei liw ar y bryn;  
Loewed yw'r ffrwd ar y llechwedd,  
— Fwyned ei cherdd yn y glyn.

**Ond** plant ar aelwydydd yng Nghymru  
Sy'n wannach, sy'n burach eu bri,—  
Gloewach a mwynach eu mynnes  
Yw Eurwen a Menna i mi.

**Mae** swyn yn eu llygaid a'u hemrynt;  
Brydferthed gynired eu gwallt,  
Fel cenlli o aur yn ymdonni.  
Nou'r banadl yng nghesail yr allt.

Dwy galon fach lawen a siriol,  
Direidus,—yn union fel plant,—  
Direidi fel pranciad yr oenig,  
Diniwed gyleh twmpath y part.

**Fe** chwarddodd Blodeuyn yr Eira,  
Dair blynedd i hyn ar y ddôl,  
A gwenodd perthynas bach iddo  
O'i swildod ddwy flynedd yn ol.

**Ond** ciliodd y bodau gwyrnig,  
Peidiasant a llonni'r byd hwn,  
Ond cadwyd eu purdeb hyd yma  
Yn Eurwen a Menna mi wn.

\* Plant bach Mr. a Mrs. W. H. Jones, Yr Heol Newydd, Pwllheli.

A heddyw mae blodyn pert arall  
Yn gwylio'r rhianedd bach hyn,  
Nid Blodyn yr Eira, mae'n sicr,  
Er hynny, mae'n gwenu mewn gwyn.

Ei lygad sy'n peffrio brawddegau  
O'i loches ar fynwes ei fam,  
"Pan ddof fi cyn daled a tada,  
Chaiff Eurwen a Menna ddim cam."

Peredur ac Eurwen, a Menna,  
Cariadon i'ch mam ac i'ch tad,  
Boed i chwi roi parch i'ch rhieni,  
Ac felly chwi berchwch eich gwlad.

Cyd-ddysgwch alawon eich heniath  
Ym more eich mebyd di-gur,  
A'r nefoedd a gadwo'ch eneidiau  
Bach, tirion, hyd feddrod yn bur.

TOM LLOYD.

### CANEUON PLANT RHOSTRYFAN.

#### III. NOSWEITHIAU HYNOD.

##### (a) *Noson Seiat.*

Adnodau dianwadal—ddywedwn  
Heb freuddwydio'r gwamal;  
A dwrdiwn lonaid ardal  
Ar fyd sych y profiad sal.

##### (b) *Noson Braf.*

Iawn adeg dysgu neidio,—a rhedwn  
Heb un pryder heno;  
Ac yn ein hwyl canwn,—“Ho,  
A oes bendith ar sbondio?”

##### (c) *Noson Wlawog.*

Y Rhos hoff mœr fudr a sach—draws  
peiswyn,  
“Drws Siop Isa'n” afiach;  
Ffaelu byw heb “geffyl bach,”  
Neu ddoli,—be' sy'n ddelach?

##### (ch) *Noson y Band of Hope.*

Mwynhau row am hanner awr,—croes-  
Cicio'r seti'n drystfawr; [ateb,  
Wedyn uno, hyd nennawr,  
“Doh-re-me!” yn dwrw mawr.

##### (d) *Noson Te Partis.*

Seigiau mwyn am ddyysgu maith,—a  
Dyna gysur hirfaith; [gawsom,  
Gwadu'r uwd i gadw'r iaith,  
A wneir heno, ar unwaith.

##### (dd) *Noson Tâl.*

Noson tâl—hynaws, ynte?—awn i'r  
Rhos  
Yn rhesi dan chware;  
Ein Hior uniawn, o'r wiwne,  
Farno'r drwg—safarnau'r Dre!

J. R. TRYFANWY.

### “RWYF WEDI COLLI'M HADNOD I.”

Cyflwynedig i'r plant sy'n anghofio'u hadnod.

I ODDFA Salem, fin yr hwyr,  
Cyfeiriai plentyn ieuanc oed;  
'Doedd fawr o hafau yn ei wallt,  
Ond tlysach un ni fu erioed.

Yng ngholwg Môn, yn swyn y don,  
Ar lan y Fenai ganwyd ef;  
'Roedd delw'i gartre' ar ei rudd,  
A swyn y tonnau yn ei lef.

Yn odfa Salem, gyda'r lleill,  
Arferai ddweyd ei adnod fach;  
Ac fel aderyn yn y llwyn,  
Adroddai hi â chalon iach.

*Coleg Bala-Bangor.*

Ond aeth ei adnod fach ymbell  
Ar grwydr un auafnos ddu;  
A rhoes dan wyllo'r adnod hon,—  
“'Rwyf wedi colli'm hadnod i.”

Na thyr dy galon, blentyn mwyn,  
Fe glywodd Ior dy adnod di;  
Y gân hyotla' yn y nef,  
Yw'r un na chlywir gonnym ni.

Y sawl fo'n byw ei adnod wen,  
A chadw'r galon yn ddiglwy,—  
Caiff hwnnw gwmni'r Iesu byth,  
Heb ofni colli adnod mwy.

E. B. POWELL.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## IV. BWYTAWYR DYNION.

**TAD.** Ar y 30ain o Ragfyr, cyraeddodd ein mordeithwyr y tir y tybient oedd Cap Maria Van Diemen, yr hwn oedd yn cyfateb i'r desgrifiad a gawsant o hono gan yr ynyswyr. Yn ystod y rhan honno o'r fordaith, cyfarfyddasant awel o wynt, yr hon, oherwydd ei nerth a'i pharhad, oedd yn wahanol i'r un a gyfarfu â hwynt drwy ysdod yr holl daith. Yr oeddent yn awr yn lledred 35 gradd i'r deheu; a hynny yng nghanol haf y rhan hon o'r byd. Buont dair wythnos heb allu hwylio ond deg milldir ar hugain yn eu blaen; ac yr oedd pum wythnos wedi dod i ben erbyn cyrraedd ond 150 o filldroedd. Yr holl amser y bu y gwynt mor wrthwynebus, yr oeddent yn weddol hapus, a hynny yn bennaf ar gyfrif eu bod ymhell oddiwrth y tir, yr hyn oedd yn gwneyd eu perygl lawer yn llai; oni buasai hynny, mwy na thebyg, o dan y fath amgylchiad, na fuasai yr un ohonynt yn dychwel i adrodd hanes eu mordaith anturiaethus. Ar lannau Queen Charlotte's Sound, lle cyraeddodd y Saeson ar y 14eg o Ionawr, 1770, canfyddent fod yno lawer o forgillfachau. Trefnodd y Capten fyned i mewn i un ohonynt i adgyweirio a glanhau y llong, a chael cyflerwad o ddwfr a choed. Y bore canlynol, ar doriad y wawr, yr oeddent wrthi yn manwl archwilio am agoriad diberygl, er myned i mewn i un o'r porthladdoedd. Bu y gwynt yn wrthwynebol iddynt am oriau; ond llwyddasant i angori tua dau o'r gloch y prydnewn mewn lle diogel a chyfleus. Yn tuan wedi iddynt lanio, cawsant ffrydlif o ddwfr pur, a chyflawnder o goed. Yr oedd y rhan honno o'r wlad agos a bod yn un goedwig enfawr. Un o'r gorchwylion cyntaf a gyflawnasant oedd pysgota. Wedi gollwg eu bachellrwyd i'r dwfr ond dwy waith, yr oeddent wedi llwyddo i ddal 300 pwys o bysgod rhagorol.

**IFOR.** A oedd yno bobl yn byw?

**TAD.** Oedd. Ar yr 16eg, aethant i gyffyrddiad a theulu o ynyswyr, a chawsant brofion diamheuol eu bod yn fwytawyr cnawd dynion. Nid oedd gweled arwyddion o'r arferiad barbaraid hwn yn beth dieithr i'n mordeithwyr.

**IFOR.** Fy nhad, wrth feddwl am y fath arferiad creulawn, oni ddylem fod yn dra diolchgar ein bod yn byw mewn gwlad waraidd?

**TAD.** Dylem. Hefyd, y mae erbyn heddyw wedi dod yn destyn diolch bod agos yr holl wledydd yr ydym wedi bod yn son am danynt wedi eu gwareiddio i raddau dymunol iawn drwy ddylanwad yr efengyl. Y diwrnod nesaf, enillwyd sylw a dyddordeb mawr y

cwmni gan nifer luosog o adar yn canu, am ddau o'r gloch y bore, y rhai oeddynt ar y lan, tua chwarter milldir oddiwrth y llong. Yr oeddent megis yn gorweithio eu horganau cerddorol i ymgystadlu â'u gilydd. Yr oedd eu gwyllt beroriaeth yn anrhaethol uwch na dim a glywsant yn y cylch hwnnw o gerddoriaeth. Dywedent eu bod yn seinio yr un fath a chlychau bychain wedi eu tiwnio yn dda. Cafodd ein boneddwyr ar ddeall gan y brodorion fod holl adar cerddorol eu gwlad yn dechreu canu tua dwy awr wedi canol y nos, ac yn parhau eu cyngherdd hyd godiad haul, ac wedi hynny yn ddistaw hyd ddau y bore canlynol, gan ddal at yr un ddeddf yn ddieithriad. Felly, y maent yn debyg i'r eos ac ehedydd y nos yn ein gwlad ni. Ar y 18fed, aeth Capten Cook yn y *pinnace* i arolygu y forgilfach, lle yr oeddynt ar y pryd, a chafodd ei bod yn un eang iawn, ac iddi lawer o fân borthladdoedd a llochesau. Yr oedd ar yr ochr orllewinol iddi goedwig fawr, anhreiddadwy. Pan oedd Capten Cook a'i gyfeillion yn dychwelyd at y llong, cyfarfuasant â gŵr unig yn ei gafnaf yn pysgota. Er iddynt dynnu yn agos ato, ni wnaeth yr un sylw ohonynt o gwbl, hyd yn oed pan oeddynt wedi dyfod yn gydochrog âg ef. Ond cawsant ar ddeall nad oedd y fath ymddygiad yn profi hurtrwydd, na sarugrwydd; oblegid, wedi gofyn iddo os gwnelai godi ei rwyd i fyny iddynt gael gweled y fath un oedd hi, gwnaeth hynny gyda'r parodrwydd mwyaf; ac hefyd, danghosodd iddynt ei gynllun ef o bysgota, yr hwn oedd yn syml a chywrain. Ar y 19eg, pan oeddynt oll yn diwyd gyfiwnai gorchwyl arbennig yn y llong, daeth nifer o'r brodorion atynt, a chanddynt luaws o bysgod, i'w cynnyg yn gyfnewid am hoelion. Hwn oedd y tro cyntaf i frodorion New Zealand amlygu eu bod wedi cael allan ddefnyddioldeb hoelion.

*Dinas, Rhondda.*

W. JAMES.

## Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.

### I. LLYTHYREG (*Grammar.*)

**D**YSGA LLYTHYREG,—gramadeg bur, Wrth ddysgu'n gywir cei aml i gur, Pan lenwi y pen â ffeithiau'n bwn Fe dyfa 'rwy'n sicr yn hir neu gwrn.

Dyna lythyreg,—celfyddyd yw, Hanfodol ei dysgu i ddynol ryw, Ei gwaith yw dosbarthu y geiriau mân I wneuthur brawddegau mewn rhydd-iaeth neu gân.

*Utica.*

Cyfla'r ymadrodd yn ddestilus a chun Mewn syml reolau i ddeall pob un; Ei lle geiff pob brawddeg, ac hefyd bob gair, [ffair. Er symud a newid fel defaid mewn

Dechrena trwy ddysgu yn syml A.B., Meistrrola bob rheol a roddir i ti; Ac yna cyfiwyni dy feddwl yn llawn, A gweli fod gwerth mewn llythre iawn.

R. EUROG JONES.





“Robin goch ar ben y rhiniog,  
Yn gofyn tamaid heb un geiniog;  
Ac yn dwedyd yn ysmala,—  
‘Mae hi’n oer, mi ddaw yn eira.’”

O “*Hwiangerddi Cymru*,” gan Miss Winifred Hartley

HEN HWIANGERDD.

## FRANKLIN A'R SEGURWR.

**O** BOB gwastraff, nid oes un gwaeth na gwastraffu amser. Rhaid i bawb sydd am ragori wneyd y goreu o'i amser. Mab afradlon yw y diogyn; mae yn gwastraffu peth mwy gwerthfawr nag arian. Glywsoch chwi am y wers dda roes Benjamin Franklin i'r segur-ddyn, ys talwm?

Ryw fore, tra yr oedd Franklin yn brysur iawn yn ei swyddfa yn paratoi ei newyddiadur i'r wasg, dyna seguryn yn dod i mewn i'r siop,—siop lyfrau oedd hi,—ac yn treulio awr yno i ddiog edrych o gwmpas ar y gwahanol lyfrau. O'r diwedd, y mae yn pigo un i fyny, ac yn gofyn i'r bachgen o was oedd yno faint oedd ei pris.

“Dolar,” ebai'r bachgen. “Beth, dolar gyfan?” ebai'r gwr segur, “wnewch chwi ddim cymeryd llai?” “Na wnawn, dolar yw'r pris.”

Treuliodd y segurwr agos i awr gyfan arall i ymlolian o gwmpas, ac yna meddai,—“Ydyw Mr. Franklin i mewn?” “Ydyw, y mae yn ystatell y wasg.” “Mae arnaf eisiau ei weled,” ebai'r gwr segur. Aeth y bachgen yn syth i ddweyd wrth Mr. Franklin fod boneddwr yn y siop eisiau ei weled. Daeth Mr. Franklin i mewn tu ol i'r cownter yn union; ac ebai'r gwr diog wrtho, a'r llyfr yn ei law,—

“Mr. Franklin, beth ydyw'r pris isaf tedrwh chwi gymeryd am hwn?”

“Dolar a chwarter,” oedd yr ateb parod.

“Dolar a chwarter! Ond yr oedd y gwas yn ei gynnig am ddolar.”

“Digon gwir,” ebai Franklin, “buasai yn well gennyf ei werthu am ddolar y pryd hwnnw, na chael fy nhynnu oddiwrth fy ngwaith.”

Ymddanghosai y gwr segur fel wedi ei synnu yn fawr wrth hyn; ac ebai,—er mwyn terfynu yr ymeiriach ynfyd ddechreuasai efe ei hun,—

“Dowch, dowch, Mr. Franklin, beth yw'r pris isaf gymerwh chwi am dano?”

“Dolar a hanner,”

“Dolar a hanner! Wel, yn wir, oni ddarfu i chwi eich hun ei gynnig am ddolar a chwarter?”

“Do,” meddai Franklin, “a buasai yn well gennyf gymeryd hynny y pryd hwnnw, na dolar a hanner yn awr.”

Talodd y segurwr y pris, ac aeth allan ynghylch ei fusnes,—os oedd ganddo fusnes hefyd,—yn sobrach, os nad yn gallach, dyn.

H. BRYTHON HUGHES.

## MARY JONES.

**B**YDDWN yn cyfarfod âg amgylchiad bychan weithiau yn tynnu ein sylw, ac yn defiro adgof ynom am amgylchiad arall fyddo yn dal cysylltiad âg ef; felly, pan oeddwn yn edrych ar ddarn o Feibl mewn tomen, meddyliais am Mary Jones.

Byddai yr hen bŵl ers talwm yn gweled "bys rhagluniaeth" mewn amgylchiadau fyddai yn cymeryd lle o'u cwmpas, ac yn gweithredu yn ol yr awgrymiad fyddent yn ei weled ynddynt, ac felly yn osgoi llawer o drybini. Ond mae lle i ofni fod y craffder hwnnw wedi ei gollu o'n plith o ddiffyg arferiad, nes ydym yn rhy ddall i allu rhagweled y pethau, nes y bydd yn rhy ddiweddar i ni allu eu hosgoi; ac yn y trybini byddwn yn ceisio cysuro ein hunain wrth ganu,—

"Disgwyl pethau gwych i ddyfod,  
Croes i hynny maent yn dod."

Ond os na wnawn ddefnyddio pethau mae natur yn eu rhoddi i ni, mae hi yn sicr o'u galw yn ol, a'n gadael yn noeth yng ngofal ei deddfau didrugaredd. Ond gadawaf i'r darlennydd yn awr ddychmygu beth mae yr amgylchiad bychan (os bychan hefyd) uchod yn ei awgrymu.

Yr hyn oedd yn fy nharo i gan yr adgof a gynyrchwyd yn yr amgylchiad dyddorol uchod, oedd, mor amlwg mae bys rhagluniaeth i'w weled i ni heddyw, beth bynnag, yn symudiadau bywiog Mary Jones. Ac mae rhyw neillduolrwydd i'w weled yn ei symudiadau er pan oedd yn blentyn; ac yn ei harwain i gynyrchu un o'r symudiadau pwysicaf a fu yng Nghymru erioed.

Yr oedd Mary yn byw mewn lle bychan o'r enw Ty'n y Ddôl, wrth ymyl Cader Idris. Sefydlwyd eglwys heb fod ymhell iawn oddiwrth ei thy. Yr oedd y ffordd oedd yn arwain o'r ty i'r capel yn afrywiog iawn,—yn garegog, pantiog, a thyllog,—ac yn anhawdd iawn ei cheredded. Ffordd y tylodion oedd. Hefyd, nid oedd y saint yn caniatáu i blant bychain fyned i'r eglwys at Grist y dyddiau hynny; ac mae lle i ofni fod effaith hynny i'w weled heddyw. Yr oedd yr hen wraig, mam Mary, wedi rhedeg i oed; felly, yr oedd yn anhawdd iawn iddi gerdded ffordd ddrwg, yn enwedig ar nosweithiau tywyll. Ond yr oedd yn rhaid iddi gael myned i'r capel; ac yr oedd yn foddllawn i fyned drwy dipyn o drybini i tyned yno hefyd. Ac ar ryw noswaith dywell, niwliog, ddu, meddyliond am ofyn i Mary ddyfod gyda hi i'r seiat i gario y lantern iddi allu gweled i gerdded; ac yr oedd Mary yn gwenu o falchder am y cyfle i oleuo y ffordd oedd yn arwain yr hen wraig at y Gwirionedd a'r Bywyd. Mae y

ddwy yn cychwyn, Mary yn blaenori ychydig, ac yn gwneyd pob ymdrech i lenwi ei swydd; ac yn dweyd wrth yr hen wraig yn awr ac eilwaith am wyllo y gareg yna, a dyfod rownd ffordd hyn rhag iddi syrthio i'r pwll dwfr acw; a gwneyd tipyn o rodres plentynaidd i roddi pwysigrwydd ar ei swydd, er mwyn iddi gael myned hefo yr hen wraig i'r seiat eto ar nosweithiau tywyll; oblegid nid oedd yr eglwys yn caniatau iddi fyned yno yng ngoleuni'r haul. Am hynny, trefnodd rhagluniaeth ffordd garegog iddi gael myned yno yng ngoleuni lantern. Felly, chwareu teg i Mary, defnyddiodd dipyn o gyfrwysdra hefyd i gyfarfod a'r amgylchiad i gael yr hyn oedd wrth ei hymyl, eto yn cael ei wrthod iddi oherwydd ofergoedd yr eglwys.

Cyrhaedda y ddwy y capel, distoddir y lantern, aiff yr hen wraig i mewn, a Mary ar ei hol. Teifi y brodyr lygaid gwgus ati; ond goddefir iddi aros yno er mwyn yr hen wraig. Felly, yr oedd yn eithriad i blant y wlad; ac yr oedd presenoldeb Mary yno yn eithriad i reolau yr eglwys hefyd. Sugnodd ddigon o ddiwyll laeth y Gair i'w henaidd bywiog i godi syched ynddi am ragor; ac yr oedd y syched hwnnw yn gwneyd iddi hithau fod mor ddiwyd a'r wenylen i chwilio am fwy.

Toc, sefydlwyd Ysgol Sul yn yr ardal; ond nid oedd gan Mary Feibl i fyned yno; ac yr oeddynt yn anaml yn yr ardal. Mae yn dechreu chwilio am un, ac yn myned o'r naill dy i'r llall i'r diben hwnnw. Clywodd fod un mewn ffermdy tua dwy filldir oddiwrth ei thy, ac aeth yno, a chafodd ganiatad i'w ddarllen. Tua deng mlwydd oed yw Mary yn awr. Cerddodd i'r ffermdy hwn unwaith bob wythnos am tua chwe blynedd i ddysgu adnodau i'w hadrodd yn yr Ysgol Sul a'r Seiat. Cododd awydd ynddi am gael Beibl ei hun, a dechreuodd gasglu arian i'r pwrpas hwnnw. Mae yn gwneyd mân negeseuon i hwn a'r llall yn yr ardal, ac yn cael dimeu neu geiniog am hynny, ac yn cadw pob un yn ofalus yn ei thrysorfa. Ac ymhen y chwe blynedd, casglodd ddigon i gael Beibl; ac mae yn paratoi i gerdded bob cam i'r Bala i'w brynnu, tua hanner cant o filltiroedd rhwng mynd a dod.

Y gofyniad sydd yn codi yn naturiol yma yw,—Paham na fuasai rhywun cryfach a hynach na hi yn gwneyd y tro i wneyd y neges hon, ac i gerdded y fath ffordd? Cadwodd rhagluniaeth y drychfeddwl allan o feddwl ei rhieni, am na fuasai yr amgylchiad yn ddigon eithriadol, bywiog, a tharawiadol, i gynyrchu y symudiad mawr a phwysig a gymerodd le drwy y fflachiad sydyn ac eithriadol a gynyrchwyd gan symudiadau eithriadol a bywiog Mary Jones.

Mae yn paratoi i gychwyn i'r Bala. Nid oes na llew nac arth ar y ffordd. Mae yn feddiannol ar y ffydd honno sydd yn cynhyrchu darlun o flaen y meddwl o'r hyn mae y galon yn ei ddymuno, ac yn rhoddi ynni ynddi i sylweddoli y darluniad hwnnw.

Mae yn cychwyn a'r walet ar draws ei bysgwydd, ac ychydig o ymborth ynddi, a phar o esgidiau wedi ei lapio o dan ei chesail, ac arian yn ei dwrn. Yr oedd yn well ganddi gerdded yn droednoeth. Mae yn camu yn fân a bywiog. Saif yr hen wraig ar riniog y drws, a'i llaw uwchben ei llygaid, yn syllu ar Mary yn cychwyn i'r daith bwysig; a theifl hithau ei golwg yn ol yn awr ac eilwaith, yna collant olwg ar eu gilydd yn y pellder. Nid oes dim bellach yn gwneyd iddi edrych yn ol; eithr cadwa ei golwg ymlaen yn ddiysgog. Toc, mae yn eistedd wrth ymyl firwd, ac yn cymeryd tipyn o frechdan o'r walet, yn ei bwyta, ac yn myned ar ei gliniau wrth ochr y firwd i gael diod. Ail-gychwynna, gan dincian yr arian i newid tipyn ar undonedd y daith.

Ymhen y rhawg mae yn cyfarfod â rhywun, ac yn gofyn iddo faint o ffordd sydd i'r Bala. Pymtheg milldir. Gwena yn y drychfeddwl ei bod bron a chyrraedd hanner y ffordd. Aiff ymlaen, ac nid oes dim ond gwlad eang a dieithr o'i blaen; ac nid yw yn cyfarfod â dim o bwys i dynnu ei sylw, heblaw ambell i groesffordd i beri iddi betruso, a'i gorfodi i droi o'r ffordd i ofyn pa ffordd sydd yn arwain i'r Bala. Mae yn cael gwybod gan rywun nad oes ond pum milldir eto o'r daith; a llama ei chalon gan lawenydd, wrth feddwl fod ei llafur a'r drychfeddwl sydd ganddi yn cael ei weithio ers chwe blynedd yn cael ei goroni. Daeth tref y Bala i'r golwg; ac mae yr haul yn machludo. Mae yn troi o'r ffordd at y firwd sydd yn y cae i olchi ei thraed, ac i roddi hosanau ac esgidiau am danynt, a thrimio tipyn ar ei gwallt, cyn myned i'r dref, ac i ymddangos ger bron Mr. Charles, i gael y Beibl. Mae y trysor gwerthfawr yn y golwg, ac mae awyrgylch ei gobaith yn glir, a seren arweiniol ei gyrfa fywiog yn ddisgleiriach nag erioed. Mae ei gobaith mor danbaid, a'i hymgais mor fywiog, a'i hymlyniad mor ddidwyll wrth y drychfeddwl o gael y Beibl iddi ei hun, fel y buasai ei siomi yn olygfa dorcalonnus dros ben. Aiff ymlaen ar antur, gan gyfeirio at ganol y dref. Gofynna i hwn a'r llall am dy Dafydd Edwards, a chyfeiria pob un ei fys "acw" yn ddiog oeraidd. Ar ol troi a throi yn ei dieithrwch, caiff hyd i'r ty; cura wrth y drws, agorir, gwahoddir Mary i mewn. Adrodda ei hanes yn ofalus, a chymerir dyddordeb mawr ynddi. Ond y mae yn rhy hwyr i weled Mr. Charles, felly erys yno tan y bore, braidd yn siomedig.

Cododd Mary o'i gwely bore drannoeth can iached a'r gneuen, ac yn barod i waith. Yr oedd balm cwsg wedi ymlid pob blinder allan o bob gewyn a chymal o honi. Mae yn adrodd rhannau o'r Beibl wrth y teulu tra yn bwyta ei boreufwyd. Mae Dafydd Edwards yn myned allan, ac aiff Mary ar ei ol, a'r walet ar draws ei bysgwydd i gario y Beibl adref. Gwelant fod goleuni ym myfyr-

gell Mr. Charles; ond mae y tai ereill sydd o gwmpas yn dywyll. Cura Dafydd Edwards y drws, a daw yr hen batriarch i agor iddynt. Gwahoddir hwy i mewn, gan ryfeddu at eu hymweliad mor fore, a sylla yn neillduol ar Mary a'r walet. Edrydd Dafydd Edwards hanes Mary yn ofalus; edrydd hithau rannau helaeth o'r Beibl. Ysgydwya Mr. Charles ei ben yn dosturiol. Edrycha Mary yn ddiysgog i lygaid Mr. Charles tra mae yn dweyd fod yn wir ddrwg ganddo nad oes ganddo Feibl ar law, ond y rhai y mae wedi eu cadw i gyfeillion. Gwthiodd y frawddeg yna gwmwl du rhwng llygad meddwl Mary a'r seren honno oedd wedi ei chadw yn fywiog a chalonnog ar hyd y daith hir. Collodd olwg ar holl ddedwyddwch ei bywyd. Dacw ddeigr yn bychan yn lithro yn ysgafn dros ei boch wridgoch. Ceisia siarad, mae'n teui, gan gymeryd cornel y walet i sychu ei llygaid. Ceisia Dafydd Edwards a Mr. Charles siarad, gan edrych yn syn ar Mary; ond mae yr olygfa yn eu gorchfygu. Erbyn hyn, llithra dagrau yn firwd o hyawdledd distaw, dwfn, cynhyrfus ar hyd ei gruddiau, gan ddatguddio tanbeidrwydd ei theimladau. Tarawyd cwpan dedwyddwch Mary dlawd oddiwrth ei gwefus yn ddiarwybod i'r cymeriadau gonest oedd yn y lle. Wyla gan lefain dros y lle ac yn ei thywyllwch. Metha Dafydd Edwards a Mr. Charles a dal yr olygfa, maent yn wylo fel dau blentyn yn ymyl Mary. Y mae gormod o ysbrydiaeth drydanol yn yr amgylchiad i galon ddynol ei wrth-sefyll. Yr oedd yn rhaid i Feibl ddyfod o rywle i stopio yr hyawdledd distaw oedd yn ysgydian y lle.

"Fy ngeneth anwyl i," meddai yr hen batriarch nobl, Mr. Charles, yng nghanol y dymestl, "mae yn rhaid cael Beibl i ti o rywle, a cheisiaf wastadhau y pethau eto gyda'r cyfeillion. Yr wyf yn siwr y gwnant oddef ychydig er mwyn yr amgylchiad dieithr hwn." Estynna un o Feiblau ei gyfeillion iddi; estynna hithau yr arian yn fywiog iddo yntau, a rhydd hwy o'r neilldu heb eu cyfrif. A chynhyrchodd yr amgylchiad syml, sydyn hwn y fath don o fywyd, nes cynhyrfu calonnau llonydd yr awdurdodau yng Nghymru, Lloegr, a manau ereill yn Ewrop i gynyrchu y symudiad mawr a phwysig a gymerodd le ar ol hynny. Yna, mae Mary yn sychu ei dagrau, ac yn ceisio stopio ei hocheneidiau, tra yn edrych ar ei Beibl, ac yn ei roddi yn y walet yn ofalus, a'i thafu ar draws ei hysgwydd. Rhydd Mr. Charles gynghorion caredig iddi. Mae yn cychwyn adref a gwên ar ei gwyneb; a phum milldir ar hugain o ffordd o'i blaen eisiau eu cerdded bob cam. Felly, llwyddodd i sylweddoli ei dymuniad, megis, drwy drais. Yr oedd yn dlawd, a bu ei hymdrech yn y sefyllfa honno i gael y Beibl yn foddion i symud Cymru o dywyllwch i oleuni. Cofiwch Mary Jones.

*Wind Gap, Pennsylvania.*

TALYWAENYDD.

## CARTREF.

SUT I WNEYD AELWYD HAPUS.

**S**ONIASOM o'r blaen pa fodd i orchfygu blys. Ond bellach awn rhagom i geisio "gloewach nen." Y flordd oreu i fwynhau bywyd yw GORFFWYS yn ystyr Iesu Grist. A thebyg mai gorffwys yw'r gair goreu am y pleſer ga dyn wrth wneyd gwaith fydd wedi costio disgyblu hir ar ei gyfer.

Rhaid wrth athraw medrus a rhieni craff i dynnu plentyn i osod yr iau arno ei hun. A'r unig flordd effeithiol yw hon. Cymer fwy o amser na'r un arall, ond bydd y ffrwyth yn llawer cyfoethocach. Pan y denir plentyn i ddisgyblu ei hun,—i gymeryd trafferth i ddysgu dweyd y gwir, i bigo pob rhinwedd ym mhawb o'i ddeutu, ac i hiraethu am feistrolaeth ar bob nwyd,—daw bywyd yn wir fwynhad.

Dyma'r gorchwyl anhawddat o'r cwbl,—gwneyd i blentyn gondemnio ei frychau ei hun, a gosod ei law arnynt i'w symud. Ond wrth fynd ati'n iawn, gellir creu ac ennyn dyddordeb puraf plant yn eu tyfiant a'u bywyd eu hunain.

Un peth aniddig i blant ydyw, y disgwylir mwy oddiwrthynt weithiau nag a ddylid. Ac i wella hyn, dylid cyfarwyddo'r plant i wneyd eu tasg yn siriol ac yn y drefn debycaf o'u cynorthwyo i fynd trwyddo heb dorri eu calonnau. Y mae'n bwysig cadw natur y plentyn yn hapus. Pan y poenir ef, ymedy hanner ei egni ar unwaith. Ond po ddiddicaf y cedwir ef, tebycaf yn y byd yw o drethu ei holl egni, a meithrin hyfrydwch yn ei waith. Gwywer pob natur ddrwg wrth beidio ei ddefro, a mager pob tuedd i dyfu nes y delo'n gariad byw. Tal pob trafferth gymerir i ddysgu plant i weithio'n hwylus a deheuig; oblegid yn y perfeithrwydd a gyrhaeddir, wrth ddefro dyddordeb, y mae gwir hapusrwydd plentyn.

Peth hapus iawn i mi yw gweled pob plentyn mewn teulu ag offeryn cerdd ganddo, neu ardd flodau, neu greadur dof i ofalu am dano; bod rhai yn ymhyfrydu tynnu lluniau neu ddechreu saernio, ereill yn helpu eu mam, a'r lleill yn canlyn eu tad. Pe telid ychydig mwy o sylw i'r plant, gellid yn bur hawdd wneyd iddynt deimlo'n falchach o'u cartrefi ac o'u gwlad. Nid oes dim yn fwy niweidiol i dyfiant plant na gormod brys hefo phopeth. Rhaid wrth hamdden a thawelwch i dyfu. Hoffa plentyn wneyd deryn o waith gwych. Arferer ef gan hynny i ymhyfrydu gwneyd pob swydd yn dda. Cas beth rhai gyda phlentyn yw eu gyrru at y naill beth a'r llall, yn lle eu cadw wrth orchwyl i'w wneyd yn loew. Gwell lawer yw un peth

wedi ei orffen, na dau neu dri ar hanner eu gwneyd. Ac am hir, hwyrach, dylid cydymddwyn ag arafwch plant. A chyn hir, gwelir aml un fu'n llusgo wedi gweld rhywbeth newydd. Y mae'r addfedrwydd a gyrhaeddodd yn araf yn gryfder mawr iddo erbyn hyn. Baich yr ysgrif fach hon yw,—meithriner addfedrwydd o hyd. O hynny tardd gwir hapusrwydd. Gellir bod yn ddefnyddiol iawn wedyn ym mhob cylch, a bydd yr awyrgylch yn ysgafn, a holl natur y plentyn yn nwyfus, a than ddisgyblaeth hawdd ei dwyn.

*Trefeca.*

EDWARD EVANS.



“FYDDAI'N WELL I MINNAU FYND A 'NGHEFFYL?”

---

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLLYN, Y BALA.

---

ARGRAFFWYD A CHYTHRODDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBOSAN.



# AT Y PLANT.



**ED.** Ie, dodwy a wna seirff. Mae python, meddir, yng ngerddi y Belle Vue, Manchester, wedi dodwy tua hanner cant o wyau. Y maent gymaint ag wy twro, heb blisgyn, ac o liw gwyn budr.

**J.** Nid wyf yn gofyn i neb dalu am unrhyw ddarlun ymddengys, ac nis gallaf adael i ddarlun ymddangos ar yr amod fod rhywun yn talu am ei gerfio. Ni waeth gennyf fod golygyddion ereill yn derbyn arian at gerfio, yr wyf fi am fod yn anibynnol. Prydferthwch y darlun, a theilyngdod yr ysgrif, a hynny'n unig, a ystyriaf fi. Yn aml iawn anfour imi photograph a hawlfraint arno; a chymer i mi fisoedd weithian i gael caniatad yr arlunydd. Os gofynnwch i arlunydd dynnu darlun i chwi, a thalu am dano, chwi bia'r hawlfraint arno. Ond os prynnwch ddarlun mewn siop, nid oes gennych hawl i'w anfon i mi i'w roddi yng NGRYMRU'R PLANT heb gennad yr arlunydd.

**MAIR.** Y mae rhai gwenoliaid yn dod mor gynnar a chanol Ebrill.

**AB TŒGID.** Y mae'r gair "Mi dala i chwi yn ffair Llangower" yn eithaf cyffredin ym Mhenllyn. Ffordd o ddweyd na thelir ydyw; oherwydd nid oes ffair yn Llangower. Y mae dywediad cyffelyb ym mhob gwlad bron.

**TAD.** Oes, y mae lluoedd o blant yn gadael yr ysgol ddyddiol, wedi bod trwy'r holl safonau, heb fedru ysgrifennu llythyr Cymraeg yn hanner cywir, ac heb glywed son am brif awduron Cymru. Nid ar y Llywodraeth y mae'r bal, ond ar reolwyr ysgolion ac ar yr athrawon.

**LW.** Ie, "blessed is he" yw "gwyn ei fyd." Llwyd, gwyn, a du yw Lloyd (Grey; Brown), Wynne (White), a Dee (Black).

**LLEYN.** Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy yw'r gyfrol newydd yng Nghyfres y Fil. Gellir ei chael am 1/6 oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Argraffwyr, Conwy.

**MAM SIÂN.** Dylai'r Llythyrdy ymohebu â chwi yn Gymrzeg ynglŷn âg arian Sian yn y Bauc Cynilo.



DIWYDIANNAU CYMRU. V. TORRI FFORDD HAIARN.



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XIII.

MAI, 1904

RHIF 149.

## O AROS, MAI.

O AROS, Mai, a dysg i fyd  
 Ef-nygl tlysui'n rhad;  
 Mae'r go-dwig werdd yn curo 'ng nghyd  
 Ei dwylaw mewn boddhad;  
 Myn foddi pob angenol gur,  
 Mewn bywyd fo'n ddi drai;  
 Rhyw ddarlun wyt o fywyd pur  
 Y nef, O aros, Mai.

O aros, Mai, coroni'th fron  
 Mae'r llygaid dydd di-ri;  
 Mwyalchen fwyn, a bronfraith lon,  
 Chwibanant glod i ti;  
 Gadewaist lys paradwys lân,  
 I lonni teulu'r bai;  
 Dy felus fawl yw adlais cân  
 Y nef, O aros, Mai.

O aros, Mai, creu hwyl a hoen,  
 Wnei'n falmaidd wledd i ni;  
 Anghofa'r byd ei ing a'i boen,  
 Yn swm dy delyn di;  
 Troi ofnau mae'th wyrddlesni braf  
 Yn obaith wrth ein tai;  
 Wrth addaw haf. cyhoeddi haf  
 Y nef, O aros, Mai.

*Y Bala.*

RICHARD AB HUGH.

## CAWOD O ADAR.

**G**WYDDOCH fod miloedd o adar yn ein gadael ar ddiwedd yr haf, ac yn dod yn ol yn nechreu y gwanwyn. Ant yn bell iawn, mor bell a gwledydd poethion Affrig. Yna, croesant y moroedd maith yn ol, a hyfryd iddynt ydyw gweled hen wlad eu nythod unwaith drachefn. Ond weithiau cyrhaeddant yn y nos. Dyma hanes trychineb ddigwyddodd i haid fawr o adar ger Pwllheli, wedi ei godi o'r *Genedl Gymreig*, Mawrth 22. 1904.

“Pan oedd settsmen Carreg yr Imbill yn gweithio tua dau o'r gloch bore dydd Gwener, a phan oedd dwy long yn ymyl y cael, dyma gawod o adar yn disgyn ar eu cefnau nes y dychrynwyd hwy yn fawr iawn. Methent yn lân a sylweddoli y ffaith am rai muuadau mai adar a ddisgynnt. Deuai yr adar yn erbyn cauadau y 'malwr mawr' yn heidiau. Cyn pen ychydig o funudau yr oedd miloedd o adar hyd y gwaith ac ar y ddaear ac yn mhob cyfeiriad. Yr oedd y ddwy long, o'u mastiau i lawr, yn adar i gyd, a'r olygfa yn anhygoel. Gellid eu gweled trwy fod goleuadau mawrion, cryffon, yn y gwaith. Pan ddaeth y bore, yr oedd miloedd o'r adar, rhai yn feirwon, rhai yn hanner meirwon, a rhai yn fyw ar ben Carreg yr Imbill ac ar hyd oddiyno i ben y Cob. Archwillasom rai ohonynt, a sylwasom eu bod wedi eu hanafu yn eu pigau neu yn eu llygaid. Dyma enwau rhai o'r adar a welsom ni,—Aderyn Du, Aderyn yr Eira, y Gylfnhir, y Fronfraith, ac Iar y Mynydd. Casglwyd cannoedd o'r adar gan y cannoedd pobl a ymwelasant a'r lle ddydd Gwener. Tua saith o'r gloch y bore, ehedodd yr adar oedd ar ac yn y ddwy long ymaith. Tybir fod yr adar ar eu ffordd i rywle, ac iddynt gael tynnu eu sylw gan y goleuni llachar oedd ar y Garreg, ac yna myned yn erbyn hwyl-brennau y llongau ac yn erbyn y creigiau, cael eu hanafu, ac yna disgyn yn gawodydd, fel y dywedwyd, ar y ddaear. Ni welwyd y fath olygfa erioed o'r blaen yn y lle.”

## ANIAN.

**M**AE Anian drwy'r gauaf yn cwyno'n ddi-hedd,  
Y rhew-wynt a'r eira anurdda ei gwedd,  
Prydfertwch a thlysi yn cilio dan len,  
Mae natur yn welw, ni chyfyd ei phen;  
Mae gwyneb y ddaear mewn prudd-der  
a thristwch, [tawelwch.  
A chorau y goedwig i gyd mewn

Ond ah! pan ddaw'r gwanwyn, mae'n  
orlawn o hedd,  
A bywyd o newydd yn gloewi ei gwedd,  
Tlysi yn dawnsio mewn hyfryd  
fwynhad, [wlad;  
A llawn o farddoniaeth yw gwyneb y  
Pan ddarffo y gauaf, a'i oerllyd awelon,  
Dadebru wna anian i wisgo ei choron.

*Trisant.*

Alawon y goedwig sy'n ber a chytun,  
Yn llawn o gynghanedd blygeiniol bob  
un;  
A murmur yr afon wrth fynd tua'r môr,  
Dan ganu ei halaw o foliant i'r Ior;  
O swynion digymar, soniarus a hyfryd,  
A llawn o arddunedd, mae popeth yn  
fywyd.

Y blodau amryliw, a'r lili a chwarrd,  
Mae rhosyn teleidwif'n addurno yr  
ardd; [gawn,  
Holl anian mewn tlysi yn moli a  
O fywyd dihafal! Mae Duw ynddo'n  
llawn, [dragwyddol,  
Fel rhyw ysbrydoliaeth o'r Ganan  
Sy'n aros y Cristion draw yn y dyfodol.

D. AP GWILYM.

## "FE DDAW LLYWELYN ETO'N OL."

## VI. NEWYDD CYFFROUS.

NID ychydig oedd siomedigaeth pobl Dôl Feurig pan welsant yr hen "Lion" yn angori yn llyn yr Hafod, tua dwy filldir i lawr yr afon, a phan ddaeth i fyny i Ddôl Feurig gyda'r nos nid oedd i aros ond am awr neu ddwy. Ni chafodd Rhobet Dafydd ond bron ddigon o amser i roddi tro trwy'r pentref, tra byddai'r bechgyn yn dadlwytho ychydig o drawstiau, fel y dywe'tai. Yr oedd pawb o'r bron yn holi am Llywelyn, ac nid ychydig boen i'r hen forwr oedd clywed fod gostegion y Capten a Gwen wedi eu rhoddi allan y Sul cynt. Nid oedd Llywelyn gydag ef y tro hwn, ebai, ond yr oedd yn gobeithio ei weled yn dod i edrych am danynt i Ddôl Feurig cyn hir. Ac yr oedd yn dda gan yr hen forwr nad oedd amser yn caniatáu iddo ateb pob cwestiwn ynghylch Llywelyn yr Ardd Las, ac ar ei ffordd i'r "Storws" yr oedd yn sisial rhywbeth am Llywelyn rhyngddo ag ef ei hun o hyd. "Beth sy'n dod o hono, tybed? Mae Gruffydd yn un mor ryfedd, fel y mae'n gwneyd i mi bryderu mwy nag y dylwn ynghylch y bachgen. Siopwr, ynte saer, ynte beth ydyw'n awr, tybed? Ond mae'n rhaid i mi ddal at y cytundeb wnaethum â Guto 'nghefnder, a pheidio busnesa dim yn ei gylch, er fy mod yn teimlo'n edifar lawer pryd fy mod wedi ei roddi yng ngofal un mor ryfedd. Ond arwydd dda iawn hefyd, gan gofio, ydoedd clywed Gruffydd yn dweyd yn ei lythyr diweddaf nad oedd eisieu i mi anfon rhagor o arian i gadw'r bachgen, ac mae hynny'n dangos ei fod yn abl i gadw ei hun."

Rhyw synfyfyrion fel hyn yr oedd pan gyrhaeddodd y "Lion," hyd nes iddo glywed y dadwrdd yn y "Toilers' Rest" noson y wledd. Bu yno ddawnsio a chanu ac yfed hyd "oriau mân y bore," ond yr oedd Rhobet Dafydd wedi 'laru ar eu swm ymhell cyn deg o'r gloch, ac ebai,—

"Pennaf peth o'r byd yw cwrw,  
Gwell na dim yw gan y meddw;  
Fe rydd enaid, corff, a chyfan,  
Am gael cwrw yn ei safan."

Drachefn meddyliai am briodas Gwen â'r Capten, yna am Llywelyn, ac ebai,—

"Nid oes ond trais yn llanw'r hollfyd,  
Pawb sy'n gwbl am y golud;  
Ni chaiff ungwr yn ei helw  
Ddim ag allo arall gadw."

Yr oedd yn dda cael gollwng yr hen gwch i lawr y Wendon ychydig wedi deg o'r gloch; a dyna'r tro olaf i "Lion" wneyd ei ymddanghosiad yn y "Storws,"—dyddiau "Lion" yn myned heibio, a'r gwaith aur yn cyrraedd anterth ei ddisgleirdeb.

Bore tranoeth y wledd, tarawyd Dôl Feurig â braw a dychryn. Caed Yswain y Fron wedi boddi yn llyn y bont, yn ymyl ei gartref. Mawr y dyfalu sut y cyfarfyddodd â'i ddiwedd; a oedd rhywun wedi ei dafu i'r llyn, ai ynte a oedd wedi colli ei ffordd a boddi yn y nos felly? Sisialai rhai o'r hen bobl eu bod hwy yn gwybod yn eithaf sut y bu, ond 'doedd neb yn enwi undyn. Ond y stori ddywedodd y Capten yn y Fron ydoedd a ganlyn,—“Y maent yn dweyd fod eich hen gariad yma neithiwr. Gwen, a bore heddyw dyma'ch tad wedi boddi. Cheir mo'r mêl heb y wermod, welwch chwi. Rhyfedd iawn i Llywelyn ymadael mor sydyn ganol nos. 'Does neb yn cydymdeimlo mwy â chwi na fi.”

---

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

UN diwrnod y Sulgwyn diweddaf gwelais geffyl yn cael ei werthu am gath ddu y newidiodd John y ci bach hoffus yw merched o'r gogledd y daw gwynt gwenwynlyd iawn yw pob llygoden fawr am grafu tatws cafodd Jane Ann y *First Prize* yn arddanghosfa Abertawe gwelais dorth fawr yn symud yr oedd y falwen ar y môr y gwelais hen lanc wedi colli ei wallt mewn llong arian sydd beth rhagorol i olchi tatws cyfloger ambell i bregethw sydd yn ymdroi gormod ar y ffordd yr oedd asyn yn myned i farddoni yr oedd bardd un tro ar destyn ardderchog y pregethodd y Parch. Thomas Roberts Caer dydd yw hi yn Awstralia pan yn nos yn y wlad yma bob amser y mae ceiliog Mary Jones yn canu bas sydd fwsig yr hen ddyinion sydd yn gwrthod priodi hen ferched call a welant ymhell i rstio gwydd rhaid cael tân da yw i ddyn ddwyn yr iau yn ei ieuencyd medd Solomon a chilio oddiwrth ddrygioni y negro sydd yn byw mewn gwlad fras mae India corn yn tyfu ar bennau mynyddau Cymru y gwelir golygfa hardd yw darluniau sydd yn CYMRU'R PLANT a straeon difyr sydd yno ac yr wyf yn diolch am dano.

T. O. W.

---

### PONT FWYAF Y BYD.

Y BONT hwyaf yn y byd yw Pont y Llew, ger tref Sangang, yn China. Y mae yn bum milltir a chwarter o hyd, ac yn croesi braich o'r Môr Melyn, gan orffwys ar 800 o fwâu cerrig, ac yn sefyll 70 troedfedd uwch wyneb y môr.



Mynyddoedd y Lleuad.

**MYNYDDOEDD Y LLEUAD.**

**N**I ddaeth y "dyn yn y lleuad" erioed i lawr i'n byd ni i ddweyd sut le sydd yno. Os oeda lawer hwy, bydd rhyw wyddonwr yr ochr yma wedi cynllunio dwy aden i'w giudo yno cyn hir. Bron na ddychmygaf i'r diwrnod hwnnw wawrio eisoes, a'i fod ar fin cychwyn. Awn gydag ef.

Cyn myned, awn at y seryddwr i fenthyca map,—na nid map, photograph,—o wyneb y lleuad. Mae cymaint o dynnu darluniau o wyneb y lleuad ag y sydd o dynnu wynebau pobl. Ond cael y darlun, byddwn mor hyddysg â mynyddoedd a dyffrynnoedd y lleuad ag ydym â rhai Cymru. Dylasem gael enwau rhai o'r mynyddoedd uchel yn y byd pell acw hefyd. Awn at y seryddwr drachefn, i

dderbyn un wers yn naearyddiaeth y lleuad. Gwyr ef lawer mwy am dani nag a wyr Stanley am ganolbarth du Affrig, na Nansen am wlad yr ia oesol yn y gogledd pell oer. Pan y trodd Galileo ac ereill eu pellwydrau arni ar y dechreu, tybiasant iddynt weled byd cyffelyb i'n daear ni, yn meddu ar foroedd a chyfandiroedd. Tybiwyd mai moroedd ydoedd y rhannau tywyllaf o'r wyneb, a'r rhannau goleuaf yn gyfandiroedd. Gwyddom mai cyfeilliornad noeth ydoedd y syniad o berthynas i'r moroedd. Enwyd y moroedd a'r mynyddoedd y pryd hynny. Gwnaiff yr enwau y tro i ni heddyw. Profir mai bryniau ac ucheldiroedd yw y rhannau goleuaf arni yn y modd canlynol. Gwyddoch na thry y lleuad ar ei hechel ond unwaith yn y cyfnod (28 dydd) y try hi o gylch y ddaear. Hyn a gyfrifa am y ffaith y try hi'r un wyneb tuag atom yn wastad. Felly, gan mai wyth diwrnod a'r hugain ydyw hyd ei dydd, rhaid felly fod un hanner iddi yn y goleuni am bedwar diwrnod ar ddeg, a'r ochr arall yn y tywyllwch am yr un cyfnod. Yn awr, pan sylla y seryddwr arni yn ei bellwydr, gwel fod yr haul yn graddol godi ar un rhan o honi. Bydd y wawr yn torri y pryd hynny i'r rhanbarth hwnnw. A phan ddaw y boreuddydd, gwelir cysgodion yn tramwyo y dyffrynnoedd a'r gwastadeddau draw acw. Cysgodion y mynyddoedd ydynt, yn ymdafu allan fel y cyfyd yr haul mawr dros y cribau ysgythrog. Rhaid felly mai ucheldiroedd yw y mannau deifl y cysgodion; yna diflannant pan fo'r haul yn tywynnu yn unionsyth uwchben. Wrth fesur y cysgodion ceir uchder y mynyddoedd. Dywedais y galwyd y rhannau tywyllaf yn foroedd. Nid moroedd mohonynt, ond gwelyau hen foroedd ydynt. Rhai o'r enwau gawsant ydyw,—Mor y Cawodydd a Bau Canol Lleuad (*Mid Moon Bay, Sea of Showers*). Enwau dynion galluog gadd y mynyddoedd,—Aristarchus, Plato, Kepler.

Gallwch ganfod rhai ohonynt gyda'r llygad noeth. Ewch allan y cyfle cyntaf a gewch gyda'r CYMRU'R PLANT, ac astudiwch wyneb y llawn lloer yng ngoleuni y darlun; eglurwch i'ch cyfeillion mai nid dyn sydd i fyny acw, ond byd oer, distaw, lludw byd, ond eto'n llawn o ryfeddod a dyddordeb i ni yr ochr yma. Syllwch ar y darlun o'r llawn lloer. Cymharwch ef â gwyneb y lloer. Goddefer i mi eich hadgoffa mai darlun yw o'r lleuad megis y gwelir hi drwy bellwydr seryddol. Yn awr, try y pellwydr hwnnw yr hyn edrychir arno a'i ben i lawr. Gogledd lleuad y ffurfafen yw y pwynt uchaf arni, a'r pwynt isaf y deheu wrth gwrs; y dwyrain ar yr aswy, a'r gorllewin ar y dde. Yn y darlun felly, y deheu sydd uchaf, a'r gogledd isaf, y gorllewin ar yr aswy, a'r dwyrain ar y dde. Na thrangwydded neb, troer y darlun a'i ben i lawr, yna cytuna y darlun â'r wir leuad. Syllwch ar y smotyn ar y tu uchaf i'r darlun,





RHAI O LOSGFYNYDDAU 'R LLEUAD.

(isaf ar y lleuad cofier) mynydd uchel yw. Tycho yw ei enw. Tua'r gwaelod yn y darlun, ychydig i'r gorllewin, sylwer ar un rhanbarth tywyll,—Mare Serenitatis (Mor y Tangnefedd) yw. Yn uwch ar yr un ochr gwelir Mare Crisium (Môr y Cyfnewidiadau), ac i'r dwyrain o'r gwaelod Mare Imbrium (Môr y Cawodydd). Syllwr hefyd ar y ddau smotyn ar y dde, tua chanol y darlun, cyffelyb i ddau ben aurafal digroenedig, Copernicus a Kepler ydynt; a dau cyffelyb, tywyllach, ychydig is,—yr Alpau ac Archemides ydynt. Hen losgfynyddau yw llawer o fynyddoedd y lleuad, hynny yw, pinaclau crynion ydynt, tebyg i rai'n daear ni. Ceir cadwyni o fynyddoedd hefyd, yr Appenines er engrafft. Dywedais losgfynyddau cyffelyb i'n daear ni; nid hollol felly ychwaith. Gwyddoch mai mynyddoedd crwn ydynt yma, wedi eu ffurfio o'r defnyddiau luchiwyd allan trwy y bibell arweinia i grombil y ddaear. Felly ar y lleuad hefyd, ond tu allan i'r pentwr ceir cylch anferth o fynyddoedd yr un uchder yn cwbl amgylchynu y pinacl yn y canol. Fel hyn yr esbonnir hwynt. Gwyddoch fod y lleuad yn llawer llai na'n daear ni, mae deddf atyniad yn llai felly. Teifi losgfynydd gerrig toddedig bum milltir i fyny yma; yno tafesid cerrig ddeng milldir a'r hugain, felly syrthiant yn bentyrrau crwn anferth lawer o filldir-oedd tudraw i binacl a phibell y mynydd tanlyd. Mae deugain ohonynt yn uwch na Mont Blanc, a llawer yn 25,000 o droedfeddi i

fyny; felly maent yn llawer uwch na mynyddoedd y ddaear, a chymeryd maintioli y ddau fyd i ystyriaeth. Buont yn taranu a melltenu, maent yn fud heddyw. Ni cheir yr un diferyn o ddwfr arni heddyw; rhaid y bu yno un adeg, neu pa todd y cysonir ei absenoldeb â'r ffaith mai dwfr a gynhyrcha y mynyddoedd tanllyd ar ein daear ni. Pe bae dwfr arni, cawsem weled y cymylau, a phan ar hanner llawn, buasai y moroedd ar yr ymylon yn wastad a llyfn, ond ysgythrog a chribog ydynt. Byd oer, marw, yw, mor oer fel y rhewa pan fo'r haul yn tywynnu am bedwar diwrnod ar ddeg heb fachlud. Paham? A ydych wedi anghofio gwrs yr awyr? Heb awyr, heb ddyn felly; ond paham nas bu yno un adeg, onide? Pan aiff y daeargwr yno ar ei adenydd, feallai y daw ag esgryn ffosylaidd dyn yn ol gydag ef.

Pan y rhed y trên i'r orsaf, defnyddir y *brake* ar yr olwynion i'w harafu. Tebyg yw dylanwad y lleuad ar y ddaear. Gwyddoch mai drwyddi hi y cynhyrchir y llanw. Trwy ddylanwad y llanw ar wyneb y ddaear arefir tro y ddaear ar ei hechel. "Felly mae heddyw yn fwy na ddoe, a bydd yfory yn hwy na heddyw?" Felly yn hollol. Mor fach yw y gwahaniaeth, hefyd, fel nad yw ond y filfed ran o eiliad mewn mil o flynyddoedd. Miliwnau ar filiwnau o flynyddoedd yn ol, pan nad oedd y ddaear ond clap o fater eirias-boeth, a phan na arafwyd ei thro gogymaint gan y lleuad, troai y ddaear y pryd hynny ar ei hechel mewn pum awr, a theithiai y lleuad o'i chylch yn yr un cyfnod. Yr oedd, wrth gwrs, yn llawer nes y pryd hynny. "Felly, fe fu y diwrnod a'r mis yn gyfartal, a hynny ond pum awr yn oesau bore'r byd?" Do. Gan mai arafu tro y ddaear wnaiff y lleuad, beth fydd ei hanes yn y dyfodol? Try y ddaear heddyw wyth ar hugain o weithiau am un cylch o dro y lleuad; ond daw y dydd o'r un hyd a'r mis yn y dyfodol pell. O hyn hyd hynny cynyddu y dydd o'r hyn yw yn awr i ddau fis o hyd. Miliwnau ar filiwnau o flynyddoedd ymlaen eto, tywynna'r haul ar ein gwlad y pryd hynny am ddau fis heb fachludo. Pa le bydd plant Cymru yr adeg honno?

SIGMA.

---

### DIRWESTWYR.

**D**IRWEST ddisglaer yw ein baner,  
 Achub meddwon yw ein gwaith;  
 Byddwn wrthynt oll yn dyner,  
 Codwn hwynt o'u carehar caeth.  
 Unwch ddynion 'n awr ar unwaith,  
 Cynorthwywch y rhai gwan,  
 Sydd yn cwyntaf mewn anobaith,  
 Methu'n deg a dod i'r lan.

*Treorci.*

Y mae gennym, bawb o honom,  
 Waith i'w wneuthur yma'n awr;  
 Gwneyd y meddwon yn rhai rhyddion  
 O afaelion tynn y cawr.  
 Hwn sy'n llygru pob daioni,  
 Ac yn rhwystro popeth da:  
 Dyro gymorth, addfwyn Iesu,  
 I waredu rhain o'u pla.

S. JONES.

## DAMHEGION CYMRU.

## IV. DAMEG YR YSGUTHAN A'R BI.

**Y** BI<sup>1</sup> a ganfu'r Ysguthan<sup>2</sup> yn gwneuthur ei nhyth yn drwsgl ac anghelfydd-gamp,<sup>3</sup> ac a roddodd iddi gyngor ac addysg, gan ddangos a dweyd wrthi,—

“Dod frigyn y ffordd hyn, a brigyn y ffordd yna; un y modd yma, ac arall y modd hyn a'r modd hyn,<sup>4</sup> a thi a wnai dy nyth yn gywair<sup>5</sup> a chadarn, yn lletyog<sup>6</sup> a chynnes.”

“Mi wn! mi wn! mi wn!” ebe'r Ysguthan; ac er hynny, myned yn ei blaen f'i gwaith a wnai hi yn ei hen ffordd anghelfydd, yn ol ei harfer; a'r Bi fyth<sup>7</sup> yn dangos iddi, gan geisio gyrru addysg arni. Ond, “Mi wn! mi wn! mi wn!” oedd holl ateb a diolch yr Ysguthan, heb ymwllhau yn ei chelfyddyd, na chymeryd ati y gronyn lleiaf o addysg.

“Os gwyddost, paham ynte nas gwnei?” ebe'r Bi; ac yna ei gadael ar ei hen ffordd ei hun, gan weled yn ofer ei dangos.

Ac o hyn y mae'r ddihareb,—“Mal<sup>8</sup> y Bi a'r Ysguthan;” a “Mi wn! mi wn! fal ateb yr Ysguthan;” a, “Nid anghelfydd ond Ysguthan.”

A diarhebion ereill a ddanghosant yr un peth, sef,—“Nid hawdd gyrru dysg ar ddoeth yn ei olwg ei hun;” a “Nid hawdd y cymer anghelfydd ei ddangos,” “Call pob ffol yn ei olwg ei hun,” “Nid hawdd dwyn gwr oddiar ei gamp,” “Ni wŷr neb lai na'r hwn a wŷr y cyfan,” “Hoff gan fydd ei gnwpa.”<sup>9</sup>

Ac ereill nis gellir eu dysgu gan ddiffyg deall anianawl arnynt, am y rheiny diarhebir,—“Nid hawdd tynnu mêr o bost,” “Ni cheir o un llestr ond a rodded ynddo,” “Nid hawdd gyrru ymennydd ym mhost clwyd,” “Nid hawdd o Fran y gwneir Eos.”

Yn ddiau, nid oes dim sydd yn perthyn yn fwy priodol i blentyn na'i fod yn caru cael ei ddsygu. Ac yr oedd Iesu Grist am i'r dynion mawr, hefyd, fod fel y plentyn ar hyd ei oes yn hyn o beth, sef ei fod bob amser yn un hawdd ei ddsygu, yn chwannog am wybodaeth. Peth digon hyll ac anymunol ar ddyd ac ar blentyn, onide, yw dweyd mai “hen benglog diddysgu” ydyw.

O'r ochr arall, y mae pawb yn hoffi ac yn parchu y bachgen a'r eneth sydd yn awchus i ddsygu, sydd yn ymdrechu yn galed bob dydd i gasglu addysg, ac i ddringo yn ei ddsosbarth. Y mae pob plentyn yn dysgu rhywbeth bob dydd, nis gall beidio pe dewisai, mwy nag y gall beidio anadlu, neu beidio clywed, neu beidio bwyta.

<sup>1</sup> Ploden, magpie. <sup>2</sup> Wood Pigeon. <sup>3</sup> Clumsily and unskilfully. <sup>4</sup> And another thus and thus. <sup>5</sup> Orderly. <sup>6</sup> Habitable, comfortable. <sup>7</sup> Yn barhaus. <sup>8</sup> Fel. <sup>9</sup> Pastwn, cudgel.

Gan hynny, dyma sydd o bwys mawr,—pa beth y mae yn ei ddysgu; a ydyw yn dysgu dewis yr hyn sydd dda, a gwrthod yr hyn sydd ddrwg? Ac yn y cysylltiad yna,—sef beth i'w ddewis,—y mae mawr werth yr athrawon yn dod i mewn. Yr athraw cyntaf, a'r gore yn y byd, yw y Fam; y mae ei gwersi hi, ei geiriau, ei chynghorion, ac yn enwedig ei hesiampl, yn suddo yn ddyfnach i galon a natur y plentyn, yn ei ddilyn yn fwy byw a nerthol trwy gydol ei oes, nag addysg neb arall. Y mae gan bob plentyn da barch mawr, a chariad dwfn diwaelod, at ei fam.

—◆◆◆—

### UFUDD-DOD PAROD.

**R**YW ddiwrnod yr oeddwn yn digwydd cerdded trwy'r pentref lle yr oedd haid o fechgyn yn chware *marbles*. Yr oedd pawb wrthi hi yn llawn hwy! a thwrw, ac ymddanghosai y mwyaf ohonynt yn enwedig fel yn mwynhau ei hun yn ardderchog. Efe oedd arweinydd ac enaid y cwmni bach llawen.

Tra yr oeddwn yn myned heibio, yr oedd y bachgen bywus hwn yn hwyliog gynnyg cael ail-gychwyn y chware, a chydag arabedd parod, yn gosod pob un o'r bechgyn ereill yn eu lleoedd priodol. Yr oedd ei holl galon yn y gwaith,—llaw a throed, llygad a thafod, fel arian byw.

Yn sydyn, yn y ty gyferbyn, dyna ffenestr yn agor, a llais mwyn, tyner, yn galw,—

“Ifor, mae ar dy dad dy eisiau.”

Cauwyd y ffenestr yn ddistaw ddiatreg gan y wraig,—a theimlwn yn sicr mai mam y bachgen ydoedd,—do, cauodd y ffenestr, ac aeth o'r golwg, heb gymaint ag aros moment i edrych a oedd y bachgen wedi clywed ai peidio.

Ymddanghosai y bachgen mor brysur, wedi ei lyncu mor llwyr gan y chware, fel yr oedd yn amheus gennyf a oedd y llais tawel hwnnw wedi ei gyrraedd yng nghanol stwr y chware. Ond yr oedd yn amlwg ei bod hi yn gwybod yn well na mi. Braid yr oedd y geiriau dros ei gwefusau nag y gollyngodd y bachgen bopeth, gan adael y bechgyn, a rhedeg i'r ty, yno, wrth gwrs, collais olwg arno.

“Dyna fachgen iawn,” meddwn wrthyf fy hun “gwnaiff hwnna ei nod yn y byd; gellir rhoddi hwnna mewn unrhyw swydd o ymddiried, ac i arolygu ereill; oblegid y dyn hwnnw sydd wedi dysgu llywodraethu ei hun, a hwnnw yn unig, all lywodraethu ereill.”

Ond inni ddysgu bod yn ufudd ein hunain, gallwn gael lle i ddisgwyl y gwna ereill ufuddhau i ninnau. Os na bydd y fam wedi dysgu i'r plentyn fod yn ufudd, gwaith caled fydd i neb arall ei ddysgu. Hawdd a melus gwrs yr aelwyd; caled a chwerw fydd y wers dan fflangell y byd.

H. BRYTHON HUGHES.

## LLANDYSUL.

**N**ID am luosogrwydd ei phobl, nag am wychder ei threfydd, nag am ystordai mwneu, mae fy ardal yn hynod; ond ÷m ei hawelon iachus, tlysni ei harwynebedd, ac yn bennaf am ei henwogion.

Mae ei hawelon yn iachus; ni welir yma un cwmwl du yn esgyn i'r awyr i'w hamburo. Yn yr haf, mae'r awelon yn llawn o arogledd y blodau persawrus, nes peri i'r dieithriaid sydd yn talu ymweliad â'r lle, wrth sugno'u hysbrydoliaeth. deimlo eu bod mewn paradwys. Nid yw'r march tân yn aflonyddu dim ar ei thawelwch; ond clywir ei swm yn gweryru yr ochr ddeheuol i'r ardal

Mae'n dtos odiaeth. Ynddi mae dau ddyffryn firwythlawn a rhamantus, a elwir Cletwr a Cherdin. Rhed Cletwr o ogledd y plwyf i lawr drwyddo, ymarllwysa i'r Deifi yn ei ochr ddeheuol. Rhed Cerdin yr un modd. ychydig yn nes i'r gorllewin. Tua milldir i'r gogledd o Landysul, cwyd Pencoedtoel ei ben mewn mawredd, gan dremio i'r orsaf mewn awydd am weld a oes rhai o hen gyfoedion yr ardal yn dychwelyd; tua milldir i'r gogledd-orllewin wedyn, cwyd Moel y Môr ei ben ychydig yn wylltach, a chyda mwy o foelni, a'i warr yn crymu dan oerwynt y gorllewin.

Am enwogion luosog Llandysul, gofod balla i fanylu arnynt. Yn enwog fel beirdd 'roedd, Thomas Humphreys, Penlon Esger; Henry W. Jones, Oriorydd, Llandysul; Rees Jones, Pwllfein, (*Amnon*), awdwr "Crwth dyffryn Cletwr"; Evan Thomas, Horeb, awdwr "Telyn Ifan"; John Thomas, 'enrhiw, Rhydowen; James Davies (*Iago ab Dewi*), genedigol o Landysul, enwog fel bardd a chyfieithydd. Yn enwog fel pregethwyr gallaf enwi y Parchedigion David Evans, B.A., Castell Hywel, nai i'r hybarch D. Davis, Castell Hywel; Samuel Griffiths, Horeb; yma hefyd y magwyd E Pan Jones, D.Ph., M.A., Mostyn, sydd eto a'i gangau'n ir; Thomas Thomas, Llanfair; Daniel Bowen, M.A., Waunifor, enwog fel offeiriad; John Davies, Gelligron, enwog fel pregethwr, bardd a chyfieithydd; David Lloyd, M.A., Ll.D, Caerfyrddin, genedigol o Landysul, enwog fel pregethwr a gwleidyddwr; Moses Williams, M.A., F.R.S., genedigol o'r Glaslwyn, safai yn uchel fel ysgolor Cymreig a hynafiaethydd. Yr oedd y Parchedigion David Davis, Castell Hywel awdwr "Telyn Dewi," a William Thomas, M.A., Llandysul, (*Gwilym Marles*), yn sefyll yn uchel fel ysgolfeistri, pregethwyr, gwleidyddwyr, beirdd, a chyfieithwyr. Yn Esgerwen, gerllaw Dyffryn Llynod, y ganwyd y Parch. Christmas Evans, un o brif bregethwyr Cymru; pan yn ddwy ar bymtheg oed, yng ngwasanaeth y Parch. D. Davis, Castell Hywel, y dechreuodd sillebu.

Mae'n bleser calon gennyf feddwl fod fy ardal yn sefyll mor uchel am ei henwogion. I'r mytyrgar, mae murmur ei hafonydd, a su ei hawelon, i'w clywed yn llawn o athrylith yr enwogion hyn. Yn ddiameu, dyma berlau sydd wedi rhoddi hynodrwydd anfarwol i'm hoff ardal enedigol.

*Ferndale.*

DAVID EVANS.

GWERS NATUR.

(ADRODDIAD I BLANT.)

**A** OES un cwmwl yn yr awyr fry,  
Sydd yn anghofo ei neges gu?

Nac oes un.

A oes un seren yn yr wybren dlos,  
Anghofia lewyrchu yn y nos?

Nac oes un.

A oes un eginyn mewn maes neu ardd,  
Anghofia flodeuo mewn glendid bardd?

Nac oes un.

Y ser, cymylau, a'r blodau'n ddigoll,  
Gyflawnant ddibenion eu cread oll;  
Ond ni, greaduriaid, anghofo wnaawn  
Wneyd ein dyledswydd, a'r hyn sydd  
iawn.

Anghofiwn gadw gorchmynion Duw,  
Y rhai sy'n ein dysgu pa fodd i fyw;

*Llanfairfechan.*

Anghofiwn barchu ein tad a'n mam,  
A doeth gynghorion athrawn dinan;  
Anghofiwn yn aml fyw yn bur,  
Byw bywyd gonest a dweyd y gwir;  
Anghofiwn y Saboth yn fynych iawn,  
A'i dreulio yn hyn dddiystyr a wnaawn;  
Anghofiwn dynerwch a chariad diwall,  
A bod yn garedig y naill wrth y llall;  
O! fel yr anghofiwn holl ddeddfau Duw,  
Rhyfeddwn, weithiau, ein bod yn cael  
byw.

Dysgwn wers oddiwrth Natur i gyd,  
I fod yn ffyddlon i Dduw o hyd;  
A bydded gogoniant yr Arglwydd  
Dduw  
Yn brif nod ein bywyd tra byddom byw.

E. JONES.

Y GWYDDAU MEDDW.

**B**ETH amser yn ol 'roedd ffermwr  
a'i deulu [a bragu;  
Mewn ardal yn Lloegr yn ymgymeryd  
Ac 'rol cael o firwythau yr heidden i'r  
ddiod,

I ganol y buarth fe dafwyd y gwaddod;  
A'r gwyddau, pan welsant, redasant  
hyd ato, [hono;

A llyncu a wnaethant yn awchlym o  
A'r diwedd fu iddynt, o dan ei ddylan-  
wad, [deimlad.

I feddwi a chwympo i'r llawr yn ddi-

Eu perchen, 'rol canfod eu llun ar y  
ddaear,

A syniaf eu colled yn athrist a siomgar;  
Ond er cael rhyw elw o'r golled fe'u  
pluwyd,

Ac yna'r corpysau i'r domen oll dafwyd;  
Ond erbyn i'r bore dilynol i wawrio,  
'Roent oll wedi sobri, bywiogi, a  
deffro; [amaethdy,

A safent yn haid o flaen drws yr  
Mewn agwedd resynol, yn noethlwm,  
bron rhynu.

Cyffelyb yw'r hanes am lawer o ddynion  
A fynnant ymollwng i fyw yn afradlon;  
Gan fystio y ddiod echrydus sy'n meddwi,  
Ac O! dyma'n brif-flordd i lynclyn t'ueni;  
Rhaf welwyd yn ad-turn i'r wlad o ran gwisgiad,  
Geir heddyw yn gorwedd mewn llaid yn ddiemlad;  
Os mynnwn gael cadw ein plu, a byw'n foesol,  
Gochelwn a chyffwrdd â dim o'r trwyth meddwol.

J. AFAN PARRY.

## Y WEDDI GYNTAF.


**D**AIR blynedd yn ol, daeth boneddwr ar ymweliad a'n ty. Ar ol iddo eistedd yn y ty a diffino ychydig, dywedai fod arno eisieu cael gweled Beudy'r Foty. Yr oeddwn yn methu deall paham yr oedd mor awyddus i weled yr hen Feudy dinod oedd yn prysur adfeilio. Dywedai ei fod yn benderfynol o'i weled; ac i'r diben hwnnw yn fwyaf neillduol yr oedd wedi dod yma. A chan ei fod yn fy ngweled yn awyddus i wybod pam, dywedodd mai yno y bu yn ceisio gweddio y tro cyntaf erioed.

I egluro yr amgylchiadau, dywedai fod yn byw yn Oerddwfr yr adeg honno hen gymeriad hynod o'r enw Sion William, dyn hynod o anystyriol. Ond yr oedd ef, fel llawer yn yr oes honno, yn meddwl fod rhywfath o ymwneyd a chrefydd yn help iddynt lwyddo ar y ffarm; ac y byddai darllen rhan o'r Ysgrhythyr yn y bore yn help iddynt gael diwrnod teg i gario gwair, &c. Ac i'r amcan hwnnw byddai yr hen Sion William arfer a darllen rhan o'r Beibl bob bore. Byddai yn chwilio am y bennod ryfeddaf, i'w dyb ef, bob amser o'r Hen Destament; ac yn ei phwysleisio yn y modd mwyaf anghyffredin, gan edrych o'i gwmpas mewn modd gwamal ar ei wrandawyr, er mwyn creu dipyn o hwyl. Ac nid ychydig o chwerthin a geid

Ond rhyw ddiwrnod fe gymerwyd yr hen Sion William yn sal. yr hy'n oedd yn beth dieithr iawn iddo, gan ei fod yn ddy'n cryf ac iach, heb wybod beth oedd bod yn ei wely am ddiwrnod cyfan ar hyd ei oes. Penderfynodd fyned i Dremadog at yr hen Dr. Cat, yr unig ddoctor adnabyddus yn y cylch y dyddiau hynny. Dywedodd y meddyg yn onest wrtho fod afiechyd peryglus wedi gafael ynddo, a'i fod yn ofni na byddai fyw yn hir. Cafodd y newydd prudd effaith ryfeddol ar Sion William. Bore drannoeth, ar ol boreubryd, yr oedd pawb a'i lygaid arno, yn methu deall beth allai fod y cyfnewidiad mawr oedd yn amlwg i'w weled. Yr oedd ei law yn crynnu wrth afael yn y Beibl, a'i lais yn crynnu wrth iddo geisio darllen ychydig o adnodau o'r Testament Newydd. A chyn iddo orffen darllen, yr oedd y difrifwch mwyaf wedi meddiannu y cwmni bychan ar yr aelwyd. Ar ol cau y Beibl, nid rhuthro allan tel arfer, ac nid myned yn ddefosiynol ar ei liniau, ond fe ddisgynnodd ar ei wyneb ar yr aelwyd, ac fe weddiodd am y tro cyntaf erioed. A'r peth cyntaf a wnaeth y boneddwr oedd yn adrodd yr hanes, ar ol cael gollyngdod, oedd myned i Feudy'r Foty, ac fe weddiodd yntau am y tro cyntaf. Yr oedd yn bleser ganddo ddweyd ei fod yn parhau i weddio hyd heddyw, ac yr oedd yn dda ganddo ddweyd hefyd na pheidiodd yr hen Sion William a gweddio yr ychydig amser y bu fyw.

*Oerddwr Uchaf*

JOHN HUGHES.



**PLANT CYMRU. CLXXVIII PLANT CWMYSTWYTH.**



## YSGOL Y BWRDD, CWMYSTWYTH.

**W**ELE ddarlun o blant Ysgol y Bwrdd, Cwmystwyth. Pentref bychan yw Cwmystwyth, tua thair milltir o Bont ar Fynach, a phymtheng milltir o Aberystwyth. Saif wrth droed bryn uchel ar lan afon Ystwyth, a ffinia ar ystad enwog Hafod yr Ychdrud,— ystad y credwn nad oes ei phrydferthach drwy holl Gymru. O amgylch Cwmystwyth y mae natur ar ei gore. Ceir yma gyfuniad hapus o fryniau ysgythrog a chreigiau daneddog, ac hefyd o ddolydd breision llydain, drwy y rhai yr ymdroella yr afon Ystwyth ar ei thaith tua'r môr. Ychydig uwchlaw i'r pentre culha y cwm, ac yn y man culaf arno, rhwng dau tynydd uchel serth, y mae gwaith mwn plwm sydd yn enwog ers canrifoedd. Dywedir mai yn amser y Rhufeiniaid y dechreuwyd ei weithio gyntaf. Plant mwnwyr, amaethwyr, a bugelliaid yw y plant hyn, a phlant bach gwylaidd a thalentog ydynt hefyd. Daw rhai ohonynt dros dair milldir o ffordd i'r ysgol bob dydd, a hynny drwy "stormydd geirwon enbyd iawn" yn aml. Bu yr adeilad lle y cedwir yr ysgol yn awr unwaith yn gapel, capel cyntaf y Methodistiaid yn y lle; ond erbyn hyn y mae ysgoldy newydd, hardd, ar fod yn barod, ac ni fydd neb yn falchach na'r plant o gael gadael yr hen gapel oer, diaddurn, a mynd i amgylchoedd llawer iawn mwy dymunol. Llauer un fu'n cychwyn ei daith yn yr ysgol hon sydd erbyn heddyw wedi dringo i anrhydedd. Dyna Mr. Charles Davies yn ysgolfeistr yn Ne Cymru; Mr. William Davies, ei frawd, wedi graddio gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Cymru, ac yn weinidog yr efengyl yng Nghaerdydd; a Joseph Jenkins, Ceinewydd, yn un o bregethwyr grymusaf pulpud Cymru,—oll wedi bod unwaith yn yr ysgol hon. Perthyn un hynod-rwydd i'r ysgol hon na pherthyn i'r un ysgol arall yng Nghymru. Y mae ei hathraw presennol, Mr. D. Rhys Jones, yn frodor o'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia bell. Gadawodd wlad ei enedig-aeth yn un ar bymtheg oed, a phan gyrhaeddodd Cymru ni fedrai ond Cymraeg glân a gloew yn unig. Erbyn heddyw y mae yn gystal Sais ag o Gymro.

---

**DORA BACH.**

Geneth ieuengaf Owen ac Ellen Hughes, Tan-yr-allt, Llanllyfni.

LLYGAD-LON, dirion Dora,—a'i dwy rudd  
 Fal deu-ros mewn eira,  
 Dlos Gerub, dilys garia  
 Eur-wallt hir fal ir-wellt ha.

*Nanille.*

G. W FRANCIS.

## "MILWYR IESU."

Y Geiriau gan CYNALAW,  
*dryw ganistad.*Y Gerddoriaeth gan  
DAN ROBERTS, A.C., Rhosllanerchrugog.DOH BZ. *Allegro con spirito.*

{	d :- .s <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	d :-   d :-	t <sub>1</sub> : d   r : m	r :-   - :-
	d :- .s <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : fe <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   - :-
	Dewr-ion fil - wyr			
	d :- .s <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> : re   m <sub>1</sub> :-	f : m   r : d	t <sub>1</sub> :-   - :-
d :- .s <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	d :-   d :-	s <sub>1</sub> : l <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> : d	s <sub>1</sub> :-   - :-	
			Awn ymlaen yn hy,	

{	r :- .t <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : t <sub>1</sub>	r :-   r :-	l <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> d   l <sub>1</sub> :- .l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   - :-
	r :- .t <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   fe <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   fe <sub>1</sub> : fe <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   - :-
	Mynnwn lwyr orch-			
	r :- .t <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : t <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :-   l <sub>1</sub> :-	m <sub>1</sub> : r m <sub>1</sub>   d :- .d	t <sub>1</sub> :-   - :-
r :- .t <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	r <sub>1</sub> :-   r <sub>1</sub> :-	d <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> l <sub>1</sub>   r <sub>1</sub> : r <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   - :-	
			Gall-u uff-ern ddu;	

{	s <sub>1</sub> :- .l <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> : d	r :-   d :-	l <sub>1</sub> :- .t <sub>1</sub>   d : r	m <sub>1</sub> :-   - :-
	s <sub>1</sub> :- .s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :-   m <sub>1</sub> :-	l <sub>1</sub> :- .se <sub>1</sub>   l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub>	se <sub>1</sub> :-   - :-
	Sein - io mae yr			
	d :- .d   r : d	t <sub>1</sub> :-   d :-	m <sub>1</sub> :- .m <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> : l <sub>1</sub>	t <sub>1</sub> :-   - :-
m <sub>1</sub> :- .f <sub>1</sub>   f <sub>1</sub> : m <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> : se <sub>1</sub>   l <sub>1</sub> :-	d :- .t <sub>1</sub>   l <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :-   - :-	
			Nerth a gawn wrth raid,	

{	d :- .l <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> : r   d : r	t <sub>1</sub> :-   - : t <sub>1</sub>	d :-   - :-
	l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : se <sub>1</sub>   l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-   s <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub> :-   - :-
	Holl all-u - oedd			
	l <sub>1</sub> :- .f <sub>1</sub>   r : s <sub>1</sub>	d : r   m <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :-   r : f <sub>1</sub>	m <sub>1</sub> :-   - :-
f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> t <sub>1</sub>	d : t <sub>1</sub>   l <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   s <sub>1</sub> :-	d <sub>1</sub> :-   - :-	
			sydd o'n plaid.	

CYDGAN.

{	r :- .r   r : r	m <sub>1</sub> : r   :	d : m <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> :- .d	f <sub>1</sub> :-   - :-
	s <sub>1</sub> :- .s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : ta <sub>1</sub>   - : ta <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-   - :-
	Dewr-ion fil - wyr			
	t <sub>1</sub> :- .t <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> d : r t <sub>1</sub>	d : t <sub>1</sub>   :	m <sub>1</sub> : d   d :- .d	d :-   - :-
s <sub>1</sub> :- .s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> l <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> s <sub>1</sub>	d : s <sub>1</sub>   :	d : s <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> :- .m <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :-   - :-	
			Gyrwrn ffwrdd o'n tir,	

*rall.*

m	:d	r	:m	f	:-	f	:-	m	:d	d	:t,	d	:-	:-	:-
s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:ta <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:-	la <sub>1</sub>	:-	s <sub>1</sub>	:fe <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:-	:-	:-
Sa	-tan	a'i	holl	all	-	u,		Saf	-wn	dros	y	gwir.			
d	:d	t,	:d	d	:-	r	:-	m	:r	m	:f	m	:-	:-	:-
d <sub>1</sub>	:m <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:d <sub>1</sub>	l <sub>1</sub>	:-	t <sub>1</sub>	:-	d	:l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub>	:s <sub>1</sub>	d	:-	:-	:-

2 Galwa'r udgorn arian,  
 Arnorn oll i'r gâd,  
 Lluoedd arfog Satan  
 Sy'n anrheithio'n gwlad,  
 Rhuthrwn yn eu herbyn  
 Oll âg uchel lef,  
 Nes y tery dychryn  
 Ei holl rengau ef.  
*Cydgan*—Dewrion flwyr Iesu, &c.

### Y MORWR A'I FAM.

**Y**R oedd morwr ieuanc ac un o'r dwylaw ar fwrdd llong yn hwylio i wledydd tramor. Gorweddai y llong yn un o borthladdoedd y deyrnas, yn barod i hwylio y dydd canlynol ar ei mordaith. Y bore cyn i'r llong hwylio, cafodd y bachgen bellebr oddi cartret yn dweyd,—“Tyred adref ar unwaith, mam wedi marw.”

Wedi darllen ei gynnwys, aeth at y capten, a danghosodd y pellebr iddo. Ond dywedodd y capten ei bod yn amhosibl iddo tyned gartref, fod yn rhaid bod ar fwrdd y llong y bore canlynol, gan ei bod yn hwylio i'r môr. Dywedodd y llanc,—“Y mae yn rhaid i mi tyned gartref.” Ceisiai y capten ei ddarbwylio fod y ffordd yn bell ac y by idai y daith yn gostus i un yn ei amgylchiadau ef. “O na,” meddai yn benderfynol, “y mae yn rhaid i mi tyned adref i gladdu fy mam. Gallat gael digon o longau, ond dim ond un fam.” Ac adref yr aeth.

Dengys yr hanesyn hwn mai y cwllwm cadarnaf a fedd natur yw serch teuluaid, a phan ddelo y bachgen yn ddigon caled i dorri y cwllwm hwn, y mae yn barod i gyflawni pob drwg; ac os a trugaredd i ymofyn am dano yn ei gyflwr gwrthgilliedig, ond odid mai mewn rhyw weddillion o'r rhwymyn hwn, rh/w adgofion am hen deimladau teuluaid, yr ymeifl y gwirionedd dwyfol i arwain ei feddwl at y Gwardwr.

Gyfeillion ieuanc, cedwch yn wastad o flaen eich meddwl o glych yr aelwyd, ac o dan addysg, a than ofal a thynnerwch mam,—eiriau y morwr ieuanc ymhell o gartref,—“Gallat gael digon o longau, ond dim ond un fam.” Y mae y bachgen sydd wedi dysgu talu parch i'w fam yn deilwng o gael ei restru ymhlith arwyr y byd.

GWILYM AP IORWERTH.

**MORDAITH CAPTEN COOK.**

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

V. ARCHWILIO NEW ZEALAND.

**I**FOR. Oni ddarfu i chwi ddweyd er ys ychydig amser yn ol, fy nhad, fod y brodorion yn gwrthod hoelion, ond yn derbyn pethau cydmharol ddi-werth, sef gleiniau ?

**TAD.** Do, ac felly yr oeddynt; ond ti weli, Ifor, yn eu hymddygiad y tro hwn, engraifft o'u bod ar eu hennill yn yr ymdrafodaeth a'n morwyr. Ar yr 22ain o Ionawr 1770, ymgymerodd y Mri. Banks a Solander a chwilio am wahanol fathau o lysiau gerllaw y traeth. Cymerodd y Capten yntau un o'r morwyr gydag ef, ac esgynasant i un o fynyddau y rhan honno o'r wlad. Wedi cyrraedd y pigyn uchaf, cafodd wobr ag oedd wrth ei fodd, sef darganfod cainc, neu gulfor, o'r tu dwyrain, yn cyrraedd i'r ochr orllewinol, yn agos i'r man lle yr oedd yr Endeavour ar y pryd. Ymddanghosai y prif ddarn o'r ynys, yr hwn sydd ar y tu deheu-ddwyreiniol i'r culfor, yn rhyw gribyn cul o fynyddau tra uchel. Y tu arall i'r culfor, ymestyn y tir tua'r dwyrain ymbhellach na chanfyddiad y llygad. Canfyddodd Capten Cook hetyd ynsoedd ar y tu dwyreiniol i'r culfor, y rhai y tybiodd am danynt, ryw adeg flaenorol, eu bod yn rhan o'r cyfangorff y tu hwnnw i'r wlad. Wrth ddychwelyd, efe a archwiliodd y glannau y tu arall i'r ynsoedd hyn. Defnyddiodd y diwrnod canlynol i wneyd archwiliadau a darganfyddiadau ychwanegol. Ar adeg ei ymweliad a phreswylwyr y parth hwnnw, set ar y 24ain, trwy gyfrwng Tupia, cafodd fod y brodorion yn siarad llawer iawn am ddrylliau a saethwyr. Yr oedd yn methu deall pa todd yr oeddent wedi dyfod o hyd i'r fath destyn siarad; yr hyn a gythryblodd lawer ar ei feddwl. Drwy ymholi, cafodd allan o'r diwedd i un o swyddogion y llong ar yr 21ain o'r mis, gymeryd yr esgus o tyned allan i bysgota mewn bad. Hwylodd hwnnw i fyny un o'r afonydd nes dyfod ar gyfer pentref brodorol; ac wrth weled ychydig o'r pentrefwyr yn agoshau ato yn eu canfadau, ofnodd y buasant yn ymosod arno; ac er ei ddiogelwch, taniodd atynt dair ergyd, ac archollodd un ohonynt, a hynny'n ysgafn, yr hyn a barodd iddynt ddianc am eu bywyd gyda'r brys mwyaf tua'r lan. Tebyg eu bod yn dyfod ato gydag amcanion cyfeillgar, oblegid felly y profodd eu hymddygiadau cyn ac wedi hynny.

**I**FOR. Tebyg, fy nhad, pe buasai Tupia gyda'r swyddog ar y pryd hwnnw, na buasai y fath ffrwgd yn cymeryd lle.

**TAD.** Mae y peth nesaf i sicrwydd gennyf dy fod yn gywir, Ifor. Yr oedd y weithred honno o eiddo y swyddog yn engraifft ychwanegol o pa mor lleied oedd rhai o ddynion y Capten wedi ei gymeryd i mewn o'i ddoethineb a'i dynerwch ef tuag at yr anwariaid

diamddiffyn. Ar fore y 26ain, aeth y Capten eto allan mewn bad gyda Banks a Solander, ac hwyliasant i mewn i forgilfach oedd ar ochr ddwyreiniol y fynedfa fawr, i gael golygfa arall, o fan neillduol o gyfleus, ar y gilfach oedd yn cyrraedd o'r naill ochr i'r llall o'r ynys. Wedi esgyn i ben mynydd uchel, cawsant olygfa gyflawn a chlir ar y culfor, ac hefyd ar y glannau cyferbyniol.

IFOR. Fy nhad, beth oedd diben yr holl fanlrywydd hynny o eiddo'r Capten, dwedwch.

TAD. Mae y manteision a gafwyd trwy y fath lwyredd yn fwy nas gallat ei egluro i ti'n awr. Danghosaf un o'r manteision i ti, gwna dithau, er mwyn tipyn o ymarferiad, ddytalu am y lleill. Golygfa bod rhyw nwydd angenrheidiol ar lannau dwyreiniol yr ynys, nad yw i'w gael ar y tu gorllewinol, a dy fod am gael llwyth llong o hono, a dy fod yn cylchynnu hanner yr ynys i'w gyrchu, a dy gymydog wedi manteisio ar y wybodaeth oedd ganddo am y fynedfa grybwylledig oedd o'r naill ochr i'r llall i'r ynys, yr hon nad yw ond tua thri chant o filldroedd, pan mae dy fordaith di yn bymtheg cant o filldroedd. Mae y fantais oedd gan dy gymydog nad oedd gennyf ti i'w briodoli i'w wybodaeth o fanlrywydd y darganfyddiad o'r culfor gan Capten Cook. Cafodd Capten Cook brawf digonol y gallai hwylio drwy y fynedfa i'w harchwilio yn yr Endeavour, yr hyn a wnaeth ar y cyfle gyntaf a gafodd. Cyn disgyn oddiar y mynydd, wedi dyfod ar draws carnedd o gerrig, adeiladasant fath o gogolofn, a dodasant ynddi belenau bychain, ac un o faint cyffredin, a gleiniau a phethau ereill nad oeddent o wneuthuriad yr ynys; y rhai a fuasai yn cadarnhau unrhyw Ewropead a ddeuai ar eu traws, fod Ewropeaid wedi bod yno yn flaenorol. Wedi hynny, talodd y boneddwyr ymweliad â thref ar yr ynys, yr hon oedd wedi ei hadeiladu ar ynys fechan gerllaw y lan, yr hon oedd yn anhawdd iawn croesi ati heb beryglu bywyd. Ond er boddioni eu cynwreirwydd, anturiodd ein mordeithwyr ar y gorchwyl. Ac yno, fel mewn amryw o fannau yn y parth hwnnw o'r ynys, cawsant y derbyniad a'r croesaw mwyaf; carwyd hwy i bob man yn y dref, gan ddangos iddynt bopeth a dybiai y trefwyr oedd yn werth eu sylw. Yr oedd y dref yn cynnwys tua chant o dai. Yr oedd yn digwydd bod gan ein boneddwyr ychydig o hoelion, ysnodynau, gleiniau, a phapyr, y rhai a ranasant rhwng eu cymwynaswyr. Cafodd y brodorion y fath foddhad yn y gwobrwyon hynny, fel y darfu iddynt lenwi bad yr ymwelwyr â physgod sychion, yn dâl am danynt. Ar y 29ain, croesodd Capten Cook i dir ar yr ochr orllewinol i'r fynedfa; ac oddiar dwyn uchel, cafodd olygfa ar yr arfordir i'r gogledd-orllewin, a'r tir pellaf ganfyddodd yn y cyfeiriad hwnnw oedd ynys yn y pellder o ddeng milldir ar hugain. Ac efe

a ddarganfyddodd amryw o ynsoedd ereill gerllaw iddi, ac yr oedd yn perthyn iddynt lawer o leoedd cyfleus i angori. Wedi gosod i lawr ar ei lyfr ddarganfyddiadau y daith honno, cyn dychwelyd, adeiladodd guddfa yno, a gosododd ynddi ddarn bychan o arian bathol Lloegr, a dryll belenau, gleiniau, a darn o faner Prydain i chwifio ar ben y golofn. Ar y 30ain o Ionawr, cyflawnwyd y seremoni o roddi enw ar y fynedfa fordwyol sydd ar draws New Zealand, sef Cook Strait, a gosododd i fyny goffadwriaeth o'i ymweliad a'r rhan honno o'r wlad. Darparodd y saer ddau bost i'r diben hwnnw, a gorchmynnodd y Capten i gerfio arnynt enw y llong ac amser ei hymweliad a'r parth hwnnw. Gosododd un post wrth y ffynnon, a chymerodd y llall drosodd i'r ynys nesaf i'r môr, yr hon a lwai y brodorion Motuara. Yna aeth yng nghwmni Mr. Monkhouse a Tupia i bentref yn y gymydogeaeth, lle y cyfaryddodd â hen wr oedd yn flaenorol wedi bod yn gyfeillgar iawn gyda'r Saeson. Iddo ef, ac amryw ereill o'r ynyswyr, drwy Tupia, amlygodd ei gynllun a'i amcan iddynt o osod i fyny goffadwriaeth o'u hymweliad a'u gwlad, i ddangos i fordeithwyr ereill, ar eu hymweliad a'r ynys, bod morwyr Prydain Fawr wedi bod arni yn flaenorol i hynny. Caniataodd y brodorion y cais yn unfrydol, ac addawsant y byddai iddynt ddiogelu y golofn hefyd.

**IFOR.** Fy nhad, pa gyfrif ellir ei roddi fod Tupia yn medru siarad â chynifer o wahanol frodorion ag yr ydych wedi son am danynt o'r dechreuad?

**TAD.** Nis gallaf ond dweyd tyb a glywais gan rai ereill, sef fod holl ynyswyr Môr y De wedi dod o'r un cyff, ac wedi bod yn siarad yr un iaith, ac wedi anturio o'r naill ynys i'r llall, ac felly wedi ymwasgaru a phoblogi pob man oedd yn gymwys i ddyn allu byw arno.

*Dinas, Morgannwg.*

**WILLIAM JAMES.**

## Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.

### II. RHESYMEG (*Logic*.)

**D**YSGA Resymeg, neu *Logic* yn iawn,  
Er mwyn gweld adranau'r gwirionedd yn llawn;  
Mae'n allu i chwifio a chwalu yn hir,  
A mesur a phwysu nes canfod y gwir.

Dysga Resymeg, fy machgen hoff,  
Rhag mynd o'th feddyliau yn llesgaidd  
a chloff; [iaith,  
Rhydd reol i'th ddad—doethineb i'th  
Fe ddarnia wirionedd heb ddangos y  
graith.

Dysga Resymeg, mewn dadl boeth  
Rhydd wisg o ddirgelwch dros wirionedd noeth;  
Ac wedyn fe chwala y niwl yn glir,  
Gwna ereill i gredu neu wadu y gwir.

Dysga Resymeg, — daw'th iaith yn  
fwyn,  
A'th ymadroddion yn llawn o swyn;  
Trwy ddoeth resymu y ffeithiau yn  
glir,  
Fe weli yn eglur ogoniant y gwir.

**R. EUROG JONES.**

## O BEN Y BRYN MAWR.

**A**R nawnddydd tawel ym mis Mai, eisteddem ar ben y Bryn Mawr, ger tref Caernarfon. Yr oedd yn un o'r dyddiau hynny pan y bydd popeth yn llawn bywyd, a phan y daw geiriau Anthrosops i'n meddwl,—

“ Mae'r goedwig yn gwisgo ei thlysau,  
A'r berllan ei choron wen, gain ;  
Mae'r awel yn suo'n y cangau,  
A gwenu wna blodau y drain ;  
Daeth meillion i lonni y dolydd,  
Ystormydd a hunant mewn hedd,  
Ac ebrwydd trwy ddorau yr haf-ddydd,  
Daw Mai yn ei swynion i'w sedd.”

Y mae y diwrnod, felly, yn bopeth fuasem yn ei ddymuno. Uwch ein pen y mae yr awyr lās, gydag ambell gwmwl gwyn ariannaidd yn un llefryn main, yn ein hadgofio o sylw pregethwr pan yn cydmaru y cwmwl i amser,—mor ddiflanedig,—a'r wybren i'r tragwyddoldeb mawr. Ac wrth edrych arno yng ngoleuni haul y prydawn hwn, y mae'r olygfa yn ardderchog. Y mae teyrn y dydd yn ei fan uchaf, ac yn dangos popeth yn ei liw ei hun ; gwelem y du yn ddu, a'r gwyn yn wyn, fel nas gwelwom ef erioed o'r blaen, ac megis ag y gwelodd aml un ei hun yng ngoleuni yr Haul Mawr na ddiffydd byth.

Ar ochrau'r bryn y mae dau adeilad mawr o nodwedd pur wahanol. Ar yr aswy y mae y tloty. Diolch am dano, gwyddom am lawer sydd wedi bod ynndo yn addurn i'w hen furiau, wedi eu tafu gan stormydd bywyd, ac yn y diwedd yn glanio yn ei freichiau caredig. Ar ein deheulaw y mae y castell. Saif yn un o elynion olaf anibyniaeth Cymru, a lle y ganwyd tywysog Seisnig cyntaf Cymru. Dywedir wrthym, ar ol i Iorwerth y Cyntaf gael ei droed i lawr yn yr hen dref, ei fod ar fyrder wedi dechreu adeiladu y castell sydd i'w weled yn sefyll yn awr. Adeiladwyd ef ar yr un ffurf ag un o gaerau Gwlad Canan, y rhai a welodd y brenin pan ar daith yno. Nid oes odid i un adeilad a gyfodwyd ac a orffennwyd y tu fewn i gyfnod o amser mor fyr, ac hefyd gan yr un personau. Eto, saif heddyw mor gadarn ag erioed, yn dyst o genedlaethau lawer ; a chyda'r eithriad o Dŵr Eryri, y mae yr un yn hollol ag yr oedd ar y dechreu. Er hynny, adfeillion ydyw, a galara yr hen Speed,—

“ Great pitie it is, that so famous  
A work should not be perpetual,  
Or ever become the ruine of time.”

Edrych i ni y prydawn hwn yn urddasol dros ben.

O'n blaen gwelir Bryn Seiont, hen gartrefle Herber Evans, a daw y llinellau i'n meddwl,

“Da wladwr duwiol ydoedd,  
A gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd.”

Chwith gennym feddwl am y lle heb y pregethwr hyawdl yn trigiannu ynddo. O'i flaen rhed Afon Seiont, a'i dŵr grisialaidd yn bwrlymu dros y cerrig mân, ac yn swnio yn hyglyw,—“Môr, môr i mi.” Yn ei hymyl hithau gwelir llyn a elwir gan y plant yn “llyn botel,” am ei fod yr un furt a'r peth hwnnw. Llauer ohonynt sydd wedi ymdrochi ynddo, a llauer o ysglerio fu arno pan ydoedd wedi rhewi yn ystod tymor y gauaf.

Y tu ol i'r castell y mae y Fenai brydferth, gyda'r llestri mân yn ymredeg ar hyd-ddi. Ac y mae ynys Môn yn ymddyrchafu yn y pellder, a hawdd y gellir dweyd gyda Goronwy Owen,—

“Henffych well, Fon dirion dir,  
Hyfrydwch pob rhyw frodir.”

O'n cwmpas y mae mynyddau mawrion Eryri yn ymgodi fel pe byddent am y gore i ddangos eu gogoniant. Ond yn y pellder draw, gwelir y Wyddfa fawr uwch eu pennau yn adsain,—“Myfi yw eich brenin, O fynydoedd, a phlygwch i'm hawdurdod.” I lawr o danom y mae parc y dref, wedi ei amgylchynu gan goed gwyrdion a thalgryf; yn ei ganol y mae llynnau bychain, tlysiion, gyda'r elyrch gwynion yn nofio arnynt.

Gwelwn y tu ol i'r cyfan y Creawdwr Mawr, ac y mae yr adar bach yn canu Ei glodforedd. Trist gennym adael mangre mor baradwysaidd, a myned i ganol byd a'i helbulon. Ond codi raid.

Mae natur yn wir ar ei gore  
Yn dangos Creawdwr y byd;  
Y brynau, yr afon, a'r blodau,  
Maent hwythau yn swynion i gyd;  
Mae'r awel yn falmaidd a hyfryd,  
A'r wybren fel mantell fawr werdd,  
A'r ŵyn bach diniwed yn prancio,  
A'r adar yn canu eu cerdd.

Paradwys yn wir yw hi yma,  
Yn nheul aruchel Duw Ior,  
Edrycha pob peth yn nefolaidd,  
Ac una pob dim yn y côr;  
Dwed holl greaduriaid y ddaear,  
A holl greaduriaid y nef,  
A'r haul uwch ein pen sydd yn datgan  
Mai doeth lywodraethwr yw Ef.

R. ARTHUR JONES.

### DAU A DWY.

DAU FWNR a dwy feinwen,—dau gosyn,  
A dwy goes hwyaden;  
DAU FEUDY a dwy fedwen,  
DAU LO BRITH a dwy lwy bren.

*Coleg Ystradmeurig.*

E. ISYLOG JONES.





M.W.S.

### FE'M GANWYD I YNG NGHYMRU.

**F**E'm ganwyd i yng Nghymru  
 Hoffusaf wlad y gân,  
 Mewn llannerch dlos fynyddig,  
 Lle pora'r defaid mân ;  
 A lle y dyrcha'r hedydd  
 Ei chan o fawl i Dduw,  
 Nes llwyr wfreiddio'm calon  
 I ddweyd,—“Paradwys yw.”

Fe'm ganwyd i yng Nghymru,  
 Gwlad gâr y Cymro yw,  
 Ei charu byth yn anwyl  
 Wnaif fi tra byddaf byw ;  
 Os byth o hon y cefnaf,  
 Anghofo ni wnaif fi  
 Ei pher awelon balmaidd,  
 A'i derch fynyddoedd hi.  
*Pont ar Fynach.*

Fe'm ganwyd i yng Nghymru  
 Hoff wlad a gâr y beirdd,  
 Ni finant byth ar ganu  
 Am ei llanerchau heirdd ;  
 Wrth ganfod ei phrydferthwch,  
 Yn llon mae nghalon i,  
 A phopeth sydd yn sibrwd  
 Mai Eden ydyw hi.

Fe'm ganwyd i yng Nghymru,  
 Yng ngwlad y breintiau mawr,  
 Lle y dyrcheifir Iesu  
 Uwch popeth ar y llawr ;  
 Tra byddo'r heulwen siriol  
 Yn gwenu yn y nen,  
 O bydded nawdd y nefoedd  
 Dros anwyl Gymru wen.

GWENDOLEN GLANCELL.

## CAWR Y CASTELL.

## I. Y CAWR A LLAWDDE.

**D**RAW, draw ymhell, ers amser maith yn ol, yr oedd gŵr hynod yn byw. Yr oedd yn hynod oherwydd ei faintioli, ei gryfder, a'i ddrygioni, ac adnabyddid ef fel "y cawr."

Nid efe oedd yr unig gawr yn y dyddiau hynny; yr oedd amryw o honynt i'w cael yma ac acw ar hyd a lled y wlad, ond efe oedd y mwyaf a'r gwaethaf ym mhob ystyr. Oherwydd hynny, dianghenraid oedd i neb roddi enw arno pan yn son am dano, ond yn unig cyfeirio ato fel "y cawr." Nid oedd drws na ffenestr yn y wlad yn ddigon mawr iddo allu wthio i mewn drwyddynt ond yn ei gartref ei hunan.

Yr adeg hynny yr oedd popeth yn bur wahanol i'r hyn ydyw yn awr. Nid oedd gan y trigolion gytreithiau i'w hamddiffyn fel sydd gennym ni, na heddegeidwaid na swyddogion eraill o gwbl i'w cosbi am ddrwg na'u cymeradwyo am dda. Gwir fod ganddynt frenin, ond nid oedd y rhan fwyaf o honynt erioedd wedi cael y fraint o'i weled, oblegid ni byddai ond anfynych iawn yn dyfod tu allan i furiau ei birit ddinas. Er hynny, os mai drwg ei gymeriad fyddai y brenin, byddai drygioni ar gynnydd yn y wlad; tra, o'r ochr arall, os mai gŵr da fyddai yn eistedd ar yr orsedd, byddai daioni yn uchel ei ben, a llewyrch a llwyddiant i'w ganfod ym mhob rhan o'i deyrnas.

Ond nid oedd o fawr bwys gan y cawr pa un ai da ai drwg a fyddai y brenin, pa un ai llwyddiannus ai aflwyddiannus fyddai masnach y wlad. Oblegid llwythid ef beunydd ag anrhegion gan ei gymdogion cyfoethog, o bell ac agos; a byddai y dosbarth cyffredin, i.e, hyd y tlotaf, am filldroedd o'i gwmpas yn casglu at eu gilydd ddwywaith yn y flwyddyn i wneud anrheg iddo, er ceisio ei gadw yn ddiddig ac yn foddllawn tu fewn i'w derfynau ei hunan. Y ffordd arferol o gyflwyno anrheg iddo fyddai ei chymeryd a'i gosod mewn adeilad ag oedd gryn bellder o'r castell, ond eto yn ei olwg. Yna byddai ei was, yr hwn a alwai "Llawdde," yn myned i lawr yno bob bore, ac yn cludo yr hyn a gawsai i'r castell.

Dyn cyffredin oedd y gwas hwn o ran maintioli, ac wedi treulio y rhan fwyaf o'i oes yng ngwasanaeth y cawr. Dywedai rhai mai wedi ei ladrata yr oedd y cawr pan yr oedd yn faban. Beth bynnag am hynny, yr oedd yn berffaith deilwng o'i feistr, ac nid oedd neb a feiddiai fyned yn agos i gartref y ddau orthrymwr gwancus yma.

## II. CASTELL A GORTHRWM Y CAWR.

Pa bryd yr adeiladwyd castell y cawr nis gallai neb ddweyd, ond yn unig ei fod yn hen, hen iawn. Yr oedd ei furiau yn fwy llydan ac yn fwy trwchus na muriau yr un adeilad arall yn y wlad, a'i dyrau yn uwch nac hyd yn oed tŵr uchaf castell y brenin. Hefyd yr oedd wedi ei adeiladu ar ben craig uchel, godre yr hon oedd yn cael ei golchi yn barhaus gan y môr. Felly gwelir fod y môr yn amgylchynu un ochr i'r castell, tra yr amgylchynid y tair ochr arall â choed a drain, a phopeth ag oedd yn tueddu i wneyd i'r lle edrych yn wyllt a diffaeth. Weithiau byddai llong yn angori heb fod ymhell oddi wrtho, a byddai y morwyr fyddai ynddi yn dringo i fyny ar hyd grisiau oedd wedi eu naddu yn y graig, gan ddwyn trysorau gwerthfawr i'r cawr o wledydd pell. Yn gyfnewid am danynt byddai yntau yn rhoddi yr anrhegion a dderbyniai gan bobl y wlad.

Er cymaint a dderbyniai, profent yn anigonol yn aml. Oherwydd hynny nid peth dieithr fyddai iddo ef a Llawdde adael eu cartref, a dyfod am dro i fysg y tai, i edrych beth allasai fod gan y pentrefwyr fuasai o wasanaeth iddynt hwy. Felly, oherwydd yr arferiad trahaus a digywilydd yma, ni byddai neb yn gwneyd cynnwrf o gwbl wrth ddarganfod yn y bore fod ei anifail goreu wedi mynd, neu rywbeth mwyaf gwerthfawr fyddai o gwmpas y tŷ. Oferedd fuasai gwneyd cynnwrf; rhaid oedd dioddef yn amyneddgar, oblegid byddai yn ddigon hysbys mai y cawr a Llawdde fyddai wedi talu ymweliad â'r ardal, a phwy fuasai yn ddigon gwrol neu yn ddigon ffol i'w dilyn i'r castell?

## III. TAITH Y TAD A'R FAM.

Yn y pentref agosaf i gartref y cawr trigai gŵr a gwraig mewn tŷ bychan ychydig o'r pentref, a chanddynt dri o blant,— dau fachgen a geneth. Enwau y bechgyn oedd Helyg a Celyn, ac enw yr eneth oedd Briallen. Yr eneth oedd yr ieuengaf, a phlentyn prydferth oedd hi, gyda'i llygaid mawr a'i gwallt tywyll modrwyog.

Helyg oedd yr hynaf, ac arno ef yn aml y disgynnai y gorchwyl o warchod Celyn a Briallen, pan y byddai eu rhieni yn gorfod eu gadael i fyned ar ryw neges oddi cartref. Gan ei fod yn gynhefin â'r gwaith yma, a phob amser yn fachgen da wedi i'w rieni droi eu cefn, nid oeddynt yn teimlo yr un petrusder wrth adael y tri bychan yn y tŷ a chychwyn ar daith o rai milldroedd i edrych am berthynas iddynt oedd yn glaf.

Nid oedd Helyg ond oddeutu naw mlwydd oed yr adeg yma, ac

nid oedd erioed wedi gwarchod y tŷ ddiwrnod cytan o'r blaen; am hynny, teimlai ei hunan yn ŵr tra phwysig, a phenderfynai wneyd ei oreu er ennill, fel arfer, ganmoliaeth ei dad a'i fam pan y deuent yn ol.

Bore oer yn y gauaf oedd hi y bore yr oeddynt yn cychwyn, a safai Helyg gyda'i frawd a'i chwaer yn y drws yn edrych arnynt nes oeddynt wedi myned o'r golwg yn y pellder. Nid oedd wedi gorffen goleuo arnynt pan yn cychwyn, er mwyn gallu dychwelyd cyn yr hwyr. Wedi iddynt fyned, difyrrai y plant eu hunain drwy chwareu a chasglu brigau.

Nid oedd tren na cherbydau yn y dyddiau hynny, ac yr oedd pellder mawr rhwng pob pentref a'u gilydd; hefyd, yr oedd y ffyrdd yn arw, a'r wlad yn fynyddig. Nid peth anaml ychwaith tyddai clywed am ddynion drwg, y rhai a lechent mewn coed ac ogofeydd, yn ymosod ar deithwyr mewn mannau anghysbell. Rhwng popeth, yr oedd teithio y dyddiau hynny yn waith blin a pheryglus. Gwyddai Helyg am y peryglon i raddau, ond yr oedd yn ddigon call i gadw yr hyn wyddai rhag Celyn a Briallen. Er ei fod yn fachgen bach gwrol, eto teimlai ofn yn ei drechu wrth weled y nos yn dyfod, a'i dad a'i fam heb ddychwelyd. Wrth weled ei chwaer fach yn pendympian wrth y tân, perswadiodd hi i fyned i'w gwely, gan addaw yn sicr ei deffro pan y deuai ei rhieni yn ôl. Nid rhyfedd ei bod yn teimlo yn fiin ac yn swrth wedi bod yn chwareu yn yr awyr iach drwy y dydd, yn gymaint felly fel mai gydag ychydig o anhawsder y cafodd Helyg a Celyn hi i'w gwely.

Yn fuan wedi i Briallen fyned i orffwys, dechreuodd fwrw eira, ac nid hir y bu cyn cuddio yr holl wlad. Parodd hyn ragor o fraw i'r ddau fachgen, oblegid gwyddent mor anhawdd oedd cerdded drwy yr eira, yn enwedig ar noson dywell fel y noswaith honno. Fel cymwynas i'w tad a'u mam, rhoddasant y goleuni oedd ganddynt yn y ffenestr, ac eisteddasant un o bob tu'r tân i'w disgwyl. Ond yn fuan iawn gorchfygwyd hwy gan gwsig.

#### IV. UN WEDI EI GADAEL.

Yn anfodus, y noswaith honno talodd y cawr a Llawdde ymweliad â'r ardal; ac wrth fyned yn ol i'r castell, sylwasant ar y goleuni a roisai Helyg a Celyn yn y ffenestr. Yn ddiymdroi aethant ato. Wedi edrych drwy y ffenestr, gwelsant y ddau fachgen yn cysgu. Nid oeddynt wedi bod yn llwyddiannus iawn y noswaith honno; yr oedd rhwyd fawr y cawr, yr hon a gariai ar ei gefn, yn wâg. Ar ol sisial wrth eu gilydd am ychydig, y mae Llawdde yn myned i mewn, ac wedi taenu ychydig o rywbeth fel llwch mân ar wynebau y

bechgyn, y mae yn eu cario bob yn un i'r rhwyd oedd ar gefn y cawr. Felly y mae Helyg a Celyn, druain, yn cael eu cludo o'u cartref bychan dedwydd i le gwaeth na charchar.

Cychwynodd eu tad a'u mam fel yr oeddynt wedi addaw, ond daeth yr eira i lawr, a daliodd y nos hwynt yn gynt nag oeddynt wedi meddwl. Hefyd, cododd yn wynt cryf, fel ag yr oedd yn amhosibl iddynt ddilyn y llwybrau. Aeth mor ddyrys arnynt fel y penderfynasant droi am gysgod i'r lle cyntaf y deuent ar ei draws. Yn ffodus, cyn hir daethant at dŷ bychan, a churasant y drws yn ysgafn, ond gan nad oedd neb yn clywed, curasant yn drymach. Ymhen ysbaid y mae rhywun oddifevn yn gofyn pwy oedd yno. Y maent hwythau yn ateb, ac yn adrodd eu helynt, gan erfyn am gael cysgod rhag yr oerfel a'r gwynt. Agorwyd iddynt, a bu y gŵr a'r wraig oedd yn trigo yno yn garedig iawn wrthynt, hyd nes y tawelodd y gwynt ac yr arafodd yr eira, pan y cychwynasant drachefn am eu cartref. Druain ohonynt, yr oeddynt yn llawn pryder wrth feddwl pa fodd yr oedd eu plant bychain wedi treulio y noswaith eu hunain.

Fel yr oeddynt yn nesau, gwelent fod y drws yn agored, ac aethant i mewn, gan droi ar y chwith i ystafell wely y plant. Wrth swm ei rhieni yn dyfod i mewn, defrodd Briallen, a neidiodd i fyny o'i gwely i gusanu ei thad a'i mam, gan mor falch oedd o'u gweled. Y cwestiwn cyntaf ofynnid iddi ydoedd,—

“P'le mae Helyg a Celyn?”

Ond nis gwyddai yr eneth fach. Nid oedd wedi eu gweled er y noswaith cynt. Pan glywodd y fam hyn, llefodd dros y tŷ,—

“Y mae rhywbeth wedi digwydd i'm dau fachgen bach.”

Aeth y tad allan i holi yn eu cylch at y cymydogion, ond nid oedd neb yn gwybod dim am danynt. Pan ddeallwyd eu bod ar goll, aeth pawb bron yn y pentref i chwilio am danynt, rhai ffordd hyn a rhai ffordd arall. Ond daeth y tad a thri o'i gyfeillion cyn cychwyn i hysbysu ei wraig pa gyfeiriad oeddynt yn feddwl gymeryd, ac fel yr oeddynt yn siarad gyda'u gilydd tu allan i ddrws y ty, sylwodd un cyfaill ar hollt ddofn yn yr eira, a galwodd sylw ei gyfeillion ati. Edrychasant hwythau arni, ac wrth graffu ar yr hollt, gwaeddodd y tad,—

• “Nid hollt ydyw, ond ôl troed y cawr.”

Ac erbyn sylwi, dyna ydoedd.

Gyda chalonnau trymion dilynasant ôl y troed yn ddigon pell i gael sicrwydd mai i gastell y cawr yr arweiniai. Pan wnawd yn hysbys yn y pentref beth oedd tynged Helyg a Celyn, galarasant am danynt fel pe buasant wedi marw, ac os oedd modd, gwnaethant eu tai yn fwy diogel nag oeddynt cynt.

Aeth amser heibio, ond nid aeth y ddau fachgen bach o gof neb a'u hadwaenai, ac nid aeth un noswaith heibio na fyddai eu rhieni a'u chwaer bach yn treulio oriau gyda'u gilydd i gynllunio ac i ddyfeisio pa fodd i'w gwaredu, os oeddynt yn fyw, o grafangau y cawr. Ac nid ychydig o ymdrechion wnawd, ond yn ofer.

V. Y CAP ANGHOF.

Un bore hyfryd yn yr haf, gadawodd Briallen ei chartref i fyned i dreulio y diwrnod gyda geneth fach a adwaenai. Wedi cyrraedd yno, cafodd nad oedd ei chyfeilles gartref, ac felly bu raid iddi droi yn siomedig yn ol. Fel yr oedd yn dychwelyd, canfu flodau prydfferth yn tyfu ar ochr bryn; ac er eu bod yng nghanol mieri a drain, penderfynodd wneyd ymdrech i'w cael. Wedi myned yno gwelodd fod y blodau prydfferthaf yn tyfu ar ben y bryn. Dringodd i fyny atynt, ac er ei braw a'i syndod, cafodd ei hunan yng ngolwg ac yn ymyl castell y cawr. Ar y cyntaf meddylodd y buasai yn rhedeg i lawr mor fuan ag y gallai. Ond wedi ystyried ychydig, penderfynodd fyned ymlaen, ie, hyd at ddrws y castell, fel y cawsai roddi ei chlust ar dwll y clo. Feallai, wrth wrandaw felly, y buasai yn clywed swm lleisiau ei brodyr, a mor llawen fuasai pe cawsai hysbysu ei rhieni eu bod yn fyw. Nid oedd yr eneth tach yn ystyried y fath berygl y gosodai ei hunan ynddo, nac yn wir yn gofalu am hynny, os deuai rywsut o hyd i'w dau frawd. Curai ei chalon fach yn gyflym fel yr oedd yn myned dan ymguddio yng nghysgod y gwrych a'r drain, a bu agos iddi a llewygu gan ofn pan o fewn ychydig lathenni i'r castell wrth glywed swm fel nifer o gŵn mawr yn chwyrnu. Deallodd wedi hyn mai y cawr oedd yn cysgu, ac yn chwyrnu. Nis gwyddai beth i wneyd. Cododd ei phen yn uwch na'r drain i edrych a oedd rhywle y gallasai ymguddio. Ond er ei syndod a'i llawenydd, gwelai ddau fachgen ychydig bellder oddiwrthi yn casglu dail. Nid oedd yn eu gweled yn debyg iawn i Helyg a Celyn. Ond i fod yn sicr, rhedodd tuag atynt. Yr oedd yn amhosibl iddynt ei gweled na'i chlywed, oblegid yr oeddynt a'u cefnau ati, ac yr oedd yr holl le o gwmpas y castell wedi ei orchuddio â gwelltglas.

Wrth fyned yn nes atynt, sylwodd fod ganddynt wisg hynod iawn am danynt, yn enwedig y capiau oedd am eu pennau, y rhai oedd yn cau yn dyn o dan eu gên. Pan gyrhaeddodd o fewn ychydig gamrau iddynt, clywsant hi yn dyfod, a throisant eu pennau i edrych arni. Gymaint oedd ei syndod pan welsant hi, fel y syrthiodd y gyllell a'r dail oedd yn eu dwylaw i lawr wrth eu traed. Wedi iddynt droi, adnabu Briallen hwy ar unwaith, ac oni bai arni ofn i'r cawr ei chlywed buasai wedi gwaeddi o lawenydd dros y lle.

"O Helyg a Celyn, fy mrodyr bach anwyl," meddai, gan afael yn nwlaw y ddau, "mor falch wyf o'ch gweled."

Ond, yn rhyfedd iawn, ni ddywedasant hwy air, ond dal i edrych arni fel pe buasant ddwy ddelw.

"Helyg a Celyn, ai nid ydych yn fy adnabod?" gofynnai Briallen eilwaith.

"Nac ydym," ebai Helyg, "nid ydym erioed wedi eich gweled."

Ar hyn, wylodd Briallen, a dywedodd,—

"'Rwyf yn gwybod mai Helyg a Celyn ydych, ac os caf dynnu cap Celyn, danghosaf graith sydd ar ei ben."

"Cewch," ebai Celyn, "ond na fyddwch yn hir, rhag ofn i'r cawr ddeffro."

Gyda dwylaw crynedig datododd y cwlm oedd dan ei ên, a thynnodd y cap oddiar ei ben. Mor fuan ag yr oedd i fwrdd, gwaeddodd Celyn,

"Briallen bach, fy chwaer, mi a'th adwaenaf yn awr."

Wrth weled y ddau yn cofleidio eu gilydd, yr oedd golwg syn ar wyneb Helyg, ac fel pe yn ddiarwybod iddo ei hunan, tynnodd yntau ei gap ymaith. Mor fuan ag yr oedd yn bennoeth, y mae yntau yn adnabod Briallen, a chyda llygaid llawn o ddagrau y mae yn cusanu y chwaer fach a gollasai cyhyd. Yn ychwanegol at ei adnabod hi, y maent yn cofio eu holl hanes o'r dydd y darfu iddynt gael eu hunain yng nghastell y cawr, ac yn ei adrodd wrthi. Cofio yr oeddynt fel yr wylasant, gan erfyn am gael dychwelyd i'w cartref, ac fel yr oedd y cawr wedi gorchymyn i Llawdde eu cymeryd o'r neilldu, a rhoddi gwisg arall am danynt, a'u dwyn yn ol ato ef, ac fel yr oeddynt yn myned dan wyllo, un ym mhob llaw i Llawdde, yn ol at y cawr. Yna y mae y cawr yn dangos y ddau gap rhyfedd iddynt, a chyn eu rhoddi am eu pennau, dywedodd,—

"Cofiwch nad ydych i dynnu y capiau yma ddydd na nos. Gwyddoch mai fi ydi y cawr, os tynnwch hwynt, cymerwch y canlyn-iad. Tyrd yma," ebai wrth Helyg, "dyma fi yn rhoddi am dy ben gap anghof."

A dywedodd yr un modd wrth Celyn.

Byth er hynny nid oeddynt wedi cofio dim o'r gorffennol hyd y dydd yr aeth Briallen atynt.

#### VI. TRI'N DOD YN OL.

Pan wrthi fel hyn yn adrodd eu hanes, y mae drws y castell yn agor, ac wele Llawdde a'r cawr yn dyfod allan. Rhoddodd y plant ysgrech, a gwaeddodd y cawr dros y lle. Yn ei dychryn, rheddodd Briallen, neu yn fwy gwirioneddol, eheddodd, oblegid prin yr oedd ei thraed yn cyffwrdd

y llawr, tua chraig fawr i geisio ymguddio o olwg y cawr. Ond, ryw-fodd neu gilydd, llithrodd ei throed, ac aeth o'r golwg mewn twll oedd yn y graig Gyda chyflymdra anesgrifiadwy bron aeth Llawdde ar ei hol; ond yn ei brysurdeb, aeth dros y graig i lawr nifer o droedfeddi, gan daraw ei ben yn erbyn carreg fawr, fel y bu farw. Gwelodd y cawr ef yn myned dros y graig, aeth ar ei ol, a cheisiodd neidio i lawr ato. Rhoddodd ormod o naid, a chafodd ei hunan yng nghanol y môr. Nis gallai nofio, ac felly boddodd y cawr.

Yr oedd Helyg a Celyn yn dystion o hyn i gyd, ac mor fuan ag y darfu am eu gelynon, rhedasant at y graig lle yr oedd eu chwaer wedi syrthio, gan waeddi,—

“ Briallen, Briallen, wyt ti yn ddiogel ? ”

Atebodd Briallen, —

“ Ydwyf, ond nis gallaf ddod allan heb i chwi afael yn fy llaw.”

Aeth ei brodyr i waered ati, i'w chynorthwyo i ddod o'i lloches, ac adroddasant wrthi yr hyn oedd wedi digwydd i'r cawr a'i was Yna y mae y tri, gan afael yn nwyllaw eu gilydd, yn rhedeg tuag adref.

Yr oedd y tad a'r fam bron wedi dyrsu wrth weled Briallen mor hir yn dychwelyd, a phan aeth y tri i mewn i'r tŷ, nid oeddynt yn gallu credu eu llygaid eu hunain. Tybient mai mewn breuddwyd yr oedd-ynt, gan mor anhawdd ydoedd sylweddoli fod eu bechgyn wedi dyfod yn ol yn fyw ac yn iach. Yn wir, haws yw dychmygu na desgrifio y teimlad o lawenydd oedd ar eu haelwyd y noswaith honno

Hefyd, gwnaeth y cymydogion wledd iddynt. ac nid oedd diwedd ar y llawenhau, nid yn unig oberwydd dychweliad y bechgyn, ond am fod y wlad wedi cael ei gwaredu oddiwrth hen elyn gormesol a chreulawn. Yn wir, daeth Briallen i gael ei hystyried fel arwres, a llwythid hi beunydd ag anrhegion gwerthfawr.

Cyn hir daeth yr hanes i glustiau y brenin, a rhoddodd ef i'r teulu yn anrheg blas gwych, gyda chaniatad iddynt gymeryd i'w meddiant eu hunain yr holl drysorau oedd wedi eu gadael gan gawr y castell.

*Penrhyn Deudraeth.*

FANNY EDWARDS.

## Y WENNOL.

Yn ein bro ar wanwyn braf,—hon a geir,

Tlos edn gu 'rol gauaf ;

Adre 'n ol daeth deryn haf,

Ha ! wenolen anwyllaf.

*Ponterwyd.*

J. LLOYD-JONES.

---

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

ARGRAFFWYD A OYHOEDDwyd gan HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWRECSAM.



# AT Y PLANT.



**T**AL. Nid oes un ddadl i fod ar y mater,—y mae ysmegu yn wastraff, ac yn niweiddiol i iechyd. Nid wyf am ddweyd dim am y rhai sydd wedi creu angen am dano iddynt eu hunain; ond dymunaf yn ddawys fod pob plentyn yn ymogle rhagddo.

**BOB Y WERN.** “Prun yw'r enwocaf, Caerfyrddin a'r Bala?” Yn yr hen amser, Caerfyrddin oedd yr enwocaf, yn ddiau; yr oedd yn borthladd neu dref farchnad bwysicaf Cymru. Yn ein dyddiau ni y mae y ddau le yn enwog, ac yn haeddu enwogrwydd. Yn y naill yr argraffwyd y Beibl Cymraeg cyntaf yng Nghymru; yn y llall y mae cartre'r Ysgol Sul.

**AMRYW.** Y mae llawer o rifynnau CYMRU'r PLANT yn awr yn brinion. Yr wyf yn cael llythyrau yn aml yn holi lle y medrir cael y rhifyn yma a'r rhifyn arall; drwg iawn gennyf nad oes gennyf amser i ateb pob un o'r llythyrau hyn. Y cyhoeddwy'r sydd debycaf o'u meddu. Wrth chwilio am rifynnau 1 hyd 30 (Ionawr 1891 hyd Mehefin 1894) anfoner at y Goruchwyliwr, Swyddfa CYMRU, Caernarfon; ac wrth chwilio am rifynnau wedi hynny, anfoner at y cyhoeddwy'r presennol. Os na cheir y rhifynnau felly, chwiliwr am danynt yn ail law.

**T. E.** (Ystumgwadneth). Y mae'r gân yn naturiol a dymunol iawn, ond y mae'n rhy hir. Rhaid crynhoi.

**R. EVANS (Mardy).** Cân felodaidd iawn, ond nid yw y syniadau yn ddigon eglur i blant.

**O. E.** Diolch yn fawr am y rhestr newydd o blant Llanuwchllyn ddaeth yn aelodau o Urdd y Delyn. Bydd yr enwau yn un o'r rhifynnau nesaf.

**UN o ELPIONYDD.** Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy yw y gyfrol ddiweddaraf o Gyfres y Ffl. Daw Dewi Wyn a Rhobert ab Gwilym Ddu yn eu tro. Yr oedd yn hen bryd i fardd duwiol Llanystumdwy gael llais eto. Ni chyhoeddwyd ond ychydig iawn o'i waith o'r blaen, er ei fod wedi marw er dechreu'r ddeunawfed ganrif. Yr oedd yn hen pan yn marw, ac yn dywysog ymysg ei bobl.

**M. C. 1.** Codir gwerth £13,000,000 o bytatws ym Mhrydain Fawr bob blwyddyn. **2.** Y mae'r haint yn ddfrodlyd iawn; ambell i fiwyddyn ddrwg, megis 1848 neu 1875, a eu hanner yn ddrwg. **3.** Bu llysieuwyr am fiwyddyn gyfan yn gwyllo achos y clwy ar y pytatws. Cawsant mai llysieuyn anweledig oedd. Ond liadd hwnnw, ac y mae moddion priodol i hynny, daw'r pytatws yn iach.

**BOB.** Nis gallaf broffwydo ar bwnc mor ddyrus.

**LL. AB LLEN.** Diolch. Ystraeon byrion sydd wrth fodd plant.

**S.** Yr wyf yn rhoddi o leiaf un erthygl anodd ei deall bob mis, er mwyn y plant ysgol.



DIWYDIANNAU CYMRU. VI. PŴYSO GWLAN.



# CYMRU'R PLANT.

CYF XIII.

MEHEFIN, 1904

RIF 150.

## CWSG, FY MHLENTYN.

**C**WSG, fy mhlentyn, cwsg yn dawel,  
 Dlysed, wynnwyd yw dy fyd;  
 Cariad mami ydyw'r angel  
 Daena'i aden dros dy gryd;  
 Cysga'r prydfarth ros a'r lili,—  
 Delwau'r blodau sy'n dy wedd;  
 Gydag engyl bach tra hunt  
 Casgla bwysi gwlad yr hedd.

Cwsg, fy mhlentyn bach diniwed,  
 Huna'n esmwyth drwy y nos;  
 Canaf, suaf wrth dy wylid,  
 Cygsa yn dy wynfa dlos;  
 Rhag i'r awel groes dy fino—  
 Codwyd caerâu teimlad mam;  
 Cana, gwena, lwli, huna  
 Angel dedwydd yn ddimam.

Cwsg, fy mhlentyn, ni ddaw cymyl  
 Adfyd heno uwch dy ben;  
 Cau d' amranta'u 'nghalon anwyl,  
 Llygaid mam yw ser dy nen;  
 Cysga'r adar yn eu pebyll  
 Llawryf gwyrdilas ger y drws;  
 Cysga dithau yn dy wersyll,  
 Cysga, cysga 'mhlentyn tllws.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

## CHWIMDER PYSGOD.

**T**LWS odiaeth, onide, yw y pysgodyn yn yr afon. Pwy sydd nad yw ganwaith wedi difyr sylwi ar y brithyll yn y llyn? Mor ddistaw ddiraferth y mae'n symud, mor chwim ysgafn y mae'n troi a throsi o gwmpas yn yr "elfen loew ysplennydd." Mor chwyrn-saethol yw ei felltaidd ruthr at y gwybedyn. Ac ar ol pob cyrch, ar ddiwedd pob rhuthr, y mae yn edrych mor dawel, ddiym-dawr, a phe buasai heb symud asgell na chwifio cynffon erioed.

Dyna, ynte, ran bwysig o'r swyn a deimlwn wrth edrych ar y pysgodyn—y chwimder ymsaethol â'r hwn y mae'n ymsymud. Efen arall a'n swyna yn yr olwg arno yw ei liwiau llachar ac amryfal; yn ei rawd chwim-esmwyth trwy loewon ddyfroedd y llyn ariannaidd, cyffelyb yw i ryw eurog danllyd saeth oddiar fwa angel. O ran ei ffurf wedyn, y mae yn berffaith-gwbl fel dinesydd ac ymdeithydd yn y dŵr.

Yn ychwanegol at y tri pheth yna, credaf fod un peth arall, ag sydd yn meddu swyn i ni, blant y codwm,—y wedd lon, lawen, siriol sydd ar y brithyll bob amser; ymddengys fel wrth ei fodd ac ar ben ei ddigon. Onid oes rhyw ddedwydd olwg iach, raenus, borthiannus, ar bob brithyll welsum erioed; ac ar gefn hynny, rhyw olwg fyth-effro, hyderus, fel gŵr fai'n sicr o'i damaid, ac o ddyfodol helaeth, difyr, diliyfethair?


Ac y mae ei lwyddiant a'i fywyd yn ymddibynnu ar y chwimder iach, heinyf, effro, hwn. Prin a thlawd fyddai ei damaid oni bae ei fod yn nofiedydd mor gyflym; ac felly am braidd holl dylwyth y pysgod.

Dengys arbrofion a sylwadaeth diweddar y gall y *dolphin* (morhwch), pan erlyner, nofio yn ol 32 milltir yr awr. Ond gall yr eog (*salmon*) nofio'n gyflymach, sef yn ol 40 milltir yr awr. Felly am holl afrifed ddinasyddion y môr mawr, y cefnfor dwfn, llydan-faith, y maent oll yn nodedig am gyflymder rhyfeddol eu symudiadau. A dyna chwareufaes difyr a helaeth sydd ganddynt, eto, nid ydynt hwythau heb eu gelymion, o'r morfil cawraidd hyd y silyn lleiaf; a da iddynt wrth asgell a chynffon, a llygad diamrant nad yw byth nghau.

H. BRYTHON HUGHES.

## PROFI YR AUR.

RHAID i bob sofran ddaw o'r fathodfa fyned trwy ei phrawt, o ran pwys ac o ran purdeb. Pwys safonol pob sofran yw 123 27447 gronyn (*grains*). Pan ar ei threigl, os cyll y sofran ond tri chwarter gronyn o'i phwysau safonol, cyll ei chymeriad fel bathodyn cyfreith-lawn, a chondemnir hi i'w hail-doddi.



## YR HAF.

**M**AE echel y ddaear yn ogwyddedig i linell unionsyth ei chwylygylch (*orbit*) gymaint a  $23\frac{1}{2}^{\circ}$  o raddau. A chan fod y cyhydedd (*equator*) yn amgylchedd dychmygol yn myned trwy ganolbwynt y ddaear yn unionsyth neu gywirgroes i'r echel, ac yn ogydbell oddiwrth y pegynau, rhaid felly ei fod yntau yn ogwyddedig i'r chwylygylch o ogymaint o raddau. Mae gogwyddiadau echelau planedau ein cysawd heulog yn amrywio ogymaint a  $3^{\circ}$  o raddau yn hanes Iau (*Jupiter*) i  $98^{\circ}$  o raddau yn hanes Uranus. Felly, fe welir fod echel Iau bron yn unionsyth, tra mai cyhydedd Uranus sydd yn unionsyth, a'r echel yn gorwedd yn wastad neu yn gywir groes o'r bron.

Yn awr, syllwch ar y darlun uchod. Dengys hwn y ddaear mewn pedwar man gwahanol ar ei chwylygylch, neu megis y saif o berthynas i'r haul ar Mawrth 20, Mehefin 21, Medi 22, a Rhagfyr 21. Yn awr, gadewch yr awenau ar warr eich dychymyg, a gadewch iddo garlamu am filiynau ar filiynau o filldroedd i ryw wlad ymhell uwchben ein cysawd heulog, i fyny acw. Ac wedi cyrraedd yno trowch eich golygon tua'n haul bach ni, a chwi gewch weled yr holl blanedau yn gorymdeithio o'i gylch, a'n daear fach ni yn eu canol. Arhoswch yno, a chymerwch olwg arni yn ei chylch blynyddol o amgylch yr haul, gan ystyried ei hechel yn gogwyddo  $23\frac{1}{2}^{\circ}$  o raddau i'w chwylygylch, ac yn cadw trwy ei holl daith yn sefydledig iddi ei hun. Yna fe welwch, yn ol fel bo y ddaear mewn gwahanol rannau o'i chylch, fod pelydrau o'r haul yn

disgyn yn unionsyth ar y cyhydedd, ac ar bob rhan o'r gromen o fewn  $23\frac{1}{2}^{\circ}$  gradd o'r tu gogledd ac o'r tu de iddo.

Edrychwch ar y ddaear yn y pwynt y saif hi ym mis Mehefin, a chwi ganfyddwch fod ei phegwn gogleddol yn gogwyddo tua'r haul, ac o ganlyniad dygir holl diroedd gogledd y blaned yn twy i'r goleu a'r gwres nag ar yr un amser o'r fiwyddyn. Bydd yn haf ar bobl y gwledydd hynny.

Edrychwch ar y ddaear yn y rhan gyferbyniol o'i chylch, yn y pwynt y saif hi ynddo ym mis Rhagfyr. Saif yn awr a'i phegwn gogleddol yn gogwyddo oddiwrth yr haul, ac wrth gwrs cawn hi yn hollol wrthwynebol i'r hyn ydoedd ym mis Mehefin, am mai y gwledydd gogleddol sydd yn awr yn gorwedd fwyaf yn y tywyllwch nag yn y goleu. Ac mae'n haf ar drigolion y de y pryd hynny, ac yn auaf arnom ninnau.

Chwi welwch fod y pwyntiau hynny lle saif y ddaear ynddynt ym Fawrth a Medi yn gyferbyniol, canys nid yw yr echel yn ogwyddedig naill nag at, nag oddiwrth, yr haul. Pryd hyn mae llinell dychmygol yn cydgydio y naill begwn wrth y llall, ac mae honno yn linell lym sydd yn trywanu cydrhwng goleuni a thywyllwch; a chan fod yr haul yn syth uwchben y cyhydedd, y mae yn gwneuthur dydd a nos yn gyfartal drois wyneb yr holl ddaear. Gelwir y cyfnodau hyn yn *equinoxes*, gair tarddedig o'r iaith Ladin, yn golygu cyhydedd nos a dydd. Nid amddifadrwydd yr hen iaith o sylweddau a brawddegau a esyd allan feddyliau gwyddonol a bery i ni ddweyd hyn. Ond gan mai Lladin a Groeg ddefnyddir fel termau gwyddonol gan holl deyrnasoedd y byd, paham na wnawn ninnau?

Yn awr, gan fod yr haul yn teithio ar y cyhydedd ar y 21 o Fawrth a Medi, a chan fod y cyhydedd yn ogydbell o'r pegynau, rhaid felly fod yr haul yn codi yn wir bwynt y dwyrain, ac yn machludo yn wir bwynt y gorllewin ar y dyddiau hynny. Felly, os ydych am adnabod dwyrain a gorllewin yr ardal y preswylwch ynddi, a hynny heb gwmpawd, syllwch ar yr haul yn codi a machlud ym Medi nesaf, a chewch ef yn gwneyd yn gywir y naill a'r llall. Wedi y diwrnodau hynny cyfyd y naill ai i'r de neu i'r gogledd bwynt o'r dwyrain, a machluda i'r de neu ogledd y gorllewin, yn ol fel bo'r tymhorau.

Dywedais dro yn ol fod y ddaear yn bellach oddiwrth yr haul yn yr haf nag yw yn y gauaf. Os felly, paham mae ein gauafau yn oerach na'n hafau? Yn yr haf cyfyd yr haul yn llawer uwch oddiar y terfnyglych (*horizon*), a chan y disgynna ei belydrau yn unionsyth, rhaid i nifer liosocach ohonynt gyrhaeddyd y ddaear. Deuant hefyd gyda mwy o rym, yr hyn sydd yn cyfrif am wres mawr yr haf. Heblaw hynny, mae y dydd yn hwy a'r nos yn ferrach, am hynny,

gwresogir y ddaear a'r awyr yn y dydd yn fwy nag yr oerant yn y nos.\*

Gwyddoch mai mis Gorffennaf ac Awst yw y misoedd poethaf o'r flwyddyn, ac nid Mehefin, pan fo'r dydd hwyaf. Cyfrifir am hyn megis a ganlyn. Pan y twymer unrhyw fater, ni chyll ei wres ar unwaith, ond yn raddol. Cyhyd ag y byddo mwy o wres yn dyfod ar wyneb y ddaear yn y dydd nag a gollir yn y nos, cynhydda gwres y ddaear a'r awyr yn ddyddiol, a pharheir hyn am wythnosau wedi'r dydd hwyaf. Felly mae'r esboniad hwn, ynghyd â'r achosion ereill a nodwyd, yn ddigon i egluro poethder haf.

Pe buasech yn byw tu mewn i gylichau pegynol ein daear, y rhai amgylchynant wyneb y ddaear o gymaint a  $23\frac{1}{2}^{\circ}$  o raddau oddiwrth y pegynau, cawsech ddydd heb nos am dymor byr. Tywynna'r haul ar y ddaear bob amser  $90^{\circ}$  gradd ym mhob ffordd, a phan y bo uwchben Trofa y Cranc (*Tropic of Cancer*), yr hwn sydd  $23\frac{1}{2}^{\circ}$  o raddau o du gogledd i linell y cyhydedd, rhaid iddo felly dywynnu gynifer o raddau tuhwynt i'r pegwn, neu i'r cylch pegynol; pan y cymer hyn le, nis gall fod nos i'r bobl breswylant tu mewn i'r cylch pegynol hwnnw. I gylich pegynol y de, ar yr un pryd, nis gall fod dim yno ond nos barhaus, am nas gall pelydrau yr haul gyrhaeddyd mwy na  $90^{\circ}$  gradd, felly ni chyrrhaedda y goleuni hwynt.

Ar yr 21ain o'r mis hwn cyrrhaedda yr haul ei uchafbwynt ar y cyhydedd, yna teithia ar ei dro i wledydd y de lle y croesawir ef. Gelwir y cyfnod hwn yn *solstice*, am yr ymddengys yr haul yn machlud yn yr un pwynt o'r terfyn-gylch am ddyddiau'n ganlynol. Wedi hyn daw yr haf i'r rhanbarth yma o'r blaned.

Er y cân ambell i gerddor "O na byddai'n haf o hyd," eto beth fuasai gwerth haf heb auaf o'i flaen? Nid oes yr un wlad ar ein daear ni a haf diddarfod iddi. Yr ochr draw, tuhwnt i'r llên, mae'r wlad honno.

SIGMA.

—♦—♦—♦—

### YR HAF.

<p><b>M</b>AE'r haf yn dod, mae'r haf yn dod, A charped gwyrdilas dan ei droed, A chân yr adar yn y coed; Pa le mae'r dyn yr hwn a ddwed Nad oes un Duw yn bod?</p>	<p>Mae'r haf yn dod, mae'r haf yn dod, Ni welwyd angel nef erioed. A gwisg mor dlws a'r hon a roed O brydferth wyrdd i guddio'r coed; Pa le mae'r dyn yr hwn a ddwed Nad oes un Duw yn bod?</p>
---	---

Mae'r haf yn dod, mae'r haf yn dod,  
Fe ddaw am byth; fe ddaeth erioed;  
I'u Duw yn unig byddo'r clod. . . . .

AEL Y WYDDFA.

---

\* Dywedwyd am berthynas yr awyr a gwyneb y ddaear yng NGHYMRU'R PLANT, Cyf. XII., Chwefrol, 1903; ac am berthynas y ddaear a'r haul yn Cyf. X., Mai, 1901.

## CANBUON PLANT RHOSTRYFAN.

IV. MARY, TAN-Y-CELYN.

**R**WY 'n cofio Mary, Tan-y-celyn  
Yn ddim ond plentyn pum  
mlwydd oed ;  
A gwn na welodd bro Bryn Melyn  
Anwylach Mary fach erioed.

Chwareuai'n heini fel yr awel,  
A'i gwenau'n felus fel yr ha ;  
A churai 'nghalon innau'n dawel  
Pan welwn Mary—'r eneth dda.

Ymhen blynyddoedd wedi hynny,  
A mi yng Ngriocerth hafddydd llon,  
Mi welais Mary yn crynnu, crynnu,  
Fel corsen glwyfus, ger y don.

'Roedd Ysgol Sul o blant Rhostryfan,  
Yn chware'n ddiſyr ar y traeth ;  
A minnau'n cofio'r ardal gyfan  
Yn seiniau croew'u miri fraeth.

Ond gweled Mary dorrai 'nghalon,  
Er hardded ydoedd ger y lli,—  
Fe glywai'm henaidd sw'n sisialon  
Traeth arall—pellach—drwyddi hi.

Edrychodd.arnaf o'i chystuddiau,  
Fe'm cofodd—gwenodd yn ddiſraw ;  
A hwyrlif bywyd wridai 'i gruddiau  
Pan safem yno law yn llaw.

'Rwy'n cofio awel bêr Eiflonnydd  
Yn suo'r castell ar y graig,  
A ehwerthin bryniau aur Meirionnydd,  
Ar dlysiu esmwyth hudliw'r aig.

Ond cofio Mary gystuddiedig,  
Fan honno'n gwenu gwenau llon,  
Sydd imi'n goſio cysegredig  
Am draeth dialar—dros y don.

J. R. TRYFANWY.

## MOTTO'R PLENTYN.

ADRODDIAD I BLANT.

**N**AWR, nid wyf ond plentyn bychan,  
Y tro cynta' ar y llwyfan ;  
Os caf fyw, yr wyf yn diſgwyl,  
Dod ryw ddydd yn glod i'r gylchwyl.

Clywch, fy motto yw,—“ I FRYW,”  
Ac o'ch blaen 'rwy'n penderfynu  
Gwneud iawn ddefnydd o fy amser,—  
Ymladd hefyd, âg anhawder.

Fe fu tada, fe fu mami,  
Yn blant bach yn dysgu gwersi—  
Yn dysgu buont yr A, B,  
A *one, two, three*,—run fath a fi.

Rhostryfan.

Fy Ewyrth William, —tada May,  
Sy'n 'sgolor iawn,—mae yn M.A.  
Ond fe fu hwnnw, medda nhw.  
Un tro heb fedru *Twice one, two.*

“ Af i fyny ” fu ei *ſotto*,  
Ac am fiwyddi bu yn dringo,  
A dyna'n motto innau'n awr—  
“ I fyny, FRYW—bod yn fawr.”

'Rwy'n gwneud ymgais, gwelwch, heno,  
A hei lwo os gallaf guro ;—  
Mi fydda'n ddyd,\* medd taid a nain,  
Os curo wnaif bob un o rhai'n.

H. O. JONES.

## ELUNED FACH.

Geneth fach Ioan Brothen a'i briod, Llanfrothen.

**P**LE mae y lli hawddgar,  
Ple mae y blodyn tiws.  
Oedd gymar mewn prydferthwch  
I'r rhosyn ger y drws ?  
Ple mae eich hoff Eluned,  
Cysurydd bach y tŷ ?  
Distawrwydd sy'n dwyn adgof,  
Eluned bach sydd fry.

Gwag yw y cartref mwyach  
O'r perlyn bychan, byw,  
Y gwyneb bach angyliaidd,  
A'r llais bach mwyn nid yw ;  
Ond er ei cholli'n gynnar,  
Nid oes raid bod yn drist,  
Mae'n hanwyl hoff Eluned  
Ym mynwes Iesu Grist.

MEIRIONWEN.

\* I enethod,—“ Mi fydda'n ddynes, meddai nain.”





PLANT CYMRU. CLXXIX. PLANT CAER.

*PLANT CAER.*

**D**YMA rai o blant bach Caerlleon, gyda'u hathrawon, ac ar y llaw dde, arolygwr Ysgol Sabothol St. John St. y flwyddyn ddiweddaf, Mr. Thomas Williams, o Ffestiniog. Gellir dweud wrth dafodau y plant yma fod ychydig anhwyldeb ar eu Cymraeg, ond y mae eu hysbrydoedd yn iach, ac adroddant yr un adnodau a phenillion yn y Seiat a phlant Cymru. Byddant hefyd yn ymdrochi a physgota yn y Ddyfrdwy. Amgylchir dinas Caer gan fur henafol, llydan, a digon o le i gerdded ar hyd 'odo. O ben un o'r tyrau sydd ar y mur hwn, gall y plant weled rhengau o fynyddoedd a dweud "Dacw Gymru;" a rhwng hyn a dysgu adnodau o'r Beibl Cymraeg, a chanu yr hen benillion, a myned i rodio at eu taid a'u nain i Gymru yn yr haŷ, tyfant yn Gymry aiddgar.

*Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.*III. BHEITHEG (*Rhetoric.*)

**D**YSGA di Reit heg,—*Rhetoric* medd rhai, [fai;  
Er mwyn gallu dangos y meddwl heb gwir ystyr a thuedd pob pwnc roddi'n llawn,  
Os dysgi reolau gwir Reit heg yn iawn.

Dysga di Reit heg,—daw'th arddull yn bur, [gur;  
Gwnei deimlad a meddwl fel gauaf heb Neu ynte yn llawen fel hoender yr ha,  
Os dysgi reolau gwir Reit heg yn dda.

Dysga di Reit heg,—daw pob brawddeg hardd  
I garlo byw feddwl y llenor a'r bardd;  
Adroddi'r mawreddog mewn pwyslais a grym,  
Y tlws yn ddeniadol,—a'r garw yn llym.

Dysga di Reit heg,—gwnei feddwl pob un [hun;  
Mor eglur, wrth adrodd, a'th feddwl dy Fe haeddi ganmoliaeth areithwyr y byd  
Os dysgi reolau gwir Reit heg i gyd.

R. EUROG JONES.

## CYMRU'R PLANT.

### "Pe bawn i yn aderyn bach."

"IF I WERE BUT A LITTLE BIRD."

DOH D.

H. BRYTHON HUGHES.

	.d	s	.s	:m	.d	l	.l	:s	.m	f	.s	:l	.f	r	:-	.
{	.d	d	.d	:d	.d	d	.d	:d	.d	t,	.d	:d	.r	t,	:-	.
	1.Pe	bawn	i	yn	ad	er	- yn	bach,	Mi	gan-wn	gyd-ol	dydd,				
	.m	s	.s	:s	.s	f	.f	:m	.s	s	.s	:f	.l	s	:-	.
	.d	m	m	:d	.m	f	.f	:d	.d	r	.m	:f	.r	s	:-	.

	.s	d'	.d'	:t	.s	l	.l	:s	.m	r	.f	:m	.r	d	:-	.
{	.t,	d	.m	:r	.d	d	.d	:d	.d	r	.r	:d	.t,	d	:-	.
	Gwnawn	feusydd	nef	yn	fiws-ig	byw,	Heb	fyth	'run	nod-yn	prudd.					
	.s	s	.s	:s	.s	f	.f	:s	.s	l	.l	:s	.f	m	:-	.
	.f	m	.d	:r	.m	f	.f	:m	.d	f,	.f,	:s,	.s,	d	:-	.

- |   |   |
|---|---|
| <p>2 Pe bawn i 'n gath fach yn y ty,<br/>Mi ddaliwn lygod fil ;<br/>Cawn fara-llefrith lond fy mhlât,<br/>A hufen bob dydd Sul.</p> <p>3 Pe bawn i yn llygoden fach,<br/>Mi ddringwn ar y bwrdd ;<br/>Mi rampiwn draws y ty i gŵd,<br/>Pan fyddai'r gath i ffwrdd.</p> <p>4 Pe bawn i 'n oen bach ar y ddol,<br/>Cawn brancio gyda blas ;<br/>Cawn laeth faint fynwn gan fy mam,<br/>Ac ambell flewyn glas.</p> <p>5 Pe bawn wenhynen fach mewn gardd,<br/>Mi gasglwn fêl bob dydd ;<br/>Rhyw gronfa helaeth fyunnwn gael,<br/>Ar gyfer gauaf prudd.</p> <p>6 A minnau, plentyn, bychan wyf,<br/>Ond un am fynd yn fawr ;<br/>Yn dyfal gasglu dysg a moes,<br/>Tra yma ar y llawr.</p> <p>7 'Rwyf fi am fyw flynyddau fyrdd,<br/>'Rol cwmpo rhai'n i'r bedd ;<br/>O Iesu ! gwna fi'n blentyn da,<br/>A dwg fi i Wlad yr Hedd.</p> | <p>1 If I were but a little bird,<br/>I'd sing the sweetest song ;<br/>I'd take a journey to the skies,<br/>And frolic all day long.</p> <p>2 If I were but a pussy-cat,<br/>I'd chase the rats and mice ;<br/>I'd have sweet cream for supper too,<br/>And everything that's nice.</p> <p>3 If I were but a tiny mouse,<br/>I'd gnaw the soft new cheese ;<br/>When Tabby wasn't in the way,<br/>I'd do just as I please.</p> <p>4 But I'm a tiny little boy,<br/>Just learning what to do ;<br/>And every day, it seems to me,<br/>I'll find out something new.</p> <p>5 I get up in the early morn,<br/>And play with Tom and Nell ;<br/>But when I am as old as they,<br/>I'll go to school as well.</p> <p>6 I'm very little, to be sure,<br/>But then I'm only four ;<br/>But some day I will older be,<br/>And know a great deal more.</p> |
|---|---|

H. B. HUGHES.

ANON

## "FE DDAW LLYWELYN ETO 'N OL."

## VII. CYFFESIAD BRAWYCHUS.

**Y** MAE dros dair blynedd er pan roddwyd Caden Dafydd i orwedd yn mhridellau'r dyffryn, ac ymhen deuddydd byddant yn rhoddi ei gŵr i orwedd yn ei hymyl. Bu farw dan gwmwl, a bedd y meddwyn ydoedd ei ran. Yn tuan wedi marwolaeth yr Yswain, fe ddarfyddodd yr aur yn y Bryn Du, ac yr oedd ystad y Fron i'w gwerthu i dalu'r dyledion, a Gwen, druan, i fyw ar yr ychydig oedd yng ngweddill. Yr oedd Rhobet Dafydd, yntau, wedi dod i fyw i Lwyn yr Eithin yn ymyl,—y rheilffordd wedi gwneyd gwasanaeth yr hen "Lion" yn ddiangenrhaid. Ac yn rhyfedd iawn, Rhobet Dafydd oedd prynwr newydd ystad y Fron, a theimlodd rhai o'r pentrefwyr gryn siomedigaeth pan ddeallasant mai nid Rhobet Dafydd oedd y perchennog newydd, ond ei fod wedi gwneyd y fargen dros gefnder iddo, meddyg oedd yn byw'n groes i'r dŵr, ac yr oedd yr hen ddoctor yn bwriadu dod yno i fyw cyn hir.

Aeth misoedd heibio, ac nid oedd gair o son am briodas y Capten â Gwen, ac yr oedd hithau erbyn hyn wedi gwneyd ei chartref yn yr Ardd Las, pan welodd y gallai fyw yn yr un pentref a'r Capten a chael llonydd ganddo. O dan ei dylanwad hi a Rhobet Dafydd fe ddaeth dau fachgen yr Ardd Las yn ddirwestwyr, ac i fynychu'r crrddau yn yr ysgoldy, ac yr oedd rhai o'r pentrefwyr yn dechreu sibwrw yn barod fod rhan o weddi Caden Dafydd wedi ei hateb. Ond am Llywelyn, nid oedd neb yn gwybod ei hanes; ac os gwyddai Rhobet Dafydd rywbeth yn ei gylch, 'doedd o yn dweyd yr un gair,—dim ond ysgwyd ei ben, a mwman rhywbeth am ryw adeg y gwastadheir popeth; "diwrnod y bydd Rhagluniaeth," meddai, "fel dannedd ôg yn llyfnu'r holl amgylchiadau."

Felly y bu pethau'n mynd wrth eu pwysau am amser. O'r diwedd, clafychodd y Capten, bu mewn poenau dirdynol yn y "Toilers' Rest," a gwaeddai o hyd am weled Gwen. Aeth hithau i'w weled ac i weini cymaint o gysur ag a allai iddo. Un diwrnod, pan oedd meddyg y pentref wedi rhoddi pob gobaith i fyny am dano, ac wedi anfon am feddyg enwog arall, a Gwen yn ceisio esmwytho ei obenydd, tynnodd y Capten bapur bychan wedi ei blygu'n ddestlus o'i fynwes, a chan guddio ei wyneb â'i ddwyllaw, oeddynt bron rhy wywedig i gyffro, estynnodd ef i Gwen. Gyda iddi ddarlhen llinell neu ddwy o hono, dyna ddrws yr ystafell yn agor, a'r meddyg dieithr yn gwneyd ei ymddangosiad, yr hwn a edrychai'n gyffrous wrth glywed rhywun yn gwaeddi allan,—“A'm Llywelyn innau'n cael y bai am foddi fy ———.”

Dyna'r cwbl gaed gan Gwen, druan, ac yn wir, dyna'r cwbl eilid disgwyl. Ond cyfaddefiad y Capten ydoedd mai efe fu achos

boddiad ei thad, ac ofnai y meddyg dieithr fod mwy nag un wedi tynnu ei anadl olaf yn yr ystafell honno.

Bu Gwen, druan, yn anymwybodol am ddyddiau lawer. Crwydrai ei meddwl, ymlwybrai yng ngwlad hud a lledrith, ac yn nyfnder nos gwaedda'i'n aml,—“A'm Llywelyn innau'n cael y bai am foddï fy nhad.” Yn ofer y ceisid ei sicrhau nad oedd Llywelyn yn yr ystafell. “A'm Llywelyn innau'n cael y bai am foddï fy nhad,” meddai eil-waith, ac yna dechreuai wylo ac arswydo, megis, rhag rhywbeth yng nghil y drws. Pan ddaeth i'w llawn ymwybyddiaeth, y cyntaf adnabyddodd oedd Rhobet Dafydd, a waeth i ni adael y ddau yng nghwmni eu gilydd tra'n bwrw golwg dros helyntion Llywelyn.

### HEN YWEN.

**O** BOB rhywogaeth o goeden dyf yn ein gwlad ni, yr ywen (*yew*) yw yr un sydd yn byw hiraf. Ym mynwent Silverton, yn Nyfnaint (*Devon*) y mae hen ywen blannwyd, meddir, yn amser William I., ac felly yn rhyw 900 mlywydd oed; ond y mae yn awr yn gwywo i farw. Y mae ei chylchfesur yn 27 troedfedd.

Cymered y plant ddyddordeb mewn edrych ar, a mesur yr hen goed yw sy'd ger hen eglwys eu plwyf hwy. Odid y mae mynwent yng Nghymru nad oes rhai o'r hen batriarchiaid hybarch hyn yn tyfu ynddynt.

Yr oedd gan ein tadau yn yr hen oesoedd ofal mawr am dyfu coed yw, oblegid ohonynt hwy y gwneid y bwau gore; ac yr oedd cael bwa cryf yn nydd y frwydr o'r pwysigrwydd mwyaf iddynt—mor bwysig ag yw meddu y rhychddryll (*rifle*) gore, neu y cyfiegr (*cannon*) gore heddyw.

Yn y fynwent, hefyd, yr oedd yr ywen ar dir cysegredig, lle na feiddiai pob llaw ei thorri; yr oedd hefyd ar dir y plwyf, ac felly yn eiddo, wrth raid, i'r plwyfolion. A chan yr ystyrir hi, o'i bwytâ, yn wenwynig i'r gwartheg, yr oedd hi allan o'u cyrraedd yn y fynwent. Yr oedd yr ywen, hefyd, yn fitholwyrdd; ac felly, yn rhyw arwyddlun o anfarwoldeb y bywyd didranc.

### HIRAETH AM FY ANWYL FAM.

**A** MDDIFAD wyf heddyw a phrudd,  
A gwelw yn wir yw fy ngwedd;  
Galarus a thrist yw fy ngrudd,  
Fy anwyl fam sydd yn y bedd;  
Ei chofo yn dda yr wyf fi,  
Mor siriol, mor llon, a dinam;  
Fy nagrau heillt a red yn lli  
O hiraeth am fy anwyl fam.

*Coleg St. Ioan, Ystradmeurig.*

Mae'r teulu oll ar chwal i gyd,  
Ar hyd y byd mewn llawer man;  
A'm hanwyl fam mewn gwely clyd  
Ym mynwent ddistaw oer y llan;  
Cysuron nid oes i mi mwy,  
A dyma'r achos pruddaidd pam  
Mae nghanon fach bron torri'n ddwy  
O hiraeth am fy anwyl fam.

*E. J. ISYLOG.*

## DAMHEGION CYMRU.

V.—DAMEG Y TWRCH A'R GOG.

**T**WRCH<sup>1</sup> yn ymloi'n<sup>2</sup> y llaid budr, a glybu gog<sup>3</sup> ar frigyn uchaf y berllan yn canu ar awr anterth<sup>4</sup> tesog ym Mai, a chan ddangos ei drwyn trwylledig<sup>5</sup> iddi, ebe fe,—

“Rhyfedd gennyf y drafferth a gymeraist i ddringo cyfuch<sup>6</sup> i ganu “gwcw” mor ddiffin<sup>7</sup> ag yr ydwyf, lle nid oes neb a rydd y ffado fechan<sup>8</sup> am dy gainc<sup>9</sup>; a lle nid oes iti les yn y byd o honi.”

“Nid felly y mae,” ebe'r gog, “yr wyf fi yn canu gan lawenydd dyfod haf a thês claerwyn, ac yn ymwyntydu<sup>10</sup> yn fy nghân, a'i hachos; ac nid oes namyn<sup>11</sup> tydi a'th fath yn y byd, o fyw a bywydol, nad yw yn llawen ganddynt fy nghlywed yn datgan iddynt goelfain<sup>12</sup> newyddion da ddyfod hirddydd haf a hinion.<sup>13</sup> Da gan bawb fy ngweled a'm clywed; hen gyfaill cariadlais wyf iddynt; ac ni'm niweidiant na dyn nag un rheibus<sup>14</sup> yn y byd, nac o adar na milod<sup>15</sup> a wyper am danynt<sup>16</sup> onid tydi, pe bai yn dy allu; lle nid oes it, er gwynfyd imi,<sup>17</sup> na gallu na deall i wneuthur i mi ddrygder.<sup>18</sup> Eithr tydi, yn ymloi'n dy fudreddi, nid hoff gan neb; cas gan bob llygad yr olwg arnat. Drwg a wnai di ymhob man lle byddot. Newydd drwg yw dy fod ti yn unman pa bynnag; ac oni bai am y trwyll<sup>19</sup> a ddodid yn dy drwyn, diwreiddio a difetha'r cyfan o'th amgylch a wneit. Eithr yn ol iti ymdewychu<sup>20</sup> dy ddognedd<sup>21</sup> ar a ffeiddia pob byw arall, ti a leddir am dy fraser; lle ni chais neb fy lladd i, ond gwaefiaint<sup>22</sup> na bai'n hwy fy nyddia; ac nid oes les i neb ohonot ti, oni dderfydd am danat.”

Ag yn ail<sup>23</sup> i'r twrch am y gog y gwêd<sup>24</sup> y cybydd<sup>25</sup> am bob gŵr hael, gwybodaethgar, yr hwn a wna les a diddanwch i bob rhywiog ei anian; lle nid oes ond afles i bawb o'r cybydd tra fo byw, canys drygu pob byw a bod a wna efe, er cynnull golud; ac ynddynt yr ymfudredda; ac nid ymatalia oni bai fod cyfraith a chosp yn ei luddias, yn ail i'r trwyll yn nhrwyn y twrch. Pan bo marw y cybydd, ac nid cynt, y ceir lles o hono—yn ail i'r twrch a'i fola tew. “Ni chydwydd<sup>26</sup> hael ag anhael:” ag, “Nid un-naws<sup>27</sup> gyraws<sup>28</sup> a gwern<sup>29</sup>,” ag, “Ni chlyw'r llwynog ei ddrygsawr ei hunan;”

<sup>1</sup> Mochyn, hog. <sup>2</sup> Ymloi, ymdrybaeddu, wallowing. <sup>3</sup> Cwcw. <sup>4</sup> Bore. <sup>5</sup> A modrwy ynddo. <sup>6</sup> Mor uchel. <sup>7</sup> Ddi-daw. <sup>8</sup> Y ffyrlling leiaf: *smallest mita*. <sup>9</sup> Gân. <sup>10</sup> Ymlawenhau: *rejoicing*. <sup>11</sup> Neb ond. <sup>12</sup> Y genhadwri o. <sup>13</sup> Tywydd teg. <sup>14</sup> Ysglyfaethgar: *ravenous*. <sup>15</sup> Bwystfilod: *beasts*. <sup>16</sup> Y gwyddis am danynt: *known*. <sup>17</sup> Er cysur imi: *happily for me*. <sup>18</sup> Niwald: *harm*. <sup>19</sup> Modrwy: *peg*. <sup>20</sup> Pesgi: *fatten*. <sup>21</sup> Wala. <sup>22</sup> Gofidiant: *are sorry*. <sup>23</sup> Yn gyffelyb: *in like manner*. <sup>24</sup> Dywed. <sup>25</sup> Miser. <sup>26</sup> Cytuna: *agree*. <sup>27</sup> Cyfnaws, o'r un natur. <sup>28</sup> Gwyros: *privet*. <sup>29</sup> Gwernen: *alder tree*.

"Nid drewdod yn nhrwyn twrch ei fudreddi;" "Nid cynghais<sup>30</sup> cybydd ac anghawr,<sup>31</sup> mwy na'r twrch yn y budredd a'r gog ganiadgar ar y gangen."

—♦—

MIS MEHEFIN.

**M**OR hafaidd yw Mehefin  
 Sy'n crwydro drwy y wig,  
 Mor bêr yw cân aderyn,  
 A deilen yn ei big;  
 Mae swm telynau'r llwyni,  
 Yn llys yr awel rydd,  
 Yn dwyn y nef yn agos,  
 Ar doriad cynta'r dydd.

Y meillion ar y meusydd  
 A wenant yn yr haul,  
 A'r blodau hyd y gwaenydd  
 A chwarddant bob yn ail;  
 Tra'r cerddgar adar ganant  
 Ar gangau gwyrdd y coed,  
 Fe chwery'r awel dyner  
 Ei chân uwch ol ei throed.

*Wael Fawr.*

Ysgafned yw cerddediad  
 Mehefin ar y ddôl,  
 A swm ei gân sy'n galw  
 Bendithion haf yn ol;  
 Hedyddion mwynion ganant  
 Groesawus gân i'r wawr;  
 Mae'r byd yn nes i'r nefoedd  
 A'r nef yn nes i'r llawr.

Rhyw fysedd cudd sy'n tynnu  
 Y miwsig o bob tant,  
 A'i anadl ef sy'n deffro  
 Y blodau ym mhob nant;  
 Telynau Duw sy'n canu  
 Ar lwybr Mehefin mwyn,  
 Ceir pabell i'r Tragwyddol  
 Dan gangau gwyrdd pob llwyn.

R. J. OWEN.

—♦—

GWLAN A BRETHYN.

**Y**N wyneb-ddarlun i'r rhifyn hwn cewch lun rhai yn pwysu gwlan, llun o waith Sigma. Nid gwlan yw prif gynnyrch Cymru yn awr, ond bu felly am ganrifoedd, cyn i neb wybod am lo y Rhondda neu alcan Abertawe. Nid gwneyd brethyn yw prif waith Prydain yn awr; ond yr oedd brethyn yn enwog cyn bod son am gotwm Manchester, am lian Belfast, neu ddur Sheffield.

Mynachod welodd gyntaf fod Prydain yn borfa ardderchog i ddefaid. Mynachod o urdd o Cisterciaid oedd y rhain. Yr oedd ganddynt fynachdai ardderchog yng Nghymru, a diadelloedd mawr o ddefaid gwynion prydfferth yn pori ar y mynyddoedd o'u hamgylch. Y mae muriau moelion llawer ohonynt eto'n aros, megis Tintern, Glyn Nedd, Margam, Cwm Hir, Ystrad Fflur, y Faner, Glyn y Groes, Basinwerk, Ystrad Marchell.

Ond, erbyn heddyw, daw y rhan fwyaf o'r gwlan i'n gwerthdai o bellderoedd byd, yn enwedig o Awstralia. Er hynny, y mae pris eto ar wlan defaid Cymru.

---

<sup>30</sup> Cydgeisiol, cytunol. <sup>31</sup> Gŵr hael ac eang ei galon: *liberal handed*.

## MERTHYRON CHINA.

[Y mae y plant yn cofio y donn o erledigaeth chwervw ysgubodd dros China ryw ddwy flynedd yn ol. Hyd yn oed yn Peking, y brif ddinas, gwarchaeodd tyrtia o Chineaidd ar llysgenhadwyr y gwahanol wledydd. Tybiwyd unwaith eu bod oll wedi eu lladd, a bu eu bywgraffiadau yn y papurau newyddion ymysg y meirw. Ond medrasant hwy a'u gwragedd a'u plant herio y gelynyon nes y cyrhaeddodd milwyr Ewropeaidd yno. Cymry oedd y milwyr cyntaf i'w gwaredu. Os oedd y llysgenhadon, cynrychiolwyr gwledydd mwyafrif y dddear, mewn cynni fel hyn, beth am y Cristionogion brodorol, druan tylodion, diamddiffyn? Wele gipolwg ar y gweddill difrodedig o adroddiad y Parch. Evan Morgan, o Genhadaeth y Bedyddwyr.]

**L**LAWER, y mae presenoldeb y cenhadwr ar y maes yn anheborol. Yr oedd yr ymweliad yn llawenydd i mi ac iddynt hwythau. Nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi gwelod gwyneb gweinidog er yr ymweliad diweddaf a wnaed gan eu cyfeillion anwyl a ferthyrwyd wedi hynny.

Y mae yr eglwys yn Chiao-cheng a Wen-shui yn gyfan, ni cholodd yr un aelod ei fywyd, er bod yr erlid yn boeth. Dichon fod amryw bethau yn cyfrif am hyn. Yr oedd y swyddog yn fatriol, er nad allai wneuthur nemawr ddim drostynt, am y dywedwyd mai ewyllys yr ymherodres oedd ysgubo allan o'r tir y Protestant a'r Pabydd. Yr oedd y prif aelod yn ŵr medrus iawn, a thra yn proffesu ei hun yn Gristion, egluraf yn amlwg nad oedd yn gyfaill i'r tramor-ddyn fel y cyfryw, a gwnaeth gryn lawer o'r ddadl. Heblaw hyn, y mae y Pabyddion yn gryf iawn yma, ac mewn brwydr agored gorchfygasant y Boxeriaid. Ffodd ein pobl ni i'r mynyddoedd, lle yr ymguddiasant, gan adael eu gwragedd a'u plant gartref. Y mae y rhagolygon yn obeithiol yma. Cyfarfyddant mewn pedwar neu bump o fannau, a chymerant ystafelloedd dan ardreth ar eu cytritoldeb eu hunain. Dygant y gwasanaeth ymlaen eu hunain, a gwelir eu diwydrwydd mewn llawer cyfeiriad. Agorwyd nifer o dai i ymgeleddu ysm 'gwyw opium, a dygir llawer o'r newydd i'r addoliad. Profiad syntawr i mi oedd i ryw ddwsin o gredinwyr deithio gyda mi o bentref i bentref, ac wrth fyned byrheid y ffordd drwy ganu emynau Cristionogol. Ni allai y teithwyr wrth fyned heibio i ni lai na synnu a rhyfeddu yn fawr. Da y gallant wrth gofio dwy flynedd yn ol. Heblaw y teithio, yr ydym yn cynnal gwasanaeth dair gwaith yn y dydd.

Oddi yma aethom i ranbarth Shou Yang. Dioddefodd y Cristionogion yn fawr yma, ac y mae yr achos wedi ei neweiddio yn fawr. Dygir gwasanaeth ymlaen mewn dau o'r tri pentref lle yr arferid gwneyd cyn y cythrwfl diweddar. Y mae olion yr erlid yn ddwfn

iawn yma. Bu farw yr holl flaenoriaid, a gadawyd y gweddill yn wan ac ansicr. Y mae tai wedi eu prynnu yn Ping-tou a Pei-ho, lle yr addolir gan yr ychydig weddillwyd. Derbyniad claiar gefais yn y lle blaenaf, ac y mae rhai wedi llithro yn ol i'r arferiad o ysmegu opium. Nid oes yn y manau hyn nemawr neb nad oes ganddynt stori am ddiodefaint a phrofedigaethau chwervw. Fe ddywed un gŵr ieuanc wrthych ei fod yn un o ddau yn unig a adawyd o ddeg o deulu. Arall a ddywed fod ei gartref yn anghyfannedd, a saith o'r teulu wedi eu lladd.

Nid pell oddi yma mae Ching-chih. Nid oes yma ond ychydig wragedd yn aros. Merthyrwyd y gwrywod i gyd. Ofnaf mai gwan yw y gobaith am adfeddiannu y lle hwn.

Yn fy nhaith i'r gogledd, yr orsaf gyntaf i mi ddyfod iddi yw Hsin Chou, lle y llafuria Mr. Turner mor odidog, a than anfanteision mawr ar gyfrif ei iechyd. Y mae y gwaith yma, er hynny, yn adferyd i drefn ac ymddiriedaeth. Ar fy ffordd i Kuo-hsien cyfarfyddwyd â mi gan nifer o'r Cristionogion yno. Yr oedd eu croesaw yn galondid mawr. Cawsom ymgynghoriad, a chynhaliwyd gwasanaeth. Y maent yn awyddus i osod yr achos dan drefn a chychwyn ysgol, ac yn ewyllysgar i gynorthwyo unrhyw ymdrech flaenfynedol. Gyda gofal ac addysg, daw yr achos yma, ni a gredwn, yn un cynyrchiol eto. Achos llewyrchus iawn oedd yn Fanshih, mor llewyrchus fel pan ddaeth cyfleustra ni bu eiddigedd y gelynion yn segur. Dihangodd rhai mewn pryd, a merthyrwyd y rhai aroshasant yn y lle. Cyfarfyddodd saith ohonynt un bore Sul i addoli yn y capel. Ymgasglodd y gelynion, rhoddasant y tŷ ar dân, a llosgwyd y saith i farwolaeth. Y mae eu beddau gerllaw i aros fyth yn ysbrydoliaeth i'r rhai a gredant ar eu hol. Ymgeiswyr oeddynt, nid oedd yr un ohonynt yn aelod cyflawn.

Daw y gweddill yng nghyd yn gyson i'r addoliad. Y Sul yr oeddwn yno ymgynulodd tua deugain. Yr oedd pob un yno, ac nid oedd yr un am wadu y ffydd. Braidd nad oedd y gwragedd yn fwy penderfynol na'r gwŷr, yn neillduol yn eu sel i gyfrannu. Tra byddo yr arwyddion hyn fod y gwaith ar gynnydd yn eu colonnau, disgwyliwn lwyddiant ysbrydol helaeth yn y rhanbarth hwn.

### ARWYDDION Y RHEILFFORDD.

Ar linell y *London and North Western Railway* yn unig goleuir cymaint a 17 000 o lusernau (*signals*) bob nos. Rhaid i'r gyriedydd fo'n rhedeg rhwng Llundain a Crewe sylwi ar, a rhoddi i, ddim llai na 570 o *signals* bob dydd.



FFAN Y MÔR (*Gorgonia Flabellum*).**RHYFEDDODAU'R MOR.**

## IV.—GORGONIA FLABELLUM.

“**G**ORGONIA Flabellum,”—dyna enw dieithr. Ie, ac y mae yn enw ar beth dieithr hefyd. Y mae y peth hwn yn byw yng ngwaelod tawel y moroedd. Ceir ef ar waelod y moroedd mwyaf i gyd,—Môr y Werydd, Môr yr India, y Môr Tawel. Lleda ei ganghennau lluniaidd a'i rwydweoedd prydferth yn y tawelwch a'r distawrwydd, ymhell islaw stormydd a helbulon y byd.

“Gelwch ef ‘y peth.’ Dywedwch ei fod ‘yn byw.’ Beth ydyw? Ai carreg, ynte llysieun, ynte anifail?”

Anifail ydyw, er ei fod ar ffurf planhigyn. Y mae iddo esgyrn calchaid, a chnawd rhwydyllog am dano. Y mae iddo enau, a chylla; a rhyw bethau, fel y gwelwch, fel breichiau a gwallt. Nid oes ganddo ysgyfaint i anadlu, na thraed i gerdded. Erys gartref, yn ei ogoniant, ar waelod y môr.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

VI. CYBRAEDD AWSTRALIA

**TAD.** Ifor, a wyt ti yn cofio lle y gadawsom yr hanes y tro diweddaf?

**IFOR.** Yr wyf yn meddwl mai am y Capten Cook yn gosod cof-golofn o'i ymweliad ag ynys Matuara, ac yn enwi y culfor yn Queen Charlotte's Sound.

**TAD.** Ie, da iawn, ac hefyd yn cymeryd meddiant o'r wlad yn enw Sior III., ac at ei wasanaeth; ac, yn ol hen arferiad, yn cymeryd potelaid o win, ac yn yfed llwnc destun i'r brenin.

**IFOR.** Fy nhad, pa hawl oedd ganddo i gymeryd meddiant o wlad yr oedd ei pherchenogion yn byw ynddi ar y pryd?

**TAD.** Y prif amcan oedd diogelu y wlad i'w pherchenogion. Yr oedd yn naturiol meddwl y buasai mordeithwyr ereill yn dyfod ar eu tro i'r parth hwnnw o'r byd, ac y cawsent brofion fod swyddogion Prydain Fawr y rhai cyntaf o holl forwyr y byd i dalu ymweliad â New Zealand; telly na buasai berygl i unrhyw wlad arall ei chymeryd oddiar ei gwir berchenogion. Ddydd olaf y mis, anfonodd y Capten rai i dorri prysgwydd, a gwneyd ysgubellau; ac ereill i ddal pysgod. Yn y prydnaawn, chwythodd awel gref o gyfeiriad y gogledd-orllewin, a daeth yn wlaw mor drwm yn oriau'r nos nes peri i'r côr asgellog, a arferent ganu mor swynol gyda chysondeb, ymddistewi yn hollol. Oherwydd colli o'r morwyr y pleser oeddent wedi ei fwynhau mor fawr, teimlasant fesur o hiraeth ar eu hol. Ar y cyntaf o Chwefrol, cynhyddodd y gwynt i ystwm gref, a chwaon sydyn a thrymion, nes niweidio ychydig ar y llong. Tua chanol y nos lleddfodd y gwynt; ond parhaodd y gwlaw i ddisgyn yn drwm, nes oedd y nant lle yr oeddent yn cael dwfr glân at wasanaeth y llong yn llifo dros ei cheulannau, a chariodd ei llifeiriant ddeg o'r barilau dwfr perthynol i'n morwyr ymaith; a methwyd, er dyfal chwilio, a chael gafael ar yr un ohonynt. Ar y pumed yr oeddent yn barod i gychwyn allan o'r fynedfa; ond, wedi lledu yr hwyliau, methasant a symud ond ychydig o ddiffyg gwynt, a gorfu iddynt angori uwchlaw Mortuara. Gan fod y Capten yn awyddus i wneyd ymholiad pellach ynghylch a oedd rhyw bethau ar gof a chadw fel prawfion i Tasman dalu ymweliad â New Zealand yn y gorffennol, gofynnodd drwy Tupia,—“A glywaist am long debyg i'r Endeavour wedi talu ymweliad a'th wlad dro yn ol?” Dywedodd yntau iddo glywed ei henafiaid yn adrodd am long fechan o wlad bell, a alwent Ulimaroa, yn yr hon yr oedd pedwar o ddyinion, y rhai a laddwyd ar eu gwaith yn glanio. Er cael amryw yn dweyd

pethau cyffelyb, ni chawsant ddim i brofi bod Tasman wedi bod yn New Zealand o gwbl. Yn union wedi ail angori o'r llong, aeth Mr. Banks a Dr. Solander i ymweled â theulu brodorol oeddent wedi ymweled â hwynt yn flaenorol. Hwy oedd yr unig rai y cafodd y boneddwy'r ynddynt bopeth ag oedd yn ddymunol; yr oeddent yn garedig, yn dalentog, yn bwylllog, heb yr arwydd lleiaf o ddrwgdybiaeth yn eu meddiannu. Cafodd ein boneddwy'r ar ddeall y gallasant gael mwy o hanes y wlad a'i thrigolion mewn un diwrnod gan y teulu hwn nac a gawsant yn ystod yr holl amser y buont yn cylchynu yr ynys eang hon, pe buasai amser yn caniatâu. Ar y chweched o Chwefrol, wrth fyned allan o'r fynedfa, cyfeiriwyd y llong ychydig i'r ochr ddwyreiniol, yr hyn, mae yn debyg, oedd er y fantais oreu iddynt ar gyfer adeg llifiad y llanw yn ei ol. Am saith o'r gloch y prydawn, daethant yn agos i ddwy ynys fechan, a orweddent tuallan i benryn Koamaroo, ar gyfer y pen deheu-ddwyreiniol i Queen Charlotte's Sound. Yr oedd yr hin ar y pryd agos a bod yn hollol dawel. Cariodd y llanw y llong allan mewn byrr amser, nes dyfod o honi yn beryglus o agos i un o'r ynysoedd crybwylledig, yr hon sydd graig yn codi yn syth o'r môr i gryn uchder; ac oni buasai bod firwd y llanw oedd ar ei dro yn ol yn taro yn erbyn man neillduol ar y graig, nes gorfod newid ei gyfeiriad, buasai y llong ymhen ychydig funudau wedi myned yn chwilfriw yn ei herbyn. Bu gwrthdarawiad y dwfr yn foddion i gario y llong heibio yn ddiogel. Yng ngrym llifeiriant y llanw, cariwyd y llestr yn ol pum milltir yr awr, i gyfeiriad y de-ddwyrain, o saith y prydawn hyd ganol nos, pan y lleihaodd grym y llifeiriant. Am dri y bore, cododd awel ysgafn o'r gogledd-orllewin; erbyn hynny yr oedd y llanw yn eu herbyn, ond wedi ymgryfhau o'r gwynt a throdd yn ol y llanw, hwyliasant gyda rhwyddineb nes cyrraedd tu deheu yr ynys honno. Canfyddasant fynydd tra uchel, a'i ben a'i ysgwyddau yn wyn gan eira.

FOR. Le'r oeddynt yn awr, fy nhad ?

TAD. Erbyn y 27ain o Fawrth yr oeddynt wedi cylchynu yr holl o New Zealand, o Queen Charlotte's Sound nes cyrraedd yn ol yno drachefn, a chanddynt swm mawr o wybodaeth am y wlad a'i thrigolion, a'i chynyrchion, ei moroedd, ei daearyddiaeth. Er cael coed a dwfr, aethant i torgilfach heb fod ymhell o Queen Charlotte's Sound, i'r hon y rhoddodd y Capten yr enw Admiralty Bay. Yn awr yr oeddynt yn sefyll mewn angen am lawer o dunelli o goed ar gyfer y daith nesaf; ac yr oedd ganddynt ddigon o lestri gweigion i ddal deg ar hugain o dunelli o ddŵr. Erbyn y 30ain o'r mis, yr oedd y llong yn barod i fyned allan i'r môr. Yr oedd i'w bendertynu yn awr pa fordaith a gymerent i ddychwelyd gartref, ac a fyddai o'r

budd mwyaf i'r byd yn gyfredinol. Meddyliodd y Capten y buasai myned i gyfeiriad y de-ddwyrain yn fantais iddynt, er cael allan a oedd cyfandir mawr yn eithafion y deheu fel y tybid, ai nad oedd. Yn wrthwynebol i hyn, wedi ail ystyried, barnwyd nad oedd y tymor ar y flwyddyn yn caniatáu iddynt fyned y ffordd honno heb beryglu eu bywyd yn fawr, oblegid nid oedd y llong yn addas i'r fath anturiaeth, ac ni bu felly yn ei chyflwr goraf.

**IFOR.** Fy nhad, yr wyf yn teimlo fy mod yng nghanol tywyllwch ar y mater hwn. Yr oeddwn dan yr argraff mai pa bellaf yr elem i'r deheu, cynesaf y caem yr hin. Os felly, pa fodd y gallai yr Endeavour fod yn anghymwys ?

**TAD.** Mae y ddau begwn yn debyg i'w gilydd o ran eu hinsoddau. Mae iddynt chwe mis o nos, a chwech o ddydd. Pan y mae yn nos yn un, a'r rhew yn cloi popeth, mae yn ddydd yn y llall, a'r haul yn dadgloi darnau mawrion o ia, gymaint ddwy waith a'r Endeavour. Mae y darnau anferth yma yn edrych megis gyda sarhad ar y llongau mawrion sydd wedi eu gwisgo â'r haiarn trwchus goraf. Hefyd, ni buasai hwylio i gyfeiriad y gorllewin am Benrhyn Gobaith Da, ac oddiyno tua chartref, yn ddoeth; yn ddim amgen na theithio 15,000 o filltiroedd heb gael y fantais i wneyd unrhyw ddarganfyddiad o bwys drwy ystod yr holl daith. Cytunasant i fordwyo i gyfeiriad y gorllewin, tuagat New Holland, a elwir yn bresennol Deheudir Cymru Newydd, sef darn go fawr o Awstralia, ar y tu dwyreiniol, a morio i fyny ar yr ochr honno nes cyrraedd ei pharth gogleddol, os yn ddichonadwy; ond os methent yn yr amcan hwnnw, yr oeddynt i geisio dyfod i gyfyrddiad a'r tir neu yr ynsoedd ddarganfyddwyd gan y mordeithiwr Quiros lawer o amser cyn hynny. Heblaw fod ganddynt gyflawnder o bob angenrheidiau, yr oedd cynllun y fordaith yn barod; ac ar yr 31ain o fis Mawrth, 1770, ar ddydd Sadwrn, wedi cael y gorchymyn gan y capten, hwyliasant o Cape Farewell, yn New Zealand, yn ol y cynllun crybwylledig, ac ymhen deuddeg diwrnod, sef ar yr 11eg o Ebrill, cawsant olwg o bell ar yr ynys fwyaf yn yr holl fyd. Ar yr 27ain o'r mis, angorasant yn Botany Bay. Y dydd canlynol, o ddiffyg awel, a'r llong heb fod ond milltir a hanner o'r traeth, ac yng nghanol brys donnau, bu ein morwyr mewn cryn helbul am ychydig amser. Ond, yn ffodus, daeth awel oddiar y lan, ac a'u cariodd o'r perygl. Yn y prydnewn aeth y prif ddynion ac ereill allan yn y badau gyda'r amcan o lantio, pan welent rai o'r brodorion. Yr oeddynt yn meddu rhyw gymaint o obaith, am na wnaeth y brodorion yma roesawu na gwrthwynebu ar waith y llong yn dyfod i mewn, na wnaent ddim niwed iddynt ar eu hymweliad.

*Dinas, Morganwg.*

WILLIAM JAMES.

## W. CADWALADR DAVIES.

**Y**N ystod ei afiechyd blin a maith, y mae cydymdeimlad cryf Cymru wedi bod gyda Mr. W. Cadwaladr Davies, a theimlir colled fawr ar ei ol. Da gennyf ddeall ei fod yn gwella, ac y gallwn edrych ymlaen at ei gael eto i wasanaethu addysg Cymru fel y mae wedi gwneyd ers blynyddau bellach. Y mae lle gwag hebdo ers amser hir, a hiraeth ymysg caredigion addysg am weled ei ynni effeithiol, ei hynawsedd caredig, a'i ymroddiad hunan-aberthol.

Un o Arfon, yr wyf yn meddwl, yw Mr. Davies, o'r un gwehelyth a'r diweddar Gwyneddon. Nis gwn fawr o'i hanes cyn iddo ddod i amlygrwydd; ond ni fedrir darllen hanes y newyddiadur, yr Eisteddfod, nag addysg, heb gael W. Cadwaladr Davies ym mhob

diwygiad,—yn creu, yn cynllunio, yn trefnu, yn ysbrydoli. Yr oedd yn wr ieuanc yn yr un dorf ddewisol a Syr Hugh Owen a Cheiriog, yn gweithio'n bybyr i godi'r Eisteddfod trwy urdd gyfriniol "Y Vord Gron," ac i roddi cyfundrefn o addysg i Gymru.

Pan sefydlwyd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, daeth Mr. W. Cadwaladr Davies yn ysgrifennydd cyntaf iddo. Gwnaeth lawer dros y coleg, cymaint ag ungwr arall, os nad mwy. Gweithiodd yn egniol i gael Prifysgol i Gymru hetyd, ac y mae'n gytreithiwr anrhydeddus i'r Brifysgol er ei sefydliad.

Dylwn ddweyd iddo roddi ei le i fyny fel ysgrifennydd Coleg y Gogledd i fynd yn far-gyfreithiwr. Gwnaeth hynny, yn un peth, oherwydd fod arno awydd gwasanaethu Cymru yn ddi-dâl. Nid llai, ond mwy, a wnaeth dros addysg Cymru wedi rhoddi ei swydd i fyny. Yr oedd ei ddoethineb a'i brofiad at wasanaeth addysg



W. CADWALADR DAVIES.

Y. G. W.  
1881

Cymru bob amser, ac ato ef y troid pan fyddai rhyw anhawsder yn gofyn medr a gwybodaeth i'w orchfygu.

Yr oedd dyfodol disglaer i Mr. Davies fel cyfreithiwr. Ond wele afiechyd yn dod, ac y mae'n gaeth ers misoedd lawer, yn gorfod gorffwys.

Catodd gydmar bywyd o'r un ysbryd ag ef ei hun, ac mor enwog. Nid oes Gymro yn y byd na wŷr am enw Mary Davies; ac nid oes neb wedi gwneyd cymaint i ddarbwylllo Prydain i gredu fod Cymru'n gartref cân. Anadlodd hithau gariad at addysg a chrefydd, yn ogystal ag at gân Cymru, ar aelwyd Mynorydd. Y mae Meirionnydd a Morgannwg yn ei hawlio,—y naill fel cartref ei mam a'r llall fel cartref ei thad. Yn yr encilion y mae hithau, fel angel gwarcheidliol, er dechreu afiechyd ei gŵr.

---

### CERBYD HENAFOL.

**B**LWYDDYN yn ol darganfyddwyd cerbyd *bronze* yn gladdedig ar dir rhyw foneddwr gerllaw dinas Rhufain, a dyfernir ef yn 2600 mlwydd oed. Os felly, y mae agos cyn hyned a dinas Rhufain ei hun, oblegid a â ni yn ol 700 mlynedd cyn Crist. Yn hanesyddiaeth Canan a hyn â ni yn ol i ddyddiau Hezekiah, i oes Senacherib, a chaethgludiad y Deg Llwyth. Eto y mae yntau dros fil o flynyddoedd yn ddiweddarach na'r cerbydau brenhinol hynny ddaeth o ystablau Pharaoh i nol Jacob batriarch a'i deulu i'r Aifft at Joseph.

Daeth y boneddwr oedd biau yr hen gerbyd gwych hwn ag ef yr holl ffordd i Paris, er mwyn cael cynhygion da am dano; a llwyddodd i gael y swm hardd o £20,000, oblegid prynwyd ef gan Amgueddfa Ddinesig y Celfyddydau, Paris. Pa faint, tybed, fuasai yr Amgueddfa Brydeinig yn ei roddi am gerbyd yr hen Gaswallon gynt, y gŵr dewr wynebodd Iwl Caesar a'i lengoedd durbeisiog?

---

### BRIALLEN AR Y BEDDROD.

**A**R ryw fore gwanwyn newydd  
Mewn hen fynwent yn y wlad,  
Minnau deimlais ennyd ddedwydd,  
Wrth weld byw friallen fad  
Ar ryw feddrod distaw unig—  
Bedd rhianferch ieuanc oed;  
Blodyn hardda'r wlad yn gwenu,  
Yn llwch marwol fro yn tyfu,  
Oedd mor fyw ag un erioed.

*Melin Geryg.*

Ar dy wyneb, Ion friallen,  
Er mai beddrod yw dy sedd,  
Gall fy nghalon ysig ddarllen  
Anfarwoldeb ar dy wedd;  
Daw'r fun anwyl sydd yn huno  
Dan y tir y tyfi di,  
Ar ryw newydd wanwyn forau,  
Uwch marwoldeb megis tithau,  
Dan ogoniant nefol fri.

J. GLAN CERWI.

## YSBRYDION ABERGLASNEY.

**Y**N nyffryn hardd y Tywi, tua phedair milltir o dref Llandeilo, saif plasdy prydferth a henafol o'r enw Aberglasney, yr hwn a adeiladwyd gan Esgob Rudd. Yn y plas hwn, yn y flwyddyn 1700, y ganwyd y bardd adnabyddus John Dyer, ac yma y cartrefai.

Mae y wlad o gwmpas Aberglasney yn nodedig o firwythlon, a'r golygfeydd yn brydferth ac amrywiol. Oddiar gopa Bryn y Grongar, yr hwn sydd yn ymyl,—lle y mae olion gwersyllfa filwrol, a lle yr oedd y bardd Dyer yn sefyll pan gyfansoddodd ei gân, "The Prospect,"—ceir golygfa ardderchog. Mae y brynau uchel, a'u godrau yn orchuddiedig gan goed, yn ymgodi i fyny, gan ddal gweddillion hen gestyll enwog Dynefwr, Dryslwyn, a Charreg Cennen ar eu hysgwyddau, fel pe am ddangos i'r trigolion islaw mor ddewr fu yr hen Gymry yn ymladd dros ryddid eu gwlad. Hefyd, gwelir afon Tywi yn ymddolennu rhwng dolydd breision ar ei ffordd i Gaerfyrddin, nes gwneyd yr olygfa yn swynol dros ben.

Canodd y bardd Dyer lawer am Aberglasney a'i amgylchoedd. Canodd un gân ryfedd iawn, dynnodd lawer o sylw, am "Saith goleu Aberglasney." Nid oedd neb yn deall ystyr y gân hyd nes i ddigwyddiad hynod gymeryd lle yn y plas flynyddau lawer ar ol hyn. Yr oedd teulu yn byw yn Aberglasney, ac fel y mae yn arferiad gan foneddigion, aeth y teulu i dreulio misoedd yr haf i ryw le arall, gan adael Aberglasney yng ngofal wyth o forwynion. Yr oedd y plas i gael ei baentio a'i lanhau yn ystod absenoldeb y teulu. Ymhen ychydig o wythnosau darfu i'r *house keeper*, yn anisgwyliadwy, dderbyn llythyr yn ei hysbysu fod y teulu yn dychwelyd mewn diwrnod neu ddau; ac er mwyn cael y gwelyau yn addas i gvsgu arnynt, cariodd y morwynion hwy i ystafell eang a elwid y *Blue Room*, a chysgasant yno i gyd oddigerth yr *house keeper*. Yr oedd yr ystafell newydd ei phaentio, a thân mawr ynddi, a'r drysau yn gauedig, a phan aeth yr *house keeper* i fewn bore trannoeth i alw y morwynion, yr oedd y saith wedi marw. A chladdwyd y saith yr un diwrnod ym mynwent Llangathen. Ac y mae carreg fedd, ac enwau y saith i'w gwled arni, yn y tynwent hon heddyw. Trwy yr amgylchiad hwn, cafodd preswylwyr yr ardal esboniad boddhaol ar "Saith goleu Aberglasney." Nis gwyddir eto pa un ai yn broffwyd-oliaethol y canodd y bardd, ynte a oedd wedi gwled rhyw oleuadau megis canwyllau cyrff, fel eu gelwir, ac nid ydym am geisio penderfynu, ond yn unig dweyd ei fod wedi son am dano cyn ei ddigwydd, ac o'r adeg honno hyd yn awr dywedir fod ysbryd neu ysbrydion yn aflonyddu ar y lle.

Y peth cyntaf welwyd oedd *lady* yn eistedd wrth y tân yn y *Blue Room*. Deuai i'r golwg bob nos tua saith neu wyth o'r gloch. Ni syflai o'r fan, ni ddywedai air, ac ni edrychai ar neb. Os byddai galw am i rai o'r morwynion fynd i mewn i'r ystafell ar yr adeg honno, syrhient mewn llewyg,—rhai yn yr ystafell, a rhai wrth ddyfod allan, nes oedd y lle wedi myned a son am dano, ac yr oedd yn amhosibl cael morwynion i ddyfod i Aberglasney am un arian. O'r diwedd, penderfynodd y meistre dreio cynllun newydd, sef cael morwynion o bell, fel na byddai i'r rhai newydd ddod i wybod dim am y *lady* a berthynai i'r *Blue Room*. Daeth y morwynion; a'r noswaith gyntaf gorchymynnodd y feistres i un ohonynt fyned a gofyn i'r *lady* pa beth a welai yn dda ei gymeryd i swper. Aeth y forwyn a gofynnodd, ac atebwyd hi yn y geiriau canlynol,—

“Fy merch, yr wyf wedi eistedd yma am flynyddau lawer, ac nid oes neb wedi gofyn gair i mi, a chan mai chwi yw y cyntaf i siarad â mi, y mae arian lawer wedi eu cuddio dan garreg yr aelwyd, cymerwch hwynt, i chwi y maent, ac ni aflonyddaf arnoch byth.” Felly cafwyd gwared o'r *lady*.

Er hynny, ni chafwyd llonydd gan ysbrydion yn Aberglasney. O hyn allan aethant yn fwy hyf ac amrywiol eu dull, gan wneyd pob math o ystranciau yn y plas ac o'i gwmpas. Y mae ysbryd wedi cael ei weled gan lawer wrth yr *entrance gate*, neu y “Gate Werdd,” fel ei gelwir. Yno y mae fel dyn mewn dillad duon; weithiau byddant yn ddau; bryd arall yn fenyw heb ben ganddi; ar adegau ereill gwelir yno gi mawr anferth. Os dywedir rhywbeth wrtho, neu wneyd rhywbeth iddo, newidia i fod yn llo, neu ysgyfarnog, ac hyd yn oed i ffurf tegell yn treiglo ar hyd y *drive*. Ond oddimewn i'r plas mae'r ysbrydion waethaf, byddant weithiau mor ddigywilydd a phoeri yn wyneb rhai o'r teulu pan yn eu gwelyau, agor y drysau a'r *shutters*, a gwneyd lleisiau ac oernadau ofnadwy. Bryd arall, gellid meddwl fod cadwyn fawr yn cael ei llusgo ar hyd y ty a thros y grisiau; neu fod rhywun yn ysgwyd llawer o arian mewn gogr yn y *ceiling*. Ar adegau ereill bydd yn chwythu mewn udgorn, neu yn hogi cyllell fawr, fel cyllell cigydd; neu yn llifo coed. Wrth glywed swn llifo yn y *Blue Room* un tro, bu dwy forwyn mor wrol ac agor y drws; ond mor tuan ag y gwnaethant hynny distawodd y llifo, ac nid oedd olion dim i'w weled yn un man. Cauasant y drws, ac aethant yn ol i'w hystafell eu hunain. Gyda'u bod yno, clywent *drawer* yn cael ei hagog yn y *Blue Room*, a rhywbeth yn cael ei dynnu allan o hono, a'r llifo yn mynd ymlaen drachefn. A dyna beth sydd yn rhyfedd,—nid oedd yr un *drawer* yn yr ystafell.

Penderfynwyd gwneyd prawf unwaith. A noson y prawf a ddaeth. Yr oedd tri boneddwr o ysbryd digon gwrol yn eu meddwl



eu hunain, ac ym meddwl eu cyfeillion, i aros yn y *Blue Room* drwy y nos. Yr oeddent wedi eu harfogi â phopeth ddymunent gael,— dau ddryll wedi eu llanw yn barod, ci mawr, pob math o wirodydd poethion, y ffenestri wedi eu diogelu â *shutters* oddimewn, a barr o haiarn yn groes iddynt, ac yno yr oeddent yn mwynhau eu hunain drwy yfed y gwirodydd, a chwareu cardiau, a herient unrhyw ysbryd i'w gwrthsefyll. Ond rhwng un a dau o'r gloch fe gyfnewidiodd pethau. Clywyd swa mawr yn yr ystafell, a'r barrau heiyrn yn neidio yn eu holau, a'r *shutters* yn cael eu tafu yn agored led y pen, nes oedd yr holl ystafell yn crynnu. Erbyn hyn yr oedd y gwrol wedi mynd yn ofnus, ac nid oedd ganddynt nerth i ddim ond i redeg allan o'r ystafell, ac i'w gwely heb ddweyd yr un gair, gan adael y gwirodydd a'r cardiau i'r ysbrydion.

Beth yw y rheswm, tybed, am yr ysbrydion hyn? Y mae tri rheswm,—y gwynt, llygod, a dychymyg.

Rhyw le nodedig yw y gymydogeaeth hon am ysbrydion. Yma mae Alltygar, lle 'roedd bwci ofnadwy yn atal pobl ar yr heol, a'u llusgo drwy leoedd gwlyb a diffaeth; ac y mae dychryn heddyw trwy yr ardal wrth feddwl am dano.

Yma mae Cadfan, lle 'roedd ci mawr yn myned i fyny y grisiau; ond er chwilio y tŷ i gyd methent gael gafael ynddo. Yma mae Banc y Dawns, sydd wedi cael ei enw oddiwrth fod "bendith y mamau" yn dyfod i ddawnsio yno; ac y mae llawer o drigolion yr ardal yn tystio eu bod wedi gweled pethau rhyfedd yma o bryd i bryd. Yma hefyd y mae Cathan, cartref Olwen Cathan, yr hon aeth ar goll ar nos Calangauaf pan yn ferch ieuanc, ac a fu ymhlith "bendith y mamau" am ddeugain mlynedd. A phan ddaeth yn ol yn hen wraig, a'i gwallt yn wyn, ni wyddai ei bod wedi bod oddi-cartref am hanner awr, ac yr oedd yn holi am y cnau a'r afalau a adawsai ar y bwrdd wrth fynd allan. Y mae un wedi canu i'r amgylchiad fel hyn,—

"Ond yn Llangathen y mae torf  
O'r gytorf yn triglannu;  
A dawnsio maent wrth oleu'r lloer  
Ar lennydd oer y Tywi;  
A chyda hwy yn swyn y gân  
Aeth Olwen lân i golli."<sup>5</sup>

Nid yn unig y mae ysbrydion wedi bod yng nghymydogeaeth Aberglasney; ond, meddir, y maent yma 'nawr. Yn ddiweddar yr oedd ffermwr ar gefn cefyl. Neidiodd y cefyl i ben y clawdd, a rhedodd ar hyd y clawdd am tua chan llath, yn hytrach na mynd ar hyd yr heol, ond nid oedd yno ddim i olwg y ffermwr.

Pan oedd ffermwr arall yn marchogaeth gartref ar gefn ceffyl oedd yn enwog am ei gyflymder, gwelodd rywbeth ar ben lliart cae barodd ofn mawr iddo. Yr oedd tua milltir rhyngddo a'i gartref. Carlamodd y ceffyl nerth ei draed. Ond er cyflmed y ceffyl, yr oedd yr ysbryd yn gyflymach; oblegid gwelodd y ffermwr yr un peth ar ben pob lliart oddi yno gartref, ac erbyn ei fod yn y ty syrthiodd i lewyg.

Hefyd, ychydig amser yn ol, pan oedd tri o fechgyn a dau gi ganddynt yn hela ar y Saboth tua chymdogaeth Castell y Gwreichion,—lle hynod arall yn myl Aberglasney,—neidiodd ysgyfarnog fawr allan o'r berth yn eu hymyl; rhedodd y cwn ar ei hol. Cafwyd tro neu ddau arni ar waelod y cae; yna rhedodd yr ysgyfarnog drwy y berth i gae arall, a'r cwn ar ei hol. Rhedodd y bechgyn i ben y clawdd, ond er eu syndod, gwelsant fod pethau wedi cyfnewid; yn lle bod y cwn yn rhedeg ar ol yr ysgyfarnog, yr oedd yr ysgyfarnog yn rhedeg ar ol y cwn. Rhedodd y bechgyn a'r cwn gartref am eu bywyd; ond ni wyddant beth ddaeth o'r ysgyfarnog. Hyn sydd sicr, nid aethant i hela byth mwy ar y Saboth.

*Llandeilo.*

DAVID WILLIAMS.

—▶▶▶—  
**"NA FEDDWER CHWI GAN WIN."**

**H**OFF ieuencyd Gwalia anwyl,  
 Clywch yn codi dros y wlad  
 Swn wylfain, swn ochneidio,  
 Ochain galar mam a thad,  
 Melus win ddyg eu hanwylfab  
 Ymaith, yn eu henaint blin,  
 Diod gref i'r mab fu'n fagl,  
 "O! na feddwer chwi gan win."

Tithau, dad, sy'n gwario'th gyflog  
 Am y ddiod feddwol gref,  
 Gwel dy wraig a'th blant yn dioddef,  
 Clyw eu gwan druenus lef,  
 Heb na bwyd na than er cysur  
 Corff, er oered yw yr hin,  
 Tithau'n ddifyr yn y dafarn,—  
 "O! na feddwer di gan win."

Cofiwch famau,—Beth! Y mamau!  
 Ie, mamau Cymru wen,  
 Dyma wlad y menyf gwynion,  
 Na rowch arni unrhyw sen;  
 Mynnwch fod yn famau dirwest,  
 Mamau purdeb, moes, a rhin,  
 Na rowch le i'r melus gwpan,  
 "O! na feddwer chwi gan win."

Duw a roddo gylmorth i ni  
 Goncro'n llwyr y faldith hon,  
 Sydd yn damnio wrth y miloedd  
 Hen ac ieuanc Cymru lon;  
 Mynnwn weld yng Nghymru anwyl  
 Feddrod dwfn i'r gelyn blin,  
 Mynnwn weld ein gwlad yn sobr,  
 "O! na feddwer ni gan win."

R. TRIFION HUGHES.

—▶▶▶—  
**TORTHAU MAWR.**

Y TORTHAU mwyaf yn y byd yw y rhai a gresir yn Ffrainc a'r Eidal. Y mae torth "bibellog" yr Eidal o ddwy i dair troedfedd o hyd; tra y mae y rhol-dorth geir yn Ffrainc yn mesur pedair, pump, ac hyd yn oed cymaint a chwe throedfedd o hyd.



### BLODWEN MAY MORRIS.

Bu farw Blodwen, merch fach Mr. a Mrs. J. Morris, Prenteg, Chwefrol 6, 1904, a gwanwyn cyfan rhyngddi a bod yn bedair oed. Gwywodd yn sydyn, fel y mae arfer blodau. Perthynai iddi y pertrwydd hwnnw a nodwedda gymaint o blant gymerir ymaith yn gynnar.

**E**DRYCHAF ar y darlun bach  
A gwelaf lygaid glas yn perlio ;  
Mae Blodwen eto ger fy mron  
Yn symud—wefus, draed, a dwylo.

Mae'n tynnu'm sylw ati'i hun,  
Mae'n dangos i'm ddilledyn newydd,  
Heb wybod—yr anwyl yn bach—  
Ei bod ei hun yn newydd beunydd.  
*Ygol Prenteg.*

Mor newydd a phelydrau'r Wawr  
Yw gwên ar wyneb plentyn bychan ;  
Yng nghwmni Blodwen droion bum  
Yn blentyn bach o newydd f'hunan.

Gofynnwch "P'le mae Iesu Grist?"  
F'w chyfoed bychain, siriol, nwyfus ;  
Cewch ateb hoffa'r Iesu'i hun—  
"Mae yn 'run fan a Blodwen Morus."

T. J. CYNEI.

## HEN DRADDODIAD.

**H**EN arfer gan y Cymry,  
Pan ddeuai'r ganaf du,  
Oedd adrodd hen hanesion  
Am ddeuwion Cymru fu;  
Chwareuai un y delyn,  
Rhoi arall bwt o gân;  
A difyr odiaeth fyddai bod  
Yng nghwmni'r Cymry glân.

Pan ddeuai hirnos ganaf  
Hwy fyddent ddedwydd iawn,  
Yn adrodd hen chwedleuon  
O amgylch tân o fawn;  
Amryfal draddodiadau  
Adroddid yno'n llu,  
Am dylwyth teg a chanwyll corff,  
A llawer yspryd du.

Fe glywais un traddodiad  
Pan oeddwn fachgen llon,  
A byddai'm gwaed wrth wrando  
Yn berwi dan fy mron;  
Adroddodd nain hi ganwaith  
Tra'i dagrau redai'n lli,  
Ac os gwrandewch chwï'r hanes prudd  
Adroddaf ef i chwi.

Ynghanol bryniau Arfon,  
Y Llwydmawr gwyd ei ben,  
Yn ddarlun pur, dirodres,  
O urddas Cymru wen;  
Ac wrth ei ystlys ddeheu  
Mor dawel ag erioed,  
Gorwedda'r hen Gwm Oerwyn  
Yn isel wrth ei droed.

Pan oedd hen Gymru anwyl  
Yn gruddfan yn ei gwaed,  
Ar ol i'r gelyn creulawn  
Ei mathru dan ei draed;  
Daeth gair drachefu i'n tadau,  
Creulonach nag erioed,—  
"Os neb wna arddel enw Crist,  
Fe'i lleddir yn ddiode."

Aeth llu o ddyinion arfog  
Ar ymchwil trwy y wlad,  
Yr oeddynt fel rhyw fyddin  
Yn ymdaith tua'r gâd;  
Ond O, mor ynfyd oeddynt  
Yn cario gwaew ffyn,  
I erlid glân ganlynwyr Crist  
A laddwyd ar y bryn.

Pob Cristion ddelid ganddynt  
Arweinid ef rhagllaw,  
I gael ei brofi ganddynt  
I Ben yr Orsedd draw;  
Ac os celd un yn euog,  
'R oedd ganddynt gerwyn lawr,  
Yn llawn picellau meinion dur,  
Yn barod ar bob awr.

Arweinid y troseddwr  
Ar hyd y llwybr glas,  
I gopa'r hen Fynyddfawr  
Gan wŷr ddefig cas;  
A rhoïd ef yn y gerwyn  
Yn union fel pe'n blwm,  
A chyda bloedd gollyngent ef,  
I waered tua'r Cwm.

Ar fore Saboth tawel,  
A mi mewn melus hun,  
Ar lethr y Mynyddfawr,  
Yn dawel wrth fy hun;  
Breuddwydiwn am y pethau  
Gyflawnwyd yma gynt,  
A sibrwd hen gyfrinion im  
Wnai'r awel ar ei hynt.

Deffrowyd fy nghyweirnydd,  
A gofyn wnes yn syn,—  
Pa le mae'r rhai fu'n erlid  
Ganrifioedd math cyn hyn?  
Atebai creigiau Cymru,  
"Maent heddyw yn y bedd;  
Ond wedi'r erledigaeth fin  
Mae Iesu ar ei sedd."

UN O'R FRON.

## GOLEUDAI YR YMHERODRAETH.

YN ol llyfrin swyddogol gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn ddiweddar, costiodd cadw ein goleudai (*light-houses*) ini y flwyddyn ddiweddaraf y swm o £505,493. Costiodd ail-godi goleudy Beechy Head £20,814, ac un Fastnet £10,229. Yr oedd adeiladu y diweddaraf o'r ddau yna wedi costio £64,092.

## Y DDWY FORWYN.

DADL I DDWY.

*Sef ymddiddan rhwng dwy ferch ieuanc, un yn bwriadu mynd i Loegr, a'r llall yn ewyllysio aros yng Nghymru.*

**MORFUDD.** Dydd da, Emy.

**EMY.** Ac i chwithau, Morfudd.

**M.** A ydych wedi cyflogi i aros yn eich lle y tymor nesaf?

**E.** Nac ydwyf yn wir, Morfudd; ac nid wyf yn bwriadu gwneyd ychwaith, achos yr wyf wedi blino yng Nghymru. A ydych chwi wedi cyflogi?

**M.** Ydwyf, ac i aros yn fy lle hefyd.

**E.** Yr ydych yn ddigon fiol cyflogi i aros yn yr hen gwmwd yma byth ac yn dragywydd, yn lle chwilio am le i gaef gweld tipyn ar y byd.

**M.** Wel, Emy, gwell gennyf fi aros yn fy hen le y tymor hwn, beth bynnag am y nesaf, achos yr wyf yn cael dwy bunt yn 'chwaneg o gyflog, a pha le ar y ddaear sy'n debyg i Gymru? Mae'n rhyfedd gweld bechgyn a genethod sydd wedi eu magu yn awyr iach mynyddoedd cribog Cymru, yn cefnu ar eu gwlad a'u cenedl, heb ddim amcan ond yn unig cael mynd oddicartref.

**E.** Nid mynd oddicartref heb amcan yr wyf fi, Morfudd. Y mae gennyf liaws o amcanion.—gweld y byd, dysgu Saesneg, a chael mynd i'r *Theatres* a'r *Waxworks*. Credaf y bydd gweld a mwynhau y rhyfeddodau hyn yn foddion i eangu fy meddwl.

**M.** Os mai eisiau mynd i weled ryfeddodau sydd arnoch, fel y gwelaf, yn fwyaf arbennig, beth am ryfeddodau natur sydd i'w gweld yng Nghymru, yn enwedig yn nhymor yr haf yma, pan y bydd golwg dywysogaidd ar yr hen fynyddoedd yma, a'r llechweddau yn wyrddlas, a blodau llygad y dydd fel botymau arian yn addurno y nentydd a'r gwastadeddau, a'r ffrydiau gyda'u dyfroedd grisialog yn dyfrhau y dolydd ffirwythlawn? Dyma i chwi ryfeddodau a wnaiff ehangu eich meddwl.

**E.** Ie, yr ydych yn siarad yn dda; ond beth ydynt o'u cydmaru a rhyfeddodau trefydd mawr Lloegr? Dim, Morfudd bach.

**M.** Yr ydych braidd yn anioddefol, Emy, yn diystyrru rhyfeddodau natur, gwaith ein Creawdwr Mawr, hefo'ch *Waxworks* a'ch *Theatres*. Tawer a son am danynt, gwagedd ydynt i gyd.

**E.** Faint o gyflog ydych yn ei gael, Morfudd?

**M.** Fe gaf ddeg punt y tymor nesa', ond wyth ydwyf yn ei gael ar hyn o bryd.

E. O! Yr ydych yn cael ychwaneg o ddwy bunt y tymor nesaf felly.

M. Ydwyf, dywedais wrthych o'r blaen fy mod yn cael ychwaneg o ddwy bunt y tymor nesaf, ond yr oeddych yn rhy fyrbwyll i wrando, yr oedd gorawydd am weled rhyfeddodau trefydd mawr wedi eich llwyr feddiannu.

E. O! Mi welaf mai aros yn eich lle yr ydych chiwi am eich bod yn cael ychwaneg o gyflog. Beth yw dwy bunt i neb i aberthu y fath fwyniant er eu mwyn? A pheth arall, gallasech gael hynny neu ychwaneg yn Lerpwl neu Manchester.

M. Gallaswn fetu hefyd, fy nghyfeilles. Hwyrach y cewch weled hynny, mae gennyf engraffit, os ydych yn amheu. Ac edrychaf fi ar ddwy bunt o godiad yn fy nghyflog yn llawer iawn. Rhaid cael arian i fynd trwy'r byd; ond Cymru anwyl sydd yn fy nal i adref, nid y cyflog.

E. Yr ydych yn sicr o fod yn camsynied, Morfudd.

M. Camsynied yn wir. Beth sydd yn peri i chiwi feddwl y fath beth? Waeth i chiwi heb na threio fy mherswadio i adael Cymru a'i hawelon balmaidd ar hyn o bryd, os byth.

E. Yr ydych yn benderfynol, gallaswn dybio, nad oes yr un man yn debyg i Gymru.

M. Mi gredaf nad oes. Gawsoch chiwi funud o fwynhad ryw dro wrth edrych ar y golygfeydd sydd o'ch cwmpas, ac wrth feddwl am y cewri fagwyd yn encilfeydd y mynyddoedd tal sy'n edrych ar eu gilydd? Cymru am ramant ac athrylith.

E. Gadewch i hynyna, mae yn beth dieithr i mi. Ni waeth gennyf fi pa un ai Cymru ai ynte Lloegr fagodd fwyaf o enwogion a chewri.

M. A ydych wedi cael hanes lle, Emy?

E. Ydwyf, lle go dda hefyd. Caf ddeuddeg punt o gyflog, ac yr wyf am fynd yno yr wythnos nesaf i gytuno.

M. Faint ydych yn ei gael yn awr?

E. 'Rwyf yn cael deuddeg yn awr.

M. Ac yr ydych yn ewyllysio gadael Cymru, heb ond yr un faint o gyflog?

E. Ydwyf, buaswn yn mynd pe yn cael llai hefyd, achos yr wyf wedi bliuo ar Gymru.

M. Wel, wel, onid ydych yn cofio yr hen ddiareb,—“Cas gwr ni charo'r wlad a'i maco”?

E. Hen ddiareb yn wir. Hen ddiarhebbion ydyw yr iaith Gymraeg i gyd bron.

M. Cymerech yn araf, fy ngeneth i. Feallai y bydd yn dda gennych, rywbyrd, gael dod yn ol i lechu yng nghysgod hen ddiarhebbion Cymreig.

E. Na, nid wyf yn meddwl. Byddaf yn sicr o fwynhau fy hun. Y mae'r atyniadau geir y tu allan i Gymru mor hudolus.

M. Ie, atyniadau, gwir a ddywedasoeh, ac y maent yn hudolus. Nid oes digon o arian i'w cael i fyned ar ol pob atyniad, Yr ydych yn canmol eich bod yn cael deuddeg punt, byddant yn sicr o fynd bob dimau, os byddant yn ddigon i gyfarfod a'ch gofynion. Gwn am rai felly, heb ddim dimau dros ben ar ol prynnu dillad.

E. Dimau dros ben, i ba beth y mae eisieu bod arian dros ben, os cewch dalu eich ffordd?

M. Wel, yr ydych yn cael mwy o gyflog na mi o aur lawer, a byddaf fi yn cadw tua phedair punt bob pen tymor.

E. I ba beth? Ni fyddaf fi yn cael pedair punt pen tymor.

M. 'Does bosibl gennyf eich bod yn codi y'ch cyflog cyn llwyred a hynna. Wnewch chwi mo'r tro i fynd oddicartref, os maidyn a'r llwybr y bwriadwch gerdded ar hyd-ddo.

E. Paham na wnaf y tro i fynd oddicartref? Mae gennyf gystal synwyr cyffredin ag unrhyw ferch ieuanc.

M. Maddeuwch i mi am fod mor blaen,—na, nid wyf yn sicr iawn a ydyw eich synwyr cyffredin yn cyfateb i bethau ereill ai peldio, pan yr ydych yn gwneyd y fath afreoleidd-dra a chodi eich cyflog cyn pen tymor.

E. Yr ydych yn wawdlyd iawn, Morfudd.

M. Na, ceisio eich cynghori yr ydwyf, fy nghyfeilles. Carwn eich cael mor loew eich cymeriad ag sydd yn bosibl, achos, os dilynwch y cynllun gwastrafflyd sydd gennyhch, fe fydd eich cymeriad wedi ei lwyr ddinystrio.

E. Yr ydych bron a fy llethu, Morfudd, gyda'ch athrawiaethau diddiwedd.

M. Wel, Emy, buasai yn dda iawn gennyf pe buasech yn addfedu rhywfaint i aros yn rhywle o fewn terfynau Cymru, achos gwn yn dda am danoch,—yr ydych yn rhy wan i allu gwrthwynebu temtasiynau. Oni charech chwi fod yn ferch ieuanc fel un i edrych i fyny ati? Ie, ac yn gyfryw ag y byddai ser gobeithion i'w gweled yn disgleirio yn ffurfafen eich cymeriad?

E. Wel, Morfudd bach, fy nghyfeilles anwyl, gwn erioed eich bod yn twy doeth na mi, ac yn defnyddio y ffordd briodol i fyw, ac yr ydych wedi fy syfrdanu, ac yn wir wedi fy argyhoeddi yn llwyr, a hynny am fod gennyf ymddiried ynnoch. Nis gallaf bellach eich gadael. Mi chwiliaf am le yn eich ymyl.

M. Diolch yn fawr i chwi, Emy, am ufuddhau. Yn sicr i chwi, mae lles a bendith a'ch dilyno yn hyn.

E. Bydd fy nhad a mam yn falch pan glywant am yr ymddiddan fu rhyngom, a thrwy hynny ddeall fy mod wedi rhoddi i fyny y son

am fynd i fwrdd. Ond i chwi mae y diolch i gyd. Yr oedd eich erfyniadau ar fy rhan yn amhosibl eu gwrthwynebu. Wel, Morfudd, rhaid i mi gychwyn tuag adre. Cawn weld ein gilydd eto yn fuan mi obeithiaf. Dydd da, Morfudd.

M. Dydd da, fy nghyfeilles anwyl.

[*Emy yn cychwyn adre, a Morfudd yn ymddiddan â hi ei hun.*]

Y mae yn dda gennyf fy mod wedi llwyddo i atal Emy i roddi ei chynllun mewn gweithrediad, ac nis gallaf lai na chredu na bydd yr Arglwydd yn sicr o dalu am hyn; achos un o fil o ferched ieuanc fel hi sydd yn gallu cadw eu hunain wedi unwaith fynd oddicartref.

*Glangwyrfaï, Waen Fawr.*

R. J. OWEN.

### CEFFYLAU Y RHEILFFORDD.

**E**R mor gryf a gwerthfawr yw y march tân, y mae ganddo un diffyg pwysig—nis gall symud modfedd i fyned i unlle oddiar y rails, neu â i helynt blin. Felly rhaid wrth tyddin dda o geffylau i nol a danfon o'r orsaf. O'r cwmnioedd mawrion, y mae gan y

Great Northern	-	-	-	1,300
Great Western	-	-	-	1,100
South Western	-	-	-	550
South Eastern	-	-	-	275
London and Brighton	-	-	-	225
London and North Western	-	-	-	650

Ond gwneir y rhan fwyaf o'u cyrchu a'u danfon hwy gan y Mri. Pickford, gyda'u 4,000 o geffylau. Y mae gan Carter, Paterson's, 2,000. Cytartaliad pris pryniad y ceffylau mawrion hyn yw tua £60, ond buan y gwerthir hwy am tua £10 i £12.

### DYCHMYGION YSBYTY YSTWYTH.

- I.—Pa wrthddrych du sy'n goleo'r byd? Inc.
- II.—Pa bryd mae dyn yn cerdded ar ei bedwar? Pan yn faban.
- III.—Pa fechgyn sy'n dod i fyny? Rhai syrthiant i'r ffos.
- IV.—Tebyg i beth yw'r cymylau pan yn dduon? Tebyg i wlaw.
- V.—Paham y mae'r afon yn rhedeg? Am nas gall gerdded.
- VI.—Pa le y ceir ysbyty heb ynddi gleifion? Yn Ysbyty Ystwyth.

*Coleg Ystradmeurig.*

E. ISYLOG JONES.

---

25<sup>th</sup> Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

ABGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBHAM.



## AT Y PLANT.



**ELOD.** Drwg gennyf nad oes yr un o fedalau Urdd y Delyn yn aros.

**AMRYW.** Pan yn anfon bywgraffladau, gwnaer hwy mor fyr ac mor gynhwysfawr ag sydd bosibl. Rhaid cael rhyw neillduolion mewn plentyn cyn y gellir gwneyd ei fywyd yn ddyddorol i filoedd nas adwaenent ef.

**B. A.** Trwy arholiad ym mis Awst y gellir mynd i wasanaeth y Llywodraeth yn yr India; trwy ddylanwad rhywun fedr ddweyd am danoch yr eir i'r un gwasanaeth yn yr Aiff a'r Soudan.

**R. S.** Nid oes gennyf amheuaeth wrth ddweyd mai y pethau mwyaf swynol ysgrifennwyd am Natur yn Gymraeg yw erthyglau R. Morgan, sydd yn ymddangos yn CYMRU yn ystod y misoedd hyn. Hoffwn yn fawr pe yr ymgymeraf rhyw fachgen deallgar a dosbarthu CYMRU mewn ardaloedd lle nad oes dosbarthwyr yn barod.


**D. E. W. (Treforis).** Y golgydd cerddorol yw L. J. Roberts, Ysw., Tegfan, Russell Road, Rhyl. Anfonwch y tonau iddo ef. Os byddant yn dderbyniol ganddo, cyhoeddir hwy.

**Y FIL.** Drwg iawn gennyf mai ym Mehefin, yn lle ym Mawrth, y cyrhaeddodd Owen Gruffydd chwi. Aeth y cyfrolau ar goll yn rhywle yn swyddfa'r rhwymydd, a bu helynt ffin i'w cael. Gofelir na ddigwydd y musgrellni hwn eto. Y mae'r gyfrol arall,—Robert Owen,—wedi ei hargraffu ers tro, ac yn barod i'w hanfon, ond fod y gyfrol arall ar ei ffordd.

**T.** Gellwch anfon hynny a fynnoch ar gerdyn am ddimau. Ond os rhoddwch lythyr mewn amlen heb ei chau, a rhoi stamp dimau ar yr amlen, rhaid i mi dalu ceinlog. O hyn allan yr wyf yn gorfod gwrthod llythyrâu heb eu llawn flaendalu, gan fod eu derbyn yn dreth rhy drom arnaf.

**CASSIA.** Gallwch gyfleithu faint fynnoch, a'i anfon i lyfr arall, os nad oes hawlfraint ar y llyfr. Os oes hawlfraint, dylech ofyn caniatad yr awdwr.





DIWYDIANNAU CYMRU. VI. YN Y GWAITH DUR.

# CYMRU'R PLANT.

Cyf. XIII.

GORFFENNAF, 1904.

RHIF 151.

## GWINWYDDEN ENWOG.

**F**EL y darlennwn yn y Beibl, yr oedd y winwydden yn goeden gyffredin yng Ngwlad Canan; a'r grawnwin yn un o brif gnydau y wlad. Ond yng Nghymru, oherwydd fod yr hinsawdd yn oerach o gryn lawer nag yna, ni welir ond ychydig iawn o winwydd; ac anfynych y gwelir y grawnwin yn dod i aeddfedrwydd yn yr awyr agored. Eto, gellir gweled cnydau yn sybiau ysblennydd yn nhai gwydr ein cyfoethogion.

Modd bynnag, oddiwrth y crybwyllion lled fynych geir am yfed gwin yn llenyddiaeth hynaf ein cenedl,—megis yn y "Gododin,"—cesglir y meithrinid y gwinwydd ym Mhrydain gynt, ac fod y grawnwin yn dod i aeddfedrwydd yn llygad haul.

Gan fod yr hinsawdd gryn lawer yn gynhesach yn neheudir Lloegr nag yn rhannau ereill yr ynys, gellir gweled y winwydden yn aml yn dringo i wisgo wyneb y tai, fel y bydd yr eiddew (*wy*) gyda ni. Cof gennyf sefyll i syllu gyda chryn syndod, pan ar ymweliad â Ventnor, Isle of Wight, (Ynys Gwyth), ar y *fuchsia*, a dyfai yn blanhigyn bach eiddil yn ffenestr fy mam, yn tyfu yn goeden yno yn yr awyr agored, coeden llawer talach na mi fy hun.

Yn St. Servan, hefyd, yn Llydaw, cof gennyf weled llwyn tew talgryf o'r *bamboo* yn tyfu mewn gardd—perth cyfuwch a'm pen. A'r dydd o'r blaen darlennwn yn nheithlyfr y diweddar W. S. Caine, A.S., am gawrlwyn o'r *bamboo* yn Ceylon, ei wlad gynhennid, yn tyfu i'r uchder o dros gan troedfedd, a phob un o'r 80 i 100 o gyrs oedd ynddo yn mesur o un i ddwy droedfedd o drwch,—tra nad oedd y cyrs a welswn i yn Llydaw ond o drwch ffon.

Mor ryfeddol, onide, yw effeithiau hinsawdd a chylchynedd. Beth, tybed, fydd rhyfeddol dwt Enaid pan wedi ei drawsblannu i hinsawdd fyth-hafol y netoedd, wedi iddo gael ei hyfryd sugno yn nes i'r HAUL MAWR a Ffynhonnell Bywyd.

Ond i ddod at winwydden ein pennawd. Tyf hwn yn lled bell i'r de oddiyma, sef yn Hampton Court Palace, annedd wych adeiladwyd gan yr anffortunos Gardinal Wolsey yn amser yr wythfed Harri, ar lan y Tafwys (*Thames*), ychydig filltiroedd i fyny tu uchaf i Lundain. Gwelir ei bod felly dros dri chant oed. Yr haf hwn y mae yn dwyn 1,000 o sypiau grawn, y rhai fyddant wedi llawn aeddfedu ym mis Hydref. Ddeugain mlynedd yn ol yr oedd y cnwd blyneddol ar gyfartaledd yn 2,400 o rawnsypiau; ond yn y blyneddodedd diweddaf hyn, ar gyfrif oedran y goeden, teneuir y sypiau i tua mil y flwyddyn. Y mae y grawnwin hyn o ansawdd a blas rhagorol, a chedwir hwy yn ofalus ar gyfer bwrd y brenin.

H. BRYTHON HUGHES.

—◆◆—  
**I'R LAN, I'R LAN.**

I'R lan, i'r lan, i'r mynydd mawr,  
Hen gartre'r gwridog ruddiau;  
I'r lan, i'r lan, ar lwybrau'r wawr  
Yn anghof ffy gofidiau:  
Tramwya engyl tlyeni'n llon,  
Rhwing blodau'r grug yn filoedd;  
Cawn delyn newydd yn ein bron  
Yn nhemlau y mynyddoedd.

I'r lan, i'r lan aed Gwalia wen,  
Mewn rhinwedd a gogoniant;  
I'r lan, i'r lan, i entrych nen  
Esgynned haul ei llwyddiant;  
Mae oriau euraidd Gobaith draw,  
Yn gwenu ar ei gwyneb;  
Cyd ganwn ninnau law yn llaw,  
Ar fryniau defnyddioldeb.

I'r lan, i'r lan yn llon ein llef  
Y dringwn o'r dyfnderau;  
I'r lan, i'r lan, ar fryniau'r nef  
Mae bywyd yn ei fiodau;  
Llawenydd dyfa yn ddi-glwy,  
I fyny yn oesoesoedd;  
A heulwen cariad dreiddia drwy  
Awelon hedd y nefoedd.

Y Bala.


RICHARD AB HUGH.

—◆◆—  
**I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.**

**E**UTHUM i mewn i ych dymunol yw dwfr y Bay of Biscay sydd donnog fel asyn o bengam oedd John a fwyaodd yn fiasus y forwyn cyn brechwast a ymadawodd ar gefn buwch gwelwyd brân yn canu crwth nes cyfarthai cwn yr oedd Bil pan yn dyrnu ysgabau llygod a neidient allan i'r crochan berweddig rhoed cloron moron maip a bresych er canu pedwarawd yn Eisteddfod Genhedlaethol ces gam yng Nghaerffily mae caws o'r un lliw a glo oedd Bob gwraig Kruger ganmolid am ladrata brithyllod yng Nghlydach cospir gwningod ac ysgyfarngod a phetris sydd dda i'w bwyta yn sir Fflint.

*Llanfihangel y Creuddin.*

D. L. L. DAVIES.

GWREGYS GWENER (*Cestum Veneris*).**RHYFEDDODAU'R MOR.**

## V. GWREGYS GWENER.

**Y** MAE prydferthwch ambell greadur yn ei symudiadau. Dywed y rhai a'i gwelodd fod y creadur rhytedd a elwir yn Wregys Gwener yn haeddu ei enw; y mae mor dlws yn ymsymud yn araf yn y dwfr tawel, fel nad rhyfedd iddo gael ei alw yn wregys duwies prydferthwch.

Môr y Canoldir yw ei gartref. Mae o ffurf hir, deneu, bron dryloew. Medr ymsymud yn chwim. Er na welir pen, geneu, na llygad, deallir ar unwaith mai nid llysieuyn yn nofio, ond anifail byw, yw Gwregys Gwener.

Perthyn i deulu mawr y llysil y mae. Y mae iddo enau ar yr ymyl isaf, ac ymysgaroedd y tu mewn, er eu bod yn anodd eu gweld. Gelwir ef yn llysil am ei fod mor debyg i llysieuyn. Mae dau deulu o'r llysil, sef y dyfrfil a'r blodeufl. Dyfrfil yw Gwregys Gwener, symudiadau araf gwaelod y môr sydd wedi rhoddi iddo geinder ei ffurf.

## BUDDUGOLIAETHAU HEDDWCH.

**Y** MAE Heddwch yn ennill brwydrau mwy gogoneddus na Rhyfel. Dywedaf hanes un o fuddugoliaethau Heddwch.

Erbyn hyn y mae hen wlad enwog yr Aifft, a holl ddyffryn y Nîl, wedi dod yn eiddo i Brydain. Gwyr y plant mai llain werddlas o bobtu'r afon Nîl yw yr Aifft. Pan doddo'r eira ar fynyddoedd Abyssinia, cwyd yr afon dros ei glannau, a gorwedd ei dyfroedd bywiol am beth amser ar dir heulog yr Aifft. Ar y tir dyfradwy hwn heuir yr had, a daw cynhauaf toreithiog wedi i'r ddwfr gilio.

Ond beth pe bai'r eira ddim yn toddi? Arosai'r Aifft yn ddiffaethwch sych a chras. Weithiau ni ddaw digon o ddwfr, ac felly ni wiw hau'r gorsen siwgr na'r had llin.

Mewn lle cul ar y dyffryn ymgyfyd teml brydferth Isis ac Osiris, hen dduwiau'r Aifft. Filltir yn is i lawr y mae mur mawr newydd gael ei adeiladu ar draws y dyffryn. Ebe un a'i gwelodd yn cael ei godi yn 1899, o ben bryn gerllaw,—

“Yn union ar draws y tywod-frynau a'r creigiau dros y rhai y disgyn dyfroedd y Nîl yma ac acw fel edafedd arian,—ar draws gwely creigiog yr afon o lan i lan,—ymestyn ffos enfawr, ffos mor hir fel nas gall y llygad weled lle mae ei phen draw. Bob ochr i'r ffos y mae cloddiau o dywod a chreigiau maluriedig wedi eu taflu, a chydag ochrau'r cloddiau mae lluoedd o weithwyr Arabaidd duon o amgylch tryciau a *cranes*, yn debyg o'r pellder i luoedd o forgrug. O'r ffos hon y mae mur mawr i godi i ddal yn ol ddyfroedd y Nîl ar adeg ei llifeiriant mwyaf.”

Erbyn hyn y mae'r mur wedi ei godi, a cheidw ddigon o ddwfr i ddyfrhau tir sychedig yr Aifft ar dymhorau sychion. Y mae'n filltir a chwarter o hyd; mae'r mur yn chwe troedfedd ar hugain o drwch ar ei ben, ac o fewn ychydig i gan troedfedd o drwch yn ei waelod. Y mae ynddo 180 o ddrysau mawrion; a phan agorir y rhai hyn, lifa digon o ddwfr i dorri syched popeth yn y dyffryn enwog odditanodd,—yn ddy, anifail, a llysieuyn.

Costiodd y mur y swm anferth o £2,000,000. Ond beth yw hynny wrth y fendith anrhaethol fydd y mur i'r Aifft am ganrifoedd lawer? Costiodd dwy long, y llong Rwsiaidd, Petropavlovsk, a'r llong Japanaidd Hatsuge, dros filiwn o bunnau yr un; ac mewn ychydig funudau suddodd y ddwy, yn dalpiau dinistredig i waelod y môr.

Onid yw buddugoliaethau Heddwch yn fwy gogoneddus na buddugoliaethau Rhyfel?

## DAMHEGION CYMRU.

## V.—DAMEG Y DDAU BYSGODYN.

**W**ELE eto un o ddamhegion Catwg Ddoeth o gasgliad yr hen Iolo.

Dau frithyll<sup>1</sup> yn canfod rhwyd y pysgotwr yn eu hymlid, a ymgynghorasant a'u gilydd pa fodd y dihangent.

"Mi a wanaf<sup>2</sup> yn ddwt'n i'r llaid," ebe un, "onid elo'r rwyd heibio."

"Nage," ebe'r llall, "afian yw hynny o le,<sup>3</sup> mi a neidiaf i'r tir sych, lle nid rhaid ofni rhwyd i'm gwarchae."<sup>4</sup> A hynny a wnaeth efe. Ond, cyn bod yno ennyd, efe a deimla angerdd y tês,<sup>5</sup> y peth ni wyddai cyn hynny am dano, a sychder anesgorawl<sup>6</sup> yn ei faeddu.<sup>7</sup>

"Gwae fil" ebe efe, "na wanaswn gyda 'nghyfaill i'r llaid, nes myned o'r rwyd heibio; gallaswn drwy wneuthur felly, a gwilio'n ofalus rhagllaw, ddianc o rwyd y pysgotwr hyd ddiwedd fy oes naturiol; lle ddwyf yn awr,<sup>8</sup> yn hyn o le, yn trengu gan sych a gwres, heb feddu na thraed nac adenydd er cyrchu'r dwr<sup>9</sup> y daethum o honaw." A marw fu.

Am hynny y dywedir,—“Mal y pysg ym maes o'r dwr;” a “Gwell i ddy'n y drwg a wyr, na'r drwg nas gwyf.” Gwnaed pob un ei oreu yn y cyflwr a'i doded ynddo gan Dduw.

Ie, wrth wneyd eich goreu yn Safon III. yr enillwch le yn Safon IV. yn y man; wrth wneyd eich goreu ym mhob Safon yr enillwch y safie, a'r enw, a'r anrhydedd o fod yn ysgolhaig goreu yn yr ysgol. Wrth ddysgu gwneyd eich gore gartref ar yr aelwyd, dros dad a mam, y deuwch yn y man yn wŷr ac yn wragedd y bydd yr ardal i gyd, ie, y wlad yn gyfan, yn chwenychu, yn chwilio am gyfie i'ch codi a'ch anrhydeddu.

Y mae y ddamewg yn eich dysgu hefyd i beidio diystyrru cyngor eich cyfaill, a mynnu eich ffordd eich hunan ym mhopeth. Ac o bawb, gwrandewch ar gyngor tad a mam. Meddai hen air,—“Yr hen a wyr, yr ieuanc a dyb.”

## BATHODYN HENAFOL.

Y DYDD o'r blaen codwyd hen fathodyn Rhufeinig o arian yn High Wycombe, sir Buckingham. Er ei fod yn 1,700 mlwydd oed, yr oedd mewn cyflwr hynod ddianaf,—y llythrennau a'r ffigyrau arno lawn mor glir ddi-draul ac ar arian yr oes hon. Dygai ddelw (*bust*) yr Ymherodres Julia.

<sup>1</sup> Trout. <sup>2</sup> Ymgladdaf, *dive*. <sup>3</sup> Yw y lle hwnnw. <sup>4</sup> Amgylchynu, *surround*.  
Poethder, *heat*. <sup>5</sup> Anysgoawl, *that could not be evaded*. <sup>6</sup> Poeni, *torturing*.  
*Whereas I am now*. <sup>7</sup> Myned tua'r dwr.



**ROBIN GOCH.**

R gangen y goeden, mae robin yn llawen  
 Yn ysgwyd ei aden, yn ysgafn ei fron,  
 Bob dydd y daw yma er oerwynt y gaua,  
 Ac yma y cana ei ganig fach lon;  
 Rwy'n caru gweld robin er pan o'wn yn  
 blentyn,

Cadd lawer briwsionyn ar garreg y drws,  
 Chaiff neb wneyd dim iddo, 'rwyf fi yn ei  
 wyllo,  
 Nid ydwyf am ddiogio'r aderyn bach tlws.

Chwi ienctyd glân Cymru, gwnewch chwi ei  
 edmygu,

A pheidiwch a sorri wrth robin goch fach,  
 Gadewch iddo chwilio, O peidiwch a'i ffino,  
 Rhowch damaid i'w fwydo i'w gadw yn  
 iach;

Nid ydwyf yn elyn i unrhyw aderyn,  
 Ond gwell gennyf robin na'r adar i gyd,  
 Pe gallwn ei ddenu i aros, rwy'n credu,  
 Gwnawn iddo le i gysgu, a chartref bach  
 clyd.

*Font Rhyd y Groes.*

AP BETHEL.

**Y mae'r brongoch Robin yn un o  
 gyfeillion hoffaf plant Cymru. Mae  
 gyda hwy'r haf, mae gyda hwy'r gauaf.  
 Un o benhillion hen Cymru yw,—**

"Robin goch ar ben y rhiniog  
 Yn gofyn tamaid heb un geiniog;  
 Ac yn dwedyd yn ysmala,—  
 'Mae hi'n oer, mi ddaw yn eira.'"

**Faint o ghenhedlaethau o blant sydd  
 wedi dysgu enw robin yn gyntaf**

aderyn? Mae robin yn perthyn i deulu cerddorol, mae o'r un  
 tylwyth a'r fwyalchen a'r eos.

Pam mae ei fron bach yn goch? Mae dychymyg y byd wedi rhoi  
 dau ateb rhyfedd. Un ydyw ei fod yn ceisio gweini ar eneidiau  
 coll yn nhân uffern, ac fod ei fron wedi ei rhuddo yn ei awydd i  
 wasanaethu ar y trueiniaid. A'r llall ydyw ei fod wedi cydymdeimlo  
 â'r Iesu, pan oedd dynion yn ei groeshoelio; ac fod ei fron wedi  
 cyffwrdd a gwaed y Gwaredwr wrth geisio ei gysuro.



## "FE DDAW LLYWELYN ETO 'N OL."

## VIII. DIFLANIAD LLYWELYN.

YR oedd y cyfnewidiad oedd wedi dod dros Ddôl Feurig yn achosi llawer o boen a phryder i bobl oreu'r ardal, a phawb yn ei dro yn ceisio saernio rhyw gynllun neu gilydd i atal y llifeiriant oedd yn bygwth eu gordoi. Bu'n destyn seiat hefyd yn yr ysgoldy fwy nag unwaith, ac un tro pregethodd yr hen frawd o'r Parcie Bach oddiar y geiriau hynny am y "ffordd lydan a'r ffordd gul," ac ymysg pethau ereill, ebai,—

"Wn i ddim beth ydych chi'n feddwl o'r ffordd lydan a'r ffordd gul yma, ond fe fyddaf fi'n perswadio fy hun mai yr un yw lled y ddwy ffordd ar y cychwyn, ac mai ol ein sodlau gwyrgam ni wrth droi o'r llwybr fwiadodd Duw i ni gerdded sy'n lledu'r ffordd. Dyna i chwi y llwybr yna drwy gae'r Fron i Lwyn yr Eithin. Cyn gwneyd yr hen dafarn yna, yr un oedd lled y llwybr ym mhob man, a phrin y gallasai dau ddyn gerdded ochr yn ochr ar hyd-ddo; ond yn awr y mae cyn lleted deirgwaith yng nghae'r Fron ag ydyw'n uwch i fyny yng nghyfeiriad Llyn yr Eithin. Beth sydd yna? O, ol traed pobl wedi anfodloni ar yr unig ddiod ddarparwyd ac a fwiadwyd iddynt gan yr Holl-ddoeth; y maent wedi troi'r llwybr defaid yn brif-ffordd; wedi sathru'r glaswellt a'r blodau, a'u troi yn balmant caled." Ac yna gwnai apeliad taer a difrifol am i'r gwrandawyr wneyd eu goreu i atal y rhyferthwy. Yn y gyfeillach y noson honno yr oedd Rhobet Dafydd hefyd yn galw sylw at yr un achos, a dywedai ei fod wedi addaw wrth wely angeu yr hen chwaer Caden Dafydd i wneyd ei oreu i achub un teulu, beth bynnag. "Yr oedd Caden, druan, wedi gweddio llawer," meddai, "ar y mater yma, ac y mae'n destyn gweddi i ni i gyd, rwy'n gobeithio; ond yn sicr, y mae arnom eisieu rhywbeth i roddi anadl bywyd yn esgyrn sychion ein gweddiau. Yr wyf wedi arfer meddwl ein bod yn lled ddoniol ar ein gliniau yn yr ysgoldy yma, ond nid wyf yn sicr ein bod gystal ar ein traed; ac y mae perygl i ni anghofio fod eisieu gweddi a gwaith."

Yr oedd i bawb ei gynllun, wrth gwrs; ond nid oes a fynno fi â hynny'n awr.

Rhan o gynllun Rhobet Dafydd oedd cael Llywelyn gydag ef yn y "Lion." Nid oedd neb yn gwybod yn well am ddeisyfiad Caden Dafydd cyn marw, a bron nad oedd wedi dod yn ail natur iddo yntau erbyn hyn. "Ac er mwyn cael ateb i'n gweddiau," meddai'r hen forwr, "y ffordd oreu ydyw gofalu ein bod ni ar y ddaear yn gwneyd ein rhan yn drylwyr; mae gormod o *honour* yn ein Tad cyfiawn i wrthod ateb gweddiau'r saint pan wel hwy ar eu gore, er mai

ychydig iawn yw ein gore ni, welwch chwi. Ond mae'r Hen Ficer yn siwr o fod yn agos i'w le pan ddywed,—

“Yn mhob man, ac ar bob amser,  
Y mae gweddi o fawr bwer,  
Os y galon a fydd parod  
I weddio ar y Drindod.”

Yr oedd wedi gweled Llywelyn dan arwydd diod feddwol lawer tro yn gadael y “Toilers' Rest,” ac yr oedd y ddau frawd arall bron yn anobeithiol. Gwyddai beth fyddai canlyniad hir ganlyn y Capten i'r brawd ieuengaf hefyd. Ac felly, bwriadai i Llywelyn ennill ei damaid ar y “Lion” am ychydig, o'r hyn lleiaf hyd nes penderfynu ar rywbeth iddo wneyd. Ond ar ei fordaith gyntaf yr oedd yn rhaid iddo alw yn Rhos Deifi, lle yr oedd ei gefnder, y meddyg enwog, yn byw. Un “rhyfedd” oedd hwnnw hefyd, fel Rhobet Dafydd, un garw, sarrug wrth bawb ar y cyntaf, ond un hefyd, fel ei gefnder eto, oedd yn meddu ar galon dyner; cael hyd i galon y meddyg oedd yn anhawdd.

Adroddodd Rhobet Dafydd hanes y bachgen a'i deulu wrtho, a phryder ei fam am dano. “Ond,” meddai, “mae hi wedi mynd i wlad sydd lawer gwell,—wedi torri ei chalon mewn llawnder ar ol blynyddau o dlodi,—ac yr wyf finnau yn meddwl cymeryd gofal y bachgen yma, a cheisio rhoddi cychwyn iddo, er mwyn iddo ennill ei damaid, yn lle gwag-symera hefo'r Capten yna. Fe fuaswn yn barod i dalu ar ei ol, Gruffydd,” ebai eilwaith, wedi peth siarad, “os gellit gael lle iddo, fel yr oeddit yn awgrymu. Hwyrach y gallet ti gael lle i'w brentisio yn saer llongau, neu berswadio un o'r siopwyr yma i'w gymeryd y tu ol i'r cownter. Mae arnaf eisieu ei gael oddiar lwybr y Capten yna, beth bynnag. Buaswn yn ei gymeryd hefo fi yn yr hen ‘Lion,’ oni bai fod dyddiau yr hen gwch bron ar ben, a finnau'n meddwl rhoddi'r gore i'r dŵr yma cyn hir. Mae'n debyg mai dyma y tro olaf y daw yr hen gwch i Rhos Deifi; ond fe gaf glywed gennynt sut mae'r bachgen yn dwad ymlaen.”

Modd bynnag, gwnaed cytundeb fod Llywelyn i aros yng ngofal Dr. Gruffydd Dafydd, ond ar delerau'r doctor. “A chofia di, Rhobet, nad wyt ti ddim i fusnesa dim yng nghylch y bachgen yma o hyn allan; dim ond talu ar ei ol, a hynny'n ddigon hallt, mi wrantaf.” Ac felly, rhwng bodd ac anfodd, y gadawyd Llywelyn, druan, at drugaredd y meddyg sarrug, ymhell oddicartref, heb na châr na chydabod, hyd y gwyddai, yn agos ato. Ond yr oedd Rhobet Dafydd yn mwman rhywbeth fod “Gutto'n llawer gwell na'i olwg,—fod iddo waelod reit dda.”



## YR HWYAD HYLL.

IWRNOD poeth yn yr haf oedd, ac yr oedd yr hwyaid oll yn hapus, ond un.

"Welais i erioed y fath beth," ebe honno, "yr wyf wedi eistedd ar yr wyau yma ers wn i pryd, y mae hwyaid bach melynion tlyision wedi dod o bob un ohonynt, ond o un. Dyma fi'n gorfod eistedd ar hwn o hyd. Beth ddaw o hono tybed? Mae'n fwy o lawer na'r lleill hefyd."

"Gwagg, gwagg," ebe hen hwyaden, "gwylia di mai nid wy twrci yw. Gwnaethant gast felly & fi unwaith. A 'doedd dim posib dysgu'r twrci fel y lleill; chawswn i yn fy myw mohono i'r dŵr."

Drannoeth, daeth pen yr aderyn bach allan o'r wy. Yr un peth ddywedai pob hwyaden wrth ei weled,—*"Y mae o'n beth hyll! Mae o'n ddigon mawr ac yn ddigon hyll i ymladd, mae'n debyg gen i. Ond druan o hono, y mae'n rhy hyll i ddim arall."*

Blinodd yr hwyad bach ar ei fywyd. Yr un peth ddywedai pawb am dano,—*ei fod yn hyll. Yr un peth wnai pawb âg ef,—plannu ei big ynddo. Nid oedd neb yn meddu gwên na gair caredig na chymwynas iddo ef, yr oedd yn rhy hyll.*

*"Ydyw'r byd yn fawr?"* meddai ryw ddiwrnod wrth yr hwyaden hynaf yn y ffosydd tawel.

*"Ydyw,"* ebe honno, *"y mae'n cyrraedd ymhellach na'r ffos acw, mae'n cyrraedd i ben draw cae'r person."*

*"Beth sydd y tuhwnt i hynny?"*

*"Dim ond diwedd y byd. Feiddiodd neb ohonom ni erioed fynd cyn belled."*

Penderfynodd yr hwyad ehedeg i rywle, i ben draw'r byd. Cododd ar ei aden, ehedodd dros gae'r person, a chafodd ei hun yng nghanol cors lawn o hwyaid gwyltton. *"Druan ohonot,"* ebe hwy, *"yr wyt ti'n beth hyll. Cei hel dy fwyd yn y gors yma, ond cofia na chei di ddim bod yn un o'n teulu ni."*

Un tro, gwelai adenydd adar ardderchog yn ehedeg uwch ei ben. *"O, dacw adar nefol,"* meddai, *"gwyn fyd na chawn i gwmni y rhai acw."* *"Taw a dy glebar, y peth hyll,"* ebe'r hwyaid gwyltton, *"elyrch yw y rhai acw. Adar brenhinol ydynt, ac ni chaiff yr harddaf ohonom fynd i'w cyfrinach, heb son am beth hyll fel tydi."*

Daeth y gauaf. Yr oedd yn oer iawn. Nofiai yr aderyn unig hyll hyd y dŵr i gadw ei hun yn gynnes. Ond rhewai'r dŵr o ddydd i ddydd, ac o'r diwedd nid oedd ond twll bychan heb gau. Pan gauddd hwnnw, gorweddodd yr aderyn ar yr eira, a theimlai ei waed yn dechreu oeri. Cyn iddo fferru i farwolaeth, daeth amaethwr heibio, ac aeth âg ef adre. Dadferrodd o flaen y tân, ac adfywiodd yn raddol.

"O, dyma dderyn hyll digri," ebe'r plant, a rhedent ar ei ol drwy gydol y dydd, gan gydio yn ei gynffon neu dynnu ei blu. Ond yr oedd y gwanwyn yn dod, a'r aderyn yn cryfhau. Er hynny, daeth profedigaeath fawr iddo. Wrth geisio dianc rhag y plant, aeth ar ei ben i'r fuddai. Wrth godi o honno, yn wlyb dyferyd gan laeth, syrthiodd drachefn i'r celwrn blawd. Rhedai'r wraig ar ei ol, wedi gwylltio. Fflapiai yntau ei adenydd,—yr oeddynt hwy a'i wddf yn hir iawn erbyn hyn,—a dyhidlai laeth a blawd hyd bopeth yn y ty. O'r diwedd, medrodd gyrraedd y drws, ac allan ag ef. Ni feiddiai fynd yn agos i dŷ ei noddwyr am wythnosau mwy.

Yr oedd bron a digalonni. "I ba beth y ganwyd peth hyll fel myfi?" gofynnai. Gyda hynny, gwelai elyrch yn ehedeg dros fur parc gerllaw, ac yn disgyn. "O, mor ardderchog ydynt," meddai, "af ar eu holau; gwel gennyf gael fy lladd ganddynt hwy na fy ngwawdio gan ereill."

Yr oedd erbyn hyn yn fore teg tesog o haf. Cododd ar ei aden,—teimlai ei adenydd yn gryfach nag erioed,—ehedodd uwch ben y parc prydfarth, a disgynnodd mewn llyn mawr heb fod yn nepell oddiwrth gwmni o elyrch urddasol. "Af atynt," meddai, "cânt fy lladd, os mynnant, am fy hagrwydd." Ond rhyfedd iawn! Wrth edrych ar ei lun ei hun yn y dŵr, sylweddolodd mai nid hwyad mawr oedd, ond alarch bach.

Croesawodd yr elyrch ef yn gynnes. Toc, daeth nifer o blant at lan y llyn, a bwyd i'r elyrch. Nofiasant hwythau oll at y lan.

"O mam," meddai'r plant, "welwch chwi? Mae alarch bach newydd wedi dod gyda hwy. Ond tydi o yn un tlws!"

Un o ystraeon Hans Andersen yw hon. Y mae aml blentyn adfyd fedr fendithio'r gwirionedd pwysig sydd ynddi.

### LLYFRGELL ENFAWR.

Y LLYFRGELL fwyaf yn y byd yw Llyfrgell Genhedlaethol Ffrainc, yn y Louvre, yn Paris, yr hon a seiliwyd gan Louis XIV. Cynhwysa 1,400,000 o lyfrau, 300,000 o bampbledau, 175,000 o lawysgrifau, 300,000 o fapiau a morlenni (*Charts*), 150,000 o fathodau a medalau aur, 1,300,000 o gerf-ddarluniau, a 100,000 o bortreadau personau.

**NEDI WYN Y SMOCIWR.**

(DARN I'W ADRODD).



IHAFAL fel ysmociwr oedd Nedi Wyn y Fron,  
A mygu yn wastadol y byddai ef yn llon;  
Ni welid ef un amser, nac allan nac yn ty,  
Na fyddai yn ei enau ryw bwt o getyn du.

Gallasai llawer feddwl, wrth weld y smociwr  
teg,  
Ei fod ef wedi ei eni a phibell yn ei geg;  
Ymddyrechai'r mwg i fyny yn golofn dorchog,  
ddu,  
Nes byddai genau Nedi fel simnai nen y ty.

Pan fyddai Ned heb fyglys, fe fyddai'n ddrwg  
ei nwyd,  
Yn llawer mwy truenus na phe heb bryd o  
fwyd;  
Edrychai ef yn sarrug a chuchiog y pryd  
hyn,  
Nis gallai neb wneyd unpeth i foddio Nedi  
Wyn.

Ond pan y llanwai'r bibell, fe fyddai wrth ei fodd,  
A theimlai'n hollol ddedwydd wrth dynnu'r mwg a'r nodd;  
Siaradai yn ddiorffwys, a chwaddai dros y ty,  
A byddai yn llawn yspryd tra'n chwifio'r cetyrn du.

Pan fyddai'r ddannodd ddiffaith yn poeni Nedi Wyn,  
Arferai ef gymeryd rhyw fygyn bach pryd hyn;  
Gan ddweyd y byddai hynny yn gyrru'r gofid du  
Ar ffo, fel gwllith y bore o flaen yr heulwen gu.

A phan y byddai'n teimlo ei hunan ddim yn iach,  
Arferai ef pryd hynny gymeryd mygyn bach;  
Ac O! 'r fath gyfnewidiad a fyddai wedi hyn,  
Ni fyddai neb yn iachach na'r smociwr Nedi Wyn.

Aberthodd Ned ei amser, fe wariodd Ned ei bres,  
I brynnu chwynn y myglys, a chwiflo'r mwg diles;  
Addolodd y tybaco dan wên y byd a'i wg,  
A'i einioes hedodd heibio yn ddiwerth *fel y mwg*.

Mae smocio y tybaco yn arfer ddrwg yn wir,  
Ac un o'r arferiadau aifanaf yn ein tir;  
Gan hynny, rhoddaf gyngor i bawb trwy'r ddaear gron,  
I beidio efelychu ysmociwr mawr y Fron.

## Gwledd y pur a'r prydfferth.

Y Geiriau gan RICHARD AP HUGH.

Allan o *Gymru'r Plant*, Awst, 1903.G. JONES, A.C. (*Gutyn Mawrth*),

DOR F.

Gerlan, Bethesda.

{	m	:- m :r .l	l	:s	:-	s	:- .s :f .m	m	:r	:-
	d	:- .s, :l, .t,	d	:d	:-	d	:- .d :d .r	d	:t,	:-
	Gwledd y pur a'r prydfferth					Yd - yw anian lon;				
	s	:- .s :f .f	f	:m	:-	s	:- .s :l .d'	s	:-	:-
	d	:- .d :d .d	d	:d	:-	m	:- .m :f .fe	s	:s,	:-

{	r	:- .r :r .m	f	:s	:l	t	:- .d' :t .l	s	:-	:-
	t,	:- .d :t, .d	d	:r	:m	r	:- .r :r .d	t,	:-	:-
	Ar - lwyfawr ei ha - berth					Sydd yn faln i'r fron;				
	s	:- .s :f .m	l	:s	:s	s	:- .l :s .fe	s	:-	:-
	s	:- .s :s, .ta,	l,	:t,	:d	r	:- .r :r .r	s,	:-	:-

{	s	:- .m :d .d'	ta	:l	:-	s	:- .m :s .f	f	:m	:-
	d	:- .d :d .m	s	:f	:-	m	:- .d :m .r	r	:d	:-
	Per - aidd ros a li - li					Wisg - a'i bwrdd â bri;				
	m	:- .s :f .s	d'	:d'	:-	d'	:- .s :s .l	s	:-	:-
	d	:- .ta, :l, .s,	f,	:f,	:-	d	:- .d :t, .t,	d	:-	:-

{	d	:- .d :m .r	l	:s	:f	m	:- .r :d .t,	r	:d	:-
	s,	:- .d :d .d	d	:- .l, :t,		d	:- .l, :s, .s,	t,	:d	:-
	Un - a cân a thlys - ni					I'w dwyfol - i hi.				
	m	:- .m :l .f	ma	:r	:s	s	:- .f :m .r	f	:m	:-
	d	:- .d :f, .f,	fe	:s,	:s,	d	:- .f, :s, .s,	s,	:d	:-

Gwledd y pur a'r prydfferth  
 Sy'n melusu'r oes;  
 Ni ddaw'r perlau'n bridwerth  
 Byth i rin a moes;  
 Mwynder sydd yn taenu  
 Drosti santaidd len;  
 Angel hedd sy'n canu  
 Yn y fynwes wen.

Gwledd y pur a'r prydfferth,  
 Dyma ydyw'r nef;  
 Cariad yn ei anterth  
 Yw ei grossaw Ef;  
 Rhodiwn feusydd Beulah  
 Tua'r hyfryd wlad;  
 Neithdar bywyd wrida  
 Gwpan gwledd ein Tad.



GLYN Y TYLWYTH TEG.

“Cafniwyd y ceunant gan yr afon.”

### GWAITH YR AFONYDD.

**M**AE corff y ddaear yn gyffelyb i gorff dyn mewn ystyr anianyddol. Os na bydd ynni newydd yn ymgonni yn y corff i gyfateb i'r hyn gollwyd, buan y syrth ef i wendid a gwywdra.

Fe ddiflanna ynni y corff yn araf a distaw, ond adnewyddir ef o'r elfennau sydd yn cyfansoddi ymborth, ac ateba hwnnw yr un amcan yn y corff ag a wna y glo yn yr agerbeiriant i greu gwres ac ynni. A chan fod y corff dynol yn gyfansoddedig o amryw elfennau, felly, cyn y gellir galw unrhyw beth yn fwyd, yn ymborth, yng ngwir ystyr y gair, rhaid iddo fod yn gyfansoddedig, i raddau mwy neu lai, o'r elfennau sydd yn y corff. A dyna'r modd y creir yr ynni a'r bywyd.

Er fod elfennau dinystriol Natur yn uno a'u gilydd i wastadau gwyneb y ddaear a'i chladdu yn y môr, er fod curiadau y môr a threigliadau afonydd, ymosodiadau gwlawogydd a rhwygiadau llosgfynyddoedd, yn ceisio rhychu ei gwyneb, er hynny, mae elfennau a nerthoedd ereill yn ymladd â hwy am y goruchafiaeth. Onibae am



. AFONIG A LLYN.

“Mor brysur yn cario gwaddod ag yw y Ganges.”

danynt hwy, gorweddasai ei chrystyn yn ddistaw dan donnau geirwon y cefnfor, ond gyda hwy deil ei phen o hyd uwch y tonnau, ac mae rhai parthau o'i gwyneb yn ymgodi tua'r nef, hyd nes cuddio eu pennau yn y cymylau.

Un o nerthoedd yr wrthblaid yw yr afonydd. Hwy sydd yn cafnio y dyffrynnoedd ac yn naddu pantleoedd dyfnion. Edrychwch ar ddarlun “Glyn y Tylwyth Teg” (*Fairy Glen*), ger Dolwyddelen, lle y cafnwyd y ceunant gan yr afon. Er mai yr afonydd a dreiglasant ddyffrynnoedd prydfferth Cymru o'r creigiau celyd, chwi gofiwch eu bod yn gyffelyb i'r llythyren V o ran ffurf, am fod elfennau ereill yn cydweithio gyda'r afonydd. Torri yn unionsyth wnaif yr afonydd, ond mae curiadau gwlawogydd a gwyntoedd, a rhwygiadau rhew ar bob tu yn llyfnhau yr ochrau. Y mae un rhanbarth yr ochr draw i'r Werydd lle nad oes cymaint ag un gawod o wlaw mewn blwyddyn, ac yno y gwelir gwaith yr afonydd yn eu gogoniant. Y mae'r afon Colorado wedi naddu iddi ei hun wely sydd yn ymestyn i lawr trwy y creigiau gymaint ac a gyfyd y Wyddfa i fyny, ac mae ochrau y Gamlas cyn sythed o'r bron ag







CYNFFON Y GASEG LWYD.

ochrau ty. Gelwir hwynt yn "canyons." Nid cafnio yn unig wnaiff yr afonydd, ond cludant yn eu ceseiliau lwch mynyddoedd a chyfandiroedd i'w osod yn waddod ar waelodion y moroedd, yr hwn dry, ymhen miliwnau o oesau, yn ddefnydd cyfandiroedd oesau ddaw. Y mae'n hysbys i rai ystyriol fod gwlawogydd trymion yn rhyddhau llawer o wyneb y ddaear ar bennau y mynyddoedd a'r llethrau, ac yn golchi hwnnw yn llifbridd i'r cornentydd, a'r cornentydd yn ei drosglwyddo i'r afonydd, a hwy yn ei gario i'r môr. Nis gellir dychmygu maint y defnydd, o bob math, a gludir felly i'r moroedd yn flynyddol; felly, ffurfir haen ar haen, a chaledir yr haenau isaf gan bwysau'r haenau uchaf. Y mae'r swm o bridd a chreigiau a ryddheir gan wlawogydd ac afonydd, ac a gludir felly i wastadiroedd a mor-

oedd, ymhell tuhwnt i ddychymyg a dirnadaeth y gwyddonwyr mwyaf meddylgar. Mae'r afonig fach yn y darlun, sydd yn sisial ar ei thaith o'r bryncyn acw, mor brysur yn cario gwaddod i'w osod yn y llyn gerllaw, ag yw y Ganges a'r Brahmputra, y Mississippi neu'r Amazon, yn cario ysbwriel cyfandiroedd i'r môr. Yn gyffelyb i hyn y ffurfiwyd gwlad yr Aifft. Gwaddod neu lwcw mynyddoedd a throedd gogleddbarth Affrica wedi ei wastadeddu gan yr afon Nîl yw yr Aifft, felly mae'r Nîl yn bod cyn yr Aifft, a rhodd y Nîl yw yr Aifft.

Y mae afonydd telly hefyd ag fyddo yn llawn defnydd priddlyd a chreigiog, yn llawer mwy dinystriol i'w glennydd na phe bae y dwfr yn lân a grisialaidd. Canfyddir hyn yn ein hafonydd bach ni yng Nghymru, ac mewn afonydd mawrion, megis y Volga a'r Rhein, y mae'r effeithiau tuhwnt i ddychymyg. Dywed Prof. Adam Sedgwick fod yr afon Nerbuddah yn Hindostan wedi treulio craig galed i'r dyfnder o 100 o drodfeddi, a nota Syr Roderick Murchison ffraith fod un afon wedi treulio ei gwely i'r dyfnder o bump neu chwech chant o drodfeddi, a hynny trwy greigiau celyd. Ond beth yw hynny i'w cymharu â "canyons" yr Amerig? Dywedir fod rhaiadr yr afon Niagara yn y wlad honno wedi treulio dros 50 o drodfeddi mewn deugain mlynedd. Llifa yr afon, wedi disgyn dros ddibyn 160 o drodfeddi, trwy gamlas neu fôs 160 o lathenni o led, a 140 o drodfeddi o ddyfnder, a saith milltir o hyd. Y mae samplau o'r math yma, mwy neu lai, ym mhob gwlad. Heblaw fod afonydd yn dinistrio rhyw rannau o'r tir, cludant ran fawr o'r peth y maent hwy a'r gwlawogydd yn ei ddaduno, gan ei osod yn bentyrrau ar fin moroedd, ac felly yn cludo daear yn lifbridd am ugeiniau, os nad cannoedd, o filltiroedd o bennau mynyddoedd ac o gymoedd, ac yn ffurfio daear newydd âg ei, ac felly yn adeiladu un wlad âg adfeillion gwlad arall, megis y gwelir wrth ymarllwys-leoedd y Mississippi, y Ganges, y Rhein, y Danube, y Nîl, a'r Orinoco. Dywedais am delta y Nîl, edrychwch arno yn y map. Gelwir hwynt yn deltau oherwydd eu bod yn gyffredin ar lun, neu rhywbeth yn debyg i lun delta,  sef y bedwaredd lythyren yn y wyddor Roeg. Nis gallaf  ychwanegu at hanes afonydd y tro hwn, dywedais eu hanes wrthyhych dro yn ol. A ydych yn cofio y wers honno?\*

Dyma'r modd y canodd Tennyson,—

"There rolls the deep where grew the tree,  
O earth, what changes hast thou seen!  
There, where the long street roars, hath been  
The stillness of the central sea."

SIGMA.

\* "Gwaith yr Afonydd," CYMRU'R PLANT, Cyl. XII., Ebrill, 1903.

## ADAR EIN HARDALOEDD.

[Yr oedd y rhestr hon, o waith Miss Kate Hughes, Ynyspandy, yn fuddugol yng Nghylchwyl Lenyddol Bethel a Phenmorfa, Nadolig, 1903. Bydd yn dda gennyf glywed oddiwrth y plant os ydynt hwy wedi sylwi ar rywbeth arall yn hanes neu ddull yr adar.]



CREYR GLAS.

I. ARCH. Aderyn mawr o liw gwyn, a'i draed yn dduon, ei frest yn ymdafu allan, yn gymaint felly fel na fedr weled ei draed. Y mae yn aderyn pur falch. Bydd i'w ganfod yn fynych yn nofio ar y llynnoedd.

II. BRAN. Aderyn du ei liw, ac y maent yn dra lluosog yn ein hardaloedd. Y maent yn meddu ar gorff pur drwm, gyda phig cryf. Gwnant eu nythod ar ben coed uchel, a'u defnydd yw mân-frigau. Glas yw lliw eu hwyau.

III. BRONFRAITH. Aderyn o'r un maintioli a'r fwyalchen. Y mae gwahanol fathau ohonynt. Mae marciau ar ei fron yn debyg i saethau a'u blaenau f'fyny. Mae y rhan fwyaf o'i blu yn felyn. Gelwir math arall o honnynt yn fronfraith yr uchelwydd. Mae y rhai hyn dipyn yn fwy. Gwahan-iaethant hefyd yn yr yspotiau sydd ar eu bron. Bydd y cyntaf a ennwyd yn gwneyd ei nyth yn fwyaf cyffredin ar bren mwsog-lyd neu wrych gwelltog. Mae eu hwyau yn leision, gydag yspotiau mân duon ar hyd'ddynt. Mae ceiliog y fronfraith yn gantor

ardderchog; bydd ei lais yn fwy soniarus na hyd yn oed y fwyalchen, ac y mae yn gantor boreuol iawn.

IV. BRITH Y FUCHES (*Wagtail*).—Aderyn bychan, main ei gorff, o liw du a gwyn, a chanddo gynffon hir a llydan. Mae ef yn un o'r adar crwydr.

V. CREYR GLAS.—Aderyn mawr llwydlas, heb fod yn drwm ei gorff, a'i goesau yn hynod hirion, ynghyd â'i wddf. Mae tusw o blu yn dyfod i lawr o'i frest, ac mae ganddo big hynod hir. Ei hoff le yw corsydd a llynau.

VI. CORNCHWIGLEN.—Aderyn pur brydferth yw hwn, o'r un faintioli a'r golomen. Mae ei gefn a'i adenydd yn llwyd-ddu, gydag ychydig wyn ym mlaen ei aden, o dan ei wddf yn wyn, a'i fron yn ddu, a chanddo siobyn o blu ar ei ben. Ei gân ef fydd *peewit*.

VII.—CUDYLL COCH.—Aderyn o liw coch a du, a'i big yn debyg i'r Parrot, oddeutu yr un maintioli a chigfran. Mae hwn yn aderyn pur ysglyfaethus, yn hynod graff ei olwg, yn gyflym ar ei aden, ac y mae yn elyn gan bob aderyn bach.

VIII.—COLOMEN.—Mae dau fath o golomenod,—y golomen ddof a'r golomen-wyllt. Mae yn aderyn hardd a diniwed. Maent o wahanol liwiau, rhai o honynt yn las ac ereill yn wynion, ac ereill yn goch a gwyn. Ni fydd y rhai dof o honynt yn gwneyd eu nyth, byddant yn gwneyd tai iddynt, ac yn eu crogi ar barwydydd eu tai, ac yn aml y bydd y naill yn denu'r llall iddo, nes y byddant wedi ei lenwi.

IX. COGFRAN (*Jackdaw*)—Aderyn o'r un rhyw a'r frân yw hwn, heb fod o liw llawn mor dywyll a'r frân, ac ychydig yn llai ei gorff. Mae eu gwddf yn fyrr, a'u pennau yn fawr, a chanddynt big braidd yn fyrr o'i gydmaru â phig y frân. Byddant yn dra hoff o wneyd eu nythod mewn simnddeuau tai.

X. COEDIAR (*Pheasant*).—Mae hwn yn aderyn pur fawr, ac yn ddigon adnabyddus i bawb erbyn hyn, gan fod llawer o honynt. Yn y coed y bydd yn cartrefu. Mae'r ceiliog dipyn yn fwy na'r iar, a'i liw yn fwy prydferth, ac y mae plu ei gynffon yn hir, a phen bychan. Maent yn rhan o helwriaeth ein gwlad.

XI. CRAC YR EITHIN.—Aderyn pur fychan o liw llwyd. Ei gartref fynychaf yw bryniau eithinog. Lliw ei wyau yw glas frith.

XII. COCH Y BERLLAN.—Aderyn bychan o'r un faintioli a'r Robyn Goch, o liw cochddu, yw hwn.

XIII. CYFFYLOG (*Woodcock*).—Aderyn o liw llwyd. Mewn coed-ydd yn y mynyddoedd y maent i'w cael. Maent yn adar blasus wedi eu coginio.

XIV. DALLHUAN.—Aderyn pur fawr yw'r ddallhuan, a phen a llygaid yn debyg i gath. Mae yn debyg yn ei big i'r Parrot. Llwyd yw ei liw, a gwel yr aderyn hwn yn llawer gwell yn y nos nac yn y dydd. Mae goleuni'r haul yn ei ddallu. Ei ymborth yn bennaf yw llygod.

XV. DRUDWY (*Starling*).—Mae yr adar hyn yn lluosog iawn yn ein hardaloedd. Maent yn adar prydferth, gyda mân yspotiau brithion ar hyd iddynt, a byddant yn aros gyda ni trwy'r flwyddyn.



## HYNODRWYDD GWYNFYNYDD.

REDAF mai y peth cyntaf a ddylwn ei wneyd ydyw dweyd am un o'r ffyrdd sydd yn arwain i fy ardal o un o'r pentrefydd neu un o'r trefydd agosaf ati, rhag ofn y bydd rhai ohonoch yn hoffi cael golwg ar ei hynodrwydd. A phe digwyddai hynny, ni fyddai yn beth dieithr o gwbl, gan fod cannoedd, os nad miloedd, o dro i dro wedi ymweled a'r ardal yn ystod hafau y gorffennol. Er fod Trawsfynydd yn cynnyg ei hun fel lle i gymeryd pen y ffordd ynddo, credaf fod yn well dewis Dolgellau, gan fod y ffordd o'r olaf yn fwy dymunol i'w theithio; a thrwy hynny, byddwn yn gwneyd yr un peth ag y mae pawb o'r bron yn ei wneyd y dyddiau yma, sef dilyn y fflasiwn, gan mai o Ddolgellau mae y mwyafrif, os nad yr oll, o'r ymwelwyr dieithr yn myned i geisio pen y ffordd. Ac os bydd rhywun yn dewis, yn hytrach na myned yn ol i Ddolgellau ar hyd yr un ffordd, gall fyned ymlaen i Drawsfynydd.

Wrth ddyfod allan o dref Dolgellau, ym mhen uchaf y Bont Fawr, trown ar y llaw chwith, a chawn ffordd wastad yn arwain i Lanelltyd. Wedi myned trwy bont Llanelltyd mae croesffordd, daliwn ar y llaw dde, a chawn ffordd tra gwastad trwy goed, gyda glan afon Mawddach rhwng mynyddau i'r Ganllwyd. Ar ol pasio maelfa'r Ganllwyd, mae y ffordd yn myned yn ddwy, daliwn ninnau ar y llaw dde, a chofiw'n wneyd yr un modd wedi myned trwy y bont sydd yn croesi afon Eden yn ymyl. Awn ymlaen rhwng gellt-ydd ym murmur cerddorol y Fawddach; cyn hir iawn mae adeiladau gwaith powdwr Tyddyn Gwladys o gylch y ffordd, a'r Gain odidog yn ymarllwys ei dyfroedd iach i'r Fawddach gref. Dyma ni yn awr wedi cyrraedd gwaelod canolog fy ardal. Ac yr wyf yn siwr y bydd i bwy bynnag a gerddo o Ddolgellau iddi, ddweyd ei fod wedi teithio oddeutu saith milldir o ffordd.

Nid oes yr un enw penodol arni, ond yr wyf fi am ei galw yn ardal Gwynfynydd, gan fod llawer yn gwybod am dani felly fel ardal enwog am ei thrysorau mwnawl. Ond rhaid addef fod y trysor nefol a gaed ynddi yn fwy o fri iddi na dim arall. Rhag i mi gadw y darllennydd yn rhy hir oddiwrth y testyn, ceisiaf ddweyd bellach paham mae fy ardal yn hynod.

## (a) AM FOD EI GWEDD ANIANYDDOL YN HYNOD.

Mae yn ddiarhebu y gellir dweyd hyn am lawer o ardaloedd ereill, ond credaf y gellir ei ddweyd gyda phriodoldeb arbennig am ardal Gwynfynydd. Mae ei golygfydd yn ardderchog. Oddiar friddoedd Tyddyn Gwladys gwelir y rhes mynyddau sydd yn cadw Dyffryn Ardudwy o fewn ei derfynau; ond edrych i gyfeiriad gwahanol, gwelir Cader Idris yn ymgodi i gyfrinion yr uchder, ac yn rhwydd o hyd yn rhoddi herr i gorwyntoedd gerwinder; a "Nannau fawr yr enw Vaughan" ar le uchel yng nghanol coed, mewn gormod o yswildod i ddangos ei hun. Wedi troi i edrych i gyfeiriad gwahanol eto, gwelir nad yw y Robell gyda'i heglwys anianyddol wedi ei gosod yn yr un safle a'r mynyddoedd sydd o'i hamgylch; ac nad ydyw edrych i gyfeiriad Cwm yr Allt Lwyd a Chwm Dolgain yn dlawd o swynion. Yng ngwaelod fy ardal mae Pistyll Cain yn cadw distawrwydd yn ei fedd yn y fan ar hyd yr oesau, a llwybr ar y graig yn arwain ato; a diarhebu fod y creigiau aruthrol sydd yn ymgodi yn sythion uwch ei ben wedi gweled pob math o wynebaw, ac wedi clywed aml i iaith estronol yn oeri eu gruddiau Cymreig. Wrth sylu ar y graig o gylch y llwybr sydd yn arwain ato, gwelir fod llawer llaw wedi gosod ei hol arni, ond y peth hynotaf sydd wedi ei dorri arni ydyw,—“Di ra ra di bwm di ey.”

Yn ymyl Pistyll Cain, yn uno i wneyd yr un gwaith, yn gweled ac yn clywed yr un pethau, mae Rhaiadr Mawddach, yn disgyn i lyn mor ddu a llygredigaeth. Mae anian yn ei nerth yn yr ardal hon. Ar hyd ei gwaelod mae coed tewion fel ymylwe ddu yn arwyddo galar ar wisg. Ac wrth rodio danynt,

“Ar goedd Dy bistylloedd Di,”

yng nghwmni trymaidd y nos, byddaf yn tybio fy mod yn clywed chwaon o dragwyddoldeb yn suo yn y coed o'm hamgylch. Ond,

“Mae'r wawr yn dod ar ol pob nos,  
Ac ysgafn yw fy ardal dlos.”

## (b) AM FOD YNDDI WEITHIAU ENWOG WEDI BOD.

Yn yr ardal hon mae tri o weithiau mawrion wedi bod yn addurn iddi ac yn ffon bara i lawer o bobl, set gwaith aur Gwynfynydd, gwaith aur Cwmheisian, a gwaith powdwr Tyddyn Gwladys. Nid oes gweithio yn yr un o'r ddau olaf ers blynyddau, ac y mae'r cyntaf fel rhwng byw a marw ar hyn o bryd. Mae eu hadeiladau mawrion a chostus yn aros eto; ac mae yn werth dod o bell i gael golwg arnynt, er mai gwedd hynod o segur sydd ar lawer ohonynt heddyw.

Mae olion y mwnwyr i'w gweled ym mhob man o'r bron hyd yr ardal; ac maent wedi mynnu cael gwybod beth sydd yn ei chrombil; ac mae mwy o ffyrdd, a rhyfeddodau mwy ardderchog oddifeuwn i dir Gwynfynydd, nag sydd ar ei wyneb oddiallan; a gellir dweyd am lawer darn o'r ddaear ei bod yn setyll ar ddim.

(c) AM MAI YNDDI MAE CWMHEISIAN GANOL.

Ychydig yn uwch na Rhaiadr Mawddach mae pont yn croesi yr afon, a ffordd yn myned i fyny trwy y coed yr ochr arall i'r Fawddach. Ar ol myned allan o'r coed, mae tri o dyddynod i'w gweled,—y tri Cwmheisian, sef yr “uchaf,” y “canol,” a'r “isaf.” Ond i'r “canol” yr ydym ni am fyned y tro hwn. Dyma'r lle y ganwyd ac y magwyd un o brif enwogion Cymru, neb llai na'r anfarwol Williams o'r Wern. Nid oes neb yn awr yn byw yn nhy ei enedigaeth. Adeiladwyd ty arall ar ol hynny yng nglyn wrth yr un adeilad y ganwyd Williams ynndo. Mae llawer o'i furiau yn y ddaear, fel aml i hen dy Cymreig arall. Mae ei wedd yn debyg iawn i'r arwr ei hun,—“wedi marw, yn aros eto.” Dyma'r man, yn swn soniarus yr adar, ac yng nghanol y defaid a'r wŷn, y bu Williams yn cael ei dymher lawen a chwareus; ac yng nghanol blodau yr ardal y meddiannodd ei sirioldeb. Ac er na wyddai ei dad pa beth a ddeuai o hono pan oedd ef yn ieuanc, mae y byd yn gwybod heddyw beth a ddaeth o'r bachgen o Gwmheisian Ganol ar ol y noswaith bythgofiadwy honno ym Medd y Coediwr, pan oedd ef oddeutu tair ar ddeg oed, trwy ei waith yn ufuddhau i Lewis Richards (taid Lewis a John Richards, Trawsfynydd, yn awr), a'i waith yn gwrando ar yr efengyl a bregethid gan Rhys Dafis. Fe fydd son am Cwmheisian Ganol tra bydd yr enw Williams o'r Wern yn perarogli.

Mae gennyf un peth eto sydd yn werth ei ddweyd, a glywais gan Mr. William Pugh, Pantglas. Yn Bryn Gath, yn ymyl fy ardal (os nad allat ddweyd yn fy ardal), mae hen fegin wedi ei phrynnu yn siop Charles o'r Bala; ac er mai megin ydyw, credaf ei bod yn werth ei chadw, gan ei bod wedi dytod o'r fath le.

*Tyddyn Gwladys*

JOHN H. WILLIAMS.

LLONG FWYA'R BYD.

Y CERBYC yw, eiddo y White Star Co., ac y mae hi newydd orffen ei mordaith gyntaf rhwng y wlad hon a'r Amerig. Adeiladwyd hi yn Belfast, Iwerddon. Agerlong gydag ysgriw ddwbl ydyw, a'i gallu cludol yn 20,984 tunell, a'i gallu peiriannol yn ogryfed a 13,350 o geffylau. Ei hyd mwyaf yw 700 troedfedd. Ar ei mordaith gyntaf yr oedd hi mor ddiysgog fel nad aeth neb yn sal o glefyd y mor.

## CANEUON PLANT RHOSTRYFAN.

V. AMRYW.

(1) AB BRIDAS ROBERT A LIZZIE.

Robert hoff, mor bur wyt ti,—yn ifanc  
Yn nefoedd serch Lizzie;  
Ymgredaist a haeddaist hi—  
Yr ydwyt yn priodi.

O mor wyn ym Mai yr oes—fireindwf

Yw'r undeb dianfoes;  
Llawenydd gweddill einloes  
Sy'n hud liw ei swyn di-foes.

A thlysed hithau, Lizzie,—wawr ei hoes,

A modrwy hardd ganddi;  
Ni wel haul yr un lili  
Wena'n ol ei swynion hi.

(2) MYND I'R YSGOL.

Astudiwn yn wastadol,—i fynd  
Mae'r faner fuddugol;  
Unrhyw werth ni chawn ar ol  
Rhyw eagus mynd i'r Ysgol.

(3) Y MEDDWIN.

Swyn y dafarn sy'n deifio,—ei allu,  
Oes ewyllys ganddo?  
Awr y Farn, a haera fo—  
"Dyma lasiad i 'mhlesio!"

(4) BEDD GWR HOFF.

Un amharch ni chawn yma,—yn y  
Hen ŵr hoff orwedda; [rhych  
Onid oedd ei enw da  
Yn grandiach nag aur India?

J. R. TRYFANWY.

## DEFFRO, FY MABAN.

FY maban tlws; fy maban tlws!

Pa bryd y gwnei di ddeffro?  
Llygad y dydd sydd ar ddihun,  
A'r gwlithyn sy'n disgleirio;  
Mae'r adar mân yn pyncio cân  
Rhwyg y canghennau gwyrddion.  
Fy maban tlws! fy maban tlws!  
Agor dy lygaid gleision!  
Fy mhlentyn tlws! fy mab dinam!  
Clyw! deffro, deffro! clyw dy fam!

Fy maban tlws! fy maban tlws!

Nis gall yr ardd dy ddenu,  
Gwn fod gerddi Gwynfa'n well,  
Ai arnynt wyt yn gwenu?  
O! gwenâ arnaf fi, fy mab!  
Gwnaf bopeth er dy gadw.

Fy maban tlws! fy maban tlws!

O Dduw! na ad iddo farw!  
Fy mhlentyn tlws! fy mab dinam!  
Clyw! deffro "bach," er mwyn dy  
fam.

Fy maban tlws! fy maban tlws!

Fy mherl, rho imi gusan,  
Rho i mi wên,—dim ond un wên,—  
Fy maban! O! fy maban!  
Nis gall y blodau'th ddeffro di,  
Yn ofer cana'r adar!  
'Rwyf wedi mynd i'r Wynfa fry,  
Ehedeg wnest yn gynnar!  
Fy mhlentyn tlws! fy mab dinam!  
Hiraeth dorra galon dy fam.

CREDIG AMAN.

## DYFFRYN CONWY:

Mor llon yw Dyffryn Conwy,—a'i geinion

Gogoniant gweladwy;  
A'i hylif gwin o lif gwy  
Yn burlan dan bob arlwy.

Llanrost.

Arddunol fras wir ddenol fro,—a Duw

Yn dal i'w bendithio,  
Dyffryn a'i lu yn deffro,  
Rhyw fyrdd iach ar ei fwrdd o.

ROBERT EVANS.





Y PARCH. JOHN WILLIAMS, PRINCES ROAD, LERPWL.

**Y PARCH. JOHN WILLIAMS.**

**Y** MIS hwn, wele un o gynrychiolwyr y pulpud, gweinidog un o'r capelau Cymreig pwysicaf yn y byd. I'r pulpud y cyfeiria talent oreu Cymru eto,—yn hyawdledd, gwreiddioldeb, nerth cymeriad, a dysg. Nid o fysg pregethwyr y detholir aelodau seneddol fel rheol, nid ar eu tywysogion hwy y rhydd ein Prifysgol ei choronau; ond, os na chant y gallu a'r goron, eu heiddo hwy yw'r gwaith. Y mae'n Hysgol Sir, ein Coleg, ein Prifysgol, oll yn bwysig erbyn hyn; ond, fel gallu i addysgu a dyrchafu gwerin, nid ydynt oll ond egwan o'u cydmaru â'r pulpud.

Un o feibion Môn yw y Parch. John Williams. Yn Llandyfrydog y ganwyd ef, ym Mhorthaethwy y cafodd ei addysg, ym Mrynciencyn yr enillodd glust Cymru; ac, fel llawer o feibion Môn, trodd i Lerpwl i gylch eangach. Rhoddodd Rhagluniaeth lawer o gymorth iddo,—corff iach a lluniaidd, llais areithfa, ac athraw Ysgol Sul da. Y mae yntau wedi gwneyd ei oreu i gyfaddasu ei hun at ei waith,—yn aros yn fyfyrwr ac yn weithiwr caled ar hyd ei oes. Rhydd ei oreu yn ei bregethau.

Clywais un o wyr mwyaf diwylliedig ei oes yn desgrifio un o bregethau argyhoeddiadol Mr. Williams mewn cymanfa; er ei bod fel cleddyf llym dau finiog, dywedai fod y meddwl yn aruchel drwyddi, a'r chwaeth yn berffaith bur. Clywais was fferm ar ei wely angau, bachgen di-ddysg a digon dwl, yn son yn ddiolchgar am yr un bregeth; ac yr oedd y bregeth honno wedi newid ei fywyd drwyddo.

### A Y DYFFRYN.

S WYN leinw'th enw, O mor hardd  
wyt ti,  
Fel Eden ardd, yn llwythog dan dy tri;  
'R awelon hoffant ddawnsio ar dy fron,  
Tra'n cynghaneddu eu halawon llon;  
A sibrdw wnant i'th glust rhwng dall  
y coed,—

"Bob blwyddyn glesni hedd  
Ganfyddwn ar dy wedd,  
Ein nefoedd yw dy fynwes di erioed."

Fedd creadigaeth Duw 'run lle yn bod  
Deilynga safle uwch ar restr clod;  
Mor anwyl wyt! Mi wn fe'th gerfiwyd  
di

A phwyntel cariad yn fy nghalon i;  
D'anghofio di ni wnaft tra taena nos

A'i llaw ei mantell laes  
Yn blygion dros dy faes;

Tra haul yn paentio gruddiau'r pryd-  
ferth ros.

*Ponterwyd.*

Y bryniau ban a'th wylant ar bob llaw  
Fel Engyl Hedd, gan gadw'r stormydd  
draw, [lwydo'th wedd,  
Rhag ofn i'w gwyntoedd oerion  
Neu yn eu lliid roi rhosyn yn ei fedd,  
Neu aflonyddu hun dy feibion sydd  
Yn dy briddellau prudd,  
Yn diagwyl toriad dydd,  
Y rhai fu'n gosod sylfaen Cymru fydd.

Cusanu'th ruddiau mae'r afonig fwyn,  
Tra'n ymddolennu 'mlaen o lwyn i  
lwyn;

Dy ddolydd sydd yn gwenu mewn  
mwynhad [wlad;"]

Dan drwmlythy o fendithion "Duw y  
Ymagor 'rwyf yn lletach, lletach, draw,

Wyt ddarlun bychan byw  
O'r wlad lle mae fy Nuw,  
Sy'n dal dyffrynnoedd byd yng nghwrr  
ei law.

R. LLOYD JONES.

### CYNHAUAF MOR-BYSGOD.

CYFANSWM gwerth y pysgod morawl ddaliwyd ar lannau y Deyrnas Gyfunol yn y flwyddyn 1901 oedd ychydig dros £9,000,000. O'r swm hwn yr oedd yr *haddock*s yn werth £2,237,196, a'r penweig yn werth £2,028,781. Ychydig tros ddimai y pwys oedd pris y penweig, a cheiniog a dimai y pwys geid am yr *haddock*s. Y ddau bysgodyn yna yw y rhai mwyaf enydfawr ar ein harfordir ni.

**MORDAITH CAPTEN COOK.**

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

VII. AR DIR AWSTRALIA.

**I**FOR. Dywedech, fy nhad, fod Capten Cook a'r lleill yn disgwyl y caent groesaw gan yr Awstraliaid.

**TAD.** Yn hynny cawsant eu siomi. Oblegid ar eu gwaith yn cyraedd at y lan, daeth dau o'r brodorion i'w cyfarfod i wrthwynebu eu glaniad, a chanddynt waewffyn yn ddeg troedfedd o hyd. Gwaeddasant ar ein morwyr ar uchaf eu llais, mewn dull bygythiol, ac mewn iaith nad oedd hyd yn oed Tupia yn ei deall; ac ar yr un pryd ysgydwent eu harfau fel arwydd i'n boneddwy'r y buasai yn gollu bywyd arnynt os sangent eu tir. Er nad oeddent ond dau ar gyfer deugain o'n gwyr, ymddanghosent yn hollol barod i frwydr. Edmygodd Capten Cook eu gwroldeb yn fawr; ond yr oedd yn fiin ganddo am eu hanoethineb yn codi arfau yng ngwyneb gallu mor anghyftartal. Gorchymynnodd i'r badau sefyll; penderfynodd beidio glanio hyd nes ceisio, ym mhob modd a allai feddwl am dano, i'w hennill i fod yn foddllawn. Gwnaeth ein boneddwy'r gynnyg gwneyd eu hamcan yn ddealedig iddynt drwy arwyddion, ac ennill eu cyfeillgarwch drwy wobrwyon, y rhai a deflid i'r lan atynt. Ymddanghosai fod y pethau tlws a defnyddiol hynny wrth eu bodd. Rhoddodd y Capten arwydd eu bod am gael dyfod i'r lan i ymfyn dŵfr; ac os yn foddllawn ganddynt, iddynt arwyddo hynny. Deallwyd y cais gan y brodorion, a rhoddasant arwydd o wrthwynebiad cryf. Yna, wedi methu drwy bob ffordd y gallai y Capten feddwl am dani, ag oedd yn esmwyth a theg, gorchymynnodd danio ergyd i basio rhwng y ddau wron. Yna daeth y llanc, yr hwn oedd tua deunaw oed, a chanddo nifer o waewffyn, a gosododd hwy ar lawr yn ymyl y dŵr; ond cyn ymsythu o hono, cododd hwynt i fyny gyda brys, a thafodd garreg at y boneddwy'r. Gorchymynnodd y Capten danio ergyd o fân belenau atynt, a chlwyfwyd yr hynaf yn ysgafn ar ei gluniau; yna rheddodd i un o'r bwthynod oedd gerllaw. Yr oedd y Capten yn gobeithio yn awr bod yr ymrafael ar ben, a glaniodd ef a'i wyr; ond prin yr oeddent wedi rhoddi eu traed ar dir, cyn y dychwelodd yr Awstraliaid, wedi bod yn cyrchu ei darian i'w amddiffyn, a thafodd ef a'i gyfaill eu gwaewffyn i ganol ein morwyr; ond ni ddigwyddodd yr un niwed. Wedi i'n dynion danio ergyd atynt, tafodd un ohonynt bicell arall at ein dynion, yna rhedasant ymaith gyda'r brys mwyaf. Wedi hynny, aeth ein gwyr rhag eu blaen i'r bwthynod, gan dafu i mewn i bob bwthyn lle y gwelent blant, rubanau, gleiniau, darnau o frethyn, ac amryw o bethau

defnyddiol ereill, gan obeithio y buasai hynny yn ennill ewyllys da y trigolion. Ond ar waith y boneddwyr yn dychwelyd yn ol y ffordd honno y dydd canlynol, siomwyd hwy wrth weled y gwobrwyon a adawsant i'r plant heb eu symud o'r lle y gadawyd hwynt; ac nid oedd yr un o'r bobl yn y golwg. Ar y 30ain, gwelsant nifer o'r brodorion yn y pellder; ond ni chawsant yr un cyfle yr adeg honno i geisio ffurfio cyfeillgarwch â hwynt. Felly, yr oedd masnachu â hwynt allan o'r cwestiwn; deuent yn awr ac yn y man yn nes at ein gwyr, ond nid yn agos; ac ar ol gwaeddi a gwneyd llawer o ystranciau bygythiol, diangent yn ol i'r goedwig. Cymerodd y Capten gyfleusdra ar y symudiad hwnnw i ganlyn ar eu hol wrtho ei hun, heb yr un math o arf ganddo, ond cadw ymhell a wnaent; felly, ni chafodd yr un sicrwydd gweledig fod ei gynllun wedi dylanwadu dim arnynt.

IFOR. Gresyn. Yr oedd yn anodd gweled y wlad felly.

TAD. Oedd. Eto gwelwyd llawer o honi. Ar y cyntaf o Fai, gwnaeth ein morwyr orymdaith i'r wlad. Yn gyntaf, cyfeiriasant eu ffordd at y bwthynod crybwyllledig, y rhai oedd gerllaw ffynnon o ddwfr pur, lle yr arferai'r brodorion gyrchu iddo yn fynych am ddwfr, ac i ymorffwys, a chymdeithasu â'u gilydd. Gwelodd ein mordeithwyr nad oedd dim o'r pethau tlyision a defnyddiol a adawsant yno yn flaenorol wedi eu symud o gwbl; er hynny, gosodasant yno yn ychwanegol rai pethau gwahanol, yn gribau, a drychau, papurau a hoelion.

IFOR. Fy nhad, paham yr oedd cymaint mwy o anhawsder i ennill y brodorion hyn, nac a gafwyd i wneyd cyfeillion o anwariaid ynsoedd Môr y Deheu?

TAD.—Yr wyf yn tybio mai y prif anhawsder oedd na fedrai Tupia siarad â'r brodorion yma fel y gwnaeth efe â holl anwariaid ynsoedd Môr y Deheu. Yr wyf o'r farn bod brodorion New Holland yn ddynion gonest, er yn anwariaid; a phe gallesid llwyddo i beri iddynt ddeall mai rhoddion iddynt oedd y gwobrwyon crybwyllledig, ac nid cynllun i'w profi oedd gosodiad y pethau tlyision a dymunol hynny mor gyfleus iddynt, buasai yn ddigon hawdd ennill eu cyfeillgarwch.

IFOR. Fath wlad welodd ein morwyr yn Awstralia?

TAD. Mewn perthynas a diwyllio y tir yn y rhan yma o'r wlad, nid oedd bod yno lawer o goed yn rhwystr, oherwydd yr oeddynt yn dalsyth, ac heb fod yn rhy agos i'w gilydd, ac heb fân goed o tanynt; ac yn y cyfwng rhwng y coed yr oedd cyflawnder mawr o borfa fras yn tyfu. Gwelodd ein teithwyr ar eu ffordd lawer o dai y brodorion; eithr heb ganfod ond un o'r bobl, yr hwn a redodd i fwrdd yn union pan y canfu y dynion gwynion. Ym mhob man ar eu taith, mewn lleoedd cyfeus i'r trigolion, gadawodd y bonedd-

wyr y rhoddion tebycaf i'w denu i'w derbyn a'u defnyddio, gan obeithio y buasant yn llwyddo i bwrcasu eu hymddiriedaeth. Canfyddasant, am y waith gyntaf, olion traed anifeiliaid, cyn gweled yr yn ohonynt, yr hyn a barodd iddynt fod ar eu gochelgarwch. Ar y coed uwch eu pennau yr oedd adar o wahanol fathau, yn lliaws dirifedi, yn cynnwys y *loriquets*, y *cockatoos*, ac amryw o fathau ereill, a'u prydferthwch y tuhwnt i ddesgrifiad. Yr oeddent yn ehedeg yn wahanol heidiau, yn cynnwys amryw ugeinfau ymhob haid. Anfonwyd Mr. Gore ac un o swyddogion y llong gydag ef i hel llameirch. Ar eu ffordd daethant gerllaw i un ar hugain o'r brodorion, y rhai a'u canlynasant, ac yn fynych buont o fewn ugain llath iddynt. Wrth eu gweld yn canlyn mor agos, safasant, gan edrych yn wrol arnynt; yna safodd y gatrawd, a phan y cychwynnodd y ddau Brydeiniwr, dilynasant hwythau. Er bod yr anwariaid oll o dan arfau, ni wnaethant ymosod; felly, cyrhaeddodd Mr. Gore a'i gyfaill yn ddiogel i'r man lle yr oedd gwyr y llong yn llenwi y dwfr lestri at eu gwasanaeth. Pan welodd y brodorion ryw dwrr o chwech neu saith o'r tylwyth gwynion yno, ni ddaethant yn nes iddynt na rhyw bump neu chwe chant o lathenni. Anturiodd Mr. Monkhouse a dau neu dri gydag ef i'w gwynebu, nid i frwydro â hwynt, eithr i geisio eu denu, a phan welsant fod y brodorion wedi ymarfogi, encillasant yn ol gyda brys. Gwnaeth hyn y perygl yn fwy; oblegid fe redodd pedwar o'r brodorion yn union ar eu hol, a thafasant eu gwaewffyn mor nerthol atynt nes disgyn ohonynt o'r tu blaen iddynt. Yr oedd ein gwyr yn meddu digon o wroldeb i sefyll a chasglu y picellau. Yna, gwelodd y pedwar gwron mai diogelach oedd iddynt symud ychydig yn ol. Ar y pryd hwn daeth y Capten i'r fan, gyda Mr. Banks, Dr. Solander, a Tupia. Yr oedd yn teimlo yn dra awyddus i argyhoeddi'r brodorion nad oeddent yn eu hofni, nac yn bwriadu gwneyd niwed iddynt. Dechreusant symud tuag at y brodorion, gan geisio dangos drwy arwyddion eu bod am wneyd cyfeillion â hwynt, ac hefyd am fasnachu â hwy. Ar ol eu hymdrech, ni chawsant yr arwydd lleiaf eu bod wedi llwyddo i ddylanwadu dim arnynt. Yr oedd y gradd o eofndra a welodd y brodorion ar diriad cyntaf y dynion gwynion yn eu gwlad wedi achosi iddynt deimlad cymysglyd o ryfeddod a dychryn. Yr oedd y llong anferthol, ynghyd â'r arfau tân ofnadwy, yn gwneyd i'r olygfa, er ei bod yn fawreddog, oherwydd sydynrwydd yr ymddanghosiad, beri mesur o anhapusrwydd iddynt. Nid oes gennym y gradd lleiaf o le i gredu i'r brodorion dderbyn unrhyw niwed o bwys oddiar law ein boneddwy; er hynny, mwy na thebyg eu bod yn gwybod mai ofnadwy o beryglus oedd y dryll. Gwelsant yn ddiamheu, o'u cuddleoedd, rai o gwmni y llong, yn enwedig Tupia,

yn saethu adar, oherwydd yr oedd ef yn gampwr ar y gorchwyl hwn. Digwyddodd unwaith, pan oedd allan yn saethu *parrots*, i naw o'r brodorion ddyfod heibio iddo, ac ar ei waith yn cwmpo aderyn, dychrynasant, gan redeg ymaith fel am eu bywyd. Ar y 3ydd o Fai, aeth Mr. Banks i gasglu llysiau o gylch y ffynnon; ac aeth y Capten, Solander, a Monkhouse, i ben pellaf y forgilfach i archwilio y parth hwnnw o'r wlad, a gwneyd cynnyg ychwanegol i ymgysylltu a'r brodorion. Ar y daith hon, gwnaethant sylw manwl ar natur y tir, a pheth oedd yn angenrheidiol er ei diwyllio. Methasant y waith yma eto ag ennill sylw y brodorion, heb son am ffurfio cyfeillach â hwynt. Y diwrnod canlynol anfonwyd amryw ar yr un neges atynt.

*Dinas y Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

---

### URDD Y DELYN.

#### Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymraeg.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

---

### AELODAU NEWYDDION.

#### CANGEN LLANUWCHLLYN.

(ENWAU YCHWANEGOL.)

1807—1820.

Kate M. Roberts, Madoc; Haf Edwards, Bryn'raber; Catherine Davies, Cefnfaes; Dora Catherine Jones, Eithinfynydd; Gwennie Richards, Trem Tegid; Nellie Jones, Ty Nant; Ernest Evan Roberts, Madoc; Ifan ab Owen, Bryn'raber; John W. Jones, Eithinfynydd; Gwyndaf Owen Morris, Plasdeon; Edward Evan Richards, Bwlch y Fwled; Arthur Williams, Dolhendre; Willie Jones, Ty Nant.

## YN HEN WLAD GOSEN.

GAN MRS. G. D. GRIFFITH.



**D**ERBYNIODD Monsieur Prieste ni yn y dull dwyreiniol. Yr oedd, fel pob Ewropead sydd yn byw yn yr Aifft, wedi ymwisgo yn null y Dwyrain.

Gynted ag yr eisteddasom, ac yr awd trwy'r seremoniau arferol, curodd Monsieur Prieste ei ddwyllaw. Ar yr arwydd hwnnw, daeth caethwas bychan a choffi. Yr oedd y coffi mewn cwpanau china hynod fychain, a phob un ohonynt mewn cwpan arall fwy o fetal rhwydyllog. Yn ol syniad y Tyrchiaid am groesaw a moesau da, cynhygiwyd y coffi i wr y ty yn gyntaf. Yr oedd y ddiod yn dew iawn ac yn gref. Yr oedd ein coffi ni yn felus iawn hefyd. Ni chymer y Tyrchiaid laeth na siwgr yn eu coffi; ond

tybiant fod Ewropeaid yn hoff iawn o siwgr, a melysant eu coffi er croesaw iddynt.

Tynnid ein sylw gan y caethwas bychan ddeuai a'n cwpanau coffi i ni. Yr oedd tua deuddeg neu dair ar ddeg oed, ac yr oedd ganddo un o'r gwynebau mwynaf a mwyaf deallus a welais erioed, er ei fod yn ddu loew-ddu. Nis gallwn beidio holi ei hanes, a chefais yr hanes yn un dyddorol iawn. Danghosai hefyd beth yw safle caethion yn yr Aifft yn awr.\*

Yr oedd y caethwas wedi bod gyda Monsieur Prieste ers tair blynedd, a daeth i'w feddiant fel y canlyn. Digwyddodd droi ryw ddiwrnod i farchnad y caethion. Gwelodd y bachgen yno ymysg ereill ar werth. Tynnwyd ei sylw at ei wyneb prydferth a deallgar, a hoffodd ef yn fawr. "Faint yw ei bris?" meddai. "Deuddeg punt," oedd yr ateb. Prynnodd ef ar unwaith; ac ysgrifennodd bapur yn rhoddi ei ryddid iddo. "Nid wyt yn gaethwas mwy," meddai wrtho, "yr wyt yn rhydd, dos lle y mynni."

Ond, yn lle llawenhau, syrthiodd wynepryd y llanc, a thrithaodd yn fawr. "Fy nhad," meddai, "onid wyf yn eiddo i ti? I ba le yr af os gadewi fi? Gad i mi dy ddilyn, a gwasanaethaf di hyd eithaf fy gallu. Dy gaethwas ydwyf, na ad fi."

\* Yn 1845.

Dygodd Monsieur Prieste ef adre, ac y mae gydag ef byth er hynny. Y mae wedi ei ddysgu i ddarllen ac ysgrifennu. Gwaith y bachgen yw gwasanaethu ei ryddhawr,—gwneyd ei goffi a thanio ei bibell.

Yn awr, rhoddwyd pibellau i bawb, a cheisiodd y boneddigion ysmegu yn y dull Tyrcaidd. Yr oedd y pibellau yn ddwy lath o hyd, a'r tybaco wedi ei bersawru. Gwlychid hwy yn awr ac eilwaith gydag ysbwng gwlyb, i oeri'r mwg wrth iddo fynd i fyny trwy'r bibell, ac i rwystro'r amber sydd ar flaen y bibell rhag mynd yn rhy boeth i'r genau.

Danghosodd Monsieur Prieste i ni lafnau cleddyfau a chyllill prydfferth, o wneuthuriad Arabaidd a Thyrciaidd. Yr oedd y dur wedi ei dymheru yn dda. Yr oedd gemau wedi eu gweithio i rai ohonynt, ac yr oedd y rhain yn ddrudfawr iawn.

Ond y peth goreu ddanghosodd inni oedd darluniau o'i waith ei hun. Golygfeydd yn yr Aifft ydyw, lle mae'r arlunydd wedi byw mor hir. Y mae wedi llwyddo'n rhyfedd i ddarlunio y lliw tyner meddalaidd sydd ar bopeth yng ngwastadedd firwythlon yr Aifft Isaf; a'r lliw tanbaid hwnnw sydd mor nodweddiadol o'r anialwch a'i gyffiniau. Yr oedd prydfferthwch rhyfedd y darluniau hyn yn gwneyd i mi deimlo yn siomedig na fuaswn wedi ymweled â mwy o hen adfeilion yr Aifft, megis adfeilion Thebes.

### Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.

#### IV. CERDDORIAETH (*Music*.)

**D**YSGA gerddoriaeth,—y *music* byw,  
Wefreiddia y galon, a swyna'r  
clyw;

Y gallu i ymarfer cynganedd sain  
Trwy lais neu offeryn,—yn gryf neu  
fain.

Dysga gerddoriaeth,—y nodau mân,  
Sy'n cynrychioli eneidiau ar dân;  
Y ddwyfol dôn, a'i dylanwad mwyn,  
A fodda y meddwl fel diluw swyn.

Dysga gerddoriaeth,—ei gwyddor yw  
Rhyw wyth cymeriad mor syml i'r  
clyw;

Ond wedi'u cymysgu a'u trefnu'n iawn,  
Ca'r glust gyda'r enaid foddlonrwydd  
llawn.

Dysga gerddoriaeth, fy mhlentyn glân,  
Mae'r byd mewn angen am fwy o gân;  
Fe gilia pryderon gofidiau lu,  
Os dysgi gerddoriaeth cynganedd gu.


R. EUROG JONES.

---

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLLYN, Y BALA.



## AT Y PLANT.



**SWALD.** 1. Daniel Owen yw awdwr y Dreflan. 2. Nid wyf yn cofio ymha nofel Gymreig y daw desgrifiad o gweirio gwair. 3. Cewch ddesgrifiad o etholiad hen ffasiwn yn "Pickwick Papers" Dickens a "Handy Andy" Lover.

**BOR.** Gellwch goelio'r morwr ddywedodd iddo weled rhew melyn a rhew coch. Y mae i'w weled yn noffio ar y môr. Dywed gwyddonwyr mai mân greaduriaid defir ar y rhew gan y tonnau sy'n gwneyd y lliw. Y maent yn rhy fach i'w gwled gyda'r llygad noeth, ond y mae llu dirifedi o honynt yn rhoddi lliw ar y peth a guddiant.

**UN O'R DYFFRYN.** Yr wyf yn bur hoff o liwiau gemau, ond ni byddaf yn hoffi gwled dynion yn gwisgo modrwyau. Mae eisieu'r llaw o hyd at waith; ac y mae addurn ar y ffordd. Clywais y Parch. Michael D. Jones yn dweyd lawer gwaith,—“Os gwelwch fodrwy ar law gŵr 'n awr, gallwch benderfynu fod rhyw wendid yn ei ben e'.” Ond rhy arw yw dweyd hynny.

**L. O.** Nid wyf yn sicr prun yw'r pren uchaf yn y byd, ond yr wyf yn meddwl mai naill ai pren eucalyptus Awstralia neu *Sequoia gigantea* America. Mesurwyd y naill yn 478 troedfedd, a'r llall o 420 i 470.

**HOFF O DDARLEN.** Ie, gwledydd rhyfedd iawn yw Corea a Thibet. Bydd hanes y ddwy wlad yn un o'r rhifynnau nesaf, os bydd y darluniau'n barod.

**SILURIAID.** Ym Mountain Ash (Aber Pennar) y bydd Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf.

**SAM CA'R DYDD.** Oes, y mae pysgodyn fedr fyw ar y tir. Ei enw gwyddonol yw *Periophthalmus Kolreuteri*. Ceylon, ac Ynysoedd India'r Dwyrain, yn ei gartref. Defnyddia ei esgyl fel traed, a medr neidio hyd wyneb dŵr neu dir.

**BILI BLAEN Y CWM.** “Prun yw'r enwad goren yng Nghymru?” Bili druan, dyna gwestiwn! Nid oes yr un golygydd feiddia ei ateb, os na fydd ar fin cychwyn i Ganolbarth Affrig.

**HU GADARN.** Oes, y mae lle i blant mewn crefyddau heblaw Cristionogaeth. Gwelais ddarluniad o deml yn Japan lle'r oedd allor i blant, a theganau a dillad plant yn rhoddion arni.

**BEN T.** Nid oes yr un ysgrifennwr Saesneg da yn ysgrifennu “started” yn lle “commenced” neu “began.” Y mae defnyddio termau fel hyn yn arwydd, nid yn unig o absenoldeb arddull gain a choeth, ond o lacrwydd meddwl hefyd.



DIWYDIANNAU CYMRU. VII. GWAITH Y CREGIWR.



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XIII.

AWST, 1904

RHIF 152.

---

## ROBBIE BACH A'R OEN.

GAN J. R. HUGHES, BIRMINGHAM.

**M**EWN llecyn rhamantus yng Nghymru, saif pentref sydd wedi ei amgylchynu ar bob tu gan fynyddoedd. Mae wedi ei amgylchynu mor llwyr, fel y gwelodd rhywun yn dda awgrymu, yn enw y pentref, nad oedd mynediad iddo heb fyned ar "Draws y Mynydd."

Ers llawer o flynyddau bellach mae y March Tân wedi gorchfygu y mynyddau, er mor uchel ydynt; a gellir ei weled, bob awr o'r bron, yn llithro yn chwynn, gan adael cynffon wen hir dros greigiau ysgythrog yr ardal.

Er cymaint o fanteision y mae y March hwn yn eu hestyn i'r trigolion, nid yw heb ei beryglon, yn enwedig i eiddo y ffermwyr parchus sydd a'u tiroedd yn ymylu ar ei lwybr.

Un dydd o wanwyn, ychydig o flynyddau yn ol, gallesid gwelod oen bychan, gyda'i wlan yn wynnach na'r eira, yn ymbrancio ar ochr y llinell. Yn y pellder gallesid clywed twrf, ac mewn moment yr oedd cerbydres i'w gwelod yn agoshau. Erbyn hyn yr oedd yr oen bach ar ganol y llinell. Mewn ychydig o eiliadau buasai y peiriant, gyda rhes o gerbydau trwmlywthog, wedi myned trosto, ac wedi ei talurio,—ond yr un eiliad neidiodd bachgen chwim, wythmlwydd oed, yr hwn oedd yn sefyll gyda'i fam ar y bont uwchlaw, dros y "fencing," ac i lawr yr ochr serth; a phan nad oedd y

peiriant ond dwy lath oddiwrtho, gafaelodd yn yr oen. Ond O ! wrth geisio dianc, ymfaglodd, gan ddisgyn ar y rheiliau.

Gwelodd y gyriedydd y perygl, ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Yr oedd y fam ar y bont wedi disgyn mewn llewyg. Aeth y gerbydres heibio, a chawd y bychan yn well ei gyflwr nag y gallesid dychmygu.

Trwy ryw wyrth, disgynnodd yn glir o'r rheiliau, a'r cwbl yr oedd yn dioddef oddiwrtho oedd ei ben, yr hwn oedd wedi ei daraw mewn carreg wrth ddisgyn. Am yr oen bychan, yr oedd y llanc wedi ei dafu fel ag y disgynnodd yn holliach yn y tir glas gerllaw.

Ymwelwyr â'r pentref oedd y llanc bach a'i fam. Ymhen diwrnod neu ddau yr oedd ef a'i fam wedi gwella yn weddol o'r ysgydwad oeddynt wedi ei gael; ac yn wobr am ei wroldeb, anrhegodd gŵr y T— (perchennog yr oen) y gwron bychan â'r oen bach oedd wedi ei achub.

Wedi mwynhau awelon iach yr ardal am ychydig, dychwelodd y foneddiges a'i mab bychan i'w cartref, a thrysor pennaf Robbie oedd ei oen bach,—“Wil,” fel y galwai ef.

Capten llong oedd ei dad; ac yn fuan ar ol eu dychweliad hwy, daeth y tad hefyd o'r môr am ychydig seibiant, tra y buasai ei long yn y porthladd. Wrth gwrs, adroddwyd iddo gyda dyddordeb hanes yr oen bach. Pan oedd y llong yn barod i ail gychwyn ei phererindod ar y tonnau, penderfynnodd y Capten gymeryd ei briod a'i wron gydag ef, gan nad oedd iechyd ei briod yr hyn ddylasai fod; ac yr oedd yn tybied y buasai mordaith i'r gwledydd hafaidd yn adgyfnerthiad iddi. Nid anghofwyd Wil, yr oen, wrth gwrs; ac yr oedd Robbie a Wil yn ben cyfeillion.

Trwy y dyddiau hirfaith ar donnau y cefnfor mawr, byddai y ddau yn chwareu gyda'u gilydd ar y bwrdd.

Aeth yr amser heibio, ond yr oedd y fam yn dal yn hynod o wael. Galwyd mewn porthladd ar ol porthladd, nes y deuwyd i un o ynys-oedd Mor y De. Aeth y Capten a'i briod i'r lan i ymfyn ychydig ffrwythau, ac angenrheidiau ereill. Ar ol cyrraedd yn ol i'r llong, tarawyd y fam yn beryglus wael, ac ymhen deuddeg awr yr oedd Robbie bach, er pob gofal, heb ei “famma” ar gefnfor mawr y De.

Pan ar y lan, cafodd y fam glefyd ag sydd yn dinistrio miloedd o'r trigolion bob blwyddyn.

Mewn galar mawr rhoddwyd ei chorff un diwrnod i orffwys yng nghrombil y weilgi mawr. Ond daliai Robbie i gredu o hyd y deuai ei fam yn ol o'r dyfnder; a dywedai hynny wrth Wil bob dydd.

Llawer diwrnod y gwelwyd Robbie, a Wil wrth ei ochr, yn

edrych yn dreiddgar dros tu ol i'r llong, ac yn gwaeddi yn hiraethus ar Wil,—“Mi ddaw mamma eto'n ol,” nes y byddai y dagrau yn wlyb ar ruddiau yr hen forwr.

Hwyllo ymlaen yr oedd y llong. Ond er edrych ac edrych bob dydd yn hiraethus yn y cyfeiriad yr oedd wedi gadael ei fam o dan y tonnau, nid oedd golwg am dani “eto'n ol.” Yr oedd yr hiraeth yn dechreu gwneyd ei ol ar Robbie, druan, erbyn hyn. Yn lle bod yn fachgen bychan bochgoch cryf, yr oedd wedi myned yn deneu a llwyd ei wedd; a phe buasai heb Wil, credai y Capten y buasai marwolaeth ei fam yn ormod iddo.

Ond un diwrnod yr oedd Robbie a Wil yn chwareu pel ar y bwrdd, Robbie yn tafu y bel a Wil yn rhedeg ar ei hol. Yn sydyn, daeth awel gref o wynt, a chipiodd y bel i'r môr. Heb unrhyw rybudd, yr oedd yr oen wedi neidio dros y bwrdd ar ei hol. Gwelodd Robbie berygl yr oen, ac fel saeth neidiodd i'r dwfr i geisio achub yr oen am yr ail waith yn ei fywyd. Ond yr oedd yn rhy wan, a phan oedd ar suddo, rhoddodd ysgrech, yr hon a glywyd ar fwrdd y llong.

Ar amrantiad yr oedd dau hen torwr yn y dwfr, y naill yn gafael yn Robbie, a'r llall yn achub yr oen; ac felly deuwyd a'r ddau yn ol ar y bwrdd. Nid oedd yr oen nemawr gwaeth; ond am Robbie, druan, bu yr amgylchiad yn ormod iddo ei ddal. Bu yn gorwedd am ddyddiau rhwng byw a marw, a phan y byddai ychydig yn well, neidiai i fyny yn ei wely bach gan lefain,—“Mamma, anwyl mamma,” A chan estyn ei freichiau allan fel ag i gofleidio ei “famma,” ehedodd ei ysbryd at eiddo ei fam, a rhoddwyd ei gorff i orwedd yng ngwaelod y môr mawr.

Dydd torcalonnus oedd dydd angladd Robbie bach ar fwrdd y “Pelican.” Chwythai awel dyner, yr hon a achosai i'r hwylbrennau ruddfan yn bruddaidd o dan bwysau yr hwyliau. Deuai ambell i wylan heibio, gan roddi allan ryw swn dolefus. Yr oedd y dagrau yn gwneyd rhychau gwynion ar hyd gruddiau celyd y morwyr, ac yr oedd y Capten ymron yn wallgof gan ofid. Yr oedd yr oen yn aflywodraethus ar hyd y bwrdd, gan edrych pob cornel y byddai Robbie yn arfer ymguddio ynddynt, pan y byddai ef a Wil yn chwareu ymguddio ar fwrdd y llong. A phan welai nad oedd Robbie i'w gael, rhoddai frêf dorcalonnus, a gorweddai i lawr fel pe wedi torri ei galon.

O'r diwedd, deuwyd i'r corff bychan allan, darllenwyd ychydig o wasanaeth gan y *mate*, rhoddwyd corff Robbie bach dros y bwrdd, gollyngwyd ef i lawr yn ol yr arfer, gyda barrau o haiarn yn glymedig wrtho fel ag i'w suddo i'r gwaelod. Ond pan oedd ar fyned i'r dwfr, clywyd “splash.”

Wil oedd wedi neidio drosodd. Yr oedd yn y dwfr gan gynted a'i gyfaill bach. Yr oedd yn barod i achub, pe yn ei allu, un oedd wedi ei achub ei ddwywaith o safn marwolaeth. Cyn i'r un morwr wybod beth oedd wedi digwydd, gwelwyd morgi enfawr, y rhai fydd yn wastad yn dilyn llongau yn y parthau hyn. Gwelwyd ef yn troi ar ei gefn, yn agor ei safn, gan ddynoethi dwy res o ddannedd hirion blaen-fain, ac mewn ennyd yr oedd Wil bach wedi diflannu am byth.

Ac mewn distawrwydd llethol gadawyd y gwron bach a'i oen gwyn o fryniau anwyl Meirion, mewn dyfrllyd fedd yn y Mor Tawel pell.

### LLWYBRAU BYWYD.

**T**TEITHIWN lwybrau diniweid-  
rwydd,—

Dolydd gwyrdion rhin a moes;  
Murmur afon lon santeiddrwydd,  
A dawela lawer loes;  
Ffrwythlawn lwyni defnyddioldeb,  
Ddygant inni felus wledd;  
Teithiwn heulog ffyrdd tiriodeb,  
Rhwing rhosynau tlyision hedd.

Teithiwn lwybrau lle mae adar  
Gobaith yn telori'n llon;  
Caned telyn fwynar' ddaear,—  
Telyn cariad yn ein bron;  
Gweithio, caru, sychu dagrau  
Fo'n gorfoledd ni o hyd;  
Teithiwn, gan wasgaru hadau  
Cân a blodau yn y byd.

Y Bala.

Teithiwn lwybrau lle daw awel  
Iach gwladgarwch ar ei hynt;  
Canu yno y mae angel  
Adgof glod ein harwyr gynt;  
Gwlawia addysg ei bendithion  
Heddyw'n felus arnom ni;  
Teithiwn ninnau at y goron,  
Ar hyd llwybrau gwynion bri.

Teithiwn lwybrau anfarwoldeb,  
Lle mae cymwynaswyr byd,—  
Disglaer luoedd loewant wyneb  
Dywod amser ar ei hyd;  
Hyfryd ydyw rhodio glennydd  
Ffrwd rislalaidd gwir fwynhad;  
Teithiwn adref i heoludd  
Paradwysaidd tŷ ein Tad.

RICHARD AB HUGH.

### Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.

V. RHIFYDDEG (*Arithmetic.*)

**D**YSGA Rifyddeg,—hanfodol yw,  
I gyfrif ffgyrau o bob rhyw;  
Dysga gyfrifaeth, *addition* deg,  
Sy'n dangos fod pump a phump yn  
ddeg.

Dysga Rifyddeg,—deillrifaeth glir,  
A elwir *subtraction* yn fyrr neu hir;  
Fe erys ei gwerth 'run fath o hyd,  
Er tynnu oddiwrth holl werth y byd.

Dysga Rifyddeg,—lloisiaeth fwyn,  
Sef *multiplication* sy'n llawn o swyn;  
Dedwyddwch yw cynnydd pob da mae'n  
ddiau,  
Fe geisia lloisiaeth wneyd un yn ddau.

Dysga Rifyddeg,—dosbrifaeth dysg,  
Can's gwir mae *division* o hyd yn ein  
mysg;  
Fe rannwyd ein byd rhwng cyfoethog  
Dos dithau a rhanna ddaioni a'th frawd.

R. EUBOG JONES.



Y PARCH. DAVID DAVIES.

**Y PARCH. DAVID DAVIES, BRIGHTON.**

**W**ELE eto ddarlun o un o gedyrn y pulpud yn y dyddiau hyn. Yn Lloegr y pregetha Mr. Davies; ond nid oes odid enw pregethwr yng Nghymru sy'n fwy adnabyddus na'i enw ef.

Ganwyd ef, mi gredaf, yn sir Gaerfyrddin. Fel pob gwir Gymro, y mae ei gred yng ngwerin ei wlad, a bendithia ddylanwad ei phulpud a'i Hysgol Sul.

Rhai o nodweddion Mr. Davies yw,—ynni diddarfod, gwreiddioldeb meddwl anghyffredin, parodrwydd pert a hyawdledd y siaradwr naturiol, ac argyhoeddiadau cryfion iawn.

Ychydig, ymysg rhai sy'n fyw, sydd wedi pregethu a chyhoeddi cymaint, a'r cwbl mor newydd a phe buasai ond wedi pregethu un bregeth a chyhoeddi un llyfr. Yn y pulpud, yn amrywiol rodfeydd y wasg, yng nghadair y golygydd, y mae Mr. Davies yn dywysog.

Dyma ystori debyg i filoedd y mae wedi eu darganfod a'u dweyd. Yn adeg yr erlid dan Ddeddf y Pum Milltir, yr oedd geneth yn y Groes Wen, sir Forgannwg, yn cyrchu tua'r cynhulliad gwaharddedig ar fore Saboth. Ar y bore hwnnw cyfrennid Swper yr Arglwydd. Pwy welai'r eneth yn ei chyfarfod ond yr offeiriad. "I ble yr ei?" ebe ef wrth yr eneth. "I wrando ewyllys fy mrawd hynaf, syr," ebe hithau. "Oedd dy frawd hynaf yn gyfoethog iawn?" "Oedd, y mae wedi gadael cyfoeth mawr i ni i gyd." Ac aeth yr offeiriad yn ei flaen heb ddeall dim.

Ychydig yn ol darlennais, mewn rhyw bapur newydd, hanes Mr. Davies ymysg llu o dduwinyddion ystyriai ef yn dra llac eu gafael. Dadblygiad oedd pwnc yr ymddiddan, a Saesneg oedd yr iaith. Protestiai Mr. Davies yn erbyn rhai o'r barnau gyflwynwyd; ond cynhygiodd y cadeirydd ddangos iddo mai cychwyniad ei fywyd ef ei hun oedd "a little cell." Atebodd y pregethwr parod y profai yntau mai "a great sell" oedd eu Dadblygiad hwy i gyd.

### 'RWYF AM GAEL BOD YN FUGAIL.

GAN Y DIWEDDAR JOHN EVANS, GLYN HYFRED, NANTGLYN.

**M**I glywais fachgen ieuanc,  
Ar fore haf-ddydd gwyn,  
Yn canu yn berseiniol

Ryw ganig fach fel hyn,—  
"Rwyf am gael bod yn fugail,  
Yn fugail fel fy nhad,  
Ar un o hoff fynyddau,  
Fy ngenedigol wlad.

"Fe gerddai nhad y mynydd,  
I edrych am y praidd;  
Pan fyddai'r storom erwin  
Yn tynnu'r coed o'r gwraidd;  
A phan y byddai'r eira  
Yn gnwd tew dros y wlad,  
I chwilio am y defaid  
I'r mynydd 'r ai fy nhad.

"A'r nos, pan yr eisteddem  
O amgylch tân o fawn,  
Adroddai ef yr hanes  
I ni yn ddifyr lawn;  
Y modd y bu'n gwaredu  
Y ddafad ungorn gas  
A lynodd yn y gorsle  
Wrth fflsio'r blewyn glas.

"A'r ddafad benllwyd honno  
'Roedd crwydro yn ei bryd,

'Roedd mwy o waith bugeilio  
Ar hon na'r lleill ynghyd;  
Ac yna fe adroddai  
Am Iesu, 'r Bugail Da,  
Yn rhoi ei fywyd trosom  
I'n dwyn yn iach o'n pla.

"Darlennai ac eglurai  
Y bennod gyda blas,  
Lle mae y Bugail tirion  
'N egluro in' ei ras;  
Yna ni a ganem,  
Dan ryw nefolaidd swyn,  
Yr emyn fendigedig  
Ddarlunia'r Bugail mwyn,—

"Y Bugail mwyn o'r nef a ddaeth i lawr,  
I geisio'i braidd troy'r erchyll anial  
mawr;  
Ei fywyd ro'es yn aberth yn ein lle,  
A'u crwydriad hwy ddiawhoyd arno Fe.

"Fel hyn mae'r bwth mynyddig,  
Yng nghanol grug a brwyn,  
Yn gyrchfa glân angyllion,  
A llawn o nefol swyn;  
'Rwyf am gael bod yn fugail  
Yn fugail fel fy nhad,  
Ar un o hoff fynyddau,  
Fy ngenedigol wlad."





BARON LIEBIG.

**RHYFEDDODAU ALCOHOL.**

**O**S ar ddigwydd, ryw dro, y deuwch ar draws profeswr nad yw yn ddirwestwr, gellwch benderfynu fod rhywbeth lled bwysig ar ol yn ei broffes. Nid honni yr ydym fod dirwestiaeth ben boethlyd, os goddefwch yr ymadrodd, yn gwneyd eich "etholedigaeth yn sicr;" os na wna hynny heb ddirwestiaeth, bydd y cynheddfau sydd yn angenrheidiol er sicrhau etholedigaeth yn amddifad o'u helfen bwysicaf.

Mae meddyliau yr oes hon yn ogwyddedig at goelgrefyddau ynglŷn â'r achos dirwestol. Crymant eu pennau, ac ymblygant gerbron gwag feddyliau twyllodrus, y sydd, ebe hwy, yn seiliedig ar

gynghorion gwael feddygon. "O," meddai hon a hon, "rhaid i mi gymeryd dropyn, cymeradwyir ef gan y meddyg." Os deuwch ar draws y meddyg hwnnw, gellwch benderfynu nad yw wedi dysgu egwyddorion ei alwedigaeth yn drwyadl. Y mae egwyddorion dirwestiaeth yn seiliedig ar ffeithiau gwyddonol, ac mae'r ffeithiau hynny yn gorwedd ar sylfaeni mor gadarn a mynyddoedd Eryri. Mae cynghorion meddygon nad ydynt yn ddirwestwyr mor ddisail a'r "tŷ ar y tywod." Nid amcanwaith neu chwedl ydyw egwyddorion dirwest, ond cynyrchiadau meddyliol rhai meddygon a gwyddonwyr o'r meddyliau mwyaf treiddgar ac ysbrydoedd mwyaf gostyngedig y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Pan oedd yr Israeliaid yn yr Aifft, yr oeddynt yn amgylchynedig ag anhawsderau. Ar bob tu ymgodai mynyddoedd cribog, o'r tu blaen deuai swm y môr, o'r tu ol roedd Pharaoh haiarnaidd yn ddychryn. Ond dyna ais o'r tu ol, nid llais Pharaoh, ond

"llais yr Ior  
Yn dweyd o'r nefoedd lân,—  
Er rhwystrau fel y môr,  
Aed Israel yn y blaen."

Ac ymlaen yr aethant, ac fe drodd holl anhawsderau y daith yn fendithion gogoneddus yn y diwedd. A dyna Pharaoh a'i ganlynwyr yn dilyn, ac mae eu hesgyrn erbyn heddyw wedi troi yn fositylau yng ngwaelodion y Môr Coch. Ein gwaith ni ydyw gwrandao ar lais gwyddonwyr a meddygon dirwestol, a cheisio byw yr egwyddorion yn uniongyrchol.

Ni a geisiwn egluro yn syml y mis hwn rai o ddirgelion y diodydd meddwol. Nis gellwch dynnu llinell cydrhwng y cymedrolwr a'r meddwyn, mwy nas gall y bachgen yn yr ysgol ddodi ei fys ar y maes draw acw a dweyd,—“Fan hyn y terfyna sir Ddinbych, fan yma y dechreua Arfon.” Ymdodda y naill i'r llall megis pelydrau amryliw yr enfys. Mae y gair “llwrymwrthodwr” yn golygu y sawl nad ymarferfa â'r diodydd gynhwysant alcohol.

Ond y cwestiwn yw,—Pa ddiodydd sydd feddwol? Y rhai meddwol ydyw yr holl rai a gynhyrchir trwy gyfrwng eplesiad (*fermentation*); y maent yn alcoholaidd; ac yn ol fel bo swm yr alcohol yn y ddiod, ac nid yn ol swm y ddiod a yfir, yr ydym i benderfynu pa enw gaiff yr yfwr. Dyna i chwi un dyn yn yfed peint o frandi, a chyfaill iddo yn yfed pedwar peint o borter Llundain,—pa un o'r ddau fydd y meddwyn, ddywedwch chwi? Mae y naill a'r llall yn ogymaint meddwon; yr un yw swm yr alcohol yn y naill a'r llall. Fe ddibydda swm yr alcohol mewn diod ar y dull y gynhyrchir y ddiod trwy eplesiad.

Beth yw eplesiad? Wrth eplesiad y golygir ymluosogiad llysieuyn, anweledig i'r llygad noeth, a elwir yn eples (*yeast plant*). Ei enw gwyddonol ydyw *sacharomyces*, ac y mae amryw fathau ohonynt. Cyn y gall y llysieuyn bach anweledig hwnnw gynhyddu, rhaid ei roddi mewn cyfrwng cyfaddas. Os dodir ef mewn cyfrwng cyfaddas, fe gwbl gyfnewidir natur y cyfrwng hwnnw trwy ymluosogiad y llysieuyn. Trwy gwbl gyfnewidiad y golygir ymfurfiadau fferyllol (*chemical combinations*). Yn y cyfnewidiadau hyn fe gwbl newidir gwahanol ddarnau o fater trwy eu huniad ag elfennau neu gymysgeddau (*compounds*) ereill, fel yn y diwedd bydd y mater newydd yn hollol wahanol ei gyfansoddiad, ac yn amrywio yn ol yr elfennau a unasant.

Yn awr, os bydd i chwi wneyd un ymchwiliad bychan i chwi eich hunain, yn ol y cynghorion a grybwyllais yn y wers ddirwestol fis-oedd yn ol, gellwch gynhyrchu alcohol eich hunain, ac yna fe ymddengys y cyfnewidiadau yn hollol eglur.\* Dywed rhai,—“Yr alcohol yna ydyw y drwg i gyd yn y ddioid,” a thybiant y tywelltir ef i mewn i'r ddioid megis y tywelltir llaeth i gwpanaid o de. Ond nid felly. Gwyddoch mai yn ddistaw, yn raddol, yn anweledig, y daw yno, trwy ymfurfiad fferyllol. Nid siwgr ddefnyddia'r bragwr er cynhyrchu cwrw, ond brâg. Aif hwnnw trwy yr un ymfurfiadau ag yr aeth y siwgr a ddefnyddir gennyh chwi yn y botel yn yr ymchwiliad. Cynhwysa brâg (*barley*). sŷth (*starch*), a chynhwysa hwnnw yr un elfennau a siwgr,  $C_6 H_{12} O_6$ . Pan falurir y brâg, berwir ef, yna bydd y dwir hwnnw yn felus. Teflir burum iddo'n awr, ac nid yw burum ond miliynau o'r mân lysiau y soniwyd am danynt. Dechreuant ddadblygu a chynhyddu yn y dwir, a thrwy hynny ffurfir yr alcohol. Cynhydda y burum ar y wyneb o dro i dro, a defnyddir ef gan y pobydd.

Mae y bachgen cyflym ei feddwl yn tybio ei fod wedi fy nghorneu yn awr. Ebai,—“Os burum a grea alcohol, ac os defnyddir ef mewn torth, rhaid fod alcohol yn y dorth.” Ond nid oes alcohol ynddi, am na chrewyd ymfurfiadau fferyllol ynddi. Gan na chynhwysa siwgr, pa fodd y gall yr eples gynhyddu a chreu alcohol? Paham ynte y defnyddir ef o gwbl? Trwy ei ddefnyddio yn y dorth, ymfurfir y nwy *Carbonic Acid Gas* ynddi, ac o'r herwydd te'i hysgafnheir trwy gynhyrchiad miliynau o fân dyllau neu bibellau, trwy y rhai yr arweinir y nwy allan o'r dorth.

“Onid oes alcohol mewn diod ddail, canys defnyddir burum i'w gynhyrchu? Fe gynhwysa y ddioid ddiniwaid honno, diniwaid yn

\* A ydyh yn cofio beth yw, a pha sut y cynhyrhir alcohol? Yn rhifynnan Tachwedd a Rhagfyr, 1903, mae'r hanes.

ol tyb rhai, gymaint o alcohol a chwrrw o'r bron, am mai trwy ymfurfiadau fferyllol y cynhyrchwyd hi. Yn awr, blant Cymru, os ydych am fod yn llwyr-ymwrthodwyr yng ngwir ystyr y gair, ymogelwch rhag pob diodydd a gynhyrchir trwy yr ymfurfiadau hyn. Diod ddail, *rhubarb wine*, osai, gwin ysgaw, ac ereill ydynt.

Dyma i chwi ddarlun o'r Baron Liebig, gŵr o wlad yr Eilmyrn, darganfyddwr y dull o gadw y rhan gynhaliol o gig. Yr oedd yn un o'r gwyddonwyr galluocaf fu ar wyneb ein daear erioed. Gallasai ei feddwl disglair dreiddio i mewn i bynciau mwyaf dyrus fferylliaeth, ac yr oedd yn ddirwestwr. Yn y wers ddirwestol nesaf, ym mis Tachwedd, cewch wybod beth ddywed ef a meddygon dirwestol ereill ein gwlad ni, am y diodydd meddwol. Pa faint o'n darllenwyr sydd am fod yn debyg iddo?

SIGMA.

---

YN UN AR HUGAIN OED.

(FY CHWAER.)

**M**AE heulwen ar y bryniau yng nghwmni'r awel fwyn,  
Yn rhodio rhwng y blodau sy'n llawn cyfaredd swyn;  
A thelyn gerdd y Gwanwyn yn fwisig yn y coed,  
Ar ddydd pen blwydd yr eneth sy'n un ar hugain oed.

Mor lathraidd yw'r ffurfafen, mor dawel ddwyfol glaer,  
Mae natur oll yn llawen ar ddydd pen blwydd fy chwaer;  
Mae angel gwyn sirioldeb yn dawnsio'n ysgafn droed,  
Ar fore clir dymunol ei hun ar hugain oed.

Breuddwydion ieuanc tyner fu'n effro yn dy fron,  
Yng nghysgod ofn a phryder am weld yr adeg hon;  
I mi 'rwyf ti yn dlysach mewn rhinwedd nac erioed,  
Ni welodd neb dy harddach yn un ar hugain oed.

GWILYM DYPI.

---

P'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

**E**IFIONNYDD sydd gwmwd tawel wrth droed y Wyddfa y mae llyn mawr mewn basged 'roedd wyau hwyaid sydd yn nofio ar y llyn y mae cwch pysgota sydd ddifyr yn afon Dwyfor y mae toraeth o bysgod yn ymryson neidio 'roedd y bechgyn o ben ty syrthiodd dyn i'r crochan uwd y daeth huddugl o'r fawnog y ceir mawn at wneyd tân rhaid cael glo du a gwyn yw'r aderyn mewn cawell 'roedd pytatws yn y cae gwelais ddyn yn llyncu llygoden 'roedd y gath yn tynnu cert 'roedd dau geffyl i ben y corn yr aeth Huw.

*Llanystumdwy.*

M. RICHARDS.

## "FE DDAW LLYWELYN ETO'N OL."

IX. YR HEN DDOCTOR.

**W**EDI ymadawiad Rhobet Dafydd a chael digon o amser i simio Llywelyn a gweld ei fod wedi cael addysg dda, dyma'r hen ddoctor yn troi ato, ac ymysg pethau ereill meddai,—

"Fuaset ti'n hoffi bod yn ddoctor dywed? Pe buaset yn gwybod camaint a fi am y corff bregus sydd gennym, a'r hafoc mae diod y Capten yna'n wneyd arno, nid wyf yn amheu na welet tithau mai rhagrith noeth yw galw ty tafarn yn 'Toilers' Rest.' 'Toilers' Rest' yn wir, beth wyt ti wedi wneyd fel y rhaid i ti fynd i'r datarn i ddadflino? Wyddost ti beth, mae'n gywilydd fod rhyw las-hogyn fel y ti yn cael ei oddef gan gyfraith y wlad o fewn y fath le. Aros ti hefo fi; yr wyf yn sicr o hyn, chei di ddim llawer o gwrw na chwmmi'r Capten tra'n aros yn yr un plwyf a fi."

Ond buan y canfyddodd Llywelyn fod ochr ddymunol hefyd i gymeriad ei feistr newydd, ac na fyddai perygl storm os na wnai rywbeth croes i reswm i dynnu ei ŵg. Bu gydag ef am rai blynyddau heb gael siawns i fynd am dro i Ddôl Feirig, ac yr oedd wedi addaw wrtho i beidio gohebu â neb o'r hen ardal, er mor afresymol yr ymddanghosai hynny iddo. Ond yr oedd wedi clywed ei feistr yn dweyd fod gostegion Gwen a'r Capten wedi eu rhoi allan, ac nid oedd hynny yn ychwanegu dim at ei awydd i fynd am dro i'r hen ardal. Fodd bynnag, yr oedd wedi dysgu llawer gwers yn Rhos Deifi, ac os cai fywyd ac iechyd yr oedd gobaith iddo basio'n ddoctor ei hunan cyn pen dwy flynedd. Beth ddeuai o hono wedyn, 'doedd ganddo ddim dirnadaeth. Ond yr oedd ei feistr wedi ei sicrhau y rhoddai iddo bob cymorth os byddai'n llwydd-iannus yn ei arholiad, "ond dim un ddimai goch y delyn," ychwanegai'r hen feddyg, "os na wnei di farc." Pan gyrhaeddodd y newydd am ei lwyddiant, 'doedd dim terfyn ar lawenydd yr hen feddyg, a dyna lle 'roedd yn rhwbio ei ddwyylaw ac yn chwerthin rhyngddo ei hun,—

"Beth ddywed Rhobet, fy nghefnder, tybed? Ei wneyd yn siopwr, os gwelwch yn dda; saer llongau yn wir. Mae'n debyg na chodasai'n llawer uwch na siopwr neu saer pe yng ngofal rhywun fel Rhobet ei hun,—rhyw wlanen o ddyn fel y fo i edrych ar ol 'bachgen drwg.' Ond beth ddywed 'rwan, tybed? Yr oedd ganddo olwgu fawr ar fam y bachgen yma, ac yn ei lythyr diweddaf, rwy'n credu, mae'n dweyd mai un o'n hen deulu ni ydoedd,—hen deulu'r Hatod, welwch chwi. A pha ryfedd i'r bachgen yma basio; 'does dim byd tebyg i stoc dda, welwch chi."

Cafodd Llywelyn gartref cysurus wedi hyn, a chafodd brofion pellach fod calon yr hen feddyg, er ei holl erwindeb arwynebol, mor dyner a chalon llawer mam. Daeth yn fuan i gymeryd lle ei feistr yn gyfangwbl. Ac un bore, dyma'r hen feddyg yn ei alw, a chan ddodi un llaw ar ei ysgwydd, ac ymafiyd â'r llall yn ei law, dyma fe'n dweyd rhywbeth tebyg i hyn wrtho,—

“Yr wyf yn myned i adael Rhos Deifi, ac yn bwriadu dy adael dithau yma. Yr wyt wedi fy moddhau'n fawr hyd yma, ac yr wyf yn gobeithio nad wyf yn gwneyd camgymeriad wrth roddi'r busnes yma yn dy law. Yr wyf wedi prynnu ystad y Fron yn dy hen gartref, wel di, ac felly fe fydd yno gartref i tithau yn Nôl Feurig.”

Ber fu oes y meddyg yn y Fron. Clafychodd, a chasglwyd ef at ei dadau. Er ei fod wedi dod i ddeall pwy oedd Llywelyn ers amser maith,—yn wir, yr oedd Rhobet Dafydd yn sicr ei fod yn gwybod y tro cyntaf y gwelodd ef,—eto, prin yr oedd wedi breuddwydio erioed mai yn ochr ei chwaer, Caden Dafydd, yr un oedd wedi tynnu “gwarth” ar y teulu drwy briodi “labrwr” fel William Morus, y rhoddid yntau i orwedd; a hyn fu'n esboniad i bobl Dôl Feurig paham yr oedd Rhobet Dafydd mor awyddus i edrych ar ol plant yr Ardd Las.

Yr oedd y Fron unwaith eto i newid dwylaw, a sibrydid mai nai yr hen ddoctor oedd i gael ei holl gyfoeth. Ac fe ddaeth perchennog newydd y Fron i Ddôl Feurig ar gais meddyg y plwyf i wneyd ymchwiliad i afiechyd y Capten, ond, fel y dywedais o'r blaen, yr oedd hwnnw'n tynnu ei anadliad olaf pan wnaeth hen gariad Gwen y Fron ei ymddanghosiad yn yr ystafell.

---

### AR Y MYNYDD.

**A**R y mynydd, O! mor swynol  
Yn y bore bach,  
Gwrando ar gerddoriaeth hudol  
Adar bach.

Ar y mynydd, O! mor felus,  
Pell o dŵri y llawr,  
Sugno'r awel fwynaidd iachus  
Gyda'r wawr.

Ar y mynydd, O! mor fywiog  
Uwchlaw bro a bryn,  
Syllu ar y meusydd cnydlog  
Yn y glyn.  
*Pontrhydygroes.*

Ar y mynydd, O! mor dirion  
Gyda gwawr y dydd,  
Neidio, prancio'n ysgafn galon  
Megis hydd.

Ar y mynydd melus gwrando  
Ar yr hedydd fwyn,  
Yn ymbyncio wrth fynd heibio  
Rhwyg y brwyn.

Ar y mynydd, cribog uchel,  
Carwn innau fyw,  
Mewn cymundeb hyfryd, tawel,  
A fy Nuw.

ISYLOG.

## CANEUON PLANT RHOSTRYFAN.

VI. Y MYNYDD GRUG.

*(Ar ddull hen hwiangerdd.)*

**M**I ddringais innau dros ben Cae Rhyg,  
Dros ben Cae Rhyg, dros ben Cae Rhyg,  
I'r Mynydd Grug mawreddog ;  
A gwelais floedd o ddefaid mân,  
O ddefaid mân, o ddefaid mân,  
Ger ffrydiau glân sisialog.

Mae nythod hoffus i'r adar bach,  
I'r adar bach, i'r adar bach,  
Yng nghreigiau iach y bronnydd ;  
A gwely esmwyth i'r oenig wen,  
I'r oenig wen, i'r oenig wen,  
I gysgu'n mhen y mynydd.

Pan ffinais ddringo y llethrau mawr,  
Y llethrau mawr, y llethrau mawr,  
Ces eiste' i lawr i ganu ;  
A chenais bennill am Gymru wen,  
Am Gymru wen, am Gymru wen,  
Gan ddal fy mhen i fyny.

Mor felus ydoedd yr awel gref,  
Yr awel gref, yr awel gref,  
Dan lesni nef y mynydd ;  
A'r pellder santaidd yn lledu'r ddor,  
Yn lledu'r ddor, yn lledu'r ddor,  
Hyd eithaf Môr y Werydd.

J. R. TRYFANWY.

## CRAIG Y FOELALLT.

**C**RAIG y Foelallt, cadarn sylfaen,  
Sydd yn herio'r gwlaw a'r gwynt,  
Er dy guro gan y storom,  
'Rwyt yn sefyll megis cynt ;  
Y mae yma greigiau ereill,  
Nid mor enwog a thydi,  
Craig y Curyll, a Chraig Lucy,  
A Chraig Ifan fawr ei bri.

Pan y rhuas'r gwynt a'r stormydd,  
Pan y chwydds tonnau'r aig,  
A'r afonydd oll yn llifo,  
Dal i sefyll mae y graig ;  
'Rwyt yn lloches i'r llwynogod  
Pan yn ffoi o flaen y cwn,  
A'r ddallhuan ar dy glogwyn  
Yn y nos sy'n cadw sw'n.

Wrth dy droed 'roedd hen balasdy,  
Fu mewn urddas ddyddiau gynt,  
Ond y mae ei furiau llydafn  
Wedi chwalu gan y gwynt ;  
Yr oedd yma goedydd gwyrddion,  
Ac amryliw fiodau hardd,  
Mae y cyfan wedi gwywo  
O fewn muriau clyd yr ardd.

'Roedd yr adar bach yn canu  
Yn y llwyni prydferth hyn,  
A'r fwyalchen yn telori  
Nes adseinio pant a bryn ;  
Nid oes yno ond adfeillion  
Mwy i'w gweled dros y fan,  
Mae'r preswylwyr oll yn huno  
O fewn mynwent werdd y llan.

Pan fydd cedym greigiau'r ddaear  
O'u sylfaeni'n mynd yn sarn,  
A'r afonydd oll yn berwi  
Yn rhyferthwy bore'r farn ;  
Gwelaf graig a ddeil pryd hynny,  
Lle gorftwysa f'ensaid gwan,  
Ac am oesau tragwyddoldeb,  
Craig yr Oesoedd fydd fy rhan.

Cromaman, Aberdar.

WATKIN LLOYD.

## RHYFEDDODAU'R MOR.

VI. Y MORGI (*Shark*).

**P**E gofynnech i forwr beth sydd wedi dal mwyaf ar ei feddwl ef o holl rhyfeddodau'r môr, ond odid fawr na ddywedai mai'r morgi. O leiaf, dywedai mai'r morgi yw'r casaf ganddo o holl drigolion y môr. Darlunia Moseley hen forwr yn rhoi cic i gorff marw morgi, ac yn dweyd,—“ Ah! Pe cawset ti fi yn y môr, fuasai'r dannedd yna yn dangos fawr o drugaredd ata i.”

Pysgodyn rhyfedd yw'r morgi ar lawer cyffrit. Yng ngwaelodion y môr y mae'n byw, a chyfyd oddiyno i'r wyneb i chwilio am ei ysglyfaeth. Dywedir ei fod yn un o'r rhai hynaf o bysgod y moroedd. Ambell dro y mae fel pe mewn gwisg o dân. Un unig yw hefyd, ni fydd yr un o'i deulu'n gydymaith iddo pan ar ei wibdeifhiau creulawn. Efe yw'r creulonaf a'r mwyaf rheibus o holl bysgod y môr.

Ceir ef bron ymhob moroedd. Daeth nifer mawr o un math ohonynt,—*basking shark*, i lannau Mon ac Arfon yn hafau 1756 a'r blynyddoedd diilynol. Ond ni reibiai y rhai hynny ddynion, ymddengys eu bod yn byw yn bennaf ar blanhigion a thrigolion y môr. Mewn hinsoddau poethion y mae'r morgwn perygl yn nofio.

Y ddau forgi peryclaf yw'r morgi gwyn a'r morgi glas. Dywedir fod y morgi gwyn weithiau yn gymaint a deg troedfedd ar hugain o hyd. Pen gwastad sydd ganddo, a llygaid bychain glaswyrdd. Y mae ei safn yn anferth, ac ar bob gen y mae chwe rhes o ddannedd cryfion, llymion. Y mae'r gwddf yn fawr iawn hefyd. Y mae cryfder aruthrol yn y gynffon, gall morgi ieuanc ladd dyn ag un ergyd â'u gynffon; am hynny bydd y morwyr yn torri'r gynffon â bwyell pan yn tynnu morgi i fyny dros ochr y llong.

Mae safn y morgi ychydig o dan ei gorff, a dywedir y bydd yn troi ar ei gefn pan yn rhuthro at ei ysglyfaeth i gydio ynddo. Llawer morwr ddiangodd,—os dianc hefyd,—o'r dŵr wedi gweled y morgi gwyn yn cyflymu ato, gan grynnu wrth feddwl am y farwol-aeth y gwaredwyd ef rhagddi.

Bwyty'r morgi bron bob ysglyfaeth. Cafwyd corff dyn yn gyfan yn un morgi a ddaliwyd yn yr India Orllewinol; ond tel rheol tyrr ddyn yn ei hanner, ac yna llynca'r ddau hanner. Bwyty gyrff gwartheg a cheffylau defir i'r môr yn awchus; ac ni arbeda ei berthynasau ei hun, bwyta'r pysgod gwancus creulawn hyn eu gilydd. Dywed y morwyr mai hoff ysglyfaeth y morgi yw dynion duon. Dechreuodd y gred hon, mae'n debyg, yn adeg caethwasiaeth yr Amerig. Ar ffordd llongau'r gaethfasnach, o lannau Afrig i 'au'r Amerig, yr oedd lluoedd o forgwn, wedi cael blas ar y cyff





DAL MORGI.

daflai eu meistriaid creulawn i'r môr. Yn aml iawn neidiai'r negro-aid, druain, dros y bwrdd i'r môr. Yr oeddynt wedi credu, os medrent neidio i'r môr, y caent eu hunain yn ol gyda'u teuluoedd yn eu gwlad eu hunain. Ceisiodd un capten llong eu darbwyllio nad oedd sail i'w cred. Tafiodd gorff negro dros y bwrdd, ond fod rhaff wrth ei draed. Tynnwyd y corff i fyny gyda'i fod wedi taro'r dŵr, ond nid oedd ond y ddau droed yn aros,—yr oedd y morgwn wedi ei fwyta.

Y mae hyd yn oed i'r morgi ei gymdeithion. Un yw'r *pilot fish*. Mae hwn yn nofio o flaen y morgi, gan ei gyfeirio at ei ysglyfaeth; a phan fydd y morgi yn rhwygo'r peth laddodd, caiff y *pilot fish* ryw friwfydd fydd yn syrthio oddiwrth fwrdd ei feistr mileinig. Bydd y *pilot fish* yn camgymeryd llong am forgi weithiau, gan feddwl mai ei phen blaen yw y trwyn. Nofia o'i blaen am ddyddiau weithiau; ond, gan nad yw'n ysglyfio dim, tybia mai morgi diog ac annoeth yw, ac a i chwilio am gwmni un arall. Y mae pysgod ereill yn cydio â'u talcennau yng nghroen garw'r morgi, ac yn byw arno. Pan dynnir corff y morgi dros ochr llong, erys y pysgod hyn weithiau i gael eu dal gan y morwyr. Y mae miloedd o bryfetach yn amlen ymysgaroedd y morgi hefyd, a thybia naturiaethwyr fod cyffroadau a chnoadau y rhain yn gwneyd gwanc a rhaib y morgi yn fwy fyth. Os na fydd ei gylla'n llawn, mae'r pryfed yn ei fwyta ef ei hun.

Weithiau, pan deflir rhwyd i'r môr, daw morgi ymysg y pysgod i'r rhwyd. Tynnir y rhwyd i'r lan, os na fydd dannedd y morgi wedi ei rhwygo, a bydd pawb yn ymosod ar y morgi, heb gofio dim am y pysgod ereill,—rhai'n rhoi barr haiarn yn ei safn, ereill yn dinistrio ei lygaid bychain creulawn, ereill yn ysgo neu dorri ei gynffon.

Peth perygl iawn yw ymdrochi yn nyfroedd tryloewon prydfferth yr India Orllewinol. Ni wŷr neb pryd y daw'r morgi buan i ddynoethi ei ddannedd erchyll. Mewn rhai lleoedd y mae barrau heiyryn wedi eu rhoddi o gwmpas yr ymdrochle, fel nas gall y morgi ddod i mewn gyda'r môr.

---

### AFON PRYSOR.

**D**OLENNOG addurn anian yw afon Prysor gu, Mae ei tharddellau gloew yn y mynyddoedd fry; Ymdeithio wna yn dawel drwy wyrddion feusydd braf, Disgleirio bydd ei dyfroedd dan wenu heulwen haf.

Yn siglo ger ei glannau bydd myrdd o feillion dŵl,  
A physgod tlyision heini yn chwareu yn ei chol;  
Mae'n gwelni trwy yr oesau yn swynol ac yn dlos,—  
Dioda bob diadell, gan ganu ddydd a nos.

Rhydd lu o gymwynasau wrth deithio tua'r môr,  
A'i murmur gyda'r cyfan yn hyfryd ydyw "Ior;"  
Fel pob rhyw afon arall, ei swm barddonol hi,  
A'i chanig rhwng y glannau yw,—“Môr,” a “Môr i mi.”

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## VIII. GLANNAU AWSTRALIA.

**I**FOR. Fy nhad, a lwyddwyd i ennill sylw y brodorion ar ol yr ymgais ddiweddaf?

**TAD.** Na wnawd, ni chafwyd unrhyw arwydd eu bod yn gogwyddo at hynny o gwbl. Ymhlith yr amrywiol fathau o bysg y daethant ar eu traws yn y parth yma o'r byd, y mwyaf a'r rhyfeddaf oedd y rhai a elwir y *sting-rays*. Pwysodd un ohonynt, ar ol ei lanhau, 336 o bwysi. Ar gyfrit y swm mawr o wahanol fathau o lysiau a gasglwyd gan Mr. Banks a Dr. Solander, enwodd Capten Cook y gilfach yn Botany Bay. Safte y fan yw lledred 34 gradd i'r de; ei hydred, 208 o raddau i'r gorllewin. Y mae yn lle neilltuol o ddiogel i longau angori. Darganfyddodd Capten Cook firwd ysblennydd ar lan ogleddol y gilfach, a chyflawnder o goed ar yr un man. Yr oedd yr holl Indiaid a welsant yn y parth hwn yn noethion hollol. Am eu dull o fyw, nis gallasai ein dynion wybod ond y nesaf peth i ddim; oblegid yr oedd yn anichonadwy ymgydnabyddu â hwynt. Nid ymddanghosai eu bod yn lluosog, nac yn byw yn gymdeithasol. Galleid meddwl eu bod yn treulio eu hamser yn gyffelyb i anifeiliaid y maes; yn crwydro yn wasgaredig ar hyd y glannau ac yn y coedwigoedd. Ni chafodd ein boneddwy'r ar ddeall eu bod wedi cyffwrdd âg hyd yn oed un o'r holl wobrwyon tlyision a detnyddiol a adawyd iddynt mewn llawer o fannau cyfeus; yn hyn yr oeddent yn eithriad i holl anwariaid y byd. Gorchymynnodd y Capten godi arwyddion coffadwriaethol o ymweliad y morwyr Prydeinig, a phob man y buont ynddo ar eu hymweliad â New Holland, drwy osod y faner Brydeinig i fyny, a cherfio enw y llong a'r brenin ac adeg yr ymweliad ar goed yn y lleoedd nesaf i dramwyfa llongau.

**I**FOR. I ble yr aethant o Botany Bay?

**TAD.** Ar doriad y dydd, y chweched o Fai, hwyliasant o Botany Bay. Fel yr oeddent yn hwylio rhag eu blaen, rhoddodd y Capten enw ar bob cilfach, penrhyn, afon, a mynydd oedd o hyd golwg iddo ar ei ddarlunlen. Ar y 14eg, yr oeddent yn hwylio tua chyfeiriad y gogledd, gyda glannau dwyreiniol New Holland. Ymhlith yr amrywiol olygfeydd ar y glannau, canfyddasant fod y wlad yn fwy mynyddig yn y rhan ogleddol o honi nag yn y parth deheuol. Y dydd canlynol, a'r llong heb fod ymhell oddiwrth y tir, gwelsant fwg yn dyrchafu i fyny mewn amryw o fannau, a thrwy gymorth eu gwydrau, canfyddasant ugain o'r brodorion, a phob un o honynt a baich ar ei gefn. Daeth y morwyr i'r farn mai dail y palmwydd

oeddent yn gludo, i doi eu tai. Wedi cerdded darn hir o'r traeth, troisant i lwybr oedd yn arwain i fyny dros fryn; ac ymhen agos i awr, yr oeddent wedi myned o'r golwg dros y bryn. Synnwyd y cwmni yn fawr am na wnaeth yr un o'r brodorion gyfeirio golwg at y llong, ond dal i deithio, fel peiriannau di-feddwl.

IFOR. Fy nhad, a ydych yn credu na chawsant hwy gipolwg ar yr Endeavour, yr hon oedd wedi bod yn destyn syndod i'r holl anwariaid yr ymwelwyd â hwy yn ystod y fordaith?

TAD. Yr wyf yn barnu eu bod am i'r dynion gwynion ddeall nad oeddent yn rhoddi gwerth arnynt hwy, na dim a feddent; ac mai yr unig lwybr i gael gwaredigaeth ohonynt oedd eu diystyrru, a defnyddio y waewffon atynt ar bob cyfle a gaffent. Ar y 17eg, yr oeddent wedi cyrraedd i forgilfach a alwodd y Capten yn Morton Bay; ac yr oeddent mor bell oddiwrt hwy y tir nes o'r braidd y medrent ei ganfod. Barnai y morwyr wrth liw y dwfr bod afon yn llifo i mewn yn rhywle tua phen draw y gilfach. Yn ol barn y Capten, dyfnder mawr y dwfr, a'r gwaelod tywodlyd, oedd yn cyfrif am y lliw anarferol ar y môr yn y fan honno. Ar yr 22ain, wrth hwylio ymlaen, darganfyddasant fod y tir oedd ger y glannau oedd o'u blaen wedi ei orchuddio a phalmwydd, ac yn llwythog o frwyth ar y pryd, yr hyn na welsant o'r blaen ond ar yr ynysoedd sydd o dan y trofannau. Hefyd, gwelsant ddau o'r brodorion yn cerdded y traeth heb yr un math o ddilledyn am danynt; ac ni wnaeth y rhai hynny y sylw lleiaf o'n dynion. Am wyth o'r gloch y prydawn hwnnw, daeth y llong i angor, lle nad oedd dyfnder y dwfr ond pum gwrhyd. Yn fore y diwrnod canlynol aeth y boneddwy'r i dir i gael golwg ar y rhan honno o'r wlad. Yr oedd yr awyr mor oer ar y pryd, nes yr oedd yn rhaid i'r cwmni wisgo eu harwisgoedd. Ymhen ychydig wedi tîrio, canfyddasant gyfyng-for yn arwain i lyn mawr. Archwiliodd y Capten y rhai hynny gyda'i fanylrwydd arterol. Yr oedd hefyd yn y fan honno afon o ddwfr croew tra dymunol, a lle cyfleus arni i ychydig o longau i gysgodi mewn diogelwch. Gerllaw y llyn crybwylledig, tîf y *mangrove* gwirioneddol, o fath y rhai sydd ar ynysoedd India y gorllewin. Yn y rhanbarth hwn daethant ar draws lluaws o adar mawrion, tebyg i belicanod Botany Bay, y rhai oedd mor ofnus fel yr oeddent yn cadw yn ddigon pell o gyrraedd y dryll. Hefyd, yr oedd ar y traethau hynny adar o rywogaeth y twrci. Saethwyd un ohonynt, a chawsant ef yn pwysu dau bwys ar bymtheg a hanner. Heblaw hynny, yr oedd yn fwy dymunol i'r archwaeth na'r un a brofasent wedi gadael cartref. O anrhydedd i'r aderyn, enwodd y Capten y gilfach yn Bustard Bay. Ar y banciau llaid o tan y *mangroves*, yr oedd lluaws afrifed o wystrys o wahanol fathau. Yn eu plith yr oedd y mwrthwl wystrys, a nifer luosog o'r perl-

wystrys bychain. Tybiai y Capten bod hwn<sup>f</sup> yn lle rhagorol i sefydlu perl bysgodfa.

IFOR. Ai ni welsant y brodorion wedyn?

TAD. O do. Cafodd y nifer a adawyd ar y llong, tra yr oedd y boneddwy'r allan yn gwneyd ymchwiliadau, ymweliad gan ryw ugain o'r anwariaid, y rhai a ddaethant mor agos i'r llong ag y gallent, ac wedi syllu yn fanwl arni, aethant ymaith yn heddychol. Ni welodd y boneddwy'r eu hunain gymaint ag un o'r brodorion; er iddynt weled arwyddion amlwg, mewn gwahanol fannau, bod y parth hwnnw wedi ei boblogi. Ond ni welsant un math o dŷ, nac olion tai o gwbl; yr hyn a barodd iddynt farnu bod brodorion y rhan hon o'r wlad yn hollol amddifad o breswylfeydd a dillad, ac yn byw yn y cyflwr hwnnw ddydd a nos, yn yr awyr agored. Yr oedd Tupia yn syanu ac yn tosturio oblegid eu sefyllfa anhapus, gan ysgwyd ei ben a dweyd "taataenos," sef "O drueiniaid tlodion." Ar y 25ain, pan tua milltir oddiwrth y lan, yr oeddent yn gyfochrog a llain o dir oedd yn hollol o dan arwydd yr afr, yr hwn a enwodd y Capten yn Cape Capricorn. Pan oedd y llong o dan hwyl ar y 26ain, wedi ei amgylchynu gan ynysoedd a orweddent mewn gwahanol bellderau oddiwrth y wlad newydd, daethant yn sydyn i ond deunaw troedfedd o ddwfr; ac yn y man bwriasant angor, ac anfonodd y Capten y plymiwr allan i fesur y dyfnder o'u blaen, rhyngddynt a'r ynysoedd pellaf o ogledd y wlad. Er fod y môr yn llydan o'u blaen, meddyl-iodd y Capten nad oedd mewn llawer o fannau ond prin digon o ddyfnder iddynt anturio hwylio rhag eu blaen ond gyda gofal neillduol. Darfu i adroddiad y plymiwr brofi fod y Capten wedi synio yn gywir. Dywedodd y swyddog na chafodd ond pymtheg troedfedd o ddyfnder mewn amryw o fannau. Yr oedd Mr. Banks hefyd wedi bod allan yn y bad ar adeg y plymio a'i wialen a'i fach, yn prysgota drwy ffenestr y *cabin*, a llwyddodd i ddal dau fath o grancod na welsai yr un o'u rhywogaeth cyn hynny. Yr oedd un ohonynt wedi ei brydferthu â lliw glas ysblennydd; yr oedd ei gymalau a'i grafangau wedi eu dwfn liwio â'r glas; o tano yr oedd yn wyn, ac mor llyfn a gwydr. Yr oedd y llall wedi ei baentio â'r glas, ond yn fwy prin a chynnil, ac ar ei gefn dri o ysmotiau cochddu. Yn fore y dydd canlynol, cafodd y Capten fynedfa rydd a diberygl rhwng yr ynysoedd, a hwyliodd i gyleiriad y gogledd. Ar nawn y dydd nesaf, angorasant tua dwy filldir i ochr ddwyreiniol y wlad. O'r fan honno canfyddasant rif luosog o ynysoedd, ymhell y tu blaen i'r llong. Ar y 29ain, anfonodd Capten Cook y swyddog allan, gyda dau fad, i fesur dyfnder dwfr y tynedfa i ochr orllewinol y wlad; i'r hon yr oedd yn bwriadu myned a'r llong iddi gyda dau amcan arbennig.

*Dinas Rhondda.*

WILLIAM JAMES.



PLANT CYMRU. CLXXX. PLANT PRERSTATYN.

## PLANT PRESTATYN.

**D**YMA gipolwg ar Ysgol Newydd Prestatyn, sir Fflint, a darlun o rai o'r bechgyn yn cael eu dysgu pa fodd a pha bryd i balu, i blannu, ac i hau. Y mae Cymru o'r diwedd yn dechreu dyfod i weled mai y ffordd unionaf i ddadblwygu yr ymenydd ydyw drwy ddisgyblu y llaw, ac mai y llwybr sicraf i hyfforddi y plentyn ydyw drwy ei roddi ar ben y ffordd yn more ei oes i sylwi ar bethau o'i amgylch, ac i graffu ar dudalennau difyr llyfr mawr Natur.

Y mae lle i ofni y tybid, amser fu, mai lle oedd ysgol i yrru bachgen i ddysgu rhywbeth yn lle gweithio. Yn awr, sylweddolir mai lle i ddysgu gweithio yw ysgol. Dysgir y plant i gredu ac i deimlo o'u mebyd fod llafur yn anrhydeddus, a diogi yn gywilydd. Mewn ambell le, caria gŵr wn yn ei law drwy bentref yn falch ddigon, neu fat criced; ond cywilyddiai pe gofynnid iddo gario caib neu raw. Ymfalchia wrth gario offer chware a segura; cywilyddia wrth gario offer gwaith. Ond dysgir y wlad i godi ei syniadau am waith, wrth ddysgu ei bechgyn a'i genethod trwy gyfrwng gwaith. Ac mor ddyddorol i'r plant yw'r ysgol, rhagor y byddai.

## CYFELLGARWCH CI.

**R**HYFEDD, onide, y fath synwyr fedd ambell greadur direswm. Dyma i chwi hanesyn bychan i brofi hynny.

Yr oedd *collie* mawr a *Skye terrier* garw yn ffrindiau mawrion. Yr oeddynt eu dau yn perthyn i'r un meistr. Un diwrnod, cymerodd y meistr hwynt am dro hyd nes daethant at afon. Yna, cymerodd y dyn gwch, a rhywfodd i'r ochr arall. Dilynodd y *collie* ef, ond ni wnaeth y *terrier*, am nas gallai nofio, eithr safodd, gan gyfarth ac udo.

Wrth weld hyn, trodd y *collie* yn ei ol, a gwnaeth i'r *terrier* ddod ar ei gefn. Yna, nofiodd yn ddiogel yn ei ol i'r lan gyferbyniol.

E. ISYLOG JONES.

## Y WENNOL.

YN y gwanwyn y gu wennol—fuan  
Fywyd, gwibiog, swynol,  
Ar adenydd trydanol  
Enfyn air ddod haf yn ol.

Llanrwst.

R. EVANS.

## "Y Morwr Bach."

Y Geiriau gan APANYDD,  
allan o *Gymru'r Plant*.

Y Gerddoriaeth gan  
SAMUEL DAVIES, A.C., Penrhwiweibr.

DOH F.

{	:s	s	:-.m	d	:m.f	s	:-.l	s	:m	f	:-.s	l	:s.f	m	:-	r	
	:s	s	:-.m	d	:d.r	m	:-.f	m	:d	r	:-.m	f	:m.r	d	:-	t,	
	Ar	lan	y	môr	un	diwr	-	nod,	Fe	saf	-	ai	bach-gen	bach,			
	:s	s	:-.m	d	:s	d'	:-	d'	:s	d'	:-.d'	d'	:s	s	:-	—	
:s	s	:-.m	d	:d	d	:-	d	:d	d	:-.d	d	:d	s,	:-	—		

C.t.

{	:s	d'	:-.d'	t	:l.t,l	s	:-	m	:m	s.d':t.d' r'	:m'r'	d'	:-	—			
	:d	d	:-.d	r	:d.r.d	r	:t,	d	:df	m	:s.m	s	:s.f	m	:-	—	
	Chwar	-eu	-	ai	ar	y	tyw	-	od,	Dan	gan-u'n	llon	ac	iach;			
	:s	s	:-.s	s	:fe	s	:-	s	:*d'	d'	:r.d'	t	:t	d'	:-	—	
:m	m	:-.m	r	:r	t,	:s,	d	:df	s	:s	s	:s	d	:-	—		

f.F.

{	:taf.m	r	:l	s	:r.m	f	:-	m	:l.se	l	:d't	l	:se	l	:-	—	
	:m,t,	t,	:t,	d	:d	d	:-	d	:m	m	:m.r	d	:m.r	d	:-	—	
	Ed	-	rych-ai	ar	y	ton	-	nau	Yn	dawnsio	uwch	y	lli',				
	:d's	f	:f	m	:s	f	:-	l	:d't	l	:l.se	l	:t	l	:-	—	
:d,s	s,	:s,	d	:ta,	l,	:-	l,	:l,t,	d	:d.r	m	:m	l,	:-	—		

{	:s	l	:-.l	s	:f	f	:-	m	:-.m	m	:-.m	f	:d.r	m	:-	—	
	:m	m	:-.m	m	:r.d	d	:t,	d	:-.m	m	:-.m	f	:d.r	m	:-	—	
	Fel	pe	am	ddod	i	chwar	-	eu	Ger	bron	eu	cyf-	aill	cu,			
	:t	l	:-.l	l	:l	s	:-	s	:-.m	m	:-.m	f	:d.r	m	:-	—	
:m.r	de	:-.de	de	:r	s,	:-	d	:-.m	m	:-.m	f	:d.r	m	:-	—		

{	:s	d'	:-.d'	t	:l.s	l	:t	d'	:l	s	:-.f	m	:r	d	:-	—	
	:m	m	:-.m	m	:m	d	:m	m	:f	m	:d.r	d	:t,	d	:-	—	
	Fel	pe	am	ddod	i	chwar	-	eu	Ger	bron	eu	cyf-	aill	cu.			
	:s	s	:-.s	s	:l.t	l	:se	l	:d'	d'	:s.l	s	:f	m	:-	—	
:d	d	:-.d	d	:d	f	:m	l	:f	s	:-.s,	s,	:s,	d	:-	—		

2 Fe wenai'r plentyn bychan,  
A gwenai'r tonnau'n ol,  
'Roedd grudd y weigli lydan  
Fel perlog wlyth y ddol;  
Dan swym y tonnog ddwndwr  
Fe dwedai'r bachgen bach—  
"Mi fynnaf fynd yn forwr,  
Os byddaf byw ac iach."

3 "Mae'r môr, mi wn, yn arw,  
Er nad yw felly'n awr,  
Ond hwylio wnaif hyd farw,  
Ar gefn y weigli mawr;  
Ac os daw storom weithiau  
Heb obaith bron cael byw,  
Mi ganaf rhwng y tonnau,  
Fy Nhad sydd wrth y llyw."



## CRWBAN Y MOR.

**M**AE'N debyg fod llawn cymaint o rywogaethau o greaduriaid yn y môr ag sydd ar y tir, a'r rhai hynny yn llawer mwy eu rhif.

Am Grwban y Môr, fe allai mai y creadur tebycaf iddo a adwaenoch chi, plant Cymru, yw y cranc; neu, gawn ni ddweyd ei fod yn debyg, i ryw raddau, i'r geneu goeg (*lizard*), o ran ffurf pen, corff, a choesau. Ond y tebycaf oll iddo yw Crwban y Tir (*tortoise*), ac fe allai eich bod wedi gweled un o'r rhai hynny.

Dyna, yn fwyaf neilltuol, sydd yn nodweddu y rhywogaeth yna o greaduriaid,—y gragen fawr, dew, galed, sydd yn tyfu ar eu cefnau. Cragen hirgron, iwaog, ydyw, tebyg iawn i dariannau yr hen ryfelwyr gynt. Y mae yn myned amgylch ei gorff, sef odditanodd hefyd; a'r crwban yn gallu estyn ei ben allan o dwll yn ei phen blaen, a'i dynnu i mewn, wrth ei ewyllys, yn ol fel y bo perygl neu beidio.

I'r gragen hon y mae yn medru cilio o gyrraedd pob gelyn, gan drigo mewn diogelwch; ac o fewn y castell hwn gall herio pob gelyn. Yn y diddosrwydd castellaidd hwn y mae yn gallu fforddio byw yn dawel, ddigyffro, ddiotal, yn rhyw hanner-gysgu gydol ei oes. Ni wyr ef ddim am firi aflonydd, am fawr dwrf a chwerw daro brwydr bywyd.

Y mae un o'r Crwbanod hyn newydd gael ei ddal ar draeth New Jersey, Unol Dalaethau yr Amerig, y mwyaf, fel y tybir, a ddaliwyd erioed. Y mae ei bwysau yn 1087 pwysi; hyd ei gragen yn 10 troedfedd 3 modfedd, a'i lled yn 6 troedfedd 7 modfedd. Gall deuddeg o ddynion gydsetyll ar ei gefn yn hwylus. Y mae *barnacles* (gwŷr gwŷr glan y môr a'r morwyr yn dda am y rhain,—creaduriaid nid anhebyg i'r gwymon, *sea weed*), wedi tyfu yn sypiau mawrion, hir geinciog, dros ei gragen i gyd; a'r gwymon dros holl gorff yr anghenfil. Dywed gwŷr cyfarwydd fod yr hen batriarch hwn yn llawn 700 mlwydd oed; ac felly yr oedd yn hen wr pedwar ugain oed pan laddwyd ein hanwylaf Lyw Olaf ym Muallt.

H. BRYTHON HUGHES.

## YSBYTY.

**H**EN ardal dawel 'Sbyty  
Sydd anwyl iawn i mi;  
Yn prysur ddringo i fyny  
Y mae mewn parch a bri;  
Mae anian ar ei gore  
Yn gwenu gylch y fan,  
A'r awel fwyn sy'n chware  
Yn nwyfus ar ei glan.

Ar lannerch hardd fynyddig  
Y saif rhwng echrus greig,  
Yn swm perseiniol fwsig  
Yr hedydd mwyn, Cymreig;  
Os cefnaf ar Ysbyty  
A'i dolydd deiliog hi,  
Fy ngalon brudd er hynny  
Fyn lynu ynddi hi.

ISYLOG.



### DAU GYMRO ENWOG.

AU Gymro enwog, fu farw y flwyddyn hon, oedd Frederick York-Powell a Henry Morton Stanley.

Un o'r De, o waed, oedd F. York-Powell. Yr wyf yn cofio iddo ddywedyd wrthyf ei fod yn berthynas i'r Seneddwr Cymreig esgynnodd mewn awyren rai blynyddoedd yn ol, ac a gollwyd. Athraw Hanes yn Rhydychen oedd. Ni ysgrifennodd lawer o lyfrau, ac nid oedd yn llwyddiannus iawn fel darlithydd, ond yr oedd yn athraw campus. Plannodd gariad at Hanes ym myn-wesau llu o fyfyrwyr. Yr oedd yn hapus bob amser, ei galon yn orlawn o garedigrwydd, ei chwerthiniad uchel yn iach a di-wenwyn, a'i serch yn gynnes at bopeth tlws a phur.

Hanes bore cenedloedd Ewrob oedd twyaf wrth ei fodd. Gwnaeth lawer i ddangos nodweddion meddwl a hanes hen bererinion y don,—*vikings* gogledd Ewrob. Credai'n gryf mai gwaed Cymreig yw'r elfen lawnaf, bwysicaf, a goreu yn y Prydeiniwr. Deallai iaith ei hynafiaid yn dda.

Un o'r Gogledd, o Ddinbych, oedd Stanley. Mae pob plentyn yn gwybod rhywbeth am yr anturiaethwr beiddgar hwn. Efe ddanghosodd lwybrau Affrig yn ein dyddiau ni. Er cymaint feiddiodd, ac er cymaint o beryglon y bu ynndynt, dywedir na thaniodd lawdryll, ac na thywalltodd waed erioed os na byddai bywyd ei ganlynwyr mewn perygl. Credai nad oedd ei gyd-Gymry yn ddigon anturiaethus eu hysbryd. Dywedodd wrthyf unwaith y dylai'r Cymry oll gredu 'yng ngwladlywiaeth dramor Ardalydd Salisbury. Credai yn gryf ynnddi ei hun; a chredai mai Prydain fedrai wareiddio y cenedloedd barbaraid y dygasai ef eu bywyd a'u hanes i oleuni dydd.

Dywedir yn aml mai cenedl o bobl lwfr, ddi-gychwyn, hiraethlawn am gartref, yw'r Cymry. Ond dyma ddau Gymro,—un ym myd y meddwl a'r llall ym myd ffaith,—na fu terfyn ar eu beiddgarwch.

## INGER.

## I. RHOI TROED AR DORTH.



RIST iawn yw hanes Inger, ond rhaid i mi ei adrodd, er rhybudd i blant yr oes hon.

Yn Denmark, gwlad o ddolydd a chorsydd, yr oedd Inger yn byw, ers llawer o flynyddoedd. Geneth bach falch oedd, a'i balchder fu achos ei thrallod. Yr oedd yn eneth greulawn hefyd. Y mae gan bob un balch galon galed, heb gydymdeimlad âg ereill, oherwydd nis gall feddwl am neb ond am dano ei hun.

Tra byddai plant ereill yn chware yn hapus, byddai Inger yn edrych ar ei llun yn y drych, ac yn meddwl gymaint yn dlysach oedd hi nag ereill. Tra byddai'r plant ereill yn darllen llyfrau hanesion, byddai Inger yn gadael i loyn byw ddisgyn ar ei llyfr, rhoddai bin drwyddo i'r llyfr, a dywedai,—“Welwch chwi, fel y mae hwn yn darllen? Ha, ha, y mae'n methu tynnu ei hun oddiwrth y stori.”

“Inger fach,” meddai ei mam ryw ddiwrnod, pan oedd ei merch wedi rhoddi ffedog ei mam ar y llawr dan ei thraed rhag ditwyno ei hesgidiau, “fy ffedog i sydd dan dy droed di heddyw, y mae arnaf ofn mai fy nghalon i fydd dan dy droed di cyn hir.”

Pan dyfodd i fyny, anfonwyd Inger i le. Cafodd feistres dda a charedig. Ond balch oedd Inger o hyd. Erfyniai ei meistres arni gadw ei chyflog, a rhoddi ychydig i'w mam dlawd; ond gwariai Inger bob dimai am ddillad gwych iddi hi ei hun. “A ydych yn meddwl am eich mam, weithiau, Inger,” ebe ei meistres, “ac yn cofio y drafferth a gafodd i'ch magu? Beth ydych yn feddwl dalu iddi?” Ond nid oedd Inger yn meddwl talu dim i neb, ac nid oedd arni awydd am weled ei mam, na rhoddi dim iddi.

“Inger,” ebe ei meistres ryw ddiwrnod, “ewch a'r dorth yma i'ch mam.” Nid oedd Inger yn hoff o fynd i ganol pobl gyffredin y pentre, chwedi hithau. Yr oedd wedi cael esgidiau newydd gwych hefyd, ac yr oedd cawod drom o wlaw wedi disgyn y bore hwnnw. Felly, pur anfoddog oedd Inger wrth gychwyn.

Toc, daeth at lyn o ddwfr oedd wedi aros ar ei llwybr ar ol y gawod. “Ni wlychaf fi mo f'esgidiau newydd,” ebe hi. A rhoddodd dorth ei mam yn y llyn. Yna, rhoddodd ei throed arni, gan feddwl camu yn droedsych dros y llyn.

Ond teimlai ei throed yn cydio yn y dorth, a hithau'n suddo i'r llyn yn araf araf.

## ADGOF A HIRAETH.

"Tannau euraidd tynerwch  
Gyffry wrth y llety llwch."

**P**RYDNAWN oer o Fawrth ydoedd, a'r gwlaw mân yn dyfaldidsgyn trwy gydol y dydd. Ymdeithiem yn fintai o alarwyr i fyny i fynwent ar y bryn i hebrwng gweddillion marwol cyfaill ieuanc oedd yn anwyl gan ein calon. Araf-gerddem, gan ddwysfyfyrion am symud un mor llawn o fywyd, ym misoedd cynnar y flwyddyn, ym mlwyddi cynnar ei oes. Cyrhaeddassom borth y fynwent, arosasom ychydig dan gysgod prudd yr ywen.

Hawdd oedd gweled mai nid anghynefin i'r ardal oedd cerdded i'r gladdfa, ac fod beddau newydd wedi eu hagor oddiar y buom yma o'r blaen; beddau rhai anwyl inni, ac y carem, ddydd eu claddu, golli deigrin ar eu hol. Yr oedd un ohonynt yn hen lowr siriol, diddan ei gwmni, a diddrwg ei galon; arall, hefyd yn lowr, yn hoender ei fywyd, llawn ei ben o dalent, a llawn ei galon o garedigrwydd, yn blentyn rhamant a barddoniaeth natur a bywyd yr hen Fynydd Du. Ni fagwyd ei siriolach dan gysgod y mynydd hwnnw, ac nid gormod yw dweyd na chodwyd bardd naturiolach yn ardal Cwmaman. Erys ei gân yn ein calon fel murmur y Pedol, a dyledswydd a braint inni, pan ddaw hamdden a hwyll, fydd talu teyrnged o barch iddo mewn awen a chân. Yn ei ymyl mae bedd bachgen ieuanc talentog "rifwyd o'r athrofa" yn un ar hugain oed, ac yn ei ymyl yntau mae bedd un ieuanc arall, athraw gobeithiol yn ysgol y pentref; ond gwnaeth angau "ei ddwyn ef yn ddeunaw oed." Ychydig i fyny mae hunfa un oedd gyfaill ac yn gyfoed â ni, gafodd ei ddiwedd yn y llofa ar fore o wanwyn,—yng ngwanwyn ei fywyd; a gerllaw iddo mae gorweddfa hen bererin welodd fwy o auafau na hafau yma, a gwir yw y llinell sydd ar faen ei fedd,— "Yn ei fedd gwyn ei tyd." Ond y maen gyffyrddodd â serch dyfnaf ein calon yn "erw Duw" oedd yr un oedd â'r geiriau hyn yn gerfiedig arno,—**BEDD MAM.** Gwir y canodd dau o'n beirdd byw,—

Nid unwaith y bu mam dyner — yn drist  
Ar draeth rhyw gyfyngder;  
A'i salm yn fud dan y ser,—a'i chalon  
Fel y wendon yn torri o flinder.

ELFED.

O fy mam! A fu i mi—un wyneb  
Mor anwyl i'm llonni?  
Drwy holl afwydd y blwyddi  
Ni fu neb mor fwyn a hi.

MYFIR HEPIN.

Yr oedd arwyddion amlwg ar y beddau fod Sul y Blodau bron gerllaw, ac fod yr adnod honno yn cael ei darllen unwaith eto gan Natur,—**"Gwelwyd y blodau ar y ddaear."**

*Coleg Bala-Bangor.*

**M. LLEWELYN.**



COCH Y BERLLAN.

**ADAR EFIN HARDALOEDD.**

**RYW.** Un o'n hadar lleiaf yw'r dryw, yn meddu ar gorff byrr a del, ac y mae yn sionc a chwim ei symudiad, o liw llwyd. Gwna ei nyth mewn clawdd neu yng nghysgod boncyff. Gwynion yw lliw ei wyau, gydag ysbotiau bychain cochion. Mae yn gantor peraidd ei lais. Arhosa gyda ni trwy'r flwyddyn.

**XVII. EURBINC.** Aderyn bychan hynod o brydferth. Mae ei dalcen a'i wddf o liw coch; tu ol i'w ben, a phlu ei wegil yn ddu, a rheda rhesi gwynion ar hyd ei adenydd, a'i fron o liw melyn-goch. Mae hwn eto yn gantor tlws, ac yn arhosol trwy'r flwyddyn.

**XVIII. Y GOG.** Aderyn llwyd-las, heb fod yn anhebyg i'r golomen, ond ei bod yn fwy eiddil ei chorff. Y mae yn un o'r adar crwydr. Am ryw ddau fis a hanner yr erys hi gyda ni. Daw yma yn nechreu Ebrill, a bydd yn myned yn ol tua chanol Mehefin. Bydd yn gwneyd yn fawr o'i hamser trwy ganu yn ddi-dorr. Ni chymer amser i wneyd nyth, ond cymer feddiant o nyth aderyn arall, a dodwya yn hwnnw.

**XIX. Y GYLFINHIR.** Aderyn o liw llwyd-ddu yw hwn, gyda gwddf hynod hir, a'i big yn hir, ac yn camu i lawr. Byddant yn ehedeg yn bur uchel. Maent yn chwibanwyr da, byddant i'w clywed yn aml o flaen gwynt.

**XX. GWYLANOD.** Adar hynod brydferth. Mae eu cefnau ac odditanynt yn glaerwyn, eu hadenydd o liw glas gwan, ac ychydig blu duon ar flaenau eu hadenydd. Adar y môr ydynt, ond byddant yn dod i fyny i'r wlad.

**XXI. GWYDDAU.** Mae'r gwyddau yn rhai o adar mwyaf ein gwlad, ac yn adar dof. Maent o liw llwyd neu wyn, gyda phig hir, llydan, melyn. Bron nad ydynt i'w gweled ym muarth pob amaethwr, ac fe fydd gwledda mawr ar eu cig oddeutu'r Nadolig. Y mae eu plu hefyd yn ddefnyddiol i wneyd gwelyau esmwyth.

XXII. GRUG IEIR. Adar llwydion yw y rhai hyn. Maent i'w cael yn y mynydd, ac y maent yn perthyn i'r helwriaeth.

XXIII. HWYAIÐ. Mae gwahanol fathau ohonynt, rhai gwylltion a rhai dof. Mae gwahanol liwiau arnynt hefyd. Mae ganddynt gorff trwm, a choes ferr; ac y mae ganddynt web ar eu traed, yr hwn sydd yn eu helpu i nofio. Nis gallant ehedeg ond ychydig.

XXIV. HWYAIÐ GWYLLTION. Mae y rhai hyn yn ychydig yn llai na'r rhai dof. Mae eu gyddfau a'u pigau yn hwy na'r rhai dof. Yn y corysdd y maent i'w cael, ac y maent yn perthyn i'r helwriaeth.

XXV. IEIR. Mae'r ieir yn adar pur fawr, a llawer math ohonynt, —yr ieir dofion, ieir dwr, *guinea hens*, &c. Mae gwahanol liwiau arnynt, a rhai yn meddu ar grib mawr, coch; ereill a'u crib yn fychan. Adenydd bychain, ond llydain, sydd ganddynt. Mae rhai math yn meddu ar gorff trwm, ereill yn ysgafnach. Ychydig a allant ehedeg. Mae y rhai goreu ohonynt yn dodwy bob dydd am dymor. Mae'r ceiliog dipyn yn fwy, ac yn aderyn prydfferth a gwrol iawn, a chanddo grib mawr, coch, a phlu ei gynffon yn hir, ac yn troi i lawr.

XXVI. LLINOS. Mae y llinos yn aderyn lled fawr. Mae gwahanol fathau ohonynt, sef Llinos y Mynydd a'r Llinos Lwyd. Ceir y gyntaf yn y mynyddoedd, ac y mae ei brest o liw ysgarlad. Y mae y Llinos Lwyd yn gantores ardderchog, a gwahaniaetha oddiwrth y gyntaf yn ei brest.

XXVII. LLWYD Y BERTH. Aderyn bychan, ysgafn o gorff, a'i blu yn llwydion. Gwna ei nyth mewn eithin neu berth. Dodwa wyau bychain, o liw glas gwan.

XXVIII. MWYALCHEN. Mae hwn yn aderyn pur fawr. Mae'r ceiliog yn ddu, gyda phig felen, a'r iar o liw llwyd. Mae'r fwyalchen yn gantor hynod o soniarus. Gwyrddlas yw lliw ei hwyau, a bydd yn aros gyda ni trwy'r gauaf.

XXIX. NICO. Aderyn pur fychan, gyda phlu llwydion, a chan rai ohonynt bennau cochion. Bydd llawer yn eu dal, ac yn eu rhoddi mewn cawell i'w magu. Byddant yn canu yn brydfferth, yn bur debyg i'r *canary*.

XXX. PENEURYN (*Goldfinch*). Aderyn heb fod yn fawr. Mae ei wddf a'i dalcen yn goch, ac o'r tu ol i'w ben a'i wddf yn ddu, ei gefn yn felyn tywyll, a'i adenydd yn ddu a melyn, tra ei gynffon yn wen.

XXXI. PETRIS. Adar yn perthyn i'r helwriaeth yw y rhai hyn eto, a byddant yn heidiau yn canlyn eu gilydd. Dywedir fod gwisg a lliw'r petris yn ymgyfaddasu at yr hinsawdd poeth ac oer. Maent yn adar pur anhawdd i'r heliwr eu canfod, am eu bod o'r un lliw a'r tir. Mae eu cig yn ymborth blasus. Maent yn byw o 15 i 18 mlynedd.

## DAMHEGION CYMRU.

## VI.—DAMEG YR HEN WRAIG A'I FEDAFFEDD.

**H**EN wraig yn fam i lawer o blant ac wyrion<sup>1</sup> yn gweled anghydfod<sup>2</sup> rhyngddynt, a'u galwodd ynghyd ger ei bron; a phan ddaethant, nid llai nag ugain ohonynt,—

“Dygwch imi,” ebe hi, “bob un ohonoch, bellen o edau.”<sup>3</sup> A hynny a wnaethant.

A chymeryd un o'r pelleni edefyn ungor<sup>4</sup> a wnaeth hi, a rhwymaw dwylaw y gwannaf o'i hwyron; ond buan y torres y mab bychan ei rwyrau. Yna, rhwymaw ei ddwyllaw âg edefyn oedd gryfach, o bellen arall; a hawdd y torred hwnnw. Ac yn unwedd y bu a phob un arall o'r pelleni,—nis gellid rhwym didor<sup>5</sup> ag un ohonynt; torrid y cryfaf yn ail<sup>6</sup> i'r gwannaf.

Yna parodd yr hen wraig iddynt gyfrodedd<sup>7</sup> yr holl belleni yn un rhaff; a hynny a wnaethpwyd. Gwedi hynny y cymeres yr hen wraig o honaw,<sup>8</sup> ac a rwyms ddwyllaw y cryfaf o'i meibion; ac nis gallai mewn modd yn y byd ei dorri.

“Gwelwch,” ebe hi, “maint cadarnach yr edau yn gyfrodedd nag ungor! Felly chwithau, fy mhiant a'm hwyron, tra bo'ch yn ymwahanu pob un ar ei ben ei hunan, y naill yn anghydgais a'r llall,<sup>9</sup> hawdd i bob un a chwennych eich gorfod<sup>10</sup>; ac nid oes na chais orfod a fo alledig iddo namyn un o fil.<sup>11</sup> Ond ymgydlynwch yn un a'ch gilydd,<sup>12</sup> yn gyfrodedd<sup>13</sup> a chadarn y byddwch, heb alledigaeth i elyn o'r byd eich gwrthladd.”<sup>14</sup>

Ag o hyn y cafwyd y ddihareb,—“Cadarnach yw'r edau'n gyfrodedd nag yn ungor.” A dihareb arall a ddywed,—“Nid cadarn ond cydnerth.” Ac medd un arall,—“Hawdd tafu'r mynydd i'r môr yn ol ei wahanu y naill garreg oddiwrth y llall.”

Geiriad arall ar yr un gwirionedd yw,—“Mewn undeb y mae nerth;” ac y mae'n amheus gennyf a oes heddyw ar glawr daear genedl sydd wedi dioddef cymaint ym mhob rhyw fodd a'r genedl Gymreig, oherwydd gwrthod cymeryd ei harwain a'i llywio gan y gwirionedd yna. Os oes rhywbeth wedi ein gwanychu yn fwy marwol na dim arall, hynyna ydyw,—ymraniadau diddiwedd a dibaid. Ac ni ddeuwn byth i fwynhau ein safle briodol, ein breiniau

<sup>1</sup> Grandchildren. <sup>2</sup> Disagreements, quarrels. <sup>3</sup> A ball of woollen yarn. <sup>4</sup> Yarn of a single strand. <sup>5</sup> Unbreakable bond. Just the same as. <sup>7</sup> Twist or plait. <sup>8</sup> Some of it. <sup>9</sup> Each refusing to act with the other. <sup>10</sup> Excel, overcome, or conquer. <sup>11</sup> And scarcely is there one in a thousand that seeks not to overcome, if he be able to do so. <sup>12</sup> Join or cling together. <sup>13</sup> Like plaited strands. <sup>14</sup> Withstand, oppose.

cyfiawn ym Mhrydain ein hen dreftadaeth, nac yn rhengoedd cenhedloedd ymddyrfhafol y byd, hyd oni ddysgwn yn well pa fodd i gyd-dynnu, i gyd-weithio yn well.

"*Divide et impera*"<sup>16</sup> oedd yr ysprydiaeth fall eisteddai ar lumanau eryrog Iwl Caisar, y sarnwr mawr cyntaf ar ryddid a breiniau cenhedloedd Ewrob. Cyffelyb iddo ydoedd ysbrydiaeth gadofyddol Buonaparte, ail fathwr mawr gwledydd cred,—“Cyd-ruthrwn ar gyswllt gwannaf y gelyn.”

Ni ddigwyddasai brad Buallt, nac aberth Aberedwy, oni buasai am ein hymraniadau torcalonnus ar hyd y chwerwon oesoedd. Na sonier fyth bythoedd mwy am Ogledd a De, Hwntw a Northyn, Gwynedd a Phowys, ond am Gymru gyfunol gyfrodedd.

<sup>16</sup> Rhanna'n bleidiau, a theyrnasa.

### AR LAN Y BROCHUS LI'.

[DARN I'W ADRODD.]

YMFERWAI a rhuai yr eigion,  
A'r nefoedd uwchben oedd yn ddu;  
Ymwibiai y mell fel ellyllon  
A rhuai'r taranau yn gry';  
Y gwyntoedd ofnadwy ymruthrent,  
A lluchid y llong ar bob llaw,  
A'r tonnau i'r entrych ymchwyddent  
Nes llanw pob mynwes â braw.

Ar lan y brochus li'  
'R oedd gwraig y morwr gwiw,  
Yr hon ddyrchafal 'i chri  
I'r nefoedd fry at Dduw;  
Ei chalon oedd yn brudd,  
Edrychai hi yn syn,  
A'r dagrau ar ei grudd,  
Gweddio 'r oedd fel hyn,—

*Llanfairfechan.*

“Fy Nuw, o'th nefol breswyl,  
O! clyw fy llefain i,  
A chadw 'mhriod anwyl,  
Sydd ar y tonnog li';  
O! taena'th aden drosto,  
A chynnal ef, fy Nuw;  
Bydd Di'n amddiffyn iddo,  
O! cadw ef yn fyw.”

Y gwynt a ostegodd,  
A'r mor a dawelodd,  
Achubwyd y morwr ardderchog;  
Do, do, fe wrandawyd  
Y weddi ddyrchafwyd,  
Un hynod yw Duw, a thrugarog.

E. JONES.

☛ Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLLYN, Y BALA.



## AT Y PLANT.



WN innau am amryw blwyfi lle mae'r plant ieuengaf, rhai dan ddeg oed dyweder, a'u henwau yn enwau Cymraeg. Y mae llawer o ffurfiau Cymraeg ar enwau dieithr hefyd, megis "Sian" a "Mair," enwau llawer mwy persain a thlws na'r ffurfiau estronol "Jane" a "Mary."

BYDD erthygl ddyddorol yn y rhifyn nesaf, ac apêl at blant Cymru gan y Parch. L. Humphreys, un o'r fintai gyntaf o sefydlwyr ym Mhatagonia. Rhydd hanes plant Cymru'r Andes, a phlant yr Indiaid. Mae llawer o gwyno yng Nghymru fod yn rhaid i'r plant fynd dair milldir o ffordd i'r ysgol; cewch weld faint o ffordd sydd gan blant yr Andes, a sut yr ant.

B. Gellwch gael cyfrol o waith y ddau fardd a ennwch,—Dafydd ab Gwilym ac Islwyn,—am ddeunaw ceiniog yr un, oddiworth y Mri. R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy.

OES, y mae gan sir Drefaldwyn restr hir o feirdd, o Owen Cyfeiliog at Ann Griffiths, a thrachefn at Mynyddog a Thafolog.

J. Nid oes gennyf gyfeiriad llawnach i'w roddi. O hyn allan bydd enw a chyfeiriad pob cyfansoddydd uwch ben ei dôn. Am ganiatad i'w hargraffu, anfoner at y cyfansoddydd. Os na bydd ei gyfeiriad ar ol ei enw, dengys hynny nad yw'n foddllawn i roddi caniatad ineb.

Y MAE llawer iawn o ganeuon bychain prydferth mewn llaw. Arhosant tan amser cyfeus; ni wiw imi gyhoeddi cân haf yn rhifyn y rhew a'r barrug. Yr wyf yn diolch i R. Goch o Wynedd, a lliaws nad oes gennyf le i'w henwau, am ganeuon.

UN ran o addysg plant Cymru yw dysgu sylwi ar bethau o'u hamgylch, ar y planedau fry, ac ar adar o'n cwmpas. Y mae croesaw i erthyglau ar addysg. Carwn yn fawr gael ffrwyth profiad ambell athraw.

PELL fo diraddio barddoniaeth o'm meddwl. Ond onid oes gormod ohonom yn feirdd? Dylai llygaid uchelgais ein bechgyn a'n merched gymeryd trem eangach. Edrychwch ar y darlun yr ochr arall i'r ddalen,—darlun o webydd ym Mhenmachno yn gweu brethyn ar hen batrwm Cymreig. Oni wna i chwi feddwl y gellir cyfaddasu athrylith y Cymro at waith, at ddyfeisiadau gyfoethoga'r byd? Hyd yn hyn, y mae athrylith Cymru, fel ei hafonydd, yn rhedeg yn wyllt. Dangos llwybrau defnyddioldeb yw amcan addysg y dyddiau hyn.



DIWYDIANNAU CYMRU. VIII. GWRU BRATHYN.



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XIII.

MEDI, 1904.

RHIF 153.

## CAERGYBI.



UA chanol y bedwaredd ganrif, ceir hanes am un o'r enw Cybi, mab i frenin Cernyw, yn dod i fyw i Fon. Yr oedd yn bur dlawd. Tosturiodd tywysog Mon wrth weled ei dlodi, a rhoddodd iddo gastell ar gwrr eithaf yr ynys. Sefydlodd Cybi fynachlog fechan o fewn y castell, a galwyd y lle oddi-ar hynny yn Gôr Cybi. Y mae gweddillion caerâu Cybi i'w gweled hyd heddyw ar y tu gogleddol i'r eglwys blwyfol. Mae y llythrennau hyn yn y dull Gothaid,—

“SANCTE KYBI ORA PRO NOBIS” (O Cybi Sant gweddia drosom) i'w gweled yn awr.

Gelwir ynys fechan Caergybi yn “Ynys Halen,” am mai yno y byddid yn derbyn y doll ar yr halen a ddygid i'r rhan yma o'r wlad. Dywedir mai William Morris, brawd Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fon), oedd y prif swyddog yn y tolldy yma. Bu William Morris farw yn y flwyddyn 1764.

Y mae yma olion nifer o aneddau, a elwir “Cutiau y Gwyddelod,” yn aros yn yr ardal hon hyd yn awr, fel y gellir gweld yn y Tŷ Mawr, Porth Naumarch, Ynys Llyrad. Hefyd, y mae yma amryw gromlechau.

Y mae yma for-fur sydd yn filltir a hanner o hyd. Y gloddfa anferth o'r lle y codwyd y defnyddiau ydyw Mynydd y Tŵr, yr hwn sydd yn 700 troedfedd uwchlaw gwyneb y môr. Gwelwyd oddeutu 1,500 o weithwyr yn cloddio meini i lenwi cylla gwancus Dafydd Ios, er cael seiliau cedyrn yn y môr i'r mur. Difawyd swm anferth o bylor yma. Ar ddydd Gwener, Ionawr 16, 1857, taniwyd 16,000 o bwysau o bylor, a chwythwyd yn ysgyrion tua 100,000 o dunelli o'r mynydd. Cyn tanio yr ergyd fawr hon, gwelwyd gafr yn pori yn ddiotal ar y mynydd; ac mewn eiliad daeth i lawr ar frig y croglwyth cwmpiedig yn groen-iach ddigon, ond yn bur ddychrynedig.

Dydd Mercher, Medi 9, 1844, gyda chwe tunnell o bylor, rhyddhawyd 40,000 o dunelli o'r graig.

Dywedir fod oddeutu 800 o longau yn achlesu yng nghysgod y môr-fur yma bob blwyddyn. Costiodd y môr-fur £1,500,000.

Y mae yn Ynys Lawd, gyda'i goleudy, ei chloch, a'i phont gadwynol, 365 o risiau, sef gris am bob diwrnod yn y flwyddyn.

Mae yma dair o gof-golofnau, y gyntaf o'r tu fewn i eglwys y plwyf, i'r diweddar Anrhydeddus William Owen Stanley; a'r ail i Capten Skinner; a'r llall i ymweliad y Brenin Sior IV. ag ynys Fon, Awst 7, 1821. Ond nid oes cof-golofn yng Nghaergerbybi, nac yn unlle ym Mon, i Lewis Morris na Goronwy Owen.

*Caergerbybi.*

THOMAS PARRY.

### RWF'N PENDERFYNU CANU.

**M**I af dan ganu ar fy nhaith,  
Ar frigwyn donnau amser,  
Er cael fy nghuro lawer gwaith,  
Gan hen dymhestloedd blinder;  
Rhwyng cymyl gofid uwch fy mhen,  
Mae'r nef o hyd yn gwenu;  
A gobaith wna a'i law frwd wen,  
I dannau'm calon ganu.

Telynau'r awel sydd i gyd  
Yn canu'n fwyn a diddig;  
Maent hwy mewn llawen hwyl o hyd,  
Am lenwi'r byd â miwsig;  
O na bawn fel yr awel lon,  
Mewn rhyddid sy'n anadlu,  
Yn cludo balm i lawer bron,  
Wrth fynd drwy'r byd dan ganu.

*Y Bala.*


Mae'r aber fach yn canu'n fwyn,  
Yng ngwyneb rhwystrau mawrion;  
Tra dawnsia'n llon rhwng grug a brwyn,  
Olyw'r byd ei chlychau mwynion;  
Heb wrando ar fygythiol lais,  
Ceunentydd brâd yn gwgu,  
Rhof lam dros hen adfeilion trais,  
Fel gwna y frwd dan ganu.

Fel llais o'r nef yn nyfnder nos,  
Yr eos sy'n telori;  
Anadla'i swynol alaw dlos,  
Yn felus iawn wrth foli;  
Os duo'm nen wna aden fawr  
Nos adfyd i'm dychrynu;  
Yng nghwmni'r eos nes tyrr gwawr,  
Rwy'n penderfynu canu.

RICHARD AB HUGH.

## BETH OEDD Y SWN.

I. Y SWN.



UAI gwynt y nos dros y fro. Yr oedd pob goleu wedi ei ddiffodd, a phawb yn huno.

“Mam, y mae rhywun yn y ty.”

Parodd y geiriau i galon y fam guro'n gyflym gan ddychryn. O'i wely yr oedd Cydwalad yn gwaeddi y geiriau hyn, ac yr oedd rhwng hanner nos ac un o'r gloch y bore. Siop yn y wlad oedd y cartref yr wyf yn son am dano. Yr oedd y tad yn wael yn ei wely. Yr oedd Cydwalad, bachgen wyth oed, wedi ceisio deffro ei frawd bach cysglyd, Gruffydd, pump oed. Yr oedd y nos yn dywell iawn, a storm yn codi. Credai'r fam mai sw'n y gwynt oedd y bachgen yn glywed, ac y cysgai' toc.

“Mam, mam,” meddai'r bachgen wedyn, “mae rhywun yn y ty. Mi glywa i ei sw'n o.”

“Ffasiwn sw'n wyt ti'n glywed?” ebe'r fam.

“Sw'n rhywun yn curo, curo, curo.”

Clustfeiniodd y fam, a churai ei chalon yn gynt. Ceisiai gredu mai'r gwynt oedd yn gwneyd y sw'n. Ond, er ei braw, clywai sw'n curo yn y siop. Yr oedd eu harian yno. Nid oedd yr un ty arall yn agos, ac nid oedd bosibl galw am gymorth o unlle.

“Mam, mae rhywun yn y ty yn siwr.”

Oedd, yn sicr, yr oedd yno ryw guro. Deffrodd y fam ei gŵr. Clustfeiniodd y gŵr claf. Credodd fod rhywun yn y siop. Yr oedd wedi ennill yr arian yn galed. Yr oedd yn wael, hwyrach na fedrai ennill mwy. Cydiodd mewn cryman oedd yn digwydd bod ar ben y grisiau, ac aeth i lawr. Ai yn ochelgar, ond yn wrol. Dilynai ei wraig ef a chanwyll. Ar ei hol hithau deuai Cydwalad. Yr oedd Gruffydd yn dal i gysgu'n drwm.

Yr oedd y sw'n wedi darfod erbyn hyn, a phob man yn ddistaw fel y bedd. Aethant i'r gegin ac i'r parlwr yn gyntaf. Nid oedd yno neb. Mentasant i'r siop. Nid oedd neb yno ychwaith. Yr oedd y clorian ar y cownter fel y gadawyd ef y nos o'r blaen, ond fod y gwynt yn gwneyd iddo symud rhyw ychydig iawn. Nid oedd neb wedi myrryd a dim.

"Y gwynt a glywaist ti," ebe'r tad wrth Cydwalad. "Dos i dy wely yn dy ol." Ac ni chlywyd ychwaneg o swm y noson honno.

#### II. Y LLYGAID TAN.

Dywedodd y plant yr hanes bore drannoeth wrth bawb a welent. Yr oedd Cydwalad yn sicr iddo glywed lleidr yn y ty; ond credai iddo ddianc pan welodd y cryman. Yr oedd Gruffydd hefyd yn meddwl el fod wedi clywed rhywbeth, er fod ei frawd yn sicrhau nad oedd bosibl ei ddeffro.

Yr oedd llanc o'r enw John Jones yn byw gerllaw, yr hwn a ystyriai ei hun yn un dewr iawn. Aeth at wr y siop, a dywedai y daliai y lleidr os cai bwys o dybaco am wneyd. Nid oedd gan y siopwr fawr feddwl o ddewrder John Jones, ond gadawodd iddo dreio. Yr oedd John Jones i aros yn y gegin dros y nos, ac i ruthro i'r siop i ddal y lleidr pan glywai ef yno.

"Peidiwch a'i ladd, John Jones, dim ond ei ddal," ebe'r gŵr claf. Ni welodd John Jones y direidi yn llygaid y siopwr, ac atebodd yn dalog,—“Gadewch chwi rhyngddo i ag ef.” Gallasech feddwl fod tynged y lleidr wedi ei phenderfynu.

Aeth pobl y siop i'w gwelyau wedi i John Jones ddod yno. Daeth y gŵr dewr yno yn ddirgelaidd trwy'r cefn, rhag i'r lleidr ei weled, a deall ei berygl. Dechreuodd y nos fynd yn ddistawach, a gwyliai John Jones. Rywsut yr oedd yr awydd i ddal y lleidr yn lleihau yn ei galon. Yr oedd yn dywyll fel y fagddu. Hust! Beth sydd yna? O dim ond y cloc yn paratoi i daro. Crynnai gliniau John Jones. Ond o'r diwedd dechreuodd ddyddio, ac wedi cael brecwest, dechreuodd John Jones deimlo ofn fod y lleidr yn ddigon call i beidio dod i'r siop eto.

Daeth y noson wedyn, a daeth John Jones. Eisteddodd yn y gegin fel o'r blaen, ac ni ddigwyddodd dim tan oedd y cloc wedi taro hanner nos. Yna clywai swm wna i'w liniau grynnu, i'w anadl fyrhau, ac i'w wallt godi'n oer ar ei sefyll.

"Cnoc, cnoc, cnoc-cnoc, cnoc!

Daeth awydd gwyllt am ddianc dros John Jones. Ni chofiai lle'r oedd y drws, ond cofiai lle'r oedd y grisiau. Rhuthrodd tuag yno, gan feddwl dianc i'r lloft. Ond yr oedd ganddo ddigon o chwilfrydedd, er ei fraw, i edrych wrth basio trwy gil drws agored y siop i'r tywyllwch oedd ynddi. O'r tywyllwch hwnnw gwelodd ddau lygad tanllyd yn fflamio arno.

"Wchwl! Mwrddwr! Mwrddwr!" A syrthiodd John Jones ddewr yn bentwr wrth droed y grisiau. Clywodd pawb yn y ty y waedd. Rhedodd gŵr y siop i lawr y grisiau, a dychrynnodd beth wrth

ddod yn erbyn y gŵr llonydd wrth droed y grisiau. Daeth y wraig â chanwyll, a chwiliwyd y ty. Cawd nad oedd neb yno ond John Jones. Holwyd John Jones yn fanwl, ond ni cheid ganddo ond un peth, sef,—

“Nid lleidr sydd yn eich ty chwi, ddyd, ond cythraul.”

Yr oedd chwys oer wedi dod dros John Jones, ac ai iasau trwyddo wrth gofio am y llygaid.

“A ddowch chwi yma heno, John Jones?” ebe'r gŵr.

“Na ddof byth. Ddown i ddim yma tae chi'n rhoi i mi hynny o baco sydd yn siop Williams Caer.”

Ac ni welwyd y dewr John Jones yn y siop mwy.

### III. DARGANFYDDIAD GRUFFYDD.

Fia nos wedyn yr oedd Gruffydd yn eistedd wrth y tân yn y gegin ei hun. Yr oedd ei dad yn ei wely yn wael, a'i fam wedi mynd allan am ennyd. Yr oedd Cydwalad wedi mynd ar neges. Yr oedd yn dechreu nosi, a lamp y siop wedi ei goleuo.

“Cnoc, cnoc, cnoc-cnoc, cnoc.”

“Dene'i lleidar nhw,” ebe Gruffydd, a rhedodd yn ddistaw at ddrws y siop i gael golwg arno. Gwelodd rywbeth a barodd iddo synnu.

Toc, daeth ei fam i'r ty.

“Mami, mi wn i pwy ydi'r lleidar. A mi wn i llygaid beth welodd John Jones.”

“Diar anwyl, Gruffydd, beth?”

“Be ga i am ddeyd?”

Edrychai'r fam arno mewn syndod. A dechreuodd Gruffydd ddweyd yr hanes yn ei ffordd araf ei hun.

“Wel i chi, 'roeddwn i'n eistedd wrth y tân, a mi glown 'cnoc, cnoc,' fel yr oeddych chi'n deyd yn union. A mi es at ddrws y siop. A mi welwn pwsî ar ben y cownter yn llyfu'r clorian. Ac wrth iddi hi lyfu un pen, yr oedd y pen arall yn taro ar y cownter, ac yn gwneyd 'cnoc, cnoc.'”

Yr oeddynt wedi pwysu ymenyn yn y clorian, ac yr oedd peth o'r arogl yn aros, a thafod pwsî'n chwilio am dano hyd y glorian.

### DYFFRYN MAENTWROG.

MAIN yw tir tlws Maentwrog,—nid diffwrth,  
Ond Dyffryn toreithiog,  
Wena'n glyd dan eirian glog  
Yn dawel ardd flodeuog.



## INGER.

## II. BRAGDY GWRACH Y GORS.

**T**EIMLODD Inger ei hun yn cael ei thynnu i lawr ar ol y dorth. Nid oedd bosibl tynnu ei throed oddiarni. Yn fuan iawn yr oedd wedi suddo dros ei phen. Pe buasech yn mynd heibio, ni buasech yn gweled dim ond twll du yn y mwd.

I ble yr aethai Inger fach dlos, falch?

Hwyrach i chwi glywed son am Wrach y Gors. Hen wrach hyll ydyw, yn byw yn y ddaear dan y corysydd. Ei gwaith yw bragu, sef gwneyd diod i'r ellyllod

sy'n byw tan y ddaear. Chwi welsoch darth yn codi fel mwg o'r corysydd, os ydych yn byw yn agos atynt. Dywedir mai'r mwg yn codi oddiar gerwyni bragu Gwrach y Gors yw y rhai hynny.

O, yr oedd yno le anifyr i Inger. Wrth iddi suddo i lawr yr oedd y llaid du oer yn cydio am dani, yn difwyno ei dillad, ac yn llenwi ei gwallt. Hwyrach i chwi weld pwll o fudreddi ar gornel yr heolydd. Buasai hwnnw yn lle hardd o'i gydmaru â bragdy Gwrach y Gors. Yr oedd yn llawn o gerwyni. Yn y rheiny yr oedd rhyw ddiod ffaidd; ac yr oedd arogl yn codi o bob un ohonynt, ac yn llenwi y lle â drewdod. Rhwng y cerwyni yr oedd llyffaint gwlybion a nadroedd tewion oerion yn llenwi pob man. "Ugh!" meddai Inger, pan gyffyrddai un ohonynt â hi.

"Ha! ha!" meddai Gwrach y Gors, "fuoeh chwi erioed mewn lle mor grand, ai do? Adar a defaid a gloynod byw sydd yn y wlad y daethoch chwi o honi. Ond welwch chwi, mae yma nadroedd, a geneugoegiaid, a llyffaint, a malwod. Awyr las a chymylau sydd yn eich gwlad chwi, ond mwd du meddal sydd yn y wlad hon. Y mae blodau a glaswellt yn eich gwlad chwi, ond yma nid oes ond ambell gingroen."

Wylai Inger yn hidl wrth weled lle yr oedd. Hiraethai am yr awyr iach, prin y gallai anadlu yn y lle erchyll hwn. Buasai'n dda ganddi gael mynd a'r dorth i'w mam; yr oedd y dorth dan ei throed o hyd. Ond yr oedd mor falch ag erioed. Ei gofid mwyaf oedd fod y llaid yn difwyno ei dillad hardd a'i chroen glân prydferth. Tynnu i lawr wna balchder, nid codi i fyny.

"Ond, fyddwch chwi yma fawr," ebe Gwrach y Gors, "mae'r dorth yna yn sicr o'ch tynnu i lawr i seler y Wrach Ddu. Bydd arnoch hiraeth am y bragdy yma pan ewch yno."





HANS.

**PLANT YR ISELDIROEDD.**

**Y** R Iseldiroedd" yw yr enw Cymraeg ar Holland, ac Isellmyn y galwn eu preswylwyr. Y mae Holland, y rhan fwyaf o honi, yn is na'r môr; ac y mae gwarch-gloddiau mawr yn cadw'r môr o'i chaeau ffrwythlon a'i gerddi lliosog. Yn aml y mae'r tai yn sefyll ar bolion uwchlaw'r dŵr.

Y mae'r plant yn rhai gonest a dewr, a hoff iawn o ddysgu. Eu tadau hwy oedd arwyr rhyddid yn Ewrop, a dysgir y plant i edmygu dewrder eu hynafiaid, megis y tywysog Gwilym Ddistaw a'r llenor Erasmus.

## Gweddi'r Plant.

Y Geiriau a'r Gerddoriaeth gan D. LLOYD DAVIES,  
Dolwyddelen, *Chwefrol*, 1904.

DOH Eb. *Moderato*.

m : f   m   s : - : f	m : - :   r : - : -	r : m : f   l : s : f	m : - : -   - : - : -
d : r : d   m : - : r	d : - : -   t : - : -	t : - : t   t : d : t	d : - : -   - : - : -
l. Cym-er ni, blant bych - ain,		Ar-glwydd, yn dy law,	
s : - : s   l : - : l	s : - : -   s : - : -	s : - : r   f : m : s	s : - : -   - : - : -
d : - : d   f : - : f	s : - : -   s : - : -	s : - : s   s : - : s	d : - : -   - : - : -

Bb. t. *eres*.

r : s : l : s   d : t : d	r : - : -   m : - : -	r : m : f   m : - : r	d : - : -   - : - : -
t : m : f : m   s : - : s	t : l : s   s : - : -	l : - : l   s : - : f	m : - : -   - : - : -
Os y gwnei di'n har - wain,		Waeth pa frynt - ni ddaw ;	
d : - : m   m : f : m	f : - : -   m : - : -	d : - : d   d : - : t	d : - : -   - : - : -
d : - : d   m : r : d	s : l : t   d : - : -	f : m : r   s : - : s	d : - : -   - : - : -

f. Eb.

d s : l : t   d' : - : s	ta : - : -   l : - : -	l : t : d e'   r' : - : l	d' : - : -   t : - : -
m : t : d : r   d : - : m	s : - : -   f : - : -	d e : r : m   r : - : r	r : - : -   - : - : -
Med - ri di bal-mant - u		Llwy-br idd ein troed—	
d s : - : s   s : - : d'	d' : - : -   d' : - : -	l : - : l   l : - : l	f e : s : l   s : - : -
ta : f : - : f   m : - : m	d : r : m   f : - : -	s : - : s   f e : - : f e	r : m : f e   s : - : -

rall.

t : d' : r'   m' : - : r'	d' : - : t   l : s : f	m : s : f   m : d : r	d : - : -   - : - : -
r : m : l   s e : - : m	m : - : r   d : m : r	d : - : d   d : - : t	d : - : -   - : - : -
Clyw-som i - ti'n car - u,		I - ti'n car - u 'rloed.	
s : - : l   t : - : t	l : - : s e   l : - : -	s : ta : l   s : m : f	m : - : -   - : - : -
s : - : f   m : - : s e	l : - : m   f : d e : r	m : m : f   s : - : s	d : - : -   - : - : -

2 Llwybrau blin crwydredig  
Ydyw'n heiddo oll,—

Iesu bendigedig,  
N'ad i'n fynd ar goll ;  
Yn dy ras a'th gariad  
Bydd yn geidwad plant,  
Dyma ein dymuniad—  
Byw, a marw'n sant.

3 Gwyddost ti galonau  
Plant bach fel nyni,—  
Er ein holl ffaeileddau  
Gwna ni'n blant i ti :  
Atat, hwyr a bore,  
Dysgwyd ni i droi,  
Erfyn arnat *fai'deu*,  
Gofyn wnei di *rei*.

4 Dysga ni i gadw'th  
Gyfraith oll i gyd ;  
Dysg ni i ofni d'enw  
Ac osgoi dy lid ;  
Gad i ni gael llechu  
Yn dy gysgod di :  
Er ein mynych bechu  
Cofia, cofia ni.

5 Gwylia'n camrau hefyd  
Trwy dreialon oes ;  
Bydd yn nerth i'n hysbryd  
Dan awelon croes ;  
Gad i ni d'adnabod  
Wrth in' ddechreu byw  
A chael gwneyd cyfamod  
Gyda thi, ein Duw.

## "FE DDAW LLYWELYN ETO'N OL."

X. DYCHWELIAD LLYWELYN.

**A**ETH llawer bliwyddyn heibio (ychwanegai Uwchlyn Meirion) cyn i mi gael golwg ar Ddôl Feurig ar ol yr adeg gyffrous yma. Yr oedd Llywelyn a Gwen wedi priodi ers blynyddau, ac yn byw yn gysurus yn y Fron. Ond pan gefais gyfle i fynd i'r hen ardal, y cyntaf gyfarfyddais oedd Rhobet Dafydd yn dod i lawr y llwybr o'r "Toilers' Rest," a dau blentyn yn ei ganlyn, un yn ei law a'r llall yn dal gafael yng nghwt ei gôt.

"Wel, Rhobet Dafydd," meddwn i wrtho, "ydych chiwi o bawb ddim wedi mynd i fynychu'r 'Toilers' Rest,' a ydych?"

"Ydw, wel di, fachgen," ebai, "a does arna ddim cywilydd o hono 'rwan. Fe fu'n codi gwrid i fy wyneb lawer tro, ond yr ydym yn cyd-dynnu yn lled dda erbyn hyn. Mae yma amryw o honom yn byw yma, ac yn eithaf cysurus hefyd, wel di. Fe wyddost mai Gwen a Llywelyn sy'n byw yn y Fron, a dyma eu dau blentyn, Rhobet a Chaden; a does eu clysach yn y byd, fel y gweli. Ond son yr oeddwn am Llywelyn. Pan ddaeth yn berchennog ar y Fron, un o'r pethau cyntaf wnaeth oedd gwneyd i fwrdd â'r dafarn, a'i droi yn gartref i rai o'm bath i a phlant bach wedi colli eu mam, wel di, a rhwng popeth y mae yma le pur dda, er mai'r 'Mynijar' sy'n dweyd hynny wrthyt ti. A phaham na ddylai'r hen adeilad yma fyw i tyny a'i broffes, a bod yn 'Toilers' Rest' gwirioneddol?" ychwanegai'r hen forwr.

\*     \*     \*     \*     \*

"Bobol bach." meddai Rhys William bach, mewn cwrdd dirwestol yn Llwyn yr Eithin y noson honno, "bobol bach, os oes rhai o'r ieuenctyd yma wedi rhoddi'r cam cyntaf ar y goriwaered, peidiwch sefyll â'ch dwylaw ym mhleth; cofiwch am yr hen Gaden Dafydd. Mae gwirionedd o'n tu, 'rwy'n credu, ac os nad oes arnoch eisieu'r dafarn yna'n Llwyn yr Eithin yma, gwnewch eich gore i'w chau. Ond beth ydw i'n son? Os ydyw'n destyn eich gweddiau; os ydych yn gwneyd eich rhan i gael yr atebiad eich hunain; os ydych yn ceisio rhoddi anadl bywyd yn esgyrn sychion eich gweddiau, yna fe wrandewir arnoch. A phaham, meddaf eto, y digalonwch wrth weled yr anhawsderau? Wedi i chiwi fod fel yma ar eich gliniau yn gofyn am atebiad i'ch gweddiau, torched pob un o honoch e' lewys, dechreuod weithio, ac yna 'FE DDAW LLYWELYN ETO'N OL.'"

"A rhywbeth fel hynyna," meddai'r hen frawd o Feirion, "bydd pobl Dôl Feurig yn cysylltu 'Fe ddaw Llywelyn eto'n ol' gweddi a gwaith dan fendith Duw."

*Cathays, Caerdydd.*

JOHN EDWARD JONES.

## MORDAITH CAPTEN COOK.

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)



## IX. ARCHWILIO AWSTRALIA.

AD. Os wyf yn cofio yn gywir, Ifor, yr ydym i ddechreu heno drwy adrodd am Capten Cook yn ymbaratoi i hwylio drwy fynedfa ar ogledd orllewin New Holland, i ddau amcan penodol; sef i edrych am le cyfleus i wneyd gwelliantau ar y llong, ac i archwilio y parth hwn o'r wlad newydd. Wedi angori tufewn i'r gilfach, a chanfod y llanw ar ei dro yn ol, tybiodd mai afon oedd yn llifo i mewn, ac y buasent yn sicr o ddwfr croew a lle

cyfleus ar ei glannau i adgyweirio y llong. Glaniodd ef a Dr. Solander, Mr. Banks, ac ychydig o ddwyllaw y llong. Cawsant bod teithio yn orchwyl blinderus iawn, oherwydd

bod y tir wedi ei orchuddio a math o lysiau, had y rhai oedd mor flaenlym nes oeddent yn glynu wrth ddillad y teithwyr, ac yn treiddio drwyddynt fel picellau i'w cnawd. Hefyd, talodd byddin liosog o'r mosquitos ymweliad â hwynt, a bernir nad oes ymhlith holl greaduriaid ysglyfaethus y byd rai mwy sychedig am waed na'r rhai hyn.

IFOR. Pa fath greaduriaid ydynt, fy nhad? A ydynt yn fwy na'r llew?

TAD. Nac ydynt, math o wybed go fawr ydynt; ond y mae ganddynt golynau peryglus. Pe digwyddai rhyw hanner dwsin ohonynt ddyfod ar wibdaith i'ch canol chwi, blant yr ysgol, pan ar y chwareule, byddent yn sicr o draws-gyweirio eich tôn lon i'r lleddf mwyat galarus mewn byrr amser. Nid oedd afon yn llifo i'r gilfach fel y tybiodd y Capten ar ei fynediad i mewn iddi; nac un cyfleusdra arall am ddwfr croew, na lle manteisiol i adgyweirio y llong. Wrth fyned i fyny, daethant ar draws amryw o brennau *gum*, ond ychydig *gum* oedd arnynt. Mewn man arall yn y wlad, cawsant fath arall heb ond ychydig o'r nwydd defnyddiol arnynt; ac yn grogedig wrth y canghennau liaws mawr o nythod morgrug gwynion bychain, wedi eu hadeiladu gan y rhai bychain diwyd â chlai, o faintioli llestr wyth galwyn. Ar rywogaeth arall o'r *Gum-tree*, gwelsant forgrug duon

bychain, y rhai oedd yn tyllu y brigau, ac yn tynnu allan eu rhannau tufewnoi tyner, ac yn cyfaneddu yn y gwagleoedd hynny. Gwnaent hefyd eu llochesau mewn dail a blodau. Yno hefyd ceir rhywogaeth o'r gloen byw, y rhai sydd ar brydïau mor lliosog yn yr awyrgylch fel y maent megis yn ddigon eang i orchuddio tair neu bedair erw o dir. Gellir yn fynych ganfod miliynau ohonynt ym mhob cyfeiriad; heblaw y rhai a fyddant ar y dail a brigau y coed. Yr oedd yn y man hwnnw hefyd fath neillduol o bysgod bychain, y rhai oedd yn byw ar dir sych, ac yn llamu o'r naill fan i'r llall fel brogaod.

IFOR. A gawsant ddwfr croew?

TAD. Naddo, na man i adgyweirio y llong. Y dydd nesaf, sef y 30ain o Fai, ar doriad y wawr, cymerodd Capten Cook olwg fanwl ar yr arfordir, ac ar yr ynysoedd oedd gerllaw iddo, a'u cyfeiriad. I'r diben hwnnw yr oedd ei gwmpawd ganddo. Cafodd fod rhyw ddylanwad cryf o rywle yn peri i'r nodwydd fod yn ansfydlog, weithiau yn cyfeirio ddeg gradd ar hugain o'r cyfeiriad priodol. Er gwneyd prawf, cymerodd nifer o gerrig rhyddion, gan eu gosod yn agos i'r nodwydd, a gwelodd nad oedd y rhai hynny yn effeithio dim ar y cwmpawd. Felly daeth i'r penderfyniad bod mwn haiarn yn y mnyddau gerllaw; ac ar ol ychydig o ymchwiliad, cafodd mai felly yr oedd. Yn nesaf hwyliasant tuag i fyny i'r fynedfa, ac erbyn i'r llanw gyrraedd ei fan uchaf yr oeddent yn y pellder o bedair milltir ar hugain i fyny o fan eu cychwyniad. Mae lled y fynedfa yn y pellter hwnnw yn amrywio o ddwy i bum milltir, felly yn ffurfio llyn anghyffredin o fawr, ac yn y gogledd-orllewin yn ymuno â'r môr; ac fel prawf sicr o hynny, yr oedd llifant y llanw yn dylod yn gryf i'r cyfeiriad hwnnw. Canfyddodd y Capten gainc yn ymestyn o'r llyn tua'r dwyrain; parodd hynny iddo dybio bod y fraich honno yn ymuno â'r môr, gerllaw y rhan isaf o'r giltfach, ar yr ochr orllewinol i Benrhyn Townshend. Ar y tu deheuol i'r llyn y mae cadwyn hir o fryniau, y rhai yr oedd Capten Cook yn awyddus i'w dringo; ond oherwydd bod y rhan fwyaf o'r diwrnod wedi ei dreulio, a'r hin a gwedd tygythiol arni, ofnodd aros i gyflawni ei amcan rhag i'r nos eu dal, ac iddynt ymddyrysu ar droiad y llanw, a hynny mewn lle hollol ddieithr iddynt. Penderfynasant gymeryd mantais ar y llanw, a dychwelyd at y llong. Canfyddasant ddau o'r brodorion, y rhai a ganlynasant y bad o hirbell; ond oherwydd eu bod yn cael eu cludo mor gyflym, methodd ein boneddwy'r gael cyfle i gynnyg ymgomio â hwynt.

IFOR. Peth rhyfedd iddynt weled cyn lleied ar y brodorion.

TAD. Ie. Ar yr adeg honno gwelsant amryw o danau mewn un cyfeiriad, a mwg yn esgyn i fyny o fannau ereill, yr hyn oedd yn brawf fod y parth hwnnw o'r byd wedi ei boblogi i ryw fesur y pryd

hwnnw. Tra yr oedd y Capten a Solander yn gwneyd archwiliad manylach ar y fynedfa, aeth Mr. Banks a chwmmi ar daith i gyfeiriad na chymerwyd o'r blaen; ond nid aethant ymhell cyn eu rhwystro gan bantle corsiog, wedi ei orchuddio â'r *mangroves*. Gydag anhawsdra mawr aethant rhag eu blaen. Wedi hynny daethant i fan yr oedd pedwar o danau newydd fod yno, a gerllaw yr oedd cregyn ac esgyrn pysgod i'w canfod, ac hefyd bum sypyn o wair. Profai hynny nad oedd y brodorion yn ymdrafferthu i gario eu gwelyau o'r naill fan i'r llall.

IFOR. Pa fodd yr oeddent yn medru cynneu tân yr adeg honno, fy nhad?

TAD. Nis gwn, Ifor. Dichon eu bod yn gwneyd fel y gwelais yr hen bobl yn gwneyd pan oeddwn yn ieuanc; sef defnyddio feallai y garreg dân (*flint*) i daro tân, neu yn rhwbio dau bren ar eu gilydd. Gan fod y ddwy ffordd grybwylledig mor syml, cynghoraf di, Ifor, i wneyd prawf arnynt, dichon y gall hynny fod o fantais fawr i ti. Darganfyddodd Mr. Gore, mewn man arall, olion traed anifail go fawr. Yr adar a welsant yn y rhanbarth yma oedd y *bustards*, ac ychydig o'r rhywogaeth brydferthaf o'r *loriquets*. Yr oedd y tir yno yn gyffredin yn noeth a thywodlyd, ac yn anghyfadde i ddynion ei gyfaneddu. Oherwydd prinder y lle am ddwfr croew, yr enw a roddodd y Capten iddo oedd Thirsty Sound. Ni chafodd ein morwyr yno ddim adfywiol luniaeth o gwbl, na dim arall ag oedd yn anogaeth iddynt dreulio amser yno. Ar yr 31ain, codasant yr angor, ac ymaith i'r môr. Pan oeddent o dan y penrhyn a elwid Cape Upstart, ar y 4ydd o Mehefin, yr oedd nodwydd y cwmpawd yn chwareu o'i lle hyd naw o raddau i gyfeiriad y dwyrain, yr hyn oedd yn brawf eglur i'r Capten mai dylanwad rhyw fetel oedd yn guddiedig gerllaw oedd yn achosi hynny. Ar brydnawn y seithfed, gwelodd y morwyr ar un o'r ynysydd yr hyn oedd yn ymddangos iddynt, yn ol eu tyb hwy, fel coed *cocoa-nut*, a firwyth arnynt. Gan nad oeddent wedi cael dim o'r fath ers hir amser, yr oeddent yn dra awyddus am rywbeth felly. Anfonodd y Capten dri o'r bonedd-wyr i'r ynys i chwilio am ryw adfywiol luniaeth. Wedi cyrraedd yno, yr oedd y pren cnau wedi troi yn bren *cabbage*, ac arno tua phymtheg o blanhigion. Ni chafodd y bonedd-wyr ar yr ynys ddim ag oedd yn werth i'w gario oddiyno. Ar yr 8fed, pan oedd y llong ymhlith nifer o fân ynysydd, gwelodd y morwyr gyda'u pellwydrau tua deg ar hugain o frodorion yr ynysydd,—yn wyr, gwragedd, a phlant,—yn sefyll yn un twrr, ac yn edrych gyda syndod ar y llong. Hwn oedd y tro cyntaf i'n morwyr ganfod arwydd o'r duedd gywreingar yn y brodorion yn y rhan hon o'r wlad eang. Nid oedd gan un o'r trueiniaid edefyn o un math o wisg am danynt. Yr oeddent mor

debyg i'r rhai a welwyd yn flaenorol fel nas galleid nodi ond ychydig o wahaniaeth rhyngddynt.

IFOR. Fy nhad, a fu'r morwyr mewn enbydrwydd am eu bywydau oddiworth dymhestloedd ar eu taith hir ?

TAD. Do, ac yn enwedig yn y lle hwn. Yr oedd cylchynu arfordir Deheudir Cymru Newydd yn beth anhawdd iawn, oherwydd y nifer mawr o faesleoedd cuddiedig a'r lliaws creigiau uchel a ymestynent i gryn bellder i'r môr, yr hyn oedd yn golygu llawer iawn o waith, yn enwedig i Capten Cook.

IFOR. Paham iddo ef yn fwy nag arall, fy nhad ?

TAD. Oblegid un o amcanion y Capten ar y daith hon oedd nodi ar ei *chart* bob man peryglus yr elai i gyfyrddiad âg ef, er cyfarwyddyd i fordeithwyr yn y dyfodol i fod yn ochelgar; ac hefyd gosodai i lawr yn fanwl bob mantais a welodd i longau angori. Nodai hefyd beth oedd cynhyrchion pob ynys a gwlad. Gwnaeth y rhwystrau hyn ei fordaith yn y parth hwn dros fil o filltiroedd yn hwy nag y buasai, pe heb y rhwystrau. Ar noson y 10fed o Mehefin, pan yn gadael lle a enwodd y Capten yn Trinity Bay, yr oedd y nenforwyn yn lloergannu ar ei gore, a'r awel yn myned heibio gyda su dymunol o dynerwch. Yr oeddent am naw o'r gloch yn nofio ar 21 gwrhyd o ddyfnder; ond aeth y llong, pan oedd y morwyr ar swper, ar y lle mwyaf peryglus a gytarfuasant drwy adeg yr holl daith. Gorchymynnodd y Capten i'r holl ddwyllaw fynd i'w lleoedd penodol yn ddoedi, ac yr oeddent oll yn barod ymhen ychydig eiliadau at orchymyn eu swyddogion,—rhai yn mesur y dyfnder, ereill yn paratoi i angori pan gawsent ddyfnder digonol. Yr oedd perygl mwy yn eu hyml, a gwelsant eu hunain wyneb yn wyneb ag angau.

*Dinas, Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

### OS GWYWO WNAETH.

[John Owen Hughes, mab seith mlwydd Bron Heulog, Betws y Coed, fu farw Mawrth, 1904. Bachgen bach hoffus gan bawb yn y Betws oedd Johnny, yr oedd ei eiriau a'i fywyd yn dawel, yn siriol, a difrif. Nid oedd tertyn ar ei garedigrwydd.]

**O**S gwywo wnaeth ym mlodau  
 Ei fywyd, cofler am  
 Ei rodiad tîws a'i eiriau  
 Yn hir gan dad a mam;  
 I'w ran cystuddiau mwyach  
 Ni ddâl, na gofid trist;  
 Tragwyddol fywyd bellach  
 Yng nghwmni Iesu Grist.

Yng ngwlad yr aur delynau  
 Mae telyn yn ei law;  
 Fe gefnodd ar ofidiau,  
 Nid ynt yr ochr draw;  
 Rhyw fiodyn prydferth ydoedd,  
 Gan Dduw a gaed yn rhodd;  
 A galwyd hwn i'r nefoedd,  
 Mae yno wrth ei fodd.

DAVID THOMAS (*Lewi Tudur*).



DAFYDD A GOLIATH.

“Ac a gymerth oddiyno garreg, ac a daflodd.”

1 SAM. xvii. 49.



**DAFYDD A GOLIATH.**

**BOB** hanes adroddwyd i blant, y mae hanes Dafydd a Goliath yn un o'r rhai hoffaf ganddynt.

Yr oedd yr Israeliaid a'r Philistiaid wedi ymwersyllu ar gyfer eu gilydd. Ymysg y Philistiaid yr oedd cawr, ac yr oedd yn herio'r dewraf o'r Israeliaid i ddod i ymladd âg ef. "Dewiswch i chwi wr," meddai, "i ddyfod i waered ataf fi."

Hawdd y gallai ymfrostio a herio. Yr oedd o faintioli cawraidd. Yr oedd helm o bres am ei ben, yr oedd llurig emog am dano, yr oedd botasau pres am ei draed, yr oedd paladr ei waewffon yn ddigon o faich i wr.

Digalonodd Saul a'i wyr. Nid oedd neb yn ei fyddin feiddiai ymladd dros ei wlad â'r fath ryfelwr. Yn nyffryn Elah yr oedd hyn.

Daeth bugail ieuanc i gwrr y gwersyll. Ei enw oedd Dafydd, ac yr oedd yn dod a lluniaeth i'w dri brawd oedd yn y fyddin. Clywodd y bachgen y cawr yn herio yr

Israeliaid, ac yn eu dirmygu oherwydd fod arnynt ei ofn.

A digwyddodd peth rhyfedd. Dywedodd y bugail ieuanc yr ai ef i ymladd â'r cawr. Gwisgwyd arfau y brenin am dano, ond ni fynnai y rhai hynny. Gwell oedd ganddo fyned fel yr oedd, heb ddim ond ffon dafi, fel yr ymladdasai â'r llew a'r arth i achub bywyd yr oen.

"A'i ci ydwyf fi," ebai'r cawr, pan welodd y bugail yn dod, "gan dy fod yn dyfod ataf fi â ffyn?" A'r Philistiad a regodd Dafydd trwy ei dduwiau ef.

Atebodd Dafydd ei fod yn dod yn enw y Duw a gablasai y Philistiad. Rhedodd i'w gyfarfod, cymerodd garreg o'i god, rhoddodd hi yn y ffon dafi, ac a daflodd, ac a darawodd y Philistiad yn ei dalcen. A'r garreg a soddodd yn ei dalcen ef, ac efe a syrthiodd i lawr ar ei wyneb.

Pam y mae'r hanes mor ddyddorol? Am ei fod yn digwydd o

hyd, ac yn hanes pob gwlad. Mae'r gwan yn trechu y gorthrymus cawraidd o hyd drwy ryw foddion syml na feddyliasai neb am danant o'r blaen, yn nerth Duw. "Llanc ydwyt ti, ac yntau sydd ryfelwr o'i febyd." Ie, ond "eiddo yr Arglwydd yw y rhyfel," ac y mae Rhyddid i ennill llawer brwydr eto.

—◆◆—

### PRIDDLESTR HENAFOL.

**L**YGDAD a chalon hen ddinas Rhufain oedd y Forum, yma yr oedd marchnad, rhodfa, dadleufa, brawdle, a senedd y ddinas. Casglasai haenau trwchus o ysbwriel dros holl arwyneb y llannerch freiniol hon, croniad canrifoedd lawer. O'r diwedd, wedi cael ymward o hunllef gormes dymorol y Babaeth,—diolch i Mazzini ddoeth a Garibaldi ddewr,—penderfynodd llywodraeth newydd Victor Immanuel ddechreu clirio ymaith yr ysbwriel, a gwneyd ymchwiliad manwl a gofalus ar bob rhawiad o'r baw, ar bob troedfedd o'r fangre gysegredig; ond byddai yn ofynnol llenwi llyfr lled drwchus i ddweyd hanes y caffaelion rhyfedd a gwerthfawr gafwyd yno.

I'r Cymro Beiblaidd,—a pha wir Gymro sydd nad yw wedi ei drwytho â pharch at gynnwys Llyfr y Llyfrau,—iddo ef, tebycaf mai y peth mwyaf dyddorol welir yno heddyw yw Bwa Cof Titus (*Arch of Titus*), y cadfridog Rhufeinig appwyntiwyd gan Dduw yn offeryn i ddinistrio Jerusalem ac i losgi ei theml, yn y flwyddyn 70 O.C., gan ddwyn i derfyniad y gyfundrefn Foesenaid o addoli. Nid yn hawdd yr anghofiaf y teimladau dyfnion cynhyrfus lanwai fy mynwes wrth sefyll o flaen, a cheisio sylweddoli y cerf-ddarlun rhyfeddol a welir ar y Cot-fwa hwnnw,—gorymdaith rwysegfawr orfoleddus Titus a'i lengoedd buddugoliaethus yn dychwelyd i Rufain ar hyd y Via Sacra, wedi llwyr ddarostwng Palestina; ar eu pennau goronau llawryf y gorchfygwr, ac ar eu hysgwyddau ddodrefn a llestri aur teml Dduw yn Jerusalem. Y mae y canwyllbrenau saithgeinciog yn neilltuol fyw yn fy nghof. Ar y cyntaf yr oeddwn yn rhyw chwerw aniddig ymotyn â mi fy hun, sut erioed y goddefodd y Duw Mawr y fath gysegr-ysbeiliad, ac yn rhyw fetu yn lân a dygymod â'r dretn, yr oruchwyliaeth chwithig, nes cofio geiriau'r Iesu, cyfiawn Farnwr y Byd yn yr awr honno, fel eto yn yr Awr Olat,—“OND CHWI A'I GWNAETHOCH YN OGOF LLADRON.”

Ond hyn oedd wedi dal fy llygad heddyw—(gan redeg a'm myfyrodau yn ol dros ryfedd gamfeydd, a throellog lwybrau rhyw dair blynedd ar hugain) gweled hanes, neu gyfnodiad, fod y Signor Boni, prif oruchwyliwr yr arloeswyr, wedi dod o hyd i ysten henafol

iawn yn y Forum, oblegid dengys yr ysgrifenedd sydd arni ei bod yn perthyn i'r ddeuddegfed ganrif cyn Crist, ac felly yn myned yn ol rhyw 400 mlynedd cyn sylfaeniad y ddinas, yn ol y cyfrif derbyniedig, yn amser Romulus a Remus. Casgliad yr hynafieithydd dysgedig yw ei bod yn *relic* o ryw hen ddinas safai yno cyn bod Rhufain.

Wel, os felly y mae, nid yw y llestr hwn ond megis er doe i'r pethau ddarganfyddir gan Flinders Petrie yng nghanol adfeilion hen ddinasoedd yr Aiffit a glannau bytholwyrdd y Nilus. Mor ryfedd yw gloewder a chraffder pellwelog llygad y gŵr o ddysg heddyw.

H. BRYTHON HUGHES.

### Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.

VI. DAEARFESURIAETH (*Geometry*.)

**D**YSG Ddaearfesuriaeth,—rhydd led a hyd,  
A maint rhyfeddol ein hudol fyd;  
Esbonia faintiolaeth yn glir a llawn,  
A dyaga fesrifiaeth yn gywir iawn.

Dysg Ddaearfesuriaeth,—*Geometry* yw,  
A mam *Mathematics* i ddynol ryw;  
Cei gymorth i fesur y ddaear i gyd,  
Os gelli gael amser rhwng beddrod a chryd.

Dysg Ddaearfesuriaeth,—rhagorol fydd hyn,  
Cei fesur y dyffryn, a phwyso y bryn;  
Cei ddysgu cysylltiad maintioli pob rhan,  
A deall marwolaeth y don ar y lan.

Dysg Ddaearfesuriaeth,—gelfyddyd o fri,  
Rhydd gymorth i ddeall Rhesymeg i ti;  
Wrth fesur y ddaear, mesura dy hun,  
A gweli mor fychan yw'th gyfran gun.

R. EUROG JONES.

### Y PYSGOTWR BACH.

**P**YSGOTWR bach wyf fi  
Ar lan y môr yn byw,  
Fy nghwch sydd ar y lli  
Ac yn fy llaw mae'r llyw;  
Rwy'n codi gyda'r wawr,  
A gweithiaf trwy y dydd,  
Rwy'n dawnsio dros y tonnau mawr,  
O flaen yr awel rydd.

Mae'r bad yn gyflym hwylio,  
Arbedaf ef rhag cam;  
Can's dyma yw cynhaliath  
Y cadben bach a'i fam.  
Caf bysgod dirifedi  
O ddyfnder tonnau'r aig,  
A gartref af a'm dalfa,  
Gan ochel danne'r graig.

Mae mam yn gwylio'n brysur  
Mewn bwth uwchben y traeth,  
Yn ofni'r wendon rymus  
Sy'n berwi megis laeth;  
Ei chalon sydd yn llawen  
Pan adref daw y bad,  
Can's yn y wendon greulawn  
Y collais i fy nhad.

*Bryn Aman.*

CEREDIG AMAN.

## LLYFRAU NEWYDDION.

**GWAITH ROBERT OWEN.** Llian, ymyl uchaf oreuredig, darluniau, 112 tud., 1/6. Conway, R. E. Jones a'i Frodyr, neu Ab Owen, Llanuwchllyn.

Gwaith bardd o'r Abermaw fu farw'n ieuanc ydyw y gyfrol hon. Dwysder a gwirioneddolrwydd teimlad yw nodweddion y gân. Nid wyf yn meddwl y gall neb beidio darllen y gyfrol i gyd wedi ei dechreu, ac erys y bardd mwyn a phrudd yn gydymaith bywyd mwy.

**DRINGO'R ANDES.** Gan Eluned. Amlen, darluniau, 104 tud., 1/- I'w gael oddiwrth David Evans, 5, Pearson Street, Castle Road, Caerdydd.

Hanes y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, a darluniad o daith i'r Andes, sydd yn y gyfrol fechan swynol hon. Y mae Eluned Morgan yn ysgrifennu Cymraeg melus a thryloew, ni ysgrifennir Cymraeg gwell. Mae'r testyn yn newydd hefyd, a darlunia fynyddoedd na ddarluniwyd yn Gymraeg o'r blaen. Y mae gair o glod yn ddyledus i'r Brodyr Owen, o'r Fenni, am dlynsi argraffwaith y llyfr.

**Y PARCH. THOMAS CHARLES, BALA.** Gan y Parch. Edward Thomas, Tregarth. Llian, darluniau, 92 tud. Caernarfon, Llyfrfa y Methodistiaid.

Bywgraffiad o Charles o'r Bala yw hwn, wedi ei awgrymu gan Ganmlwyddiant y Feibl Gymdeithas. Y mae'n glir, yn gryno, ac yn ddarllenadwy iawn. Mae Mr. Thomas yn un o'r rhai goreu am wneyd bywyd neu symudiad yn eglur mewn cwnmpas byrr.

**Y PORTH PRYDFERTH,** ac ysgrifau ereill. Gan Anthropos. Amlen, 152 tud., 1/-. Hughes, Gwrecsam.

Casgliad o naw o erthyglau yw y llyfr hwn. Y mae popeth ysgrifennu Anthropos yn ddyddorol, ac o werth llenyddol. Y mae llawer o amrywiaeth hyfryd yn y gyfrol fechan,—y cain yn y "Golofn a'r Lili," y rhyfedd yng "Ngronynau'r Mynydd," y digrif yng "Nghylchwyl Lenyddol Cwm-llefrith," a'r dwys tyner yn "Nadolig Hen Filwr."

## Y FFORDD I WLAD SHON GWSG.

(RPELYCHIAD.)

**M**AE'r tren yn gadael am chwech y nos,  
I'r wlad lle tyfa'r crinllys a'r rhos;  
Y fam ofalus y peiriant a yrr, [dyrr.  
A gwyneb y teithiwr mewn gwenau a  
Y gerbydres hardd yw breichiau y fam,  
Yn lle chwibanogl,—canig ddi-nam;  
Y teithiwr wincia, a cholla ei wên,  
A chysgu yn dawel a wnaiff yn y tren.

Bryn Aman.

Am wyth mae'r olaf dren yn mynd,  
A ffarwello raid â mam a ffrynd;  
Gorchymyn glywir yn taro y glust,—  
"Pawb ar y bwrdd i gysgu!" "Ust!"  
Faint yw y tocy'n i wlad y mud?  
Gobeithio, er popeth, nad ydyw yn  
ddrud!  
Cusan, cofseidiad, a hynny mewn gwên,  
A chofier eu talu i yrrwr y tren.

CERRDIG AMAN.

## DAMHEGION CYMRU.

## VII. DAMEG Y GOF A'I AIR DA.

GOF gynt a gafas air da iawn, a chlod am wneuthyr celfi min' tra rhagorol; a gŵr erchis ganddo fwyall dda, ac addewid o'i chael a gafas.

A phan oedd y gof yn gweithio ar y fwyall, y dur, dan bwys yr ergyd, a dasges<sup>2</sup> ymaith.

"Meistr! meistr!" ebe gwas y gof, "y mae'r dur wedi tasgu ymaith!"

"Pwya<sup>3</sup> di'r haearn," ebe'r gof, "os yw'r dur ym maes, mae'r gair ym mewn."

Ac fel hyn y mae yn y byd, ni waeth pa ddrwg a wnelo undyn wedi y caffo air da, na pha ddaioni a wnelo undyn gwedi y caffo air drwg, neu cyn y caffo air da. A gwir y diarhebbion,—“Dedwydd a gaffo air da,” a “Nythed drwg yng nghesail gair da,” neu o fodd arall,—“Cais nyth y drwg yng nghesail gair da,” a “Mynych y syrth mefi o gesail gair da, fel y bu i'r gof a'r dur yn y fwyall;” ac am hynny, nid diogel ymddiried yn fawr i air da nebun o'r byd. Gwae a gaffo air drwg yn ieuanc, a chan mwy gwae a fo iddo air drwg yn hen, can nas gellir diwyg ar hwnnw.

Rhaid inni ymdrechu bod yn dda bob bydd, bod yn garedig, yn eirwir, yn onest, yn ufudd, yn lân, yn ddiwyd, yn brydlawn bob dydd, er mor anhawdd yw hynny. Os byddwch yn dda pan yn blant, bydd yn hawddach ganwaith i chwi fod yn dda pan dyfdech i fyny. Peth anhawdd iawn yw i'r dyn llawn dwf fod yn lân, yn garedig, yn eirwir, os bydd wedi ei ddwyn i fyny pan yn blentyn yn fudr, yn greulawn, yn gelwyddog.

Os ydych am beidio a bod yn ddyn meddw byth, peidiwch a chymeryd yr hanner peint cyntaf byth. Os ydych am gadw eich anadl yn beraidd, a'ch dannedd yn glaerwyn, a pheidio byth fyned yn ysmygwr melynddant, arogl-frwnt, peidiwch cymeryd eich temtio gan *neb* i ysmocio y catiad cyntaf.

O mor ddiolchgar y dylai miloedd plant Cymru fod, am fod ganddynt dad a mam da a duwiol, i ddysgu moesau ac arferion da a dymunol iddynt pan yn ieuanc. Y mae moesau yr aelwyd ac arferion mebyd yn gwreiddio mor ddwfn yn y natur, nes myned yn egwyddorion llywodraethol yn y dyn ieuanc a'r gŵr priod, yn arogl bywyd i fywyd, neu yn arogl marwolaeth i farwolaeth. Gwnant,

<sup>1</sup> *Cullery.* <sup>2</sup> *Neidiodd, flew off.* <sup>3</sup> *Taraw, strike.*

codant a dyrchafant chwi yn uwch uwch tua broydd y bywyd; neu llusgant chwi yn is is i fro y bedd a chysgodion angau.

Beth pe dwfn gerfid yr adnod hon mewn llythrennau eglur ar dalwyneb pob aelwyd yng Nghymru,—“Yn ymweled ág anwiredd y TADAU ar y PLANT hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth?” Odid na newidid cryn lawer ar y gweithredoedd gyflawnir yng ngolwg, ar y geiriau leferir yng nghlyw y PLANT. Paham, meddir, “hyd y *drydedd* a'r *bedwaredd* genhedlaeth?” Dial pechod y tad a'r fam ar y plentyn, yr wyr, y gor-wyr, ie, weithiau ar blentyn hwnnw wedyn!

Byddwn i yn arfer meddwl mai y rheswm oedd fod Daw megis yn ymatal, yn peidio a'i ddig ac a'i soriant erbyn hynny; fod y *bumed* genhedlaeth, megis, yn cael ei derbyn yn ol i'w ffafwr. Tybed ai dyna yr esboniad iawn, yr eglurhad cywir? Ai fel yna y saif pethau o'n cwmpas; ai dyna y ffeithiau; ai dyna hanes y teuluoedd drygonus? Edrychwch i mewn i bethau,—y pethau hynny sydd tu fewn i gylch eich profiad, neu eich sylwadaeth chwi.

Yn ol fel y darllenais i yn ddiweddar, dyma ddywedai un o bregethwyr enwocaf y byd Cristionogol, mai tystiolaeth ddiawmys, bendant, gwyddoniaeth a phrofiad yw,—“Y mae yr ‘ymweled,’ y cospi, yn peidio gyda'r ‘*drydedd* a'r *bedwaredd* genhedlaeth,’ am *nod oes yno*, ond yn anaml, ‘bedwaredd genhedlaeth,’ na byth ‘*bumed*’ i'r tadau a'r mamau anuwiol. Y mae Duw yn eu carthu ymaith oddiar wyneb daear.” Dyna hefyd brofiad y Psalmydd, onide?

Teimlaf fy nghalon yn clafychu wrth sefyll ond ennyd ferr uwchben y syniad,—y ffaith?—ofnadwy; ac ni faidd fy ysgrifell dramwy ymhellach ar hyd y llwybr du. Ond, wedi gollwng llawer ochenaid drom, cawn felus dertynu gyda chyfeiriad at yr ochr oleu.—“Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.” Y mae yn y fan yna, i'r tad a'r fam dduwiol, ryw swm nefolaidd, hyfryd. Clywch! Y mae yna, fel swm dyfroedd lawer, swm traed gorymdaith urddasol yn ymestyn ymlaen, ymlaen, ymlaen hyd ddiwedd byd a thranc amser, o dduwiolion glan ac anwyl, oll yn disgyn yn uniongyrch o'u lwynau hwy, fel Israel o lwynau Abraham, tad y ffyddloniaid.

Beth yw hyd llinell neu âch frenhinol Prydain Fawr, o Alffred hyd Victoria, o'i chydmaru â'r llin frenhinol sy'n frydio o honoch chwi, dadau a mamau duwiol. “Marchio” ym mlaen gorymdaith o ddisgynyddion fel yna i'r nesoedd, dyna iti, ddyn duwiol, anrhydedd! Ond “Iddo Ef” fydd uchaf dant dy gân. O ie, “Nid i ni, ond i'rh Enw dy Hun dod y gogoniant.” Braint o anfesurold urddas yw cael gwisgo y titl o DAD neu FAM; neu, o'r ochr arall, ———?

## Y BLANED IAU.

MAINT CYMHAROL  
Y PLANEDAU.

Iau  
Sadwrn  
Neptune  
Uranus  
Y Ddaear  
Gwener  
Mawrth  
Mercher

**O**S trowch eich gwynebau i gyfeiriad awyr y de, ychydig i'r dwyrain, tua deg o'r gloch ar noswaith dyner, dawel, glir ym mis Medi, cewch weled y blaned Iau (*Jupiter*) yn disgleirio yn ei ogoniant. Efe ydyw cawr y cysawd heulog; ac ymhlith y bydoedd mawr yna y try y blaned fach yr ydym ni wedi cael yr aruchel fraint o fyw arni. Y "Ddaear" yw ei henw. Syllwch ar y darlun cyntaf, a chwi gewch weled maintioli yr oll o blanedau ein cysawd. Cymberwch hwynt â Iau. A welwch chwi ein daear ni yn ymguddio tua'r gwaelod, onid yw hi'n fach? Gadewch yr awenau ar warr eich dychymyg, a gadewch iddo garlamu cyn gyflymed a goleuni tua'r blaned Iau, ac fe gyrhaedda yno ymhen tri chwarter awr. Os teithia goleuni 186,000 o filltiroedd mewn eiliad o amser, ac os cymera dri chwarter awr i gyrraedd Iau, pa mor bell ydyw Iau?

Wedi i chwi gyrraedd yno, arhoswch yno am ennyd, a chwi gewch weled rhai o ryfeddodau y byd mawreddog hwn. Nid planed a chrystyn caled yn gorchuddio neu yn amwisg i gnewyllyn eiriasboeth, megis y ddaear, ydyw Iau, ond byd anferth o dân, nid yn llosgi, ond yn twymwriddo megis haiarn cochedig; ac yn chwyrndroi mwy na hanner miliwn o weithiau'n gyflymach nag y chwyrnellir bwled o'r un dryll.

Wedi i chwi ganfod pellder Iau, chwi ganfyddwch ei fod yn sefyll gymaint a phum gwaith ymhellach oddiwrth yr haul nag y saif y Ddaear; a chan fod goleuni a gwres yn lleihau yn ol mesur y byddo ysgwarau y pellderau (*squares of their distances*) oddiwrth y corff goleuol yn cynyddu, rhaid nad yw Iau yn mwynt ond y bumed ran ar hugain ( $\frac{1}{25}$ ) o'r gole a'r gwres a dderbynia y Ddaear. Tybiw


i chwi roddi y blaned ardderchog hon yn y glorian, buasai'n ofynol i chwi gael 300 o gyrff gymaint a'r ddaear i'w godi yn y pen arall. Bron nad wy'n dychmygu clywed y bachgen cyflym yn dweyd,— "Gan ei fod yn pwysu tri chan cymaint a'r ddaear, rhaid ei fod dri chant o weithiau'n fwy?" Ond mae y bachgen cyflym yn cyfeiliorni, fel arfer. Mae tunnell o wair yn llawer mwy na thunnell o lo, ond tunnell bwysa'r ddau. Ond pe gwesgir yr awyr allan o'r gwair, aiff cyn lleied a chaleted a'r glo, neu os chwythir awyr i'r glo, aiff yntau mor ysgafned a'r gwair. Er nad yw Iau ond tri chant o weithiau'n drymach na'r Ddaear, y mae'n 1,200 o weithiau'n fwy. Cyfrifir am hyn gan y ffaith mai byd o fater tanllyd neu eiriasboeth yw Iau, o ganlyniad y mae'n llawer ysgafnach na byd oer crystynllyd megis y ddaear; ac y mae Iau yn chwyddedig gan wres am yr un rheswm ag y cynyddda darnau o fater yn eu maintioli ar y Ddaear pan eu twymir.

Try Iau mor gyflym ar ei echel tel na chymer ond deng awr i gyflawni un tro, gan hynny nid yw ei ddydd ond pum awr o hyd, a'i nos o gyffelyb faint, wrth gwrs. Gogwydda echel y blaned cyn lleied oddiw'rth yr unionsyth, fel y mae o'r bron yn unionsyth ei hun; a chan fod amrywiaeth yn nymhorau (*seasons*) planed yn dibynnu ar osgoad yr echel i'r chwylygylch (*orbit*), ac yn gymaint a bod echel Iau o'r bron yn unionsyth, nis geill fod dim gwahaniaeth yn ei dymhorau nac unrhyw gyfnewidiad yn hyd ei ddydd a'i nos. Ei ddydd a'i nos sydd yn wastadol yn bum awr, ar ei gyhydedd (*equator*) y mae haf diddarfod, ac yn ardaloedd y pegynau y teyrnasa gauaf tragwyddol.

Gan y teithia Iau ar yr ochr allan i'r Ddaear megis, a chan y saif gymaint o filltiroedd oddiw'rth yr haul, fe deithia o ganlyniad yn llawer arafach ar ei daith nag y gwna y Ddaear. Fe gynhwysa ei flwyddyn gymaint a 4,380 o ddyddiau, neu ddeuddeng mlynedd.

Pan drodd Galileo ei bellwydr ar Iau y waith gyntaf, gwelodd bedair o oleuadau neu osgorddion (*satellites*) yn amgylchynu y blaned, ac yn teithio o gylch y byd mawr mewn gwahanol bellderau ac mewn gwahanol amserau cyfnodol. Am y darganfyddiad hwn, a llawer ereill cyffelyb yn meusydd seryddiaeth, erlidiwyd ef yn dost gan Eglwys Rufain. Oherwydd iddo gredu yn athrawiaeth newydd Copernicus (sef mai troi o gylch yr Haul wnai y Ddaear, ac nid yr Haul o gylch y Ddaear yn ol Ptolemy) tafiwyd ef i garchar. Y diwrnod nesaf collai ei ben os na ymstyngai gerbron y Pab a chyffesu mai breuddwyd a dychymyg cyfeiliornus ydoedd athrawiaeth Copernicus. Dyna y diwrnod yn gwawrio, ac y mae trigolion Fflorens, yn yr Eidal, yn ymgasglu wrth y miloedd. Dyna y gwasanaeth yn dechre, a dyna Galileo yn plygu ar ei liniau ac yn cyflawni yr addewid. Wel, a





Y BLANED IAU.

“Byd anferth o dân.”

ydoedd yn credu yr hyn a ddywedodd, a ydoedd yn credu fod yr Haul a'r holl blanedau mawr yn teithio o gylch ein Daear fach ni? Na, dim o'r fath beth. Credai yr oll ddywedai Copernicus. Onid oedd y dydd o'r blaen wedi canfod a'i lygaid ei hun y lleuadau yn troi o gylch Iau? Dyna yr athrawiaeth yn cael ei gosod allan yn uniongyrchol. Gellwch chwythu bygythion fel taranau, a gall eich digofaint fflachio fel mell, ond nis gellwch byth ddileu cariad at wirionedd. Ni ddylech gelu unrhyw ffaith, ond ceisio codi y llen oddiarni, a dod o hyd i'r gwirionedd. Y mae cariad at wirionedd, ynghyd â gwroldeb i'w gyhoeddi, yn hanfodol angenrheidiol er dod o hyd i feddwl Duw yn y greadigaeth anianyddlol, yn ogystal ag yn ei Air.

Dyma enwau lleuadau Iau, yn ol megis y safant o berthynas i'r

blaned,—yn agosaf Callisto, yna Ganymede, Europa, Io, a'r bumed leuad a ddarganfyddwyd gan Mr. Barnard yn California, yr hon sydd o'r bron yn anweledig yn y pellwydrau mwyaf treiddgar. Maent yn agored, fel ein lleuad ni, i ddiffygion. Gwelir hwynt weithiau yn myned dros wyneb y blaned ac yn taflu cysgod ar lun smotyng, dro arall diflannant yng nghysgod Iau o'r tu ol. Y mae eu diffygion o gryn bwys i seryddwyr, er cael allan gyda dilysrwydd hydred (*longitude*) gwahanol fannau ar y ddaear. Y mae y lleuadau hyn mor adnabyddus i seryddwyr, fel y gallant trwy gynhorthwy mesuroniaeth (*mathematics*) gyhoeddi yr amserau, nid i'r awr yn unig, ond i'r eiliad y bydd y gwahanol leuadau yn cuddio o'r tu ol i gorff Iau hanner can mlynedd i heddyw. Ni chaniata gofod i mi ymhelaethu ychwaneg ar eu hanes.\*

Cyn i chwi adael y byd mawr yna, trowch eich golygon tua'n byd bach ni, a chwi gewch ei gweled yn disgleirio megis seren fach bron a diflannu. Wedi i chwi gyrraedd yma, trowch eich golygon drwy y pellwydr i gyfeiriad y blaned, a chwi gewch ei gweled megis yr ymddengys yn yr ail ddarlun, wedi ei amgylchynu a gwregysau (*belts*); a'r rhain ydyw cymylau y meteloedd poeth a berwedig sydd yn codi oddiar ei wyneb. Fe fu y ddaear megis y mae Iau heddyw filiynau ar filiynau o oesau'n ol, ond mae wedi oeri erbyn heddyw. Ymhen miliynau o flynyddoedd eto, bydd Iau wedi oeri digon i afonydd dreiglo dros fryniau gwyrddlas; bydd yn gartref i ryw greaduriaid yr adeg honno, feallai mai creaduriaid moesol fyddant. Bydd y ddaear wedi mynd i rywle erbyn yr adeg honno, ond bydd yn bod hefyd, cofiwch. Pa le y bydd plant Cymru yr adeg honno?

SIGMA.

---

### I'W DDARLLEN YN DDIFYFWR.

**Y**CHYDIG amser yn ol cefais y mwynhad o weled Mr. Chamberlain ar ei ben gwisgai ei ddiddosben gyda blodeuyn ar ei fynwes y mae yn ei addurno ei hun dylai y Temlwr Da gyfarfod yn fwy mynych yn gyhoeddus prin iawn yw tai yn Abercarn hwyliu llongau gyda gwefr trydanol yr anfonir negesau i losgi â thân sydd danbrawf dychrynlyd i fyned drwyddo crai y nodwydd sydd fychan iawn.

Abercarn.

J. CYNFELYN HARRIES.

---

\* A ydych yn cofio ystori yr estron ddaeth o Iau ar ei dro i'n daear ni lawer o fisocedd yn ol? Yng NGHYMRU'R PLANT, mis Gorffennaf, 1901, mae'r hanes. Os yw yn noson glir heno, ewch allan i weled Iau yn tywynnu yn y de. Ewch a'ch cyfeillion gyda chwi, a danghoswch y darluniau o Iau iddynt. Feallai fod ambell i faehgen yn byw yn yr un fro ag yr ydych chi yn byw ynddi yn rhy dlawd i brynnu CYMRU'R PLANT. Gadewch iddo weled eich un chwi.

## ENWOGION PENMORFA.

## I.

**P**ENTREF yn Eifionnydd ydy Penmorfa, oddeutu dwy filltir i'r gogledd orllewin o Borthmadoc, ac o fewn pedair milltir i'r dwyrain o Griccieth. Amgylchynir ef gan amryw fryniau a mynyddoedd moelion, a'r Alltwen yn gysgod clyd rhag y gogledd-wynt; edrychant yn gadarn ar ol rhyferthwy oesau o stormydd, ac y maent fel pe'n barod i adrodd hen chwedlau'r henafiaid a'u traddodiadau cyntefig. Yn ei ddydd, enwogwyd Penmorfa gan ffieiriau, a gwnaed llawer o fasnach ynddo mewn cynnyrch amaethyddol. Y mae amryw o rai enwog wedi eu claddu yn y fynwent yma; ac ynddi y mae y beddergriff hynaf yn yr ardaloedd. Gallesid, hyd nes y gwelodd y Cyngor Sir yn dda i'w tynnu, weled rhannau o ffordd Rufeinig ar ben yr allt wrth y pentref, wedi ei phalmantu. Gelwir y lle yn Ben y Palmant. Tybia rhai henafiaethwyr fod y ffordd yn arwain drwy y Traeth Mawr i gyfeiriad Trawsfynydd, a chafwyd o dro i dro amryw olion Rhufeinig ar hyd-ddi.

Adeiladwyd eglwys y plwyf er coffadwriaeth am Beuno Sant, yr hwn a fu'n offeryn i grynhoi cynhulleidfa o Gristionogion ynghyd yno, mor fore a'r seithfed ganrif; a dywedir mai darlun o hono eidd ydd i'w weled ar yr ochr ogleddol i'r eglwys. Hefyd, ar y ffordd i'r Llan, saif Ffynnon Beuno. Ond y mae'n anodd gwybod dim am un oedd yn byw mor bell yn ol.

Ymhell wedi hynny yr oedd Syr Hywel y Fwyall, hen filwr, yn byw ym Mron y Foel. Hannai o Gollwyn ab Tagno, ac un o Eifionnydd oedd. Gwasanaethodd fel cadlywydd i Iorwerth, y Tywysog Du, ym mrwydr Poitiers, yn 1356. Yn y frwydr hynod honno enillodd lawer o glod am ei ddewrder, pan y cymerodd Ioan, brenin Ffrainc, yn garcharor. Fel gwobr, gwnaed ef yn geidwad cestyll Caerleon a Chriccieth. Bu cryn lawer o ymladdfeyc'd rhwng Bron y Foel a theuluoedd uchel y gymydogeaeth yn yr hen amser. Ond bu y lle yn gyrchfan i rai pur wahanol eu hysbryd ymhen blynyddau ar ol hyn.

Ymhell wedi hynny, yn amser Cromwell, yr oedd Syr John Owen yn byw yn Clenenau. Ganed ef yn 1600. Bu yn filwriad ym myddin y brenin, ac yn rhaglyngesydd Gwynedd; ac ymddengys iddo enwogi ei hun yn fawr yng ngwarchae Caerodor, pan y cymerwyd hi gan y Tywysog Rupert, a chafodd ei glwyfo yn ddifrifol. Bu am gyfnod yn llywydd Castell Conwy, yn lle'r Archesgob Williams; ond trwy frad syrthiodd y castell i ddwyllaw y Cadfridog Mytton. Yn 1648, aeth allan drachefn i ymladd dros ei feistr, a gwarchaewyd ganddo ar Gaernarfon; ond aeth allan i wynebu ei elyn, a chymer-


odd ymladdta le gerllaw Llandegai, a cholodd byddin Syr John y dydd, a chymerwyd ef yn garcharor, a dedfrydwyd ef i gollu ei ben. Pa fodd bynnag, wedi dioddef o hono ychydig fisoedd o garchariad, rhyddhawyd ef, a dychwelodd i'w gartref, lle y bu farw yn y flwyddyn 1666, a chladdwyd ef ym mynwent Penmorfa, lle y mae mynor gwyn hardd yn yr eglwys yn goffadwriaeth am dano.

Tua'r un adeg, sef tua 1620, yr oedd Cydwaladr Gruffydd, Gesail Gyfarch, gwr o fri fel hynafiaethydd a bardd, yn byw ym Mhenmorfa. Nid oes ond ychydig o'i weithiau yn argraffedig, eithr agos yr oll yng nghadw mewn llawysgrifau. Gobeithiwn eu gweled wedi eu hargraffu cyn hir. Rhoddai y caneuon oleuni cryf ar arferion a sefyllfa gymdeithasol ein cenedl ganritoedd yn ol.

Bu'r Esgob Humphreys o Fangor yn byw ym Mhenmorfa tua 1689. Yr oedd yn enedigol o'r Hendref, Penrhyn Deudraeth. Derbyniodd addysg dda, ac ymaffodd yn y manteision, fel y daeth yn ysgolhaig gwych. Yr oedd yn nodedig o ran ei fuchedd trwy ei holl fywyd. Iddo ef y cyflwynodd Ellis Wynne o Lasynys ei gyfieithiad o'r llyfr "Rheolau Buchedd Sanctaidd." Anerchai ef fel y canlyn wrth gyflwyno y llyfr iddo yn ei wisg Gymreig newydd,—

"Canys er maint ei barch a'i groesaw yn Lloegr (eisyys yn ei ddeunawfed wisg), nid yw ef eto ond dieithr yng Nghymru, ac ymdeithydd egwan ac ieuanc yn y mynydd-dir: eich swydd a'ch arfer chwithau yw derbyn y dieithr, noddi y gwan, ac hyfforddi'r ieuanc. Hefyd, gan mai neges hwn yw lles cyffredin y wlad, ni all, o ran hynny, na bo iddo groesaw gennyh chwi; drachefn, pan wyper wrth eich enw iddo gael croeso a chymeriad gennyh chwi, fe a fydd cymeradwyach gan y wlad, ac felly bydd lles yn gyffredinol."

Bu'r esgob hael yn garedig iawn wrth ei gyfaill duwiol Owen Gruffydd o Lanystumdwy, yr hwn oedd brydydd canmoladwy. Rhoddodd ardreth lle bychan, perthynol i'r Gesail yr adeg honno, i'w gyfaill am ei oes; yr hwn a elwir Tyddyn Owen hyd heddyw. Er nad oedd y bardd ond tlawd o ran ei sefyllfa, eto, parchai yr esgob ef yn fawr. Yr adeg honno y mwyaf urddasol ai allan gyntaf o'r eglwys ar ol y gwasanaeth. Gwnai'r esgob i'r hen brydydd tlawd godi yn gyntaf un, a mynd allan o'i flaen. "Y mae dawn Duw gennyt ti, Owen bach," meddai, "ond nid oes gennyf fi ddim ond a gefais am fy arian." Yr oedd eisteddle yr esgob yn eglwys Penmorfa, a gelwid hi yn "set yr esgob," hyd nes yr adgyweiriwyd yr eglwys yn ddiweddar gan Mrs. Greaves y Wern. Symudwyd yr Esgob Hymphreys yn 1701 i esgobaeth Henffordd, lle y bu farw, 1712, yn 64 mlwydd oed.



Y PYSGODYN HEDEGOG.

**RHYFEDDODAU'R MOR.**

## VII. Y PYSG HEDEGOG.

**O**DDIGERTH sarff y môr, y mae'n debyg nad oes dim y mae morwyr wedi dweyd cymaint am dano a'r pysgodyn hedegog. "Os dywedi di dy fod wedi gweld olwynion un o gerbydau Pharo tua'r Môr Coch yna," ebe hen wraig wrth forwr, "mi dy goelia di. Ond paid di a deyd wrtha i eto dy tod di wedi gweld pysgodyn yn hedeg. Y tro nesa y doi adre, hwyrach y byddi wedi gweld malwen yn dawnsio. Ffei ohonot, yn treio gwneyd sport o hen wraig." Nid oedd waeth i'r morwr heb ddweyd ei fod wedi gweld pysgodyn yn ehedeg; ni wnai hynny ond ennyn hyawdledd yr hen wraig i ddweyd y fath lygaid oedd ganddo.

Ond y gwir yw fod tri theulu o bysgod yn meddu adenydd, ac yn medru ehedeg, sef y pysgodyn hedegog cyffredin, yr *Exocoetus*, a'r *Dactylopterus*. Ni fedrant ehedeg ymhell, na chodi yn uchel. Eto, codant o'r dŵr, gan ddianc felly rhag rhyw elyn fydd yn eu dilyn. Rhyw hanner naid, hanner ehedeg, yw eu hehediad, rhywbeth yn debyg i ehediad ceiliog y gwair.

Nid yw adenydd rhai ohonynt yn ysgwyd, ond y mae'n sicr yr ysgydwa adenydd y rhan fwyaf. Codant tua throedfedd o'r dŵr, ac ehedant ryw bymtheg neu ugain llath cyn disgyn. Y mae lliwiau edyn rhai ohonynt yn brydferth ryfeddol,—glas gwan, neu wyrdd tryloew, ac yspotiau duon.

Mae'r pysg hedegog yn medru mynd i waelod y môr, a chodi o'r

môr hefyd. Beth pe medrech ddal pysgodyn hedegog â llinell a bach? Pur anodd fyddai ei gael i'r llong. Weithiau hedai i'r awyr, yna disgynnai dan y dŵr, yn ol ac ymlaen, ac ond odid fawr na fedrai ymysgwyd yn rhydd oddiwrth eich bach. Pe ceisiech ei saethu, ni fedrech anelu yn ddigon da, gan fod y llong yn ysgwyd, a'i symudiadau yntau mor-chwim.

Ond gellwch eu gwled, a rhyfeddu atynt. Y mae heidiau mawrion ohonynt ym Môr y Werydd, ym Môr y Canoldir, ac ym Môr yr India.

---

### LLUNDAIN FAWR.

**F**EL y gwyddis, mae hen "ddinas" Llundain wedi torri dros ei muriau ers llawer dydd, gan ymestyn am filltiroedd i'r wlad amgylchynol. Erbyn heddyw y mae y Llundain Fawr hon yn cynnwys 6,581,372 o boblogaeth, agos gymaint ddwywaith a New York, y ddinas sydd ail iddi. Pe y gwneid un dref o'r tair dinas sydd yn dod yn nesaf wedyn,—sef Paris, Berlin, a Chicago,—ni byddent gymaint a Llundain. Y mae ynddi gymaint o bobl ag sydd mewn rhai gwledydd cyflawn,—megis Belgium, neu Morocco; ac agos gymaint arall a Portugal, neu yr Iwerddon, neu Scotland. Yn y deng mlynedd diweddat y mae ei phoblogaeth wedi cynhyddu 950,000, neu fwy na phoblogaeth Dublin, Edinburgh, a Bristol gyda'u gilydd.

---

### DYCHMYGION GLANDWE, PENFRO.

CASGLWYD GAN IOAN IORWERTH IAGO.

- I.—Beth sydd yn mynd o hyd, ac eto yn yr un man? Cloc.
- II.—Pryd yr oedd pobl y byd i gyd yn clywed y ceiliog yn canu ar yr un pryd? Pan oedd Noah a'i dylwyth yn yr arch.
- III.—Paham y mae y llythyren O yn debyg i gantor? Am ei fod bob amser yng nghanol y côr.
- IV.—Beth sydd yn las las fel y cenin, yn wyn wyn fel y lili, yn goch goch fel y tân, yn ddu ddu fel y frân, yn uwch na march, ac yn llai na llygoden? Mwyaren.
- V.—Ladi fach yng nghanol y plas,  
A chant o ffenestri rhyngddi a maes.  
Beth ydyw? Canwyll mewn lantern.



BEAN.

**ADAR EIN HARDALOEDD.**

**AUN.** Aderyn gweddol fawr, ac y mae yn un o'n hadar dofion. Mae ei ben a'i wddf o liw glas tywyll. Ar gopa ei ben mae siobyn o blu gwyrdd. Mae ei big yn wyn, a'i wddf yn hir a main. Mae ei adenydd yn ddu-goch. Pan fydd yn lledu ei gynffon, mae yn ymddangos fel pe buasai yn ddwbl. Y mae o liw llwyd, ac ar hyd-ddi y mae cylchau o aur ac o wyrdd. Y mae y paun yn ymffrostio yn ei gynffon.

**XXXIII. PLOGEN.** Aderyn o'r un maintioli a'r golomen. Mae ei phlu o liw du a gwyn. Disgynna ar ysgerbwd popeth, a thyn ei lygaid. Mae yn aderyn ysglyfaethus iawn. Gwna ei nyth ar ben coed.

**XXXIV. PENFELLEN.** Aderyn lled tychan, o liw llwyd, a chanddo ben melyn. Gwna ei nyth mewn gwrychoedd, ac ar greigiau. Bydd y neidr yn bur hoff o tyned i'w nyth ac yfed ei wyau. Mae *stripes* hyd ei hwyau yn debyg i law ferr.

**XXXV. RHEGAN YR YD.** Bydd yma gyda ni yn yr hat. Y mae yn aderyn pur anodd ei ganfod, ond bydd ei lais i'w glywed o hyd, a hwnnw heb fod yn un o'r rhai

mwyaf soniarus, cyffelyb i ambell i ganwr bas wedi crygu.

**XXXVI. ROBIN GOCH.** Aderyn bychan prydferth iawn yw'r robin, a'i liw yn llwyd oleu, a'i fron yn goch. Mae ef yn fwy dof na'r un o'n hadar bach, ac yn ffrynd mawr i bawb. Bydd yn troi o gwmpas ein tai ar dywydd oer, ac os caiff groesaw, daw i fewn i'r tŷ yn union, ac y mae yn gantor bychan melus iawn. Gwna ei nyth mewn draenen, a dodwa ddwywaith yn y flwyddyn.

**XXXVII. IAR DDWR (*Snipe*).** Aderyn ag y mae'r heliwr yn bur hoff o hono. Mewn corsydd a chyda llynnoedd y bydd i'w gael. Mae gar dlo big hir iawn. Mae yn aderyn pur anhawdd i'w ganfod, ond pan y bydd yn ehedeg. Mae yn ddeheug iawn am fedru cuddio ei hunan yn y gwellt.

XXXVIII. TOM-TIT. Y mae hwn yn un o'n hadar lleiaf. Y mae oddeutu pedair modfedd o hyd. Y mae o liw llwyd tywyll, a'i ben yn ddu loew-ddu, ac o dan ei lygad y mae yspotyn gwyn. Bydd yn gwneyd ei nyth mewn perth. Bydd yn aros gyda ni trwy'r gauaf.

XXXIX. TINWEN Y GARREG. Aderyn bychan, ac un rhan o hono yn llwyd, a'r rhan arall yn wyn. Maent yn adar crwydr.

XL. Y WENNOL. Aderyn bychan, eiddil, yw'r wennol. Mae eu cefnau o liw du, ac odditanynt yn wyn, gydag ychydig ddu dan eu gwddf. Mae ganddynt gynffon ddu yn fforchi, a'u hadenydd yn feinion a hirion. Coesau eiddil sydd ganddynt, ac nis gallant gerdded ond ychydig. Arhosant ar eu haden am ddeg awr bob dydd o'u bywyd. Gwnant eu nyth o dan y bondo, byddant yn ein gadael yn niwedd Medi, a deuant yn ol i'w hen nyth ddechreu Mai. Bydd ganddynt wyau gwynion ac yspotiau cochion arnynt.

XLI. GNOCELL Y COED. Mae yn aderyn gweddol fawr, gyda phig hir. Mewn gwinllanoedd y bydd yn fwyaf cyffredin, bydd yn hoff iawn o wneyd tyllau a'i big yn y coed. Arhosa yma gyda ni trwy'r flwyddyn.

XLII. YR EHEDYDD. Aderyn heb fod yn anhebyg i'r fronfraith o ran maint. Erys ar ei aden yn hwy na'r cyffredin o'n hadar. Aderyn llwyd ydyw, a'i fron o liw mwy goleu, gydag yspotiau arni. Nid oes mo'i gyffelyb fel canwr. Bydd yr aderyn hwn yn ymgodi yn uwch i'r awyr na'r un o'n hadar. Ymgoda i fyny gan chwyddo a phyncio ei nodau peraidd, nes myned o olwg llygaid dyn.

XLIII. TWRCI. Aderyn dof, o faintioli mawr yw hwn. Bydd yn lledu ei gynffon yn debyg i'r paun. Mae ei ben a'i wddf yn noeth, ac o dan ei wddf y mae math o groen coch. Y mae ei gynffon yn 18 o blu, a phob aden yn 28 o blu. Y mae math o sbardynau ar ei goesau. Y mae ei wyau yn fwy na rhai'r iar, ac y maent o liw gwyn, gydag yspotiau melyn arnynt. Y mae yn aderyn cnawdol iawn, ac y mae yn myned yn bur fawr.

XLIV. PENDDU'R PARED, neu Adar y To. Adar bychain dynt, ac y maent yn hynod luosog yn ein hardaloedd. Maent o liw llwyd-felyn, a rhes wen o dan eu hadenydd, a'u pennau braidd yn ddu. Gwnant eu nythod mewn parwydd. Maent yn dra hoff o hel grawn, a byddant gyda ni trwy'r flwyddyn.

XLV. MULFRAN, neu Forfran. Aderyn dipyn yn fwy ei faintioli na'r fran, du ei liw. Mae yn dra hoff o bysgod. Disgynna at bysgodyn, ac arhosa o dan y dwfr am beth amser.

XLVI. YR EOS. Aderyn hir, a'i adenydd o liw llwyd-ddu, a'i fron yn wen, gydag yspotiau arni. Mae yn aderyn prydfferth iawn. Y mae yn gantor da iawn. Aderyn yswil yw, ac anaml y bydd i'w weled yn y dydd. Daw i'r wlad hon yn nechreu Ebrill.



# AT Y PLANT.



**G**AD BOB. Dysgir plant yn Ffrainc a'r Almaen i gynilo, ac i edrych ar waith fel y peth mwyaf anhwydeddus. Dysgir plant yn ein gwlad ni i wario, ac i edrych ar chwarae fel unig amcan difrif bywyd. Nid y dyfaisiwr yw arwr yr oes hon, ond y cricedydd. Mae eisiau rbot ysbryd hollol newydd yn y naill hanner o'n hysgolion elfennol, ac mewn naw o bob deg o'n hysgolion canolraddol. "Enillwyd brwydr Waterloo ar chwaraeule ysgol Eton." Digon tebyg. A dimistrir llwyddiant Prydain i ar chwaraeuloedd ugeiniau a channoedd o ysgolion.

**D. C.** Yr wyf yn credu fod breuddwyd John Jones, y dechreurr canu, yn hen ystori. Fel hyn y clywais i yr hanes. Aeth John Jones at ei weinidog, a dywedodd,—“Mr. Williams, mi ges freuddwyd rhyfedd iawn neithiwr. Yr oeddwn yn gweld fy hun yn y nefoedd, mewn cymanfa ganu. Yr archangel Gabriel oedd yn arwain. Mi welwn filoedd o altos ar ymyl yr oriel, a miloedd ar filoedd o sopranos. Yr oedd yno lond pob man o denors, a minne fy hun yn canu bas. Toc, dyma Gabriel yn

taro'r bwrdd â'i ffon, ac yn troi ataf gan ddweyd,—“John Jones, tipyn bach llai o fas os gwelwch yn dda.”

**E.** Y mae caneuon byrion syml yn dderbyniol iawn.

**MAIR AC IDWAL.** Gwn, mi wn am “gasgliad bach, rhad, swynol o alawon yr holl Geltaid.” Y mai Mr. R. Bryan newydd gyhoeddi “Alawon y Celt.” Y mae yn y gyfrol fechan dair alaw Lydewig, dwy alaw Albanaidd, dwy alaw Wyddelig, a phum alaw Gymreig. Cewch y llyfr am bedair ceiniog a dimai oddiwrth W. Gwenlyn Evans, Caernarfon.

**OLA.** Dafydd ab Gwilym ystyrrir yn fardd serch goreu Cymru. Cewch ei waith mewn cyfrol dros oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, cyhoeddwy, Conwy, am 1/6.

**B.A.** Cyhoeddir amryw gylchgronau i Gymry yn Saesneg. Y mae dau ohonynt dan yr olygiaeth fwyaf medrus yn ein llenyddiaeth, sef *Cambrian* yr Amerig, a *Treasury* y wlad hon.

**I. E. B.** Methais yn lân a chael cerfiad boddhaol, gan fod y darlun yn rhy aneglur.

**Y PLANT.** Dyma ddechreu mis Hydref, ac y mae'r golygydd yn parotol rhifynnau cyntaf y flwyddyn newydd. Fath groeso gaiff **CYMRU'R PLANT** y flwyddyn nesaf? A wnaiff y plant fy helpu trwy ddweyd am dano? A fedrwn chwi gael derbynwyr newydd? Mwyaf o dderbynwyr gaf, goreu y medraf finnau ei wneyd.

**J. J., PENTRE BWLCH.** Cân dda, er mai rhyw led wgu wna golygydd ar y gair “paradwyso.” Caiff ymddangos ym mis cyntaf y gloewod byw.



*C. Foresti.*

TEITHIO I'R YSGOL YN YR ANDES



# CYMRU'R PLANT.

CYF. XIII.

HYDREF, 1904.

RHIF 154.

## FSGOL YN YR ANDES.

**X**NG NGHYMRU'R PLANT am fis Tachwedd, 1903, ceir darlun da o'r ysgol uchod; ac oddi tano,—“Plant Cymry'r Andes.” Wrth sylwi, gwelir amryw wynebaw yn dwyn delweddau dieithriol i lygad y darlennydd, am y rhai y byddai llawer plentyn craffus yn barod i ofyn,—“A ydyw byw yn Patagonia yn newid y plant o fod yn Gymry, i edrych fel Indiaid?” Ond meddyliaf weled y llygad arall iddo yn tremio dros y ddalen gyferbyniol, ar yr enwau sydd yn egluro cenedlaetholdeb plant y darlun.

Pan delais fy ymweliad cyntaf â'r ysgol uchod yn Rhagfyr diweddaf, yr hyn a'm tarawodd â syndod oedd yr olwg wareiddiedig oedd ar blant “Indiaid gwylltion Patagonia,” y rhai, hyd yn ddiweddar, na wyddent am wisgoedd amgenach na chrwyn creaduriaid gwylltion i guddio eu noethni; ond heddyw mewn dillad fel ninnau, ac yn ymddangos mewn iawn bwyll.

Wrth gydmaru gwisgoedd plant y Cymry â gwisgoedd plant yr Indiaid, rhaid i'r mwyaf rhagfarnlyd ddweyd fod plant Indiaid yr Andes yn gwneyd eu goreu i ddyfod yn Gymry. Gofynnwn,—Pa le yng nghymydogathau cymoedd mynyddig a bugeiliol Cymru, y ceid darlun o ysgol ddyddiol na ddeil yr “Ysgol yn yr Andes” ei thir yn ei hymyl?

Yn y wisg y canfyddir y cam cyntaf o lwybr anwariaeth i ffordd gwareiddiad. Gwelir fel y gwneir Indiaid bach yr Andes mor debyg i'r Cymry bach yn eu hymyl. Dilynant eu camrau mewn gwareiddiad, moesoldeb, a chrefydd; ond cael eu haddysgu i hynny. Heb yr addysg grefyddol briodol i'w sefyllfa, ni wna yr ysgol ddyddiol ond gwaith rhannol iawn arnynt. Diau fod dylanwad moesol yr athraw ffyddlon yn fendithiol iawn iddynt, a chymysgu â'r plant Cymreig yn clirio y ffordd i gerdded ymlaen i derfynau crefyddolrwydd y Cymro. Hyd yn hyn, nid yw y camrau angenrheidiol wedi eu cymeryd. Teimlir yr angen am hynny yn fwy fwy yn barhaus, fel y mae y naill yn dyfod yn nes at y llall.

Mae yr anhawsder yn yr iaith. Iaith crefydd yw y Gymraeg; ond yn Hisbaenaeg y dysgir plant y brodorion ac ereill o'r gymysgedd sydd yn y lle.

Y Sul cyntaf i mi fyned i'r capel, gwelais blant Cymreig y darlun yno, ond dim ond Cymry. Nid oedd un Indiaid bach yno yn yr Ysgol Sul. Canai y plant yn soniarus ar ddiwedd yr ysgol, yn union fel y gwnant yng Nghymru; ac adroddent eu hadnodau mor swynol yng nghysgod yr Andes, ag yr adroddir adnodau yng nghysgod yr Aran a'r Wyddfa gyrrhaeddfawr gan ddarllenwyr bach CYMRU'R PLANT. Brysied y dydd i gael y plant bach ereill i'r Ysgol Sul, drwy wneyd ysgol briodol ar eu cyfer.

Pabyddiaeth yw yr "enwad mawr" yn y Weriniaeth hon; ond y mae yma ryddid crefyddol llawn i bob enwad. Geilw y Pabyddion bawb o'r tu allan i'r Protestaniaid yn Gristionogion, os wedi eu bedyddio gan offeiriad.

Rhywbeth tebyg i hyn y gwneir Cristionogion gan y Babaeth yn y rhannau hyn o'r wlad,—gwlad fawr, gyda phoblogaeth deneu wasgaredig; gwlad fynyddig nad oedd ynddi ychydig dros ugain mlynedd yn ol ond Indiaid crwydrol, paganiaid tywyll leoedd y ddaear. Cymer offeiriad Pabaidd daith bererindodol drwy y wlad, o'r môr i'r mynydd. Teithia gannoedd o filltiroedd, abertha gysuron cymdeithasol, ymwithia drwy y cymoedd, chwilia allan yr Indiaid yn eu pebyll, er bedyddio eu plant, a phriodi rhai henach; a'r un modd gyda'r holl wehelydd Pabaidd drwy y lle; a hawliant y cyfryw fel eu heiddo.

Cyfarfyddais un ohonynt ym mis Mawrth diweddfaf ym Mro Hydref. Teithiai y pryd hwnnw yng nghwmni Llywydd y Diriogaeth, pan ar ei daith er ymgynabyddu â'r wlad sydd dan ei ofal. Ac yn y cysylltiad hwnnw y cefais ymgom fwy nag unwaith â'r offeiriad hwn. Siaradai Saesneg lled dda. Cwynai wrthyf nad oedd teithio felly yn ateb ei amcanion ef, am nad oedd yn gallu myned ar ol yr Indiaid i'w pebyll, ac na ddeuant hwy ato ef heb

fyned ar eu holau. Dywedai iddo y flwyddyn flaenorol fedyddio pum cant o blant; ond nad oedd y tro hwnnw wedi bedyddio dros gant, pan yn ymddiddan â mi. Dyna yn gwaith drosodd, wedi eu nodi yn eiddo y Babaeth drwy eu bedyddio; a hwythau, druain bach, yn meddwl ei bod yn Gristionogion.

Yng ngwyneb fod y dysgu yn cael ei esgeuluso, nid yw gatael yr offeiriadaeth ar y Werin yn myned fawr bellach na'u hofergoeidd, yr hon sydd yn fwy paganaidd na dim arall; er yr ymfrostiant eu bod yn Gristionogion, ac nid yn anifeiliaid. Perthyn i'r dosbarth hwn y mae y plant brodorol, a'r cymysgryw welir ar y darlun yn gymysg â phlant y Cymry, yn ogystal a'u brodyr, eu chwiorydd, a'u rhieni. Dyma eu safle yn gysylltiedig â chrefydd.

Treuliais yn agos i bedwar mis yn gwasanaethu y ddwy eglwys yn yr Andes,—y fam yn y Cwm Hyfryd, a'r ferch yn Esguel. Sefydlwyd yr eglwys yn Esguel gennyf tua deuddeg milldir i gyfeiriad y gogledd, er rhoddi llawn gyfleusdra i'r Cymry sydd yno yn holl freintiau moddion gras, oedd yn rhy bell i fyned yn aml i'r Cwm. Ceir yno hefyd ysgol ddyddiol, a gedwir gan R. O. Jones, yn hollol o'r un nodwedd ag ysgol y Cwm; ond nid oedd cynifer o frodorion yn yr ysgol pan oeddym yno.

Wedi myfyrio uwchben y setyllfa, ol a blaen, nis gellir peidio teimlo dros y paganaid sydd yn preswyllo yn ein mysg. Ac nis gellir peidio gweled yma faes cenhadol ellir weithio i fantais neillduol, a hynny am amryw resymau. Ac nid yn yr Andes yn unig y gellir gwneyd hyn, ond drwy'r holl diriogaeth, yn neillduol lle y mae y dylanwad Cymreig yn gweithio. Gorbwysa y dylanwad Cymreig yr offeiriadaeth. Dysgir y plant i ddarllen; a'r hyn sydd eisiau yw, dwyn llyfrau crefyddol i'w cyrraedd, yn neillduol Y LLYFR. Ni cheir yma y rhagfarn honno yn ei erbyn, fel mewn hen wledydd Pabyddion.

Eglurir hyn, ond edrych i'r darlun ar y gwynebau a'r enwau. Ar law dde yr athraw, gwelir John Tudor Williams; yn ei ymyl, gwelir Emilio Quintuman, bachgen dynnodd fy sylw y tro cyntaf ei gwelais, fel un o "hen frid y tir" wedi ei wareiddio. Pe rhoddid i Emilio LYFR John Tudur yn ei iaith ef ei hun, byddai yn gymeradwy ganddo; a darllenai ef am mai hwnnw yw llyfr y "Cymro da," a'r un modd am y plant ereill. Y mae yn eglur wrth hyn beth sydd yn eisiau.

Deallwn fod y Feibl Gymdeithas Americanaidd yn fyw i'r setyllfa, ac yn barod i gynorthwyo Beibl-gludydd ac efenglydd. Bydd yn angenrheidiol i hwnnw fod yn medru iaith y wlad.

Ychydig nifer o ddynion llawn o'r yspryd cenhadol faga y rhan hon o'r wlad, sydd yn awr wedi dechreu agor, a lle i lawer o

gynnydd ynddi yn y dyfodol. Onibai fod y pren almon wedi blodeuo, a'r dyddiau blin wedi neshau, dyma y maes yr hoffaswn lafurio ynddo o bob lle. A'r agosaf ato fusasai gweinidogaethu i eglwysi yr Andes. Mae y Cymry yn ddigon cefnog i ofalu am yr eiddynt eu hunain, o ran pethau allanol, ond cael dyn cymwys at y gwaith. Y mae gweinidogion y Wladfa yn myned yn liai eu rhif, a'r oll ohonynt yn myned yn hen, fel y mae yn anhawdd cyflenwi yr angen sydd am weinidogaeth yma.

Mae y cylch allanol yn ymeangu ac ymagor o'n blaen, a'r meusydd yn wynion i'r cynhaeaf. Oni fedr plant Cymru ein helpu i ddyysgu plant brodorol y wlad am Iesu Grist? Cael Ysgol Sul iddyrt, fel i blant y Cymry, a phregethu iddynt yn yr iaith a ddeallant, a'u cael hwythau i adrodd eu hadnodau? Yr wyf yn gobeithio fod y wawr ar dorri, ac y mae swm ym mrig y morwydd. O ba le y ceir dau neu dri o ddynion cymwys i'r gwaith? Os ydym fel cenedl wedi gwrthod y cyfleusdra roddwyd i ni i wneyd Patagonia yn "Wladfa Gymreig," yn ol y cynllun gwreiddiol, y mae rhan arall o'r cynllun yn ein cyrraedd eto, sef gwneyd y Wladfa yn ganolbwynt gwareiddiad Gristionogol, ac i wneyd Patagonia "yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef." I'r Cymry y mae y gwaith hwn yn cymell ei hun.

Yr oedd y wed i hon ar y mudiad Gwladfaol yn cael lle mawr ym meddwl ei phrif gychwynnydd, y diweddar Michael D. Jones, ac yn brif gymhellydd i minnau i fwrw fy nghoelbren gyda'r fintai gyntaf; a dyma oedd fy mhregeth gyntaf ar lan y Gamwy i'm cyd-sefydlwyr ddeugain mlynedd yn ol namyn un. Ac nid yw fy nheimlad yn y peth hwn wedi oeri dim wedi fy nhaith i'r Andes; ond wedi derbyn symbyliad newydd drwy gydnabyddu â'r wlad, a deall yr anghenion.

Ac yn awr, pan mae fy mhen agos mor wyn a chopâu eiraog yr Andes, yr wyf yn gwneyd appél at blant Cymru wen i rododi cynhorthwy i wneyd y plant welir yn y darlun, yn ymdrechu i wneyd eu hunain mor debyg ag y medrant i blant Cymru, yn ol patrwm plant Cymry yr Andes. Y mae miloedd o weddïau wedi eu hoffrymu at Dduw am iddo droi y mudiad Gwladfaol i ddwyn gogoniant iddo ei hun. Gwariodd sylfaenydd y Wladfa ei eiddo ei hun a'i deulu i ddwyn y sefydliad i'r safle y mae ynddi, sydd yn eu gwneyd yn oleudy i gyfarwyddo am borthladd y bywyd yn nhywyll-wch paganiaeth De America. Y mae yn ddinas ar fryn nas gellir ei chuddio, ac fel canwyll wedi ei gosod yn y canwyllbren, yn goleuo ei goleuni moesol a chrefyddol, yn ei dylanwad cymdeithasol, i bawb sydd yn y ty.

A oes yng Nghymru un gŵr, o'r un yspryd a'r hunanymwadol M. D. Jones, a gynorthwya i orffen y rhan ardderchocaf ac yspryd-

olaf o'r syniad Gwladfaol, fel y ceir plant hen frodorion y wlad ac ereill i efelychu y plant Cymreig, mewn gwisgoedd harddach nag eiddo y bywyd hwn,—i ganu emynau, adrodd adnodau, gwranddo a dysgu geiriau Duw; fel y ceir moliant i'r Gwaredwr o enau plant bychain brodorol, a rhai yn sugno bronnau brodoresau, a theulu y wlad?

*Mehefin* 10, 1904.

LEWIS HUMPHREYS.

### HEN GYMRU FYNYDDIG.

**M**AE'r ffrydian grisialeidd sy'n canu  
Yng nghesail mynyddoedd ein  
Yn swyno ein calon i garu [gwlad,  
Y llwybrau lle bu'n mam a'n tad;  
Os molir goludoedd rhai gwledydd,  
A hafddydd eu mawredd a'u bri,  
Mwy anwyl, mwy nefol yw gellydd  
Hen Gymru fynyddig i ni.

Y briall a'r grug a'i haddurnant,  
Ddelweddant y nef yn ei gwedd;  
A'r fronfraith a'r fwyalch ddadganant  
Ogoniant ei thylam a'i hedd;  
Cyfaredd ein hadar a'i blodau  
Sy'n denu ein mynwes yn lân;  
A gwisgoedd amryliw ei bryniau  
Yw hoffder ein cariad a'n cân.

Ceir ambell i fwthyn di-rodres,  
A'i furiau yn wynion fel gynt;  
Mor ddi-fyr y dywed ei neges,—  
Hen hanes ein tadau a'u hynt;  
Gwasgared awelon adgoſon,  
Ysbrydiaeth yr aelwyd lle bu  
Cryd rhyddid, a llais telynorion,  
I fagu gwladgarwyr yn llu.

*Y Bala.*

RICHARD AB HUGH.

### CYMRU FACH WEN.

**O** WALIA fynyddig,  
Mae'th gymoedd yn heirdd,  
Gwlad anwyl sy'n deffro  
Telynnau y beirdd;  
Bydd calon pob Cymro  
Yn gwllwm am hon,  
Tra golchir ei glannau  
Gan ymohwydd y don.

Tyf blodau amryliw  
Ar ddôl ac ar fryn,  
A'r afon sisiala  
Yn felus trwy'r glyn;  
Dy greigiau mawreddog  
Ymgodant i'r nen,  
'Does unman yn hafal  
I Gymru fach wen.

*Llanrwst.*

Mae hedd fel afonydd  
Yn rhedeg yn rhydd,  
A'i hawyr yn gynnes  
Ar geinion y dydd;  
Y wlad sy'n ddymunol,  
Mynyddoedd sy'n fwyn,  
Aberoedd alawant  
Ar dannau y brwyn.

Y dolydd meillionog  
Sy'n anwyl a glân,  
'Does unman yn debyg  
I hen wlad y gân;  
Dedwyddol baradwys  
Yw Cymry fach glyd,—  
Llaw yn o brydferthwch  
A miwsig i gyd.

T. HERBERT HUGHES.

## "Dal i ganu, Delyn Cymru."

JOHN HUGHES, Penucheldref,  
Llanflewyn.  
*Cymru'r Plant, Mawrth 1904.*



W. PHILLIPS, Aberteifi.

DOM F. *Ysgrifn ac eglur.*

S.	m :- :f	s :s :-	m :- :f	s :s :-	s :fe :s
1. Dal	i	gan - u,	Del - yn	Cymru,	Mae mel-
S.	d :- :d	t, :t, :-	d :- :d	r :r :-	m :re :m
2. Dal	i	gan - u,	Del - yn	Cymru,	Mae ys -
A.	d :- :l,	s, :s, :-	l, :- :l,	t, :t, :-	d :- :d

l :s :m	r :s :f	m :- :-	m :- :f	s :s :-	se :- :se
us - der	yn dy	gân,	Ac mae	ysbryd	dyn yn
f :m :d	r :- :r	d :- :-	d :- :d	t, :r :-	r :- :r
bryd - ion	ar bob	tant	O dy	eiddo,	sydd yn
t, :- :l,	t, :- :t,	d :- :-	l, :- :l,	s, :t, :-	t, :- :t,

l :l :-	d' :- :t	t :l :s	s :f :m	r :s :-	s :- :fe'
tynnu	Gwyn - fyd	o dy	nod - au	mân;	Mae dy
d :m :-	s :- :s	fe :- :s	d :- :d	r :- :-	m :r :d
gwenu	Ar ath-	ry - lith	nwyf - us	blant;	Lled - rith
l, :d :-	m :- :m	re :- :m	l, :- :l,	t, :- :-	d :t, :l,

f :f :-	m :- :m	r :r :-	r :m :f	s :- :d'	d' :t :l
ddiliau'n	lleddf - u	gof-id,	Bodd - ir	ad - fyd	yn dy
r :t, :-	ta, :- :ta,	l, :l, :-	t, :d :r	d :- :m	m :r :d
swynol	eu hym-	sangau,	Meg - is	dawns	ar ar - ian -
t, :s, :-	s, :- :s,	f, :f, :-	f, :- :f,	m, :- :l,	s, :- :s,

s :- :-	s :- :se	†	*	l :l :-	-(l)  l :- :l	t :t :-	d' :t :l
li,	Ac an-	ad - la	pawb	eu	rhyddid	O	dy
t, :- :-	t, :- :t,	d :m :-	-(m)  m :- :m	f :f :-	m :- :m		
fwrdd,	Hon chwara-	euant	ar ga -	lonnau,	Nes	yr	
s, :- :-	s, :f, :m,	l, :d :-	-(d)  d :- :de	r :s, :-	l, :- :d		



				( ^ )		rit.	
s :-	r	r :m	fe	s :- :-	fe :- :-	f :- :-	m :f :s
bêr	fel - od -	edd	di,				O dy
r :d	t,   l, :t, :d		t, :- :-	d :- :-		r :- :-	d :r :m
êl	gof - id -	iau'i	ffwrdd,				Nes yr
t, :l, :s,   fe, :s, :l,			s, :- :-	l, :- :-		t, :- :-	d :t, :ta,

l :-	f	m :f	r	d :- :-	:- :-	:- :-	
bêr	fel - od -	edd	di.				
f :-	d	d :r	t,   d :- :-	:- :-	:- :-		
êl	gof - id -	iau'i	ffwrdd.				
l, :-	la,   s, :-	f,   m, :- :-	:- :-	:- :-	:- :-		


\* *Nodau rhwng cromfachau i'r pennill olaf, yn lle † yr ail nodau o'r mesur.*

3 Dal i ganu, Delyn Cymru,  
 Bodda pob estronol sain ;  
 Pob offeryn syrth i gysgu.  
 Wrth dy ddifyr odlau cain,  
 Er dy fod yn nefanedig,  
 Cartref it yw " Gwlad y Gân,"  
 Gwych i demlau cysegredig  
 Cyn bo hir drwy Gymru lân.

4 Dal i ganu, Delyn Cymru,  
 Paid a gomedd alaw fwyn ;  
 Ar yr helyg paid galaru,  
 Paid llonyddu ar y twyn ;  
 Ti drwy gyfnos hir fu'n deffro,  
 Ac yn lliwio Cymru fu,  
 Dal i fyw, llon noda eto,  
 Deffro gathlau Cymru sy'.

**FY NGHARTREF ADFEILIEDIG.**

**Y** BWTHYN lle'n magwyd wrth odrau y ffridd,  
 Sydd heddyw'n gloedig, a'i olwg yn brudd ;  
 O fwthyn anwylaf, boed wyrdd dy goffad,  
 Y bwthyn lle hunodd fy anwyl, hoff dad.  
 O fangre anwylaf o ddwndwr y byd,  
 Mae swyn yn blethedig o'th amgylch i gyd ;  
 Yr ardd sydd yn glasu, a glasu mae'r coed,  
 A'r adar sy'n pyncio mor fwyn ag erioed.  
 Daw robin goch fron-goch ar riniog y drws,  
 A hithau'r fwyalchen sy'n canu mor dlws ;  
 A brefu mae'r deifad o amgylch y tŷ,  
 Fel brefent ar ddryghin yr amser a fu.  
 Y llwybrau lle cerddais yn ieuanc a llon,  
 Sydd heddyw yn peri dwys ofid i'm bron ;  
 Y glaswellt sy'n tyfu lle sangai fy nbroed,  
 Oedd gynt yn sathredig cyn cof i mi erioed.  
 Mae cof am y caeau yn aros o hyd,  
 Yn nyddiau'm plentyndod fe'u chwiliais i gyd  
 A gwn lle tyf blodau a ffrwythau diri',  
 Yn wir, 'roedd yn Eden fach ddedwydd i mi.  
 Pe cawswn breswyllo palasau y byd,  
 B'ai swyn yr hen fwthyn yn aros o hyd ;  
 Trwy ba ryw helyntion trwy'm hymdaith y dof,  
 Byth, byth, ni ddileir yr hen fwthyn o'm cof.



SADWRN A'I FODRWYAU.

“Dro arall, ymddengys y blaned yn belen yn eu canol.”


### SADWRN A'I FODRWYAU.

**O**S canfyddasoch y blaned Iau y mis diweddfaf, ond i chwi wneyd un ymgais drachefn, a throï eich golygon i gyfeiriad awyr y de-orllewin tuag wyth o'r gloch y mis hwn, chwi gewch weled y blaned Sadwrn (*Saturn*). yn disgleirio yno. Nid yw ef mor ddisglaer a Iau, ond mae ei ddisgleirdeb yn gyffelyb i eiddo seren y dosbarth cyntaf (*star of the first magnitude*). Saif ef yn nesaf i Iau yn ei faintioli, ac hetyd yn ei bellder oddiwrth yr haul.

Hyd ganrif a hanner yn ol, cytrifid Sadwrn y pellaf o'r planedau perthynol i Gytundraeth yr Haul (*Solar System*); ond gwyddoch chwi mai nid efe sydd yn teithio ar hyd ymylon ein cysawd. Llewyrcha â goleuni gwelw marwaidd, yn anhebyg iawn i'r disglaer Iau; eto, o ran maint, ymddengys ei fod yn ymgystadlu â Iau ei hun.

A wnewch chwi syllu drachefn ar ddarlun y mis diweddfaf? Mae tryfesur Sadwrn yn agos i 80,000 o filltiroedd; mae ei bellder oddiwrth yr haul yn agos i 900,000,000 o filltiroedd, a chyflawna ei daith flynyddol o amgylch y canolbwynt hwnnw mewn ychydig llai na 30 o'n blynyddau ni; o ganlyniad fe deithia yn agos i 21,000 milltir yr awr. Gan fod goleuni a gwres yn lleihau yn ol y mesur y byddo ysgwarau y pedderau oddiwrth y corff goleuol yn cynyddu, a chan y saif Sadwrn rhwng naw a deg o weithiau ymhellach nag y saif y ddaear oddiwrth yr haul, rhaid na dderbynia ond 90 o weithiau yn llai o'i oleuni a'i wres.

Yr hyn sydd yn hynodi mwyaf ar Sadwrn ydyw y fodrwy deirblyg, neu y modrwyau, sydd yn ei amgylchynu. Ymddangosant weithiau fel pe baent ynglyn a'r blaned; dro arall ymddengys y blaned yn belen yn eu canol yn hollol wahanol oddiwrthynt, a chryn encyd oddiwrthynt; a thro arall ymddengys megis y planedau ereill, heb un fodrwy, dim ond llinell fain a du yn amgylchynu ei chyhydedd (*equator*). Pan y byddo y ddaear a'r haul yr un tu i'r blaned, neu




MAINT CYDMAROL SADWRN A'R DDAEAR.

S=Sadwrn. E=y Ddaear.

pan fo Sadwrn yr ochr bellaf oddiwrth yr haul megis ei gwelir o'r ddaear, bydd yr olygfa arnynt y pryd hynny yn ogoneddus a thuhwnt i ddisgrifiad; canys pan y safant felly yn gwynebu y ddaear, bydd un ymyl iddynt i fyny, a'r llall i lawr, yn debyg i'r hyn yr ymddengys yn y darlun.

Pan y byddo y ddaear un tu i'r blaned, a'r haul y tu arall iddi, bydd y fodrwy y pryd hynny yn anweledig i ni, am y bydd yr haul yn tywynnu arni y tu draw i'r blaned oddiwrth y ddaear, a'r ochr dywell i'r fodrwy at y ddaear, yr hyn sydd yn dangos fod y fodrwy neu'r modrwyau, fel y blaned ei hun, yn dywyll ynddynt eu hunain, ac yn derbyn goleuni o'r haul, ac yn ei adlewyrchu megis y gwna ein lleuad ni. Ymddengys y modrwyau hefyd yn anweledig pan na byddo ond eu hymylon atom; canys er fod eu lled yn fawr, nid yw eu trwch ond bychan; felly, ni chunfyddir hwynt ar yr amgylchiadau hyn ond megis llinell fain dywell yn amgylchynu y blaned, er defnyddio pellwydr o'r fath rymusaf. Mae y modrwyau mor gadarn fel ag y mae pob ysgogiad o'r eiddynt fel un fodrwy; felly, pan fo eu hymylon yn gyleiriedig at y ddaear, ymddanghosant yn hollol fel un linell dywell yn cwmpasu cyhydedd y blaed. Ond pan fo eu hymylon yn cyfeirio, un i fyny a'r llall i lawr, megis yn y darlun, ymddengys yn hollol wahanol. Dwywaith mewn blwyddyn i Sadwrn (sef 30 o'n blynnyddau ni) bydd eu hymylon yn cyfeirio at y ddaear, ac ar bob prydiau ereill gwelir mwy neu lai o'r modrwyau. Mae lled y fodrwy fewnol yn agos i 17,160 o filltiroedd, a'i phellder



GOLWG ARALL AR FODRWYAU SADWRN.

“Dim ond llinell fain yn amgylchynu ei chyhydedd.”

oddiwrth y blaned yn 19,090 o filltiroedd. Lled yr un allanol yw 10,560 o filltiroedd, a'r encyd rhyngddynt (sef y llinell yn y darlun) tua 1,800 o filltiroedd. Felly, os cymerwn y ddwy fodrwy a'r encyd ynghyd, cawn sidell 29,520 o filltiroedd o led. Ond nid yw ei thrwch ond ychydig dros 100 o filltiroedd. Mae natur y modrwyau mor sylweddol o ran defnydd a'r blaned ei hun, ac mae eu disgleirdeb yn gyffredin vn rhagori ar ddisgleirdeb y blaned, a gwelir hwynt weithiau yn tafu eu cysgodion ar Sadwrn, ac ni allasai dim wneyd hynny ond defnydd sylweddol. Canfyddir hefyd gysgodion Sadwrn ar y modrwyau. Sidellant hefyd o amgylch y blaned fel pe na byddent ond un fodrwy.

Pan y trodd Galileo ei bellwydr ar y blaned, tybiodd iddo ganfod tair o blanedau, ond ni allodd ganfod beth oeddynt heblaw adlewyrchiad. Huyghens welodd mai modrwyau oeddynt; a J. Cassini mai dwy fodrwy wahanol.

Cydrhwng y modrwyau mae gwagle, a elwir yn rhaniad Cassini.

Heblaw y modrwyau, addurnir Sadwrn â naw o leuadau, neu osgorddion, y rhai, fel ein lleuad ni, sydd yn derbyn goleuni o'r haul ac yn ei adlewyrchu ar y blaned a'i modrwyau. Dyma eu henwau, gan ddechreu yn yr agosaf at y blaned,—Mimas, Enceladus, Tethys, Dione, Rhea, Titan, Hyperion, Japetus, Phoebe. Os trowch i lyfrau ar seryddiaeth, chwi gewch enwau y darganfyddwyr, pellder y lleuadau oddiwrth y blaned, ynghyd â manylion ereill yn eu cylch.

O ran cyfansoddiad ei gorff, mae Sadwrn yn gyffelyb i Iau. Er na dderbynia ond y 90 ran o oleuni a gwres y corff hwnnw, gan fod cymaint o leuadau yn gweini arno, pan y byddo yn amddifad o oleuni yr haul, adlewyrchir goleuni arno y prydiau hynny gan dair neu bedair o leuadau yn gyson, ac nid anghyffredin yw gweled saith yn llawn ar yr un pryd, yr hyn, ynghyd â g adlewyrchiad y modrwyau, sydd yn cynhyrchu golygfa tuhwnt i ddisgrifiad.

## INGER.

## III. SELER Y WRACH DDU.



UAG wythnos wedyn, daeth y Wrach Ddu i ymweled â Gwrach y Gors. Hen wraig ddu, anferth o dal, a hagr oedd. Melltennai ei llygaid odditan aelïau duon; ac yr oedd ei bysedd yn gw eu'n brysur bob amser. Gweai ledr weithiau, i'w roddi yn esgidïau dynïon, ac ni chai y rhai hynny lonyddwch byth mwy. Gweai tafodau, a rhoddai hwy i wragedd, a byddai y tafodau hynny yn felldith i ardaloedd mwy.

"Helo!" meddai, pan welodd Inger, "dyma ferch ieuanc dlos. Ni weles i mo hon erioed o'r blaen. Nis gall fynd i rodianna ychwaith; nis gall symud oddiar y dorth acw. Un fel hon yn union oedd arnaf eisïau. Fy anwyl chwaer o'r gors, rhowch hi i mi."

Felly awd ag Inger y noson honno i gartref y Wrach Ddu. Rhoddwyd Inger i sefyll ar ei thorth yn y cyntedd, fel delw. Edrychodd allan trwy'r drws. Teimlai fod rhyw eangderau diderfyn o'i hamgylch, a llond yr awyr o eneidïau anesmwyth, blin. Yr oedd yno dyrfa anferth o bobl; ac yr oedd pryted copyn mawr, heglog, miloedd o flynyddoedd oed, wedi gwau gwe haiarn bigog am eu coesau. Ond er eu bod, fel Inger ei hun, yn methu symud o'u hunfan, yr oedd rhyw anesmwythyd yn dirdynnu eu heneidïau. Yn union o'i blaen yr oedd meddwyn, ac yr oedd wedi gorfod dod yno oddiwrth ei ddiod; ac yr oedd ei syched yn troi'r lle yn uffern iddo. Yn ei ymyl yr oedd cybydd, ac yr oedd wedi anghofio dod ag agoriad ei goffr, ac yr oedd poenau'n saethu fel gwaewffyn drwy ei galon wrth feddwl y rhoi rhywun arall hi yn y clo.

"Hm!" meddai Inger, "pwy chware teg sydd mewn dod a fi i le fel hyn am ddim ond treio cadw'm troed yn lân?"

Daliai'r dyrfa fawr newynog anesmwyth i edrych arni o hyd. Yr oedd eu llygaid yn gochion, gallech feddwl eu bod yn ffamio, ac yr oedd llid a chasineb a chynddaredd creulon yn llenwi y miloedd llygaid. Ond wrth sefyll o'u blaen, yr oedd balchder Inger yn fwy na'i hofn. "Ha! ha!" meddai, "y maent i gyd yn edrych arnaf. Rhaid fy mod yn dlos. Mor ofnadwy yw eu llygaid! Ai eneidïau yn disgwyl i ddrws trugaredd agor ydynt? Mwy tebyg mai rhai'n aros i ddrws uffern agor. Ond y maent yn dal i edrych arnaf o hyd. Rhaid fy mod yn brydferth iawn." Ceisiodd droi ei phen i gael gwell golwg arnynt. Ond yr oedd ei gwddf wedi mynd yn hollol anystwyth; a theimlai hithau ei hun yn troi'n garreg.

## LLADRATA OEDD HYNNY.



R oedd dau fachgen direidus a difeddwl yn cerdded gyda glannau yn o afonydd mawrion ein gwlad ryw ddiwrnod yn yr haf diweddar, yn ymyl eu cartref. Yr oedd pont yn croesi'r aton gerllaw; a chan fod tyrfaoedd o blant yn chware yno bob dydd, yr oedd Cyngor y dre wedi rhoi gwregys bywyd ger y bont, i'w daflu i unrhyw blentyn ddigwyddai syrthio i'r dŵr. Yr oedd yr aton yn rhedeg yn bur chwyrn, ac yr oedd sugn-bwll peryglus ychydig yn is i lawr.

Yr oedd hen weithiwr ungoes yn byw wrth dalcen y bont, ac yn edrych arno ei hun fel ceidwad y gwregys bywyd; a byddai y plant yn ei wylltio drwy daflu'r gwregys i'r dŵr

pan na fyddai eisiau gwneyd hynny.

"Bob," ebe Herbert, "gad i ni ddwyn cortyn y gwregys bywyd. Wedi i ni chware âg ef, awn ag ef adre i Lewis bach."

"Na, Herbert, lladrata fyddai hynny."

"Taw, 'r un ynfyd. Nid y gwregys wyf yn feddwl, ond y cortyn."

Tynasant y cortyn yn rhydd, ac aethant ag ef ymaith, gan adael y gwregys yn ei le. Pan oeddynt wedi mynd ymhell gwelsant yr hen weithiwr yn gwaeddi ar eu holau. Ond nid oedd hynny ond yn ychwanegu at eu dilyrrwch. Buont yn chwareu'n hapus am oriau.

Tua'r nos daeth Bob adre, a'r cortyn yn ei law. Gwelai ei fodryb yn dod i'w gyfarfod, dan wylo yn chwerw. "Fy machgen anwyl i," meddai, "mae dy frawd bach wedi boddi. Yr oedd yn chware wrth yr aton, a syrthiodd i'r dŵr. Tafodd yr hen weithiwr y gwregys iddo, ond methodd Lewis bach a gafael ynddo y cynnyg cyntaf. Nis gellid ei daflu yr ail dro, yr oedd rhywun wedi lladrata y cortyn. Felly aeth Lewis gyda'r dŵr i'r sugn-bwll. Newydd ei gael y maent Ni chei chware gydag ef byth mwy."

Yr oedd y cortyn fel pe'n llosgi llaw Bob wrth iddo glywed hyn. Yr oedd yn hoff iawn o'i frawd bach. Yr oedd ei galon bron torri o hiraeth A ydwdai ei gydwybod mai efe oedd llofrudd ei frawd.

Na nnewch ddrwg bychan. Y mae drygau mawr yn llechu y tu ol iddo. Nid ydynt yn y golwg eto, ond y maent yn sicr o ddod.

## PONT O EPAOD.

**Y** MAE y Capten Mayne Reid, yn ei deithlyfr dyddorol i blant, "Afloat in the Forest," yn rhoddi yr hanes rhyfeddol a ganlyn am yr hyn a welodd â'i lygaid ei hun, yn un o goedwigoedd mawrion glannau yr Amazon, yn Neheudir America.

Yr oeddwn yn teithio ar hyd glannau yr afon, pan y clywn haid o epaod yn dynesu ar fy llaw dde. Gan y tybiwn fod yr afon yn sefyll ar draws eu rhawd, setais i edrych sut y croesent. Yn union gwelwn lu o epaod, yn amryw gannoedd o nifer, yn ymddangos ar y lan ychydig yn uwch i fyny yr afon na mi. Wedi cyrraedd y lan felly, safwyd ronyn, a rhedai amryw i fyny gyda min yr afon, gan syllu yn ofalus ar y coed oedd yn tyfu o bobtu.

O'r diwedd, daethant at lecyn lle yr oedd dwy goeden fawr yn sefyll ar y lan gyferbyn a'u gilydd, un ar y lan yma, a'r llall ar y lan draw. Rhedodd rhyw ugain neu ddau ddwsin o'r rhai cryfaf i fyny'r goeden; yna, gan ddewis y gangen fwyaf a chryfaf oedd yn ymdafu bellaf dros y dŵr, rhedoddd eu blaenor ar hyd-ddi hyd ei blaen, a chan gordeddu ei gynffon yn droellen am dani, ymollyngodd oddi arni a'i ben at i waered.

Llithrodd y nesaf i lawr ar hyd corff y cyntaf; a chan ddirwyn ei gynffon am ysgwyddau y blaenor, ymollyngodd yntau yn grog a'i ben i lawr. Felly hefyd y trydydd, a'r pedwerydd, ac felly ymlaen, hyd nes y crogai yr olaf a'i ddeudroed blaen yn cyffwrdd y llawr.

Bellach dechreuodd y gadwen grog ymsiglo fel dringlyn cloc, ol a blaen, dros yr afon ac yn ol at y lan. Digon araf yr oedd y siglen yn ymsymud ar y dechreu, ond yn raddol cynyddai, gan ymdafu ol a blaen, bellach, bellach, gan fel yr oedd yr epa isaf yn taro ei ddwyllaw yn erbyn y ddaear â'i holl nerth. O'r diwedd, dacw hi yn chwifio yn ddigon pell i'r epaod isaf fedru cael gafael ar gangen fawr yn y goeden yr ochr draw. Bellach, yr oedd y gadwen yn cyrraedd o'r naill lan i'r llall yn bont fyw; ac ar hyd arwyneb hon chwim groesai yr holl fintai i'r lan draw.

Dacw'r holl fyddin o'r diwedd yn ddiogel drosodd. Ond sut yr oedd yr epaod oedd yn ffurfio'r bont i groesi, gan eu bod hwy wedi ymddolennu yn eu gilydd? Pe gollyngai yr epa cyntaf gymerodd afael i ffurfio'r bont ei afael, syrthiai yr hanner draw i'r bont, yr hanner ffurfiad ddiweddaf, syrthiant hwy i'r dwfr, am eu bod gymaint yn is na'r hanner cyntaf ffurfiad.

Cafwyd atebiad buan i'r cwestiwn hwn. Dacw un o'r epaod rhyddion sydd ar y lan draw yn cymeryd gafael gadarn yn yr epa diweddaf o'r bont, gafaeliad yr hwn oedd yn cydio y bont wrth y lan draw; a dacw un arall yn cymeryd tynn afael ynddo yntau, ac un

arall drachefn yn hwnnw, ac felly ymlaen nes ychwanegu gryn ddwsin at hyd y gadwen. Yn awr, dacw yr epaod diweddfaf hyn yn esgyn braidd i gopa'r goeden, gan lusgo a chodi y pen hwnnw i'r bont grog am droedfeddi yn uwch nag ydoedd y pen arall i'r bont.

Ac yn olaf oll, dacw epa'r ddolen gyntaf,—cyntafanedig y bont,—yn gollwng ei afael, ac felly'r bont yn chwyfio ar draws yn ddiogel i'r lan draw, heb daraw'r dŵr na'r llawr. A buan yr oedd yr haid fywus, glebarus, chwareus; wedi diflannu ar eu taith yng ngwyloedd pellenig y goedwig gudd.

H. BRYTHON HUGHES.

### GALWAD I'R GAD DDIRWESTOL.

**M**AE arnom eisiau milwyr,  
I restru gyda ni,  
I ymladd brwydrau dirwest,  
Ac achub rhag y lli;  
Mae cadben mawr ein byddin,  
Yn dysgu pawb a ddaw,  
I ymladd gyda'r gelyn,  
Yn wrol heb un braw.

CYDGAN.

O deuwch ac ymrestrwch,  
Rhowch gymorth braich a llaw,  
Coronir mewn gogoniant,  
Bob milwr yma ddaw.

Mae arnom eisiau milwyr,  
I achub, nid i ladd,  
Mae'r gelyn yn ymosod  
Ar ddynion o bob gradd;  
Cei dithau, os ymuni,  
Rhoi cymorth braich a llaw,  
I godi'r meddwyn, druan,  
O gorsydd lleidiog braw.

38, *Heol y Capel, Porthmadog.*

Mae arnom eisiau milwyr,  
A'u geiriau megis cledd,  
I argyhoeddi meddwon,  
A'u dwyn i wlad o hedd;  
Os nad wyt yn ryfelwr,  
Cei drwsio clwyfau'r fron;  
Mae lle i bob rhyw doniauw,  
Yn y filwriaeth hon.

Mae arnom eisiau milwyr,  
Pob oedran a phob rhyw,  
Ymunwch gyda'r fyddin  
I weithio dros eich Duw;  
Mae llawryf buddugoliaeth  
Yn sicr maes o law,  
Coronir mewn gogoniant  
Bob milwr yma ddaw.

CYDGAN.

O deuwch ac ymunwch,  
Rhowch gymorth braich a llaw,  
Coronir mewn gogoniant  
Bob milwr yma ddaw.

ROWLAND JONES.

### HAF A GAUAF.

**E**S i'r ardd un hafaidd forau,  
Ennyd ddedwydd yno gaed;  
Llu o hawddgar, dlysiion fiodau,  
A bersawrai gylch fy nhraed;  
Myrdd o adar yn telori  
Yn berseiniol glywais i;  
Mewn gwisg newydd 'roedd y llwyni,  
A'u pur ffrwythau'n perarogli,—  
Haf-ddydd mwynnaidd ydoedd hi.

Es i'r ardd un bore wedyn,  
Deigryn gloew ddaeth i'm grudd;  
Nid oedd yno un blodeuyn  
Yn addurno'r fangre brudd;  
Gwywo wnaeth y rhos a'r lili,—  
Ennyd bruddaidd deimlais i,  
Syrthio wnaeth pur ffrwythau'r llwyni,  
Hwythau'r adar wedi tewi,—  
Gaef oerllyd ydoedd hi.

ISYLOG.





TEULU O SEFYDLWYR YN SIBERIA.

**NOSON BRYDERUS.**

## I. UNIGEDD DAU BLENTYN.

**Y**MFUDODD teulu o Rwsia i Siberia rai blynyddoedd yn ol. Pump oeddynt,—tad, mam, modryb, mab, a merch. Ivan oedd enw'r mab, a Sophia oedd enw'r ferch.

Y mae'n debyg eu bod oll yn fyw heddyw, ac hwyrach fod y tad a'r mab wedi eu llusgo i faes y gwaed, i'r rhyfel otnadwy sy'n lliwio Manchuria & gwaed dewr yn y dyddiau hyn. A phe

byddent byw gan mlynedd eto, y mae'r brawd a chwaer,—Ivan a Sophia,—yn sicr o gofio un noson bryderus yn eu cartref newydd.

Yr oeddynt wedi aros, ar ol taith hir, ar gwrr gwastadedd. Ac yno y penderfynasant aros. Yr oeddynt wedi trafaelio bron ar hyd yr haf, ac yr oedd y gaeaf yn prysur ddynesu yn awr. Gwnaethant gaban o goed. Saerniaeth anghelfydd oedd arno,—prennau geirwon wedi eu gosod ar eu gilydd. Un ystafell oedd yr adeilad, ond fod dwy loft fechan, fel rhyw ddwy silff, ar ddwy ochr iddo. Erbyn iddynt ei orffen, yr oedd y rhewynt yn chwythu ers wythnosau o'r gogledd, a'r gaeaf gerwin yn dechreu gwneyd y gogledd yn anial.

Pan yn teithio i chwilio am gartref newydd, yr oedd dau o'u tri ceffyl wedi clafychu a marw. Am hynny yr oeddynt wedi gorfod gadael llawer o'u heiddo mewn pentref, nes y medrent ddod yn ol i'w gyrchu. Yr oedd y pentref hwnnw hanner can milldir o'r fan ddewisant yn gartref. Wedi gorffen y caban, ebe'r tad ryw ddiwrnod,—“Rhaid i ni'n tri fynd i Alexandrostock i geisio'r clud, caiff Ivan a Sophia warchod y cartref newydd.” A chychwynasant.

Bore drannoeth cododd y ddau blentyn yn fore. Yr oedd eira gwyn claerwyn dros y wlad. Mor bell ag y gallai y llygad weled i'r gogledd, yr oedd eangder diderfyn o eira claerwyn, pur. I'r de yr oedd bryniau lawer, ac yr oedd yr eira yn fantell wen ddisglauer drostynt hwythau. Pan gododd yr haul, trodd y bryniau yn fryniau o aur, ac yna yn fynyddoedd o berlau. Edrychai y plant ar yr olygfa mewn syndod.

Dechreuodd Ivan adgofio i'w chwaer beth ddywedasai ei dad am y wlad,—mor fawr oedd y wlad i'r gogledd, fod y Mor Rhew y tu hwnt i hwnnw, a fod Pegwn y Gogledd y tu hwnt i'r môr. “Ac yno y mae yr eirth,” meddai, “mae eu dannedd mor llym fel y medrant ddryllio llongau i fynd at y morwyr.”

Llanwodd llygaid Sophia a dagrau wrth gofio mor bell yr oedd ei thad a'i mam a'i modryb oddiwrthynt.

“Yr ydym yn unig, Ivan,” meddai, “'does neb o fewn can milldir atom.”

Ychydig wyddai'r ddau blentyn fod gelyn creulawn yn cyfeirio atynt, yn araf ond yn sicr.

---

### YR UCHEDYDD.

Yr Uchedydd ar ei wech aden,—hed

I gyfarch yr heulwen;

A'i ganig bêr, ddi-gynnen,

A'i aur nod a letw'r nen.

**MORDAITH CAPTEN COOK.**

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## X. SEFYLLFA ENBYD.

**TAD.** Beth oedd gennym dan sylw ddiweddaf y nos o'r blaen, Ifor?

**IFOR** O, dweyd yr oeddech bod y morwyr wedi llwyddo i fyned heibio i graig beryglus oeddent yn ofni yn fawr hwyr y dydd blaenorol.

**TAD.** Ie, da iawn, Ifor. Onibai dy fod yn cofio mor dda, buaswn wedi blino adrodd wrthyt ers tro. Yr oedd bod y dwfr wedi dytnhau hyd un gwr ar hugain wedi peri iddynt dybio eu bod allan o berygl. Felly, gyda thawelwch meddwl, pan ddaeth y nos, aeth pob un i'w wely ond y gwylwyr. Ond ychydig cyn un ar ddeg o'r gloch, lleihaodd y dyfnder yn sydyn, hyd i ddau wrhyd ar bymtheg; a chyn cael amser i wneyd mesuriad arall, aeth y llong ar y graig; ac nid oedd ond gobaith gwan y symudai mwy; ond yr oedd yn cael ei hysgwyd gan y gwynt ar y graig goral, lem, nes oedd y morwyr yn clywed o'u gwelyau y brathiadau a wnelid ar waelod y llestr; ac ymhen ychydig eiliadau, yr oedd pob un perthynol i'r llong ar y bwrd, yn gwneyd eu goreu yn ol cyfarwyddiadau eu swyddogion; ac yr oedd gwyneb pob un yn cyfateb i'r sefyllfa ddirifol yr oeddent ynddi. Yr oeddent yn gwybod drwy ryw arwydd a gario-ld yr awelon iddynt y prydawn, eu bod ymhell oddiwrth dir. Wrth iddynt fesur dyfnder y dwfr o gylch y llong, deallasant bod eu sefyllfa yn ateb i'w hofnau; yr oedd y llestr wedi myned drosodd rhwng dau gribyn o'r graig; gwyddai y morwyr bod lleoedd o'r fath yma yn amrywio, o ran eu dyfnder, o chwech i bedair troedfedd ar hugain. Canfyddasant wrth oleu y lloer amryw o fyrddau y llong yn nofio o gylch, yr hyn a fawrhaodd eu dychryn a'u trallod yn ddirfawr. Yr oedd pob eiliad megis yn agor y ffordd i'r dwfr i ddyfod i mewn i'r llong, fel yr oedd yn amlwg iddynt oll nad oedd ganddynt ond un peth arall i'w wneyd ag oedd yn dal rhyw obaith gwan iddynt am ddiangfa, sef ysgrafnau y llwyth; ac yr oedd y cyfleusdra goreu wedi myned heibio i lwyddo felly, sef yr adeg yr oedd y llanw yn ei fan uchaf. Er hynny, 'doedd dim gwell i'w wneyd na'r goreu o'r gwaethaf.

**IFOR** Fy nhad, oni ddarfu i chwi ddweyd fod y llong yr adeg honno ymhell ar y mor? Yr oeddwn i yn arfer credu nad oedd y llanw yn gwneyd dim ond rhyw chwareu gerllaw ac ar y traeth.

**TAD.** O na, fy machgen i. Er y dywedir am y lloer, mai llawforwyn y ddaear yw hi, y mae hi yn feistres i'r môr. Y mae ei

dylanwad atyniadol yn effeithio i ryw fesur ar holl foroedd y byd, ganol a glannau, ond ei fod yn fwy amlwg ar y glannau. Awn ymlaen. Nid oedd dim amser i'w golli. Yr oedd chwech o gyflegrau ar y bwrdd, taflwyd hwynt drosodd gyda'r brys mwyaf, ac amryw o bethau ereill. Ymroddodd pob un ar y bwrdd i wneyd ei oreu; nid yn unig cydweithiai pawb yn ddirwgnach, ond yr oedd eu cydymdeimlad a'u cydymdrech wedi eu codi o'u hofnau a'u hanobaith i ryw fath o sirioldeb. Ar yr un pryd, yr oeddent yn hollol ymwybodol o'u perygl arswydus. Deffrowyd euogrwydd eu cydwybodau mor llwyr, fel na chlywyd yr un llw o enau neb, er bod hynny wedi bod yn beth cyffredin yn eu plith, yn enwedig yn absenoldeb y Capten. Pan oedd y Capten a'r dwylaw wrthi yn gweithio a'u holl egni i ysgafnhau y llong ar fore yr 11eg o Mehefin, danghosodd goleuni y dydd iddynt olwg gyflawnach ar eu perygl. Gwelsant bod y tir ymhell oddiwrthynt, ac nad oedd yr un ynys yn y cyfwng rhyngddynt ag ef; fel nad oedd gobaith, pe buasai y llong yn mynd yn ddrylliau, y gallent tyned i dir yn y badau, oherwydd eu bod yn rhy bell oddiwrtho, a'r ystorm mor arw. Ond yn raddol ymlonyddodd yr ystorm, a chyn deg o'r gloch yr oedd wedi hollol ostegu. Edrychent ar hynny fel trugaredd ragluniaethol amlwg; oherwydd, pe buasai y gwynt nerthol yn parhau ond ychydig yn hwy, buasai y llong wedi mynd yn chwilfriw, a'r oll o'r cwmini wedi eu claddu yn y môr, heb neb ar ol i adrodd yr hanes. Yr wyf yn credu yn gadarn, Ifor, bod Capten Cook o dan ofal arbennig yr Arglwydd drwy yr holl daith hirfaith hon. Yr oeddent yn disgwyl ymweliad y llanw am un ar ddeg y bore hwnnw; yr oeddent wedi gwneyd popeth a allent ag oedd yn fanteisiol i'r hen gawr oedd wedi gosod y llong yn y fath le i'w chymeryd hi ar ei gefn, a'i chario yn ddiogel i dir. Daeth y llanw i mewn at ei amser; ond ni chododd mor uchel a llanw y nos, o tua dwy neu dair troedfedd; ac er eu bod wedi ysgafnhau y llwyth o yn agos i 50 tunell, ni chodwyd y llestr. Yr oedd y morwyr yn sicr, pe buasai y dwfr ond troedfedd a hanner yn uwch, y buasai y llong wedi nofio. Erbyn hyn, daethant i'r penderfyniad i daflu popeth dros y bwrdd, os gellid ei hebgor rywfodd. Gwnawd hynny gyda'r gofal a'r prysurdeb miwyaf. Ar y prydawn nid oedd cymaint o ddwfr yn dyfod i mewn ag oedd cyn y llanw; ond ar ostyngiad y llanw, rhuthrodd y dwfr i mewn gyda'r fath gyflymdra ag oedd yn gwneyd i bob gwyneb wisgo gwedd ofnadwy o dditrifol. At y ddau sugnedydd oedd ar waith, gosodasant ddau ereill; ond cawsant ar ddeall fod un ohonynt yn ddi-werth.

**IFOR.** Fy nhad, yr wyf yn hoff iawn o fanylion. Yr ydych, gallaf feddwl, yn manylu mwy ar yr amgylchiad ditrifol hwn nac ar un o holl amgylchiadau yr hanes yn flaenorol.

TAD. Ydwyf, feallai, yn wir. Mae yn y darn hwn o'r hanes wers bwysig i ddyinion ieuanc. Dal arni, fy machgen i. Os cwrddi ag amgylchiad cyffelyb i'r un sydd dan sylw gennym, nas gellir ei osgoi heb aberthu, gwna dy ran. Yna, os methi a llwyddo, ti fyddi wedi cyflawni gwaith gwron. Cadwyd tri sugnedydd ar waith yn ddiatal; ond yr oedd y dwfrrholtt yn parhau i ollwng mwy i mewn nag o'r blaen; ac yn ol pob ymddangosiad, wedi i'r llanw symud y llong o'i gorffwysle ar y graig, suddai i'r gwaelod mewn ychydig o funudau. Yr oedd sefyllfa ein morwyr yn awr yn un ofnadwy, ar ol gwneyd pob ymdrech i gael y llong i nofio er eu diogelwch; ac yr oeddynt o dan yr argraff, erbyn hyn, y buasai codiad y llestr oddiar y graig yn ddinistr ar unwaith iddynt. Gwyddent yn burion nad oedd eu badau ond prin, ac anghymwys i'w cario oll i dir. Onfent hefyd y buasant ar y munudau diweddaf yn syrthio i anhrefn, ac y buasai hynny yn cyflymu y llongddrylliad. Yr oedd y rhai mwyaf pŵyllog a meddylgar o'r cwmni, fel y cafwyd ar ddeall ar ol hynny, wedi sylweddoli yn eu meddyliau, pe gallasai rhai ddianc yn ddiogel i dir, y buasai eu tynged yn llawer gwaeth na thynged y rhai oedd wedi eu gadael ar y bwrdd i farw yn y tonnau.

IFOR. Fy nhad, gan ei fod yn nod arbennig gan ein mordeithwyr i ymweled â phob gwlad ac ynys a allent ym moroedd y de, paham yr oeddent yn teimlo yn wrthwynebus i dalu ymweliad â'r lle newydd oedd yn eu golwg ar y pryd?

TAD. Yr wyf wedi awgrymu yn barod un o'u rhesymau dros eu hofnau i ymweled â'r lle dieithr dan sylw. Heblaw yr hyn a nodwyd, yr oedd ganddynt resymau cryfion ereill. Pe buasai yn rhaid i nifer ohonynt ddianc am eu bywyd i'r lle aniwylliedig hwnnw, ac i blith anwariaid o'r mwyaf barbaraid yn y byd, nis gallai fod gan ein dynion allu amddiffynol effeithiol a pharhaol. A phe gallent gael cynaliaeth a llonyddwch yno, mor ofnadwy fuasai y syniad iddynt o fod megis wedi eu condemnio i ddihoeni mewn anialwch dros weddill eu hoes, heb obaith am gysuron gwlad waraidd, ac wedi eu torri ymaith oddiwrth ddyinion diwylliedig, i fyw yng nghanol helwyr anwaraidd, ysglyfaethus, a noethlymun. Yr oedd y funud ofnadwy oedd i benderfynu tynged y morwyr yn yr ymyl. Yr oedd pob un yn gweld y darlun oedd ei deimlad wedi ei gynhyrchu ar ei wyneb ei hun yn amlwg ar bob gwyneb arall. Ond ni roddwyd i fyny i anobaith. Gorchymynnodd y Capten i gymaint o ddwyllaw a allesid eu hebgor oddiwrth y sugnedyddion, at y ddirwynlath a'r ddirwyndroell, er cynorthwyo y llong i droi ychydig, er mantais i'r llanw ei chodi. Ac er eu mawr foddhad, am ugain munud wedi deg, yr oedd yr hen long yn nofio ar wyneb y dynder.

*Dinas Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

## ENWOGION PENMORFA.

II.



WRT y Defaid yw cartref mebyd Edward Samuel. Cyfieithwr a bardd o fri oedd ef, a aned yn 1674. Tlodion oedd ei rieni, a chafodd ei addysg trwy ddylanwad yr Esgob Humphreys. Yn 1702, cafodd fywoliaeth Betws Gwerfil Goch, Meirionnydd. Ychydig o gyfansoddiadau gwreiddiol a gyhoeddodd, ond cyfieithodd gryn lawer, ac y mae ei Gymraeg

bron cystal a Chymraeg y Bardd Cwsg. Llawer tro y creffais am ennyd ar y Lasynys un ochr i'r traeth, ac ar Gwrt y Defaid yr ochr arall, gan feddwl,—“Dyna'r ddau lecyn a gawsant yr anrhydedd o fagu dau ben-Cymreigiwr Gwynedd.” Bu D. vid Samuel, wŷr i Edward Samuel, yn mordeithio

gyda'r Capten Cook yn y llong *Discovery* o amgylch y byd.

Bardd a phregethwr hynod oedd John Edward, Ereiniog, Cwmystradllyn, a aned yn 1755. Ei brit ddifyrrwch, hyd nes yr oedd oddutu ugain oed, oedd darllen a chytansoddi prydyddiaeth. Gallwn roddi engrafft neu d'fwy o barodrwydd ei deulu ac yntau. Yr oedd y tad, un noson, wedi syrthio i bwl, ac wedi gwlychu. Ac anerchai ei fab tel hyn,—

“A elli ffeindio i mi'n glos,  
Y pwll eis dros fy esgid?”

Meddai John Edward ar unwaith,—

“Yn y pwll sydd ar y rhôs,  
Mae yn y nos yn enbyd.”

Yr oedd wedi bod mewn siwrnai, rywbryd, ar adeg lled oer ar y fwyddyn. Ond wedi iddo ddychwelyd i'r ty, 'roedd yr aelwyd wedi ei hamgylchu gan y teulu ac ereill. Ac meddai ar unwaith,—

“Nid oes lle im' wrth y tân,  
Gan 'lodau ar draws aelwyddydd.”

Ac atebai ei frawd ef yn y fan,—

“Fe all y gŵr a'r bwtshias mawr,  
Fod yn y llawr yn llonydd.”

Dywedir ei fod ar ganol cyfansoddi *interlude*, pan y cafodd droedigaeth, o dan weinidogaeth gŵr o'r enw Hugh Pierce. Pryd hyn yr aeth yn ansefydlog ei feddwl gyda golwg ar ba enwad yr ymunai âg ef. Ymgynghorodd â Mr. Hughes, person Llanfihangel y Pennant, am gyfarwyddyd, a chynghorodd Mr. Hughes ef, gan ddweyd,—“Gwell i ti, Shon, aros wrth y cwpwrdd lle yr wyt yn cael bwyd.” Teimlodd briodoldeb y cyngor, ac ymdawelodd i fwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid, er maint eu hanfanteision, yn Hendre Hywel. Nid hir y bu heb dderbyn anogaeth i ddechreu pregethu, a bu'n llafurio yn egniol yn ei ardal enedigol am flynyddau. Bu yn pregethu ym Mron y Foel unwaith, a phan oedd ar ddechreu ei bregeth, gwelodd fachgennyn main a llwyd yn ymwthio i ryw gongl yno. Nid oedd hwn yn neb amgen na John Elias, pryd yr oedd yn gwasanaethu gyda Griffith Jones, yn Ynys Pandy. Galwodd John Edward arno yn y wedd ganlynol,—“Sionyn, tyr'd yma i ddweyd ychydig o' mlaen i.” Ac ufuddhaodd, a dywedir ei fod wedi cael odfa nodedig o dda. Oherwydd ei fod yn “bregethwr Methodus,” bu raid iddo roddi y pregethu i fyny neu ymadael o'r tyddyn, yr hwn orchymyn a dderbyniodd oddiwrth glerigwr erledigaethus ei ysbryd, oedd yn oruchwyliwr i'r boneddwr a berchenogai y tyddyn. Ond gwell o lawer ganddo ydoedd ymadael o'i dyddyn, er ei fod yn gartref ei hynafiaid, na thorri cysylltiad oedd yn nes i'w galon a'i gydwybod. Ymadawodd yn ferthyr o'i hen gartref, a chafodd fferm arall yn sir Ddinbych, a bu o wasanaeth amhrisiadwy yn yr ardaloedd hynny. Teimlai hyfrydwch mawr mewn arloesi tir, a chyhoeddodd lyfr ar feddyginiaeth anifeiliaid. Bu tarw yn 1823, yn 68 mlwydd oed.

Gelwid yr Hughes y soniais am dano yn “Hughes Fawr,” am ei fod o gorffolaeth fwy na'r cyffredin. Yr oedd yn adnabyddus yn yr ardal o 1772 hyd 1778, fel curad plwyf Llanfihangel y Pennant. Yr oedd yn bregethwr grymus, a thynnai lawer i'w wrando, a bu yn offeryn i droi llawer at gyfiawnder. Rhagorai lawer ar bersoniaid ei oes a'i wlad ar gyfrif ei ddawn a'i lafur, a'i ysbryd diragfarn at y crefyddwyr. Ni ymgododd ar hyd ei oes uwchlaw bod yn gurad, feallai mai yr achos o hyn oedd ei boblogrwydd fel pregethwr, a'i ysbryd efengylaidd. Yr oedd o ddosbarth y teimlid yn dra eiddgeddus tuag atynt, megis Goronwy Owen, Ieuan Glan Geirionydd, ac ereill. Diamheu, pe cawsai y gwyr hyn eu lle priodol yn yr eglwys, y buasai golwg wahanol arni yng Nghymru heddyw.

Ganwyd Ellis Owen, Cefn y Meusydd, Mawrth 31, 1789. Ni wnaeth neb fwy o wasanaeth cymdeithasol i'r ardal nag ef. Edrychid i fyny ato fel dyn doeth, eang ei wybodaeth, a hynod am ei gymwynasgarwch, a pherchid ef gan bawb oherwydd hynny.

Derbyniodd ran o'i addysg yn Llan Penmorfa, yr un amser a'i gyfaill, Dewi Wyn, o dan ofal hen wr a elwid Mr. Pugh. Wedi hynny, aeth i'r Amwythig, lle y dysgodd yr iaith Saesneg yn dda. Bu hyn o werth mawr iddo ar hyd ei oes, a chymhwysodd ef i gyflawni gwahanol swyddi am amser maith. Yr oedd ei safie yn y gymydogeaeth, yng ngwynneb sefyllfa addysg y cyfnod, yn ei osod o angenrheidrwydd fel oracl y rhan hon o'r wlad yr adeg hynny, fel y daeth yn gynghorwr cyffredinol yn ei ardal. Ond daeth ei bfit enwogrwydd i'r golwg fel llenor ac hynafiaethydd. Dywedir ei fod mor fanwl ac amrywiol yn y maes llenyddol, fel yr oedd yn anhawdd gwybod i ba gangen y talai fwyaf o sylw. Nis gellir son am dano heb feddlw am Gymdeithas Lenyddol Cefn y Meusydd, yr hon a sefydlwyd yn 1846, i'r amcan o roddi cychwyniad i ddynion ieuainc awyddus am wybodaeth yng ngyrfa anrhydeddus bywyd. Bu y gymdeithas mewn bri yno am un mlynedd ar ddeg, yn cynnwys o ddeuddeg i bymtheg o aelodau, a rhai o'r prif feirdd yn aelodau o honi, megis Eben Fardd, Nicander, ac ereill. Hefyd, bu Ellis Owen yn llanw swyddau pwysig yng nghylchoedd crefyddol Eifionnydd. Pan gychwynnodd yr Ysgol Sabothol yn Brynmelyn, anogwyd ef i fod yn ysgrifennydd, oherwydd ei fod o flaen ei gyfoedion mewn cymhwysder i hynny. Ac yn tuan dadblygodd ei sel wresog dros addysg ysgrythyrol. Yn ol hanesion gan rai sy'n fyw, perthyn iddo hanes dyddorol fel arolygwr yn y Brynmelyn am dros ddeugain mlynedd. Cynlluniodd Undeb Ysgolion Sabothol Lleyn ac Eifionnydd, yr hon a drodd yn fendithiol i'r ardaloedd, a chadwodd gysylltiad agos â hwynt yn agos i hanner canrif. Bu farw Ionawr, 1868, a chladdwyd ef ym mynwent Ynyscynhaiarn.

Un o ddisgyblion Ellis Owen oedd Richard Roberts (*Bardd Treflys*). Ganwyd ef yng Ngarth Morthin yn 1818. Gweithiodd yn egniol gyda'r achos yn Brynmelyn, ynghyd â'r Parch. Evan Roberts. Bu y diweddar yn arholwr Undeb yr Ysgolion Sabothol am lawer o flynyddoedd, yn olynydd i'r Parch. John Jones, Tremadog. Yr oedd Bardd Treflys uwchlaw y cyffredin mewn galluoedd meddyliol, heblaw ei fod yn fardd da. Yr oedd yn llenor gwych, ac yn Gristion gloew. Cyfansoddodd lawer darn godidog o farddoniaeth, y rhai sydd yn debyg o fyw am amser maith. Y goreu, meddir, o'i eiddo yw,—“Can y Palm Oil,” yr hon a achlysurwyd trwy i long lwythog o'r olew fyned yn ddrylliau ar Sarn Badrig, Ionawr 14 1849. Bu farw 1876 yn 58 mlwydd oed, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Treflys.

Bu ereill, fel John Jones, Tremadog, yn blaenori yma, ac yn ennill parch am eu gwasanaeth. Yn hir y byddo eu coffadwriaeth, a choded llawer o rai tebyg iddynt eto.





PLANT CYMRU. CLXXX. PLANT ABERDARON.

**ABERDARON.**

**F**EL y gwyr llawer o'ch darllenwyr, pentre bychan ar lan y môr ymhen draw Llein, yw Aberdaron. Nid oes fawr o stwr yno y blynyddoedd presennol; ond yn y canol oesoedd yr oedd yn lle go bwysig. Ffordd yma y byddai yr hen bererinion ystalm yn myned i Ynys Enlli, yr hon sydd i'w gwelid ryw ddwy filltir allan i'r môr. Ar y lan gyferbyn a'r ynys, gwelir yn amlwg risiau wedi eu torri yn y graig gan yr hen fynachod; ac ar ben y bryn y mae olion hen eglwys ydoedd yn ddiameu yn fawreddog yn ei hamser, ac yno y byddai yr hen bererinion yn gorffwys ac yn ceisio anghofio dwndwr y byd yn swm y tonnau.

Ond er fod Aberdaron mor bell megis o'r byd, nid yw heb feddu ar rai o'i fanteision goreu. Fel y gwelir oddiwrth y darlun, y mae yma Ysgol Fwrdd hardd a threfnus iawn, a bydd rhyw drigain o blant yn dod yma bob dydd i dderbyn addysg gan Mr. Hughes a'i gynhorthwywyr.

L. G. M. D.

## DEILEN O ROS.



**P**AN chwiliwn am eiriau'r doethion, tua gwledydd y dwyrain y trown ein gwynebau. Pan ofynnid i John Elias ym mha le y cafodd ei foesgarwch dymunol, atebai mai trwy ddarllen Llyfr y Diarhebbion.

Am y balmwydden yn edrych ar ei llun mewn dwir llonydd, am wŷr yn eistedd yn dawel i siarad ger porth neu ffynnon, am y ddinas yn gorwedd yn ddistaw yng nghysgod y bryn ar naw nau poeth a noson serenog,—am y rhain y meddyliwn fel nodweddion gwlad doethineb.

Yr oedd dinas yn y dwyrain yn llawn doethion. Wrth bob porth, ger pob ffynnon, eisteddai cwmni doeth o ymgomwyr; a phwy bynnag safai i wrando neu i ofyn cwestiwn,

teimlai fod geiriau gwir ddoethineb yn cael eu traethu. O'r diwedd, tybiodd y doethion eu hunain fod gormod ohonynt, a fod llawer doethawr ieuanc na chai gyfle i draethu doethineb. Ar yr adeg honno, clywsant fod gŵr doeth arall, o ddinas gyfagos, am ymsefydlu yn eu dinas hwy. Teimlent nad oedd ganddynt le iddo; ar yr un pryd, yr oeddynt yn anfoddlawn i ddangos na fyntent ei groesawu.

Penderfynasant ddangos trwy ddameg iddo fod seddau'r doethion oll yn llawn. Arweiniasant ef, pan ddaeth trwy'r porth, at brif ffynnon y ddinas. Cymerodd un o'r doethion ddysgl aur, rhoddodd hi yn y ffynnon, a chododd hi allan yn araf ac yn ofalus a'i llond o ddwr. Yr oedd mor llawn fel na chynhwysai ddyferyn yn ychwaneg. Rhoddodd hi ar garreg ger y ffynnon, ac eisteddodd y doethion yn gylch o'i hamgylch. Ni ddywedodd neb air; ond dyna eu dull hwy o esbonio nad oedd le yn y ddinas i un doethawr arall. Efe oedd i ateb yn awr.

Cododd y gŵr yn araf. Cymerodd ddalen o ros yn oddiar goeden gerllaw,—dalen burwen, ysgafn, aroglus. Rhoddodd hi ar wyneb y gwpan llawn, a chymerodd y ddalen ei lle yn daclus ar wyneb y dwir heb i un dyferyn golli drosodd. Dyna'r ateb, ac yr oedd yr ateb mor foddhaol a tharawiadol fel y derbyniwyd y gŵr dieithr yn serchog.

Y mae lle yn y byd i'r doeth, i'r tyner, i'r caruaid. Yr oedd lle i'r ddeilen ar wyneb y dŵr, a gwnai y dŵr yn bêraroglus yn ogystal ag yn bur. Os bydd eich cymeriad yn dda, a'ch tuedd at ddaioni, y mae digon o le i chwi yn y byd.



**LLE MWYAF GWLAWOG  
CYMRU.**

**AMGYMERIAD** yw tybied nad yw gwlaw yn brydferth. Wrth weled gwlaw, teimla llawer yn anghysurus. Ni welant ond anghysur mewn diwrnod gwlawog; nis gallant fod yn ddedwydd ond pan y bydd yr haul yn tywynnu. Ond y mae gwlaw hefyd yn brydferth. A welsoch chwi'r gwynt erioed yn gyrru ystorn o wlaw ar draws y mynyddoedd? Gallasech feddwl fod rhyw gawr anweledig yn rhoddi gorchudd goleulwyd, teneuach ac ysgafnach na'r sidan meinaf, am ysgwyddau ein mynyddoedd heirdd. A fuoch chwi'n gwyllo'r

gwlaw yn cael ei yrru gan y gwynt? Onid yw ei ffurf yn brydferth? A fuoch chwi'n gwrandao ar furmur y dyferynau'n disgyn ar afon a llyn? A glywsoch chwi su esmwyth disgyniad y gawod yn nyfnder nos, fel bendith gofâl mam fu yn eich gwyllo gynt? A welsoch chwi'r dyferynau breision yn disgyn ar ardd a chaeau sychedig wedi gwres hir a gwyw? Tlysni a bendith ddylem gysylltu â gwlaw Ac wedi diwrnod ynddo ar y mynyddoedd, bydd arnom bron hiraeth am dano mewn dillad sychion ac wrth dân mewn annedd ddiddos.

"Prun yw'r llecyn mwyaf gwlawog yng Nghymru?" Dyna'r cwestiwn o'tynnir ac a atebir gan Mr. J. R. Gethin-Jones yn rhifyn Awst o "Symons's Meteorological Magazine." Glafon, yng Nghwm Llydaw, rhyw filltir i'r gogledd-ddwyrain o ben y Wyddfa, a rhyw fil o droedfeddi'n is. Wyneba mynyddoedd Eryri i'r dwyrain, ar ffurf pedol, a hanner amgaur cwm, ond o du y dwyrain, gan ucheldiroedd a chribau mynyddoedd tua thair mil o droedfeddi o uchder. Tront eu cefnau hirion, llaesion, tua'r môr. Ar hyd y cefnau meithion hyn crwydra niwloedd cynnes o'r môr Oerir hwy trwy gyffyrddiad â'r mynyddoedd oerion, a disgynnant yn wlaw trwm yn y cwm yr ochr arall.

Disgynnodd 250 modfedd o wlaw ar y llecyn hwn, set llyn Glaslyn, yn 1903. Y spotyn gyfrifid wlypaf hyd yn hyn oedd y Styne, yn Cumberland, yn 1872, lle disgynnodd 244 modfedd o fewn y dim.

Y mae Mr. Gethin-Jones yn llawn brwdfrydedd wrth son am Laslyn. Y mae'r dyferynau gwlaw ddisgyn arno, ebe ef, yn llawer mwy na'r rhai ddisgynnant ar Lyn Llydaw yn is i lawr. Clywch ddwndwr y dyferynau breision wrth iddynt ddisgyn ar wyneb y llyn, er gwaethaf rhu y gwynt a lleisiau uchel y rhaiadrau. Pan fydd gwlaw trwm yn disgyn, y mae'r llyn fel crochan yn berwi.

---

### Y SAITH GELFYDDYD FREINIOL.

VII. SERYDDIAETH (*Astronomy.*)

**D**YSGA Seryddiaeth,—cei flurf y  
byd,  
A bras esboniad o'r nefoedd i gyd;  
Cei weled modrwyau Sadwrn lân,  
A gwylio carlamiad y gomed dân.

Dysga Seryddiaeth,—cei godi'r llen,  
A gweled gogoniant y nefoedd wen;  
Cei weled yr haul yn goleuo'r sêr,  
Tra dawnsiant o amgylch ei orsedd dêr.

Dysga Seryddiaeth,—cei wedi hyn,  
Roi tro trwy'r Llaethog Lwybr gwyn,  
Lle gweli blanedau a bydoedd di-ri,  
Yn gwmwl o dân yn mynd heibio i ti.

Dysga Seryddiaeth,—gelfydd dlos,  
Hi rydd esboniad ar ddydd a nos;  
Llyfr bras y cysawd ddug ger dy fron,  
Cei feddwl dy Grêwr mewn cread gron.

R. EUROG JONES.

---

### IESU ANWYL, RHO DY GWMNI.

**I**ESU anwyl, rho dy gwmni,  
I mi yn yr anial fyd,  
Yna teithiaf yn ddi-wyrni  
I'r dragwyddol Ganan glyd;  
Os fy rhwystro wnelo Satan,  
Gan ei rwydau dyrus, cas,  
Yn ddiogel dof trwy'r cyfan,  
Ond cael ynwyf nerth dy ras.

Iesu anwyl, rho dy gwmni,  
Mae nos angen'n agoshau,  
Pyth nis gallaf fyned drwyddi,  
Os fy Iesu sy'n pellhau;  
Er mor arw ydyw'r afon,  
A'i therfysglyd donnau hi,  
Cael dy gwmni, dyna ddiagon,  
I mi groesi berw'r lli.

Iesu anwyl, rho dy gwmni,  
Mae y frawdle fawr gerllaw,  
Rhaid i minnau ei gwynebu,  
A rhoi cyfrif maes o law;  
Dysg fi, Iesu, tra wyf yma,  
Gerdded ar hyd llwybrau'r groes,  
Fel y gallwyf fyth gael gwledda  
Ar haeddiannau dwyfol loes.

*Cwmaman, Aberdâr.*

DAVID DAVIES (*Derwydd*).

## DAMHEGION CYMRU.

## VIII. DAMEG Y GWR A LADDODD EI FILGI.



R oedd gŵr gynt yn byw yn Abergarwen, ag iddo wraig, ac un mab o unig blentyn, yn faban yn ei gawell.<sup>1</sup> Rhyw ddiwrnod, myned a wnaeth y wraig yn ei golychwyd,<sup>2</sup> pan y clywai y gŵr lafar bytheuaid<sup>3</sup> yn ymladd carw ar ei dir.

“Mi a af yn erbyn<sup>4</sup> y cwn,” ebe efe, “fal y caffwyf y rhan o'r carw a'm dylu,<sup>5</sup> fel arglwydd y tir.”

Myned y wnaeth, a gadael ei blentyn yn ei gawell yn cysgu, a'i filgi<sup>6</sup> yn gorwedd ar ei bwys.<sup>7</sup> Tra bu y gŵr ym maes,<sup>8</sup> dyfod a wnaeth ceneu blaidd i'r tŷ, ac a fynnai ladd y plentyn a'i ysu.<sup>9</sup>

Yna'r milgi a ymladdodd yn galed â'r blaidd, ac a'i lladdodd gwedi hir ymdrin,<sup>10</sup> a chael ei glwyfo yn friwedig. Ac yn hynny o ymdrech, troi a wnaeth y cawell wyneb i waered.

Pan ddaeth y gŵr yn ol i'r tŷ, y milgi a gyfododd yn waedlyd<sup>11</sup> i roesawu ei feistr, gan siglo ei gynfôn a'i ben arno yn garedig. Ond y gŵr, gan weled gwaed ar y milgi, ac yn llynwyn<sup>12</sup> ar y llawr, a feddyliodd i'r milgi ladd ei unig blentyn; ac yn ei wŷn o lid ac amhwyll,<sup>13</sup> gwân<sup>14</sup> y milgi â'i gleddyf a wnaeth, a'i ladd.

Gwedi hynny, wrth droi'r cawell i fyny, gwelai'r plentyn yn fyw, iach, a di-niwed<sup>15</sup>; ac ar bwys, y blaidd yn farw, a'r milgi yn friwedig gan ddaint y blaidd. Ac edifar y bu gan y gwr hyd ynghlais amhwyll.<sup>16</sup>

Ac o hynny y cafwyd y ddihareb,—“Cyn dial, gwybydd yr achos,” ac “Ystyr ddwywaith cyn taraw unwaith,” ac am a fu o hynny y dywedir,—“Mor edifar, a chan y gŵr a ladd ei filgi,” a “Gwaith byrbwyll, nid gwaith ystyrbwyll, ond fel y gŵr a laddodd ei filgi.”

Y gŵr a oddef i lid ddwyn y blaen ar ei bwyll a wna ddyrgwaith

<sup>1</sup> Cryd, *cradle*. <sup>2</sup> I'r addoliad. <sup>3</sup> Cwn hela, *hounds*. <sup>4</sup> I gyfarfod, *to meet*.

<sup>5</sup> Sydd ddyledus imi, *that is due to me*. <sup>6</sup> Greyhound. <sup>7</sup> Gerllaw, *near*. <sup>8</sup> Allan.

<sup>9</sup> Fwyta, *déavour*. <sup>10</sup> Ymladd, *fighting*. <sup>11</sup> Yn waed drosto, *covered with blood*.

<sup>12</sup> Llyn, *pool*. <sup>13</sup> Iâs o ddigter gwallgof, *fit of rage and distraction*. <sup>14</sup> Trywanu, *thrust through*. <sup>15</sup> Di-anaf, *unhurt*. <sup>16</sup> Hyd at fin gwallgofrwydd, *to the verge of distraction*.

nis gellir byth ei ddadwneuthur, ac a bery edifeirwch tra fo byw. Da yw ffrwyno llid; rhag dialu yn anghyfiawn, fel y gwnaeth y gŵr a laddodd ei filgi.

'Rwy'n sicr fod llawer o honoch yn cofio gweled yr hanesyn yna ar gân, ac mewn ffurf ychydig yn wahanol, lle y dywedir mai Llywelyn Fawr (1194—1240) tywysog Cymru, a thaid ein hanwylaf "Llywelyn y Llyw Olaf," oedd yr heliwr, neu berchennog y milgi; mai Gelert oedd enw y milgi; ac mai bedd y Gelert hwn welir hyd heddyw, dan y meini di-addurn ar y ddôl, ger Beddgelert. Wel, y mae y bardd Seisnig wedi adrodd yr hanesyn yn rhagorol,—

"The spearman heard the bugle sound, &c."

Ac y mae beirdd ac haneswyr amryw wledydd wedi gwneyd yr un fath,—y mae rhyw ysfa ym mhawb, ym mhob cenedl, am berchenogi y da a'r gwych. Ond y mae yr hen lolo, chwi welwch, yn tadogi adroddiad y digwyddiad cyffrous a tharawiadol yna i Catwg Ddoeth, hen sant oedd yn byw ym Mro Morganwg yn niwedd y bumed ganrit; ac felly rhyw chwe chan mlynedd cyn rhoddi Gelert, druan, yn ei fedd.

Beth bynnag am hynny, y mae pawb o honom yn parod a siriol gydnabod nad yw yr hanesyn yna, a'r gân Seisnig, yn ddim amgen na gwarogaeth deilwng i gyfeillgarwch, dewredd, a ffyddlondeb yr anifail gwasanaethgar a rhagorol hwnnw,—y ci. Ac os na chawn ni, gyda Llywelyn Fawr, roddi "cerfiedig feini mynor" ar fedd y ci, gadewch inni gael rhoddi llaw o anwes ar ei ben yn fynych, a'i damaid bwyd iddo yn ei bryd. Meddai rhyw hen air Cymraeg,— "O cheri fi, cara ty nghi;" ac y mae swmp o synwyr yn yr hen air hefyd.

### GWEDDI Y LLUDDDIG.

O ARGLWYDD mawr, eiddilyn wyf,  
Yn teithio anial dir;  
Dy rasol nerth, O dyro di,  
I'm cynnal dan bob cur.

Lluddedig yw fy eiddil draed  
Wrth ddringo rhiwiau serth;  
Yn wastad dyro, Arglwydd da,  
I mi dy rasol nerth.

*Welsh Church, Dublin.*

Blinedig wyf mewn dyrus le,  
A'm calon yn llesghau;  
O Iesu tiron, rho dy ras,  
Rhag i mi byth lwfrhau.

Mi deithiais lawer arw ffordd  
Hyd yma gyda Thi;  
Ac os daw rhyw flinderau mwy,  
Mi gofaf Galfari.

JOHN LEWIS.



Darlun gan]

HIRELL.

[Eddie Madge, Abergafenni.

**HIRELL.**

Un hynaws iawn ei hanian,—oedd	Dêr rosyn o nef arosiad,—a rhodd Ner,
Hardd, eres a phurlan; [Hirell,	Oedd i ni o'i gariad;
A swm ei glwys enw glân,	Bryslodd, 'nol byrr 'rosiad,
Engyl a garant yngan.	I ardd lwys yr euraidd wlad.

**U**NIG ferch Mr. a Mrs. J. T. Davies, Beufort Hill, Mynwy, ydoedd Hirell Hannah Davies. Treuliasom lawer i awr ddifyr yn ei chwmmi yn sylwi ar ei symudiadau ffêl a'i dywediadau pert. Un o anwyliaid y ddaear ydoedd Hirell pan oedd yma; swynai bawb pan yn adrodd ei darnau tlws yn y Gobeithlu yn

Beaufort Hill. Ond y mae yn awr yn un o anwyliaid y nefoedd, a'i swynion yn synnu angylion. Bu farw yn bur ddisymwth, Tachwedd 11eg, yn chwe mlwydd oed, gan adael tad a mam mewn hiraeth a galar dwys ar ei hol.

*Caerdydd.*

WILLIAM DAVIES

—▶▶▶—  
**BORE OES.**

**O** MOR lân, mor wynfydedig,  
Ydyw bore oes i ni;  
Pan heb brofi o wenwynig  
Dwyll y byd, a'i ffugiol fri;  
Cyn in' deimlo ei ddylanwad  
Temtasiynol ar bob llaw;  
Byd, sy'n gofyn nerth cymeriad,  
I'w wrthsefyll yn ddi-fraw.

"Bore Oes!" Mor fyr yw'r cyfnod,  
Megis blodyn teg ei lun;  
Prydferth ydyw pan yn gosod  
Bywyd ieuanc ar ddi-hun;  
'R hyn fydd plentyn yn y bore,  
Ydyw hefyd y prydawn,  
Ac a fydd yn niwedd dyddiau,  
Pan roir deddfryd arno'n llawn.

*Pennmachno.*

Ym moreuddydd oes mae casglu  
O fwngloddlau dysg a dawn;  
Pan mae'r meddwl yn dadblygu,  
Ac yn cael hyfforddiant llawn;  
Bore yw rhaid gwasgu iddo  
Bob gwybodaeth fydd o werth,  
Rydd i'r plentyn nerth i ddringo  
Bryn anrhydedd, er mor serth.

Dysg in' fyw yng ngwanwyn bywyd,  
Arglwydd Iesu, wrth dy groes;  
Wrth dy groes mae'r noddfa hyfryd,  
I gysegro bore oes;  
Hyn a'n gwna, Waredwr hawddgar,  
Yn ddisgyblion wedi hyn;  
Ac yn "halen" ar y ddaear,—  
Yn "oleuni" teg ar fryn.

LIZZIE KATE EVANS.

—▶▶▶—  
**MAE'R DDAU YN Y NEF.**

(ADRODDIAD I BLANT).

**R**OEDD brawd a chwaer bob dydd  
o'r bron,  
Yn cydrodianna, law yn llaw,  
Hyd ddôl a gwaen, a min y don,  
Heb feddwl fawr am boen a braw;  
O mor ofalus ydoedd hi,  
Ple rhoi ei brawd bach ddall ei droed;  
Ni welwyd ar ein daear ni,  
Anwylach brawd a chwaer erioed.

Un diwrnod braf o hafddydd gwyn,  
Mae'r ddau yn mynd fel gynt am dro,  
Dros ffrydlif fach wrth droed y bryn,  
Gan gyd-ymgomio hyd y fro,  
Am fiadau pêr, a llenyrc'h llawn,  
Mae hi yn rhoi disgrifiad byw;  
Ochelgar chwaer garedig iawn,  
Ei nef warcheidiol angel yw.

*Ebenezer.*

Yn sydyn iawn, pruddhâi y nen  
Gan dduon gymyl storm gerllaw,  
Ar d'rwiad, ffachia'r felltan wen  
Wrth ddilyn rhuol daran braw;  
Mor galonrwygol ydoedd llef  
Y brawd a'r chwaer faint eu hofn,  
Y ddau, wrth groesi tua thref,  
A gipiwyd gan y genllif ddofn.

Ar flaen y llif fe'i cariwyd hi  
Yn gyntaf tua'r gwynfyd pur;  
A'r bachgen dall o'r dyfrllyd li  
A gariwyd adref yn ei gur;  
Bu farw, ac wrth ysgwyd llaw  
Sibryda!,—"P'le mae llaw fy  
chwaer?"

A chyda'r angel oedd gerllaw,  
Aeth ar ei hol i'r nefol gaer.

DRINIOLYDD.

---


Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

ARGRAFFIYD A ORYHOEDDYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWRSAM.



# AT Y PLANT.



YD y gwelais, nid yw moesgarwch yn arwydd sicr fod cenedl yn wir waraidd. Wrth gofio am y cenedloedd Affricanaidd y bu yn eu mysg, dywed Mr. G. F. Scott Elliot,—“Politeness is always most marked in lawless and dangerous countries.”

BOB. Gellwch farnu drosoch eich hun a ydyw naturiaethwyr yn iawn pan ddywedant fod creaduriaid byw yn cyfaddasu eu hunain i'r lliwiau sydd o'u hamgylch. Dywedir fod lliwiau'r teigr mor debyg i liwiau'r *jungle*, fel y gall ddod i ymyl ei ysglyfaeth heb ei gantod. Eis i'r ardd ryw ddiwrnod, gan feddwl torri cangen o goeden ros, i'w phlannu. Yr oedd plentyn bychan gyda mi, ac ebai ef,—“Dyma gangen fyw.” Ac yn sicr ddigon, yr oedd y gangen yn ysgwyd, er nad oedd yno chwa o wynt. Pryf oedd y gangen fyw, tua hyd bys, ac yr oedd yn rhaid craffu yn y dull manylaf i weled nad cangen o'r pren oedd. Yr oedd o'r un lliw gwyrdd goleu, yr oedd wedi gosod ei hun yn union fel cangen, yr oedd yspotiau arno yr un fath yn union a rhai'r pren, yr oedd ei ben yn goch fel y blagur,—oni bai i chwi ei

gyffwrdd, ni welech mai pryf oedd. Ond byw ar y blagur yr oedd ef, ac nid blaguro.

J. R. Yn yr *Ymofynydd* am fis Medi, gofynnir eich cwestiwn,—Pam mae'r Undodwyr mor gryfion mewn un llecyn yng Nghymru, yng ngodreu Ceredigion, ac yn unlle arall? Yr unig esboniad gynhygtr yw agosrwydd Coleg Presbyteriaidd Caerfyrddin. Ond dywedir nad oes un myfyriwr Undodaidd yn y coleg hwnnw yn awr.


LL. JONES. Diolch yn fawr am eich disgrifiad cryno a dyddorol o'r cwm tlws yn sir Frycheiniog. Y mae ysgrifau fel hyn yn dderbyniol iawn. Nid ydych yn dweyd a fagodd y cwm enwogion neu gymwynaswyr i'w cenedl. Fath addysg ga'r plant, ac ym mhle?

GWILYM. Y mae dadleuon tarawiadol yn dderbyniol iawn, at wasanaeth cyfarfodydd llenyddol a Gobeithluoedd.

AB GALILEO. Y mae gan Sigma erthygl ar Orion yn y rhifyn nesaf. Da gennyf eich hysbysu y parheir yr erthyglau hyn y flwyddyn nesaf.

J. D. DAVIES. Mordaith lwyddiannus i chwi. Bydd hanes y sefydliad yn Canada, yn enwedig hanes y plant, yn dderbyniol iawn.

D. LL. D. Y mae'n hawdd gennyf gredu fod y tonau'n dderbyniol; ac y mae'n bwysig dysgu'r plant i ganu mewn pob cartref trwy'r wlad. Awgrymchwch fod dwy dôn i ymddangos weithiau yn yr un rhifyn. Beth ddywed darllenwyr eraill?



*C. Forcett.*

**YSGOL YN YR ANDES.**  
Lle ceir Cymro, ceir Ysgol a gweddi a chân.



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XIII.

TACHWEDD, 1904

RHIF 155.

---

## BRYCHAU'R HAUL.

**Y**R oedd dyn o wlad yr Isellmyn a'i enw Lipperhey. Hwn, un diwrnod, a ddarganfyddodd y pellwydr. Wedi'r darganfyddiad hwnnw yn 1569, clywodd Galileo am y ddyfais, a gwnaeth un ei hun. Gwyddoch am ei enw ef. Pa fodd yr trodd ef ei bellwydr ar Iau a Sadwrn, a pha beth a welodd? Un diwrnod, trodd ef ar wyneb yr haul, ac efe ydoedd y cyntaf i ganfod yr ysmotiau, neu frychau (*sun-spots*) ar wyneb y byd mawr hwnnw. Nid ydynt yn weledig i'r llygad noeth, ond os oes gan rai o ddarllenwyr CYMRU'R PLANT bellwydr bychan, gallant weled yr ysmotiau ond iddynt dduo deryn o wydr gloew uwchben canwyll oleuedig, ac yna ei ddal o flaen y pellwydr yr ochr fo agosaf i'r haul. Rhaid gwneyd hynny pan fo'r ysmotiau amlaf ar ei wyneb, neu ni welir mohonynt â phellwydr bychan. Gelwir yr amserau hynny yn "gyfnod eithafrif yr ysmotiau" (*maximum spot period*), a'r prydiau pryd nas gwelir hwy, wrth gwrs, yn "gytnod lleiafrif yr ysmotiau" (*minimum*). Un mlynedd ar ddeg, o'r bron, ydyw cylchrediad yr ysmotiau. Cynhyddant yn eu rhif a'u maint am chwe mlynedd. Ymhen y blynyddau hynny ni welir yr haul odid ddiwrnod heb ysmotiau ar ei wyneb. Yn ystod pum mlynedd drachefn lleihant hyd nes cyrhaeddir cyfnod y lleiafrif drachefn. Bydd ei wyneb heb ysmotynt am fisoedd y prydiau hynny. Er mor ddisglaer ymddengys wyneb yr haul, os gwelir ef trwy bellwydr lled rymus, ymddengys ei wyneb megis cymhlethiad o fân ronynau.



"CYMHLETHIAD DAIL YR  
MELYGEN."

Adnabyddir hwynt trwy amryw dermau, megis "plethiad dail yr helygen" (*willow leaf texture*), y "gronynau reis" (*rice grains*), a'r "gronynau" (*granules*). Rhennir yr ysmotiau i ddwy ran,— y cnewyllyn du (*umbra*) wedi ei amgylchynu gan y parthau goleuach (*penumbra*). Anfynych y gwelir ei wyneb heb ysmotiau, ac mae rhai ohonynt o faint aruthrol. Dywed Syr W. Herschell iddo ganfod un yn agos yr un hyd a lled, a mesura, yn ol ei dyb ef, 30,000 o filltiroedd ar draws.

Bu yr ysmotiau hyn yn achlysur o wahanol farnau, ac yn achos dadleuon rhwng seryddwyr, ac er cymaint y gwahanol farnau sydd wedi bod, ac yn bod, mewn perthynas i'w hymddanghos-

iad, anhawdd penderfynu pa farn yw y gywiraf, er cywreiniad ydynt. Tybia rhai mai ogofeydd yng nghorff yr haul ydynt, a'u hymylon yn cysgodi eu ceudod oddiwrth y goleuni yw yr ysmotiau. Ereill a dybiasant mai mwg yn tarddu o losg-fynyddau yr haul ydynt. Nid oes y fath beth a llosg-fynyddau yn y byd mawr pell yna. Yn ol darganfyddiadau fferyllol diweddar o berthynas i awyrgylch yr haul, gorfodir ni i gredu mai pantleoedd dyfnion yn y defnydd sydd yn cyfansoddi yr haul ydynt, wedi eu ffurfio gan y nwyau (*vapours*) tanllyd sydd yn fynych yn ymgorodi ac yn ymsaethu am filoedd o filltiroedd uwch ei wyneb, ac yna trwy grynhoad (*condensation*) yn disgyn yn eu hol gyda'r fath gyflymdra nes creu pantiau ac ogofeydd yn ei wyneb eiriasboeth.

Er mor gyfnewidiol ac amrywiol yw yr ysmotiau crybwylledig o ran eu llun a'u nifer, ychydig o wahan-iaeth sydd i'w ganfod yn eu lliw un amser, a'r rhannau goleuaf ohonynt yw eu hymylon. Teithiant dros wyneb yr haul o'r gorllewin i'r dwyrain, megis y try y ddaear. Ni chyrrhaeddant bob amser dros ei wyneb, eithr ymdoddant ar ei ganol fel lloedd berwedig; ac yna diflanant, a lle bynnag y cymer hynny le,



YSMOTYN HAUL.

Yr *umbra* yn y canol, a'r *penumbra* yn ei amgylchynu.

bydd y rhan honno o wyneb yr haul yn ddisgleiriach am rai dyddiau na'r rhannau ereill o'r wyneb.

Bydd yr ysmotiau yn ymddangos mewn dwy ffordd. Byddant weithiau yn codi yn orllewinol, yn teithio yn raddol dros ei wyneb tua'r dwyrain; bryd arall ymddengys brycheuyn bychan ar ei wyneb, yr hwn a gynydda weithiau mewn ychydig ddyddiau i'r fath raddau o faintoli ag y bydd ei dryfesur yn agos i 50,000 o filliroedd.\* Cymer yr ysmotiau dro arall rai dyddiau i gynyddu i'w cyflawn faint, a byddant tua'r un hyd drachefn yn diflannu. Y mae y rhai a gynyddant yn ebrwydd yn diflannu yn ebrwydd; ac y mae ereill nad ydynt yn diflannu, eithr yn troi gyda'r haul ar eu hechel mewn ychydig dros 25 diwrnod.

Barn seryddwyr heddyw yw mai corff tywyll yw yr haul, wedi ei amgylchynu â gwyrtylch (*atmosphere*) ddisglaer, oddiwrth yr hon y deillia gwres a goleuni, nid yn unig i'r ddaear, ond hefyd i'r holl blanedau a chyrrf ereill perthynol i'n cysawd heulog.

SIGMA.

### SWN ADFEILIAD.

I'R goedwig yn welw daeth gwywiant,  
Ffy deilen 'r ol deilen o'i brig;  
Yr Hydref a'i luoedd ddiogant  
Ogoniant yr Haf yn eu dig;  
Daeth angau i wersyll y blodau,  
Mae'n tlysiion gyfeillion yn yw;  
Nid yma mae gwridog rosynau  
Ieuenctyd tragwyddol yn byw.

Daw'n Hydref ar lesni'r ffug fawredd,  
Addola cenhedloedd y byd;  
Ond erys gogoniant gwir rinwedd,  
Yn fythwyrdd ac ieuanc o hyd;  
Mynd heibio mae rhwysgedd daearol,  
Fel crinddail yng ngherbyd y don;  
Mor brydferth y gwisga y nefol,  
Ieuenctid tragwyddol yn llon.

Mae henaint a'i farrug ar wisgoedd  
Y dolydd fantellwyd â swyn;  
Penwynni gorona'r mynyddoedd,—  
Cartrefte'r grug porffor a'r wyn;  
Heneiddia goreuon y ddaear,  
Cân hafddydd dry'n aeaf a'i lef;  
Cyd-deithiwn i wanwyn di-alar,  
Ieuenctyd tragwyddol y nef.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

### PENDERFYNIAID.

DWEYD y gwir a wnaif bob amser,  
Ie, pe y costial lawer,  
Pe goryyddai imi farw,  
Dweyd y gwir a wnaif yn groew.

Corris.

Dweyd y gwir ymhob amgylchiad  
Mae plant bach yr Iesu'n wastad,  
Difrif iawn fydd yn y diwedd  
Ar y plant sy'n dweyd anwiredd.

DAVID WYNNE.

\* Buasai ysmoty'n haul yn llyncu miloedd o fydoedd bychain cyffelyb i'n daear ni.

## Awn, awn ymlaen at Iesu.



Geiriau gan  
LLEWELYN PHILLIPS, Rhosllanerchrugog.  
DOH E2.

Cerddoriaeth gan  
THOMAS POWELL, 2, School Road,  
Rhosllanerchrugog.

:m	m :r :m   f :m :r	m :- :-   m :- :m	l :- :s   f :- :f
:d	d :t,   d  r :d :t,	d :- :-   d :- :de	de :- :m   r :- :r
Awn	awn ym-laen at	Ies - u, Dyrch-	af - wn oll ein
:s	s :- :s   s :- :s	s :- :-   s :- :s	m :l :l   l :- :l
:d	s, :- :s,   s, :- :s,	d :- :-   d :- :ta,	l, :- :de   r :- :r

m :- :-   - :- :s	s :d' :t   l :- :l	s :- :f   m :- :m
de :- :-   - :- :r	m :d :d   d :- :d	r :- :t,   d :- :d
cri,	Gof- yn - wn Idd - o'n	dysg - u Y
l :- :-   - :- :t	d' :s :s   f :l :d'	t :- :s   s :- :s
l, :- :-   l :- :sf	m :- :m   f :- :f	s :- :s,   d :- :d

f :r :m   f :r :m	f :- :-   l :- :sf	<i>rall.</i> m :s :d'   t :- :t
r :t,   d  r :t,   d	r :- :-   f :- :m,r	d :r :m   r :- :d
ffordd i'r nef - oedd	fry, Y	ffordd i'r nef - oedd
s :- :s   s :- :s	t :- :-   - :- :t	s :- :s   fe :- :fe
s, :- :s,   s, :- :s,	s, :- :-   - :- :s,	d :t, :l,   r :- :r

s :- :-   - :- :s	<i>tempo.</i> s :- :s   s :- :s	<i>cres.</i> s :- :-   s :- :se
t, :- :-   - :- :t,	d :r :m   r :d :t,	r :- :-   d :- :r
fry, Gof-	yn - wn Idd - o'n	har - wain Ar
s :r :m   f :- :f	m :f :s   f :m :r	f :- :-   m :- :m
s, :- :-   - :- :s,	s, :- :s,   s, :- :s,	s, :l, :t,   d :- :t,

l :- :l   l :- :l		l :- :-   - :- :t		d' :- :s   s :- :f :m	
r :m :f   m :r :de		m :- :-   r :- :r		d :- :m   r :- :d	
hyd ein dyr - us		daith, A'n		nerth - u pan ddaw'r	
f :s :l   s :- :f :m		s :- :-   f :- :s		s :- :s   s :- :ta	
l, :- :l,   l, :- :l,		l, :t, :de   r :- :f		m :- :d   t, :- :d	

l :- :r   m :- :s		s :- :s   s :- :s		s :- :-   - :- :f	
d :- :t,   d :- :d		r :m :f   d :r :m		m :- :-   r :- :r	
gel - yn I		geis - io d'rys - u'r		gwaith, A'n	
l :- :s   s :- :s		s :- :s   s :t :d'		d' :- :-   t :- :s	
f, :- :s,   d :- :m		f :m :r   m :r :d		s, :- :-   - :- :t,	

*accel.*

m :- :m   f :- :s		l :- :-   d' :- :d'		d' :s :m   m :- :r	
d :- :d   d :- :d		d :- :-   ma :- :ma		m :- :d   t, :l, :t,	
nerth - u pan ddaw'r		gel - yn I		geis - io d'rys - u'r	
s :- :s   l :- :ta		l :- :-   l :- :l		s :- :s   f :- :f	
d :- :ta,   l, :d :m		f :- :-   fe :- :fe		s :- :s,   s, :- :s,	


*rit.*

*I'r pennill diweddaf yn unig.*

d :- :- :-	-	- :- :-	- :- :-	- :- :-	- :- :-
d :- :- :-	s,	l, :- :ta,	l, :- :la,	s, :- :-	- :- :-
gwaith.	O	dan	dy ad - en	gref.	- :- :-
m :- :- :-	m	f :- :s	f :- :{f}	m :- :-	- :- :-
d } :- :- :-	-	- :- :-	- :- :-	- :- :-	- :- :-
d }	-	- :- :-	- :- :-	- :- :-	- :- :-

O'n blaen mae gwyntoedd cryfion  
 O rwystrau ar bob ty,  
 A ninnau sydd yn weinion,  
 O Iesu, arwain ni.  
 Fe awn ymlaen dan ganu  
 Er gwaetha'r rhwystrau sy',  
 Pob gelyn gaiff ei faeddu  
 Os byddi gyda ni.  
 Fe wyddom fod yr Iesu,  
 Yn hoffi plant fel ni,  
 Fe wyddom fod Ti'n caru  
 Y rhai sy'n d'garu Di.

O Iesu dysg ni garu  
 Tra fyddwn yn y byd,  
 Fel gallwn eto ganu  
 'Rol mynd i'n cartref clyd.  
 O Iesu gwna ni'n filwyr  
 I ymladd dros y gwir,  
 A gwna ni yn goncwerwyr  
 Ar hyd yr anial dir.  
 A phan a brwydro heibio,  
 Boed ini ddod i'r nef,  
 Lle cawn i gyd orffwyso  
 O dan dy aden gref.



HEN FONCYFF DERWEN.



## Y DDERWEN AR Y DDOL.

**Y** PLENTYN bach, wrth chwareu,  
 A golodd fesen fach  
 O'i law, i laswellt ir y ddol,  
 A daeth y fesen iach  
 I fyny'n dderwen enwog,  
 Gysgodfawr ar y tir;  
 Mae'r dderwen eto ar y ddôl  
 Yn llawn o fywyd ir.

**Y** plentyn hefyd dyfodd  
 Nes dod yn gyflawn ddyd,  
 Ac ymfalchiai yn ei nerth,—  
 Yr oedd yn gadarn un;  
 Ond henaint ddaeth, a'i lesgedd,  
 A marw wnaeth yn wir,  
 Mae'r dderwen eto ar y ddôl  
 Yn llawn o fywyd ir.

**Palasdy** gwych gyfodwyd  
 Gerllaw y dderwen hon,  
 Fel drych o allu'r gelfydd law  
 Fu yn addurno'i fron;  
 Ond henaint ddaeth i'w chwalu  
 Yn ddarnau ar y tir;  
 Mae'r dderwen eto ar y ddôl  
 Yn llawn o fywyd ir.

*Bala.*

**Y** gaeaf gyda'i stormydd  
 A gurodd ar y coed,  
 Gan rymus dafiu llawer pren  
 I'r ddaear dan ei droed,  
 A gyrru'n anrhugarog  
 Aml ddyd i bant yn wir;  
 Mae'r dderwen eto ar y ddôl,  
 Yn llawn o fywyd ir.

**Yn** gwyro ar i waered  
 Mae gweinion bethau'r byd,  
 A phawb a'i wyneb ar ei fedd  
 Ar hyd ei oes i gyd;  
 Yn gyfan â cenhedlaeth  
 I gôl yr anghof dir;  
 A'r dderwen eto ar y ddôl  
 Yn llawn o fywyd ir.

**I** wlad o anfarwoldeb,  
 Mi goda 'ngolwg gwan,  
 A gwelaf yno fywyd pur,  
 Yn para byth i'm rhan,—  
 Mae'n wlad heb ynddi wywdra  
 Na marw yn ei thir;  
 Y dderwen dderfydd ar y ddôl,  
 A'r dyn fydd byw yn wir.

G. O. PARRY.

## YR AFONIG.

**D**AWNSIO yn yr heulwen,  
 Llusgo trwy'r cyhûdd,  
 Rhedeg lawr o'r brynïau,  
 Chwerthin ar ei grudd;  
 Gan gusanu'r blodau,  
 Plygu'r frwynen werdd,  
 Canu mae'r afonig,—  
 Canu melus gerdd.

Dawnsio, llusgo, rhedeg,  
 Chwerthin ar y daith,  
 Sisial rhwng y blodau,  
 Canu yw ei gwaith;  
 Ond pan ddaw'r tywyllwch  
 O dan drefniad Ior,  
 Darfod wna'r afonig  
 Yn ei gwely-for.

Felly ym mhob llafur,  
 Gweithiwn ninnau blant;  
 Gyda chalon lawen,  
 Canwn fel y nant;  
 Pan yn awr yn ienanc  
 Gwnawn ein goreu i gyd,  
 Yna pan ddaw henaint,  
 Cenir "Gwyn eich byd."

*Bryn Aman.*

CEREDIG AMAN.

## YSGOL YN YR ANDES.

**Y**N wyneb-ddarluniau i'r rhifyn diweddaf, ac i hwn, cewch ddarluniau o blant Cymry'r Andes. Ysgol newydd Esquel, Bro Hydref, yw hon. Gwelwch fel y daw y plant i'r ysgol,—ar eu ceffylau. Teithiant weithiau, rhwng mynd a dod, o ddeg i bymtheng milltir bob dydd. Rhwir y rhai lleiaf wrth ysgol y rhai hynaf, weithiau dri ar yr un ceffyl.

Gwelir yr athraw yn sefyll ar ei draed yng nghanol y plant, a'r arolygydd wrth gongl yr adeilad. Brodor o dref henafol Caernarfon yw'r athraw, Robert O. Jones. Y mae'n gerddor gwych ac yn athraw medrus.

## URDD Y DELYN.

## Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrhaedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid dreswm, iaith ddihalog.

## AELODAU NEWYDDION.

1821—1830.

Robert, Elizabeth, Goronwy R., E. Rheinallt, Gwladys Ann, Anarawd Elfed, Anwyl Davies, Lili Blodwen, Rhiwallon Llywelyn, a Plenydd M. Gittins, Llythyrdy, Dolanog, sir Drefaldwyn.

## HOSANNA'R PLANT.

**Y** MAE llyfr bychan dyddorol wedi ei gyhoeddi i blant yn ddiweddar, o'r enw "Hosanna'r Plant." Cantawd syml ydyw, am ieuenctyd yr Iesu; y geiriau gan Hawen, a'r gerddoriaeth gan y Parch. Peter H. Lewis, Pencader. Grot yw pris y llyfr bach; y mae i'w gael oddiwrth Mr. Lewis, Gwyddgrug Vale, Pencader.

## A ENNILL CRIST INDIA?

## I. UN OCHR I'R CWESTIWN.



UA hanner blwyddyn yn ol, gofynnwyd ac atebwyd y cwestiwn hwn yn y *Kayastha Samachar*, cylchgrawn grymus gyhoeddir yn Allahabad, ac i'r hwn yr ysgritenna meddylwyr Hindwaidd, Mahometanaidd, a Christionogol.

Ni enilla Crist India byth, ebe'r meddylwyr Hindwaidd galluocaf, a rhoddant dri rheswm.

1. Mae Hindwaeth wedi sefyll cynhyrfaidau canrifoedd, ac y mae Brahma mor gadarn ar ei orsedd ag erioed. Mae bywyd India a Hindwaeth yr un peth. Mae'r grefydd hon fel derwen hen, a'i changhenau'n tafu dros India i gyd. Ceisiodd aml grefydd dyfu dan ei chysgod, ond maent oll mewn amser fel pe'n syrthio'n ol i'r pren mawr. Daeth Budhiaeth; ond, er sel cenhadwyr a brenhinoedd a mynachod, ni chariodd y dydd. Daeth Jainiaeth i ennill de a gorllewin â'i newydd-deb, ond ni orfu yn y diwedd. Daeth Mahometaniaeth fel cennlif tanlyd; ond, er gorchfygu'r wlad mewn ystyr weidyddol, er swyn ei sylmder Puritanaidd a'i hundodaeth aruchel, ni orchfygodd hi yr hen grefydd. Bu ymraniadau yn y grefydd Hindwaidd ei hun, ond iacheid pob rhwygiad gan amser. Mae'r grefydd gawraidd hen hon yn dal ei gafael ar India, ac yn edrych ar grefyddau ereill yn byw eu bywyd gwan ac yn marw.

2. Mae Cristionogaeth wedi cael canrifoedd i ennill India, ac wedi methu. Daeth i India mor fore ag i Brydain, yn yr ail ganrif, a deil yn wyw ar draeth Malabar byth. Mae'r Jesuitiaid, cenhadon mwyaf llwyddiannus hanes, yma er yr unfed ganrif ar bymtheg, ond gwyw yw eu cynhaeaf hwythau. Gyda'r adfywiad ar grefydd yn y ddeunawfed ganrif, daeth cenhadon Protestanaidd, ond blodeuyn bach gwyw yw eu crefydd yn ceisio tyfu dan gysgod pren tewfrig Hindwaeth. Ceir hanesion yr efengyl yn llyfrau Hindwaeth, ond a dderbynia India y grefydd estronol hon,—crefydd na wna gytundeb â'r un cydymgeisiwr, crefydd na adddef ddim nad yw yn ei Hysgryth-yrau, crefydd sy'n galw am dynnu'r llygad de a thorri'r fraich?

3. Mae Hindwaeth a bywyd India yr un peth. Llenwir calon miliynau India â chariad a balchder wrth feddwl am hynafiaeth ac ardderchowgrwydd eu crefydd. Ei llenyddiaeth, ei thraddodiadau,

ei themlau, ei gwyliau, ei duwiau,—y maent oll yn anwyl i'r Indiaid. Nid oes yspotyn o India, bron, o'r Himalaya i Ceylon, heb ei gysegru gan ryw adgof crefyddol. Y mae bywyd India wedi ei gymhlethu â'r grefydd fawreddog hon. Ac a ddisodlir hi gan Gristionogaeth, gyda'i hychydig ddychweledigion tlodion, gwasaid, a dirmygedig ? Hauant, ebe'r Hindw, ond ni fedant.

### Y PREN BANANA.



**T**YN Uganda, un o feddiannau newydd Prydain yn nghanol Affrig, lawer o sylw. Erbyn hyn y mae ffordd haiarn, wnawd trwy lafur a chost enfawr, yn mynd trwy gartref y llew a'r anwariad tuag yno.

Prif bren Uganda yw y pren banana. Ychydig o blant Cymru sydd heb brofi banana erbyn hyn. Y mae'n ffrwyth dymunol, yn dyschedu, ac yn bur gynhaliol. Mewn gwlad boeth fel Uganda, gellir dyfalu mor beraidd a hyfryd yw y ffrwyth hwn, wedi cael aeddfedu cyn ei dynnu oddiar y goeden.

Ond nid bwyta y ffrwyth yn oer yn unig wneir. Y mae'r cenhadon Ffrengig yn gwneyd chwe peth o hono, sef bara, jam, cwrw, brandi, gwin, a phwdin. Gwelais bwdin wedi ei wneyd o hono yn y wlad hon.

Y mae'r dail yn ddefnyddiol iawn hefyd. Dail y pren banana yw toau y tai, a'u muriau hefyd. Gwneir y dail yn blatiau, llwyau, potelau, a llawer o bethau cyffelyb. Gwneir peisiau ohonynt hefyd.

Deilen y pren banana yw ymbarelo Uganda. Deil y teithiwr hi uwch ei ben, a bydd yn ddi-ddos ar gawod wlaw.

O rannau ereill o'r pren gwneir pob math o raff, cortyn, ac edafedd. Fu ond y dim i mi anghofio un peth arall. Pan ddygir plentyn i'w tedyddio yn Uganda, ar ddeilen y pren banana y dygir ef. Ar ddeilen y pren hwn y cychwyna ar ei yrfa, ffrwyth y pren hwn yw ei twyd, y pren a'i ddail yw ei dy. Yn sicr, y pren banana yw pren bywyd dyn du Uganda.

## Y TEILIWR BACH DEWR.



R oedd teiliwr bach yn byw mewn tref yn Suabia gynt. Un eiddil oedd,— coesau bach ceimion, breichiau meinion gweiniaid, trwyn hir, llygaid pŵl, a gwefus yn crynnu o hyd. “Snip, snip” meddai ei siswrn ar ben y bwrdd o hyd. Nid oedd neb yn meddwl fawr o hono. Rhyw greadur bach tila yr ystyridd ef gan bawb. “Y dyn bach acw, druan,” y gelwid ef gan ei wraig ei hun.

Ond er lleied oedd y teiliwr, yr oedd ganddo ddychymyg heb derfyn iddo. Yn aml gwelai ei hun yn gawr, yn gadfridog, yn arwr. Breuddwydiai fod y siswrn yn troi'n gleddyf yn ei law, a'r nodwydd yn bicell, a'r gwniadur yn darian, a'r bwrdd yn farch porthiannus. Gwelai ddrws mawr rhyw gastell yn agored o'i flaen, teimlai ei hun yn marchogaeth i mewn wedi cyflawni rhyw wrhydri anhygoel, a'r miloedd yn tyrru i'w weled, ac yn sibrdw wrth eu gilydd,—“Dacw'r arwr yn do.”

Penderfynodd, o'r diwedd, wneyd gwrhydri mewn gwirionedd. A phan ddaeth ei wraig i mewn o chwedleua ryw nawn, dywedodd wrthi,—

“Margaret, yr wyf wedi penderfynu bod yn arwr. Yr wyf am adael y bwrdd hwn, a mynd i achub cam y gwan, ac i ladd llewod a dreigiau, ac i wared tywysogesau swynol.”

“By-beth?” A chrynnodd y teiliwr o flaen trem ei wraig.

“Meddwl yr oeddwn, f'anwlyd, fod yr ystafell yma'n glos braidd, a minne yn rhyw sal. Byddai tipyn o newid awyr yn lles i mi.”

“Dewr wir! Mae arnat ofn dy gysgod. Hm!” A chyda golwg o ddirmyg, aeth i'r ardd.

Bore drannoeth, wedi i'r wraig fynd allan i holi sut yr oedd gwraig y ty nesaf, dihangodd y teiliwr yn llechwraidd o'r ty, a phedwar swllt yn ei boced.

“Mawr fydd ty ngogoniant pan ddof yn ol,” meddai.

## I. YR YMDRECH GYNTAF.

Wedi cerdded dwy awr, daeth i gytarfod hen filwr. “Yr wyf yn mynd i ladd cewri a llewod a seirff,” meddai, “a werthwch eich

cleddyf i mi?" Yr oedd yr hen gleddyf yn rhydlyd, a haciog, a tholciog; a medrodd ei brynnu am bedwar swlt.

Yna aeth yn ei flaen, gan holi pawb a wyddent am rywun mewn enbydrwydd mawr, iddo ef gael ei wared. Chwarddent hwythau am ei ben.

Ond o'r diwedd, daeth i wlad lle yr oedd anghenfil wedi gwneyd ei hun yn ddychryn i bawb. Yr oedd un corn anferth ar ei dalcen, ac nid oedd yr un gŵr tarian feiddiai sefyll o'i flaen. Pan ddaeth y teiliwr i lys y brenin i gynnyg ei hun i ymladd â'r bwystfil, ebe'r brenin,—

"Y mae wedi lladd hynny o wyr cryfion oedd yn fy mrenhiniaeth, peth rhyfedd yw gweled eiddilyn fel tydi yn ei wynebu. Ond dos, os mynni."

Aeth y teiliwr i gwrr y goedwig lle'r oedd y bwystfil. Pan gafodd ei hun yno'n unig, diflannodd ei holl wroldeb i gyd. "Gobeithio nad ydi o ddim yma," ebai wrtho ei hun. Ond, er ei fraw, gwelai'r bwystfil yn dod, gan redeg yn ffyrnig. Safodd y teiliwr a'i gefn ar goeden, a syrthiodd ei gleddyf o'i law yn ei ddychryn. Gwelai gorn y bwystfil yn cyrchu'n syth ato; a phan oedd y corn ar ei drywanu, syrthiodd i lawr mewn llewyg. Aeth corn y bwystfil dros ben y teiliwr i'r goeden, a thrwyddi, ac nis gallai ei dynnu yn ol. Pan ddadebrodd y teiliwr, gwelai ei elyn yn methu ymryddhau. "Os daw'n rhydd, mi lladd fi eto," meddai. Cymerodd yr hen gleddyf, a gwanodd ef i wddt y bwystfil. Yn ei ymdrech olaf, tynnodd hwnnw ei gorn yn rhydd, ond syrthiodd yn farw cyn y medrai ail ymosod.

Aeth y teiliwr ymaith yn dalog ddigon, ac ebai wrth y brenin,—  
 "Anfonwch gant o ddynion i gario corff marw'r bwystfil adre." Ac wedi mynd yno, rhyfeddai'r dynion yn fawr. "Rhaid fod rhyw nerth ofnadwy ym mraich y dyn bach," meddent, "wedi lladd y bwystfil, gwanodd ei gleddyf trwy gyff coeden fawr, dim ond o ran chware. Fe welsom ni'r twll."

## II. YR AIL YMDRECH

Er yr aur a'r clod a ddaeth i ran y teiliwr, yr oedd wedi penderfynu na chwareuai'r arwr mwy. Yr oedd wedi dychrynnu gormod. Ond, unwaith yn arwr, rhaid bod yn arwr o hyd.

"Wr dewr a rhyfedd," ebe'r brenin wrtho un diwrnod, "y mae dau gawr mewn cwrr arall o'm brenhiniaeth. Y maent wedi lladd cant o'm milwyr dewraf, ac wedi anrheithio tywysogaeth gyfan. Tydi'n unig fedr eu gorchfygu. Cymer farch newydd, a dos, wr nerthol, yn dy fawr rym."

Wedi arwain y teiliwr i gwrr y wlad anrheithiedig, ciliodd ei gymdeithion oll yn ol. "Gobeithio fod y ddau gawr wedi mynd i ryw wlad arall," ebe'r teiliwr crynedig wrtho ei hun, "wni ar y ddaear beth a wnaif os gwelaf un ohonynt." Ar hynny, gwelai hwy'n dod. Yr oeddynt yn dalach na'r un ty, ac yr oedd golwg ofnadwy arnynt. Syrthiodd y teiliwr bach yn swp i lawr wrth eu gweled, a'r hen gleddyf haciog yn ei law. Gobeithiai na welent ef, ac yr oedd ei galon yng nghorn ei wddf wrth iddynt ddod.

"Holo!" ebe un, "dyma i ti ddyn bach. Dyma'r lleia weles erioed."

"Ie," ebe'r llall, "un bychan bach ydi o. Ond 'does arna i ddim llawer o eisio bwyd heno, wedi bwyta'r tywysog mawr tew hwnnw ddoe. Gwnaiff y creadur bach teneu hwn y tro heno yn burion. Sut y gwnawn ef?"

"Ei ferwi."

"Na, ei ffrio."

"Ei ferwi, ebe fi."

"Ei ffrio, ebe finnau!"

Ac ar hynny dechreuasant ymladd. Peltient eu gilydd â darnau o greigiau, tynnent goed o'r gwraidd i ymladd â hwy. Dyrnodient eu gilydd nes oedd y mynyddoedd yn adseinio. O'r diwedd, syrthiodd y ddau i lawr yn eu lludded, ac wedi eu gorchuddio â gwaed.

Cododd y teiliwr bach, a phlannodd yr hen gleddyf yng ngwddt pob un ohonynt, ac erbyn y bore yr oeddynt yn hollol farw. Wedi clywed am yr ymladd, daeth holl bobl y wlad yno. "O'r dyn bach dewr," ebe hwy, "welwch chwi ol yr ymladdfa ofnadwy y bu ynddi? Welwch chwi fel y darniodd y cewri greigiau, ac y tynasant goed, cyn iddo eu lladd? Ac y mae wedi lliwio pob man â'u gwaed."

### III. YR YMDRECH OLAF.

Daeth y teiliwr i'r dref yn twy na gorchlygwr. Nid oedd terfyn ar ei glod, a rhyfedd yr aur a roddwyd iddo. Erbyn hyn yr oedd yn ddigon dewr i un peth,—yr oedd wedi penderfynu mynd adre. "Cawn i fy siswrn, a lle diogel ar ben fy mwrdd, eled clod ac aur i'r lle y mynnont," ebe ef.

"Wr rhyfeddol," ebe'r brenin, "cei dy gais ond i ti ladd un gelyn eto. Ar dy ffordd adref y mae baedd gwyllt ofnadwy. Ni fedr neb o'm deiliaid i ei ladd; ond medri di yn hawdd. Ac yr wyt finnau am ddod gyda thi, i'th weled yn lladd y baedd."

"Wel, wel," ebe'r teiliwr, "dyma hi ar ben arnaf o'r diwedd."

Ond wedi dod at gyffiniau'r goedwig, darbwylodd pobl y llys eu brenin i beidio mentro ei fywyd drwy ddilyn y gŵr dewr i wyneb y baedd. Ofn am eu crwyn eu hunain oedd arnynt.

Felly, aeth y teiliwr i'r goedwig ei hun, mewn ofn mawr. Gobeithiai fedru mynd drwy'r goedwig heb weld y baedd, a dianc adre. Ond, er dychryn mawr iddo, clywai rwnician digofus y baedd gwyllt, a gwelai ef yn dod. Trodd ar ei sawdl, a rhedodd am ei fywyd, a'r baedd ar ei ol. Yn y goedwig honno yr oedd capel mynach, gyda drws cul ac un fenestr uchel. Ni chafodd y teiliwr ond cael y drws a neidio i ben y ffenestr nad oedd y baedd ar ei warthaf. Oddiar y ffenestr gwelai y baedd yn chwilio am dano, ac wrth chwilio cauodd y drws. Aeth y teiliwr allan trwy'r ffenestr, chwilliodd am ei gleddyf, ac aeth yn ol at y brenin.

"Nid wyf wedi lladd y baedd gwyllt," meddai, "ond yr wyf wedi ei gau yng nghapel y mynach, er mwyn i'ch mawrhydi weled eich gwyr dewrion yn ei ladd." A deallasant oddiwrth ei swm erchyll fod y baedd yn y capel.

Daeth y teiliwr adre ar farch ardderchog, gan dywys dau farch arall llwythog o olud. Yr oedd ef ei hun mewn dillad costfawr hetyd. Dywedai pobl bethau gwahanol am dano. "Y mae'n rhaid ei fod yn gyfoethog iawn," ebe pawb. "Mae mwy ynddo nag a feddyliech," ebe ei gyfeillion. "Mae'n amlwg mai nid efe wnaeth ei ddillad," ebe ei elynion. "Yn wir," ebe ei wraig, "y mae rhywbeth ym mhen y dyn bach acw, druan, wedi'r cwbl."

Am y dyn bach ei hun, y mae wedi penderfynu na bydd yn arwr byth mwy.

### AM GYMRU 'RWY'N HIRAETHU.


**A**M anwyl hen Walia, fy nghalon hiraetha,  
A thristwch sy'n llanw fy nwyfron;  
Mae meddwl am Gymru yn wir yn fy llethu,  
Ac o na bawn i yno yr awrhon.

Mae hen wlad y Brython yn llawn o brydferthion,  
Ni welaf le tebyg i Gymru;  
Ei chedyrn fynyddoedd, a'i heirddion ddyffrymoedd,  
Sy'n gwneuthur i'm calon hiraethu.

Mae myrdd o adgofion yn llenwi fy nghalon,  
Nes ydwyf yn isel fy ysbryd;  
A'm gruddiau sy'n wlybion o ddaagrau tryloewon,  
Wrth feddwl am lennyrch fy mebyd.

O Gymru anwylgu! Yr wyf yn dy garu,  
Ehedwn i'th fynwes pe gallwn;  
Cawn yno ddyddanwch a gwared o'm tristwch,  
Ac iechyd i'm calon a gaffwn.





Y PETREL CAWRAIDD.

**RHYFEDDODAU'R MOR.**

## VIII. ADAR Y CEFNFOR.

**Y**MYSG rhyfeddodau mwyaf y môr, y mae y miliynau o adar sydd yn byw ar ei ehangderau mawr ac yn nythu ar ei lennydd ystormus. Y mae eu traed wedi eu cyfaddasu at nofio, eu pig at ddal pysgod, eu hadenydd cryfion at aros ar eu haden am fordeithiau hirion. Gwyr llongwyr yn dda am yr albatross, y petrel,

ac aderyn y dymhestl. Nofiant yn yr uchelderau tawel uwch ben y llong, fel pe na bae eu hadenydd gwynion mawr byth yn blino.

Aderyn llwydgoch yw'r petrel cawraidd. Ei gartref yw dibynnau glan y Môr Tawel, yn y cylch tymherus, ac yng nghylch rhewllyd pegwn y de. Llwyd-ddu yw'r llygad, llwydwyn yw ei big, a blaen coch. Pan yn ieuanc, y mae'n llwydwyn drosto, a'i llygad yn oleu. Y mae'n aderyn gwancus iawn Dywed rhai ei fod yn lladd adar ereill, ac yn bwyta eu calon yn unig. Pan fydd llongau yn chwilio am forloi, dilynir hwy gan y petrel; a phan fydd y morwyr wedi blingo'r morlo, disgyn y petrel o'r awyr i wleda ar y gelain.

Y mae gan y petrel bach ddull rhyfedd o amddiffyn ei hun. Pan ewch at y nyth, teifi olew drewllyd o'i geg i bellder o saith troedfedd neu wyth; a bydd yn edifar iawn gennych i chwi fynd mor agos.

---

#### ALLORAU RHYFEDD.

**P**AN oedd y fyddin Brydeinig yn Lhasa, medrodd gohebydd y *Times* fynd i le na bu yr un Ewropead ynddo erioed, sef Cysegr Sancteiddiolaf Buddha. Cafodd y lle yn llawn o hen allorau, ac eilun uwch ben pob allor, a phob un yn seimlyd gan yr ymenyn losgir fel aberth beunyddiol. Lle trymaidd tywyll ydyw y Cysegr, ac y mae'r lampau aur crog yn gwneyd i'r gwyll ymddangos yn dduach.

Yng nghanol y Cysegr, gwel y llygad beth rhyfedd iawn. Yn eistedd yno y mae delw aur gawraidd Gautama, sylfaenydd Buddhiaeth. Haerir mai yn wyrthiol y gwnawd y ddelw. Y mae coron aur enfawr ar ei phen, a chadwyni perl am ei gwddf. Y mae'n hen iawn, gwyddis ei bod yno o leiaf er y seithfed ganrif.

Y mae allorau i dduwiau hŷn yno hefyd. Y mae'n dduwies ddychrynlyd wedi ei choroni ag esgyrn pennau dynol, medd dri llygad a dannedd gloewon. Derbynnir allorau newyddion hefyd; dywedir fod allor yno i Victoria, ac i'r Czar. Ond pan ddaw Crist yno, rhaid i'r lleill ymadael i gyd.

---

#### CLORIAN RHYFEDDOL.

UN o'r cloriannau perffeithaf yn y byd yw yr un sydd yn y Bank of England. Y mae tua saith troedfedd o uchdw, ac yn pwysu tua dwy dunnell. Y mae teimladrwydd ei fantol mor gywir a thyner fel y gall bwyso gronyn o lwch; a chydar un cywirdeb gall bwyso i fyny hyd 400 pwys o aur. Pe dodid *postage stamp* arno, symudai y mynegfys (*index*) chwe' modfedd. Pe dodid arno bwysau tuhwnt i'w allu, canai gloch drydan, gan wrthod y gorchwyl.



## INGER.

## IV. CYDYMDEIMLAD PLENTYN BACH.

RA mor falch ag erioedd, teimlai Inger ei bod yn fudr iawn wedi dod i lawr trwy'r gors. Yr oedd nadroedd yn ei gwallt, yr oedd llyffant du'n crawcian o bob plyg yn ei gwisg, yr oedd gwybed diaden yn ymlusgo dros ei gwyneb. Ond ni fedrai symud llaw na throed, yr oedd fel delw. "Hy!" meddai yn ysgornllyd, "y mae pawb sydd yma mor fudr a minnau."

Toc, dechreuodd deimlo eisiau bwyd.

Wrth gofio, yr oedd torth dan ei throed. Ceisiodd estyn ei llaw ati, ond ni fedrai; yr oedd ei braich fel carreg wrth ei hochr. Yr oedd yr eisieu bwyd wedi troi'n newyn. Dioddefai Inger artheithiau newyn, a gwelai'r dorth dan ei throed. Teimlai ei bod mewn gormod o boen i farw. Bob yn dipyn teimlai dân y newyn yn difa y tu mewn iddi o hyd. O'r diwedd, teimlodd ei bod fel pibell wag, ac i'r bibell honno deuai pob gair ddywedid am dani ar y ddaear uwch ei phen.

Yr oedd rhyw fugail wedi ei gweled yn rhoi'r dorth dan ei throed, ac yn suddo i'r llaid. Bu ei mam yn galaru ar ei hol am flynydd-oedd, a dywedai,—

"O Inger fach, bu dy falchder yn ddimistr i ti."

"Doedd arna i ddim ond eisio cadw 'nhroed yn lân," ebe'r eneth anedifeiriol.

Bu farw ei mham, a dywedai mamau hanes Inger wrth eu plant. "Geneth fach falch oedd," meddent, "a 'doedd ryfedd iddi suddo i'r llaid." Canodd rhywun gerdd am dani, ac yr oedd pawb trwy'r wlad yn ei medru.

"Doedd dim bai arna i," ebe Inger, wrth glywed eu lleisiau. "O mae'n gas gen i bawb!" A ffi chiai tân o'i llygaid. "Pam rhaid i mi ddioddef cymaint am beth mor fach? Mi gânt hwythau ddioddef, mae eu pechodau hwy yn fawr. Mi chwerthaf wrth eu gwled yn cael eu tafu i ganol yr ellyllod acw."

Pan adroddid ei hanes i blant, dywedent,— "Da iawn! Yr oedd eisio iddi gael ei chospi." Ond ryw ddiwrnod dywedwyd ei hanes wrth eneth fach dyner-galon. Pan glywodd hi am gosp Inger falch galon-galed, torrodd i wylu.

"Chaff Inger byth ddod i fyny'n ol?"

"Na chaff byth. Mae hi'n rhy falch i ofyn am faddeuant."

"O mi rown dŷ ty noli am i Inger ddod yn ol."

Teimlai Inger yn rhyfedd iawn wrth glywed plentyn bach yn wylu o gydymdeimlad â hi, ac yn gweddio drosti. Ond ni edifarhaodd.

Bu'r eneth fach fyw i fod yn hen wraig. Pan ddaeth dydd ei marwolaeth, cofodd am Inger yn ei gweddi olaf. "O fy Nuw," meddai, "oni fethrais innau dy ddeddfau dan fy nhraed, fel Inger? Oni cherddais hyd y ddaear a balchder yn fy nghalon? Ond ni adewaist imi suddo. Cynhaliaist fy ngherddediad. O na thynn dy law oddiwrthf yn yr awr hon."

Ac wrth iddi esgyn i'r nefoedd, disgynnodd deigr yn i lawr, i lawr ar wyneb Inger. "O," meddai Inger, "y mae un o angylion glân Duw yn wylu drosof. O mor edifar gennyf fod yn falch a chreulon. O Dduw, maddeu i mi."

Tywnnodd pelydryn o oleuni o'r nefoedd ar yr eneth anedwydd. Syrthiodd y clai budr oddiar ei gwallt a'i dillad. Teimlai burdeb ac iechyd yn glanhau ei henaid. Rhyddhawyd ei throed oddiar y dorth. Teimlai ei hun yn peidio bod yn farreg, ac yn mynd yn ysgafnach, ysgafnach. Ac ar noson o flaen rhyw Nadolig, gwelid aderyn bychan gwyn yn cyrraedd y ddaear.

### GWELEDIGAETH.

**O**DDEUTU hanner canrif yn ol, ar fore braf ym Medi, aeth tri o weision amaethyddol mewn cwch allan i'r mor i geisio dal mecryll. Cyn iddi orffen dyddio yn llawn, gwelent dân yn y gorwel, ac wrth sylwi arno, gwelent long yn ymddadblygu o hono, ac yn dynesu tuag atynt. Yr oedd yn llestr tair hwylybren. Gwnaeth ei gyrfa o'r gorwel at greigiau Llanddwyn, ar farr Caernarfon, mewn oddeutu deng munud, a diflannodd ar y creigiau. Llauer o siarad fu am y weledigaeth am ddeuddydd.

Ond ar y trydydd dydd daeth yn dymhestl o'r fath fwyaf. Ac er syndod i'r gymydogiaeth, daeth llong o'r un desgriiad ag un y weledigaeth o flaen y dymhestl, ac aeth yn ddrylliau ar greigiau Llanddwyn, a boddodd yr holl ddwylaw. Gallaf sicrhau fod yr hanes uchod yn ffaith. Beth yw yr esboniad?

*Dol Pandy, Glyn.*

W. WILLIAMS.

### CYSTADLEUAETH YR ENWAU ADAR.

RHENNIR y wobr rhwng Eleanor, May Griffiths, Un o odre Cader Idris, a Swithin Bach. Anfonent eu henwau i R. Morgan, Yr Ysgol, Llanarmon yn Ial, Wyddgrug (*Mold*). Daw beirniadaeth iawn a dyddorol ar yr holl ymgeiswyr, a phigion o'u gwaith, yn rhifynnau'r flwyddyn nesaf.

## DAMHEGION CYMRU.

## IX. DAMEG YR ADARWR A'R CYLCHWR.

**A** DARWR a chylchwr a aethant i goed,—yr adarwr i gyffylolca<sup>1</sup> a'r cylchwr i gynnull ffyn cylchau. A gwedi myned ohonynt nepell<sup>2</sup> o gerdded, a phob un a'i llygad am a geisiai, ebe'r adarwr,—

“Mi a welaf gyffyllog!”

“P'le mae?” ebe'r cylchwr.

“Dacw lle mae, o'th flaen yn gymwys<sup>3</sup>” ebe'r adarwr, “ym mon y llwyn gwern<sup>4</sup> acw, lle gweli'r lle goferllyd acw<sup>5</sup> ar ei bwys. Dacw fe!”

“‘Y llwyn gwern!’ ‘y lle goferllyd!’” ebe'r cylchwr, “ai gerllaw'r ffon cylch acw y mae?”

“‘Y ffon cylch!’ pa le mae dy ‘ffon cylch’ di?” ebe'r adarwr.

“Dacw lle mae, ar fon prysgollen,<sup>6</sup> a weli di yn union o'th flaen acw,” ebe'r cylchwr.

“Ni welaf ddim o'th ‘gollen,’ na'th ‘ffon cylch,’” ebe'r un.

“Na minnau na'th ‘gyffyllog’ na'th ‘llwyn gwern,’” ebe'r llall.

Ac fel hynny y mae ymhlith pob ryw ddyonion; y mae llygad pob dyn o'r byd<sup>7</sup> bob amser yn bwrw<sup>8</sup> o'i amgylch am a chwennych ei gael; ac ebrwydd iawn y gwel a fo debyg i hynny, lle nas gwel na fo fawr iddo,<sup>10</sup> er amlyced y bo. A gwir yw'r diarhebion, sef,—

“Craff pob llygad a gais,” a “Hawdd y gwel llygad chwanog,” a “Llygad di-chwant nis gwel, er amlyced y peth,” a “Llygad ceisiaid a wel yngrafr,” fel yr adarwr a'r cylchwr yn y coed.

Chwi welwch oddiwrth yr hanesyn bach damhegol yna mor gelfydd oedd yr hen bobl gynt i weled gwirionedd yn y weithred, ac i dynnu addysg, a distyll doethineb, o'r digwyddiadau distadlaf o'u hamgylch. Wrth sylwi yn graff ar bethau o'u cwmpas, ar ddeutu llwybr dyddiol a chyffredin bywyd, a myfyrio yn ystyriol uwch eu pennau, wrth wneyd felly casglent drysorfeydd helaeth o ddoethineb fuddiol ac ymarferol.

Yn wir, bum yn synnu ganwaith at gallineb gafaelgar, at ddoethineb ddofn ac athronyddol eu hymadroddion a'u sylwadau ar bethau cysylltiedig â bywyd ac ymarweddiad. Yr oedd hir arsyllu ar

<sup>1</sup> I ddal cyffyllogod, *woodcocks*. <sup>2</sup> *Not far*. <sup>3</sup> Yn union, *straight, direct*. *Alder bush*. <sup>4</sup> *Dyfrllyd, marshy*. <sup>5</sup> Llyn o goed cnau, *hazel bush*. <sup>6</sup> Sydd yn y byd. <sup>7</sup> Taffu, *teithio, peering, casting about*. <sup>8</sup> Buan. <sup>9</sup> Na fo ganddo unrhyw ddyddordeb ynddo, *what does not interest or concern one*.

gyflym ehediadau gwennol y Gwehydd Mawr yn fflachio ol a blaen rhwng ystof ac arwe brethyn bywyd yn gwneyd doethawr mewn duwinyddiaeth naturiol o bob un ohonynt. Byddai gan fy mam a fy nhaid rhyw ddywediadau miniog, blaenllym, treiddgar, adfachog,—byddai gwynt eu melltenog rawd yn rhoddi tasgfa a thaw disyfyd arnaf, a than barlysiad eu brathiad, syrthiwn yn swp i'r llwch cyn medru codi bys mewn hunan-amddiffyniad. Yr oedd yno ryw rym egr-nerthol, rhyw uniongyrchedd anysgoawl, yn eu dyrnod, sydd wedi colli yn lân oddiar dafod melfedaidd merchetaidd yr oes farw hon.

Ond o dan y ffyrnigrwydd ewingraff, esgudlym, yr oedd yno ddynoliaeth uniawn, gyfiawn a gonest yn mud-gynneu; ac felly, fel y "fwled fain" yna, aent drwoch heb eich ladd, ond nid heb eich llorio, a thynnu pob owns o ymladd o honoch. Bum yn synnu filwaith sut yr oedd nhaid C—, a f'ewyrth Ll—, a modryb M—, yn gallu dweyd geiriau mor frathog wrthyf,—yn taro mor drwm ar liprin llwydfain na wnaethai ddrwg erioed iddynt, nac i neb o'r teulu.

Yr oedd yno ryw osgo filwraidd, herfeiddiol, ar eu cerddediad. Gwario i'r gwynt,—fel hen dderwen gymalgam Penrallt,—oedd ystum feunyddiol eu cyrff. Golwg bastynaidd, caled a gwydn, oedd ar yr hirffon a gludent i bobman, ffair a marchnad; rhybuddid chwi am eu dynesiad o bell, gan fel y grymus darawent ei blaen haerannaidd ar glawr y ffordd.

Oedd, yr oedd eu dwrn yn galed fel y dur, ond cledr eu deheulaw yn dyner fel calon merch. Oedd, yr oedd trem eu llygaid yn llym dân-belydrog fel trem hen Eryr Gwernabwy, ond eu mynwes yn llawn tosturi a chymwynasgarwch. "A'r gair garwa'n mlaenaf" oedd eu hanes bob amser. Nid oeddynt erioed wedi dysgu gwisgo y faneg sidan i fradguddio y dwrn dur; na'r wên deg i guddio'r gwenwyn. Gwir mai to o wellt digon llwyd geid ar y tŷ, neu'r bwthyn; ond, ceid croesaw cynnes, hael, a dirwgnach y galon Gymreig ar eu haelwydydd clyd, glân, a siriol. Digon garw, di-addurn, ac anghymesur oedd y ddiwyg o frethyn cartref; ond, yr oedd wedi ei gordeddu o wlan glân pur trwyddo, ac yn wisg dda ddihafal i ddyn oedd yn ddyn pur trwyddo. Fel "gof pentret" Longfellow:

"He looked the whole world in the face;  
For he owed not any man."

Nid gwir i gyd, bob amser, yw y syniad mai "gwell y newydd na'r hen;" er, yn ddiau, mai at i fyny y mae rhawd a chyrch Datblygiad. Eto, er mai ymddyrchol ydyw y llanw, ceir ar finion

ei ystlysau lawer adlif sydd a'u tynn a'u sugn tua thraethellau peryglus. Ar lawer ystyr, yr ydym ni yn y dyddiau hyn wedi ein dyrchafu ar warr gorllanw tra uchel, fel cenedl ac fel ymherodraeth. Ond, yr Hwn bia'r mor, ac a'i dyrchodd yn llanw o lwyddiant odditanom, Efe hefyd bia'r Euroclydon, y ddeufor gyfarfod, a chreigiau Melita.

“Adarwr a chylchwr a aethant i goed,—yr adarwr i”——i beth?  
“a'r cylchwr i”——i beth?

—◆◆◆—

### FFARM RYFEDDOL.

YN ddiau, yr ydym ar drothwy cyfnod newydd ar y ddaear. Y mae dyn o'r diwedd wedi rhoddi y “Seven League Boots” am ei draed; ac am yr hen ddaear ei hun, y mae fel wedi deffro o gwsg yr oesoedd. Yng ngeiriau Tennyson, ein teimlad yw,—

“Not in vain the distance beacons,  
Forward, forward let us range;  
Let the great world spin for ever  
Down the ringing grooves of change.”

Dydd mawr oedd dydd dal y gwynt i wneyd gwaith dyn; dydd mwy oedd dydd ffirwyno'r ager; a dydd mwy fyth yw y dydd hwn, pryd yr ydys yn cyfrwyo y trydan. Dyma'r hyn ddarllenwn heddyw yn canlyn.

Y mae'r ffarm ryfeddaf yn y byd yn Canada; yr hyn a'i nhodwedda yw, y ffaith fod pob gwaith arni yn cael ei weithio gan y trydan. Trwy yr ystad rhed afon fawr, ar yr hon y mae dau bistyll mawr, un yn 60 troedfedd o uchder, a'r llall yn 180 troedfedd. Gwneir i'r ddau ddyfr-gwmp hyn droi peiriannau i gynhyrchu trydan, ac i'w grynhoi yno wrth droed y pistyll. Oddiyno trosglwyddir ef ar hyd gwifrau pwrpasol i bob rhan o'r ffarm. Y mae gan y corddwr, a phob offeryn arall arferir yn ac oddeutu y tŷ, gronell drydan yn gydiedig wrtho. Y mae cronell<sup>o</sup> o nerth deg cefyl yn gweithio y peiriant medi, un arall yn gweithio y felin lifio, tra y tŷ, yr ysguboriau, yr holl feudai, yn ogystal a holl ffyrdd y ffarm, yn cael eu goleuo gan drydan. Dywed y perchennog ei fod yn safio £500 mewn cyflogau bob blwyddyn.

Yn ddiau, yr ydym ar drothwy cyfnod newydd ar y ddaear, oblegid danfonwyd gwys i Natur ddod i Runnymede, nid i gofnodi ei diorseddiad, ond i godi Dyn, a'i osod yn deyrn cyfurdd ar yr un orsedd a hithau.

H. BRYTHON HUGHES.

---

\* *Motor accumulator.*



DULL CYFARCH THIBETIAD.

“Estyn ei dafod allan yn ei hyd, a throi ei ddwy fawd i fyny.”



## THIBET.

**G**WLAD eang, fynyddig, a dieithr iawn yw Thibet. I'r de y mae mynyddoedd cawraidd yr Himalaya yn ei gwahanu oddiwrth wastadeddau breision India; i'r gogledd y mae Mynyddoedd Luen yn ei gwahanu oddiwrth ddiffeithdiroedd eang Mongolia. Y mae, hyd yn hyn, yn sefyll yn gadarn yn ei noddfa uchel, ac yn gwrthod gadael i neb edrych ar ei phryd na dweyd ei hanes. Bu trafaelwyr ynddi, ar berygl eu bywyd, ond ychydig fedrasant ddweyd am dani. Ni wyddid, hyd yn oed ai o honi hi y rhedai'r Bramapootra, un o afonydd mwyaf India.

Ond eleni, rhwygywd y llen oddiar wyneb Thibet bell, fynyddig, feudwyol. Y mae Prydain a Rwsia yn brasgamu i gyfarfod eu gilydd ar fynyddoedd mawrion a gwastadeddau canolbarth Asia. Daeth y si fod Rwsia yn dechreu cynllwyn yn Thibet, er nad yw ei thertynau eto wedi ymhestyn o fewn mil o filliroedd ati. Aeth byddin Brydeinig fechan yno, gyda chennad China, i'r hon y mae Thibet dan ryw fath o warogaeth. Cyrhaeddodd y fyddin y brif-ddinas ryfedd a neillduedig, sef Lhasa, wedi peth ymladd. Ac o hyn allan, bydd raid i Thibet adael ei neillduedd, a dod i adnabod cenedloedd ereill y ddaear.

Rheolwr y wlad yw y Lama Mawr. Tybia'r Thibetiaid nad yw ysbryd y Lama Mawr byth yn marw, ond ei fod yn preswyllo yng nghorff pob un o'u penaethiaid, y naill ar ol y llall. Oherwydd hynny, y mae dylanwad ysbrydol y Lama yn fawr iawn, a dylanwad yr offeiriadaeth.

Pan fydd y Thibetiaid farw, rhoddir ei gorff i'r offeiriad i'w losgi yn lludw, a'i gyflwyno i'r afonydd. Os lleddir dyn gan ddyn arall, rhwymir y llofrudd wrth gorff marw'r llofruddiedig, a theflir ef felly, yn rhwym wrth "gorff y farwolaeth," i'r afon i fodd.

Dull rhyfedd iawn sydd gan y Thibetiaid o gyfarch eu gilydd. Estynnant eu tafod allan yn ei llawn hyd, a throant fodiau eu dwylaw i fyny. Pan oedd ein byddin yn Lhasa, rhannwyd llawer o ddarnau arian i dlodion y dref; cafodd pob un, yn wr a gwraig a phlant, ddernyn arian. Cydnabyddai pob un ei dderbyniad yn yr un modd,—trwy estyn ei dafod allan yn ei hyd, a throi ei ddwy fawd i fyny.

Y mae'r Thibetiaid yn bobl gryfion a dewr; ond beth allasant wneyd gyda'u magnelau croen a'u bwa saeth, yn erbyn dryll y Sikh tal, neu'r Ghurka cyflym? Pwy wyr na fydd y wlad fynyddig hon yn gaffaeliad, ryw dro, i fywyd y byd?

## DADL Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

ARLLOD O'R GYMDEITHAS A BACHGEN PENRHYDD.

**M**ARY. Sut yr ydych chiwi heno, William?

**WILLIAM.** Da iawn, da iawn, wel di. Ffasiwn hwyl sydd arnat ti rwan, Mary?

**M.** O, yr ydwyf fi mewn hwyl iawn o hyd. Yr ydych yn dweyd eich bod yn "dda iawn." Nid wyf yn meddwl eich bod yn "dda iawn" mewn mwy nag un ffordd, William.

**W.** Mi 'rydw i yn "dda iawn" mewn llawn cymaint a thithau, ngeneth i; a phaid a meddwl fod pawb yn ddrwg ond chdi.

**M.** William, William, peidiwch bod mor angharedig fel yna. Nid oeddwn yn meddwl clwyfo dim ar eich teimlad, gwyddoch fy mod wedi arfer bod yn hyf gyda chi bob amser, a hynny am y rheswm ein bod wedi ein magu gyda'n gilydd.

**W.** Gwn hynny yn eithaf da.

**M.** Felly, William, yr wyt yn defnyddio fy hyffra i siarad â chiwi am beth o bwys, os caniatewch i mi siarad â chiwi ar y mater.

**W.** Caniatâu, gwnaf siwr iawn. Wrthodais i ddim i neb erioed siarad hefo mi.

**M.** Nid wyf yn dweyd dim am hynny, ond yr wyt wedi meddwl lawer gwaith erfyn arnoch ufuddhau i mi am unwaith yn eich hoes. Mae eich gwaith yn dilyn y cwmpeini sydd gennych yn achosi llawer iawn o bryder meddwl i mi am eich dyfodol.

**W.** O, mi wela i 'rwan. Aros di dipyn bach, yr wyt ti braidd yn mynd yn *hy* 'rwan. Beth sydd gen ti na neb arall i ddweyd am y cwmpeini sydd gennyf fi?

**M.** Oes, William, mae llawer i ddweyd am danynt. Mae dilyn cwmpeini fel William, Ty Mwd, a John, Tan y Bryn, yn sicr o ddenu pob dyn ieuanc i drueni yn bur fuan, oherwydd mae eu hiaith a'u harferion o fynychu y tafarnau, a'r chwareuon sydd ganddynt, yn gywilyddus mewn ardal.

**W.** Mae 'rhen Wil yn eithaf *boy*, ac y mae Jac, Tan y Bryn, yn un go lew, ond ei fod yn mynd i Rail Road ambell dro.

**M.** Ie, William, dyna un drwg mawr, myned i leoedd fel y Rail Road ambell dro. "Am i gnoc a dyrr y garreg." Cofiwch, yn y fan hon mae perygl i chwithau fyned i'w canlyn, a rhoddi eich hunan yng nghatael y dinistrydd mwyaf a ddaeth i'r byd erioed. Ond cawn siarad ar hyn eto. Yr oedd arnaf eisiau eich gweled gyda golwg ar beth arall.

**W.** O felly. Be ydi hwnnw, tybed?

M. Mae arnaf eisiau i chwi ymaelodi yn y Gymdeithas Lenyddol sydd gennym.

W. Felly'n wir. Ffasiwn le ydi hwnnw tybed ?

M. Cyfarfodydd ydym yn eu cynnal er gwella ieuencyd mewn meddwl, darllen, a siarad yn gyhoeddus.

W. O mi wela i, rhywbeth mae y bobl yma, sydd eisiau dangos eu hunain, wedi godi ydi hwnna.

M. Nage o gwbl, mae wedi ei sefydlu gan ddynion goreu ein heglwys; a llywyddir ein cyfarfodydd gan ein parchus weinidog. A pheidiwch a synied mor isel am danom. Y mae pawb yn cael dangos ei hun, os felly yr ydych yn ei alw, yn y Gymdeithas.

W. Wel wir, Mary, ddo i ddim yno, fedra i wneyd dim yno, ac i be do i fan honno i eistedd fel penbwl, na wn i ddim byd be fydd ganddynt dan sylw.

M. Wel wir, William, byddai yn llawer gwell i chwi ddod yno i eistedd heb wneyd dim, na sefyllian ar bennau y ffyrdd yma, a dilyn y bechgyn penchwiban yna. Mae y cyfarfodydd hyn wedi eu sefydlu yn hollol er ein budd ni, yr ieuencyd, yn lle treulio ein horiau hamddenol ar bennau y ffyrdd.

W. O mi wela i, rhywun o'r capel yna sydd wedi dy roddi ar waith heno. Nos dawch, heno, mae'n rhaid i mi fynd 'rwan, neu mi gaf fwy o anwyd. Mae'r hogia yn galw.

M. Arhoswch, William, peidiwch mynd yn awr, heb yn gyntaf i chwi addaw dod i'r Gymdeithas nos yfory. Nid oes neb wedi fy rhoddi ar waith, ond fy hunan; ac yr oedd eich gwaith yn dilyn y bechgyn yna yn fy mlino yn ddirfawr. Gwnewch addaw dod nos yfory, William.

W. Na, ddo i ddim yno, wir, i gyboli fy mhen hefo chi. I be doi i le felly, lle yr ydych fel rhyw hanner byddigiwns yno i gyd ?

M. Mae yn ddrwg gennyf eich clywed yn siarad fel yna am danom, William. Nid oes yno neb yn dod ond bechgyn a genethod cyffredin fel chwithau, ac os y gwnewch addaw dod, sicrhat chwi na fyddwch ar eich colled. Cewch fwy o bleser o lawer yn y cyfarfodydd hyn nag a gewch ar bennau y ffyrdd yna. Dowch yno, William bach, nos yfory i ddechreu, ac felly cewch weled drosoch eich hun.

W. Wel, mi ddo i yno nos yfory, Mary, gan dy fod mor daer. Mi 'rydw i yn credu mai ti sydd yn iawn. Pwy amser mae y cyfarfod yn dechreu ?

M. Am saith o'r gloch, William. A diolch yn fawr i chwi am eich addewid, gobeithio y cedwch at eich gair.

W. O mi fydda i yn siwr o ddwad ar ol i mi addaw. 'Toes dim peryg i mi dorri fy addewid. Pe baswn i cystlad am bopeth ac ydw

i am gyflawni f'addewid, mi faswn i yn *foy* go lew, weldi. Nos dawch, Mary, yr ydw i am fynd rwan. (*Yn myned ymaith*).

M. Nos dawch, William.

Mary (*wrthi ei hun*).

Wel wir, dyma fi wedi llwyddo i gael 'rhen Wil i symud rhyw-faint 'rwan gobeithio. Pe buasai mwy o ysbryd cenhadol ynnom fel aelodau y Gymdeithas, buasai mwy o lewyrch ar ein cymdeithasau o lawer, mi gredaf. Wrth hir boeni 'rhen Wil addawodd o'r diwedd, a gobeithio y caiff bleser yno wedi dod.

*Carmel.*

W. G. ROBERTS.

—◆—◆—◆—

### I'W DDARLLEN YN DDIIFYFYR.

**D**YDD da i chwi Arglwydd Buller o Ladysmith yn Llyn Ogwen mae brithyllod ac esgobion a duclaid yn Nhy'r Arglwyddi ger chwarel Bethesda gwelir Bwlch y Benglog beddrod Henry Rees sydd wrth bont ar Fynach mae pont bren yn Nolgellau a Llangollen ceir pontydd bwaog ar asynod a merlynod yn marchogaeth i ben y Wyddfa yn yr haf ceir gweled y boneddwy'r Vaughan Davies a Lloyd George a Mabon sydd Gymry glân yw golwg Conwy neu Cynwy neu Cainwy ar lan Teifi a Thywi mae golygfeydd ar Lyn Paran a Llyn Peris mae adar y Wyddfa yng Nghastell Caernarfon ganwyd tywysog yn nechreu yr ugeinfed ganrif yr ydym yn awr.

*Cynon, Ceredigion.*

DAVID LLOYD DAVIES.

—◆—◆—◆—

### I'R LAN, I'R LAN.

I'R lan, i'r lan, awn oll ynghyd,  
 Gan adael y gwastadedd,  
 I'r lan, i'r lan, goruwch y byd,  
 Ei dlodi a'i holl lygredd;  
 Mae blodau gobaith ar bob gris  
 I lonni bron y teithydd;  
 A Babel Bywyd a yn is  
 Mewn adgof am y wawrddydd.

I'r lan, i'r lan, mae gwynfa'r sant  
 Y'mroydd yr ucheledd,  
 I'r lan, i'r lan, lle chwery tant  
 Hen delyn aur gorfoledd,  
 Tu hwnt i lenni nos y llawr  
 Cyfeiria rhodfa'r engyl;  
 Lle chwârdda bywyd fel y wawr  
 Wrth dorri drwy y cymyl.

I'r lan, i'r lan, aeth cewri'r nef  
 Cyn derbyn eu coronau,  
 I'r lan, i'r lan, aeth gosgordd gref,  
 'Bol gaduel traed y brynïau;  
 Cyd-yfwn o'r ffynhonnau byw,  
 Anadlwn yr awelon,  
 Yn gwenu'n glaer mae ser ein Duw  
 Fel byddin o gysuron.

*Lletty, Henfeddau, Penfro.*

T. R. DAVIES.

**MORDAITH CAPTEN COOK.**

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## XI. Y WAREDIGAETH.

**I**FOR. Yr oedd y llongwyr mewn enbydrwydd mawr fy nhad, pan adawsoch hwy.

TAD. Wedi cael ar ddeall nad oedd mwy o ddwfr yn dyfod drwy yr hollt na phan oedd y llestr ar y graig, yr oedd ganddynt obaith gwan am ddiangfa. Ond oherwydd bod y ffrwd yn gollwng mwy i mewn nag oedd y sugnedyddion yn ei dafu allan, yr oeddent yn ofni'r gwaethaf. Yr oedd ar waelod y llong dair troedfedd a naw modfedd y pryd hwn ond yr oedd yr holl ddwyllaw ar eu hegni eithaf i gael y dwfr allan. Ar ol oriau maith o weithio mor galed, yr oeddent agos wedi difa eu holl nerth, fel nas gallent weithio ond tua phum munud cyn cwmpo ar y bwrdd i orwedd i ddadflino, er bod tair modfedd o ddwfr yn llifo dros wyneb y llong oddiwrth y sugnedyddion. Wedi bod telly am bedair awr ar hugain, tybiasant fod y dwfr yn ennill yn gyflym arnynt. Ond camgymeriad oedd hynny. Ac wrth iddynt ganfod nad oedd y perygl gymaint ac yr ofnent ar y dechreu, calonogwyd hwy yn fawr, nes peri adnewyddiad nerth iddynt; a chan eu bod erbyn hyn gerllaw y tir, cododd eu teimlad i fesur uchel o lawenydd. Erbyn wyth o'r gloch y bore, yr oeddent wedi llwyddo i leihau y dwfr hyd hanner y dyfnder yr oedd ynddo y prydawn blaenorol. Pwnc mawr yr ymddiddan bellach oedd gweithio y llong i ryw borthladd cyfleus, i gael ei hadgyweirio, a chan y gellid hebgor nifer o'r dwyllaw oddiwrth y sugnedyddion, gosodwyd hwynt i godi'r angorau. Gorfu iddynt dorri y gadwyn, a gadael un ohonynt yn y dyfnder, oherwydd methu ei rhyddhau. Collasant amryw o bethau ereill; ond am fod ganddynt bopeth anhebgorol at gael y llong i dir, nid oeddynt yn cytrif y pethau a gollwyd ond fel teganau dibwys. Gosodasant yr hwylliau i fyny, a daeth awel o'r môr; a thebyg eu bod yr adeg honno yn hwylio dan ganu, tua chyfeiriad y tir. Ond er hynny, nid oeddent allan o berygl; oblegid yr oedd y ffrwd yn parhau i ddyfod i mewn yn ddiatal, a hwythau heb ddarganfod yr hollt. Wrth weld eu sefyllfa, galwodd Mr. Monkhouse sylw Capten Cook at un amgylchiad tebyg, pan yr arferwyd dyfais a fu yn foddion i gadw llong fasnachol rhag suddo. Yr oedd ei dwfrhollt yn gollwng y fath swm o ddwfr i mewn ag oedd yn gwneyd pedair troedfedd yr awr o ddyfnder, ond trwy y cynllun ataliwyd y dwfr agos yn llwyr, a llwyddasant i hwylio y llong yn ddiogel o Virginia i Lundain.

Boddlonodd y Capten i wneyd prawf o'r ddyfais, a rhoddwyd yr holl ofal o gario hynny allan yn llaw Mr. Monkhouse, yr hwn a ddechreuodd ar y cynllun yn ddiodei. Cymerodd ddarn eang o hwyl, a chymysgodd swm mawr o gwrach a gwlan, ac a'u pwythodd yn ysgafn ar yr hwyl, a thaenodd drosto yr holl dail defaid oedd ar gael, a llu o bethau ereill oedd yn ateb y diben; a thrwy gymorth rhaffau, fe ollyngwyd y llen fawr, oedd yn cynnwys y fath amrywiaeth o bethau glân ac aflan, i lawr o dan waelod y llestr, gan ei sicrhau yn dynn ar gyfer y man yr oedd y dwfr yn frydio i mewn. A throdd y ddyfais allan yn llwyddiant hollol; erbyn hynny, yn lle bod y ffrwd yn ennill ar y tri sugnedydd, yr oedd un ohonynt yn drech na'r ffrwd o ddigon. Yr oedd bodddhad a llawenydd y cwmni wedi codi erbyn hyn, yn ddiambhu, i'w radd uchaf. Rhoddodd y Capten y ganmoliaeth uchaf i bob un oedd ar y llong am eu gwroldeb a'u hymdrech digyfelyb drwy yr amgylchiad dychrynlyd, caled, a blin. Ar y 14eg, canfyddasant gilfach gyfleus i fyned a'r llong iddi. Drwy yr holl fordaith, ni welodd ein morwyr yr un porthladd a fuasai cystal a hwn, o dan yr amgylchiadau yr oeddent hwy ynddynt ar y pryd. Yng nghanol eu llawenydd, wrth hwylio i'r gilfach, nid anghofiodd ein morwyr mai cudyn o wllan a fu yn offerynol i'w cadw rhag dinystr trychinebus. Yr adeg yma darfu i'r *scurvy* blin wneyd ei ymddangosiad ar ddau neu dri o'r cwmni, yr hyn a'u rhwystrodd i fyned i'r gilfach hyd fore y 17eg; ac ar gefn y llanw, aethant i mewn yn weddol ddirwysr; tuag un o'r gloch y prydawn yr oedd ein morwyr wedi ymsefydlu ar y man mwyaf cyfleus yn eu hafan dymunol.

IFOR. Fy nhad, i mi, y darn diweddaf o'r holl hanes o'r dechreu yw y mwyaf difrifol. Rhywtodd, rhwystrodd fy neimladau i mi ofyn unrwy gwestiwn i chwi, oblegid yr oeddwn wedi fy llenwi â dychryn. Onid gwyrrth oedd y fath waredigaeth, fy nhad?

TAD. Wrth osod yr holl waredigaethau o beryglon a gymerodd le o'r cychwyn, nis gallaf lai na chredu mai gwyrrth oedd y ddiweddaf. Defnyddiwyd y dydd canlynol i osod i fyny ddwy babell, er symud iddynt bopeth a ellid o'r llong, i'r diben o gael lle dirwysr i'w hadgyweirio. Yn y cyfamser, esgynnodd y Capten i ben y mynydd uchaf o'r rhai oedd gerllaw, a bu hynny yn tantais arbennig iddo; oblegid cafodd olwg ar gylch eang o'r wlad dros filltiroedd lawer, i bob cyfeiriad. Gwelodd fod gwastadeddau yr afon oedd yn arllwys i'r porthladd lle'r oedd y llong, wedi eu gorchuddio â'r *mangroves*; ac yr oedd y dwfr hallt yn llifo i mewn rhwng y coedydd hyn ar bob llanw. Yr oedd agos yr holl ucheldiroedd a ganyfyddodd yn noethion ac yn greigiog.

*Dinas, Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

## NOSON BRYDERUS.

## II. YMLADD AM FYWYD.



YN i'r haul fachlud bron y noson honno, yr oedd Ivan a Sophia yn paratoi i fynd i'w gwelyau. Tybient y byddai arnynt lai o hiraeth a llai o ofn os medrent gysgu. Yr oeddynt wedi rhoi barrau ar ddrws y caban coed. Yr oeddynt wedi enhuddo y tân hefyd; hynny ydyw, rhoi lludw ar y marwor yn y fath fodd fel y mud-losgai trwy y nos. Yna, dringodd pob un i'w wely; a chyn hir yr oeddynt yn cysgu'n drwm.

Rywbryd yng nghanol y nos, deffrôdd Ivan. Yr oedd yn dywyll iawn, ac yn ddistaw fel y bedd. Er hynny, tybiai ei fod yn clywed rhywun yn cerdded yn araf a gochelgar yn yr eira y tu allan. Tybiai

hefyd ei fod yn clywed rhywun yn anadlu. Ond y mae rhywun yn fwy ofnus nag y dylai fod yn y nos; ac wedi clustfeinio ychydig yn ychwaneg, rhoddodd Ivan ei ben i lawr, a chysgodd drachefn.

Ymben hir a hwyr, deffrowyd ef gan waedd frawychus Sophia,—  
“O Ivan, mae rhywun yn y caban!”

Cododd ar ei eistedd yn ei wely, a chlywai ryw swn dieithr. Ar lawr y caban yr oedd, ac yn un o'r cornelau. Curai ei galon yn gyflym iawn.

“Aros di yma,” ebai wrth Sophia, “gofala beidio mynd i lawr.”

Yna, gafaelodd mewn trosol bychan oedd gan ei dad yn gwasgu'r coed at eu gilydd. Sylweddolodd, er cysur iddo, mai allan yr oedd y neb oedd yn gwneyd y swn. Ond yr oedd yn amlwg ei fod yn treio dod i mewn.

Aeth Ivan i lawr, a gwelai, er ei fraw, fod un o'r estyll wedi ei thynnu ymaith. Gwelai hefyd ben yn ymwthio i mewn Tarawodd y pen hynny fedrai â'r trosol. Tynnwyd y pen yn ol, gyda hanner cyfarthiad, hanner rhwad.

Arth lwyd oedd yno yn sicr. Yr oedd wedi arogl'i'r plant, ac yn ceisio dod i mewn i'w bwyta. Gwyddai Ivan y medrai'r arth dynnu ystyllen arall, a gwyddai y medrai ddringo at wely Sophia, wedi ei fwyta ef.

“Tyrd i lawr, Sophia,” meddai. “Paid a dychrynnu dim. Hen arth sydd yma. Mi rhwystrwn ni hi i fewn. Ac os deil i stelcian o gwmpas tan y prydawn, mi gaiff ei saethu gan fy nhad.”

Cynheuodd Sophia y tân yn fflam. Ceisiai Ivan roi ystyllen arall ar y twll, a dyrnodiai ben yr arth pryd bynnag y cai gyfle. Rhoddodd y trosol yn y tân, nes aeth ei ben yn wynias. Yna, rhoddodd ef ar drwyn yr arth pan geisiodd ymwithio i mewn. Neidiodd yr arth yn ol gyda rhuad arswydus. Ond ymfyrnigodd yn waeth. Taffai ei hun yn erbyn y caban, gafaelai f'i dannedd yn rhai o goed y caban, a chlywai y plant hi yn eu malu yn ei chynddaredd. Torrodd y bore, ond yr oedd yr arth yno o hyd, yn ceisio rhwygo astyllen i fiwrdd yn y fan yma ac yn y fan acw. Ond cadwai Sophia y tân yn eirias o hyd, a dyrnodiai Ivan ben yr arth, neu seriai ei thrwyn, lle bynnag yr ymddanghosai. Aeth y frwydr ymlaen am oriau. Gwnaeth yr haiarn poeth ei waith,—yr oedd yr arth wedi ei dallu, ond yr oedd yr hen arth ddall gynddeiriog yn ymosod ar y caban o hyd.

Rywbyrd yn y prydawn, aeth ymaith. Yn union wedyn, clywai'r plant ergyd. Ymhen ychydig funudau, clywent lais eu mam yn gwaeddi,—

“Ivan, Sophia, fy mhlant anwyl i, a ydych yn fyw?”

“Ydym, lle mae nhad?”

“Mae o draw yn y fan acw yn gorffen lladd yr arth fwyaf a welsoch erioed.”

“O mam bach,” ebe Sophia, “mi welais i ei llygaid hi rhwng y coed, ac yr oeddwn wedi ofni y buasai wedi bwyta Ivan a minnau cyn y deuch adre.”

### HWIANGERDD.

SU, hwi lwli, anwyl Wili,  
Cwsg fy mab dinam,  
Ti yw'r unig gysur geni  
Wedi colli'th fam;  
Cwsg, anwylyd, gwnaf dy gelu,  
Fel na chei di gam.

Su, hwi lwli, anwyl Wili,  
O fy machgen glân,  
Gwyn dy fron fel ewyn heli,  
Coch dy foch fel tân;  
Cwsg, anwylyd, lwli lwli,  
Pruddaidd yw fy nghân.

Castellnedd.

Su, hwi lwli, wrth dy suo  
Llonni'r ydwyf fi,  
Engyl gwynfa sy'n dy wyllo  
Yn yr entych fry;  
Cwsg, anwylyd, ceisiaf heno  
Nodded nef i ti.

Su, hwi lwli, ni phryderaf  
Beth a fyddi draw,  
Gwrendy Ef fy ngweddi daeraf,  
Ceidw di'n Ei law;  
Cwsg, anwylyd, suo ganaf,  
Mae y Dydd gerllaw.

T. H. JONES.

---

— Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

— ARGRAFFWYD A OYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBODAETH.



# AT Y PLANT.



**AL Y CWM.** 1. Onid yw hanes plentyndod yr Iesu yn ddyddorol, heb son am dduwin-yddiaeth, i bawb sy'n teimlo swyn bywyd dynol syml? Y mae'r Hindw, hyd yn oed, yn gweled yn yr hanes ddwyfoldeb plentyndod a dwyfoldeb cariad mam. 2. Onid Holman Hunt yw'r arlunydd baentiodd ddarlun o gorff yr Iesu, pan yn gweithio yn siop y saer, yn taflu cysgod y groes tu ol iddo?

**ENTD.** Y mae gennyf amryw ddarluniau plant wedi eu cerffo, yn eu mysg rai o'r casglwyr at gof-golofn T. E. Ellis. Daw dariuniau o blant Treorci, Llanllechid, a Llanrwst yn gynnar.

**E. R.** Y mae llyfr Saesneg dyddorol ar Owen Glyndŵr gan Mr. A. G. Bradley. Y mae'n anodd ysgrifennu'r cwbl am yr arwr Cymreig yn awr, gan nad oes neb wedi darllen trwy'r holl gronicleau, cywyddau, rhestri maenor, &c., sy'n taflu goleuni ar ei amser cyffrous.

**CYMRŌ O GYNFAL.** Byddwch yn llawer nes i'r gwir os credwch fod William Tell wedi saethu'r afal, fod Joan of Arc wedi ei llosgi, ac yr ystyrriid Magna Charta drwy'r oesoedd yn sylfaen rhyddid Lloegr.


**SIAN.** Darlun o gwir o ffatri Penmachno yw'r wyneb-ddarlun yn rhifyn Medi,—darlun o un o'r gweithwyr yn gweu cwilt yn ol hen batrwm Cymreig gyda gwehydd a'r cynllun diweddaraf.

**A.S.** Y mae Eglwys Loegr hefyd yn cyhoeddi gwerslyfrau at wasanaeth yr Ysgol Sul. Cewch hwy oddiwrth Spurrell, Caerfyrddin.

**O.** Ymysg y pethau mwyaf derbynol y mae,—hanesion tarawiadol, dadleuon, darnau bychain i'w hactio yn yr ysgolion a'r gobeithluedd, a darnau i'w hadrodd.

**CYNHYGIA Undeb y Ddraig Goch** chwe gwobr (£1, 15/-, 10/-, 10/-, 5/-, 5/-) am ateb cwestiynau ar bum llyfr, sef (1) HANES CYMRU, Rhan II., 1/6, *neu* Y CYMRU, 3/-; (2) GORONWY OWEN, Rhan I., 1/6; (3) CARTREPI CYMRU, 1/-; (4) MABINOGION, 1/-; (5) ANN GRIFFITHS, 2/-. Ceir (1) o Swyddfa CYMRU, Caernarfon; (2) oddiwrth Ab Owen, Llanuwchllyn; (3) a (4) oddiwrth y Mri. Hughes, Wrexham; (5) oddiwrth y Mri. Gee, Dinbych. Bydd manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

**BYDD enwau y buddugwyr** ar gystadleuaeth yr adar yn y rhifyn nesaf, a hefyd dechrau llawer o bethau newyddion. Rhowch eich enwau yn gynnar am rifyn Ionawr, a chewch flwyddyn newydd dda.



HEOL YN SEOUL, PRIF DDINAS COREA.



# CYMRU'R PLANT.

---

CYF. XIII.

RHAGFYR, 1904.

RHIF 156.

---

## COREA.



MAE Corea yn un o hen wledydd rhyfeddaf y byd. Hyd yn hyn, y mae wedi medru cadw'r estron allan. Ond saif rhwng tair gwlad bwysig,—Rwsia, China, a Japan. Pwy gaiff roddi ei droed ynndi? Dyna y cwestiwn roddodd fod i'r rhyfel ofnadwy rhwng Japan a Rwsia. Yn yr holl deyrnasoedd hanner anibynnol sy'n rhes trwy ganol Asia, y mae ymryson rhwng Rwsia a Japan neu Brydain am ddylanwad yn y briffddinas,—yn Teheran, Cabul, Lhasa, Pekin, a Seoul.

Y mae Corea yn taro ar y Môr Tawel am gannoedd o filltiroedd. Y mae'n wlad ffrwythlaw a thymherus iawn hefyd. Ond ystyrir y bobl yn ddiog a diymadferth iawn. Y mae eu tai pridd yn druenus o wael. Y mae heolydd eu prif ddinasoedd yn debycach i ffosydd llawnion yn ddigon aml. Eisteddant ar risiau eu tai trwy gydol y dydd, ac y mae'n anodd i rywun dieithr ddeall paham a pha fodd y maent yn cael digon o fwyd. Eu tir ffrwythlon sydd yn eu cadw. Ond y maent yn bobl iach a chryf iawn, a dywedir y gallant ddod yn genedl enwog eto. Y mae dau beth yn eu cadw i lawr,—ofn a gwaseidd-dra rhai wedi eu gorchfygu, a threthi diarbed eu Llywodraeth.

## CYMRU'R PLANT.

Buddha yw duw y wlad, ond y mae Crist yn ennill tir. Dywedir od gan y Wesleyaid yn unig ugain mil o ddychweledigion yng ngogledd Corea, ac y mae Eglwys Loegr wedi apwyntio Esgob Corea ers blynyddoedd. Daw'r plant yn lluoedd i'r ysgolion; a dywedir fod y plant, o leiaf, yn dechreu teimlo fod eu gwlad i fod yn fawr a hapus eto.

Y brifddinas yw Seoul. Y porthladdoedd yw, — Chemulpo, Fusan, Wönsan, Chinnampo, a Mokpo. Y mae aur lawer yn y wlad; ond ychydig o weithiau mwn na gweithfeydd sydd yn Corea eto. Amaethyddiaeth yw bron bopeth; llestri pres geirwon yw'r unig bethau wneir gan grefftwyr brodorol. Reis, ffa, gwenith, a physgod yw prif olud y wlad; allforir gwerth mwy na miliwn o bunnau bob blwyddyn. Prynnir nwyddau cotwm a nwyddau haearn yn bennaf.

Y mae golygfeydd Corea yn brydferth iawn. Bu byddinoedd Japan yn ymdaith drwyddi; ond, pan wyf yn ysgrifennu, y maent wedi gyrru y Rwsiaid o honi, ac yn ceisio eu cilgwthio o Manchuria ddifrodedig hefyd.

---

### ADGOF AM YR HAF.

**M**OR fwyn oedd cân yr hedydd gynt,  
Pan lifai'r wawr i'w gwrdd;  
Mor dlos ai'r wrennol ar ei hynt,  
Ond denwyd hi i fwrdd;  
Mae'r wlad a'r adar swynai'n bron,  
Yn wawd i'r storom gref;  
O am gael canu'r anthem lon  
Sydd yn melysu'r nef.

Bu dail a blodau'r Gwanwyn gwyrdd  
Yn peraroglin gwlad;  
A'r Haf a'i fwynder lanwai'n ffyrdd  
A'i felus ffrwythau'n rhad;  
Ond teyrn y Gaeaf ddaeth mewn lliid  
A'i rew a'i eira'n hy;  
O am gael teimlo swynion gwrid  
Haf y baradwys fry.

Yn hael rhoed bendith gwair ac yd,—  
Coronau'r tiws a'r da,  
Ar fron ein gwlad yn wên i gyd,  
Dan heulwen hirddydd Ha;  
Ond daeth y dyddiau byrr, di-hedd,  
I dlodi Anian dlos;  
O am gael gweled heulog wedd  
Gwlad na bydd ynnddi nos.

*Y Bala.*

RICHARD AB HUGH.

---

### Y DDWYRYD.

Dwy afon dlos fodrwyog,—a unodd  
Yn anwyl a serchog;  
Nod dirion, i Faentwrog,  
Ddwryyd a'i llwydd red a llog.

*Llanrwst.*

R. EVANS.

## DAFYDD MORGAN, Y DIWYGIWR.



**Y** MAE pawb o honoch wedi clywed am Bont y Gŵr Drwg, yn sir Aberteifi, ddeuddeg milltir o Aberystwyth. Rhwng y lle rhyfedd hwnnw a Chwmystwyth, y mae cwm bychan unig ac anfrwythlawn, o'r enw Cwm Bodcoll. Ar lan y nant, ar waelod y cwm, safai melin flawd fechan, lwydaidd yr olwg, tua phedwar ugain a deg o flynyddau yn ol. Yno y ganwyd Dafydd Morgan. Bum yn yr ardal yn chwilio ei hanes rai wythnosau yn ol, a chefais sgwrs gyda hen ŵr fu'n chwareu gydag ef pan oeddynt ill dau yn blant nwyfus, heb feddwl am fawr ddim ond dal brithyllod. Os gwnewch chwithau waith da dros Dduw a thros eich gwlad, feallai y bydd rhywrai, ymhen pedwar ugain mlynedd, yn holi yn awchus am hanes eich mebyd, ac am y fan fechan lle y ganwyd chiwi.

Cyn bo hir, yr oedd y llanc bach gyda'r teulu yn byw mewn melin arall ar lan nant wyllt o'r enw Cell, yn ymyl y lle y rhuthra i'r Ystwyth. Wedi rhai blynyddau, wele y teulu mewn melin newydd o'u heiddynt eu hunain, tua hanner milltir yn nes i Ysbytty Ystwyth. Melin y Lefel y gelwid hon, am

ei bod yn ymyl genau lefel neu dwnel du hir yn rhedeg i grombil y mynydd i ganol gwythienau y mwn plwm. Yr oedd Dafydd yn un o naw o blant, a dysgwyd ef gan ei dad i wneyd gwaith saer coed pan yn bur ieuanc. Daeth yn greffwr rhagorol, a saernio fu ei unig waith nes ei fod dros wyth ar hugain oed. Dechreuodd bregethu y pryd hynny, a bu yn pregethu am ddwy flynedd ar bymtheg cyn i neb ei alw yn "Ddiwygiwr."

Beth yw Diwygiad? Amser yw Diwygiad crefyddol pan y mae dynion yn dyfod i feddwl yn ddirifol iawn am Dduw, a'u heneidiau, a byd arall, a byw yn dduwiol. Bu Diwygiad mawr yn yr America yn y blynyddoedd 1857 ac 1858, trwy yr hwn y daeth miliwn o bobl o'r newydd yn ddilynwyr i Iesu Grist. Yr oedd Cymro ieuanc o'r enw Humphrey Jones, o Dre'r Ddol, sir Aberteifi, yn weinidog mewn eglwys yn yr America. Cafodd hwn ei danio yn y Diwygiad yno, a rhoddodd ei eglwys i fyny, er mwyn croesi i Gymru, gan obeithio y buasai Duw yn peri i dân y Diwygiad groesi gydag ef. Hynny a fu

Cyfarfyddodd Dafydd Morgan â'r pregethwr ieuanc chwech ar hugain oed, a disgynnodd y tân dwyfol i'w galon yntau. Pa le bynnag yr elai wedi hynny, byddai y capel yn orlawn,—ei eiriau fel mellt, dynion drwg yn edifarhau am eu pechodau, y bobl grefyddol yn canu ac yn bloeddio ac yn gweddio ac yn moliannu ac yn wylo yn y capeli, a'r bobl ieuanc a'r plant yn mynd at eu gilydd i weddio yn y capel, yn y tai, yn ochr y ffordd, yn y meusydd, ac ar y bryniau. Bu cyffro rhyfedd fel hyn trwy yr oll o Gymru am ymron ddwy flynedd, a dywedir fod miloedd lawer wedi eu hennil trwy y Diwygiad i fod yn ddynion da.

Un o'r pethau rhyfeddaf oedd fod plant bychain mewn llawer man yn teimlo fod yn rhaid iddynt hwy gael cwrdd gweddi gyda'u gilydd. Byddai bechgyn bach dan ddeuddeg oed, ie, dan ddeg, yn gweddio yn uchel, nes synnu y rhai oedd yn eu clywed. A hoffech chwi glywed pa fodd y gweddient? Dyma rai o'u gweddiau,—“Maddeu i ni, O Arglwydd; yr wyt yn maddeu i lawer yrwan, maddeu i ninnau.” “O Arglwydd, achub y Pab, a gwna fe'n bregethwr.” “Cadw ni, Arglwydd, rhag i Satan ein cael ni. Mae e'n cael gormod o lawer, ac wedi'n cael ni yn rhy hir. Gwna iddo fynd ar hyd y ffordd lydan ei hunan, a dyro ras i ni bob un i gerdded ar hyd y ffordd gul; mae pen draw honno yn y nefoedd.” Dyma weddi un bach chwech oed,—“O dere ato' ni, ein Tad anwyl, dere ato' ni, a gad i ninne ddod dan dy gesail di.” Mewn un oedfa gyffrous yn Carneddi, fe drodd bachgen deuddeg oed yn bregethwr, ac fe waeddodd ar y dorf,—“Yn awr, bobl anwyl am dani, tra bo trê'n rhad Iachawdwriaeth yn rhedeg trwy yr ardal.”

Fe ddaw llyr o hanes Dafydd Morgan a'r Diwygiad allan yn bur fuan. Cewch yn hwnnw dipyn eto o hanes y plant ynglŷn â'r ymweliad rhyfedd hwnnw o eiddo Duw â'n gwlad.

### GWYLLT WALIA I MI.

EI chreigiau ysgythrog, a'i bryniau talgribog,  
A'i dolydd ardderchog, mor enwog eu bri;  
Ei thraethell ariannaidd, a'i llynnoedd grisialaidd,  
A chartref gaiff fod yng Ngwyllt Walia i mi.

Meithrina enwogion, prif feirdd, a llenorion,  
A maga gantorion, wŷr mawrion yn llu;  
Arlunwyr a cherfwyr, a dewrion ryfelwyr,  
Am hynny'n ddibetrus, Gwyllt Walia i mi.

Gobeithio caf dreulio fy mywyd oll trwyddo,  
Ac yna cael huno mewn talaeth mor gu;  
Mi hoffwn yng Nghymru, ar ol i mi drengu,  
Gael bedd yn hen ddaear Gwyllt Walia i mi.



## Y WISG ANWELEDIG.

RO maith yn ol, yr oedd tywysog o'r enw Hygred Hardd yn byw. Canmolodd ei feirdd ef, a dywedent mor hardd oedd. Credodd yntau hwy, a rhoddodd ei fryd yn hollol ar ei harddwch. Ni thalai ddim sylw i gyllid na masnach ei deyrnas, nac i'w byddin na'i heglwys, ni feddyliai am ddim ond am wisgoed drudfawr iddo ef ei hun. Os clywai am ryw-beth drutach na'i gilydd i'w wisgo, mynnai y dilledyn newydd faint bynnag a gostiai. A gwaith ei swyddogion pwysicaf oedd chwilio'r byd am ddillad drudfawr i'w tywysog.

Ryw ddiwrnod, daeth dau wr heibio llys y tywysog. Yr oeddynt yn gariog, a golwg anghenus iawn arnynt. Ond cawsant groesaw oherwydd eu bod yn dweyd mai teilwriaid oeddynt. A haerent beth rhyfedd iawn. Haerent y medrent wneyd dillad hardd a gwych, fyddai'n anweledig i bawb ond y doeth.

"Dyna'n union y dillad sydd arnaf eisiau," ebe'r brenin. "Yr wyf wedi blino ar ddangos fy harddwch i'r yntyd. Gwnewch siwt i mi gynted y galloch."

"Nid oes gennym wŷdd," ebe hwythau, "nac edeu sidan, nac aur ac arian. Aiff llawer iawn o aur," ebe'r gweilch cyfrwys, "i'r siwt."

"Cewch wŷdd," ebe'r brenin, "ac aur ac arian faint y fynnoch."

Dechreuodd y ddau dwyllwr weithio. Nid oedd neb i gael eu gweled. Ond cadwent ganhwylau'n oleu trwy'r nos, a chredodd y bobl eu bod yn gweithio ddydd a nos. Gofynnid am borffor ac ysgarlad, am arian, ac yn enwedig am aur, ac antonai'r brenin bob peth a ofynnid. O'r diwedd, dyma air oddiwrth y ddau deiliwr fod defnydd y wisg bron yn barod. A welai'r tywysog yn dda anfon rhywun i'w weled? Anfonodd y tywysog un o'i wŷr llys pennaf.

Pan ddaeth hwnnw i'r adeilad gyfodasid i'r teilwriaid, ni welai ddim ar y gwŷdd,—dim ond gwŷdd gwag. Ond ebe hwy eu dau,— "A ydych yn ei hoffi? Onid yw'r ysgarlad hwn yn brydferth? Onid yw'r gwaith aur hwn yn gywrain?"

"Beth sydd ar fy llygaid i, tybed?" ebe'r gŵr llys, druan, wrtho ei hun. "Ni welaf fi ddim o'r brethyn. Tybed nad wyf ddoeth? Rhaid i mi beidio cytaddet hynny." Ac meddai yn uchel,— "Y

mae'n frethyn ardderchog, bydd y tywysog wrth ei fodd." Aeth yn ol, a dywedodd wrth y brenin fel y dywedai y ddau gyfrwys wrtho.

Ymhen hir a hwyr, anfonwyd prif gynghorwr y brenin i weled y wisg pan oedd bron yn barod. Daeth yno. Canmolai'r ddau y wisg fel o'r blaen,—“Onid yw'r edafedd aur yma yn gorwedd yn dlws ar y porffor? Onid yw'r arian a'r aur yn cymhlethu'n brydferth ar yr ysgwyddau?”

Ond ni welai'r cynghorwr ddim. “Tybed,” meddai wrtho ei hun, “mai un ynfyd wyf, a minnau wedi'm dewis yn gynghorwr oherwydd fy noethineb? O ran hynny, tybiais lawer tro nad wyf mor ddoeth ag y mae pobl yn meddwl fy mod. Ond rhaid i mi beidio cyfaddef.”

“Ie,” ebai ef yn uchel wrth y ddau gyfrwys, “gwisg ogoneddus yw. Pan wél y tywysog hi, helaeth fydd eich clod.”

Aeth i'r llys, a dywedodd wrth y brenin fod y wisg yr harddaf a welodd erioed, ac y dywedid na welai neb ond y doeth hi.

Dydd gwisgo'r wisg a ddaeth, ac yr oedd y tywysog i fynd ar dro ymysg ei bobl y dydd cyntaf y gwisgai hi. “Caf weld pwy ohonynt fydd ddoeth,” ebe ef. Daeth gweision y tywysog at y ddau deiliwr i ddechreu, i baratoi lle i'r tywysog ymwisgo. Ni welai neb ddim ar y gwŷdd, ond yr oedd pawb am yr uchaf yn canmol y dillad; pawb yn ofni i'r lleill ddeall nad oedd yn eu gweled, ac felly ganfod ei fod yn annoeth.

Toc, dyma'r tywysog yn dod. “Mae'r wisg ardderchog yn aros y tywysog,” ebe bardd oedd yno, “gwisg o aur ac o arian, o borffor a sidan.” Onid yw y wisg yn un ardderchog, fy nhywysog?” ebe'r prif gynghorwr.

Safai'r tywysog yn syn. Gwelai'r gwŷdd gwag. Gwelai'r ddau deiliwr yn cymeryd arnynt eu bod yn dal llond eu breichiau o ddillad.

“Yr argen fawr,” ebe'r tywysog wrtho ei hun, “tybed nad wyf yn gall? Welaf fi ddim byd, a dyma fy neiliaid i gyd yn edrych ar rywbeth a llond eu llygaid o edmygedd. Ond rhaid i mi beidio cyfaddef.” Ac ebai ef yn uchel,—


“Y mae'r wisg yn edrych yn dda. Gwisger fi ynddi.”

Tynasant ei ddillad, ac yna cymerasant arnynt ei wisgo. Cymerai'r ddau gyfrwys arnynt estyn dilledyn ar ol dilledyn, cymerai y gweision arnynt eu bod yn eu derbyn, a gwisgent hwy am y tywysog. Yna, cychwynnodd y tywysog noeth allan. Cymerai ei ddeiliaid oll arnynt eu bod yn gweled y wisg, rhag eu cyfrif yn anghall.

“Hei,” ebe rhyw fachgen bach oedd yn chware ar yr heol, “does gan y tywysog ddim am dano.”

“Taw,” ebe rhywun, rhag i bawb weled dy fod yn ffol.”





AURELIA AURITA.

**RHYFEDDODAU'R MOR.**

## IX. AURELIA AURITA.

**U**N o ryfeddodau'r môr yw teulu mawr y Medusae, sy'n nofio'n dawel ac yn brydferth yn ei ddyfnderoedd. Maent yn ystwyth iawn, a gallant wneyd eu hunain yn bob ffurf bron. Ar lun glawlen neu lun cloch y maent pan wrth eu bodd. Ond, os cyffyrddir â hwynt, gallant fynd yn bel gron. Weithiau troant eu hymylon i fyny, a byddant fel cwpan. Mae'r geneu odditanodd, twll crwn yng nghanol yr anifail.

Mae'r creaduriaid prydferth hyn bron yn dryloew; ac weithiau yn wyrdd gwan, neu gochwyn, neu las. Mae rhai ohonynt yn oleu yn y tywyllwch.

Mae rhai yn gymaint a saith troedfedd ar eu traws; ond y maint cyffredin yw o un droedfedd i bump. Pedair yw rhif y breichiau fel rheol. Dodwant lawer o wyau, ac epiliant yn gyflym.

## CAROL NADOLIG

(Rhif 13.)

## "Awn, ac Addolwn."

\* \* \*

JOHN M. HOWELL, Aber Aeron.

L. J. ROBERTS, y Rhyl.

DOH G.

{	s <sub>1</sub> :-  s <sub>1</sub> :l <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-  s <sub>1</sub> :-	d :-  d :r	d :-  t <sub>1</sub> :-
	m <sub>1</sub> :-  m <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :-  m <sub>1</sub> :-	s <sub>1</sub> :-  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :-  s <sub>1</sub> :-
	l.Eng - yl ar -	dderch - og!	pam y cyn -	hull - wch,
	d :-  d :d	d :t <sub>1</sub>  d :-	d :-  m :m	f :-  f :-
	d <sub>1</sub> :-  d <sub>1</sub> :d <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :-  d <sub>1</sub> :-	m <sub>1</sub> :-  m <sub>1</sub> :m <sub>1</sub>	r <sub>1</sub> :-  r <sub>1</sub> :-

{	d :-  s :l	s :-  f :m	r :-  r :m	r :-   - :
	s <sub>1</sub> :-  d :d	d :-  d :-	d :-  d :d	d :-  t <sub>1</sub> :
	Uwch meusydd	Beth - l'em	fech - an a	thlawd?
	m :-  d :d	l :-  l :s	l :-  fe :fe	s :-   - :
	m <sub>1</sub> :-  m <sub>1</sub> :m <sub>1</sub>	r <sub>1</sub> :-  r <sub>1</sub> :m <sub>1</sub>	f <sub>1</sub> :-  r <sub>1</sub> :r <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :-   - :

D.t.

{	t <sub>1</sub> m :-  s :d'	d' :-  t :-	l :-  s :f	f :-  m :-
	s <sub>1</sub> d :-  d :m	r :-  r :-	r :-  m :r	r :-  d :-
	"O! mae ein	Bren - in,	Bren - in Go	gon - iaut,
	r s :-  s :s	s :-  s :-	t :-  d' :s	s :-  s :-
	s <sub>1</sub> d :-  m :d	s :-  s :-	f :-  m :t <sub>1</sub>	d :-  d :-

f.G.

{	s :-  d' :t	l :r  m :f	m :-  m :r	d s <sub>1</sub> :-   - :
	d :-  m :r	d :r  de :r	d :-  d :t <sub>1</sub>	d s <sub>1</sub> :-   - :
	Wed - i dod	yn - a yn	Geid - wad a	Brawd."
	s :-  se :se	l :-  s :l	s :-  s :f	m t <sub>1</sub> :-   - :
	m :-  m :m	f :-  m :r	s :-  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	d s <sub>1</sub> :-   - :

CYDGAN. *gwan.**cryfhaer.*

}	m :—  m :r	d :—  d :—	f :—  f :m	m :—  r :—
	s <sub>1</sub> :—  d :t <sub>1</sub>	l <sub>1</sub> :—  l <sub>1</sub> :—	l <sub>1</sub> :—  r :d	d :—  t <sub>1</sub> :—
	Awn ac add - ol - wn	Fren - in Go -	gon - iant,	
	m :—  s :s	l :—  f :s	f :—  l :l	s :—  s :—
d :—  d :d	f :—  f :m	r :—  r :r	s :—  s :f	

*cryf.*

}	s :—  l :s	s :f  m :r	d :—  r :t <sub>1</sub>	d :—  — :
	d :—  m :m	r :—  d :l <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :—  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :—  — :
	Sydd i ni hedd - yw yn	Geid - wad a	Brawd.	
	s :—  m :l	l :—  s :f	m :—  f :r	m :—  — :
m :—  de :de	r :r <sub>1</sub>  m <sub>1</sub> :f <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :—  s <sub>1</sub> :s <sub>1</sub>	d <sub>1</sub> :—  — :	

- 1 **E**NGYL ardderchog! pam y cynhullwch  
Uwch meusydd Bethl'em fechan a thlawd?  
"O! mae ein Brenin, Brenin Gogoniant,  
Wedi dod yna yn Geidwad a Brawd."

*Cydgan*—Awn ac addolwn Frenin Gogoniant,  
Sydd i ni heddyw yn Geidwad a Brawd.

- 2 Addfwyn fugeiliaid, pam y prysurwch,  
Gyda'r fath frys, mor aiddgar eich trem?  
"Meibion y wawrddydd, ddygodd y newydd  
Fod Crist yr Arglwydd yn Bethlehem."

*caner—*

{	f		m	:-		r		d	s <sub>1</sub>
yn	Beth	-	le	-	hem.				

*Cydgan*—Awn ac addolwn Frenin Gogoniant, &c.

- 3 Seren brydferthaf! draw yn y dwyrain,  
Beth yw dy neges? ple yr ei di?  
"Dangos i'r doethion, lety anhylon  
Mair, a'r Mab bychan—fy Nghrewr i."

*caner—*

{	f		m	:-		r		d	s <sub>1</sub>
fy	Nghre	-	wr	i.					

*Cydgan*—Awn ac addolwn Frenin Gogoniant, &c.

- 4 Doethion urddasol! pwy sydd yn Salem?  
I swyno dysg ac i hawlio moes?  
"Rhoddwn anrhegion, rhoddwn addoliad  
I'r Hwn er achub a ddioddef groes."

*caner—*

{	f		m		r	:-		r		m		r
ac	i	hawl	-	io	moes.							
{	f		m	:-		r		d	s <sub>1</sub>			
a	ddiodd	-	ef	groes.								

*Cydgan*—Awn ac addolwn Frenin Gogoniant, &c.

## TAITH YN AFFRIG.



**T**AITH drwy froydd unig, distaw, poeth canol-barth Affrig,—gwn am rai a'i gwnae h. Gadewch i ni, mewn dychymyg, yn ein gwlad oer ni, fynd gyda hwy.

Cychwynwn o'r pentref, ar fin nos, wedi haul llethol y dydd. Mae'r lleuad yn codi draw. Mae ein ffordd am ychydig rhwng perthi o ddrain y wlad. Yna, deurn i gaeau *maize* a *millet*. Wedi hynny, cawn ein hunain yn y wlad agored, a dim byw yn y golwg ond ambell hydd pell clust-deneu. Wedi nos o drafaelio hyd wastadeddau a bryniau isel, dyma ni uwchben dyffryn dwfn. Cors sydd ar ei waelod, a rhaid croesi honno.

Sut yr ewch drwodd? Tynnu hynny o ddillad sydd bosibl, a cheisio cadw ar y llwybr. Hynny fydd y gamp. Neidiwch dros y llanercchau gwyreddion. Rhowch eich traed ar wreiddiau'r pren papurus. Dyna chwi i lawr dros eich pen i'r mwd du, ffaidd. Dyna chwi i fyny eto, a mwd lond eich llygaid. Beth yw'r mwd du? Tyfiant cors, a dail blynyddoedd lawer, heb galedu yn fawn neu lo.

O'r diwedd, dyma ni drwodd, a'r cludyddion duon yn dod o un i un, wedi awr o ymgais caled i gludo eu beichiau trwy'r gors feddal, fradwrus. A dyma ni'n awr ar ymyl coedwig. Mae'n llwybr yn arwain iddi,—a dyma ni yn ei gwyll. Oni bai fod y wawr yn torri, buasai raid i ni aros yn y gors i ddisgwyl codiad haul. Mae'r coed yn codi i uchder anhygoel, ac i fyny'n uchel uchel gwelwn ddail, ac feallai blodau, ar eu pennau, ac megis ar wyneb yr awyr las. Weithiau ymhongia tuswau ardderchog o flodau rhyw blanhigyn dringol oddiar gyffion y coed. Dro arall, gorchuddir cyff rhyw goeden gan fwsogl pluog, cain. Oes rhywun yn byw yn y goedwig? Oes, lawer iawn o loewod byw. Ar ein llwybr o'n blaen y mae cannoedd o rai bychain gleision, a'u hadenydd yn cyffwrdd yn ysgafn â'r mwd. Yn eu mysg daw ambell un mawr purwyn, tel ysbryd. Y mae llawer o rai ereill yn meddu adenydd tryloew, gydag yspotiau dugoch.

Wedi awr o deithio caled, gwelwn ben y llwybr drwy'r goedwig. Erbyn hyn y mae'r haul yn gwasgar cennlif o oleuni ar y bryniau moelion acw. Yna, ar fin y goedwig, codwn ein pabell, bwytawn ein boreufwyd,—ynte swper a ddylem ei alw,—a chysgwn hyd nes y peidio gwres angerddol y dydd.



Y CYDSER ORION.

**YMLLITH Y BYDOEDD PELL.**

**F**E ddigwydd ar dro y deuwch ar draws rhai nad ydynt wedi dysgu sylwi ar y pethau o'u hamgylch. Tybiant nad oes un byd anianyddol yn bod ond y byd bach y trigant hwy arno; ac os ar ddamwain y troant eu golygon uwchben, tybiant mai rhyw fil a mwy o addurniadau tiws yw y ser, wedi eu creu i dafu mân belydrau

i oleuo ein planed fach ni. Ond mae darllenwyr CYMRU'R PLANT wedi dysgu sylwi ar y pethau o'u cwmpas, a chodi eu golygon fry i syllu ar yr haul, y lleuad, a'r ser yn troi yn eu cylchau. Seren yw yr haul, a haul yw pob seren. Heuliau yw y ser sefydlog, y rhai, fel ein haul ni, a wasanaethant i oleuo, cynhesu, a chynnal cyfundrefnau o blanedau ereill a'u planedau ymddibynnol; a geill pob un o'r rhai hyn fod yn drigfan i greaduriaid rhesymol ac afresymol hefyd. Nid goleuo ein daear fach ni yw diben y ser. Byddai i gymaint ag un leuad ychwanegol roddi llawer mwy o oleuni na hwynt holl gyda'u gilydd; yn enwedig pe trefnid hi i oleuo ar amserau pan fyddai ei chymhares bresennol islaw y terfyngylch. Ni chrewyd hwynt er ein mwyn ni, canys y mae miloedd a miliwnau ohonynt nas gwelir heb gynhorthwy pellwydr, ac y mae llawer mwy ohonynt yn rhy bell i olygon dynolryw byth eu cyrraedd. Mae eich meddyliau, gobeithiaf, wedi eu goleuo yn rhy dda i feddwl, megis plantos yn bwhwman, fod popeth wedi ei greu er mwyniant dyn. Gwyddoch nad yw y ddaear y trigwn ni arni ond planed fach yn troi yn ddidor o amgylch yr haul, a chydha hi y try planedau a llu o leuadau, yr oll ohonynt, yn ol pob tebyg, yn llawn o fywlon galluog mewn gwahanol ffyrdd.

Os trowch eich golygon tua deg o'r gloch ar noson glir tua'r Nadolig, i gyfeiriad awyr y de, i'r man lle y safai yr haul ganol dydd, chwi gewch weled y seren Sirius, neu "seren y ci" (*Dog Star*), yn disgleirio yn ei gogoniant. Hi yw y seren ddisgleiriaf ar y wybren. Wedi i chwi ei chantod, trowch eich gwynebau ychydig i'r de oddiwrthi, a chwi gewch weled y cydser (*constellation*) disgleiriaf a ellir ei weled, sef y cydser Orion.

Darlunnir Orion fel dyn a chleddyf wrth ei wregys, pastwn yn ei law ddeau, a chroen llew yn ei aswy law. Cynhwysa y cydser ardderchog hwn 78 o ser gweledig, ac amryw ohonynt y ser amlycaf yn y wybren. Yn ei sawdl y mae y seren ysblennydd Rigel, o'r maintioli mwyaf (*first magnitude*). Ychydig i'r gogledd ddwyrain o Rigel, mae "gwregys Orion," sef y tair seren a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enwau hwyl-lath, tri brenin, neu lathen Fair. Ychydig oddiwrth y gwregys, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyrainiol, sef ar ysgwydd aswy Orion, y mae Betelgeuse (*1st mag*) Drachefn, yn gywir orllewinol, sef ar fynwes Orion, mai y seren ddisglaer Bellatrix (*2nd mag*).

Mae y cydser hwn wedi ei addurno yn fwy mawreddog na'r un arall, ac mae yn sicr fod ei wregys mewn modd penodol wedi tynnu sylw yr arsyllwyr boreuaf; oblegid, heblaw eu bod o'r un maintioli, sef o'r ail, y mae eu cyflead hefyd yn y wybren yn cysylltu hynodrwydd

neillduol â hwynt, sef bod y tair yn rhes union, a'r un pellder yn gymwys rhyngddynt.

Anhawdd penderfynu beth yw yr ychwanegiad a wnaed at Orion yn y gwahanol oesoedd, ond y mae yn eglur i bob darlennydd di-duedd, fod gwregys neu rwymau Orion i'w ddeall am gydser, neu ran o gydser, yn ol hanesion yr oesoedd boreuaf. Gan fod y Beibl yn cydnabod hyn, y mae nid yn unig yn brawf o hynny, ond hefyd yn gosod y fath urddas ar yr hyn sydd dan sylw, ag i beri fod ychydig ymchwiliad pellach i'r hanes yn deilwng orchwyl i'r Cristion mwyaf difrifol a goleuedig. Yn y Beibl cawn y Crewr mawr yn holi Job am ei wybodaeth anianyddol, ac ymhlith yr amrywiol ofyniadau pwysig y mae'n gofyn,—“A rwymi di hytrydwch Pleiades, neu a ddatodi di rwymau Orion?” Ac ychydig yn ganlynol y mae yr Anfeidrol ddoeth yn gofyn,—“A adwaenost ti ordeiniadau y nefoedd?” Y mae hyn yn ddigon o brawf di-rodres a di-duedd mai trenu ser yn y wybren yw gwir ystyr yr ymadrodd “ordeiniadau y nefoedd;” ac os felly, pa raid i neb wrth eu hesbonio? Byddent yr un fath yn hollol a phe byddent yn ceisio egluro iaith fatheiniol ar rai o hen adfeillion yr Aifft a Chaldea, pryd mai fel ymadroddion seryddol y maent i'w deall, ac o ganlyniad, eglurhad seryddol sydd yn ofynnol arnynt. Y mae ceisio egluro rhannau anianyddol y Beibl yn dduwinyddol, heb yn gyntaf eu hegluro yn wyddonol, yn gam i'r eithaf â'r darlennydd, ac yn ddirdyniad noeth ar y testyn.

Gadewch yr awenau ar warr eich dychymyg, a gadewch iddo garlamu cyn gyflymed a goleuni i'r seren ddisglaer Sirius, a chwi gyrhaeddwch yno ymhen ugain mlynedd. Os yw goleuni yn teithio deuddeg miliwn o filliroedd mewn un munud, pa mor bell yw Sirius? Wedi i chwi deithio hanner y ffordd tua'r haul mawr yna, trowch eich golygon yn ol tua'n haul bach ni, a chwi gewch ei weled draw acw, yng nghanol swp o fân ser, bron, bron a diflannu. Wedi i chwi gyrraedd yno, trowch eich golygon i gyfeiriad ein haul bach ni drachefn, a bydd y seren fach a welsoch gynt wedi diflannu.

Wedi i chwi twynhau eich hunain ddydd Nadolig, os bydd y wybren yn glir y noson honno, ewch allan gyda'ch cyfeillion i weled Sirius yn disgleirio yn ei ogoniant. Wedi i chwi ei ganfod, chwi gofiwch mai haul mawr ydyw yn sefyll gymaint a miliwn o weithiau'n mbellach oddiwrth y ddaear nag y saif ein haul ni oddiwrthi. Y mae ugeiniau o weithiau'n fwy na'n haul bach ni, ac fe wasgara o'i gylch lawer mwy o oleuni a gwres i oleuo a chynhesu planedau ei gyfundrefn. Ar y planedau hynny y mae bodau rhesymol yn trigiannu. Paham nad oes? Os ydynt yno, yr un Nadolig sydd ganddynt hwy draw yna ag sydd gennyh chwi yr ochr yma. Gan fod eu haul mawr hwy gymaint mwy na'n haul ni, fe barha ei oleuni

a'i wres am oesoedd yn hwy. Ymhen miliynau ar filiynau o oesoedd eto, bydd ein haul bach ni wedi mynd i rywle. Bydd Sirius yn tywynnu yn y de y pryd hynny. Pa le bydd plant Cymru yr adeg honno?

Blwyddyn newydd dda i'm darllenwyr.

SIGMA.

HWN F DD MAWR.

**D**RAW rhwng bryniau gwlad Judea  
Gwelaf faban, gwelaf frawd,  
Wedi ei rwymo mewn cadachau  
Yn y preseb isel tlawd;  
Ymddanghosodd llu o'r nefoedd  
Mewn gogoniant ar y llawr,  
Cyhoeddasant gyda'r doethion  
A'r bugeiliaid llawen galon  
Am y baban,—“Hwn fydd mawr.”

Hwn fydd mawr, er mewn cadachau,  
Er yn dlawd a gwael ei lun.  
Pan ddaeth yma mewn dinodedd,  
“Mab y saer” oedd “Mab y Dyn;”  
Os oedd golwg dlawd, resynus,  
Wrth y preseb gwael yn awr,  
Fry hyd lwybrau y ffurfafen,  
At y lle fe deithial seren,  
Gan gyhoeddi,—“Hwn fydd mawr.”

*Oerddwr, Beddgelert.*

Pan ddisgynnodd o'r gogoniant,  
Pan y daeth i'n byd mewn cnawd,  
Ca'dd ei wrthod a'i ddiystyrnu,  
Dioddefodd boen a gwawd;  
Ond mae'i deyrnas fyth i lwyddo  
Dan belydrau dwyfol wawr,  
Pan ddaw pobloedd daear gyfan  
Oll yn eiddo iddo'i hunan,  
Yn ei gorlan,—“Hwn fydd mawr.”

Dyma seinir gan seraffiaid  
A cherubiaid ag un llef, [oedd  
“Hwn fydd mawr,” gan wych dyrfa-  
Archangylion nef y nef;  
A phan gesglir at eu gilydd  
Holl dyrfaoedd seintiau'r llawr,  
Wedi eu gwneuthur oll yn wynlon  
Ddisglaer berlau yn ei goron,  
Yn y nefoedd,—“Hwn fydd mawr.”

JOHN R. HUGHES.

GWLAD FY NGENEDIGAETH.

'**R**WY'N caru'r wlad lle'm ganwyd,  
A Chymru ydyw hi,  
Paradwys ar y ddaear!  
Yw Cymru wen i mi;  
Faint bynnag ydyw gwycheder  
A chyfoeth gwledydd pell,  
Fy nghalon sydd yn sisial  
Fod Cymru'n llawer gwell.

'Rwy'n caru'r wlad lle'm ganwyd,  
Hen wlad y Cymry fu,  
Hen wlad y bardd a'r llenor,  
A'r cerddor ydyw hi;  
Rhyw fôr o gân yw Cymry,  
Hen wlad y delyn yw,  
'Does unman ar y ddaear  
Fel Cymru wen i fyw.

'Rwy'n caru'r wlad lle'm ganwyd,  
Hen wlad yr Ysgol Sul,  
Yn hon y dysga'r miloedd  
I rodio'r llwybr cul;  
Mae cofio'r diwygiadau  
A'r dylanwadau fu  
Yn amser yr hen dadau  
Yn anwyl iawn i mi.

*Pont Rhyd y Gross.*

AP BETHEL.



## A ENNILL CRIST INDIA?

II. YR OCHR ARALL I'R CWESTIWN.



KA y dengys yr Hindwad fawredd a chadernid ei grefydd, o'i chydmaru a Christionogaeth eiddil a dirmygedig India, y mae'r Cristion yntau yn llawn gobaith. Teimla ef, os mai Brahma bia'r gorffennol, mai Crist a bia'r dyfodol. *Y mae Crist wedi gwneyd mwy nag ennill India, dyna ei ddaid.*

1. Mae'n ennill y byd. Cristionogaeth yw crefydd y byd erbyn heddyw. Nid oes yr un grefydd a chymaint o ddeiliaid, ac ni fu yr un erioed. Mae un ran o dair o holl bobl y byd yn galw

eu hunain ar enw Crist. Sylwch ar gyflymdra ei chynnydd; yn 1800, pan oedd poblogaeth y byd yn 1,000 miliwn, 200 miliwn, sef y bumed ran, oedd yn Gristionogion; yn awr, pan mae pobl y byd yn 1,544 miliwn o nifer, y mae 534, sef y drydedd ran, dan faner Crist. Y mae'n cynhyddu ym mhob man hefyd. O Greenland oer fynyddig i Terra del Fuego ystormus, o Madagasgar i enau'r Congo, o Japan i Ynysoedd Mor y De, gwelir hi'n ymdaith yn amlder ei grym. Ac nid ymysg anwariaid yn unig y llwydda, ond hefyd ymysg cenhedloedd gwareiddiedig, megis yr Indiaid, y Japaniaid, a'r Chineaid. Ni fedr yr un grefydd arall ddangos hanes fel hyn.

2. Mae wedi gorchfygu hen grefyddau mor gadarn a Hindwaeth. Cododd o fedd gŵr galarus, croeshoeliedig, cynefin a dolur. Llafurwr ac Iddew oedd yr Iesu. Cymerwyd ef gan ei genedl ei hun, wedi tair blynedd o waith cyhoeddus, a thraddodwyd ef i ddwyllaw eu gelynon, y Rhufeiniaid. Rhoddwyd ef i farwolaeth ellidgedig y groes. Pa fodd y gallasai crefydd gychwyn yn is? Ond ymhen llai na deugain mlynedd, dywed Tacitus fod "llu mawr" o rai'n dwyn ei enw yn marw drosto yn Rhufain ei hun. Hawdd y gallai hen grefyddau y byd,—meddwl diwylliedig yr Iddew, y Groegwr, a'r Rhufeiniwr,—ddirmygu y grefydd newydd hon. Ond lle y maent heddyw,—er eu cadernid, er eu diwylliant, er eu llenyddiaeth, er eu bod wedi ymblethu a meddwl eu deiliaid? Yr un fydd tynged Hindwaeth hefyd.

3. Y mae dull ei hymlediad yn anorchfygol. Ni wna erledigaeth ond prysuro ei chynnydd. Try wawd yr uchelwr yn foddion cynnydd. Apelia at yr isel radd. Hi yn unig, o holl grefyddau'r byd, sy'n apelio at ddyd fel dyn,—dysgedig ac anysgedig, caeth a rhydd.

Mae'r Hindwaid yn cymeryd ei dulliau,—ei hysbryd cenhadol, ei phregethu, ei hysgolion. Mae dysgawdwyr yr Hindwaid yn gweled gogoniant yr Iesu; dywed un fod gweled yr Iesu wedi rhoi ysbryd newydd, pur a dyrchafol, yn yr hen Hindwaeth. Yr yspryd hwnnw sydd anorchfygol, a gwna wyrthiau yn yr India eto.



ROBIN GOCH.

**ROBIN GOCH.**

**O** BOB aderyn, robin yw cyfaill y plant. Gwyddant am ei gerddediad destlus, am ei fron goch, am ei nyth yn isel i lawr yn eu cyrraedd, ac am ei wyau melynwyn ag yspotiau cochion arnynt.

Robin bach fedd y galon dyneraf o'r adar i gyd. Efe sydd fwyaf ffyddiog hetyd,—daw i'n gerddi ac at ein drysau heb ofni dim. Erys gyda ni trwy'r gauaf, tra mae'r gog a'r wennol wedi ein gadael am wlad fwy hafaidd.

Rhoddwyd dau robin mewn cawell gyda'u gilydd unwaith, ac ni wnaent ddim ond ymladd. Ymladdent am bob briwsionyn defnid iddynt. Ond, trwy ryw ddamwain, torrodd un ohonynt ei goes. O hynny allan yr oedd y ddau yn ffrindiau mawr, gwnai yr iach bopeth fedrai i'r claf, ac ni chymerai fwyd nes byddai y llall wedi cael ei ddigoni.

Rhoddwyd ciw llinos bach newynog yng nghawell robin unwaith. Ehedodd y robin bach caredig yn syth, wrth weled ei newyn, i chwilio am fwyd iddo, a daeth a bwyd yno nes y cafodd y llinos ddigon.

Cofiwch am robin yn y gaeaf. Yn yr haf bwyty bryfed copyn, pryfed genwair, malwod, a chwilod. Ond y gaeaf y mae'n galed arno. Cofiwch am ei drydar bach dedwydd, a'i galon garedig; a rhowch friwsion iddo.

## INGER.

## IV. YR ADERYN BACH GWYN.



ORRAI bore Nadolig, pell pell yn ol, yn dawel a sanctaidd ar wastadeddau eiraog a chorsydd rhewedig Jutland. Mewn agen ym mur y bwthyn lle trigai mam Inger gynt, yr oedd aderyn bychan gwyn. Yr oedd ei blu cyn feined a'r sidan, edrychai cyn ysgafned a'r gwawn. Ond yr oedd ei hadenydd yn fyrion iawn. Lle, tybed, y cai aderyn fel hyn fwyd?

Toc, clywai swn adar lawer,—swn gortoledd, a mwyniant, a mawl. Ehed-

odd o'r agen i fuarth ffermdy gerllaw. Yno gwelai dyrfa fawr o adar uwch ben ysgub o yd. Byddai'r ffarmwr yn cadw'r ysgub fwyaf o yd heb ei dyrnu, er mwyn ei rhoi i'r adar ar fore Nadolig; er mwyn i'r adar, hwythau, fod yn llawen ar fore'r dydd y ganwyd Gwardedwr y byd.

Bore Nadolig oer, ond clir a heulog, oedd. Yr oedd trydar yr adar yn codi fel cân o fawl llawen o'r fan yr oedd yr ysgub o hyd. Ac ymysg yr adar yr oedd Inger,—yn aderyn bach gwyn, ofnus, gwylaidd, a chariadus. Ni wyddai'r adar beth oedd eu cydymaith, ond gwyddent yn y Nef.

Aeth y Nadolig heibio. Cydiodd y Gaeaf yn dynnach dynnach yng ngwledydd y gogledd, a daeth yn fwy-fwy anodd i'r adar gael bwyd. Ymysg yr adar mwyaf diwyd yn chwilio am fwyd yr oedd yr aderyn bach gwyn. Nid oedd yr un aderyn mor chwim ei aden, ac mor gyflym ei lygad. Pan daflai plentyn friwision dros y drws, pan daflai gwas ychydig geirch o'r ystabl, yr aderyn bach gwyn fyddai gyntaf yno. Ond, cyn bwyta dim ei hun, ai o gwmpas i ddweyd wrth yr adar ereill. Dywedai'n gyntaf wrth ryw aderyn fyddai'n wan, neu'n glaf, gael iddo ehedeg yn gyntaf i bigo'r geirchen oreu. Os byddai gweddill, cymerai'r aderyn bach gwyn un geirchen yn unig, a byth fwy nag un.

Yr oedd y gwanwyn yn dod, ac yr oedd yn haws i'r adar gael bwyd. Daeth llai o waith i'r aderyn gwyn bach ffyddlon. Nid oedd raid iddi mwy chwilio linteli ffenestri lle'r oedd plant bach caredig yn cysgu, na gwyllo lle byddai'r cefylau'n cael llith, na dilyn ol y certi yn mynd a'r ceirch a'r haidd i'r odyn.

Yr oedd dydd dioddefaint yr Iesu yn nesu,—y dydd ar gyfer yr hwn yr hoeliwyd ef ar y pren, y dirmygwyd ef, ac y gwaradwyddwyd ef oherwydd ei gariad atom ni. Y noson o'r blaen, yr oedd yr

aderyn gwyn wedi casglu i adar bach gweiniaid a chlaf ddigon o friwsion i wneyd torth gymaint a'r dorth y rhoddasai ei throed arni gynt,—ond un briwsionyn.

Y bore hwnnw yr oedd yr aderyn gwyn wedi cael briwsionyn dafesid iddo gan eneth fach. Cyn ei fwyta, gwelai aderyn bach clwyfedig a newynog. Ehedodd ato, a gollyngodd y briwsionyn wrth ei droed.

Gydag i'r briwsionyn ddisgyn, teimlai Inger y ddwy aden wen yn mynd yn hwy. Daeth rhyw hiraeth angerddol am ei mam drosti, ac am yr eneth oedd wedi gweddio drosti. Teimlai fod rhyw gariad lond ei chalon yn ei thynnu i fyny tua'r haul, a gwelid hi'n esgyn, esgyn, nes oedd yr adenydd gwynion wedi colli o'r golwg yn ysblander euraidd yr haul.

Rywsut, daeth pawb i wybod mai Inger oedd. A phan adroddir ei hanes ar ddolydd rhewedig Jutland i blant ar fore'r Nadolig nesaf, nid diwedd Inger tydd suddo o'r golwg i bwl yn y llaid a'i throed ar dorth, ond esgyn i fyny i'r goleuni, a llond ei chalon o gariad gostyngedig.

### ANNIE MARY.

Merch fechan Mr. a Mrs. Jacob Phillips, Seymour Street, Aberdar.

**B**EDD i dirion flodau hafddydd  
Yw y gaeaf blin erioed,  
Crina'r ddeilen ar y gangen,  
Cartre' pryder yw y coed;  
Hithau'r lawnt, fu gynt yn flodau  
Tlysa'r duwiau, sydd yn brudd,  
Wedi colli'r neithdar dwyfol  
Roes y tlysmi ar ei gruidd.

Haf flodeuyn oedd dy fywyd  
Dithau, Annie Mary fywn,  
Er na fu ond un Mehefn  
Ar dy ruddiau'n rhoddi swyn;  
Galwodd Ohwefrol a'i auafwynt  
Heibio'r blodau gyda'r nos,  
Gwywaist dithau. A! rhy gynnar  
Darfu iaith dy wefus dlos.

Fel yr wyla'r lawnt amddifad  
Am y blodau lonna'i bron,  
Ac yr wyla'r galon unig  
Yn y ddrycin ar y don,  
Felly'r wyla'th riaint anwyl  
Dithau, Annie Mary fach,  
Am flodeuyn gollwyd ynnot,—  
Nid oes un a chalon iach.

Sul y Blodau,—pan y delo  
Yn y fynwent,—gysegr hedd,  
Taena rhyw garedig ddwylo  
"N'ad fi'n anghof" ar dy fedd;  
Yno'r wylant yn hiraethlawn  
Pan rydd adgof serch yn fflam.  
Beth yw dagrau? Onid blodau?  
Blodau calon tad a mam!

Annie Mary! Cwsg yn dawel  
Yn y fynwent ar y bryn,  
Cwsg lle claddwyd llawer gobaith  
Ieuanc yn ei flagur gwyn;  
Fe ddaw angel gyda'r wawrddydd,  
Ddengys it yr ardal dlos,  
Lle mae blodau yn anfarwol,  
Lle mae'r dydd ar ol y nos.

*Coleg Bala-Bangor.*

E. B. POWELL.

**MORDAITH CAPTEN COOK.**

(CYFRES NEWYDD,—Y DRYDEDD.)

## XII. CODI ANGOR.

**I**FOR. Yr oeddech yn dweyd fod y rhai a anfonwyd i'r lan, i saethu colomenod i'r cleifion, wedi llwyddo i gantod ffrydlif ragorol o ddwfr croew.

**TAD.** Adroddasant hefyd am ryw anifail rhyfedd na welsant ei fath o'r blaen. Yr oedd o ran maint, furf, a lliw, yn gyffelyb i'r milgi cyffredin, ac yn un eithatol o gyflym. Ar fore y 24ain, pan oedd y Capten yn rhodio ar y lan, heb fod ymhell oddiwrth y llong, cafodd yntau olwg ar greador o'r un desgrifiad. Yn ol y darluniad a gafodd Mr. Banks ganddynt o hono, yr oedd o'r farn nad oedd ei rywogaeth yn adnabyddus yn flaenorol. Erbyn bod y llong yn barod i'r cefnfor y tro hwn, yr oedd yn cynnwys profion bod Mr. Banks wedi cipio gwybodaeth go lwyr o holl deyrnas lysieuol y byd; a hynny drwy lafur anghyffredin o fawr, a pheryglon enbyd iawn. Er diogelu ei drysorfa lawn, amrywiol, a chywrain, symudodd hi i ystafell ddiogelaf y llong, lle yr oeddid yn cadw'r bara. Yn fore ar yr ail o Orffennaf, antonodd y Capten y meist'r allan yn y cwch i chwilio am y llwybr diogelaf i hwylio allan o'r porthladd i'r cyfeiriad gogleddol. Yr oedd y Capten wedi bwriadu myned allan i'r môr y diwrnod hwnnw, ond nis gallodd y meist'r gael y llwybr diogel hyd y dydd canlynol. Yr oedd amryw o'r creigiau coral ar ochrau y ffordd yr oeddynt i hwylio allan drwyddi yn y golwg pan oedd y llan yn isel. Glaniodd y meist'r ar un ohonynt, a chantyddodd yno liaws o'r cregin-bysg cocos, gwelodd dri o rai anferthol o fawr, fel yr oedd un ohonynt yn fwy na digon o bryd i ddau ddyn. Yn yr un

man, aeth ar draws gwahanol fathau o gregin-bysg rhagorol; a chlododd gydag ef gyflawnder ohonynt, dros ben digon o wled d i'r holl gwmni. Ar y trydydd dydd codwyd yr angor, lledwyd yr hwyliau; ond cyn myned o'r porthladd, cafwyd nad oedd y llong yn hollol ddianaf. Chwiliwyd hi yn llwyr o'i mewn ac o'i hamgylch, nes dyfod o hyd i'r anaf, a gosodwyd hi yn gymwys i wynebu'r cefnfor, ac mewn byrr amser yr oedd yr Endeavour ar gefn y weilgi, a'r holl ddwyllaw yn gweithio i gludo y nwyddau o'r badau i twrdd y llong, er ei gosod yn barod i'w mordaith. Cyn cychwyn, ar y chweched, aeth Mr. Banks, yng nghwmni Mr. Gore a thri o'r dwyllaw, mewn bad bach i fyny yr afon, gyda'r amcan o dreulio ychydig o ddyddiau i archwilio y parth hwnnw o'r wlad yn fanylach.

**IFOR.** Beth oedd y lleill yn wneyd hed nes y daeth yr archwilwyr yn ol?

**TAD.** Nid wyf yn gwybod; ond yr wyf yn tybio i'r Capten caredig adael pawb at eu rhyddid, rhai yn gorffwys, ereill yn ym-bleseru, a rhai yn siarad am y peryglon a'r gwardigaethau a brofasant laweroedd o weithiau, rhai oedd yn hawdd ganddynt eu rhestru gyda gwrthiau goruwch naturiol. Ar yr ymweliad crybwyll-edig, ni adawyd dim i ddianc sylw manwl Mr. Banks a'i gyfeillion, mewn perthynas âg hanesiaeth anianyddol, na'r hyn a allent ei gasglu o hanes y brodorion. Cawsant brofion diamheuol fod yno rai o'r anwariaid heb fod ymhell oddiwrthynt ar adeg yr ymchwiliad; er na ddaeth yr un ohonynt i'r golwg. Ar ei ymadawiad, enwodd y Capten y porthladd yn Endeavour River.

*Dinas, Rhondda.*

WILLIAM JAMES.

### FFYNNON CALFARIA.

**F**LE agorwyd ffynnon wiw,  
Ar Galfaria,  
'R hon a ylch y dua'i liw,  
Fel yr eira;  
Gwna y ffynnon hon lanhau  
Yr aflana,  
Llwyr faddeuant am bob bai  
A geir yma.

Y mae'r ffynnon ddwyfol hon,  
Yn rhinweddol;  
I'r pechadur du ei fron,  
Mae'n iachusol;  
Ac er cymaint ga'dd lanhad  
Yn ei dyfroedd,  
Rhydd y ffynnon hon iachad  
Eto i filoedd.

Nis gall neb sydd ar y llawr  
Ein gwaredu,  
Oddiwrth ein beiau mawr,  
Ond yr Iesu;  
Awn gan hynny ato Ef,  
Am drugaredd,  
Gwrendy'r Iesu ar ein llef,  
Cawn ymgeledd.

*Llanfairfechan.*

E. JONES.

## CWSG HOLGAR.



R y nos o flaen y Nadolig, rai blynyddoedd yn ol, yr oedd hen ŵr mewn bwthyn wrth droed craig ar lan môr Denmark yn gweithio'n brysur iawn. Cerfiwr pren oedd, a'i waith y nos honno oedd gorffen cerfio delw o bren i'w rhoddi ar ben blaen llong newydd. Llun pen gŵr oedd y ddelw, a gwallt hir a barf laes. Ac odditau yr oedd pais arfau Denmark, sef tri llew a thair calon. Yr oedd tri o wyrion bychain o'i amgylch, ac yn ei holi. "Taid, beth ydyw'r tri llew ydych wedi gerfio?" ebe Frederick.

"O, tri llew Denmark. Wrth feddwl am y cyntaf, byddaf yn meddwl am y brenin Cnut yn uno Denmark â Phrydain; wrth edrych ar yr ail, byddaf yn meddwl am y brenin Waldemar yn uno'r Daniaid ac yn gorchfygu'r gelyn; wrth edrych ar y trydydd, byddaf yn meddwl am y frenhines Margaret yn uno Denmark, Norway, a Sweden."

"Am beth y byddwch yn meddwl wrth weled y calonnau, taid?" ebe Christina.

"Meddwl am Eleonora Ulfeldt yn ei charchar wrth weld un, meddwl am gaptan yr *Hvitfeld* yn marw wrth weled yr ail, meddwl am y cenhadwr Egede yn eira Greenland wrth weled y drydedd."

Nid oedd eisiau esbonio i'r tri phlentyn pwy oedd y rhai hyn. Nid yw plant Denmark fel plant Cymru, heb fedru hanes eu gwlad eu hunain. Nid yw ysgolion Denmark fel ysgolion Cymru, heb son am arwy'r wlad o'u mewn. Gwlad y rhydd a'r dewr yw Denmark; y mae ar y blaen, er ei lleied, i holl genhedloedd y byd. Bydd Cymru felly, ond nid cyn i'w hathrawon ddod yn wladgarol.

"Taid," ebe Hjalmar, y lleiaf o'r tri, "llun pwy yw y pen pren yna?"

Chwarddodd y ddau arall, gan dybio fod cwestiwn y bychan yn un ffol, ond edrychai yr hen wr yn ddfrit iawn.

"Feallai, fy mhlentyn," ebai, gan roddi ei law ar ben melyn y bachgen pedair oed, "y cei di ei weled. Ni chaf fi ei weled byth mwy. Pen Holgar yw."

"Ie," meddai Frederick, "mae yn cysgu tan y Kronborg hyd nes y daw yr amser i wared ei wlad."

"Ydyw, dan y graig acw. Mae'n eistedd ger bwrdd carreg

mawr. Ac yno y mae yn breuddwydio, breuddwydio o hyd. Y mai ei farf laes wedi cydio yn y bwrdd carreg. Ond, pryd bynnag y bydd Denmark mewn perygl, deffry Holgar, a daw i wared ei wlad."

"Yr oeddych yn dweyd eich bod wedi ei weled, taid."

"Do. Yr oeddwn yn ymladd ym mrwydr Copenhagen, ar fwrdd y *Denmark*. Yr oedd y bwledi yn llachio heibio i ni fel cenllysg, ac yr oedd Daniaid dewrion yn marw wrth yr ugeiniau o dan gawod dân ofnadwy y gelyn. Yn y cyfwng hwnnw, gwelem hen wr, o gorff mawr a chadarn, a gwallt hir a barf laes. Yr oedd yng nghanol y perygl, onu yn hollol ddidaro. Yr oedd y bwledi fel pe buasent ofn cyftwrdd âg ef, ond yr oedd ef yn creu difrod erchyll yn rhengau'r gelyn. Wrth ei weled, cymerasom galon, ac ymladdasom fel llewod dros ein gwlad. Holgar oedd, yr wyf yn sicr. Ac yr wyf wedi gwneyd darlun o'i wyneb, yn union fel y gwelais ef. A dyma ef."

Cyn i'r plant fynd i'w gwelyau, yr oedd y teulu oll yn cyfarfod, a dywedid wrthynt hanes Gwaredwr mwy na Holgar, anesid ym Methlehem Judah ar gyfer drannoeth.

Nid rhyfedd fod parch Denmark mor fawr. Dysgir ei phlant i gredu fod Holgar yn cysgu i aros yr adeg i wared ei wlad; a dysgir hwy i gredu fod Iesu Grist yn eiriol er mwyn gwaredu dynol ryw.

### AM FOD CANU YN Y NEF.

CYLYWAIS dderyn bach yn canu  
'N beraidd yn y goedwig werdd;  
'Roedd y blodau fel yn gwenu  
Ac yn gwrando ar ei gerdd;  
Holais i mewn dwys fytyrion  
Am ba beth y canai ef;  
A daeth ateb o fy nghalon,—  
Am fod canu yn y nef.

Gwelais yr aderyn hwnnw  
Eilwaith, yn yr Hydref blin,  
Pan oedd anian wedi marw,  
Pan oedd dall y coed yn grin;  
Eto canu wnai'r aderyn,  
A Ph'r adwys yn ei lef,  
Ie, canu yn y ddrycin,  
Am fod canu yn y nef.

Diolch iti, fwyn aderyn,  
Yn dy ganu cefais hedd,  
Dysgaist imi sut i esgyn  
Heibio'r byd a heibio'r bedd;  
Canu wnaif yng nghanol gwynfyd,  
Canu, canu, fel 'roedd ef;  
Canu wnaif yn stormydd adfyd,  
Am fod canu yn y nef.

*Am wch.*

R. R. THOMAS.


---

— Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

---

— ARGRAFFWYD A ORYHOEDDwyd gan HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, GWYBODAETH.







GENERAL LIBRARY - U.C. BERKELEY



8000882739

